



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.


We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

Red sandstone
July - 12 1871



*

10095 e.g.





T. GALE

D. NEVILL

PARTHORWIC JOHN JONES,

TALIESAN.

PREGETHAU

Y DIWEDDAR

BARC'H. JOHN JONES,

TAL-Y-SARN :

GYDA

RHAGDRAETH GAN Y GOLYGYDD.

DAN OLYGIAD

Y PARCH. GRIFFITH PARRY,

LLANRWST.

DINBYCH :

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWDYD GAN THOMAS GEE,

MDCCLXIX.



RHAGDRAETH.

GAN Y PARCH. GRIFFITH PARRY, LLANRWST.

YCHYDIG fisoedd gyda deuddeng mlynedd yn ol, sef ar y Sabbath, yr 16eg o Awst, yn y flwyddyn 1857, deng munyd wedi deg o'r gloch yn y boreu, bu farw "JOHN JONES, Tal-y-sarn." Tua'r un munydau ag y byddai efe yn arfer myned i mewn i ddyledswyddau cyssegr-edig y Sabbath—y gynulleidfa yn canu y pennill, ac yntau yn paratoi i ddarllen y bennod, bron bob Sabbath, gydag ychydig iawn o eithriadau, am dymhor o fwy nag un mlynedd ar bymtheg ar hugain—tua'r un munydau, ar y Sabbath dywededig, yr oedd ei enaid mawr ef yn myned i mewn i "gymmanfa a chynulleidfa y rhai cyntafanedig," i ddechreu yr addoliad lle na bydd gwasgar ar y gynulleidfa, na diwedd ar y Sabbath. Yr hyn sydd yn gwneuthur adeg ei farwolaeth yn fwy tarawiadol ydyw, ei fod wedi dadgan ei ddymuniad lawer gwaith am gael marw ar y Sabbath; a'i ddymuniad yn hyn ni ommeddwyd. Ac y mae yn werth ei gofnodi, ei fod y boreu Sabbath olaf hwn hefyd, ychydig funydau cyn deg o'r gloch, yn rhoddi pennill allan—un o bennillion nefolaidd WILLIAMS, Pant-y-celyn. Pan oedd y pregethwr mawr o Dal-y-sarn yn cael ei hun wedi "syrthio" yn "lleoedd caregog" glyn cysgod angeu, efe a gofiodd "eiriau" yr emynydd mwynber o Bant-y-celyn, ac y mae yn ddiau eu bod yn "felus" iddo.¹ A pha bennill a roddwyd allan erioed yn ateb yn well i'r amgylchiad?

"O na allwn roddi 'mhwys
Ar dy ardderchog law,
A gado i gystudd dd'od
Oddi yma ac oddi draw;
A byw dan nawdd y dwyfol waed,
Yn ngolwg hyfryd dŷ fy Nhad!"

Pan oedd efe yn adrodd y pennill, yr ydoedd eisoes "yn ngolwg" pinaclau y Jerusalem nefol, a bron wrth drothwy "tŷ ei Dad," ac yn mhen tuag ugain munyd ar ol ei adrodd, yr oedd efe wedi cyrhaedd yn ddiogel i dŷ ei Dad—"safely housed in heaven."

Ymdaenodd y newydd am ei farwolaeth gyda chyflymder mawr drwy holl Gymru, ac i brif drefydd Lloegr, ac yn fuan i bob parth o'r byd lle yr oedd Cymry yn preswyllo. "Y ffynnidwydd, udwch; canys cwymppodd y cedrwydd!"—"Oni wyddoch chwi i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel?" Yr ymadroddion hyn, a'u cyffelyb,

¹ Salm cxli. 6.

oeddynt yn fynegiad cywir o'r teimlad a feddiannai yr holl wlad. Yr oedd y syndod a'r galar yn orthrechol. Teimlai pawb fod un o brif gedyrn gweinidogaeth yr efengyl yn Nghymru wedi cwmpo—a hyny i'n golwg ni bron yn anamserol, wrth feddwl am ei oedran, ei gyfansoddiad, a'i nerth—i ddistawrwydd marwolaeth. Y mae yn ddiau y gellir dywedyd, heb arfer dim gormodiaeth, am y diweddar JOHN JONES, na chyfododd yn Nghymru, yn ystod yr hanner canrif diweddfaf, yr un pregethwr, gyda'r un enwad crefyddol o'i mewn, ag yr oedd barn a theimlad y genedl yn fwy unfrydol yn ei addaf yn "dywysog," yn "ŵr mawr," ac yn "gedrwydden" o'r nerth a'r maintioli uchaf. Y mae y cyfryw ddyinion ag ef, f'u "canghenau" yn ymledu mor bell y tu allan i'r maes enwadol yn mha un y maent wedi eu plauu, nes y maent yn dyfod yn feddiant cenedlaethol; ac y mae y golled a'r galar ar eu hol yn golled ac yn alar cenedlaethol. Felly, yn ddiau, yr ydoedd gyda gwrthddrych y llinellau-hyn. Yr oedd ei dalentau mawrion, a'i ddefnyddioldeb anghyffredin, wedi ei gyfodi yn mhell uwch law cylch yr enwad i ba un y perthynai, ac wedi ei wneuthur yn feddiant cyffredin y genedl; ac nid gormod ydyw dywedyd y darfu i'w farwolaeth dafu cwmwl du o brudd-der dros genedl gyfan.

Pan y penderfynwyd cyhoeddi cyfrol o'i bregethau, barnwyd gan rai cyfeillion oedd yn dwyn cyssylltiad â'r gwaith, mai nid ammhriodol a fyddai ysgrifenu ychydig sylwadau mewn ffordd o ddarluniad o deithi neillduol meddwl ac athrylith yr awdwr, i'w cyflue yn nechreu y gyfrol yn y wedd o RAGDRAETH. Ac felly ein hamcan yn y tadalenau hyn a fydd, nid cyffwrdd dim â hanes y gwrthddrych, neu amgylchiadau ei fywyd—gadawn hyny i'w fywgraphydd galluog, y Parch. OWEN THOMAS: ond yn unig tynu braslun byr o brif linellau ei gymmeriad, fel dyn ae fel gweinidog yr efengyl, mewn ffordd o arweiniad i'r gyfrol hon o'i bregethau.

Fe allai y goddefir i ni ddyweyd ein bod yn ysgrifenu yr ychydig linellau hyn o deyrnged i'w athrylith a'i goffadwriaeth oddi ar deimlad cryf o serch a mawrygiad tuag ato. Y mae yn ddiau i ni yn "llafur cariad." Wedi ein geni a'n magu ond ychydig filldroedd oddi wrtho ef, ac yn yr un dref a'r un eglwys a'i frawd talentog, y diweddar Barch. DAVID JONES, gynt o Gaernarfon, cawsom y fraint o dyfu megys dan gysgod eu canghenau llydain; a bu "ffrwyth" y ddau, ugeiniau lawer o weithiau, yn "felus i'n genau." Y mae y swyn dirfawr a feddai pregethu JOHN JONES, Tal-y-sarn, ar ein meddwl plentynaid yn ymgymyagu bron âg adgofion cyntaf ein mebyd; ac fel yr oeddyd yn cynnyddu mewn blynyddoedd a deall, yr oeddyd yn cael ein dwyn i'w ryfeddu a'i fawrygu fwyfwy o hyd. Diau nad rhaid iddo wrth "lythyrau canmoliaeth" ar ol ei farw, mwy nag yn ei fywyd. Nid oedd ei holl yrfa ddisglaer amgen nag un "llythyr canmoliaeth" o'r fath fwyaf dylanwadol: ac y mae Cymru y dydd heddyw yn llawn o'r "lythyrau" bywiol hyn. Sarhâd ar goffadwriaeth gwas mor ymroddedig i Grist a fuasai unrhyw beth yn tebygu i orfolawd gwag a dystyr; nid oedd neb ar y ddaear pellach nag ef yn ei fywyd oddi wrth bob peth o'r fath. Y dyrchafiad mawraf a ellid ei roddi i'w goffadwriaeth ef fyddai ei ddarlunio, pe y gellid, yn hollol *fel yr oedd*; a hyny, nid i'r dyben o'i fawrhau ef, ond yn hytrach i

fawrhau gras Duw ynddo ef, ac i fawrhau yr Ysbryd hwnw a'i cynnysgaeddodd â "mesur" mor helaeth o "ddawn Crist."

Yr ydym yn credu yr addefa pawb, cydnabyddus â'r Parch. JOHN JONES, fod yr holl gymmhwysderau angenrheidiol i gyfansoddi pregethwr o'r radd uchaf wedi cydgyfarfod ynddo i raddau anghyffredin. I "ddechreu yn y dechreu," cafodd ei gynnysgaeddu â choroph hynod o gymmhwys yn mhob ystyr i'w enaid mawr weithredu drwyddo i'r fantais oreu. Y mae yn ddiammheu y ffurfiwyd ef yn bregethwr yn ei greadigaeth; cafodd y fath gorph ei "gymmhwyso" iddo, o blegid i Dduw ei "neillduo ef o groth ei fam, gan ei alw trwy ei ras, i ddadguddio ei Fab ef ynddo, fel y pregethai ef" yn mhlith ei gydgenedl. Fel y mae yr anweledig, mewn mwy nag un ystyr, yn cael ei adlewyrchu trwy y gweledig, felly yn'fynych—er nad bob amser, y mae yn wir—y mae y "dyn oddi allan" yn amlygu ac yn adlewyrchu y "dyn oddi mewn." Felly yr ydoedd, pa fodd bynag, gyda'n gwrthddrych. Prif nodweddau ei feddwl oeddynt hefyd brif nodweddau ei gorph—cyfuniad hapus o gadernid, hoenusrwydd, a phrydfertchwch. Yr oedd ei ymddangosiad personol yn hynod o darawiadol, ac yn dra manteisiol i'w ddylanwad ar y gynnulleidfa. Buom lawer gwaith, wrth edrych arno drwy y ffenestr yn cerdded ar hyd yr heol wrth fyned a dychwelyd o'i gyhoeddiadau, yn cael ein hadgofio o sylw Johnson am Burke. Dywedai fod Edmund Burke yn gyfryw, pe buasai dyn hollol ddyeithr yn digwydd bod gydag ef am funyd o dan gysgod yn yr heol yn gochel cawod o wlaw, y buasai yn sicr o ddyweyd ar ol ymadael, mai rhyw ddyn anghyffredin ydoedd. Felly, nis gallasai neb meddylgar edrych arno yntau yn cerdded yr heol, er iddo fod heb ei weled erioed o'r blaen, na buasai yn dyweyd ynddo ei hun yn y fan mai rhyw ddyn pell uwch law y cyffredin ydoedd. Yr oedd yn dal, yn gadarn, yn heinif, o'r ffurf mwyaf lluniaidd, a'r gwynebpryd mwyaf prydfertth, cyn i'r gwrid gael ei ymlid ymaith o hono gan weithrediad dirgelaidd ei afiechyd yn y blynyddau diweddaf. Yr oedd rhywbeth yn ei ymddangosiad, yr hyn oedd hefyd yn nodwedd gwirioneddol yn ei gymmeriad, yn hynod o lednais a gwylaidd; tra ar yr un pryd, yr oedd ei holl osodiad, a phob ysgogiad o'i eiddo, yn wir urddasol a thywysogaidd, fel nas gallem lai na'i garu a'i barchu ar unwaith. Fel y dywed EBEN FARDD yn ei "*Faromad*" iddo:—

"Dyn golygus oedd, a lluniaidd,
Tal a gwiagi, caled, cryf;
O osodiad hardd, urddasol,
Penderfynol, beiddiol, hyf:
Etto agos a chyfeillgar,
Llednais yn ei ddull a'i foes;
Teg a sirol ei wynebpryd,
Llawn o wrid dillyna'r oes."

Ni welsom fwy o wir foneddigeiddrwydd cynhenid a naturiol yn neb nag ynddo ef. Nid oedd ei foneddigeiddrwydd ef yn ffwrwyth ymarferiad, neu ddygiad i fyny yn y cylchoedd uchel hyny o gymdeithas lle y gwneir moesgarwch yn bwngc o astudiaeth. Yr oedd yn llawer mwy prydfertth na hwnw, am ei fod yn fwy naturiol a gwirioneddol. Er ei fod wedi ei fagu mewn gwlad, ac wedi troi mewn cylch cyffredin, edrychwch arno yn dyfod i mewn i'r ystafell, yn cyfarch y

rhai sydd yn bresennol, ac yn cymmeryd ei eisteddla. Y mae pob ysgogiad yn llednais a gwylaidd; ond ar yr un pryd, yn wir urddasol a boneddigaidd. Y mae y cyfan yn berffaith naturiol, ac am hyny yn brydferth — mewn gair, y meddwl ardderchog sydd oddi mewn, hwnw sydd yn ei amlygu ei hunan, ac yn gosod ei argraph ei hun ar bob edrychiad ac ysgogiad.

* * * * *
 “Y mae rhywbeth yn ei osgo,
 Sydd yn dangos dyn o fryd;
 Fel nad all ei ostyngseiddrwydd
 Lwyddo i'w guddio ar bob pryd.

Wedi cyrhaedd yr areithfa,
 Y mae'n eistedd yno i lawr;
 Prin, gan wyllder, teifi ei lygad
 Unwaith dros y dyrfa fawr:
 Serchog yw yr olwg arno—
 Syml, dirodrea, difostatjawn;
 Etto'r llygad dwfn, eryraidd,
 Yn bradychu dyfnder dawn.”

I. Yr oedd yn ei dymmer a'i nodweddiad fel dyn gyfuniad nodedig o ragoriaethau. Yr oedd yn meddu ar gyfoeth o serchogrwydd naturiol. Byddwn yn tybied yn fynych mai y dynion o'r meddyliau mwyaf yw y rhai sydd yn meddu mwyaf o allu i deimlo hefyd. Y mae yr holl enaid wedi ei wneuthur ar *scale* fawr—y mae ynddynt ryw ffynnonau dyfnion o deimlad, yn cyfateb i ddyfnder eu deall. Pa fodd bynag, yr oedd gwrthddrych y llinellau hyn yn esampl nodedig o hyn yna. Ni bu erioed briod mwy tyner, na thad mwy serchog. Yr oedd ei wên yn un o'r rhai anwylaf a welsom erioed—fel pelydr o haul, yn cynnhesu ac yn sirioli pawb o'i hamgylch. Ymddattodai yn ei gyfeillach yn rhydd a serchog, lle y medrai roddi ymddiried, hyd yn oed gyda ei gyfeillion ieuangaf: ni byddai raid i neb fod o dan unrhyw ymdeimlad poenus ei fod yn mhresennoldeb un llawer mwy nag ef ei hunan; gwnai efe i ni anghofio hyny yn llwyr tra y byddem gydag ef, er y byddem fe allai yn ei deimlo yn gryfach nag erioed mor fuan ag yr elem oddi wrtho. Yr oedd mawredd ei feddwl fel maintioli ei gorph—yr oedd wedi ymgynnefino âg ef, ac megys yn anymwybodol o hono. A'r hyn oedd yn gwneyd y serchogrwydd hwn yn fwy prydferth yn ei gymmeriad ef oedd, ei fod wedi ei uno âg yspryd *penderfynol* a *gwrol*. Y mae hyn etto, os nad ydym yn camgymmeryd, yn fynych yn canlyn mawredd meddyliol. Y mae yr *evyllys*, fel y galluoedd ereill, yn *gref*. Adwaenom rai yn meddu cymmaint o'r anhyblygrwydd hwn ag a fuasai yn fai mewn dynion cyffredin; ond yn eu cymmeriad hwy, y mae yn cael ei gefnogi gan gymmaint o uchafiaeth deallol, fel y mae yn troi yn fantais iddynt. Yr oedd yntau yn meddu ar benderfyniad diyagog. Nid ydym yn sicr nad oedd yr anhyblygrwydd yma yn myned yn fai ynddo ar amserau: pan unwaith y digiai, nid hawdd oedd ganddo faddeu a chymmudi. Ond pa beth bynag a farnai yn gydwybodol yn wirionedd, ac yn enwedig yn wirionedd angenrheidiol i'w ddywedyd, nid oedd gwg na dylan-

¹⁰ O "*Farwael*" [ragorol "y Parch JOHN JONES, Tal-y-sarn, yn y "*Tra ethol-idd*" [cyf. xvi. t.d. 96—120], gan y bardd awenyddol a choeth, GLAN CO LLEN, (Mr. Robert Hughes, Llangernyw).

wad neb yn ddigon cryf i'w attal rhag ei gyhoeddi gyda nerth, yn "lleoedd amlaf y bobloedd." A'r hyn oedd yn gwneuthur y gwroldeb beiddgar hwn mor brydferth yn ei gymmeriad ef oedd, ei fod wedi ei uno â'r fath diriondeb a serchogrwydd. O ran hyny, y mae gwir wroldeb bob amser yn dyner. *Coward* ydyw y dyn creulawn. Fel hyn, nid oedd ei serchogrwydd ef yn dirywio i wendid, na'i wroldeb yn dirywio i ormes. Yr oedd y naill yn cydbwyso y llall, a'r naill yn prydferthu y llall. Yr oedd efe, fel hyn, yn eglurhau y dywedriad hwnw, mai "peth da yw bod yn meddu nerth cawr; ond mai nid da yw ei ddefnyddio yn wastad *fel cawr*;" ac yn hono yn yn hollol i'r darluniad gorchestol a ddyry EBEN FARD O cyfatteb ei "*Farwriad*" iddo:—

"Er ei fod o gynneddf gwron,
Yn anturus ac yn gryf,
Etto ni wnai gam â'r gweiniaid,
Ac ni sathrai ar y pryf;
Medrai leddfau ei daranau
I'r fath fwisg o fwynhâd,
Ag a lonai 'r gwan a'r tyner,
Fel addfwynder tymmer tad."

Nodwedd arall nas gallasai lai na thynu sylw pawb a'i hadwaenai oedd *diniweidrwydd* ac unplygrwydd ei gymmeriad. Y mae hyn yn beth mawr a hanfodol mewn *crefydd*. Dyna ydyw enaid crefydd—gwir ddiniweidrwydd, cywirdeb, a didwylledd. Yr ydym yn meddwl nad yw y Beibl yn rhoddi mwy o bwys ar ddim nag ar hyn fel nôd ar y saint:—"Yr hwn ni bo dichell yn ei ysbryd:" "y rhai anniohellgar:" "y rhai pur o galon:" "fel dyn bach:" "fel plant bychain." Ac megys y mae hyn yn beth mawr mewn crefydd, ac yn hanfodol iddi, felly yr ydym yn credu—ac i bob peth arall fod yn gyfartal—mai yn y dynion mwyaf o ran meddwl yn gyffredin y mae yr ansawdd hon gryfaf. Hyd y gwelsom ac y darllenasom ni, y mae llawer o'r diniweidrwydd prydferth hwn yn mhob dyn o feddwl mawr. Darllennwn ddyddlyfrau dynion fel Dr. CHALMERS a JOHN FOSTER, lle y maent yn ymollwng yn rhydd i fynegu eu syniadau dirgelaidd, a'u myfyrdodau ar yr hyn sydd yn dyfod o dan eu sylw, ac ni a welwn llawer iawn o amlygiadau o'r ansawdd dymunol hwn. Felly yr oedd gyda gwrthddrych y llinellau hyn. Nid oedd dim plygion ammeus yn ei gymmeriad. Yr oedd fel y gwydr tryloyw—yr oeddych yn teimlo yn sicr eich bod yn gweled trwyddo. Nid oedd yno ddim yn temtio eich chwilfyredd i ofyn yn awr ac eilwaith, "Pa beth a allai fod draw—dan y llen—yn y tywyllwch?" Yr oedd y cyfan yn noeth ac agored; yn syml, yn gywir, ac yn unplyg. Ac megys ag yr oedd llawer o brydferthwch ei feddwl, yn gystal a'i gorph, i'w briodoli i'r cymmesuredd hapus a'r mantoliad cywir oedd rhwng y naill ran a'r llall, felly yr oedd yr unplygrwydd syml y buom yn sôn am dano yn derbyn llawer iawn o'i brydferthwch am ei fod wedi ei uno yn ei gymmeriad ef â *symwyr cyffredin cryf* a da. Y mae rhai yn ymddangos yn awr ac eilwaith fel pe byddent yn meddu cryn llawer o'r "synwyr anghyffredin," neu athrylith, ond yn dra diffygiol yn yr un *cyffredin*, ac o blegid hyn yn dioddef llawer o anghyfeusderau; yn lled debyg (a defnyddio cymmhariaeth un) i pe gwelsem ddyn yn teithio trwy y wlad heb 'ganddo

ddim yn ei logell yn wastad ond *bank notes*. Y mae yn wir fod y nodau yn llawer mwy eu gwerth, o ran hyny, na'r pres: ond etto, y mae y pres yn fwy cyfleus ar amryw achlysuron; o leiaf, y mae yn dra anghyfleus bod hebddynt i dalu y toll-borth, a llawer o fân bethau ereill cyffelyb. Felly y mae perchenogion athrylith, weithiau, yn myned i gryn anghyfleusdra o herwydd bod yn ddiffygiol o'r nwydd defnyddiol hwn; gan eu bod yn cyfarfod yn dra mynych & rhai nad ydynt yn ddigon cyfoethog i roddi newid iddynt o'u nodau arianol. Ond yr oedd gwrthdrys y llinellau hyn yn dra gwahanol i'r dos-barth yma. Fel y crybwyllwyd, yr oedd yn meddu synwyr cryf a da, y gellid ymddiried ynddo ar bob achlysur. Yr oedd yn meddu teimlad *fine* (fel y dywed y Sais), o *briodoldeb*: o'r hyn oedd *briodol* i'w ddweyd a'i wneuthur yn mhob amgylchiad. Ac yr oedd hyn yn cadw ei symlwydd unplyg ef rhag ymylu ar derfynau ffolineb. Yr oedd efe yn *child-like*, heb fod yn *childish*. Yr oedd ei ddiniweidrwydd mor bell oddi wrth ffolineb ar y naill law, ag oddi wrth ddechell ar y llall. Yr oedd y diniweidrwydd yn ddiniweidrwydd *call*, a'r callineb yn gallineb *dimwed*—rhagoriaethau y sarph a'r golomen wedi eu cyssylltu.

Heb fanylu chwaneg ar hyn, gallwn ddyweyd ei fod wedi ei gynnysgaedu â dynoliaeth gyflawn a chymmhesur, gyfoethog yn holl ddoniau a grassau natur—holl alluoedd y deall a'r teimlad yn mantoli ac yn gwasanaethu eu gilydd gyda'r fath gymmhwsydr, fel na cheid dim yn ddigon amlwg ynddo i neb allu ei nodi allan mewn ffordd o ddiffyg na gormodedd. Mewn gair, yr oedd yma ddynoliaeth gorphorol ac eneidol o'r fath fwyaf gwyach, i adeiladu arni y cymmeriad gweinidogaethol. Yr oedd y *dyn* yn sylfaen i'r *pregethur*. Ac y mae yn ddiaf fod hyn yn beth tra phwysig. Y mae yn anhawdd meddwl fod yr Arglwydd yn galw neb i weinidogaeth yr efengyl, heb eu cynnysgaedu â dynoliaeth dda i ddechreu. Pan y mae pregethur yn amlwg ddiffygiol naill ai mewn barn a synwyr cyffredin, neu mewn gallu i dderbyn a chyfranu gwybodaeth, neu yn unrhyw o'r ansodau hyny o dymmer neu egwyddor a gydnabyddir gan ddynion y byd yn angenrheidiol fel trwydded i barch ac ymddiried yn eu trafodaeth & u gilydd, heb gyfodi yn ddim uwch na thir cyffredin dynoliaeth,—y mae y cyfryw ddiffyg, dybygid, yn rhwym o ddwyn gweinidogaeth yr efengyl i ddirmyg, ac o ddinystrio ei dylanwad yn nghyfrif y rhai nad ydynt wedi arfer edrych arni yn ei chyssylltiadau uchaf. Megys ag yr oedd yr offeiriaid gynt i fod yn ddianaf gorphorol, felly y mae gweinidogion y cysegr etto mewn ystyron uwch i fod mewn modd arbenig yn “ddynion,” yn “wfr,”—yn gyfryw o ran eu galluoedd a'u cyrhaeddiadau ag a fyddont yn gymmhwsy i arwain a dysgu dynion o y pethau mwyaf eu pwys, ac yn gyfryw o ran holl hanfodion dynoliaeth gyflawn ag y gall dynion osod yr ymddiried llwyrfa ynddynt. Y mae yn wir fod gras mewn un ystyr i gyfnewid natur; ond y mae gras mewn ystyr arall yn sylfaenu ar natur. Ac anfynych iawn yn sicr y darfu i natur osod sylfaen fwy cadarn a llydan i oruwchadeiladu arni ddoniau y weinidogaeth nag yn ngwrthdrys y sylwadau hyn. Nis gallasai neb fod yn hir yn ei gymdeithas, heb deimlo eu bod wedi dyfod i gyffyrddiad â *dyn* trwyadl, o bwysau ac ymddiried mawr—un yn meddu barn gywir, chwaeth naturiol goeth, deall cryf,

a hwnw wedi ei amaethu i raddau uchel, a'i ystôrio â gwybodaeth nodedig o eang a chywir (ac ystyried fod y cwbl trwy hunan-addysgiant), dychymyg bywiog a nerthol, calon fawr, ac ynddi ddyfnderoedd dirfawr o serch, ewyllys gref anhyblyg, cadernid o ffyddlondeb y gallesid cyfrif arno fel ar ddeddfau natur; a'r cwbl wedi eu gwisgo mewn gwyllder a lledneisrwydd deniadol, yr hwn oedd ar yr un pryd yn wir urddasol a boneddigaidd—yn ennill cariad ac yn attal hyfdra ar unwaith.

II. Ond os nad gras heb natur sydd yn gwneyd pregethwr, nid natur chwaith yn sicr heb ras. Gwaith ysbrydol ydyw pregethu yr efengyl; ac y mae yn rhaid cael dyn ysbrydol i'w gyflawni, a hwnw wedi ei gynnysgaeddu â doniau ysbrydol. Ond nis gall natur yn ei man uchaf gyrhaedd hyn:—"Yr hyn a aned o'r enawd sydd gnawd." Nid yw y galluoedd cryfaf wedi derbyn yr amaethiad uchaf yn ddi-gonol i ymwneyd â phethau mawrion gweinidogaeth yr efengyl. Nid yw yn ddigon cael y *dyn*; rhaid iddo fod hefyd yn "ddyn Duw." Un fel hyn oedd JOHN JONES, *Taly-sarn*, yn nghyfrif pawb a'i hadwaenai. Edrychai pawb i fyny ato fel "gŵr Duw;" adwaenid ef gan ei gyd-genedl am faith flynyddoedd fel "tywysog Duw," yn myned i mewn ac allan yn eu plith. Yr oedd efe nid yn unig yn ddyn mawr, ac yn ddyn moesol a diargyhoedd, ond yr oedd efe hefyd yn ddyn *duwiol*. At ei alluoedd cryfion, a'i dalentau disglair, a'i gymmeriad dilychwin—at y cwbl, ac yn goron ar y cwbl, ehwangodd "dduwioldeb." Fel y dywedai y diweddar Barch. HENRY REES yn nghladd-edigaeth ei gyfaill a'i gydlafurwr, y Parch. JOHN HUGHES, Liverpool:—"Gras Duw a adnewydeodd ei alluoedd naturiol. Yr oedd yma ystafelloedd wedi eu dodrefnu yn dda, ond o'r nefoedd y daeth y tân a'r goleuni." Felly yntau: yr oedd ei dduwioldeb yn ddiammheul; ac nid yn ddiammheul yn unig, ond yn meddu dwysder a dyfnder mawr. Er iddo gael ei fagu yn eglwys Dduw, a chan rieni nodedig o dduwiol, ac er na fu allan o'r eglwys ond am dymmor byr pan yn fachgen ieuange, ac iddo gael ei gadw am yr ysbaid byr hwnw heb ym-ollwng o gwbl i rysedd annuwiol—etto ymddengys fod ei argyhoedd-iadau crefyddol yn nerthol iawn, pan y cymmerodd i fyny crefydd o ddifrif. Diau nad oes dim mewn bod yn gyffelyb i wirioneddau mawrion crefydd yn eu cyfaddasder i ennyn y teimladau, ac i gyn-nhyrfu natur dyn i'w dyfnderoedd isaf, pan unwaith y deuant i gyff-yrddiad bywiol â'r galon a'r gydwylbod. Ond er hyn, y mae yr effaith yn cael ei phenderfynu gan ddau ammod; sef, gan natur y dyn, yn gystal a chan natur y gwirioneddau sydd yn dylanwadu arno. Y mae y gwirioneddau eu hunain yr un yn mhob amgylchiad; ond y mae y dylanwad yn rhwym o amrywio yn ol gallu y dyn i ddirnad a theimlo y gwirionedd. Fel y mae dwfr yn cymmeryd ffurf y llestr y tywelltir ef iddo, felly y mae dylanwad gwirioneddau crefydd yn cyf-ateb o ran ei ffurf a'i raddau i alluoedd y meddwl sydd yn wrth-ddrych y dylanwad. Ac o ganlyniad, pan y mae y gwirioneddau pwysicaf a gogoneddusaf mewn bod yn cymmeryd meddiant o feddwl nerthol, dychymyg bywiog, a chalon fawr, gellir disgwyl mai yr effaith a gynnrychir fydd—crefydd bersonol o nodwedd ddofn, ac hyd yn oed aruchel. Ac un felly oedd crefydd gwrthddrych y llin-ellau hyn. Yr oedd dylanwadau ysbrydol megys gwynt nerthol yn

rhuthro trwy holl ystafelloedd ei enaid mawr, ac yn "caethiwo" pob gallu a feddai i "ufudd-dod Crist." Nodweddid ei grefydd gan ddwysder a difrifoldeb pell y tu hwnt i'r cyffredin. Yr oedd gormod o dân ac yni yn ei natur i oddef iddo fod yn hannerog gyda dim. Pe y diafol a fuasai wedi cael ei wasanaeth, gallwn fod yn sicr mai nid milwr cyffredin a fuasai yn ei fyddin ef, ond swyddog uchel. Yr oedd grym cynnhenid ei gymmeriad yn peri y buasai yn rhwym o gario dylanwad mawr ar ei gyd-ddynion mewn unrhyw gylch. Un o frenhinoedd natur ydoedd—"wedi ei eni i lywodraethu." Fel hyn, yr oedd yr yni dirfawr hwn, ar ol cael ei lwyr gyassegru i grefydd Crist trwy argyhoeddiadau nerthol yr Ysbryd, ac mewn undeb â galluoedd mor ardderchog—yr oedd y cyd-gyfarfyddiad hwn, meddwn, yn gosod i lawr sail i lwyddiant ac enwogrwydd yn ngweinidogaeth yr efengyl na welir yn fynych ei gyffelyb. Fel y canodd yr athrylithgar GLAN ALUN am dano yn "*Pregethwr y Bobl*:"

* * * "Fe gafodd ef
 Gyfeirio i feddwl mawr at bethau mawr
 Yn gyntaf oll; ie, cyn i'w ysbryd gael
 Ei sychu a'i grebachu wrth ymdroi
 Yn mhethau bychain amser, fe ga'dd ef
 Ei drwytho'n enaint per efengyl gras,
 A'i estyn allan ar wrthddrychau mawr
 Y byd tragwyddol."

III. Wedi tafu cipolwg ar ein gwrthddrych fel *dyn* ac fel *Cristion*, ni a geisiwn yn awr edrych arno am ychydig etto fel *gweinidog yr efengyl*, ac yn neillduol fel *pregethwr*. Yr ydym yn teimlo fod tynu darluniad o hono yn y cymmeriad hwn fel ag i roddi dim tebyg i ddrychfeddwl cywir am dano i'r rhai nas clywsant ef, yn waith nod-edig o anhawdd. Y mae y peth yn anhawdd o ran hyn, o bob tu—gyda golwg ar y rhai sydd yn ei gofio, yn gystal, os nad yn fwy na'r rhai sydd heb ei glywed erioed. Fel y dywedasom o'r blaen yn yr "*hysbysiad*" ar glawr y *Pregethau* hyn:—"Byddai yn anhawdd rhoddi darluniad o hono fel *pregethwr*, na byddai y rhai sydd yn ddeythr iddo, ar un llaw, yn debyg o feddwl ei fod yn ormodiaeth; tra y byddai y rhai oedd yn gydnabyddus âg ef, ar y llaw arall, yn llawn mor debyg o deimlo ei fod yn disgyn yn mhell islaw teilyngdod y gwrthddrych." Yn ngwyneb yr anhawdsder hwn, y mae yn hyfryd genym allu cyfeirio at y gôfgolofn ardderchog sydd yn cael ei chyfodi i'w goffadwriaeth yn y gyfrol hon o'i bregethau. Yr ydym yn credu nas gall neb eu darllen, ag sydd yn meddu dim barn a chwaeth, er iddo fod yn hollol ddeythr i'w hawdwr, heb deimlo eu bod yn gynnyrch galluoedd ac ysbryd tra anghyffredin. Ac am y dosbarth lliosog hwnw o'r darllenywyr, ar y llaw arall, y rhai a allant wrth ddarllen y *pregethau* gofio y *pregethwr*, yn nhôn ei lais dwfn a melodaidd, yn ei agweddiad urddasol yn y pulpud, ac yn holl ddylanwad annesgrifiadwy y traddodiad—nis gall darlleniad y *pregethau* hyn, y rhai ydynt yn dwyn cymmaint o'i ddelw, lai na rhoddi adgyfodiad nerthol iddo yn eu cof a'u dychymyg hwy; a thra y byddant yn awyddus gasglu "*lloffion grawnwin cynhauaf gwin*" ei weinidogaeth, bydd eu "*henaid* yn blysiu yr aeddfed ffryth cyntaf."

Buaseu ni yn tueddu i nodi deall (*intellect*) cryf a meistrolgar fel yr hyn oedd yn ffurfio sylfaen ei ragoriaeth meddyliol. Yn yr ystyr yma i'r gair, yr oedd wedi ei gynnysgaeddu â *meddwl* o nerth a chwmpas anghyffredin. Pa bwngc bynag a gymmerai mewn llaw, cydiai ynddo gydag ymafaeliad cawr. Yr oedd yn feddyliwr gwir alluog : ac yr oedd y gallu hwn yn ei amlygu ei hun bron yn gyfartal mewn dau gyfeiriad hollol wrthwyneb i'w gilydd—y ddau ddull o feddwl ac ymresymu trwy ba rai y cerir allan ymchwiliadau yn mhob cangen o wybodaeth naturiol a moesol—dadansoddiad (*analysis*), a chyfosodiad (*synthesis*). Yn y blaenaf, yr ydys yn "dattod"—yn neillduoli—yn chwalo y cyfanswm i'r elfenau sydd yn ei wneyd i fyny : yn yr olaf, yr ydys yn "gosod ynghyd"—yn cyffredinoli—yn aduno y rhanau i wneyd i fyny y cyfanswm. Trwy y blaenaf, yr ydys yn cael allan yr amrywiaeth ; a thrwy yr olaf, yr unoliaeth. Yn y blaenaf, yr ydys yn gwahanu y pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt ; ac yn yr olaf, yr ydys yn cyssylltu y pethau sydd â thebygolrwydd rhyngddynt. Nid yn fynych y ceir yr un meddwl yn gweithredu gyda chyffelyb rym yn y ddau gyfeiriad yma. Y mae yr ansoddau meddyliol sydd yn gyfaddas i'r naill a'r llall yn wahanol ; treiddgarwch, manylwch, *min* deallol yn "cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad" y pethau a ymddangosant ar y wyneb yn fwyaf agos i'w gilydd, megys gwahanol elfenau y gronyn tywod, sydd yn eisieu tuag at ddadansoddiad : ond y mae cyfosodiad yn gofyn golwg bell, gynnwysfawr, yn cymmyrd i mewn eangder mawr, yn canfod perthynas rhwng y pethau pellaf oddi wrth eu gilydd mewn ymddangosiad, ac yn gallu cyssylltu y gronyn tywod â'r bydoedd uwch ben o fewn rhwymyn yr un ddeddf. Y mae y naill yn gyffelyb i'r mwriadur (*microscope*), a'r llall i'r pelladur (*telescope*). Y mae yn rhaid i'r naill wrth fwy o amynedd, ac i'r llall wrth fwy o eofndra. Yr oedd JONATHAN EDWARDS, o'r America, yn meddu y gallu dadansoddi i radd uwch na neb o'r bron yn mhlith ysgrifenywyr diweddar ; ac i'n tyb ni, byddai yn anhawdd enwi neb yn well enghraifft o'r gallu cyfosodol mewn gradd uchel na'r diweddar Dr. CHALMERS. Y mae rhai meddyliwyr mawr yn fawr yn y ddau gyfeiriad. Byddem ni yn arfer meddwl bob amser fod y diweddar Barch. HENRY REES felly. Ni ddymunem ddweyd dim ar antur, nac arfer dim gormodiaith ; ac nid ydym yn barnu ein bod yn gwneyd y naill na'r llall wrth ddywedyd fod gwrthddrych y sylwadau hyn—y diweddar Barch. JOHN JONES, Tal-y-sarn, yn rhagori yn y ddau allu cyferbyniol yma. Yr ydym yn cofio fod y dyn mawr a hynod hwnw—JOHN HENRY NEWMAN ("y Tad Newman" er's llawer o flynyddoedd bellach, fel y mae mwyaf gresyn meddwl fod y fath ddyn wedi disgyn i Rufain!)—yn sylwi yn un o'i lyfrau, mai prif angen duwinyddol yr oes hon oedd cael dynion yn meddu y gallu a'r gonestrwydd i olrhain pyngciau y dydd—y prif gwestiynau y teimlir anhawdderau ynddynt, megys natur a therfynau ysbrydeliaeth, cyssondeb gwyddoriaeth â dadguddiad, a chwestiynau cyffelyb—i'w holrhain i'w *manglion* eithaf ; ond ar yr un pryd ynglŷn â hyn yn meddu y gallu prin hwnw o edrych ar wirioneddau crefydd o safle digon *uchel*, a chyda golwg digon eang—yn ei eiriau def ei hunan, y gallu o edrych ar wirionedd "o'r uchelderau" ("from the

heights"). Yr oedd yr *eangder* a'r *manylrwydd* yma wedi cyfarfod i raddau nodedig yn nheithi meddwl y Parch. JOHN JONES. Olrheintiai ei fater gyda manylrwydd anarferol; ac ar yr un pryd, ymgyfodai uwch law y manylion, i edrych arno yn ei egwyddorion cyffredinol a'i gyssylltiadau mwyaf eang.

Pan y cyssylltir â'r rheswm cryf a threiddgar hwn, *ddychymyg* o radd uchel, gellir disgwyl yr esgorid ar ddrychfeddyliau anghyffredin. Yr oedd dychymyg y Parch JOHN JONES yn un o'i alluoedd mwyaf nodedig. Gallai fod ei frawd, y Parch. DAVID JONES, yn fwy hynod am grebwyll chwaraeus, yr hwn a wisgai bobpeth y cyffyrddai âg ef yn holl geinion barddoniaeth, ac a barai fod y diriogaeth fwyaf sych o feddwl, y funyd y dechreuai efe ei thrin, yn cael ei throï megys yn ngrwm swyn yn ardd lawn o flodau prydferth ac amryliw. Ond yn ngrwth-ddrych y sylwadau hyn, yr oedd barddoniaeth ei natur ef yn ei amlygu ei hunan mewn dychymyg (*imagination*), yn hytrach na chrebwyll (*fancy*)—yn y gallu llai *sensuous* neu ddaearol-brydferth, a mwy ysbrydol a dyrchafedig; yr hwn, yn lle gwneyd i'r ysbrydol ymgnawdoli mewn corph, a phreswyllo gyda ni ar y ddaear, sydd yn ein cipio ni allan o'r corph i gymdeithasu â'r ysbrydol yn ei fyd ei hunan—y gallu hwnw sydd yn rhoddi bod i "feddyliau a grwydrant drwy dragwyddoldeb"—

"Thoughts that wander through eternity :"

y rhai sydd, nid yn dwyn y nefoedd i lawr i'r ddaear, ond yn dyrchafu y ddaear i'r nefoedd. Gwyddom mai gair cryf ydyw y gair *ysblenydd*; a gair sydd, fel llawer o eiriau cyffelyb, yn cael ei gamddefnyddio yn druenus gan ddoesbarth o ysgrifenywyr yn Nghymru y dyddiau hyn, y rhai nad ydynt byth yn ystyried nerth geiriau, a'r rhai a ddefnyddiant yr un ymadroddion i ddarlunio canwyll ffyrlling ag i ddarlunio haul; ond nid ydyw yn rhy gryf i'w gymmhwyso at hyn. Yr oedd gan y Parch. JOHN JONES ddychymyg ysblenydd. Ond er mor fywiog a ffirwythlawn oedd y gallu hwn, ni cheid ef byth yndo ef yn rhedeg yn wyllt, i derfynu ar ddim tebyg i ffolineb—yr ydoedd o dan lywodraeth barn mor gref a chwaeth mor bur. Yr oedd y deall a'r dychymyg yn gwasanaethu eu gilydd, a'r ddau megys yn ymgystadlu i osod allan ogoniant y gwirionedd. Gwneid i'r deall medrus fesur y tir, nodi terfynau y gwirionedd, a'i gyssylltiadau â gwirioneddau ereill, yn dduwinyddol (ac nid heb ambell sylw *athronyddol* craff yn awr ac eilwaith), gyda gofal a manylrwydd mawr, nes y byddai tiriogaethau y mater yn ymddangos mewn goleuni clir o'n blaen: ac yna, cyfodai heulwen y dychymyg ar yr holl olygfa, nes yr ymdaenai llewyrch o ddysgleirdeb gogoneddus i oreuro y cyfan.

"Daw llawer Sais ac estron i roi tro
I'n Cymry hoff, i brofi awyr iach
Ei bryniau a'i dyffrynoedd; edrych ar
Ei hen fynyddoedd; rhodio ar lanau teg
Ei llynoedd a'i hafonydd!; gwrando rhu
Rhaidrau'n treiglo tros ei hen asenau.
A! pe galleid rhoi o flaen y rhai'n,
Addolwyr yr arddunawl, ddarlun teg

¹ Gwel erthygl alluog yn y "*Traethodydd*," Hydref, 1868, td. 512-514.

O enaid mawr y Cymro o Dal'sarn,
 A'i amryw ddoniau :—y mynyddoedd o
 Diws feddylddrychau ; y dychymyg oedd
 Fel ffrwythlawn ddyffryn yn ddihyabydd ei !
 Chynnrychion pryderferth ; yr afonydd dwfn
 Chwyddedig o bur ras a nefol deimlad
 A lifent ynddo ; yr awyr peraidd iach
 Oedd yn ei ysbryd !" " *Pregethur y Bobl* : " td. 23, 24.

Byddem yn meddwl weithiau, wrth ei wrandaw, fod ei bregethau yn debyg mewn un peth i *Hymnau WILLIAMS*, Pant-y-celyn, sef yn y *navos* neu y blas barddonol oedd yn treiddio drwyddynt. Hyd yn oed yn y rhanau hyny pan na byddai drychfeddyliau dysglaer yn cael eu traethu, na dim ffugr na chymmharïaeth yn cael ei defnyddio, nis gallein lai na theimlo presennoldeb yr ysbryd barddonol. Teimlem fod y bregeth yn "*steeped in poetry*"—wedi ei throchi yn yr elfen o farddoniaeth. Os goddefir y fath air, hynodid hi gan fath o *ramantaeth* gyssegredig. Tywynai drosti y goleuni hwnw sydd megys adlewyrchiad o fyd y goleuni—gwir lewyrch barddoniaeth, yr hwn sydd mor hawdd ei adnabod, ond mor anhawdd ei ddesgrifio:—

"The light that never shone on sea or land,
 The consecration, and the poet's dream."

Y dychymyg nerthol hwn oedd yn rhoddi cyfrif am *eofndra* ei ddrichfeddyliau. Yr oedd pawb cydnabyddus âg ef yn gorfod teimlo fod ei syniadau yn fynych yn dangos eofndra (*boldness*) anghyffredin : ac etto, nis gallein deimlo fod yr eofndra yn dirywio i ormodded (*extravagance*). Ni byddai y drychfeddwl hyf yn myned yn anferthlun o'r gwirionedd; ond yn hytrach, teimlem ei fod yn ffrwyth gwroldeb oedd yn beiddio dilyn yn mhellach na'r cyffredin ar ol y gwirionedd. Byddai y drychfeddyliau beiddgar hyn yn cael eu traethu ganddo ef gyda'r fath wylder ac eneniad nefol nes gyru iasau o syndod a mwynhâd drwy y gwrandawyr. Ceir enghreifftiau rhagorol o honynt yn wasgaredig trwy y pregethau hyn. Y mae arnom flys dyfynu dwy neu dair, er mwyn dangos yn fwy eglur beth ydym yn ei feddwl:—

"Ni ddichon neb gyflawni gorchestwaith mawr heb ymarferiad blaenorol, ond Duw. *Creodd* Duw bob peth o ddim, heb erioed ymarfer â chreu o'r blaen. Dyma o'r cynnyg cyntaf iddo; ni bu o'r blaen yn *treio* ei law i wneuthur dim erioed—gweithiodd yn berffaith y waith gyntaf! Ond rhaid i ddyd ddyagu gwneyd pethau mawr trwy gynydd graddol o ddechreuad bychan."—[*Pregeth* x., td. 117.]

"Bywyd tragwyddol yw *goreu* Duw i'w greadur."—[*Pregeth* xi., td. 126.]

"Y mae eich esgusodion wedi buddugoliaethu ar y weinidogaeth fwyaf awdurdodol.....ac wedi distawi eich cydwybodau eich hunain. Nid oes genych ond *un etto* i'w wrthwynebu: os gellwch ei orchfygu ef, byddwch yn ddiogel—yr olaf a ddaw i ddadleu â chwi ar y pen hwn, a'r mwyaif galluog; sef Duw, barnwr pawb!"—[*Pregeth* xii., td. 138.]

"Meddylgar er tragwyddoldeb oedd Duw. Er nad oedd y pryd hwnw yn gweithredn, cafodd hamdden da i feddwl; a gwnaeth y defnydd *goreu* o'r distawrwydd maith! Meddyliodd lawer, a gwelodd lawer i'w wneyd, 'fel y gwelir heddyw.' Os bydd dy feddwl ar bethau crefydd, ti weli dithau ryw-beth i'w wneyd."—[*Pregeth* xvi., td. 187.]

Ond ofer yw lliosogi engreiffitiau, pan y maent wrth law yn y fath gyflawnder yn y gyfrol ei hunan. Gallein nodi y pregethau ii., vi.,

xxxiii., xxxv., li., a lii., heb law llawer ereill, yn cynnwys enghreifftiau nodedig o hyn.

Y dychmyg nerthol hwn, mewn undeb â *ffydd* gref—un yn ddawn natur, a'r llall yn ddawn gras—oedd yn rhoddi cyfrif am ei allu anghyffredin i *syhweddoli yr ysbrydol*. Gyda yr unig eithriad o'r diweddar Barch. HENRY REES, nid ydym yn gwybod i ni weled y gallu hwn mor gryf yn neb ag yn y pregethwr mawr o Dal-y-sarn. Rhwng natur a gras, yr oedd rhyw *affinity*—rhyw gyfathrach neu gydnawsedd hynod rhwng ei feddwl ef (fel yr eiddo JOHN FOSTER) a dirgelion mawrion y fuchedd dragwyddol. Clywsom ef lawer, gwaith yn dadlenu “gweledigaeth y pethau diweddaf” nes y byddai y gwrandawyr yn teimlo fel pe buasent yn y byd tragwyddol, a'r ddaear a'i helyntion bychain wedi ymgilio i'r pellder. O ran hyny, gyda'r pyngciau mwyaf arddunol mewn bod y byddai efe yn ei elfen—mawredd Duw, gogoniant Crist, y byd ysbrydol, a thragwyddoldeb.

Yr oedd yn ei natur ffynnonau dyfnion o *deimlad*. O dan yr urddas tawel, y pwyll, a'r hunan-feddiant cryf a hynodai ei ymdangosiad yn y pulpud, yr ydoedd yn huno dân cuddiedig, yr hwn yn raddol—fel y meddiennid ei ysbryd fwy-fwy wrth fyned yn mlaen gan bwysigrwydd a gogoniant y gwirionedd—a gynneuai yn eirias fawr. Golygfa arddunol oedd gweled enaid mawr fel yr eiddo ef ar dân. Byddai ei areithyddiaeth erbyn hyn yn llawn angerddolrwydd a nwyd (*passion*)—yn ymrywllt ar y gynulleidfa am ychydig fel ymfuriad y mynydd tanllyd, gan ysgubo pob peth o'i blaen.¹ Ni chlywsom erioed ddim mwy gorchfygol na'r tywalltiadau hyn o hyawdledd. Nid geiriau mawrion—nid *rhapsody*—a gwresogiaid anianyddol yn y weithred o siarad, a geid; ond enaid mawr yn cael ei danio yn raddol, fel y byddai mawredd y gwirionedd yn ymagor fwy-fwy o flaen ei ddirnadaeth. Yr oedd y goleuni yn cynnyddu o hyd yn gyfatebol i'r gwres—y meddyliau a'r iaith yn dyfod o hyd yn fwy arddunol, nes cyrhaedd y *climax*. Ond pan y troai o'r dull yma, i adael i'w wrandawyr gael eu hanadl am ennyd, i ddull mwy tawel a thoddedig, yr oedd yr effaith yn annesgrifiadwy. Yr ydoedd fel tywyniad haul drwy y cwmmwl, ar ol tymmhestl o fellt a chorwynt. Fel y canai EBEN FARRD, “lleddfid ei daranau” yn awr i “fiwaig o fwynhâd.” Ni “dychrynai” ni mwyach gan ei “ardderchawgrwydd;” ond deisyfai, perswadiai, “ennillai” ein “heneidiau,” drwy ddweyd y pethau mwyaf effeithiol (*pathetic*) yn y llais mwyaf melusber a thoddedig a glywodd ein clustiau erioed.² Yr oedd ei *lais* yn sicr, fel i berffeithio yr holl ragoriaethau ereill a wnaent i fyny ei effeithiolrwydd fel pregethwr, yn anghymharol mewn cwmpas ac ansawdd. Yr oedd yn llais o ddwfn dân yn naturiol; a llawer gwaith y buom yn teimlo swyn dirfawr tónau dyfnion ei *lais* yn y rhan gyntaf o'r bregeth—wedi eu cyssylltu fel yr oeddynt â'r fath urddas, hunan-feddiant pwylllog, a rhagoriaeth mater ac iaith. Ond y cyfryw ydoedd ei nerth a'i

¹ Gwelir darluniad bywiog o JOHN JONES yn pregethu mewn cymmanfa mewn cyfrol o “*Bregethau a Thraethodau*” gan y Parch. John Thomas, Liverpool. Y mae erthygl alluog hefyd ar “JOHN JONES” yn cyf. vi. td. 380—390 o'r “*Gwyddoniadur*.”

² Gwelir enghreifftiau nodedig o'r appeliadau toddiadol yma—ond fod swyn y llais a'r traddodiad, wrth gwrs, ar ol—yn y rhanau diweddaf o'r bregeth olaf yn y gyfrol hon.

ystwythder, fel y gallai eogyn o'r dyfnder yna, a chyrrhaedd nodau uchel iawn: yr oedd digon o nerth yn ei lais i daranu, a digon o ystwythder ynddo i chwareu drachefn mewn tŷnau o'r melodedd mwyaf peroriaethus. Y mae yn hysbys fod ganddo, er yn ieuangc, chwaeth neillduol at gerddoriaeth; ac nid rhyfedd, canys yr oedd ei enaid a'i lais yn orlawn o fwisg: a chyfansoddodd liaws o *airs* tŷnau cynnulleidfaol yn mlynnyddoedd diweddaf ei fywyd.

Ond rhaid i ni dynu y sylwadau hyn at y terfyn. Meddai ein gwrthddrych lawer iawn o'r rhywogaeth hwnw o arabedd a eilw y Sais yn *humour*. Nis galleid meddwl am ddim pellach oddi wrth ddigrifwch bras—anghoeth, neu ysgafnder. Yr oedd ei appeliadau, neu ei sylwadau hanner-chwareus ef, yn dyfod i mewn yn achlysurol, megys rhwng cromfachau—yn cyfeirio at feithder y bregeth, neu rywbeth cyffelyb, dibwys a hollol is-raddol: yr oeddynt ynddo ef yn hollol gyson â'r difrifwch ofnadwy a nodweddai ei ymdriniaeth â phethau cyssegredig, ac felly yr oeddynt yn amrywiad dymunol neu yn ymwared hyfryd, yn awr ac eilwaith yn ystod y bregeth, oddi wrth y llymder difrifwch hwnw. Gwelsom y sylw yn rhywle—ac yr ydym yn ei gredu—fod *humour* mewn rhyw ffurf yn nodweddu pregethwyr mwyaf pob oes. Ac onid ydyw hefyd yn eithaf gwir fod rhyw ddigrifwch tawel a choeth yn ymylu ar derfynau y *difrifwch* mwyaf, ac nad oes ond megys cam rhwng gwênau a dagrau?

Yr oedd ei *iaith* yn gynllun o rym a phrydferthwch. Byddem yn teimlo weithiau wrth ei wrandaw fod yn anhawdd dychymygu am *Gymraeg* mwy godidog: yr oedd yr ymadroddion yn wych, heb fod yn chwyddedig, ac yn eglur heb fod yn isel. Fel y dywedai *Glan Alun*:—yr oedd “ei *unig* iaith yn bur a choeth.” Ac heb law yr iaith, yr oedd ei feddwl a'i gyfansoddiad o nodwedd *gwir Gymroaidd*. Yr oedd hyn yn ddiammheu yn un elfen (is-raddol) yn ei boblogrwydd. Yr oedd yn *Gymro* trwyadl yn ei ddull o feddwl a theimlo, ac fel hyn yr oedd yn cael ymnedfa fwy rhwydd i fynwesau ei wrandawyr. Ni welsom neb erioed yn meddu rhagoriaethau mor uchel fel pregethwr, ac ar yr un pryd yn gallu sefydlu *cydymdeimlad* mor hollol rhyngddo ei hunan a'r gynnulleidfa. Gadawent iddo o'u gwirfodd eu gorchfygu; rhoddent eu hunain i fyny o'u bodd i nerth a swyn ei araethyddiaeth, gan ei chyfrif yn ffrainc hyfryd gael eu cymmyrd yn garcharorion i'w feddiant. Yr oedd yn ddwfn yn serch ei wrandawyr.

Yr oedd ei *wybodaeth* gyffredinol, ac yn enwedig ei wybodaeth Ysgrythyrol a duwinyddol, yn eang a manwl. Yr oedd yn ddiâu yn syndod ei fod wedi casglu cymmaint o wybodaeth, pan gofir nad oedd wedi cael manteision addysg foreuol, hyd y gwyddom ni, ond yr Ysgol Sabbathol. “Cymro uniaith” ydoedd; ond yr oedd ganddo lyfrgell fawr, a hono yn cael ei defnyddio yn dda, a'i hastudio yn drwyadl. Er mor fawr oedd ei athrylith, yr oedd efe yn *astudior caled*; yr oedd ei brif bregethau yn ffrwyth efrydiaeth ddwys a pharotoad llafur-fawr. Yr ydoedd yn gwbl gyssegredig i'r weinidogaeth. Dyn “*un peth*” ydoedd. Hyd yn oed yn mlynnyddoedd cyntaf ei fywyd priodasol, pan oedd ei deulu yn lliosog, a gofalon bywyd yn trymhau arno, ymgadwai yn ei lyfrgell, gan adael holl drafferthion y fasnach yn nwyllaw ei briod fyddlawn a gweithgar; yr hon a ymgymmerai yn

ewyllysgar & holl lafur a chyfrifoldeb y fywoliaeth, er mwyn iddo ef gael cwbl ryddid i ymroddi i lafur y weinidogaeth. Clywsom un o flaenoriaid mwyaf rhagorol sir Gaernarfon,¹ hen gymmydog a dygybl iddo, ac un sydd yn dwyn llawer o ddelw ei syniadau a'i ysbryd, yn gystal a'i ddull, yn adrodd ei fod wedi ei glywed lawer gwaith yn gwneyd y sylw—"nad oedd dim *mawr* a *neillduol* i'w ddiagwyl gyda'r efengyl oddi wrth neb nad oeddynt yn ymroddi i lafur y weinidogaeth fel gorchwyl penaf eu bywyd."

Pan y chwanegom at yr holl addurniadau hyn a osodwyd arno gan natur a gras fel dyn ac fel Cristion, ei alluocedd mawrion, nerth a gwreiddiolder ei feddwl, ffrwythlonrwydd ei ddychymyg, swyn ei hysawdledd a'i lais, ac ymroddiad ei lafur yn "y gair a'r athrawiaeth;"—pan chwanegom at y pethau hyn oll, *ysbryd* y weinidogaeth, ei doniau ysbrydol a neillduol hi ei hunan, yr eneiniad, y nerth, a'r llewyrch dwyfol, y rhai a amlygid mor fynych, ac i raddau mor nodedig yn ei bregethau, nid rhyfedd fod gwrandawyr yr efengyl yn mhob parth o Gynru yn ymdyru i'w wrandaw wrth y miloedd. Gwnaeth argraff ddofn ar ei oes. Nid gormod ydyw dyweyd iddo newid llawer ar dôn a chyfeiriad y pregethu, o'r dull pyngciol, dadleugar, ac unochrog o drin y gwirionedd, oedd wedi bod yn rhy gyffredin yn Nghymru, i ddull mwy eang a buddiol, a rhagorach yn mhob ystyr o'r gair. Ar yr un pryd, gallai ei fod, yn ei zêl ganmoladwy dros ddyfod & gwirioneddau yr efengyl i gyffyrddiad & chalonau a chydwybodau y gwrandawyr—gallai ei fod yn sefyll yn rhy hollol ar yr ochr *ddynol* i'r gwirionedd. Nid oedd ei gyfundraeth o athroniaeth foesol nac o dduwinyddiaeth yn gyflawn, o bossibl, am nad oeddynt yn ddiigon eang i gymmeryd i mewn "wirioneddau gwrthgyferbyniol." Ond yr oedd yn nodwedd bendithiol yn ei weinidogaeth ef, ac yn nodwedd ag oedd wedi bod yn ddiâu yn rhy brin yn y cyfnod blaenorol i'w amser ef, pa gangen bynag o athrawiaeth gras yr ymdriniaid & hi, y gofalai am gyflwyno y cwbl mewn gwedd ymarferol, yn ddefnyddiau ymresymiad difrifol â'r pechadur ar fater bywyd tragwyddol—i chwalu ei esgusodion, i'w ymlid o bob gau-noddfeydd, ac i'w gyfodi at ei ddyledswydd o "weithio allan ei iachawdwriaeth ei hunan trwy ofn a dychryn." Diau genym ei fod wedi ei ddefnyddio gan ei Feistr Mawr yn offeryn dychweliad ac adelladaeth llaweroedd o eneidiau.

Ceir ef yn y pregethau hyn "wedi marw yn llefaru etto." Gwel pawb ag oeddynt yn gydnabyddus â'i weinidogaeth eu bod i raddau helaeth, a bod rhai o honynt i raddau nodedig iawn, yn wir ddelw o hono, mor bell ag y gall hyny fod pan wedi ysgaru y bregeth oddi wrth y pregethwr. Ond y mae y gwirioneddau, hadau bywyd, yn aros yma: a'n gobaith a'n gweddi ydyw y bydd i'r gwirioneddau hyn, a fendithiwyd mewn modd mor neillduol yn y traddodiad o honynt o'i enau pan yn fyw, gael eu bendithio yn helaeth etto yn y ffurf hon, pan y mae y genau a'u llefarodd wedi ei sêlio yn nystawrwydd marwolaeth. Bydded iddynt fod yn foddion i ddychwelyd llawer at yr Arglwydd, ac i nerthu ac adfywio eneidiau y pererinion ar eu taith i'r ddinas nefol.

¹ Mr. William Owen, Penbryn-mawr, Pen-y-groes (Llanllyfni).

P R E G E T H I.

OFFEIRIADAETH DRAGWYDDOL MAB DUW.

Hebreaid vii. 24.

“Ond hwn, am ei fod yn aros yn dragwydd, sydd âg offeiriadaeth dragwyddol ganddo.”

Un o amcanion yr apostol yn ysgrifenu yr epistol hwn oedd diddyfnu y genedl Iuddewig oddi wrth oruchwyliaeth Moses, a'u cymmodi â'r oruchwyliaeth efengylaidd—eu cael oddi wrth yr offeiriadaeth Lefiaidd at offeiriadaeth fawr yr Arglwydd Iesu. Y mae yn amlwg fod hyn yn beth anhawdd iawn ei wneuthur. Yr oedd y genedl Iuddewig yn gwybod “lefaru o Dduw wrth Moses”—mai yr Arglwydd ei hun oedd wedi sefydlu y swydd offeiriadol er's llawer oes bellach yn llwyth Lefi. Gwyddent hefyd nad oedd Crist wedi hanu o'r llwyth hwnw—o leiaf yn y fath fodd fel ag i roddi hawl iddo i'r offeiriadaeth yn ol eu cyfraith hwy. O lwyth Judah yr hanodd ein Harglwydd ni yn ol y cnawd; ac yr oedd hyn, yn mysg pethau ereill, yn rhwystr cryf iddynt i dderbyn Crist yn offeiriad, am nad oedd yn ol eu tyb hwy o'r iawn lwyth: “Canys hysbys yw mai o Judah y cododd ein Harglwydd ni: am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moses ddim tuag at offeiriadaeth.” Yr oedd gan y genedl olwg uchel iawn ar y swydd offeiriadol; edrychent arni yn swydd o bwys mawr, a dysgwylent bethau mawrion trwyddi. Trwy eu hoffeiriad a'u harchoffeiriad y cyflwynent eu holl aberthau i Dduw. Yr archoffeiriad fyddai yn arfer myned drostynt i'r cyssegr sancteiddiolaf unwaith yn y flwyddyn i wneuthur cymmod rhyngddynt â Duw. Yr oedd hyn wedi eu harwain i edrych ar y swydd offeiriadol fel swydd o bwys mawr, yn swydd oedd yn cael effaith bwysig ar eu hachos; a dysgwylent bethau mawrion oddi wrthi a thrwyddi. Yr oedd yn anhaws eu tynu oddi wrth yr hen offeiriadaeth Lefiaidd nag y meddyliem.

Yr ydym yn cael yr apostol Paul, os efe oedd awdwr yr epistol hwn, yn cyfarfod y syniad yna yn hynod o ddechouig a

phriodol. Y mae yn symmud ymaith yr wrthddadl hon yn hollol deg, trwy ddwyn i'w sylw hen offeiriad a gydnabyddid gan y genedl yn gyffredin fel gwir offeiriad i Dduw; ac yr oedd Abraham, gyda'r hwn y cydoesai, yn ei gydnabod felly. Nid oedd yr hen offeiriad hwnw o achau Lefiaidd. Ei enw oedd Melchisedec. Dywedir yn niwedd y bennod o'r blaen fod Crist "wedi ei wneuthur yn offeiriad yn dragwyddol yn ol urdd Melchisedec:"—aeth i'r swydd yn gyffelyb mewn rhyw bethau i'r modd yr aeth Melchisedec iddi. Wedi hyny rhydd ychydig o'i hanes: dywed ei fod yn frenin Salem—yn offeiriad y Duw Goruchaf—ei fod wedi cyfarfod âg Abraham ar ei ddychweliad o ladd y brenhinoedd—ei fod wedi bendithio Abraham, a bod Abraham wedi talu degwm iddo o'r ysbail a gymmerasai. Yr oedd gwaith Abraham yn cymmeryd ei fendithio ganddo, yn addefiad, o'i du ef, ei fod yn offeiriad cyfreithlawn. Perthynai i swydd yr offeiriad fendithio y bobl; a dyma yr achos y mae yn debyg fod yr apostol yn coffau ddarfod i Melchisedec fendithio Abraham, i ddangos fod Abraham wedi ei gydnabod yn wir offeiriad i Dduw trwy gymmeryd ei fendithio ganddo. Dywed yn mlaen: "Yr hwn sydd *leiaf* a fendithir gan ei well." Yr oedd Abraham, trwy gymmeryd ei fendithio gan Melchisedec, yn addef fod Melchisedec uwchlaw iddo mewn swydd. Cydnabyddai ef yn offeiriad trwy roddi degwm iddo—addefai ef yn "offeiriad i'r Duw Goruchaf." Nid oedd neb i dderbyn degwm ond offeiriad. Nid oes ddegwm i fod heb offeiriad, nac offeiriad heb ddegwm (ond y niwed fawr sydd yn digwydd weithiau yw, fod y degwm yn creu ambell un diddefnydd a eilw ei hun yn "offeiriad"). Yr oedd Abraham trwy hyn yn cydnabod Melchisedec yn offeiriad cyfreithlawn, trwy gymmeryd ei fendithio ganddo, a thrwy dalu degwm iddo.

Wedi hyny y mae yr apostol yn dyweyd ei fod "heb dad, heb fam, heb achau, heb fod iddo na dechreu dyddiau na diwedd einices; eithr wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw," yr hwn "sydd yn aros yn offeiriad yn dragwydd." Nid heb dad a mam fel dyn a feddylir: yr oedd ganddo dad a mam, ac achau fel dyn: ond cymmeryd golwg arno fel offeiriad y mae yr apostol. Nid oedd iddo dad yn offeiriad, ac nid oedd mam iddo o achau offeiriadol. Nid trwy rinwedd achau offeiriadol y daeth yn offeiriad. Nid oedd y swydd wedi ei sefydlu mewn achau yn ei ddyddiau ef: yn mhen cannoedd o flynyddoedd ar ol hyn y sefydlwyd y swydd mewn achau: felly fe ddaeth Melchisedec i'r swydd trwy ryw ffordd heb law trwy rinwedd achau cnawdol. Yr oedd yn hyny wedi ei wneuthur yn offeiriad "yn gyffelyb i Fab Duw." Daeth Crist yn offeiriad trwy gael ei osod gan Dduw, ac nid trwy rinwedd achau cnawdol.

Nid oedd i'r Melchisedec hwn chwaith fel offeiriad, "na

dechreu dyddian na diwedd einioes." Nid fel dyn yr oedd felly. Yr oedd iddo ddechreu dyddiau a diwedd einioes fel dyn. Yr oedd cyfraith yn mysg yr Iuddewon yr adeg hono, medd rhai esbonwyr, nad oedd neb i gael myned yn offeiriad o dan ddeng mlwydd ar hugain oed, ac nad oedd neb i barhau ynddi dros ddeng mlwydd a deugain oed. Nid ydym yn cael y gyfraith hono yn llyfrau Moses; gallai mai yr Iuddewon eu hunain a'i ffurfiodd (yr oeddynt wedi chwaneu llawer at y gosodiadau dwyfol), a thebyg yw fod golwg yr apostol arni. Nid oedd dechreu dyddiau wedi ei nodi yn amser Melchisedec, na diwedd einioes wedi ei benderfynu mewn cyfraith, pryd y peidiai a bod yn offeiriad: y mae yn debyg iddo ddyfod i'r swydd yn ieuange—fe allai yn ugain mlwydd oed—a pharhau ynddi tra y bu byw. Felly, tybia rhai iddo fod yn offeiriad dros ei oes. Yr oedd yn hyny yn gyffelyb i Fab Duw: y mae Crist i fod yn offeiriad tra y bydd efe byw, ac fe fydd hyny yn dragywydd.

A chan ei fod felly—"yn aros yn dragywydd," ac i fod yn offeiriad tra y byddo byw—y mae "offeiriadaeth dragwyddol ganddo." Y mae i ddal y swydd byth. Wedi hyny y mae yr apostol yn dwyn yn mlaen brophwydoliaeth am Grist wedi ei chymmeryd o *Salm* ex.: "Tyngodd yr Arglwydd ac ni bydd edifar ganddo, Ti wyt offeiriad yn dragwyddol yn ol urdd Melchisedec." Yna y mae yn dadleu fod yn rhaid cael Crist heb fod o lwyth Lefi, onidê nis gallasai ddyfod i'r swydd i gyf-atted i'r brophwydoliaeth—"offeiriad yn ol urdd Melchisedec," ac nid yn ol urdd Aaron, oedd efe i fod. Yna y mae yn dyfod i sylwi ar y llŵ oedd wedi ei osod arno: "Tyngodd yr Arglwydd." Mi feddyliwn mai yn yr un ystyr y mae i ni esbonio y llŵ fel prawf o anghyfnewidioldeb cynghor Duw, ac hefyd fel prawf o dragwyddol barhâd a sefydlogrwydd offeiriadaeth Crist:—"Yn yr hyn Duw yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor, a gyf-ryngodd trwy llŵ." Pa angenrheidrwydd oedd am y llŵ? Nid oedd y llŵ yn gwneuthur yr addewid ei hunan yn ddim cryfach. Y mae addewid noeth Duw yn berffaith sicr; ond chwaneuwyd y llŵ at yr addewid i ddangos dianwadalwch yr addewid. Fe ymostyngodd Duw i chwaneu llŵ at yr addewid, er mwyn gwneuthur yn eglur i ni y cadernid tragwyddol oedd yn perthyn iddi o'r blaen. Felly y mae yr apostol yn sylwi fod gosodiad Crist yn offeiriad i barhau yn sefydlog; y mae wedi ei osod yn y swydd i aros ynddi yn dragywydd: ac y mae llŵ Duw ar y mater yn ddangosiad i ni o'r sefydlogrwydd hwnw.

Wedi hyny, dywed fod Lefi wedi talu degwm i Melchisedec yn mherson Abraham. Yr oedd gan yr Iuddewon feddwl uchel am sancteiddrwydd llwyth Lefi; a meddylent nas gallai neb fod yn gymhwys i'r offeiriadaeth ond y llwyth hwnw. Ond dywed

yr apostol yma fod yr *achau* hyny wedi talu degwm i Melchisedec. Nid person Lefi, ond *achau* Lefi yn mherson Abraham.

Yna y mae yn dyfod yn mlaen i sylwi fod angeu yn luddias i'r offeiriad Iuddewig barhau yn eu swydd. Yr oedd angeu yn eu diosg o'u swydd o hyd. Heb law nad oedd eu haberthau yn gwneyd iawn dros gamwedd, yr oedd angeu yn eu diosg o'u swyddi; "o herwydd luddio iddynt gan farwolaeth barhau." Ond am Grist, fe ddaliodd efe ei awdurdod yn y swydd trwy angeu; ac nid yn unig hyny, eithr yn angeu y cyflawnodd efe fawr-waith y swydd. Yma y rhoddodd iawn i Dduw, ac y gosoddodd sail i'w eiriolaeth drosom ger bron y Tad. Yr oedd y swydd offeiriadol o dan yr hen oruchwyliaeth yn debyg i golomen Noah wedi ei gollwng o'r arch i chwilio am orphwysfa, ar y naill ddeilen ar ol y llall; ond suddo i lawr yr oedd pob un. Felly yr oedd yr offeiriadaeth: disgyn ar y gangen egwan hon a'r gangen egwan arall, ond yr oedd y cwbl yn ei gollwng. Eithr pan orphwysodd hi ar Fab Duw, hi a gafodd graig dragwyddol o dan ei thraed: "Ond hwn, am ei fod ef yn aros yn dragwydd, sydd âg offeiriadaeth dragwyddol ganddo," neu "offeiriadaeth *anllithredig*." Yr oedd yr offeiriadaeth o dan yr hen oruchwyliaeth yn llithro o hyd: ar bwy bynag y disgynai y swydd, nid arosai hi ddim yn hir—yr oedd hi yn llithro oddi yno yn fuan. Ond y mae offeiriadaeth Crist yn "anllithredig:" nid ydyw byth i ymadael—y mae i sefyll yma yn dragwydd. Y mae yn beth o bwys i ni pwy sydd i fod yn offeiriad i ni, beth bynag am bob swydd arall. Y mae yn beth o bwys i ni gael dynion i lenwi swyddau ereill yn deilwng, ond nid yw dedwyddwch dragwyddol neb yn ymddibynu ar unrhyw swydd ond y swydd hon. Y mae yn debyg y cyfarfyddwn â phethau fydd yn fyr o ateb ein disgwyliaid; ond y mae yn amhossibl disgwyl gormod wrth y swydd hon, ac nid oes berygl i ni gael ein siomi.

Sylwn ar yr achosion PA HAM Y MAE CRIST I AROS YN EI SWYDD YN DRAGWYDD. Y mae hwn yn gwestiwn sydd yn gofyn am atebiad ystyriol. Fe gymmer amser hir i'r dynion a all draethu yn dda i wneuthur hyny ar hyn; o ran hyny, fe gymmer dragwyddoldeb dyn ar ei hyd, a thragwyddoldeb holl angylion y nefoedd i'w esbonio yn llawn!

I. Y mae hwn yn aros yn dragwydd, o herwydd *fod holl amcanion y swydd bwysig hon yn ddiogel yn ei law*. Y mae o blegid hyny i aros yn dragwydd yn offeiriad.

1. Y mae Crist fel offeiriad wedi cyflawni yr amcan mawr hwnw gyda llwyddiant mawr, sef *dwyn allan egwyddorion crefydd i eglurdeb*. Nid oes eisieu i chwi ddeall dim yn chwaneag nag a ddywedodd efe. Fe ddywedodd gymmaint ag sydd yn angenrheidiol i ni ei ddeall a'i gredu. Yr oedd egluro gwir-

oneddau crefydd yn perthyn i'r swydd offeiriadol o dan yr hen oruchwyliaeth. Perthynai i'r offeiriad egluro y gyfraith i'r bobl; ac yr oedd defodau y swydd yn dysgu egwyddorion crefydd i'r bobl: heb law bod yn gysgodau i ddangos daionus bethau i ddyfod, yr oeddynt wedi eu cyfaddasu a'u bwriadu i ddysgu egwyddorion crefydd i'r genedl. Yr holl olchiadau:— yr oeddynt wedi eu bwriadu i ddysgu i'r bobl fod y Duw a addolent yn un perffaith sanctaidd a glân. Cawn yr Arglwydd yn gorchymyn i'r genedl ymlanhau mewn ystyr dymmorol; a'r rheswm a roddir am hyny yw, "Am fod yr Arglwydd dy Dduw yn rhodio yn mysg dy lwythau, am hyny bydded dy wersyllau yn sanctaidd, rhag iddo gael ynot ddim bryntni." Yr oeddynt wedi eu bwriadu i ddysgu i'r genedl fod y Duw a addolent yn Dduw sanctaidd, a bod angenrheidrwydd arnynt am gydwybod ac ymarweddiad pur. Y mae y pwngc yma hefyd yn rhesdeg drwy y Testament Newydd; ac y mae i gael ei ddeall yn ngweinidogaeth yr efengyl hyd ddiwedd y byd.

Y poeth-offrwm—llosgi yr aberth ar allor fawr y poeth-offrwm: yr oedd hyn wedi ei fwriadu i ddysgu iddynt fod y Duw a addolent wedi ei ddigio o blegid pechod, fod yn rhaid iddynt gael cymmod âg ef trwy aberth, fod yn rhaid iddynt gael maddeuant mewn iawn, ac nad oedd un ffordd arall i ddyfod i'w heddwch. Y Shecinah:—o'r tu fewn i'r llen y byddai bob amser: beth bynag oedd, yr oedd yn rhywbeth sefydlog a gedwid o'r tu fewn i'r llen. Gallai mai rhyw dân, neu rhyw belydr oedd, yn arwydd i'r genedl eu bod yn heddwch Duw. Ond o'r tu fewn i'r llen y byddai bob amser; ni châi y bobl gyffredin byth ei weled. Yr oedd yno lawer hen ŵr duwiol dros bedwar ngain mlwydd oed yn byw yn Ierusalem; yn byw, hwyrach, yn yr un ystrôd a'r deml—yn byw yr holl amser yma ac yn marw heb erioed weled y Shecinah. Beth oedd hyny yn ei ddysgu? Y mae yn debyg ei fod yn dysgu iddynt fod y Duw a addolent yn Dduw anweledig; a bod yn rhaid iddynt ei adnabod trwy ffydd yn y dadguddiad a roddes efe o hono ei hun. Fel hyn, yr oedd holl ddefodau yr oruchwyliaeth hono wedi eu bwriadu i ddysgu i'r genedl egwyddorion crefydd.

Ond tywyll iawn y gadawodd yr hen athraw had Abraham, wedi bod yn eu dysgu am amser maith. Yr oedd yr hen oruchwyliaeth wedi gadael rhai pethau yn lled aneglur, sydd yn eglur iawn yn y Testament Newydd; megys bodolaeth byd ar ol hwn, nef y gogoniant, &c. Nid oes dim rhyw lawer o gyfeiriadau eglur at y pethau yna yn yr Hen Destament. Cawn hanes yr hen dduwiolion yn marw; ond ni sonir dim eu bod yn myned i'r nefoedd. Eithr fe ddygodd Crist "fywyd ac allygredigaeth i olenni." Nid yn unig fe bregethodd yr athrawiaethau oedd yn cael eu dysgu gan y defodau a nodwyd, ond

fe'u dysgodd yn fwy eglur. Fe "ddiddymodd angen," ac fe dynodd y llen oddi ar wyneb y byd tragwyddol, fe ddyg "fywyd ac anlygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl." Yr oedd llen ar wyneb y byd arall o dan yr hen oruchwyliaeth; ond pan ddaeth Crist, fe dynodd y llen—fe daflodd wyneb y byd tragwyddol yn llydan a goleu. Y mae duwion o dan yr oruchwyliaeth bresennol yn gallu edrych i'r byd tragwyddol. Y maent yn "gweled Iesu wedi ei goroni & gogoniant ac anrhydedd." Yr oedd y nefoedd yn cael ei hegluro yn athrawiaeth Crist: "Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau." Siaradai am y nef fel pe buasai y *room* nesaf: yr oedd y "bywyd tragwyddol" ar ei wefus o hyd.

2. Fe *eglwyrdd cariad Duw* at bechaduriaid yn rhyfeddol trwy yr Arglwydd Iesu Grist. Yr oedd efe yn dyfod i'r golwg o dan yr hen oruchwyliaeth fel Duw hollalluog. Weithiau amlygai ei gyfiawnder trwy gospi. Weithiau amlygai ei allu mewn gwyrthiau. Ond yn Nghrist y cawn yr amlygiad penaf o gariad Duw: "Yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef yn gyntaf ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau ni." *Yma* y mae yn dyfod i'r golwg yn rhyfeddol: "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab." Yr oedd angenrheidrwydd i Dduw ddyfod i'r golwg fel hyn yn gariad i gyd, mewn trefn i ladd gelyniaeth calon dyn. Nis gallai dim arall wneuthur hyny; a phan y mae pechaduriaid yn dyfod i'w adnabod felly, y maent yn myned i fethu ymladd. Yn Nghrist y mae *character* Duw yn cael ei egluro. Y mae Crist yn yr ystyr hwn yn "oleuni y byd." Y mae wedi gwneuthur y gwaith yn gyflawn, fel nad oes eisieu neb ar ei ol; ac am hyny, y mae "i aros yn dragwydd."

II. Y mae i gael aros yn dragwydd, o herwydd *ei fod wedi cyflawni gwaith y swydd yn berffaith drosom tuag at Dduw*. Rhoddi *iawn* drosom—ni wyddom ni ddim pa faint oedd hyny. Yn y swydd arall, yr oedd y patriarchiaid a'r prophwydi yn cael bod yn gydweithwyr âg ef; a'r apostolion ar ol hyny yn cael bod yn gydweithwyr i egluro gwirioneddau crefydd i'r byd—ac y mae eglwys Dduw yn cael yr un fraint hyd ddiwedd y byd. Ond am y gwaith o roddi iawn i Dduw drosom, "o'r bobl nid oedd neb" gydag ef; efe ei hunan oedd raid wneuthur y cwbl. Fel Moses gynt, pan esgynai i'r mynydd ei hunan, felly Crist fel offeiriad—bu raid iddo nesau at Dduw drosom ei hun. Ni wyddom ni ddim pa faint a wnaeth yno; ond fe wnaeth ddigon. Cawsom enw arno sydd yn golygu hyn:—*Iawn!* Y mae y gair hwn yn arwyddo digonolrwydd perffaith; fe wnaeth y tro, fe ddaw yn gymmod rhyngot & Duw; y mae yn sicr o ateb ei ddyben yn llawn—y mae yma *iawn*. Nid ei wneuthur.

yn bwngc i ryw daeru yn ei gylch a ddylem: nid yw y Beibl yn dyweyd am dano ei fod yn derfynol nac anfeidrol, ond y mae yn sicr o wneyd y tro. Os oedd angenrheidrwydd iddo fod yn anfeidrol, y mae felly. Yr oedd yn *iawn*—y mae wedi cyrhaedd hyny; ni chyrhaeddodd un offeiriad arall hyny erioed. Nid oedd y cwbl a wnaethant hwy ond *dim* tuag at wneuthur iawn. Ni fwriadodd Duw y swydd hono i'r pwrpas yma: at hwn yn unig yr edrychai am iawn. A pha beth bynag oedd yn angenrheidiol i gael sail gyfreithlawn i wneyd heddwch rhwng pechadur a Duw, y mae wedi ei gael; a dyma yr enw roed arno—*iawn*! Bydded i ninnau ymorwedd arno. Nid ei wneuthur yn bwngc dadl, ond yn sylfaen gobaith. Y mae i *aros* o blegid hyny yn dragywydd. Nid oes yma ddim i neb i'w wneuthur ond efe. Y mae wedi cyrhaedd holl amcanion y swydd yn llwyddiannus: nid oes yma ddim wedi ei adael heb ei orphen. “Efe yw yr *iawn*.”

III. Y mae i *aros* yn dragywydd, o blegid *y mae wedi mynad i'r lywodraeth ar sail yr iawn a roddodd*. Fe aeth llawer o'r archoffeiriaid Iuddewig i'r cyssegr sancteiddiolaf a gwaed i'w daenellu, ond ni feiddiodd un o honynt fyned at y drugareddfa i deyrnasu. Wedi taenellu y gwaed, da oedd cael dyfod allan; ni feiddiai un o honynt eistedd ar orsedd y drugareddfa. Nid aeth un o honynt a gwaed yn teilyngu hawl i hyny. Ond fe gafwyd gwaed gan Grist a roddodd hawl iddo eistedd ar orsedd y llywodraeth. Efe biau y drugareddfa. Y mae ganddo awdurdod i faddeu pechodau, ac awdurdod ar yr holl greadigaeth. Fe aeth i mewn i'r awdurdod hon trwy ei waed ei hun. Fuasai efe ddim yn cael awdurdod fel Cyfryngwr i faddeu pechodau, nac i lywodraethu y greadigaeth, ond ar sail ei iawn: “O herwydd pa ham, Duw a'i tra dyrchafodd yntau.” “O herwydd” pa beth? O herwydd iddo “fod yn ufudd hyd angu, ie, angu'r groes:”—“O herwydd pa ham Duw a'i tradyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw, yr hwn sydd goruwch pob enw.” Nid oes dim eisieu neb ar ei ol. Y mae wedi cael gafael ar lywodraeth yr holl greadigaeth: pethau mawrion a bychain, y mae iddo lywodraeth dros y cwbl. 'Dyw ddim yn beth i'w ryfeddu, os oes ambell i hen ymherodraeth, sydd wedi bod yn rhwystr i lwyddiant ei deyrnas, yn dechreu crynu: Mab Duw sydd yn anadlu arnynt, ac y maent yn sicr o gwymbo. Rhaid i'r llywodraeth fod yn ei law, i'r dyben iddo weithio allan ei amcanion mawr. Angu'r groes fydd biau'r ddaear yma i gyd yn y man! Fe droes yn erbyn y diafol am byth ar Galfaria. O ran hyny, y mae y frwydr wedi ei hennill; nid oes dim ond ychydig o weddillion o'r cwbl heb eu hennill. Mab Duw biau y ddaear yma. Y mae ei hawl yn gyfiawn. Rhaid iddo feddiannu yr holl genhedloedd. O Arglwydd! brysia'r dyddian.

O! y fath waredigaeth i holl genhedloedd y ddaear, O Arglwydd Iesu! fyddai cael dy iau esmwyth di, yn lle y gorthrwm ofnadwy sydd yn canlyn egwyddorion drwg!

IV. Y mae hwn i aros yn dragywydd, o herwydd *y mae yn alluog i orchfygu a darostwng holl elynion ei deyrnas*. Y mae yn medru trin uffern fel y myno. Nid oes eisieu neb arall i ymladd âg uffern. Y mae wedi llwyddo, yn llwyddo, ac yn sicr o lwyddo rhagllaw. Pe buasai Syr Charles Napier yn llwyddo yn y *Baltic* i foddlonrwydd y llywodraeth, a'n boddlonrwydd ninnau (waith y mae genym ninnau lawer i'w ddywedyd ar faterion felly), fe allai y cawsai aros yn ei swydd; ond methu a llwyddo i roddi y boddlonrwydd hwnw a wnaeth, ac felly ei droi o'i swydd a gafodd. Ond y mae Mab Duw i aros yn dragywydd, o herwydd y mae yn hynod o lwyddiannus yn y rhyfel yn erbyn gallu y tywyllwch yn y byd. Pe buasai y boneddwr a nodwyd yn gallu cymmeryd llawer o longau rhyfel Rwsia, cawsai aros yn ei swydd, ond odid: ond am Grist, hynod mor lwyddiannus ydyw yn erbyn egwyddorion drwg! Y mae yn cymmeryd ambell i *man of war*, ac yn troi eu *cannons*, y rhai a ergydient yn erbyn, i fod o blaid, ei deyrnas; a lluchia ambell i *bomb shell* i wersyll y gelyn, ac y mae rhai o honynt wedi cyrhaedd i ymyl gorsedd y bwystfil. Y mae "yn aros yn dragywydd." Fe fydd rhyw obaith am fuddugoliaeth tra y bydd efe ar yr orsedd. O Iesu bendigedig! dal dy afael yn y deyrnwialen! Os rhoi di hi heibio, fydd dim gobaith i ni. Ni waeth ar y ddaear pa beth a newidir, tra y caffom Fab Duw ar yr orsedd, ni wnawn yn o lew. Pa gyfnewidiadau bynag a all ein cyfarfod, fe fydd gobaith i ni tra y bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef.

V. Y mae hwn i aros yn dragywydd, o blegid *y mae ei waed yn dygyfmod yn rhagorol â chydwybod pechadur*. Y mae llawer o honoch wedi profi ei rinwedd. O bob peth a elwir yn ddedwyddwch ar y ddaear, dyma y cryfaf—dyma 'r uchaf a'r mwyaf ei werth—y dedwyddwch hwnw sydd yn cyfodi oddi ar daenelliad o waed Iesu Grist ar y gydwybod. O Arglwydd! dyro'i brofi! Cael teimlo heddwch â Duw mewn iawn, y mae yn hyn ddedwyddwch. Gellwch edrych ar angen heb ofn, ac edrych yn mlaen i dragywyddoldeb heb ddychryn. Mynwch brofiad o'i rinwedd! Nid oes dim eisieu gwaed arall i buro y gydwybod: y mae hwn yn glanhau. Tra bo hwn yn gwneyd ei waith, ac yn ateb ei ddyben, ni raid i ni droi i ymofyn gwaed arall. Ni wyr neb am ddim sydd yn werth ei alw yn ddedwyddwch ar y ddaear, ond y rhai sydd yn gwybod am dangnefedd a heddwch â Duw, trwy gael golwg ar berson ac aberth Mab Duw. Y mae yma ddedwyddwch nad oes dim yn werth ei alw felly mewn cymmhariaeth iddo. O Arglwydd! rho ei deimlo!

1. Gan mai hwn sydd yn aros yn dragywydd, rhaid i ni ben-

derfynu ein sefyllfa dragwyddol *yma*. Gwrthod di hwn, chei di gynnyg neb byth ar ei ol. Dyma gynnyg olaf Duw i'r byd am iachawdwriaeth! Yr wyt yn gwneyd rhywbeth o bwys anfeidrol, a pheth nad anghofi byth mo hono, yn dy ymddygiad tuag at y Ceidwad. Pa beth wyt ti yn ei wneuthur â'r ymrysoniadau sydd ar dy feddwl? Pa fodd yr wyt ti yn ymddwyn at wahoddiadau Crist yn yr efengyl? Yr wyt yn gwneyd rhywbeth a gaiff effaith annhraethol bwysig ar dy achos. Cynnyg olaf Duw i bechaduriaid yw hwn: "Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall." Nid yw Duw yn meddwl byth agor ffordd arall o iachawdwriaeth, ac os na châ hon dderbyniad genyt, ni weli di gynnyg byth ar ol y cynnyg hwn.

2. Gan fod hwn yn aros yn dragwydd yn offeiriad, y mae *yma* gysur i'r saint wrth feddwl symmud i'r byd tragwyddol. Mae pob Cristion ystyriol yn meddwl llawer am hyny. Wrth symmud i'r byd tragwyddol, fe fydd pob peth yn newydd—pob peth yn fawr a phwysig. Bydd y cwmni yn ddyethrol iawn. Gallai na chyfarfyddi â neb yn y wlad am filoedd o flynyddoedd oeddit ti yn adnabod. Ti gyfarfyddi â rhyw newydd-deb mawr wedi cyrhaedd yno. Ond y mae hyn yn rhyw gysur i feddwl y Cristion—pwy bynag fydd yn ei adnabod, a phwy bynag na fydd yn ei adnabod, fe fydd wedi dyfod i adnabod ar y ddaear yr Offeiriad Mawr, ac efe fydd y mwyaf ei ddylanwad o neb yn y wlad. Fe fydd yr offeiriadaeth fel cwmwl yn defnyddu, "fel gwllithlaw ar ir-wellt," yn defnyddu ar baradwys Duw i dragwyddoldeb. Tra y medri di feddwl am dy offeiriad yn y nefoedd, ni bydd perygl i ti oeri yn dy sêl. Fe fydd y swydd yn fendith dragwyddol i'th sefyllfa yn y byd a ddaw. Fe wna dy dragwyddoldeb yn ddedwydd ar ei hyd. Ti fyddi yn adnabod yr offeiriad pan ai yno, ac fe fydd hyny yn ddigon i'th *recomendio* i bawb arall, fel y bydd pob angel yn y nef yn dy barchu. Ac os bydd yno ryw filiynau heb wybod dim am danat, dim ond i Fab Duw roi ar ddeall iddynt dy fod yn gymmeradwy yn ei olwg ef, ti fyddi yn gymmeradwy yn eu golwg hwythau mewn munyd!

P R E G E T H I I.

HUNAN-AMDDIFFYNIAD DUW.

Jeremiah ii. 5, 6.

“Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Pa anwiredd a gafodd eich tadau chwi ynof fi, gan iddynt ymbellhau oddi wrthyf, a rhodio ar ol oferedd, a myned yn ofer?”

“Ac ni ddywedant, Pa le y mae yr Arglwydd a'n dug ni i fyny o dir yr Aipht; a'n harweiniodd trwy yr anialwch; trwy dir diffaeth, a phyllau; trwy dir sychder, a chysgod angeu; trwy dir nid aeth gŵr trwyddo, ac ni thrigodd dyn ynddo?”

Y MAE llawer o wirioneddau pwysig wedi cael eu chwilio allan, a'u profi, a'u sefydlu yn mysg dynion trwy ddadleuon meithion; y naill yn ymdrechu i'w gwrthbrofi, a'r llall yn eu cadarnhau. Gwaith dynion galluog yn ymresymu yn y modd hwn a fu yn foddion i frwr i lawr lawer o gamsyniadau ynghylch pethau naturiol a chelfyddydol, yn gystal a chrefyddol. Yr oedd y byd dysgedig yn yr hen oesoedd yn barnu yn wahanol iawn i'r oes hon am drefn ac ysgogiadau dosbarth yr haul; ond trwy hir ddadleu y pwngc, daeth i oleuni, ac y mae bellach wedi ei sefydlu. Ac felly y bu gyda llawer o wirioneddau ereill, naturiol a chrefyddol.

Onid y mae un pwngc o bwys mawr mewn dadl er's llawer oes, ac heb ei brofi i foddlonrwydd i bawb etto. Y mae y mwyaf pwysig i bob dyn; sef, hawl y Duwdod i'r addoliad a'r gwasanaeth y mae yn ei ofyn gan ddyinion. Y mae dadleu mawr wedi bod ar y pwngc hwn yn y byd yn mhob oes, ac y mae mor frwd eleni ag erioed. Y mae un blaidd yn dadleu o du honiadau Duw ar ddyinion. Yr oedd rhyw gynifer yn mhob oes yn sefyll dros hyn; er eu bod yn rhai o'r canrifoedd a aeth heibio yn ychydig iawn o rifedi, ac yn dadleu dan amgylchiadau tra anfanteisiol, fel y costiodd y ddadl iddynt gymmaint oll ag a feddent, a'u bywyd hefyd. Ond yn ddedwydd iddynt hwy, darfu i gywirdeb yr achos a amddiffynasant godi eu penau yn mysg cenhedloedd deallus a chyfiawn, a pheri i'w henwau

ddisgleirio "fel y ser byth ac yn dragywydd." Ond er fod yn awr nifer liosog yn dadleu y mater hwn yn y byd, ac yn cael rhyddid i'w ddaedleu yn y pulpud, ar yr aelwyd gyda'r plant, a thrwy yr argraphwasg, y mae er hyny y nifer mwyaf o wrandawyr yr efengyl heb eu hargyhoeddi fod rhwymau arnynt i wasanaethu Duw.

Ac fel y mae yn arferiad mewn dadleuon i'r naill blaidd ofyn cwestiwn i'r llall, felly y mae yma un cwestiwn tra theilwng yn cael ei gyfeirio at yr holl annuwiolion gan Dduw ei hun. A chan ei fod wedi dyfod o enau yr Arglwydd, dylech ei osod at eich calon; sef, "Pa anwiredd" a gawsoch yn yr Arglwydd, i beri i chwi ymbellhau oddi wrtho? Yr ydych yn ymddwyn tuag ato fel pe buasech wedi cael rhyw anwiredd ynddo—rhyw anffyddlondeb neu anghyfiawnder; ac y mae yn ewyllsio cael gwybod genych beth a gawsoch. A fyddwch chwi mor fwyn a mynegu hyny?

Y mae y testyn yn rhoddi ar ddeall i ni, fod yr annuwiol yn ymddwyn tuag at Dduw fel pe byddai wedi cael anwiredd ynddo, neu anffyddlondeb, neu anghyfiawnder; neu, fel pe byddai yn annheilwng o ymddiried. Os bydd i ni gymmeryd ein harwain i ffurfio barn am gymmeriad Duw gan ymddygiad ac iaith yr annuwiol, rhaid i ni farnu ei fod yn gelwyddog, yn anffyddlawn, yn galed, yn greulawn; yn elyn nad yw yn gweled; ac na all ac na fyn ddaioni i neb. Y mae ymddygiad yr annuwiol yn gwadu ei holl berffeithiau.

Y mae a wnelo dynion â chymmeriad Duw. Hyn sydd yn gosod pwys mawr ar eich ymddygiadau—eu bod yn ymosod yn erbyn *character* Duw. Y mae dynion, drwy eu hanufudd-dod iddo, yn rhoddi celwydd yn ei erbyn, ac yn darostwng ei gymmeriad moesol. Tuag at i chwi amddiffyn neu esgusodi eich pechodau, y mae yn rhaid i chwi yn gyntaf brofi eich bod wedi cael Duw yn anffyddlawn, ac felly yn annheilwng o ymddiried. A phrofwch ei fod yn annheilwng o ymddiried, chwi a brofwch ar unwaith ei fod yn annheilwng o ufudd-dod ac addoliad. Fel megys ag y mae credu gwirionedd Duw yn cynnyrchu ufudd-dod iddo, felly hefyd y mae anghredu ei wirionedd yn rhwym o gynnyrchu anufudd-dod iddo. A chan fod anufudd-dod yn ffrwyth anghrediniaeth, nid ydyw ond dyweyd yn ymarferol fod Duw yn gelwyddog.

Ymddiried i Dduw yw crefydd. Gwadu cymmeriad moesol Duw ydyw gwadu yr oll o grefydd. Dyma wadu pobpeth: pobpeth Iesu Grist, y ddeddf, pechod, cosb, yr holl Air—sail ffydd, sail gobaith, a rheol bywyd.

Y mae annuwioldeb gan hyny yn *ymosodiad huf ar gymmeriad Duw*. Y mae yn briodol i bawb ofalu am ei garictor; ac y mae dynion yn gyffredin yn teimlo felly. Y mae gan bob dyn

cywir fwy o feddwl am ei gymmeriad nag am ei feddiannau, neu ei iechyd; iê, y mae yn fwy peth yn ngolwg llawer na'u bywyd. Y mae duwioldeb nid yn unig yn ffurfio *character* da, ond hefyd yn argyhoeddi dyn o'i werth, ac yn ei sefydlu yn ddyben iddo yn mhob peth. Efe a ymdrecha i ennill "gair da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun." Y mae yn ymestyn a'n sefydlu canmoliaeth iddo ei hun yn nghydwybodau dynion. Gan hyny, nis gellir gwneuthur cam mwy pwysig â dyn da nag iselhau ei gymmeriad ar gam. Ond pa beth ydyw pwysau a theilyngdod cymmeriad yr holl greaduriaid at yr eiddo Duw?

Os ydyw rhagoriaethau creadur rhesymol i gyd yn cael ateb dyben teilwng yn unig trwy ffurfio *character* da, a'r oll yn cael eu difwyno, a'u colli, a'u haberthu i ddrwg lle y mae y cymmeriad yn ddrwg, felly y mae rhoddi i'r Duwdod gymmeriad drwg yn troi galluoedd anfeidrol yn ofer, ac yn aberthu gwybodaeth a gallu anfesurool ac awdurdod ddiderfyn i bob niwed. Nid oes dim—iê, nid yw yr holl briodoliaethau naturiol a berthyn i'r Duwdod—yn ei gyfaddasu i fod yn wrthddrych ymddiried, cariad ac addoliad, heb gymmeriad da. Ei garictor sydd yn ei gymmhwyso i fod yn Dduw. Pe buasai yn hollalluog, heb fod yn sanctaidd a ffyddlawn, ni buasai yn deilwng o ymddiried; gan hyny, y mae gwadu ei ffyddlondeb a'i wirionedd yn ei ysbeilio o'i holl ogoniant, ac yn cynnyg ei osod yn wrthddrych dirmyg a chasineb yr holl greadigaeth! Fe allai fod hyn yn fwy nag y mae rhai sydd yma wedi ei fwriadu. Ni feddyliodd y tyngwr fod ei ymddygiad annuwiol yn cyrhaedd mor bell. Dichon dy fod yn awr yn cyfrif fod yr eglurhâd hwn ar dy bechod yn rhedeg i eithafion; ond "Nid eich meddyliau chwi yw fy meddyliau i, medd yr Arglwydd:" a'i farn ef ar y pwngce fydd dy farn dithau yn y byd arall. Nid heb achos y mae yr Ysgrythyr yn gofyn, "Pa ham y dirmyga yr annuwiol Dduw?"

Ymddengys ysgelerder yr ymddygiad hwn, pan yr ystyriom:—

1. *Fod yr annuwiol yn ymosod ar gymmeriad mor fawr a chyhoeddus.* Teimla dynion cyhoeddus fwy o bwys yn eu cymmeriad na dynion anghyhoedd. Y maent yn wrthddrychau mwy o sylw: y mae iddynt fwy o ddirmygwyr neu anrhydeddwyr; ac yn gyffredin, y mae dylanwad eu cymmeriad yn nerth iddynt i ennill ymddiried, a thrwy hyny i ddwyn yn mlaen eu hamcanion.

Ond pwy sydd mewn sefyllfa mor gyhoeddus a'r Duwdod? Pa faint o edrych sydd ar ei ysgogiadau? Pa faint sydd yn disgwyl wrth ei fesurau? Pa faint o ddaioni a threfn a ddisgwylir i'r byd oddi wrth ei gynlluniau ef? Arno ef y mae llygaid pob angel yn y nef. Wrtho ef y disgwyl pob sant yn y nef ac ar y ddaear. Os oes creaduriaid rhesymol mewn byd-

oedd ereill, diau eu bod oll yn edrych ato ef am eu dedwyddwch, ac yn ymddiried ynddo: ac nid oes ganddo ond perffeithrwydd ei gymmeriad i'w amlygu iddynt oll yn y cwbl, at ennill eu hymddiried a'u haddoliad.

Ond yr annuwiol sydd yn meiddio haeru yn ngwyneb yr holl greadigaeth, ac yn ngwyneb Duw ei hun, nad ydyw yn deilwng o ymddiried!

Ai tydi, y *meddwyn*, y dylaf o'r holl greaduriaid, y mwyaf digydwybod i rinwedd, yr iselaf ei fuchedd yn y byd, a'r ffeiddiaf ei arferion—ai tydi sydd wedi cael allan, ac yn meiddio cyhoeddi, nad uniawn yw ffyrdd yr Arglwydd?—mai twyll ydyw ei fygythion yn erbyn meddwod?—mai “heddwch fydd i ti, er i ti rodio yn nghyndyrwydd dy galon, i chwaneu meddwod at syched?” Buaswn yn disgwyl i'r call a'r dysgedig gael hynny allan o dy flaen di! Pa fodd na buasai yr ymchwiliwr a'r duweinydd dwfn wedi cael hyn allan? Mor ynfyd ydyw ymosodiad yr annuwiol yn erbyn Duw! Y mae iddo filoedd yn ei addoli am bob un sydd yn ei gablu; ac y mae ei enw yn rhy uchel i ti allu effeithio dim arno.

2. *Nad oes ganddo ond ei gymmeriad i roddi iddo hawl i honiadau mor fawr i ufudd-dod ac addoliad yr holl greaduriaid rhesymol.*

Cosbir *libel* yn gyfattedbol i'r golled a wnelo i'r dioddefydd. Ond pa faint y mae yr annuwiol yn amcanu ysbeilio ar Dduw, trwy gablu ei gymmeriad? Nid ydyw am ei ymddifadu o ddim llai na gorsedd y greadigaeth, ynghyd âg addoliad ac ymddiried pob creadur. Y mae rhai dynion mewn amgylchiadau mor annibynol, fel nas gall enllibion a difriath eu hysbeilio o ddim ond o'u hanrhydedd. Nid ydyw eu cyfoeth yn dibynu ar eu gymmeriad mewn un modd. A gall llawer penadur edrych ar ei deyrnged yn ddiogel iddo, pa olwg bynag fydd gan y deiliaid ar ei gymmeriad.

Ond nid felly yma. Mawl, addoliad, a chariad ei greaduriaid ydyw teyrnged y Duwdod. Rhoddwch ar ddeall i'r holl angylion a'r saint fod Duw yn anwadal ac yn anffyddlaw; gwnewch ei gymmeriad yn wael yn eu golwg—y funyd y gwelant hyn hwy a attaliant eu mawl oddi wrtho yn y fan, a'u cariad ato a ddiffoddri! Nid ydyw eu clodforedd ond dadganiad uchel a gwresog o berffeithrwydd ei gymmeriad: “Clodforwch yr Arglwydd; gelwch ar ei enw: mynegwch ei weithredoedd yn mysig y bobloedd. Cenwch iddo, canmolwch ef: ymddiddenwch am ei holl ryfeddodau ef. Gorfoleddwch yn ei enw sanctaidd;” (*Salm* cv. 1—3) sef, yn ei gymmeriad perffaith. Pan wahoddir yr holl ddaear i “ganu yn llafar i'r Arglwydd,” i'w wasanaethu a'i addoli, y rheswm mawr ydyw, “Canys da yw yr Arglwydd: ei drugaredd sydd yn dragywydd;

a'i wirionedd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth" (*Salm* c. 1—5). "Moliannant dy enw mawr ac ofnadwy, canys sanctaidd yw" (*Salm* xcix. 3; ac *adn.* 5, 9; *Esa.* xxv. 1; xxvi. 4). Gorchymynir i ni "ymddiried yn yr Arglwydd byth:" ac oni buasai ei fod yn un o ymddiried, ni buasai yn deilwng o'r mawl a gyflwynir iddo yn y bennod. Felly yr ydym yn cael Moses hefyd; i'r dyben o sicrhau calonau y genedl i lynu wrth yr Arglwydd, ei garu a'i addoli, ar ol ei ymadawiad ef oddi wrthynt, y mae yn cyhoeddi ac yn dadleu cymmeriad Duw: "Canys enw yr Arglwydd a gyhoeddaf fi: rhoddwch fawredd i'n Duw ni. Efe yw y graig; perffaith yw ei weithred; canys ei holl ffyrdd ydynt farn: Duw gwirionedd, a heb anwiredd, cyfiawn ac uniawn yw efe" (*Deut.* xxxii. 3, 4; *Esa.* lxxv. 16).

Y mae yr annuwiol trwy wadu yn ymarferol ffyddlondeb a gwirionedd Duw, yn gwadu ei hawl i'w holl honiadau i ufuddod ac addoliad. Y mae yn dadleu ar gyhoedd nad ydyw yn deilwng o addoliad a gwasanaeth; y mae yn rhoddi ei holl ddylanwad i annog yr holl greadigaeth i'w gablu. O annuwiol! a feddyliaist ti hyn?—pe cymmerai pawb dy dystiolaeth di am y Duwdod, ni byddai ganddo neb i'w addoli! Mor fawr ydyw ei amynedd yn dy oddef! Pa frenin arall a oddefai yn yn annog ei ddeiliaid i'w wrthsefyll? Niweidio cymmeriad dyn yn nghyfrif y rhai oedd, oddi ar ymddiried yn ei gymmeriad o'r blaen, yn rhoddi llawer yn ei ffordd, a gyfrifech yn ymddygiad atgas. Y mae yr annuwiol trwy ei ymddygiad tuag at Dduw yn ceisio perswadio yr angel i'w ddifrio, ac yn gwahodd yr holl fyd i'w gablu! Gwelir ysgelerder yr ymddygiad hwn wrth ystyried yn,

3. *Fod yr annuwiol hefyd yn ymosod ar gymmeriad Un ag y mae dedwyddwch mor fawr yn tarddu oddi ar ymddiried ynddo a'i garu.*

Perffeithrwydd cymmeriad Duw ydyw y ffynnon fawr y mae pob creadur sanctaidd yn yfed ei ddedwyddwch o honi. "Enw yr Arglwydd" ydyw "tŵr cadarn" y credadyn yn ei beryglon. Enw yr Arglwydd ydyw testyn moliant a gwrthddrych ymddiried y saint a'r angyllion yn y nef. Yn "enw yr Arglwydd y gorfoledda" pob sant, ac yn "ei gyfiawnder yr ymddyrechafant." Eu cysur wrth edrych yn mlaen i dragwyddoldeb fydd enw yr Arglwydd, a bod ei gyfiawnder i barhau yn oes oesoedd, a bod ei allu yn "gadernid tragwyddol." "Ei enw a folant yn dragwydd." Gallant ymgysuro yn enw eu Duw yn mhob tywydd a thrallod. "Os saif Duw yn ffyddlawn i mi, nid ofnaf; os saif at ei air, ni chollir fi: nid oes genyf ddim am fy mywyd ond ei air ef." Pa ham y mae Israel yn gwneyd y fath fôst, ac yn herio eu gelynyon mor hyf? "Mawr ydyw enw Duw yn Israel," ei gymmeriad ef sydd yn uchel yno (*Salm* lxxvi.). Nis

gellir gofyn amddiffyn cadarnach ar neb yn ei beryglon na hyn: "Gwrandawed yr Arglwydd arnat yn nydd cyfyngder, enw Duw Jacob a'th ddiffyno" (*Salm* xx. 1). Os gall gweddi dynu cymmeriad Duw i sefyll rhwng y truan a'i beryglon, bydd yn ddiogel. Moses a ddadleuai ei "enw mawr" ef am arbediad i'r genedl wrthnysig, ac nis gallai Duw droi ymaith y ddadl hon. "Ymddiried rhai mewn cerbydau, a rhai mewn meirch." Pa beth sydd genych chwi i ymaflyd ynddo am ymwared? "Nyni a gofiwn enw yr Arglwydd ein Duw." Nid oes yn Nuw ddim y gall ffydd gymmeryd gafael ynddo fel dadl am faddeuant pechodau, ond ei gymmeriad: "Er mwyn dy enw, Arglwydd, maddeu fy anwiredd," er mwyn dy ddaioni, ac er mwyn dy drugaredd. Pe buasai yn garictor gwahanol, ni buasai yn ei natur ddim defnydd calondid i ti geisio maddeuant. Pan oedd yr Arglwydd yn dadguddio ei gymmeriad i Moses, yn y fath fodd ag y gallai ei ffydd ymaflyd ynddo yn gadarn am faddeuant, yr oedd yn cyhoeddi ei wirionedd cystal a'i drugaredd (*Exod.* xxxiv. 6, 7). Ni buasai trugaredd heb wirionedd yn sail gadarn i ffydd. Trugaredd ac anwadalwch hefyd, ni buasai yn gwneyd sail ymddiried.

Ond y mae yr annuwiol yn gwadu y briodoledd hono sydd yn rhoddi sefydlogrwydd i drugaredd, ac sydd yn cyssylltu uniondeb a daioni â hollalluogrwydd. Y mae yn cynnyg diffoddi yr haul sydd yn gwasgaru pob pelydr o ddedwyddwch pur trwy yr holl greadigaeth. Pe credem ni dy iaith di am Dduw, ni byddai genym neb i nesau ato mewn cyfyngder—byddai ein Crëwr yn ddychryn i ni fel uffern. Y gymmeriad yr wyt ti yn ei roddi iddo ydyw y mwyaf twyllodrus, anwadal, ac anghyfiawn.

4. *Wrth wadu ffyddlondeb Duw, fe briodolir iddo y cymmeriad mwyaf dychrynlyd.*

Y mae *dyn* heb wirionedd yn gymmeriad i'w ochel; ond pa faint bynag ydyw ei ddrwg, y mae diffyg gallu yn gosod terfyn ar ei niwed i'r greadigaeth. Y mae yn nghalon dyn ddigon o ddrwg i ddistrywio hapusrwydd holl greadigaeth Duw, pe byddai ganddo ddigon o allu:—ond cauwyd ef mewn cylch bychan. Pe buasai yn ngallu plant dynion, y mae digon o ddrwg a gelyniaeth yn eu calonau fel y buasent cyn hyn wedi diffodd yr haul, wedi melldithio y ddaear fel na thyfai, ac wedi llenwi y byd â heintian.

Ond *Duw* heb ddaioni a fyddai yn fyrdd mwy dychrynlyd! Duw, heb wirionedd, ac yn hollalluog, a fyddai yn ddinystyr i ddedwyddwch. Duw yn llywodraethu y cwbl, ac yn anwadal a diymddiried, a fyddai yn fod llawn o ddefnydd pob braw. Ni byddai i ni ond ofni "dinystr disymmwth" bob munyd. Nis gallai uniondeb ddiogelu neb. Nis gallasem hyderu dim ar

drefn y greadigaeth: nis gwyddem nad haul arall a gaem yfory, neu na byddem heb yr un. Braich hollalluog, heb gyfiawnder i'w rheoli—ni wyddem beth i'w ofni. Un-ar orsedd y greadigaeth, heb gyfiawnder a barn—ni wyddem beth i'w ddychymygu fel canlyniad i hyny: dim amddiffyn ar y da, dim sefydlogrwydd ar y greadigaeth, dim rheol i wybod ein tynged. Ond pa faint bynag o "gymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch," gan fod "cyfiawnder a barn yn drigfa ei orseddfaingc," gwyddom beth i'w ddisgwyl o'r orseddfaingc—gwyddom mai "da fydd i'r cyfiawn" rywbyrd, gwyddom hefyd mai "gwae" fydd i'r anwir rywbyrd.

Nid rhyfedd fod Duw yn methu dioddef y gwarth hwn oddi ar law yr annuwiol, yr hwn sydd yn ei ddarlunio yn fod a lanwai bob mynwes a dychryn truenus—yn fod annheilwng o gred nac ymddiried neb. Nid rhyfedd ei fod yn amddiffyn ei gymmeriad trwy ofyn, "Pa anwiredd a gafodd eich tadau chwi ynof fi?" Y tyngwr, y cablwr! yr ydwyf yn eich tyngedu i ystyried yn ddirifol fod eich pechodau yn faich annioddefol i'r Duw mawr! A raid iddo oddef dy fath di i rodai celwydd yn ei erbyn? Pa waradwydd mwy a ddichon i ti gynnyg ei dasfu arno? A oddefai dy gymmydog y fath ymddygiad oddi wrthyt? Dyma iaith dy bechodau, O enaid! ac y mae yn temtio Duw i dy ddamnio byth!

5. Y mae yr annuwiol yn rhoddi anwiredd yn erbyn yr Un sydd wedi rhoddi y fath brofion o wirionedd yn mhob modd, trwy rodai addewidion mor bell yn mlaen am bethau mor annhebyg, ac yn eu cyflawni yn eu hamser mor gyflawn trwy foddion mor annhebyg. Weithiau, trwy wyrthiau:—i Noah, Abraham, Israel, Joseph, a Dafydd; i'r Iuddewon yn Babilon; yr addewid am y Messiah; rhagfynegi gwasgariad yr Iuddewon. Addawai gyflawni pethau mor annhebygol, fel y gallai trwy hyny rodai adnabyddiaeth i'r byd o'i ffyddlondeb. Y mae wedi cynnysgaeddu y byd a llisogrwydd ac amrywiaeth mawr o brofion i'w argyhoeddi o'i ffyddlondeb a'i wirionedd; megys gwyrtthiau (*Heb. ii.*), anfon ei Fab, ei holl dystion mewn rhagluniaeth, pregethu, ceryddon, a merthyrdod.

Ordeiniodd drefn y greadigaeth i fod yn sefydlog, fel y byddai i hyny ddysgu i ni sefydlogrwydd digyfnewid ei natur. Mor eglur y mae y greadigaeth yn dangos i ni fod ei Llywydd Mawr yn anghyfnewidiol yn ei feddwl, a'i fwriadau, a'i osodiadau! Os ydyw sefydlogrwydd trefn y greadigaeth yn effaith meddwl anghyfnewidiol, y mae hyn yn ddysgu i ni nad oes anwadalwch gyda Duw. Y mae yn ddysgu i ni hefyd gadernid ei Air. Dyweda yr apostol fod sefydlogrwydd y greadigaeth yn effaith sefydlogrwydd ei air—mai trwy yr un gair y mae yn cael ei chynnal, ac wedi ei rhoddi i gadw i dân. Yn yr ystyr

hwn (medd rhai) y mae gair yr Arglwydd wedi "ei sicrhau yn y nefoedd."

Y mae prophwydoliaethau wedi cerdded o'r blaen am droion rhagluniaeth yn yr oesoedd hyn. Cyn i gyflawniad y prophwydoliaethau ddyfod yn brofion i'r byd o wirionedd y Gair, rhoddwyd gwyrthiau yn brofion i'r oesoedd hyny, a prophwydoliaethau am ddigwyddiadau agos. Ond wedi amser y prophwydoliaethau am y prif ddigwyddiadau, a'r rhai hyny yn ddigwyddiadau pell yn mlaen o'r amser y rhoddwyd y brophwydoliaeth, y mae y gwyrthiau wedi eu hattal; a chyflawniad y prophwydoliaethau wedi dyfod yn brofion yn eu lle i'r oesoedd. Edrych o amgylch—a ydyw helynt y byd yn cyfateb i'r brophwydoliaeth? A ydyw yr Iuddewon yn wasgareddig trwy y byd? A oes yn y byd rywbeth yn ateb i Babilon Llyfr y Dadguddiad? A ydyw eglwys Crist heb ei gorchfygu, ar ol cymmaint o erlid a lladd arni am oesoedd maith? A ydyw Babilon yn drigfa i "aderyn y bwn," neu y ddylluan? A ydyw Edom "heb gynniweirydd yn myned trwyddi?" A ydyw Ninifeh yn "wag, a gorwag, ac anrheithiedig; ac yn drigfa llewod a gorweddfa cenawon llewod: diadellau a orweddant yn ei chanol hi; y pelican a'r ddylluan hefyd a lettyant ar gapan y drws?" "Pa anwiredd" a gawsoch?

A ydyw Tyrus, fel y dywed y prophwyd, "yn nghanol y môr, ac yn daenfa rhwydau," wedi ei llwyr ddinystrio? Edrych di a oedd hyn wedi ei ragfynegu gan Ezeziel. "Pa anwiredd" a gawsoch?

Gellwch weled "phiolau" yr Ysgrythyr yn rhedeg allan yn y chwyldroadau yn y blynyddoedd hyn. Nid ydyw Duw yn myned allan i ddadymchwelyd teyrnasoedd yn y dyddiau hyn nad oes "trugaredd a gwirionedd yn rhagflaenu ei wyneb." Y mae y brophwydoliaeth wedi rhedeg o'i flaen i fynegu ei fod yn dyfod. Nid yw llaw rhagluniaeth ond yn adeiladu at y cynllun sydd yn y brophwydoliaeth. A ydyw hiliogaeth Cham—trigianwyr Affrica—dan felldith, ac yn "was gweision ei frodyr," sef yn gaethion gorthrymedig, fel y prophwydodd Noah? Pa beth sydd yma i'w wadu? Ai gwadu henafiaeth y brophwydoliaeth sydd mor amlwg? Ai gwadu nad hiliogaeth Cham yw yr holl Affricaniaid? Gwadu hyny nis gellir: y mae y byd dysgedig yn ei addef. Ai gwadu cyftwr isel yr Affricaniaid? Y mae hyn yn haerllugrwydd digywilydd. Onid fel y dywed y brophwydoliaeth y mae? Edrychwch! "Pa anwiredd" a gawsoch? A ymadawodd y deyrnwialen o Iudah cyn dyfod y Messiah (*Gen. ix. 25*)?—onid oedd gan yr Iuddewon Sanhedrim pan y daeth? Edrych "pa anwiredd" a gafwyd. Oni ddaeth y distryw ar yr Iuddewon a ragfynegwyd yn *Esa. v. 1, 6, 9, 17, 24, 28—30*? Hefyd, y llwyddiant ar yr efengyl, a galwad y Cenhedloedd i'r eglwys (*Esa. ii.*).

Y prophwydoliaethau am y Messiah hefyd, y rhai ydynt yn rhy liosog i'w rhoddi ger bron mewn pregeth. Dywed yr apostol Pedr mai "i hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth."

1. Nodir amser ei ddyfodiad yn amlwg gan Jacob (*Gen. xlix. 10*), a hyny cyn Crist 1693 o flynyddoedd: hefyd gan Malachi (*iii. 1*): "Yn ddisymmwrth y daw yr Arglwydd i'w deml, sef angel y cyfammod, yr hwn yr ydych yn ei chwennych." Yr oedd y deml yn ei bri pan ddaeth Crist iddi: wedi hyny yn fuan drylliwyd hi. Nododd Daniel yr amser wrth y blynyddoedd (*Dan. ix. 24—27*). Yr oedd yn arferiad Iuddewig i gyfrif blynyddoedd wrth yr wythnosau, gan fod pob seithfed flwyddyn yn Sabbath. Felly yr oedd y "deng wythnos a thrigain" a brophwydwyd gan Daniel, a rhoddi pob diwrnod yn flwyddyn, yn gwneyd i fyny 490 o flynyddoedd—gwir amser dyfodiad y Messiah: ac yr oedd y brophwydoliaeth yn berffaith adnabyddus er's oesoedd cyn hyn yn mysg yr Iuddewon. "Pa anwiredd" a gawsoch?

2. Nodir lle ei enedigaeth gan Micah (*v. 2*): "À thithau, Bethlehem Ephratah, er dy fod yn fechan yn mhlith miloedd Judah, etto o honot ti y daw allan i mi un i fod yn llywydd ar Israel; yr hwn yr oedd ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragwyddoldeb." Gan fod dwy Bethlehem, gelwir hon "Bethlehem Ephratah," i'w gwahaniaethu oddi wrth y llall. "Bethlehem, tir Judah," medd yr efengylwr. Ac yn *adn. 3*, dywedir "y rhoddai efe hwynt i fyny," hyd oni esgorai Mair: ac felly y bu.

3. Nodir hefyd ddull ei fywyd. Ei dlodi; "gwreiddyn o dir sych;" "gŵr gofidus;" "efe a gymmerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau;" "dirmygedig yw—ni wnaethom gyfrif o hono;" yn gas gan yr Iuddewon, "yr oeddym megys yn cuddio ein hwynebau oddi wrtho;" *Esa. liii.* Yn marchog ar asen: *Zech. ix.* Yn pregethu: *Esa. lv.* Tyst i'r bobl: *Esa. lxi. 1, 2.* Cysuro, dyddanu: *Esa. lxi. 3*; *Ioan xiv.* Rhybuddio o'r perygl, "cyhoeddi dydd dial;" *Esa. lxi*; *Mat. xxiv.* Pregethu i'r tlodion—pregethu yn hallt—"dysgu fel un âg awdurdod ganddo." Cyflawni gwyrthian: *Esa. xxix. 18*; *xxxii. 3, 4*; a *xxxv. 5, 6.*

7. *Un sydd wedi rhoddi pethau mor fawrion i ni mewn tystiolaeth, a'r hon sydd i ateb dybenion mor fawr trwy iddi gael ei chredu.*

Tybiwch fod gŵr boneddig haelionus yn myned i un o ynys-oedd yr India i fysg y miloedd caethion gorthrymedig, ac yn rhoddi hysbysiad allan fod ganddo hawl i ryddhau y caethion a ddewisai—fod ei hawl wedi ei chadarnhau gan y llywodraeth—a phwy bynag a ddeuai ato ef yn yr amser pennodol, i roddi eu hachos iddo, ac i ymrwymo i ymddwyn yn dda rhagllaw, y caffai ei ryddid yn rhodd: a bod lliaws o'r caethion yn yr ynys, yn lle

dyfod ato i gael eu rhyddid, yn myned oddi amgylch i iselhau cymmeriad y boneddwr, yn ei gyhoeddi yn dwyllwr, ac nad oedd ei holl addewidion ond maleisiau twyllodrus. Cyfrifech y fath ymosodiad gwarthus ar gymmeriad y boneddwr yn ysgeler-waith o'r fath waethaf, yr hwn nad oedd ganddo ond ei gymmeriad i ennill y trigolion i gredu ei addewid. Dyna y boneddwr wedi rhoddi gwaredigaeth yr holl gaethion mewn tystiolaeth, ac y mae i'w chael yn unig trwy gredu y dystiolaeth; ond trwy i'w gymmeriad gael ei ddifrio, y mae ei dystiolaeth yn cael ei hanghredu, a'r waredigaeth yn cael ei hattal.

Y mae Duw wedi rhoddi iachawdwriaeth dragwyddol mil-ynau aneirif mewn tystiolaeth; a chredu y dystiolaeth ydyw y ffordd i'w meddiannu:—"Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi;" "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredu ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." A pha beth bynag a attalio ddyinion i gredu y dystiolaeth hon, sydd hefyd yn attal eu gwaredigaeth rhag carchar tragwyddol. Ond y mae yr annuwiol, trwy roddi anwiredd yn erbyn Duw, yn rhoddi golwg ar ei gymmeriad fel un annheilwng o'i gredu; a chan belled ag y mae ei ddylanwad ef yn cyrhaedd, y mae yn peri i'r byd anghredu yr efengyl.

Yr hwn nid yw yn credu i Dduw, nid yn unig a wrthododd ei iachawdwriaeth ei hun, ond a wnaeth y Duw mawr yn gelwyddog. Os ydyw y gŵr digred yn cael ei ennill i gredu trwy ymarweddiad da y wraig, pa ham nad all y gŵr digred gael ei gadarnhau yn ei anghrediniaeth trwy ymarweddiad drwg y wraig? Os ydyw ymadrodd sanctaidd yn "peri gras i'r gwrandawyr," pa ham nad ydyw ymadrodd llygredig yn attal gras? Y mae ymddygiad y tad a'r fam yn y teulu tuag at ryw ddyw yn ngŵydd y plant yn sicr o effeithio i beri i'r plant feddwl am dano yn gyfatebol i'r ymddygiad hwnw. Wedi iddynt fod yn prynu ganddo, neu yn gwerthu iddo, byth yn rhoddi gair da iddo—cwyno yn aml ei fod yn gwneyd llawer o bethau croes iawn i'w meddyliau, ei gablu weithiau, beio a difrio ei berthynasau; myned at gyfaill weithiau i adrodd eu tywydd ac i ofyn cymmwynas, ond byth yn myned ato ef. Ymddygwch fel yna at ryw ddyw, ac yr ydych yn sicr o iselu ei gymmeriad yn meddyliau eich plant, ac o fagu casineb ynddynt hefyd, ond odid, tuag ato. Pa faint sydd yn ymddwyn felly tuag at Dduw? a chan belled ag yr ydych yn iselhau cymmeriad Duw yn meddyliau eich plant, yr ydych i'r graddau hyny yn eu hattal i gredu Duw, ac i fod yn gadwedig. Y llong ar soddi, a rhyw un yn galw ar bawb i long arall mewn pryd; ond rhyw un ger llaw yn haeru mai twyll yw y cwbl, mai un diymddiried sydd yn eu galw, a thrwy hyny yn attal llawer i ddiogelwch, a'r cwbl yn y

canlyniad yn boddi. Pa gosp a haeddai yr adyn diffaeth yna? Mor bwysig y mae Duw yn beio y gau brophwydi, ac mor benderfynol y mae yn rhoddi gwaed y genedl yn eu herbryn hwynt, am eu bod wedi attal y bobl rhag gwrandaw ar lais yr Arglwydd! Pa fodd? Trwy wneyd y cwbl yn anwiredd.

.Bobl! gwnewch Dduw yn gelwyddog yn meddwl un dyn, ac yr ydych wedi ei ddinystrio. O annuwiolion! boddlonwch ar fyned i uffern eich hunain! Pa ham yr ydych trwy eich pechodau yn maglu eneidiau ereill yn rhwyd y gelyn? Yr ydych yn tori y gorchymynion, ac yn dysgu i ereill wneuthur felly. Pe gwnaech bob creadur yn gelwyddog, gadewch i Dduw ymddangos yn eirwir i bawb—*hyn* sydd o bwys! Credu i *Dduw* sydd yn dwyn iachawdwriaeth! Meddyliwch fel y mynoch o'r "tadau"—ond credwch fod Duw yn eirwir!

8. *Rhoddi celwydd yn erbyn un sydd yn casâu celwydd mor fawr.* "Duw gwirionedd ac heb anwiredd" yw yr Arglwydd; "Cadernid Israel ni ddywed gelwydd;" "Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau;" "A ddywedodd efe, ac oni chyflawna? a lefarodd efe, ac oni chywira?" "Amhosibl yw iddo fod yn gelwyddog?" Y mae yn "casâu celwydd" & chasineb teilwng o natur anfeidrol, ac o sancteiddrwydd perffaith. Ond y mae yr annuwiol trwy ei oes yn ceisio gwneyd y Duw hwn yn gelwyddog!

O annuwiol! pa fodd, wedi bod am flynyddoedd yn duo cymmeriad Duw, yr wyt ti yn meddwl sefyll yn ei wyneb? Pa fodd yr wyt ti yn meddwl sefyll ger ei fron yn y dydd y bydd y daioni a'r fyddlondeb a wedaist yn ymddangos o flaen dy wyneb yn eu llawn ogoniant yn mherson Mab Duw, ac yn mherffaith ddedwyddwch y myrdd a gredasant ynddo, ac yn nghyflawniad perffaith ei holl Air i'w bobl ac ar ei holl elynion? Bydd y cwbl a wedaist mor ddigywilydd wedi ei brofi yn ngŵydd pawb! Bydd y Barnwr yn cyfeirio y testyn i dy wyneb yn ngŵydd yr holl frawdle, '*Pa anwiredd* a gefaist ynof? Tystiolaetha yn awr! A welir yma heddyw ryw addewid heb ei chyflawni?—rhyw fygythiad heb ei gwblhau? A oes yma ryw edifeiriol heb faddeuant?—rhyw gredadyn wedi ei golli? A welir yma heddyw rywun wedi gadael tai a thiroedd, gwraig a phlant, er mwyn fy enw i, ac heb dderbyn y can cymmaint? A welir yma heddyw rywun heb y wisg yn cael dyfod i mewn?—rhyw annuwiol yn sefyll?—rhyw euog heb ei gospî? Tystiolaetha yn awr, *Pa anwiredd* a gefaist ynof fi?'

Brysia, gan hyny, enaid anwyl! i alw dy eiriau yn ol mewn edifeirwch! Cais faddeuant y Duw a gamgyhuddaist mor hir; derbyn ei dystiolaeth fawr am ei Fab yn yr efengyl—a thrwy hyny ti gai "selio mai *geirwir* yw Duw." Amen.

PREGETH III.

MARW I'R DDEDDF.

Galatiaid ii. 19, 20.

“Canys yr wyf fi trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf, fel y byddwn fyw i Dduw.

“Mi a groeshoeliwyd gyda Christ: eithr byw ydwyf; etto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi: a'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosaf fi.”

Y MAE yr apostol Paul wedi cyfeirio y llythyr hwn at yr holl Gristionogion oedd y pryd hyny yn nhalaeth Galatia. Talaeth fawr yn Asia Leiaf oedd Galatia, ac yr oedd ynddi lawer o Gristionogion pan oedd Paul yn ysgrifenu y llythyr hwn. Bernir mai Paul a fu yn offerynol i blanu Cristionogaeth gyntaf yn y dalaeth; ac ar ol iddo fod am amryw flynyddoedd yn pregethu yr efengyl, yn planu ac yn adeiladu eglwysi gyda llwyddiant mawr yn y dalaeth hono, iddo fyned ymaith i deithio ac i bregethu yr efengyl yn y taleithiau ereill. Wedi ymadawriad Paul o Galatia, daeth gau-athrawon i mewn yno o Iuddewon, yn cymmhell ar y Cristionogion gymmeryd eu henwaedu yn ol cyfraith Moses, ac yn gwahardd i Gristionogion o Iuddewon gydfwyta â'r Cenhedloedd. Fe achosodd hyn lawer o ymrysonau a gofidiau blinion, a dadymchwelwyd ffydd rhai. Mae yn ddiammheu fod y Cristionogion yn dadleu yn erbyn y gau-athrawon hyny—nad felly yr oedd Paul wedi eu dysgu hwynt. Yr oedd Paul wedi dysgu iddynt nad oedd rhwymau arnynt mwyach i gadw defodau cyfraith Moses. Ond yr oedd y gau-athrawon yn cyfarfod yr wrthddadl hon trwy wadu gwir apostoliaeth Paul. Haerent nad oedd ef yn meddu gwir awdurdod apostol, ac nad oedd wedi bod yn nghymdeithas Iesu Grist yn bersonol ar y ddaear—mai wedi esgyniad Crist i'r nefoedd y dychwelwyd Paul at Gristionogaeth. Fe glybu yr apostol am helynt y Cristionogion hyny, ac ysgrifennodd yr epistol hwn atynt gyda golwg ar y pethau hyn.

Y mae yn y lle cyntaf yn amddiffyn ei awdurdod fel apostol: o blegid yr oedd yn angenrheidiol argyhoeddi y Galatiaid o'i ddwyfol anfoniad, i barotoi eu meddyliau i dderbyn y rhybuddion a'r cyfarwyddiadau sydd yn gynnwysedig yn yr epistol: ac i'r dyben hwn y mae yn rhoddi hanes byr am ei dröedigaeth, ac am ei deithiau a'i lafur ar ol hyny. Dywed ei fod wedi myned i bregethu yr efengyl i'r Cenhedloedd yn ddioed wedi cael ei alw: "Ond pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, ac a'm galwodd i trwy ei ras, i ddadguddio ei Fab ef ynof fi, fel y pregethwn ef yn mhlith y Cenhedloedd; yn y fan nid ymgynghorais â chig a gwaed; ac nid aethum yn fy ol i Jerusalem at y rhai oedd o'm blaen i yn apostolion; ond mi a aethum i Arabia, a thrachefn y dychwelais i Damascus" (*pen. i. 15—17*). Aeth allan i bregethu i'r paganiaid yn ddioed wedi cael ei alw trwy ras; ac nid aeth i Jerusalem i gael ei addysgu yn egwyddorion Cristionogaeth gan y rhai oedd o'i flaen yn apostolion: ond "ar ol tair blynedd y daethum yn fy ol i Jerusalem i ymweled â Phedr; ac a arosais gydag ef hymtheng niwrnod. Eithr neb arall o'r apostolion nis gwelais, ond Iago brawd yr Arglwydd. A'r pethau yr wyf yn eu hysgrifenu atoch, wele, ger bron Duw nad wyf yn dywedyd oelwydd. Wedi hyny y daethum i wledydd Syria a Cilicia; ac yr oeddwn heb fy adnabod wrth fy wyneb yn eglwysi Judea, y rhai oedd yn Nghrist" (*pen. i. 18—22*). Yna dywed wrthynt ei fod wedi hyny, yn mhen pedair blynedd ar ddeg, wedi myned i fyny drachefn i Jerusalem, i fynegu iddynt yr efengyl yr hon yr oedd efe yn ei phregethu yn mhlith y Cenhedloedd; a'i fod yn mhen blynnyddau wedi cyfarfod Pedr yn Antiochia (*pen. ii.*).

Amcan yr apostol yn yr hanes hwn am ei dröedigaeth a'i deithiau, a'i ddeyithrwech i'r apostolion ereill, oedd rhoddi ar ddeall iddynt nad oedd efe wedi cael cyfleusdra i dderbyn ei wybodaeth o'r efengyl oddi wrth na thrwy yr apostolion ereill, ac felly fod yn rhaid mai trwy ddadguddiad oddi wrth Dduw yn hollol yr oedd efe wedi ei derbyn. Fel hyn, y mae yn rhoddi prawf digonol iddynt o'i ddwyfol anfoniad.

Bellach, y mae yn dyfod at y pwngc oedd mewn dadl yn mysg y Galatiaid. Y mae yn dadleu eu bod hwy, trwy droi at y ddeddf, yn myned yn "ddifudd oddi wrth Grist:" yr oeddynt yn troi yn ol i ddal gafael yn y cysgod, ac yn ymwrthod â'r sylwedd. Mae yn dadleu eu bod, trwy droi yn ol at y ddeddf, yn myned yn erbyn athrawiaeth cyfiawnhâd trwy ffydd: "Yn gwybod nad ydys yn cyfiawnhau dyn trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffydd Iesu Grist, ninnau hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnhaer trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf" (*pen. ii. 16*). 'Os ydych yn credu, fel yr ydych yn proffesu eich bod, mai trwy ffydd yn Nghrist y cyf-

iswnhawyd chwi ger bron Duw, heb weithredoedd y ddeddf—os ydych yn credu eich bod trwy ffydd yn Nghrist wedi cael pob peth ynddo sydd yn angenrheidiol i'ch codi i gymmeradwyaeth dragwyddol ger bron Duw—os ydyw eich cymmod â Duw wedi ei sicrhau yn gyflawn yn Nghrist, yn annibynol ar ddim arall—os ydych wedi eich cyflawni felly ynddo ef, pa angenrheidrwydd sydd arnoch chwi mwyach am weithredoedd y ddeddf? Nid oes genych mwyach ddim lle iddynt yn y mater o gyfiawnhâd ger bron Duw.'

Yn y testyn yr ydym yn cael yr apostol Paul yn dadgan ei brofiad ei hun ar y pwngc mewn dadl:—'O'm rhan i fy hunan, yn bersonol, yr ydwyf yn teimlo fy hun "trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf" yn hollol ac am byth. Nid ydwyf yn go-beithio am ddim oddi wrthi. Yr ydwyf wedi dar fod â hi fel ffordd i mi gael fy nghyfiawnhau ger bron Duw. Yr ydwyf wedi credu yn hollol na buasai i mi ddim gobaith am ddyfod i fyndd y gyfiawn a chymmeradwy ger bron Duw mewn un ffordd arall, ond trwy ffydd yn Nghrist Iesu.'

Ni a wnawn ychydig o ymchwiliad *I ba ddeddf y bu Paul farw?* a *Thrwy ba ddeddf y bu efe farw i'r ddeddf hono?* a *Pha angenrheidrwydd oedd am iddo farw i'r ddeddf, fel y byddai byn i Dduw?*

I. *I ba ddeddf y bu efe farw?*

Y mae yn angenrheidiol i ni hysbysu yn y lle cyntaf, fod yr Iuddewon yn yr amser hwnw yn edrych ar yr holl ddeddfau a'r barnedigaethau a roddodd yr Arglwydd i Israel trwy Moses yn *un ddeddf*. Nid oeddynt hwy yn eu dosbarthu i dair deddf, fel yr ydym ni yn arfer; sef deddf foesol, deddf seremonïol, a deddf wladol: er fod y dosbarthiad hwn, ar a wyddom ni, yn ddigon priodol, ac yn arferedig yn mysg duwinyddion Cristionogol llawer oes. Ond nid ydyw y Beibl yn ei gydnabod. Mae yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn edrych ar y cwbl fel un gyfraith. Ond yr ymofyniad yn bresennol ydyw—I ba ddeddf y bu yr apostol Paul farw? Y mae hyn o bwys i ni wybod, o blegid y mae yn angenrheidiol i bawb ereill feirw iddi, fel yntau, mewn trefn i fod yn gadwedig.

Nid ydym i feddwl fod Paul wedi marw i'r ddeddf foesol *fel deddf foesol*. Y ddeddf foesol ydyw cyfraith fawr llywodraeth foesol Duw, yr hon sydd i barhau byth yn ddigyfnewid. Mae yn rhyfedd fod neb, yn yr amser goleu hwn, yn Nghymru yn enwedig, yn meiddio gwadu awdurdod y ddeddf dan oruchwyliaeth yr efengyl. Os edrychwn ar y ddeddf foesol o ran y llythren, yn y ffurf y mae i'w gweled yn yr ugeinfed bennod o Exodous, pa bethau a allwn weled yno yn cael eu gwahardd fel pechodau nad ydyw holl reolau ac egwyddorion y Testament Newydd yn eu condemnio? Ac a oes dim yn cael ei orchymyn yn y ffurf a

gyhoeddwyd ar Sinai, nad ydyw holl athrawiaethau yr efengyl yn eu cymmeradwyo, ac yn ein cymmhell yn nerthol iddynt? "Na thybiwch," medd Crist, "fy nyfod i dori y gyfraith neu y prophwydi; ni ddaethum i dori, ond i gyflawni" (*Mat.* v. 17): "Wrth hyny, a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? Na atto Duw: eithr yr ydym yn cadarnhau y ddeddf" (*Rhuf.* iii. 31). Yr oedd Iesu Grist yn wastad yn ei bregethau yn mawrhau y ddeddf, ac yn dadleu ei dwyfol awdurdod a'i pharhâd tragwyddol. Felly y mae pob Cristion yn teimlo rhwymau i ufuddhau i'r ddeddf yn berffaith.

Os meddyliwn eilwaith am y ddeddf foesol yn ei *hysbrydolrwydd* manwl, fel y mae yn gofyn gwir sancteiddrwydd yn ei holl ganghenau tuag at Dduw a dynion, nid ydyw y Cristion wedi marw iddi yn y golygiad hwn. Y mae yn dymuno ac yn ymestyn am ddyfod i fyny â hi yn berffaith, ac nis boddlonir ef nes y cyrhaedda hyny. Y mae yn gweddio llawer "O! am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau;" "Tywys fi yn dy wirionedd, a dysg fi;" "Tywys fi i dir uniondeb." Y mae yn cymeryd deddfau yr Arglwydd yn "hyfrydwch" ac yn "gynghorwyr." Marw i'r ddeddf yn ei hysbrydolrwydd fyddai marw i sancteiddrwydd. Cydffurfiad â'r ddeddf ydyw sancteiddrwydd. Gwir sancteiddrwydd pob creadur—dyn ac angel—ydyw ei ymstyngiad i awdurdod y ddeddf. Yr ydym yn cael Iesu Grist, yn y bregeth fawr ar y mynydd, yn gosod i fyny safon neu *standard* gwir grefydd yn ei le priodol. Yr oedd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid wedi ei osod yn rhy isel: yn ol eu hathrawiaethau hwy, ffurfiau a defodau oddi allan oedd yn gwneuthur i fyny grefydd. Ond i'r dyben o egluro iddynt natur gwir grefydd, yr ydym yn ei gael yn y bregeth hon yn esbonio y ddeddf foesol yn ei manylrwydd ysbrydol; ac yn dangos fod yn rhaid i grefydd ddyfod i fyny â'r safon hwn tuag at iddi fod yn gywir ac ateb y dyben.

Nid oes i ni ddeall chwaith fod y Cristion wedi marw i'r ddeddf foesol yn mhob ystyr *fel ammod bywyd*. Fel ammod bywyd, yr ydym i ddeall y pethau sydd yn angenrheidiol o du y Cristion i sicrhau hawl iddo i fywyd tragwyddol. Gallwn i feddwl mai dyfod i fyny yn berffaith â'r ddeddf foesol ydyw ammod bywyd tragwyddol. Y mae yn rhaid i ti fyned i'r nefoedd, os yno yr ai, yn ol *deddf*, neu yn ol cyfraith. Y mae y ddeddf yn sicr o ddyfod i'th gyfarfod â'i holl ofynion manwl. Y mae yn rhaid iddi gael y cwbl—rhaid iddi gael ei holl ofynion i fyny yn llawn oddi ar dy law. Hyn oedd ammod bywyd tragwyddol i Adda gynt yn Eden—cydffurfiad perffaith â'r ddeddf. Tra y parhaodd i ufuddhau i'r ddeddf, yr oedd yn sefyll mewn hawl i'r bywyd tragwyddol. Ond trwy ei anufudd-dod i'r ddeddf, fforffetiodd ei hawl i'r bywyd tragwyddol. O'r camwedd hwnw,

“daeth barn ar bob dyn i gondemniad.” Yr un peth ydyw ammod bywyd tragwyddol etto—cydffurfiad perffaith â'r ddeddf—caritor yn llon'd y ddeddf. Ond mae yn rhaid i ni, bechaduriaid, gyrhaedd i fyny i'r carictor mawr hwn mewn llwybr pur wahanol i'r modd y daeth ein tad iddo. Fe gafodd Adda ei greu yn gyfiawn; ond am danom ni bechaduriaid, nid oes yn bosibl i ni gyrhaedd i fyny i'r cymmeriad mawr a gogoneddus hwnw ynom ac o honom ein hunain. Nis gellir ein codi yn gyfiawn ger bron Duw ond trwy ein huno â Christ trwy ffydd, trwy ein cymmodi â Duw ar sail ei iawn anfeidrol ef, a thrwy ein sancteiddio trwy Air ac Ysbryd Crist. Rhaid ein gwneyd yn demlau i'r Ysbryd Glân, “yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd.” “Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu, y rhai sydd yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd.” Nid yw hyny ond yr un peth a dweyd, ‘Y mae bywyd tragwyddol i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu;’ o blegid nid oes ond dwy sefyllfa yn y byd a ddaw. Pa fodd y dygwyd di i'r cyflwr diogel hwn? “Deddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu a'm rhyddlhaodd i oddi wrth ddeddf pechod a marwolaeth:”—rhyw ddeddf newydd yn Nghrist Iesu, y mae hi yn rhyddhau oddi wrth ddeddf pechod a marwolaeth. “Canys yr hyn ni allai” yr hen “ddeddf,” sef y ddeddf foesol, “o herwydd ei bod yn wan trwy y cnawd, Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac am bechod a gondemniodd bechod yn y cnawd.” Sylwch, er fod Paul yn sicrhau nad oes damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu—fod iddynt felly hawl i fywyd tragwyddol—etto y mae yn golygu fod yn rhaid i bob un o honynt gael ei godi i fyny yn garitor yn llon'd y ddeddf; o blegid dywed, yn olaf, fod yr holl bethau hyn wedi eu gweithredu tuag atynt, ynghyd â phob peth a wnaeth Crist drostynt, “fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynom ni, y rhai ydym yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd” (*Rhuf.* viii. 1—4).

Ond “marw i'r ddeddf” ydyw *darfod â'r ddeddf fel ffordd i ddyfod i fyny gyda Duw.* Y mae marw i'r ddeddf yn golygu rhoddi i fyny bob gobaith am ddyfod yn gymmeradwy gyda Duw trwy ein hufudd-dod personol i'r ddeddf, heb gredu yn Nghrist a derbyn yr iachawdwriaeth sydd ynddo. Pa beth sydd yn ofynol ynom ni, cenedl y Cymry, i gyfatted i “farw i'r ddeddf” gan y genedl Iuddewig yr amser hwnw? Marw i'r cwbl sydd yn dy gadw oddi wrth Crist: marw i bob gau-obaith, marw i ba beth bynag y bydd dy feddwl yn pwysu arno fel sail cymmeradwyaeth gyda Duw, oddi eithr aberth Crist—marw i dy gyflawniadau crefyddol fel sail cymmeradwyaeth gyda Duw. Defnyddiau hunan-gyfiawnder yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid oedd ffurfiau a defodau allanol crefydd—gwneuthur elusenau a

thalu degymau—mewn rhith hir-weddio yn nghonglau yr heol-ydd, er mwyn cael eu gweled gan ddynion. Nid oeddynt yn gwybod fod purdeb calon yn ofynol mewn crefydd. Yr oeddynt wedi gwneuthur gorchymynion Duw yn ddirym trwy eu traddodiadau eu hunain: barn, a chariad, a phethau trymion y gyfraith, nid oeddynt yn cyffwrdd â hwynt. Felly y bu yr apostol Paul cyn ei droedigaeth; ond wedi iddo gael ei ddychwelyd yn Gristion, cyfrifai “bob peth yn dom ac yn golled er mwyn ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ein Harglwydd.”

II. *Trwy ba ddeddf y bu Paul farw i'r ddeddf hon?*

Trwy y ddeddf foesol, yn ddiammheu. Y mae yn amlwg mai y ddeddf foesol a fu yn foddion ei argyhoeddiad. Nis gellir adnabod pechod ond wrth y ddeddf: “nid adnabuaswn i drachwant,” meddai, “oni bai ddywedyd o'r ddeddf wrthyf, Na thrachwanta.” Rhan o'r ddeddf foesol ydyw y gorchymyn hwn. Nid wyf fi yn barnu fod yn rhaid i ryw orchymyn neu waharddiad yn y ddeddf fod yn foddion i argyhoeddi pechaduriaid o'u cyflwr truenus: gall unrhyw wirionedd fod yn foddion i ddwyn meddwl pechadur i ystyried ei gyflwr rhyngddo a Duw, a'i berygl ofnadwy fel troseddwr euog. Gall unrhyw wirionedd a gaffo yr effaith hwn fod yn foddion argyhoeddiad i fywyd. Ni waeth beth fydd y moddion: rhywbeth i ddeffro y gydwybod sydd eisieu—rhyw air i ddeffro yr enaid cysglyd—rhywbeth i egluro i'r pechadur y perygl mawr sydd o'i flaen. Gall rhybudd neu gynghor mewn pregeth fod yn foddion argyhoeddiad: gall rhybuddion a chynghorion y tad a'r fam i'r plant fod yn foddion i'w hargyhoeddi a'u dychwelyd at Dduw. “Gwybydded y bydd i'r hwn a drodd bechadur o gyfeiliorni ei ffordd,” trwy rybudd neu gynghor yn y teulu, neu ar y ffordd, neu yn mha le bynag—os bydd iddo trwy ei rybudd a'i gynghor droi pechadur o gyfeiliorni ei ffordd—gwybydded ei fod wedi “cadw enaid rhag anghu, a chuddio lliaws o bechodau.”

III. *Pa angenrheidrwydd sydd am farw i'r ddeddf tuag at i ni allu byw i Dduw?*

“Yr wyf fi,” medd Paul, “trwy y ddeddf, wedi marw i'r ddeddf, fel y byddwn byw i Dduw;” gan olygu fod yn amhossibl iddo fyw i Dduw ond trwy yn gyntaf farw i'r ddeddf. Fe allai ei fod yma yn rhagflaenu gwrthdadau a allasai yr Iuddewon godi. ‘Y mae Paul,’ medd yr Iuddewon, ‘wedi troi yn Gristion, yn marw i'r ddeddf, yn rhoddi heibio y ddeddf yn llwyr; gan hyny, y mae yn rhaid ei fod yn rhoddi heibio wasanaethu Duw, o blegid nid oes un ffordd i wasanaethu Duw ond trwy ufuddhau i'r ddeddf.’ ‘Yr ydwyf fi,’ medd Paul, ‘yn edrych ar y pwngc mor wahanol, fel yr ydwyf yn credu fod yn amhossibl i mi wasanaethu Duw ond trwy farw i'r

ddeddf. Yr oeddwn i o'r blaen yn *delio* & chyfraith am fy mywyd: yr oedd y gyfraith hono mor fanwl yn ei gofynion, ac yn gosod arnaf y fath nifer o ddefodau a dyledswyddau i'w cyflawni mewn trefn i sicrhau bywyd i mi fy hun—yn ol fel yr oeddwn yn amgyffred pethau y pryd hyny, er fy mod yn mhell oddi wrth adnabod y ddeddf yn ei hysbrydolrwydd manwl—fel yr oedd fy holl amser a'm holl ofal yn cael ei gymmeryd i fyny i geisio sicrhau bywyd i mi fy hun gyda'r ddeddf. Nid oeddwn yn ddyn i neb ond i mi fy hun—nid oedd genyf ofal am ogoniant Duw, nac iachawdwriaeth dynolryw. Ond yn awr, yr ydwyf wedi cael fy mywyd trwy ffydd yn Nghrist; yr ydwyf byth er pan gredais ynddo yn gadwedig, ac yn ddiogel byth rhag damnedigaeth—yr ydwyf yn gadael y *cadw* yn dawel ar law y Ceidwad Mawr; "Canys mi a wn i bwy y credais, ac y mae yn ddiammheu genyf ei fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddais ato erbyn y dydd hwnw." Nid oes genyf fi ddim i'w wneuthur yn y ffordd yna mwy—yr ydwyf wedi ymddiried yr achos yn hollol i'r Cyfryngwr. Bellach, y mae genyf amser i fyw i Dduw: yr ydwyf wedi fy ngosod trwy y waredigaeth fawr hon dan angenrheidrwydd i garu Duw uwch law pob peth, ei ogoneddu a'i wasanaethu—yr ydwyf yn teimlo mai yr hwn a fu farw droswyf biau yr hawl flaenaf arnaf fi o bawb. Felly trwy gael fy mywyd trwy ffydd yn anghen Crist, yr ydwyf yn teimlo fy hun megys wedi fy "nghroeshoelio gyda Christ." Yr wyf yn teimlo rhwymau i fyned yr un ffordd ag anghen y groes i bob amcan a dyben. Os ydyw marwolaeth Crist wedi ei fwriadu i fwrw ymaith yr hen oruchwyliaeth o'r byd, yr ydwyf fynnau yn penderfynu na chaiff dim ei wneuthur genyf fi mwy tuag at ei chadw yma: "Mi a groeshoeliwyd gyda Christ." "Eithr byw ydwyf:"—nid ydwyf wedi marw yn mhob ystyr; er fy mod wedi marw i'r hen grefydd Phariseaidd, yr ydwyf yn fyw i Grist.'

Dywed y dysgedigion fod y gair a gyfieithir "*byw ydwyf*" yn amlwg yn yr iaith wreiddiol ag ystyr felly iddo—"*bywiol ydwyf, penderfynol ydwyf, gweithgar ydwyf.*" Felly yr ystyr ydyw—'Er fy mod wedi marw i'r gau grefydd y bŵm yn dwyn mawr sêl drosti o'r blaen, yr ydwyf yn *fyw* yn y grefydd newydd; yr ydwyf yn ei phroffesu, yr ydwyf yn penderfynu dwyn mwy o sêl, gwnenthur mwy o ymdrech dros Gristionogaeth rhag llaw; yr ydwyf yn bwriadu i nefoedd, daear, ac uffern, gael gwybod fod Paul yn *fyw* yn y grefydd Gristionogol. Yr ydwyf yn bwriadu bod mor gyhoeddus dros Gristionogaeth weddill fy mywyd ag y bŵm o'r blaen dros Phariseaeth: tynaf allan holl nerthoedd fy nghorph a fy enaid o blaid enw Mab Duw. Mi af i Athen, prif eisteddle eilunaddoliaeth a dysgeidiaeth, a dygaf dystiolaeth yn hyf yn erbyn ei heilunaddoliaeth a'i llygr-edigaeth mawr:—af i Jerusalem, eisteddle awdurdod y genedl

Iuddewig—Jerusalem, lle y croeshoeliwyd Iesu Grist—Jerusalem, lle yr oedd holl amgylchiadau ei fywyd a'i farwol-aeth yn hysbys; af i mewn yno hefyd, a phregethaf yr efengyl yn hyf yn y deml ac yn y synagogau, yn lle amlaf y bobl:—anturiaf hefyd i Rufain [eisteddle awdurdod y byd y pryd hwnw] ac ni bydd cywilydd arnaf bregethu efengyl Crist yn nghlywedigaeth y mawrion, a'r pendefigion, a phenaethiaid y bobl; amddiffynaf achos yr efengyl yn Areopagus yn ngŵydd Cæsar ei hun—fe gaiff y byd wybod fy mod yn fyw o blaid Cristionogaeth!

'Paul, Paul! yr ydwyt yn ymfrostio—yr ydwyt yn addaw pethau rhy fawr. Y mae byw egwyddorion Cristionogaeth yn y fath amgylchiadau anfanteisiol ag yr ydwyt ti ynddynt yn ammhossibl. Y mae braidd pob peth nerthol yn ein byd ni yn erbyn Cristionogaeth—holl awdurdodau y byd yn ei herbyn—dysgeidiaeth y byd yn ei herbyn—y mae cyfoeth y byd mewn rhyw ystyr yn ei herbyn—y mae barn a syniadau yr holl genhedloedd yn ei herbyn; gan hyny, y mae byw yr egwyddorion hyn yn ymddangos braidd yn ammhossibl!'

'O! Crist sydd ynof fi! Efe ydyw fy nerth—ynddo ef y mae cuddiad fy nghryfder. Crist, trwy ei Air a'i Ysbryd, sydd megys wedi cymmeryd meddiant llwyr o honof, ac yn gweithredu ynof fel yr enaid yn y corph. Efe sydd yn fy ysgogi i bob peth, ac yn mhob peth; efe sydd yn cyflawni oll yn oll; gan hyny, "y bywyd yr wyf yn ei fyw yr awrhon yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw." Ffrwyth ffydd Mab Duw yw y bywyd yr ydwyf yn ei fyw o hyn allan—ffydd Mab Duw sydd yn dylanwadu ar fy holl fywyd—ffydd Mab Duw sydd yn dwyn cymmhellion cryfion at fy meddwl i wneuthur pob ymdrech o blaid Cristionogaeth. Y mae ffydd Mab Duw yn dwyn fy meddwl a fy ewyllys o dan ddylanwad ac argraph pethau byd uwch na hwn; y mae ffydd Mab Duw yn agor y byd tragwyddol o flaen fy meddwl—y mae yn dadguddio i mi ogoniant y nef. Yr ydwyf yn gweled trwyddi, i ryw raddau, waeau y damnedigion; y mae yn dyfod â phob gwirionedd dwyfol yn mlaen yn gymmhelliad cryf, ac yn ei gymmhwyso at fy nghydwbybod.'

Yn awr, y mae yn dwyn i'r golwg gymmhelliad mawr sydd yn ffynnonell yr holl gymmhelliadau i gyd i fyw i'r hwn a fu farw drosom:—"yr hwn a'm carodd." Buasai arnom rwymanu i'w wasanaethu am mai efe a'n creodd, ac mai efe sydd yn ein cynnal a'n hamddiffyn; ond O! pa faint mwy o rwymedigaeth y mae wedi ei osod arnom trwy ein *caru* â chariad tragwyddol! A osododd eich rhieni rwymanu arnoch chwi, blant, i'w gwasanaethu ac ufuddhau iddynt, trwy eu gofal am danoch, yn eich magu a'ch meithrin? Ond beth ydyw caredigrwydd pawb wrth

garedigrwydd Mab Duw? Ni bu neb *farw* drosom erioed ond efe! Anwyl gyfeillion! meddyliwch lawer am anfeidrol gariad Iesu Grist yn rhoddi ei hunan i ddioddef marwolaeth yn ein lle; a chwi deimlwch rwymau i fyw iddo, ac a deimlwch mai eiddo Crist ydych, ac nad ydych mwyach yn eiddo i chwi eich hunain. Amen.

PREGETH IV.

LLWON Y LLWYTHAU.

Habacuc iii. 9.

“Llwyf noethwyd dy fŵa, yn ol llwon y llwythau, sef dy air di.”

Y MAE llawer yn tybied nad oes achosion priodol a dybenion pennodol i'r damweiniau a'r cyfnewidiadau aneirif a welir dan haul. Ffrwythau ail achosion, a ffrydiau yn tarddu yn unig oddi wrth y creadur y cyfrifir hwy gan liaws. Gwedir goruwchlywodraeth Duw yn gyffredin iawn trwy ragofalon anghymedrol, trwy rwgnach dan fiinder, a chweryla âg ail achosion, yn lle ymostwng ger bron Duw. Y mae llawer yn meddwl fod y byd, a'r oll sydd ynddo, allan o olwg ac allan o feddwl y Creawdwr—yn berwi ac yn terfysgu, heb frenin arno, nac unrhyw ddyben priodol a chyffredinol yn cael ei ddwyn yn mlaen ynddo. Er maint yw terfysg y byd hwn, ac er amled yw cyfnewidiadau a damweiniau y bywyd hwn, ac er mor ddirrefn ac anghysson y maent yn ymddangos i ni, etto, dylem gofio mai yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, a bod ei lywodraeth ef yn cyrhaedd pob peth—pob damwain a phob digwyddiad. Er fod Seion yn camgasglu oddiwrth ragluniaeth Duw yn aml fod yr Arglwydd wedi ei gwrthod a'i hanghofio, y gwirionedd ydyw fod “pob peth,” hyd yn oed y pryd hwnw, “yn cydweithio er daioni” iddi. O dan ei oruchwyliaeth ddoeth, y mae holl droion rhagluniaeth Duw tuag at y byd hwn yn dwyn yn mlaen ddybenion pennodol cariad Duw tuag at ei bobl, yn ol ei gyfammod a'i addewid iddynt. Cyflawni addewidion mawrion ei gyfammod i'w bobl y mae Duw trwy holl oesoedd y byd, yn ei ragluniaeth a'i ras.

Er mwyn cyflawni cynnwys mawr y cyfammod gras, yn ol ei arfaeth a'i lw, y creodd Duw y byd; ac y mae yn llywodraethu holl ddamweiniau y bywyd hwn i ddwyn yn mlaen yr un dyben, pa un bynag ai trugaredd ai barn. Y mae yn arbed neu yn cosbi, yn trugarhau neu yn dinystrio y byd, yn ol y byddo yr

angen ar gyflwr yr eglwys. Y mae ei holl ymddygiadau tuag at ei eglwys, pa un bynag ai hyfryd ai anhyfryd a fyddont i deimladau ei bobl, yn gyflawniad o addewidion, yn ffrwyth cyf-ammmod, ac yn effaith angenrheidiol llŵ Duw i'w eglwys. Gwna ei holl weithredoedd "yn ol llŵon y llwythau," sef ei Air sanctaidd.

Y mae y testyn yn rhan o weddi ragorol a gyfansoddwyd gan Habacuc y prophwyd. Nid oes genym hanes eglur am y prophwyd hwn. Y mae yn amlwg ei fod yn byw cyn y caethiwed; fe allai ei fod yn cydoesi â Jeremiah. Prophwydodd yn benaf am farnedigaethau Duw ar y Caldeaid, gelynyon yr eglwys. Y mae y bennod hon yn weddi ragorol ar yr achlysur o gaethgludiad yr eglwys i Babilon. Dichon ei bod yn ffrwyth myfyrdod y prophwyd am y caethiwed, ac am y bygythion o farn Duw ar orthrymwyr ei bobl; neu ei bod yn cael ei hamcanu yn gyfarwyddyd ac annogaeth i'r gaethglud i weddio yn y cyflwr isel hwn arnynt. Gallwn weled yma:—

Yn laf, *Achlysur* y weddi: "Clywais, O Arglwydd! dy air," sef y gair prophwydoliaethol am y caethiwed. Yn 2il, *Sum* y weddi—"Bywhâ dy waith yn nghanol y blynyddoedd;" sef, blynyddoedd y caethiwed. Yn Sydd, *Y cymhelliadau*: sef, yr amlygrwydd a roddodd Duw o'i allu, ei ddoethineb, a'i ras, yn eu gwaredigaeth o'r Aipht, a thrwy yr arwyddion ar Sinai: "Duw a ddaeth o Teman, a'r Sanctaidd o fynydd Paran. Ei ogoniant a dôdd y nefoedd, a'r ddaear a lanwyd o'i fawl. A'i lewyrch oedd fel goleuni. Yr oedd cyrn iddo yn dyfod allan o'i law; ac yno yr oedd cuddiad ei gryfder. Aeth yr haint o'i flaen ef," sef plâu yr Aipht; "ac aeth marwor tanllyd allan wrth ei draed ef," y pla ar y gwerysll fe allai yn yr anialwch. "Safodd," yn y cysssegr; "a mesurodd y ddaear," sef Gwlad Canaan i'r llwythau. "Mynyddoedd tragwyddol" Sinai "a ddrylliwyd; llwybrau tragwyddol sydd iddo," sef ei ragluniaeth o dragywyddol arfaethiad. "Dan gystudd y gwelais wersyllau Cuwsan," neu Ethiopia; "crynodd lleni tir Midian," sef y cenhedloedd, yr holl genhedloedd o amgylch (*pen. iii. 2—7*).

"A sorodd yr Arglwydd wrth yr afonydd?" pan y maent yn rhedeg yn ol. Dichon fod y testyn yn atebiad i'r cwestiwn hwn—"Llwyr noethwyd dy fŵa." Neu, gall fod yn rheswm am yr holl gynnhwrf. Gellir eglurhau yr achos o'r cwbl fel hyn:—Gwnaeth Duw ei lŵ i Abraham, tad y genedl hon, y byddai yn Dduw i'r genedl, ac y gwaredai hwynt. Ond fe'u darostyngwyd hwynt i gaethiwed caled yn yr Aipht, ac fe'u gorthrymwyd gan Pharaoh. Am hyny y disgynodd Duw i'w gwaredu, yn ol y llŵ a dyngodd efe. Aeth allan o flaen ei bobl, ac arweiniodd hwynt o'u caethiwed:—"y môr a welodd ac a giliodd;" "y mynyddoedd a'th welsant ac a grynasant." Pa beth a barodd y fath

gynnhwrf mawr—y môr yn cilio? “Bwa” sydd wedi ei “noethi” i gyflawni y *llŵ* a wnaed i Abraham; y *llŵ* hwnw sydd yn peri y cynnhwrf dirfawr yma. Gallasai Duw waredu ei bobl trwy lai o gynnhwrf; ond amcanai i’r waredigaeth hon fod yn bortread o’r waredigaeth ysbrydol. Gwnaeth i’r greadigaeth—i elfenau natur—fod yn wasanaethgar yn y waredigaeth ryfedd hon, i roddi ar ddeall fod pob peth at wasanaeth y bwriad mawr o achub yr eglwys mewn ystyr uwch: “pob peth sydd er eich mwyn chwi.” Cyflawni “llwon y llwythau” yr oedd Duw trwy yr holl wyrthiau hyn; sef, “cwbilau y drugaredd a dyngodd efe wrth Abraham.” Cyflawni ei *lŵ* i’r Messiah y mae Duw trwy holl oesoedd y byd yn ei ragluniaeth a’i ras.

Y mae y testyn yn galw am eglurhad. Wrth “y llwythau” y mae i ni olygu deuddeg llwyth Israel, sef hiliogaeth deuddeg mab Jacob. Fe gadwyd y llwythau hyn yn wahanedig i amryw ddybenion:—Yn 1af, I enwogi y deuddeg patriarch. Yn 2il, Er mwyn iawn drefn a llywodraeth. Yr oeddynt i fyned trwy amgylchiadau mor hynod, a phrofedigaethau mor fawrion, fel yr oedd yn angenrheidiol er mwyn iawn drefn yn eu plith i’w cadw yn amryw lwythau. Yn 3ydd, Er amlygu y cyflawniad o’r addewid am liosogiad mawr a chyffredinol ar hâd Jacob. Yn 4ydd, I gadw allan yn eglur linach y Messiah yn ol yr addewid. Yn 5ed, Er mwyn neillduo rhifedi cymmhwys tu ag at y gwasanaeth sanctaidd, sef llwyth Lefi.

“*Llwon y llwythau* :” sef, cyfammod Duw â’r llwythau, neu ei addewidion i’r llwythau. Fe’u gelwir yn *llwon*, o herwydd fod Duw wedi cyssylltu ei *lŵ* â’r addewid: tyngodd i Abraham, adnewyddodd y *lŵ* i Isaac a Jacob. Tyngodd Jacob ar ei wely angeu, dan arweiniad ysbryd prophwydoliaeth, y cyflawnid y cyfammod i bob llwyth yn bennodol. Addunedodd y llwythau hefyd drwy *lŵ* y cadwent y llwon hyn.

Tuag at i ni ddeall perthynas y testyn â’n hiachawdwriaeth, a deall y prif fater a ddysgir i ni ynddo, a thuag at brofi fod yr hyn yr amcanaf ymdrin âg ef yn gwreiddio ynddo yn briodol, mae’n angenrheidiol dangos a phrofi fod y llwythau etholedig yn eglwys weledig i Dduw; a bod cyfammod Duw â’r llwythau hyn yn gyfammod o ras, neu yn parhau mewn grym tuag at yr eglwys yn mhob oes hyd ddiwedd y byd.

Yn 1af; Amcanaf egluro y “llwon” yn eu cyssylltiad â’r llwythau Iuddewig. Ceisiwn ddangos fod y llwythau hyn yn eglwys weledig i Dduw. Nid oes i ni olygu wrth eu galw yn eglwys weledig eu bod oll yn dduwiolion, mwy nag y gellir dywedyd am eglwys Dduw yn awr. Eglwys weledig ydyw eglwys fel y mae yn ymddangos i ddynion; sef, y rhai sydd wedi derbyn breintiau eglwys, yn ymarfer â’r ordinhadau dwyfol, ac yn cynnal ffurf o addoliad cyhoeddus.

Yr oedd "y llwythau" yn eglwys yn yr ystiriaeth yma:—Yr oedd ganddi y wir athrawiaeth o ddadguddiad dwyfol: geilw yr apostol hwynt yn "ymadroddion Duw." Yr oedd yma drefn o addoliad dwyfol yn eu plith, ac yn cael ei hymarfer ganddynt. Yr oedd ganddynt y ddeddf foesol, yr hon yw rheol bywyd yr eglwys yn mhob oes, ac o dan bob goruchwyliaeth. Neillduwyd hwy o blith y Cenhedloedd—i ba ddyben arall, ond i fod yn eglwys? Eu gwaredigaethau rhyfeddol a gwrthiol a ddengys hyn hefyd, ynghyd â'r arwydd neillduol o'r presennoldeb dwyfol yn eu plith. Yr oedd yn briodol a rhesymol i Dduw wneyd ei eglwys i fyny o genedl neillduol y pryd hwn, o herwydd sefyllfa dywyil a llygredig y byd, a sefyllfa fabanaidd yr eglwys i wrthsefyll y fath ffrwd gref o lygredigaeth. Pe buasai llygredigaeth wedi cynnyddu cymmaint am oes neu ddwy ar ol amser neillduad Abraham ag o'r blaen, buasai gwir grefydd wedi darfod o'r byd. Y mae yn rhaid addef hefyd y byddai corph cyffredinol y genedl weithiau yn troseddu ac yn gwrthod cyfammod Duw.

Yn 2il, Ceisiwn ddangos fod y cyfammod hwn yn gyfammod gras, ac yn parhau mewn grym tuag at yr eglwys hyd ddiwedd y byd.

1. Yr oedd addewid fawr y cyfammod hwn yn grynodeb o holl addawidion y cyfammod gras: "Myfi a fyddaf yn Dduw i ti."—Myfi a fyddaf yn bob peth ag a allaf i ti. Yr oedd hyn yn cynnwys addewid o'r Messiah:—"I gwblhau y drugaredd â'n tadau, ac i gosio ei sanctaidd gyfammod: y llŵ a dyngodd efe wrth ein tad Abraham ar roddi i ni" (*Luc* i. 67—73; *Heb.* vi. 13—19).

2. Yr oedd yr addewid hon yn cynnwys adgyfodiad oddi wrth y meirw:—"Ac am adgyfodiad y meirw, oni ddarllenasoch yr hyn a ddywedwyd wrthyhych gan Dduw, gan ddywedyd, Myfi yw Duw Abraham," &c. (*Mat.* xxii. 31, 32).

3. Yr oedd yn cynnwys addewid o fywyd tragywyddol. Disgwyliai y duwiolion gynt am y bywyd hwnw ar sail yr addewid oedd yn y cyfammod hwn. "Gwlad well" yr oeddynt hwy yn ei "chwennych," a hono yn un nefol. "Disgwyl" yr oeddynt "am ddinas âg iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw." "Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll." Gweinyddiad o'r addewid hon oedd yr holl ragorfreintiau a dderbyniodd y genedl yn ganlynol i'w gwahaniaethiad oddi wrth ereill. Yr oedd eu gwaredigaethau yn gysgodol; yr oedd eu holl ddefodau crefyddol yn gysgodol o gyflawniad yr addewid, ac yn sicrwydd iddynt am hyny, ac hefyd yn cyfarwyddo eu ffydd hwynt at Grist—pen y cyfammod, a chyflawnder ei fendithion. Yr oedd gweinidogaeth eu prophwydi yn sicrhau iddynt y cyflawniad o'r addewid fawr, ac yn eu hannog i ymddwyn yn briodol iddi. Yr

oedd seliau y cyfammod hwnw yn arwyddo yr un peth ag y mae seliau presennol y cyfammod gras yn eu harwyddo.

(1.) Yr oedd yr enwaediad yn ordinhâd arwyddocaol. Felly bedydd—yn arwyddocaol o fendithion ysbrydol ac achubol.

(2.) Yr ydoedd yn sêl cyfammod o ras: “insel cyfiawnder y ffydd.”

(3.) Dangosir yn eglur fod pob credadyn yn etifedd o'r addewidion a roddodd Duw i Abraham. Yr oedd efe yn dad y credinwyr, nid yn unig fel yr oedd yn esiampl ragorol o ffydd, ond hefyd fel yr oedd yn gynllun rhagorol o'r wir eglwys; a gwnaeth Duw addewidion i'r eglwys drwy yr oesoedd iddo ef fel y cyfryw. Y mae yr addewidion yn parhau yn eu grym dechreuol tuag at bawb sydd yn ateb i'r cynllun, sef pawb sydd yn cerdded llwybrau ffydd Abraham. Y mae y rhai hyn yn etifeddion yr addewidion, sef y rhai ysbrydol, ynghyd â sylwedd y rhai tymmorol. Yr oedd Abraham felly yn dad pawb a gredient, ar gyfrif ei fod yn esiampl o ffydd, ac ar gyfrif ei fod yn gadael i ni etifeddiaeth o addewidion a roddodd Duw iddo ef ac i ninnau.

Gwnaed yr addewidion i Abraham a'i hâd yn gyffredinol; ond i gael eu meddiannu gan yr hâd ar lwybr ffydd, fel eu tâd. Cawsant gynnyg cyffredinol. Nid oedd yr addewid i'w chael ar gyfrif perthynas naturiol âg Abraham, heb feddu yr un ffydd ag oedd ganddo yntau:—“y rhai sydd o ffydd a fendithir gydag Abraham ffyddlawn.” Yr oedd yn dad yr enwaediad a'r dienwaediad, fel etifedd addewidion Duw. Hefyd, derbyniodd Abraham yr addewid cyn dyfod dan ddeddf yr enwaediad, i ddangos y byddai y Cenhedloedd crediniol yn etifeddion o'r un addewidion. Nid “i'w hadau,” sef ei holl hâd naturiol, y gwnaed yr addewid, ond “i'w hâd, sef Crist.” Crist, a'i eiddo ynddo, oedd etifedd yr addewid hono, sef addewid y cyfammod gras:—“ammod a gadarnhawyd yn Nghrist” oedd hwn. Crist oedd gwrthddrych, sylwedd, a gweinyddwr yr addewid. Iddo ef y gwnaethpwyd yr addewid fawr hon, i'w gweinyddu i'w holl saint.

4. Addewid sydd i'w hetifeddu trwy ffydd ydyw; gan hyny, rhaid mai y cyfammod gras ydyw hwn. Nid oedd un addewid na chyfammod yn cael ei derbyn trwy ffydd ond y cyfammod gras. Iachawdwriaeth yn unig a dderbynir drwy ffydd (*Gal.* iii. 6—14; *Rhuf.* iv. 16—24). Cyfrifai Duw enciliad ei bobl oddi wrtho yn dor-priodas; yr hyn a arwydda fod priodas neu gyfammod rhwng Duw a'r genedl o'r blaen. Rhoddodd Duw ei gyfammod iddynt, ac addawsant hwythau ei gadw; trwy yr hyn yr oeddynt yn ymbriodi â Duw trwy weithrediad ffydd yn ei gyfammod. Dengys yr holl ystyriaethau hyn mai y cyfammod gras oedd yr un y perthynai y “llwon” hyn iddo—yr hwn

sydd yr un o ran ei sylwedd, er yn wahanol o ran ei ffurf, o dan bob goruchwyliaeth.

Gallwn grybwyll yma, 1. *Fod gan yr Arglwydd "lwythau" sanctaidd yn y byd yn mhob oes.* 2. *Fod amrywiol ffurfiau ar lwythau yr Arglwydd.* 3. *Mai perchenogion ffydd yw y llwythau dan yr oruchwyliaeth hon.* Yr addewid ydyw sail eu ffydd, megys yr oedd i Abraham. Y mae ffydd yr un o hyd o ran ei natur, yn gweithredu yn erbyn gobaith, neu yn gorfoleddu dan obaith—ac y mae yn dwyn cyffelyb ffrwythau. Ond trown i edrych ar LWON DUW I'R LLWYTHAU hyn, o ran eu *gwrthddrychau*, ac hefyd o ran eu *swm a'u natur*.

I. *GWETHDDRYCHAU LLWON DUW*, neu y rhai y gwnaethpwyd y llwŵon iddynt, ac erddynt. *Gwrthddrychau y llwŵon ydynt, Crist a'r eglwys.*

1. *Gwnaethpwyd rhai addewidion i Grist fel Cyfryngwr*, heb gyfeirio trwyddo at yr eglwys—dim yn chwaneu na'u bod yn sicrhau i'r eglwys y cyflawnid yr addewidion ereill iddi hithau. Ond ato ef y mae cyfeiriad uniongyrchol y rhai hyn; megys yr addewid am gymmhorth yn nygiad yn mlaen waith mawr y prynedigaeth, a'r addewid am y gogoniant ar ol hyny. Er y cyflawnir yr addewid hon i Grist mewn rhan trwy gyflawni yr addewidion ereill i'r eglwys, etto efe biau yr addewid am anrhydedd gwaith y prynedigaeth. Nid yw y cyflawnid o'r addewidion i'r eglwys ond moddion i gyflawni yr addewid fawr hon i Grist. Dyma nôd uchaf pob addewid i'r eglwys—*gwobrwyo Crist*. Y mae yr holl addewidion i ni am fendithion ysbrydol wedi eu crynhoi yn gyflawn yn yr addewid fawr i'r Messiah am wobr ei ddyoddefiadau. Y mae yr addewidion sydd yn diwallu enaid anghenus y pechadur â bendithion ysbrydol ar yr un pryd yn diwallu enaid gorfoleddus y Cyfryngwr â ffrwyth ei lafur:—"O lafur ei enaid y gwel, ac y diwellir" ef. Ceidw y llw hwn o eiddo y Tad i'r Mab—sef y caiff wobr ei lafur—y drefn fawr ar waith. Er dy fod yn annheilwng o gael bendith yr addewid, etto y mae Crist Iesu yn haeddu anrhydedd yr addewid. Ond nid oes fodd iddo ei chael oni chyflawnir hi. Os gwobrwyir Crist, fe'th gedwir dithau. Os cyflawna y Tad y llw a wnaeth i'r Mab, rhaid iddo gyflawni yr addewid a wnaeth i tithau. Os gwna gyflawnder â'r Cyfryngwr, efe a wna drugaredd â thithau. Cyflawnder i Grist sydd drugaredd i ni. Er ein bod yn annheilwng o'r fendith, etto y mae Crist yn deilwng o'r wobr. Nid oes un ffordd i wobrwyo Crist ond trwy ein bendithio ni. Ai meddwl yr wyt, gredadyn, y rhydd Duw di i fyny?—Pa fodd felly y gwobrwyfa efe ei Fab? Ai meddwl yr wyt fod Duw yn dy anghofio?—A anghofia efe y chwys gwaedlyd? Ai meddwl yr wyt nad ymwel â thi mwy?—A ydyw efe ddim yn gweled ei

Fab ar ei ddeheulaw? Ai meddwl yr wyt ei fod wedi dy wrthod?—A wrthyd efe wrando eiriolaeth Crist am ei wobwr?

2. Y mae dosbarth arall o'r addewidion â'u cyfeiriad at yr eglwys—y rhai y mae yr eglwys yn wrthddrych pennodol iddynt. Y mae y rhai hyn yn ddau fath:—yn 1af, Addewidion am bethau *ysbrydol*, crynodeb o ba rai a roddwyd i Abraham: "Mi a fyddaf yn Dduw i ti, ac i'th hâd ar dy ol di." Ni roddwyd byth chwanegiad at yr addewid hon i'r eglwys. Manylwyd llawer arni; eglurwyd ei chynnwys mawr gan y prophwydi, gan Grist a'i apostolion, ond ni chwanegwyd dim ati. Y cwbl a gollodd dyn oedd colli *Duw*, a chael *Duw* yn ol ydyw y cwbl sydd yn angen ar ei gyflwr. Addewidion am fendithion ysbrydol ydyw prif gynnwysiad y cyfammod gras. Yn 2il, Addewidion *tymmorol*. Yr oedd yn nghyfammod *Duw*, neu ei lŵ i Abraham, addewidion am fendithion tymmorol. Y mae yr addewid hon yn cael ei chario yn mlaen etto, er nad yn yr un ystyr; etto, addewir i'r saint y cânt fwynhau pob bendith dymmorol.

Ond i Grist y gwnaethpwyd yn wreiddiol yr holl addewidion a roddwyd i'r eglwys. Gwnaethpwyd hwynt i Grist—

Yn 1af, Fel *Pen cyfammodwr*. Nid oedd Abraham ond yn derbyn y llŵon fel deiliad y cyfammod: nid fel pen y cyfammod. Ond fe wnaethpwyd y llŵ i Grist fel Pen cyfammodwr yn yr ystyr uchaf, sef yr holl addewidion a gyflawnir ar, ac i'w eglwys. Iddo ef y gwnaed y llŵ. Fe'i gwnaed iddo ef fel person cyffredinol, yn cynnwys ei eglwys mewn crynodeb a chynllun perffaith. Gwnaethpwyd hwynt iddo ef fel cynnrychiolwr, neu ben cyfammodwr, neu fel un dros yr holl gorph, yn sefyll yn neddfle y cwbl yn ngolwg deddf ac arfaeth *Duw*, ac fel yr oedd yn ei deddfle yn ddadleuwr iddi. Fel y daeth y bygythiad trwy *Adda*, felly y daeth yr addewid trwy Grist. Trosedd *Adda* a ddygodd y bygythiad; ufudd-dod Crist a ddygodd yr addewid i mewn (*Rhuf.* v. 11, 12). Gwrthddrych priodol y bygythiad yw dyn yn ei gyssylltiad âg *Adda*; ond nid oedd modd rhoddi addewid o fywyd iddo ond mewn *Cyfyngwr*, ar gyfrif yr *Iawn*:—"heb ollwng gwaed nid oes maddeuant." Y mae yr addewid gyntaf yn golygu *Cyfyngwr* neu ben cyfammodwr. Gwneyd addewid i ddyn heb gyfyngwr a fuasai mewn effaith yn dirmygu y ddeddf, yn lychwino cyflawnder yn ngolwg holl ddeiliaid llywodraeth *Duw*. Y cleddyf tanlyd oedd yr oruchwyliaeth briodol tuag at ddyn syrthiedig: ond safodd Crist yn ein deddfle, gwnaeth *Iawn* drosom, yr hyn a geidw y ddeddf mewn anrhydedd wrth arbed y troseddwr, yn lle ei gopsi. Trwy hyn derbyniodd y *Cyfyngwr* addewidion mawr i'r pechadur—trigodd pob cyflawnder ynddo ef; a thrwy hyn y perffeithiwyd ef yn *Dywysog* ein hiachawdwriaeth.

Fe wnaethpwyd yr addewidion iddo ef—Yn 2il, Fel *cynllun*.

Rhoddwyd gras arno ef fel cynllun neu batrwm o'r cwbl (1 *Cor.* xv. 49; *Phil.* iii. 2; *Ioan* iii. 2; *Rhuf.* iii. 17). Rhoddwyd yr olew ar y pen, i redeg ar yr holl wisgoedd. Y doniau a roddwyd arno ef a roddir yn raddol arnynt hwythau. Annogir ni i ddilyn ei esiampl ef. Fel yr oedd Abraham yn gynllun o'r wir eglwys, ac fel y cyfryw yn derbyn addewidion i'w holl eglwys mewn crynodeb, felly y mae Crist; ac fel y cyfryw yr oedd yn cael ei ogoneddu. Pan godir y saint ar ei ddelw, bydd ganddynt hawl i'r un gogoniant. Y mae ei ogoneddiad ef yn ogoneddiad iddynt hwythau, sef yn wystl neu brawf y derbyniant hwythau ogoniant pan godir hwynt ar ei ddelw. Yn yr ystyr yma yr oeddynt yn cydgyfodi, ac yn cydeistedd gydag ef ar ddeheulaw Duw. Fe'u gwnaethpwyd iddo ef—

Yn 3ydd, Fel *rhaqfeddiannydd* eu hetifeddiaeth. Y mae wedi meddiannu yr etifeddiaeth yn enw ei bobl, ac i'w holl bobl: (*Salm* lxxxii. 27). Cynfeddiannydd y cwbl ydoedd (*Rhuf.* viii. 27; *Col.* i. 18; *Rhuf.* viii. 17; *Ioan* xiv. 2, 3).

Yn 4ydd, Fel *Cyfyryngwr*, i ateb drostynt tuag at Dduw. "Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant:" heb ollwng gwaed ni ddaethai bendith yr addewid byth atom ni. Iddo ef—ar yr ammod iddo lanw lle Cyfyryngwr, a chyflawni holl waith Cyfyryngwr rhwng Duw a dynion, yn enwedig gwneyd Iawn—y gwnaeth Duw y llŵ mawr o iachawdwriaeth i'w bobl (2 *Cor.* i. 20). Ynddo ef fel Cyfyryngwr y mae yr addewidion yn gyfreithlawn, ac i gael eu cyfranu (*Rhuf.* ix. 21, 22; *Rhuf.* iii. 35). "Crist a'n llwyr brynodd ni oddi wrth felldith y ddeddf—fel y deuai bendith Abraham ar y Cenedloedd trwy Grist Iesu." "Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth." Fe'u gwnaed iddo ef:—

Yn 5ed, I'w *gweinyddu* ar, neu i'w eglwys. Y mae yr addewidion hyn yn "ie, ac yn amen" ynddo ef, am ei fod yn sicr o'u gweinyddu i'r eglwys. Y mae ganddo awdurdod i fadden pechodau, ac i anfon yr Ysbryd Glân. Y mae ganddo awdurdod i weinyddu holl llŵn gras a chariad Duw i'w eglwys hyd ddiwedd y byd (2 *Tim.* i. 9). Y mae efe yn "gyfammod pobl," sef yn weinyddwr cyfammod Duw i'w bobl. Ynddo, a thrwy ei aberth ef y gwna Duw gyfammod â'r duwiolion. Fe'u gwnaed iddo ef:—

Yn 6ed, Fel *person neillduol* uwch law iddynt hwy, mewn ffordd o wobr iddo am ei wasanaeth (*Esa.* liii. 10, 11; *Heb.* xii. 2). Ymddiriedwyd y llŵn iddo i'w gweinyddu yn hollol. Rhoddwyd iddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear." "Ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law ef." "Eiddot ti oeddynt, a thi a'u rhoddaist hwynt i mi." Ymddiriedodd y gwrthddrychau iddo, a'r addewidion i'w cyflawni iddynt.

Fe wnaed y "llŵn" â'r *saint* hefyd mewn ystyr. Y mae

gwahaniaeth rhwng perthynas y llŵon â Christ, rhagor y saint. Fe'u gwnaed iddo ef fel pen cyfammodwr, iddynt hwythau fel deiliaid y cyfammod—iddo ef i'w gweinyddu, iddynt hwythau i'w derbyn—iddo ef yn wobr, iddynt hwythau yn ras—iddo ef yn ogoniant, iddynt hwythau yn waredigaeth. Fel credadyn y derbyniodd Abraham yr addewid; nid fel pen cyfammodwr, ond fel deiliad y cyfammod. Mewn ystyr is na Christ y mae y llŵon hyn yn eiddo y saint—"o ffydd, ac nid o weithredoedd;" "o ras, ac nid o ddyled." Trwy undeb â Christ y derbyniant hwy yr addewidion (2 Cor. i. 20: Eph. i. 3; Phil. i. 10). Rhaid dadlau enw Iesu Grist wrth ofyn am gyflawniad yr addewidion (Ioan xvi. 23). Yn eu cyssylltiad â Christ y maent yn dyfod gyfammod â Duw: y maent yn dyfod i'r un sefyllfa ag Abraham, a chan hyny y mae y llŵon a wnaed iddo ef yn dyfod yr un iddynt hwythau.

II. SWM A NATURE Y LLWON.

1. *Addewidion i'r eglwys cyn ei galw trwy ras*; sef, trugar-
eddau i'w chadw hyd amser ei hymweliad. Yr oedd yn ang-
enrheidiol i'r Arglwydd ddywedyd wrthi, "Yn dy waed bydd
fyw:"—'Yn dy fabandod bydd fyw, er mai yn dy waed yr wyt
i aros amser fy ymweliad i'th ymgeleddu.' Yr oedd eisieu i
rywun ddyfod heibio i tithau lawer gwaith yn amser dy
afleiddid, i ddywedyd wrthyf, "Yn dy waed bydd fyw," neu,
fel y darllen rhai, "Bydd fyw yn dy waed." Y mae amser
mawr rhwng y ddau dramwy hyn, yn ol y gyffelybiaeth—
y cyntaf, ar ddydd genedigaeth; a'r llall, wedi iddi ddyfod i
aeddfedrwydd oedran—i oedran priodi (*Ezec. xvi. 7, 8*). Dar-
lunir, trwy y gymmhariaeth hon, sefyllfa y genedl Iuddewig: y
gyntaf, yn amser ei haffleiddid cyn ei galw; a'r llall yn amser
Duw yn ei chyfnewidiad. Y mae y tramwy cyntaf o werth
mawr: pa sawl blwyddyn y buost yn dy afleiddid ar wyneb y
maes? Pa faint oedd dy berygl y pryd hwnw? Pa sawl gelyn
fu yn ymofyn am dy fywyd? Pa sawl haint fu yn agos atat?
Pa sawl mellidith a grochlefodd y ddeddf uwch dy ben? Pa
sawl mil a gwmpodd wrth dy ystlys? Yr oedd yn rhaid i
rywun ofalu am danat y pryd hyny; yr oedd yn rhaid i rywun
drugarhan wrthyf yr holl amser y buost yn gorwedd yn dy
waed. Nid ychydig o drugaredd a ddangoswyd tuag atat i'th
gadw yn fyw yr holl adeg yma. *Duw* a dramwyodd heibio—
nid unwaith na dwywaith—gan ddywedyd, Bydd fyw! Tram-
wyodd heibio i ti yn ei drugaredd, yn ol y *llŵon*, bob dydd—
bob munyd, i edrych a oedd dim yn eisieu—i edrych a fyddai
neb yn dy ddrygu. Pa ham y cymmer Duw y fath drafferth
gyda phlant y fellidith? Attebir yn eglur, Y mae *llŵ* arno i
edrych ar ol y rhai hyn. Tyngodd i'w Fab y cawsai y rhai

hyn yn wobr iddo. Pa ham na laddwyd yr erlidiwr ar y ffordd tua Damascus? Y *llŵon* a'i cadwodd yn fyw:—"llestr etholedig" ydoedd.

(1.) Y mae hyn yn cynnwys *addewid o barhâd y bywyd naturiol* i aros amser y cyfnewidiad grasol. Y mae yr ymadrodd "yn dy waed, bydd fyw," yn cynnwys addewid eglur am hyn. Y mae gan Dduw amser priodol i alw y pechadur yn ol y llwon:—"Pan welodd Duw yn dda;" "dydd dial sydd yn fy nghalon, a blwyddyn fy ngwaredigion a ddaeth." Y mae yr amser yn dyfod i "gasglu yr holl genhedloedd." Y mae cadwraeth fanwl gan Dduw arnynt drwy yr amser hwn, o herwydd ei gariad atynt, a'i arfaeth yn eu cylch. Y mae yn eu gwylid yn ei ragluniaeth. Y mae yr angyllion yn gofalu am danynt. Y maent yn anfarwol hyd amser eu galwad, er maint eu peryglon. Pa faint o beryglon y buost yn agored iddynt o'r groth?—yn dy enedigaeth, yn dy fabandod, yn amser dy ryfyg a'th oferedd? Y llŵon a'th gadwodd rhag marw yn y groth. Pa sawl gwaith y bu dy fywyd mewn perygl trwy ymosodiadau dirgelaidd Satan, trwy ddamweiniau oddi allan, a chlefydau a heintiau? Y llŵon a gadwodd dy fywyd! Mewn bylchau a fu yn angu i ereill, gwaredwyd di. Fe'th dynwyd yn ol o borth angu, wedi i ti gychwyn; pan oedditi wedi dy roddi i fyny i farw yn marn dy gyfeillion a'th berthynasau, ac fe allai yn dy farn dy hun, ni oddefai y llwon i ti drengu heb dy gyfnawid. Beth pe gwelet ti yr holl beryglon y daethost drwyddynt, ti a ddywedet dy fod beunydd yn marw—ti a welet dy fod yn aml ar fin uffern. Er hoelio y lleidr ar y groes, yr oedd yn anfarwol nes i'r llŵon gael eu hamcan arno! Gliniau yr addewid a'th dderbyniodd, ei bronau a sugnaist, ei breichiau a'th gofleidiodd, a'i llaw a'th wisgodd o'r bru.

(2.) *Addewid o'u cadw rhag pechu yn anfaddeuol.* "Y mae pechod i farwolaeth," nad oes maddeuant o hono—pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân, nad oes maddeuant o hono yn y byd hwn nac yn y byd a ddaw. Y mae "syrthiad ymaith," nad ellir "ymadnewyddu drachefn i edifeirwch." Y mae y llŵon yn cadw ei wrthddrychau rhag syrthio i'r pechod hwn yn amser eu gwallgofrwydd pechadurus. Cadwyd Paul rhag cyflawni y pechod yma yn amser ei rwysg:—"Mi a gefais drugaredd, am i mi yn ddiarwybod" erlid eglwys Dduw. Y maent yn cael eu goddef i bechu yn dra ysgeler; ond ni oddef y llŵon iddynt bechu yn anfaddeuol. Goddefwyd i lawer fyned yn mhell ar y ffordd lydan, ond nid tu draw i obaith. Yr oeddynt yn feirw a drewedig, ond cadwyd y gareg fedd heb ei rhoi arnynt. Arweiniodd Satan hwynt i bob corbwill aflan o'r bron, ond methodd eu gyru i hwn. "Twyllai, pe byddai bossibl, ie yr etholedigion:" ond arwyddir nad oes modd eu twyllo hwy. Y mae cadwraeth

y *llwon* arnynt hwy. Yr oedd y bwriad i'w hachub yn cynnwys y bwriad i'w hattal rhag syrthio i'r pechod hwn; pe amgen, ni buasai modd eu gwaredu: gan hyny, buasai y cwbl yn ofer. Rhaid i'r addewid o fywyd tragwyddol gynnwys yr addewid i'w cadw rhag y pechod a'u gosodai allan o gyrhaedd bywyd tragwyddol. Diffyg o'r "gras attaliol" hwn a wnai bob gras cadwedigol yn ofer i ni:—ni byddai yn ras i ni mwyach.

2. *Addewidion neu "llwon" Duw i'r llwythau i gael eu cyflawni arnynt yn amser eu tröedigaeth, ac o hyny allan hyd y diwedd*; sef, yr addewid o'r *Ysbryd*. Yr oedd yr addewid am y Messiah o dan yr hen oruchwyliaeth yn cynnwys yr addewid o'r *Ysbryd*, o blegid ffrwyth yr addewid o'r Messiah ydyw yr addewid o'r *Ysbryd*. Dyma grynodedeb o holl ras eu tröedigaeth—"trwy fy *Ysbryd*;" "rhoddaf fy *Ysbryd* o'ch mewn." Cyflawnwyd yr addewid hon ar Grist yn bersonol, i'w addasu i fyned trwy ei waith, ac mewn trefn iddo fod yn gynllun i'w eglwys. Tywalltwyd yr *Ysbryd* mewn modd helaeth ar yr eglwys ar ddydd y Pentecost. Yr oedd hyn yn wobr iddo ef am ei waith, ac yn brawf o ddigonolrwydd ei aberth, ac o'i esgyniad i awdurdod i anfon yr *Ysbryd*. Gelwir hon yn "addewid y Tad" am ei bod yn grynodedeb o'r holl fendithion. Y mae yr addewid am yr *Ysbryd* yn flaenffrwyth o'r holl gorph o fendithion sydd yn nghyffammod Duw.

Y mae yr addewid hon yn gyfeiriol atynt yn eu cyflwr natur, gyda golwg ar eu *cyfnewid*. Addewid am *fywihad* ydyw; gan hyny, *meirw* oeddynt o'r blaen. "Rhoddaf fy *Ysbryd* ynoch fel y byddoch byw:" "Dy feirw a fyddant byw:" "A chwithau a fywhaodd efe pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau." Dyma yr addewid sydd yn *cyfnewid* y *cyflwr*. Y mae yr addewid am ras attaliol yn foddion i gyrhaedd hon, ac yn wasanaethgar iddi; ond y mae yr addewid am yr *Ysbryd* yn *cyfnewid* y *cyflwr*. Nid oedd y gyntaf yn newid y *cyflwr*. Yr oedd y dyn yn aros yn farw er yr holl fendithion a weinyddwyd arno. Nid oedd y fendith o ras attaliol ond yn aros hon—gwylied y claf i aros y meddyg ato. Hon sydd yn agor y clwyf, ac yn tywallt y balm iachusol i'r archoll. Nid yw y llall ond yn ei borthi yn y carchar rhag iddo newynu; ond hon a'i rhyddhä, a'i dwg allan, a'i cyfiawnhä, ac a'i *cyfnewid* yn *gyflawn*. Y fendith arall—rhoddi ymgeledd iddo a'i lywodraethu y mae, i aros iddo ddyfod i'w oed; ond hon a'i gwna yn etifedd. Ni chawsem hon heb y gyntaf, ac ofer fuasai y gyntaf heb hon. Nid ydyw y gyntaf ond llawforwyn i hon, yn rhedeg o'i blaen i godi Moses o'r afon; ond hon sydd yn gofalu am ei fagu. Da oedd cael y gyntaf i'th rwymo pan oeddit yn lloerig, rhag i ti dy ladd dy hun, i aros i'r Iesu ddyfod atat; ond hon ddaeth &r Gwaredwr atat, i'th ddwyn i'th iawn bwyll. Nid yw Duw ond

yn rhoddi ychydig o ras attaliol i'ch plant annuwiol etto, i aros y tywalltiad o'r Ysbryd arnynt! Clywir ambell un yn dyweyd weithiau: "Y mae rhywbeth arnaf, nid ydwyf yn cael llonydd; ni chefais dro enaid, ond nid allaf bechu yn rhyfygus." Duw sydd yn dy rwymo â gras attaliol rhag i ti yn dy wallgofrwydd dy ladd dy hun. Rhywbeth i aros ydyw hyny—i aros yr Iesu heibio; fe ddaw efe heibio i ti yn y man. Y llwon sydd am danat ti; fe ddaw y tro mawr yn y man!

Cyflawnir yr addewid o'r Ysbryd i *argyhoeddi*. Y mae yr addewid hon yn wynebu ar eigion trueni y byd. Y mae yn cael rhai yn feddwon, rhai yn dyngwyr, ac yn lladron a godinebwyr: rhaid fod gan hon gefn cryf pan y mae yn wynebu ar y fath uffern ofnadwy. Ond mentra hon y byd er maint ei drueni:—er fod ei hanner yn Baganaidd, rhan fawr yn Fahometanaidd, a llaweroedd wedi serio eu cydwybodau. Ond mentra hon y byd yn ei holl anhrefn:—"Efe a lywodraethu o fôr hyd fôr." Rhodod prawf o'i allu ar ŵyl y Pentecost. Fel meddyg, a i mewn i'r bwthyn, er fod y pla yn y wedd waethaf yno—y claf bron marw. Anturiaeth ofer yw, meddwch. Nagé! os ydyw yn cael ei argyhoeddi, os ydyw yn dyfod i deimlo ei glwyf, y mae hyn yn brawf fod y meddyg anffaeledig yn dechreu ei wellhau. Ffrwyth y llŵ i Grist yw yr addewid hon—yr olew yn disgyn oddi ar y pen ar y gwisgoedd. Gelwir ef yn "Ysbryd Crist;" ac yr oedd tywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost yn brawf o wirionedd y llŵ.

Goruchwyliaeth barotoawl i *uno â Christ* ydyw argyhoeddi. Y mae argyhoeddi yn agor y clwyf, ond undeb â Christ a wellhâ yr afiechyd. "Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg;" dangos y clwyf yw argyhoeddi, i'th barotoi i dderbyn y meddyg. Newynu yn ngwlad y cibau, i'th godi i fyned at dy dad. Dyma y pryd y mae sefyllfa ysbrydol dyn yn cyfnewid, pan y mae yn credu yn Mab Duw. Dyma yr amser y mae yn myned "trwodd o farwolaeth i fywyd." Dyma y pryd y mae yn cael ei symud o fod dan felldith yr hen gyfammod i fod dan fendith y cyfammod gras (*Rhuf.* vii. 6). Y mae bellach o ran ansawdd ei gyflwr yn ddiogel yn Nghrist, allan o gyrhaedd y ddamnedigaeth (*Rhuf.* viii. 1). Cyflawniad y llŵ i Grist ydyw hyn. Dyma lŵ y Tad i'r Mab:—"Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth;" "Cenedl ni'th adweini a elwi, a chenhedloedd ni'th adwaenai di a rêd atat." "Efe a'n cydfywhaodd ni gyda Christ;" y mae ein bywhâd ni yn ffrwyth angenrheidiol ei fywhâd ef, yn ol y llwon. Yn ei undeb cyfreithiol âg achos ei bobl, yr oedd ei farw ef yn farw iddynt hwy, a'i gyfodiad ef yn gyfodiad iddynt hwy.

Y mae addewid yr Ysbryd, trwy uno y saint â Christ, yn *eu dwyn i berthynas gyfammodol â Duw*:—"Mi a fyddaf yn Dduw i

chwi." Yn Nghrist y dygir pechaduriaid i berthynas newydd â Duw—i rwymau newyddion; yn bobl gyfammodol i Dduw, a Duw yn eiddo cyfammodol iddynt hwythau. Y mae yr argyhoeddi a'r uno â Christ yn barotoad i gyfammod â Duw, sef i'r hawl aci'r rhwymau perthynasol yn Nghrist. Y mae yr addewid "yn ië, ac yn amen" ynddo ef. Crist sydd yn meddu y brif hawl i'r addewid; ond wedi dwyn y pechadur i undeb â Christ, y mae ganddo yntau hawl is-raddol iddi trwy rinwedd ei undeb âg ef. Ar ol argyhoeddi y genedl Iuddewig, cododd Duw hwynt i gyfammod âg ef (*Hos.* ii. 13, 14). Y mae yn addaw ysgrifenu y gyfraith yn y galon (*Heb.* viii. 10). Y mae yr undeb cyfammodol yn ganlyniad undeb â Christ (*Ezec.* xxxvii. 23, 24; a 26—28). Ei dderbyn ef sydd yn rhoddi gallu i fod yn feibion i Dduw: *Ioan* i. 12. Codir hwynt i hawl ynddo. "Pob peth sydd eiddo chwi, a chwithau yn eiddo Crist." Dyma y sail—"Os plant, etifeddion hefyd." Y mae ganddynt hawl yn Nuw yn ol y llwon: y mae y credadyn yn gyd-etifedd â Christ trwy rinwedd ei undeb âg ef. Seliodd Crist yr addewid hon i'r saint. Profa hyn ei bod yn un o'r llwon yn yr ystyr uchaf i'r Mab, ac i'r saint trwyddo ef mewn ystyr is (*1 Pedr* iii. 18). Cynnwysa y cyfammod eu *cynnaliaeth hyd angev*. *Maddeuant tadol*—y mae hwn yn un o'r llwon, sef ffirwyth cyfammod (*Heb.* x. 16, 17). *Sancteiddio*—y mae hwn yn un o'r llwon a gyflawnir yn yr ystad yma; ac y mae glanhau y saint yn ffirwyth cyfammod: "Felly y cewch wybod mai myfi yw yr Arglwydd eich Duw yn trigo yn Seion fy mynydd sanctaidd." *Tynu y galon gareg*—y mae hwn hefyd yn ffirwyth y cyfammod. Os dan ras, "nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi mwyach" (*Rhuf.* x. 14). Mae hyn oll yn ffirwyth undeb â Christ, yr hyn yw sefyllfa gyfammodol y saint; ynghyd â phob cynnydd mewn gras hyd nes y perffeithir ef mewn gogoniant. Os "cyd-gyssylltu," yna "cynnyddu yn deml sanctaidd:" os adeiledir yn Nghrist, byddant yn "breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd" (*Eph.* i. 13; ii. 21, 22; *Dan.* ii. 10; *Ioan* i. 16; *Act.* xxxi. 18; *2 Cor.* iii. 18; *Gal.* iii. 27; *Dad.* ii. 17).

Rhaid i ni brofi ein cyfammod â Duw trwy *ufudd-dod sanctaidd*—profi ein bod yn weision i Dduw trwy ddwyn ffirwyth mewn sancteiddrwydd (*Rhuf.* vi. 16, 18, 22; viii. 1). Yn y dechreu, yr oedd dyn mewn cymdeithas â Duw, a'r gymdeithas hon yn gadael argraph sanctaidd ar ei ysbryd: ond collodd y gymdeithas, a dilëwyd yr argraph. Ond yn Nghrist, adferir y gymdeithas trwy "ffordd newydd a bywiol," ac adferir yr argraph sanctaidd ar ei ysbryd. Llŵ y cyfammod yw sancteiddiad y saint, o blegid y llŵ wrth Abraham ydyw (*Luc* i. 73—75). Yr oedd sancteiddio yr eglwys yn un o'r llwon i Grist, ac i'r

saint trwyddo ef; o blegid seliwyd yr addewid hon gan Grist pan seliodd y cyfammod yn gyffredinol (*Heb.* ix. 14; xiii. 12). Y mae llawer o'r saint yn cael eu blino gan ammheuaeth a sancteiddir hwy byth, ai peidio. Ond gellir dyweyd wrth bob credadyn, Cymmer gysur: y mae Duw wedi rhoddi llŵ i'w Fab y gwelir di yn lân! Ti elli fod yn hyderus y gorphenir y gwaith da a ddechreuwyd ynot. Y mae dy sancteiddiad yn firwyth anffaeledig arfaeth Duw, ac etholedigaeth gras; ac y mae hefyd yn firwyth sefyllfa Crist fel Cyfryngwr (*Phil.* iii. 10; *Rhuf.* vi. 4, 5; *Eph.* ii. 5).

P R E G E T H V.

Y PWYS O FOD YN BAROD.

Matthew xxv. 10—(y rhan olaf).

“A'r rhai oedd barod a aethant i mewn gydag ef i'r briodas: a chauwyd y drws.”

Y MAE y geiriau hyn yn rhan o'r ddammeg a elwir yn gyffredin, “Dammeg y deng morwyn.” Dammeg ydyw hon a lefarodd Crist ychydig iawn o amser cyn ei farwolaeth, a chyda golwg ar farwolaeth. Y mae y ddammeg wedi ei chymmeryd oddi wrth ddull oedd yn arferol y pryd hyny o gynnal priodas yn mysg yr Iuddewon, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid. Yr oedd yn arferiad yn eu mysg i'r briodasferch wahodd ati ryw nifer o'i chyfeillesau i fod yn gwmni iddi, ac i'r rhai hyny fod oll yn forwynion neu ferched ieuasingc. Yn mysg yr Iuddewon, yr oedd raid iddynt fod o leiaf yn ddeg o nifer. Edrychai yr Iuddewon ar briodas yn ordinhâd grefyddol; a rhaid oedd cael deg o nifer i gyfansoddi cynnulleidfa grefyddol yn ol eu rheolau hwy. Yr oedd yn arferiad i'r morwynion gymmeryd bob un ei lamp gyda hwynt i oleuo y ffordd i bawb, o herwydd byddent yn arfer myned yn y nos i dŷ y priodfab, lle y cynhelid gwledd y briodas. Mae yn debyg y byddai pob morwyn feddylgar, gall a threfnus, yn darparu tipyn o olew mewn llestr, heblaw hyny fyddai yn y lamp, rhag ofa i'r olew a fyddai yn y lamp dreulio allan, ac i'r lamp ddiffoddi yn yr adeg fwyaf angenrheidiol iddi lewyrchu; ac y mae yn bossibl y byddai ambell un anystyriol yn anturio gyda lamp âg ond ychydig olew ynnddi, ac heb ddim wrth gefn. Dygwddai weithiau i'r priodfab aros yn hir, aros dros ben yr adeg yr oedd yn arferedig iddo ddyfod. Ar adeg felly, gallai ddygwydd i'r morwynion hepian—syrthio i gwsag, a gadael y lamp i losgi o hyd, a rhoddi rhywun i wyllo pa bryd y denai y priodfab; a disgwylid i hwnw roddi gwaedd pan y gwelai ef yn dyfod:—“Wele y mae y priodfab yn dyfod!” Yna byddai yr holl

forwynion yn parotai i gychwyn. Gallai ddigwydd weithiau i'r lampau oll fod ar ddiffoddi pan glywid yr alwad i gychwyn. Y rhai fyddent wedi darparu olew mewn llestr, byddai ganddynt fodd i ddiwallu y lamp fel ag i gael y llewyrch pan y byddai yr angen mwyaf am hyn; ond y rhai fyddent heb ddarparu, byddai eu lampau yn rhwym o ddiffodd, a'r canlyniad fyddai, eu cau allan o'r briodas—yr hyn a ystyrid yn warth mawr.

Y mae y ddammeg wedi ei chymmeryd oddi wrth yr arferiad yna. Er fod pob un o ddammegion Crist wedi eu bwriadu i osod allan rhyw un gwirionedd neillduol, etto cawn lawer o addysgiadau ereill yn mhob dammeg; ac felly gallwn gael yn y ddammeg hon.

1. Y mae yn briodol i ni sylwi oddi wrth y ddammeg *fod eghwys Dduw yn y byd hwn mewn sefyllfa gymmysg*. Y mae ynddi saint, a rhagrithwyr—morwynion call, a ffol—efrau, a gwenith, yn gymmysgedig. Felly y mae yn debygol y bu yn mhob oes, ac y mae yn bur debyg mai felly y bydd hyd ddiwedd amser. Y mae rhai yn ein beio am ei bod felly. Ond ai nid felly yr oedd hi o dan law Crist ei hun? Yr oedd efe yn chwiliwr y calonau, ac yn profi meddyliau dynion. Gwyddai beth oedd mewn dyn. Gwyddai mai rhagrithiwr oedd Judas, etto ei oddef yn mysg y dysgyblion a wnaeth; a gorchymynodd i ninnau adael i'r efrau a'r gwenith “gyd-dyfu hyd y cynhauf.” Nid ydym ni yn alluog nac yn gymmhws i wneuthur didoliad perffaith. Y mae yn addaw dyfod i ddidoli ei hunan. Y mae wedi cadw y gwaith manwl a phwysig hwnw iddo ei hunan; ac y mae y didoliad yn sicr o gael ei wneyd, a'i wneyd yn berffaith hefyd. Yn mha un o'r ddwy dorf y cei di dy hunan y diwrnod hwnw?

2. Gallwn ddysgu hefyd oddi wrth y ddammeg, *y gall rhagrithwyr ymddangos yn debyg i'r saint* mewn rhyw bethau. Yr oedd llawer o debygolrwydd yn y morwynion ffol i'r rhai call. Yr oeddynt oll yn forwynion—oll yn aros y priodfab—oll yn meddu lampau, a phob un yn llewyrchu—oll yn cyd-hepian ac yn cyd-ddeffroi. Y peth oedd yn gwneyd y gwahaniaeth mawr oedd, fod y morwynion call wedi darparu yn well gogyfer a'r dyfodol, wedi darparu tipyn o'r golwg. Nid oedd hwnw ddim mor hawdd ei weled a'r lampau; ond er hyn yr oedd yn ddarpariaeth gyfaddas a digonol erbyn y deuai y priodfab. Yr oedd llewyrch ar eu lampau pan alwyd hwy i dŷ y priodfab. Y mae gwahaniaeth mawr ac annhraethadwy rhwng saint a rhagrithwyr *oddi mewn*:—nis gellwch chwi ddim dirnad fod yn bossibl fod gwahaniaeth mor fawr rhwng dau ddyn. O! pe yr adnabydd-ech yn berffaith y gwahaniaeth! Y mae gwir sancteiddrwydd, cariad at Dduw, ffydd yn Nghrist, dybenion uchel a gogoneddus crefydd, wedi cymmeryd gafael yn y duwiol; ac yn gosod y fath

ogoniant ar y creadur na ddengys goleu y byd hwn mo hono yn llawn. Ond y mae y rhagrithiwr yn fyr o'r pethau yna. Y mae gwahaniaeth *oddi allan* hefyd rhyngddynt. Dilynwch hwy i bob man; craffwch ar eu llwybrau yn mhob lle—yr wyf yn meddwl y cewch y Cristion yn rhagori llawer ar y Pharisead manylaf, ie *oddi allan*. Fe fyddai yr hen bobl yn dyweyd eu bod yn gweled ysbrydion yn aml, weithiau ar flurf dyn; ond byddai rhyw anffurf ar rywle—os caech gorph dyn, traed anifail a fyddai ganddo hwyrach. Felly y mae rhyw fath o grefyddwyr sydd yn tramwy y ddaear: y mae rhyw ambell ddarn yn ymddangos yn lled agos i'w le ynddynt, ond os creffwch yn fan-ylaidd, cewch weled rhyw wall arnynt. 'Does yno ddim dyn cyflawn. Y mae rhai yn dyweyd na ddylem farnu pobl: ond os credwn y Beibl y mae yn rhaid i ni eu barnu. Y mae gwir dduwioldeb yn ei chanmawl ei hunan. Mae y saint yn dangos yn eglur "eu bod yn ceisio gwlad." "Y mae yn amlwg blant Duw a phlant diafol." Y mae delw Duw yn nhalcenau y saint.

3. Y mae y ddammeg yn rhoddi ar ddeall i ni, *fod Mab y dyn yn dyfod ar warthaf plant dynion yn hynod o annisgwyl-iadwy*:—"Ar hanner nos y bu gwaedd"—pan nad oedd neb yn disgwyl. Y mae Mab y dyn yn dyfod ar warthaf plant dynion yn annisgwyl-iadwy, ac felly y daw ar ein gwarthaf ninnau. Y mae yn debyg y bydd raid i ti farw yn gynt nag yr oeddit wedi meddwl:—felly y mae angeu yn dal' y rhan fwyaf o ddynion. Yr oeddynt wedi bwriadu gwneuthur llawer o bethau cyn ymadael â'r byd; ond y mae angeu yn cipio dynion i'r byd tragwyddol yn llawer cynt nag y maent yn disgwyl. Y mae yr annuwiolion i gyd yn cael eu cipio ymaith felly, cyn iddynt ystyr-ied. Yr oeddynt wedi bwriadu cyflawni pethau mawr—yr oeddynt wedi bwriadu cael cymmod â Duw cyn marw; ond fe'u cwmpwyd i lawr cyn i hyny gael ei ddechreu.

4. Y mae y ddammeg yn ein dysgu *mai peth o bwys mawr ydyw bod yn barod*. Am a wn i, nad allai hyn fod yn ngolwg Crist wrth lefaru y ddammeg yn gymmaint a dim arall. Y mae hyn yn beth o bwys annhraethadwy—ac ar hyn yr oeddwn i am sylwi.

Y mae yn debyg fod pawb sydd yma yn addef fod rhyw radd o angenrheidrwydd i ymbarotoi erbyn tragwyddoldeb. Y mae yn rhyfedd—er gwybod ein bod yn greaduriaid cyfrifol, er credu fod byd tragwyddol o'n blaen, a bod nefoedd neu uffern yn ein haros, ac er gwybod y byddwn yn y naill neu y llall yn fuan, er gwybod nad oes yn bossibl i ni gael bod yn y byd yma yn hir—y mae yn rhyfedd ein bod, er gwybod hyn oll, yn meddwl mor ychydig am ymbarotoi; ein bod mor ddfater am beth o'r fath bwys! Y mae yn anhawdd rhoddi rheswm am ymddygiad fel yna. Pa fodd y mae dynion yn gallu bod felly? Gwybod y

byddant yn fuan yn preswyllo byd o dragwyddol barhâd—gwybod fod sefyll o flaen gorsedd Duw yn beth anocheladwy, a gwybod y bydd yn rhaid sefyll yno yn fuan, a gwybod y bydd y gair “*Deuoch*” yn eu cludo i ogoniant tragwyddol, neu y gair “*Ewch*” yn eu hymlid i drueni na welir diwedd arno byth—a gwybod fod hyny yn ymyl—er hyny yn hollol ddibryder ynghylch y peth: gallu cysgu yn ddigon tawel, medru troi yr holl bryder ynghylch anghenion y corph, a gadael y peth mawr hwn o'r neilldu! Beth ydyw peth fel hyn? Y mae yn rhyw fath o wallgofrwydd. Yr ydym yn arfer teimlo oddi wrth achosion y corph yn gyfattedol i'r pwys yr ydym yn ei weled ynddynt. Pa fodd na byddai felly gyda'r achos mawr—yr unig fater pwysig iawn sydd yn perthyn i ti? Anturio yn mlaen tua'r tragwyddoldeb mawr yn ddiotal, ac heb ymbarotoi—heb un sicrwydd nad o dan lid Duw y byddi cyn y boreu yfory!—anturio felly i wyneb perygl mor arswydus, yw y rhyfgy mwyaf yn nghreadigaeth Duw! Y mae y dyn a'i gwna yn hunan-ddinystrydd tragwyddol! Dyma greulondeb heb ei ail! Ni chyflawnodd yr erlidwyr ar y merthyron y fath greulondeb erioed. Yr oedd yr erlidwyr yn lladd y corph; ond yr wyt ti, wrth fentro tua'r byd arall heb ymbarotoi, yn dinystrio dy enaid. Yr oedd eu creulondeb hwy yn darfod yn ei effeithiau mewn amser byr; ond yr wyt ti yn gwneuthur â thi dy hunan greulondeb y byddi yn dioddef am dano yn dragywydd.

Pe câi yr achos hwn ei le priodol yn ein meddyliau, fe dorai allan yn ein hymddiddanion yn mhob man. At hwn y tröem pan gyfarfyddem y naill y llall ar y ffordd:—‘Sut y mae yn golygu rhyngoch â thragwyddoldeb?’ Hwn fyddai pwngc yr ymddiddan ar yr aelwyd gartref rhwng y rhieni a'r plant: gofal a phryder ynghylch achos tragwyddol eu plant fyddai y peth penaf ar feddyliau y rhieni. Pe yr agorid ein llygaid ar y byd ar ol hwn, fe âi pethau y byd hwn yn fychain yn eu hymyl—helyntion y teyrnasoedd, gweithrediadau y senedd, ansawdd masnach: pe bâi dy feddwl yn trafaelu yn mlaen i'r byd tragwyddol, fe barai yr olwg ar y byd hwnw i'r byd hwn ymddangos fel chwareu plant yn ei ymyl. Ni fedret ti edrych ar ddim yn bwysig iawn, ond bod yn barod i gyfarfod â'th Farnwr. O Arglwydd! sefydla ein meddwl dipyn ar y pethau mawrion sydd yn mlaen!

Dyna y disgrifiad a rydd y Beibl o'r gwahaniaeth sydd rhwng y duwiol a'r annuwiol:—Dyn y byd yw yr annuwiol; y mae ei ran yn y bywyd yma; yn y byd yma y mae ei bobpeth ef. Nid yw efe byth yn arfer myned ymaith o'r byd hwn o ran ei feddwl. Yma y mae pobpeth a gyfrifa yn werthfawr. Nid yw efe byth yn arfer rhoddi tro allan o derynau y byd hwn. Nid yw yn arfer edrych yn mlaen ar y byd tragwyddol. Y mae ei

feddwl yn ddyeithr i'r pethau mawrion i gyd. Dyn annuwiol—nid ydyw yn byw nemawr uwch law yr anifail. Nid yw ei bleserau ef uwch law pleserau y ceffyl a'r fuwch. Ond am y duwiol, y mae yn "byw trwy ffydd." Y mae yn cymdeithasu â phethau nad oes yn bossibl eu gweled â llygaid—pethau mawrion y byd ysbrydol a thragwyddol. Y mae yn cymdeithasu â rhyw fyd mawr arall—â phethau sydd yn mhell o'r golwg, pethau sydd etto yn mlaen heb eu cyrhaedd, y pethau mawr hyny y rhaid iddo eu teimlo i dragwyddoldeb: a dyna ei bethau mawr ef. "Dyn ysbrydol" yw: nid yn unig y mae o dan ddylanwad Ysbryd Duw, ond y mae yn gallu myned allan o'r byd gweledig. Y mae yn arfer byw llawer mewn byd ysbrydol. Y mae cymdeithas rhwng ei feddwl a byd uwch law hwn. Y mae yn adnabod Duw, yr hwn sydd ysbryd anfarwol. Y mae yn gweled gogoniant Crist, er ei fod yn rhywle allan o'r golwg. Edrycha tua'r farn fawr, a gwel "daledigaeth y gwobrwy," er ei bod yn mhell yn mlaen.

Peth o bwys mawr yw *bod yn barod*. Un o ddybenion gweinidogaeth Crist oedd annog ei wrandawyr i barotoi gogyfer â byd ar ol hwn. Fe "ddygodd fywyd ac anllygredigaeth i oleuni;" fe dynodd y llen oddi ar wyneb y byd tragwyddol. O'r blaen, yr oedd yn lled guddiedig, ac yn anhawdd gweled iddo; ond yn anghau Crist, fe agorwyd dorau y byd hwnw. Dyna ddyben yr Arglwydd yn creu y byd hwn, i fod yn *blat-form* i blant dynion i'w rhoddi mewn cyfleusdra i edrych yn mlaen tua thragwyddoldeb cyn myned iddo; fel pe meddyliech am ddyn yn cael ei gyfodi i ben mynydd, i weled rhyw wastadedd eang. Rhyw fan felly ydyw y ddaear—rhyw foncyn a gyfododd Duw i osod dyn ar ei ben, i edrych draw ar wastadedd mawr thragwyddoldeb, ac i ymbarotoi erbyn myned iddo.

Pa beth ydyw BOD YN BAROD? Rhaid i'r parotoad gyfattedd i ansawdd y byd yr ydym yn myned iddo i fyw. Pe bai un o honoch yn myned i Awstralia i fyw, y mae yn debyg yr ymofynech pa fath wlad ydyw, ac y cymmerech y pethau cymmhwysaf gyda chwi. Felly rhaid i'n darpariaeth ninnau erbyn thragwyddoldeb fod yn gyfaddas i'r sefyllfa yr ydym yn myned iddi. Y mae yma lawer o bethau gwerthfawr dros amser, na bydd yn bossibl eu llusgo yno; a phe y gellid gwneyd, ni byddent o werth dim yno. Y mae arian a chyfoeth yn gwneyd llawer o wasanaeth i ni yma; ond pe y ceid hwynt yno, ni byddent o ddim gwerth.

Tuag at fod "*yn barod*:"—

I. *Rhaid cael cymmod â Duw*—heddwch â'th Farnwr!

Pe bai un o honoch chwi yn bwriadu myned i drigo i Paris,

ac yn deall ei bod yn ddrwg rhwng yr ymherawdwr a ni, fod rhyw anghydfod pwysig yn bod, ac y byddai yn sicr o ddial arnoch, beth a gyfrifech chwi yn barotoad i ddyn fel yna i fyned i'r fan hono? *Cael heddwach â'r ymherawdwr*, o bob peth! Brenin y byd tragwyddol yw Duw. Nid oes yno neb yn dal teyrnwialen ond y Duwdod ei hunan. Y mae pob pendefigaeth ond yr eiddo ef wedi ei dileu. Ni raid i ni gydnabod neb yn ben ond efe. Fe fydd y Mab ei hun wedi ei ddarostwng iddo, "fel y byddo Duw oll yn oll:" ac ni bydd ddim yn dda i ti fyned ato i fyw heb fod yn ei heddwach. Ond os bydd yn heddwach rhyngot a Duw, fe fydd pobpeth yn dda: "Am hyny," medd Paul, "gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwach tuag at Dduw." Y mae llawer yn hyn. "Trwy yr hwn (sef Crist) y cawsom ddyfodfa trwy ffydd i'r gras hwn yn yr hwn yr ydym yn sefyll, ac yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw." Yr ydym yn disgwyl tragwyddoldeb hapus o blegid hyn.

II. *Rhaid i ni gael rhywun yn gumni i ni i fyned trwodd—* a rhywun y byddwn wedi ei adnabod, ac y gallwn ymddiried ynddo.

Fe fydd llawer o bobl yn dyfod i weled ein mynyddoedd ni acw, yn enwedig y Wyddfa; ond nid oes un o honynt yn meiddio myned i'w phen yn y nos heb arweinydd cyfaddas. Y mae rhyw ffynyddoedd tywyll yn sefyll yn y cyfwng yn rhywle rhwng y ddau fyd—y maent yn sefyll yn rhywle ar diriogaeth brenin y dychryniadau: y mae y Beibl yn ein sicrhau y rhaid i ni daro ein traed wrthynt; ac fe fydd pob cyfaill a fedd y byd hwn yn cilio yn ol, a da iawn fydd i ni gael un cyfarwydd ar y mynyddoedd hyn i'n harwain. Y mae un i'w gael; ac ni chlywais i ond am un yn gyfaill a lŷn wedi i bawb droi ei gefn, ac fe leinw efe le pawb. Y mae yn gyfarwydd iawn yn yr holl diriogaeth dywyll; ac yn ei law ef nid oes dim perygl i ni yn y byd arall. Ni buasai yma un blodeuyn yn nghreadigaeth Duw y buasai yn werth iddo roddi llygad i ddyn i'w weled oni buasai "rhosyn Saron!" y mae ynddo ef degwch a swyna angylion y nefoedd i edrych arno. O Dduw! dyro ei adnabod! Ond ei adnabod ef, ti a'i coi yn "bwysi myrr rhwng dy fronau dros nos!" Fe fydd y *bedd* yn well i ti o herwydd dy undeb â Christ.

III. Mewn trefn i fod yn barod, y mae yn angenrheidiol i ni *gyflawni ein gwaith yma*. Yr ydym wedi ein hanfon yma i weithio. Pe meddyliem am y gwas yn dyfod i'r tŷ gyda'r hwyr, heb hanner gwneyd ei waith—gwaith yr oedd y meist'r yn disgwyl iddo ei wneuthur, a gwaith y dylasai yntau ei wneuthur—

nid yw y gwr yma yn teimlo yn barod iawn i gyfarfod y meist'r ac i roddi cyfrif iddo. Y mae Duw wedi ein gosod ni yma i wneyd gwaith. Y mae yn gwybod pa faint a ddylem wneuthur. Y mae wedi ein cynnysgaethu â thalentau, a gŵyr eu mesur; ac ni chyfrif mo honom yn ffyddlawn heb gael ein gwasanaeth. Y mae i ni rywbeth i'w wneyd atom ein hunain, a llawer yn ein teuluoedd, a llawer yn y gymmydogaeth, a llawer gydag achos crefydd dros y ddaear. Ni bu yma un oes o Gristionogion ar y ddaear yn meddu y fath gyfleusderau i wneuthur daioni a'r oes hon; ac y mae Duw yn sylwi mor fanwl ar ein gwaith, ac yn gosod y fath bwys arno, fel y rhaid iddo gael cyfrif manwl o'r cwbl. Y mae efe am wobrwyo llafur y ffyddlawn, a chosbi am anffyddlondeb yn y farn a ddaw: "Nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich gwaith, a'r llafurus gariad a ddangosoch tuag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini." "Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist." Fe fydd yno gyfrif manwl yn y farn o bwy roes ddioid iddo yn ei syched, a bwyd iddo yn ei newyn. Y mae arnaf ofn y bydd llawer o Gristionogion yn syrthio yn fyr iawn o lafur. Fe allai y cânt fyned i'r nefoedd; ond ni fydd yno ddim llawer o lafur i'w wobrwyo. "A'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt:"—y fath sylw y mae y barnwr yn ei dalu i bob peth yr ydym yn ei wneuthur! Y mae llawer iawn heb ddechreu gwneyd eu gwaith. Y mae llawer tad a mam wedi bod uwch ben chwech neu saith o blant, na welodd y plant mo honynt erioed yn gweddio drostynt. Bydded i angeu ein dal wrth ein gwaith!

IV. Rhaid i ni gael sancteiddrwydd.

Pe cait ti fyned i'r nefoedd heb sancteiddrwydd, nis gallet ei mwynhau. Ni ddeuai un o'r patriarchiaid yn agos atat ti—ti fyddet yn ffaidd yn eu golwg. Fe fyddai gwg ar wyneb Duw ei hunan. Ti fyddet yn rhywbeth croes i bawb trwy y wlad. Sancteiddrwydd a chariad at Dduw yn Nghrist—dyna elfen fawr dedwyddwch y nef. Tymmer druenus iawn yw cenfigen a chasineb: y mae y teimladau yna yn drueni ynddynt eu hunain—'does eisieu chwaneu dim atynt i wneyd y creadur yn druenus. Felly y mae cariad yn dymmer hapus ynddi ei hunan; dyna elfen fawr dedwyddwch y nefoedd—cariad at Dduw, cariad at yr holl angylion a'r saint. Os byddi yn meddu cariad at Dduw, fe fydd hyny yn rhywbeth tuag at dy gymmhwysu i ymhyfrydu ynddo: ac os byddi yn meddu anian a all fyw ar Dduw, fe fydd yn nhragwyddoldeb ddigon o ddefnyddiau dedwyddwch i ti—fe fydd yno ddigon o Dduwdod! Gwlad wedi ei neillduo yn gartref tragwyddol i gariad a sancteiddrwydd yw y nefoedd. Pan y pechodd yr angylion, fe'u

taflwyd oddi yno. Y mae Duw wedi gwneyd y nefoedd yn gartref sancteiddrwydd. Wel, ymbarotoi gogyfer â'r nef yw y pwngel! Y mae hyn yn bossibl yn awr: ond os âi yn mlaen ychydig yn mhellach, fe fydd ymbarotoi wedi myned yn beth ammhossibl. Cred yn Nghrist, ti ddeui i feddu y cwbl: dyro dy ymddiried ynddo ef, ymostwng o dan ei iau a'i wasanaeth, cymmer afael ynddo trwy ffydd, a thi a sicrhei i ti dy hun dragwyddoldeb o hapusrwydd. Y mae yn sefyll wrth dy ddrws ac yn curo, gan erfyn am gael dyfod i mewn; ac ond i ti agoryd iddo, fe fydd pob perygl i ti gael dy ddamnio wedi ei symmud.

Cofiwch mai dyma'r peth mawr! Ni wyddom ni pa ddydd nac awr y daw i'n hymofyn, ond O!—pob peth yn barod! Nid fel y mae y gauaf naturiol yn dyfod i mewn y mae gauaf marwolaeth yn dyfod. Yr ydych yn gallu dyweyd ganol yr haf pa faint o amser sydd hyd y gauaf naturiol; ond am auaf marwolaeth, nid oes un dyn yn ddigon dysgedig yn Liverpool¹ i ddyweyd pa bryd y daw. Gan hyn, y ddoethineb fwyaf yw bod *bob amser* yn barod; disgwyl bob munyd, fel y llong yn bwriadu cychwyn ar ei mordaith yn disgwyl am yr awel. Rhyw dipyn o droad ar yr awel—y mae yn dwyn plant dynion ymaith. O! am angor yn myned “hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen!” Penderfynwch na cha dim ei adael genych heb ei wneuthur o blaid teyrnas Crist. Ni bydd sylw yn y farn ar lawer o bethau y telir llawer o sylw iddynt yn y byd hwn; ond fe delir sylw i *hyn* yn nydd y farn—yr hyn a wnaethom dros deyrnas Crist. Amen.

¹ Traddodwyd y bregeth hon yn Liverpool, ac ysgrifenydd hi mewn llaw fer wrth ei gwrandaw.

PREGETH VI.

Y GOGONIANT DWYFOL.

Exodus xxxiii. 18—23.

- “Yntau a ddywedodd, Dangos i mi, attolwg, dy ogoniant.
 “Ac efe a ddywedodd, Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb, a chyhoeddaf enw yr Arglwydd o'th flaen di: a mi a drugarhâf wrth yr hwn y cymmerwyf drugaredd arno, ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf.
 “Ac efe a ddywedodd, Ni elli weled fy wyneb: canys ni'm gwel dyn, a byw.
 “Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd, Wele fan yn fy ymyl, lle y cai sefyll ar graig.
 “A thra yr elo fy ngogoniant heibio, mi a'th osodaf o fewn agen yn y graig; a mi a'th orchuddiaf â'm llaw, nes i mi fyned heibio.
 “Yna y tynaf ymaith fy llaw, a'm tu cefn a gai di ei weled: ond ni welir fy wyneb.”

YN y pennodau o'r blaen, yr ydym yn cael hanes Israel, ar eu hymndaith yn yr anialwch, yn gwersyllu wrth odre Sinai, yr hwn sydd fynydd uchel yn anialwch Arabia â dau ben iddo; un o'r rhai a elwir Horeb, a'r llall, sef yr uchaf, Sinai. Dywedir fod y mynydd hwn yn hynod serth. Yn mhfen y trydydd mis wedi eu dyfod o'r Aipht y daethant yno. Yna aeth Moses i fyny i'r mynydd at Dduw. Dyna y lle a ddewisodd Duw i lefaru wrth ddynion: nid teml ardderchog, ond mynydd maen. Yno y llefarodd Duw wrth Moses swm y cyfammod oedd i gael ei ffurfio rhyngddo ef a'r genedl (*Exod. xix. 3—6*), a gorchymynodd iddo gyhoeddi y cyfammod wrth y bobl. Daeth Moses i lawr o'r mynydd, ac a wnaeth felly. Yna yr holl bobl a addawsant gadw cyfammod yr Arglwydd yn ffyddlaw; “a Moses a ddug drachefn eiriau y bobl at yr Arglwydd.” Wedi hynny, rhoddodd Duw rybudd i Moses o'i fod yn bwriadu disgyn y trydydd dydd ar y mynydd mewn cwmwl tew, a llefaru yno yn nghlywedigaeth yr holl bobl; a gorchymynodd iddo ddychwelyd at y bobl i'w rhybuddio am hynny, ac i sancteiddio y genedl (*pen. xix. 10—24*). Ar ol trefnu y dorf yn barod i wrando, dyma Dduw yn dechreu llefaru mewn llais eglur yn nghlywedigaeth yr holl dorf, gan ddywedyd yr hyn a adroddir yn *pen. xx.* Llefarodd Duw y

“deng air deddf,” sef y ddeddf foesol, y pryd hyny wrth yr holl bobl. Yna y bobl yn ddychrynedig a ddymunasant ar Moses lefaru wrthynt hwy, ac nid Duw, rhag iddynt feirw. Wedi hyny, aeth Moses i fyny at Dduw, a llefarodd Duw wrtho y pryd hwnw y ddeddf wladol, yr hon à gynnwysir yn *pen. xxi. hyd pen. xxiii.*

Yn y pennodau hyn yr ydym yn cael hanes ail eisteddfod yn cael ei chadw rhwng Duw a'r bobl ar Sinai. Galwodd Duw ar Moses drachefn, a gorchymynodd iddo ddyfod i fyny ato ef i'r mynydd gydag Aaron, Nadab, ac Abihu, a deg a thrigain o henuriaid Israel; a gorchymynodd iddynt “addoli o hirbell” (*pen. xxiv. 1—3*). Darllenodd Moses y cyfammod i'r bobl, ac addawsant hwythaf ei gadw oll. Galwyd yr henuriaid y waith hon i fod yn dystion o wirionedd y weledigaeth ofnadwy. Wedi i Moses gadarnhau y bobl yn y cyfammod, er mwyn cael addewid y bobl gydag ef, aeth i fyny gyda'r henuriaid. Wedi iddynt esgyn i ran o'r mynydd, gwelsant olwg ofnadwy: “A gwelsant Dduw Israel; a than ei draed megys gwaith o faen saphir, ac fel corph y nefoedd o ddsygleirder. Ac ni roddes ei law ar bendefigion meibion Israel; ond gwelsant Dduw, a bwytsant ac yfasant” (*pen. xxiv. 9—11*). Hyny yw, cymmerasant eu lluniaeth neu eu hymborth yn llawen, am iddynt gyfarfod Duw mewn heddwch. Yna gorchymynodd Moses i Aaron a Hur lywodraethu y gwerysll yn ei absenoldeb ef. Aeth Moses a Josuah yn uwch i'r mynydd, a chwmmwl tew a orchuddiodd y mynydd chwe diwrnod. Y seithfed dydd “galwodd Duw am Moses o ganol y cwmmwl, a'r golwg ar ogoniant yr Arglwydd oedd fel tân yn difa ar ben y mynydd yn ngolwg meibion Israel.” Aeth Moses i fyny i'r cwmmwl, ac yno y bu ddeugain niwrnod.

Yn yr ysbaid hwn y derbyniodd Moses y ddeddf seremonïol, a phortread y tabernacl a'i holl ddodrefn, ac y derbyniodd y ddwy lech, ar y rhai yr oedd y gyfraith a lefarasai Duw o'r blaen yn nghlywedigaeth yr holl bobl, yn ysgrifenedig. Yma y newydd diweddaf a dderbyniodd Moses ar ben y mynydd ydoedd, fod y bobl wedi pechu:—“A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Cerdda, dos i waered: canys ymlygrodd dy bobl a ddygaist i fyny o dir yr Aipht” (*pen. xxxii. 7*). Bygythiodd Duw eu lladd wrtho; ond Moses a eiriolodd drostynt, nes cael ganddo addaw cymmodi à hwynt. Pan ddaeth Moses i waered at y bobl, a gwled y ffeidd-dra oedd yn eu mys (canys yr oeddynt wedi gwneuthur llo aur, a'i addoli), ei ysbryd a gynnhyrfwyd fel y torodd efe y llechau. Rhai a'i cyhuddant o dymmer ddrwg yn yr amgylchiad hwn; ond gan nad yw Duw yn ei feio am y weithred, y mae yn fwy tebyg y mynai Duw i'r llechau gael eu tori y pryd hwn o flaen llygaid y bobl,

i'r dyben o arddangos iddynt eu bod hwy, drwy eu pechod ffaidd, wedi tori eu cyfammod â Duw. Efe a falodd y llo aur yn llwch, ac a'i taenodd ar wyneb y dwfr, ac a'i rhoddodd iddynt i'w yfed. "Pan welodd Moses fod y bobl yn noeth"—hyny yw, heb un esgrûs dros eu pechod, yn noeth i felldithion y gyfraith—"yna y safodd Moses yn mhorth y gwerysll," a galwodd am y rhai oedd "ar du yr Arglwydd" i nesáu ato ef; a daeth meibion Lefi, sef y rhai oedd yn wrthwynebwyr i'r llo aur. Gorchymynodd yntau iddynt ladd "pob un ei frawd, a phob un ei gyfaill, a phob un ei gymmydog;" sef, lladd y rhai oedd yn blaenori yn y trosedd, heb arbed na châr na chyfaill: a lladdwyd o'r bobl y dydd hwnw "ynghylch tair mil o wfr." Yna argyhoeddodd y gweddill o'r bobl o ddrwg eu pechod, ac addawodd esgyn etto i'r mynydd i geisio cymmodi Duw â hwynt; ond nis gallai sicrhau y llwyddai: "Ond odid mi a wnaf gymmod dros eich pechod chwi." Wedi hyny y mae y ddad yn dechreu rhwng Moses a Duw yn achos y bobl. Yn mlaenaf, cyfaddefai Moses bechod y bobl (*pen.* xxxii. 31); yna, gofynai faddeuant iddynt, a chynnygiai ei einioes ei hun yn eu lle hwynt. Yna dywedodd Duw: "Pwy bynag a bechodd i'm herbyn, hwnw a ddileaf allan o'm llyfr." Yna gorchymynodd iddo arwain y bobl i'r wlad a addawsai efe iddynt: addawodd anfon ei angel gyda hwynt, ond nid efe ei hun. Yr oedd drwy hyn yn bygwth tynu oddi wrthynt y "llaw gadarn," sef y gwyrthiau mawr, rhagllaw. Bygythiodd hefyd eu cosbi etto; a tharawyd hwynt mewn rhyw fodd: ond ni wyddys pa faint, na pha fodd.

Yn *pen.* xxxiii. 1—6, y mae Duw yn llefaru yn awr wrth Moses am y bobl. Wedi hyn, yr ydym yn cael fod Moses yn lledu ei babell tu allan i'r gwerysll. Pabell y cyfarfod oedd hon, yr hon a wnaethai Moses iddo ei hun i weinyddu barn ynddi. Gosododd hi yn mhell oddiwrth y gwerysll, a'r holl bobl yn nrysau eu pebyll yn edrych yn ddychrynedig arni yn ymadael â hwynt (*adn.* 7, 8). Yna "disgynodd colofn y cwmmwl, ac a safodd wrth ddrws y babell:" a gwelodd yr holl bobl golofn y cwmmwl, "âc a addolasant bob un wrth ddrws ei babell... A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses" (*adn.* 9, 10). Y pryd hwn dechreuodd cymdeithas ryfedd rhwng Duw a'r bobl, trwy Moses fel yfryngwr; canys daeth y bobl yn mlaen at y babell, gollid mawr, i erfyn nawdd Duw, a Moses yn cyfryngu. 1. Y mae Moses yn gosod i lawr ddwy ddadl:—(1.) Ei osodiad ef yn arweinydd i'r bobl. (2.) Fod Duw wedi dywedyd wrtho ei fod wedi cael ffafr yn ei olwg, a'i adwaen wrth ei enw. (Gallem feddwl fod yr Arglwydd yn barod i ddyweyd wrtho—"Moses, Moses! yr wyt ti yn hel pob peth—yn dal ar bob gair!") 2. Y mae yn gosod i lawr achwyniad neu gwyn:—(1.) "Ni ddangosaist i mi yr hwn a anfonï gyda mi," er dy fod wedi dywedyd

“Dwg y bobl yma i fyny.” (2.) “O cheffais ffafir yn dy olwg, hysbysa i mi dy ffordd, attolwg, fel y’th adwaenwyf, ac fel y caffwyf ffafir yn dy olwg.” “Hysbysa dy ffordd;” sef, ‘Dyro i mi gyfarwyddyd etto.’ (3.) “Gwel hefyd mai dy bobl di yw y genedl hon:”—ti a ddywedaist mai fy mhobl i oeddynt (*adn.* 13). Y mae ateb Duw iddo yn cynnwys y cwbl mewn un gair: “Fy wyneb a gaiff fyned gyda thi, a rhoddaf orphwysdra i ti.” Y mae un yn cyfieithu y gair hwn, “Os â fy wyneb gyda thi, a fyddi di yn esmwyth?” Yna y mae Moses yn dadleu ei hen addewid ef am ei wyneb; sef, ei fod wedi dyweyd ei fod wedi cael ffafir yn ei olwg (*adn.* 15, 16): “Onid a dy wyneb gyda ni, nac arwain ni i fyny oddi yma.” Y mae yr Arglwydd yn ei ateb fel pe dywedasai, ‘Gâd lonydd i mi, Moses!’—“gwnaf hefyd y peth hyn a leferaist” (*adn.* 17). O’r diwedd, gan fod Moses yn cael pob peth a ofynai ganddo, gofynodd yn y testyn fwy na llon’d ei lestr—“Dangos i mi, attolwg, dy ogoniant!”

I. Y mae yn y *Duwdod Mawr* ogoniant anweledig i ni. Y mae yn yr Arglwydd ogoniant anweledig ac anchwiliadwy. “Dangos i mi, attolwg, dy ogoniant!” Y mae hyn yn addefiad fod ynddo ogoniant anweledig. ‘Y mae ynot ti foroedd o ogoniant anweledig i mi; dangos i mi ryw gymmaint o’r moroedd hyny!’ Gwnaeth Duw amlygiadau mawrion o’i ogoniant yn ngwaith y greadigaeth (*Salm* xix); ond y mae ganddo ogoniant etto anweledig i ni. Gellir profi hyn trwy liaws mawr o ysgrythrau:—

“Ai gwir yw, y preswylia Duw gyda dyn ar y ddaear? Wele, y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy amgyffred; pa faint llai y dichon y tŷ hwn a adeiledais i?” (2 *Cron.* vi. 18). “A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? a elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd? Cyfuwch a’r nefoedd ydyw, beth a wnei di? dyfnach nag uffern yw, beth a elli di ei wybod? Y mae ei fesur ef yn hwy na’r ddaear, ac yn lletach na’r môr” (*Job* xi. 7—9). “Y mae uffern yn noeth ger ei fron ef: ac nid oes dô ar ddistryw. Y mae efe yn taenu y gogledd ar y gwagle: y mae efe yn crogi y ddaear ar ddiddym. Y mae efe yn rhwymo y dyfroedd yn ei gymmylau; ac nid ydyw y cwm-mwl yn hollti danynt hwy. Y mae efe yn attal wyneb ei orseddfainge: y mae efe yn taenu ei gwmmwl arni hi. Efe a amgylchodd wyneb y dyfroedd â therfynau, nes dybenu goleuni a thywyllwch. Y mae colofnau y nefoedd yn crynu, ac yn synu wrth ei gerydd ef. Efe a rana y môr â’i nerth; ac a dery falchder â’i ddoethineb. Efe a addurnodd y nefoedd â’i Ysbryd: ei law ef a luniodd y sarph dorchog. Wele, dyma ranau ei ffyrdd ef: ond mor fychan ydyw y peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef! ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef?” *Job* xxvi.

6—14. Dyma ymylon ei waith ef! “Y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy. Am yr Hollalluog, ni allwn ni mo’i gael ef” (gwel *Job xxxvii.* 15—24). Dyben Duw yn ei amlygu ei hun i Moses, ac ereill, o’r cymmylau a’r tywyllwch, ac o’r tu fewn i’r llen, oedd dangos fod ei ogoniant o’r golwg, ond i’r graddau y byddai iddo ef ei amlygu ei hun. “Arglwydd ein Iôr ni, môr ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear! yr hwn a osodaist dy ogoniant uwch y nefoedd;” yn anghyrhaeddadwy (*Salm viii.* 1). “Mawr yw yr Arglwydd, a chanmoladwy iawn, a’i fawredd sydd anchwiliadwy”—i bob creadur (*Salm xiv.* 5). “Y mae genyf etto lawer o bethau i’w dywedyd i chwi, ond ni ellwch eu dwyn yr awr hon” (*Ioan xvi.* 12). “Canys o ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwydo: eithr pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddilêir..... Canys gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrÿch, mewn dammeg” (1 *Cor.* xiii. 9, 10, 12). “Y mae ef yn trigo yn y goleuni, ac ni ellir dyfod ato” (1 *Tim.* vi. 16). “Ni welodd neb Dduw erioed” (*Ioan i.* 18).

II. *Y mae y cyfryngau sydd yn amlygu Duw yn hollol amherffaith ac annigonol i’w amlygu yn llawn.*

“Adwaen o ran” yr ydym yn y byd hwn; “gweled trwy ddrÿch, mewn dammeg;” “rhodio wrth ffydd ac nid wrth olwg.” “Nid amlygwyd etto beth a fyddwn.” Trwy foddion a chyfryngau yr ydym ni yn adnabod Duw: nid oes neb yn ei adnabod yn ddi-gyfrwng ond efe ei hun. Ymddengys mai trwy foddion a chyfryngau y mae yr angylion yn ei adnabod: am hyn y dywedir eu bod yn “chwennych edrych” ar bethau ein hiachawdwriaeth ni; “trwy yr eglwys” y gwnaed yn amlwg iddynt “fawr amryw ddoethineb Duw.” Y mae yn wir fod y moddion hyn sydd yn amlygu Duw i ni yn dra lliosog ac eang. Y mae “y nefoedd yn datgan ei ogoniant.” Y mae rhagluniaeth yn amlygiad mawr o ogoniant Duw. “Ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddidyst.” Ond y prif amlygiad o hono ydyw trefn iachawdwriaeth—“ar yr hyn bethau y mae yr angylion yn chwennychu edrych.” “Pan adeilado yr Arglwydd Seion y gwelir ef yn ei ogoniant.” “*Hyn* fydd i’r Arglwydd yn enw.” Dyma y llewyrch cryfaf o ogoniant Duw a dywynodd i’r golwg erioed ar ein byd ni.

Ond nis gall yr holl amlygiadau hyn ddyfod â Duw yn llawn i’r golwg. Y maent yn gyfryngau rhy gyfyng i ollwng yr oll o’r Duw anfeidrol i’r golwg drwyddynt. Yn wyneb Iesu Grist y gwelir mwyaf o ogoniant y Duw anweledig. Gelwir ef yn “ddelw Duw.” Ond er pob cyfrwng, y mae ein galluoedd ni yn rhy gyfyng ac egwan i adnabod Duw i berffeithrwydd. “Pethau dyn nid edwyn neb ond ysbryd dyn yr hwn sydd ynddo ef:” nis gall anifail adnabod pethau dyn. Felly, “pethau Duw nid

edwyn neb ond Ysbryd Duw:" ei Ysbryd anfeidrol ef ei hun yn unig a all "chwilio pob peth; ie, dyfnion bethau Duw hefyd." At y mater mawr hwn o amgyffred Duw, nid ydyw y dyn a'r enaid cryfaf ond anifail o flaen Duw. "Llwdn asen wyllt" ydyw o ran ei alluoedd at y mater mawr hwn. Ai ynydrwydd a fyddai ceisio rhoddi y môr mawr, llydan, yn y gragen fechan? Anfeidrol fwy ynydrwydd a fyddai i ddyw geisio rhoddi y moroedd o Dduwdod yn nghragen fechan ei amgyffred ei hun! Y mae galluoedd dyn yn rhy fyr i'w gyru o gwmpas yr anfeidrol Dduw! Môr i'w nofio ydyw hwn, ac nid i'w blymio na'i fesur. Y mae ein galluoedd ni yn rhy egwan i amgyffred y lleiaf o greaduriaid Duw yn hollol; ac nis gallwn amgyffred ein cyfansoddiad ein hunain. Y mae yn ein cyfansoddiad corphorol ac eneidol ogoniant anamgyffredadwy i ni. Mynodd Dafydd orchfygu y llew cyn meiddio y cawr. Byddai yn briodol i tithau ddwyn dy synwyr yn gyntaf yn fuddugoliaethus ar y lleiaf cyn meddwl am y mwyaf. Myn wybod pa beth yw glaswelltyn! Ymosodedd priddell fel tydi am fuddugoliaeth ddeallawl ar briddellau y ddaear! Ai y plentyn, sydd wedi methu meistrolï y wyddor, sydd am herio dirgelion yr holl gelfyddydau? Methaist ti gyda'r gwŷr traed—pa fodd y gelli garlamu o ran dy alluoedd gyda'r angylion, y rhai sydd mewn cymmharïaeth yn gyflym fel gwŷr meirch? Ond pe gellit eu canlyn hwy i holl ryfeddodau y nef, i holl eigionau y Mawrhydi Dwyfol, byddai raid i ti adael yr Anfeidrol yn ddirgelwch yn y diwedd. Dirnad dy enaid dy hun yn mlaenaf! Gorchfygodd Alexander y byd hwn cyn gwaeddi am fyd arall i'w orchfygu. Tybia y plentyn ei fod yn gryf cyn cael prawf ar ei wendid; ond ar ol cael prawf, cydnebydd ei wendid. Heb roddi prawf erioed ar dy amgyffred yr wyt ti, am hyny y tybiaist ef yn fawr. Ti elli gael cyfle i wybod mesur dy alluoedd heb eu rhoddi ar Dduw. Ti elli gael cyfle i estyn dy llynau yn eu llawn hyd ar yr abwydyn: câi gyfle yno i weled byrder dy synwyr yn hawdd; ni chyrhaeddaist etto yn llawn trwy y gwybedyn. Ac ai â'r llynau byrion yna yr ydwynt yn bwriadu plymio yr Anfeidrol? Aros i'r angel ddyfod trwyddo yn gyntaf—gâd iddo ef orphen ei fordaith trwy y mawrhydi dwyfol, cyn i ti anturio!

III. *Gogoniant Duw ydyw ei ddaioni.*

Pan y gofynodd Moses am weled ei ogoniant, ateb Duw ydoedd: "Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb." Y mae Duw yn cyfrif ei ddaioni yn ogoniant ei natur oruchel.

1. *Daioni* sydd yn unig yn *ogoneddus ynddo ei hun*. Hollallnawgrwydd, hollbresennoldeb, hollwybodaeth, tragwyddoldeb,

ac anghyfnewidioldeb, heb fod yn gyssylltiedig â daioni, ni byddent yn ogoneddus. *Gallu* mawr yw y diafol, heb ddim *daioni*:—nid yw yn ogoneddus. *Gwybodaeth* fawr yw y diafol:—heb ddaioni, nid yw yn ogoniant ynddo. Ond cyssyllter y priodoliaethau a nodwyd â drygioni gogyfuwch, cyfansodda hynny ar unwaith anfeidrol wrthuni ac adgasrwydd; ac ni byddai y priodoliaethau ereill, o'u cyssylltu â drygioni, ond yn chwaneu at y gwrthuni.

2. Trwy amlygu ei ddaioni y gwna Duw *ogoniant mynegol* iddo ei hun. Cymmhwysder y greadigaeth i ddwyn gogoniant mynegol i'r Creawdwr ydyw ei bod yn amlygiad mawr o ddaioni y Creawdwr. Ond y prif foddion i ddwyn gogoniant i Dduw ydyw trwy drefn iachawdwriaeth; a dyma y prif amlygiad o ddaioni Duw. Amlygiad o ddaioni Duw yn y greadigaeth ydyw hapusrwydd y greadigaeth. Y mae pob creadur yn addef ei hapusrwydd trwy ryw agwedd neu gilydd. Yr adar a ganant ar y canghenau i ddangos eu hapusrwydd hwy. Y môr-feirch mawrion—y gallech chwi dybied eu bod mewn rhyw fath o uffern yn y dyfnfor, pe gwrandawech ar lais eich teimladau am eu sefyllfa—ond “y môr-feirch mawrion, y rhai a luniodd efe i *chwareu*” yn y dyfnder; nid i ruddfan. Effaith daioni Duw ydyw hapusrwydd pob creadur yn eu hamrywiol sefyllfaoedd. Y mae y greadigaeth, gan hynny, yn amlygiad mawr o ddaioni Duw, trwy fod cymmaint o nifer o greaduriaid, a chymmaint o amrywiaeth o honynt, a'r rhai hynny oll yn y fath amrywiol amgylchiadau, ac etto oll yn ddedwydd dan ddylanwad y daioni anfeidrol hwn. Diodir hwynt oll âg afon daioni Duw, “yr hon sydd yn llawn dwfr.”

Ond trefn iachawdwriaeth ydyw “golud ei ddaioni” ef. Dyma y prif amlygiad o ddaioni. A ydyw darparu at, a gwneuthur i fyny hapusrwydd creaduriaid direswm, y rhai a wneir yn gyflawn hapus â phethau daearol a darfodedig, yn brawf o'r daioni dwyfol? Pa faint mwy amlygiad o ddaioni Duw ydyw gwneuthur i fyny ddedwyddwch tragwyddol creadur rhesymol—yr hwn nid oedd fodd iddo ei wneyd i fyny â phethau daearol a darfodedig—ond yr oedd yn rhaid iddo roddi ei Fab i ddi-oddef a marw, a rhoddi ei hunan yn ffynnon agored iddynt i yfed o honi byth? Gan mai gogoniant Duw ydyw ei ddaioni, a chan fod trefn iachawdwriaeth yn uwch amlygiad o'i ddaioni na'r greadigaeth, felly dyma a ddwg iddo fwyaf o ogoniant mynegol. “*Hyn* fydd i'r Arglwydd yn enw:” “Pan adeilado yr Arglwydd Seion, y gwelir ef yn ei ogoniant: “Er mawl gogoniant ei ras ef.”

3. *Gogoniant Duw yn gyhoeddedig i bechaduriaid* ydyw ei *drugarodd*: “Mi a drugarhaf wrth yr hwn y cymmerwyf drugaredd arno, ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf.” Nis gall

daioni Duw weithredu ar y pechadur euog, i'w ymgeleddu a'i godi i hapusrwydd, ond yn unig mewn ffordd o drugaredd. Daioni Duw, trwy weithredu ar amrywiol wrthddrychau, sydd yn ennill yr amrywiol enwau a alwn ni yn "briodoliaethau;" fel y mae y môr yn ennill amrywiol enwau oddi wrth yr amrywiol diroedd y mae yn taro arnynt. Gelwir ef yn "Fôr Ffrainge," am ei fod yn taro ar y tir hwnw; a "Môr Prydain," a "Môr Iwerddon," am ei fod yn taro ar y tiroedd hyny: ond yr un môr ydyw. Felly daioni Duw ydyw y môr mawr; ond y mae yn ennill amryw enwau trwy fod yn gweithredu mewn amrywiol dulliau ar amrywiol wrthddrychau. Pan y bydd daioni yn llunio cynllun, gelwir ef *doethineb*. Pan yn cospi i drwg, neu yn barnu, gelwir ef yn *guflawnder*. Pan yn cashau ac yn ffeiddio y drwg, gelwir ef yn *sancteiddrwydd*. Pan y bydd yn cyflawni addewid neu fygythiad i wirio ei air, gelwir ef yn *fyddlondeb*. Pan yn cyfranu daioni i'r annheilwng, gelwir ef yn *ras*. Pan yn ymgeleddu y truan, gelwir ef yn *drugaredd*. Gall yr angylion gyfeirio yn ddiogf at orseddfainge cyflawnder, ond rhaid i ti gyfeirio at "orseddfainge y gras!" At drugaredd yr oedd yr holl saint yn cyfeirio. Yr oedd raid cael lawn yn sail i drugarhau. Nis gallasai arbed troseddwr fod yn ddaioni ond mewn lawn: buasai yn ddrwg yn mhob dull arall. Ond yn yr lawn, y mae cyflawnhau yr annuwiol yr amlygiad uchaf o ddaioni.

IV. *Gwna Duw i'w ogoniant fyned heibio i bob dyn ryw bryd.*

Rhaid i bawb ddyfod dan lewyrch ofnadwy o ddisgleirdeb tanlyd gogoniant Duw. Dygir pawb dan effaith argraph ddyldaw y o'r gogoniant hwn ryw bryd.

1. Gwna Duw i'w ogoniant fyned heibio i ddyinion yn ei ragluniaeth, weithiau mewn modd ofnadwy—yn ei farnedigaethau. Gwna amlygiadau o hono ei hun gyda gradd mawr o gymhwysiad ac effaith ar y cenedloedd. "Canys yr holl ddyinion y rhai a welsant fy ngogoniant, a'm harwyddion a wnaethum yn yr Aipht, ac yn y diffaethwch, ac a'm temtiasant y dengwaith hyn, ac ni wrandawsant ar fy llais—ni welant y tir y tyngais wrth eu tadau hwynt" (*Num.* xiv. 22, 23; *Salm.* xcvi. 1—9; a cii. 13—18). "Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O Arglwydd! a'th saint a'th fendithiant" (*Salm* cxlv. 10—12). "Dos i'r graig, ac ymgudd yn y llwch, rhag ofn yr Arglwydd, a rhag gogoniant ei fawredd ef" (*Esa.* ii. 10, 19, 21). "Canys Mab y dyn a ddaw yn ngogoniant ei Dad, gyda'i angylion; ac yna y rhydd efe i bawb yn ol ei weithred. Yn wir y dywedaf wrthyhych, Y mae rhai o'r sawl sydd yn sefyll yma, a'r ni phrofant angeu hyd oni welont Fab y dyn yn dyfod yn ei frenhiniaeth" (*Mat.* xvi. 27, 28). "Ac yn y fan wedi

gorthrymder y dyddiau hyny, y tywyllir yr haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a'r sêr a syrth o'r nef, a nerthoedd y nefoedd a ysgydwir. Ac yna yr ymddengys arwydd Mab y dyn yn y nef: ac yna y galara holl lwythau y ddaear; a hwy a welant Fab y dyn yn dyfod ar gymmylau y nef, gyda nerth a gogoniant mawr..... Yn wir, meddaf i chwi, Nid a y genhedlaeth hon heibio, hyd oni wneler hyn oll" (*Mat.* xxiv. 29—34).

2. Gwna Duw i'w ogoniant fyned heibio i ddynion mewn modd amlwg ac ofnadwy yn *ngweinidogaeth yr efengyl*. "Canys y ddaear a lenwir o wybodaeth gogoniant yr Arglwydd, fel y toa y dyfroedd y môr" (*Hab.* ii. 14). "Holl frenhinoedd y ddaear a'th glodforant, O Arglwydd! pan glywant eirian dy enau. Canant hefyd am ffyrdd yr Arglwydd: canys mawr yw gogoniant yr Arglwydd" (*Salm* cxxxviii. 4, 5). "Pob pant a gyfodir, a phob mynydd a bryn a ostyngir: y gŵyr a wneir yn uniawn, a'r anwastad yn wastadedd.. A gogoniant yr Arglwydd a ddadguddir, a phob cnawd ynghyd a'i gwel" (*Esa.* xl. 4, 5). "Y mae yr amser yn dyfod i gasglu yr holl genhedloedd a'r ieithoedd; a hwy a ddeuant ac a welant fy ngogoniant" (*Esa.* lxxvi. 18). "I edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ym-ofyn yn ei deml:" "yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych"—sef drych yr efengyl. Yn ngwyneb Iesu Grist y gwelir mwyaf o'i ogoniant; person Crist ydym yr amlygiad mwyaf disglair o ogoniant Duw: "Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad" (*Ioan* xiv. 9; *2 Cor.* iv. 4—6; *Col.* i. 15—19; *Phil.* ii. 6—8; *Heb.* i. 3).

3. Gwna Duw i'w ogoniant fyned heibio mewn modd anarferol yn y *tywalltiad o'i Ysbryd o'r uchelder*. "I weled dy nerth a'th ogoniant, fel y'th welsom yn y cyssegr." Y mae yr Arglwydd yn "fur o dân o amgylch" ei bobl, ac yn "ogoniant yn y canol" trwy ei Ysbryd. Yn yr argyhoeddiad, y mae gogoniant yr Arglwydd yn llewyrchu yn ofnadwy i olwg yr enaid, nes y mae yn methu byw heb gysgod. Yr ydym yn cael enghraifft o hyn yn hanes Saul yr erlidiwr. Felly y dywedai Ioan am dano ei hunan a'i frodyr:—"Ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr uniganedig oddi wrth y Tad." Rhoddir amlygiad ofnadwy o ogoniant Duw yn yr argyhoeddiad, nes y mae y pechadur yn methu byw heb Gyfryngwr: felly yr oedd ceidwad y carchar, a'r tair mil a ddwys-bigwyd yn eu calonau ar ddydd y Pentecost. Y mae digon o ogoniant yn Nuw i roddi y dynion caletaf mewn dychryn mawr: dim ond i Dduw ollwng ychydig o hono i'r golwg, y mae yn cario effaith ryfeddol. Yn yr argyhoeddiad, y mae pelydr ofnadwy o ogoniant Duw yn tori i mewn i'r gydwybod, ac yn cyffroi yr enaid yn ddirfawr. Y mae Duw y pryd hwnw yn *entro* i mewn i'r gydwybod: fe ddaw i mewn yn gyfiawnder noeth i chwilio y

dirgelion twyllodrus, a'u harddangos yn eu gwir natur, fel dyfodiad swyddog i dŷ y lleidr. Daw i mewn weithiau yn raddol fel toriad y wawr, gan ddangos y pethau mwyaf yn mlaenaf, ac yna y pethau llai, a threfnu y cwbl o flaen wyneb y pechadur. Daw i mewn hefyd yn drugaredd faddenol, i lefaru heddwch i'r enaid; ac yna y mae y dymnestl yn troi yn dawelwch mawr.

4. Y mae gogoniant Duw yn myned heibio i'r enaid yn ofnadwy yn ei *dŷchweliad o wrthgiliad*. Nid oes dim yn effeithiol i adnewyddu crefydd wedi iddi adfeilio, yn neillduol neu yn gyffredinol, ond amlygiad newydd o ogoniant yr Arglwydd. Rhaid i'r Arglwydd "greu ar bob trigfan o fynydd Seion gwmmwl a mwg y dydd, a llewyrch tân fflamlyd y nos;" rhaid iddo "lewyrchu ei wyneb ar ei gyssegr anrheithiedig." Am hyny y gweddiat y Salmydd, mewn amser isel ar grefydd, am olwg newydd ar Dduw fel yr unig feddyginiaeth:—"Gwranddo, O Fugail Israel! ymddisgleiria, yr hwn wyt yn eistedd rhwng y cerubiad, ac yn arwain Joseph fel praid." Cyfrifir adfeiliad ar grefydd yn effaith cuddiad wyneb Duw:—"Eithr eich anwireddau chwi a ysgarodd rhyngoch chwi â'ch Duw" (*Esa.* lix. 2; *Job* xxiii. 2—9; *Salm* x. 18; lxxxix. 40, 46). Daeth gogoniant Duw heibio i Job yn ei wrthgiliad mewn modd ofnadwy; daeth heibio i Elias yn yr ogof yn rhyfeddol; a daeth heibio i'r dysgyblion—safodd Duw-ddyn yn eu canol.

5. *Yn anghydwylled a'r farn* daw ei ogoniant i'r golwg. Nid "myned heibio" a wna: ond dadlenir ef yn sefydlog am byth. Yn wyneb Iesu Grist y bydd y gogoniant dwyfol yn tywynu i'r golwg y dydd hwnw. Daw mewn gallu a gogoniant mawr y dydd hwnw. Bydd yr ymddangosiad hwn o ogoniant yr Arglwydd yn effeithio ar bob rhan o'r greadigaeth: bydd y nefoedd a'r ddaear yn ffoi yn yr olwg arno!

V. *Y mae gogoniant Duw y fath fel na ddichon dyn ei weled yn ei lawm ddisgleirdeb, a byw.*

1. Nis gall dyn euog ddal o dan amlygiad mawr o'r gogoniant hwn, a byw. Amlygiad mawr o hono yn moddion gras a wna i'r cadarn mewn annuwioldeb grynu. Y mae digon o fawredd yn y Duw Mawr i roddi y byd mewn llewygfa, ond yn unig iddo ollwng ychydig o hono i'r golwg. A chan fod meillion o'i ogoniant ef yn saethu i'r gydwybod yn dychrynu yr annuwiol, beth pan ollyngo Duw ei belydrau arno yn eu nerth? Yr ydwyf yn nofio mewn môr o Dduwdod! Pe bai efe yn ei ollwng ei hun i'r golwg, nis gellit fyw am un munyd! "Yr annuwiolion ni safant yn y farn." Pa ham? Gogoniant Duw fydd yn tywynu arnynt, a hwythau yn greaduriaid euog.

2. Nis gall dyn *halogedig* "weled Duw a byw." Tra byddo yn y saint lygredd, er eu bod yn ddieuog, nis gallant ddal

tywyniad cryf y gogoniant hwn. "Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd."

3. Nis gall dyn *marwol* weled gogoniant Duw, a byw. Rhaid i'r Duw Mawr ei amlygu ei hun yn hynod o gynnil i'r credadyn yn ei gymdeithas âg ef. Rhaid iddo ddyfod allan i'r golwg yn hynod araf, onid é efe a'i lladd. Nis gall dyn, ar gyfrif gwendid corphorol, weled Duw a byw.

Y mae cydymdeimlad agos rhwng y corph a'r enaid. Y mae yr enaid yn alluog i weithredu yn rhy gryf i'r corph fedru dal. Y mae yn bosibl iddo lawenhau, tristau, neu ryfeddu, nes lladd y corph. Yr oedd cyrph Ioan a'r prophwydi yn llewygu o dan y gweledigaethau o ogoniant Duw—ond yr oedd yr enaid ar yr un pryd yn nofio mewn hyfrydwch. Y mae yr enaid yn rhwym o weithredu yn ol yr amlygiadau o wrthddrychau a roddir ger ei fron. Amlygiadau goleu, helaeth, o wrthddrychau goruchel gogoneddus a ddaw â'r enaid i weithredu yn nerthol; ac y mae y corph yn y fuchedd hon yn rhy egwan i ddal nemawr o'r gweithrediadau nerthol hyn:—gan hyny, "Ni'm gwel dyn, a byw."

VI. *Y mae gan Dduw fan yn ei ymyl lle y caiff y pechadur ei guddio*, a GWELED DUW. Man o appwyntiad Duw ydyw:—"Wele fan yn fy ymyl." Man cadarn:—"craig." Man cymmhws:—"craig âg "agen" ynddi. Rhaid i Dduw argyhoeddi y pechadur o gyfiawnder: rhaid iddo ddywedyd yn effeithiol, "Wele fan!" Rhaid ei argyhoeddi o addasrwydd yr Arglwydd Iesu fel Cyfryngwr, ei gadernid, a'i barhâd:—effeithia hyny ddyfodiad gwirfoddol ato. Y mae breintiau y rhai a ddaeth i'r agcn yn fawr:—(1.) Y maent yn gweled Duw, a byw. (2.) Y mae llaw Duw drostynt, i'w cuddio—amddiffyniad rhag eu gelynyon. (3.) Y mae holl ddaioni Duw yn myned heibio o flaen eu hwyneb. Nid a dim heibio iddynt ond daioni. (4.) Y maent yn ymyl Duw—yn ddigon agos i alw arno: "Efe a eilw arnaf, a mi a'i gwrandawaf."

P R E G E T H V I I .

SEFYLL YN SEGUR.

Matthew xx. 6—(y rhan olaf).

“Pa ham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?”

Y MAE y geiriau hyn yn rhan o'r ddammeg a elwir yn gyffredin yn “Ddammeg y Winllan.” Mewn attebiad i'r gŵr ieuange hwnw a ddaeth at yr Iesu, gan ofyn “Pa beth da a wnaif, fel y caffwyf fywyd tragwyddol?” dywedai yr Iesu, “Cadw y gorchymynion.” Y mae yntau yn ei ateb, ac yn dywedyd ei fod wedi eu cadw oll o'i ieuengctid. Gallai ei fod wedi gwneuthur hyny mor bell ag yr oedd efe yn eu deall; nid oedd yr Iuddewon yn gyffredin yn deall ysbrydolrwydd y gyfraith. ‘Y mae un peth yn ol i ti etto,’ meddai Crist: “Dos, gwerth yr hyn sydd genyt, a dyro i'r tlodion; a thi a gei drysor yn y nef: a thyred, canlyn fi.” Digon tebyg fod Crist yn gorchymyn hyn iddo am y gwyddai fod calon y gŵr ieuange yn ei olud. Pan glybu efe hyn, efe a aeth ymaith yn athrist; “canys yr oedd yn berchen da lawer.” Yna y mae yr Arglwydd Iesu yn tynu casgliad oddi wrth ei ymddygiad, gan ei gymmhwyso at gydwybodau ei wrandawyr—“Mor anhawdd yr a y rhai y mae golud ganddynt i deyrnas nefoedd!” “Haws yw i gamel fyned trwy grai y nodwydd dduw nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw.” *h.y.*, ‘Y mae yn amhosibl i hyny gymmeryd lle.’ Goludog yn caru ei olud a feddylir, yn fwy nag yn caru Duw a Christ. Ni wn i ddim yn sicr ai hyny yw yr ystyr ychwaith; fe allai fod y geiriau yn cynnwys fod yn amhosibl i oludog a gadwo olud y byd hwn fyned i mewn i deyrnas Dduw. Yr oedd amgylchiadau crefydd y pryd hwnw y fath fel ag yr oedd yn rhaid i'r Cristionogion roddi i fyny eu golud i wasanaeth crefydd. Y mae genym hanes fod rhai yn gwerthu eu tiroedd, ac yn rhoddi eu gwerth wrth draed yr apostolion. “Ond llawer o'r rhai blaenaf a fyddant yn olaf, a'r rhai olaf yn flaenaf.” Yr oedd y gŵr ieuange yma yn mlaen ar lawer. Gallesid meddwl ei fod

yn mhell iawn o flaen Mair Magdalen, a'r wraig o Samaria, a Zaccheus y publican; ond er hyny, y pechaduriaid mawr yna, trwy edifarhau a cheisio Duw, a gawsant y blaen wed'yn. Fe aethant hwy i mewn i deyrnas Dduw, pryd y syrthiodd hwn yn fyr o honi. Nid pa beth a fuost ti sydd o bwys, ond pa beth wyt ti yn awr—beth a fyddi o hyn i angeu. Yr wyt wedi treulio trigain mlynedd yn y gwrthryfel mwyaf disynwyr yn erbyn Duw; ond “Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist” y funyd hon, a thi a gei ryddhâd oddi wrth holl bechodau dy oes.

Y mae y ddammeg hon wedi ei bwriadu i ddangos pa fodd y mae y rhai olaf yn dyfod yn flaenaf, neu yn hytrach i amddiffyn cyfiawnder Duw yn hyny. Gŵr yn myned allan i gyflogi gweithwyr ar wahanol adegau:—y mae yn myned gydag iddi wawrio, ac yn canfod rhai yn “sefyll yn segur,” ac yn dyweyd wrthynt, “Ewch chwithau i'r winllan.” Myned allan wedi hyny ar y drydedd awr, sef naw o'r gloch yn y boreu, gan orchymyn i'r rhai segur fyned i'r winllan, ac y cânt beth bynag fyddai cyfiawn. Nid ydyw yn penderfynu y gyflog, ond yn gadael hyny at ei *honour* ei hun. Yr ydych wedi mentro llawer anturiaeth fwy anturiaethus na mentro Duw ar ei air! Aeth allan wedi hyny ar y unfed awr ar ddeg—*h.y.*, pump o'r gloch prydnewn—a chafodd rai yn sefyll yn segur y pryd hwnw, a dywedodd yr un modd wrthynt hwythau. Un awr, chwi welwch, oedd gan y rhai hyn i weithio. Yn niwedd y dydd, geilw y gwŷr, i dalu iddynt eu cyflog, gan ddechreu gyda'r rhai aethant i'r winllan olaf:—“Ac efe a roddes i bob un geiniog.” Pan ddaeth y rhai oedd wedi gweithio ar hyd y dydd, a gweled pob un wedi cael ceiniog, a hwythau yn cael dim ond ceiniog, dyma hwy yn dechreu grwgnach, fel yr ydym ninnau yn bur dueddol i wneuthur, gan ddywedyd, “Un awr y gweithiodd y rhai olaf hyn, a thi a'u gwnaethost hwynt yn gystal a ninnau, y rhai a ddygasom bwys y dydd, a'r gwres.” “Onid er ceiniog,” meddai gŵr y tŷ, “y cyttunais â chwi? ac os wyf yn ewyllysio rhoddi ceiniog iddynt hwy, o'r eiddof fy hun yr wyf yn gwneuthur.” Ond fe ofynwyd y cwestiwn sydd yn y testyn gan y meistr i'r sawl oedd yn sefyll yn segur: “Pa ham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?” Sylwn:—

1. *Fod rhyw gyffelybrwydd rhwng y cyfammod y mae Duw yn ei wneuthur â phechaduriaid, a'r cyfammod sydd yn cymeryd lle rhwng meistr a gwas.* Y mae y Beibl yn son llawer am ryw gyfammod felly:—“Cyfammod tragwyddol a wnaeth efe â mi.” Nid y cyfammod rhwng y Tad a'r Mab a olygir: ni buasai hon yn iaith briodol i'r Messiah. “Fy holl iachawdwriaeth yw:” nid oedd arno ef eisieu iachawdwriaeth. “Cesglwch fy saint ynghyd ataf fi, y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth.” Y mae pob credadyn yn gwybod am ddyfod

i gyfammod â Duw yn Nghrist. (1.) Y mae yn y cyfammod ymrwymiad yn cael ei wneuthur o du y pechadur i *weithio* tra y pery ei oes: ymrwma yn y cyfammod i wasanaethu Duw. Rhaid i ddyn gael gweithio cyn y gall fod yn hapus. Yr ydym yn cael yn y Beibl, pan y rhyddheir pechadur oddi wrth bechod ei fod yn cael ei wneuthur yn was i Dduw. Y mae y Cristion fel ei Feistr yn dywedyd: "Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd tra yr ydyw hi yn ddydd: y mae y nos yn dyfod, pryd na ddichon neb weithio." Ti gei gysgu a diogi digon yn y bedd! Y mae hyn yn gyssylltiol â gwaith yr Ysbryd hefyd: "Gweithiuch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn, canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewylllys da ef." 'Yr wyf yn disgwyl gan fod yr Ysbryd yn gweithio, y caf fi orphwys.' Na: y mae fod Ysbryd Duw yn gweithio yn cael ei ddefnyddio fel rheswm er dy gymhell dithau i weithio. (2.) Y mae yn y cyfammod hefyd ymrwymiad o du'r Meistr i *wobrwyo* y gwasanaeth. Yr ydych oll wrth wobrwyo yn gofalu na bydd y wobr lawer uwchlaw gwerth y llafur. Ond nid felly yn y gwasanaeth hwn. Wedi gwasanaethu yn galed, ti elli ddyweyd: 'Does genyf fi ddim tuag at ryglyddu hapusrwydd'—"dawn Duw yw bywyd tragwyddol." Dawn Duw oedd bywyd tragwyddol i Luther, yr hwn a wnaeth gymaint a holl bregethwyr Liverpool¹ i gyd; ac fe fydd yn fwy melus oblegid hyny. Nid ydyw meistr gyda ni yn gallu rhoi cynnorthwy i'r gwas i gyflawni ei wasanaeth; rhaid iddo wneuthur y cwbl ei hun. Ond y mae Duw yn rhoddi nerth yn ol y dydd. Waeth faint fo ar dy ysgwydd, os cai nerth cyfatebol!

2. Gwelwn hefyd *fod dyn yn greadur cyfrifol*. Y mae *cyflog* i fod i'w waith. Ni buasem ni yn gweled rhyw bwys mawr mewn rhyw air segur yn awr ac eilwaith, pe baem yn berffaith sicr na ddeuai i'r cyfrif yn y byd a ddaw. Ond os daw yno, ti a ddylit fod yn ofalus. Peidiwch ag edrych yn ysgafn ar ddim a effeithia ar eich sefyllfa dragwyddol.

3. Y mae yr *Arghwydd yn yr efengyl yn dyfod allan i "gyflogi"*. Dyma ddyben y pregethu yma—ceisio eich cyflogi. A ces dim awydd arnat ymgyflogi i wasanaeth Mab Duw dros byth? 'Y mae arnaf eisieu gwybod am yr arfaeth a'r ethol-edigaeth, &c., cyn cyflogi.' Pa was a fuasai yn meiddio gofyn i'w feistr ar ddiwrnod y cyflogi—'Attolwg i chwî, gadewch wybod eich holl arfaethau yn nghorph y flwyddyn. Pa sawl cae yr ydych yn meddwl ei aredig? &c.' Felly, pwy wyt ti i ofyn ynghylch bwriadau Duw? Nid wyt ti ddim yn ddigon o ddyn i wybod pa nifer o fydoedd a greodd efe!

¹ Traddodwyd y bregeth hon yn Liverpool, ac ysgrifenydd hi gan gyfaill wrth ei gwrandaw.

4. *Y cwestiwn*:—"Pa ham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?" Pa beth yw eich rheswm dros segura?

(1.) A oes genych rywbeth yn erbyn y *meistr*? Y mae rhai yn gwrthod cyflugi o herwydd hyny. A wyt ti yn tybied y bydda! yn rhyw iselhad arnat ti fyned i wasanaeth Duw? Am yr hen feistr, nid ydyw yn werth ymddiried ynddo; "tad y celwydd" ydyw. Ond am y meistr yr wyf yn ei gymmhell arnat yn awr, yr wyf yn meddwl fod *character* pur dda iddo. Colofn pob uniondeb yn yr holl greadigaeth ydyw; ac ar y golofn hon y croga pob cerub sydd yn y nef ei hapusrwydd.

(2.) A wyt ti yn ofni *nad oes ganddo ddigon o fodd i dalu'r gyflog*? A oes rhywbeth fel yna yn rhedeg trwy dy feddwl gyda golwg ar wasanaethu Duw? Golwg pur dywyll sydd ar wasanaeth y gŵr drwg; ond am wasanaeth y meistr yr wyf yn ei gymmhell arnoch heddyw, y mae yn sicr o dalu! Y mae gan y meistr hwn dipyn yn o law yn ei law! Y mae'r nefcedd o dan ei law: chwi fyddwch am hono yn fuan. Y mae y ddacur, a'i haur a'i harian, oll yn eiddo iddo. Ac os yw hyn yn rhy fychan, am a wn i na roddai efe *ei hunan* i chwi! "Pa ham y sefwch yn segur?"

(3.) Ai meddwl yr wyt *mai un anhawdd ei foddio* ydyw? Na: un hawdd ei foddio yw y meistr hwn! Os na bydd pethau mawr yn dy ymyl, fe gymmer bethau llai. Am wn i na chymmer efe yr ochenaid. Fe gymmer y ddau gyw colomen!

(4.) A oes genyt ti rywbeth *yn erbyn y gwasanaeth*? Y mae ambell un yn gwrthod cyflogi o blegid fod y gwasanaeth yn rhy isel. A wyddost ti, fy nghyfaill, nid oes un ffordd i ti roddi bri arnat dy hunan ond trwy ymgysegru i wasanaeth Duw. Y mae y gwasanaeth yr uchaf y gellir codi creadur iddo: bod "yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef!"

(5.) A yw y *gyflog* ddim wrth dy fodd? Y mae hyny yn rhwystr i lawer gyflogi. Y mae yma, mi dybygwn, gymmaint o gyflog yn cael ei gynnyg ag a all y creadur dderbyn. Y mae yma y can cymmaint yn y byd hwn; ac yn y byd a ddaw "fywyd tragwyddol:" a dyna yw *goreu* Duw i'w creadur!

Pa ham yr oedwch funyd gyda'r fath achos? 'Does i ti ddim lle i ddisgwyl cael gwell cyfleusdra byth. Ni chai di byth well cynnyg: ac ni raid i ti ddim ymadael â'th gyfoeth a'th anrhydedd. Y mae yn werth o ran hyny ymadael â chyfoeth er mwyn hyn. Y mae lliaws wedi gwneuthur hyny oedd yn gweled yn mhellach na thi. Sefyll yn segur yn y fath amgylch- iadau ag yr ydych chwi ynddynt—'wn I ddim pa esgus a roddwch chwi ddydd y farn! Pa ham y sefi yn segur pan y mae genyt gymmaint o waith?—pechod heb ei faddeu a'i farweiddio, cydwybod ddrwg heb ei phuro, a thithau yn prysuro i'r byd tragwyddol! Y plant bach yr wyt ti yn eu magu heb eu

rhybuddio na gweddio drostynt; cymmydogion yn byw yn y drws nesaf yn trafaelu yn gyflym tua'r ffordd lydan, na rybuddiaist ti erioed mo honynt o'u perygl!

Gadewch i ni eich cael i gyflogi! Y mae dedwyddwch i'w gael yn ngwasanaeth y meistr hwn. A wyddoch chwi pa beth yw pleser crefydd Crist? Ymorwedd ar angeu'r groes am gymmod â Duw, a gallu edrych i dragwyddoldeb heb ofni. Yn *hyn* y mae pleser. Peidiwch a galw dim arall yn bleser: 'does arall teilwng o'r enw ar ein daear ni ond hyn! Perswadied Ysbryd Duw chwi oll i gyflogi gyda brys, cyn i'r adeg fyned drosodd am byth! **AMEN.**

PREGETH VIII.

YSGWYD Y NEFOEDD A'R DDAEAR.

Haggai ii. 6, 7.

“Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lloedd: Unwaith etto, ennyd fechan yw a mi a ysgydwaif y nefoedd, a'r ddaear, a'r môr, a'r sychdir;
 “Ysgydwaif hefyd yr holl genhedloedd, a dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw: llanwaif hefyd y tŷ hwn a gogoniant, medd Arglwydd y lloedd.”

Yr oedd y prophwyd Haggai yn cydoesi â'r prophwydi Zechariah a Malachi. Y tri hyn oeddynt y prophwydi diweddaf. Yr oeddynt yn cyflawni eu gweinidogaeth ar ol dychweliad y gaethglud o Babilon. Ganwyd y prophwyd Haggai yn Babilon. Nid yw ei achau yn hysbys. Tybir ei fod o lwyth Lefi, ac o'r teulu offeiriadol. Daeth o Babilon i Jerusalem gyda Zorobabel yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad Darius Hystaspes. Yr oedd y lliaws o'r gaethglud wedi dychwelyd o'u caethiwed er's un-arymtheg o flynyddoedd cyn hyn, sef pan gyhoeddodd Cyrus y Persiad ganiatâd iddynt ddychwelyd i'w gwlad. Dychwelodd lliaws mawr y pryd hyny, a dechreusant ail adeiladu templ yr Arglwydd yn Jerusalem; ond attaliwyd hwynt yn nygiad yn mlaen y gwaith gan y Samariaid. Y Samariaid hyn oeddynt Fabiloniaid o genedl, a blanydd yn y rhan hono o Wlad Canaan gan Salmaneser, brenin Assyria: o blegid yr ydym yn cael i'r brenin galluog hwn ddyfod â llu mawr i Wlad Canaan, a llwyddodd i orchfygu brenhiniaeth Israel, sef y deg llwyth; a chymmerodd y trigolion yn gaethion i Assyria, a hyny er's llawer o flynyddoedd cyn caethgludiad Judah i Babilon. Trwy hyn sefydlodd drefedigaeth o Fabiloniaid yn y rhan hono o Wlad Canaan a elwid Samaria. A phan ddychwelodd y gaethglud i'w gwlad, a dechreu adeiladu y deml, eu prif wrthwynebwyd i ddwyn y gwaith yn mlaen oedd y Samariaid hyn. Llwyddasant i lwyd attal y gwaith am bedair blynedd ar hugain. Ond rhoddodd yr Arglwydd ar feddwl y tywysog paganaidd hwnw, sef Darius Hystaspes, roddi caniatâd i'r gweddill o'r gaethglud

oedd etto yn Babilon i ddychwelyd i'w gwlad: a rhoddodd hefyd ganiatâd iddynt i adeiladu y deml, a hyny ar draul y brenin. Gosododd Zorobabel yn dywysog ar y gaethglud ddychwelodig, i'w harwain i'w gwlad, ac i'w llywodraethu yn eu gwlad. Hefyd, y llestri aur ac arian y rhai a ddygodd Nebuchodonozor o Jerusalem i Babilon a roddodd y brenin dan law Zorobabel i'w dwyn yn ol i'w rhoddi yn yr ail deml. Felly y dychwelodd lliaws mawr y pryd hwn gyda Zorobabel: 42,360 o bobl —7,337 o weision, 200 o gantorion, 435 o gamelod, 736 o feirch, 245 o fulod, 6,720 o asynod (*Ezra* ii. 64—67). Dyma y pryd y cyflawnwyd y brophwydoliaeth yn *Esaiah*, lle y dywedir: "A hwy a ddygant eich holl frodyr o blith yr holl genhedloedd yn offrwm i'r Arglwydd, ar feirch, ac ar gerbydau, ac ar elorau meirch, ac ar fulod, ac ar anifeiliaid buain, i'm mynydd sanctaidd Jerusalem, medd yr Arglwydd, megys y dwg meibion Israel offrwm mewn llestr glân i dŷ yr Arglwydd. Ac o honynt hwy y cymmeraf rai yn offeiriaid ac yn Lefiaid, medd yr Arglwydd;" *Esa.* lxxvi. 20, 21.

Gyda'r lliaws hyn y daeth Haggai i Jerusalem: ac wedi iddo weled agwedd pethau yn mysg y bobl, efe a ddechreuodd eu hargyhoeddi o'u pechodau—yn enwedig o'u pechod mawr o esgeuluso adeiladu tŷ yr Arglwydd. Y mae yn defnyddio amryw o resymau cryfion i'w hannog at y gwaith. Y rheswm cyntaf a ddefnyddiodd efe i hyn oedd sicrhau iddynt y byddai i'r Arglwydd symmud ymaith y farn o brinder oddi ar y wlad, pan yr ymaient hwy yn y gwaith; o blegid yr oedd yr Arglwydd wedi eu cospi â phrinder am eu pechodau. Wedi hyny, efe a ddefnyddiodd yr addewid a wnaethai Duw i'r genedl y byddai ei Ysbryd yn eu mysg, yn rheswm i'w hannog a'u calonogi. Yna sicrhodd iddynt y byddai mwy gogoniant y tŷ hwn na'r cyntaf. Yr oedd llawer o'r hynafgwyr oedd yn cofio teml ardderchog Solomon, yn wylo yn chwerw wrth weled dechreuad bychan y tŷ hwn; o herwydd ei fod yn ymddangos iddynt hwy na ddeuai y tŷ hwn yn debyg mewn gogoniant i'r deml gyntaf, yr hon a adeiladwyd gan Solomon. Ond y prophwyd a symmudodd ymaith y tristwch hwn, trwy sicrhau iddynt y byddai "mwy gogoniant y tŷ diweddaf hwn na'r cyntaf." Yr oedd yn rhaid i hyn gael ei gyflawni a'i wirio yn unig trwy i'r Messiah ddyfod i'r deml hon yn y cnawd: o blegid yr oedd yr ail deml yn mhell iawn yn ol i deml Solomon o ran gogoniant ei hadeiladaeth a'i defnyddiau. Yr oedd amryw o bethau hynod yn perthyn i deml Solomon ac i daber-nacl Moses cyn hyny, yn ddifffgiol yn yr ail deml. Yr oedd *tân sanctaidd* ar allor fawr y poeth-offrwm yn y cyntedd nesaf allan yn yr adeiladau hyny, yr hwn yn unig oedd yn gyfreithlon i'w arfer i boeth-offrymu; ond nid oes genym sail i greu ei fod yn yr ail

deml. Yr oedd yr *Urim* a'r *Thummim*, sef y ddwyfroneg barn-edigaeth, yn yr hon yr oedd y deuddeg maen gwerthfawr, ar bairai yr oedd enwau y deuddeg llwyth yn ysgrifenedig, yn perthynu i'r adeiladau cyntaf hyny; ond yr oeddynt yn ddiffygiol yn yr ail. Trwy yr *Urim* a'r *Thummim* y byddai yr archoffeiriad yn cael meddwl yr Arglwydd ar achosion celyd. Yr oedd yr *arch* yn rhan bwysig o addurn a gogoniant y ddwy adeilad gyssegredig o'r blaen; ond yr oedd yr ail deml yn amddifad o honi. Tybiai yr Iuddewon mai Jeremiah y prophwyd, pan welodd fod Jerusalem yn syrthio i ddwyllaw brenin Babilon, a gymmerodd yr arch ac a'i cuddiodd mewn ogof; a disgwylient i Jeremiah ddyfod yn fyw drachefn i ddwyn yr arch allan o'r lle y cuddiasai efe hi. Oddi ar y dyb hon, medd rhai, y meddyliai amryw o'r Iuddewon mai Jeremiah oedd Crist. Pa fodd bynag y collwyd hi, y mae yn amlwg nad oedd yn yr ail deml. Yr oedd y *shechinah*, neu y gogoniant, yn addurn ofnadwy a nodedig yn yr adeiladau cyssegredig o'r blaen; ond ni ddaeth i'r ail deml. Rhyw fath o ddisgleirdeb tanlyd, y mae yn debyg, oedd hwn, yn aros yn wastadol rhwng y cerubiaid oddi ar y drugareddfa—yn wyrth sefydlog yn mysg y genedl, yn arwydd iddynt eu bod yn ffafwr Duw, a'i fod yn parhau i'w harddel fel pobl ei gyfammod. Gan hyny, yr unig ffordd i'r tŷ ddyfod yn uwch mewn gogoniant na'r deml o'r blaen, ydoedd trwy i'r Messia'h ddyfod iddo yn natur dyn. Dyrchafwyd y tŷ hwn yn uwch mewn gogoniant na'r cyntaf drwy hyn: o blegid nid oedd yr holl bethau hyny oedd yn addurno y tŷ cyntaf, y rhai oedd yn ddiffygiol yn hwn, ond pethau cysgodol; ond daeth eu sylwedd hwy i mewn i'r tŷ hwn. Felly gogoneddwyd y tŷ hwn uwch law y cyntaf, trwy fod sylwedd y pethau cysgodol hyny yn dyfod i mewn iddo. Er nad i'r adeilad hon, fel yr adeiladwyd hi gan Zorobabel, y daeth Crist, ond i'r deml a wnaeth Herod; etto, gan fod teml Herod wedi cael ei hadeiladu ar adfeilion hon, fe'i cyfrifid yr un deml.

Rheswm arall dros annog y bobl i ymaffyd yn y gwaith o adeiladu ydyw prophwydoliaeth y testyn. Yr oedd y brophwydoliaeth hon yn eu calonogi i adeiladu y deml, trwy ragfynegu dinystr gelynyon crefydd, a symmudiad ymaith yn llwyr a hollol y galluoedd gwladol gelymol i deyrnas y Cyfryngwr; a hyny i'r dyben o osod i fyny deyrnas y Cyfryngwr yn gyffredinol dros y byd, yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion: a thrwy ragfynegu ymddangosiad y Messia'h yn y cnawd.

"*Unwaith etto.*" Cyfeiria yr ymadrodd hwn at ryw ysgyd-wad arall oedd eisoes wedi bod. Y mae yn debygol mai yr ysgyd-wad o'r blaen y cyfeirir ato yn y geiriau oedd yr ysgyd-wad mawr a fu ar *Sinai*, pan yr ymwisgodd Duw mewn ymddangosiadau ofnadwy o fawredd arswydus, i'r dyben o argy-

hoeddi y bobl o ddwyfol awdurdod y gyfraith a gyhoeddodd efe iddynt o ganol y dymmestl hono. Eglura yr apostol hyn yn y llythyr at yr Hebreaid, pan y dywed:—"Llef yr hwn y pryd hwnw a ysgydwodd y ddaear." Ysgydwodd y ddaear y pryd hwnw i'r dyben o argyhoeddi y bobl o allu a ffyddlondeb Duw i gyflawni y cyfammod a wnaeth efe â hwynt ar Sinai fel ei bobl ddewisedig, yr hwn gyfammod yn ei effeithiau oedd yn rhwym o ysgwyd holl freniniaethau Canaan, a rhoddi eu tir yn etiffeddiaeth i Israel. Yr oedd yn briodol ysgwyd y ddaear ar y pryd y sefydlwyd goruchwyliaeth ysgwydedig. Ond nid ysgydwyd y *nefoedd* y pryd hwnw. Nid ysgydwyd i lawr yr hen drefn o addoliad oedd wedi ei sefydlu ynmysg y patriarchiaid er dechreuad y byd. Yr oedd bwyd-offrwm a phoeth-offrwm yn ddefodau crefyddol wedi eu sefydlu er dyddiau Adda; o blegid y mae genym hanes am fwyd-offrwm Cain, a phoeth-offrwm Abel. Nid ysgydwyd y defodau hyn i lawr ar Sinai; ond cyrmerwyd hwynt i mewn i oruchwyliaeth Moses, a sefydlwyd hwynt i barhau hyd ddyfodiad y Messiah yn y cnawd. Felly nid ysgydwyd y nefoedd y pryd hyny, ond y ddaear yn unig. Ond yma addewir ysgwyd y nefoedd a'r ddaear. Eglura yr apostol hyn etto, trwy ddywedyd ei fod yn arwyddo "symmudiad y pethau a ysgydwir, megys pethau wedi eu gwneuthur, fel yr arhoso y pethau nid ysgydwir;" sef, teyrnas ddisigl y Messiah o dan ei ffurf newydd. "Ysgwyd y nefoedd" gan hyny yw, ysgwyd ymaith y drefn o addoliad luddewig, i'r dyben o roddi lle i'r oruchwyliaeth efengylaidd. Wrth "ysgwyd y ddaear, a'r môr, a'r *sychdir*," y deallir yn gyffredin, ysgwyd ymaith y llywodraeth luddewig, dinystrio eu gwladwriaeth—ysgwyd y genedl allan o'u gwlad, a'u gwasgaru drwy y byd.

"Ysgwyd hefyd yr *holl genhedloedd*" sydd brophwydoliaeth am ysgydwad breniniaethau paganaidd Babilon, Persia, a Groeg, yn olynol ymaith yn llwyr, i'r dyben o ragbarotoi y ffordd i'r Messiah wneuthur ei ymddangosiad yn y cnawd, a gosod ei deyrnas i fyny yn ei ffurf newydd yn y byd.

"*Dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw*," sydd brophwydoliaeth amlwg am ymddangosiad y Messiah yn y cnawd. Dichon fod y geiriau hyn yn brophwydoliaeth am y gwyrthiau rhyfedd a ddigwyddasant ar farwolaeth y Cyfryngwr. Y pryd hyny ysgydwyd y ddaear trwy ddaeargryn mawr, ac adgyfodiad y meirw; ac ysgydwyd y nefoedd trwy dywyllu yr haul am ysbaid tair awr. Y gwyrthiau mawrion hyn a fwriadwyd i argyhoeddi y genedl o ddwyfoldeb person yr hwn a groeshoeliwyd ganddynt, ac i sicrhau iddynt wirionedd ei athrawiaeth, yr hon a gynnwysai brophwydoliaeth amlwg am ysgydwad mawr y llywodraeth luddewig, ynghyd âg ysgydwad y genedl allan o'u gwlad, ac ysgydwad yr oruchwyliaeth luddewig i lawr yn llwyr.

Felly yr oedd yr ysgydwad llythyrenol hwnw ar y nefoedd a'r ddaear yn sicrhau ac yn rhagddarlunio yr ysgwyd mawr a fu ar y drefn o addoliad seremonïol, sef y nefoedd Iuddewig; ynghyd â'r ysgwyd ofnadwy a fu ar eu gwladwriaeth yn y canlyniad i ymddangosiad y Messiah yn y cnawd, ac yn fwyaf neillduol effeithiau mawrion ei farwolaeth ar y groes.

Amcanwn sylwi, yn

I. AR YR ENW HWN A BODDIE AR Y MESSIAH:—“*Dymuniant yr holl Genhedloedd.*”

Nid oedd yr holl genhedloedd yn dymuno y Messiah y pryd hwnw, ac ni bu yr holl genhedloedd yn ei ddymuno mewn unrhyw oes o'r byd. Ond disgwylir y daw amser pan y bydd yr holl genhedloedd yn dymuno y Gwaredwr. Yn mhob oes o'r byd hyd yma, cafodd y Messiah genhedloedd lliosog a gwledydd eang yn elynion hollol i'w deyrnas; ac yn yr oes hon hefyd, y mae “y cenedloedd yn terfysgu, a'r bobloedd yn myfyrio peth ofer. Y mae brenhinoedd y ddaear yn ymosod, a'r penaethiaid yn ymgynghori ynghyd, yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist ef.” “Dirmygedig” ydyw ei wedd yn ngolwg llawer cenedl gyfan—nid oes pryd iddo fel y dymunent ef. Iaith llawer o'r Cymry mawr eu breintiau, ydyw:—“Ni fynwn ni y dyn hwn i deyrnasu arnom.” “Ymaith âg ef, croeshoelir ef!” “Na ddeled ein heneidiau byth i'w gyfrinach.” “Y mae efe oll yn wrthun, ac yn anghymeradwy yn ein golwg!”

Dichon iddo gael ei alw yn “ddymuniant yr holl genhedloedd”—

1. *Am fod y cenedloedd dan yr oruchwyliaeth efengylaidd i gael eu hennill i ddymuno y Messiah.*

Dan yr hen oruchwyliaeth, yr oedd yr Iuddewon yn dymuno y Messiah, a'r holl genhedloedd yn hollol anwybodus am dano; o herwydd nid oedd moddion gwybodaeth yn eu plith, yn gymmaint ag mai i'r Iuddewon yr ymddiriedwyd am “ymadroddion Duw.” Iddynt hwy y rhoddwyd y cysgodau i ddangos y Messiah, yn gystal a'r prophwydoliaethau am dano; o ganlyniad, yr oeddynt hwy yn disgwyl am ymddangosiad y Messiah yn y cnawd. “Dymuniant” yr Eglwys Iuddewig yn unig oedd efe y pryd hwnw:—“O! na bait megys brawd imi.” Ond dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, derbyniwyd y cenedloedd i mewn trwy ffydd, a thorwyd hâd Abraham ymaith o herwydd anghrediniaeth. Trwy y chwyldroad mawr hwn, daeth y Messiah yn “ddymuniant y cenedloedd.” Ond nid ydyw yr holl genhedloedd etto wedi cael eu hennill i'w ddymuno. Y mae dros hanner y byd yn elynion hollol i'r Gwaredwr, dan yr enw “paganiaid,” a rhan fawr, sef cant a thrigain o filiynau o nifer, yn Fahometaniaid, yn dirmygu y Gwaredwr. Y mae yn

bossibl fod hâd Abraham oll oddeutu ugain miliwn, ac yn wrth-odwyr hollol o'r Messiah—heb law miliynau dan yr enw "Cristionogion" sydd yn wrthwynebwyr amlwg i'w deyrnas ef.

Gelwir ef yn briodol yn "ddymuniant yr holl genhedloedd"—

2. *O blegid ei fod yn berffaith deilwng o gael ei ddymuno gan yr holl genhedloedd.*

Pa beth bynag a ddymunir gan yr holl genhedloedd, tra y byddant heb ddymuno y Messiah, byddant heb ddymuno gwir ddymunoldeb, ac heb garu gwir hawddgarwch. Tra y byddant heb ei adnabod ef, byddant heb gadernid i ymddiried ynddo, a byddant heb wir ddoethineb i'w cyfarwyddo yn anialwch dyrys y byd.

(1.) Y mae y Messiah i'w "ddymuno" gan "yr holl genhedloedd," *ar gyfrif ei swydd brophwydol*: o herwydd y mae yr holl genhedloedd sydd yn ddyeithr iddo ef yn hollol dywyll ac anwybodus am bob peth gwir bwysig. Er y gallant dreiddio yn mhell i wybodaeth o bethau naturiol a darfodedig, etto ni allant gyrhaedd gwybodaeth o bethau ysbrydol a thragwyddol; o blegid "doethineb Duw mewn dirgelwch," sef "y ddoethineb guddiedig" oddi wrth yr holl philosophyddion paganaidd a'r Iuddewon anghrediniol, "yr hon a rag-ordeiniodd Duw cyn yr oesoedd i'n gogoniant ni," ydyw yr efengyl: "yr hon nid adnabu neb o dywysogion y byd hwn, o herwydd pes adwaenasent ni chroeshoeliasent Arglwydd y gogoniant." Trwy yr ymchwiliadau manylaf a mwyaf diffino i drefn natur, tuag at gael allan ffordd iachawdwriaeth—modd i ddyn sicrhau dedwyddwch tragwyddol iddo ei hun—"ni welodd llygad" y philosophydd craffaf, ac "ni chlywodd clust" yr hanesydd mwyaf manwl, ac "ni ddaeth i galon" y dychymmygwr cywreiniaf, y ffordd a'r moddion a ddarparodd Duw ac a ddadguddiwyd yn unig yn yr efengyl i wneuthur dyn yn dragwyddol ddedwydd. "Canys pa ddyn a edwyn bethau dyn, ond ysbryd dyn yr hwn sydd ynddo ef?" Nis gall y naill ddyn wybod bwriadau calon y llall, oddi eithr iddo eu hysbysu; felly hefyd "pethau Duw," ni allasai neb eu gwybod ond Ysbryd Duw, oddi eithr iddo ef eu dadguddio. Buasai ei feddwl yn hollol guddiedig oddi eithr iddo roddi dadguddiad o hono. Gan hyny, pa faint bynag o wybodaeth am Dduw a'i briodoliaethau a allasai y cenedloedd gyrhaedd trwy ymchwiliad manwl i drefn natur, etto nid oedd yn bossibl iddynt gyrhaedd gwybodaeth o'i feddwl a'i ewyllys rasol heb ddadguddiad.

Er fod yr amlygiadau mawrion o Dduw yn ngwaith y greadigaeth yn hollol gysson â'r amlygiad o hono yn yr efengyl, etto nid yw Cristionogaeth yn gasgliad naturiol a ellir ei dynu oddi wrth philosophyddiaeth. Nid yw yr amlygiad o Dduw sydd yn ngwaith y greadigaeth yn ddigonol i'n harwain i wybodaeth o

drefn iachawdwriaeth; ond gellir dyweyd fod yr amlygiad o Dduw sydd yn nhrefn iachawdwriaeth yn fanteisiol i'n harwain i wybodaeth bellach o'r amlygiadau a geir o hono yn y greadigaeth. Gan fod gwaith y greadigaeth yn amlygiad aruthrol o *fawredd* a *gallu* Duw yn unig, y mae yn naturiol i reswm anianol gasglu oddi wrtho fod dyn yn mhell islaw sylw a serch y fath fawrhydi; ac yn enwedig islaw iddo byth wisgo ei natur ef, ac yn y natur hono ddioddef a marw yn ei le. Felly y mae "yr ymadrodd am y groes," yn ngolwg y rhai sydd wedi edrych ar y greadigaeth yn amlygiad o *fawredd* Duw, ac etto yn hollol dywyll am ei raslonrwydd ef, yn ynyfdrwydd hollol. Ymddengys iddynt hwy yn hollol anghysson â'r egwyddorion a dderbyniasant hwy am Dduw trwy waith y greadigaeth. Y mae yr egwyddorion a luniodd "doethineb y byd hwn" o berthynas i gyfrifoldeb dyn, ynghyd â'r ffordd iddo fod yn wynfydedig, fel y casgliad mwyaf naturiol a allasai rheswm dynol dynu oddi wrth yr amlygiad o Dduw yn y greadigaeth, yn hollol wrthwyneb i egwyddorion yr efengyl. A chan hyny, y mae Duw drwy yr efengyl yn dyfetha doethineb lygredig y doethion hyny, ac yn dileu deall camsyniol y rhai deallus hyny. Gellid herio rheswm heb ddadguddiad yn ngwyneb y manteision mwyaf, a thrwy yr ymchwiliad manylaf, i gael allan ffordd i gymmodi yr euog â Duw. Gellir dyweyd gyda'r apostol—"Pa le y mae y doeth? Pa le y mae yr ysgrifenydd? Pa le y mae ymholydd y byd hwn? Oni wnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynyfdrwydd? Canys o herwydd yn noethineb Duw, nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw, fe welodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethu gadw y rhai sydd yn credu" (1 *Cor.* i. 20, 21). Er i reswm gael manteision mawrion, er iddo gael doethineb Duw yn amlygedig iddo yn y greadigaeth, ac er iddo gael amlygiad o ddyfais doethineb Duw i achub pechadur yn y cysgodau a'r prophwydoliaethau, a thrwy draddodiad o oes i oes; etto gadawodd y manteision mawrion hyn y cenhedloedd yn y fagddu dywyll o baganiaeth ac eilunaddoliaeth, ac arosodd y llen ddu-dew ar galonau hyd yn oed yr Iuddewon. Er mai gwir ddoethineb yw yr efengyl, etto nid "doethineb y byd hwn" ydyw. Y mae yn wahaniaethol oddi wrthi, ac yn wrthwynebol iddi. Mae y naill yn ddynol, a'r llall yn ddwyfol. Y mae un yn ddyfais rheswm dyn anianol, a'r llall yn ddadguddiad o'r nef: o ganlyniad y mae yr holl genhedloedd Paganaid a Mahometanaid yn hollol dywyll am drefn iachawdwriaeth Duw, tra yn amddifaid o athrawiaeth ac addysg Crist fel prophwyd mawr. Y maent "wedi tywyllu eu deall, wedi ymddyethrio oddi wrth fuchedd Dduw, trwy yr anwybodaeth sydd ynddynt, trwy ddallineb eu calon." Y mae y fagddu wedi gorchuddio y cenhedloedd, a'r llen wedi toi y bobloedd, sydd yn amddifaid o'i athr-

awiaeth ef. Mae tywyllwch anwybodaeth y cenhedloedd yn eu suddo mewn trueni dirfawr, o herwydd y mae "tywyll-leoedd y ddaear yn llawn o drigfanau trawsder." Trigfanau trais a thrueni digymmysg, lle y preswylia gorthrymder gwaedlyd, ydyw y teyrnasoedd lle y mae anwybodaeth am athrawiaeth y prophwyd mawr. Yr ydym yn cael fod yn nhywyll-leoedd y ddaear yn bresennol rai yn aberthu eu hiliogaeth i afonydd i'w boddi, ereill yn aberthu eu hunain i'w dryllio o dan olwynion eu heilunod, rhai yn tori archollion mawrion yn eu cnawd, ac yn poenydio eu hunain mewn amrywiol ffyrdd yn resynol o ddychrynadwy o herwydd eu hanwybodaeth. Y mae miliynau lawer o'r cenhedloedd yn cael eu dyfetha o eisieu gwybodaeth.

Y mae angen y cenhedloedd hyny am lewyrch mawr swydd brophwydol y Cyfryngwr ar bethau tragywyddol i'w ddirnad yn llawn wrth i ni ei gyd-bwyso â thrueni annhraethol eu hanwybodaeth. O blegid yr unig lewyrch a dwynodd i'n byd ni am bethau tragywyddol ydyw athrawiaeth Crist fel prophwyd mawr. Efe, yn ei swydd brophwydol, ydyw yr "unig-anedig" oddi wrth y Tad, a "hysbysodd" gynghor ac ewyllys ei Dad i ddynion. Efe, yn ei swydd brophwydol, yw "goleuni y byd," sydd yn llewyrchu "gwybodaeth gogoniant Duw." Efe, yn ei swydd brophwydol, yw "Haul Cyfiawnder," sydd yn gwaagaru gwir oleuni am bethau anweledig. Efe, yn ei swydd brophwydol, ydyw "tyst y bobl ac athraw y bobloedd," yr hwn a ddysga athrawiaeth anffaeledig am bethau tragywyddol. Trwy Ysbryd Crist y cafwyd y dadguddiad dwyfol, cyfiawn, a pherffaith sydd yn y Beibl:—"Yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder." Ffrwyth mawr a gwerthfawr swydd brophwydol y Cyfryngwr ydyw y dadguddiad anffaeledig hwn o feddwl Duw i ddyn. Ysbryd Crist oedd yn cynnhyrfu y prophwydi gynt, a'r apostolion ar ol hyny, i lefaru ac ysgrifenu athrawiaeth anffaeledig i ddynion am bethau tragywyddol. Cyfoded goleuni y swydd hon ar yr holl genhedloedd gyda brys, a bydded i bob llwyth, iaith, pobl, a chenedl gael "rhodio yn ngoleuni yr Arglwydd!"

O flaen athrawiaeth y prophwyd mawr y syrth ofergoelion a chyfeiliornadau y byd i'r llawr. Athrawiaeth y prophwyd mawr ydyw "yr arfau y rhai nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr; gan fwrw dychymmygion i lawr, a phob uchder sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw." Efe, fel prophwyd mawr, a ollwng, drwy ei athrawiaeth, yr holl genhedloedd paganaidd allan o'u carcharau cedyrn o dywyllwch a chyfeiliornadau, y rhai ydynt yn awr wedi eu rhoddi i fyny i "amryfusedd cadarn, i gredu celwydd." Ysbryd yr Arglwydd 'a'i heneiniodd ef, i efengylu i'r rhai llariaidd; efe a'i hanfonodd

i rwymo y rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym" mewn cyfeiliornadau tynion. Efe, yn ei swydd brophwydol, trwy ei athrawiaeth a'i Ysbryd, "a ddifa y gorchudd" tew o anwybodaeth ac o ddychymmygion "sydd yn gorchuddio yr holl bobloedd," a'r "llen" fawr o gyfeiliornadau dinystriol, "yr hon a daenwyd ar yr holl genhedloedd." Dan ei addysg ef, fel prophwyd mawr, y daw yr holl genhedloedd y rhai sydd fyddar i "glywed geiriau y llyfr" anffaeledig, ac y daw "y deillion i weled allan o niwl a thywyllwch;" a "llygaid y rhai a welant ni chaur, a chlustiau y rhai a glywant a wrandawant; calon y rhai ehud hefyd a ddeall wybodaeth, a thafod y rhai bloesg a brysura i lefaru" gwirionedd "yn eglur. Ni elwir mwy ei coeg-ddyn," sydd yn dysgu cyfeiliornadau i'r bobl, "yn fonheddig." Dan ddylanwad dysgeidiaeth y prophwyd mawr hwn y daw "yr anialwch a'r anghyfaneddle i lawenychu, y diffaethwch hefyd a orfoledda ac a flodeua fel rhosyn." Ië, dan ei athrawiaeth ef "y blodeua ac y llawenycha â llawenydd ac â chân. Gogoniant Libanus a roddir iddo, godidawgrwydd Carmel a Saron. Hwy a welant ogoniant yr Arglwydd "yn ngoleuni ei athrawiaeth ef," a godidawgrwydd ein Duw ni. Yna yr agorir llygaid y deillion, a chlustiau y byddarion a agorir: yna y llama y cloff fel hydd, ac y cân tafod y mudan." Canys dyfroedd "gwirionedd a ddaw allan o enau y prophwyd mawr" yn yr anialwch, "ac afonydd" o athrawiaethau goleu a dwyfol "yn y diffaethwch." A'r cenhedloedd oedd o'r blaen fel crasdir diffwrth, yn baganiaid anwar, a ffrwythant o dan ei addysg ef mewn rhinweddau crefyddol a sanctaidd: ie, y rhai oedd o'r blaen fel tir sychedig, heb ddim ffrwyth mewn sancteiddrwydd, o dan ddylanwad ei addysg ef a fyddant yn ffynnonau llawnion o bob rhinweddau a sanctaidd ymarweddiad. Ei athrawiaeth ef fydd yn "ffordd sanctaidd" i'w harwain i fywyd tragwyddol: bydd yn agored yn yr anialwch hwnw, "a hi a fydd i'r rhai hyny a rodio y ffordd, pe byddent ynfydion ni chyfeiliornant." Pan aiff y prophwyd mawr allan i'r gwledydd Paganaid—pan "barotoa efe ei eisteddfa," fel addysgwr mawr yn heolydd y barbariaid, gall ddyweyd yn iaith Job:—"Llygaid oeddwn i'r dall, a thraed oeddwn i'r cloff.....Dewiswn eu ffordd hwynt, eisteddwn yn benaf, a thrigwn fel brenin mewn llu, megys yr hwn a gysura rai galarus" (*Job xxix. 15, 25*).

(2.) Y mae y Messiah yn deilwng o'i "ddymuno" gan "yr holl genhedloedd" ar gyfrif ei swydd frenhinol: o blegid y mae yr holl genhedloedd sydd yn ddyeithr i'w gyfreithiau ef yn dioddef gorthrymder mawr. Y mae "tywyll-leoedd y ddaear yn llawn o drigfanau trawsder." Nis gellir yn briodol ddisgwyl ond trais, ac anghyfiawnder, a chreulondeb yn y gwledydd hyny

sydd yn ddeythr i'w lywodraeth lariaidd ef. Lawn a phriodo y gosodir allan y brenhinoedd Paganauidd dan yr arwyddluniau o fwystfilod. Gwelodd Daniel mewn gweledigaeth bedwar bwystfil yn cyfodi yn olynol o'r môr: un yn debyg i lew, a'r llall yn debyg i arth, a'r trydydd yn debyg i lewpart, a'r olaf yn fwystfil mawr, "ofnadwy, ac erchyll, a chryf ragorol, ac iddo yr oedd dannedd mawrion o haiarn; yr oedd yn bwyta, ac yn dryllio, ac yn sathru y gweddill dan ei draed." Y mae genym ddeongliad dwyfol ar y bwystfilod hyn. "Y bwystfilod mawrion hyn," medd y deonglydd wrth Daniel, "ydynt bedwar brenin, y rhai a gyfodant o'r ddaear." Darluniad o'r pedair brenhiniaeth Baganauidd ydynt: sef, Babilon, Persia, Groeg, a Rhufain. Priodol y darlunir hwy ar ddull bwystfilod; o blegid y mae yr holl lywodraethau Paganauidd o egwyddorion bwystfilaidd a chreulawn, yn enoi ac yn dryllio y cenhedloedd sydd dan eu hawdurdod. Y mae eu cyfreithiau yn orthrymus, a'u barnwyr yn ddiogwyddor ac anghyfiawn. Nid oes ganddynt un egwyddor na syniad yn tueddu i ddyrchafu eu deiliaid, ac nid yw eu bywydau yn werthfawr yn eu golwg. Y mae yr egwyddorion a goleddant yn hollol ddiog rhinwedd o bob arfogaeth. Mae eu syniadau crefyddol yn llwyr wadu rhwymedigaeth cenhedloedd i wneuthur cyfiawnder â'u gilydd, ac i garu eu gilydd. Y mae eu hegwyddorion dinystriol yn sylfeini cymmhwys iddynt i adeiladu trais a llofruddiaethau; o blegid y mae eu hegwyddorion yn llwyr wadu eu rhwymedigaeth i garu eu gilydd, ac i adeiladu dedwyddwch eu gilydd. Y maent yn rhoi heibio bob amddiffyniad, ac yn cyfiawnhau pob trais ac ysgelerder. "Duw sydd yn sefyll yn nghynnulleidfa y galluog; yn mhlith y duwiau y barn efe. Ni wyddant, ac ni ddeallant, mewn tywyllwch y rhodiant; holl sylfeini y ddaear a symmudwyd o'u lle." Mae eu hegwyddorion ynfyd yn sylfaen briodol i'r dyb fod gan y brenin awdurdod hollol ar fywydau a meddiannau ei ddeiliaid: "Y neb a fyno a laddo, a'r neb a fyno a geidw yn fyw." Gan hyn, eu bywydau a ymddibynant ar dymmer anwadal y dyn barbarauidd a thrahaus a fyddo yn llywodraethu arnynt. Y digwyddiad lleiaf a ddichon gyffroi ei dymmer, a chynnhyrfu ei ddigofaint, a all fod yn achos o dywallt gwaed ei ddeiliaid. Dengys hanesyddiaeth fod hyn wedi cymmeryd lle lawer gwaith. Yr holl greulonderau gwaedlyd hyn sydd wedi bod, gellir edrych arnynt yn ffrwyth naturiol yr egwyddorion Paganauidd a'r anwybodaeth yr oedd y cenhedloedd ynddo. Anhawdd yw traethu maint a rhif y gweithredoedd ysgeler a gyflawnwyd gan benaduriaid bwystfilaidd yn y byd yma erioed. Yn ddiweddar yn Affrica, byddai y brenin yn rhoddi gorchymyn i'w swyddogion i roddi pentref cyfan ar dân, lle y byddai amryw ugeiniau o deuluoedd tlodion yn byw: yna, pan y byddai y trueiniaid yn

ffoi, yn wŷr a gwragedd, â'u rhai bach, byddai swyddogion wedi eu gosod i'w dal a'u rhwymo oll, a'u gwerthu yn gaethion dros eu hoes. Pryd hyn, byddai raid i'r fam ffarwelio am byth â'i baban sugno, a'r gŵr ymadael â'i wraig, yr hon y bu iddo blant o honi.

Ond y mae brenhiniaeth y Messiah yn feddyginiaeth hollol effeithiol at y drwg mawr o anghyfiawnder a thrais yn ei holl ganghenau. Fel y bydd i'w deyrnas ef ymhelaethu yn y byd, ac i'r graddau y byddo i'w gyfreithiau ef gael eu dyrchafu a'u parchu yn mysg y cenhedloedd, i'r graddau hyn y daw gorthrymder i lawr, ac y derfydd am drais oddi ar wyneb y ddaear: "Efe a farn y bobl mewn cyfiawnder, a'r trueiniaid â barn. Y mynyddoedd a ddygant heddwch i'r bobl" dan ei frenhiniaeth ef, "a'r bryniau, gyfiawnder. Efe a farn drueiniaid y bobl, efe a achub feibion yr anghenus, ac a ddryllia y gorthrymydd" anghyfiawn. "Efe a ddisgyn" yn mendithion ei ragluniaeth, ar y cenhedloedd, "fel gwlaw ar gnu gwlan, ac fel cawodydd yn dyfrhau y ddaear. Yn ei ddyddiau ef y blodeua y cyfiawn, ac amlder o heddwch fydd tra fyddo lleuad. Efe a lywodraetha o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear. O'i flaen ef yr ymgryma trigolion yr anialwch, a'i elynion a lyfant y llwch" (*Salm* lxxii. 2—9). Bydd ei frenhiniaeth ef yn feddyginiaeth dragwyddol i'r holl genhedloedd oddi wrth bob trais, gorthrwm, a thrueni. Pan ddél "brenhinoedd Tarsis a'r ynysydd i dalu arheg iddo"—pan ddél "brenhinoedd Sheba a Seba" i gyflwyno rhoddion iddo ef—pan ddél "yr holl frenhinoedd i ymgrymu iddo, a'r holl genhedloedd i'w wasanaethu ef," yna fe waredir y byd oddi wrth orthrymder fel canlyniad i lwyddiant egwyddorion teyrnas y Messiah. Dyma effeithiau ei deyrnasiad ef: sef, "gwaredu yr anghenog pan waeddo, a'r hwn ni byddo gynnorthwywr iddo." Trwy rinwedd ei frenhiniaeth gyfiawn, a thrwy uniondeb ei gyfreithiau dedwydd, y gwared efe yr anghenog pan lefo, y truan gorthrymedig hefyd, a'r hwn ni byddo cynnorthwywr iddo. Y cenhedloedd lliosog a drinwyd hyd yma mor greulawn gan lywodraethwyr bwystflaidd a direswm a waredir trwy rinwedd teyrnas y Messiah. "Efe a arbed y tlawd a'r rheidus, ac a achub eneidiau y rhai anghenus"—y rhai oedd o'r blaen yn grwydriaid barbaraid yn yr anialwch. Efe a arbed eu henaid oddi wrth dwyll eu gau-athrawiaeth baganaidd, ac oddi wrth drawrder creulawn eu llywodraethwyr gorthrymus; a gwerthfawr fydd eu gwaed yn ngolwg eu brenin tragwyddol mwyach—rhai a lwyr ddibrisiwyd am lawer oes gan eu tywysogion barbaraid eu hunain a chenhedloedd lliosog o'u hamgylch. "Ei enw ef a bery yn dragywydd, a'r holl genhedloedd a ymfendigant ynddo" fel brenin; o blegid bydd ei frenhiniaeth yn waredigaeth oddi wrth y trueni oesol a ddiodd-fodd eu hynafiaid. Fel y cyfeiriwyd o'r blaen, priodol y gall y

Messiah ddyweyd am dano ei hun yn ngeiriau Job: "Pan awn i allan i'r porth trwy y dref; pan barotown fy eisteddfa yn yr heol: llangciau a'm gwelent, ac a ymguddient; a henuriaid a gyfodent, ac a safent i fyny. Tywysogion a attalient eu hymadroddion, ac a osodent eu llaw ar eu genau. Pendefigion a dawent a sôn, a'u tafod a lynai wrth dafnod eu genau. Pan y'm clywai clust, hi a'm bendithiai; a phan y'm gwelai llygad, efe a dystiolaethai gyda mi: am fy mod yn gwaredu y tlawd a fyddai yn gwaeddi, a'r amddifad, a'r hwn ni byddai gyn-northwyrw iddo" (*Job xxix. 7—12, a 13—16; Esa. xi. 1—9, a 10—13; a xxxii. 1, 2*).

Dan ei frenhiniaeth ef y bydd i drugaredd a gwirionedd ymgyfarfod, a chyfiawnder a heddwch ymgusanu (*Salm lxxxv. 10*). Bydd hyn yn cymmeryd lle dros yr holl ddaear. Pan dywaller yr Ysbryd o'r uchelder ar y cenhedloedd paganaidd, bydd hyn yn foddion i ddwyn i mewn deyrnas yr Arglwydd Iesu i'w plith; yna yr effaith fydd meddyginiaethu oddi wrth drais ac anghyfiawnder (*Esa. xxxii. 15—18*). Un o fendithion mawr teyrnas y Messiah fydd cael brenhinoedd yn dad-maethod, a brenhinesau yn fam-maethod i'w deiliaid. Nid yn unig hwy a fyddant yn amddiffynwyr i grefydd yn eu teyrnasoedd, ond byddant yn meddu tosturiaethau a chariad at eu deiliaid fel tosturi rhieni tuag at eu plant hoff. Ymddygant tuag at eu deiliaid yn dyner ac yn dosturiol, a bydd eu bywydau yn werthfawr yn eu golwg. Y mae llawer cenedl yn awr dan lywodraeth tywysogion hollol ddibris am eu bywydau a'u cysuron, yn sychedu am gyfle i'w haberthu wrth y miloedd i fin y cleddyf. Ond dan deyrnasiad y Messiah, trôir calonau y tadau at y plant, a chalonau y plant at y tadau; sefydlir cariad a chydymdeimlad rhwng y tywysog a'i ddeiliaid; addewir y bydd "y swyddogion yn heddychol, a'r trethwyr yn gyfiawn" yn ei deyrnas ef. Teyrnas Crist wedi ymlodaenu dros yr holl fyd, ac wedi cynnyddu i'w hagwedd oreu a'i pherffeithrwydd uchaf yn y byd hwn, a elwir yn yr Ysgrythyrau yn "nefoedd newydd" ac yn "ddaear newydd." O blegid bydd y cyfnewidol mor fawr—y fath ddiwygiad mawr wedi cymmeryd lle yn y byd, yn grefyddol ac yn wladol, fel y gellir yn briodol ei galw yn y wedd ddiwygedig hon yn "nefoedd newydd ac yn ddaear newydd." A sicrheir mai un o fendithion mawrion yr amseroedd hyn fydd llwyr ymwared oddi wrth y trueni mawr a ddioddefodd y cenhedloedd er dechreu y byd, sef gorthrymder a thrais. Cyfiawnder fydd yn cartrefu yn yr holl fyd: y pryd hyn, bydd cyfiawnder yn cael ei weinyddu yn yr holl lysoedd barn, ac yn y seneddau: caiff cyfiawnder gartrefu yn holl gynghorau y teyrnasoedd, a'i weithredu yn ymddygiad y werin tuag at eu gilydd a thuag at eu llywodraethwyr.

(3.) Y mae y Messiah yn deilwng o'i ddymino gan yr holl genhedloedd ar gyfrif *ei swydd offeiriadol*: o blegid y mae yr holl genhedloedd sydd heb ei adnabod ef yn euog ger bron Duw.

"Nyni a brofasom o'r blaen," medd Paul, "fod pawb, Iuddewon a Groegiaid, dan bechod. Pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw." Gan hyny, y maent yn rhwymedig i ddioddef cosp; o blegid cyflog anocheladwy pob pechod yw marwolaeth. Y mae y cenedloedd mwyaf anwybodus a barbaraid yn arfer cyflawni rhyw fath o ddefodau crefyddol, yr hyn sydd yn cynnwys addefiad amlwg o'u heuogrwydd; o herwydd y mae y defodau a arferant yn cael eu cyflawni ganddynt fel moddion i droi ymaith gospedigaeth eu pechodau, yr hyn a farnant hwy eu bod yn rhwymedig i'w ddioddef. Yr hyn sydd mewn golwg gan rieni wrth aberthu eu plant i'r afon Ganges ydyw diogelu eu hunain rhag cospedigaeth eu pechodau. Yr hyn sydd mewn golwg gan yr Indiaid pan yn taflu eu hunain dan olwynion yr eilun Juggernaut ydyw diogelu eu hunain rhag y llid a fydd. Dyben yr holl Fahometaniaid yn eu holl ddefodau crefyddol hwythau ydyw sicrhau iddynt eu hunain ddedwyddwch yn y byd a ddaw. Ond y mae yr holl foddion a ddychymygodd calon dyn yn ofer ac aneffeithiol i symmud ymaith euogrwydd. Yr unig ffordd i droseddwr ddyfod i heddwch & Duw yw trwy aberth yr Archoffeiriad Mawr sydd ar dŷ Dduw. "Efe yw ein tangnefedd ni," yr hwn, trwy ei aberth digonol, "a wnaeth y ddau yn un:" efe a gymmododd y ddau, Iuddewon a Chenhedloedd, "yn un corph trwy y groes, wedi lladd y gelyniaeth trwyddi hi."

Gan fod yr holl genhedloedd yn euog ger bron Duw, a bod Crist Iesu yn ei swydd offeiriadol yr unig ffordd i droseddwr ddyfod i heddwch y Duw Mawr, yna y mae dymunoldeb y Messiah yn cyfateb yn llawn i anfeidrol werth cymmod & Duw! Disgrifiad llawn o anfeidrol drueni dyn euog, o boenau a pharhâd yr ail farwolaeth, o ddedwyddwch a pharhâd y byd tragwyddol, o gyfoeth y dyn y mae yr Arglwydd ei hunan yn etifeddiaeth iddo—disgrifiad llawn o'r holl bethau annherfynol a enwyd, dyna a ddengys anfeidrol werth a dymunoldeb yr Arglwydd Iesu.

Ymddengys dymunoldeb y Messiah yn fawr yn ymddygiadau y rhai sydd wedi ei adnabod fel offeiriad mawr tŷ Dduw. Gadewch i'r enaid hwnw a argyhoeddwyd o bechod, a deimlodd oddi wrth ei euogrwydd a'i ddirfawr drueni, ac a nerthwyd i ymddiried yn ei aberth ef fel yr unig ddiogelwch rhag y llid a fydd—caniatewch i'r enaid hwnw a brofodd rinwedd ei waed, a ddiddanwyd & heddwch ei groes ef, ddyfod yn mlaen i draethu ei ddymunoldeb. Wedi bod yn ddiweddar heb obaith ac heb

Dduw yn y byd, yn ddychrynedig dan argyhoeddiad o'i drueni, yn teimlo ei gollfarn, ac yn cael ynddo ei hun farn angeu trawgyddol, yn gweled uffern fel wedi ei dilenu o flaen llygad ei feddwl, yn methu gweled diangfa—clywed tystiolaeth hwn am ddymunoldeb yr Arch-offeiriad Mawr, gynted ag y nerthwyd ef i ffoi ato!—"Duw sydd noddfa a nerth i ni, cymmhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder." Y mae yn dyblu ac yn pentyru cyffelybiaethau i ddarlunio ei ddymunoldeb:—"Yr Arglwydd yw fy nghraig, a'm hamddiffynfa, a'm gwaredydd; fy Nuw, fy nghadernid, yn yr hwn yr ymddiriedaf; fy nharian, a chorn fy iachawdwriaeth, a'm huchel-dwr" (*Salm* xviii. 2, 13—16; xxiv. 1—8; xxvii. 1; xl. 1—5; lxiii. 1—8). Y mae yn benthyca pob peth gwerthfawr a phob peth dymunol yn y greadigaeth i osod allan ei fawr werth a'i ogoniant. Hefyd:—

3. Gelwir ef yn briodol yn "ddymuniant yr holl genhedloedd," o herwydd y daw yr holl genhedloedd cyn diwedd amser i'w ddymuno ef fel Cyfryngwr.

Y mae yr Ysgrythyrau yn sicrhau yr ennillir yr holl genhedloedd cyn bo hir o dan faner y Messiah. Y mae y Tad wedi addaw helaethu ei deyrnas ef dros yr holl fyd, a dwyn i mewn iddi yr holl genhedloedd; a hyny yn wobr iddo am fyned trwy waith mawr y prynedigaeth:—"Gofyn i mi, a rhoddaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau y ddaear i'th feddiant" (*Salm* ii. 6—12). "Ac efe a lywodraetha o fôr i fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear" (*Salm* lxxii. 8). "Gwael yw dy fod yn was i mi, i gyfodi llwythau Jacob, ac i adferu rhai cadwedig Israel: mi a'th roddaf hefyd yn oleuni i'r cenedloedd, fel y byddych yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaear" (*Esa.* xli. 5—12). "Bydd hefyd o newydd-loer i newydd-loer, ac o Sabbath i Sabbath, i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron i, medd yr Arglwydd" (*Esa.* lxvi. 23). "Ac efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a brenhiniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenedloedd, ac ieithoedd ei wasanaethu ef: ei lywodraeth sydd lywodraeth dragwyddol, yr hon nid â ymaith, a'i frenhiniaeth ni ddifethir" (*Dan.* vii. 14). "O herwydd pa ham, Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw, yr hwn sydd goruwch pob enw," &c. (*Phil.* ii. 2—9). "Yn yr amser hwnw y galwant Jerusalem yn orseddfa yr Arglwydd; ac y cesglir ati yr holl genhedloedd, at enw yr Arglwydd:" "a'r ddaear a lenwir o wybodaeth gogoniant yr Arglwydd:" "yr efenngyl hon am y deyrnas a bregethir drwy yr holl fyd." Ennillir y cenedloedd dan faner y Cyfryngwr yn wirfoddol; eu "dymuniant" fydd efe. Nid trwy drais a gorfodaeth y dygir y pechadur i fod yn ddeiliad i'r brenin Iesu, ond yn wirfoddol: "Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth:" "O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nynti:" "Wele,

cenedl nid adweini a elwi, a chenhedloedd ni'th adwaenai di a red atat:"—nid 'a yrir atat,' nac 'a lusgir atat,' ond "a red atat" yn wirfoddol—a redant o wir ddewisai, ac nid rhag ofn uffern; nid yn unig i ochel dialedd, ond "er mwyn yr Arglwydd dy Dduw." Y mae yr Ysbryd Glân yn gogoneddu Crist yn meddwl y pechadur trwy ei ennill yn wirfoddol ddeiliad iddo. Ni ddichon fod dyn yn dyfod i garu Crist yn anewyllysgar: gweithred ewyllysgar o angenrheidrwydd ydyw caru ac ymddiried. Y mae natur y moddion a ddefnyddir yn profi ewyllysgarwch dyfodiad pechadur at Grist:—"nid trwy lu, ac nid trwy nerth:" "perswadio dynion:" "erfyn dros Grist."

II. EFFEITHIAU MAWRION EI DDYFODIAD YN Y CNAWD.

1. "*Ysgwyd y nefoedd*" Iuddewig, sef yr oruchwyliaeth seremonïol, i lawr yn llwyr. "Hyd amser y diwygiad" y bwriadwyd i'r oruchwyliaeth hono aros. Nid oedd angenrheidrwydd iddi barhau yn hwy: "Canys yn ddiau y mae dirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, o herwydd ei lesgedd a'i afes," (*Heb.* vii. 18). Yr oedd angenrheidrwydd am ysgwyd ymaith yr hen oruchwyliaeth, a gosod i fyny oruchwyliaeth newydd yn ganlynol i ymddangosiad y Messiaï yn y cnawd. Yr oedd yr oruchwyliaeth hono yn rhy dywyll ei hathrawiaeth, yn rhy anwadal ei defodau, ac yn rhy gyfyng ei breintiau i gyflawni dybenion mawr y prynedigaeth. Er fod yr oruchwyliaeth hono yn amlygu, i ryw raddau, drefn Duw i gymmodi yr euog, etto athrawiaethu yn dywyll yr ydoedd. Yr oedd y llen ar y dirgelion, a gorchudd ar wyneb Moses. Ond dygodd Crist fywyd ac anlygredigaeth i oleuni yn ei fywyd, ei weinidogaeth, a'i farwolaeth. Gan hyny, yr oedd yn rhaid i'r cysgodau tywyll hyny gilio, a rhoddi lle i Haul y Cyfiawnder dywynu. Rhaid oedd difodi y deddfau gwaedlyd ar ol i'r Messiaï wneyd iawn; o blegid nid oes galw am waed mwy wedi i gyfiawnder gael i'ei foddioni. Aeth Crist "i'r cyssegr trwy ei waed ei hun, gan gael i ni dragwyddol ryddhad." Cyfyngodd yr oruchwyliaeth seremonïol ei breintiau yn unig i had Abraham, a chauodd allan y cenhedloedd, oddi eithr ychydig broseltytiaid a dderbyniwyd i mewn. Gan hyny, i'r dyben o gyflawni addewid y Tad i'r Mab, sef rhoddi y cenhedloedd yn etifeddiaeth iddo, rhaid gosod i fyny oruchwyliaeth helaethach ei therfynau; rhaid rhoddi gorchymyn i'r apostolion i fyned allan i'r holl fyd.

2. "*Ysgwyd y ddaear*" Iuddewig. Rhaid ysgwyd i lawr ei brenhiniaeth yn chwilfriw mewn canlyniad i ddyfodiad y Messiaï yn y cnawd. Rhagfynegwyd, "nid ymedy y deyrnwialen o Judah na deddfwr oddi rhwng ei draed ef, hyd oni ddêl y Siloh." Er nad oedd brenhiniaeth Judah yn bod er's llawer oes cyn dyfodiad y Messiaï; etto, cadwyd gradd o

awdurdod wladol yn y llwyth hwn hyd ddyfodiad Crist, yr hwn a weinyddid gan yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid; o blegid ymddengys fod gan y genedl ei chyfreithiau ei hun, yn wahan-iaethol i gyfreithiau Rhufain y pryd hyny (*Ioan xix. 7*). Yr oedd angenrheidrwydd am ysgwyd ymaith y frenhiniaeth Iuddewig, nid yn unig i wirio y brophwydoliaeth, ond yn fwy o lawer i'r dyben o amlygu cyfiawnder Duw yn nghospedigaeth eu pechodau gwaeddfawr, yn enwedig y pechod echryslawn o wrthod a lladd Arglwydd y gogoniant. Rhaid ysgwyd eu brenhiniaeth, distrywio eu gwladwriaeth, a'u gwasgaru i blith y cenhedloedd, i'r dyben o'u hanalluogi i gynnal yr oruchwyl-iaeth seremoniol, yr hon y mynai Duw ei dileu wedi i'w sylwedd mawr ymddangos. Y gwasgariad hwn a brawf eu bod, trwy wrthod y Messiah, wedi eu diarddel gan Dduw o fod yn eglwys iddo mwyach, a thrwy hyny wedi colli yr hawl i'r tir sanctaidd trwy dori eu cyfammod â Duw. Y barnedigaethau trymion hyn ar y genedl am wrthod y Messiah ydynt brawf amlwg fod yr hwn a wrthodasant ac a groeshoeliasant yn wir Fessiah y Tad. Saif eu cyflwr truenus a gwasgaredig yn dystiolaeth ger bron llygaid yr holl genhedloedd, fod yr hwn a wrthodasant yn afonedig Duw.

3. "*Ysgwyd yr holl genhedloedd.*" Er fod y prophwydoliaethau yn rhagfynegu ysgydwad dinystriol yr ymherodraethau paganaidd cyn ymddangosiad Crist yn y cnawd, i ragbarotoi y ffordd i'r Messiah osod i fyny ei frenhiniaeth yn y byd yn ei ffurf newydd, etto gellir cymmyrd y geiriau yn brophwydoliaeth am yr ysgwyd mawr fydd ar holl alluoedd gwladol y byd hwn, y rhai sydd yn wrthwynebol i deyrnas y Messiah, hyd ddiwedd y byd; ynghyd â llwyr ddinystr holl gau-grefyddau y byd, yr hyn a ddygir yn mlaen trwy rinwedd ac fel canlyniad sicr ymddangosiad y Messiah yn y cnawd. Un o effeithiau mawrion ei ddyfodiad fydd *ysgwyd holl al'uoedd gwladol y byd hwn i lawr, y rhai sydd yn wrthwynebol i deyrnas Crist*. Galluoedd y byd a olygir wrth "y mynydd mawr" a ddaw yn wastadedd o flaen Zorobabel. Galluoedd gwladol gelynlol i'r efengyl a olygir wrth y "bryniau a ostyngir," ac wrth "y pantiau a gyfodir" o flaen y Messiah. Galluoedd gwladol gwrthwynebol i'r efengyl a olygir wrth "y ddelw fawr" yr hon a falurir o flaen "y gareg a dorwyd nid â llaw," sef teyrnas Crist. Rhaid dileu "pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth" gwladol gelynlol i'r efengyl o flaen teyrnas Crist.

Y mae llawer o frenhiniaethau y byd hwn yn hollol elynol i'r efengyl—i wir grefydd, yn rhwystrau ar ffordd lledaeniad teyrnas y Messiah (*Salm ii. 1*). Galluoedd gwladol gwrthwynebol i deyrnas Crist a olygir wrth yr "afon fawr Euphrates," yr hon sydd raid ei sychu i wneuthur ffordd i frenhinoedd y dwyrain

ddyfod dan faner yr Emmanuel. Galluoedd gwladol gwrthwynebol i deyrnas Crist a olygir wrth "dafod môr yr Aipht" yr hwn sydd raid ei ddifrodi, a'r "afon" yr hon sydd raid "ei tharo yn ei saith ffrwd," i wneuthur ffordd i'r cenedloedd ddyfod i'r cyssegr. Galluoedd gwladol yw "y mynyddoedd a'r bryniau" y parotöir tŷ yr Arglwydd ar eu penau, i'w llethu a'u darostwng. Trwy farnedigaethau ofnadwy yr ysgydwir y galluoedd gwladol gelymol i grefydd i'r llawr. Felly yr ysgydwyd y gallu mawr cyn y diluw. Hefyd, yn yr Aipht, yn Babilon, y llywodraeth Iuddeuwig, ynghyd a Rhufain baganaidd, a Rhufain Babaid trwy dywalltiad y seithfed phiol (*Dat.* vi. &c.). Felly y gwneir i fyny yr adnewyddiad mawr yn niwedd y byd trwy ddinystrio gelymlon crefydd. Ar ol pob un o'r ysgydwadau barnol sydd wedi eu cyflawni, adnewyddwyd crefydd mewn modd rhyfeddol. Rhaid "carthu gwaed Jerusalem o'i chanol mewn ysbryd barn ac mewn ysbryd llosgfa," ac yna "creu ar bob trigfan o fynydd Seion gwmmwl a mŵg y dydd, a llewyrch tân fflamlyd y nos," a bod "amddiffyn ar yr holl ogoniant" (*Salm* ii. 5—12; a cx. 1, 2; *Esa.* iv. xxiii. xxiv. a lxvi.; *Dan.* ii. 44, 45; a vii. 9—14; *Mic.* iv. 1—3; *Dat.* xviii. a xix.).

Un arall o effeithiau ymddangosiad Crist yn y cnawd fydd *ysgwyd holl gau-grefyddau y byd i lawr yn llwyr*. Rhaid "ysgwyd yr holl genhedloedd" o ran eu hegwyddorion, eu hofergoelion, eu harferion ynyd, ynghyd â'u gobaith twyllodrus, o flaen teyrnas Crist. Y mae gau-grefyddau y byd hwn yn sefyll yn hollol wrthwynebol i deyrnas y Messiah; o ganlyniad, mewn trefn i'w deyrnas ef lenwi y byd, rhaid ysgwyd i lawr yn llwyr yr holl opiniynau a'r cyfeiliornadau sydd yn y byd. Y mae ofergoelion a chyfeiliornadau yn y byd sydd yn llawer cadarnach na theyrnasoedd a llywodraethau y byd, ac yn llawer mwy anhawdd i allu dynol eu diwreiddio. Llwyddodd llawer tywysog i ddiwreiddio brenhiniaeth llawer cenedl, a darostwng y deiliaid i ufuddhau i'w gyfreithiau ei hun; ond nis gallodd un tywysog erioed ddiwreiddio cyfeiliornad unrhyw wlad na chenedl, a'u darostwng i gydsynio â'i dybiau ei hun. Dygodd llawer cenedl sêl ac eiddigedd hyd at waed dros ei rhyddid a'i hannibyniaeth; ond er iddynt gael eu gorchfygu ar y pen hwnw, ni ellid eu hysgogi oddi wrth eu tybiau crefyddol. Ond i'r dyben o sefydlu teyrnas y Messiah dros y byd, rhaid ysgwyd i lawr holl gyfeiliornadau ac ofergoelion y byd. Rhaid "llenwi y ddaear o wybodaeth gogoniant yr Arglwydd:" o blegid rhaid symmud dynion o "dywyllwch i oleuni," i'r dyben o'u dwyn i "deyrnas Anwyl Fab Duw."

Y moddion i ysgwyd cyfeiliornadau y byd i lawr yn llwyr fydd athrawiaeth yr efengyl. Fel y mae llewyrch yr haul naturiol yn ymlid ymaith dywyllwch y nos, oedd unwaith wedi

ymdaenu dros y wlad, felly y gwna llewyrch disglaer Haul Cyf-
 iawnder dreiddio trwy deyrnas y tywyllwch, a gwasgaru y nos
 —ysgwyd ymaith yr holl fagddu sydd yn dallu y cenhedloedd.
 Pa faint bynag o gymmhwyser sydd yn marnedigaethau a
 dialeddau Duw yn ei ragluniaeth i ddarostwng gallu gwladol
 Satan yr y byd, etto gellir dywedyd nad oes un cymmhwysder
 ynddynt i ddarostwng camsyniadau, a bwrw dychymmygion i'r
 llawr. Nid ydynt yn gymmhwys i argyhoeddi y meddwl nac
 agor y deall. Nid ydynt gymmhwys i agor llygaid dynion, a'u
 troi o dywyllwch i oleuni. Yr unig foddion cymmhwys i frwr
 dychymmygion i lawr ydyw gweinidogaeth yr efengyl. Caiff
 rhyfeloedd gwaedlyd a heintiau trymion fyned yn mlaen i agor
 drws i'r efengyl, ond hi ydyw y moddion i droi yr enaid. Y
 mae barnau Duw, fel Ioan Fedyddiwr, yn rhedeg o flaen y
 Messiah i barotoi y bobl i'w dderbyn, a'u hannog i edifeirwch.
 Y mae y barnedigaethau fel aradr yn agor llawer cenedl i dder-
 byn yr hâd: ond yr efengyl yw yr hâd. Dyma y moddion a
 ordeiniodd Duw i "agoryd llygaid" dynion, a'u "troi." "Nid
 trwy lu, ac nid trwy nerth;" nid "câd y rhyfelwr;" ond yr arfau
 y rhai nid ydynt gnawdol, sydd nerthol trwy Dduw i frwr
 cestyll i'r llawr. "Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi
 yr enaid" (*Salm* xix., a xliii. 2—6; *Esa.* xviii. xix. xxiii. lxvi.).
 "Trwy ffolineb pregethu" y gwelodd Duw yn dda "gadw."
 Rhoddwyd y trysor "mewn llestri pridd"—hawdd eu tori a'u
 dryllio: nid mewn llestri wedi eu cylchio â tharianau dur, a'u
 hamgylchu â chleddyfau a gwaywffyn. Trwy "addfwynder"
 y rhaid "dysgu y rhai gwrthwynebus." Nid ydyw galwad y
 cenhedloedd i ddyfod dan faner Crist wedi ei gwisgo â bygyth-
 ion gwladol, ond y mae wedi ei haddurno âg addewidion grasol:
 "Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog." Ni
 chaniateir i'r offerynau a ddefnyddir i filwrio o blaid teyrnas
 Crist arfer un math o greulondeb gwaedlyd; ond i'r gwrth-
 wyneb, rhaid iddynt fod yn gall fel seirff, a diniwed fel colom-
 enod. Os tarewir hwynt ar y naill rudd, rhaid iddynt roddi y
 llall hefyd i'w tharo. Rhaid iddynt dalu da am ddrwg, a
 gweddio dros y sawl a'u melldithiant. Y Gair yw y moddion i
 ysgwyd holl gau grefyddau y byd. Y mae fel surdoes yn y
 bawd, yn sicr o effeithio yn raddol a distaw. Y Gymdeithas
 Feiblaau a'r Gymdeithas Genhadol ydynt foddion i roddi y
 surdoes yn y bawd. Y maent yn ei roddi i mewn—"ychydig
 yma ac ychydig acw"—trwy y byd, yn mhlith pob iaith a
 chenedl, pob gwlad, pob teulu. Y maent yn ei anfon i lefeinio
 Affrica dywyll. Y maent yn ei guddio yn ddiogel yn ymherodr-
 aeth fawr China yn ddiarwybod i'r ymherawdwr, ac yn India'r
 Dwyrain o flaen llygaid y Brahminiaid dichellgar; ie; yn mhob
 cyfandir ac ynys. Y mae yn sicr o effeithio: fe dreiddiodd yn

wyneb gwrthwynebiadau cryfion yr oesoedd o'r blaen. Y mae anfeidrol gariad Duw ac annhraethol rinwedd gwaed y groes wedi ymgyfarfod, ac yn ymweithio yn fywiog yn y surdoes hwn: y mae yn sicr o gynnyddu yn raddol. Ac yn fuan daw yr ysgydwad mawr: fel y tân yn ymgrynhoi yn ddirgel yn mherfeddion y ddaear, o'r diwedd daw yn ddaeargryn, a thyr allan yn y mynyddoedd tanllyd. Rhowch chwi y surdoes i mewn; a gadewch amser iddo—ac fe weithia ei ffordd pan y byddwch chwi yn pydru yn y bedd!

Gan fod y ddaear yn ysgwydedig yn ei phethau cryfaf, nac ymddiriedwch mewn dim ar y ddaear! Y mae y ddaear yn sigledig yn ei phethau cadarnaf: y mae ei theyrnasoedd a'i hymherodraethau yn ysgwydedig; y mae ei holl orseddfeingciau yn crynu: "y teyrnasoedd a ysgogasant, efe a roddes ei lef, toddodd y ddaear." Y mae ei mynyddoedd yn neidio, ei bryniau yn llamu fel wŷn defaid, ei chyfoeth ar ei adenydd, ei pharch yn siomedig, a'i phleserau fel pydewau toredig y rhai ni ddaliant ddwfr. "Nid oes i ni yma ddinas barhaus." Gan hyny, "rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod;" "trysorwch i chwi drysorau yn y nef;" bwriwch angor yr enaid y tu fewn i'r llen. Nid yw eich cyrph ond "daearol dŷ," pabell wael i gael ei dattod: "gwellt yn ddiau yw y bobl," a'u dyddiau sydd "fe dyrnfedd." Os ewyllysiwch ochel siomedigaeth dragwyddol, ymddiriedwch yn yr ARGWYDD DDUW!

PREGETH IX.

TEULU DUW.

Ephesiaid iii. 15.

“O'r hwn yr enwir yr holl deulu yn y nefoedd ac ar y ddaear.”

Y MAE gan Dduw ei deyrnas fawr gyffredinol, ac y mae ganddo ei *deulu* neillduol yn y deyrnas hon hefyd: a thra y mae efe yn gynnaliwr i'r holl greadigaeth, ac yn frenin goruchaf ar bawb, y mae efe yn Dad caredig i'w deulu. Fe gaiff y teulu *oreu* Duw: y mae ei holl allu, a'i holl gyfoeth, at eu gwasanaeth hwynt, er sicrhau eu dedwyddwch. Mae brenhinoedd y ddaear yn gwneuthur gwahaniaeth mawr rhwng eu teuluoedd a'u teyrnasoedd. Y mae gan y brenin, os bydd efe yn werth ei alw yn frenin, ryw gymmaint o ofal am ddaioni a dedwyddwch ei ddeiliaid yn gyffredinol: ond y mae ganddo ofal neillduol am ei deulu; y mae ganddo ofal manylach dros ei deulu na thros ei holl deyrnas, ac fe gaiff y teulu y cwbl a all ac a fedd efe. Felly y mae gyda Duw: y mae gan y Creawdwr Mawr ofal am ei holl greaduriaid o bob gradd a rhyw; y mae efe yn darparu angenrheidiau bywyd pob creadur, ac y mae yn “agoryd ei law ac yn diwallu pob peth byw â'i ewyllys da,” fel “y mae ei drugaredd ar ei holl weithredoedd;” ac nid all cymmaint ag aderyn y tô syrthio ar y ddaear, heb yn wybod iddo. Y mae ei ofal yn cyrhaedd dros bob creadur, o'r cerub uchaf yn y nefoedd hyd yr ymlusgiad distadlaf yn y llwch. Ond er hyny, y mae ganddo ofal uwch am ei deulu: ei deulu ydyw ei drysor priodol—ei blant anwyl a hoff: “Ni attal efe ddim daioni” oddi wrthynt hwy. Y mae efe yn gofalu am bob un o'i deulu, fel y mae efe wedi sicrhau iddynt berffaith ddedwyddwch yn dragywydd; canys y mae efe wedi ei roddi ei hunan yn Dduw ac yn etifeddiaeth dros byth i'w deulu; ac “nid arbedodd efe ei briod Fab, ond a'i traddododd ef drostynt hwy; pa wedd gydag ef hefyd na ddyry efe iddynt hwy bob peth!”

Yr oedd cenedl yr Iuddewon yn tybied pan ysgrifennodd Paul y llythyr hwn, mai hwy yn unig oedd teulu Duw:—hwyntwy fel cenedl, am eu bod yn “had Abraham;” gan farnu fod hyny yn rhoddi hawl iddynt i holl ragorfreintiau teulu Duw: ac ymfrostient lawer yn hyn hefyd, eu bod yn “had Abraham” yn ol y cnawd. “Y mae genym ni Abraham yn dad i ni,” meddynt:—“Plant Abraham ydym ni, ac ni wasanaethasom ni neb erioed.” “Ai mwy wyt ti nag Abraham ein tad ni?” &c. Ac yn wir yr oeddynt dan radd o demtasiwn i ymfrostio yn yr hen sant disglair hwnw: nynt a dybiem y buasem ein hunain yn teimlo tuedd i ymfrostio, pe buasai un o’n hynafiaid o gymmeriad a duwioldeb cyffelyb i Abraham. Fe wnaeth yr Arglwydd sylw anghyffredin o Abraham, gan wneuthur cyfammod âg ef, a sicrhau yn y cyfammod hwnw y byddai efe yn Dduw iddo ef, ac i’w had ar ei ol ef: efe a addawodd y byddai i’r Messiah ddisgyn, o ran ei ddynoliaeth, o’i hiliogaeth ef; ac addawodd rddi Gwlad Canaan yn etifeddiaeth i’w hiliogaeth ef. Ac yr oedd cenedl yr Iuddewon wedi casglu oddi wrth y pethau hyn, a’u cyffelyb, mai hwyntwy fel cenedl yn unig oedd pobl Dduw. Yr oeddynt yn hōni hawl yn addewidion y cyfammod, ond yn esgeuluso dyledswyddau y cyfammod: yr oeddynt yn hōni hawl i’r rhagorfraint fawr o fod yn deulu Duw, ond yn mathru ei ddeddfau oddi dan eu traed. Ond y gwir ydyw, nas gellir mwynhau bendithion a rhagorfreintiau y cyfammod, heb ufuddhau i ddeddfau y cyfammod.

Y mae yr apostol yn yr epistol hwn, fel mewn amryw o’i epistolau ereill, yn gwrthsefyll y cyfeiliornad mawr hwn oedd yn eu meddyliau, gan ddangos fod yr oruchwyliaeth oedd yn cyfyngu rhagorfreintiau crefyddol i’r Iuddewon wedi darfod; ac un arall wedi ei gosod i fyny, &’i hwyneb ar yr holl genhedloedd: nad oes dim gwahaniaeth dan yr efengyl rhwng Groegwr nac Iuddew, caeth na rhydd, Barbariad na Scythiad:—“Wrth yr hyn y gellwch, pan ddarllenoch, wybod fy neall i yn nirgelwch Crist; yr hwn yn oesoedd ereill nid eglurwyd i feibion dynion, fel y mae yr awrhon wedi ei ddadguddio i’w sanctaidd apostolion a’i brophwydi trwy yr Ysbryd; y byddai y cenhedloedd yn gyd-etifeddion, ac yn gyd-gorph, ac yn gyd-gyfranogion o’i addewid ef yn Nghrist, trwy yr efengyl.” Ac y mae efe yn dangos fod Crist, trwy ei aberth a’i iawn digonol, wedi “cymmodi y ddau â Duw yn un corph trwy y groes, wedi lladd y gelyniaeth drwyddi hi;” ac felly fod Cenhedloedd ac Iuddewon yn sefyll yn yr un berthynas yn hollol & chyfryngdod ac aberth Mab Duw; gan hyny fod “i ni ein dau,” sef Iuddewon a Chenhedloedd, “ddyfodfa mewn un ysbryd at y Tad,” a bod i’r Cenhedloedd yr un seiliau i fod yn hyderus i nesau at Dduw mewn gweddi a’r Iuddewon: fod

hyn wedi ei *benderfynu* o'r blaen, ond ei fod yn awr wedi ei *hysbysu*; a bod y gorchymyn wedi ei roddi i'r apostolion i fyned allan "i'r holl fyd a phregethu yr efengyl i bob creadur," heb wneyd dim gwahaniaeth o ran cenedl; ond "Crist yn bob peth, ac yn mhob peth."

Ac yn y testyn, y mae efe yn dangos mai "o hwn," sef Crist, "yr enwir yr holl deulu" rhag llaw; ac nid o Abraham. Neu, "O'r hwn yr enwir yr holl dadogaeth:" ar hwn y tadogir yr holl eglwys. Crist ydyw "pen corph yr eglwys;" o hono ef y mae "yr holl gorph wedi ei gydymgynnull a'i gyd-gyssylltu, ac yn cynnyddu yn deml sanctaidd i'r Arglwydd." Nis gellir fod yn perthyn i deulu Duw heb ffydd yn Nghrist: "ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw."

I. *Y mae teulu Duw yn deulu mawr iawn; ac yn awr, yn wasgaredig iawn; "yn y nefoedd ac ar y ddaear."*

Pe gwelwm hyny sydd o honynt ar y ddaear, byddai yn nifer mawr iawn—yn llawer mwy nag y mae neb o honom yn meddwl ei fod. Y mae llawer iawn yn Mhrydain Fawr; llawer iawn yn America; ac y mae llawer mwy nag a feddyliem ni ar gyfandiroedd Ewrop, Affrica, ac Asia, ac "yn nynsoedd y môr." Mae yma ryw liaws mawr yn perthyn i deulu Duw ar y ddaear: ond yn y nefoedd y mae y doraeth fawr o honynt hwy. Yno y mae miliynau dirif o'n teulu ni, o bob llwyth, ac iaith, a chenedl, wedi eu casglu ynghyd; ac y mae pawb yno wedi eu perffeithio—pob un o honynt wedi ei ddysgu gan yr Arglwydd, a'i lwyr waredu oddi wrth bob llygredd, fel na ddywed neb yno "Claf ydwyf." Y mae llawer wedi myned yno oeddynt yn adnabyddus i ni—brodyr a chwirydd, ag yr oedd yn fraint cael bod yn eu cymdeithas pan oeddynt yma; y rhai oeddynt yn "oleuni y byd," ac yn "halen y ddaear" pan oeddynt yma; yn fendith yn mhob man lle y byddent; yn rhai y byddai eu hymddiddanion yn rasol, a'u holl ymarweddiad yn ennill iddynt ganmoliaeth gyda phob cydwybod dynion yn ngolwg Duw. O! ein Diwygwyr anwyll!—y fath fendith fuont i'r byd yn eu hoes a'u cenhedlaeth. Ein tadau yn yr efengyl yn Nghymru!—mor sanctaidd a chyssegredig oeddynt! mor lafurus a defnyddiol y buont! Yr oedd yn fraint cael bod yn eu cymdeithas ar y ddaear; ond pa faint mwy fydd cael mwynhau eu cymdeithas yn y nef! Y maent yno wedi eu perffeithio. Byddai yn werth i chwi ymdrechu cael myned i'r nefoedd, er mwyn y cwmni urddasol sydd i'w gael yno.

Ond, y mae llawer iawn o'r teulu ar y ddaear etto, yn wasgaredig braidd trwy yr holl wledydd: y mae i'r Iesu rai yn ei wasanaethu braidd yn mysg pob cenedl o dan y nefoedd. Mae

iddo filiynau lawer yn ei garu yn nheyrnas Prydain; y mae iddo amryw filiynau o ganlynwyr ffyddlaw yn Unol Daleithiau yr America; y mae rhai o'n teulu ni draw yn y Môr Tawelog, yn ynysydd lliosog Môr mawr y De: y mae i ni filoedd o frodyr a chwiorydd yn Nghrist yn ynys fawr Madagascar; y mae i ni ambell frawd a chwaer yn ngwlad yr Hottentotiaid, yn Nghaffraria, ac yn Ethiopia. Y mae llawer iawn o'n teulu ni yn wasgaredig dros India y Dwyrain; y mae i ni ambell frawd a chwaer yn China, ac ambell un yn Borneo; y mae rhai yn addoli y Cyfryngwr yn Siam, a hen ymherodraeth Burmah. Ac y mae llawer o deulu Duw yn wasgaredig dros gyfandir Ewrop, yn gorfod ymguddio megys mewn diffeithwch, rhag cynddaredd y bwystfil o Rufain! Y mae teulu Duw yn lliosog iawn fel hyn ar y ddaear; ond, yn llawer lliosocach yn y nefoedd! Y nefoedd ydyw *cartref* crefydd I fod yn gartref i'w deulu y gwnaeth Duw y nefoedd: ni chyfaddasodd efe y ddaear i fod yn gartref i'w eglwys; yn y nefoedd y mae duwiolion wedi cyrhaedd eu cartref. Y mae y nefoedd wedi ei gwneyd o bwrpas i fod yn gartref tragywyddol i deulu Duw. Y maent yn myned i'r nef bob yr un pan elont yn rhy dda i fod ar y ddaear; ac nid oes neb yn myned yno, ond y rhai nad oedd y byd yn deilwng o honynt. Y mae y nefoedd yn ysbeilio y ddaear o hyd o'i phethau goreu.

Fe allai fod yr apostol yn cymmeryd *holl* breswylwyr y nef i mewn i'r teulu yma—yr angylion, cystal ag eneidiau perffeithiedig. Y *teulu* ydynt hwythau. Y mae yr un Tad iddynt hwy ag i'r saint, ac y mae eu dedwyddwch hwythau wedi ei ddiogelu yn yr un Cyfryngwr: y maent yn chwennych edrych ar yr un pethau—ar ogoniant yr un person bendigedig. Nid ydyw yr angylion, er iddynt gadw eu dechreuad—er eu bod, fe allai, o alluoedd cryfach o lawer na ni, ac wedi troi mewn cylch llawer mwy eang na'r cylch bychan yr ydym ni wedi arfer troi ynddo, nid ydynt hwy er hynny yn eu cyfrif eu hunain ryw lawer uwch law i ni; ond y maent yn ein cyfrif yn frodyr iddynt yn Nghrist Iesu ein Harglwydd. Os gallant hwy gasglu defnyddiau eu mawl i Dduw mewn meusydd eang, y rhai na chawsom ni erioed olwg arnynt, gallwn ninnau fyned i faes eang nas gallant hwy fyned iddo, i gasglu defnyddiau ein hysgub i'w chyhwanu i'r Arglwydd. Gallwn ni fyned i mewn i fyd y corph; yr ydym ni yn meddu teimladau corphorol; yr ydym ni yn brofiadol o gystuddiau a phoenau corphorol; ac yr ydym yn derbyn llawer iawn o ddaioni Duw i'n cyrph; a byddwn yn y man wedi profi angeu corphorol, ac wedi cael adgyfodiad i'r corph oddi wrth y meirw: a bydd genym lawer wedi ei ddsygu trwy yr holl bethau hyn, nas gŵyr yr angel fawr am danynt. Fe allai, ar y cyfan, y byddwn ni wedi gweled a phrofi cymmaint o ryfedd-

odau a daioni Duw ag a welodd ac a brofodd yr un angel. Gallwn ni ddywedyd fod Duw wedi ein caru ni â chariad mor gryf, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na'n collar ni, ond "caffael o honom fywyd tragywyddol"—yr hyn nis gall yr angel ei ddywedyd.

Nid oes genym nemawr o wybodaeth am nifer y rhan yma o'r teulu: ond, y mae yn debyg fod gan Dduw ryw nifer fawr iawn o angylion, y rhai y mae efe yn eu rhoddi ar waith i edrych ar ol pob Cristion ar y ddaear; ac y mae llawer o bethau ereill ganddynt i'w cyflawni hefyd. Y mae yn rhaid fod llawer iawn o honynt, i gael un i warchod pob plentyn i Dduw ar y ddaear, yn ngwlad y peryglon; ac y mae yn debyg fod yna llawer iawn o honynt yn y nef yn sefydlog. Na! nid arhosodd Duw ddim ar greu rhyw ychydig o honynt, gan fod mor hawdd iddo ef greu llawer ag ychydig. Ac heb law hyny, fe allai fod ganddo ef llawer o greaduriaid mewn bydoedd heb law ein byd ni. Y mae rhyw ysgrythyr yn dyweyd nad yn ofer y gwnaeth Duw y ddaear, ond i'w phreswyllo; ac y mae hyn bron a rhoddi rhyw amnaid i ni y buasai yn ofer, pe heb breswylwyr ynddi. Pa ham, gan hyny, nad oes yna breswylwyr yn Jupiter? Fe allai fod gan Dduw fyrddiynau afrifed o greaduriaid yn y byd-oedd yna i gyd, ac efe a'u casgl hwynt oll at eu gilydd ryw ddiwrnod, yn un teulu! Bydd yn hyfryd iawn cael cymdeithasu âg Abraham, a Moses, a'r hen batriarchiaid a'r prophwydi, a chael hanes bydoedd ereill gan eu preswylwyr hwythau. Y mae yn debyg, fy mhobl i, y bydd gan Dduw deulu mawr iawn!

Y mae o bwys mawr i ni wybod yn

II. *Pwy, neu pa fath ydyw teulu Duw ar y ddaear; gan fod llawer yn hōni eu bod yn deulu Duw, pan nad ydynt felly.*

Y mae y rhai sydd fwyaf amlwg "o'u tad diafol" yn hōni eu bod yn deulu Duw. Y mae y Mahometaniaid yn hōni mai teulu Duw ydynt hwy; a'r Pabyddion yn gwneyd profes uchel iawn eu bod hwy yn unig deulu Duw; ac y mae y genedl Iuddewig yn parhau i hōni mai hwy ydyw plant Duw. Felly, chwi a welwch fod y rhai sydd yn cael eu gosod allan yn yr Ysgrythrau yn "elynion croes Grist," yn wrthwynebwyr y gwirionedd, a'r rhai ydynt yn parhau i erlid y gwir saint, yn hōni eu bod yn deulu Duw. Ond y mae dau beth yn gwahan-iaethu plant Duw oddi wrth bawb ereill; a gellir eu hadwaen yn bur sicr wrth y ddau nōd canlynol:—

1. *Y mae teulu Duw trwy yr holl fyd yn cymmeryd Gair Duw yn sylfaen ffydd.* Nid ydyw y wir eglwys yn ymddiried mewn un awdurdod arall am bwngc mawr iachawdwriaeth; y mae "wedi ei goruwch-adeiladu ar sail yr apostolion a'r prophwydi,

ac Iesu Grist ei hun yn ben conglaen." Nid oes yma le i un "offeiriad" arall. Credu yn Nghrist yn unig sydd yn dwyn yr enaid i afael iachawdwriaeth; ffydd yn Nuw yn unig yw ffydd gadwedigol; ni addewir bywyd tragywyddol i neb ond y rhai sydd yn credu yn ngair Duw, yn ymddiried yn y dystiolaeth a dystiolaethodd efe am ei Fab; ac y mae yn rhyfyg i ni ymddiried yn nhystiolaeth neb arall ar beth o'r fath bwys a chanlyniadau. Ond am hwn, y mae yn amhossibl iddo ef fod yn gelwyddog; ac y mae yn iawn i ni ymofyn am anffaeledigrwydd o'r tu ol i dystiolaeth ar fater mor bwysig ag iachawdwriaeth yr enaid. Yr ydys yn arfer ymofyn am gadernid yn y sylfaen mewn cyf-artaidd i bwys yr adeilad a fwriedir ei chyfodi arni. Pan fyddys yn myned i gyfodi adeilad fawr a chostus, yr ydys yn ymofyn am sylfaen a gradd helaeth o sicrwydd am ei chadernid. Felly, y mae yn iawn i ninnau brisio bywyd tragywyddol uwch law pob peth arall; canys nid oes dim i'w gystadlu âg ef. Dyna y cwbl sydd â gwerth mawr ynddo i ni, fy mhobl i; a byddai yn rhyfyg i ni dderbyn tystiolaeth neb llai na Duw ei hunan ar beth mor bwysig. Ac y mae y sicrwydd yma i'w gael!—y mae y Duw digelwyddog wedi rhoddi tystiolaeth anffaeledig i ni yn ei Air am drefn iachawdwriaeth, llwybr bywyd tragywyddol. Pa fodd y teimlai dyn pe byddai efe ar wynebu i dragywyddoldeb, heb ganddo ddim i bwysio arno ond tystiolaeth creadur?—dim ond geirwiredd creadur i ymddiried ynddo? Yr wyf yn prisio bywyd tragywyddol mor uchel, fel nas medraf feddwl ymddiried am dano ar dystiolaeth neb ond Duw ei hunan; ond pe cawn i ryw gymmaint o sicrwydd fod Duw yn tystiolaethu am fy nghyflwr ei fod yn ddiogel, ni byddai arnaf nemawr o ofn anturio i dragywyddoldeb ar ei dystiolaeth ef. Ac nid ydym dan rwymau i gredu neb ar y pwngc yma ond Duw ei hun. Rhaid fod gan ddyn anffaeledigrwydd cyn y dderbyniwn i ei dystiolaeth ar beth y mae canlyniadau mor bwysig iddo; ac nid ei fod yn *honi* hyny, ond ei fod yn gallu *profi* i foddlonrwydd ei fod yn ei feddu. Ni lwyddodd y diafol erioed, mewn un ffordd, i ddyrysu Cristionogaeth mor effeithiol a thrwy hudo dynion i gredu mewn rhywbeth heb law Gair yr Arglwydd—trwy berswadio y cenhedloedd i gymmeryd rhywbeth yn sylfaen ffydd heb law Gair Duw. Un o'r argeolion cryfaf sydd i'w gweled ar ein hoes y bydd gwir grefydd yn llwyddiannus yn y blynyddoedd dyfodol, ydyw yr ymarferiad mawr y mae y genedl yn ei wneyd â Gair yr Arglwydd—yr ymdrechion mawrion sydd yn cael eu gwneyd i ddysgu y genedl ieuangc i'w ddarllen a'i ddeall—yr holl bregethu sydd arno, a'r genedl yn gyffredin wedi cael ei gogwyddo i'w wrandaw, ac i dalu gradd o barch iddo; ynghyd â'r ymdrechadau sydd yn cael eu gwneuthur i ledaenu yr Ysgrythyrau drwy yr holl fyd.

Goren yn y byd po agosaf at y Beibl y byddo eich barn, fy mhobl i, ar bob peth crefydd.

2. *Y mae gwir deulu Duw yn cymmeryd Gair Duw yn rheol buchedd hefyd.* Nis gall y llall fod heb i hyn ganlyn; am fod holl athrawiaethau y Beibl wedi eu cymmhwysu i ddwyn dynion i ufuddhau i'w reolau. Nid yw y pwngc athrawiaethol yn cael chwareu teg, heb ei weithio allan yn ei ddylanwad ymarferol; canys y mae holl wirioneddau athrawiaethol y Beibl yn annogaethol i fuchedd sanctaidd: effeithiau sicr credu athrawiaethau Beibl a fydd ymarweddu mewn cydffurfiad â rheolau y Beibl. Y mae yn amhossibl i neb brofi ei fod ef yn credu athrawiaethau y Beibl, ond trwy ddangos ei fod yn cydymffurfio â'i reolau ef: bywyd sanctaidd yn unig a brawf iachus-rwydd barn. Y mae teulu Duw i'w hadnabod wrth eu *rhodiad*: y maent "yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd." "Y sawl a arweinir gan Ysbryd Duw, y rhai hyny sydd blant i Dduw."

Yr oedd y cwestiwn wedi dyfod yn bwysig ar feddwl Dafydd ryw bryd, am gael gwybod yn benderfynol pa fath ydyw gwir nodweddiad teulu Duw; ac efe a gyfeiriodd y cwestiwn at yr Arglwydd ei hun, gan ddywedyd, "Arglwydd, pwy a drig yn dy babell? pwy a breswylia yn mynydd dy sancteiddrwydd?" A'r ateb a gafodd oedd, "Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnel gyfiawnder, ac a ddywed wir yn ei galon. Heb absenu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymmydog, ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymmydog. Yr hwn y mae y drygionus yn ddirmygus yn ei olwg; ond a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd: yr hwn a dwng i'w niwed ei hun, ac ni newidia. Yr hwn ni roddes ei arian ar usuriaeth, ac ni chymmer wobr yn erbyn y gwirion. A wnelo hyn, nid ysgogir yn dragywydd." Rhaid i ni ateb i'r disgrifiad yna, os mynwn ni fod o deulu Duw: ni thâl ein crefydd ni ddim oni bydd hi yn ddigon o bwysau yn nghlorian y hymthegfed Salm. Y mae y drygionus, pe byddai y gŵr boneddig mwyaf yn y wlad, yn ddirmygus yn ngolwg yr Arglwydd: ac ni ddaw i gartref ei deulu ef ddim halogedig neu aflan yn oes oesoedd. Anwyl ddyd! gochel ganiatau i ti dy hun ddim a waherddir yn Ngair Duw; ac onide, fe'th droir heibio yn wrthodedig yn y farn!

Dyma i chi y nodau ar deulu Duw, fy mhobl i: y maent yn pwyso ar ei air ef fel sylfaen ffydd, ac yn rhodio yn ol ei air ef fel rheol buchedd.

3. *Y mae teulu Duw yn dwyn arnynt ddelw eu Tad i gyd.* Bydd rhyw gymmaint o ddelw y tad a'r fam ar y plant yn y cyffredin; naill ai yn eu pryd a'u gwedd, eu tymmerau, neu rywbeth: ac y mae yn debyg mai dyna y rheswm fod y cyfnewidiad grasol drwy yr hwn y dygir pechadur i fod yn blentyn

i Dduw, yn cael ei alw yn *adenedigaeth*,—am ei fod yn gyfnewidiad i ddelw Duw. Y mae plant Duw oll yn tebygoli i Dduw; ac am hyny y dywedir eu bod wedi eu “geni oddi uchod;” eu “geni o ddwfr ac o’r Ysbryd;” ac y dywedir eu bod “yn gyfranogion o’i sancteiddrwydd ef.” “Ac megys y dygasom ddelw y daearol; felly hefyd nyri a ddygwn ddelw y nefcl.” Y mae o bwys i ni wybod pa beth yw delw Duw ar y Cristion; neu, yn mha ystyr y mae yn bossibl i’r credadyn debygoli i’r Duw anfeidrol. Nis gallwn ni ymdebygoli iddo yn ei briodoliaethau *naturiol*—bod yn debyg iddo mewn hollallu-awgrwydd, mewn hunanymddibyniad, mewn mawredd, a holl-bresennoldeb, neu hollwybodaeth; y mae Duw y fath, mor anfeidrol yn y priodoliaethau hyn, fel nas gellir rhoddi en delw ar greadur. Ond yn ei briodoliaethau *moesol*, gellir doddi ei ddelw ar ddy; ac y mae ei holl blant yn tebygoli iddo mewn sancteiddrwydd: “A byddwch sanctaidd; canys sanctaidd ydwyf fi, yr Arglwydd eich Duw.” Y maent yn tebygoli iddo mewn caru yr un ffordd ag ef, a chasau yr un ffordd ag ef; caru y pethau y mae efe yn eu caru, a chasau y pethau y mae efe yn eu casau. Y mae Duw yn “lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg;” felly am ei blant, “nis gallant bechu, : m eu geni o Dduw.” Y maent yn tebygoli iddo mewn daioni. Da i bawb yw Duw; y mae ei drugaredd ar ei holl weithredoedd: felly, da i bawb, hyd y mae yn eu gallu, yw plant Duw; y maent yn oleuni y byd, yn halen y ddaear; y maent yn dosturiol, yn llawn cymmwynasgarwch a gweithredoedd da; y maent yn drugarogion, megys y mae eu Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn drugarog. “Duw parod i faddeu” yw efe; felly y mae ei blant yn “maddeu-o’u calonau i ddyinion eu camweddau, megys y maddeuodd Duw er mwyn Cri-t iddynt hwythau.” Yn y pethau hyn y gallwn, ac y dylem ymdebygoli i Dduw.

Y mae yn bossibl i’r plentyn ddwyn delw ei rieni mewn llawer o bethau, heb fod y ddelw hono yn brydferthwch arno; ond y mae delw Duw y prydfferthwch mwyaf sydd yn bod—“prydfferthwch sancteiddrwydd;” ac y mae yn brydferthwch a bery byth—prydfferthwch a ddaw i ymddangos yn fwyfwy prydfferth yn y byd ar ol hwn. Nid oes dim a bery i ymddangos yn brydferth yn y byd a ddaw, ond delw Duw. Bydd sancteiddrwydd yn ei lawn werth yno, ond ni bydd dim arall o uurhyw werth. Y maent yn llawer gwell eu *taste* yn y nefoedd nag yn y byd yma; y maent yn gwybod yn berffaith pa beth sydd dda a drwg yn y nef, ac y maent yn gallu prisio pethau yn eu lle; ond nis gallant brisio sancteiddrwydd yn rhy uchel byth. Y maent yn edrych gyda diystyrwch ar bethau sydd yn peri i ddyinion synu arnynt yn ein byd ni. Nid ydyw y pontydd mawrion yna ar y Menai, a’r pethau a gyfrifir yma yn orchestion

mawrion, yn werth eu sylw: ond pe baent yn gweled rhyw bechadur tlawd ar y ddaear yma yn dechreu edifarhau, fe sylwent gyda hyfrydwch ar hyny yn y fan; canys y maent yn gwybod ei fod yn dechreu cychwyn ar lwybr a'i dwg yn y diwedd i ogoniant tragywyddol! Prydferthwch ydyw hwn nas adfeilia byth, ac am hyny ny ni a'i gwelwn yn well-well byth; fel y byddwch chwi yn myned rhagoch, fy mhobl i, yn nhragywyddoldeb, fe eanga eich meddyliau wrth gynnefino â goleuni perffaith y byd tragywyddol, fel y deuwch chwi i brisio crefydd yn fwyfwy wrth fyned rhagoch i syllu ar ryfeddodau y byd mawr hwnw.

Sancteiddrwydd ydyw prydferthwch angylion y nef, a sancteiddrwydd ydyw prydferthwch anfeidrol natur Duw ei hun; a sancteiddrwydd ydyw yr addurn a'n cymmhwysa ninnau i gael mwynhau ei gymdeithas ef yn oes oesoedd. Y mae yr holl deulu yma yn cael cymdeithasu â Duw. Y mae i'r frenhines Victoria filiynau lawer o ddeiliaid, na chawsant un munyd o fwynhâd o'i chymdeithas erioed. Bîm yn Llundain lawer gwaith, a gwelais y frenhines unwaith; ond, ni ddywedodd hi yr un gair wrthyf y tro hwnw: ond am ei theulu, y maent yn cael bod yn ei chymdeithas; yn enwedig y *Prince Albert*, a'r plant: y maent yn cael gweled ei gwedd, a chymdeithasu gyda hi wrth y bwrdd, gan ymddiddan â hi yn rhydd a theuluaidd. Felly y mae gan Dduw ffrwydnau o ddeiliaid, na bu dim cymdeithas rhyngddo ef a hwynt erioed: ond y mae ei deulu ar y ddaear yn cael mwynhau ei gymdeithas; y maent yn cael "edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac ymofyn yn ei deml." Y mae "dirgelwch yr Arglwydd gyda'r rhai a'i hofnant ef." "Ein cymdeithas ni," medd y teulu, "yn wir, sydd gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef, Iesu Grist." "Efe a hysbysodd ei ffyrdd i Moses, ei ddeddfau a'i farnedigaethau i Israel: ni wnaeth efe felly âg un genedl." Y mae Duw yn hysbysu ei ffyrdd yn gyfrinachol i'w blant, trwy ei Ysbryd; ac y mae y plant yn tywallt eu calon yn rhydd ger bron Duw mewn gweddi.

III. *Er fod gan Dduw deulu mawr a lliosog iawn, y mae efe yn meddu y fath berffeithrwydd, fel y gall gymmeryd sylw o'r cyfan ar unwaith.*

Fe welwyd lawer gwaith dad i liaws o blant yn dyfod i'w dŷ, i fysg ei deulu, a phump neu chwech o rai bach yn codi i'w gyfarfod, a phob un yn gwaeddi, "Fy nhad!" a chanddo ryw-beth i'w ofyn, neu i'w adrodd; a'r cwbl yn llefain ar unwaith: ond y mae yn amhossibl i'r tad wrando cŵyn pob un ar yr un pryd; rhaid iddo eu cymmeryd y naill ar ol y llall. Ond am Dduw, Tad y teulu mawr yma, er fod miliynau dirif yn llefain

arno yr un munyd, a'r rhai hyn yn wasgaredig braidd yn nfyg pob cenedl, y mae efe yn gallu talu sylw i achos pob un, yn edrych i fewn i angen pob un, ac yn trefnu ymwared iddynt yn ol angen pob un; fel, megys nad oes dim uwchlaw ei allu, nid oes dim chwaith islaw ei sylw. Gŵyr pa beth sydd ar bob un o honynt ei eisieu cyn gofyn o honynt. Er fod ganddo ryw filiynau o blant perffaith ogoneddus a sanctaidd yn y nef, yn llefain yn barhaus, "Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog! yr hwn oedd, yr hwn sydd, a'r hwn sydd ar ddyfod;" etto, nid ydyw hyn yn tynu ei sylw oddi ar "y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, yr hwn sydd yn crynu wrth ei air;" nac yn un attalfa iddo i drefnu ymwared mewn pryd iddo. Y mae cymdeithas y teulu â Duw yn dra ammherrfaith yn y byd yma; ond yn y nef y bydd wedi ei pherffeithio. Nis gallwn ddal fawr iawn o amlygiadau o bresennoldeb Duw yn y byd hwn, gan faint ein gwendid a'n llygredd: ac y mae yma gynifer o bethau yn galw am ein sylw, fel nas gallwn ni gael ond un dydd o'r saith i ymollwng i addoli ynddo; ond, yn y nef, bydd pob peth ond addoli wedi darfod. Yno y cawn ni fod "yn wastadol gyda'r Arglwydd." Cawn addoli yno mewn gwell cyfleustra i adnabod Duw, ac i adnabod y Cyfryngwr, nag a fu genym erioed o'r blaen.

IV. Y mae teulu Duw dan ei amddiffyniad neillduol ef.

Y mae yn debyg, pe byddai i lynges fawr rhyw elynion tramor ddyfod i fewn i'r *Thames*, ar y bwriad o ddinystrio y brif ddinas—er y meddyliai y *Prince Albert* ryw gymmaint am y ddinas fawr, a'i phreswylwyr lliosog, etto am ei deulu y byddai ei ofal penaf; ceisio cael y teulu i ddiogelwch a wnai efe yn gyntaf; ac yna, fe allai y ceisiai ymofyn pa fodd i waredu y ddinas: ond achos ei deulu a gâi y lle blaenaf gydag ef. Felly y mae Duw am amddiffyn a diogelu ei deulu o flaen pob peth arall. Pan oedd y diluw yn dyfod i orchuddio y ddaear, yr oedd efe wedi gofalu mewn pryd am roddi ei deulu mewn diogelwch: pan oedd efe ar anfon y tân a'r brwmstan i ddinystrio dinasoedd y gwastadedd, efe a ofalodd am fyned yno o flaen y gawod, i gymmeryd ei deulu oddi yno, a'u gosod mewn lle diogel: cyn i'r dinystrydd gael gorhymyn i fyned trwy wlad. yr Aipht, a lladd pob cyntafanedig a fyddai heb fod dan arwydd y gwaed, yr oedd Duw wedi gorchymyn fod gwaed yr oen i gael ei daenellu ar ddau ystlys-bost a chappan drws pob tŷ lle yr oedd ei deulu ynddo, fel na chollwyd un o honynt: pan anfonodd yr Arglwydd wŷr arfog i ddinystrio Jerusalem, efe a osododd waharddiad pendant arnynt, na byddai i un o honynt gyffwrdd cleddyf â neb, ond fod yn rhaid iddynt sefyll wrth yr allor brês, i aros i'r "gwr â'r corn du ysgrifenydd wrth ei

glun," fyned trwy yr holl ddinas, a rhoddi nôd ar bob un oedd "yn ocheneidio ac yn gwaeddi am y ffeidd-dra oll a wnelid yn ei chanol hi;" ac yna efe a archai iddynt ofalu na chyffyrddent â neb oedd dan y nôd. Ac yn y distryw mawr cyffredinol a fydd yn niwedd y byd hwn, pan y bydd y "nefoedd yn myned heibio gyda thwrf, y defnyddiau gan wir wres yn toddi, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynnddi yn llosgi," a'r holl annuwiolion yn cael eu rhoddi dan gosbedigaeth dragywyddol, fe fydd y plant yn ddiogel y pryd hyny; byddant oll ar ei ddehenlaw ef o gyrhaedd perygl; cânt godi eu penau mewn tangnefedd; bydd y dydd hwnw yn ddydd o ymwared iddynt eddi wrth bob gofid a phoen; cânt fyned i mewn i lawenydd eu Harglwydd.

V. Teulu a fydd gyda'u gilydd yn dragywyddol ydyw teulu Duw.

Y mae angeu yn rhwygo y teulnoedd mwyaf cysurus yn ein byd ni, gan ddattod y berthynas agos sydd rhwng y gŵr a'r wraig, y rhieni a'r plant. Yr ydym wedi bod yn ymweled â llawer teulu cysurus, lle y cawsom olygfa hapus iawn; gŵr a gwraig yn iach, saith neu wyth o blant yn eistedd yn siiriol o amgylch y bwrdd, a'r tad yn tori eu hymborth iddynt, a'r cwbl yn ymddangos yn ymhyfrydu yn eu gilydd: ni ddichon natur ei hunan ddangos golygfa fwy prydferth na hon, ac y mae holl gelfyddyd dynion yn analluog i'w dynwared i berffeithrwydd. Ond, wrth ymweled â'r teulu hwnw yn mhen ychydig flynyddoedd wed'yn, yr oedd yr olygfa yn annhraethol wahanol; yr oedd y gadair fawr yn wâg—y penteulu wedi myned i ffordd yr holl ddaear—y wraig yn weddw, a'r plant yn amddifaid; tristwch a gofid i'w weled ar bob wyneb. Ond am deulu Duw, ni welir y gadair fawr byth yn wâg yno: y mae y Tad yn byw uwchlaw marw—Tad sydd wedi tyngu y bydd efe byw yn oes oesoedd—Tad sydd yn meddu bywyd ynddo ei hun; a'r hwn y mae ei orseddfainge yn orseddfainge dragywyddol, gan fod anfarwoldeb yn briodoledd yn ei natur.

Gwelsom unwaith deulu cysurus, tad a mam, a lliaws o blant yn iach; y lleiaf yn y teulu yn cael sylw pawb, yn ddigrifwch pob llygad yn y teulu; efe, yn ei gadair fach wrth y bwrdd, oedd yn tynu sylw y tad a'r fam, ei frodyr a'i chwiorydd. Digwyddodd i ni fod yn y tŷ hwnw yn mhen ychydig fisoedd drachefn: ond yr oedd yr olygfa yn dra gwahanol: yr oedd angeu wedi gwneuthur rhwygiad mawr yno, yr oedd efe wedi cymmeryd y lleiaf ymaith; yr oedd y gadair fach, cadair Benjamin, yn wâg; ac yr oedd hyny wedi toi prudd-der dros bob wyneb. Ond am deulu Duw, ni welir byth mo hwnw wedi ei fylchio, ni welir byth mo'r lleiaf wedi colli o hono; canys y mae yr holl blant yma yn llaw eu Tad, ac ni ddichon neb eu dwyn

hwynt allan o'i law ef. Gall Tad hollalluog y teulu yma sefyll fyny yn mhen miliynau o oesoedd wedi i'r ddaear a chwbl a fydd ynddi fyned ar dân, a dywedyd, "Wele fi, a'r plant—ni chollais i yr un o honynt!" "Canys y mae yn ddiogel genyf na all nac angeu, nac einioes; nac angylion, na thywysogaethau; na meddiannau, na phethau presennol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd."

Y mae y teulu yma hefyd i fod yn *etifeddion*, ac yn *etifeddion* i *Dduw*: nid i'r hyn a wnaeth Duw, ond iddo ef ei hunan. Y mae ganddynt hawl o Dduw fel eu Tad, ac o'r hyn cll a all efe ei wneyd erddynt: gan hyny, rhaid eu bod yn oludog a dedwydd iawn. Ac y mae yn dda genyf ddyweyd, y mae yn bossibl dyfod i'r teulu yma yn awr; canys y mae yma dŷ yn perthyn i'r teulu ar y ddaear; ac y mae yma etto le. Anwyl enaid! ymofyn am le yn y tŷ: cais dy dderbyn i'r teulu ar frys. Nid oes un angen i ti ddechreu gwrthddadlen, a dyweyd dy fod yn anhailwng, yn dlawd, ac yn noeth; canys y mae yma "bob peth yn barod." Ni raid i ti anobeithio am dy fod mor aflan; canys y mae yma ffynnon anfeidrol ei rhinwedd, wedi ei hagoryd i bechod ac aſendid. Mewn gair, tyred i mewn fel yr wyt: y mae yma le, y mae y drws yn agored, ac y mae Duw wedi gorchymyn i ni dy gymmheli i ddyfod i fewn, a'th hysbysu fod pob peth yn barod. Pa beth a fynwch chwi yn ychwaneg, anwyl ddynion? Cwmpwch i mewn â chynnyg mawr yr efengyl. A bydded i ni, sydd mewn enw yn perthyn i'r teulu, ofalu am fyw i fyny â'n gwaedoliaeth; bydded yn amlwg yn ein gwedd, a'n dull o fyw, ein bod yn rhan o deulu Duw: a bydded ei nôd ef ar ein talcenau. **AMEN.**

P R E G E T H X.

DUW YN PROFI ABRAHAM.

Genesis xxii. 1, 2.

"Ac wedi y pethau hyn y bu i Dduw brofi Abraham, a dywedyd wrtho, Abraham. Yntau a ddywedodd, Wele fi.

"Yna y dywedodd Duw, Cymmer yr awr hon dy fab, sef dy unig fab Isaac, yr hwn a hoffaist, a dos rhagot i dir Moriah, ac offryma ef yno yn boeth-offrwm ar un o'r mynyddoedd yr hwn a ddywedwyf wrthyt."

YN y bennod hon, y mae genym hanes y profiad tanllyd a wnaeth yr Arglwydd ar ffydd Abraham, trwy orchymyn iddo offrymu Isaac ei fab; ynghyd â'r modd y rhoddodd Abraham y prawf uchaf o'i ffydd trwy ufudd-dod parod ac ewyllysgar i'r gorchymyn anhawdd hwn. Y mae *amser* y profiad hwn yn deilwng o sylw: "*Ac wedi y pethau hyn.*" Y mae genym hanes Abraham mewn profedigaeth danllyd yn y bennod o'r blaen, sef yn diarddel Ismael ei fab, ynghyd â'i fam a'i deulu, ac yn eu troi allan yn grwydriaid i'r anialwch. Nid allasai hyn lai nag archolli yn drwm deimladau tad tyner; yn enwedig wrth ystyried yr annhebygolrwydd mawr oedd yn ymddangos iddo ef y gallai Ismael a'i fam ddyfod o hyd i foddion cynhaliaeth bywyd yn y fath anialwch anghyfanneddol. Ond ar ol i'r brofedigaeth o'r blaen fyned drosto, a chyn iddo ymuniawni yn llwyr oddi tani, wele un arall yn dyfod yn mlaen: "Ac wedi y pethau hyn y bu i Dduw brofi Abraham." Cyn i'w deimladau ymiachau oddi wrth yr archollion a gawsent yn y brofedigaeth o'r blaen, trwy gollu Ismael o'i deulu, wele brofedigaeth newydd yn dyfod i mewn i ail agor yr archollion, a'r hagor yn ddyfnach nag o'r blaen, sef gorchymyn iddo offrymu Isaac. Lle y gwelir:—

1. *Mai byd o brofedigaethau gwastadol ydyw hwn i'r saint.* "Dyn a aned o wraig sydd fyr o ddyddiau a llawn o helbul." Y mae ei holl flynyddoedd a'i holl dyddiau ef wedi eu llenwi at yr ymyl o ofidiau. "Trwy lawer o orthrymderau y mae yn

rhaid myned i mewn i deyrnas Dduw." "Yn y byd gorthrymder" a adawyd i'r saint. Y mae "dyfnder yn galw ar ddyfnder, wrth sŵn pistylloedd Duw:" fel y mae y naill don wrth fyned trosodd yn galw ar y llall i'w dilyn, felly y mae y naill brofedigaeth megys yn galw profedigaeth arall i ddyfod ar ei hol. Pan y byddo un yn myned allan, y mae y llall yn dyfod i mewn, nes gwneuthur oes dyn yn gadwen gyssylltiedig o brofedigaethau diorphwys.

Gan hyny, eich doethineb ydyw rhoddi eich serch ar y pethau sydd uchod, a thrysori eich hapusrwydd yn y nef, gan ochel yn ofalus wneuthur eich cartref yn y byd hwn, ond chwennych yn wastadol gwlad well. Gan mai profedigaethau gwastadol ydyw eich oes fer ar y ddaear, yna os digwydd i chwi gael munyd o esmwythdra, defnyddiwch hi yn ofalus i ymbarotoi at ddioddef y funyd nesaf. Os cewch adeg fer o heddwch, y defnydd priodol i chwi wneyd o honi ydyw ymbarotoi ac ymarfogi i ryfel y funyd nesaf; o blegid nid ydyw y naill frwydr wrth ymadael ond rhoddi lle i'r llall ddyfod ar ei hol. Gan hyny, na ddisgwyliwch esmwythdra yn y byd hwn, ac na addawch i chwi eich hunain orphwysfa ddedwydd y tu yma i'r bedd.

2. *Y mae profedigaethau pobl yr Arglwydd yn dyfod atynt yn fynych mewn dull ac amser annisgwylhadwy.*

"Wedi y pethau hyn." Gallesid meddwl y buasai yn briodol i Abraham y pryd hwn addaw esmwythdra iddo ei hun, gan fod y brofedigaeth o'r blaen wedi myned heibio. Oni buasai yn naturiol iddo ymfendithio ynddo ei hun, gan ddywedyd—"Y gauaf a aeth heibio, y gwlaw a basiodd; bellach y mae yn amser i'r adar ganu?" Ond lle y buasai yn naturiol iddo ddisgwyl amgylchiadau gwell, wele yr holl arwyddion ffafriol i'r disgwyl iad hwnw yn troi allan yn siomedig. "Ac wedi y pethau hyn:" yn lle llonyddwch, "profi" tanllyd sydd arno etto. Byd siomedig iawn ydyw y byd hwn; lle y byddo dynion yn disgwyl am ddaioni, drwg sydd yn dyfod oddi wrth yr Arglwydd. Ac ar yr amgylchiadau ac ar yr amserau y tybia dynion fod hapusrwydd digymmysg yn eu cyfarfod, "drwg" sydd yn dyfod. Y digwyddiadau mewn rhagluniaeth ag y mae dynion yn tybied eu bod yn llwybrau cymmhwys i hapusrwydd ffrydio ar hyd-ddynt yn afonydd llydain i'w rhandir hwy, sydd yn aml yn dyfod yn rhedleoedd afonydd tanllyd o brofedigaethau llosgedig. Pan roddo rhagluniaeth hiliogaeth i ddynion, yn gyffredin disgwylir i hyny fod yn ffordd i gysur digymmysg lifo at y rhieni; ond gwelwn mai i'r gwrthwyneb yr effeithiodd hyny ar achos llawer. "Yn lle heddwch," ceir yn fynych yn y byd hwn "chwerwder chwerw." Pan ddywedo dynion "tangnefedd a diogelwch, yna y mae dinystr disymmwth yn dyfod ar eu gwarthaf."

Gan fod y byd hwn mor siomedig, a'r amgylchiadau sydd yn ymddangos i ni yn ffafriol iawn i'n hapusrwydd mor dwyllodrus, ein doethineb a'n dyledswydd ydyw bwrw angor ein heneidiau yn ddiogel ac yn sicr i gyrhaeddyd "hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen." Rhoddwn ein hyder ar bethau didwyll ac annghyfnewidiol. Un o ddybenion Duw yn goddef i'r bywyd hwn ein siomi a'n twyllo mor fynych, ydyw ein perswadio i "roddi ein serch ar bethau sydd uchod, ac nid ar bethau sydd ar y ddaear."

3. *Y mae profedigaethau y saint yn y byd hwn yn fynych yn myned yn drymach y naill ar ol y llall.*

"Ac wedi y pethau hyn." Yr oedd y brofedigaeth o'r blaen yn drom, ond y mae hon yn drymach. Y mae Abraham yn awr yn disgyn ddyfnach, ddyfnach i'r dyfroedd. Troi Ismael o'r teulu oedd yn wir yn brofedigaeth; ond nid ydyw i'w chymharu â hon—offrymu Isaac. Arweinir ef o brofedigaeth lai i brofedigaeth fwy. Y mae cymmhwysder mawr yn hyn: o blegid y mae y fechan yn foddion i'w addysgu a'i addasu i ddyfod trwy y fawr. Rhaid i ddynion yn gyffredin ddysgu gwneuthur gorchwylion mawr a ehelyd, trwy wneuthur gorchwylion bychain a hawdd yn flaenorol. Felly y daeth enwogion i allu cyflawni gorchestion mawrion yn y celfyddydau—trwy ymarfer yn ddiwyd â dyfod trwy weithredoedd bychain a hawdd. Daeth yr ysgolhaig i ddeall y lliaws o ieithoedd trwy ddechreuad bychan a chyffredin o ddysgu yr egwyddor.

Ni ddichon neb gyflawni gorchestwaith mawr heb ymarferiad blaenorol, ond Duw. *Creodd* Duw bob peth o ddim, heb erioed ymarfer â chreu o'r blaen. Dyma y cynnyg cyntaf iddo; ni bu o'r blaen yn *treio* ei law i wneuthur dim erioed—gweithiodd yn berffaith y waith gyntaf! Nid wyf yn deall pe byddai efe yn creu etto y gallai wneuthur yn well. Ond rhaid i ddyddyn ddysgu gwneyd pethau mawr trwy gynnydd graddol o ddechreuad bychan. Felly mynai Duw addasu Abraham at y gorchestwaith mawr hwn o ufudd-dod i Dduw a phrawf o'i ffydd yntau—sef offrymu Isaac—trwy ei roddi ar orchwyl o ufudd-dod llai a haws dyfod trwyddo, sef troi Ismael allan o'i deulu yn gyntaf. Ymladd â'r llew a'r arth a addasodd lawer ar feddwl Dafydd i ddyfod i'r frwydr fawr â'r cawr nerthol.

Y mae y dyfroedd yma yn dyfnhau yn fawr. Os oedd y brofedigaeth o'r blaen yn cyrhaedd hyd at y fferau, da y gellir galw hon yn ddyfroedd nofiadwy. Gwna Duw i'r ffwrn gynnyddu yn boethach, boethach, hyd oni byddo yn gymmhws y effeithio ei dybenion yn llawn. Yr holl ffirwyth ydyw "tynu ymaith y pechod." Dyben Duw yn arwain dynion trwy brofedigaethau aml eu bywyd yw eu paratoi i gyfarfod profedigaeth fawr marwolaeth. Angeu ydyw *brenin* y dychryniadau; cyfarfu llawer

! dychrynfeydd mawrion yn eu bywyd, ond y mae y "brenin" ar ol etto! Y mae y dychryn mwyaf o honynt oll heb eich cyfarfod etto! Dychryn mawr ydoedd edrych ar farwolaeth cyfaill hoff, neu berthynas agos, ond dychryn mwy fydd profi marwolaeth dy hun! Dyben holl brofedigaethau eich bywyd ydyw eich rhybuddio i ymbarotoi i gyfarfod profedigaeth fawr marwolaeth!

PREGETH XI.

ANGOR YR ENAID.

Hebreaid vi. 18, 19.

"Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn amhossibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'u blaen."
 "Yr hwn sydd genym ni megys angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen."

Y MAE yn briodol galw dyn ar ryw gyfrif yn greadur gobaith. Y mae *gobeithio* dynion yn cael effaith fawr ar eu dedwyddwch yn y byd. Y mae y saint yn gallu gorfoleddu mewn gorthrymderau "dan obaith gogoniant Duw." Er na bydd dim yn eu hamgylchiadau presennol yn gysurus, y maent yn gallu dioddef pob adfyd "dan obaith gogoniant Duw" mewn byd arall. Y mae hyny yn rhoddi modd iddynt i orfoleddu mewn gorthrymderau. Ar y gobaith hwn y maent yn byw. Y mae *gobeithio* dynion hefyd yn effcithio llawer ar eu hymdrechion yn y byd. Y mae rhyw obaith wrth wraidd pob ymdrech yn mhlith plant dynion. Pob anturiaeth fawr—y mae rhyw obaith wrth ei gwraidd; y mae y dyn yn gobeithio cyrhaedd rhywbeth y mae yn ei gyfrif o werth. Felly y mae y byd yma yn cyfodi dynion i ymdrechu: gosod gobaith y mae o'u blaen—addaw cyfoeth, neu addaw rhyw fantais. Y mae yn cyfiêu gobaith ger bron y meddwl. Y mae y dyn wedi gosod ei feddwl ar rywbeth y mae yn ei gyfrif yn werthfawr; y mae yn tybied fod rhyw bwysigrwydd iddo ei gyrhaedd, ac y mae yn *gobeithio* y bydd iddo ei gyrhaedd trwy ymdrechu. Oddi ar hyn y mae holl ymdrechion y byd yn cyfodi. Rhywbeth fel hyn sydd yn rhoddi bywyd yn holl fasnach y byd—yn cadw plant dynion ar eu hegri. Y mae rhyw obaith lle bynag y gwelir ymdrech. Pe y cymmerid ymaith o feddyliau dynion yr holl obeithion y maent yn eu colledu, fe syrthiai y byd i farweidd-dra mewn moment. Rhywbeth fel hyn sydd yn cynnyrchu holl ymdrechion bydol dynolryw

—gobeithio cael meddiannu rhywbeth y maent yn ei gyfrif yn werthfawr.

Fel hyn y mae yr efengyl hefyd yn codi dynion i ymdrech crefyddol—gosod gobaith mawr y mae hi o flaen dynion, a gobaith anfeidrol ei werth. Lawn y gwyddai Duw pa fodd i drin ein natur ni, gan mai efe a'i gwnaeth. Gwyddai mai dyna y ffordd i'n codi i ymdrechu—gosod gobaith o'n blaen. Felly y mae yr efengyl wedi gwneyd. Y mae rhagoriaethau lawer yn perthyn i obaith yr efengyl ar bob gobaith arall. Nis gallaf fod yn sicr pa un o ddau olygiad sydd yn esboniad ar y testyn. Hen esboniad fyddem yn ei gael oedd, fod y gair "ffoi" yn cyfeirio at waith y llofrudd yn ffoi i'r noddfa. Byddai yn ffoi i'r ddinas noddfa oddi ar yr ystyriaeth mai yno yr oedd ei obaith. Ffoai i'r noddfa: cymmerai afael mewn gobaith. Ac hefyd, fod y gair "angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen," yn cyfeirio at angor llong. Yr angor yw diogelydd y llong. Ar ddydd yr ystorm y mae yn gwneyd hyny trwy gymmeryd gafael mewn rhywbeth o'r golwg. Y mae esboniad arall wedi ei gynnyg; sef, fod yma gyfeiriad at gareg sylfaen teml Solomon, conglaen y deml, y brif gareg sylfaen. Careg fawr oedd hon, ac y mae yn debyg fod rhyw gerfiadau wedi eu tori arni. Fe fu chwilio mawr am dani wrth adeiladu teml Zorobabel. Yr oedd yr hen bobl yn gwybod ei bod yn bod. Gallai ei bod o'r golwg pan yr oeddynt yn dechreu adeiladu y deml, o dan adfeilion y pridd a'r ceryg. Wrth hir chwilio, fe gaed gafael arni, ac yr oeddynt yn falch anghyffredin. Tybia rhai mai gyda golwg ar hon y llefara yr Arglwydd trwy y prophwyd, "Canys wele, y gareg a roddais ger bron Josuah; ar un gareg y bydd saith o lygaid: wele fi yn naddu ei naddiad hi, medd Arglwydd y lluoedd, a mi a symmudaf ymaith anwiredd y tir hwnw mewn un diwrnod" (*Zech.* iii. 9). Gosodwyd hi yn gareg sylfaen i deml Zorobabel; fe fu math o gyssegriad iddi. Cafwyd hi wedi hyny i mewn i deml Herod, ac fe'i gosodwyd hi yno yn sylfaen a chonglaen i'r cyssegr sancteiddiolaf. Yr oedd yn gareg mor fawr fel yr oedd yn cyrhaeddyd trwy y mur at yr hyn oedd o'r tu fewn i'r llen. Y mae rhai yn dyweyd fod rhyw hanes fel yna yn wir. Ni wn i ddim: os gwir ydyw, gallai fod yr apostol yn cyfeirio at hyny. Ond y mae hyn yn wirionedd pur amlwg, fod gobaith wedi ei osod o flaen pechadur yn yr efengyl. Ni a geisiwn edrych ychydig ar y mater yma.

I. Y mae "gobaith" wedi ei osod o'n blaen yn yr efengyl.

II. Y mae yn angenrheidiol i bechaduriaid "ffoi, i gymmeryd gafael" ynddo, a'i feddiannu—i'w droi yn eiddo iddynt eu hunain. Y mae hyny yn waith sydd yn gofyn ymdrech mawr o'th du di!

III. *Y mae y gobaith hwn i'r rhai sydd wedi ffoi yn atteb dyben rhagorol; y mae megys "angor yr enaid"—yn ddiogel yn yr harbwr. Y mae yn ymallyd mewn pethau cryfion—pethau nad oes siomi yn perthyn iddynt.*

I. *Y mae "gobaith" wedi ei osod o'n blaen yn yr efengyl—o flaen pawb.*

Nid wyf yn meddwl wrth ddyweyd hyn fod pob un yn meddu gobaith da trwy ras—y saint biau hwnw. Y mae hwnw yn sicrhau ei berchen i fywyd, ac yn cyfodi ei berchen i fyw yn dduwiol. Y mae yn cynnyrchu sancteiddrwydd. Ond y mae pechaduriaid yn gyffredin yn ein byd ni' mewn stâd o obaith yn wyneb yr efengyl; hyny yw, yr wyt ti mewn amgylchiadau yma ag y mae genyt le i ddisgwyl cael dy achub: y mae genyt le i obeithio cael crefydd. "I'r neb a fyddo yn nghymdeithas y rhai byw oll, y mae gobaith," ac y mae y gobaith hwn o werth mawr. Hyny o le y mae y Beibl yn ei roddi i ni i ddisgwyl i'r byd gael ei achub, y mae o werth ammhrisiadwy. Dyma'r gwahaniaeth mawr rhwng sefyllfa dyn colledig ac angel colledig. Y mae y ddau yn garcharorion—y ddau wedi troseddu yr un ddeddf—y ddau wedi haeddu yr un uffern: ond dyma'r gwahaniaeth, y mae yr angylion syrthiedig yn garcharorion anobeithiol. Ni threfnodd Duw iachawdwriaeth ar eu cyfer: ni alwodd efe byth ar neb o honynt: fe'u tafodd dan "gadwynau tywyllwch i farn y dydd mawr." Ni osododd efe sail ger eu bron i ddisgwyl cael eu hachub. Ond bendigedig fyddo Duw! y mae hyn o wahaniaeth rhwng ein hachos ni a'u hachos hwynt—y mae i ni obaith. Yr ydym ni yn garcharorion, mae yn wir; ond "carcharorion gobeithiol." Nid wyf fi am ddiolch fy mod yn bechadur; ond yr wyf am ddiolch, gan mai pechadur ydwyf, mai pechadur o ddyn, ac nid o gythraul, ydwyf. Ni chymmerwn i mo'r ddaear am hyny o ran sydd i mi mewn gobaith. Rhaid ein galw, tra allan o uffern, yn "garcharorion gobeithiol." Y mae "Cyfryngwr rhwng Duw a dynion." Y mae galwad yr efengyl ar ol pechaduriaid. Y mae Duw ei hunan, er gwybod hanes holl drigolion y byd, yn meiddio gwaeddi uwch ben byd colledig—"Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber." Y mae gobaith! Bendigedig a fyddo Duw! am ei fod wedi ein gadael mewn sefyllfa o obaith. Mi obeithiaf, gan hyny, nes y câf fy hunan ar frigau'r fflamau, nes y câf fariau y carchar tragwyddol wedi eu bolltio i'm herbyn!

Un o ddybenion yr Arglwydd yn cyhoeddi ei drugaredd gynt mor helaeth wrth Moses oedd dangos fod gobaith: "Jehofah, Jehofah, y Duw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i lid ac aml o drugaredd." Y mae yn debyg mai un amcan i hyn yna oedd,

gosod gobaith o flaen y genedl. Fe agorodd ei drugaredd o'u blaen, i roddi lle iddynt ddisgwyl am dani. Pa ham y troes efe ei wyneb at hil Adda gan ddywedyd ei fod yn drugarog, mwy nag at yr angylion syrthiedig? Ni ddywedodd efe erioed felly wrthynt hwy. Fe drodd ei wyneb at bechaduriaid o ddynolryw, ac fe ddywedodd fod trugaredd fel y môr yn ei natur. Beth oedd dyben hyny, ond fy hudo i ddisgwyl ei chael! "Mor werthfawr yw dy drugaredd, O Arglwydd! am hyny yr ymddiried meibion dynion dan gysgod dy adenydd." 'Pe buasit yn peidio dyweyd dy fod yn drugarog, ti gawset lonydd am byth. Ni ddaethai neb byth atat i ofyn trugaredd. Ond wedi i ti amlygu hyny, ni a fyddwn yma yn ddibaid yn ymguddio dan gysgod dy adenydd. Ni chai di lonydd byth! Fe fydd yna rywun yn gwaeddi, 'Maddeu! Maddeu!' yn ddi-dor.' Ac os câf fi ef yn Dduw trugarog, mi wnaf y tro. Yr wyf yn gwybod ei fod yn medru cryn lawer; ac os caf drugaredd i lywodraethu braich hollalluawgrwydd, yr wyf yn disgwyl rhywbeth gwell na'm damnio! Y cyfammod a gyhoeddodd Duw i Israel gynt—yr oedd addewid y cyfammod yn gosod gobaith o flaen y genedl: yr oedd bygythion y cyfammod yn eu cymmhell i gymmeryd gafael ynddo. Ar Sinai, tra y bu cyfiawnder yn cymmeryd ei wynt ar ganol y bregeth, fe waeddodd trugaredd, 'Paid a'u lladd!'—"Yn gwneuthur trugaredd i fil-oedd." Yr oedd hysbys yn amcan yn mhob prophwydoliaeth am y Messiah—gosod gobaith o flaen pechaduriaid. Yn mrwydr Waterloo, wedi i'n milwyr ni fod yn ymladd yn galed â Ffraingc, tua thri o'r gloch yr oedd Wellington bron ag anobeithio, ac yn disgwyl Prwssia yn barhaus i ddyfod i'w gynnorthwyo. Pan glywodd fod y fyddin hono ger llaw, fe osododd hyny ryw nerth yn ei filwyr—ac ymosodasant gyda grym adnewyddol ar y gelyn nes ennill y frwydr. Felly y byddai yr Arglwydd trwy y prophwydi. Ar adegau isel ar grefydd byddai yn cyhoeddi y Messiah fel ar ddyfod, "Wele y mae efe yn dyfod!" Yr oedd yn bur isel yn amser Esaiah; ac fe gododd Duw y prophwyd hwnw i ddyweyd "Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni"—'Deliwch ati hi dipyn bach!' Rhoddi tipyn o wynt iddynt yr oedd efe trwy hyn: yr oeddynt bron colli eu hanadl yn y frwydr, ond fe gaed adnewyddiad ar grefydd mewn canlyniad i'r hysbysiad yma. Yr oedd yn rhaid i Ioan Fedyddiwr agor rhyw ddrws o obaith yn ei bregethau i'w wrandawyr: "Edifarhewch," meddai, "cans nesaodd teyrnas nefoedd." Ond am Grist, ni bu neb erioed yn agor y drws mor eang ag ef: "Deuwch ataf fi, bawb!" Nid oedd dim yn bossibl fod gwell efengyl na honyna, ac nid oes dim possibl myned dros adnod fel yna yn rhy fynych; nid yw yn edrych ar neb yn rhy ddrwg. Gair o'i enau ef ei hunan ydyw. Y mae efe yn gwybod beth all efe

ei wneyd. Y mae efengyl y Beibl yn un lydan anghyffredin: y mae yn gosod cyfleusdra da i bechadur am ei fywyd. Yr oedd rhyw ddyben fel hyn hefyd i aberth ac iawn y Cyfryngwr: "Yr hwn a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol trwy adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw." "Adgyfodiad Crist oddi wrth y meirw a'n llwyr argyhoeddodd o'i Fessiaeth, a'i ddwyfol anfoniad; ac am hyn yr ydym yn teimlo ein hunain mewn ystâd o obaith. Nid ydym yn ofni na dwfr na thân: y mae Crist fel brenin yn gosod gobaith o'n blaen." Y mae Iesu Grist yn cynnyg ei hunan yn ymherawdwr ar y byd hwn: Y mae yn addaw yn dda. Os caiff lywodraethu ar bob calon, y mae yn addaw gosod y byd mewn gwell sefyllfa—bwrw allan orthrymder a thrais, peri na bydd dysgu rhyfel mwyach. Fe fydd "sancteiddrwydd i'r Arglwydd ar ffrwynau y meirch;" fe fydd "nefoedd newydd a daear newydd" wedi iddo ef gael ei dderbyn yn frenin. A oes yma neb a rydd *vote* iddo? O Iesu Mawr! tra byddi di yn frenin, yr wyf yn disgwyl cael byw! Nid ydyw yn ceisio dim ond ein hapusrwydd.

II. *Y mae yn angrheidiol i ninnau "gymmeryd gafael" yn y gobaith hwn.*

Y mae "ffoi" yn angrheidiol i "gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen."

1. Y mae "ffoi" yn arwyddo *perygl*. Y mae pob credadyn yn *ffoi*—ffoi oddi ar argyhoeddiad o berygl. Dyma fel y byddai y llofrudd yn *ffoi*—wedi gweled ei berygl. Yr oedd Lot yn *ffoi* o Sodom oddi ar gredu fod yno berygl. O bob perygl yn nghreadigaeth Duw, perygl yr annuwiol yw y mwyaf! Y mae pob perygl yn syrthio yn ddim yn ymyl hwn. Duw anfeidrol yn ddig wrtho! Cyfraith yr Arglwydd am ei ddryllo, a hono yn gyfraith o dragwyddol barhâd! Y mae cwmmwl llawn o felldithion dwyfol yn crogi uwch ben iddo! Duw anfeidrol yn parotoi arfau angeuol! Dim ond yr anadl sydd yn ei ffroenau rhyngddo a syrthio i drueni! O bob perygl yn y greadigaeth i gyd, dyma y mwyaf—perygl yr annuwiol. Perygl ag y mae Duw anfeidrol yn gruddfan uwch ei ben—yn gwaeddi "O!" A lle y mae Duw yn teimlo, rhaid fod yno drueni mawr!—Trueni y mae Mab Duw wedi bod yn tywallt dagrau oddi ar feddwl am dano:—Trueni nad oes digon o rym mewn unrhyw iaith i'w ddangos allan. Rhaid cael tragwyddoldeb ar ei hyd i'w egluro. Trueni yr annuwiol—O Dduw! diddyma'r llen! O bob perygl yn yr holl greadigaeth i gyd, hwn yw y mwyaf—perygl yr annuwiol! O! attolygwch ar i Dduw roddi golwg iddo ar y perygl ofnadwy sydd o'i flaen!

2. Y mae y "ffoi" yma yn cynnwys fod rhyw *ddiogelwch* yn rhywle ger llaw—fod rhyw gysgod i ochel y gawod. Y mae

yma fan i ochel. Bendigedig fyddo Duw yn dragywydd am hyny! Y mae yma

“— fan yn ymyl Duwdod
I bechadur wneyd ei nyth.”

Y mae yma gysgod ger llaw yn gyfleus iawn; cysgod cadarn, cryf, o drefniad Duw—cysgod na *chracia* dim mo hono—“cysgod craig fawr.” O Arglwydd! dyro gychwyn ar yr annuwiol i ffoi! Dyma yr adeg i ddiangc. Os ymdroi di ychydig yn hwy, ni bydd y gobaith ddim o’th flaen, ond yn rhywle o’th ol. Os edrychi yn mlaen wedi myned tu hwnt i’r gagendor, nid gobaith fydd. Ond yn rhywle rhyngom ag angeu, er y gall nad oes tair awr o amser hyd hyny, y mae gobaith o’n blaen. Cysgod heddyw! *ffoi! ffoi!*

3. Y mae rhywbeth yn y “ffoi” yma sydd yn gofyn *ymdrech* mawr. Nid rhywbeth a wneir dan hanner cysgu ydyw. Dyn ar ei egni yw dyn yn ffoi. Peth anhawdd yw byw yn dduwiol mewn byd halogedig. Ffordd gyfyng sydd yn arwain i’r bywyd. Ni ennilli di fodfedd tua thir y bywyd ond trwy ymdrech. Rhaid i ti godi llawer croes, dringo llawer rhiw, ymladd & llawer gelyn, dyfod allan o’r byd:—’chai di ddim rhodio yn ol fflasiwn y byd. Rhaid i ti fyned yn erbyn tueddiadau cryfion dy natur dy hun. Rhaid i ti ryfela & galluoedd y tywyllwch—maddeu i elynion—gwneyd da i’r sawl a’th niweidiant—bendithio y rhai a’th feildithiant. *Ffoi* yw byw yn dduwiol; rhaid gwneuthur ymdrech mawr i fyw yn dduwiol. Os cyrhaeddwch adref i dir y bywyd, fe fydd byw yn dduwiol yn hawdd yno. Ni bydd yno yr un groes i’w chodi. Fe fydd y gwynt a’r *tide* yr un ffordd a thi—ffasiwn y wlad yr un fath a thi. Pob awel fydd yn y byd hwnw, fe fydd yn chwythu o blaid dy ddedwyddwch di. Ond rhaid i ti ddal ati i ffoi nes cael gafael. Cymmerwch yr Arglwydd yn Dduw i chwi. Cymmerwch yr Iesu yn Waredwr i chwi. Cymmerwch afael yn ei aberth a’i Lawn fel sylfaen cymmod & Duw. Cymmerwch afael yn llwybrau’r bywyd a’ch holl egni, a chymmerwch afael yn moddion iachawdwriaeth. Felly y mae y bobl fedrus am gasglu cyfoeth yn gwneyd—cymmeryd gafael yn y moddion er sicrhau cyfoeth. Y maent wedi gosod eu meddwl arno, ac felly y maent yn ddiwyd gyda’r moddion mwyaf cyfleus i gael gafael arno. Felly yma: rhaid cymmeryd gafael yn moddion iachawdwriaeth—y moddion i’thsan cteiddio—i’th wneyd yn gymmhws i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Chwilio yr Ysgrythyrau—gweddio mwy na mwy—“dyfal-barhau mewn gweddi”—ymarfer & ordinhâdau crefydd. Rhaid i ti gymmeryd gafael yn y moddion a ordeiniodd Duw i sicrhau meddiant o’r cyfoeth hwn. Gwneyd arddeliad o Fab Duw—cofio am ei angeu—cyfodi y groes beunydd, a myned ar ei ol trwy bob rhwystrau.

III. *Y mae y gobaiith hwn yn ateb dyben mawr i'r rhai sydd wedi ffoi i gymmeryd gafael ynddo:*—"Yr hwn sydd genym ni megys *angor yr enaid*, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen."

Y mae gafael arno yn talu ei ffocdd yn dda: "megys *angor yr enaid*." Y mae yr *angor* yn ateb yn rhagorol yn nydd yr ystorm. Pan fyddo y môr wedi codi yn uchel iawn, a'r ystorm yn curo, nes bod y dwylaw mewn perygl o golli eu heinices, os bydd yr *angor* yn sicr, y maent yn disgwyl y byddant yn ddiogel; eithr os cyll ei afael, y maent yn sicr o golli. Y mae yr *angor* yn diogelu y llong trwy fyned allan o honi. Y mae yn myned i lawr i rywle, nad oes neb yn gwybod yn mha beth y mae yn cydio—o'r golwg y mae yn cymmeryd gafael. Felly *angor* y Cristion. Ond nid i *lawr* y mae efe yn tafu ei *angor*, ond i *fyny*—"hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen;" i'r byd ysbrydol i rywle, i gymmeryd gafael mewn pethau anweledig. Nid oes dim diogel a sicr ar ein daear ni. Ni wiw i ni roi ein hyder ar ei theyrnasoedd, y maent yn ysgogi; ni wiw i chwi roddi eich ymddiried yn ei mynyddoedd, y maent i neidio fel hyrddod; nid ydych i roddi eich hyder ar ei chyfoeth, y mae ganddo ei adenydd. Nid ydyw ordinhadan y nefoedd ddim i'w *trustio*: y maent yn ddiareb yn y Beibl am eu sefydlogrwydd hefyd. Y mae yr hen sêr wedi aros yn eu lle yn hir; ond y mae diwrnod yn dyfod yn yr hwn y mae "y nefoedd i fyned heibio gyda thwrf, a'r defnyddiau gan wir wres i doddi." Os ydych am roddi eich *angor* ar bethau diogel, rhaid ei dafu o'r ddaear "y tu fewn i'r llen." Y mae yno Dduw ag y mae yn perthyn iddo gadernid tragwyddol. Y mae yno Gyfryngwr a erys yr un byth—"Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragwydd." Fe fydd hyny yn symmud tipyn o ofn tragwyddoldeb—y bydd Crist "yr un" yno. Mi wn dipyn am dano fo! Mi gyfarfyddaf â llawer o bethau dyeithr yno. Fe fydd yno bob peth yn bwysig a dyeithr; ond y mae yno Un ag yr wyf yn gwybod dipyn pa fath fydd. Ac y mae ei lywodraeth ef ar yr holl dragwyddoldeb i gyd: "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragwydd." Mi wn innau rywbeth am dano ef. Ni fuasai genym yr un hawl i dafu ein hangor i'r dalaeth hono, oni buasai fod yno "rag-flaenor" wedi myned yno drosom. Fe fuasai cyfiawnder Duw yn ein cadw allan, ac yn cau i'n herbryn. Ond gan fod yno archoffeiriad yn eiriol ger bron Duw trosom ni, beth bynag sydd yno yn wobr ac i fod yn ddefnydd llawenydd a dedwyddwch, fe fydd i ninnau ryw hawl arno, gan fod yno archoffeiriad wedi myned i ymddangos ger bron Duw trosom ni. Pa faint o werth i bechaduriaid y ddaear ydyw fod Cyfryngwr wedi cymmeryd meddiant o nef y nef! Nid oes yno ddim byd yn waharddedig trwy yr holl wlad. Nid oes yno ddim yn rhy werthfawr i'w roi i ti ar gyfrif yr Iawn.

Wel, gadewch i ni dreio, yn wirionedd i, am y gobaith hwn! Gadewch i ni ffoi yn ddioedi i gymmeryd gafael ynddo. Y mae yr un sydd â'i gynnwys allan o'r golwg, hwnt i'r llen, yn y byd tragwyddol. Pwy bynag gaffo hwnw, fe fydd yn ddiwall am dragwyddoldeb. Y mae y Beibl wedi gosod arno yr enw, "bywyd tragwyddol." Ac am a wn i nad dyna yw *goreu* Duw i'w greadur: ac y mae hwn yn cael ei gymmhell arnoch ar yr ammod fod i chwi wneyd ymdrech i'w feddiannu.

P R E G E T H X I I .

CAREDIGRWYDD IEUENGCTID.

Jeremiah ii. 1—3.

"A gair yr Arglwydd a ddaeth ataf fi, gan ddywedyd—
 "Cerdda, a llefa y'nghlustiau Jerusalem, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed yr
 Arglwydd, Cofiais di, caredigrwydd dy ieuengctid a serch dy ddyweddi, pan
 y'm canlynaist yn y diffaethwch, mewn tir ni hauwyd.
 "Israel ydoedd sancteiddrwydd i'r Arglwydd, a blaen-ffrwyth ei gwrd ef :
 pawb oll a'r a'i bwytuo, a bechant ; drwg a ddogwydd iddynt, medd yr
 Arglwydd."

Ni a sylwn ychydig ar y geiriau yn mlaenaf yn eu cyssylltiad
 âg Israel a'r prophwyd.

Yr oedd Duw wedi dangos caredigrwydd mawr i'r genedl
 hon yn foreu—wedi ei dyweddio yn Sinai, ei harwain trwy yr
 anialwch, a' chadw, a chospi pawb a'i drygai; wedi ei neillduo
 i gynnal sancteiddrwydd yn y byd, ac i fod yn flaen-ffrwyth yr
 holl ddaear. Y mae yr Arglwydd yma yn galw ei sylw at y
 pethau mawrion a wnaethai efe erddi. Neu ynte, y mae yn
 adgofio iddi ei rhinweddau gynt, i ddangos iddi yn wyneb hyny
 ei bryntni yn awr. Pa un bynag, yr amcan yw ei hargyhoeddi
 o ddrwg mawr ac anesusodol ei gwrthgiliad, trwy goffau iddi
 ddaioni Duw tuag ati fel cenedl; neu trwy ddangos y manteis-
 ion a gawsai y bobl yma i'w adnabod ef fel yr unig wir Dduw,
 trwy ei wyrthiau a'i waredigaethau, ynghyd â'r breintiau a
 roddasai efe i'w tatau, ac hefyd trwy ffyddlondeb eu hynafiaid,
 a'u henwogrwydd mewn crefydd. Gallai yr Arglwydd gyda
 phriodoldeb mawr ddyweyd y geiriau hyn gyda golwg ar lawer
 o genhedloedd a theuluoedd etto.

I. Y mae i'w gwled yn aml yn y byd genhedloedd a theulu-
 oedd wedi bod mewn oesoedd a aethant heibio yn enwog mewn
 crefydd, yn "sancteiddrwydd i'r Arglwydd, ac yn flaenffrwyth
 ei gwrd ef;" ond yn awr wedi suddo i dywyllwch, cyfeiliornad,
 a phob ffeidd-dra.

Nid ydym yn dyweyd y gall person unigol fod felly. Nid oes y fath beth yn bod ag i saint cywir syrthio i wrthgiliad arosol, nac i gyfeiliornad dinystriol. Nis gellir cyfarch neb yn mysg y tyngwyr, godinebwyr, neu lofruddion, a dyweyd wrtho y gwelwyd ef rywbryd yn "sancteiddrwydd i'r Arglwydd, ac yn flaenffrwyth ei gnwd ef;" o herwydd "y cyfiawn a ddeil ei ffordd." "Gan fod yn hyderus yn hyn, y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynoch waith da, ei orphen hyd ddydd Iesu Grist." "Y dwfr a roddwyf iddo, a fydd ynddo yn fyfnonn o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol." "Mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac allan nid â efe mwyach." "Nis gall neb eu dwyn hwynt allan o law fy Nhad i." Gall y Cristion syrthio i wrthgiliad dros dymmor, fel yr ydym yn gweled yn hanes rhai o dduwion enwocaf y Beibl, megys Pedr, Jonah, Dafydd, Solomon, Noah, Lot, ac Abraham; ond nis gall syrthio i wrthgiliad hollol a thragwyddol.

Dichon fod yma rai, pe mynai Duw gael golwg ar eu crefydd yn ddisglâer, eu ffydd yn gadarn, a'u cariad yn wresog, eu hedifeirwch yn nerthol, a'u gweddiau yn daerion—y byddai yn rhaid iddo edrych yn ol at "garedigrwydd eu hieuengctid." Nid ydynt felly yn awr. Y mae eu "cyssegr yn anrheithiedig," a "phenllwydni wedi ymdaenu" drostynt. Y mae holl gorph crefydd y rhai yna wedi heneiddio, a myned yn fusrrell; y mae lamp Duw bron a diffodd; y mae eu "mwynder" wedi ymado. Os mynai Duw weled dagrau edifeirwch, rhaid iddo edrych draw ugain mlynedd yn ol; nid ydyw hyn y'w gael yn awr. Y mae y dyn wedi coleddu rhyw bechod sydd wedi sychu ei esgyrn; neu wedi segura pryd y dylasai lafurio, a hyn wedi ei ddwyn i dlodi. Gellir gofyn, "Pa fodd y tywyllodd yr aur? y newidiodd yr aur coeth da?" Dyma gwestiwn a ddaw i'n meddwl wrth edrych ar agwedd llawer Cristion: *Galar.* iv. 1, 2, 7, 8. Bu amser arnat na feiddiai y gelyn dy wawdio a'th ddirmygu; safai yr annuwiol draw mewn arswyd, dy sancteiddrwydd a'th zêl a'i brawychai: ond yn awr y mae yn ddigon hyf i'th waradwyddo: *Galar.* ii. 15, 16. Pan lefarai y dyn gynt am bechodau ei gymmydog, yr oedd ei ddychryn yn ymdaenu trwy y gymmydogaeth; ond pan bechodd gyda'r byd neu y cnawd, bu farw: nid oes neb yn gwybod ei fod yn y gymmydogaeth fel sant. Pan adfeiliodd ei burdeb, collodd ei nerth (2 *Sam.* i. 19—21). Mellidithir y fan y safai pan y collodd ei Dduw (*Job.* iii. 4—9, a xii. 5).

Ond y mae cenhedloedd cyfain y bu crefydd yn enwog yn eu mysg yn yr oesoedd o'r blaen, sydd yn awr wedi gwrthod yr Arglwydd; megys yr Iuddewon, yr Arabiaid, y Syriaid, yr Aiphtheid, ac mewn amseroedd diweddar y Ffrangcod a'r Almaeniaid. Edrychwch i Wlad Canaan ddeunaw cant o flynyddoedd

yn ol, cewch weled yno genedl yn sanctaidd i'r Arglwydd: *Galar.* i. 1—7; a ii. 1—9. Jernsalem, lle y tywalltwyd yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost, sydd yn awr yn drigle y twyll Mahometaidd. Bro Judea, lle y teithiodd ac y pregethodd y Gwardwr, sydd bron yn anialwch. Asia Leiaf, lle y bu eglwysi blodeuog, sydd yn domen. Constantinople, lle y bu Chrysostom ac Athanasius; Carthage, lle y llafuriodd yr enwog Awasin, a Milan a Rhufain, ydynt yn awr â'u gogoniant wedi ymadael. Mynyddoedd Judea, lle y safai traed yr efengylwyr, sydd yn awr yn sathrfa i droed yr Arab llygreddig: *Job* xv. 20—30; *Esa.* xiv. 10—20. Gwledydd eang y Cyfandir a gollasant eu purdeb disglair. Pabyddion ac anfyddwyr sydd yn trigo yn anneddau y Waldensiaid; a chablwyr yn ymgasglu lle gynt yr ymgasglai miloedd i addoli Duw. Y dinasoedd mawrion, lle y bu cynnifer a thair ar ddeg o filoedd o gymmunwyr Protestanaidd, sydd yn awr yn gyflawn o dwyll a phob ffeiddra; y tai addoliad, lle y pregethwyd yr efengyl mewn purdeb gynt, sydd yn awr yn lleoedd i wadu Duw a'i Air. Ger llaw y gorwedd llwch hen apostol dan draed anfyddwyr, yr hwn gynt a gasglai yr holl ddinas ynghyd i wrandaw gair y bywyd. Y mae miloedd, wedi gorphwys oddi wrth eu llafur, yn gorwedd yn naear Ffrainge, y rhai a fuont yn ser disglair yn eu dydd: eu llais a ddychrynai yr holl wlad—eu henwau a grëai barchedigaeth mawr—yr oedd eu dyfodiad i gymmydogaeth fel cwm-mwl y boreu. Ond yn awr, y mae y tystion wedi dystewi yn yr holl wlad: y "corn bychan" sydd yn traethu mawrhydri a thwyll yn mhob lle: *Dad.* xiii. 4—8. Priodol iawn a fyddai i ni deimlo a gweddio yn unol â'r ymadroddion a welir yn *Galar.* iv. 1, 2, 7; a v. 17—22.

II. *Y mae daioni yr Arglwydd i'n cenedl yn yr oesoedd o'r blaen yn effeithio ar ein cyfrifoldeb ni; a dylem ei gofio, a meddwl am dano.*

Y mae rhoddiad yr efengyl i'n cenedl yn yr oesoedd pell yn ol, a'i chadwraeth yn ein mysg, ynghyd â'r gwardedigaethau mawrion a gafodd ein hynafiaid yn y wlad hon, yn gosod arnom rwymedigaethau mawr a chyfrifoldeb pwysig. Y mae i Gymru wrthod yr Arglwydd, wedi cael y fath fanteision i'w adnabod, yn bechod anegusodol byth. Y mae eich rhwymau yn cyfatted i'ch manteision. Er mai yr un gyfraith a osododd Duw i bawb, etto nid yw ei throseddu yr un gradd o ddrwg yn mhawb. Y mae yn amlwg yn y gair fod graddau mwy a llai o euogrwydd mewn pechodau; a'r hyn sydd yn cyfansoddi drwg pechod yn fwyaf ydyw ei gyflawni yn wyneb y breintiau mwyaf. Gellid profi hyn trwy lawer o ysgrythyrau:—"Es-mwythach fydd i Tyrus a Sidon yn nydd y farn, nag i chwi."

“A'r gwas hwnw, yr hwn a wybu ewyllys ei arglwydd, ac nid ymbarotôdd, ac ni wnaeth yn ol ei ewyllys ef, a gurir â llawer ffonnod.” “Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod: ond yr awrhon nid oes ganddynt esgus am eu pechod;” *Ezec.* xvi. 48—56; *Mat.* x. 15; a xi. 21—24; *Marc* vi. 11; *Luc* x. 11—16; a xii. 47, 48; *Ioan* xv. 22—24; *Rhuf.* ii. 12—29; 1 *Tim.* i. 13; *Heb.* ii. 3; iv. 1—3; a x. 26—31; 1 *Pedr* ii. 8; 2 *Pedr* ii. 20—22. Bydd gwŷr Ninife yn condemnio anghredinwyr o blith cenedl y Cymry yn y farn. Ni chawsant hwy ond un pregethwr, ac un bregeth, a dim yn hono ond dinystr, a dim ond deugain niwrnod i edifarhau. Esgusodir y morwr am fethu y porthladd wedi colli y cwmpas; ond nid pan y mae pob manteision ganddo i hwylio ei lestr i'r hafan ddynunol. Esgusodir y dall am nad yw yn gweled; ond beth am y dall â llygaid ganddo? Disgwylir i'r tir a gafodd fwyaf o dail ddwyn mwyaf o ffrwyth. Rhaid i'r pagan gilio i wneyd ffordd i'r Cymro basio i'r lle poethaf yn uffern! Ac y mae y cenhedloedd sydd yn hir gamddefnyddio eu manteision crefyddol, o'r diwedd yn pechu eu breintiau ymaith, a chyda hyny yn pechu yr amddiffyn dwyfol ymaith yn y byd hwn. Y cyfnewidiad a'r aflwydd a ddaeth ar y gwledydd sydd wedi gwrthod yr Arglwydd!

III. *Y mae enwogrwydd ein tadau, eu sêl, a'u llafur gydag achos crefydd, yn chwaneagu ein cyfrifoldeb ni.*

Y mae fod y fath lu mawr o ser-disglær wedi bod yn aros mewn ystyr yn ein ffurfafen, i roddi llewyrch i ni, yn effeithio ar ein cyfrifoldeb. Pe buasai Rowlands, Harris, Howells, a John Elias, heb fod yn byw oes mor ddefnyddiol o dy flaen di yn Nghymru, buasai dy bechodau yn llai eu hysgelerder. Y mae goleuni mawr eu gweinidogaeth yn aros ar Gymru etto. Wedi iddynt feirw, y mae yn aros yn neall, barn, a chydwybodau yr oes hon. Y mae yn aros yn meddyliau miloedd. Y mae yn llewyrchu ar eich cydwybodau chwi, yr oes ieuangc. Y mae yn aros yn y corph mawr o foddion cyhoeddus sydd yn cyfranu gwybodaeth grefyddol yn ein gwlad—ac yn y ffurf allanol sydd ar grefydd, hyd yn oed yn y dyddiau hyn. Nid yw llewyrch Whitfield etto wedi diflanu: y mae ei belydrau wedi cyrhaedd i lawr atom ni; y mae ein ffurfafen ni yn yr oes hon yn oleuach o herwydd iddo ef ymddangos ynddi er's cannoedd o flynyddoedd yn ol: er ei fod ef ei hunan er's llawer blwyddyn wedi ei sefydlu mewn ffurfafen uwch, ac yn llewyrchu yn fwy disglær yn y wlad lle ni chyfyd cwmwl i guddio ei ddisgleirdeb byth, y mae wedi gadael goleuni cryf yn Nghymru—goleuni sydd yn gwneuthur dy bechodau yn fwy anesgusodol, yn fwy atgas yn ngolwg Duw, ac yn haeddu mwy cospedigaeth.

Edrychwch ar yr holl offerynau a gyfododd Duw i roddi gwybodaeth iachawdwriaeth i'n cenedl yn y gwahanol oesau a chenedlaethau: nis gellir eu rhifo, nac olrhain holl symmudiadau y goleuni yn ei daith hirfaith a dirgelaidd, o'i dywyniad cyntaf yn Haul y Cyfiawnder hyd ei ddisgleiriad amlwg yn awr drwy yr oes hon o dduwion! Yr oedd y cwbl yn gyfundrefn fawr o foddion wedi eu darparu yn ofalus gan Dduw i roddi cenedl y Cymry yn yr oes hon yn y cyfleusdra mawr hwn i geisio yr iachawdwriaeth a fydd byth. Pa faint a ymfynodd ac a "fanwl-chwiliodd y prophwydi gynt am y gras hwn a ddeuai i chwi, gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dioddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyn. I'r rhai y dadguddiwyd, nad iddynt hwy eu hunain, ond i ni, yr oeddynt yn gweini yn y pethau a fynegwyd yn awr i chwi, gan y rhai a efengylasant i chwi trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn a ddanfonwyd o'r nef; ar yr hyn bethau y mae yr angelion yn chwennychu edrych;" 1 *Pedr* i. 10—12. Cyfyd Duw i'r golwg yn y farn ddiweddaf i'th argyhoeddi o uniondeb dy gosp dragwyddol—cyfyd i'r golwg yr holl foddion a ddefnyddiodd efe yn y byd i'th rybuddio o'th berygl: dwg i'r golwg yr holl offerynau a fu yn wasanaethgar i drosglwyddo i ti oleuni yr efengyl: dengys pa fodd y gwnaeth y gwirionedd ei symmudiadau yn mlaen yn yr holl oesau, a thrwy filiynau o offerynau o wahanol genhedloedd ac oesoedd, a'r modd y treiddiodd trwy rwystrau cryfion nes dy gyrhaedd di!

Y mae yr holl waith a wnaeth Duw trwy ei Ysbryd a'i ragluniaeth i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw i chwi yn fawr anfeidrol, yn ddfwn anolrheinadwy, ac yn fawr anchwiliadwy! Ni lefarodd y prophwydi ddim, ac ni ddioddefodd y merthyron ddim, ac ni wnaeth ac ni ddioddefodd Mab Duw ddim, nad oedd eu heisieu oll i roddi i chwi y wybodaeth hon o iachawdwriaeth. Gweini i chwi yr oedd Abraham pan yn offrymu Isaac, a phan yn dysgu i'w blant gyfammod a ffyrdd yr Arglwydd; Jacob, wrth fendithio ei feibion; Moses a Dafydd, pan yn cyfansoddi eu Salmau; Esay, pan yn sefyll o flaen gorsedd Duw ac yn llewygu, a phan yn prophwydo am y Messiah, llwyddiant yr eglwys, galwad y Cenedloedd, a chosp yr annuwionion; Jeremiah, a'r prophwydi ereill, yr un modd. Dymunai Job i'w eiriau gael eu hysgrifenu "yn y graig dros byth," er mwyn i chwi eu darllen a'u credu. Nid oes genedl ar y ddaear wedi cael breintiau crefyddol uwch na chenedl y Cymry: y mae i chwi etifeddiaeth decach nag un genedl ar gyfandir Ewrop. Y mae eich etifeddiaeth chwi wedi costio yn ddrud i'ch hynafiaid:—y prophwydi, yr apostolion, a'r diwygwyr, a aethant i'r draul o'i phwrcasu i chwi. Costiodd y breintiau hyn yn ddrud

iddynt hwy. Costiodd i lawer o honynt lafur caled, ac i rai eu holl feddiannau, a chostiodd i lawer eu bywydau. Bu cynnal crefydd yn y byd, cadw athrawiaeth yr efengyl yn ei phurdeb, a darparu moddion i'w throsglwyddo i chwi, ac i ennill rhyddid crefyddol y dyddiau hyn, yn waith caled, ac yn anturiaeth gostus iawn i'r oesoedd o'r blaen. Cawsoch chwi ddyfod i mewn i'w llafur hwy; yr ydych yn bwyta bara a hanasant hwy mewn tywydd mawr, ac yn yfed dwfr gloew, iach, o'r pydewau a gloddiasant hwy trwy lafur a thraul dirfawr!

Y mae Prydain a Chymru wedi eu dwyn i'r sefyllfa hon o ran crefydd trwy foddion aneirif, trwy waith oesoedd lawer, trwy chwyldroadau mawrion—rhyfeloedd a gwrthryfeloedd, trwy ysgwyd y nefoedd a'r ddaear, trwy ddarostwng y cedyrn o'u huchelfanau, trwy ymdrech y pulpud a'r argraphwasg, a thrwy ddryllio iau gref gorthrymder a barhaodd yn hir, ac y buasai ein hynafiaid yn gruddfan dani am oesoedd maith. Rhaid i'r meddyg ddwyn y claf dan lawer triniaeth chwerw, a chymmhwyso ato lawer moddion cryf, olynol, y naill ar ol y llall, a'r naill yn ei barotoi i'r llall; rhaid ei gadw yn hir dan driniaethau gwahanol cyn adferu y cyfansoddiad i iechyd. Y mae yr afiechyd, weithiau, yn lle gadael y cyfansoddiad, yn newid ei sefyllfa; neu os caur ef allan yn lân, cais sefydlu un arall yn ei log—un o'i hiliogaeth; a rhaid i'r meddyg wyllo ei holl ysgogiadau, a newid ei foddion i'w gyfarfod yn gyfaddas. Felly y gwnaeth Duw trwy ei ragluniaeth a'i Air tuag at ein cenedl i'w dwyn i'r sefyllfa hon o ran ei syniadau crefyddol. Pe caem olwg ar yr holl foddion a fu yn wasanaethgar i ddwyn ein cenedl i'r sefyllfa hon o ran iechyd moesol—pe caent eu cyfleu ger bron ein llygaid, rhyfeddem yn fawr at eu hamledd a'u hamrywiaeth, a'u pellder, lawer o honynt, o ran amser a lle. Dichon y gwelech, yn eu mysg, ryw bethau a wnaeth Abraham a Moses! Rhyfeddech fod yma rai pethau mor ofnadwy—pethau na buasech yn eu disgwyl—yn atabiad i weddian; megys, rhyfel a chwyldroadau mawrion. Rhyfeddech weled rhai pethau mor ddrwg yn eu mysg, megys gweithredoedd a gyrfa y dyn drygionus hwnw, Harri VIII.! Rhyfeddech weled rhai pethau mor fychain yn eu mysg:—dacw John Wickliff, seren-ddydd y diwygiad: y meddwl a'r syniad cyntaf oll a ymddangosodd ynddo i roddi cychwyniad i'r diwygiad mawr rhag llaw, oedd y dylai pob dyn farnu drosto ei hun, a chwilio am y gwirionedd drosto ei hun, ac annogai ereill i hyny oedd yn cymeryd eu rhwymo gan ragfarn a choelgrefydd. John Huss: trwy ddarllen gwaith Wickliff y cafodd efe ei oleuo. Luther: mellten a'i dychrynodd yn y dechreu, trwy ladd cyfaill iddo yn ei ymyl; syrthiodd i drallod, ac aeth yn fynach, a chafodd gynghor gan ŵr cyfrifol a doeth i chwilio ei Feibl. Marwolaeth

ei dad a effeithiodd ar feddwl Howell Harris, a chlywed gweinidog y plwyf yn annog i dderbyn y sacrament yn ddigon cyfeiriornus, ac yn dyweyd, "os nad oeddynt yn gymmhwys i ddyfod i'r sacrament, nad oeddynt yn gymmhwys i ddyfod i'r eglwys." Rowlands: gwrandaw Griffith Jones, Llanddowror, yn gweddio drosto ar ganol ei bregeth a'i deffroes ef. Cyngorion ei fam a fu yn fendithiol i Peter Williams. Pregeth John Wesley a argyhoeddodd George Whitfield. Darllen llyfr bychan o waith Bradwardine a olenodd feddwl Dr. Wickliff; a darllen gwaith Wickliff a fu yn foddion i oleno Huss a Jerome.

Daeth dyfroedd gloew efengyl gras i lawr atom ni, genedl y Cymry, wedi rhedeg yn hir ar hyd gwastadedd maith. Daethant trwy rwystrau mawrion; ymdrechwyd llawer i'w hattal. Bu ymherawdwy'r a brenhinoedd yn ceisio attal eu rhediad: arferasant holl nerth a doethineb y byd hwn yn eu herbyn; ac weithian, gallasech feddwl eu bod wedi llwyddo; gellid tybied fod y môr wedi cilio, a'r Iorddonen fawr wedi troi yn ol: llosgwyd, lawer gwaith, yr holl Feiblan oedd i'w cael; lladdwyd y tystion fel nad oedd neb yn aros yn y golwg—yr oedd y firwd yn ymddangos wedi ei gorchfygu. Ond ni wnaeth yr attalfeydd ar ei llwybr ond peri iddi gyfeirio i ryw ffordd arall. Nid oedd yr orseddfainge yn attal. Gan hyny, yn ngwyneb pob attaliad, nid oedd ond yn llenwi ac yn dyfnhau yn ol, ac yn ennill mwy o nerth i dori dros y rhwystrau oll. Nid oedd modd llethu egwyddorion tragwyddoldeb. Ni chaiff glaswellt amser aflonyddu ar y creigiau oesol, a'u symmud oddi ar eu sylfeini. Gwneir cenedl yr oes hon yn gyfrifol am yr holl foddion a'r daioni a wnaeth Duw i'w tadan, i'w dwyn hwynt i feddiannu y manteision mawrion hyn: *Ezec. xvi.*

I argyhoeddi cenedl Israel o fawr ddrwg eu pechodan, y mae yr Arglwydd yn edliw iddynt amledd y moddion oedd wedi eu defnyddio tuag atynt: *Salm lxxviii.* "O'r dydd y daeth eich tadan chwi allan o wlad yr Aipht hyd y dydd hwn, mi a ddanfonais atoch fy holl wasanaethwyr y prophwydi, bob dydd gan foreu-godi, ac anfon: er hyny, ni wrandawsant arnaf fi, ac ni ostyngasant eu clust, eithr caledasant eu gwarau; gwnaethant yn waeth na'u tadan;" *Ier. vii. 25, 26; a xxv. 4; 2 Cron. xxxvi. 15; Neh. ix. 30.* Gwna Duw hwy yn gyfrifol am y rhybuddion a'r goleuni a roddodd efe iddynt trwy brophwydi yr oesoedd o'r blaen. Y mae yr holl foddion trwy ba rai y cawsant eu rhybuddio, yr holl brophwydi a hysbysodd iddynt eu perygl, pa le bynag yr oeddynt yn byw, a pha bryd bynag, yn effeithio ar eu cyfrifoldeb: caiff y cwbl eu hystyried wrth fesur iddynt eu cospedigaeth: *Dan. xii. 9—13; Mat. xi. 20—24; a xxi. 33—38; Heb. i. 1; a xi. 39, 40.* Y mae tad, wrth

geryddu ei fab cyndyn, yn edliw iddo yr holl garedigrwydd a ddangosodd efe tuag ato, a'r holl draul a gymmerodd i roddi addysg iddo, a'i gymmhwyso i alwedigaeth fuddiol: efe a edliwia iddo ei fod wedi ei arwain at y dysgawdwyr goreu, ac wedi prynu iddo waith awdwyr hen a diweddar; ac y disgwyliai fod yr holl fanteision hyn wedi ateb dyben i'w addysgu, ac y rhaid iddo sefyll yn gyfrifol iddo ef am y cwbl. A gallai ddyweyd wrtho, 'I dy addysgu di yr ysgrifennodd yr awdwyr enwog sydd yn eu beddau, Locke, Newton, ac ereill, eu llyfrau gorchestol; a rhaid i mi feio dy anwybodaeth yn gyfartal i'r manteision a roddais i ti.' Y mae yr amaethwr yn bwrw golwg ar yr holl gostau a roddodd y blynyddoedd o'r blaen ar y tir, ac yn disgwyl iddo dalu am y cwbl; y mae wedi bod am flynyddoedd yn treulio llawer arno i'w ddwyn i'r sefyllfa y mae ynddi yn awr, ac y mae yn disgwyl ffrwyth y costau hyny oddi wrtho yn ei sefyllfa ddiwygiedig; ac os na chaiff hyny, y mae yn cael ei siomi, ac yn ei roddi i fyny, ac yn attal oddi wrtho y manteision hyny rhag llaw. Felly y mae Duw gyda'i eglwys, neu gyda chenedl wedi ei breintio ganddo yn fawr: *Esa. v.*; *Heb. vi. 4—8.* Meddyliwch am ffafrau Duw i ni yn neillduol, cenedl y Cymry, drwy yr oesoedd; a'r cwbl wedi cydweithio i ddwyn ein cenedl i'r manteision mawrion hyn:—Dygodd ein cenedl yn foreu i'r ynys hon; yr hon, trwy ei bod wedi ei hamgylchynu â moroedd, a fu i raddau mawr yn foddion i'w diogelu yn yr oesoedd rhyfelgar a ddiddymodd lawer cenedl liosocach—anfon yr efengyl i'n hynafiaid yn yr oes apostolaidd (chwillodd yr efengyl am y Cymry mor gynted ag y cafwyd y canolfur wedi syrthio!)—ei diogelu yn ngwynneb rhyfelgyrch-oedd cenedloedd cryfion am oesoedd maith—gwneyd i'r hen grefydd Dderwyddol fod yn foddion i gadw gradd o ddysgeidiaeth yn ei mysg i'w pharatoi i'r efengyl—cadw Cristionogaeth yn ei mysg trwy yr “oesoedd tywyll” heb lwyr golli—cyfodi diwygwyr, y naill ar ol y llall; Griffith Jones, Rowlands, Harris, &c.—cyfieithu y Beibl i'n hiaith, cyfodi ysgolion Sabbothol i addysgu y werin i ddarllen y gair—cadw y genedl yn yr iaith Gymraeg, a thrwy hyny cadw llyfrau llygredig, oedd wedi dyfetha cenedloedd ereill, allan o'n cyrhaedd. Onid ydym yn cyfateb i'r darluniad a ddyry yr Arglwydd o'i winllan, a'i driniaethau iddi, yn y bummed bennod o *Esaiah*; ac i'r darluniad o fawredd yr Arglwydd yn ei ddinas, a'i fod i'w adnabod yn ei phalasan yn amddiffynfa, a bod ei enw a'i fawl hyd eithafoedd y tir, yn yr wythfed Salm a deugain? Dangosai Moses i genedl Israel fod daioni yr Arglwydd tuag at y genedl wedi cymmeryd taith hir, a bod darparu at hyn er's oesoedd yn ol, a'i fod yn effeithio ar gyfrifoldeb yr oes hon: *Deut. xxxii. 7—14*; *Ios. xxiv.* Felly gyda ninnau.

IV. Cenhedloedd a phersonau a gafodd y breintiau mwyaf, ac a brofodd fwyaf o ddarioni yr Arglwydd, ac a syrthiasant i wrthgiliad, ydyw y rhai caletaf eu cydwybodau, a thrymaf eu heuogrwydd, a mwyaf anobeithiol eu cyflwr.

Y mae tueddiadau llygredig dynion, ar ol eu hir gaethiwo (oddi eithr eu diorseddu), yn tori allan gyda mwy o nerth a chynddaredd, fel y ffrwd, wedi ei hattal, yn croni ac yn tori dros y cwbl, ac yn rhedeg gyda mwy o nerth: *Heb.* vi. 4—8; x. 26—29; xii. 15—17; 2 *Pedr* ii. 20—22. Neu, fel dyn mewn anialwch wedi ymadael â'i hen drigfan, ac yn methu cael trigfan well, yn dychwelyd yn ol gyda chwmni o'i gyfeillion: "Pan êl yr ysbryd aflan allan o ddyn, efe a rodia mewn lleoedd sychion, gan geisio gorphwysdra: a phryd na chaffo, efe a ddywed, Mi a ddychwelaf i'm tŷ, o'r lle y daethum allan. A phan ddêl, y mae yn ei gael wedi ei ysgubo a'i drefnu. Yna yr â efe, ac y gymmer ato saith ysbryd ereill gwaeth nag ef ei hun; a hwy a änt i mewn, ac a arosant yno: a diwedd y dyn hwnw fydd gwaeth na'i ddechreuad;" *Luc* xi. 24—26. Yr ystyr yw, fod meddyliau y genedl wedi eu meddiannu gan anffyddiaeth, a bod gwyrthiau Crist yn cario y fath argyhoeddiad i'w cydwybodau nes bwrw allan y tybiau di-dduw dros amser; ond trwy eu bod heb wir ddychweliad, eu bod yn rhoddi lle drachefn i'r hen dybiau; a thrwy benderfynu yn raddol mai twyllwr oedd Crist, y maent yn myned yn saith gryfach eu hangarediniaeth, ac yn saith hyfach yn mhob ffeidd-dra. Yr anffyddiaid mwyaf dy-eithr i'r gwir ydyw y rhai mwyaf gobeithiol. Y rhai a fu unwaith yn parchu y Gair ac yn deall llawer o'r gwirionedd, ond sydd wedi troi i'w wadu a'i gablu, ydyw ei elynion mwyaf ffyrnig a phenderfynol.

Afiechyd, wedi ei arafu a'i attal gan feddyginiaeth dros dymor, oddi eithr iddo gael ei lwyr wellau, a gymmer ail afael: a bydd ei gynnydd, wedi iddo ail dori allan, gyda mwy o nerth a chyflymdra. Bydd y gwlaw, ar ol hir sychder, yn fwy parhaus. Y mae bwystfil wedi ei hir gadwyno yn fwy peryglus os caiff ddyfod yn rhydd. Gallen gymmhwyso y sylw hwn at genhedloedd cyfain. Y cenhedloedd a fu yn fwyaf blodeuog mewn crefydd oesoedd yn ol, wedi iddynt wrthgilio, ydyw y rhai dyfnaf mewn llygredigaeth. Y cenhedloedd yn fuan ar ol y diluw, oedd wedi derbyn gradd o wybodaeth o Dduw oddi wrth Noah, trwy wrthgiliad a suddasant yn fuan i eithafion pob llygredigaeth: *Rhuf.* i. Gellid cyfeirio at rai o genhedloedd Ewrop yn yr oes hon fel engreiffiau o'r gwirionedd hwn. Ac felly y gallwn gyfeirio at liaws o bersonau neillduol adnabyddus i ni yn ein dydd—rhai a brofasant y rhodd nefol, ag ydynt ar ol hyn wedi hynodi eu hunain mewn caledwch. Lle y mae cyfferiau y meddyg yn effeithio i yru yr afiechyd yn ei flaen, y mae

yr afiechyd y pryd hwnw wedi cario buddugoliaeth—ac y mae wedi dyfod i sefyllfa anfeddyginiaethol. Yr efengyl, yr unig feddyginiaeth a ddarparodd Dŵ at gyflwr dyn colledig, sydd i lawer yn arogl marwolaeth. Nid ydyw gwahardd eu pechodau a'u rhybuddio o'u perygl ond yn cynddeiriogi eu chwantau, a'u gyru yn hyfach yn mhob drygioni. Fel hyn y mae cymdeithas dirwest yn effeithio ar rai—y feddyginiaeth i feddwod y wlad. Fel hyn y teimla rhai yn ngwyneb yr ymdrechladau a wneir i wrthweithio ymosodiadau Pabyddiaeth yn y wlad: po fwyaf a ddywedir yn erbyn Babilon, effeithia hyny i beri i lawer nesaau mwy ati ac eiddogedd drosti.

Meddylwch am un collfarnedig yn ei garchar am gablu a difrio ei frenin, ac yn parhau yn llawn gelyniaeth ato; a bod rhyw un o sefyllfa a gwaedoliaeth uchel yn dyfod i mewn i gynnyg iddo bardwn a gollyngdod ar ei edifeirwch—pardwn a gostiodd iddo lafur a phoen fawr a threulfawr; ond bu y gŵr hwn yn alluog i sicrhau gwaredigaeth i'r truan trwy ei awdurdod uchel a'i gymmeradwyaeth gyda'r brenin. Oni chyfrifech y carcharor yn yr amgylchiad yma dan rywmau i weithredu yn y naill ffordd neu y llall—i sicrhau ei waredigaeth neu ei ddinystyr? Os bydd iddo yn awr wrthod y pardwn, y mae yn gwneyd ei gosb yn anocheladwy. Gwna hyny trwy gadarnhau ei ddedfryd, a thrwy chwanegu troseddau yn ei waith yn dirmygu a chablu eilwaith. Cablu yn ngwyneb y fath hynawsedd, y fath ffafir—gosodai yr hynawsedd mawr hwn fwy o bwys yn ei fai, a dangosai y galon yn fwy drygionus. Felly yr ymresyma yr apostol Paul yn *Heb. x. 19—31*:—“Am hyny, frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cyssegr trwy waed Iesu, ar hyd ffordd newydd a bywiol, yr hon a gyssegrodd efe i ni, trwy y llen, sef ei gnawd ef; a bod i ni Offeiriad mawr ar dŷ Dduw; nesawn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau ein calonau oddi wrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corph â dwfr glân. Daliwn gyffes ein gobaith yn ddisigl (canys ffydd-lawr yw yr hwn a addawodd); a chyd-ystyriwn bawb ein gilydd, i ymannog i gariad a gweithredoedd da: heb esgeuluso ein cydgynnulliad ein hunain, megys y mae arfer rhai; ond annog bawb ein gilydd: a hyny yn fwy, o gymmaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesau. Canys os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach; eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynelwyr. Yr un a ddirmygai gyfraith Moses, a fyddai farw heb drugaredd, dan ddau neu dri o dystion: pa faint mwy cospedigaeth (dybygwch chwi) y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fab Duw, ac a farnodd yn arian waed y cyfammod, trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef, ac a ddifenwodd Ysbryd y gras? Canys ny ni a

adwaenom y neb a ddywedodd, Myfi biau dial, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd. A thrachefn, Yr Arglwydd a farna ei bobl. Peth ofnadwy yw syrthio yn nwyllaw y Duw byw." Y mae hyn yn gosod pwys ar eich ymddygiad—y mae "offeirad," y mae "rhyddid;" ac os o'ch gwirfodd y pechwch wedi gwybod hyn, nid oes neb sicrach o gospedigaeth. Y mae gwybodaeth o'r gwirionedd ynddo ei hun yn dda; ond y mae wedi dy roddi di mewn cyfle a gallu i orchfygu amynedd Duw. Y mae yn gosod mwy o bwys yn dy ymddygiad, mwy o ddrwg yn dy bechod, mwy o allu i lygru ereill—y mae yn rhoddi mwy o eiddo Duw dan dy law—y mae yn gosod Crist yn dy gyrhaedd i'w ail groeshoelio a'i osod yn watwar: nid oes mwyach aberth wedi ei adael! Yr oedd aberthau dros rai pechodau dan yr hen gyfundrefn; ond am hwn, nid oes aberth—nid oes cymmod i'w gael oll.

Yr ydwyf yn cynghori cynulleidfa sydd dan gyfrifoldeb mawr—cynulleidfa wedi derbyn breintiau mawr; ysgrifonodd Duw iddi hi "bethau mawrion ei gyfraith"—cynulleidfa y gwnaeth yr Arglwydd garedigrwydd mawr â'u tadau a'u hynafiaid: cofiodd am ein cenedl yn foreu, cymmerodd filoedd o honynt yn rhai sanctaidd iddo ei hun. Y mae yr holl brophwydi a'r apostolion yn eu rhybuddio, a Mab Duw ei hun yn pregethu iddynt, "a Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu trwy arwyddion a rhyfeddodau,.....a doniau yr Ysbryd Glân, yn ol ei ewyllys ei hun." Nid oes na phrophwyd nac apostol wedi ei gadw oddi wrthych chwi. O ieuengoty! pa faint fydd eich cyfrif, os rhaid i chwi ateb am eich holl freintiau? Cawsoch eich geni yn ngwlad yr efengyl, a'ch dysgu yn egwyddorion crefydd oddi ar y bronau. Dechreuodd Ysbryd Duw ymryson â'ch meddyliau yn foreu. Yr oedd rhieni rhai o honoch yn grefyddol: dechreuodd dy fam weddio drosot a'th gyflwyno i Dduw pan y teimlodd fywyd ynot yn ei bru; ac ar ddydd dy enedigaeth, cyflwynodd di i'r Arglwydd mewn gweddi y rhyfeddet pe gwelit hi mewn argraph! Aelodau wedi ca cyssegru yn arfau cyfiawnder i Dduw oedd y dwylaw a'r breichiau fyddai yn dy olchi, yn dy wisgo, dy borthi, a'th goffleidio; gwefus bur i'r Arglwydd oedd hono sydd wedi pydru yn y ddaear a fu lawer gwaith yn dy gusanu di; gallai weithian edrych yn llon yn dy wyneb, a gwenu ar dy bethau plentynaidd; ond nid hir y byddai heb gofio fod genyt enaid i bara byth, a'th fod yn bechadur colledig, a bod o'th flaen demtasiynau cryfion— a diwedd hyn i gyd fyddai dy gyflwyno i Dduw mewn gweddi! Cefais yn foreu ddyysgu darllen geiriau y bywyd; a pha sawl gwas ffyddlawn a anfonodd Duw i'th rybuddio di—rhai o honynt yn fyw, a lliaws wedi marw? Llogodd megin llawer cenad i Grist yn ulw mân yn ymryson â chaledwch rhai o

honoeh; eieh anghrediniaeth a'ch cyndynrwydd a dreuliodd ymaith nerth a bywyd llawer o weision anfonedig Duw; rhybuddiasant chwi o'ch perygl hyd oni thynodd angen hwynt i dir distawrwydd. Ewch a sefwch uwch ben eu heddau; gwrandedwch y llais difrif-ddwys sydd yn dyfod oddi yno, ac yn dywedyd yn eich wynebau:—"O herwydd paham yr ydwyf yn tystio i chwi y dydd heddyw, fy mod i yn lân oddi wrth waed pawb oll; canys nid ymattaliais rhag mynegu i chwi holl gyngor Duw;" *Act. xx. 26, 27.* Y mae rhai a welsoch chwi, ugeiniau o honynt fu yn cario yr arch yn ffyddlawn, wedi eu cymmeryd ymaith i orphwys oddi wrth eu llafur, i roddi lle i chwi osod eich ysgwyddau dani. Y mae milwyr ffyddlawn i Grist yn syrthio yn feirw yn eich ymyl, a'r fyddin yn cael ei bylchio gerllaw i chwi ac yn eich golwg, a disgwylia Duw a dynion i chwi ddyfod yn mlaen i lanw y bwlich. Y mae bugeiliaid y genedl yn meirw, y rhai a fu yn ddiwyd yn arwain y genedl i'r porfeydd gwelltog; onid oes awydd arnoch chwithau i lanw eu lle? i droi y plant yn yr Ysgol Sabbothol i'r borfa dda sydd ar uchel fynyddoedd Israel? O ieuengctyd! ni chewch ddyfod i'r farn eich hunain! daw eich breintiau yno hefyd; daw y pregethwyr fu yn eich rhybuddio yno hefyd; daw eich cyfoedion a'ch cymmydogion yno i fynegu pa un ai bendith ai melldith a fuoch iddynt hwy; a daw eich cydwybodau yno yn effro i addef yr holl fanteision a gawsoch yn y byd hwn i fod yn gadwedig. Gwn fod eich esgusodion genych yn barod: y maent yn rhy liosog i'w hatteb; ofer yw ymresymu â hwynt; y maent yn buddugoliaethu ar y weinidogaeth fwyaf awdurdodol; ac fe allai fod rhai o honoeh, trwy eich esgusion, wedi dystewi eich cydwybodau eich hunain. Nid oes genych ond *un etto* i'w wrthwynebu: os gellwch ei orchfygu *ef*, byddwch yn ddiogel—yr olaf a ddaw i ddadleu â chwi ar y pen hwn, a'r mwyaf galluog; sef, "Duw, barnwr pawb!" Os bwrw efe di yn euog, pwy a'th gyfiawnhâ? O! cwympe wrth ei draed mewn edifeirwch! Y mae modd ganddo i faddeu yn awr!

P R E G E T H X I I I .

G W N E Y D E I N G O R R U .

2 *Pedr* iii. 14.

“O herwydd pa ham, anwylyd, gan eich bod yn disgwyl y pethau hyn, gwnewch eich goreu ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd, yn ddi Frycheulyd, ac yn ddiargyhoedd.”

Yn y bennod hon, y mae yr apostol yn cyffroi meddyliau y Cristionogion gyda golwg ar yr hyn oedd ar ddisgyn ar genedl yr Iuddewon, sef eu gwasgariad, ynghyd â dinystr Jerusalem, a dinasoedd ereill, trwy luoedd y Rhufeiniaid. Y mae yn dangos y byddai i'r farn hono berffeithio y chwyldroad mawr, a dwyn i mewn “nefoedd newydd a daear newydd,” yn y rhai y byddai cyfiawnder yn cartrefu. Rhaid i ni ddeall wrth y “ddaear newydd” rhyw welliant mawr ar y byd yn ei bethau darfod-edig: gwneuthur y byd yn uwch nag erioed o'r blaen mewn cyfoeth, masnach, ac anrhydedd; dwyn ffurflywodraeth uniawn a chyfreithiau cyfiawn i mewn—peth sydd yn gwareiddio cenedloedd anwareiddiedig; codi y cenedloedd hyny sydd wedi bod hyd yma yn greaduriaid heb fod lawer uwch law anifeiliaid i gyfoeth a bri:—“daear newydd.” Pe bai un o honoch chwi yn cael dyfod i weled y byd hwnw, meddyliech eich bod yn canfod byd hollol newydd.

Hwyrach mai diwygiad crefyddol ydym i ddeall wrth “nefoedd newydd.” Llanw y ddaear â gwybodaeth gogoniant yr Arglwydd; Babilon fawr wedi cwmpo; y gau brophwyd wedi ei ddal; un Duw yn cael ei gydnabod gan bob cenedl, a'i enw yn un; “sancteiddrwydd i'r Arglwydd” ar bob peth yn gyffredin—“ar ffirwynau y meirch:” “nefoedd newydd a daear newydd”—diwygiad trwyadl. Yr oedd y farn hon, y cyfeirir ati yma, yn rhyw foddion yn llaw rhagluniaeth Duw i ddwyn y diwygiad hwn yn mlaen: symmud ymaith yr hen oruchwyliaeth i roddi lle i'r newydd—symmud llywodraeth cenedl yr Iuddewon—ysgwyd nefoedd a daear y genedl hono i roddi lle i deyrnas

ddisigl yr efengyl. Y mae yr oruchwyliaeth hon i fod yn foddion i ddwyn y diwygiad hwn yn mlaen. Y mae dylanwadau wedi cael eu gosod mewn ysgogiad y pryd hwnw yn nhrefn rhagluniaeth Duw sydd i ddiweddu mewn rhoddi wyneb newydd i'r byd i gyd. Nid yw yr oruchwyliaeth hon i ymadael â'r byd heb effeithio hyn. Rhaid iddi ateb y dyben hwn.

Y mae yn debyg hefyd fod yr apostol yn edrych ar gyfnewidiad arall mwy pwysig: y mae rhyw feddwl dwbl felly i lawer o ranau o'r Ysgrythyr. Y mae yn debyg pe darllenech *Esa. xxxii.*, y meddyliech am Hezeciah, brenin Judah; y mae yno olwg arno ef; cyfeiria y brophwydoliaeth ato yn amlwg fel gwardwr i'r genedl oddi wrth y gorthrwm yr oedd hi wedi ei ddioddef: ond y mae yn debyg na ddarllenech mo'r bennod drosodd heb i'ch meddyliau redeg lawer gwaith at Wardwr mwy na Hezeciah, a chwi a deimlech na chyflawnid holl ganghenau y brophwydoliaeth heb gymmeryd i mewn y brenin a osododd Duw ar Seion. Drachefn, pe darllenech o *Mat. xxiii.* i *xxv.*, chwi a feddyliech am ddinystr y genedl Iuddewig; ond nid allech lai na meddwl lawer gwaith am farn fwy, ac am ddinystr trymach nag a ddisgynodd y pryd hwnw—y mae yno lawer gair a arweiniai eich meddwl mor bell a brawdle Crist. Felly, pe darllenech y bennod hon, chwi a feddyliech am yr amgylchiad a nodwyd: ond y mae yn debyg hefyd y meddyliech lawer am farn fwy na hon yna: arweinid eich meddyliau, ond odid, tua diwedd y byd hwn, at y farn gyffredinol, a “distryw yr anwir ddynion.”

Y mae yma sôn am losgiad y byd—“y nefoedd yn myned heibio gyda thwrff, a'r defnyddiau gan wir wres yn toddi.” Y mae yn rhaid cymmeryd benthg pethau bychain amser i egluro pethau mawrion tragwyddoldeb i ni. Y mae crefydd yn ennill rhywbeth trwy bob chwyldroad o bwys sydd yn cymmeryd lle yn y byd. Fe ennillodd crefydd rywbeth trwy ddyfroedd y diluw: fe'i gosodwyd mewn gwell amgylchiadau ar ol y diluw na chyn hyny; ac y mae yn debyg mai dyma un o ddybenion mawr y farn hono, nid yn unig cospi drygioni y bobl hyny, ond attal llygredigaeth y genedlaeth cyn y diluw rhag llygru yr oes ganlynol. Fe ennillodd crefydd lawer yn y cyfnewidiadau mawr a gymmerasant le yn niddymiad yr oruchwyliaeth Iuddewig: trwy ymddangosiad Crist yn y cnawd, ei fywyd, ei farwolaeth, a'i esgyniad, fe ddygwyd athrawiaethau crefydd i fwy o eglurdeb nag erioed o'r blaen, ac fe gafodd crefydd ei chynnysgaeddu âg offerynoliaeth fwy effeithiol i anturio ar y byd i gyd. Fe ennilla lawer iawn yn y cyfnewidiad mawr olaf yn niwedd y byd. Y pryd hyny, codir crefydd i ystâd o berffeithrwydd; cegllir yr holl saint ynghyd, a bydd pawb wedi eu perffeithio mewn sancteiddrwydd, yn un frawdol-

iaeth fawr. Fe fydd yn dda genych weled eich gilydd yr adeg hono. Fe ddygir crefydd i'w gwlad ei hunan—fe gaisf anadlu yn ei hawyr ei hunan: fe fydd yno bob awel yn chwythu o blaidd dy ddedwyddwch.

“O herwydd pa ham, anwylyd, gan eich bod yn disgwyl y pethau hyn, gwnewch eich goreu ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd.” Creadur ydyw dyn ag y mae yn perthyn iddo ddisgwyl pethau mawr. Nid yw yn briodol i ddyn gyfyngu ei ofal i'r amser presennol yn unig—y mae yn gweddu iddo edrych yn mlaen. Edrych gyda golwg rhy fyr sydd yn damnio plant dynion: edrych ar bechod yn y pleser, heb edrych arno yn y goep, heb fyned yn mlaen tuag anghau, ac heb edrych yn mlaen pa beth fydd ystâd y gydwybod pan yn sefyll o flaen gorseddfainge Crist. Edrych di yn mlaen: edrych ar bechod yn ei ganlyniadau! Edrych ar grefydd gyda golwg rhy fyr y mae llawer: edrych arni o dan ei gwarth, ac edrych arnynt eu hunain yn gwneuthur rhyw aberthau drosti yn y byd hwn, heb edrych pa beth a fydd hi yn anghau, a pha beth a fydd hi yn y farn a ddaw. Edrych di yn mlaen tua'r byd tragwyddol, ti a deimli eisieu Cyfryngwr cyn myned adref o'r oedfa! Y mae pethau mawr yn ein haros ni! Ein pethau mawr ni, yn mlaen y maent—pethau i'w disgwyl ydynt. Nid adwaenoch chwi etto mo bethau mawr dyn. Y mae pethau mawr a phwysig ac ofnadwy creadur o ddyn i'w disgwyl. Nid ydym wedi dechreu deall pa beth ydyw bod yn greaduriaid cyfrifol i Dduw. Y mae y pethau mawr yn mlaen i gyd. Y mae anghau yn rhywle yn mlaen: y mae “brenin y dychryniadau” yna yn rhywle yn y tywyllwch yn dy aros—ni chyfarfyddaist ti â dim tebyg iddo erioed. Beth bynag oedd y dychryniadau a gyfarfuaist yn dy fywyd, y mae eu *brenin* yn mlaen! Bydded y cyfarfod hwn yn rhyw foddion effeithiol i arwain ein meddyliau i edrych yn mlaen!

Gyda golwg ar fyd arall—byd i'w “ddisgwyl” ydyw. Byd dyeithr iawn yw y byd hwnw—byd anweledig—byd nad oes yma ddim tebyg iddo. Yno y mae dedwyddwch wedi ei berffeithio ar y naill law, a thrueni ar y llaw arall. Yno y deui i adnabod yn iawn y pwys o fod yn ddyn. Y mae pethau mawrion iawn i'w disgwyl. Nid yw ysafnder, diolfalwch, hwyrfrydigrwydd, ac oedi ymofyn am grefydd, yn gymmhwys i bwys ein hachos ni. Sefyll ger bron gorseddfainge Crist—ni welaist ti ddim erioed mor bwysig! Y mae pethau ofnadwy i'w disgwyl! Yr ydym ni ar y ddaear yn annhraethol rhy ddiddym i geisio eu darlunio. Beth fydd edrych ar yr orseddfainge? Beth fydd sefyll yn wyneb y Barnwr? Beth fydd gweled Duw mewn onawd yn egluro ei holl ogoniant? Yr ydym ni yn greaduriaid wedi ein geni i dynged o ddirfawr bwys!

Hefyd: *rhaid* dy "gael" di, dybygwn i. Creadur ydyw dyn ag y mae yn *rhaid* ei gael, ar ol darfod hyn o oes fer. Y mae yn *rhaid* eich cael. Fe gaiff yr anifail huno hŷn dragwyddol ar ol myned i briddellau y ddaear; ond wedi i ni fyned i lawr, rhaid ein cael! Y mae esbonwyr yn dyweyd fod hyn yn cyfeirio at farnwr yn "cael" yr euog ger ei fron yn y llys gwladol—yn y *box* ger ei fron, i farnu ei achos a phenderfynu ei dynged. Yr oedd o'r blaen yn rhydd i redeg o'r naill ddrwg i'r llall; ac yr oedd yn gwneuthur yn hyf gan gyflawni y drygau mwyaf ysgeler, ac yn chwertthin am eu pen gan wneuthur difyrwch o honynt wrth eu hadgofio. Ond o'r diwedd, fe syrthiodd i law y swyddog. Y mae yna dipyn o gyfnewidiad yn cymmeryd lle ar ei feddwl: dacw fe yn cael ei arwain i'r carchar; a rhyw ddiwrnod dacw'r barnwr yn d'od i'r dref—pawb yn gwybod mai y barnwr ydyw, ond nid oes neb yn gwybod yn well na'r bachgen drwg sydd yn y carchar; dacw rywun yn d'od ato ac yn ei wysio i'r llys, gan ei wthio i'r *box*, ac yno gwelwyd ambell fachgen drwg yn dechreu crynu. Beth sydd yn peri iddo grynu? Y barnwr sydd wedi ei gael; nid oes ganddo ddim bellach i feddwl am dano ond beth fydd ei ran oddi wrth y gyfraith. Felly y mae y Beibl yn disgrifio sefyllfa pechaduriaid. Y maent yn awr yn cael dewis eu ffordd; y maent yn cael yr un a fynont, ai y dafarn ai y capel—yr un a fynont, ai cablu ai gweddio; nid oes un orfodaeth arnynt at y naill na'r llall. Ac fe welwyd llawer yn gwneuthur yn hyf iawn ar amynedd Duw. Ond fe welais i lawer un yn syrthio i law y swyddog, a dacw fe yn cael ei gau yn y carchar—ar wely cystudd; ac y mae yn dechreu meddwl beth fydd ei ran: o'r diwedd, fel y mae y cystudd yn myned yn mlaen, y mae yn cael ynddo ei hunan arwyddion angeu. Troi i wneuthur ymholiad manwl drachefn, a gorfod penderfynu fod angeu wedi talu ymweliad âg ef: fe welwyd ambell un yn hanner gwallgof, ac ereill wedi hollol wallgofi. Anwyl bobl! os oes rhywbeth i'w wneuthur tuag at gael tangnefedd mewn amser fel hyn, ni ddylid meddwl fod un drafferth yn ormod er mwyn ei sicrhau.

I. *Rhaid ein "cael" ni gan Dduw.*

1. Rhaid dy "gael" o ran dy berson, o ran dy gorph a'th enaid. Beth fydd yr enaid wrtho ei hunan, ni wn i ddim. Beth yw yr ysbrydion yma, ni wn i ddim. Y mae genyf fi un o honynt fy hun, ond ni wn i ddim beth ydynt wrthynt eu hunain. Ni welais i yr un o honynt erioed. Y mae yr ysbryd wedi bod yn ofalus am lechu yn y corph. O dragwyddoldeb! yr wyt yn ddirgelwch i gyd! Pa mor wyllt a chyflym bynag yw yr ysbryd yma, y mae Duw yn alluog i gyfleu ger ei fron yn sefydlog gynulleidfa o ysbrydion. O Dduw! bydded i ni gael dy gyfarfod mewn tangnefedd!

Rhaid dy "gael" o ran dy gorph. Pa le y bydd dy gorph, pan y daw y barnwr i'w ymofyn, ni wn i ddim; ond rhaid ei gael. Gallai peth o sylwedd dy gorph fod yn nghalon y dderwen yn tyfu, ac fe allai fod rhyw gymmaint yn gwneyd rhan o asgwrn yr anifail sydd yn pori ar y ddôl ger llaw; ond pa mor wasgaredig bynag, ni wna hyny yr un rhwystr i Hollalluogrwydd ddyfod o hyd iddo! Nid adnabu Hollalluogrwydd yr un anhawsder erioed. Yr ydym ni yn gwybod pa beth ydyw anhawsderau, ond y mae Hollalluogrwydd heb adnabod dim o'r fath beth. Pa le bynag y bydd dy lwch, gan fod yn rhaid ei "gael," bydded i'th gorph gael ei gyssegru i wasanaeth Duw fel na byddo raid i ti gywilyddio o herwydd ei weithredoedd!

2. Rhaid dy "gael" o ran dy egwyddor. Y mae llawer o bethau o'th gwmpas yn y byd yma nad ânt gyda thi i dragwyddoldeb; ond am dy egwyddor, ti a geri hono gyda thi i'r byd tragwyddol. Os bydd yna gariad at Dduw, ti a geri ei sylwedd gyda thi i'r byd tragwyddol: "y dwfr a roddwyf fi iddo a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol;" ni orphwys ddim nes myned yn fywyd tragwyddol. Gelyniaeth at Dduw, os hyny fydd dy egwyddor, y mae yn sicr o fod yno. Ni bydd yno ddim i'w gael ond Duw, ac oni elli ymhryfdu yn Nuw ni fedd tragwyddoldeb ddim defnyddiau i'th wneyd yn ddedwydd. Gallai y bydd yr egwyddor rasol yn ymddiosg o'r pethau a'i hamgylchynant yma, fel y pren yn y ganaf yn tafu ymaith ei flodau a'i ddail, ond y mae yn cadw ei ryw: felly y dduwiol anian yn angeu, y mae y rhew mor ofnadwy, a'r gwyntoedd mor gryfion, fel nad oes yna na bloddenyn na deilen i'w weled arno—nid oes yna na "Halleluiah" na "Gogoniant!" i'w glywed; ond y mae yn cadw ei ryw er hyny! a phan elo trwy angeu o dan lewyrchiadau Haul Cyf-iawnder fe ail flodeua gyda mwy o degwch nag erioed!

3. Rhaid dy "gael" hefyd o ran dy fuchedd. Rhaid cael y neillduolion i'r golwg—"pob gweithred," "pob peth dirgel." Y mae un awdwr yn barnu y bydd raid cael beiau y saint, er dangos rhinwedd y gwaed a'u golchodd. Ni wn i ddim a ydyw hyny yn *right*: ond byddai yn well genyf fi, pe cawn fy newis, eu gadael yn nyfnderoedd y môr. Byddai yn llawer gwell genyf fi beidio sôn gair am danynt—dim ond canu am eu golchi; ond os deuant i'r golwg, ni chai di un blinder oddi wrthynt—ti gai ganu byth am eu golchi!

II. *Y ddyledswydd sydd yn cyfodi oddi wrth y gwirionedd hwn*:—"O herwydd pa ham, gan eich bod yn disgwyl y pethau hyn, gwnewch eich goreu ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd." Gan eich bod yn credu fod byd ar ol hwn, gwnewch eich goreu ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd—bydded hyny yn beth penaf eich bywyd.

1. "Gwnewch eich goreu:"—*nid oes dim yn nhrefn Duw yn eich esgusodi chwi i beidio gwneuthur eich goreu.* Nid oes dim yn ei gynghor na'i arfaeth, na dim yn yr lawn ar Galfaria yn esgus rhag hyn. Na: y mae'r cwbl yn cyduno i waeddi arnooh, "Gwnewch eich goreu!" 'Arfaeth Duw?' meddai rhywun: 'os yw Duw wedi arfaethu i mi gael fy achub, mi a eisteddaf i lawr i ddisgwyl hyny.' Onid oedd Duw wedi arfaethu myned âg Israel i Ganaan? etto, fe fu raid iddynt hwy wneuthur eu goreu i fyned yno er hyny—trwy y Môr coch, trwy ganol seirph tanlyd ac ysgorpionau, trwy yr Iorddonen. Er fod yr Arglwydd wedi arfaethu i'r genedl fyned yno, bu raid iddynt wneuthur eu goreu. Felly dithau, fy nghyfaill: os gweli y wlad nefol, ti a'i gweli ar ol gwneuthur dy oren; ac fe fydd yn ddigon rhad er hyny! 'Y mae Crist yn geidwad i mi—yr wyf am adael y gwaith iddo ef,' meddai rywun. Y mae genyf finnau le mawr i Geidwad yn fy nghrefydd—yr wyf yn gadael y "cadw" i gyd iddo: ond rhaid i ni wneyd ein goreu er hyny. Onid oedd y ddinas noddfa yn cadw y llofrudd a elai iddi? Ond ni chadwai hi neb oddi allan, er ei bod yn cadw pawb oedd i mewn: yr oedd yn rhaid rhedeg—ffoi iddi. Y mae Crist yn cadw pawb a gredo, ond y mae pob enaid sydd yn credu yn gwybod pa beth yw gwneyd ei oren.

2. "Gwnewch eich goreu:"—*o blegid ni fedrwyd chwi ddim gwneuthur llawer, er gwneuthur eich goreu.* Ni welaist ti erioed lai a fedri di ei wneuthur. Nid oes genyt ti fawr i gyd o dalentan, nac amser. Wedi i Dduw wneuthur gwaith y greadigaeth heb wneuthur ei oren, fe orphwysodd; ac wedi i Grist orphen gwaith y prynedigaeith fe ddywedodd "Gorphenwyd:" ond am danom ni, ni chyrrhaeddwn ni byth mo'r gair "Gorphenwyd." Fe fydd rhywbeth heb ei orphen, pan y byddwn yn ymadael â'r byd: fe allai fod yna gydwybod heb ei thawelu—ac fe allai fod yna gymmydogion yn byw yn dy ymyl yn debyg i fod yn ol, na rybuddiaist mo honynt o'u perygl erioed.

3. "Gwnewch eich goreu:"—*o blegid er lleied a ellwch ei wneuthur, fe allai nad â hyny ddim yn ofer.* Nid yw y morgrugyn yn gwneuthur llawer, ond y mae yn gwneyd ei oren: ni welwch chwi byth mo hono yn sefyll; y mae yn ddiwyd iawn yn yr haf, a thrwy hyny y mae yn cael digon i fyw arno am y gauaf. Rhyw osgo fechan ddeuai â thi o farwolaeth i fywyd—dim ond tafu dy hunan ar Fab Duw! Gadewch i ni gyflwyno ein hunain i ofal y Ceidwad!

4. "Gwnewch eich goreu:"—*o blegid y mae pawb ag sydd a wnelont â'n hachos ni yn gwneyd eu goreu.* Ar ryw olwg, gellir dyweyd fod Duw wedi gwneyd ei oren—fe ddug allan "gyfoeth ei ddaioni." Y mae y gair yna fel pe bai yn awgrymu nad oedd ganddo ddim yn chwangeg i'w wneuthur. Fe roes ei

unig-anedig Fab i farw drosom. Y mae y Mab, ar ryw olwg, wedi gwneyd ei oreu: "rhoddi ei gorph i'r curwyr, a'i gernau i'r rhai a dynai y blew"—dioddef digofaint ei Dad, a rhoddi ei fywyd yn aberth yn ein lle. Ac y mae Ysbryd Duw yn ymdrechu â'th feddwl yn barhaus. Y mae angelion y nef hefyd ar eu goreu. Y mae y Duw mawr wedi gwneuthur y rhai hyn fel "fflam dân." Y maent yn llawn bywiogrwydd gyda'n hachos ni: nid rhyw ymlusgo yn araf y maent. Na: gwneyd eu goreu. Ac nid cysgu y mae y diafol chwaith, ond gwneyd ei oreu: y mae yn brysur yn "ceisio" y saint i'w "nithio fel gwenith"—"megys llew rhuadwy yn rhodio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyngcu"—y mae yn brysur yn "hau efran," ac yn cipio yr hâd o galonau gwrandawyr yr efengyl, rhag iddynt gredu a bod yn gadwedig.

O Dduw! deffro ninnau! "Gwnewch eich goreu," bobl anwyl, "ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd, yn ddifrych-enlyd ac yn ddiargyhoedd." AMEN.

PREGETH XIV.

DIRMYGU DUW.

Salm x. 13.

"Pa ham y dirmyga yr annuwiol Dduw."

PETH o bwys mawr i bob dyn ydyw ei ymddygiad at Dduw. Ymddygiad dyn tuag at Dduw a brawf beth yw cyflwr dyn ger bron Duw. Ymddygiad dyn tuag at Dduw ydyw gwreiddyn ei ymddygiad at ddynion; agwedd ei feddwl tuag at Dduw sydd yn llywodraethu ei ymddygiad at bawb. Yn ol ymddygiad dyn tuag at Dduw, y bydd Duw yn ymddwyn tuag ato yntau yn y farn; yn ol ei ymddygiad ef tuag at Dduw, y cosbir neu y gwobrwyir ef yn y byd a ddaw. "Na thwyller chwi: ni watorir Duw; canys pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe," yn y byd a ddaw. Y mae dynion yn gyffredin yn gofalu mwy pa fodd yr ymddygant tuag at bawb na thuag at Dduw; ac edifarhant yn rhwyddach o herwydd camymddygiad tuag at ddynion nag am unrhyw gamymddygiad tuag at Dduw.

Y mae ymddygiadau dynion tuag at Dduw yn cael eu dosbarthu i ddau ddosbarth: sef, anrhydeddu Duw, a dirmygu Duw. Y mae holl eiriau, meddyliau, a gweithredoedd dynion yn syrthio i un o'r ddau ddosbarth hyn—naill ai dirmygu, neu anrhydeddu Duw. Nid oes neb yn gweithredu un amser heb fod ei ymddygiadau yn tarddu oddi ar ryw deimlad o ryw fath tuag at Dduw. Y mae holl weithredoedd dyn, naill ai yn ffrwyth cariad, neu yn ffrwyth gelyniaeth tuag ato; naill ai yn wrthryfel yn ei erbyn, neu yn wasanaeth pur a gostyngedig iddo. Y mae yn rhaid fod pob ysgogiad o eiddo pob dyn, naill ai yn ufudd-dod i'r ddeddf, neu yn anufudd-dod iddi. Dwy blaid wrthwynebol, mewn ystyr foesol, ydyw holl ddynolryw—dan lywyddiad dau dywysog gwrthwynebol, ac yn gweithredu wrth reolau gwrthwynebol, a chan gyrchu at ddybenion gwrthwynebol iawn i'w gilydd.

Yr hyn y mae yr annuwiol yn ei wneuthur i Dduw ydyw, ei ddirmygu. Y mae y saint yn syrthio yn achlysurol i agweddau sydd yn ddirmyg ar Dduw; ond nid felly y mae eu hymarweddiad cyffredin. Mewn llawer o bethau y maent yn llithro; ond er hyny, eu hymarweddiad cyffredin ydyw, "rhodio yn ol yr Ysbryd." Ond ymarweddiad cyffredin yr annuwiol ydyw "dirmygu Duw." Gwrthryfel digymmysg yn ei erbyn ydyw ei holl fywyd:—"holl fwriad meddylfryd ei galon sydd yn unig yn ddrygionus bob amser." Nid oes un funyd o'r deugain mlynedd y bu fyw heb fod yn llawn o wrthryfel. Dirmygu Duw y mae yn ei holl feddyliau, ei eiriau, a'i weithredoedd.

Y mae yr Ysbryd Glân yn fynych yn gwasgu pethau pwysig at ystyriaethau dynion trwy eu rhoddi mewn ffurf o gwestiwn o'u blaen: "Pa lesâd i ddyn os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?" "Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymmaint?" "Pa beth fydd diwedd y rhai nid ydynt yn credu i efengyl Duw?" "Pwy a edwyn nerth dy soriant?" Amcan y gofyniadau hyn ydyw galw dynion i ystyried yr amhosiblwydd iddynt ddiangc, &c. Felly yma: gofynir am reswm dros ymddygiad yr annuwiol tuag at Dduw—"Pa ham?" Nid yw Duw yn gorchymyn dim i ddyn heb reswm digonol dros hyny, nac yn gwahardd dim chwaith heb reswm digonol drosto. Y mae gwir grefydd yn rhesymol oll: y mae yn wir fod ynddi bethau uwch law rheswm, ond nid oes ynddi ddim croes i reswm. Nis gallasai rheswm gaël allan y dirgelion mawr a eglurwyd yn yr Ysgrythyrau; ond wedi i Dduw eu hegluro, nid oes dim yn fwy rhesymol nag i ni eu credu. Ni ddylai dyn gyflawni unrhyw weithred, na dyweyd gair, na myfyrio meddwl, heb fod ganddo reswm digonol i'w roddi dros hyny. Y mae pob pechod yn ymddygiad hollol afresymol. Nid ydyw yn rhesymol i ddyn "garu y creadur yn fwy na'r Creawdwr;" nid yw yn rhesymol iddo "redeg yn y gwddf" i'r Hollalluog, casau anfeidrol ddaioni, na gwadu gwybodaeth yr Hollwybodol. Y mae pob pechod yn ymddygiad eithaf afresymol! Rheswm yn cael ei berffeithio a'i iawn arfer ydyw crefydd; ac anwybodaeth yn y galon yn effeithio anhrefn yn yr ymarweddiad ydyw annuwioldeb.

"Pa ham?" Gofynir i bob dyn am reswm dros ei ymddygiad; a'r unig reswm derbynol gyda Duw ydyw, am mai "fel hyn y dywed yr Arglwydd." Y mae y rheswm a ddefnyddiodd ein Hiachawdwr pan yn dyfod i'w fedyddio gan Ioan yn esiampl o'r hyn sydd yn gwir gyflawnhau pob ymddygiad—"fel hyn y mae yn rhaid cyflawni pob cyflawnder." Caiff yr anifail ei oddef i weithredu yn hollol yn ol ei frys, heb achos byth am ofyn, 'Pa ham y gwnaethost fel hyn, neu fel arall?' Ond ni chaiff dyn gyflawni un weithred mewn oes na ofynir iddo gan y Barnwr,

“*pa ham?*” Ni chaiff dyn ddywedyd un gair, na myfyrio un meddwl, na ofynir iddo am y cwbl yn fanwl, ‘Pa ham y gwnaeth-ost fel hyn, ac y dywedaist fel arall?’ Dygir pob dyn dan holiad manwl am ei holl agweddau: gan hyny, da fyddai i’r cwestiwn gael ei wasgu adref yn awr—“Pa ham y dirmyga yr annuwiol Dduw?”

I. Y mae pechod yn cyfeirio yn benaf yn erbyn Duw:—
“*Dirmygu Duw.*”

Y mae pob pechod o duedd naturiol i ddrygu creaduriaid Duw: y mae yn orthrymder ar yr holl greadigaeth yn gyffredinol. Mae rhai pechodau yn gamwedd uniongyrchol yn erbyn dyn; megys anghyfiawnder, lladrad, celwydd, godineb, llofruddiaeth. Mae pechodau ereill a ddrygant ddyinion trwy esiamplau drwg, a thrwy ddwyn barnedigaethau Duw ar y tŷ. Rhaid i’r anifeiliaid ddiodef o herwydd pechodau dynolryw; ocheneidia y creadur (am ddadguddiad meibion Duw): *Rhuf.* viii. 19. Y mae pechod yn drygu y pechadur sydd yn ei gyflawni: “Y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam â’i enaid ei hun.” Ond Duw ydyw prif nod pechod; cyfeirio yn benaf y mae yn erbyn Duw. Natur Duw ydyw y rheol fawr wreiddiol sydd yn penderfynu y gwahaniaeth rhwng da a drwg moesol. Pa beth bynag sydd ynom ni yn anghydweddol â natur Duw, y mae yn ddrwg; a pha agwedd bynag sydd arnom yn gydweddol â natur Duw, y mae yn dda. Nid oes neb wedi adnabod drwg pechod, ond y rhai a argyhoeddwyd o ddrwg mawr ei gyfeiriad atgas yn erbyn Duw. Gallai yr ystyriaeth o niwed pechod a’i ganlyniadau iddo ei hun beri dychryn o’i blegid, a rhyw fath o gasineb ato yn y pechadur; ond argyhoeddiad o’i ddrwg mawr fel y mae yn ddirmyg ar Dduw a effeithia edifeirwch sanctaidd a gwir gasineb ato.

Oddi ar yr ystyriaeth hon yr oedd y Salmydd yn galaru am ei bechod:—“Yn dy erbyn di, tydi dy hunan, y pechais, ac y gwneuthum y drwg hwn yn dy olwg.” Cariad at Dduw ydyw gwreiddyn edifeirwch sanctaidd am bechod: oddi ar fod yr enaid yn caru Duw, y mae yn galaru o herwydd iddo ei ddirmygu yn anghyfiawn. Oni buasai ei fod yn caru Duw, ni buasai y dirmyg a dafodd arno yn ofid iddo—ni buasai yn colli deigr yn byth o herwydd ei ymddygiadan annheilwng tnaag ato. Y mae cariad yn anrhydeddu ei wrthddrych, ac yn eiddgeddu dros ei anrhydedd a’i iawnderan, yn ol ei radd a’i nerth. Cariad at Dduw a eiddgedda dros ogoniant Duw, ac a ofidia am bob dirmyg a roddir arno o fewn ei wybyddiaeth ef, ac a ymofidia ac a alara o herwydd iddo ef ei hun fod yn euog o ddianrhydeddu yr hwn sydd yn awr yn dwyn ei holl galon ef ar ei of; a’r hwn y mae ei ogoniant yn brif ddyben i’w holl ymdrechadau. Y rheswm mawr a ddefnyddir gan y gwir edifeiriol yn erbyn pechod ydyw ei fawr ddrwg yn erbyn Duw! Pan osodir tem-

tasiwn ger ei fron i uurhyw bechod, efe a ymwiaga i fyny yn y fan o fewn y rheswm mawr hwn fel ei gyflawn arfogaeth:—"Pa fodd y gwnaf y mawr ddrwg hwn a pechu yn erbyn Duw?" Fe ymddengys na buasai ganddo reswm yn erbyn cydsynio â'r demtasiwn, oni buasai fod hwn ganddo, "pechu yn erbyn Duw." Crediniaeth o ddrwg pechod yn erbyn Duw ydyw yr unig arfogaeth gymmhws a galluog i wrthsefyll temtasiynau pechod. Dichon i'r ystyriaeth o ganlyniadau pechod effeithio dros amser i orchfygu y demtasiwn, ond ystyriaeth egwan ydyw, a sigledig a hunanol; gan hyny, nis gellir disgwyl iddi barhau yn hir yn y fuddugoliaeth. Yn fynych iawn y mae graslonrwydd Duw i faddeu, a rhinwedd "y gwaed" i lanhan, yn cael eu defnyddio i ladd effaith a grym yr ystyriaeth o ganlyniadau pechod, trwy gael edrych arnynt yn sail digonol i ddisgwyl ymwared oddi wrth ei ganlyniadau ar ol ei gyflawni; ac felly, symmudir ymaith y rhwystr o'r meddwl a gyfodwyd yn unig oddi ar olwg ar ganlyniadau pechod, a gwneir y ffordd yn rhydd drwy hyny i'w gyflawni. Ond lle bydd yr ystyriaeth o ddrwg pechod yn erbyn Duw yn llywodraethu yr ymddygiad, nis gellir cael un ystyriaeth arall digon cryf i ladd gelyniaeth y pechadur at bechod: o blegid y mae cariad at Dduw yn ysgogi yr ymddygiadau bob amser, ac yn eu cyfeirio at ogoniant Duw, ac ni oddef Wyrddod oddi wrth ei ogoniant ef fel y prif ddyben.

Ymddengys fod pechod yn cyfeirio yn erbyn Duw fel llywodraethwr neu ddeddfroddwr. Y rheol ddadguddiedig a osodwyd i ni i bwysu ein gweithredoedd yn ei chlorianau, ac i brofi ein holl agweddau yn ei hwyneb, pa un ai da ai drwg ydynt, ydyw deddf Duw. Y rheol hon sydd yn penderfynu y gwahaniaeth rhwng da a drwg moesol. Anghydfurfiad â'r gyfraith hon yn unig ydyw pechod:—"anghyfraith yw pechod." Y gyfraith ydyw y rheol sydd yn tynnu llinell uniawn ymarweddiad sanctaidd dyn drwy holl amgylchiadau ei fywyd anwadal o'r bru i'r bedd. Cydymffurfiad â'r llinell hon yn unig sydd dda a chymmeradwy ger bron Duw; ac enciliad oddi wrthi, mewn meddwl, gair, neu weithred, sydd bechod; o blegid "anghyfraith yw pechod." Er fod dynion yn dychymmygu ac yn arfer defodau crefyddol o ddyfais ddynol, ac yn tybied fod hyny yn rhyngu bodd Duw; etto, yn gymmaint a bod y defodau hyny heb eu gorchymyn gan Dduw yn ei Air, nid ydyw y cyflawniad o honnynt yn gydymffurfiad â'r gyfraith a osododd Duw: gan hyny, enciliad oddi wrth y rheol ddwyfol ydyw eu dychymmygu ar y cyntaf, a dyna ydyw eu harfer. Y gyfraith a ddefnyddia yr Arglwydd yn foddion i argyhoeddi dyn o'i bechodau; o herwydd y mae y gyfraith yn llinell union wedi ei thynu rhwng da a drwg, yn gwahaniaethu yn gywir rhyngddynt—yn cymmeradwyo y naill, ac yn condemnio y llall. "Nid adnabuswn i bechod ond

wrth y ddeddf; canys nid adnabuaswn i drachwant oni bai ddywedyd o'r ddeddf, Na thrachwanta;" *Rhuf.* vii. 7, 14. Yn yr argyhoeddiad, y mae Ysbryd yr Arglwydd yn dwyn y gorchymyn i mewn yn ei ysbrydolrwydd a'i awdurdod dwyfol i feddwl y pechadur, ac yn dal ei ymarweddiad ac agwedd ei galon i fyny yn wyneb y gyfraith, nes y gwel y pechadur mewn goleu eglur ei anghydfurfiad â'r gyfraith hon, ac y rhaid iddo gondemnio ei hun yn ei hwyneb yn ngeiriau yr apostol: "Canys pechod wedi cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn a'm twyllodd i, a thrwy hyny a'm lladdodd;" *Rhuf.* vii. 11—14. Am fod pechod yn cyfeirio yn erbyn Duw fel llywodraethwr a deddf-rodwr, y mae yn angenrheidiol defnyddio y ddeddf yn rheol i farnu dynion yn y dydd diweddf. Yn ei chlorianau hi y pwysir gweithredoedd, a meddyliau, ac egwyddorion, a dybenion calonau dynion y dydd hwnw. Fel mewn llysoedd daearol, y profir y tyst yn ngwyneb y gyfraith a droseddwyd, ac y rhyddheir y cyfiawn yn ngwyneb y gyfraith, felly yn y farn gyffredinol, profir y naill yn euog yn ngwyneb y gyfraith a droseddwyd ganddo, a'r llall yn gyfiawn yn ngwyneb yr un gyfraith. Gweinyddiad perffaith o'r gyfraith ar yr holl creaduriaid rhesymol, da a drwg, fydd gwaith y dydd hwnw—gadael i baw sefyll neu syrthio yn ei hwyneb yn ol y byddo ei achos yn ymddangos. Yn y byd hwn, nid ydyw y drwg yn cael ei gosbi yn ol y gyfraith ddwyfol, na'r da yn cael ei wobrwyo; ond y dydd hwnw, fe delir i baw yn ol ei weithredcedd; sef, "i'r rhai trwy barhau yn gwneuthur da a geisiant ogoniant ac anrhydedd ac anlygredigaeth, bywyd tragwyddol; eithr i'r rhai sydd gyn-nhenus ac anufudd i'r gwirionedd, eithr yn ufudd i anghyfiawnder, y bydd llid a digofaint;" *Rhuf.* ii. 7, 8.

II. *Ymddygiad pechadur at Dduw ydyw ei "ddirmygu."*—
Edrychwn ar hyn yn gyntaf, yn nacaol:—

1. Nis gellir ei niweidio. Y mae efe uwch law derbyn niwed oddi wrth neb, o herwydd hunan-ymddibynol ydyw: "Os pechi, pa niwed a wnai di iddo ef? ac os cyfiawn fyddi, pa beth y mae efe yn ei gael oddi ar dy law di?" Nid yw ufudd-dod dyn yn chwaneu dim at ei ddedwyddwch, nac anufudd-dod yn ei leihau. Nid ydyw Duw yn ymddibynu am ei ddedwyddwch ar ymddygiadau ei creaduriaid tuag ato, fel y mae ein dedwyddwch ni yn ymddibynu ar ei ymddygiad ef tuag atom ni. Dedwydd ynddo ei hun oedd Duw cyn creu un creadur, a dedwydd a fydd efe pe byddem yn uffern byth. Yr wyf yn addef fod pechod yn amcanu yn erbyn ei ddedwyddwch a'i fywyd: "rhedeg yn y gwddf i Dduw trwy dewdwr torau ei darianau ef" ydyw pechu yn ei erbyn. Ond nid ydyw yr amcan er hyny byth yn cael ei gwblhau; etto nid yw hyny i'w briodoli i egwyddor y gwrthryfelwr, ond yn unig i uchelder anfeidrol ei wrthddrych. Nid

yw y gwrthryfelwr heb ewylls i niweidio Duw, ond y mae heb allu; a dyna pa ham y mae yr amcan heb ei gyrhaedd. Y mae yn iawn i Dduw gopsi dyn yn ol ei amcan. Cospir dyn â marwol-aeth am amcanu lladd: o blegid cyfrifir ef yn llofrudd, er iddo fethu cyrhaedd ei amcan, yn ngwyneb y gyfraith wladol. Felly y mae drwg gwrthryfel dyn yn erbyn Duw i'w fesur wrth yr amcan oedd yn ei ymddygiad ef, ac am hyny y mae yn gyfiawn iddo ei gopsi yn ol ei amcan.

2. Nis gellir chwaith attal neu wrthsefyll trefniadau Duw. Y mae yn wir fod y gwrthryfelwr yn amcanu dyrysu holl drefniadau y Goruchaf, etto y mae yn analluog i gwblhau ei amcan. Hyn yn unig a all yr annuwiol ei gyrhaedd—"dirmygu Duw."

Yn ail, yn gadarnhaol. "Dirmygu" ydyw ymddygiad pechod at Dduw. Y mae yr ymddygiad hwn yn hynod gyflrous ac annioddefol i wrthddrych eiddigeddus dros ei anrhydedd; am hyny cyfieitha rhai y gair hwn yn "gablu," ac ereill "cynnhyrfu Duw." Y mae dyn yn hynod eiddigeddus dros ei anrhydedd ei hun—y mae ei enw yn nes at ei feddwl na'i gyfoeth, ac yn nes at feddwl llawer na'u bywyd. Pa faint o boen ac o draul a gymmer dynion i'r dyben o adeiladu eu hanrhydedd yn uchei? A pha faint o ofid dwys iddynt ydyw tafu sarhâd ar eu hanrhydedd? Ond nid oes neb mor eiddigus dros eu hanrhydedd ag ydyw Duw dros ei ogoniant. Oddi ar eiddigedd dros ei ogoniant y taflodd efe yr angylion syrthiedig o'r nefoedd i gadwynau—y boddodd efe y byd â dwfr—y llosgodd efe Sodom a Gomorrah â thân—y tywalltodd efe ei farnau ar yr Aipht—y dinystriodd efe y genedl Iuddewig—ac y cospodd efe ei Anwyl Fab ei hun yn ein natur ni; ac oddi ar yr un egwyddor hefyd y tywa.lt efe ffioleidiau ei ddigofaint ar y damnedigion am byth yn uffern.

Y mae y dirmyg hwn yn ymddangos yn hynod o annioddefol wrth ystyried—

1. O ba le y mae yn dyfod; sef, oddi wrth yr "annuwiol:" yr hwn sydd mor ddiiddym, mor lygredig, mor ymddibynol ar Dduw, ac mor fyr o gyflawni ei ddyledswyddau tuag ato!

2. Wrth ystyried pa fath ydyw y dirmyg o ran ei natur. Y mae yn ddirmyg cyffredinol ar yr oll o Dduw, yn yr hyn oll ag ydyw, ac yn ngwyneb pob amlygiad a roddodd efe o hono ei hun: ac yn ddirmyg gwirfoddol, heb un achos o du Duw, ond yn tarddu yn gwbl oddi ar elyniaeth calon dyn yn erbyn Duw.

3. Wrth ystyried y darpariaethau mawrion a wnaeth Duw er sicrhau gogoniant iddo ei hun oddi wrth ei holl weithredoedd mewn creadigaeth ac iachawdwriaeth. Ymddengys hwn yn ymddygiad hynod o annheilwng tuag ato hefyd wrth ystyried dau beth neillduol:—Pwy sydd yn cael ei ddirmygu, sef Duw: ac, Eiddigedd Duw dros ei ogoniant. Y mae dirmyg bob amser yn effeithio i gyffroi lliid dynion yn ol graddau yr

eiddigedd a deimlant dros eu hanrhydedd. Ond pwy mor eiddigus dros ei ogoniant a Duw? Er mwyn ei enw y gwnaeth efe bob peth. I'r dyben o wneuthur enw iddo ei hun y creodd efe bob peth, ac y mae yn llywodraethu pob peth; ac i'r dyben hwn y mae yn achub pechaduriaid trwy y Cyfryngwr. Pa faint ydyw eiddigedd Duw dros ei ogoniant? Mesurwch ef wrth yr hyn a wnaeth efe dros ei ogoniant. Pa faint a wnaeth Duw fel Creawdwr, ni wyddom ni; ond gwyddom ei fod wedi gwneyd y cwbl er mwyn ei ogoniant ei hun. Pa mor eang bynag ydyw y greadigaeth, pa faint bynag a wnaeth efe fel llywodraethwr, a pha faint bynag fel achubwr pechaduriaid, y mae y cwbl wedi eu bwriadu i amlygu ei enw gogoneddus ef. Er mwyn ei ogoniant y danfonodd ei Fab i'r byd: danfonwyd ef i'r gwarth, y poen, a'r tlodi, er mwyn ei enw. Pe'r elai dyn i draul i lunio a threfnu cyllun mawreddog a chostus er mwyn sicrhau unrhyw ddyben pwysig, gwrthwynebiad i'r amcan hwnw oddi wrth y rhai a ddylent ei gefnogi a ystyriai efe yn ymddygiad hynod o atgas, a chyffrous, ac effeithiol i beri iddo ymddial. Yn awr, pwy a wnaeth y fath fawr-waith a Duw? Ac efe a wnaeth y cwbl i'r dyben o sicrhau gogoniant iddo ei hun. Ond y mae dyn trwy bechu yn ymdrechu yn erbyn amcan mawr Duw yn ei holl weithredoedd. Gan hyny, y mae ei ymddygiad yn annioddefol i'r eithaf. Fe amlygodd Duw yr eiddigedd mwyaf dros ei ogoniant, yn enwedig yn yr holl gospedigaethau a weinyddwyd ar bechodau dynion a chythreuliaid. Amlygiadau o'i eiddigedd tanllyd ef dros ei ogoniant yw yr holl farnedigaethau a dywalltodd efe yn ei ragluniaeth ar bechodau dynion yn mhob oes, ac yn mhlith pob cenedl o ddynion, ac wedi eu bwriadu fel moddion i argyhoeddi y cenhedloedd o fawr ddrwg y dirmyg a dafasant drwy eu pechodau ar anrhydedd Duw.

Amcan Duw yn cyhoeddi ei gyfraith ar Sinai mewn dull mor ofnadwy a dychrynllyd oedd gosod argraph ar feddyliau y bobl o fawredd ei eiddigedd dros ei ogoniant. Amlygu ei eiddigedd dros ei anrhydedd, a'i lidiawgrwydd angerddol tuag at bechod, oedd un o'i brif ddybenion yn sefydlu y ddefod grefyddol o losgi yr aberthau, ac arogl-darthu, yn mysig y genedl luddewig gynt. Er fod y defodau hyny yn amlygu trefn Duw i fadden iddynt, etto yr oeddynt ar yr un pryd yn argyhoeddi y genedl o'i lidiawgrwydd tuag at bechod, a'i eiddigedd danllyd tros ei ogoniant. Dyben holl fygythion Duw hefyd yw argyhoeddi dyn o'i lidiawgrwydd anghymmodol at bechod. Ond yr amlygiad penaf, rhyfeddaf, a helaethaf o eiddigedd Duw dros ogoniant ei enw ydyw marwolaeth ei Anwyl Fab. Amlygiad ofnadwy o eiddigedd Duw dros ei enw mawr hefyd ydyw cospedigaeth y damnedigion. Nid oes un angenrheidrwydd cadw lliaws aneirif o ddynion ac angylion mewn poenau tragwyddol ond yn unig

i'r dyben o amlygu eiddigedd Duw dros ei ogoniant, a'i lidiawgrwydd anghymmodlawn at bob dirmyg a daifwyd arno. Nid gweithred rwydd ydyw eu cospi, ond gweithrediad barn gyfiawn, er amlygu cadernid diysgog cyfiawnder Duw trwy gospi yr anghyfiawnder a wnaed â'i ogoniant ef. Edrychwch mor fawr a chadarn ydyw yr amlygiad hwn o eiddigedd Duw dros ei anrhydedd. Rhifwch pa nifer sydd yn dioddef—mesurwch ddyfnder a maint eu poenau—ac ystyriwch barhâd eu poenau!

4. Ymddengys hwn yn ymddygiad annioddefol wrth ystyried priodoliaethau y Duw a ddirmygir. Meddyliwch am ei sancteiddrwydd:—y mae anghydfod hanfodol ac angenrheidiol rhwng pechod a sancteiddrwydd. Gwelir hyn yn y saint. Pan ddél gwreichionen o sancteiddrwydd i'r galon, cyfyd rhyfel yn y fan yn erbyn pechod yn y dyn ei hun, ac mewn ereill hefyd; a chan fod gwrthwynebiad i bechod yn y wreichionen sydd yn y credadyn, pa faint mwy yn y môr o sancteiddrwydd yn Nuw, yr hwn sydd "lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg:" ac os yw pechod yn cyffroi ac yn ennyn y wreichionen sydd yn y credadyn, pa faint mwy y sancteiddrwydd diderfyn sydd ynddo ef? Mewn cysylltiad â hyn, ystyriwn hollwybodaeth Duw. Pa mor danlyd bynag y gall sancteiddrwydd y credadyn gyffroi ei deimlad, etto nis gall yn mhellach nag y cyrhaeddo ei wybodaeth: ond y mae y rhan fwyaf o'i bechodau ef ei hun, heb sôn am bechodau pobl ereill, yn guddiedig oddi wrth y credadyn. Ond y mae sancteiddrwydd y Duw mawr nid yn unig yn casau pechod i raddau anfesurool yn ol ei anfeidrol fawredd, ond y mae hefyd wedi ei gysylltu â gwybodaeth berffaith am holl nifer afrifed a drygioni pechodau dynion; yr hyn sydd yn cryfhau ei deimlad yn ei erbyn. Y mae yn ennyn yn yr olwg ar y cwbl ar unwaith. Nid yn unig y mae sancteiddrwydd anfeidrol yn casau pob pechod, ac yn eiddigeddu yn anfeidrol dros ogoniant Duw, ac yn hollwybodol i chwilio allan ac adnabod yn berffaith yr holl sarhâd a roddir arno, ond y mae hollalluogrwydd i'w gysylltu â'r ddau: gan hynny, y mae dial y dirmyg hwn yn hollol alluadwy iddo gyda'r hawsder mwyaf. Nid rhaid iddo ef ddarpar moddion at hynny, na galw am gynghor. Pan y bydd dyn yn dirmygu ei drech, y mae yr ymddygiad yn fwy annioddefol na phe byddai yn dirmygu un analluog i'w amddiffyn ei hun; ond yma, wle'r dyn yn rhedeg yn y gwddf i Dduw, yr hwn sydd yn anfeidrol uwch law pawb, ac yn meddu pob gallu ac awdurdod i wneyd fel y myno â phawb am byth.

5. Yr hyn sydd yn gwneuthur y dirmyg yn fwy annioddefol etto ydyw y ffaith ei fod yn ddirmyg ar gymmwynaswr daionus a thrugarog. Nid dirmygu un sydd yn ddiystyr o hono y mae yr annwiel; ond un a wnaeth ddaioni lawer iddo—un y mae "pob rhoddiad daionus a phob rhodd berffaith" wedi disgyn

oddi wrtho. Wrth gwrs, disgwylir bob amser i fab anrhydeddu ei dad, yn enwedig am mai efe ydyw ei brif gymmwynaswr: "Mab a anrhydedda ei dad; ac os ydwyf fi dad, pa le y mae fy anrhydedd?" Ond yn lle ei anrhydeddu, y mae yr annuwiol yn ei ddirmygu trwy wrthryfela yn ei erbyn: "Megais a meithrinais feibion, a hwy a wrthryfelasant i'm herbyn." I'r dyben o ddangos atgasrwydd ymddygiad y genedl Iuddewig ato ef, a mawr-ddrwg eu hanufudd-dod iddo y mynegir daioni Duw iddynt, a'i gymmwynasau lliosog a gwerthfawr iddynt. Defnyddir cymmwynasau mawrion Duw i'r genedl yn fynych fel rheswm i'w hannog i ufuddhau iddo: "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddug di allan o wlad yr Aipht, o dŷ y caethiwed;" *Exod.* xx. 2. Crybwyllir yma am ddaioni Duw tuag atynt yn eu dwyn allan o wlad yr Aipht fel cymmhelliaid iddynt i ufuddhau i'r gyfraith ag yr oedd efe yn ei rhoddi iddynt.

6. Fe welir atgasrwydd ymddygiad yr annuwiol yn dirmygu Duw hefyd pan yr ystyriwn mai creadur Duw ydyw. Nis gallwn feddwl mai creadur diystyr yn ngolwg yr Anfeidrol ydyw dyn. Na: y mae natur a helaethrwydd y darpariaethau y mae efe wedi eu gwneyd ar ei gyfer yn brawf ei fod yn gwneuthur cyfrif mawr o hono. Nid ydyw Duw byth yn dwyn un creadur i fod heb ddarparu digon yn mlaen llaw ar ei gyfer. Darparodd ffurfafen cyn creu ehediaid; dyfroedd, cyn creu pysg; meusydd, cyn creu anifeiliaid; ond darparodd y ddaear a'i chyflawnder cyn creu dyn—creadur a fwriadwyd i fod yn oruchwyliwr ar y cwbl. Creodd Duw bob peth yn ogoneddus; ond ar law dyn y mae eu defnyddio er gogoniant i Dduw. Gan hynny, y mae dyn, wrth ddirmygu Duw, mewn effaith yn arwain byddin i dafu dirmyg arno.

III. *Pa ham y dirmygir Duw?* Amcan y cwestiwn ydyw argyhoeddi dynion o'r ammhriodoldeb a'r anghyfiawnder o ddirmygu Duw. Cynnorthwyr ni i weled hynny trwy ystyried pwy sydd yn ei ddirmygu—yr annuwiol.

1. Pwy, o ran ei waeledd? Pridd ydyw o ran ei ddefnydd, diddym o ran ei gyfansoddiad neu ei fodolaeth, llygredig o ran ei holl agwedd a'i ymddygiadau, a cholledig o ran ei gyflwr! Pe buasai o ddefnydd uchel a rhagorol, defnydd y gallasai ymfrostio ynddo, buasai yn ymddangos yn weddusach iddo edrych yn ddirmygus ar ereill; o blegid y mae dynion yn gyffredin yn ymfrostio yn eu hynafiaid, eu gwaedoliaeth, ac yn eu henwogrwydd, os bu hynny yn perthyn iddynt. Ond ger bron Duw nid oes gan ddyw un genedl na hynafiaid i ymfrostio ynddynt, heb law y pridd a'r lludw: o blegid o'r pridd y cymmerwyd holl ddynolryw. Gan hynny, gyda golwg ar ei ddefnydd, nid oes ganddo achos i ddirmygu y creadur distadlaf, canys y mae yn gydradd âg ef ei hun—pa faint lai i ddirmygu y Duw anfeid-

rol? Diddym ydyw ar y goreu o ran ei sylwedd. Y mae yn wir ei fod wedi ei addurno yn hardd iawn, ond Duw biau'r clod am hyny, o blegid efe a'i gwnaeth. Ger bron Duw, nid ydyw ond diddym ar y goreu; ie, nid ydyw yr "holl genhedloedd ond fel defnyd o gelwrn," neu fel "brycheuyn" yn ei olwg ef. Pa beth ydyw dyn? Yn iaith y Beibl "gwelltyn," "pryf," "abwydyn," "llai na dim" ac "na gwagedd" ydyw. Er fod pob creadur wedi ei gymmeryd o'r un defnydd, etto y mae rhagoriaethau y naill ar y llall yn cyfreithloni i ni roddi mwy o anrhydedd i'r naill na'r llall; ond mewn cyferbyniad i Dduw, y mae holl ragoriaethau dyn yn diflanu, a'i degwch yn gwywo o'r golwg yn llwyr. Gan hyny, rhagoriaethau sydd yn teilyngu parch; ac anharddwch a distadledd yn haeddu dirmyg. Os cystadleuir dyn â Duw, fe welir mai mawl ac anrhydedd sydd yn gweddu i Dduw, a dirmyg a chywilydd sydd yn gweddu i ddyn. Pan gystadlodd Job ei hun â Duw, ffeiddiai ei hun mewn "llwch a lludw." Pwy sydd yn dirmygu Duw? Dyn: yr hwn sydd lygredig o rran ei agwedd a'i holl ymddygiad. Pan y bydd brycheuyn yn lygad y naill, peth annioddefol ydyw iddo wrandaw ar y llall, yr hwn y bydd trawst yn ei lygad, yn edliw y brycheuyn. Buasai yn llawer haws iddo ddiodef ei ddirmygu gan rywun di-fai. Y mae eisieu ymarweddiad glân i argyhoeddi dyn o'i fai; ond yma, yr ydym yn gweled dyn yn dirmygu Duw—yr halogedig yn dirmygu ac yn beio y Sanctaidd; ie, yr hwn sydd wedi suddo mewn anghyfiawnder perffaith, heb ddim ond anghyfiawnder yn ei holl ymarweddiad, yn dirmygu yr hwn sydd anfeidrol sanctaidd, cyfiawn, a da. Y mae drygioni yn haeddu ei ddirmygu yn mhawb. Y mae y drygionus yn ddirmygus yn ngolwg y rhai a ofnant yr Arglywydd. Y mae yn briodol i'r rhai da ddirmygu y drygionus; ond yma, yr ydym yn gweled y drwg yn dirmygu daioni—ie, anfeidrol ddrwg yn dirmygu anfeidrol ddaioni. Nid oes dim yn fwy gwrthun nag i ddyn euog ddirmygu Duw. Dyn euog yn ngwyneb y gyfraith wladol—fe'i cyfrifir y mwyaf isel mewn trueni a gwaradwydd, a'r mwyaf anghymmhwys i ddirmygu y cyflwr tlotaf ac iselaf yn y wladwriaeth, o blegid nid oes un cyflwr is mewn bod na'i gyflwr ef. Ond dyn, sydd mewn ystyr foesol wedi suddo i drueni anfeidrol fwy, a than warth anhraethol drymach, ac am hyny wedi ei anaddasu ei hun i ddirmygu unrhyw gyflwr na chreadur, o blegid nad oes neb dyfnach mewn gwarth a thrueni nag ef ei hun—etto y mae hwn, y byddai yn falchder ynddo ddirmygu hyd yn oed gwybedyn, yn meiddio dirmygu Duw.

2. Pwy, o ran ei greadigaeth? Dyn: yr hwn a grewyd gan Dduw â'i law ei hun, yn ei ddirmygu! Pe buasai arall yn gyn-northwywr iddo dy greu, ni buasai mor deilwng o glod y gwaith; ond efe â'i law ei hun, heb gymmhorth neb, a'th wnaeth.

Nid arall yn tynu y cynllun, ac yntau yn gweithio; ac nid efe yn tynu y cynllun, ac arall yn ei weithio allan: ond efe a dynodd y cynllun, ac a'i gweithiodd hefyd ei hun heb gynnorthwy neb. Efe a ddychymygodd dy ffurf, ac a ragluniodd dy holl esgyrn, dy holl gymmalau cywrain, dy holl aelodau cymmesur, dy holl ewynau cryffon, dy holl wythienau aneirif; ac efe a weithiodd yn ol y cynllun heb gymmhorth neb, heb esiampl neb, heb gynghor na chyfarwyddyd neb, heb offerynoldeb neb, allan o olwg pawb, yn ddiarwybod i bawb, uwch law gwybodaeth pawb, uwch law gallu pawb—ac nid oes gan bawb ond gwaeddi, wedi iddo dy ddwyn i'r golwg, "Ofnadwy a rhyfedd y'th wnaed!"

Dyn—creadur a grewyd gyda'r fath hawsder mawr—yn dirmygu Duw! Pe buasai wedi arfer ei holl ddoethineb a'i allu arnat, ac wedi bod am amser maith yn dy lunio, ac yn gorfod ail wneyd a diwygio ei waith arnat, gallasit ymfrostio mai eithaf Duw ydwyt; ond creodd di gyda'r hawsder mwyaf, ac mewn ychydig amser: ac yr oedd ganddo nerth a doethineb difesur yn ngweddill. Nid ydyw dyn ond digrifwaith Duw: ni wnaeth ond ei ollwng o'i law er mwyn ei weled. Creodd di yn un o filiynau dirif o fydoedd a chreaduriaid amrywiog a gwasgaredig. Ni bu raid iddo osod ei holl sylw a'i feddwl arnat am foment erioed; ond cei le yn ei sylw yn un o filiynau dirifedi. Creodd di ar ei ddelw ei hun, a gosododd di mewn sefyllfa uchel yn y greadigaeth. Nid ydyw yr holl amrywiaeth mawr o elfensau, llysiau, coed, ffirwythydd; creaduriaid rhesymol a direswm, ond darpariaeth at dy wasanaeth di. Darparodd ffurfafen cyn creu ehediaid, darparodd y moroedd cyn creu y pysg, darparodd y llysiau cyn creu bwystfilod ac anifeiliaid y maes; ond darparodd y cwbl cyn dwyn dyn i mewn i'r greadigaeth; ac felly yr oedd pob peth yn barod at ei wasanaeth ar ei ddyfodiad i'r byd. Yr oedd efe wedi trefnu i'r dyn fod yn oruchwyliwr ar y cyfan—yn gyfrwng trwy ba un yr oedd y cyfan i ddwyn gogoniant i'w enw mawr ei hun. Ac fel gorachwyliwr y cafodd efe y fraint o rod-di enwan ar yr holl greaduriaid, ac arglwyddiaethu arnynt oll. Fel hyn, rhoddwyd anrhydedd mawr i ddyn yn y greadigaeth. Gan hyny, y mae ei waith yn dirmygu Duw yn fwy afresymol.

Fel y mae dyn yn oruchwyliwr arni, y mae'r greadigaeth yn ocheneidio dan orthrymder ei bechodau. Gwnaeth Duw bob peth er mwyn ei ogoniant ei hun; ond ymddriedodd y gorchwyl o'u defnyddio i gyrhaedd y dyben hwnw i'r dyn: y mae ar law dyn droi y cwbl i'w waradwyddo neu i'w ogoneddu. Y mae y greadigaeth yn dadguddio gogoniant Duw i ddyn. Gellir edrych ar y greadigaeth fel telyn, a'r dyn fel cerddor. Er fod y delyn yn dda, ni chân heb y cerddor. Y mae'r greadigaeth fel teml, a'r dyn fel archoffeiriad; y greadigaeth fel corph, a'r dyn fel

enaid y cwbl; y greadigaeth fel byddin, a'r dyn yn gadben arni. Dyn yn unig sydd yn meddu llygaid i weled Duw, tafod i glodfori Duw, deall i adnabod Duw, a chymhwysder i gymdeithasu â Duw. Y mae dyn trwy ddirmygu Duw yn y sefyllfa hon yn talu drwg am y daioni mwyaf, yn anffyddlaw'n i'r ymddiried mwyaf, ac yn arwain y fyddin o ddirmygwyr Duw yn y byd.

Pe buasit ti, bechadur, yn ymddibynu arnat dy hun, buasai hyny yn cyfiawnhau peth ar dy ymddygiad; ond creadur ymddibynol ar Dduw ydyw dyn. Ynddo yr ydwyt yr byw; o'i law ef yr ydwyt yn derbyn pob daioni, pob "rhoddiad daionus;" trugaredd yr Arglwydd yw na ddarfu am danat; efe sydd yn agoryd ei law ac yn rhoddi bywyd ac anadl i ti. Y mae dirmygu y fath gymmwynaswr trugarog yn ymddygiad hollol afresymol. Dirmygu gŵr cyfiawn—fe gyfrifir hyn yn eithaf anghyfiawn, ond y mae dirmygu gŵr trugarog yn fwy anghyfiawn.

3. Pwy, o ran cyflwr? Dyn halogedig ac euog. Y mae yn iawn i'r cyfiawn ddirmygu yr anghyfiawn, a'r glân yr aflan: ond ni oddefir i'r aflan ddirmygu yr aflan, na'r anghyfiawn ddirmygu yr anghyfiawn. At bwy y gall dyn dafu careg? Y mae efe yn aflan ei hun—yn euog ei hun. Ond os ydyw ei anghyfiawnder ei hun yn anaddasu dyn i dafu careg at anghyfiawnder un arall, pa faint mwy y mae yn ei anaddasu i dafu careg at Dduw? A ydyw y dyn ag y mae trawst yn ei lygad ei hun yn gymhwys i fwrw allan y brycheuyn sydd yn llygad ei frawd? A oes eisiau i'r traed fod yn weddaidd i efengylu ac i feio ymddygiadau pechaduriaid, pa faint mwy anaddas gan hyny ydyw rhodiad aflan i feio cyfiawnder noeth?

Pwy sydd yn cael ei ddirmygu? Duw. Y mae dirmygu Duw yn afresymol yn ngwyneb ei dragwyddoldeb ef, yn ngwyneb ei fawredd, yn ngwyneb ei hunan-ymddibyniad, yn ngwyneb ei allu, ei ddoethineb, ei gyfiawnder, ei ddaioni, a'i ffyddlondeb. "Pa ham y dirmyga yr annuwiol Dduw?" Am beth yr ydwyt yn ei ddirmygu? Ai am iddo dy greu yr ydwyt yn ei ddirmygu? A wnaeth efe dy gorph yn anaddas ac yn anhardd? A ydyw ei waith ef ar dy gorph ddim yn dy foddioni? Yr ydwyt yn ymfrostio llawer ynddo. A ydyw ei waith ar dy enaid ddim yn dy foddioni? A ddywed y briddell wrth ei lluniwr, Pa ham y gwnaethost fel hyn? Ai am iddo dy gadw bob dydd yr wyt yn ei ddirmygu? Ai am iddo dy borthi, dy ddilladu, a diwallu dy dylwyth? Ai am iddo gadw dy synwyr heb ddyrysu bob munyd o dy fywyd, dy iechyd, a dy fro yn heddychol? Pa ham? Nis gallaf weled ei fod wedi cyffwrdd â thi erioed ond yn ei ddaioni; ni welaf ôl ei soriant ar dy wisgoedd na dy wedd. Am ba drugaredd yr wyt yn ei ddirmygu? Ai am iddo anfon ei Fab i'r byd yr ydwyt yn ei ddirmygu? Ai am iddo dy garu, a rhoddi ei Fab ei hun i farw yn dy le? Ai am i'r Mab fod yn ewyllys-

gar i ddyfod yr ydwyt yn ei ddirmygu? Ai am iddo ddyfod i'th ddeddfie, i'r gwarth, a dioddef angen y groes? Ai am iddo roddi ei gefn i'r curwyr? Pa ham? Pa ham yr ydwyt yn an-ufuddhau i'w gyfraith ef? Ai am ei bod yn gyfiawn a da? Pa ham yr wyt yn dirmygu ei Fab? Ai am ei fod yn Dduw-ddyn, yn gyfryngwr, yn brophwyd, yn frenin, ac yn offeiriad? Pa ham? Ai am rywbeth a wnaeth? Ai am athrawiaethu yn oleu i ddwyn bywyd ac anlygredigaeth i oleuni? Ai am iddo eistedd yn frenin yn dragywydd, a gorchfygu gallu y tywyllwch? Ai am iddo ddioddef, a marw, a gwneyd cymmod? Ni buasai go-baith am dy fywyd heb hyny. Pa ham yr ydwyt yn gwrthod ei iachawdwriaeth?

P R E G E T H X V .

CYMMHWYSDERAU CRIST FEL OFFEIRIAD.

Hebreaid vii. 26.

“Canys y cyfryw Archoffeiriad sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddi wrth bechaduriaid, ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd, oedd weddus i ni.”

Yn yr Hen Destament, yn gystal a'r Newydd, y mae lliaws o gymmhwysderau yn cael eu nodi allan fel yn angenrheidiol i un eu meddu tuag at fod yn addas gyfryngwr rhwng Duw a dynion; ac yn mysg y cymmhwysderau angenrheidiol ereill, nodir allan Dduwdod y person oedd i sefyll yn y swydd gyfryngol. Rhagfynegwyd y byddai yn Dduw: “Bachgen a anwyd i ni, mab a roddwyd i ni, y Duw cadarn a nerthol, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd.” Mae ein Cyfryngwr ni yn “Dduw cadarn!” Nid yn unig y mae wedi ei eni, a'i roddi i ni—wedi ei osod i ni—ond y mae yn Dduw—y mae yn un cadarn, ac yn berffaith addas i lywodraethu fel tywysog tangnefedd. Nid oes neb na dim llai na Duwdod yn ei holl berffeithderau a all sefydlu tangnefedd ar y ddaear. Dyna hefyd yw tystiolaeth y Testament Newydd am ei Dduwdod:—“Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair.” “Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd oedd oleuni dynion.” Y mae yr apostol yna yn dangos ei gymmhwysder i fod yn oleuni dynion, am mai efe oedd y bywyd a'r goleuni. Yr ydym yn cael yn aml iawn fod yr ysgrifenywyr sanctaidd yn ysgrifenu am dano yn ei gymmhwysder fel Duw i fod yn Iachawdwr digonol i bechaduriaid—a'r prawf goreu o'i fod yn gyfryngwr addas i ni ydyw ei fod yn Dduw.

Ond yr oedd cymmhwysder arall anheborol er ei wneyd yn archoffeiriad i ni; sef, ei fod yn meddu ar wir ddynoliaeth: “Corph a gymmhwysaist i mi,” ebe Esaiah. Nis gallasai fyned trwy waith y prynedigaeith heb gorph. “Wedi ei wneuthur o

wraig, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf." "Gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau"—"fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo." Fe gymmerodd efe gig a gwaed yn rhan o'i natur, er mwyn iddo allu marw, a thrwy farw ddinystrio yr hwn oedd yn ein gorthrymu yn barhaus—unig amcan yr hwn yn y diwedd oedd ein damnio.

Cymmhwysder arall mewn cyfryngwr ydyw cymmeriad da, neu garictor sanctaidd; ac yr oedd dynoliaeth ein Cyfryngwr ninnau, y dyn Crist Iesu, i fod yn ddifrycheulyd a phur—"y cyfryw archoffeiriad sanctaidd." Nid y sancteiddrwydd hwnw sydd yn perthyn i Grist fel person dwyfol a feddylir yma: yr oedd efe erioed yn hanfodol feddiannol ar sancteiddrwydd tragwyddol ac anghyfnewidiol, fel y Tad. Ond sôn sydd yma am sancteiddrwydd ei ddynoliaeth—ei sancteiddrwydd fel dyn. Dan yr hen oruchwyliaeth, yr oedd sancteiddrwydd yn gymmhwyssder mwy anheborol i swydd offeiriad nag un cymmhwysder arall. Yr oedd yn rhaid cael personau dianaf i'r swydd archoffeiriadol dan gyfraith Moses, a chyda gwisgoedd neillduol a golchiadau seremonïol; yr hyn a ddengys fod yn rhaid, y pryd hwnw, gael sancteiddrwydd a phurdeb moesol i ateb holl ddybenion y swydd y gosodid hwy i'w llanw. Yr amrywiol olchiadau hefyd a ddangosent fod angenrheidrwydd am sancteiddrwydd yn eu gwasanaeth, ac i'w cadw hwythau yn fwy cyssegredig yn ngolwg y bobl—y cwbl yn arwyddo fod yn rhaid i'r archoffeiriad fod o garictor sanctaidd. Er mai gwaith pechaduriaid fyddai ganddo, yr oedd yn dyfod drwy y cwbl heb anurddo dim ar ei wisgoedd offeiriadol. "Cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef, a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni." "Efe a wnaeth ei fedd gyda'r rhai anwir, a chyda'r cyfoethog yn ei farwolaeth; am na wnaethai gam, ac nad oedd twyll yn ei enau." Fe wyddai Joseph o Arimathea yn burion beth oedd ei garictor ef: "yr hwn ni wnaethai gam, ac na chaed twyll yn ei enau." "Yr hwn nid adnabu bechod a wnaeth efe yn bechod drosom ni;" *h. y.*, yn "bech-aberth" drosom ni—'doedd dim yn bossibl ei wneuthur ef yn bechod mewn un ystyr arall—"fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef." Yr oedd yn rhaid ei fod heb brofi, heb arfaethu pechod, neu ni fuasai yn gymmeradwy fel pech-aberth:—"Oen difeius a difrycheulyd" ydoedd. Pan y mae yr Ysgrythyr yn ei alw yn "oen difeius," cyfeiriad sydd yno at Oen y Pasc. Ni byddai yr euog gynt ddim gwell er cael hanes oen, heb iddo fod yn "ddifeius"—"y cyfiawn dros yr anghyfiawn," meddir. Fe ddaeth yr anghyfiawn byth yn rhydd oddi tan felldith a chondemniad tragwyddol pan y cafwyd un o garictor teilwng yn ei le. Fel yna y mae ei

sancteiddrwydd a'i burdeb dihalog ef yn cael sôn am dano yn yr hen Feibl yma yn fwy na dim arall, a rhaid fod rhyw bwys annhraethol i Grist fod yn sanctaidd, neu ni wneid y fath grybwylliadau mynych am dano ynddo. Nid siarad *trifles* o bethau y mae y gyfrol ddwyfol pan yn mynychu yr un peth drosodd a throsodd drachefn. Wel, y cyfryw archoffeiriad sanctaidd! Mae Iesu Grist yn ei swydd offeiriadol wedi ei ordeinio gan Dduw i fod yn sail sancteiddrwydd ei holl greadigaeth. Pa un bynag ai yn y nefoedd ai ar y ddaear, ai yn mysg angylion ai dynion, y mae eu sancteiddrwydd wedi ei osod ar y sail hon. Gosodwyd sancteiddrwydd yn y dechren i sefyll ar natur Duw, heb Gyfryngwr. Yn y stât yna yr oedd yr angylion yn y nefoedd. Yr oedd eu sancteiddrwydd yn cael ei gynnal trwy rinwedd eu cymdeithas â Duw, yn yr amlygiadau a roes o hono ei hun yn yr hyn a wnaeth. Felly yr oedd Adda yn Mharadwys, yn ei gyflwr creadigol. Yr oedd yn adnabod Duw trwy yr amlygiadau a roes o hono ei hun yn ei waith, ac yn ei ymddiddan âg ef. Nid oedd yno un Cyfryngwr; ond yr oedd y fath gymdeithas a nodwyd yn wir angenrheidiol i gynnal dyn yn ei burdeb, ac i beri iddo barhau mewn sancteiddrwydd. Ac etto, yr oedd natur Duw yn rhy bell oddi wrth y creadur i'w alluogi i gynnal cymdeithas âg ef: felly, o ran hyny, yr oedd hi gyda'r angylion hefyd. "Ni welodd neb Dduw erioed." Mae yn fod anweledig, anamgyffredadwy, ac annhebyg i ddim na neb a welodd llygad erioed. Rhyw belydryn o hono yn unig, drwy yr hyn a wnaeth neu a ddywedodd, a geid y pryd hwnw. Y mae efe ei hun yn ymguddio oddi wrth ddynion ac angylion. Trigo y mae yn y goleuni, fel na ddichon neb ddyfod ato. Yr oedd presennoldeb y Shechinah gynt mor ddisglaer fel nad allasai yr offeiriad agoshau ato; ac etto, nid oedd hwnw ond arwydd o'i bresennoldeb. Beth pe ceisiech chwi sydd yma heddyw, mewn rhyw ffordd uniongyrchol, roddi eich meddyliau ar waith i'w adnabod—ni fedwrch chwi ddim; ie, a llawer iawn o rai gwell na chwi, fy mhobl i. Ond mae y Cyfryngwr bendigedig, Iesu Grist, wedi ei osod yn y canol rhwng Duw a dynion (a rhwng angylion hefyd, mewn rhyw ystyr), yn ein hymyl; a gwrando, bechadur, y mae "Duw wedi ymddangos yn y cnawd!" Gwnaed ef felly â holl briodoliaethau y Duw mawr ynddo yn berffaith o ran purdeb a sancteiddrwydd, y rhai oedd yn disgleirio yn ei gymmeriad. Gwelwyd ef yn dyfod i'r golwg fel goleuni yr haul—y priodoliaethau hyny sydd yn ffurfio carictor Duw ei hunan oeddynt—ac yr oeddynt yn llewyrchu yn ei wyneb gan "roddi iddynt oleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn ngwyneb Iesu Grist."

Weithian, deuai ei hollalluogrwydd i'r golwg—*just* i ddangos, drwy y gwyrthiau a wnai, ei fod yntau yn feddiannol ar hollalluogrwydd y Duwdod ei hunan. Gwelwn, gan fod y swydd

wedi ei sancteiddio, ei bod hefyd wedi ei gosod yn sail sancteiddrwydd i ni bwysu arni, a'r angenrheidrwydd i ni fynu adnabod yr hwn oedd ei hunan yn sancteiddrwydd. "Yr hwn sydd yn fy adnabod i, sydd yn adnabod y Tad, yr hwn a'm hanfonodd i." Yr oedd natur Duw yn rhy bell i ni allu cyrhaedd un ddirnadaeth o honi heb Gyfryngwr. Fel yr haul disglauer—nis gellir edrych a syllu arno â'r llygaid noeth heb wydrau neu *telescopies* priodol i hyny. Mae ei bellder a'i ddisgleirdeb y fath fel y mae ein golygon ni yn rhy weiniaid i edrych arno. Ond yn ngwneuthuriad celfydd y *telescope*, y mae y cyrph wybrenol yna fel yn cael eu sugno i ymyl yr offeryn, a'u disgleirdeb tanbeidiol yn adlewyrchu ar *ganvas* ger bron llygaid yr edrychydd. Wel, y mae y Duw mawr ac anfeidrol wedi ym-ostwng i dynu ei lun ar *ganvas* ei ddynoliaeth i ninnau, fel y gall y pechadur truan edrych, ac edrych arno yn ddiddiwedd, heb arswydo! Fe fu yma dair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd yn rhodio gyda ni; fe wisgodd am dano ein natur ni, ac fe fu "farw mewn pryd dros yr annuwiol."

Yn bresennol, ni a sylwn yn fyr ar y *disgrifiad a roddir o Grist, a'i gymmeriadau yn y testyn*:—"Offeiriad sanctaidd, dihalog, didoledd oddi wrth bechaduriaid," &c. Purdeb dwyfol oedd ei sancteiddrwydd ef, cydymffurfiad perffaith â gofynion y ddwy lech:—ei ddeall yn sanctaidd, ei farn a'i syniad yr un fath, a'i gydwybod hefyd yn berffaith rydd oddi wrth gyhuddiadau pechod. Pan y byddai yn rhoddi ei farn mewn gweithrediad, nid barnu wrth ryw reolau cywrain o eiddo dynion y byddai efe; ond barnu gydag awdurdod. Yr oedd holl ysgogiadau ei feddwl yn sanctaidd bob amser, ac yn mhob man; ac yr oedd ei serchiadau hefyd yr un mor gyssegredig. Carai ef ei elynion penaf, a'r rhai a'i dirmygai fwyaf. Nid cael ei gymmhell i fod yn sanctaidd yr oedd, oddi ar ddybenion allanol; ond yr oedd hyny yn egwyddor sefydlog yn ei galon erioed, ac o "helaethrwydd y galon y llefara y genau." Y galon sydd yn ffurfio y carictor. Yr oedd efe yn "ddiddrwyg." I bob man lle yr ai, ni cheid dim bai yndo: yr oedd yn ddiniwed hollol tuag at bawb: parchai bersonau a meddiannau, a charai gysur bob graddau o ddyinion. Yr oedd yn dilyn heddwch a sancteiddrwydd â phawb. Mae llawer un o'n cymmydogion a ddilynant heddwch â'u gilydd, ond y sancteiddrwydd sydd fwyaf ar ol. Nid felly Crist: nis gallai y naill fod yndo ef heb y llall. Ni adawai heddwch na llonydd i bechod yn un man, nac yn neb. Mor eofn, ac mor ddidderbyn-wyneb, y llefarai am Herod hwnw gynt:—"Ewch a dywedwch wrth y cadnaw hwnw," meddai. Pwy mor llym yn ceryddu rhagfarn a phechodau y genedl ag efe?—"O! hiliogaeth seirph a gwiberod," meddai am yr ysgrifenyddion. Nid "diddrwyg-didda," fel y dywedir, ydoedd efe

chwaith. Fe dystiolaethir am dano yn yr Hen Destament fel Cyfryngwr, bugail, a Chynghorwr: yr oedd fel "pren afalau yn mysig prenau y coed." Yr oedd yn hoffi gwneyd cymmwynas i bawb:—neb yn rhy estronol—neb yn rhy ddrwg. Fe wnaeth Moses yn ei ddydd lawer o wyrthiau i brofi dwyfoldeb ei genadwri a'r oruchwyliaeth a osodai i fyny. Felly y gwnaeth Mab Duw i brofi dwyfoldeb ei anfoniad yntau: ond yr oedd gwahaniaeth annhraethol yn natur ei wyrthiau ef rhagor yr eiddo Moses. Yr oedd gwyrthiau Moses, y rhan amlaf, yn ddychryn ac yn farwolaeth i laweroedd; ond eiddo Crist yn drugareddau ac yn gymmwynasau i ddynolryw. Yr unig un diddrwg ydoedd Iesu Grist. Yr oedd yn Moses, Dafydd, a Job, er eu holl ragoriaethau, lawer o ffaeiddau—rhyw *colipse* ar haul pawb: ond am "Haul y Cyfiawnder," ni ddaeth un cwmwl drosto erioed! "Dihalog" ydoedd. Fe rodiodd drwy ein byd llygredig ni heb i ddim oddi allan halogi ei wisg. Fe rodiodd drwy ganol y pethau sydd yn halogi llawer ar ddynion, ond ni feiddiodd un o honynt ei ddifwyno yn y graddau lleiaf. Beth bynag am y llygredigaeth gwreiddiol y rhoddir ar ddeall i ni fod pob dyn sydd yn dyfod i'r byd yn ei afael, y mae yn ffaith fod y plant yn cyfranogi, i raddau mawr, o dueddiadau a thymmerau y rhieni: ond beth bynag oedd tuedd-iadau a nwydau Mair a Joseph, yr oedd yn rhaid cael yr Ysbryd Glân ei hun i buro Mair, i'w chymmhwysu i roddei genedigaeith i'n Iesu ni. Mae yn perthyn i rieni ddylanwad mawr ar eu plant. Yr oedd gan fam Iesu, yn ddiammheu, ddylanwad arno yntau: ond beth bynag oedd nerth ei dylanwad arno fel mam, a pha beth bynag oedd ei ffaeiddau hi, ni chyfranogodd efe erioed o honynt. Fe ddaeth ef allan "fel aur wedi ei buro trwy dân" o bob cyfeillach â'r plant y chwareuau gyda hwynt yn nyddiau boreuol ei oes. Mae dylanwad cryf yn perthyn i egwyddorion crefyddol ar feddyliau y bobl; ond yr ydym yn cael Iesu yn ddeuddeng mlwydd oed yn alluog i ochelyd ac i ymlid ymaith wenwyn heresiau y genedl yr oedd efe yn ymgymmysgu fwyaf â hwy. Fe ddaeth, drwy dlodi ac amgylchiadau o gyfyngder mawr, yn bur ac yn ddianaf o ran ei gymmeriad. Yr ydym yn cael yn aml iawn fod parch ac anrhydedd bydol yn dyfetha llawer; ac yr oedd cyfeillion Iesu yn sôn am ei wneyd yn frenin; a phe buasai efe yn ewyllsio i hyny gymmeryd lle, diammheu y cawsai filoedd a aberthent eu bywydau er mwyn ei osod yn llywiawdwr daearol: ond ni lygrodd hyny ddim ar ei feddwl pursaidd erioed. Daeth drwy yr oll o honynt yn ddiogel ac yn fuddugoliaethus. Dyma i chwi "faen profedig!"

Sonir am dano yma fel yn "uwch na'r nefoedd." Yn uwch mewn awdurdod na'r nefoedd, medd rhai; ac y mae ei awdurdod ar bob peth—y mae yn dal yr holl greadigaeth ar ei law.

Ond ni thalai awdurdod heb garictor ddim, mwy na charictor heb awdurdod: ond dyma un ag y mae y ddau yn cydgyfarfod ynddo! Mae ganddo awdurdod yn y nefoedd ac ar y ddaear! Os oes ar y wreigan dlotaf yn y capel yma eisieu gwasanaeth angylion, y mae yn uwch na hwynt: os bydd arnat eisieu troi cynllwynion y diafol oddi wrthyt, y mae ef yn uwch nag ef: ac os bydd eisieu trin y penau coronog yma weithiau, y mae yn uwch na hwythau, a phob amser yn gwylio eu holl ysgogiadau. “Brenin y brenhinoedd” ydyw ei enw! Y mae hefyd yn uwch na brenin y dychryniadau; am hyny, blentyn Duw, pan yn taraw dy draed wrth y mynyddoedd tywyll, ac yn ymchwydd yr hen Iorrdonen, paid ag ofni! Fe gwyd dy gorph gwael o'r bedd ar ol bod yno yn llygru am fil, a mwy, o flynyddoedd. Y mae ganddo “agoriadau uffern a marwolaeth wrth ei wregys!”

“Y mae yn weddus i ni.” Nid oes ynddo ddim ond yr hyn y mae arnom ni angen am dano; ac nid oes ynom ninnau angen am ddim nad ydyw ynddo ef!

P R E G E T H X V I .

MEDDYLLAU OFER.

Salm cxix. 13.

"Meddyliau ofer a gaseais."

Y MAE dyn yn llawn o feddyliau. Fel y môr, y mae ynddo "ymlusgiaid heb rifedi." Y mae y meddwl yn fyd cyfan; y mae holl amrywiaeth y byd ynddo.

Y mae y meddwl yn gweithredu yn ddidor: nid oes iddo orphwysdra na dydd na nos, mwy nag uffern, neu y môr yn dygyfor. Y mae gan y meddwl allu i weithredu gyda mawr gyflymder—mor gyflym a'r fellten. Nid ydyw newid gwrthddrychau pell ac agos ond yr un peth iddo ef; yr un amser a gymmer i esgyn i'r haul ag i droi i dŷ ei gymmydog.

Nid yw y meddwl bob amser yn gweithredu i'r un graddau. Y mae rhai pethau yn rhedeg drwyddo mor ysgafn fel nad adwaenir eu hol; nid ydynt yn cyfodi i sylw, nac yn cael un effaith ar y galon—fel yr aderyn yn sathru y ddôl heb adael ei ol. Ond y mae yr anifail pwysig yn gadael ol ei garnau arni am ryw hyd, etto ymfeddyginiaetha yn raddol: ond os y darn craig a syrth arni, tyr y fath archoll ag a erys yn hir felly.

Y mae rhai gwrthddrychau yn arteithio y meddwl: *Diar*. xx. 5, 9. Y mae y meddwl yn alluog i gyrhaedd gwrthddrychau pell fel rhai agos. Gall gyrhaedd hefyd ei wrthddrych mewn munyd o ranau eithaf y ddaear, neu dreiddio i'w pherfeddion drwy ei holl galedwch cadarn, a sefyll yn ei chanolfan; neu esgyn i'r ffurfafen, amgylchu yr holl sêr mawrion, neu eu canlyn yn ddidor trwy eu cylochoedd; gall ddisgyn ar darawiad i uffern, a gwrandaw gruddfanau y damnedigion, a gall esgyn mewn moment i lys goruchel y Duwdod, a syllu ar ei ogoniant ofnadwy, pan y mae y corph wedi ei gadwyno wrth y ddaear, ac yn enwedig wrth ryw le neillduol ynddi. Y mae y meddwl yn meddu rhyddid difesur i gymmeryd gafael mewn gwrthddrychau

absennol fel y rhai sydd yn bresennol; a gall redeg yn mlaen a chyrhaedd y dyfodol fel y presennol, neu ymdafu yn ol a chyrchu ei wrthddrych o'r oesau o'r blaen, neu o dragwyddoldeb. Nid yw y dylif yn terfynu ei yrfa, na chrëad y byd yn eithaf-oedd ei daith:—gall, wedi codi ei draed oddi ar holl sylweddau amser, redeg draw a chrwydro yn y diddymdra tragwyddol, ac edefyn main a'i harwain. Y mae fel y tân gwefraidd—rhed filldiroedd aneirif, neu oesau dirif, ar hyd gwialen fain awgrymiad bychan.

Gan fod y meddwl yn gweithredu gyda'r fath gyflymder di-orphwys, gwelwn fod yn y meddwl fwy nag sydd yn y fuchedd. Gan fod y meddwl yn alluog i gyrhaedd gwrthddrychau mor ardderchog, ac i effeithio mor fawr ar dymmer y galon a'r fuchedd, dylai fod genym ofal mawr am dano, a gochel gwastraffu amser y meddwl mwy nag amser y corph. Llauer sydd yn fawr eu gofal rhag gwario amser y corph ar bethau ofer, ond gwastraffant holl amser y meddwl ar bethau hollol diwerth. Nid oes dim rhy wael, dim rhy aflan yn eu golwg, i'r meddwl fod arno yn wastad: pe'r ysgrifenid i lawr holl feddwl llauer am wythnos, mis, neu flwyddyn, a'i ddarllen ar g'oedd cynnulleidfa, nis gellid'goddef y ffeidd-dra. Y fath hunan! Y fath genfigen, a ddeuai i'r golwg!

Anwyl ddyn! y mae y cwbl yn hysbys i Dduw!

Sylwn yn

1. *Fod crefydd a'i sefyllfa yn y meddwl.* Nid ydyw yn gynnwysedig mewn ffurfiau allanol, neu ymarweddiad diargyhoedd yn unig; ond y mae meddyliau pur, syniadau ysbyrdol, myfyrdod duwiol, a thueddiadau sanctaidd yn hanfodol iddi. Ni ddichon fod ymarweddiad cydffurf â'r gwirionedd, heb feddyliau sanctaidd yn y galon.

Ni a gawn ddau wrthddrych y meddwl yn gyferbyniol i'w gilydd; sef, *meddyliau ofer, a chyfraith Duw.*

Y mae y ddau fath hyn o feddyliau yn dosbarthu holl ddyn-olryw. Gwahaniaethir y saint a'r annuwiolion wrth eu syniadau, wrth eu bucheddau, wrth eu meddyliau, a'u nodweddiad. Y mae meddyliau ofer yn *blino* y credadyn; ond nid ydyw efe yn arfer eu coledd yn barhaus. Y mae llygredd yn ei galon, ond nid yn llywodraethu arni: *Rhuf. vii.*

Tybia rhai, mai wrth y meddyliau ofer hyn y golygir cyfreithiau drwg, yn gyferbyniol i gyfreithiau da: ereill, mai gauthrawiaeth, yn gyferbyniol i'r gwirionedd a feddylir: ereill, mai unrhyw fyfyrdodau halogedig neu anfuddiol, yn gyferbyniol i fyfyrdodau sanctaidd ac adeiladol a olygir. Y mae y meddwl yn wrthddrych ymosodiadau parhaus dwy wrthblaid o wrthddrychau, sef pethau ycnawd, a phethau yr Ysbyrd; y pethau sydd uchod, a'r pethau sydd ar y ddaear; y pethau a welir, a'r pethau

ni welir; pethau amser, a phethau tragwyddol. Y mae y ddwy blaid yn ymosod ar y meddwl mewn llawer o ffyrdd:—un yn amddiffyn nwydau y corph; y llall, hapusrwydd tragwyddol yr enaid. Trwy y dewisiad a wna y dyn o'r gwrthddrychau hyn i'w serch, y mae yn ffurfio y cymmeriad o ddyn anianol neu ysbrydol, gwas i Dduw neu i bechod, doeth neu ffol, aflan neu sanctaidd, duwiol neu annuwiol. Yn ol sefyllfa dy feddwl yma y cai dy farnu yn y byd arall. Profir pwy biau dy galon, trwy ddangos pwy oedd yn cael dy feddwl yn fwyaf sefydlog. Y mae Crist yn trigo yn sefydlog trwy ffydd yn nghalon y credadyn. Trwy ei ddewisiad hwn y mae yn cael ei gyfaddasu i ryw sefyllfa dragwyddol. Y meddylddrych ysbrydol sydd yn ffurfio archwaeth sanctaidd, ac yn cyfaddasu yr enaid i fyw ar bethau sanctaidd byth. Fel y mae ymarferiad âg unrhyw bechod yn creu tuedd ato, neu fel y mae ymwneyd âg unrhyw gelfyddyd neu gangen o ddysgeidiaeth yn cyfaddasu y meddwl i fwynhau ei gwrthddrychau, felly ymarferiad y meddwl â phethau sanctaidd sydd yn creu archwaeth atynt, ac yn cyfaddasu yr enaid i fyw arnynt byth. Y mae y meddwl yn y byd hwn fel y metel toddedig yn cymmeryd ei ffurfio gan y fold y caiff redeg iddo, ac felly yn ymsefydlu yn y byd arall. Cymdeithas sydd yn dyfod â'r naill i gyfranogi o ddelw y llall, pa un bynag ai drygau ai rhinweddau, a thrwy hyny yn cyfaddasu y pleidiau fwy-fwy i gymdeithasu â'u gilydd, nes o'r diwedd ddyfod i'r fath raddau o gyd-gyfarfyddiad fel ag i wneyd y gyfeillach yn ddedwyddwch eu bywyd. Felly am gymdeithas y meddwl â gwrthddrychau sanctaidd. Cyfeillach y lleuad â'r haul sydd yn ei gwneuthur hithau yn oleuad i'r ddaear trwy adlewyrchiad o'i oleuni, a'i chyfeillach â'r ddaear sydd yn ei chadw i droi yn ei lle yn y ffurfafen. "Y rhai sydd yn ol yr Ysbryd" o ran eu tuedd a'u harchwaeth, pethau ysbrydol fyddant eu hyfrydwch yn y byd hwn, ac yn yr hwn a ddaw. Yr oedd y Salmydd yn myfyrio llawer yn y gyfraith; ffrwyth hyn oedd ei fod yn ymhyfrydu ynddi: *Salm.* cxix. 15, 16, 23, 24, 34, 35, 103, 104. Fel y mae pren, pan yn ieuangc, yn hawdd ei blygu i unrhyw ffurf a dull, ond wedi cyrhaedd maintioli perffaith y mae wedi sefydlu ei ddull, felly y mae y meddwl a'r archwaeth yn cymmeryd eu ffurfio tra yn y byd hwn; ond yn y byd a ddaw, byddant wedi eu tragwyddol sefydlu.

II. *Y mae sefyllfa y meddwl o bwys mawr mewn crefydd.* Mor fynych y gorchymynir ufudd-dod sanctaidd! "Ond gochel arnat, a chadw dy enaid yn ddyfal, rhag anghofio o honot y pethau a welodd dy lygaid, a chilio o honynt allan o'th galon di holl ddyddiau dy einioes;" *Deut.* iv. 9. Y fath bwys a manylwydd sydd yma! "Meddyliwch yn eich calonau am

yr holl eiriau yr ydwyf yn eu tystiolaethu wrthych heddyw;" *Deut.* xxxii. 46. Dyben Duw yn rhoddi y dadguddiad dwyfol i ni ydyw dwyn ein meddylliau a'n hystyriaeth ar bethau tragwyddol. Wedi rhoddi y dadguddiad, y mae yn gorchymyn myfyrio ynddo, fel y byddo iddo trwy hyny ateb dyben: yr un fath a meddyg, wedi rhoddi ei gynghorion, yn rhoddi gorchymyn pwysig i'r claf i'w defnyddio yn ol y cyfarwyddyd, fel trwy hyny y byddo iddynt ateb dyben. Duw, wedi rhoddi dadguddiad i Ezeziel, a orchymynai iddo ystyried: "A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Gosod dy galon, fab dyn, a gwêl â'th lygaid, clyw hefyd â'th glustiau yr hyn oll yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthyf, am holl ddeddfau tŷ yr Arglwydd, ac am ei holl gyfreithiau; a gosod dy feddwl ar ddyfodfa y tŷ, ac ar bob mynedfa allan o'r cyssegr;" *Ezec.* xlv. 5. Gorchymynir hyn fel un o'r pethau cyssylltiedig âg ofn Duw, ac fel un o'r cynnorthwyon cryfaf i ymarweddiad sanctaidd: "Ofnwch, ac na phechwch: ymddiddenwch â'ch calon ar eich gwely, a thewch;" *Salm.* iv. 4. Yn y *Salm* gyntaf, dangosir meddylfryd sanctaidd fel nôd o wahaniaeth rhwng y duwiol a'r annuwiol: yn mha beth bynag y gall yr annuwiol ymdebygu i'r duwiol, y mae yn ddiffygiol o hyn—meddylfryd sanctaidd. Dangosir yr un peth yn *Rhuf.* viii. Dau nôd y dyn anianol a'r dyn ysbrydol ydyw, fod y naill yn synio am bethau y cnawd, a'r llall am bethau yr Ysbryd. Y nôd a roddir ar dduwiolion amser Malachi oedd eu bod yn "meddwl am ei enw ef;" *Mal.* iii. 16. Y mae y cyfiaiwn a'r drygionus yn fynych yn y byd hwn heb ragor mawr rhwngddynt yn y golwg: dau bren, yn debyg oddi allan yn y rhisglyn a'r dail, er hyny, â gwahaniaeth mawr oddi fewn yn y galon: un wedi pydru, y llall yn iach—yn synied yn ysbrydol, ei feddwl yn nghyfraith Duw, Crist wedi ei ffurfio ynddo, a'i Ysbryd yn trigo o'i fewn. Neu fel dau dŷ, yn debyg oddi allan, ond gwahaniaeth mawr oddi fewn: felly y mae meddwl un wedi ei ddodrefnu yn hardd fel y deml gynt—y mae yma arch a thrugareddfa, a phethau gogoneddus cyssegredig—tra y mae meddwl y llall yn llawn o bob aflendid a gwrthuni.

Gorchymynir hyn fel peth anhebgorol i ymarweddiad sanctaidd:—"Nac ymadawed llyfr y gyfraith hon o'th enau, eithr myfyria ynddo ddydd a nos; fel y cedwch ar wneuthur yn ol yr hyn oll sydd ysgrifenedig ynddo: canys yna y llwyddi yn dy ffyrdd, ac yna y ffyni;" *Jos.* i. 8. Ceisio cnwd heb weithio, neu geisio gweithio y peiriant heb ager, ydyw ceisio ffurfio buchedd dda heb ffyrdd sanctaidd. Y rhai "sydd yn ol y cnawd" o ran eu rhodiad—yn mha le y mae y drwg? "Am bethau y cnawd y maent yn syniaw;" *Rhuf.* viii. 5. Gosodir hyn allan fel peth anhebgorol i gynnydd mewn gras: *Salm* i. 2, 3; 1 *Tim.* iv. 15. Rhaid cael rhanau tu fewnol plentyn yn

eu lle, ac yn iach, er cynnydd; felly y mae crefydd. Y mae rhai crefyddwyr yn edrych yn llwyd, ac yn afiach, a digynnydd: yr achos yw, fod y rhanau tufewnol heb gyflawni eu swyddau—y mae myfyrdod ar bethau dwyfol ar ol. Y mae y dyn oddi allan, a'r dyn oddi mewn, yn ddau wahanol: y mae y dyn oddi mewn yn ymhyfrydu yn nghyfraith Duw (*Rhuf.* vii. 22), tra y mae deddf arall yn gweithio yn yr aelodau, hollol wrthwynebol iddi: “Felly, gan hyny, yr wyf fi fy hun â'r meddwl yn gwasanaethu cyfraith Duw, ond â'r cnawd cyfraith pechod;” *Rhuf.* vii. 25. Y mae gair Duw yn wahanol i gyfreithiau dynol—yn barnu y galon, ac yn galw am y galon yn gystal a'r fuchedd: *Luc* ii. 35; *Heb.* iv. 12.

III. *Peth o bwys mawr mewn crefydd ydych chi sefydlu y meddwl.* Mor fynych y gorchymynir myfyrdod sanctaidd! Hyn yw swm y gyfraith: *Salm* iv. 4. Nodir hyn fel yn gwneuthur i fyny y prif wahaniaeth rhwng credadyn ac anghredadyn: *Deut.* iv. 39; *xxxii.* 46; *Jos.* i. 8; *Job.* xxxvii. 14; *Esa.* xlv. 21; *Ezec.* xlv. 5.

1. Y meddylfryd sydd yn profi yr egwyddor:—“Canys y rhai sydd yn ol y cnawd, am bethau y cnawd y maent yn syniaw; eithr y rhai sydd yn ol yr Ysbryd, am bethau yr Ysbryd;” *Rhuf.* viii. 5. Y mae myfyrdod y Cristion yn sefydlog ar bethau Duw:—“Mor gu genyf dy gyfraith di, hi yw fy myfyrdod beunydd;” *Salm* cxix. 97; *Rhuf.* vii. 25. Y mae y rhai sydd yn “ofni yr Arglwydd” yn “meddwl am ei enw ef;” *Mal.* iii. 16. Y mae pethau sanctaidd yn tynu egwyddor sanctaidd atynt, fel pegwn y gogledd yn tynu y nodwydd, neu fel yr haul yn tynu y planedau sydd yn ei ddsbarth. Cyd-darawiad rhwng yr egwyddor a'r gwrthddrych a'u tyn ynghyd. Cyd-darawiad a wna gymdeithas yn mhob cylch. Y mae egwyddor yn debyg i'r llong, yn rhoddi llawer *tack*, ond yn tynu yn mlaen: y mae fel yr haul yn tynu y gwllith i fyny, neu fel y ddaear yn tynu careg ati. Y mae gwrthddrychau aflan yn tynu egwyddor aflan—fel celain yn casglu yr eryrod. “Am bethau y cnawd y maent yn syniaw.” Pethau y byd sydd yn cael gafael ar galonau rhai: gall pethau crefydd effeithio ysgogiad, fel gwefr ar gorph marw; ond i'r Cristion y mae y pethau yn myned i mewn fel enaid, i aros. Nid yw egwyddor sanctaidd yn esgeuluso y byd; ond y mae fel cylllell o fettel da, yn plygu at bethau y llawr, ac yn dychwelyd yn union heb ystumio. Y mae pob creadur am fyw yn yr elfen sydd yn cyttuno â'i natur—y pysg yn y môr, yr adar yn yr awyr, a'r anifail yn y borfa. Y mae pethau o'r un natur yn tynu at eu gilydd: y mae pob creadur am ymborth at ei chwaeth: y mae dyn am bleser at ei oed—pleserau dyn ydynt yn rhy uchel i'r plentyn. Felly y mae y Cristion yn ymddigrifo yn mhethau Duw.

2. Y meddylfryd sydd yn ffurfio y dymmer a'r ysbryd: *Salm* lxi. 9; lxxxiv. 1, 2; cxii. 6—8; *Diar.* xvii. 22; *Ephes.* iv. 23. O'r galon y daw drwg anwydau: y mae meddwl y rhyfelwr am dywallt gwaed yn ennyn cynddaredd yn ei ysbryd. Y mae pob gwrthddrych yn cyfranu ei naws i'r meddwl, fel y pren i'r gangen, neu fel y mae cyfeillion yn dylanwadu ar eu gilydd. Y mae y meddwl yn dyfod o dan ddylanwad y pethau a fyddant ynddo: y mae y galon yn eu teimlo, ac yn cyfranogi o ysbryd a thymmer y peth fydd yn y meddwl. Os myfyria ar ysgelder, cyffroir cynddaredd a llid; os cariad fydd y gwrthddrych, cariad gaiff ei gyffroi; os mawredd fydd o flaen y meddwl, effeithia deimlad o barch:—"yr hyn a aned o'r Ysbryd sydd ysbryd." Pan y mae yr apostol Paul yn annog y saint i haelioni, y mae yn dyfod â "gras ein Harglwydd Iesu Grist" ger eu bron i gynnrychu yr un tymmer meddwl. Os cymmhella i gariad, dywed "megys y carodd Crist ninnau." Os annoga i amynedd, daw âg amynedd Job yn mlaen i genhedlu y cyffelyb dymmer. Os y byd arall a ddygir o flaen y meddwl, â y byd hwn yn ddim yn ei ymyl: 2 *Cor.* iv. 18. Os dioddefiadau Crist a fyddant yn destyn myfyrdod, cânt yr effaith o "arfogi" y credadyn "â'r un meddwl:" 1 *Pedr* iv. 1. Y mae y meddwl fel yr awyr—rhydd pob peth ei arogl drwyddo; neu fel y bawd—y mae gwrthddrychau y myfyrdod yn ei lefeinio i'w hansawdd eu hunain.

3. Y meddylfryd ydyw ffynnonell yr ymddiddanion: *Job* viii. 10; *Salm* xvi. 2, 3; xxxix. 3; xlv. 1; xlvi. 13; xlix. 3; lxi. 9; *Diar.* xxii. 11, 17, 18; xxx. 32; *Jer.* xviii. 18; *Mal.* iii. 16; *Mat.* xii. 34; *Luc* vi. 45. Yn y meddwl y mae attal pechod: *Job* xxxi. 1; *Iago* i. 14, 15. Y mae hyn yn debyg i attal gelyn drwy y porth, neu attal tân rhag dechreu, neu attal effaith gwefr trwy beidio cyffwrdd â'r peiriant trydanol. Y mae meddylfryd sanctaidd fel ffynnon yn rhoddi firwd oll o'r un natur yn yr ymddiddanion. Nid oes gan neb fawr o bleser mewn ymddiddan am bethau nad ydynt yn y meddwl: ni a welwn fel y mae pob sefyllfa a galwedigaeth yn barod i ymddiddan am bethau eu hamgylchiadau eu hunain, am eu bod yn wastad yn eu meddyliau. Nid ydyw yr holl ffrydiau o ymddiddanion bydol sydd yn llanw y byd ond yn profi bydolrwydd fel y môr yn ysbryd y byd. Mewn ychydig funydau o ymddiddan y gallech wybod ar un dyleithr pa un ai yn y nef, ynte ar y ddaear, y bu ei feddwl yn porfau: nis gall rhai dori un ymadrodd o iaith ysbrydol—y mae y pethau hyn fel iaith annealladwy iddynt. Ond am berchen meddylfryd sanctaidd, os gellir troi yr ymddiddan at bethau ereill, nid yw yn eistedd yn esmwyth; efe a lithra yn ddiwriad at ei hoff bethau, fel y lithra y fam, megys yn ddiarwybod, i sôn am ei hoff blentyn a gladdwyd yn ddiweddar: ac nis gall

hwn oddef ymddiddan halogedig; oni all ei geryddu, efe a gilia ymaith o'i sŵn. Y mae meddylfryd crefyddol fel yr ager yn y boiler—o'r golwg; ond yn sicr o weithio y peiriant oddi allan yn weledig i bawb. Nid oes gan y tafod ddim i'w roddi allan ond a gaiff yn y meddwl. Os ymddiddanion y Cymry sydd yn profi pa faint o grefydd sydd yn ysbryd y genedl, O! mor lleied ydyw!

4. Y meddylfryd neu y myfyrdod sydd yn ffurfio nodwedd- iad y meddwl ei hun. Myfyrio ar bethau dwyfol ydyw y ffordd i gynnyddu mewn gras; meddwl am wrthddrychau sanctaidd yw y moddion i ymsancteiddio. Meddwl am wrthddrych cariad neu gasineb a gyffry y naill deimlad neu y llall yn y galon. Y mae "ymadnewyddu yn ysbryd y meddwl" yn arwain i "wisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd;" *Ephes. iv. 23, 24*. Y mae ystyriaeth o waith Duw yn cynnyrchu ofn Duw yn y meddwl:—"A phob dyn a ofna, ac a fynega waith Duw: canys doeth-ystyriant ei waith ef;" *Salm lxiv. 9*. Y peth y byddo y meddwl arno sydd yn cyfarwyddo y serch ar y pryd. Trwy gael dynion i'r un fan o ran eu meddylliau y ceir hwynt yn un yn eu cariad:—"Cyflawnwch fy llawenydd, fel y byddoch yn meddwl yr un peth, a'r un cariad genych, yn gyttún, yn synied yr un peth;" *Phil. ii. 2*. Dyna fel y llefarai y rhai oedd mewn cydfwriad yn erbyn y prophwyd Jeremiah: "Deuwch, tarawn ef â'r tafod, ac nac ystyriwn yr un o'i eiriau ef;" *Jer. xviii. 18*. Pe buasent yn "ystyried," nis gallasant ei gasau. Tra y bydd y meddwl yn myfyrio ar ddiogelwch mawr y saint, cynnyrchu dymmer wrol, hyf, a di-ofn: felly y dywedai y Salmydd—"Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm hiachawdwriaeth; rhag pwy yr ofnaf? yr Arglwydd yw nerth fy mywyd; rhag pwy y dychrynaf? Pan nesaodd y rhai drygionus, sef fy ngwrthwynebwyr a'm gelynion, i'm herbyn, i fwyta fy nghnawd, hwy a dramgwyddasant ac a syrthiasant. Pe gwersyllai llu i'm herbyn, nid ofna fy nghalon; pe cyfodai cād i'm herbyn, yn hyn mi a fyddaf hyderus." Pa beth sydd yn gweithio ynot, Dafydd, y fath dymmer wrol, hyf, a diofn? "Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyn a geisiaf; sef, caffael trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml. Canys yn y dydd blin y'm cuddia o fewn ei babell: yn nirgelfa ei babell y'm cuddia; ar graig y'm cyfyd i. Ac yn awr y dyrcha efe fy mhen goruwch fy ngelynion o'm hamgylch: am hyny yr aberthaf yn ei babell ef ebyrth gorfoledd; canaf, ie, canmolaf yr Arglwydd;" *Salm xxvii. 1—6; a xlvi. 1—5*.

Galar am bechod a gynnyrchir trwy fyfyrdod a'n y bai: "Nid oes iechyd yn fy nghnawd, o herwydd dy ddioglonedd; ac nid

oes heddwch i'm hesgyrn, o blegid fy mhechod. Canys fy nghamweddau a aethant dros fy mhen: megys baich trwm, y maent yn rhy drwm i mi;" *Salm xxxviii.* 3, 4. Myfyrio am ordinhadau crefydd a thŷ Dduw sydd yn cynnyrchu hiraeth am dano: *Salm lxxxiv.* 1—4. Fel un yn myfyrio am ei blentyn a fu farw yn ddiweddar, mor naturiol y mae hiraeth yn ymgyfodi yn y meddwl yn y fan! "Nid ofna efe rhag chwedl drwg." Pa ham?—pethau ofnadwy ydyw chwedlau drwg; y maent wedi lladd rhai! Y mae ei galon ef mewn lle arall:—"ei galon sydd ddisigl, yn ymddiried yn yr Arglwydd;" *Salm cxii.* 7. Myfyrio am amynedd Crist, a'i ymroad cryf, sydd yn gweithio y meddwl i'r un ysbryd:—"O blegid hyny, ninnau hefyd, gan fod cymmaint cwmmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch, gan roi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni; gan edrych ar Iesu, pen-tywysog, a pherffeithydd ein ffydd ni; yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddioddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddehenlaw gorseddfaingc Duw;" *Heb. xii.* 1, 2. "Edrych ar Iesu," yn dioddef ac yn myned trwy ei yrfa bwysig mor amyneddgar, sydd yn dwyn cyfranogiad o'i ysbryd—y mae y dymmer yn rhedeg i fold ei esampl ef. Arweinir ein meddyliau at Grist yn ei ddioddefiadau er ffurfio ein meddyliau ninnau i'r un dymmer i ddioddef:—"Am hyny, gan ddioddef o Grist drosom ni yn y cnawd, chwithau hefyd byddwch wedi eich arfogi â'r un meddwl;" 1 *Pedr.* iv. 1. Yr ystyriaeth fod Crist wedi dioddef drosom ni sydd yn foddion i'n harfogi ninnau â'r un meddwl. I weithio tymmer elusengar ynom, cyfeirir ein meddyliau at y cymmwynasgarwch mwyaf. Canmolir y Corinthiaid yn fawr am eu haelioni; yr oedd eu "dwfn dlodi" wedi ymhelaethu i "gyfoeth haelioni." Pa fodd y gweithiwyd hwynt i'r fath dymmer rasol? "Chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er ein mwyn ni yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef;" 2 *Cor.* viii. 1—9. Trwy fyfyrio ar amynedd, gostyngyddrwydd, a chymmwynasgarwch Crist, y mae y meddwl yn cyfranogi o'r un dymmer ac ysbryd: *Phil.* ii. 3—11. Yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, cyfrifir y fath allu ac effeithiolrwydd i fywyd, marwolaeth, ac adgyfodiad Crist, er sancteiddio y rhai sydd yn ymbriodi âg ef trwy ffydd, ac yn gweithredu ffydd yn barhaus arno, fel y dywedir fod y dyben a'r effaith wedi eu sicrhau yn marwolaeth ac adgyfodiad Crist:—"Canys os gwnaed ni yn gydblanhigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, felly y byddwn i gyffelybiaeth ei adgyfodiad ef. Gan wybod hyn, ddarfod croeshoelio ein hen ddyn ni gydag ef, er mwyn dirymu corph pechod, fel rhag llaw na wasanaethom bechod.....Ac os buom feirw gyda Christ

yr ydym ni yn credu y byddwn byw hefyd gydag ef;" *Rhuf.* vi. 5, 6, 8. Golygir fod yma y fath gyfaddasrwydd i effeithio y dyben o sancteiddio, fel ag i beri fod marw y saint i bechod yn gynnwysedig yn marwolaeth Crist, trwy fod y dyben yn cael ei sicrhau y pryd hwnw. Meddwl am ei fywyd a'i anghydwylled yn grediniol sydd yn sicr o gydffurfio yr enaid â dybenion ei anghydwylled, a gweithio ynddo duedd o'r un natur: efe a deimla awdurdod yr egwyddorion oedd yn cael eu hamlygu a'u hamddiffyn trwy anghydwylled y Cyfryngwr, y rhai ydynt yn meddu y fath allu i effeithio yr amcan fel ag y dywedir ei fod eisoes wedi ei gyflawni. Edrych ar Grist, ti gei yfed o'r un ysbryd. Edrych ar bechod trwy anghydwylled y groes, ni bydd genyt tithau fawr well meddwl am dano nag sydd gan y gŵr a fu farw i'w dynu ymaith. Y mae brenhiniaeth pechod wedi ei rhifo a'i gorphen ar y groes. Dos yno o ran dy feddwl—ti gei glywed ei achos yn cael ei drin yn fanwl, ac yntau yn cael ei gondemnio: ac wedi bod yno, teiml tuag ato yn debyg i Iesu Grist ei hunan rhag llaw.

5. Y meddylfryd sydd yn rheoli y fuchedd a'r rhodiad. Y mae gan y meddwl ryddid mawr; gall esgor ar ganlyniadau dirfawr yn y fuchedd: 1 *Bren.* xviii. 21; *Job* xxxi. 1, a xxxiv. 27, 28; *Diar.* ii. 10, 11. Y meddwl sydd yn ysgogi y traed a'r dwylaw, cystal a'r tafod: o'r galon y daw tor-priodasau, godinebau, a llofruddiaethau. Anhawdd yw cadw y fuchedd yn ddi-fai a goddef i'r meddwl fod yn ddyeithr i Dduw. Os collir Duw o'r meddwl, nid oes yna ddim yn ofn i weithredoedd drwg. Duw oedd yn meddwl Joseph yn wrthwynebydd cadarn i bob drwg. Yr oedd Moses yn dewis ymwrthod â mwyniant pechod oddi ar fod pethau uwch yn ei feddwl. Dydd y farn yn y meddwl a gynnrycha sanctaidd ymarweddiad. Yr hwn sydd "â'i ewylllys yn nghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos," ydyw yr un sydd "fel pren wedi ei blanu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd;" *Salm* i. 2, 3. Gweddïa y Salmydd am gael "uno ei galon" i ofni enw Duw. Ystyried diwedd yr annuwiol a bair osgoi ei lwybrau. Tuag at beidio meddwi, gorchymynir peidio "edrych ar y gwin." Rhaid troi Duw o'r meddwl, a dywedyd yn y galon, "Nid oes yr un Duw," er gwneuthur ffeiddwaith. Meddwl ar bethau uchel yr oedd yr Arglwydd Iesu ei hun, mewn trefn i fyned trwy waith ein pryndegaeth. Meddwl ar bethau ysbrydol a thragwyddol a'n harfoga ninnau i'r rhyfel ysbrydol.

6. Y meddylfryd sydd yn penderfynu tynged dragwyddol dyn: *Diar.* i. 24, a v. 11, 13, a xi. 14, 15; *Rhuf.* viii. 6, 13. Bydd Duw fel pen saer celfydd yn gosod pob deryn yn y lle fydd yn ei *ffitio*—y rhai hardd yn yr adeilad fawr dragwyddol, a'r rhai gwrthun a di-werth yn cael eu bwrw ymaith. Nid y lle ond yr egwyddor fydd dedwyddwch y byd hwnw. Meddwl

cymmodlawn â gwrthddrychau sancteidd fydd yn cyfansoddi nefoedd; megys yn y byd hwn, mai cyfaddasrwydd yn yr archwaeth at yr ymborth sydd yn gwneyd ymborthi yn hapus, a chyfaddasrwydd yn y llygaid at olygfeydd natur sydd yn gwneyd edrych yn bleser, felly anian neu feddylfryd i ymhyfrydu yn sancteiddrwydd Duw a wna ei bresennoldeb yn ddedwyddwch tragwyddol i'r nefolion.

Cyfaddasrwydd archwaeth y meddwl llygredig at-bechod a gwrthddrychau y ddaear sydd yn gwneyd pechod yn fwynhâd, yn "felus-chwant." Ti gei gyfiawnder yn y farn; cei dy roddi gyda rhai o gyffelyb duedd ac archwaeth: fe fydd yr un gwrthddrychau yno yn effeithio dedwyddwch i'r naill a thrueni i'r llall. Gelyniaeth at Dduw, wedi myned trwodd i'r byd tragwyddol, a fydd yn ffynnonell trueni diddiwedd, lle y bydd ei bresennoldeb mor amlwg, ac yn ymddangos mor fuddugoliaethus a gogoneddus byth. Yr un priddyn sydd yn cael ei droi yn wermod chwerw yn un rhywogaeth o hadau ag sydd yn dyfod yn fêl yn y llall: nid yn y priddyn y mae yr achos o'r gwahaniaeth, ond yn yr hâd. Felly y mae tir y byd tragwyddol yr un peth i bawb, ond bydd natur y cynnyrch yn ol natur yr hâd a syrth iddo. Yr un gwres sydd yn llosgi y naill wrthddrych ac yn firwytho y llall; y mae yr un ymborth yn faeth i'r naill ac yn annioddefol i'r llall; y mae rhai creaduriaid yn chwareu yn yr un elfen ag sydd yn boddi y lleill: felly yr un amlygiadau cryfion o Dduw fydd yn troi yn y byd arall yn fywyd i'r saint, ac yn farwolaeth i'r annuwiolion.

IV. *Y mae dal sylw manwl ar y meddwl yn cydweddu â phob path crefydd.* Y mae y dyn duwiol yn gwylio ar ei feddwl; y mae ei sylw yn cyrhaedd yn ddyfnach na'r fuchedd: ac y mae hyn yn hynod o gydweddol â'r oll o grefydd. Gallwn nodi ychydig o bethau sydd yn dangos hyn:—

1. Gwybodaeth a phriodoliaethau Duw. Y mae pechod y meddwl yn weledig i Dduw, ac yn cael ei gasau ganddo: 1 *Sam.* xvi. 7; 1 *Bren.* viii. 39; 2 *Oron.* vi. 8; *Salm* xlv. 21, a cxxxix.; *Jer.* xvii. 10. Ni elli oddef i ddyn wybod drygioni dy feddwl; a pha fodd y goddefi i Dduw ei wybod, yr hwn sydd yn ei gasau yn uwch na neb creadur, ac yn alluog i'w gospi? Nid rhaid cymmeryd cymmaint o ofal am ardd na ddaw ei pherchen byth i'w golwg; ond nid felly tydi. Nid oedd eisieu addurno gwaelod y môr fel gwyneb y ddaear—nid oedd neb i'w weled: ond nid felly y meddwl—dylit addurno hwnw. Herddir y tmlau lle y cyrha llawer i'w gweled: felly y galon. Ni foddlonir Duw â dim, heb y galon; arni hi y mae ei lygaid: *Esa.* lxvi. 2, 3. Ni foddlonid tywysog heb y galon pe gallai ei gweled, ond nis gall. Gellir twyllo dyn â gwenaith, ond nis gellir twyllo Duw.

2. Person a swyddau y Cyfryngwr. Y mae y rhai hyn i'w defnyddio yn y meddwl. Er fod Crist yn anweledig i'r llygad corphorol, y mae y saint yn ei garu: "yr hwn er nas gwelsoch yr ydych yn ei garu." Er ei fod yn absennol o ran y corph, y mae yn trigo trwy ffydd yn nghalon y credadyn. Nid yw yn awr yn wrthddrych y llygad na'r teimlad, ond y mae etto yn wrthddrych y meddwl er pelled yw. Gall y meddwl "weled Iesu, yr hwn a wnaethpwyd ychydig is na'r angylion, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd." Ei aberth sydd yn wrthddrych y meddwl—nid y llygad. Ffydd sydd yn canfod "y pethau nid ydys yn eu gweled," sef yn rhoddi bod iddynt yn y meddwl. Y mae y meddwl mor alluog i gynnrychu effaith o wrthddrychau absennol, ac i'w teimlo, ag ydyw i deimlo effeithiau gwrthdrychau presennol, trwy iddo gael sicrwydd o honynt; fel y teimla rhieni oddi wrth hanes marwolaeth eu plentyn o bell. Y mae Crist, er yn mhell, yn weledig i'r meddwl, fel y mae y sêr i'r llygad. Nid yw Duw yn gweithredu lle nad yw ei bresennoldeb: ond gall y meddwl dynol weithredu ar wrthddrychau absennol. Aberth Crist a gyfrana ei effeithiau trwy gyfrwng y meddwl: tawela y gydwybod, trwy fod y meddwl yn sefydlu arno fel Iawn. Cymdeithas y meddwl â'i ddiodefiadau a effeithia i gydffurfio y galon â'i farwolaeth. Marsiandwr yw y Cristion, â'i feddwl fel llong yn cyrchu nwyddau y byd tragwyddol i'w rhoddi allan yn y byd hwn er budd y cyffredin. Yn y nefoedd y mae ei ymarweddiad; a phethau y nef sydd yn ffurfio ei ymddygiad ar y ddaear.

3. Gwaith yr Ysbryd. Hwn etto a ddygir yn mlaen yn y meddwl. Dadguddia wrthddrychau ysbrydol, cynnyrcha duedd yn y meddwl at bethau sanctaidd. Trwy effeithio ar y meddwl y mae yn dysgu, yn arwain, yn argyhoeddi, yn dyddanu, yn tywallt cariad Duw yn y galon, yn uno â Christ, yn nerthu: 2 *Cor.* iii. 5; *Eph.* i. 17, 18. Gosodir allan ei waith ef yn beth tu-fewnol—"gweithio ynoch ewyllysio." Y mae y meddygon yn methu gwella rhai, am nas gallant anfon y cyfferiau at sefyllfan y drwg sydd oddi fewn: ond gall yr Ysbryd weithio ynom—rhoddi ei law a'i gyfferiau i fewn ar y gydwybod. Dywedir ei fod "yn trigo" yn y saint, fel y Shechinah yn y deml; nid o ran ei berson, ond yn ei orchwyliaeth: sonir am fod yn "gyfranogion o'r Ysbryd Glân." Rhoddi halen yn ffynonell y dyfroedd y mae yr Ysbryd: y mae yn dylanwadu ar y dyn fel y mae y cadben yn troi y llong trwy roddi ei law ar y llyw sydd yn ei rheoli; neu fel y meddyg yn cymmhwysio ei gyfferiau at ran o'r corph sydd dan ammhariaeth, ac sydd yn achosi adfeiliad drwy yr holl gyfansoddiad; neu, fel y gwneir ammodau heddwch â llywydd byddin, yna y mae y fyddin oll yn cydffurfio â'r hyn a wna y llywydd; neu, fel garddwr yn tori ar wraidd pren a fo dan

afiechyd, er mwyn ei wellhau a chael ganddo ddwyn ffirwyth: 1 *Bren.* viii. 61.

Cyflawna Satan ei oruchwyliseth trwy ddwyn rhyw wrth-ddrychau i'r meddwl, a hyny trwy y moddion ac ar yr amserau mwyaf cyfaddas. Y mae yn amcanu i'w gynlluniau ymddangos yn y fuchedd, ac i'w gynnygion ar y meddwl dori allan yn yr ymarweddiad yn gyhoeddus; ond y mae yn gwybod yn mha le i ymosod i gael hyn oddi amgylch, sef ar y meddwl. Gŵyr Satan, os caiff efe y meddwl i gydsynio, a'r serchiadau i ymgynhyrfu am y peth, y bydd y gwaith wedi ei orphen—na bydd trafferth mwy i gael aelodau y corph yn arfau anghyfiawnder i bechod: gan hyny “cadw dy galon yn dra diesgeulus” rhag cael ei halogi gan ei gynnygion. Os gall lwyddo i gynnhyrfu chwant yn y galon, efe a ŵyr fod y canlyniadau wedi eu sicrhau; sef, y bydd i'r chwant, “wedi ymddwyn, esgor ar bechod.” Oddi ar wybod fod arosiad y gair yn y meddwl yn sicr o'i wreiddio yn raddol yn y serchiadau, ac o beri iddo darddu allan yn y fuchedd, y mae y diafol yn ei gipio ymaith â'r fath frys. Fel rhai o dywysogion y byd yn sychedu am yr orsedd; ac i'r dyben o gynnhyrfu y werin i wrthryfel, gwnant eu llaw at y gŵr fyddo yn meddu mwyaf o ddylanwad arnynt; a thrwy gael dylanwad hwn o'u plaid, llwyddant i gynnhyrfu yr holl werin; felly Satan a wna ei law at y meddwl, yr hwn sydd yn meddu dylanwad cryf ar holl aelodau y corph; ac os caiff ddylanwad tufewnol o blaid ei gynnygion, bydd yr holl aelodau, a'r holl nwydau, o dan eu harfau milwraidd yn gyhoeddus: 2 *Sam.* xix. 14; *Diar.* vii. 25.

4. Moddion Gras. Bwriadwyd y rhai hyn i ddwyn pethau ysbrydol i'r meddwl. Yr holl ddefodau crefyddol a sefydlodd Duw i ni i'w harfer sydd wedi eu rhoddi i'r dyben o ddwyn y meddwl ar bethau ysbrydol: dyma amcan y gweddio, y pregethu, a'r cwbl. Amcan neillduad y ddau bren yn Eden oedd i ddwyn y meddwl ar bethau byd tragwyddol. Dyben holl aberthau y ddeddf seremonïol ydoedd arwain meddyliau yr addolwyr at aberth y Cyfryngwr. Y mae cyfaddasrwydd yn moddion gras i osod y meddwl ar bethau ysbrydol: *Salm* xlv. 5. Trwy ddwyn gwrthddrychau ysbrydol i'r meddwl, y mae y moddion yn ateb y dyben i droi ac i sancteiddio yr enaid: dwyn Duw i'r meddwl nes ei ofni, dwyn Crist i'r meddwl nes cael y galon i'w garu. Oni lwydda y moddion i sefydlu y meddwl ar wrthddrychau sanctaidd, ni lwyddant i ateb y dyben o droi a dychwelyd. Y mae y pethau o'r fath bwys, byddant yn sicr o effeithio os cânt aros yn y meddwl; ond i fawredd Duw ddyfod i'r meddwl, pair hyny ei ofni: a'r un modd gyda phob peth, yr ydym yn teimlo yn briodol i'r peth a fyddo yn y meddwl. Y mae moddion gras fel gwydr-ddrych i'r meddwl i weled pethau

ysbrydol. Dylai y pregethwr amcanu at y meddwl, fel y milwr am y galon.

5. Grasau y saint. Y mae pob gras yn cynnwys gweithrediad y meddwl: *Salm* lxiv. 9; *Eph.* i. 18, 19. Felly y mae edifeirwch: *Ezec.* xviii. 28; *Hag.* i. 5. Amrywiol weithrediadau y meddwl ydyw amrywiol rasau y saint, ond dan ddylanwad yr Ysbryd Glân. Yr effaith o ystyriaeth y meddwl o ddrwg pechod ydyw edifeirwch. Gweithrediad serch oddi ar olwg ar ddaioni Duw yn Nghrist ydyw cariad. Ffydd yn Nghrist ydyw ymorphwysiad y meddwl ar ei aberth am heddwch â Duw. Y mae y grasau hyn yn taffu allan ffrwythau amlwg yn y fuchedd. Y mae gan fydd ei gweithredoedd—gobaith, cyffes, cariad, ufudd-dod, &c.: ond yn y meddwl y mae y ffrwythau hyn yn tarddu. Goddef pethau llygredig yn y meddwl gan hyny sydd yn gormesu ar egwyddor ymarweddiad sanctaidd, ac yn llygru yr ymarweddiad drwy hyny; fel afiechyd yn rhanau tufewnol y corph yn gwanychu yr aelodau allanol. Ni ddichon cariad llawn fod oddi eithr fod y gwrthddrych yn y meddwl. Dyeithrwch y meddwl i bethau ysbrydol sydd yn attal gweithrediad grasusau yr Ysbryd. Trwy ddwyn gwrthddrychau y grasusau i'r meddwl y cyfröir pob gras i weithredu. Byddai mor hawdd i'r celfyddydwr weithio heb ddefnydd ag y byddai i gariad hanfodi heb wrthddrych iddo yn y meddwl: er fod egwyddor pob gweithrediad sanctaidd yn aros yn y meddwl pryd na bydd y gwrthddrych yn y meddwl, etto nid yw yn gweithredu heb- ddo. Y mae y Gair fel hâd i'r tir at ffrwytho, trwy ddwyn y gwrthddrych i'r meddwl a'r sylw. Y mae pob dyledswydd yn gofyn y meddwl: 2 *Cor.* x. 5; *Heb.* viii. 10; *Iago* i. 8. Ffurfiâu allanol, heb y meddwl a'r galon, a ffeiddir gan Dduw: *Salm* l.; *Esa.* lxvi. 1—3. Nid ydyw dyn heb ei feddwl ond anifail, a llai na hyny. Rhaid gweddio â'r holl galon, yn yr ysbryd, gyda chalon ddrylliog. Cyn belled ag y mae y weddi yn ffrwyth barn ac ymagweddiad ewyllysgar y galon, y mae yn rhinweddol neu yn ddrwg: rhaid iddi darddu oddi ar gariad at Dduw, neu ammharch iddo yn y meddwl. Y cyflawniadau crefyddol sydd yn tarddu oddi ar gymhelliadau ereill, sef rhai gorfodol a hunanol, nid ydynt yn gymmeradwy gyda Duw. Y rhai sydd yn ffrwyth ymroddiad penderfynol y meddwl i ogoneddu Duw, ac i ymestyn at hyny drwy rwystrau yn ddi-lwfrhâd, serch aberthu pob peth y byd hwn, y rhai hyn sydd gymmeradwy gyda Duw:—"Yr Arglwydd a bwysa yr ysbrydoedd."

Rhaid gwasanaethu yr Arglwydd "yn yr ysbryd, ac nid yn hender y llythyren." Ni ddichon fod dim rhwng yr enaid a Duw yn y cyflawniad o'i ddyledswyddau, oddi eithr fod y meddwl a'r galon ar waith. Nid ydyw cyflawniad o ffurfiau allanol, o ran y corph, heb y galon a'r meddwl, byth yn dwyn

y pechadur at Dduw, nac i'w gymdeithas. Moddion ydyw y ffurfiau allanol i gyfarwyddo a dyrchafu y meddwl at Dduw mewn Cyfryngwr; ac oddi eithr eu bod yn llwyddo i hyny, nid ydynt yn ateb dim dyben. Y meddwl sydd yn gyfaddas i ddyfod at Dduw. Gall y corph ymaffyd yn ffurfiau allanol crefydd, ond gall y meddwl ymaffyd yn y Ddwod ei hun. Rhyw wialen i gario *electricity* yr enaid, a'i gyfeirio at Dduw, ydyw y moddion: y meddwl a'r serchiadau ydyw yr elfenau sydd yn rhedeg ar hyd-ddi i'r byd ysbrydol. Meddwl dyn ydyw yr unig beth sydd yn alluog i fasnachu â'r byd ysbrydol. Gall y meddwl dynol hwylio ei long dros gefnfor dadguddiad i'r byd anweledig, a chyrru pethau mawrion eu gwerth i'r ddaear. Trwy i'r moddion ddyrchafu a sefydlu y meddwl ar Dduw, byddant yn llwyddiannus i gynnwyrchu yr holl effeithiau yn y fuchedd sydd yn ddyben i'r moddion hyny. Anfonir troseddwr yn llaw y swyddog i'r llys, fe allai, yn mhell i'w brofi; felly y meddwl a'r gydwybod yw swyddog Duw, yn dwyn ymarweddiad y pechadur yn mhell at orsedd Duw, i'w brofi, ac yn sefyll yno i glywed ei ddedfryd. Y meddwl sydd yn nesau at Dduw, yn dyfod dan argraph ei bresenoldeb, ac yn cael ei "newid i'r unrhyw ddelw."

V. *Y mae meddwl dyn, fel y mae wedi ei lygru trwy bechod, yn cynnwyrchu amrywiaeth mawr o "feddyliau ofer."*

Edrychwn ar "feddyliau ofer" yn eu hamrywiaeth:—

1. Meddyliau afian ar bethau drwg ynddynt eu hunain; megys bwriadu drygioni, ac ymhyfrydu ynddo yn y meddwl: *Salm* x. 2, 3. Y fath fyd cyfan o ddrygioni sydd yn meddwl pechadur! Ni ddaeth y filfed ran i'r golwg: "ceudod a chalon pob un o honynt sydd ddofn"—ni fwriodd y cwbl allan. "O hel-aethrwydd y galon y llefara y genau:" nis gellir adwaen y galon gan mor ddofn yw ei drygioni; y mae "calon plant dynion yn llawn ynddynt i wneuthur drwg;" y mae "holl fwriad meddylfryd calon dyn yn unig yn ddrygionus bob amser;" *Gen.* vi. 5; *Diar.* xv. 26; *Hab.* ii. 5. Ni ddarfu i holl wyrthiau a phrofedigaethau yr anialwch ond rhoddi gwybod mewn rhan y dirfawr ddrwg oedd yn nghalonau y bobl. Taffai allan yn ngwyneb pob gwrth, pob cyfyngder, a phob gwaredigaeth—fel llestr llawn, pob symmudiad arno yn peri iddo dafu drosodd: *Deut.* viii. 2. Hyd yn oed ar ol gwaredigaeth fawr, yr oedd yn rhaid gwahardd iddo luchio allan: *Deut.* ix. 4. Yr oedd yn rhaid gwahardd cyfoeth, rhag iddo ymgynhyrfu a thori drosodd: *Deut.* xvii. 17. Yr oedd yn rhaid cadw copi o'r gyfraith beunydd, am yr un rheswm: *Deut.* xvii. 18. Yn y galon a'r meddwl yn unig y meiddia yr annuwiol wadu y gosp: *Salm* x. 6, 11, 13. Yn y galon y mae yn gwadu Duw: *Salm* xiv. 1. Yn y meddwl

y mae yn ddeithr i Dduw: *Salm* x. 4. Yn y dosbarth hwn y cynnwysir meddyliau anniwair, aflan, anllad, anghyfiawn, twyllodrus; bwriadau creulawn, cenfigen, enllibiau, celwyddau, meddyliau melldigol, dialgar: *Salm* xxviii. 2, 3; *Diar.* xxiv. 2; a xxvi. 24. Ni ellir eu nodi bob yn un ac un; cymmerai hynny amser maith. Ni ellir rhifo y meddyliau melldigedig yn erbyn Duw a dyn sydd yn ymgodi mewn un galon mewn ysbaid blwyddyn! Pa faint llai mewn oes: pa faint yn mhob calon am oes y byd! Y mae y cwbl yn weledig i Dduw. Mor fawr yw ei amynedd! Y mae yr holl ddrygioni a'r ysgelerder sydd yn ymarweddiad allanol y byd yn anfesurlo; ond nid ydyw ond ychydig at y pethau sydd yn anweledig. Gwna calon un dyn ddychymmygu mwy o anwiredd nag a gyflawnir yn allanol gan gant: gall y galon ladd a lladrata heb ofn cosp wladol, pryd na feiddia y corph eu troi yn weithredoedd. Y mae gan y meddwl gyflawn ryddid, ac nid oes iddo unrhyw anghyfle fel y corph.

2. Meddyliau am bethau cyfreithlawn, ac etto yn ofer.

(1.) Yn y dosbarth hwn y mae meddyliau anamserol, megys am bethau y collwyd y cyfleusdra atynt. 'Pe gwnaethwn fel hyn neu fel arall,' meddai y dyn, pan y mae y cyfle i hynny wedi colli. Rhai fel hyn ydyw meddyliau yr uffernolion:—meddwl am y golled anadferadwy. "Y cynhauaf a aeth heibio, darfu yr haf, ac nid ydym ni gadwedig." Felly y mae rhai yn meddwl gyda phethau y byd: *Diar.* xvi. 9. Meddyliau anamserol am y byd neu grefydd, megys y gŵr goludog, y morwynion ffol:—yn y dosbarth hwn y mae meddyliau am yr amser a ddaw; gofalu ynghylch profedigaethau dychymmygol yn mhell yn mlaen: *Diar.* xix. 21. Felly y mae meddwl am y byd yn y bregeth, neu ar y Sabboth.

(2.) Meddyliau anghymmedrol uwch law pwys y peth, neu rhy arosol. Tristwch mawr am ychydig golled, neu siomedigaeth: "Beth a wneir am y can talent?"—y tyddyn tir, y pum iau o ychain. "O rhedaist ti gyda'r gwŷr traed, a hwy yn dy flino, pa fodd yr ymdarewi â'r meirch? Ac os blinasant di mewn tir heddychol, yn yr hwn yr oeddit yn ymddiried, pa fodd y gwnei yn ymchwydd yr Iorddonen?" Y mae lliaws etto fel Martha, yn "ofalus a thrafferthus ynghylch llawer o bethau;" neu fel y gŵr ieuange y cawn ei hanes yn yr efengyl, yn prisiao cyfoeth y byd hwn uwch law teyrnas nefoedd. Ceir meddyliau anghymmedrol hefyd yn fynych yn y ffurf o wneuthur gormod cyfrif o drosedd bychan a wnelo arall i'n herbryn. Rhoddodd Sarah ei llawforwyn, Hagar, mewn gormod o anrhydedd; yr oedd yn ufudd cynt, ond yn cweryla wedi hynny: felly nis gellir iawn ddefnyddio y byd heb ei adael yn ei le priodol. Rhaid peidio teimlo gormod oddi wrth ei lwydd na'i aſwydd.

(3.) Meddyliau am bethau ammherthynasol i ni:—"ymyraeth

â materion rhai ereill." Perthyn i'r dosbarth yma, fe allai, y mae y meddyliau sydd yn tarddu oddi ar genfigen, megys yr eiddo y mab hynaf yn nammeg yr afradlawn. Yn gyfeiriol at y teimlad yma y gofynodd ein Hiachawdwr y cwestiwn hwnw i Pedr—"Os mynaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth yw hynny i ti? canlyn di fyfi." Yn yr un dosbarth y rhaid rhestru meddyliau am ddyledswyddau rhai ereill tra yn anghofio yr eiddom ein hunain—ymyriad diangenrhaid âg amgylchiadau ein cymmydogion, parodrwydd gormodol i farnu crefydd pobl ereill, drwgdybiau am frodyr yn y weinidogaeth, beirniadu pregethau mewn ysbryd ammhriodol dan esgus gofalu am burdeb yr athrawiaeth, a llawer o bethau o gyffelyb natur. Yn y dosbarth hwn y mae meddyliau gwyllt a dychymmygol heb fod dan lywodraeth barn gywir, megys trefnu *estate* yn dy feddwl heb fod yn ei meddu; cymmeryd arnat ymyrd â gwaith nad oes genyt un cymmhwysder iddo—cymmeryd lle y cyfreithiwr yn y llys, neu le y meddyg; meddwl pa fodd y bydd dy gyfoeth yn cael ei ddefnyddio yn mhen can mlynedd—nid yw hyn yn perthyn i ti. Y mae y cyfryw feddyliau yn rhai "ofer."

(4.) Meddyliau di-ddyben a diffwrth, a bwriadau heb eu cyflawni. Y mae rhai yn tyru golud yn eu dychymmyg, cyn erioed ei gasglu. Y mae llawer o fwriadau bydol yn tafu yn rhy bell yn mlaen, fel yr eiddo y goludog yn y ddammeg. Nid yw yn iawn i ddyd arfaethu dim ag a gymmer amser hir i ddyfod i weithrediad. Y mae yn briodol i Dduw lunio arfaeth hir, o blegid y mae efe yn sicr o fyw i weled ei chyflawni; ond am danat ti, os arfaethu hefyd, y mae yn ddigon i ti, fel Paul, arfaethu pa le i aauaf y tymmor nesaf. Ofer i ti lunio arfaeth hir—bydd yn sicr o fyned yn ofer. Nid llawer o hyd oedd yn arfaeth y goludog; dim ond "tynu i lawr ei ysguboriau, ac adeiladu rhai mwy," ond gofynai fwy o amser i'w chyflawni nag oedd gan yr awdwr yn ei feddiant. Y mae gan rai feddyliau ofer iawn am fyned i'r America, ac ereill am llawer o gynlluniau bydol. Yn y dosbarth hwn y mae meddyliau hannerog am bethau bydol, heb ddyfod i aeddfedrwydd; cynlluniau a bwriadau anorphen, di-ddyben; cynllun allan o gyrhaedd o ran moddion—"Pe bai genyf fodd, gwnawn fel hyn neu fel arall;" fel un yn cynllunio peiriant, ond yn anorphen, neu heb allu cynllunio moddion i'w ddwyn allan. Y mae y cwbl yn "ofer."

3. Meddyliau ofer am grefydd.

(1.) Y mae meddyliau dadleugar yn gyffredin yn ofer. Nid â y mwg i fyny os bydd cynnhwrf yn y gwynt; felly, ni ffynha weddi ond mewn ysbryd tawel. Addefwn fod dadleuon ar bethau crefyddol, yn cael eu dwyn yn mlaen mewn ysbryd addas a chydag ymchwiliad manwl i'r gwirionedd, wedi dwyn llawer o fudd a goleuni; ond ymroddi i ddadleu er mwyn dadleu, ac

heb geisio un dyben uwch, sydd yn gadael yr enaid heb fudd, ac ereill heb adeiladaeth: a chan hyny y mae yr holl drafferth a gymmer y meddwl yn y llwybr hwn yn ofer. Y mae gwneuthur gwirioneddau yr efengyl yn fater o ymryson yn eu darostwng: nid yw hyn ond peth tebyg i'r dybenion sydd yn ngolwg y chwareuwyr. Gall y dadleuwr dros ryw wirionedd fod yn gwbl anghrediniol o hono—fel rhai cyfreithwyr, yn dadleu un ffordd ond yn barnu ffordd arall.

(2.) Y mae meddyliau ansefydlog, heb gynnyrchu effaith, yn "feddyliau ofer." Meddwl am ddrwg dy bechod, heb ei adael; meddwl am Grist, heb gredu ynddo; meddwl am Dduw, heb ei ofni; meddwl am ei dŷ, heb fyned iddo; meddwl am weddio, heb wneuthur. Y mae y pethau hyn yn gyffelyb i'r had a fwrwyd ar y creig-leoedd, yn cael effaith dros amser, ond yn gwywo yn ebrwydd; y cwbl yn myned yn "ofer." Y mae crefydd yn gofyn diwydrwydd a sefydlogrwydd, onid é nid ettyb y dyben. Y mae y Gair weithiau yn effeithio i ddwyn y meddwl ar bethau tragwyddol am amser byr, ond nid yw yn aros; y mae yr adar yn cipio yr hâd ymaith—y mae y dyn yn amser profedigaeth yn cilio, a'r cwbl yn myned yn "ofer." Rhaid i grefydd gael dy feddwl yn sefydlog, neu bydd yn "ofer:" fel y crefftwr, rhaid bod wrthi yn ddiwyd, onid é ni bydd modd i fyw. Nid ydyw meddwl ansefydlog ar ddim yn dwyn effeithiau mawr: a sefydlog fydd y meddwl ar bethau a ymddangosant yn fawr—claddu perthynasau, neu ryw berygl ar dy iechyd—bydd y meddwl yn ymsefydlu ar bob peth yn ol ei deimlad o bwysigrwydd y peth.

(3.) Meddyliau diffwrth. Y mae addunedau a bwriadau heb eu cyflawni yn bethau ofer. Y mae lliaws yn addunedu ceisio, ac arddel crefydd, ond heb byth eu cyflawni, fel Ffelix:—"Pan gaffwyf amser cyfaddas, mi a alwaf am danat." Y mae bod heb addunedu yn well nag addunedu a bod heb dalu. Nid ydyw y cwbl a feddyliodd rhai ynghylch crefydd yn ateb dim dyben ynddo ei hun, mwy na phe byddai amaethwr yn addunedu hau ei faes, ond heb wneuthur:—mor ofer a fuasai hyny! Ceir lliaws yn ein gwlad yn addunedu yn ngwyneb gwahanol amgylchiadau sydd yn eu cyfarfod, megys ceryddon, goruchwyliaeth angy, gweinidogaeth yr efengyl, trôedigaeth ereill, cyhuddiadau cydwybod; ond y mae llaweroedd o'r addunedau hyn yn "feddyliau ofer" ar amryw gyfrifon:—am eu bod yn rhy hannerog, yn rhy fyrbwyll, heb ystyried y rhwystrau, ac yn rhy ammhenderfynol am yr amser i'w cyflawni, &c. Addunedau wedi eu tori fydd y tystion gwaethaf yn erbyn gwrandawyr yr efengyl yn y farn! Ni bydd y rhai hyn yn dyfod yn erbyn y pagan!

(4.) Meddyliau hunan-esgusodol. Y dyn yn esgusodi bai

oddi wrth ei fod yn gyffredin, neu am nad yw yn euog o'i fynychu. Y mae pechadur yn dra thueddol i esgusodi ei ddrygau: rhai a lefarant eu hesgusion allan; ereill, na feiddiant eu llefaru, ond ydynt er hyny yn eu coleddu yn eu meddyliau. "Rhyddhawyd ni i wneuthur y ffeidd-dra hyn oll:" "Nid uniawn ffordd yr Arglwydd:" "Gŵr caled oeddit, yn medi lle nis hauaist, ac yn casglu lle ni wasgeraist." Rhai a esgusodant eu drygau trwy feddwl a dywedyd fod y rhai hyny yn ddrygau cyffredin eu cydoeswyr; ereill a ddadlenant mai anfynych y bu iddynt gyflawni y cyfryw bethau; ereill a roddant y bai ar ryw amgylchiadau a'u temtiodd: ond, "na ddyweded neb pan demtier ef, Gan Dduw y'm temtir." Un o'r ffyrdd a arferir i guddio pechod ydyw ei esgusodi. Nis gellir nodi yr holl esgusion sydd yn troi yn meddyliau dynion; ond ofer yw pob meddwl a fwr-iedir i esgusodi pechod, o herwydd y mae llygaid yr Arglwydd yn gweled trwy bob cochl malais a deffir dros anwiredd, ac fe fydd i boethwynt y farn chwythu ymaith bob hŷg sydd drosto yn awr. Bydd y dyn yn euog yn y farn heb esgus—"yn fud." Ofer i ti feddwl yr edrychir ar fathru Mab Duw yn ddrwg bychan am fod llawer yn ei gyflawni; ofer i ti esgusodi dy bechod yn dy feddwl tywyll dy hun, neu wrth dy gyd-ddynion, oddi eithr y gelli ei esgusodi wrth Dduw ei hun. Yno y dylit gyfleu dy esgusion! Bydd yr esgusion yn ofer, o herwydd dy gydwybod di dy hun, pan ddeffry, a dŷn y cwbl i lawr. Ofer i ti ddyweyd fod modd maddeu dy bechod, a thithau yn dal gafael ynddo. Gwell fyddai i ti geisio maddeuant am dano, a'i adael. Ofer ydyw pob meddwl o eiddo y claf, a bŷr iddo wrthod cymmeryd y feddyginiaeth.

(5.) Meddyliau ysgeifn heb fod i bwrpas, heb gyfodi oddi ar ddwysder a theimlad: *Rhuf.* xii. 2, 3. Y mae achos tragwyddol pob dyn yn rhoddi tro drwy ei feddwl yn awr a phryd arall, ac yn argraphu ar y meddwl ar y pryd i ryw raddau ei fod yn bwysig. Ond gyda y rhan fwyaf, nid ydyw yn cael ei deimlo yn y meddwl fel y peth mwyaf ei bwys, ac felly rhoddir y blaen arno i lawer o bethau ereill. Y mae y meddwl yn alluog i deimlo yn gyfartal i'r pwys a ymddengys iddo yn mhob peth a ddél i'r meddwl. Gyda llawer, y mae eu hachos tragwyddol yn sefyll yn eu meddyliau yn beth mor ysgafn a'r peiswyn—awel o wynt tentasiwn a'i chwyth allan o'r meddwl. Lle y mae meddyliau ysgeifn am y peth mawr hwn, nid ydynt ond ofer, ni ddeuant i un diwedd buddiol; ond lle byddo meddyliau pwysig a theimladwy o fawredd pethau tragwyddol, daw y meddyliau hyny yn sicr i ryw ddiwedd mawr. Yr oedd ceidwad y carchar bron cael ei lethu gan bwys ei achos, a diweddodd y tralod mewn credu yn y Gwardwr. Meddwl dwys y claf fod ei afiechyd yn bwysig a'i gŷr at y meddyg. Meddwl teimladwy a

brawychus trigolion y trefydd ar odreu y mynyddoedd tanllyd, fod y tân ar dori allan, a wna iddynt ffoi. Nid yw meddyliau ysgeifn ar hyny yn codi neb i ffoi, gan hyny nid ydynt ond ofer. Yr oedd meddwl y llofrudd yn Israel o dan y fath bwys, nes y y parai effaith dioed, sef ffoi. Y mae meddwl ysgafn yn ansefydlog, fel dwfr, neu fel llong heb *fallast*, at drugaredd y tonau. Y peth a fydd yn bwysig yn y meddwl, megys colled fawr, neu angeu perthynas agos, fe fydd hwnw yn sefydlog.

(6.) Meddyliau hannerog. Y mae rhai yn meddwl am ranau o grefydd, heb fwriadu cymmeryd gafael yn y cwbl o honi. Y mae rhai am adael rhyw bechodau, a dal gafael yn y lleill: y mae hyny yn ofer. Rhaid "casau pob gau lwybr," "diosg corph pechod." Nid yw ond ofer gwella un aelod, a gadael i lygredigaeth weithio yn y llall. Ofer ydyw cau rhai pyrth, a gadael y lleill yn agored i'r gelyn; gochel un graig, a rhedeg dros un arall; diangc rhag y llew, i gyfarfod â'r teigr. Ofer yw gochel meddwi, a mathru Crist; gochel tyngu, ac anghredu yr efengyl; hyny yw, ofer gyda golwg ar sicrhau bywyd tragwyddol. Gwir mai goreu po leiaf a bechir ar bob cyfrif; ond y mae i'r galon barhau o dan lywodraeth unrhyw bechod yn rhwym o fod yn ddinystr i'r enaid am byth.

Y mae rhai yn hannerog gyda dyledswyddau crefydd:—ofer ydyw hyny. Rhaid cael "dyn newydd," rhaid cael "y gweithredoedd yn gyflawn ger bron Duw;" "cyflawn," fel yr amrywiaeth cyfferiau i wneyd i fyny y feddyginiaeth, fel yr holl ranau mewn peiriant, fel yr aelodau yn y corph, fel yr elfenau yn yr awyr. Nid ydyw meddwl am rai dyledswyddau, ac esgeuluso y lleill, ond "ofer"—mor ofer a meddyginiaeth hannerog i'r claf. A'r peth yr ydwynt yn fwyaf tueddol i'w esgeuluso sydd yn fwyaf angenrheidiol i ti, gan fod dy galon yn fwy gwrthwynebol iddo; fel y claf, am gymmeryd pobpeth ond y dracht cryf. Yr wyt am arbed y pechod llywodraethol, am offrymu y cwbl ond Isaac; ond "ofer" ydyw hyny—rhaid cael "y gweithredoedd yn gyflawn."

(7.) Meddyliau am bethau ammherthynasol mewn crefydd. Troi yn barhaus o gwmpas etholedigaeth, neillduolrwydd yr Iawn, neu y pwngc o fedydd—pethau nad oes iachawdwriaeth o'u credu—dyma feddyliau ofer. Y mae meddyliau llawer am etholedigaeth o natur ofer iawn:—'Os etholwyd fi, byddaf gadwedig; ni raid i mi ofalu am fy iachawdwriaeth—gadawaf hi ar etholiad Duw.' "Meddwl ofer" yw hwn! Y mae etholedigaeth yn gytunol â'r Gair:—"Ceisiwch, a chwi a gewch." Y mae yn gadael dy ryddid i ti, a'th rwymau hefyd; y mae yn rhoddi moddion yn dy law i ymarfer â hwynt: y mae Duw yn gwneyd y cwbl yn ol ei ragwybodaeth, ond nid yw yn cadw neb yn ei bechod. Arfaethodd Duw y cnwd i dyfu trwy y ddaear,

ond arfaethodd hefyd i hyny gael ei ddwyn oddi amgylch drwy yr iawn ymarferiad o du y llafurwr a phob moddion ordeiniedig i hyny. Am yr Iawn drachefn, y mae yn ddigonol i ti, y mae yn dy gyrhaedd, a gelwir di ato: ni ddiogela efe neb nes iddo gredu yn y Mab. Daeth ereill ato heb wybod mwy na thithau. Y mae yr Iawn fel drws, neu fel haul—ni waeth faint a edrycho arno; ffordd ydyw, goreu po mwyaf i deithio ar hyd-ddi; noddfa ydyw na lenwir hi byth. Nid oes dim rhwystr i neb ddyfod ato ond yn ei galon ei hun: y mae fel llong newydd yn ymyl un arall ar suddo—ni bydd i ti ymofyn dros bwy y rhoddydd ef pan y daw yn dywydd mawr arnat! Y mae yr Iawn fel y môr, yn nofio pob llong a ddaw iddo, boed fawr, boed fechan: y mae ynddo ddigon o ddwfn, a digon o wyneb, nid oes neb etto wedi hwyllo i'w ganol: nid yw yr angylion â'u llongau mawr ond ar y glanau! Ac nid yw dy gwch di arno yn ddim mwy na chwpan bren ar Fôr y Werydd. Wel, mentra iddo heddyw!

Nid anfoddlonir y llywodraeth trwy ufuddhau i'w chyfraith. Cyfraith Duw ydyw i ti gredu yn ei Fab:—"Hyn yw gwaith Duw," a "hyn yw ewylllys Duw"—"gredu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe." Nid oes dim yn y cyfringynghor (*privy council*) yn groes i hyny!

VI. *Mawr ddrwg meddyliau ofer, a gwerth meddyliau sanct-aidd.* Y mae hyn yn dyfod i'r golwg wrth ystyried yn

1. Fod pethau mor bwysig yn galw am y meddwl: *Ezec.* xliv. 5, 6; *Heb.* ii. 1—4, a iii. 1. Mor afresymol ydyw i ddyn lenwi ei feddwl â phethau gweigion, pan y byddo pethau o bwys yn galw am dano! Ni byddai nemawr o debyg y gadawai dyn i'w feddwl redeg ar bethau bychain a dibwys, pe byddai rhywbeth mawr yn galw am ei sylw, hyd yn oed mewn cyssylltiad â'r bywyd hwn; ni adawai ei feddwl i wibio ac ofera pe byddai achos pwysig mewn cyfraith yn myned yn mlaen ar yr hwn y dibynai ei holl feddiannau bydol, neu pe byddai afiechyd angeuol wedi ymaffyd ynddo ef neu rai o'i deulu, neu pe byddai y plant wedi crwydro i gyrhaedd llewod neu ryw fwystfilod rheibus, neu pe byddai y tŷ ar dân, neu pe byddai y dyn yn filwr yn nghanol brwydr, neu yn llywydd llong mewn tymmestl. Ond O! pa faint mwy ydyw yr achos sydd yma yn galw am dy feddwl! Y mae yma gyfraith fwy yn myned yn mlaen; y mae genyt i barotoi at fordaith fawr! Y mae y pethau hyny yn galw am dy feddwl di sydd yn cadw meddyliau angylion da a drwg ar egni didor—y pethau sydd yn brif ofal Duw, a Christ, a'r Ysbryd—pethau sydd yn cynnwys ynndynt drueni y byd, gogoniaat Duw, dybenion angeu Crist, a dyben holl greadigaeth Duw. Y mae holl briodoliaethau Duw, a holl swyddau Crist, yn galw am dy feddwl; a'r cwbl wedi eu cyfleu o flaen dy feddwl yn y dadgudd-

iad dwyfol, fel y mae y byd naturiol wedi ei gyfleu ger bron llygad y corph. Gwelir hyn wrth ystyried yn

2. Fod galluoedd mor ardderchog a mawr yn cael eu gosod i droi mewn cylch mor fychan. Y mae meddwl dyn wedi ei gyfaddasu i ymaflyd mewn pethau mawrion:—i olrhain yr amlygiadau o Dduw yn y greadigaeth, i rodio drwy y ffurfafen, i.e., i esgyn at Dduw ei hunan i fwynhau ei gymdeithas mewn Cyfryngwr. Ni ellir nodi terfynau y meddwl: pa faint a ddichon ymeangu, ni wyddom ni: sicr yw y bwriadwyd llestr mor fawr i bethau mawr; ni wnaed gwely yr *ocean* yn ormod, ond llanwyd ef â dyfroedd—felly y meddwl. Gall meddwl gyssegru yr holl greadigaeth weledig i ddyben ardderchog—i ogoneddu Duw; neu ynte, gall ei gŵyrdroi oddi wrth y dyben hwnw. Meddwl dyn sydd wedi ei gyfaddasu i ymaflyd yn y cyllun mawr a fwriadodd cariad Duw i achub a diwygio'r byd, yr hwn a ddadguddir yn yr efengyl; gall ymaflyd yn y moddion ar y naill law, ac ymaflyd yn nerth ac Ysbryd Duw ar y llaw arall. Y mae yn alluog i wylled pyrth uffern, ac i ddrysu ei chynlluniau yn erbyn y byd. Gall weithio âg arfau Duw, a gall ymwithio i mewn i fynwes Duw, a gosod ei allu ef ar waith. Gall ymddiddan â'r Duwdod, a derbyn ei gyfrinach. Ond trwy feddyliau ofer, y mae y galluoedd mawrion hyn yn cael eu gwario yn ofer! Gwelir y drwg o feddyliau ofer hefyd wrth ystyried yn

3. Mai trwy sefydlu y meddwl ar bethau ysbrydol y profir gwir ddedwyddwch, ac y diwellir holl ddymuniadau dyn: *Salm* cxix. 54, 55; *Diar.* vi. 21, 22, a xxii. 17—19; *Rhuf.* xii. 2; *Eph.* i. 18—20; *Phil.* iv. 7. Yn amser sychder, ni ofala yr hwn sydd â'i feddwl fel hyn wedi ei sefydlu ar Dduw a'i bethau. Nid oedd y tri llange yn gofalu am ateb i'r brenin, er fod eu bywyd yn y perygl. "Ni frysia yr hwn a gredo" yn yr ysturm fwyaf. Felly yr oedd y prophwyd Habacuc yn dadgan ei brofiad:—pe heb ddafad yn y gorlan, nac eidion yn y beudai, gallasai orfoleddu a bod yn hyfryd yn Nuw ei iachawdwriaeth. Y mae y cyfammod yr un bob amser, addewid a llŵ Duw yn ddianwadal. Y mae y meddwl yn dychwel yn waglaw o bob man arall, ond yma daw â'i long yn llwythog. Caiff yma ffrwyth o'i lafur—ac nid anialwch. Yma y caiff wir fwyd a diod—cnawd a gwaed Mab y dyn. Y mae meddyliau ofer fel plentyn yn chwareu, yn lle dyfod at ei fwyd. Y mae dy feddwl mewn cyfie i weled pethau gogoneddus beunydd; y mae y bwrdd yn llawn i'r meddwl bob amser; y mae yn y cyfie i gyrhaedd pleser yr angel. Ceir pleser yma, uwch yn ei natur, a mwy sicr, a chyda llai o draul na phleseran y llawr, a mwy digymmysg—gwin cryf, iach, wrth law bob amser. Gall meddwl ofer dy golledu mewn un awr yn fwy na phe collit ystâd! Gymmaint a welodd Moses mewn ychydig amser wrth

y berth, neu Paul yn y drydedd nef!—fe allai na buont yno am awr rhwng y cwbl! Ymddengys hyn etto wrth ystyried yn,

4. Mor fer ydyw yr adeg sydd yn ein gafael at bethau mor fawr. Pe buasai genyf sicrwydd am oes hir, y mae yr achos o'r fath bwys fel mai rhyfyg fyddai segura: ond pa faint mwy gydag oes fer—ie, oes ansicr—a hono yr unig adeg am byth! Y mae gwario rhan o amser mor fyr i ymgeisio am lawer o fudd tymmorol yn ynfydrwydd, pa faint mwy ei wario i segura, ei wario mewn oferedd! Mor egniol ydyw yr amaethwr adeg y cynhauaf, am fod ei adeg fer o ganlyniad mor faith! felly y morwr, pan ar gychwyn allan o le drwg, cyn i'r llanw gilio—y mae yr adeg yn fer. Felly tithau, fy nghyd-bechadur, nid oes genyt ddim amser i'w golli; y mae dy long ar lawr mewn lle drwg, a'r llanw yn cilio yn brysur, ac ni ddaw ail-lanw byth. Ychydig gysgu yn y mater yma a ddaw â thlodi tragwyddol; chwareu di am ychydig etto, cei destyn wylofain diddiwedd. Y mae yr achos yma yn debyg i'r hyn ydyw gyda'r cerbydau tân: rhaid bod at y funyd, onid é, byddant yn mhell o'n cyrhaedd yn mhen un munyd. Felly yma: nid oes dim segura i fod, onid é ti golli y *train* sydd yn cludo i'r Jerusalem newydd:—colodd rhai, fe allai, o ddim ond hanner awr! Byd *sharp* ydyw y byd ysbrydol—y mae yno bob peth at ei amser i'r dim. Dylit fod yn gynnil ar amser dy feddwl gochel ei wastraffu! Rhyw un cynhauaf a gollodd yr uffernolion, a chŵynant o herwydd hyny byth!—chwareu, yn lle gweddio; dychymmygu ffyrdd i gasglu cyfoeth, yn lle credu yn Nghrist! Gwelir y niwed o feddyliau ofer wrth ystyried yn

5. Mai sefydlu y meddwl ar bethau nefol ydyw yr unig lwybr i farweiddio llygredd, ac i gynnyddu mewn gwybodaeth a gras: *Eph.* iv. 23, 24. Nid ydyw llygredd cryf ond effaith meddyliau: dyma y pethau sydd yn fwyd iddo; ni chaiff tueddiadau llygredig damaid ond a gyrhaeddo y meddwl iddynt. Y mae i'r egwyddor sanctaidd ei gwrthddrychau—trwy weithredu ar y rhai hyny y cynnydda; felly y mae i'r nwydau eu gwrthddrychau, a thrwy weithrediad y meddwl arnynt y mae y llygredd yn ennill nerth. Trwy i'r meddwl weithredu yn gysson a pharhaus ar wrthddrychau a gwirioneddau unrhyw gelfyddyd y mae deall y gelfyddyd hono; felly yn hollol y mae gyda phethau gras. Y meddwlsydd i ddwyn gwrthddrychau i mewn i gyrhaedd y serchiadau, pa un bynag ai da, ai drwg; y meddwl sydd i ddwyn Duw a Christ i mewn i'r serchiadau. Pan y bydd y meddwl ar wrthddrychau ofer, nid oes dim gwrthddrych yn nghyrhaedd ffydd y gall cariad ei gofleidio: ni roddir ond y tomenau o flaen yr archwaeth glân; ni bydd yn ymborth. Nis gall cariad weithredu heb gael ei wrthddrych yn y meddwl. Y mae y meddwl, trwy goledd pechod, yn ennyn chwant ato. Felly cariad: gosod y meddwl ar Grist a gyffry gariad Duw yn y galon. Cyffrôir

tueddiadau y meddwl yn ol natur y gwrthddrychau a fyddont dan ei sylw:—os pechod, tuedd neu nwyd bechadurus a gyn-nhyfir; ond os Duw, rhaid i ofn a pharch gael eu cynnyrchu.

6. Trwy gadw y meddwl ar bethau ysbrydol y gwelwn ein gwaith at Dduw a dynion, ac y teimlwn gymbelliadau cryfion i'w gyflawni. Dyn difeddwl am Dduw a chrefydd, ni wél eisieu gwneyd dim; ond dyn cyssegredig ei feddwl a wél rhyw bethau i'w gwneyd yn ddidor—fel dyn meddylgar am ei ffarm, gwel rywbeth i'w wneyd yn wastadol. Nid oedd y bugeiliaid difeddwl oedd o flaen Luther yn gweled dim eisieu ei wneyd; ond gwelodd Luther fyd cyfan eisieu ei ddiwygio, a gwelodd ddigon o foddion tuag at hyny. Pen teulu, â'i feddwl ar bethau trawgyddol, a wél eisieu rhoddi rhyw gynghor a rhybudd beunydd, neu ynte gerydd:—ond nid ydyw y difeddwl yn gweled dim eisieu ei wneyd tuag at ei deulu, ei gymmydogion, na'r byd.

Meddylgar er tragwyddoldeb oedd Duw. Er nad oedd y pryd hwnw yn gweithredu, cafodd hamdden da i feddwl; a gwnaeth y defnydd goreu o'r distawrwydd maith! Meddylodd lawer, a gwelodd lawer i'w wneyd, "fel y gwelir heddyw." Os bydd dy feddwl ar bethau crefydd, ti weli dithau rywbeth i'w wneyd: *Salm xxxix. 3.*

7. Trwy feddwl am bethau dwyfol y ceir mwynhau cysur mewn trallod. Trwy hyn y byddwn ddiodeffgar, y dibrisiwn y byd. Gall y meddwl wledda yn ddi-dor: *Rhuf. xii. 2; Heb. xii. 3.* Pa faint bynag fyddo grym yr ystorm, a pha bethau bynag sydd yn dryllio dani, y mae pethau mwyaf meddylfryd ysbrydol heb eu niweidio. Pan y mae rhuthr ar y llong ar y môr yn cymmyrd ei mastiau ymaith, os bydd heb ei hamharu oddi tani, ni bydd y braw mor fawr. Gall yr ystormydd gario ymaith fastiau y Cristion; ond ni bydd dim niwed oddi tanodd. Gall tŷ fyned ar dân, heb ddim perygl ar y weithred sydd yn rhoddi hawl i'r stâd: pe collasid hono, aethai y cwbl ymaith. Fel hyn y mae y Cristion yn ddiogel yn y dwfr a'r tân; y mae ei fywyd "wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw," ac "nid oes dim damnedigaeth" i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu. Y mae meddylfryd ysbrydol yn byw uwch law y byd hwn—ar Dduw ei hun. Bydd ei Brynwr ganddo, wedi colli pob peth y ddaear. Nis gall y byd hwn ei ddarostwng i dlodi; y mae ganddo gyfoeth yn y nefoedd allan o'r perygl. Os rhaid goddef pethau chwerron yma, ni phery ddim yn hir—y mae iddo gartref dedwydd. "Rhodio wrth ffydd, ac nid wrth olwg," y mae y Cristion—sef o dan ddylanwad pethau byd arall. Y mae efe yn teimlo yn ol ei gyssylltiad â phethau yn y byd hwnw. Fe wertha yr oll o'r byd hwn er mwyn prynu hwnw. Y mae fel un wedi *insurio* ei long ar ddydd yr ystorm, heb ofn colli dim. *Ystyria etto:—*

8. Pa faint a wnaeth Duw tuag at godi dy feddwl ar bethau nefol! Creadigaeth, rhagluniaeth, iachawdwriaeth; rhoddi ei Fab, trefnu lawn, darparu holl ordinhadau gras, anfon cenhadon hedd, amlygu ei holl briodoliaethau; ceryddon, barnau, cynghorion, gwyrthiau!—amcan y cwbl ydyw codi dy feddwl ar bethau buddiol a sylweddol, yn lle pethau ofer: *Esa.* xli. 18—20. Llanwyd y greadigaeth â'r fath amlygiadau o Dduw i'r dyben o arwain dy feddwl di ato: *Rhuf.* i.; *Salm* xix. 1. Dwyn Duw i'r meddwl ydyw dyben y cwbl. Mor fawr yw y greadigaeth! Rhagluniaeth yn ei barnau a'i cheryddon, yn ei chynlluniau doeth a'i gofal didor am bob creadur—y mae y cyfan yn cyflwyno testynau buddiol i'r meddwl, yn agor bob dydd o newydd olygfeydd newyddion o ryfeddodau, ac achosion newydd o ddiolch a mawl. Y mae ei manylrwydd wedi ei fwriadu i'n rhyfeddu a'n dysgu: y mae rhagluniaeth fel yn argraphu papur newydd bob dydd i ti i'w ddarllen:—"yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef, ac efe a hyfforddia dy lwybrau." Y meddwl sydd yn cymdeithasu â Duw yn ei ragluniaeth—caiff fwy na thair pregeth yn y dydd, a phregethau grymus ac o duedd hynod o fuddiol! Ond y mae meddyliau lliaws ysywaeth yn aros yn y creadur, heb esgyn at y Creawdwr; ni welant ddim ond ail achosion, ni welant law Duw mewn trugaredd na barn.

Bwriadwyd trefnu yr iachawdwriaeth i godi dy feddwl at Dduw. "Gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist" sydd yn llewyrchu ynddi: "Yr hyn a welsom, ac a glywsom, yr ydym yn ei fynegu i chwi, fel y caffoch chwithau hefyd gymdeithas gyda ni; a'n cymdeithas ni yn wir sydd gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef Iesu Grist;" 1 *Ioan* i. 3. Daeth Iesu Grist i'r byd i hysbysu y Tad: "ac efe a roes i ni feddwl fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir."

9. Y mae effeithiau meddyliau ofer yn ddrwg: y maent yn llygru yr ymddiddanion a'r fuchedd: *Diar.* xii. 23; xxvi. 23, 26; *Mat.* xii. 24, 35—37; *Col.* ii. 18; 2 *Tim.* iii. 8. Bydd yr ymddiddan yr un peth a'r meddwl: os ofer fydd y naill, ofer fydd y llall; "cans o helaethrwydd y galon y llefara y genau." Y maent yn perthyn i'w gilydd fel ffynnon a ffrwd, neu fel pren a firwyth. Rhoddi allan y meddwl yw dyben yr ymddiddan: *Eph.* iv. 22—25. Y mae "dodi heibio o ran yr ymarweddiad cyntaf yr hen ddyd" yn firwyth "ymadnewyddiad yn ysbryd y meddwl." Wedi i'r galon wadu Duw, y mae y dyn yn gwneuthur ffeiddwaith: *Salm* xv. 2. Y mae yn rhaid wrth galon newydd i gadw deddfau Duw.

Y mae rhai difeddwl am grefydd heb ddefnydd ymddiddanion crefyddol. Y mae y tafod fel y dwfr-sugnedydd (*pump*): rhydd allan ddwfr glân neu aflan fel y byddo yn y pydew. Nid ydyw ymddiddanion y genau ond yn amlygu sefyllfa y meddyliau.

Os bydd meddyliau crefyddol, taffant allan yn naturiol yn yr ymddiddan fel mellt o'r cwmmwl. Y mae meddyliau drwg yn maethu tueddiadau drwg yn y galon. Meddyliau y galon sydd yn dwyn gwrthddrychau i effeithio ar y teimladau. Meddyliau am Dduw sydd yn meithrin ofn, cariad, a pharch iddo yn y meddwl: meddyliau am wrthddrychau a phethau gwaharddedig sydd yn maethu tueddiadau at y pethau hyny yn y galon: meddyliau bydol sydd yn meithrin cybydd-dod yn y galon: meddyliau aflan sydd yn meithrin tuedd at y drwg yn y meddwl. Y gwrthddrychau a goleddir yn y meddwl a roddant eu dylanwad ar y galon. Meddwl am gwerylon a chamwri a dderbyniwyd, sydd yn magu casineb yn y galon. Nid yw gwrthddrychau yn ehedeg drwy y meddwl fel yr aderyn trwy yr awyr heb adael ei ôl, neu fel llong ar y môr; ond yn fwy tebyg i surdoes yn y blawd, neu awyr yn yr ysgyfaint, yn gadael effaith ar y corph: *Ezec. xi. 21; Mat. xii. 35.* Cymmundeb â Duw ydyw braint uchaf creadur, a dyben ei greadigaeth: dyma ddyben holl foddion gras, a dyma hyfrydwch penaf y Cristion a dedwyddwch y nef. Ond y mae meddyliau ofer yn attal ac yn tori cymdeithas â Duw: *Salm lxvi. 18; 1 Pedr iii. 4.* Meddyliau sydd yn cynnal cymdeithas â Duw ydyw y rhai mwyaf firwythlawn yn y byd: er eu mwyn y rhoddwyd i ddyn allu i feddwl: ond nid yw holl wibdaith y meddwl trwy y greadigaeth, os yn ei adael heb ddyfod at Dduw, ond ofer at fyd arall. Ofer ydyw holl gynlluniau y meddwl ar bethau bydol, y rhai sydd yn ei adael yn ddy-eithr i ffynnon dedwyddwch. Os bydd y meddwl ar bethau ofer, y mae pob gras yn ddi-waith: gweithrediad y meddwl ar bethau ysbrydol a sanctaidd sydd yn cynnyrchu edifeirwch, a ffydd, a phob gras. Y meddwl sydd yn addas i gynnal cymmundeb â Duw: o ran y meddwl y gellir dyfod ato, ei weled, a derbyn oddi wrtho: *Job xi. 13.*

VII. *Cyfarwyddiadau i ochelyd meddyliau ofer.*

1. Darllen. Nis gellir attal y meddyliau ofer yn hollol. Byddai mor hawdd attal y fellten, neu y gwynt a ddaw i'r tŷ trwy bob agen, er cau y drws; ond y mae darllen llyfrau da, a'r Beibl yn benaf o'r cwbl, yn foddion neillduol i sefydlu y meddwl ar bethau buddiol: *Deut. xvii. 18—20.*

2. Gweddio: *Salm xix. 14; cxix. 36, 80; cxli. 4.* Amcan gweddi yw saethu y meddwl i fyny at Dduw; "dyrchafu y dwylaw a'r galon at Dduw yn y nefoedd." Pan ddel cwmmwl o locustiaid yn y dwyrain i ddifa y cwbl, cynneu tân yw y moddion i'w hattal i ddisgyn, trwy fod y mŵg yn eu hymnid ymaith. Felly gweddi yw y feddyginiaeth i feddyliau ofer: gelli dithau gynneu tân i'w rhwystro i ddisgyn ac aros, er nas gelli eu hattal i ehedeg uwch dy ben: *Salm xli. 2.* Y mae gweddi yn feddyg-

iniaeth i feddyliau ofer yn y ffurf o ragofalon: "Na ofelwch am ddim; eithr yn mhob peth mewn gweddi ac ymbil, gyda diolchgarwch, gwneler eich deisyfiadau chwi yn hysbys ger bron Duw;" *Phil.* iv. 6. Nid yw y wraig yn llefain pan ddelo y plant; ond os daw lladron, hi a lefa. Dylit tithau lefain ar Dduw pan ddaw meddyliau ofer i mewn, canys lladron ac ysbeilwyr ydynt.

3. Sefydlu y meddwl ar bethau da yn ddi-dor. Y modd i gadw llestri rhag gollwng ydyw eu cadw yn llawn. Yr ysgolhaig, trwy ymddiddan sefydlog ar ei bethau, a ddaw yn mlaen; ond y llall, o ddiffyg hyn, ni ddaw fawr yn mlaen. Y mae y rhyddid cnawdol a gaffo y meddwl yn ein rhodiad cyffredin yn ei wneyd yn anllywodraethus yn yr addoliad; fel plant bychain, wedi arfer bod yn afreolus, a fyddant yr un fath pan ddelo gŵr dyeithr i'r tŷ. Wrth rod-di croesaw iddynt yn yr wythnos, cymmerant hyfdra ar y Sabboth. Pobl dldion a grwydrant, oni chânt waith; felly y meddwl—ac os myni ei attal rhag crwydro, sefydla ef ar ddigon o waith. "Segur, segur" ydyw y meddwl pan y mae am grwydro yn yr anialwch, fel y dywedai Pharaoh am Israel yn yr Aipht.

4. Gwyliadwriaeth sefydlog. Galw y meddwl yn aml i gyfrif; dylid cadw gwyliadwriaeth ar y meddwl: "Cadw dy galon yn dra diesgeulus;" "Gwyliwch rhag i'ch calonau un amser drymhau;" "Gwyliwch ar eich ysbryd;" "Edrychwch o ba ysbryd yr ydych." Y mae y meddwl ar waith yn ddidor, ac nid yw yn gofyn cenad, nac yn rhoddi rhybudd o'i wibdaith. Gan hyny, dylid ei alw i gyfrif. Aiff y meddwl i grwydro weithiau, a'r tafod yn myned yn mlaen ar y weddi, fel yr aeth Joseph a Mair daith tri diwrnod cyn gwybod colli y plentyn Iesu. Pe buasai gwyliadwriaeth, gallasai y dyn gadw ei galon o law y gelyn cyn iddi gael niwed—fel Abraham yn achub Lot.

5. Sefydlu trefn reolaidd o ddefosiwn, i alw y galon i gyfrif. Rhaid ei gweithio i amserau priodol, i'w dwyn dan iau Crist, fel y dysgir y milwr. Gwylia arni ar ol gweddi: y mae yn dueddol i fyned ymaith fel plant o'r ysgol, heb feddwl mwy am eu gwers. Dylit alw dy hun i gyfrif, o herwydd rhaid i ti rod-di cyfrif o flaen dy well cyn hir. Y beiau ni nodir allan fe'u gadewir heb eu ceryddu na'u gadael. Dywedodd Duw wrth Noah: "Eich ofn a'ch arswyd a fydd ar holl fwystfilod y ddaear." Felly, trwy Grist, caiff pob meddwl ei gaethiwo i'w ufudd-dod. Dofir bwystfilod gan ddyn—felly y gwna Crist & r meddwl: *Iago* iii. 7. Sethrir y Satan hwn dan draed y saint.

6. Ymddiddanion crefyddol: *Luc* ii. 19. Megys y mae meddyliau ofer yn llygru yr ymddiddanion, felly y mae ymddiddanion sanctaidd yn sancteiddio y meddwl. Y mae ymddiddanion yn cario pethau i'r meddwl, cystal ag yn eu cario allan.

7. Ymddiried yn gadarn yn Nuw am bob peth. Y dyn fyddo

wedi *insurio* ei long, nid ydyw ei feddyliau mor ofer, terfysglyd, ac annedwydd ar ddydd yr ystorm, a'r hwn sydd heb ei diogelu. Treigla dithau dy ffyrdd ar yr Arglwydd, "a'th feddyliau a safant."

8. Cadw wylidwriaeth ar dy lygaid. Y mae gwrthddrychau y llygaid yn rhedeg i'r meddwl: *Job* xxi. 7. Felly y bu gydag Efa—felly gydag Achan.

ADDYSGIADAU:—

1. Rhaid i bawb feddwl ryw bryd am eu hachos tragwyddol: *Ezec.* xxxviii. 10.

2. Gredadyn! Nid ydyw meddyliau ofer yn penderfynu fod dy gyflwr yn ddrwg: yr oeddynt ynglŷn â Dafydd yn y byd hwn; felly Paul: *Rhuf.* vii. Y maent yn anocheladwy i ryw fesur mewn ystâd amherffaith, ac felly yn faddeuadwy. Nid yw y tad yn digio wrth ei blentyn, yr hwn sydd yn ceisio ei oreu ond etto yn methu cyflawni rhyw waith o bwys, o herwydd ei wendid: ond efe a dosturia wrtho—felly Duw. Y mae Duw ei hun yn dadleu dros wendidau ei bobl: "Onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tân?" "Yr ysbryd yn ddiau sydd barod, ond y cnawd sydd wan."

3. Gwylia ar ysgogiadau cyntaf y meddwl.

4. Er cymmhorth ac annogaeth i gyssegru y meddwl, ystyr-iwn fod meddyliau dilês yn bechadurus ynddynt eu hunain.

5. Rhaid ceisio serchiadau sanctaidd.

6. Rhaid ymdrechu i gadw y serchiadau yn ddarostyngedig i'r farn.

PREGETH XVII.

MODDION IACHAWDWRIAETH.

Rhufeiniad x. 17.

"Am hyny ffydd sydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw."

Y MAE pethau mawrion weithiau yn dyfod trwy bethau bychain. Yr ydym yn gweled hyn yn fynych mewn natur; ac yn ei ganfod hefyd yn y byd celfyddydol. Gwelwyd darganfyddiadau neu ddyfeisiadau mawrion yn dyfod i'r amlwg oddi ar achlysuron a thrwy foddion distadl iawn. Gweled afal yn syrthio i lawr oddi ar gangen y pren a barodd i Syr Isaac Newton wneyd ymchwiliad am yr achos o hyn—pa ham y syrthiai i lawr i'r ddaear, mwy nag y diangai ymaith i'r awyr?—a'r canlyniad fu, iddo gael allan y deddfau pwysig hyn mewn natur, a elwir deddfau pwys a thyniad. Yr ydym yn gweled pethau cyffelyb yn nhrefn rhagluniaeth Duw tuag at y byd. Dyrchafiad Joseph yn llywydd ar wlad yr Aipht, yr hyn a fu yn foddion i gadw yn fyw bobl lawer, a ddygwyd yn mlaen trwy gadwen o amgylchiadau distadl iawn. Yr oedd fod ei dad yn gwneuthur iddo siaced fraith yn un ddolen yn y gadwen, ac felly yr amrywiol amgylchiadau ereill. Y mae hyn i'w weled hefyd yn nhrefn iachawdwriaeth. Y mae yma bethau mawrion yn cael eu dwyn yn mlaen trwy foddion distadl. Mae y pethau mwyaf yn dyfod trwy ffydd, a ffydd yn dyfod trwy glywed.

Y mae ffydd yn llanw lle mawr mewn crefydd. Y mae iddi swyddogaeth o'r pwys mwyaf yn ein hiachawdwriaeth. Trwy ffydd y cyfiawnheir dyn gyda Duw; a thrwy ffydd y mae dyfod i heddwch Duw: *Rhuf.* v. 1. Heddwch Duw ydyw y cwbl at sicrhau dedwyddwch tragwyddol dyn. Trwy ffydd y mae cymdeithasu â Duw. Ffydd sydd yn gweled yr Anweledig. Ni ddichon fod cymmundeb rhwng eir meddyliau â Duw ond trwy ffydd. Ffydd sydd yn uno yr enaid â Christ. Undeb ffydd ydyw yr undeb ysbrydol hwnw. Ffydd o du y pechadur, a'r

Ysbryd o du Crist, a wna yr undeb i fyny. Y mae y credadyn yn Nghrist trwy ffydd, a Christ yn y credadyn trwy ei Ysbryd. Trwy ffydd yr ydym yn derbyn o gyflawnder Crist. Ffydd sydd yn cymmhwysu gwaed Crist at y gydwybod; trwy ffydd y tynir rhinwedd o angsu y groes. "Ffydd," medd Bunyan, "yw y tusw isop sydd yn taenellu gwaed Crist ar gydwybod pechadur." Ffydd ydyw effaith uniongyrchol argyhoeddiad yr Ysbryd: a chyfrifir ffydd, gan hyny, yn ffrwyth yr Ysbryd. Y mae yr Ysbryd yn argyhoeddi o wirionedd a phwys tystiolaethau y Beibl, a thrwy hyny y mae y galon yn cael ei dwyn i deimlo cynnwys y gwirioneddau hyny. Argyhoedda o ddrwg pechod, nes dwyn yr enaid i alaru o'i herwydd; ac argyhoedda o wirionedd tystiolaeth Duw am ei Fab, nes ennill y galon i ymddiried ynddo. Ffydd sydd yn diffoddi picellau tanlyd y fall. Y mae yn darian i ddiogelu yr enaid rhag temtasiynau y gelyn. Mae ffydd yn adnabod ei ddichellion ef; ammhossibl yw iddo dwyllo ffydd: mae ffydd yn gweled gwenwyn ei gynnygion, ac yn edrych i'w canlyniadau tragwyddol. Ffydd sydd yn gorchfygu y byd yn ei wŷg ac yn ei wên. Mae ffydd yn galluogi yr enaid i ddibrisio y byd, i edrych arno yn fychan a dibwys, trwy ddwyn y meddwl i gydnabyddiaeth â byd uwch na hwn—byd mwy—byd ysbrydol a thragwyddol ei barhâd—a byd yr ymddengys y byd yma yn ei ymyl yn fychan, a'i holl helyntion ond fel chwareu plant. I feddwl yn cymdeithasu â byd tragwyddol, nid ymddengys cyfoeth y byd hwn yn werth sychedu am dano, na'i barch yn werth y drafferth o redeg ar ei ol; ac nid ymddengys ei drueni chwaith yn werth gruddfan o'i blegid. I enaid yn edrych trwy ffydd i fyd arall, nid ymddengys dioddefiadau yr amser presennol hwn yn werth eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir yno. Trwy ffydd y mae cael hawl i fywyd tragwyddol. "Y rhai sydd o ffydd, a fendithir gydag Abraham ffyddlawn," neu Abraham ffyddiog. Maent yn sefyll yn yr un hawl i'r addewid ag Abraham; yr hon addewid a wnaethpwyd, nid i berson neillduol, nac i genedl, ond i garitor neu gymmeriad moesol; sef, i ffydd. Y mae pawb sydd o'r un ffydd ag Abraham yn sefyll ar yr un hawl ag ef i addewid bywyd tragwyddol. "Yr hwn sydd yn credu i'r Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol."

Ni a welwn, gan hyny, fod ffydd yn llanw lle mawr yn ein hiachawdwriaeth; ond er hyny, mae ffydd yn dyfod trwy foddion distadl iawn—"trwy glywed," neu wrandawriad pregethiad yr efengyl. Ac os daw ffydd trwy glywed, daw pob peth arall trwy glywed. Nid yw ffydd byth yn dyfod i mewn yn waglaw; nid yw byth yn dyfod heb ei Christ yn ei deheulaw—heb iachawdwriaeth ddiagonol gyda hi. Nid yw ffydd wedi ei bwriadu i ddiwallu cyflwr y pechadur wrthi ei hun; nid ydyw yn gyfaddas

hyny. Swydd ffydd yw tynu i mewn bethau ereill gwell na hi ei hun; ei gwaith hi ydyw derbyn Crist yn Iachawdwr, a defnyddio yr iachawdwriaeth sydd ynddo. Mae ffydd fel yr afonydd mawrion yn y prif ddinasoedd; megys yr afon Thames yn Llundain. Nid yw yr afon yn gyfaddas i ddiwallu y ddinas wrthi ei hun: rhaid i'r dinasyddion gael llawer o bethau heb law dwfr at eu cynnal. Ond y mae yr afon yn trosglwyddo i mewn bob peth sydd yn angenrheidiol i ddiwallu y trigolion. Od oes dim gwell na'u gilydd yn y ddwy India, rhaid i'r hen afon Tafwys gael teimlo ei bwys, a'i gario i mewn i'r brif ddinas. Felly y mae ffydd yn tynu i mewn bob peth sydd yn angenrheidiol ar gyflwr y pechadur. Od oes un gras yn nghyfoeth y Duwdod, rhaid i ffydd gael ei gario i mewn i gyflwr y truan. Od oes un fendith yn nghyflawnder Crist, gyfaddas i angen pechadur, m'n ffydd gael gafaél arni, a'i chymmhwyso at yr angenrhaid. Od oes dim rhinwedd yn ngwaed y groes, m'n ffydd ei gael a'i anfon at y gydwybod. Ei swydd hi ydyw cyflawni yn hollol angen y tlawd & chyflawnder Duw ei hun. Er hyn oll, y mae ffydd a'i holl ganlyniadau mawr yn dyfod *trwy glywed*—trwy y moddion sydd yn ein cyrhaedd, ac yn aml yn ein dwylaw—trwy wrandaw yr efengyl. Y mae rhyw fath o wrandaw na ddemnr neb byih a'i gwnelo—"gwrandaw fel y byddo byw yr enaid." Edrychwn yn ddifrifol am i'n gwrandawiad o'r efengyl ateb ei ddyben mawr.

Y mae amryw bethau yn dyfod dan yr enw "ffydd" yn y Beibl. Dawn i wneuthur gwyrthiau a elwir yn ffydd:—"Pe bai genych ffydd megys gronyn o had mwstard, chwi a ddywedech wrth y mynydd hwn, Symmud oddi yma draw, ac efe a symmudai; ac ni bydd dim ammhossibl i chwi;" *Mat.* xvii. 20. "A phe bai genyf yr holl ffydd, fel y gallwn symmudo mynyddoedd, ac heb genyf gariad, nid wyf fi ddim;" *1 Cor.* xiii. 2. Rhoddwyd yr enw "ffydd" ar y ddawn hono, am fod yn rhaid i'r rhai oedd yn ei meddu weithredu rhyw fath o ffydd yn ngallu Duw yn nghyflawniad y gwyrthiau hyny. Yn enw Duw, neu yn enw Crist, y byddent yn gwneuthur gwyrthiau. Nid yw y ffydd hon yn angenrheidiol arnom ni. Mae yn wir pe buasem yn ei meddu, a medru trwyddi fywhau y meirw, ac iachau clefydon wedi i'r holl feddygon fethu, y gwnaethem sôn mawr am danom ein hunain yn ein bywyd. Y mae yn ddiâu y buasem yn holl bapurau newydd Ewrop cyn pen dau fis. Ond ni buasai y cyfryw ffydd yn werth dim tuag at farw. Y mae genym hanes rhai yn dyfod ger bron y Barnwr, ac yn hōni eu bod wedi gwneuthur gwyrthiau lawer yn ei enw, ac yntau yn addef wrthynt nas adnabu efe mo honynt erioed. Rhodded yr Arglwydd i ni y peth mawr hwnw a baro iddo ef ein hadnabod y dydd hwnw. Y mae y ffydd hon wedi colli o'r byd yn ein

dyddiau ni. Gorphenodd ei gwaith. Dyben y gwrthiau ydoedd profi dwyfol anfoniad Moses, ac ereill o'r dynion sanct-aidd a ysgrifenasant y dadguddiad o feddwl Duw i ni, ynghyd â dwyfol anfoniad y Messiah, a'i apostolion. Y mae dynion sydd yn galw eu hunain yn Gristionogion yn hõni yn y dyddiau hyn eu bod yn meddu y doniau gwrthiol. Nid ydym yn arfer dywedyd na meddwl yn isel am y gwahanol bleidiau Cristionogol sydd yn Nhywysogaeth Cymru: y mae yn hawdd i ni estyn deheulaw cymdeithas i'n gilydd, er ein bod yn gwahaniaethu yn ein barnau am ryw bethau dibwys, ond i ni gael lle i farnu am ein gilydd ein bod yn gydwybodol a gonest, ac yn adeiladu ein crefydd ar y sylfaen a osododd Duw. Ond am y rhai hyn sydd yn hõni iddynt eu hunain y ffydd wyrthiol, y mae yn anhawdd eu pasio heb eu dirmygu. Y mae yn rhaid eu bod yn dwyllwyr bwriadol. Nid yw yn bossibl na wyddant nad oes ganddynt mo'r doniau gwrthiol. Pa fodd y maent yn alluog i ddyweyd eu bod yn meddu dawn wyrthiol, a hwythau heb wneyd gwrth erioed? Pe buasem yn tybio ein bod yn meddu y fath ddawn, buasem yn gyntaf yn cilio i ffydd wrthym ein hunain, ac yn gwneuthur gwrthiau, cyn meiddio dywedyd ein bod yn gallu hyny. Nid dywedyd eu bod yn meddu dawn wyrthiol y byddai Crist a'i apostolion:—gwneuthur y wyrth y byddent hwy, a gadael i'r wyrth siarad. Pe caem ninnau y wyrth gan y dynion hyn, ni a'i credem hi. Ond y mae yn rhaid fod eu honiadau yn gwrthwynebu eu cydwybodaau. Gwelsom hanes am anffyddiwr yn teithio trwy Unol Daleithiau yr America, i ledaenu ei gabledau. Digwyddodd ei fod unwaith ar ei daith yn myned dros un o lynoedd yr America. Cyfododd ystorm fawr ar y llyn. A phwy oedd un o'r rhai cyntaf i weddio ar Dduw am waredigaeth ar y llyn, ond yr anffyddiwr. Wedi iddo gael y lan, safodd ar yr heol drachefn i gyhoeddi ei gabledau; ond methodd ei dyrfa a'i oddef, a lluchiasant ato y baw a'r ceryg. Yr oeddynt yn ei wrandaw yn dawel nes y gwelsant ei fod yn siarad yn groes i'w gydwybod; canys wele y dyn, oedd newydd fod yn gweddio ar yr Arglwydd i'w waredu pan ar y llyn, yn awr yn gwadu y Duw hwnw ar yr heol. Y mae y dyn sydd yn gwneuthur twyll bwriadol, trwy ddywedyd yn groes i'w gydwybod ei hun, yn haeddu ei ddirmygu, yn gystal a thosturio wrth ei drueni.

Ffydd arall a elwir gan dduwinyddion yw ffydd hanesiol:—math o gydsyniad â gwirioneddau y Beibl, ac er hyny yn gydsyniad noeth a diffryth, heb gynnyrchu ymorphwysiad ar Grist am fywyd, nac ufudd-dod i'r gwirionedd yn yr ymarweddiad. Y mae llawer yn meddu y ffydd hon yn ein mysg ni yn Nghymru; ac y mae yn well bod yn meddu hon, na bod hebddi; o blegid y mae y ffydd hon yn rhoddi i'r gwirionedd

radd o awdurdod ar y gydwybod, ac yn peri iddo gyffwrdd yn ysgafn â'r serchiadau, nes y mae y gair yn cael ei dderbyn trwy lawenydd gyda hyfrydwch. Y mae y pechadur yn sefyll mewn gwell gobaith am y ffydd achubol, trwy fod yn meddu y ffydd hanesiol. Y mae yn fwy gobeithiol o fod yn cydsynio â'r Beibl, na phe buasai yn ei wadu.

Ond y ffydd sydd dan ein sylw ni yn awr—y “ffydd sydd yn dyfod trwy glywed, a chlywed trwy air Duw”—yw ffydd achubol; yr hon sydd yn effaith argyhoeddiad mwy trwyadl na'r llall, ac yn cynnyrchu ymorphwysiad ar Grist mewn calon, ac ufuddod i'r gwirionedd mewn buchedd. Am fod ufudd-dod yn hanfodol i ffydd achubol, y ceir ffydd yn fynych yn cael ei galw yn ufudd-dod i'r gwirionedd: *Act. v. 32; 1 Pedr i. 22; Rhuf. vi. 17.* Eithr ein hamcan yn bresennol ydyw sylwi ar ffydd yn ei chyssylltiad â'r Gair. Gallwn nodi dau gyssylltiad sydd rhwng ffydd a'r Gair:—Y mae y Gair yn sylfaen ffydd, ac y mae hefyd yn foddion ffydd.

Y mae y Gair yn sail ffydd. Y Gair sydd i'w gredu er iachawdwriaeth. Nid ydym yn meddwl, wrth ddywedyd felly, fod iachawdwriaeth wedi ei chyssylltu â chredu rhai pethau sydd yn y Gair, megys credu rhanau hanesiol y Gair. Gall un gredu gwirionedd yr hanesion ysgrythyrol, ac er hyny bod heb gredu i iachawdwriaeth. Rhaid credu athrawiaeth ein iachawdwriaeth, neu yr hyn yn briodol a elwir yr efengyl:—yr athrawiaeth am gymmeriad Duw, trueni dyn, person a swydd y Cyfryngwr, &c. Rhaid credu y gwirioneddau hyn, a'u credu am mai Duw a'u tystiolaethodd. Nid oes neb teilwng o'i gredu am bethau tragwyddol ond Duw. Gallwn gredu ein gilydd am bethau bychain y ddaear. Pe y digwyddai i ni gael ein twyllo gan ein gilydd am y pethau hyny, ni bydd y twyll o ganlyniad mawr. Nis gallai effeithio ar ein sefyllfa dragwyddol, o leiaf i'r twylledig; gallai hyny i'r twyllwr, os yn fwriadol yn gwneyd y twyll. Ond y mae yr achos sydd yn cael ei benderfynu yn y grediniaeth o ffordd iachawdwriaeth o'r fath bwys, fel y byddai yn rhyfyg ymddiried i neb am dano, ond i'r hwn y mae yn amhossibl iddo fod yn gelwyddog. Ffydd yn Nuw ydyw ffydd achubol. Credu i Dduw yw credu i iachawdwriaeth; o herwydd nid yw gwir ffydd yn ymddiried yn neb arall. Nid yw yn ymddiried yn ngwybodaeth neb ond yr hwn sydd berffaith-gwbl o wybodaeth, nac yn ffyddlondeb neb ond yr hwn sydd anghyfnewidiol. Nid yw gwir ffydd yn troi i'r oesoedd twyll i ymofyn am y gwirionedd. Nid ydyw byth yn gofyn, Beth a ddywed y tadau? Beth a ddywed Tertullian, neu Origen, neu Cyprian, neu Chrysostom, neu Awstin, neu Ambrose? Na! nid y ffordd yna y mae gwir ffydd yn ymofyn am y seiliau i bwysio arnynt yn angeu. Pa beth a ddywed yr Arglwydd? yw

holiad gwir ffydd. “At y gyfraith ac at y dystiolaeth; oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt” —ie, pe y tadau fyddent. Y mae achos diddiwedd dyn o'r fath bwys, fel y byddai yn rhyfyg cymmeryd tystiolaeth creadur i hyderu arni. Y mae gobaith bywyd tragwyddol mor fawr, ac mor werthfawr yn ei wrthddrych, fel y byddai tystiolaethau yr holl greaduriaid yn rhy fychan o sicrwydd am dano. Byddwn yn arfer edrych am gadernid yn y sail, a fyddo yn gyfattebol i bwys yr adeilad. Ni byddwn byth yn barnu yn ddoeth gosod adeilad bwysfawr iawn ar sail egwan. Wele, dilynwn y rheol hon gyda ein hachos tragwyddol, ac ni a wrthodwn dystiolaeth pawb yn sail i'n ffydd, ond yr eiddo ef, yr hwn sydd ei hun yn graig dragwyddol, a'r holl anghyfnawidoldeb yn preswyllo ynddo. Am danom ein hunain, buom yn meddwl pe cawsem dystiolaeth mil o angelion glân am y ffordd i ddedwyddwch tragwyddol, ond heb genym ddim i grogi ein heinioes arno yn angu ond cywirdeb angel—dim genym i'w deimlo rhyngom a neidio i warth tragwyddol ond gair angel—yn sicr, byddai arnom arswyd anturio i dragwyddoldeb felly. Cyfnewidiol yw y creadur: ac arswydem y gallai ei anwybodaeth, er heb ynddo un ddichell, ein camarwain, ac i ninnau gael ein siomi am y cwbl sydd werthfawr. Ond byddwn yn meddwl ein bod weithiau yn gweled y fath gadernid yn nhystiolaeth Duw, fel yr antur- iem i dragwyddoldeb, beth bynag ydyw, heb ofn—heb deimlo dim, na meddwl fod dim i'n cynnal rhag suddo i drueni bythol ond gair ein Duw. Os cawn grogi ein henaid ar un adnod o'r Beibl, byddwn yn ddiogel byth.

Perthynas arall rhwng ffydd a'r Gair ydyw, fod y Gair yn fodd- ion ffydd. Y mae ffydd yn dyfod “trwy glywed.” Mae llawer o dystiolaethau ereill, er yn wirionedd, yn ddiffygiol o brofion i argyhoeddi o'u gwirionedd. Ond nid yw felly yma. Mae tyst- iolaeth yr efengyl wedi ei hamgylchynu â phroffion oddi allan, ac wedi ei chyfoethogi â phroffion oddi fewn iddi ei hunan, i argyhoeddi pob meddwl diduedd. Y profion tufewnol yn unig sydd yn ateb dyben gyda y rhan fwyaf. Dyna y profion sydd wedi eu cyfaddasu at angyffredion y rhan liosocaf o ddynolryw, y rhai sydd yn analluog, o herwydd anwybodaeth, i dderbyn y profion allanol. Cyfaddasrwydd y Gair i chwilio y galon, ac i'w thawelu, a'i gyfattebiad perffaith i lais neu dyst tufewnol y fyn- wee, sydd yn effeithio argyhoeddiad gyda y rhan fwyaf.

Bellach, o hyn hyd y diwedd, fe fydd i ni sylwi yn fwy pennodol ar y Gair fel moddion ffydd. Y mae yn gymmairt felly, a bod pawb sydd heb ffydd, yn bod felly oddi ar ragfarn at y Gair, neu ddyethrwrch iddo—trwy ddifaterwrch, neu esgen- uso ei ddefnyddio yn y modd y cyfarwyddir yn y Gair ei hun, neu ynte oddi ar fod yn amddifaid o hono. Y mae genym lawer

o ffeithiau am ddyonia oedd yn anffyddiaid penderfynol, etto trwy ymroddi i ddarllen y Gair, wedi cael eu hargyhoeddi, heb un moddion arall.

Y mae angenrheidrwydd mawr yn y dyddiau hyn i gyfarwyddo y genedl pa fodd i gael ffydd. Y mae y pregethwyr presennol, a'u tadan o'u blaen, wedi traethu llawer ar natur ffydd, a'i heffeithiau, a'i hawdwr; ond fe allai iddynt fod yn rhy brin yn dysgu eu gwrandawyr pa fodd i'w chael. Y mae gan y Parch. William Gurnall bennod ar natur ffydd, ac ar ei heffeithiau, &c.; ond nid ydyw yn gadael y pwngc heb roddi pennod hefyd i ddangos pa fodd y mae i'r anghredadyn ymofyn am ffydd. Pa fudd i ni a fyddai cael sicrwydd fod mynydd o aur dilyn draw yn Jupiter? Gwell fyddai i ni gael hanes hanner wns yn rhywle ar y ddaear, lle y gallem ei gael. Naill ai na ddywedwch wrthym am Geidwad, neu dywedwch hefyd ei fod mewn cyfie i'w gael: dywedwch ei fod "yn sefyll wrth ein 'drws, ac yn curo," a byddwn ddiolchgar am hanes felly. Pa fuddioldeb a fyddai dangos iachawdwriaeth yn y llenad i bechadur sydd ar y ddaear, yr hon na byddai yn bossibl iddo gael gafael arni? Gwyddom am ardaloedd yn Nghymru, lle yr oedd y pregethwyr yn mron i gyd wedi ymroddi i ddangos i'w gwrandawyr pa fodd y syrthiodd dyn, a pha fath yw yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist; ond na byddent byth yn gweled y Gwarddwr yn ddigon agos at y pechadur fel ag i feiddio eu cymmhell i droi ato a chredu ynddo. Os credu a fyddai y pwngc, egluro natur ffydd a fyddai y bregeth; ond heb roddi dim annogaeth na chyfarwyddyd i neb ymofyn am dani. Ni allent weled yn addas, yn gyttunol a'u hegwyddorion, i gyhoeddi yn wyneb y dyrfa, "Edifarhewch, a chredwch yr efengyl." Ond wedi hyny, daeth y weinidogaeth yn fwy ymarferol; rhoddid yn fynych annogaethau a chyfarwyddiadau i ymofyn am grefydd; a'r effaith a fu dychweliad lluoedd o bechaduriaid at yr Arglwydd. Edrychwn ar y llwyddiant a fu yn y blynyddau diweddaf ar yr ymdrechion o blaid dirwest, a chawn arddangosiad o natur gyffelyb. Bu ein tadan yn ymdrechu i argyhoeddi y genedl o'r pechod o feddwod. Byddai rhai o honynt yn taranu uwch ben y bai hwn, yn fwy nerthol ac effeithiol ar y pryd, fe allai, nag y gallodd neb yn y pedair blynedd ar ddeg diweddaf. Ond er hyny cynnyddu yr oedd meddwod yn mysq y genedl dan yr holl felldithion ofnadwy. Pa ham yr oedd y fath weinidogaeth danllyd yn aflwyddiannus? Yr ydym yn barnu mai o ddiffyg dysgu neu gyfarwyddo y gwrandawyr am y ffordd i ochel meddwod. Yr oeddynt heb wybod y ffordd eu hunain. Nid ydym yn meddwl, wrth ddywedyd felly, eu bod hwy yn yfed yn anghymmedrol; ond nad oeddynt yn deall y ffordd ddiogel i feddwyn droi yn sobr. Yr oeddynt yn caniatâu mesurau bychain o'r diodydd meddwol, eithr yn gwahardd

yn groch fesurau mawrion—heb ddeall, neu heb ystyried, y cysylltiad sydd rhwng mesur bychan a mesur mawr. Peth nesaf i amhosiblrydd ydyw i ddyw, wedi arfer meddwi, ymattal rhag cymmeryd gormodedd o'r diodydd meddwol, os unwaith y caiff eu harchwaethu. Yr oeddynt hwy yn gwahardd meddwod, ond yn cenadu yr hyn oedd yn ei sicrhau—yn condemnio yr effaith, ond yn cyfiawnhau yr achos. Felly, o ddiffyg dysgu y genedl i ochel meddwod, yr oedd yr annogaethau grymus i sobrwydd yn ddieffaith i raddau mawr. Y mae graddau o'r un peth, fe allai, wedi achosi i weinidogaeth yr efengyl fod yn llai llwyddiannus nag y buasai heb y diffyg a nodwyd; sef, traethu llawer ar natur gwir grefydd, ar gwmp dyn, ar drefn cyfiawnhâd, &c., ond esgeuluso annog pechaduriaid i ymaffyd mewn crefydd ymarferol, a'u cyfarwyddo at foddion iachawdwriaeth, yr hyn sydd yn gorwedd mor amlwg yn y Beibl, ac i'w gyfarfod yn llawer mynychach, nag eglurhad ar byngciau.

Hwyrach fod dysgawdwy'r crefyddol weithiau yn cario rhai gwirioneddau yn rhy bell, fel ag i ymddangos yn erbyn y gwirionedd a ddygir dan sylw. Pan yn egluro graslonrwydd yr iachawdwriaeth mewn dull anochelegar, dichon fod yr eglurhâd yn tueddu i adael argraph o'r fath a ganlyn ar ryw feddwl halogedig fyddo yn gwrandaŵ:—'Gan fod yr iachawdwriaeth o ras, fel yr wyf yn clywed, yr ydwyf yn casglu ac yn penderfynu na waeth i mi pa fodd i ymddwyn. Byddaf, yn ol y disgrifiad yna, mewn cystal gobaith am iachawdwriaeth yn y tafarndy ag yn yr addoldy; o herwydd o ras y mae, ac nid ydyw gras yn edrych ar ddaioni yn y gwrthddrych.' Y mae yn wir fod iachawdwriaeth o ras yn hollol; ond y mae mor wir a hyny mai gras sanctaidd ydyw gras Duw. Y mae yn ras nad ydyw byth yn edrych yn ysgafn ar bechod—gras sydd yn gwgu ar bob anwiredd—a gras sydd yn rhedeg allan trwy foddion. "Yn mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaŵ atat, ac y'th fendithiaŵ." Onid wyt ti, O Arglwydd! yn bendithio o ras? Gan hyny, ni waeth i ti pa le i fendithio. Oni all gras redeg i'r chwareudy, a bendithio yno? Na, medd Duw: fy nhrefn i ydyw, dyfod i fendithio lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw.

Y mae digonolrwydd yr iachawdwriaeth yn cael ei gario weithiau i eithafion, fel ag i adael allan yn hollol foddion iachawdwriaeth. Pan y caiff y gwirionedd fod Iesu Grist yn myned ar ol y gyfrgolledig hyd oni chaffo efe hi, ei adael yn anwyliadwrus ac yn hannerog, y mae y meddwl hwnw sydd yn arfer troi gras Duw i drythyllwch yn tynu casgliad felly—'Gan fod y Bugail da yn myned ar ol y golledig nes ei chael, nid ydyw yn ddim gwahaniaeth gan hyny i mi fod yn y dafarn mwy nag yn yr addoliad: byddaf mewn cystal gobaith yn nhŷ y butain ag yn

y chwareudy. Onid yw y Ceidwad yn medru y ffordd i'r manau hyny, fel i'r cyfarfod gweddi? Y mae yn wir fod y Ceidwad yn myned ar ol y golledig nes ei chael: ond nid yn y dafarn y mae yn arfer cymmeryd gafael ynndi; nid yn y puteindy y mae yn arfer cofleidio pechadur; ond yn yr ymarferiad âg ordinhadau sanctaidd gras. Trwy glywed Gair Duw y mae ffydd yn dyfod. Yn ei rodfeydd y mae y Brenin wedi ei rwymo. Y mae iddo rodfeydd pennodol, sef moddion gras ac ordinhadau yr efengyl; y mae i'w gael yno yn wastadol: gan hyny, os mynem ei gyfarfod, ymfynwn am dano yn ei rodfeydd.

Y mae dylanwad yr Ysbryd hefyd yn cael ei ddangos weithiau mewn modd rhy ffafriol i lygredigaeth y galon. "Tywallt dy Ysbryd, Arglwydd," meddai un ar weddi; "ni wneir dim yma nes i ti dywallt dy Ysbryd." Gall fod y cyfryw frawd yn meddwl yn ddiwiwed; ond nid ydyw ei eiriau yn gywir, na wneir dim heb y tywalltiad. Wrth y tywalltiad o'r Ysbryd, yr ydym yn deall dylanwadau grymus—dylanwadau anarferol—dylanwadau yn cynnyrchu diwygiadau mawrion. Mae dyweyd na wneir dim heb y tywalltiad yn rhedeg i eithafion. Y mae preswyliaid yr Ysbryd gyda ni pryd na byddo y tywalltiad. Y mae "llaw yr Arglwydd yn gorphwys yn y mynydd hwn." Pe yr attaliai Ysbryd Duw ei orchwyliaeth yn llwyr, collid gwir dduwioldeb o'n mysg. Nis gall y saint barhau yn sanctaidd heb ddylanwad yr Ysbryd ar eu calonau. Onid ydyw y saint yn demlau i'r Ysbryd Glân? onid ydynt yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd? Ac y mae "ffydd yn dyfod trwy glywed" i galonau llawer ar yr amser tawel hwn. Y mae y fath ddull o weddio yn tueddu i osod cynllun i'r Arglwydd weithio wrtho. Nid ydym ni heb ddymunno gweled etto bethau grymus ac anghyffredin gyda'r efengyl; ond nid oes gan neb sail i bennu y dull a'r graddau i'r Arglwydd weithio. Ni a erfyniwn arno achub pechaduriaid yn y dull a welo yn dda. Gwnaed pethau mawrion yn Ngogledd Cymru ar ol y tywalltiad mawr a fu ddeg ar hugain o flynyddau yn ol. Mae ein heglwysi wedi dyblu yn eu nifer, a'n gwrandawyr wedi lliosogi yn gyfattebol ar ol hyny; ac nid ydym yn deall fod duwioldeb ymarferol yn is yn awr na'r pryd hyny. Gwenith da, cryf, yw y gwenith gauaf; ac yn y cyffredin y mae yn oreu. Gwelsom lawer dan effeithiau grymus yn nyddiau y tywalltiad, ond yn fuan wedi hyny eu holl fwynder yn ymadaw fel y gwllith boreuol; a gwelsom lawer yn dyfod i arddel Crist, heb allu hōni pethau mawr—mewn ofn a gwylder yn penderfynu myned ar ol Iesu Grist, er heb sicrwydd eu bod wedi eu gwir argyhoeddi—ac y mae y rhai hyn heddyw yn golofnau yn nheml yr Arglwydd. Dichon fod eisieu i ni ystyr-ied fod yr Arglwydd yn newid ei ddull yn gweithio at yr amseroedd, fel y mae yr amaethwr yn newid ei orchwyliaeth yn ol y

byddo amgylchiadau yn galw. Gyda chenhedloedd anwybodus, dyleithr i grefydd, y mae yn aml wedi rhoddi dylanwadau nerthol ac anarferol i'w cyffroi; ond trinig cenedl wedi hir ymarfer â moddion gras yn wahanol. Gweithia trwy ymrysoniadau distaw ei Ysbryd ar eu meddyliau trwy y Gair—ac ni chânt ond hyny. Os gwrthodant hyny, efe a'u rhydd i fyny i'w trachwantau eu hunain. Y mae'r golygiad hwn yn cyttuno â'r ffeithiau fod Duw wedi gadael gwledydd cyfain; megys Ffrainc, Asia Leiaf, a gwledydd ereill, lle y bu crefydd bur yn blodeuo am amser maith. Cenedl wedi ei breintio yn uchel, sydd mewn sefyllfa y rhaid iddi ufuddhan i gymmhelliadau Ysbryd Duw trwy y gwirionedd, neu eu diffodd a'u pechu ymaith. Y mae gwadu cymmhelliadau Ysbryd Duw ar feddyliau dynion trwy y Gair, neu eu dangos yn ddi-ddiben a dibwys, neu fod heb weled llaw yr Arglwydd yn gweithio yn y ffordd hon, yn tueddu i gefnogi cyndynrwydd calonau llawer o wrandawyr yr efengyl. Y golygiad fod yr Ysbryd yn cael ei dywallt fel y gwlaw ar y ddaear, ar bob lle heb wahaniaeth, sydd yn dyfod yn erbyn y dystiolaeth fod ffydd yn dyfod trwy glywed Gair Duw. Y mae y gwlaw naturiol, yn wir, yn disgyn ar bob lle, heb adnabod na môr na mynydd, na chraig na dyffryn; y mae yn disgyn lle nad oes ei angen, fel ar y lle y mae yr angen mwyaf am dano. Ond nid felly yn hollol y mae y gwlaw graslawn. Nid yw byth yn disgyn ond lle mae ei angen; nid yw yn disgyn ar bob lle yn ddiwahaniaeth. Yn y tywalltiad mawr a welsom, nid oedd y cawodydd ffrwythlawn y pryd hyny yn disgyn yn y dafarn fel yn yr addoldy; nid oedd y gwlaw maethlawn yn y dyddiau hyny yn disgyn ar y rhedeg-ffeydd a'r dawns-gyfarfod, fel ar y gymmanfa efengylaidd. Na! ar fynydd Seion yr oedd y gwlaw graslawn yn disgyn—yr athrawiaeth oedd yn "defnyddu fel gwlaw; fel gwllithlaw ar irwellt, ac fel cawodydd ar laswellt." Lle byddo enw yr Arglwydd yn cael ei gyhoeddi, y disgyn y cawodydd. "Hwynt hefyd ac amgylchoedd fy mryn a wnaif yn fendith," medd yr Arglwydd; "a gwnaf i'r gwlaw ddiagyn yn ei amser; cawodydd bendith a fydd. A rhydd pren y maes ei ffrwyth, a'r tir a rydd ei gynnyrch."

Y mae y golygiad fod yr Ysbryd yn gweithredu yn hollol anni-bynol ar ddim o du y pechadur—nad all unrhyw agwedd ar y pechadur effeithio dim tuag at ei gael, na thuag at ei attal—yn cael ei gario yn rhy bell gyda llawer, fel ag i filwrio yn erbyn y gwirionedd ysgrythyrol am foddion iachawdwriaeth. Wrth glywed hyn y mae y pechadur calon-galed yn tynu casgliad fel hwn:—'Gan nad yw fy ffydd yn effeithio dim tuag at benderfynu fy sefyllfa dragwyddol, y mae i mi cystal gobaith am ddylanwad yr Ysbryd wrth ymarfer â gwlybyroedd meddwol ag wrth ymarfer â'r Beibl ac oedfaon crefyddol.' Ond y mae yn

amlwg oddi wrth yr Ysgrythyrau fod rhyw agwedd ar bechaduriaid sydd yn tristau Ysbryd yr Arglwydd, ac yn ei ddiffodd. Sonir am bechaduriaid yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân. Ac y mae Duw yn sicrhau mai o'i anfodd y mae efe yn rhoddi pechaduriaid i fyny, ac yn gofyn pa beth oedd i'w wneuthur yn rhagor nag a wnaethai efe iddynt tuag at eu dychweliad, ac yn tystio mai eu pechodau a barodd iddo guddio ei wyneb oddi wrthynt, fel na chlyw eu llefain. Y mae rhyw agwedd neillduol yn mha un na cheir Ysbryd yr Arglwydd byth. Yr agwedd hono ar y galon sydd yn cadw y pechadur draw oddi wrth foddion iachawdwriaeth, sydd yn ei gadw hefyd allan o gyrhaedd dylanwadau yr Ysbryd; o blegid nid ydyw yr Ysbryd yn gweithredu ond drwy y moddion.

Y mae anallu dyn yn cael ei osod allan gan rai fel ag i sefyll yn anghysson â'r pwngc o fod y Gair yn foddion ffydd. Darluniant bechadur yn analluog, fel y marw yn y bedd, yn mhob ystyr. Mae yn wir fod cyffelybrwydd rhwng y farwolaeth ysbrydol a'r farwolaeth naturiol; ond y mae gwahaniaeth hefyd: ac fe allai fod cymmaint o angenrheidrwydd i ni ddeall y gwahaniaeth a deall y cyffelybrwydd. Y mae marwolaeth naturiol yn hollol esgusodol; nid yw Duw yn beio y corph marw yn y bedd am fod yn farw: ond y mae y farwolaeth ysbrydol yn cael ei beio; nid esgusodol mohoni. Y mae y marw naturiol yn hollol analluog i arfer unrhyw foddion tuag at ei fywhâd o feirw: os bywheir ef, rhaid i hyn y gael ei wneuthur trwy weithrediad digyfrwng gallu Duw. Nis gall fod moddion â chymmhwyssder naturiol ynddo i fywhau y marw. Ond am y marw ysbrydol, mae efe yn meddu gallu a chymmhwyssder i ymaflyd mewn moddion o ordeiniad Duw, ac a fendithir ganddo trwy ddylanwad ei Ysbryd i fywhau y marw. Ennill y galon i Dduw ydyw y bywhâd ysbrydol; a gwneir hyn y trwy Air y gwirionedd. Rhaid i'r pechadur, er yn farw ysbrydol, ymaflyd yn moddion y bywhau. Gelwir yr esgyrn sychion i wrandaw Gair yr Arglwydd cyn i'r anadl ddyfod â bywyd i mewn iddynt. Cafodd y prophwydo effaith arnynt cyn i'r anadl ddyfod. Casglodd asgwrn at ei asgwrn: gwisgwyd hwy â gïau ac â chroen. Pe buasai y farwolaeth ysbrydol yn ateb yn hollol i farwolaeth naturiol, ni buasai dyn yn ei gyflwr natur yn gyfaddas wrthddrych i'w berswadio, i'w gymmhell, a'i argyhoeddi. Dywed y Dr. Owen, "Y mae rhyw bethau yn ofynol oddi wrthym ni mewn ffordd o ddyledswydd, y rhai ydynt o fewn cylch ein galluoedd naturiol; maent yn ofynol fel rhagbarotoad i'r adenedigaeth." Fel hyn y mae ymarferiad allanol â moddion gras:—"ffydd sydd yn dyfod trwy glywed." Nid oes gan bechadur allu i gyfnewid ei galon o hono ei hun, ond y mae ganddo allu i ymaflyd yn y moddion a ordeiniodd Duw i'w chyfnewid; ac y mae Ysbryd Duw yn arfer,

ac i'w ddisgwyl i weithredu bywyd trwy y moddion yn yr ymarferiad o honynt. Trwy esgeuluso y moddion y mae pechaduriaid yn esgeuluso iachawdwriaeth. Nis gellir na derbyn nac esgeuluso iachawdwriaeth ond trwy ddefnyddio neu esgeuluso y moddion. Yn y moddion y mae iachawdwriaeth wedi dyfod i'n hymyl—wedi dyfod i'r cyfle i ni ei derbyn neu ei gwrthod; ac ymddygiad y pechadur at y moddion sydd yn penderfynu ei sefyllfa dragwyddol. Yr hwn sydd yn gwrandaw geiriau Crist, ac yn eu gwneuthur, a gyffelybir i wr doeth, a adeiladodd ei dŷ ar y graig; ond yr hwn sydd yn gwrandaw heb wneuthur sydd fel un yn adeiladu ar dywod. Y mae yr Arglwydd yn ei Air yn dadleu yn fynych â phechaduriaid ei fod wedi cynnyg gwaredigaeth i'w rhan trwy roddi y moddion (*Esa.* xlviii. 17, 18; *Ezec.* xxiv. 13); ac yn rhoddi ar ddeall fod y cwbl o'i du ef wedi ei wneyd yn hyn (*Esa.* v. 1—5); ac os byddai y moddion yn aneffeithiol i'w dychwelyd, nad oedd ganddo ddim chwaneg i'w wneuthur ond eu rhoddi i fyny a'u dyfetha: *Esa.* vi. 9—12.

Edrychir gan rai ar weinidogaeth annogaethol neu ymarferol fel yn tueddu at droi dylanwadau yr Ysbryd o'r neilldu, neu argraphu ar feddyliau y gwrandawyr nad oes angenrheidrwydd am danynt. Nid ydyw annog pechaduriaid i edifarhau, credu, gweddio, ac arddel Crist, yn ymddangos iddynt yn cydsefyll yn briodol â'r golygiad fod dylanwadau yr Ysbryd yn angenrheidiol i gynnyrchu y pethau a nodwyd. Y mae hyn hefyd yn tarddu oddi ar ddiffyg deall, neu ddiffyg ystyried, fod y weinidogaeth yn foddion y mae Ysbryd Duw yn gweithredu trwyddi er argyhoeddiad, edifeirwch, a ffydd. Yr ydym yn addef fod angenrheidrwydd am egluro a chadarnhau athrawiaethau mawr yr efengyl; ond dylent gael eu cymmhwysu oll yn annogaethau i sancteiddrwydd. Gellir traethu ar egwyddorion crefydd yn y fath fodd ag i osod y gwrandawyr i feirniadu y pynciau hyny, heb un duedd na chymmhwysder yn y cwbl i ddyfod â meddwl y pechadur at ei achos ei hun. Eglurhadaeth fanwl a philosophaidd ar natur cariad at Grist a gynnyrcha ysbryd beirniadu y mater, a beirniadu y cyfansoddiad ar y mater, ond heb neb yn meddwl am ymarfer y cariad, na dim tuedd yn yr holl draethu i greu awydd yn enaid pechadur i weddio am i'r cariad gael ei dywallt yn ei galon. Pa beth a duedda yn fwyaf i gynnyrchu edifeirwch?—ai traethu yn fanwl ar natur edifeirwch? Byddai yr apostolion yn cymmeryd yn ganiataol fod eu gwrandawyr yn deall ei natur: llefaru y byddent hwy yn ngwyneb y dyrfa, "Edifarhewch, canys nesaodd teyrnas nefoedd." Ni byddent yn treulio amser i egluro natur ffydd; ond cymmerent yn ganiataol fod y gwrandawyr yn dirnad beth oedd natur credu, a dywedent wrthynt yn hyf, "Credwch yr efengyl!" Ai traethu ar anallu dyn i gredu ac i edifarhau, neu ar yr angen-

rheidrwydd am ddylanwadau yr Ysbryd i'w cynnyrchu, ydyw y moddion cymmhwysaf i ennill pechaduriaid i gredu ac edifarhau? Ni byddai Crist a'i apostolion byth yn gwneuthur sylw ar hyn cyn annog pechaduriaid i gredu: byddent hwy yn eu hannog i gredu ac edifarhau fel pe gallasant hyny yn y fan, gan gyhoeddi y pwys mawr o hyny fel cymmhelliad digonol. "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi." "Yr hwn nid yw yn credu i'r Mab a ddamniwyd eisoes." Bu gweinidogaeth Pedr ar ddydd y Pentecost yn foddion i ddychwelyd miloedd i edifeirwch a ffydd i'r gwirionedd. Ond ar ba beth y traethai efe y pryd hyny? Ai dyweyd a wnaeth y dylent edifarhau, ond er hyny nas gallent, a bod mawr berygl i'w hedifeirwch fod yn un deddfol, &c.? Na: pe y cymmerasai y fath gynllun, buasant heb edifarhau etto, y mae yn debygol. Traethu a wnaeth Pedr mai dawn yr Ysbryd oedd y wyrth yr oeddynt yn ei gweled, yr hyn oedd wedi ei ragfynegu gan y prophwyd Joel; ac yna mynegai iddynt mai yr Iesu oedd y Crist, neu y Messiah addawedig trwy y prophwydi, a'u bod hwythau wedi ei groeshoelio, a bod yr Iesu a groeshoeliasant hwy i'w gael iddynt gan Dduw yn Arglwydd ac yn Grist: ac ar glywed hyny hwy a ddwysbigwyd yn eu calonau. Gellir traethu ar drueni dyn heb fod un duedd yn yr awbl i'w argyhoeddi o fai. Egluro bai mawr ei wrandawyr a wnaeth Pedr—a hwy a ddwysbigwyd. Cyhoeddi cyfaddarwydd Crist yn Waredwr, a'i barodrwydd i dderbyn y penaf o bechaduriaid, a duedda i ennill calon y pechadur i ymddiried ynddo. Y weinidogaeth sydd ar un llaw yn agor drws llydan o flaen pechadur yn ymofyn am iachawdwriaeth, ac ar y llaw arall yn taranu melldithion cyfiawnder Duw mewn ysbryd dwys-deimladol uwch ben y pechadur rhyfygus—hono ydyw y weinidogaeth lwyddiannus.

Rhai a ddisgrifiant ffydd yn egwyddor o ras wedi ei phlanu yn y galon trwy weithrediad yr Ysbryd yn annibynol ar foddion? Pa fodd y gall fod yn y galon dueddiad at Grist, yn annibynol ar adnabyddiaeth o'r dadguddiad o hono? Nid yw yr Ysbryd yn gweithredu ond trwy y gwirionedd; y mae yn goleuo y deall trwy ei athrawiaeth, ac yn ennill yr ewyllys trwy ei annogaethau. Y Gair yw yr egwyddor a blenir yn y galon trwy yr Ysbryd: *Mat.* xiii. 23. Y Gair yw yr hâd sydd yn ffrwytho: *Iago* i. 21. Y Gair sydd yn cael ei impio yn y galon: *1 Pedr* i. 23. Y Gair yw yr hâd sanctaidd sydd yn aros yn y credadyn: *1 Ioan* ii. 14, 15; iii. 9. Y mae yr efengyl yn cael ei nodi yn fynych fel tystiolaeth; tystiolaeth mai yr Iesu yw y Crist, ac ddarfod i Dduw roddi i ni fywyd tragwyddol ynddo ef. Dyben uniongyrchol pob tystiolaeth ydyw peri crediniaeth i wirionedd yr hyn a dystiolaethir. Yn foddion crediniaeth y bwriedir pob tystiolaeth; a hyn yw dyben tystiolaeth yr efengyl gyda phawb

sydd yn ei darllen neu ei chlywed. Daeth Ioan "yn dystiolaeth, fel y tystiolaethai am y Goleuni, fel y credai pawb trwyddo ef;" *Ioan* i. 7. "Yr hwn a'i gwelodd, a dystiolaethodd—fel y credoch chwi;" *Ioan* xix. 35. Dyma oedd dyben gwrthiau Crist—cadarnhau y dystiolaeth i argyhoeddi y byd i gredu ei gwirionedd; *Ioan* x. 36—38. Dyben ysgrifenu y Gair oedd i fod yn foddion i ennill crediniaeth dynion. "Y pethau hyn a ysgrifenyd fel y credoch chwi." "Yr holl Ysgrhythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi." Argyhoeddi ydyw cynnyrchu crediniaeth i'r gwirionedd yn y meddwl. "Hyn yw gwaith Duw, gredu o honoch." Hyn yw y cwbl y mae Duw yn ei ofyn yn awr oddi wrthym. Credu, a'i ffrwythau, yw yr oll o grefydd. Os gofynir cariad, fydd a weithia trwy gariad. Os gofynir gobaith, "ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gob-eithio." Os gofynir ufudd-dod, oddi ar ffydd y tardda hyny; ac am hyny y gelwir ufudd-dod efengylaidd yn "ufudd-dod ffydd." Ac y mae y ffydd hon yn dyfod trwy Air Duw.

Y mae ffydd yn dyfod trwy y Gair, yn y darlleniad o hono. "Bydded llyfr y gyfraith hon ger dy fron yn wastad, a darllen ynddo holl ddyddiau dy fywyd." Pa effaith sydd i'w ddisgwyl oddi wrth hyny? "Fel y dysgech ofni yr Arglwydd:" yr hyn sydd yr un peth a ffydd. "Chwiliwch yr Ysgrhythyr; canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol:" ond nid oes fywyd tragwyddol heb ffydd. Darllen yn llyfr y prophwyd *Esaiah* yr oedd yr eunuch, a hyny a fu yn foddion ei ddychweliad. Darllen hen *Feibl* fu yn foddion i argyhoeddi *Martin Luther*. Nid oedd gweinidogaeth gyhoeddus bur i'w chael ar y ddaear y pryd hyny, medd rhai; ond trwy i *Luther* ddarllen y *Beibl*, argyhoeddwyd ef o'i drueni fel pechadur, a dadguddiwyd i'w feddwl addasrwydd yr iachawdwriaeth yn *Nghrist*; a gwelodd dwyll a llygredigaethau Pabyddiaeth yn yr un goleu; a dyna ddechreuad y Diwygiad Protestanaidd, effeithiau yr hwn sydd yn fyw heddyw trwy Ewrop, a thros y byd. Darllenasom hanes am yr boneddig oedd yn byw ar gyfandir Ewrop, er's dau cant o flynyddau yn ol, yr hwn oedd yn meddu *Beibl*, ac yn ei gredu. Yr oedd cyfreithiau Pabaidd wedi eu cyhoeddi i wahardd y *Beibl*, ac i roddi i farwolaeth bawb y ceid *Beibl* yn ei feddiant, a phawb a'i darllenai. Ond fe gadwodd y gŵr boneddig a nodwyd ei *Feibl*, er ei fod yn gwybod ei fod trwy hyny yn peryglu ei fywyd. Arferai ei ddarllen yn ei deulu bob dydd; a bu hyny yn foddion i'w holl blant gael y ffydd yn *Nghrist*. Wedi i'r plant dyfu i fyny, a myned yn benau-teuluoedd, byddai raid i'r *Beibl* fyned ar ei daith yn ddiorphwys ac yn rheolaidd trwy eu teuluoedd bob un, i gael ei ddarllen yn mhob teulu bob dydd. Bu hyn yn foddion

i'r holl ŵyrion gael eu dychwelyd i'r ffydd, ac yr oeddynt hwy yn nifer mawr. Wedi i'r ŵyrion drachefn fyned yn benau-teulu-oedd, byddai raid i'r hen Feibl fyned ar ei daith trwy deuluoedd yr ŵyrion yr un modd. Gadawodd y Beibl y ffydd ar ei ol yn nghalonau yr orŵyrion; fel, yn mhen dau cant o flynyddau, yr oedd y Protestaniaid wedi dyfod yn ddigon lliosog yn y gymydogeaeth hono i droi yr offeiriad Pabaidd o'r plwyf, ac i alw un Protestanaidd yn ei le; canys yr oedd y gyfraith erbyn hyn wedi dyfod i ganiatau hyny. Y mae darllen llyfrau ereill yn planu egwyddorion y llyfrau hyny yn meddyliau dynion; ac y maent, trwy ymarfer llawer â hwy, yn cyfranogi o'u hysbryd. Edrychwch ar y gŵr ieuangc yn dechreu darllen llyfrau anffyddol. Trwy fynych ddarllen ynddynt, un o fil na bydd efe cyn hir wedi yfed eu hysbryd gwenwynig, yr hwn sydd yn wir ddinystriol i bob rhinwedd. Yr hwn sydd yn darllen llawer ar y newyddiaduron, gan ymroddi i hyny, buan y daw i'r golwg fod y cyfryw un yn teimlo pwys mawr yn mhob ysgogiad seneddol, ac yn teimlo yn ddwys dros rai opiniynau gwladol. Y mae ei bapur newydd, trwy ei fynych ddarllen, yn sicr o'i lusgo o ran ei ysbryd i mewn i fasnach y byd, ac i mewn i'r dadleuon seneddol, nes y teimla y pethau hyny yn dra phwysig. Darllenwn ninnau lawer ar y Beibl: fe fydd yn sicr o'n llusgo allan o'r byd yma o ran ein meddwl a'n hysbryd; ysguba ni ymaith i fyd arall, nes y bydd yn rhaid i ni deimlo pwys yn y pethau a berthynant i'n heddwch tragwyddol. Trwy ddarllen a myfyrio yn y Gair dwyfol y dygir ein meddyliau i agor masnach â byd ysbrydol—â'r byd lle mae pobpeth yn fawr ac yn bwysig. Y cyffyrddiad lleiaf â'r Gair sydd wedi rhoddi meddwl llawer pechadur ar ryw gyfeiriad ennillfawr. Y mae y meddwl yn elfen gyflym; rhed yn mhell mewn amser byr; ie, fe red i'r byd tragwyddol ond iddo gael ei osod ar y cyfeiriad hwnw. Y mae trydanïaeth yn rhedeg gyda'r cyflymder mwyaf, ond rhaid iddo gael y gadwen i lywodraethu ei gyfeiriad. Cadwen yw y Gair, i roddi cyfeiriad i'r meddwl at Dduw—at y farn—at y nef—at uffern—ac at Grist; gofalwn am ddyfod yn fynych i gyffyrddiad âg ef. Cyfarwyddwn ein meddwl at wrthddrychau ardderchog y gwirionedd, y rhai a osodant brydferthwch ac ardderchawgrwydd ar yr hwn a gynnalio gymmundeob â hwy. Trwy ffydd i'r gwirionedd, newidir ni "i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megys gan Ysbryd yr Arglwydd." Gŵr duwiol a duwinydd mawr, oedd yn byw yn Lloegr yn ddiweddar, a ddywedai wrth ei gyfeillion, yn agos i angeu, fod ganddo gynghor o bwys mawr i'w adael iddynt ar ei ol—cynghor oedd wedi ateb yn dda iddo ef ei hun dros ei oes grefyddol—cynghor na fethai lwyddo i ddwyn ei galon i deimlo pethau yr efengyl pan y byddai yn fwyaf dideimlad:—"Pan y byddwn," meddai efe, "yn teimlo

fy nghalon yn galed a marwaidd, arferwn yn gyntaf syrthio i weddi ger bron yr Arglwydd am fendith ar ei Air; yna, gydag ystyriaeth o fawredd, awdurdod, a phwys mater y Beibl, agorwn ef gyda gwylder, a darllenwn ryw gyfran. Mi a ddarllenwn gyda disgwyliad wrth yr Arglwydd; darllenwn gan wrandaw beth a ddywedai yr Arglwydd wrthyf fi fy hun; ac ni welais y moddion distadl hyn yn aflwyddiannus i ddwyn fy nghalon i deimlo yn briodol." Nid ydyw cydwybod yn ymostwng i un awdurdod arall ond awdurdod y Beibl. Gallen adrodd ein bod ein hunain o ran ein meddwl wedi bod, yn ngwyneb profedigaethau chwerwon, yn y fath derfysg a chynnhwrf afreolus, fel y môr yn dygyfor, fel nas gallem gael un rheol arno. Er i ni droi i ddarllen gwaith awdwyr da a duwiol, i sylwi ar gyfran a fwr-iadesid gan yr ysgrifenywyr i dawelu enaid terfysglyd mewn profedigaeth, ni byddai i hyny ddim awdurdod arnom. Ond pan yr edrychem i'r Beibl, ac y gwrandawem ar ei leferydd ef, llefarai fel un âg awdurdod arnom; ceryddai y gwynt a'r môr nes peri tawelwch mawr; adwaenai y dymmestl ei lais.

Y mae ffydd yn dyfod trwy y Gair yn yr ymddiddanion am dano. Y mae ymddiddanion ysgrythyrol, trwy ddwyn y meddwl ar y Gair, wedi bod yn foddion iachawdwriaeth i filoedd. Y mae ymddiddanion ysgrythyrol rhwng y rhieni a'r plant yn foddion o ordeiniad Duw; a bendithiwyd hyn ganddo er iachawdwriaeth miliynau. "Ni chelwn rhag eu meibion, gan fynegu i'r oes a ddél foliant yr Arglwydd, a'i nerth, a'i ryfeddodau, y rhai a wnaeth efe. Canys efe a sicrhaodd dystiolaeth yn Jacob, ac a osododd gyfraith yn Israel, y rhai a orchymynodd efe i'n tadau eu dysgu i'w plant; fel y gwybyddai yr oes a ddél, sef y plant a enid; a phan gyfodent, y mynegent hwy i'w plant hwythau." Pa ddyben sydd i hyn oll?—pa fudd neu effaith sydd i'w ddisgwyl? Y fwyaf o'r holl fendithion:—"Fel y gosodent eu gobaith ar Dduw, heb anghofio gweithredoedd Duw, eithr cadw ei orchymynion ef; ac na byddent, fel eu tadau, yn genhedlaeth gyndyn a gwrthryfelgar, yn genhedlaeth na osododd ei chalon yn uniawn, ac nad yw ei hysbryd ffyddlawn gyda Duw;" *Salm* lxxviii. 4—8. Dyna y ffydd achubol a'i ffrwythau; a'r moddion o honi ydyw mynegu cyfraith yr Arglwydd gan y rhieni i'r plant. Trwy ymddiddanion crefyddol, dybygid, y derbyniodd Timotheus ffydd. Yr oedd y ffydd ddi-ffuant wedi trigo yn nghalon ei nain, a'i fam; ac y mae yn debyg mai trwy ymddiddanion crefyddol rhwng y nain a'r wŷr, a rhwng y fam a'r mab, y llithrodd y ffydd i lawr i galon Timotheus. Y mae ymddiddanion crefyddol "yn dda i adeiladu yn fuddiol, ac yn peri gras i'r gwrandawyr." Y fam ar yr aelwyd yn adrodd hanes Joseph, a hanes Dafydd yn lladd y cawr, a hanes genedigaeth, bywyd, a marwolaeth Iesu Grist—bu hyny

dan fendith Duw yn foddion iachawdwriaeth i filoedd. Y mae ymddiddanion yr aelwyd yn cario effaith mawr. Lle maent yn llygredig, yno y meithrinir pob nwydan drwg—oddi yno y ceir y meddwyn, y puteiniwr, a'r halogwr Sabbothau. Ar aelwyd y tad a'r fam sydd yn profesu crefydd, ac heb ymddwyn yn Gristionogol gartref, na dangos crefydd yn eu hymddiddanion cyffredin—yno y megir y cablwr a'r anffyddiwr. Ymddiddanion anghrefyddol gartref gan y tad a'r fam, sydd mewn cyssylltiad professedig â chrefydd—ymddiddanion enllibaidd am eu cyd-Gristionogion—ymddiddanion gwag a halogedig—ymddiddanion ysgeifn am bethau mawrion crefydd:—y maent yn llawer mwy effeithiol i fagu anffyddiaeth na holl ddadleuon cyhoeddus gwadwyr y Beibl. Yn y fath deuluoedd y ffurfir archwaeth halogedig, a gosodir i lawr sail rhyfyg a chaledwch calon. Yno y gwrteithir pob tueddiadau drwg, ac y gosodir diystyrwch ar grefydd Crist i deyrnasu yn y galon. Peth hanfodol i wir grefydd ydyw pryder a gwasgfa yn achos eneidiau, nes eu rhybuddio o'u perygl. Os iawn yw i ni deimlo dros ddyinion mewn peryglon llai eu pwys, megys tŷ yn myned ar dân, neu long yn tori ar liaws, nes eu rhybuddio o'u perygl, pa faint mwy y dylem deimlo dros eneidiau sydd mewn perygl o gael eu damnio byth, nes eu rhybuddio o'u perygl ofnadwy, yr hwn y maent hwy yn ei anghredu? A gaiff natur deimlo dros y lleiaf, a gras a gwir gariad at y Gwaredwr fod heb deimlo dan y mwyaf? Crefydd ar yr aelwyd sydd halen yn ffynnonell y dyfroedd, yr hwn a bereiddia ac a iachâ ddyfroedd a fydd yn rhedeg am drigain mlynedd ar y ddaear, ac nas gellir rhifo y personau fydd raid iddynt yfed o honynt. Ar ba faint y dylanwada un bod dynol mewn trigain mlynedd! Gallwn gymmeryd i mewn i'r cyfrif bob un a ddaw i'w gymdeithas yn mhob modd, pob un a ddaw yn gyd-aelod teuluaidd âg ef, pob un a gydgerddo âg efar y ffordd, pob un a gaiff gydymgynull âg ef i'r un lle o addoliad, pob un, yn mhell ac yn agos, y caiff ysgrifenu llythyr ato dros holl ystod ei fywyd—caiff y cwbl ryw radd o gyffe i gyfranogi o'i ysbryd, a derbyn effeithiau ei ddylanwad.

Y mae ffydd yn dyfod trwy y Gair yn y pregethiad o hono. A gallwn edrych ar bregethiad y Gair fel yn brif foddion iachawdwriaeth:—"Ffydd sydd yn dyfod trwy glywed." Ordeiniwyd pregethu yr efengyl yn foddion i ennill pechaduriaid i gredu. Yr apostolion a gyfarchent eu gwrandawyr yn ddi-gwmpas â gorchymyn i gredu yr efengyl:—"Credwch yr efengyl!" Megys mai dyben pob gorchymyn arall ydyw cael ufudd-dod, felly y gorchymyn hwn hefyd. "Felly," meddai Paul, "y pregethasom ni, ac felly y credasoch chwithau." Pregethodd Paul yr efengyl yn mysg y Cenhedloedd, "yn ol gorchymyn y tragwyddol Dduw, er mwyn ufudd-dod ffydd."

Galarai Eesaih o herwydd aflwyddiant ei weinidogaeth, am nad oedd yn cael ei chredu:—"Pwy a gredodd i'n hymadrodd? ac i bwy y dadguddiwyd braich yr Arglwydd?" Dywed Paul wrth y Thessalonaiad—"Nyni a ddylem ddiolch yn wastad i Dduw drosoch chwi, frodyr caredig gan yr Arglwydd, o blegid i Dduw o'r dechrenad eich ethol chwi i iachawdwriaeth, trwy sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd, i'r hyn y galwodd efe chwi trwy ein hefengyl ni." Tra yr oedd Pedr yn pregethu ar ddydd y Pentecost, dwysbigwyd miloedd yn eu calonau. Yn nesaf at "Na ddiffoddwch yr Ysbryd," cynghorir, "Na ddirmygwch brophwydoliaethau." Dirmygu y weinidogaeth sydd hefyd yn ddiffodd yr Ysbryd. Gyda pha fath ddiffrifwch a phryder y dylai y pregethwr draethu ei genadwri ar neges mor ofnadwy bwysig ag ydyw ennill eneidiau drosodd o farwolaeth i fywyd! Nid heb achos y llefa, "O frodyr! gweddiwch drosodd!" Pa fath sol, pa fath ymdrech, pa fath ysbrydolrwydd tanllyd sydd yn ofynol tuag at iddo allu dywedyd yn niwedd ei ddiwrnod, wrth adael y byd, ac wrth adael miloedd o'i wrandawyr yn annuwiol, "Yr ydwyf yn lân oddi wrth waed pawb oll!" Os oes gan fywyd ac esampl, llafur ac ymdrech pregethwr yn ymboeni yn y Gair a'r athrawiaeth, ynghyd â thymmher ei ysbryd yn traddodi ei genadwri; os oes gan y pethau hyn, meddwn, ryw effaith ar lwyddiant ei amcan—os oes llwydd wedi ei gyssylltu â chymmhwysder yn y genad a'r genadwri—os oedd ysbryd tanllyd Whitfield yn rhywbeth tuag at beri y llwydd mawr ar ei genadwri, ac felly Rowlands, Elias, ac ereill—onid oes gan bregethwyr yn awr achos i briodoli aflwyddiant eu cenadwri iddynt hwy eu hunain? Dywedwn etto mai iawn ydyw iddynt waeddi, "O frodyr! gweddiwch drosom!" Ni ddylai fod un dyben is nag ennill eneidiau i'r cysgod tragwyddol yn argraphedig ar genadwri ac ar agwedd ysbryd gweinidogion yr efengyl wrth draddodi eu cenadwri. A gaiff y barnwr welwi a chrynu yn y llys pan yn cyhoeddi dedfryd drwgweithredwr? A pha sawl un sydd yn sefyll o flaen maingc y pregethwr yn gwrandaw ei ddedfryd—dedfryd anfeidrol fwy pwysig na'r eiddo y barnwr gwladol—collfarn ar enaid a choroph i ddioddef cosp dragwyddol! Gyda pha fath galon ddrylliog y dylid traddodi y ddedfryd hon! A ddichon y gwrandawr anystyriol gredu fod y fath fygythiad yn wirionedd o enau un ag y mae yn amlwg nad ydyw yn ei deimlo ei hunan fel gwirionedd? Er fod y gwirionedd pwysig yn haeddu ei gredu am fod Duw yn ei dystiolaethu; etto, y pregethwr sydd yn sefyll rhwng Duw a'r pechadur caled. Ni wél efe yn mhellach na'r pregethwr: os ydyw yn amlwg yn ysbryd a chenadwri y pregethwr mai gwirionedd ydyw fod uffern, nefoedd, a thragwyddoldeb, fe wél yr anghredadyn hyny, ac a deimla. Yr

ydym yn credu yn wir, fod yn rhaid cael dylanwad Ysbryd Duw i argyhoeddi y caled; ond trwy weinidogaeth bwysig y gwna Ysbryd Duw hyny; ac y mae efe yn gyffredin yn cyfaddasu y moddion trwy ddylanwadu yn rymus ar ysbryd y pregethwr pan yn ei ddefnyddio i argyhoeddi y gwrandawr.

Gan fod gweinidogaeth yr efengyl yn foddion gosodedig Duw i ennill eneidiau at Grist, gyda pha fath ddyfalwch a difrifwch y dylai y byd a'r eglwys ei gwrandaw, a gweddio am ei llwydd! Nid fel moddion eu hiachawdwriaeth y mae miloedd yn edrych ar wrandawriad yr efengyl; ond fel cydffurfiad âg arfer yr oes, neu ddifyrwrch disylwedd. Y mae rhai yn wir yn edrych ar wrandawriad yr efengyl fel digon o grefydd, heb ystyried na deall fod yn rhaid i'r efengyl eu hennill i gredu ac edifarhau, ac ymgyflwyno i Grist a'i wasanaeth, tuag at iddi ateb y dyben mawr o'u cadw i fywyd tragwyddol. Pan y byddo unrhyw dywysog yn gwneuthur ymgais mawr, gorchestol, i gymmeryd dinas gaerog, gadarn—ymgais at fuddugoliaeth, i osod enwogrwydd mawr ar ei enw ef a'i fyddin, ac i ennill elw mawr, y mae yno gyduniad calonau, a phob cydymdrech. Y mae pob milwr yn tanio mewn awyddfryd am ennill y fuddugoliaeth; nid oes neb yn ddifater; y mae gan bawb rywbeth i'w wneyd; y mae pawb ar ei egni eithaf; y mae pob llygad yn fflagu, pob llaw yn brysur, a phob calon a gwyneb yn llawn bywyd. Pa beth yw gobaith tlawd y tywysog a'i fyddin at y gobaith o ennill enaid i ddiogelwch? Y mae hwn yn amcan o'r fath bwys ac ardderchogrwydd fel y mae yn tanio sêl y cerub glân! Amcan ydyw y mae yn fraint cael ei ddymuno! Er mwyn hwn y daeth Mab Duw i'r byd! Yr amcan mawr hwn a barodd i'r byd yma gael ei greu, a'i gynnal! Trwy bregethiad yr efengyl y mae yr amcan mawr hwn yn cael ei effeithio; yma y rhybuddir y pechadur, ac y dysgir ef i'w gyflwyno yn berffaith yn Nghrist Iesu. A gaiff y fath amcan anfeidrol fod mewn gobaith o gael ei gwblhau, a'r milwyr yn ddiymdrech, yn ddiotal, ac yn swrth? Ai gyda disgwyliad am i eneidiau gael eu hachub y daeth y dyrfa acw ynghyd, sydd mor swrth a disêl? Y mae y fath agwedd ar yr eglwys yn gwrandaw yn gwadu pwys a gwirionedd pob peth y mae y pregethwr yn ei dystiolaethu, ac yn attal llwyddiant ei genadwri. Byddai iddo well gobaith am lwyddo gyda'r annuwiol trwy ei gynghori yn bersonol; o herwydd y mae y pechadur yn gallu darllen ar agwedd y crefyddwyr nad oes dim pwys yn y cwbl a ddaw o enau y pregethwr. Dylai Cristion ystyried ei hun yn wrthgiledig tra yn ddifater am iachawdwriaeth y byd. Nid ydyw y pryd hyny heb achos i amheu cywirdeb ei gariad at Grist. A ydyw yn bossibl credu gwirioneddau y Beibl, a bod ar yr un pryd yn ddifater a diymdrech am iachawdwriaeth dynion colledig? Onid ydyw difat-

erwch yn profi anghrediniaeth hefyd? Y mae y rhai sydd wedi derbyn Ysbryd Crist yn tebygoli iddo mewn cariad at eneidiau pechaduriaid. Carodd Crist mor fawr, nes boddloni i yfed gwaelodion cwpan chwerw digofaint Duw dros bechaduriaid; ac ar yr un pryd ag yr offrymodd ei enaid drostynt trwy anghen poenus, efe a offrymodd hefyd lefain cryf a dagrau, mewn dirfawr ing, at Dduw dros eu heneidiau am eu hiachawdwriaeth. Yr un ysbryd sydd yn gweithredu yn y wir eglwys. Darlunir hi fel gwraig yn llefain, gan fod mewn gwewyr, a gofid i esgor: *Dad. xii. 2.* Felly yr oedd Paul yn y fath drallod am iachawdwriaeth ei genedl, fel nas gallai gael iaith i'w egluro, ond trwy gyhoeddi y dymunasai fod ei hun yn anathema oddi wrth Crist dros ei genedl. "Dychryn," medd y Salmydd, "a ddaeth arnaf, o herwydd y rhai sydd yn gadu dy gyfraith di. Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid, am na chadwasant dy gyfraith di." Felly Jeremiah, "O! na bai fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynnon o ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nos am laddedigion merch fy mhobl!"

PREGETH XVIII.

PLESERAU IEUENGCTID.

Pregethur xi. 9.

“Gwna yn llawen, ŵr ieuange, yn dy ieuengctid, a llawenyched dy galon yn nyddian dy ieuengctid, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid: ond gwybydd y geilw Daw di i'r farn am hyn oll.”

AMCAN Solomon yn y llyfr hwn ydyw dangos gwagedd pethau darfodedig. Wedi iddo gymmeryd golwg ar bethau goreu y byd, yn eu lliwiau cryfaf a'u cylch helaethaf—cymmeryd i mewn i'r cyfrif ddigonedd o gyfoeth a holl rwysg arhydedd daearol, a phob difyrwch o eiddo meibion dynion—wedi iddo fel hyn roddi y byd ar ei oreu, fel nas gellid dymuno dim yn chwaneaeg o hono, y mae yn dangos fod y cwbl yn gadael y dyn nid yn unig yn ammharod i wynebu tragwyddoldeb, ond hefyd yn agored i lawer o ofidiau a thrueni yn y byd hwn. Y mae yn dangos fod darfodedigaeth yn mhethau goreu y byd hwn, hyd yn oed yn eu cyflawnder—eu bod yn gyssylltiedig â llawer o ddrygau pwysig a gofidus, a'u bod yn siomedig ac anwadal—eu bod yn cilio ymaith yn angu, ac yn hollol ddifudd erbyn y farn. Dengys hefyd eu bod yn anghyfaddas i ddiwallu dymuniadau yr enaid anfarwol. Nid oedd neb cyfaddasach i ffurfio barn gywir ar y pen hwn na Solomon; gan na chafodd neb erioed y fath brawf o fwyniant a hyfrydwch daearol ag a gafodd efe.

Yr oedd Solomon wedi ei osod mewn amgylchiadau uwch law neb o'i flaen—wedi ei amgylchu â digonedd o gyfoeth, a'i ddyrchafu mewn arhydedd yn ngolwg yr holl genhedloedd, ac wedi ei gyflenwi â holl ddefnyddiau pleser a mwyniant bydol; ac fel y cyfryw, nid oedd neb cyfaddasach i roddi barn arnynt nag efe. Hefyd, yr oedd wedi ei fendithio â doethineb tu hwnt i neb, i'w gyfaddasu i ddefnyddio y cwbl er ei leshâd ei hun. Ac ni bu yn ddiffygiol o wneuthur ymdrech i ddarostwng pob peth oedd dan ei awdurdod i weinyddu pleser a difyrwch iddo

ei hun. Gwnaeth y darpariadau helaethaf tuag at adeiladu ei anrhydedd, a phorthi ei flysiau. Llwyf ymroddodd i hyny: anghofodd Dduw, sathrodd ei gyfraith o dan ei draed, rhedodd i eithafion pellaf nwydau llygredig, a gwnaeth Dduw o'i chwanta ei hun. Ond wedi yr holl ddarpariadau mawrion, a myned trwy gyloch mawr o rwysg a phleserau bydol am amser maith, a bwrw ymaith yn hollol bob ystyriaethau difrifol am Dduw, am grefydd, a thragwyddoldeb, fel na byddai i'r ystyriaeth o'r pethau hyny leihau dim ar ei ddifyrwrch, yr oedd fel wedi ymwerthu yn gwbl yn aberth i'w flysiau llygredig, a throï pob peth oedd yn ei feddiant i redeg yn un ffrwd fawr i lenwi cwpan chwant, a digoni blysiau'r cnawd:—ond daeth pleserau bydol mor ddiystyr yn ei olwg drachefn fel y gwnaeth grynodeb o'r cwbl i'r ddau air yma—"Gwagedd a gorthrymder ysbryd." Y mae ei dystiolaeth gan hyny i'w chymmeryd yn brawf diymwad ar y pwnc, gan ei bod yn farn un a gafodd y fath brofiad o honynt, ac yn enwedig un yn meddu ar y fath ddoethineb a synwyr i farnu.

Y mae rhai yn cymmeryd geiriau y testyn fel math o ganiatâd gan Solomon i'r ieuangc i fwynhau pleserau, ac yn tybied ei fod yn edrych arnynt fel pethau diniweid. Y mae yn nodi, yn ol syniad rhai, tymmor ieuengctid fel yr adeg fwyaf manteisiol i fwynhau y pleserau hyny; fel pe buasai yn dyweyd, 'Yn awr y mae dy alluoedd yn gryfion, dy ddeall yn fywiog, dy serchiadau yn danllyd, dy nwydau yn gryfion, a'th gorph yn iach a grymmus, a'th amgylchiadau yn caniatâu i ti fwyniant. Amser ieuengctid ydyw yr unig adeg i ti am bleser a mwyniant: y mae pob peth yn awr yn ffafriol. Ond erbyn y daw henaint, bydd pob cyfleusdra wedi ei gollu, a phob peth wedi troi yn anffafriol i'th bleserau; bydd amgylchiadau newydd wedi ymaffyd ynot, y rhai a'th lwythant â gofidiau, fel yr wyf fi heddyw; a'r dyddiau blin wedi dyfod, y rhai nad oes dim dyddanwch ynddynt. Ond, cofia gymmedroli dy bleserau a'r ystyriaeth o'r farn a fydd. Bydded i'r ystyriaeth am dani fod yn dy feddwl yn sefydlog, i gymmedroli dy bleserau, ac i'th attal rhag anghymmedroldeb pechadurus yn wastadol. Cofia, yn nghanol y mwynhâd o'th bleserau, dy fod yn greadur cyfrifol i Dduw; a chadw yn ofalus o flaen dy lygaid gyfraith fawr dy gyfrifoldeb, yr hon fydd rheol y farn; neu, cadw mewn cof fod Duw yn dy weled beunydd, yr hwn fydd etto yn dy farnu.' Dyna syniad rhai am ystyr geiriau y testyn.

Yr wyf yn addef fod crefydd yn caniatâu pleserau diniweid, a'i bod mor bell oddi wrth ddistrywio cysuron bywyd fel y mae yn hytrach yn eu puro ac yn eu rheoleiddio, ynghyd âg yn eu gosod yn eu lle priodol—y lle hwnw i ba un y maent yn gyfaddas, ac yn eu cau allan o le uwch nag sydd yn briodol iddynt,

ac yn codi y dyn i orfoleddu yn Nuw. Y mae gwir grefydd yn cyssylltu â'r pleserau hyny bleser uwch, yr hwn sydd yn eu melysu; sef, tangnefedd cydwybod, a heddwch â Duw. Ac os bydd raid i'r Cristion aberthu ei bleserau bydol weithiau er mwyn crefydd, gwneir hyn i fyny o fwynhâd o bleser annhraethol mwy sefydlog. Os cyll Moses "fwyniant pechod," caiff glywed cyhoeddiad o enw a chyfammod Duw. Os cyll Job bleser a mwyniant daearol, caiff orfoleddu yn ei Brynwr:—"gorfoleddu mewn gorthrymderau."

Barna ereill, fod pleserau i'w deall yn y fan yma mewn ystyr ddrwg; fel pe dywedasai Solomon, 'Tydi, yr ieuange, gwelaf a deallaf trwy brofiad galarus fod yr adeg yma ar dy fywyd yn adeg beryglus. Y mae llygredigaeth dy galon yn gryf. Yr ydwyf wedi dy amgylchynu â themtasiynau a hudoliaethau dirif. Y mae hyd yn oed cryfder dy alluoedd, nerth ac iechyd dy gorph, a bywiogrwydd dy feddwl yn chwaneu at dy berygl. Dy anwadalwch, dy ddiffyg profiad, ynghyd â'r holl amgylchiadau newyddion sydd yn dy gyfarfod bob dydd—y maent fel yn gosod maglan ar dy lwybrau, ac yn gollwng saethau dirgel at dy galon. Yr ydwyf gan hyny mewn sefyllfa enbyd—yn wrth-ddrych i'th rybuddio yn anad neb o feibion dynion. Gwelaf di yn chwareu yn ymyl dannedd y llew, ac yn chwerrhin ar berygl marwoll! Gwrandaw gan hyny, wr ieuange, gynghor dwys gan un yr archollwyd ei enaid yn dy oedran di—a brofodd enogrwydd pechodau ieuengctid yn chwerrwach nag angeu—ac a fu yn gorwedd yn euog ger bron Duw mewn galar a chywilydd am bechodau; ie, pechodau sydd yn awr yn demtasiynau i ti—ie, un sydd dan archollion dyfnion o ran ei nodweddiad, ei amgylchiadau, a'i gydwybod, o herwydd y pechodau yr wyt ti yn eu blycio, ac sydd yn cael eu cymmhell arnat. Yr ydwyf oddi ar y profiad galarus hwn yn dy rybuddio yn ddwys o'th berygl! Os gwna gwr ieuange yn llawen, gan fod tuedd gref yn ei galon i hyny, a'i fod yn bwriadu hyny, ac yn tybied nad oes bossibl iddo dreulio amser ieuengctid mor hapus a'i dreulio i borthi ei flysiau llygredig—os gwna felly, mynegaf i ti y canlyniadau, 'Gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll.' Yr ydwyf yn dy hysbysu o'r perygl a'r canlyniad chwerrwll!

Neu, se ddichon ei fod yn cynnyg i'r gwr ieuange feddyginiaeth effeithiol i ragflaenu hyn. Dichon ei fod yn golygu y farn dragwyddol, gwobr a chosp o'r fath bwys fel, ond eu cofio a'u hystyried yn ddyladwy, y byddent yn ddigonol ac yn sicr o chwerrwi mwyniant, a marweiddio pob chwant, pa mor gryf bynag y byddo. Nodir yma y cryfaf:—Chwantau ieuengctid.

Edrychir ar y geiriau hefyd gan lawer fel math o wawdiaeth—cyffelyb i wawdiaeth Elias gyda phrophwydi Baal ar fynydd Carmel; ac fel cyfarchiad Iesu Grist i'r tri dysgybl—"Cysgwoh

bellach a gorphwyswch." Gwawdiaeth sanctaidd oedd geiriau Crist, drwy yr hon y mae efe yn ceryddu ei ddysgyblion am eu hanffyddlondeb ar un o'r adegau difrifolaf yn eu bywyd.

Yn yr adnod o'r blaen, cawn gynghor i hen bobl:—"Pe byddai dyn fyw lawer o flynyddoedd, a bod yn llawen ynddynt oll, etto cofied ddyddiau tywyllwch canys llawer fyddant." Ond yma rhoddir cynghor pwysig i bobl ieuaingc:—"Gwna yn llawen, wr ieuangc, yn dy ieuengctid, a llawenyched dy galon yn nyddiau dy ieuengctid, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid: ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll." Wedi profi o'r blaen mai gwagedd ydyw pob mwyniant darfod-edig, dengys yma mai doethineb mawr hen ac ieuangc ydyw ymbarotoi erbyn tragwyddoldeb. I'r naill, y mae "cofio dyddiau tywyllwch" yn gymmhelliad cryf; ac i'r llall, y mae yr ystyriaeth y geilw Duw ef i'r farn yn debyg o ddylanwadu yn ddymunol arno.

Yr wyf yn bwriadu oddi wrth y testyn hwn gyfarch yr ieuengctyd yn benaf; sef, y dosbarth o chwech i chwech ar hugain oed. Byddaf yn edrych yn fynych ar y bobl ieuaingc fel tŷ dyeithr—fel oes arall. Ni chaf weled lliaws o honynt ond yn blant. Byddaf fi yn nhragwyddoldeb, pan y byddant hwy wedi cyrhaedd oedran gwŷr: ac ni chaf weled eu hiliogaeth, eu dull o fyw, eu crefydd, na'u hanghrefydd chwaith. Pe buaswn yn America, gallaswn gael eu hanes mewn llythyr o'r hen wlad; ond gan mai yn nhragwyddoldeb y byddaf, ni chaf byth wybod eu helynt. Ni chaf eu gweled ond yn egin. Wedi i mi dewi, yn y byd hwn y byddant hwy dan eu profedigaethau. Plant yr oes hon fydd y colofnau yn y nesaf fydd yn cynnal crefydd neu anghrefydd yn y wlad. Byddaf, wrth gynghori plentyn, yn edrych arnaf fy hun fel yn naddu colofn i gynnal ychydig yn y deml yn fy lle erbyn y dydd y byddaf fi wedi pydru yn y bedd, ac wedi cael fy rhyddhau o'r pwys o'u parotoi i gynnal addoliad yn holl dai y wlad. Byddaf yn edrych arnaf fy hun fel yn eu darpar, erbyn y bydd y rhai sydd yn awr wedi tewi, i broffesu ei enw, i gadw y drws yn nhŷ Dduw, i oleuo ei lamp ef, i geisio bachu y march i dynn y cerbyd; ac hefyd eu parotoi ar gyfer profedigaethau fydd yn eu cyfarfod wedi i ni gysgu yn y pentwr, pan na bydd ganddynt mwy na thad na mam i gydymdeimlo â hwy. Byddant hwy, y pryd hyny, hyd at yr ên mewn dyfroedd dyfnion. Plant yr oes hon a fydd nid yn unig colofnau yr oes a ddaw; ond hwy fydd yn dystion i'r oes a ddaw o fywyd yr oes hon. Byddwn ni, wedi meirw, yn llefaru ynddynt hwy. Bydd ein pechodau ni i'w gweled ynddynt, a'n rhinweddau yr un modd. Cynnaliant hwy i fyny ein harferion wedi i ni feirw; gan ein bod yn hau egwyddorion ac arferion yn ein plant. Nid ydynt ond hadau dan y priddellau—yn gudd-

iedig ynddynt tra yr ydym ni yn fyw; ond wedi i ni feirw y byddant yn egino ac yn ffrwytho yn amlwg. Bydd moesau yr oes a ddaw yn ol yr hâd a haur yn yr oes hon. Y mae plant yn foreu yn hoffi arferion eu rhieni, ac yn ymdrechu i'w hefelychu; a daw hyny yn arferion sefydlog ynddynt yn mhen blynnyddoedd i ddyfod.

Y mae gwybodaeth a rhinweddau yr oes hon yn ffrwyth llafur a duwioldeb yr oes o'r blaen; ac felly y bydd hon i'r nesaf. Y mae genych gyfleusdra i anfarwoli eich rhinweddau trwy eu dysgu i'ch plant. Gallant fyw ynddynt hwy, cystal ag ynoch chwithau, wedi i chwi feirw. Fel y tardd y llysiau i fyny o'r un rhywogaeth a'r hedyn a aeth i lawr, felly y tardd moesau yr oes nesaf yn ol natur yr esamplau a'r egwyddorion a haur yn eu meddyliau gan yr oes hon. Bydd drygau yr oes nesaf yn dystion o ddrygau yr oes hon, a'u rhinweddau yr un modd. Dyben Duw yn boddi y byd oedd rhoddi terfyn ar eu harferion, ac attal eu troglwyddiad yn mlaen yn y byd. Fe ddichon rhodiad sanctaidd wneuthur daioni mawr yn eich bywyd; a dichon iddo wneyd mwy yn eich olynwyr wedi i chwi feirw. Felly y mae hi yn union gyda drygau. Fe ddichon na wna dy esampl ond un dilynwr uniongyrchol ddrygionus; ond dichon y bydd yr un hwnw wedi chwyddo yn fil yn yr oes ddilynol. Yr egwyddorion a'r arferion a ddysgir genym i'n plant yn yr oes hon a gynnelir ganddynt hwythau yn eu hiliogaeth, i dyfu i fyny a ffrwytho yn yr oes a ddelo ar ol:—"Mynega hwy i'th blant, fel y mynegont hwy i'w plant hwythau, fel y gwybyddo yr oes a ddelo ar ol, fel y gosodant eu gobaith ar Dduw."

Nid ydyw y bywyd a'r egwyddorion yr ydych yn eu troglwyddo i'ch plant yn colli o'r byd gyda eu dydd hwy; ond byddant hwy mor alluog a dylanwadol i'w sicrhau yn eu hiliogaeth hwythau ag yr oeddych chwithau iddynt hwy. Corph wedi ei roddi mewn ysgogiad—fe ä hwnw yn ddibaid, hyd oni ddaw rhywbeth i'w attal. Felly y mae gydag esamplau. Gwelwn hyn wedi ei wirio mewn cyssylltiad â Mahometaniaeth, a Phabyddiaeth, a Phaganiaeth, ac hefyd âg Iuddewiaeth. Drwy gynnifer o oesoedd y rhedodd yr egwyddorion hyn i lawr hyd ein hoes ni! Y mae Mahometaniaeth yn gryfach yn awr nag yn ei chychwyniad, er fod un cant ar ddeg o flynyddoedd, a mwy, er pan gychwynodd yr egwyddorion hyn eu gyrfa. Y mae esampl a dylanwad dynolryw ar eu holynwyr yn y byd moesol yn meddu gallu diadfeiliedig, fel y gallu sydd yn gyru y ddaear yn ei chylchdro. Nid ydyw amser yn ei wanychu, na miloedd o deithiau olynol a diorhwys yn arafu dim arni. Felly y llall yn y byd moesol:—ymddengys y drwg a'r da mewn ysgogiad mor nerthol yn y byd yn yr oes hon ag oeddynt gannoedd o flynyddoedd yn ol; ac nid ydynt yn yr oes hon yn ymddangos

yn llai galluog i deyrnasu ar drigolion y byd yn y nesaf; ac nid ydyw eu pleidwyr chwaith yn ymddangos yn llai galluog a thueddol i'w traddodi a'u sicrhau i fod mewn arferiad yn yr oes a ddaw nag oeddynt yn yr oes a aeth heibio i'w gadael yn y byd ar ol eu dydd hwy. Hefyd, nid yn unig y mae esampl yn cadw ei nerth i ennill efelychwyr am oesoedd, ond y mae yn eu lliosogi yn annhraethol. Dichon na wna dy esampl di ond un: yr oes nesaf, dichon y gwna yr un hwnw ddeg at yr oes ganlynol: a'r deg gant, a'r cant fil: fel yn mhen llawer o oesoedd y bydd dy ganlynwyr di mewn drwg neu dda wedi myned yn genedl fawr. Mor liosog ydyw Mahometaniaid yr oes hon! Mor liosog ydyw canlynwyr Iesu Grist! Mor liosog ydyw pob rhyw o greaduriaid oedd yn yr arch—wedi dyfod o ddau! Felly hefyd yn y byd moesol—gwna un fil! Nid yw dylanwad yn cael ei gyfyngu i'r hiliogaeth; ond cymmer i mewn bawb fyddo yn ein parchu ac yn ein caru. Ni a sylwn yn awr

I. *Ar y cyfarchiad gwawdaidd sydd yn y testyn:—“Gwna yn llawen, wr ieuange.”*

Y gwrthddrych sydd yma yn cael ei ddwyn i'n sylw ydyw, gwr ieuange annuwiol, difeddwl am ei achos tragwyddol, heb un drychfeddwl am hapusrwydd ond trwy foddio ei nwydau anianol; yn anystyriol o'r byd a ddaw, ac o'r farn dragwyddol, a'i chanlyniadau pwysig. A'r cyfarchiad ydyw—“Gwna yn llawen.” ‘Os wyt wedi penderfynu ar y dull hwn o fyw, glynw yn dy ffyrdd drygionus, boddhau dy chwantau, a chau dy lygaid rhag edrych ar dy berygl, distewi cydwybod, ymgadarnhau mewn cyndyrwydd, a boddhau dy serchiadau pechadurus, gâd i mi fynegu i ti y canlyniad pwysig. Os wyt wedi dewis dy ffordd drwy y byd, gâd i mi fynegu i ti y pen draw, “Gwybydd!” Na feddwl y llwyddi yn hir yn y fath yrfa: y mae barn yn agos. Y mae Duw yn awr yn gwylio ar dy ffyrdd, yn cadw cyfrif manwl o'th holl weithredoedd, ac y mae yn bwriadu dy alw ger bron ei orsedd ofnadwy i roddi cyfrif maes o law.’

Y mae y cyfarchiad hwn yn arwyddo fod ieuengctyd yn dueddol i ymroddi i bleserau cnawdol; yr hyn sydd wedi ei brofi yn wirionedd yn mhob cenhedlaeth ac oes. Y mae gan ein cymmydogion y Saeson ddiareb, yr hon a ddywed, “Pleser i'r ieuange—masnach i ganol oed—crefydd i'r hen.” Nis gellir meddwl nac adrodd echryslonach dirmyg ar Dduw, na dim sydd yn fwy cableddus. Y mae cystal a dyweyd fel hyn:—‘Pryd nas gallaf ddilyn fy mhleserau, na gwasanaethu Satan a'r byd ddim yn hwy, yna mi a gynnygiat i Dduw gorph ac enaid wedi eu treulio yn ngwasanaeth Satan, pechod, a'r byd. Yr wyf yn benderfynol i dreulio fy oes yn ngwasanaeth Satan; ac oedaf geisio iachawdwriaeth hyd derfyn fy oes, hyd nes y byddaf ar

frig fflamau uffern! O ryfyg! Y mae y fath iaith yn ddigon i greu dychryn yn y galon galetaf.

Y mae y cyfarchiad yn rhoddi ar ddeall fod yr ieuange yn edrych ar dymmor ieuengetid fel yr adeg fwyaf manteisiol i ymroddi i bleserau cnawdol. Dengys hyn, am ei fod yn edrych ar yr amser a ddaw yn debyg o ddwyn anghyfleuserau ar ei ffordd i fwynhau pleserau. 'Am adeg canol oed,' meddai, 'nis gallaf fwynhau llawenydd a digrifwch. Bydd gofalon bydol yn llwytho fy meddwl; ac fe allai yr adeg hono y bydd profedig-aethau bywyd yn fy amgylchynu. O ganlyniad, hon yw yr adeg am bleser i mi. Y mae y nwydau yn gryfion, yr amgyffred-iadau yn fywiog, yr iechyd yn dda, y teimpladau cyfeillgar yn eu grym, deniadau cyfeillion yn rymus: gan hyny, dyma yr adeg yr edrychaf arni fel yr adeg fwyaf manteisiol ar oes i fwynhau pleser. Yn awr y mae tawelwch, ond yn mlaen cyfyd stormydd; yn awr yr wyf yn rhydd oddi wrth drafferthion, yn fuan byddaf wedi fy llwytho â hwynt; yn awr y mae fy meddwl yn ysgafn a siriol, ond yn y man byddaf wedi fy ngoddiweddyd â difrifoldeb, sobrwydd, a gofalon—yn awr yw yr adeg! Yn mlaen, daw crefydd, a pharotol i farn, yn ol trefn natur, ac a dynant gwmmwl tragwyddol dros bob pleser anianol. Yn awr y mae angyfion yn mhell, ac nid yw yn rhyfyg i mi anghofio ac ymddyethro o ran fy meddwl i'r farn a thragwyddoldeb! Y mae yr ystyriaethau hyn, a'r cyffelyb, yn peri i'r ieuange edrych ar dymmor ieuengetid fel yr adeg fwyaf manteisiol iddo i fwynhau llawenydd a phleserau anianol.

II. *Y mae y geiriau yn cynnwys cerydd ac ymresymiad.*

O ieuengetyd! onid dyma y gwirionedd am agwedd eich calonau? Onid hyn a wél Duw yn dy ymddygiad? Gofynaf finnau i chwi yn ddifrifol, A ydyw hyn yn gyfiawnder â Duw, â Christ, ac â'r Ysbryd tragwyddol—ie, â thi dy hun, ac â'th deulu, a'r byd? Onid ydyw y Duw a'th wnaeth, ac sydd yn dy gynnal mor ofalus, yn deilwng o'th amser goreu? Ié, onid ydyw yn galw am dy holl amser i'w wasanaeth, ac yn addaw dy wobrwyo? Onid ydyw Iesu Grist yn haeddu dy wasanaeth—yn haeddu i ti ymgyssegru i'w wasanaethu yn moreu dy oes? Oni roddes efe ei amser goreu—ie, boreu ei oes—i weithio allan dy iachawdwriaeth di? Onid ydyw Ysbryd Duw yn cael ei dirstau trwy dy oediad rhyfygus; ac onid ydwynt yn y perygl o gael dy rodde i fyny ganddo i wýniau gwarthus, yn aberth byth i'th nwydau llygredig yn eu grym mwyaf? A ydyw yr hyn yr wyt yn ei fwriadu yn gyfiawnder â'th enaid dy hun? Ai mwynhau pleserau cnawdol yw dedwyddwch dy enaid anfarwol? Pa beth a fydd ganddo erbyn tragwyddoldeb? Onid ydyw yn meddu ar alluoedd godidog i fwynhau pleserau llawer uwch—

i ymhyfrydu mewn gwrthddrychau ardderchog a thragwyddol; ac i amcannu at ddybenion a ymddengys yn bwysig wedi llosgi y byd? Ai trwy ymroddi i ddigio Duw yn moreu yr oes yr ennillwch fendith Duw ar ddiwedd eich oes? Ai trwy feddwi, rhegi, a godinebu, yr ydych yn cyflwyno eich hunain a'ch teulu i ofal Duw dros weddill eich bywyd? Pa ham yr ydwyt mor ddiystyr o'th Gynnaliwr da, pan y mae genyt, fe allai, ddengain mlynedd etto i fyw yn gwbl ar ei drugaredd? neu, y mae yn bossibl y daw galwad arnat i ymddangos o'i flaen cyn pen y flwyddyn. Nid trwy weithredu yn groes i'w ewyllys, ei ddigio yn wastad, a'i anfodhau, y ceisiwn ffiafr dyn y byddwn ar ei ofyn yn aml—eich meist, neu eich llywodraethwr. Ai llai gwerth yn eich golwg ydyw ffiafr Duw na ffiafr dyn? Ai llai pwysig yn eich golwg ydyw bod dan ŵg Duw na bod dan ŵg dyn? Yn mha le y mae Gair Duw yn caniatáu i chwi eich pleserau—y rhyseidd yr ydych yn rhedeg iddo? Nid oes un sill yn Ngair Duw yn caniatáu i chwi fod yn annuwiol, yn dilyn eich pleserau, ac yn oedi yr amser. Na: y mae y Gair yn gorchymyn i chwi, yn y modd mwyaf pendant a phwysig, i “gofio eich Creawdwr yn nyddiau eich ieuengctid.” Nid oes un ddyledswydd yn y broffes grefyddol nad ydyw yn gorphwys arnoch chwi i'w chyflawni. Y mae meithrin yn y meddwl bleserau anianol a chnawdol yn tueddu yn gryf i gau allan o'ch meddwl bob ystyriaeth ddifrifol am Dduw, am farn, a thragwyddoldeb. “Yn eu gwleddoedd hwy y mae y bibell a'r gwini; ond am waith yr Arglwydd nid ystyriant.” Y mae fod y peth mwyaf er hyny yn cael ei adael yr olaf genych yn ymddygiad tra afresymol; a hyny heb fod dim yn galw am oediad ond chwarae a phleserau. Ac yn wir, y mae colli am byth yr amser goreu at y gorchwyl pwysicaf i ni yn echryslawn i feddwl am dano—ie, colli, fe allai, yr unig adeg am dano; gan y dichon na welwch ganol oed na henaint.

Y mae ymroddiad i ddilyn pleserau yn effeithio yn ddrwg—laf, Ar yr hyn a ddarllenir gan ieuengctyd. Y mae yn gwneyd i'w holl ymdrechianau droi mewn sianel halogedig. Llygra eu chwaeth, ac ni bydd ganddynt flas ar ddarllen ond y pethau gwaelaf a mwyaf digrefydd; megys ohwedlau ofer, caniadau aflan, a thraethodau di-Dduw a llygredig. Y mae yr argraphwasg yn gollwng allan ffrydiau o ddi-dduwiaeth a drygioni i borthi chwaeth llygredig lliaws o blant dynion; ac y mae gan llygredigaeth a Satan eu hawduron sydd yn meddu ar ddoniau helaeth. Ond myfyrdod ar “y farn” a duedda ieuengctyd at ddarllen Gair Duw a thraethodau crefyddol: ac ar y pethau hyn y cânt flas mwyach, gan na oddefa eu cydwylbodau iddynt edrych ar lyfrau llygredig mwy. Y mae gan Satan amcan mewn golwg yn tueddu ieuengctyd i ddarllen y pethau hyny, y

rhai sydd â'u tuedd i beri iddynt anghofio Duw a'r farn, ac i halogi eu meddyliau, os nad i gamarwain eu syniadau am bethau pwysig gwir grefydd.

Yn 2il, Effeithia ar eu hymddiddanion. Cyfeiria yr ymddiddan yn gwbl at bethau ofer, aflan, a drygionus. Y mae yr ymroddiad i bleserau pechadurus wedi sefydlu ymddiddanion llawer o ieuengctyd mewn pethau ofer—ymddiddanion di-Dduw, cableddus, dirmygus am ei Air, ei ordinhadau, a'i bobl—sefydlodd eu hiaith yn isel ac yn rheglyd, a gwnaeth hwynt yn ddirmygus o rieni naturiol, crefyddol a gwladol—yn lliidiog, yn enllibaidd, yn anllad, yn ffiaidd, ac yn aflan; a chaledwyd eu calonau i'r fath raddau fel yr ymfrostient yn eu drygioni a'u haflendid. Ymfrostient hefyd yn eu gloddest, eu meddwod, eu gwastraff, eu celwyddau, a'u twyll! O ieuengctyd! gwybyddwch y geilw Duw chwi i'r farn am hyn oll. "Am bob gair segur a ddywedo dynion y rhoddant hwy gyfrif yn y farn." Rhoddodd Duw ddawn ymadrodd i ni i'w fohiannu ac i fendigo dyn: ac a wneir y peth hwnw, a ddylai fod yn fendith yn mhob man, yn felldith? Cofiw'n fod ein hymddiddanion yn milwrio yn rymus o blaid neu yn erbyn y Duw y mae ein hanadl yn ei law yn wastad. O ieuengctyd anwyl! gwrandewch ar y disgrifiad dwyfol a roddir o'ch ymddiddanion:—"Ei enau sydd yn llawn mellidith, a dichell, a thwyll: dan ei dafod y mae camwedd ac anwiredd." A ydyw ef yn ystyried y cyfrif? Na: "dywedodd yn ei galon, Anghofiodd Duw, cuddiodd ei wyneb, ni wél byth." Wrthych chwi y dywed yr Arglwydd, "Na ddeued yn ymadrodd llygredig o'ch genau chwi!" Onid oes i'r hwn sydd yn ein cynnal ac yn ein barnu awdurdod ar ein tafodau? Ond meddwch chwi, "A'n tafodau y gorfyddwn, ein tafodau sydd eiddom ni—Pwy sydd Arglwydd arnom ni?" "Gostyngaist dy safn i ddrygioni, a'th dafod a gyd-bletha ddichell;" (*Salm* 1. 19—20). Dyma ddisgrifiad o lawer gŵr ieuange yn ein gwlad, "Hoffaist bob geiriau distryw, O dafod twyllodrus! Duw a'th ddistrywia dithau yn dragywydd: efe a'th gipia di ymaith ac a'th dyn allan o'th babel, ac a'th ddiwreiddia o dir y rhai byw;" *Salm* lii. 4, 5.

Chwi, siaradwyr halogedig, edrychwch ar eich darlun perffaith a'ch diwedd ofnadwy:—"Y rhai a hogant eu tafod fel cleddyf, ac a ergydiant eu saethau, sef geiriau chwerwon: i saethu y perffaith yn ddirgel: yn ddisymmwrth y saethant ef, ac nid ofnant. Ymwrolant mewn peth drygionus, ymchwedleuant am osod maglau yn ddirgel; dywedant, Pwy a'u gwel hwynt? Chwiliant allan anwireddau; gorphenant ddyfal chwilio: ceudod a chalon pob un o honynt sydd ddofn." A gânt hwy fyned yn mlaen fel hyn byth? Na: "Duw a'u saetha hwynt; a saeth ddisymmwrth yr archollir hwynt;" *Salm* lxiv. 3—7.

Y mae Dafydd yn gweddio rhag tafod yr annuwiol, yr hwn a ddygodd arno ofn anghu, ac a ofidodd ei galon, ac a'i goddiweddodd â dychryn. Y mae tafod halogedig fel pla marwol, ac yn dinystrio heddwch pawb oddi amgylch. Dymunai adenydd colomen, fel yr ehedai ymaith o'i gyrhaedd, ac y crwydrai yn mhell. Dymunai aros yn yr anialwch er mwyn bod yn ddiogel rhagddo: *Salm* lv. 3—9. Y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da. Pe yr argrephid ymddiddanion llawer am un wythnos, bob gair; a phe y darllenid y cwbl ar gyhoedd tyrfa o'n cyd-ddynion—y fath gywilydd a orchuddiai eu hwynebau, os byddai ynddynt un wreichionen o wylder! O! y ffolineb, yr aflendid, a'r ysgafnder a ddadguddid! O ieuengctyd anwyll! oni ddarllenir y cwbl yn y farn fawr, a hyny ger bron angylion a dynion? Y mae llawer yn ymhyfrydu yn y meddwl am y pechod cyn ei gyflawni, yn ymbleseru yn y cyflawniad o hono, ac yn ymfrostio ynddo wedi ei gyflawni. Ond dengys yr Ysgrythyr fod ymfalchïo mewn gweithred dda yn bechod: ond y mae ymfrostio mewn peth drygionus yn uffernol! Y mae llŵon a rhegfeydd yn brawf amlwg o galon elynol at Dduw; o blegid nid ydyw yn boddio unrhyw nwyd, ond yn unig yn porthi yr elyniaeth tuag at Dduw. Y mae ymddiddanion trythyll yn effeithio yn fawr i halogi y galon, ac yn brawf o galedwch mawr. Ymddiddanion di-Dduw, a chabledus am ei Air—y maent yn sicr yn tarddu oddi ar anffyddiaeth yn y meddwl, ac yn cael yr effeithiau mwyaf niweidiol. Trwy fwrw ymaith rwymau cydwybod, y maent yn tueddu y ffol a'r anwybodus i roddi ffordd i bob nwyd aflan. Gwrandewch, ieuengctyd, gyffes un anffyddiwr cyhoeddus yn anghu. Wrth edrych ar y tân, dywedai—"O! na byddai i mi gael gorwedd a rhostio ar y tân yna am gan mil o flynyddoedd, i ennill heddwch â Duw! O dragwyddoldeb! dragwyddoldeb! Pwy a all esbonio y gair 'yn oes oesoedd?' Nid ydyw can mil o flynyddoedd yn nesau dim arnaf at ddiwedd fy arteithiau, mwy nag un awr!" Un arall a ddywedai wrth drengu—"O! annioddefol bangfeydd uffern a damnedigaeth!" Un arall a ddywedai wrth gyfaill yn y wasgfa olaf—"O! amser, amser! O! am un wythnos—un dydd! Pe y teimlit hanner y pwysau fel mynydd sydd yn pwysu arnaf, ti a ymrysonit â'r merthyr am y stanc, ac a fendithiet Dduw am y fflamau hyny nad ydynt yn dragwyddol."

Y mae yr ymroddiad i bleserau cnawdol yn arwain i'r dewisiad o gwmmi llygredig. Prawf amlwg o galon ddrwg, heb ei chyfnewid, ydyw y dewisiad o gwmmi annuwiol, a chasineb at gwmmi crefyddol, difrifol, a bucheddol. Fel y mae yn nheyrnas y Cyfryngwr ordinhadau cymdeithasol, cystal a rhai personol, felly y mae gan Satan ei ordinhadau cynulleidfaol a chym-

deithasol. Clywir gweision Satan yn galw cymmanfa ynghyd, gan ddywedyd, "Deuwn, cyrchwn win; ymlanwn o ddiod gref, a bydd yfory megys heddyw, a mwy o lawer iawn." Rhaid cael cymdeithas i roddi blas ar bechod; rhaid i'r annuwiol gael rhuthro i ganol cwmpeini i foddi llais cydwybod. Wr ieuange, os wyt yn penderfynu byw yn annuwiol, a dilyn dy bleserau pechadurus, rhaid i ti gael cymdeithas addas i'r pwrpas—y mae yn rhaid iddi fod yn gymdeithas na byddo dim ynddi i gyffroi y gydwybod, nac un crybwylliad difrifol am y byd tragwyddol. Pe byddwn yn amcanu eich dysgu i sicrhau eich colledigaeth, ac i gadw y ffordd sydd yn arwain yn ddigyfeiliorn i ddistryw, ac i wneyd pob parotoadau tuag at rwymo eich hunain yn sicr i gosp dragwyddol, mi a'ch cynghorwn, yn gyntaf, i dreulio eich amser gyda chwmi drwg, llygredig; a rhoddwn y pwys mwyaf ar hyn fel y prif foddion i sicrhau eich colledigaeth. Cynghorwn chwi hefyd i ochel pob cwmni difrifol a sanctaidd, lle y byddai ymddiddanion dwys am bethau pwysig y Beibl, sefyllfa y cyflwr, a'r farn a fydd. Ond caniatawn i chwi gael cymdeithas ambell i grefyddwr cnawdol, iach ei ysbyrd; a chynghorwn chwi i ymbleseru yn nghyfeillach y rhai cnawdol, bydol, y masweddwyr, y coeg-ddigrifwyr, a'r cerddorion di-Dduw, yr anllad, y fraethwr llygredig, a'r celwyddwr. Ac os gellir cael yr amheuwyr, yr hwn y mae ei eiriau yn wenwyn, a'i dafod yn wastad yn gelyn sarph, goreu oll i sicrhau damnedigaeth yr enaid. Os oes dyn ar y ddaear a garai ac a ddichon sicrhau i'ch eneidiau bob tynged ddrwg, hwnw ydyw. Os oes un mwy celfydd na'u gilydd ar lygru moesau a chaledu cydwybod, hwn ydyw. Efe ydyw pen campwr Satan! Efe ydyw y blaenor yn y fyddin ddrygionus. Ymfynwch am y cwmni llygredig yma—ymfoddlonwch yn eu mysg—ymbleserwch yn eu hymddiddanion a'u harferion llygredig, ac ni fethwch yn eich amcan o ddinystrio eich hunain am byth.

Y mae y saint hefyd yn derbyn cynnorthwy mawr i deithio yn mlaen yn ffordd y bywyd oddi wrth gymdeithasu â'u gilydd. Y mae eu hymddiddanion yn adeiladol y naill i'r llall; cynghorant ac argyhoeddant eu gilydd, ac annogant eu gilydd yn wresog i lynu o lwyrffryd calon wrth yr Arglwydd. Felly yr annuwiolion, trwy eu cymdeithas lygredig, a gadarnhant eu gilydd mewn drygioni, ac a gynnorthwyant y naill y llall i foddi llais cydwybod. Cusglant eu gilydd ynghyd i ddiota, i'r gyfeddach, i'r dyben o lygru eu gilydd. Cymdeithas ydyw hon sydd yn sicr o lygru moesau—ysgol ydyw nad oes dim da yn cael ei ddisgu ynddi, ond yn hytrach pob drwg. Cyrchfa y rhai drygionus ydyw, cyntedd y pydew diwaelod. Nid ydyw y gŵr ieuango yma yn gweled un rhwystr i bechu, yn clywed un rhybudd, nac un cofiad am y farn a fydd. Ond i'r gwrthwyneb, y mae pob

peth yn tueddu i ennyn trachwant, ac yn cyffroi pob tueddiad drygionus. Y mae yr iaith, y gerddoriaeth, y cwmni, y ddiod, ie, y cwbl ynghyd, wedi eu cyfaddasu i serio y gydwybod, a'i gwneyd yn rhydd i ddigio Duw trwy gyflawni pob anwiredd. Yn y gymdeithas yma gochelir yn ofalus bob ymddiddanion sydd yn tueddu i ddynoethi drygioni ac ysgelerder meddwdod; ac ni chlywir coffhâd byth am y myrddiynau a gollasant eu bywyd drwy effeithiau niweidiol y diodydd meddwol! Pa faint o iechyd a gollwyd, o dlodi a achoswyd, ac o eneidiau a ddamniwyd drwy anghymmedroldeb erioed!

Y mae llaweroedd o ieuengctyd, pa rai oedd yn ddiniweid a hapus, a allent ddyddio eu dinystr yn y byd hwn a'r hwn a ddaw o'r awr y dechreusant gyntaf ymuno â'r cwmni a nodwyd ar lawr y dafarn. Dyma y funyd ofnadwy y rhoisant awenau eu chwantau yn llaw yr ysbrydion aflan: ac y maent yn cael eu llusgo ganddynt i angeu tragwyddol. Dyma y pryd yr hauwyd egwyddorion drwg yn y galon, y rhai a aethant ar gynnydd parhaus ar ol hyny; ac y maent yn syrthio yn is is i drueni, y naill wythnos ar ol y llall. Ar y dechreu, ant i anfoesgarwch, yna collant bob teimlad cydwybod, ac ant rhagddynt mewn drygioni, nes y bydd y ddaear yn blino ar ei llywth, ac uffern yn ymgynhyrfu i'w derbyn! Wfyr ieuaingel! gochelwch y gymdeithas hon—ciliwch o'r gyfeillach sydd yn sicr o dlodi eich pocedan, a'ch teuluoedd, o ddinystrio eich cymmeriad, o niweidio eich iechyd, ac o ddamnio eich eneidiau yn y diwedd. Gwell i chwi fod heb gyfaill na chymmeryd un drygionus. Ciliwch oddi wrth yr un drwg fel oddi wrth y wiber. Os darfu i chwi, drwy anwyliadwriaeth, ymuno mewn cwmni drwg, ysgydwch hwynt ymaith gyda brys, fel yr ysgydodd Paul y wiber i'r tân. Ond os arosych yn eu cyfeillach, byddwch yn fuan fel hwythau; gan mai dyma eu hamcan, dwyn pawb i'w delw llygredig eu hunain. Nid ydyw diotwyr yn gwneuthur un esgus o grefydd:—"Nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid." Y maent nid yn unig heb dduwioldeb, ond y maent yn aml yn elynion cyhoeddus i grefydd a duwioldeb. Y maent yn wadwyr Duw mewn geiriau ac ymarferiadau. A phan y mae un yn feddwyn, yn dyngwr, yn aflan, ac yn anniwair, os ymfoddlonwch yn y gymdeithas hon credwch fi, nid yw eich damnedigaeth yn hepian! Edrychwch ar aelodau y gymdeithas lygredig—nid hwy sydd yn haelionus i'r tlawd, ac yn cyfranu at achos crefydd; ac nid hwy sydd yn athrawon yn yr Ysgolion Sabbothol. Ni wnant les drwy eu meddiannau, eu talentau, na'u hesampl. Y mae eu geiriau, eu hesamplau, a'u hathrawiaeth yn hau gwenwyn at hyd y llwybrau y maent yn eu cerdded! A gallaf ofyn, Pa sawl ochenaid o eiddo mam dyner, a pha sawl melldith o eiddo rhieni duwiol sydd ar eu penau, am lygru eu meibion, a thwylllo eu merched?

III. *Y mae yr ymroddiad i ddilyn plaserau yn arwain i bechodau gwarthus, ac yn enwedig i anniweirdeb.*

Y mae yr arferiad lygredig a chywilyddus sydd yn mhlith ieuengctyd ein gwlad o gyfeillachu yn anamserol yn cael ei ddal i fyny yn unig er cyrhaedd amcanion pechadurus, ac nid i un dyben sylweddol, gan y rhan fwyaf o lawer. Pwy a all ddangos ysgelerder y trosedd o hudo lodesi diniweid, ac yna eu gwrthod wedi iddynt goelio addewidion teg twyllwyr drygionus! O! y gofid sydd yn eu meddwl pan y maent yn gweled eu hunain wedi colli eu cymmeriad, ac yn cael eu diystyru gan bawb! Mor gyffrous ydyw cydwybod merch ieuangc felly—mor wallgofus ydyw ei meddwl, pan yr ystyria fod yn rhaid i'r pechod ddyfod i wybodaeth ei rhieni a'r byd! Dymunai lawer un angen, yn hytrach na'r gwarth, y gogan, a'r cywilydd fydd yn eu haros. Treuliai y misoedd hyn mewn tristwch angerddol, mewn dymuniadau am anghen, mewn bwriadau llofruddiog, mewn mell-dithio ei thwyllwr, ac mewn ofnau i'w drwg ddyfod i'r amlwg bob dydd. Trallod ei meddwl a wywa ei chyfansoddiad corphorol, ac a achosa adfeiliad nerth, fel, erbyn i'w hadeg ddyfod, y bydd ei natur yn syrthio yn anamserol i'r bedd gyda'i baban! Pwy a all ddisgrifio creulondeb y fath dwyllwr melldigedig? Pwy a all draethu y gofid a'r archoll ddofn a ddioddefodd tad a mam deimladwy yr hon a dwyllwyd, y diwrnod pruddaidd y daethant i wybod fod eu hoff blentyn, a fagasant mor anwyl, a ddilladwyd ac a borthwyd drwy chwys eu gwynebau am gyn-nifer o flynyddoedd, wedi ei thwylo a'i gwneyd yn warth i'w holl berthynasau, ac o bossibl wedi ei dinystrio am amser a byth! Edrychwn ar ei thad yn derbyn y newydd gyntaf, pan y mae ei wraig mewn llifeiriant o ddagrau yn ei fynegu iddo. Y mae y newydd yn myned fel saeth i'w galon—y mae yn myned yn fud dros ennyd—gweler ef yn gostwng ei ben mewn tristwch—clywer ei ocheneidiau dwysion—edrycher arno yn cael ei lethu gan boen meddwl, fel y mae yn syrthio i lesmair—ac ar ol dadebru, y mae yn dechreu wyllo—ac y mae yn cerdded yn ol ac yn mlaen fel wedi ymddyrysu! Cynnydda ei ofid—y mae bywyd wedi myned yn faich iddo, fel y dymuna farw o'r dydd hwnw allan—dechreua ei wallt syrthio, a gwynu, gwywa ei wedd, ac adfeilia ei nerth, nes iddo yn y diwedd ddisgyn mewn gofid i'r bedd! Rhaid fod y twyllwr yn meddu ar annheimplad-rwydd llofrudd os gall edrych yn ysgafn ar ei ymddygiad yn rhoddi creadur mor ddiniwed i farwolaeth mor ysgeler. Y twyllwr hefyd a feddwl am ei marwolaeth wedi i'r gyflafan gael ei chyflawni—efe a ddechreua ofidio ac ymesgusodi, ond yn ofer. Ei gydwybod a'i cyhudda yn benderfynol o lofruddiaeth ysgeler; cryfha ei llais at ddiwedd ei oes: ac yn anghen, hi a bortreada y cwbl yn berffaith ger ei fron. Y twyllwr, er tosturio wrth

feddwl am dani, nid ydyw y cwbl ond ofer—nis gall efe bellach adferu yr heddwch y darfu iddo â llaw lofruddiog rwygo yn y teulu. Nis gall adferu y rhinwedd y darfu iddo ei halogi, nac adgyweirio yr enw da a ddibrisiodd. Ni ddichon iddo mwy ail ennyn y wreichionen fywiol y bu yn offeryn i'w diffodd—nis gall efe alw yn ol i'r byd yr enaid a wthiwyd ganddo dros derfyn amser i drueni uffern! Pa mor aml y bydd i'w hysbryd gynniwair drwy ei feddyliau! Pa mor aml y gallem feddwl ei fod yn clywed ei hocheneidiau anobeithiol a'i hagwedd wallgofus yn angeu! Mor aml y cyfyd ei hysbryd yn ei olwg gan ei gyhuddo o'i dinystrio yn dragwyddol!

Pa beth ydyw y gwahaniaeth rhwng yr hudwr a'r llofrudd? Y llofrudd a gymmer ymaith fywyd ei gyd-ddyn ar unwaith; ond yr hudwr a'i cymmer ymaith yn raddol. Y llofrudd a'i cymmer ymaith yn dreisgar; ond yr hudwr drwy weniaeth dwyllodrus a bradwriaeth yn y galon. Y llofrudd a anturia ei fywyd ei hun i berygl; ond yr hudwr a lofruddia gorph ac enaid heb beryglu ei fywyd ei hun. Y llofrudd sydd yn dieneidio y diniwed trwy achosi artaith, dinystr, a phoen ar y corph dros amser byr, ynghyd â gollwng un rhuthr o ddychryn i'r meddwl; ond y mae yr hudwr yn curio ac yn dinystrio y corph prydferth a diniwed trwy ddirboeni y meddwl â theimlad o enogrwydd a gwarth am amser maith, nes gwywo ymaith yn raddol nerth y corph, a thraddodi ei wrthddrych ffol i angeu graddol o'r mwyaf poenus, a hyny dan rith cariad. Pa bryd y daw gwyrlyfion Cymru i edrych ar yr hudwr yn llofrudd? Pa bryd yr edrychant ar hyn yn ymosodiad dichellgar ar eu bywydau ac ar hapusrwydd eu heneidiau? Pa bryd y deallant ei fod yn cynllwyn am eu cymmeriad! Pa bryd, O Arglwydd! y gwel Cymru ffeidd-dra y bai hwn, ac y dirmygir ef gan y genedl! Pa fodd na byddai i ferched diwair Cymru gymmeryd rhybudd oddi wrth y lliaws sydd dan y fath warth, wedi gweled y fath ddirmyg? Pa bryd y daw y rhai hyn i ffeiddio ac i gasau yr hudwr twyllodrus, a'i fwrw o'u cymdeithas! Rhyfeddais lawer gwaith nad edrychir ar y cymmeriad yma mor ddrwg a drewedig, a chyda'r atgasrwydd mwyaf. Nid ydyw trosedd y lleidr i'w gysatdlu â'i drosedd ef. Y mae y lleidr yn wir yn ysbeilio un o'i feddiannau; ond y godinebwr yn yspeilio un o'i chymmeriad, o'i chysur, ei hiechyd, ei bywyd, ac yn achosi damnedigaeth dragwyddol i'r enaid. Y mae yn bossibl adferu y golled a wnaeth y lleidr; ond nis gellir byth adferu y golled a wnaeth yr hudwr! Rhoddai llawer tad ran helaeth o'i feddiannau yn llawen er adferiad y golled hon, pe byddai hyny yn bossibl: ond y mae y cymmeriad da a gollwyd yn anadferadwy!

Pe yr edrychid ar y cymmeriad hwn gyda'r atgasrwydd y mae yn ei haeddu, yr wyf yn barnu nas gellid ei oddef yn aelod

mewn teulu, yn was, nac yn weithiwr; ond y bwridd ef allan o bob cymdeithas, ac yr hwtid ef ar yr heolydd. Ni chydgerddai neb âg ef ar y ffordd, pe y gellid ei ochel; ac i ba le bynag y troai ei wyneb, gwrthodiad a dirmyg a'i cyfarfyddai. Ni feiddiai ddyfod i gynnulleidfa y saint—ac nis gallai anturio i ffair na marchnad, nac ymddangos mewn unrhyw le cyhceddus, Edrychid arno fel un o brif elynion Duw, yn fradwr dynoliaeth, yn derfysgwr gwlad, yn boenydiwr teuluoedd cyfain, ac yn gynllwynwr am waed y diniweid. Pe yr ymddangosai yn y cyffredin eiddigedd dyladwy yn erbyn y drwg hwn ni byddai eisieu cyfraith i'w attal, na phregethu yn ei erbyn; ond gosodid arno y fath warth fel y byddai pob congl yn annioddefol iddo, a phob teulu yn ei ddirmygu fel llofrudd maleisus.

Pan y bydd gŵr ieuange yn chwilio yn ei feddwl yn ddirgel am aberth i'w falais melldigedig—pan y bydd yn nodi allan yn ei fyfyrddod nŵd i'w ymosodiad llofruddiog—y mae, trwy holl ddichellion a chyfrwysia cythreuliaid, yn gosod rhwydan a maglan ar ymylau llwybr y lodes ddiniwed, ac yn llawn fwriadu ei gadael yn y borcu â'i henaid dan euogrwydd pechod, ac wedi ei hyspeilio o'i hanrhydedd am byth: *Job xxiv. 15—17*. Bradwriaeth yn erbyn enaid diniwed ydyw! O Dduw! gan dy fod wedi gosod dy wyneb yn erbyn trueni dy greaduriaid, cyfrynged dy allu mawr yn yr achos hwn: na âd ddim heb ei wneuthur a dueddo i attal y gyflafan ofnadwy hon. Casgled dy lywodraeth fanwl ynghyd amgylchiadau a gyfansoddant rwystr cadarn i'r hudwr maleisus i dywallt gwaed gwirion. Gan fod dichellion maleisus y pwll diwaelod yn erbyn eneidiau y byd o'r fath bwys mawr yn dy olwg, tyred i achub y rhai sydd yn barod yn ngafael y perygl, gan fod bwriad perffaith lofruddiog yn llechu dan rith y cariad mwyaf mewn natur.

Gyda yr ymddangosiad mwyaf tebygol o serch yr ymddengys yr hudwr lofruddiog. Nid oes ganddo un ddaigr yn weledig. Y mae wedi ei wisgo ei hun â phob arwyddion o gyfeillgarwch diragrith; ond y mae yn maethu yn nyfnderoedd ei galon fwriad i yspeilio y ddiniwed o'i chymmeriad, o heddwch cydwybod, ac o fywyd tragwyddol! Pwy mewn un amgylchiad a gyssylltodd fwriad mor greulawn dan ymddangosiad mor weniethus! Pwy erioed a guddiodd y niwed mor llwyr, ac a sicrhaodd drueni mor fawr, i'w gydgreddur, a hyny heb fod dim camwri yn achosi y fath fwriad, na gobaith ennill iddo ei hun drwy hyny. Y mae y goresgynwr creulawn a balch yn tywallt gwaed miloedd, ond nid am ddim—y mae yn diagwyl ennill gorsedd, ac anrhydedd, neu elw, a dybia efe fydd yn gyfartal i'r holl draul a'r golled. Ond am yr hudwr, y mae efe yn

yspeilio y ddiniwed o'i chymmeriad, a'i bywyd, a'i thragwyddol hapusrwydd, heb gael dim budd o hyny, ac heb obaith am yr ennill lleiaf iddo ei hun!—ie, ei hyspeilio o fil mwy o ddaioni a gwerth na bywydau corphorol miliynau o bobl! Pwy erioed heb law efe a amcanodd niwed mor fawr, mor ddiachos, ac er mwyn ennill mor fychan!

PREGETH XIX.

TREFN GRAS YN ERBYN PECHOD.

Rhufeiniad vi. 1, 2.

“Beth wrth hyny a ddywedwn ni? a drigwn ni yn wastad mewn pechod fel yr amlhao gras? Na atto Duw. A ninnau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn byw etto ynddo ef?”

Y MAE dynion yn mhob oes wedi bod yn dra thueddol i ddy-chymmygu rhyw ffordd i ddedwyddwch yn y byd a ddaw a ganiatao rhyddid iddynt i ddilyn blyisiau llygredig yn y byd hwn. Y mae rhai yn camgasglu oddi wrth athrawiaeth gras Duw—yr athrawiaeth am iachawdwriaeth pechadur yn hollol o ras—y gallant hwy “drigo yn wastad mewn pechod fel yr amlhao gras.” Gan fod y Tad wedi caru pechaduriaid er tragwyddoldeb, a’r Mab wedi marw ar y groes i’w prynu, ac mai gwaith yr Ysbryd Glân yw sancteiddio y galon, y maent yn meddwl fod hyny yn caniatáu iddynt hwy ymddiofalu, gorwedd i lawr yn segur, gan lynu yn eu drygioni, a gadael felly eu hiachawdwriaeth ar Dduw. Ond y mae athrawiaeth yr efengyl am ras Duw yn eithaf pell oddi wrth gefnogi llygredigaeth mewn un modd; o herwydd y mae pob cangen o athrawiaeth gras yn cael ei defnyddio yn yr Ysgrythyrau yn annogaethau o’r fath gryfaf i sancteiddrwydd.

Yr ydym yn cael yr apostol yn dangos, yn niwedd y bennod o’r blaen, fod cadwedigaeth pechaduriaid yn gwbl o ras Duw—mai gras sydd yn teyrnasu yn holl drefn y cymmod—mai o ddawn Duw y mae cyfiawnhâd bywyd yn y byd hwn, a theyrnasu mewn bywyd yn yr hwn a fydd—ac mai doniau Duw yw yr holl bethau hyny sydd yn paratoi i fywyd tragwyddol. Ac yma y mae yn rhagflaenu camgasgliad a allai dynion wneuthur oddi wrth hyny. “Beth gan hyny a ddywedwn ni?” Pa ddefnydd a nawn ni o’r athrawiaeth hon? Pa fodd y mae y gwirioneddau a nodwyd yn caniatáu i ni fyw? Gan fod iachawdwriaeth pechaduriaid fel hyn yn gwbl o ras Duw, “a drigwn ni

yn wastad mewn pechod fel yr amlhao gras?" Ai dyma y defnydd a ddylem ei wneyd o'r fath athrawiaeth—penderfynu byw mewn pechod? Hwyrach nas gallir penderfynu yn hollol yn mha un o ddwy ffordd yr oedd yr apostol yn golygu y gallai dynion dynu y cyfryw gasgliad. Ai fel hyn?—"Gan nad all ein gweithredoedd ddim tuag at ein cadw, na'n cyfiawnderau ddim tuag at ein cymmeradwyo ger bron Duw, eithr mai trwy fydd yn Nghrist yn unig y mae i ni gael ein cyfiawnhau, nid ydym yn gweled un angenrheidrwydd i ni feddwl am gadw gorohymnion Duw a byw yn dduwiol, canys nis gwna hyny ddim at ein cadw rhag y llid a fydd.' Neu ynte—"Gan fod y Duw mawr yn gogoneddu ei ras trwy faddeuant pechodau, po mwyaf y maddeua Duw mwyaf fydd o enw i'w ras wrth hyny; a chan hyny ni a chwanagerwn bechod at bechod, o herwydd po amlaf a fyddant, mwyaf o anrhydedd a fydd i'w ras am eu maddeu; ni bydd ond cyfle i'r Arglwydd wneuthur enw i'w ras am eu dileu.' Pa un bynag o'r ddwy ffordd, neu ryw ffordd arall, y gallai dynion wneuthur y casgliad i "drigo yn wastad mewn pechod fel yr amlhao gras," y mae yr apostol â'i holl galon yn erbyn i neb dynu casgliad o'r fath. "Na atto Duw!" Y mae yn anni-oddefol coleddu y fath feddwl am funyd. "A ninnau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn fyw etto ynddo ef?" Y mae y pren hwn, fel pob pren arall, i'w adwaen wrth ei ffrwyth. Heb fyned i daeru dim am duedd yr athrawiaeth ynddi ei hun, gadewch i ni fyned i edrych ar ei heffeithiau:—Yn mhob man lle y credir hi, y mae yno farw i bechod.

Y mae y gair "marw" yn cael ei ddefnyddio yn y Beibl mewn llawer ystyr. Defnyddir ef am farw naturiol, ac hefyd am farw mewn ystyr cyfreithiol; sef, dyn dan gondemniad marw yn ngwyneb cyfraith: bryd arall, arferir y gair am agwedd meddwl dyn; weithiau mewn ystyr ddrwg, "meirw mewn camweddau a phechodau;" ac weithiau mewn ystyr dda, megys "marw i'r ddeddf," sef dyn wedi ei weithio i ddarfod disgwyl dyfod i fyny trwy weithredoedd y ddeddf. Felly yr arferir y gair yma, "marw i bechod;" darfod byw mewn pechod fel gwaith ac fel plaser. Y mae yn arwyddo argyhoeddiad trwyadl o ddrwg pechod; y pechadur wedi dyfod i'w ganfod yn ei ysgelderder fel drwg anesgusodol—nad oes ganddo un esgus i'w wneyd drosto; dim ond ei gydnabod yn fai hollol arno ei hun. Ac y mae yn arwyddo hefyd, ymadawiad âg ef fel hyfrydwch a phleser; y mae y serch yn cael ei diddyfnu oddi arno, a'i gosod ar bethau gwrthwyneb iddo. Ac y mae hyn yn brofedig mewn cilio oddi wrth ddrwg yn yr ymarweddiad, a pharhau felly yn sefydlog: fel y mae marw yn darfod â phethau y bywyd presennol, felly y mae yr hwn a aned o Dduw wedi darfod â phechod o ran byw ynddo. Yn awr ni a sylwn oddi wrth y testyn:—

I. *Fod iachawdwriaeth pechaduriaid yn gwbl o ras Duw.*

II. *Fod tuedd mewn pechaduriaid i gamgasglu oddi wrth yr athrawiaeth hon y gallant drigo mewn pechod fel yr amhauo gras. Ond yn*

III. *Fod trefn Duw yn achub yn gwbl lân oddi wrth y cyhuddiad o'i bod yn gefnogaeth i bechod.*

I. *Y mae iachawdwriaeth pechaduriaid yn tarddu yn gwbl o ras Duw:—o ras noeth, heb ddim haeddiant dynol. Y mae goruchwyliaethau y Duw mawr tuag at ei greaduriaid rhesymol yn cael eu dosbarthu yn yr Ysgrythyrau i ddau fath—cyfiawnder, a gras. Fe ddaw y cwbl i mewn o dan y ddau ddosbarth hwn. Y mae gweithrediadau cyfiawnder a gras yn dra gwahanol. Y maent felly yn eu tarddiad oddi wrth Dduw ei hun. Y mae yn gwneuthur cyfiawnder â'i greaduriaid o angenrheidrwydd natur. "Ydwyt lanach dy lygaid nag y gelli edrych ar ddrwg, ac ni elli edrych ar anwiredd;" sef, nad all edrych arno heb ei ffeiddio, ac heb ei gospi; nid oes ganddo help iddo ei hun ei fod yn casau pechod ac yn gweinyddu cosp o'i herwydd. Ond pan y mae yn cyfranu gras, y mae yn gwneuthur hynny oddi ar ryddid ewyllys: "Mi a drugarhaf wrth yr hwn y cymmeraf drugaredd arno, ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf." Y mae ganddo hawl i drugarhau wrth y neb y gwelo yn dda; nid oes dim rhwymau arno i ddangos trugaredd tuag at béchadur o un math. Diolch iddo am droi ffrwd ei drugaredd atom ni! Y mae goruchwyliaeth cyfiawnder yn gynnwysedig mewn gosod, a gweinyddu, ac amddiffyn cyfraith. Gwneuthur cyfiawnder noeth â phob creadur rhesymol ydyw ymddwyn ato yn ol fel y byddo rhwng ei achos a'r gyfraith. Dyma fel y bydd yn nydd y farn—dim ond gweithrediadau cyfraith at y da a'r drwg. Eithaf uniondeb fydd gogoneddu y cyfiawn yn gystal a chóspi yr anghyfiawn. Os mynem iddi droi allan yn dda arnom yn y dydd olaf, ymfynwn am y cyflwr hwnw nad all y gyfraith wneyd dim â ni ond ein cymmeradwyo. Diolch i Dduw ein bod ni etto mewn byd y mae modd cyrhaedd y cyflwr hwnw! Ond wrth gyfranu gras, y mae Duw rywfodd yn gwneuthur mewn ffordd sydd uwch law cyfraith. Y mae yn achub yn ei benarglwyddiaeth. "Yr hwn a'n hachubodd ni, ac a'n galwodd â galwedigaeth sanctaidd, nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras." "Wedi iddo ein rhagluniaethu i fabwysiad trwy Iesu Grist iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef, er mawl gogoniant ei ras ef." Pe na chymmerai Duw ond cyfiawnder noeth tuag at y troseddwr, nid ei achub, ond ei gospi a wnai yn ddiattreg. Dacw yr angylion a bechasant yn syrthio i ddwylaw noethlymyn cyfiawnder, ac yno yn cael eu cadw mewn cadwynau tragwyddol*

dan dywyllwch. Gallasai Duw wneuthur felly â holl ddynol-ryw; ond yn lle hyny, wele ei drugaredd yn seinio, "Arnoch chwî, wŷr, yr wyt fi yn galw, ac at feibion dynion y mae fy llais." Diolch i ti, Arglwydd, am dy ras! Gallesit yn gyfiaw ein gosod ni oll ar yr un tir a chythreuliaid; ond clod i' th enw am droi afonydd dy drugaredd i lifeirio atom ni!

Y mae cyfiawnder a gras yn wahanol o ran tymmorau eu gweithrediadau. Y mae gras yn ymgeleddu ei gwrthddrychau yn y byd hwn; mewn amser y mae Duw yn tynu â thrugar-edd: ond y mae cyfiawnder yn dyfod i'r golwg yn benaf yn y byd sydd tu draw i'r llen. Nid ydyw cyfiawnder yn y byd hwn yn cael lle rhydd i dalu i bechadur yn ol ei weithred, gan fel y mae amynedd Duw fel yn sefyll ar ei ffordd. Rhaid i amynedd roddi y pechadur i fyny cyn y gallo cyfiawnder ddyfod i'r golwg yn llawn. Y mae goruchwyliaeth amynedd Duw yn gynnwys-edig mewn attal dwrn cyfiawnder am dipyn, rhag iddo ddisgyn ar gopa y troseddwr. 'Y mae efe yn haeddu i mi ei gospi,' medd cyfiawnder. 'Ydyw,' medd amynedd; 'ond paid a'i daraw dros ryw hyd etto.' Ymfynwch am ddiangfa, anwyl bobl, tra y mae amynedd yn troi dwrn cyfiawnder yn oll! Yn y byd tragwyddol, y mae cyfiawnder yn ymwneyd yn hollol ac yn uniongyrchol â phawb. Nid yw da yn cael ei wobrwyo, na drwg ei gospi, ond i fesur bychan yn y byd hwn; ond cedwir gwobr y da a chosp y drwg yn ofalus iddynt yn y byd a ddaw. Y mae y credadyn yn myned trwy lawer o orthrymderau yn y byd hwn; ond y mae yn cael ei ogoneddu yn y byd a ddaw. Y mae yr annuwiol yn cael ei arbed hyd ddydd drwg. Y mae llid gyda Duw yn erbyn pechod, mae yn wir; ond "llid a fydd" ydyw—"digofaint sydd ar ddyfod." Y mae cleddyf yn llaw Duw i ddryllio ei elynion; eithr cael ei "hogi" y mae hwn yn awr: yn y byd tu draw i'r llen y bydd y lladdfa ddinystriol. Diangfa yr awr hon! Y mae Duw yn hogi ei gleddyf o bwrpas i ti, bechadur, wrth glywed ei sŵn, ffoi i'r diogelwch. Y mae yr annuwiolion yn y byd yma i'w gweled yn fynych yn "blo deno fel y llawryf gwyrdd," heb fod "mewn blinder, fel dynion ereill;" tra y mae credinwyr, fe allai, yn nyfnder tlodi a chystudd, ac weithian yn fwy eu blinder, naewn ystyr daearol, na neb yn y wlad. Os nad oes byd ar ol hwn, lle mae "gogoniant, anrhydedd, a thangnefedd, i bob un sydd yn gwneuthur daioni," y mae yn rhaid mai truanaf o'r holl ddynion yw pobl Dduw. Y mae yn wir fod crefydd, yn ei heffeithiau sanctaidd a dyddanol yn y byd hwn, yn talu ei ffordd yn eithaf da; ond grym, a chymhelliaid, a chalondid mawr y sancteiddrwydd a'r dyddanwch yw gobaith gogoniant Duw yn y byd ar ol hwn. Cymmerwch oddi wrth y credadyn ei obaith, a dyna ei gariad yn llesmeirio, a' ffydd yn ddirym. Oes, y mae byd arall, lle y

mae nefoedd i wobrwyo ac uffern i gopsi o dan deyrnasiad cyfiawnder byth. Ond y mae gras yn estyn allan ei theyrnwialen tuag at yr euog yn y byd hwn; a dyna ein holl galonddid am iachawdwriaeth.

Y mae yn amlwg fod iachawdwriaeth pechaduriaid yn gwbl o ras Duw, o herwydd yn:—

1. *Nid oedd ar Dduw eisieu dyn.*—Duw mewn eisieu am ddyn! Nac ydyw, yn wir! Y mae efe yn hunan-ddibyncl; yn ymddibynu yn gwbl arno ei hun, heb arno eisieu neb o'i greaduriaid i'w wneyd ei hunan yn hapus. Yr oedd efe yn anfeidrol ddedwydd cyn bod creadur erioed. Ac wedi iddo greu pob peth, ynddo ei hunan y mae efe etto yn cael ei hapusrwydd. Y mae yn wir ei fod yn llefaru am dano ei hun fel un yn ymfrydu yn ei greaduriaid, yn enwedig wrth weled ei ddelw ar greadur rhesymol; eithr nid yw hyny ond dangos fod ganddo ryw hyfrydwch anfeidrol ynddo ei hun, pan y mae yn gallu cael digrifwch wrth weled y dernyn lleiaf o'i ddelw ar ei greadur. Gallai Duw fyw yn berffaith ddedwydd pe gadawai yr holl greadigaeth a phob creadur i suddo i'w diddymdra cychwynol. Iē, fe allai greu miliynau o fydoedd newyddion, yn llawn o greaduriaid rhesymol ar ei ddelw, yn haws nag y gelli di, O ddyn! gau neu agor dy amrant! Dim ond iddo feddwl, a byddai hyny yn union wedi ei gwbleiddio! Nid oedd ar Dduw ddim eisieu dyn. Enaid, rho dy hun yn ymyl Duw am bum munyd, ac nis gelli beidio myned yn dy "feddwl yn ddim, ac yn llai na dim." Ni ddeuwn ni byth i weled ein hunain fel yr ydym, nes y delom i sefyll yn ymyl y Duwdod mawr; ac ni a awn o'r golwg yn gwbl ger bron ei fawredd ef.

2. *Nid oedd ar Dduw ddim dyled i ddyn.*—Ni wnaeth efe gam â dyn erioed fel ag i fyned dan ddyled iddo. Y mae yn iawn i bob un unioni y cam a wnelo; ond "pell oddi wrth yr Hollallnog weithredu anwiredd, canys efe a dâl i ddyn ei waith." Ni wnaeth Duw ddim cam â'r natur ddynol yn yr hen gyfammod. Nid wyf yn deall fod y cyfammod gweithredoedd wedi gosod y natur ddynol dan fwy o berygl i syrthio na phe na buasai y cyfammod hwnw wedi ei wneuthur â dyn. Yr oedd efe heb hyny yn agored i gael ei demtio, ac i ymgymmeryd â'r demtasiwn. Yn hytrach, yr oedd y cyfammod hwn yn rhoddi i ddyn arfogaeth i wrthwynebu y demtasiwn, a hyny yn brydlawn, cyn i'r temtiwr ddyfod ato. Ond dyn ei hunan, yn ddiachos, a dorodd y cyfammod daionus a wnaethai ei Dduw âg ef. Nid yw Duw yn ei ragluniaeth yn gwneuthur yn galed â neb. Er fod rhai yn siarad yn hyf ac yn achwyngar am ragluniaeth, etto, ymddwyn yn dyner, ac nid yn galed, atynt y mae. "Pa ham y grwgnach dyn byw?" Os wyt yn cael byw rywsut, ni ddylit rwnach yn wir. Y mae yn rhyfedd gweled dyn euog

yn fyw. Nid oes genyt achos i rwgnach, os wyt yn cael byw yn rhywle y tu yma i fflaman uffern. A phe byddit wedi dy dafu yno, ni feiddit ddywedyd un gair caled am Farnwr pawb. Dyhit fod yn ddiolchgar bob munyd yr wyt yn dy gael dy hun yr ochr yma i'r gagendor fawr. Nid oes y ddyled leiaf ar Dduw i'th arbed.

3. *Ni welodd Duw ddim dymunoldeb neu deilyngdod mewn dyn.*—Pe byddai teilyngdod mewn dyn, ni byddai yn ddyledwr i Dduw am garedigrwydd. Ond yn lle hynny, pechadur euog ydyw, heb haeddu dim ond nerth soriant y Goruchaf. Ni welodd Duw ddim hawddgarwch mewn dyn i ddenu ei serch. Nid oes neb erioed wedi caru fel y mae Duw yn caru. “Caraf hwynt yn rhad.” Nid ydym ni yn medru caru “yn rhad.” Rhaid yw i ni weled rhyw ddymunoldeb yn y gwrthddrych, neu dybied ein bod yn ei weled, cyn y gallwn osod ein serch arno. Y mae caru yn rhad yn beth sydd allan o'n cyrhaedd. Nid rhyfedd fod apostol yn gwaeddi allan, “Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel ein gelwid yn feibion i Dduw.” Gwelwch pa fath gariad! Nid oes yn holl greadigaeth Duw yr un o'i *sort*: dyma gariad o'r fath hynotaf, y fath oreu, y fath helaethaf, y fath ddrutaf; nid oes yn un lle arall ddim yn debyg iddo: cariad yn rhedeg yn afonydd llydain yn ngwyneb pob annymunoldeb ac annheilyngdod yn y gwrthddrych. Bendi-gedig fyddo Duw am droi cyfeiriad y dyfnion ddyfroedd bywiol stom ni. “Er ei fwyn ei hun” y mae Duw yn maddeu, ac nid er mwyn dim ynwm ni. “A phryd nad oedd ganddynt ddim i dalu, efe a faddeuodd iddynt.” Pa bryd y mae Duw yn maddeu? Ar y pryd y mae yr enaid yn dyfod i weled ei fod heb ddim i dalu. Addef di dy fai o'th galon, ac fe fydd Duw yn union yn maddeu anwiredd dy bechod. Gras sydd yn rhoddi pob olwyn i droi yn mheiriant cadw dyn.

Ond rhaid cofio etto am y gras hwn, mai gras ydyw sydd yn “teyrnasu trwy gyfiawnder.” Ac onid yw yn felus meddwl, mai nid ar draul cyfiawnder y mae gras yn achub? A oes yma ryw bechadur a ddymunai i Dduw luchio ei gyfiawnder i'r domen, ac ystaenio ei sancteiddrwydd, fel y byddai yn gywilydd ei weled byth, er mwyn boddio ei fympwy ef, a'i arbed mewn pechod? Nac oes, gobeithio! A phe cassai rhywun ei gadw ar dir felly, nis gallai byth deimlo yn gysurus yn ei fynwes. Pe gallai y credadyn fyned i'r nefoedd ar draul darostwng carictor Duw yn ngŵydd ei phreswylwyr, nis gallai fod yn nefoedd am funyd iddo ef. Ond y mae yn dda genyf fi feddwl y gall y Duw mawr gadw fy enaid byth, a chadw ei ochr ei hunan yn lân hefyd. Diolch am drefn i'm henaidd fod yn gadwedig, a charictor Duw fod yn ddisglaer am dragwyddoldeb! Dyma ras yn amlhau, a chyfiawnder heb brinhau.

II. *Y mae rhai yn tynu camgasgliadau oddi wrth athrawiaeth gras, ac yn tybied ei bod yn caniatáu iddynt ryddid mewn pechod.* Ond y mae hyn yna yn eithaf anhêg ac afresymol.

1. *Y mae rhai yn gwneyd y cyfryw gamgasgliad oddi wrth arfaeth ac etholedigaeth gras.* ‘Os wyf wedi fy ethol i fod yn gadwedig,’ medd y dyn, ‘nid oes dim a all rwystro fy nghadwedigaeth, gwnaf a wnelwyf: neu, os nad ydwyf wedi fy ethol, nid oes dim help am dani; colledig a fyddaf er pob ymarferiad & moddion gras: gan hyny, a chymmeryd y naill ochr neu y llall, mi welaf na waeth i mi ddilyn fy mlysiâu llygredig na pheidio; canys y mae arfaeth Duw, pa beth bynag ydyw yn fy nghylch, yn sicr o ddyfod i ben.’ Fel yna y gwelwyd llawer yn tynu casgliad damniol iddynt eu hunain oddi wrth yr athrawiaeth am arfaeth ac etholedigaeth gras.

Ond nid oes dim rheswm na thegwch yn y fath wrthddadl feiddgar; o herwydd, yn un peth, y mae arfaeth Duw ac etholedigaeth gras yn guddiedig oddi wrthym ni. Dirgelion dan y lleni ydynt, heb i Dduw weled yn dda ddadguddio ei holl gyfrinachau i bryfed y llawr. “Anrhydedd Duw yw dirgelu peth.” “Y dirgeledigaethau sydd eiddo yr Arglwydd.” Y mae arfaeth Duw wedi cael ei hamlygu can belled ag yr oedd eisieu i ni wybod; ond y mae llawer iawn o honi yn ddirgel gyda Duw; ac ni a allwn fod yn sicr am y pethau hyny sydd guddiedig, nad oes eisieu i ni yn y bywyd hwn eu gwybod; fe allai y daw y pethau sydd dan sêl, y naill ar ol y llall, yn amlwg i ni yn y byd arall. Ond pob peth sydd yn tueddu i’n cefnogi i ffoi am fywyd at y Cyfryngwr mawr, y mae hyny yn ddadguddiedig yn y gair. Ac yn awr, bechadur, yr wyf fi yn methu deall pa fodd y gall dirgelion yr arfaeth ac etholedigaeth fod yn rhwystr i ti ffoi at Waredwr, ac ymuno â chrefydd, mwy nag y mae hyny yn rhwystr i bobl ereill sydd yn hollol o dan yr un anfantais a thithau. Y mae yma bobl sydd yn credu, ac yn edifarhau, ac yn dilyn Crist er ystalm, y rhai yr oedd cymmaint o ddirgelwch mewn arfaeth ac etholedigaeth iddynt hwy ag sydd yn awr i tithau. Pa fodd y mae hyn yn dramgwydd i ti, mwy nag iddynt hwythau? Pe byddai hyn yn wir rwystr ar ffordd pechadur, buasai felly iddynt hwy yn gystal ag i tithau. Ond yn lle ymrwystro o herwydd y pethau cŵdd, cawsant hwy ddoethineb i ymgymmeryd â’r “pethau amlwg.” Gwrandawsant ar Dduw yn galw arnynt, a chynnygiasant eu hunain i’w drugaredd, a chawsant dderbyniad croesawus yn y fan. Yr oedd yr efengyl yn dywedyd fod aberth a gwaed y Cyfryngwr yn ddigon am eu bywyd; ac fe gredasant hwy i’r ymadrodd, ac ni siomwyd hwynt. Treia dithau yr un ffordd. “Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig a fyddi.”

A dyna ystyriaeth arall:—Beth bynag sydd o’r golwg yn

arfaeth Duw, gellwch fod yn sicr nad oes yno ddim croes i'w Air. Y mae yn yr hen arfaeth dragwyddol ddirgeledigaethau heb rifedi: ond mi a wn hyn, nid oes ynddynt ddim sydd yn groes i dystiolaethau y Gair. Y mae yn rhaid fod pob peth sydd o'r golwg yn cyttuno yn berffaith â'r hyn sydd yn y golwg; y mae yr holl bethau cuddiedig yn cydgordio yn gysson â'r pethau amlwg. Pa sut y mae yn y Gair? "Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi." Nid oes dim o fewn arfaeth Duw yn groes i hyn yna. Nid un yn dyweyd fel hyn, ac yn meddwl fel arall, yw Duw'r gwirionedd; nid oes dim ffalsder, na phlygion gwahanol yn perthyn iddo ef, sydd yn anfeidrol mewn ffyddlondeb a chywirdeb. Na: y mae y didwylledd puraf yn mhob ymadrodd a ddaeth o'i enau erioed; y mae ei galon yn ei Air. Anwyl bobll cymmerwch Dduw ar ei Air! Pa ham y rhaid fod ar neb ysa i fyned yn mheliach nag at Air y digelwyddog Dduw? Ni a gawsom, rai o honom, ein bywyd yn y Dwyfod Air; a pha ham y rhaid i neb feddwl am fyned i unlle tu hwnt i'r gyfraith a'r dystiolaeth? Beth yw yr awydd ymyrgar sydd ar lawer un am weled yn mhellach na'r hyn a ddadguddir iddo yn ngoleuni y gwiricnedd? Y mae gwisg i'r noeth, ffynnon i'r aflan, maddenant i'r euog, nerth i'r gwan, i'w cael y funyd yma yn y Gair. Gan hyny, enaid, yn lle ymddad!eu dim yn hwy, cymmer yr Arglwydd ar ei Air, ac ymddiried yn yr hyn a ddywedodd. Dyna fel y gwnaeth y Salmydd: "Cymmerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth, o herwydd llawcnydd fy nghalon ydynt." Dywed dithau, 'Mi gymmeraf fi, Arglwydd, dy Air di am fy mywyd; mae fy mhobpeth am byth yn gryno yn y Gair!' O Ysbryd yr Arglwydd! cymmoda feddyliau dynion â'r Gair a leferaist, ac yna hwy a feddylant yn garedig am "arfaeth yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun!"

Ac ni a allwn ddywedyd yn mhellach:—Os mynech weled beth yw tuedd uniongyrchol yr athrawiaeth hon, edrychwch ar ei ffrwythau yn mhob lle y mae hi yn cael ei chredu yn iawn. Y mae athrawiaeth etholedigaeth yn un "sydd yn ol duwioldeb;" y mae iawn grediniaeth o honi yn meithrin a chryfhau duwioldeb yn y meddwl. "Megys yr etholodd ofe ni ynddo ef cyn seiliad y byd, fel y byddem yn sanctaidd ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad." "Nyni a ddylem ddiolch yn wastad i Dduw drosoch chwi, frodyr caredig gan yr Arglwydd, o blegid i Dduw o'r dechreuad eich ethol chwi i iachawdwriaeth, trwy sancteiddiad yr Ysbryd a ffydd i'r gwirionedd." "Nid chwi a'm dewisasoch i," meddai Iesu Grist wrth ei ddysgyblion; "ond myfi a'ch dewisais chwi, ac a'ch ordeiniais chwi, fel yr elech ac y dygech ffrwyth, ac yr arosai eich ffrwyth." Y mae tuedd sanctaidd yr athrawiaeth yn dyfod i'r golwg yn ymar-

weddiad y rhai sydd yn ei ohredu. I farnu pa fath yw yr *engine*, rhaid edrych arni yn ei gwaith; os ydyw yn gweithio yn iawn, rhaid fod ei ffurfiad a'i hansawdd yn iawn. Edrychwch chwirthau ar athrawiaeth etholedigaeth yn ei gwaith; gwelwch y pechadur a'i credodd yn byw i ogoneddu Duw, ac yn cilio yn mhell oddi wrth ddrygioni, a dywedwch yna fod ei thuedd yn ansantaidd os medrwch. Na: nid oes yma y rhith leiaf o gefnogaeth i neb son am drigo "mewn pechod fel yr amlhao gras."

2. Y mae y gras a arddangosir yn y *prynedigaeth yn Nghrist Iesu*—yr athrawiaeth am ras ein Harglwydd Iesu Grist yn yr *iawn mawr*—gan rai yn cael ei gŵyrdroi i'w hesgusodi mewn pechod. 'Os bu Iesu Grist farw dros of,' medd rhywun, 'dyna fi yn rhwym o fod yn gadwedig; neu os na bu, dyna hi drosodd ar fy achos: nid oes genyf fi gan hyny ddim i'w wneyd ond aros yn dawel fel yr ydwyf, a gadael fy nghyflwr am byth i sefyll ar angeu y groes: canys os wyf i'm cadw gan hwnw, fe'm cedwir pa fodd bynag y byddwyf.' Ebnaid! os dyna iaith dy galon, yr wyt yn wir ar ganol y ffordd at gythreuliaid! A wyt ti yn galw peth fel hyn yna yn ddisgwyl wrth iawn Crist?—gadael ar yr iawn i'th achub, a gwneyd dy holl egni i'th ddamnio dy hunan! Nid dyna duedd athrawiaeth rasol yr iawn. Ni bu Crist farw dros neb i'w ryddhau oddi wrth ei rwymedigaeth i fyw yn sanctaidd. Nid yn unig ni wnaeth yr iawn dy ufuddod di i'r gwirionedd yn beth afreidiol tuag at dy gadwedigaeth dragwyddol, ond y mae wedi gwneyd rhyw gangen o ufudd-dod yn anheggorol tuag at i ti dderbyn o rinwedd yr Aberth mawr. Y mae yr iawn wedi ei osod yn obaith o'th flaen, ac y mae hyny yn gosod rhwymedigaeth arnat ti i ffoi nes cymmeryd gafael yn y gobaith hwnw. Y mae yn rhaid i ti gredu yn Nghrist, onid é nis gelli fod yn gadwedig. Y mae yr iawn mawr wedi ei roddi; ydyw! ond fe'th ddemnir di oni chredi ynddo. Y mae yr holl achos sydd rhyngot a Duw yn troi ar hyn—"Cred, a chadwedig a fyddi." "Yr hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd eisoes, o herwydd na chredodd yn enw uniganedig Fab Duw." A ydych chi yn dywedyd, medd rhywun, nad oes yr un pechod yn ddamniol ond anghrediniaeth? Na: yr wyf yn dywedyd fod pob pechod yn haeddu damnedigaeth; ond mi a ddywedaf wrthynt i sydd yn darllen ac yn gwrandaw am Geidwad dyn, mai anghrediniaeth yn unig a all dy gau di allan o'r nefoedd. Pe byddai dy bechodau mor aml a gwlyth y boreu, cred yn Nghrist, ac fe faddeuir y cyfan i ti; ond os arosi yn anghrediniol, fe fydd hyny yn rhwymo euogrwydd pob pechod a wnaethost erioed i aros yn un baich ar dy berson, nes i ti suddo oddi tanynt i ddisdryw. Y cymmhelliad cryfaf i ffydd ac ufudd-dod, ac nid esgus dros bechod, sydd yn athrawiaeth fendigedig yr iawn.

Ac y mae digonolrwydd diderfyn o haeddiant yn "angu y

groes;" y mae cyfoeth anfeidrol o fendithion yn drysoredig yn iawn y Cyfryngwr, fel na cholli'r neb am na buasai mwy o werth a haeddiant ynddo: ond os colledig a fyddi yn y diwedd, bydd hynny am i ti wrthod pwŷso dy anaid ar yr iawn. Yr unig ffordd i bechadur fyned i uffern o wlad efengyl yw, trwy iddo ail groeshoelio Mab Duw, a'i osod yn watwar. Y mae yr iawn wedi rhoddi o'th flaen ddrws agored i fyned at Dduw yr heddwch, ac i nefoedd y gogoniant; ac yn awr, yn lle dyfod &th llyn bach at y drws, i geisio mesur ei led, ei hyd, a'i uchder—diangc trwyddo, enaid gwerthfawr! Diangc am dy einioes! gwna dy redfa gyda brys trwy y porth a agorodd Duw o'th flaen! Pwy bynag ydwyt, yr wyf yn sicr fod pob croesaw i ti yn awr gredu yn yr hwn a osododd Duw yn iawn. Byddai yn llawen gan y nefoedd dy weled heno yn dyfod yn mlaen. Dyro dy hun fel yr wyt i'r Gwaredwr, a thi a roddit iddo y pleser mwyaf. O Dduw Ysbryd Glân! nertha yr holl eneidiau yma i gredu yn y Mab. Bydded i'r pwngc mwyaf oll gael ei benderfynu yma yr awr hon. Tyred, bechadur, cynnyg dy hunan i'r Gwaredwr. A roddwch chiwi oll eich Amen gyda gweddi fel hyn:—'O Arglwydd Iesu! Ceidwad pechaduriaid, cymmer fy enaid euog fel y mae, a gwisga ef yn dy gyfiawnder drud; cadw fi byth yn nghysgod gwaed dy groes!'

3. *Y mae dylanwad grasusol Ysbryd yr Arglwydd* hefyd yn cael edrych arno weithiau fel yn eagusodi diosfalwch y galon a phechod y fuchedd. Yr Ysbryd Glân yn unig, medd y dyn, a all aileni a sancteiddio pechaduriaid; ac nid oes genyf fi ddim i wneyd ond aros wrtho ef: a chan mai o ras y mae efe yn gweithio, nid yw yn ddim gwahaniaeth i mi fod yn y dafarn nac yn yr addoliad; y mae ei ras ef yn anorchfygol. Dyna fod yn gyffelyb i'r rhai hynny y dywed yr apostol eu bod "yn troi gras ein Duw ni i drythyllwch." Trwy foddion, cofier, y mae yr Ysbryd yn gweithredu; a moddion sanctaidd yw y rhai hynny:—yr Ysgrythyr Lân, ac ordinhadau yr efengyl. 'Nis gallaf fi,' meddi, 'gyfnawid fy nghalon bechadurus.' Mi a wn nas gelli; ond ti a elli ymarfer &r moddion trwy ba rai y mae Ysbryd Duw yn arfer ei chyfnawid. Y mae gras yn dyfod i'th ymyl yn moddion gras; ac fe all dy ymddygiad yn awr, mewn cyssylltiad &r moddion, benderfynu dy gyflwr am dragwyddoldeb. Y mae y Beibl yn sôn am bechaduriaid yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân, yn ei dristau, ac yn ei ddiffodd. Gwylia am dy fywyd rhag i ti fod yn euog o hynny. Y mae awelon Ysbryd Duw yn barod i chwythu dy lestr ar fôr cariad Duw a gwaed Crist yn mlaen i borthladd bywyd tragwyddol:—gwna dithau dy waith dy hun; cyfod yr hwyliau, a chyfeiria yn deg tua'r bywyd. 'Yr wyf yn disgwyl y bydd i weithrediadau Ysbryd Duw ganiatau i mi adael y cwbl arno ef,' meddi. Na, nid fel yna: y mae ei fod

ef yn gweithio ynom yn rhwym o'n cymmhell ninnau i "weithio allan ein hiachawdwri. eth ein hunain mewn ofn a dychryn."

III. *Beth bynag a daero neu a wrthddadleuq neb, y mae trefn gras yn benderfynol yn erbyn pechod.* Y mae y testyn yn settlo y cwbl mewn gair: "A ninnau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn fyw etto ynddo ef?"

Os ennillir di gan ras i gredu yn Nghrist, ti a fyddi yn sicr o farw i bechod, fel nas gelli fyw ynddo mwyach. Y mae athrawiaeth gras, yn ei holl gyssylltiadau, yn arfogaeth yn erbyn pechod; ac felly pob egwyddor o ras yn y galon, gwrthwynebu llygredigaeth ydyw tuedd naturiol y cwbl. Y mae ffydd yn gweithio trwy gariad, yn gorchfygu y byd, ac yn puro y galon; y mae gobaith da trwy ras, gobaith gogoniant yn Nghrist, yn dwyn ei berchen i'w "buro ei hun, megys y mae yntau yn bur," a'r rhai a garant yr Arglwydd a gasant ddygioni. Y mae y drefn yn yr oll o honi yn anfeidrol bell oddi wrth roddi cefnogaeth i bechod, fel mai hi yn unig sydd yn dirymu ac yn lladd pechod.

Wel, anwyl bobl, defnyddiwch yr amlygiadau mawrion o ras Duw yn Nghrist yn gymhelliadau i ddyfod at ei orsedd am eich bywyd tragwyddol, ac yn rhwymedigaethau i gyssegru iddo y bywyd sydd yr awr hon. Mi ddymunwn annog pob pechadur i benderfynu treio yn deg am ei fywyd yn nhrefn Daw. Ti a fyddi yn burion i fyned i ddistryw pe bait wedi methu ar ol treio. Y mae yma rai o honom wedi penderfynu er's llawer dydd, doed a ddelo, nad awn ni byth i uffern ar ein hunion. Er haeddu, ac er ofni myned yno, cyn penderfynu mai yno y bydd ein trigfan, ni a dreiw'n orsedd gras—ni a gynniwéiriwn ar hyd mynydd Seion—ni a amgylchynwn ben Calfaria; y mae yno faglau a all attal ein traed rhag myned i ffyrdd distryw ac aflwydd. Diolch i'r Arglwydd! nid fel hyn yna y mae pobl yn arfer myned i uffern: nid dan fyfyrto am gariad Duw ac angeu y groes; nid dan lynu wrth ordinhadau crefydd, a gweddio am rym duwioldeb. Nid arwain i uffern y mae y llwybrau hyn! Treia dithau, bechadur, y ffordd hon. 'Wel,' meddi, ni 'fedraf fi ddim gweddio, ac ni fedraf gredu ac edifarhan.' Os na fedri, y mae help i'w gael; ac ni waeth genyf fi geisio at y peth na fedraf, os caf help i'hyny gan un a all bob peth. Diolch i Dduw am y cawn dreio gweddio, a chredu, ac edifarhan heb fedru—onid é ni buasai obaith am danom ni, weiniaid! Bendigedig a fyddo ei enw, am y caiff rhai heb fedru ei threio am eu bywyd! a chyda i ni wneyd dim ond osgo ati o galon gywir, fe rydd yntau ei hollalluog ras i'n nerthu i wneyd y gwaith. O Arglwydd! perswadia y dyrfa yma i gyd i gwympo wrth draed dy drugaredd mewn iawn! dyna godwm a droai yn godiad iddynt yn oes oesoedd.

PREGETH XX.

MAWRION BETHAU CYFRAITH DUW.

Hosea viii. 12.

“Mi a ysgrifena's iddo bethau mawrion fy nghyfraith, ac fel dweithr-beth y cyfrifwyd.”

RHODDODD Duw fraint fawr i'r genedl hon: ysgrifennodd iddynt bethau mawrion ei gyfraith; ond gwnaethant gamddefnydd mawr iawn o'r fraint hon. Y fraint uchaf y gallai cenedl ei meddu ydoedd cael y gyfraith wedi ei hysgrifenu iddynt gan Dduw. Ysgrifennodd Satan lawer at ddynolryw, trwy ei offerynau ei hun; megys, Voltaire, a Tom Paine, ac ereill sydd wedi bod yn felldith i'r byd. Ysgrifennodd Duw hefyd at ddynion trwy offerynau, ac y mae rhestr o'r enwau mwyaf hynod yn eu mysg i'w gweled yn y dadguddiad dwyfol. Tybia rhai mai hon oedd yr ysgrifennu gyntaf a welodd y byd hwn erioed; sef, yr hon a wnaeth bys Duw: ond y mae ereill yn barnu nad ydyw Moses yn arwyddo fod ysgrifennu yn beth dweithr iddo ef, a'i bod yn arferol yn flaenorol i hyny.

Ond y modd y gwelodd Duw yn dda roddi a chadw ei wirionedd yn mysg dynion ydyw mewn ysgrifennu. Cadwyd y gwirionedd dwyfol yn y byd dros amser maith trwy ymddiddanion teuluaid: yr oedd y rhieni yn ei hysbysu i'w plant, heb ei roddi mewn ysgrifennu; ac yr oedd amryw o bethau yn ffafriol i'r dull hwnw y pryd hyny. Yn un peth, yr oedd y gwirionedd dwyfol mewn cylch neu grynodeb bychan iawn: heb law hyny, yr oedd yr oesoedd yn faith: hefyd, yr oedd rhieni yn llywodraethwyr ar eu hiliogaeth: ac nid oedd trigolion y byd ond ychydig o nifer yn yr oesoedd hyny. Ond daeth angenrheidiol i'w roddi mewn ysgrifennu ar amryw gyfrifon:—yr oedd hyd einioes preswylwyr y ddaear wedi byrhau, ac yr oedd yn fwy anfanteisiol ei drosglwyddo yn gywir: yr oedd y dadguddiad yn helaethach hefyd. Yr oedd gwrthgiliad mawr yn sicr o

gymmeryd lle oddi wrth y gwirionedd; yr oedd gwrthwynebiadau hefyd i godi yn erbyn y gwirionedd; ac yr oedd angenrheidrwydd am ei gadw am amseroedd mor faith—a'i gadw yn ei burdeb hollol. Yr oedd y pethau hyn oll yn galw am ei roddi mewn ysgrifen, gan nad oedd Duw yn meddwl y buasai dadguddiad o'r nef i bob oes yn fwy effeithiol a grymus nag ysgrifen am hen ddadguddiad wedi ei roddi er's oesoedd yn ol.

Er mai dyma ydyw trefn y Duw holl-ddoeth, y mae genym brofion newyddion i bob oes o ddwyfoldeb yr hen ddadguddiad ysgrifenedig, ac y mae y profion hyny yn ddwyfol, ac mor amlwg, ac fe allai yn fwy amlwg i reswm na phe y rhoddasid dadguddiad newydd. Y mae gorchwyliaethau rhagluniaeth yn cyflawni rhagfynegiadau y Gair ysgrifenedig o flaen ein llygaid, trwy ddigwyddiadau anarferol, cyhoeddus, ac anwadadwy, y rhai sydd yn hollol anamlwg ac ammhossibl i'w rhagweled i bob creadur. Pe y cawsem ddadguddiad o'r nef i bob oes, a gwyrthiau i'w cadarnhau, gallasem gyfrif hyny yn ddirgelwch anhysbys. Ond gan fod y Gair ysgrifenedig wedi ei roddi gymmaint o oesoedd yn ol, ac yn rhagfynegu digwyddiadau cannoedd o flynyddoedd yn mlæen, a'r rhai hyny yn eithaf annhebyg yn ngolwg rheswm i gymmeryd lle, ac yn ddigwyddiadau cyhoeddus y byd (megys digwyddiadau teyrnasoedd), fel nas gall un genedl fod yn anwybodus o honynt; a chan fod rhagluniaeth mewn amser yn eu cyflawni yn ol y prophwydoliaethau, y mae hyn oll y prawf cryfaf y gellir ei osod ger bron rheswm dynol o'i ddwyfoldeb. Rhoddir y prophwydoliaethau hyn mewn ysgrifen yn agored o flaen y byd, i'w gweled, fel nas gellir ammheu eu hanghyfnewidioldeb na'u cywirdeb; ac y mae eu cyflawniad yn cael ei ddwyn yn mlæen yn fynych, nid gan gyfeillion y gwirionedd, fel nas gellir cyfrif iddynt hwy weithredu felly i'r dyben yn bennodol o'u gwirio. Ond yn aml, dygir yn mlæen y cyflawniad o brophwydoliaethau i ben trwy, neu gan offerynnau hollol elynol i'r gwirionedd—a chan hyny yn mhell oddi wrth fwriadu gweini i'r brophwydoliaeth trwy eu gweithredoedd.

Prif ddyben Duw yn rhoddi prophwydoliaethau am ddigwyddiadau mwyaf pwysig pob oes a mwyaf cyhoeddus y byd ydoedd profi drwy y cyflawniad o honynt yn amlwg a diddadi i bob oes eu dwyfoldeb. Y mae genym lawer o brophwydoliaethau am ddigwyddiadau gwladol a chrefyddol yr oesoedd mwyaf anffyddiog ar y byd, fel y gellir edrych ar y prophwydoliaethau am yr amseroedd mwyaf llygredig yn debycach i hanes nag i brophwydoliaeth. Ond pa ham y rhagfynegwyd digwyddiadau yr amseroedd mwyaf llygredig a chymmant o fanylrwydd; ond i'r dyben o osod ger bron yr oesoedd hyny brofion amlwg ac eglurach o ddwyfoldeb yr ysgrifen? Amlhaodd Duw brofion i'r oesoedd hyny o ddwyfoldeb ei Air yn gyfattedbol i'r amlhad

mawr a wnaeth Satan ar y gwrthwynebiadau a fu i'r gwirionedd. Nid ydyw y prophwydoliaethau yn rhagfynegu digwyddiadau a chyfnewidiadau teyrnasocdd yn nghorph "y mil blynnydoedd;" o blegid ni bydd ar yr oesoedd crediniol hyny angenrheidrwydd am y fath brofion o ddwyfoldeb y Gair; gan y bydd anffyddiaeth wedi ei lwyr faeddu o'r byd, ac y bydd y prawf o ddwyfoldeb y Gair i'r oesoedd hyny yn ddigonol yn ngoruchwyliaeth Ysbryd y Gras ar eu heneidiau, a'r arddeliad mawr a fydd ar y gwirionedd. Ni byddai dwyn profion teyrnasol a bydol o'i ddwyfoldeb yn mlaen yn yr amseroedd hyny ond curo awyr—peth afreidiol hollol. Felly, ni ragfynegir digwyddiadau neillduol pob oes o'r amser maith hwnw, gan y bydd gwir ffydd yn buddugoliaethu ar yr holl ddaear; ac ni ddisgrifir gwahanol helyntion y naill oes ragor y llall. Ond rhagddisgrifir "mil o flynydoedd" llwyddiannus ar grefydd, heb grybwyll digwyddiadau neillduol teyrnasocdd. Y mae goruchwyliaethau yr Ysbryd yn oruwchnaturiol, ac y maent yn brofion diddadr o ddwyfoldeb yr ysgrifen; o herwydd y maent bob amser yn llwyddo pan y rhoddir hwynt gan yr Arglwydd i ennill dynion i gredu yr ysgrifen fel gwirionedd dwyfol.

Y mae hwn yn brawf mor gryf a nerthol fel na ddichon i anghrediniaeth sefyll i fyny o'i flaen. Y mae yn brawf anffaelledig o'i ddwyfoldeb, ac yn effeithiol hefyd i'r sawl a'i caffo, gan ei fod yn dwyn yr enaid hwnw i deimlo neu brofi dwyfoldeb yr ysgrifen. Nid gwaith yr Ysbryd ydyw rhoddi sylwedd yn yr enaid; ond dwyn yr ysgrifen hon i'r meddwl yn ei dwyfoldeb a'i mawredd, "mewn nerth a sicrwydd mawr." Y mae yr ysgrifen yn ddigonol o ran ei natur a'i dwyfol awdurdod i effeithio cyfnewidiad sanctaidd, ond yn unig iddi gael ei derbyn a'i hystyried yr hyn ydyw. Yr achos fod yr ysgrifen yn aneffeithiol i gyfnewid a sancteiddio y byd ydyw anghrediniaeth o'i dwyfoldeb. Gan hyny, pan ddygir yr ysgrifen hon i mewn i'r meddwl yn ei dwyfol awdurdod gan Ysbryd yr Arglwydd, y mae o angenrheidrwydd yn effeithio cyfnewidiad sanctaidd.

Pe y cawsem ddadguddiad newydd i bob oes o'r nef, a gwyrthiau i bob oes i'w gadarnhau, ni buasai hyny yn effeithio i argyhoeddi y byd, heb Ysbryd Duw. O blegid, cafodd llawer weled gwyrthiau, ac etto arosant heb eu hargyhoeddi. Cawsant weled y dyfroedd diluw yn ymdywallt ar y ddaear—tân yn difa y dinasoedd—plâu yr Aipht, a gwyrthiau y Môr Coch yn dyfetha yr Aiphtiaid—a gwyrthiau hynod yr anialwch; ond gadawodd y cwbl luocdd heb eu hargyhoeddi. Ni lwyddodd gwyrthiau Crist a'i apostolion chwaith i argyhoeddi llaweroedd o bechaduriaid. Felly hefyd, llythyren farw ydyw y Gair heb yr Ysbryd: ond "trwy Dduw, bwria gestyll i'r llawr." "Gallu Duw" yw yr efengyl "i bob un sydd yn credu."

I. *Y mae y gyfraith yn cynnwys pethau mawrion: profir eu bod yn bethau mawrion, trwy fod Duw wedi creu pob peth—wedi creu y fath liaws a'r fath amrywiaeth o greaduriaid a phethau, i'r dyben o ddiwyn yn mlaen bethau mawrion y gyfraith.*

Nid yw y byd naturiol hwn ond yn gwasanaethu y byd moesol—y mae yn ateb neu yn gwrthwynebu y dyben er mwyn yr hwn y crewyd ef yn ol ymddygiadau y byd moesol tuag at Dduw. Os gwelwn fod darpariaeth fawr yn rhywle, ni ddeallwn fod dyben mawr a phwysig i'w gyflawni trwyddi. Gwnaed darpariaeth fawr at frwydr Waterloo; ond yr oedd y dyben yn deilwng o hyny, sef diogelwch y deyrnas. Felly am waith y greadigaeth—parotoad mawr ydyw at frwydr ág uffern; a'r dyben teilwng i'r cwbl ydyw achubiaeth dyn o'i meddiant. Y mae hyd yn oed y greadigaeth, mor bell ag y gall hi gyrhaedd, fel *engine* i helpu i godi dyn o'i drueni; ac y mae pob olwyn sydd ynddi yn troi o'i blaidd, o gymmalau bychain y gwybedyn hyd gylchrediad y comedau mawrion sydd yn gwibio drwy y nef. Neu, gellir edrych ar y greadigaeth fel peiriant cryf a nerthol at godi adeilad fawr: ond ar ol gorphen yr adeilad, bydd yr hen beiriant yn hollol ddi-ddedfnydd. Felly y mae y greadigaeth naturiol wedi ei darpar at wasanaeth pethau moesol ac ysbrydol. Dyddenir a thrallodir y greadigaeth naturiol yn ol fel y bydd agwedd pethau moesol ac ysbrydol yn y byd. Os bydd pethau ysbrydol mewn agwedd dda, llwydda pethau naturiol hefyd; a phan y bydd amcanion moesol ac ysbrydol Duw trwy y greadigaeth wedi eu cyrhaedd, fe'i plygir hithau i fyny fel dilledyn.

Llywodraetha Duw bob peth i fod yn offerynol i ddwyn yn mlaen bethau mawrion y gyfraith. Yn ei ragluniaeth y mae Duw wedi ac yn amddiffyn y gyfraith. Cadwodd hi yn y byd drwy yr holl oesoedd erledigaethus; a thrwy hyny dygodd dystiolaeth i fawredd ei chynnwysiad. Ysgrifenydd llawer llyfr buddiol; ond goddefodd Duw iddo yn ei ragluniaeth ddiflanu o'r byd, a llwyr gollu dros byth, am nad oedd yn cynnwys pethau digon mawrion i'w cadw i'r oesoedd ar ol. Ond am y gyfraith, cadwodd Duw hi yn ngwyneb pob perygl. Bu Gair Duw agos a cholli o'r byd amryw weithian: ond ni oddefai Duw iddo gollu, o herwydd fod ei bethau yn fawr. Amddiffynodd hefyd a gwaredodd yn rhyfedd y rhai a'i cadwasant, a'i parchasant, ac a'i dysgasant i ereill; fel y gwelir yn hanes Noah, Lot, y llangciau, a Daniel. Cospodd y rhai a'i dibrisiasant ac a'i hanghredasant hefyd, fel y gwelir yn hanes yr hen fyd, a Sodom, yr Aipht, ac Israel. Yn nammeg y swper mawr, dywedir fod "gŵr y tŷ wedi digio," o herwydd yr ammharch a ddangoswyd i'w wahoddiad. Yr ydym ninnau yn digio yn ol graddau yr anfri a'r ammharch a roddir ar y gwrthddrych a

gymhellir genym i sylw ereill. Ennynir ein llid hefyd yn ol graddau a phwys yr amcan a wrthwynebir. Diystyrn ein rhodd a'n caredigrwydd a ennyn ein llid yn ol graddau a phwys mawredd y rhodd. Goddefa Duw i'w elynion erlid ei saint, i'r dyben o brofi ac amlygu drwy hyny i'r byd fawredd pethau y gyfraith. Ei mawredd a'i rhagoriaeth a eglurwyd trwy ei heffeithiau naturiol a'i dylanwadau cynnorthwyol a chysurol ar eneidiau y merthyron, yn eu galluogi i ddioddef y fath boenan a ddioddefent gyda'r fath ymroddiad a'r fath orfoledd! yr hyn nis galledid ei wneuthur ond yn unig dan ddylanwad nerthol gwir ystyriaeth ysbrydol o bethau y gyfraith.

Pan yr amlygir pethau y gyfraith yn eu mawredd i feddwl pechadur, bydd yn rhaid i bob peth arall syrthio yn ddim. Syrth meddiannau a pharch yn ddim yn y meddwl a gaffo iawn adnabyddiaeth o honynt—ie, perthynasau, ac iechyd, ac hyd yn oed einioes! Y mae y fath fawredd ynddynt fel yr ant rhwng y meddwl a phob gwrthddrychan ereill. Fel y mae yr anwybodys yn gweled mawredd mewn helyntion teuluaid a digwyddiadau ac ystorïau y gymmydogaeth, am nad ydyw efe yn adnabyddus o helyntion mwy eu pwys, megys helyntion teyrnasoedd, er y bydd i'r hwn a gyrhaeddodd wybodaeth o'r pethau hyny eu diystyru; felly yr hwn sydd heb adnabod "pethau mawrion y gyfraith" a gyfrif fod mawredd mewn cyfoeth a pharch. Ond yr hwn a adnabu "bethau mawrion y gyfraith" a'u diystyra. Er fod ei saint yn anwyl gan Dduw, megys "canwyll ei lygad," ac yn enw tragwyddol i'w ras, etto y fath ydyw pwys a mawredd pethau y gyfraith, fel y mae efe yn foddolawn i oddef i'w rai anwyl fyned dan y triniaethau creulonaf i'r dyben o amlygu i'r byd anghrediniol fawredd pethau y gyfraith. Gwnaeth hyny gyda'r merthyron; ond trwy fawr nerth ei ddylanwadau cryfion ar eu meddyliau, efe a foddodd eu teimladau naturiol, ac a ddygodd ymaith eu meddyliau yn hollol oddi ar bob peth daearol.

Cerydda Duw ei saint hefyd i'r dyben o'u troi at bethau ei gyfraith; a thrwy hyny i ddwyn yn mlaen yr amcan mawr o'u sancteiddio. Un o amcanion mawrion y gyfraith ydyw sancteiddio y saint; ac y mae eu ceryddu yn foddion i'w gyrhaedd.

Defnyddia Duw hefyd holl ddigwyddiadau ei ragluniaeth i'r dyben o ddwyn yn mlaen bethau y gyfraith, er yr ymddangosant weithiau yn gwrthwynebu amcanion mawr y gyfraith, sef yn milwrio ac yn effeithio yn erbyn crefydd. Er eu bod fel mân ffrydiau yn ymddangos fel yn rhedeg yn groes i'w gilydd; etto, y maent yn cyfarfod i wneyd i fyny yr un afon fawr, ac yn sicrhau rhyddid i'r efengyl. Defnyddir y cwbl i gyflawni yr amcanion mawr sydd yn y gyfraith; sef, gogoneddu Duw, gwobrwyo Crist, sicrhau iachawdwriaeth i ddynion, a pheri

dinystr anadferadwy i deyrnas Satan. Fel hyn y mae'n rhaid i bob peth "gydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw." Y mae pob peth sydd dan lywodraeth Crist yn eiddo i'r saint; megys gwaith merch Pharoah yn mabwysiadu Moses, i'w gymhwyso i waredu Israel. Yr oedd gwerthu Joseph hefyd yn foddion i gadw teulu Jacob yn fyw.

Ymostwng Duw i lefaru y gyfraith hon wrth ddyn er y pellder anfesurool sydd rhwng Duw a dyn, ar gyfrif ei fawredd, ei sancteiddrwydd, a'i gyfiawnder. O! y fath ydyw ymddygiad dyn at Dduw yn ei ragluniaeth, ei iachawdwriaeth, ac yn ei Fab, a'i Ysbryd! Gan hyny, mor fawr oedd ei ymostyngiad yn llefaru ei hun wrth ddyn. Gallasai lefaru trwy ffyrdd ereill; ond yr oedd pethau y gyfraith mor fawr fel yr ymostyngodd Duw i'w llefaru ei hun, er maint y pellder. Ie, y mae y pethau hyn mor anfeidrol bwysig fel nad ymddriedodd Duw hwynt i un creadur i'w dadguddio; ond efe a'u dadguddiodd ei hun. Llefaru pethau mawrion a phwysig yn unig sydd briodol i Dduw, i'w ddoethineb a'i fawredd, ei sancteiddrwydd a'i awdurdod. Pell oddi wrth yr Holl-ddoeth a'r Sanctaidd ydyw dywedyd celanedd, gwagedd, ac ynydrwydd. Ei gyfraith a lefarodd efe; ac nid ymddiriedai i neb arall ei mynegu, o herwydd ei bod o'r fath bwys a mawredd. Fel meddyg at ei fab claf mewn perygl bywyd, nid ydyw yn anfon y cyfferiau gyda chenad, ac yn rhoddi cyfarwyddyd iddo i'w defnyddio trwy genhadwr. Na: nis gall ymddiried mater mor bwysig a bywyd ei fab hoff i ofal unrhyw genad: ond gan mor fawr ydyw pwys yr achos, efe a ddyga y cyfferiau ei hun at y claf, ac a hysbysa iddo y feddyginiaeth â'i enau ei hun. Felly, wedi i Dduw garu pechadur euog a damniol â chariad tragwyddol, yr oedd yn rhaid iddo gael hysbysu y feddyginiaeth a ddarparwyd ar ei gyfer â'i enau ei hun.

II. *Prawf o fawredd pethau y gyfraith ydyw ansoniad y Mab i'r fath warth a phoenau, i'r dyben o selio y gyfraith hon o ran ei haddewidion â'i waed, ac i'w hegluro fel prophwyd, ac i fuddugoliaethu ar ei elynion er mwyn cyflawni y pethau hyn fel brenin.*

Y mae y person hwn yn anfeidrol oruchel—yn Dduw cadarn; etto, efe a ymostyngodd i'r poenau dyfnaf, ac a ddaeth i afael â'r gwarth mwyaf, o ran ei ddynoliaeth; a gwnaeth hyny yn wirfoddol, oddi ar ystyriaeth o bwys a mawredd y pethau oedd ganddo mewn llaw. Gan hyny, y mae yn rhaid fod ganddo achos pwysig—fod y pethau hyny yn fawrion a dynent Fab y Duw Goruchaf i'r fath sefyllfa o ddarostyngiad. Ni thyn Duw ei law allan i wneyd peth bach, yr hyn y gallai creadur ei gyflawni; ond megys at greu y byd ar y dechreu. Pa faint mwy y

rhaid meddwl fod ganddo bethau mawr mewn llaw wrth ymddangos yn y cnawd! Gan na thyn efe allan ei law ond at bethau mawrion, y mae yn rhaid fod mawredd y tu hwnt i'n dychymyg ni yn y pethau hyny na allasai Duw eu hymddiried i neb ond i'w Fab ei hun. Yr oedd y fath bwys ynddynt fel yr oedd yn angenrheidiol eu gosod ar ysgwydd o anfeidrol allu! Yr oedd yn rhaid cael person o anfeidrol ddoethineb, gras, a ffyddlondeb, i'w hymddiried i'w ofal! Y mae y fath fawredd yn mhethau y gyfraith fel nad allai Duw eu hymddiried i law neb ond ei Fab ei hun. Y mae "ewyllys yr Arglwydd yn ei law ef." Selio pethau y gyfraith drwy ei farwolaeth a wnaeth fel offeiriad—amlygu pethau y gyfraith oedd ei waith fel prophwyd; ac nid ymddirieda i neb arall eu mynegu ond efe ei hun—a chyflawni pethau y gyfraith ydyw ei waith drwy yr oesoedd fel brenin.

III. *Y mae anfoniad yr Ysbryd Glân i argyhoeddi y byd o'r pethau hyn, ac i arwain dynion i'w hiawn ddeall, yn brawf arall o fawredd y gyfraith.*

Anfonodd ei Ysbryd, am nad allai efe ymddiried y gwaith i neb islaw iddo. Nis gallai ymddiried i neb arall, am fod y mater a'r dybenion mor bwysig. Ymddirieda Duw y ddaear a'i holl greaduriaid aneirif i ddynolryw, ac ymddirieda foddion ei deyrnas i'w saint; ond nis gallai efe ymddiried hyn i neb ond i'w Ysbryd, o herwydd ei fod o'r fath bwys a chanlyniadau. Y mae yn rhaid fod hyny yn achos pwysig pan nas gallai Duw ei ymddiried i neb ond person dwyfol. Y mae yn rhaid cael gallu, gras, a doethineb anfeidrol i drin yr achos hwn. Nid traethu gwagedd y mae Duw Ysbryd Glân wrth yr enaid.

Rhoddir ei angylion hefyd i wasanaethu yn y pethau hyn. Nid enfyn y brenin ei brif weinidog ar neges o ychydig bwys. Os gwelir ef yn anfon y rhai nesaf ato, ac yn enwedig yn anfon lliaws o honynt, fe ddeallir fod rhyw achos o bwys mawr mewn llaw ganddo. Prif weision Duw yn yr holl greadigaeth ydyw yr angelion. Y rhai agosaf ato oll ydynt: ei gerbydau parod ydynt i gario ei amcanion yn mlaen ynddo. A chan iddo ef anfon y fath liaws o'r fath swyddwyr uchel a sanctaidd i wasanaethu amcanion mawr y gyfraith, y mae yn rhaid fod ganddi amcan sydd o bwys mawr.

Anfonir hefyd ei weision i'w chyhoeddi. Y mae y fath fawredd yn mater gweinidogaeth y gyfraith fel na chaniateir i neb ei chyhoeddi i ereill ond y rhai a alwodd yr Arglwydd i hyny—y rhai a wisgodd efe â chymmhwysderau uchel at y gwaith. Y mae y genadwri o'r fath bwys a mawredd fel y geilw Duw am y cymmhwysderau uchel o farn iach, ymarwedd- iad sanctaidd, a phrofiad ysbrydol yn y cenhadon i'w chyhoeddi.

Nid enfyn y llywodraeth genad ar achos pwysig fydd yn anwybodus o natur ei genadwri, neu yn ddifater yn ei chylch, neu o ymarweddiad gwrthryfelgar yn flaenorol. Ac y mae y fath bwys yn y genadwri hon fel nad ymddiried Duw hyd yn oed i gymmhwysderau ei genhadon ei hunan i'w thraddodi; ond efe a'u harwain hefyd drwy ei Ysbryd i "iawn gyfrann Gair y gwirionedd." Heb law hyny, efe a'u bygwth â chosp drom os byddant yn anffyddlawn i'w thraddodi, a gofyna waed y gwrandawyr ar eu llaw. Cospir cadben yn y fyddin yn drwm am drosedd neu gamymddygiad bychan yn ei swydd, o herwydd fod pethau mawrion yn ymddibynu ar ei ffyddlondeb; sef, diogelwch a llyyddiant y deyrnas. Felly y bygythiai Duw gopsi anffyddlondeb yn y swydd hon yn drwm—am fod pethau mawrion yn y chwareu: "Oni rybuddi y drygionus, os bydd farw yn ei annuwioldeb, gofynaf ei waed ef oddi ar dy law di." Y mae anffyddlondeb yn y swydd hon yn llofruddiaeth a gospir gan yr Arglwydd. Ond o'r tu arall, addawa wobwr fawr i annog ei bobl i fod yn ffyddlawn hyd angen, a sicrha iddynt y cant dderbyn anniflanedig goron y bywyd.

Y mae pethau y gyfraith o'r fath bwys hefyd fel y gosodir rhieni dan rwyman i'w dysgu i'w plant. Gorchymynir hwynt i'w dysgu yn foreu, i "hyfforddio plentyn yn mhen ei ffordd," am eu bod o gymmaint pwys. "Ac i tier yn fachgen," meddir am Timotheus, "wybod yr Ysgrythyr Llan." Yr oedd ei nain a'i fam wedi bod yn ddiwyd wrth y gorchwyl yn ei addysgu. Gorchymyn Dafydd i Solomon oedd, "Ymafael mewn addysg!" a'r rheawm a roddir yw, ei mawr bwys—"dy fywyd di yw hi." Ac mor fanwl y mae yn rhaid defnyddio pob adeg at y gorchwyl:—y mae yn rhaid crybwyll am danynt (*Deut. iv. 6—9*) "pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fyny. A rhwym hwynt yn arwydd ar dy law; byddant yn rhactalau rhwng dy lygaid. Ysgrifena hwynt hefyd ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth." Rhoddodd yr Arglwydd mewn rhieni serch naturiol atynt, i'w cymhwyso at y gorchwyl o'u haddysgu. Darpariaeth at hyny ydyw yn benaf. Fel yr ymdrechir i addysgu dynion cyn eu hanfon at achos pwysig iawn, megys ceuhadon dros y môr, neu feddyg i drin afiechyd ar ddynion—pa faint mwy o waith cymhwyso sydd ar ddynion i sôn am bethau bywyd tragwyddol. Fe addasodd Duw y rhieni â serch naturiol i gyfrannu addysg grefyddol i'w plant, o achos fod hyny yn fater o bwys mawr iddynt. Ac er annogaeth i ddynion ei ddysgu a'i dderbyn, fe sicrhaodd ei Air trwy lŵ. Ni chaniateir i ddynion dyngu ar achosion cyffredin, ond ar ryw beth o bwys. Pa faint llai y gallwn ddisgwyl y rhoddai y Duw digelwyddog lŵ ond ar achos pwysig. Fe sicrhaodd y Gair hefyd â gwrthian, er gosod

ei wirionedd a'i bwysigrwydd yn mhellach al'an o derfynau amhleuaeth. Nid ydym ni yn arfer selio gweithredoedd ond am bethau pwysig.

Onid gwaith y Mab sydd yn rhoddi y prawf cryfaf o'i wirionedd a'i bwysigrwydd. Dyfod i'r byd yn hollol i gyflawni pethau y gyfraith a wnaeth efe. Dyma y dyben penaf y daeth efe i'r byd o'i herwydd. Hwn oedd dyben y Tad yn ei anfon:—"fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef." Hyn oedd yn ei olwg yntau yn dyfod i'r fath boen a dirmyg:—"nid i ddamnio y byd, ond fel yr achuber y byd trwyddo ef."

Ffe gymmer dynolryw boen fawr er mwyn rhyw ddybenion a gyfrisant hwy yn fawr, yn enwog, ac yn bwysig. Anturiodd llawer marsiandwr symiau aruthrol er mwyn elw; felly y milwr ei fywyd er mwyn clod ac anrhydedd. Felly hefyd, gadawodd cenhadon yr efengyl eu cartrefi, ac aberthasant eu cysuron, gan anturio i wledydd pellenig i gyhoeddi yn mys y Cenhedloedd "anchwiliadwy olud Crist." Ond nid oeddynt yn gwneuthur hyn heb ddybenion teilwng o'r boen, a'r llafur, a'r dirmyg i gyd. Felly Crist, "yr hwn ac yntau yn gyfoethog," a ddaeth i'r byd, ond nid heb ddybenion teilwng o'r boen, a'r llafur, a'r dirmyg hwnw, ac aeth drwy y cwbl yn wirfoddol, oddi ar yr ystyriaeth o fawredd y dybenion. "Ei fwyd a'i ddioid oedd gwneuthur ewylls y Tad yr hwn a'i hanfonodd."

Eglurodd y gyfraith hefyd. Ni ddaeth un gair gwag o'i enau ef croed; ond ar y pethau hyn y pregethodd y cwbl. Ac i'r dyben o gadarnhau ei dystiolaethau am danynt y gwnaeth efe ei holl wyrthiau: a'r pethau mawrion hyn oedd ei eiriau diweddaf ar y groes.

Eiriol yn ddiorphwys am eu cwblhâd mawr y mae efe heddyw. Dyma ydyw swm ei eiriolaeth: pa mor uchel bynag ydyw mewn gogoniant, pa mor ddedwydd bynag ydyw ei enaid sanctaidd, pa mor berffaith bynag y mae yn mwynhau dedwyddwch, pa mor agos bynag ydyw ei gymdeithas â'r Tad, etto, y mae y gyfraith o'r fath ddirfawr bwys fel nas gall efe ei hanghofio am funyd awr. Ië, nis gellir ei ddiwallu heb iddi gael ei chwblhau.

Y mae yr angylion hefyd, creaduriaid mor uchel eu galluedd, mor sanctaidd, ac mor adnabyddus o bethau Duw—y maent hwy yn rhyfeddu uwch ben pethau y gyfraith. Y maent yn ei gwasanaethu yn wirfoddol, dan ganu; ie, yn ymfyfydu cael cyflwyno y gwasanaeth gwaelf iddi. Llawenhânt yn ei llwyddiant, hyd yn oed wrth weled ond "un pechadur yn edifarhau."

Y diafol hefyd: ei drueni ef ydyw fod pethau y gyfraith yn ei erbyn, a dim o'i du. Ymdrecha i wrthwynebu ei phethau trwy bob ffordd. Efe a hana gyfeiliornadau, i ddallu dynion am danynt. Gŵyr fod y pethau o'r fath bwys nas gallai efe attal dynion rhag teimlo eu heffeithiau, ond trwy eu dallu rhag

iddynt eu gweled. Dyben chwaryddiaethau a phleserau hefyd ydyw hudo meddyliau dynion yn mhell oddi wrth y pethau hyn. Cadw y byd yn ddyeithr o'i gyfraith yw y dyben: a gŵyr Satan yn dda mai hyny yw yr unig ffordd iddo gadw meddiant yn y byd.

Yr annuwiolion hefyd; effeithia'r gyfraith i'w moesoli hwy; ac nis gall dim arall ei wneuthur. Dŵg y gyfraith yn mlaen annogaethau mor gryfion nes tori rhwng y byd a'i ddybenion. Effeithia hefyd i gyffroi cydwybod yr annuwiol yn angeu ac yn uffern i dragwyddoldeb.

1af, Y mae mawr allu ac effaith y gyfraith ar y saint yn eu cyffroi, a'u dychrynu yn yr argyhoeddiad. Gwelir hyn yn yr hanes sydd yma am y miloedd ar ddydd y Pentecost; am geidwad y carchar, ac am Saul yr erlidiwr. Os gwelir dyn mewn cyffro, neu mewn dychryn mawr, fe ddeallir fod rhywbeth mawr yn effeithio ar ei feddwl; megys tŷ ar dân, tref yn llosgi, neu fywyd yn colli. Y mae yn rhaid fod y pethau hyny yn fawrion sydd yn effeithio y fath ddychryn. Ond pethau y gyfraith yn unig sydd yn effeithio gwir ddychryn:—"pan ddaeth y gorchymyn, yr adfywiodd pechod." Etto y mae yn sicr, ar bwy bynag yr effeithiodd y pethau hyn ddyfnaf, na chawsant effaith yn ateb yn llawn i'w pwys; o blegid nid adnabu neb hwy ond mewn rhan.

2il, Y mae adnabyddiaeth o bethau y gyfraith hefyd yn newid yr egwyddor. Daeth y dyn trwy lawer o amgylchiadau pwysig, ond etto heb newid ei egwyddor. Methodd cystudd, tlodi, ac angeu, a phob gweinidogaeth o eiddo Rhagluniaeth, i sicrhau hyn. Y mae egwyddor dyn yn nerthol iawn. Myn egwyddor ei ffordd er dwfr a thân; ie, er uffern ei hun. Ond pan ddaeth pethau mawrion y gyfraith i olwg ei feddwl ef, yn ngoleu Ysbryd Duw, trowyd ei enaid "o gyfeiliorni ei ffordd at Dduw." Derbyniodd annogaethau i sancteiddrwydd nas gallai efe eu gwrthsefyll. Effaith gwrthddrychau a amlygir i'r meddwl ydyw y cyfnewidiad hwn.

3ydd, Y mae adnabyddiaeth o'r gyfraith yn newid dyben dyn wrth fyw yn y byd—yn effeithio felly ar brif ddyben ei fywyd. Y mae yn rhaid fod y gyfraith gan hyny wedi dwyn i'r golwg ddyben mwy pwysig, a theilwng o'i holl fywyd, nag oedd yn adnabyddus iddo o'r blaen. Tuag at iddi lwyddo i newid ei ddyben, yr oedd yn rhaid iddo weled un arall gwell. Gwna dyn y peth a dybia efe yn fwyaf ardderchog a phwysig yn brif ddyben. Tybia dyn annuwiol mai hunan-fw, nhâd yw y gwrthddrych teilyngaf o'i ymdrech, gan nad adwaen ddyben uwch. Ond yn y gyfraith, dadguddir yn eglur ddyben teilyngach, sef gogoneddu Duw; a phan wél yr enaid hwnw yn ei ddirfawr bwys, efe a'i cais o hyny allan byth.

4ydd, Newidia hefyd fuchedd dyn. Yr oedd pob peth arall

wedi methu. Methodd llawer o ystyriaethau pwysig gyfnewid buchedd dynion; a methodd angeu hefyd, er eu bod yn cael sicrwydd fod y fuchedd a ddilynant yn arwain yn brysur i angen tragwyddol. Methodd yr ystyriaeth o hyny a sobri llawer meddwyn. Er cael rhybuddion fod uffern yn "agor ei safn yn anferth i'w dderbyn" ar y llwybr hwnw, etto methodd hyny a'i arafu. Ond golwg trwy ffydd ar bethau mawrion y gyfraith a'i toddodd mewn edifeirwch, ac a wnaeth bob peth yn newydd. Agorwyd ei lygaid y pryd hwnw ar fyd llawn o bethau ysbrydol ac anfeidrol bwysig, sydd wedi cario dylanwad arno byth. Iawn y gelwid y cyfryw o'r blaen "yn farw," "yn ddall." Ni welodd ddim hyd hyny oedd yn werth ei weled; ond dygwyd ef i weled "nefoedd newydd, a ddaear newydd," nas gwelodd o'r blaen, "yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu."

5ed, Estyna adnabyddiaeth wirioneddol o'r gyfraith fwynhâd hefyd mewn trallod, fel y gwelwn yn mywyd llaweroedd y mae eu hanes yn y Beibl. Pa beth a ddywedodd yr hen patriarch Job yn ei adfyd? "Noeth y daethum o groth fy mam, a noeth y dychwelaf yno. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd" (*Job* i. 21). Beth a ddywedodd Habacuc yn ei brofedigaeth chwerw? "Er i'r ffigysbren na flodeuo, ac na byddo ffrwyth ar y gwinwydd; gwaith yr olewydd a balla, a'r meusydd ni roddant fwyd; torir ymaith y praith o'r gorlan, ac ni bydd eidion yn eu beudai. Etto, mi a lawenychaf yn yr Arglwydd; byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth" (*Hab.* iii. 17, 18). Yr ydym yn "gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw," meddai yr apostol Paul hefyd. "Ac nid felly yn unig, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau; gan wybod fod gorthrymder yn peri dioddefgarwch; a dioddefgarwch, brofiad; a phrofiad, obaith: a gobaith ni chywilyddia, am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonau ni, trwy yr Ysbryd Glân yr hwn a roddwyd i ni" (*Rhuf.* v. 3, 4, 5). Daeth y mwynhâd hwn yn hollol oddi wrth ardderchawgrwydd y gwrthddrychau uwch na phethau y byd hwn y mae y meddwl yn cymdeithasu â hwy.

Fe lawenycha gŵr tlawd mewn etifeddu swm bychan o arian, am na wybu efe erioed pa beth oedd meddu swm mawr: ond ni wna y cyfoethog gyfrif o'r swm hwnw, gan fod yn rhaid cael swm mawr i effeithio arno ef. Pan oedd y saint yn eu cyflwr natur, llawenychent am y swm bach o bethau darfod-edig oedd ganddynt: ond wedi eu codi i fod yn saint y maent yn etifeddu cyfoeth mawr y gyfraith; gan hyuy, ni wnant fawr o gyfrif o'r pethau bychain hyny mwy. Pethau y gyfraith ydyw eu pethau hwy. Glynant wrthynt mewn erledigaeth. Ymdrechant i'w dangos yn eu gwerth a'u pwysigrwydd i ereill;

a dibrisiant y bywyd hwn mewn cyferbyniad iddynt, er gŵg a gwên. Y mae yr annuwiol yn gwneyd cyfrif mawr o'r byd hwn am nad ydyw yn adnabod pethau rhagorach; gan hyny y mae yn gosod ei serch arnynt. Ond y mae y credadyn yn adnabod gwrthddrychau uwch, sef pethau mawrion y gyfraith; gan hyny y mae y pethau hyn yn dwyn ei serch ef, ac yn ei ddiddyfnu o'r creadur. "Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod!" Ond y mae yn rhaid eich codi o'r ddaear. Nis gellir caru Duw, a charu y byd hefyd. Ond y modd i diddyfnu y serch o'r byd ydyw trwy i'r pethau sydd uchod ddyfod i'r golwg.

Ammheuaeth y Cristion o'i hawl ynddynt sydd yn peri y gofid mwyaf iddo. Pan yr ammheuo y cybydd ei hawl i'r cyfoeth sydd ganddo, fe bâr yr ammheuaeth ofid mawr iddo, am fod y pethau hyny yn fawrion yn ei olwg ef—ie, yn bethau mwyaf. Ond pan orfyddo ar y credadyn i ammheu ei hawl yn mhethau mawr y gyfraith, pâr hyn ofid chwerwach iddo nag anghy, am ei fod yn cyfrif y rhai hyny yn bethau mwyaf, a'i hawl iddynt yn sail dedwyddwch tragwyddol. "Fy nagrau oedd fywyd i mi ddydd a nos," meddai y Salmydd, "tra y dywedent wrthyf bob dydd, Pa le y mae dy Dduw?" Ei bleser a'i ddedwyddwch diddiwedd ef ydyw edrych a son am bethau mawrion y gyfraith. Edrych a son am bethau disylwedd—fe ddaw hyny yn ddiflas yn fuan, er y ceir pleser ynddynt dros ychydig; ond edrych ar bethau mawrion a bery yn ddifyrwrch yn hwy. Y mae seryddiaeth yn fawreddog iawn, ac yn faes eang i'r meddwl; gan hyny, gall edrych iddi fod yn ddifyrwrch maith. Ond, os ydyw gryn a pharhâd y pleser o edrych ar wrthddrychau yn ymddibynu ar fawredd ac ardderchawgrwydd y gwrthddrychau hyny, pa fath fawrhydi a gogoniant diderfyn a raid fod yn mhethau y gyfraith, gan eu bod yn ddigon i wneuthur tragwyddoldeb y miloedd sydd yn edrych arnynt, ac yn son am danynt, yn berffaith ddedwydd! Er edrych arnynt yn diddiwedd, ni leiha y pleser, na'r rhyfeddod. Ni ddaw yr olwg arnynt chwaith byth yn ddieffaith ar y meddwl.

Y maent yn fawrion ar lawer o gyfrifon:—(1af.) Mewn cyferbyniad i bob peth dacarol. (2il.) Y prif amlygiadau o Dduw ydynt. (3ydd.) Hwy sydd yn dadguddio gogoniant penaf Duw, a'r "Cyfryngwr sydd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu." (4ydd.) Hwy sydd yn egluro hefyd pa beth fydd gwobr y Cyfryngwr. (5ed.) Hwy hefyd sydd yn dwyn iachawdwriaeth pechaduriaid i'r golwg:—y pethau mwyaf i ddynion, pethau eu heneidiau, pethau dedwyddwch eu heneidiau, a phethau dedwyddwch tragwyddol eu heneidiau.

IV. *Y camddefnydd a wneir o honynt, er eu rhagoroldeb:—*
 "Fel dyeithr-beth y cyfrifwyd hwynt."

1. Yr oeddynt yn annealladwy neu yn afresymol yn eu golwg.
2. Yr oeddynt yn eu cyfrif yn amherthynasol neu yn estronol, heb fod yn perthyn i'w hachos.
3. Yr oeddynt yn wrthoddedig; ac ni fynent eu llywodraethu wrthynt.

IV. *Pechadurusrwydd yr ymddygiad.*

I'r dyben o ddangos adgasrwydd yr ymddygiad hwn, gwelwn *pa beth a ddirmygir*:—"pethau mawrion." Gallai Duw ymresymu yn erbyn yr ymddygiad hwn oddi wrth fawredd y pethau a ysgrifenydd; gan ddywedyd, 'Pe buaswn yn ysgrifenu i ti hanes yr holl blanedau, a'r holl sêr uwch ben, y rhai sydd yn aneirif; ac yn rhoddi hanes eu rhif a'u maintioli, a hanes eu natur: buaswn yn disgwyl i ti chwilio y cwbl, ei ddeall, ei gredu, a'i ryfeddu? Pe buaswn yn ysgrifenu i ti hanes y ddaear, neu natur yr elfenau i berffeithrwydd, pob cyfansoddiad yn y greadigaeth, a phob celfyddyd:—pe buaswn yn ysgrifenu y pethau hyn i gyd atat, buasai yr ysgrif hono yn cynnwys pethau mawrion, ac nid allwn lai na disgwyl i ti dalu sylw manwl i'r cwbl. Ond ni buasai yr holl ysgrif yn cynnwys pethau o ran eu pwys, a'u gwerth, a'u parhâd, sydd yn werth eu cymharu am foment â'r tragwyddol bwys sydd yn mhethau fy nghyfraith!' Gallasem ninnau dreulio oes gyfan i edrych i hono, a myfyrio arni; ac wedi darfod, byddai rhaid gwaeddi allan, "Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw?" "Pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?" "Pa beth a wnaif fel y byddwyf gadwedig?" ac "A pha beth y deuaif ger bron yr Arglwydd?" Neu, "Yn ofer ac am ddim y treuliais fy nerth!" a "mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu!" a llawer o gyfaddefiadau cyffeilyb. 'Ond,' medd Duw, 'ysgrifenis iddo, nid am y sêr, ond am y Seren foreu eglur; nid am yr haul naturiol, ond am Haul y Cyfiawnder; nid am y ddaear, ond am fydd tragwyddol; nid am bethau y corph, ond am bethau yr enaid. Dangosais iddo fy mhriodoliaethau a fy nghariad; dadlenais ras fy nghyfammed a fy mwriadau tragwyddol; dadguddiais berson a swyddau fy Mab, a'r iachawdwriaeth sydd ynddo yn ei holl gyfoeth; yn nghyd â thrueni pob dyn am dragwyddoldeb a'i gwrthodo: ond er y cwbl, "fel dyeithr-beth y cyfrifwyd hwynt."

Pe buasai yr Ysgrhythrau yn *ammherthynasol* iddo, ni buasai y pechadur i'w feio gymmaint. Pe buasent yn afreidiol hefyd, neu eu tystiolaethau yn ansicr, ni buasai mor feius yn eu diystyru. Neu, pe buasai Duw yn ysgrifenu am Waredwr anaddas, am berson anaddas, anallnog, annoeth, ac angharedig, neu am un heb awdurdod, heb werth, neu heb iawn; nis galleid rhyfeddu cymmaint o herwydd y diystyrwech a ddengys pechadur-iaid Cymru at y dystiolaeth. Ond, gan fod y fath anfeidrol wahaniaeth, a'r fath bellder annhraethol rhwng y gyfraith a hyn

yna; a chan fod y fath anghydfod pwysig rhwng Duw a'r pech-
adur, a'r fath ryfel gwaedlyd, a'r fath soriant tanlyd, rhwng
dyn a Duw, pa faint ydyw ymostyngiad a gras Duw yn dyfod i
ysgrifenu ei gyfammod heddwch i ddyn, ac yn ei ddioddef am
hanner can mlynedd i dafu y fath ddiystyrwch arno!

Pe buasai yr angylion yn gofyn caniatâd iddo, ac yn dywedyd
rhywbeth tebyg i hyn:—'Arglwydd mawr! y mae dy ras fel y
môr, a gall dy ddoethineb gael allan ffordd i faddeu i ddynol-
ryw, a oddefi di i ni ysgrifenu atynt i'w hannog i ymostwng, i
edifarhau, a dyfod ger dy fron i ofyn maddeuant genyt?' At-
tolwg, na ddigied ein Harglwydd wrthym, a chaniatâer ein dym-
uniad!' Pe buasai efe yn goddef felly iddynt hwy, buasai hyny
yn diriondeb mawr, gan ddywedyd, 'Yr ydwyf yn caniatáu i
chwi wneuthur hyny yn eich enwau eich hunain, ond nid yn fy
enw i. O'm rhan i, nid ysgrifenas linell atynt byth. Y mae yn
ormod o ymostyngiad genyf ysgrifenu at lwch y domen! o
blegid o'r clai y lluniais hwynt! Ac heblaw hyny, y maent wedi
fy nigio mor fawr, y maent wedi gwrthryfela cymmaint i'm her-
byn, wedi tori fy nghyfammod, wedi dirmygu fy holl briodol-
iaethau, a defnyddio fy nhrugareddau i wrthryfela yn fy erbyn!'
Ond, O! ryfedd ras Duw! Nid goddef i'w angylion ysgrifenu
a wnaeth efe at ddyn; ond ymostyngodd i ysgrifenu ei hun—
ymostyngodd i gyflawni y gorchwyl hwnw ei hunan! Ond er
ei anfeidrol ymostyngiad, fel dyeithr-beth y cyfrifwyd hwynt!
Gallesid disgwyl i ysgrifenu Duw gael parch a derbyniad mawr
ar bob cyfrif. Gallesid disgwyl hyn ar gyfrif ei awdurdod a
mawredd ei ddoethineb. Telir sylw mawr i ysgrifenu dya doeth
yn gyffredin. Ond os ydyw ysgrifenu yn haeddu derbyniad yn
ol doethineb ei hawdwr, pa faint o barch a haeddai ysgrifenu
Duw, yr hwn ydyw "yr unig ddoeth," ac yn yr hon y gwelir
y prif amlygiad o ddoethineb ei hawdwr? Y mae yn yr ysgrifenu
hon fwy o amlygiad o ddoethineb nag yn ngwaith y greadigaeth.
Ond ar ol i Dduw wneuthur yr holl ymostyngiad annhraethadwy
i ysgrifenu at ddyn, ar ol iddo amlygu y fath anfeidrol raslon-
rwydd, a chynnyg yr holl fendithion sydd yn nhrefn yr efengyl;
a chyda'r cwbl, arfer ei ddoethineb mawr i gynghori ac i ber-
swadio dyn yn yr ysgrifenu i'w derbyn; er hyny i gyd, "fel dy-
eithr-beth y cyfrifwyd" hi ganddo.

Ysgrifenuwyd iddo bethau mawrion ei gyfraith yn y modd
mwyaf sier. Rhoddai y sierhâd uchaf ar yr ysgrifenu, fel y
gallai y dyn hyderu arni fel gwirionedd safadwy. Pa mor
fawr bynag fuasai ei chynnwysiad, a pha mor uchel a theilwng
bynag fuasai ei hawdwr, etto ni buasai hyny yn haeddu derbyn-
iad iddi, oddi eithr ei bod yn wirionedd safadwy. A buasai
dynion hefyd yn esgusodol am ei gwrthod, ei dirmygu, a'i chy-
rif yn ddyeithr-beth. Ond nid ysgrifenu wedi ei gadael heb sier-

wydd digonol am ei gwirionedd ydyw. Fe'i cadarnhawyd â gwyrthiau y ddwy oruchwyliaeth, fe'i seliwyd â gwaed ei Anwyl Fab, fe'i cadarnhawyd â llŵ y digelwyddog Dduw, fe gyflawnodd Rhagluniaeth y prophwydoliaethau a fynegwyd ynnddi gannoedd o flynyddoedd yn flaenorol, a thywalltwyd yr Ysbryd hefyd ar ddydd y Pentecost; ond er y cwbl, "fel dyeithr-beth y cyfrifwyd."

Wrth derfynu, y mae yn rhaid i ni sylwi ar *afresymoldeb* y fath ymddygiad. Y mae dyn drwy hyn yn dirmygu Duw. Dyn "yr hwn sydd bryf;" dyn, yr hwn sydd "glai;" dyn, yr hwn sydd farwol, yr "abwydyn," yn dirmygu Duw! Ië, y mae yn dirmygu yr hwn a'i gwnaeth, yr hwn sydd yn ei gynnal, yr hwn sydd yn ei lywodraethu, yr hwn sydd yn estyn pob rhoddion, a phob trugaredd iddo, a'r hwn hefyd fydd yn ei farnu y dydd diweddaf! Y mae y dyn drwy yr ymddygiad hwn yn ei ddirmygu i'r graddau eithaf sydd yn bossibl iddo. Y mae trwy ddirmygu "pethau mawrion ei gyfraith," yn dirmygu ei bethau mwyaf—prif ddyfais ei ddoethineb, prif amlygiad ei gariad, gorchestion ei ras! Ac uwchlaw y cwbl, y mae dirmygu "pethau mawrion ei gyfraith" yn ddirmyg ar ei Fab—yn ddirmyg ar ei werthfawr waed, ei boenau, ei ruddfanau trymion, a'r drefn fendigedig hono a berffeithiwyd trwy ei farwolaeth!

Bechadur, gwranddo! Fe ddaeth Mab Duw i'r byd i selio "pethau mawrion y gyfraith" â'i waed; ond yr wyt ti yn eu dirmygu, ac yn eu sathru o dan dy draed! Os oedd "pethau mawrion y gyfraith" yn werth i Grist eu selio â'i waed, y maent yn rhy werthfawr i ti eu sathru a'u dirmygu! Os oeddynt yn werth iddo ef ddyfod o fynwes ei Dad i'w mynegu, onid ydynt yn werth i ti eu derbyn? Os ydynt yn werth i Fab Duw lywodraethu pob peth, o'r gwybedyn i'r ccerub, i'w dwyn yn mlaen, onid ydynt yn werth i ti eu parchu? Dyma ddirmyg ofnadwy ar y caredigrwydd mwyaf y gall Duw ei ddangos, a'r mwyaf y gall dyn fod yn wrthddrych o hono!

PREGETH XXI.

TRISTAU YR YSBRYD GLAN.

Ephesiaid iv. 30.

"Ac na thristewch Iân Ysbryd Duw, trwy yr hwn y'ch seliwyd hyd ddydd prynedigaeth."

Y MAE hwn yn amser ag y mae angenrheidrwydd galw sylw ein cenedl at y bai sydd yn cael ei nodi yn y testyn. Nid oes ar wyneb yr holl ddaear, ac ni bu yn yr oesoedd o'r blaen, yr un genedl mewn cyfleusdra mor fawr i gyflawni y bai ysgeler hwn. Y mae y cyflawnder mawr o foddion gwybodaeth, a breintiau crefyddol, sydd yn mysg ein cenedl, ar y naill law, yn ein gosod yn y cyfleusdra goreu i ddiange rhag y llid a fydd ac i ryngu bodd Duw; ac ar y llaw arall, yn y perygl mwyaf o dynu ei anfoddlonrwydd arnom trwy eu camddefnyddio. Nid oes neb, fe allai, mewn oedran a synwyr yn y fath amgylchiadau ag yr ydym ni, genedl y Cymry, yn hollol ddienuog o'r bai mawr hwn. Y mae holl annuwioledeb cyhoeddus a rhyfygus y rhai sydd heb broffesu crefydd yn tristau yr Ysbryd, yn gystal ag anffyddlondeb a diffwrwthder y rhai sydd yn profiesu eu hunain yn Gristionogion. Gesyd yr Ysgrythyrau y bai hwn allan yn fawr ddrwg yn erbyn Duw, ac yn beryglus arswydus yn ei ganlyniadau. Tristau yr Ysbryd, wedi cyrhaedd graddau pell, ydyw y pechod anfaddeuol; am hyny y nodir ef yn bechod yn erbyn yr Ysbryd Glân. Caledwch y galon, diystyrwch a chasineb at Grist a'i efengyl wedi cyrhaedd i ryw raddau pen-nodol, trwy hir ymarferiad â moddion gras ac ymlyniad cyn-dyn mewn pechod dan ymrysoniadau yr Ysbryd Glân trwy y moddion, sydd yn dyfod yn bechod anfaddeuol.

Y mae rhai Cristionogion wedi ffurfio syniadau ar athrawiaeth yr efengyl sydd yn cau allan y bai hwn. Pe byddai y syniadau hyny yn gywir, ni byddai yn bossibl i'r fath beth a thristau na diffodd yr Ysbryd gymmeryd lle. Os ymddergys fod ein syniadau crefyddol yn anghyttuno â rhyw dystiolaeth amlwg, neu orchymyn, neu waharddiad yn y Beibl, nid ydyw y

syniadau hyny yn gywir; a dylai hyny gael ei gymmeryd yn brawf digonol o'u hanghywirdeb. Y mae yn wir fod goruchwyliaeth Ysbryd Duw ar y meddwl yn bonarglwyddiaethol; ond y mae hefyd yn cael ei dwyn yn mlaen trwy foddion. Er ei bod o ras, etto nid ydyw yn amhossibl tristau yr Ysbryd. Er fod Ysbryd Duw yn gweithredu yn nerthol, etto y mae perygl ei ddiffodd. Er fod gwaith yr Ysbryd yn feistrolgar ar gyndynrwydd y galon, ac yn sefydlu llywodraeth gadarn ar yr enaid dros byth yn ei orpheniad, etto ei ddechreuad sydd mewn cymhelliadau gweiniaid ar y meddwl. Yn ei berffeithiad, bydd yn fawr a rhyfeddol; ond yn ei ddechreuad, nid yw ond fel surdoes yn y blawd, neu ronyn o hâd mwstard, yr hwn sydd leiaf o'r holl hadau. Y mae y golygiad ar ddyw heb fod yn amgen na goddefydd dan oruchwyliaeth yr Ysbryd yn arwain i ganlyniadau niweidiol. Nis gellir ammheu nad oedd dyben da yn ngolwg y rhai a'i mabwysiadodd; ond fe allai iddynt fod yn rhy fyrbyyll, a dilyn y gymmhariaeth o encdigaeth naturiol yn rhy bell. Arferir y gair *goddefydd*, tybygaf, yn gyferbyniol i'r gair *gweithredydd*." Cawn y fath ymadrodd a hwn yn fynych gan y rhai hyny—'goddefydd, ac nid gweithredydd.' Addefwn nad ydyw dyn yn awdwr gwaith yr Ysbryd, ac nad ydyw yr Ysbryd yn awdwr gwaith y dyn. Ond y cwestiwn sydd i'w chwilio ydyw: Ai segur ydyw y meddwl dan oruchwyliaeth yr Ysbryd, fel pren neu faen dan law y celfyddydwr, yn cymmeryd ei ffurfio ganddo fel y myno, heb weithredu dim o blaid neu yn erbyn amcanion y gweithredydd? Goruchwyliaeth ar y meddwl ydyw gwaith yr Ysbryd; nid gweithredu ar hanfod yr enaid, ond dwyn sylw y meddwl at wrthddrychau ysbrydol, a'i ddwyn i deimlo yn briodol i'w pwys a'u mawredd.

Nid ydyw y meddwl byth yn segur; ond gweithia yn ddidor. Nis gall fod yn segur chwaith: felly hefyd pan byddo goruchwyliaeth yr Ysbryd yn dwyn y gwirionedd dan ei sylw. Os argyhoeddi o bechod fydd gwaith yr Ysbryd; y mae y meddwl ar y pryd yn ystyried ac yn dirnad y pechod hwnw, a'r gydwybod yn ei gondemnio yn fywiog: cyfyd y serchiadau hefyd i'w gashau. Os dadguddio gogoniant Crist fydd gwaith yr Ysbryd, y mae y meddwl ar y pryd yn edrych ar ei ogoniant ef, a'r galon yn ei garu. Pa fodd y dichon y meddwl fod heb weithredu, dan yr oruchwyliaeth sydd i ateb ei dyben trwy iddo weithredu felly?

Dyben holl oruchwyliaethau yr Ysbryd ar y meddwl ydyw planu tueddiadau newydd, sanctaidd, yn y galon; ffurfio egwyddor bywyd newydd; neu, yn iaith yr Ysgrhythrau yn fwy priodol, "rhoddi calon newydd," dwyn y galon i garu Duw, a sefydlu y cariad hwnw yn beth arosol. Dyma ydyw dyben yr holl argyhoeddiadau a'r holl ymrysoniadau maith—ennill y galon i

Dduw a'r Cyfryngwr ydyw tuedd ac amcan y cyfan: a thrwy effeithio hyny yr ettyb y cwbl eu dyben. A lle y mae y cwbl yn syrthio yn fyr o hyn, y mae y cyfan yn ofer.

Yr ydym yn gwybod trwy brofiad fod y galon yn cael ei thueddu i garu trwy fod gwrthddrych yn ymddangos i'r deall fel yn meddu ar ryw ddymunoldeb; neu o leiaf, yn ymddangos yn gyfaddas i ateb dyben y meddwl ar y pryd. Pa un bynag ai pleser, ynte rhyw fudd personol, neu ei ddedwyddwch eithaf a thragwyddol, fydd gwrthddrych ei ymgais, ni ddichon cariad hanfodi heb fod ei wrthddrych yn ngolwg y meddwl. Caru a chasau, yn annibynol ar synied am wrthddrychau—y mae hyny yn beth na ddichon iddo fod. Pan y bydd Ysbryd Duw yn gogwyddo yr ewyllys a'r galon at Dduw a'r Cyfryngwr, trwy ddadguddio rhagoriaethau y gwrthddrychau y dwg efe hyny oddi amgylch. Y gwrthddrych sydd yn ffurfio y duedd. Gogoniant gwrthddrych, trwy gael ei ddadguddio i'r meddwl trwy y Gair gan yr Ysbryd, a ennill y galon. Nis gellir caru heb ddirnadaeth am wrthddrych—"Yr hwn sydd yn caru, o Dduw y ganed ef, ac y mae efe yn adnabod Duw. "O herwydd arogl dy enaint daionus, enaint tywalltedig yw dy enw; am hyny y llangesau a'th garant." Y cyhoeddiad o'i enw sydd yn rhoddi y fath arogl hyfryd: am hyny y mae yn cael ei garu.

Un annhrefn mawr a wnaeth pechod ar yr enaid ydoedd darostwng y gydwybod dan lywodraeth y serchiadau. Y mae y galon yn caru y pethau a gondemnrir gan y gydwybod, ac yn casau y pethau a gyfiawnheir ac a gymmeradwyir gan y gydwybod. Nid ydyw y farn yn rheoli y galon; ond y galon sydd yn rheoli, a hyny yn erbyn gwybodaeth, deall a barn y gydwybod. Y mae y serchiadau yn dal gafael diysgog yn y pechodau hyny y mae y gydwybod yn eu condemnio; ac o'r tu arall, yn ymwrthod yn hollol â Duw a'r Cyfryngwr, er fod y gydwybod yn dadleu o'u plaid. Y mae yr enaid mewn annhrefn, a galluoedd yr enaid mewn rhyfel gwyllt. Weithiau, y mae y gydwybod yn cael buddugoliaeth ddamweiniol, trwy fod rhai drygau yn rhoddi iddi ddadleuon mwy grymus ac effeithiol, a bod amgylchiadau yn digwydd cyd-daraw ar y pryd â'i thystiolaeth. Ond nid ydyw byth yn ennill buddugoliaeth ar y prif fater mewn dadl; sef, rhoddi y galon yn llwyr i Dduw, oddi eithr pan y bydd argyhoeddiadau yr Ysbryd yn cynnyrchu adenedigaeth. Gwaith yr Ysbryd ydyw diwygio yr annhrefn hwn; sef, darostwng y serchiadau dan lywodraeth y farn a'r gydwybod, goleuo y deall, a'i sefydlu ar bethau tragwyddol, a thrwy hyny gynnhyrfu y gydwybod i farnu gyda'r fath nerth ac awdurdod nes gorchfygu y serchiadau a'r ewyllys i gydweithredu â hi rhag llaw, i garu y gwrthddrychau a gymmeradwyir ganddi, ac i gashau y rhai hyny a gondemnia.

Yr Ysbryd sydd yn argyhoeddi y gydwybod, nid yn unig pa bethau sydd gyfreithlawn, ond pa bethau nad ydynt gyfreithlawn i'w cyflawni. Efe a sefydla y meddwl hefyd ar amcan newydd, sef bod yn gadwedig. Trwy ei argyhoeddi o'r pwys dirfawr sydd yn ei achos rhyngddo a Duw, efe a bâr i'r enaid bellach edrych o'i amgylch pa fodd y gellir ennill heddwch Duw. Nid oes neb a ymddengys iddo yn yr amgylchiad hwn yn werth ei ddewis o flaen y Cyfryngwr, yr hwn sydd wedi ei osod "rhwng Duw a dynion—y dyn Crist Iesu."

Gosodir goruchwyliaeth yr Ysbryd allan yn y gwirionedd trwy ymadroddion fel hyn yn fynych:—"goleuo," "dysgu," "argyhoeddi," "arwain," cymmeryd o eiddo Crist, "agoryd y llygaid," &c. Y mae yr holl ymadroddion hyn, a'u cyffelyb, yn cynnwys y meddylddrych o ennill y galon a'r ewyllys trwy argyhoeddi y gydwybod. Nis gellir deall y fath oruchwyliaeth yn gysson â'r golygiad fod dyn yn oddefol yn y cwbl. Pa beth bynag y mae yr Ysbryd yn argyhoeddi o hono, y mae yn rhaid fod y peth hwnw yn y meddwl. A ddichon fod yr Ysbryd yn dysgu, ond y meddwl ar y pryd heb weithredu ar ddim? neu yn argyhoeddi, heb fod y gydwybod ar y pryd yn barnu yn fywiog, ac yn cyhuddo yr enaid o'r trôsedd? Nid ydyw y golygiad hwn yn unol â deddfau adnabyddus y meddwl ei hun.

Nid ydyw argyhoeddiad yn y farn yn effeithio i ogwyddo yr ewyllys. Nid ydyw hyn yn anghysson â'r sylw a wnaethom o'r blaen—fod cydwybod a serch yr annuwiol yn wrthwynebol i'w gilydd. Nid ydyw cydwybod yr annuwiol yn gweithredu oddi ar oleuni ac argyhoeddiad trwyadl, ond oddi ar ryw argyhoeddiad hannerog ac ansefydlog. Ond y mae yr argyhoeddiad sydd yn gorchfygu cyndynrwydd yr ewyllys yn fwy trwyadl a sefydlog. Y mae yr apostol, yn *Ephes.* i. 13, 20, yn dangos natur a helaethrwydd yr argyhoeddiad sydd yn dwyn pechadur i obeithio yn Nuw ar egwyddorion a seiliau cedyrn yr efengyl, a thrwy hyn y cael ei gyfrif yn weithrediad yr Ysbryd, fel ernes yr etifeddiaeth dragwyddol:—"Yn yr hwn y gobeithiasoch chwithau hefyd, wedi i chwi glywed gair y gwirionedd, efengyl eich iachawdwriaeth: yn yr hwn hefyd, wedi i chwi gredu, y'ch seliwyd trwy Lân Ysbryd yr addewid; yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni, hyd bryniad y pwrcau." Credu gwirionedd yr efengyl sydd yn selio y pechadur. "Nid wyf yn peidio â diolch drosoch," medd yr apostol, "gan wneuthur coffa am danoch yn fy ngweddiâu; ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roddi i chwi Ysbryd doethneb a dadguddiad; trwy ei adnabod ef. Wedi goleuo llygaid eich meddyliau, fel y gwypoch beth yw gobaith ei alwedigaeth ef, a pheth yw golnd gogoniant ei etifeddiaeth ef yn y saint, a pheth yw rhagorol fawredd ei nerth ef tuag atom ni y rhai ydym yn credu, yn ol

gweithrediad nerth ei gadernid ef; yr hon a weithredodd efe yn Nghrist pan y cyfododd ef o feirw, ac a'i gosododd i eistedd ar ei ddeheu-law ei hun yn y nefolion leoedd." Dyma yr argyhoeddiad mawr eang sydd yn cynnyrchu gobaith yn Nuw, ac yn ernes o'r etifeddiaeth—argyhoeddiad o holl wirioneddau mawrion a sylfaenol yr efengyl; yn enwedigol argyhoeddiad o'r gwirioneddau sydd yn seiliau gobaith i bechadur am fywyd.

Nid ydyw yr argyhoeddiad hannerog a nodwyd yn cyrhaedd y gwirioneddau efengylaidd sydd yn seiliau gobaith; ond yn unig y bygythion yn erbyn pechod: gan hyny, nis gallant gynnyrchu trôedigaeth. Trwy y Gair, fel moddion, y mae argyhoeddiad ac adenedigaeth yn cael eu dwyn yn mlaen. "O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyini trwy Air y gwirionedd." Pa un bynag ai gweithredu yn uniongyrchol ar yr ewyllys a'r serch, ynte trwy y deall a'r gydwybod, y mae yr Ysbryd, y mae yn amlwg fod y Gair yn foddion yn nhrôedigaeth pechadur. Nid ydyw yn bossibl i gariad at Dduw a Christ fodoli yn y meddwl ond yn ngrym dadguddiad y gwirionedd o honynt. Gan fod y gwaith hwn yn cael ei gyflawni trwy foddion, y mae yn rhaid fod y pechadur yn arfer y moddion hyny. Nid yw y meddyg yn iachau y claf trwy foddion yn y byd, heb i'r claf arfer y moddion. Felly, trwy ba ran bynag o'r Gair yr argyhoeddir pechadur o bechod, y mae yn rhaid fod y rhan hono yn ei feddwl ar y pryd. Nid ydyw y meddwl yn segur: y mae yn rhaid fod y deall yn dirnad ar y pryd ystyr a meddwl y rhan hono, ac yn teimlo ei awdurdod a'i bwys.

Yn ol y golygiad fod dŷn yn oddefydd yn unig yn ei drôedigaeth, nis gellir amddiffyn ei gyfrifoldeb. Nid ydyw yn euog o wrthod iachawdwriaeth; gan hyny, y mae ei holl gamddefnydd o foddion iachawdwriaeth yn esgusodol. Nid ydyw cyhoeddi maddeuant pechodau ar sail iawn digonol dros bawb, gan ei gyfyngu ar yr un pryd i'r rhai a edifarhant ac a gređant yr efengyl—nid ydyw hyn yn gynnygiad o iachawdwriaeth gyflawn i bawb sydd yn clywed yr efengyl; o herwydd fod goruchwyliaethau yr Ysbryd mor hanfodol i iachawdwriaeth ag ydyw maddeuant ac edifeirwch. Ymddengys fod edifeirwch yn rhad rodd Duw, cystal a maddeuant: gan hyny, ni byddai cynnygiad o faddeuant ar y sail helaethaf i'r edifeiriol yn gynnygiad o iachawdwriaeth gyflawn, oddi eithr fod edifeirwch hefyd yn cael ei gynnyg a'i osod yn gyrhaeddadwy trwy foddion o fewn gallu y pechadur i'w defnyddio. Nid ydyw cynnygiad o faddeuant ar sylfaen helaeth, ar yr ammod fod i'r pechadur edifarhau ei hun, heb gymmhorth o'r nef; ac ar yr un pryd addef nas gall edifarhau heb argyhoeddiad yr Ysbryd—nid ydyw hyn ond yr un peth a phe y cynnygid bywyd tragwyddol ar yr ammod o fod y pechadur yn ei gymmhwysu ei hun iddo. Ni byddai

ond cynnygiad ar ammod anghyrhaeddadwy: a phe yn gyrhaeddadwy, ni byddai yn iachawdwriaeth gyflawn heb sancteiddiad yr Ysbryd. Pa fodd y gall fod y fath beth a "gwrthod iachawdwriaeth" yn ol y golygiad hwn? a pha uniondeb sydd mewn beio'r cenedloedd sydd yn meddu breintiau yr efengyl am nad ydyw y breintiau yn ateb dyben i'w dychwelyd a'u sancteiddio? "Pa beth oedd i'w wneuthur," medd Duw, "yn chwaneg i'm gwinllan, nag a wneuthum iddi? pa ham, a mi yn disgwyl iddi ddwyn grawnwin, y dug hirawn gwylltion? Ac yr awr hon mi a hysbysaf i chwi yr hyn a wna i'm gwinllan: tynaf ymaith ei chae, fel y porer hi; torraf ei magwyr, fel y byddo hi yn sathrfa. A mi a'i gosodaf hi yn ddfifod: nid ys-gythrur hi, ac ni chloddur hi; ond mieri a drain a gyfyd: ac i'r cymmylau y gorchymynaf na wlawiont wlaw arni;" *Esa. v. 4-6*. Y mae yr holl ranau a nodwyd o'r Ysgrhythrau, gyda llawer yn chwaneg y gallesid eu cael, yn dangos yn eglur fod rhoddiad y moddion yn ddarpariaeth ddigonol tuag at osod cenedl mewn mantais gyflawn i wasanaethu Duw ac i ufuddhau iddo. Pa fodd y gallai hyny fod, oddi eithr fod gwaith yr Ysbryd yn gyrhaeddadwy iddynt trwy y moddion hyn? Pa gymmhwyder sydd yn y Gair, a holl ordinhadau yr efengyl, nac yn y wybodaeth o ddim sydd i'w chael drwyddynt oll, i gynnyrchu ffrwyth ac ufudd-dod i Dduw, oddi eithr fod gwaith yr Ysbryd ar y galon hefyd wedi ei gyssylltu â'r moddion hyn, ac i'w gael trwy yr ymarferiad â hwynt? Pe byddai dyn yn oddefol dan oruchwyliatbau yr Ysbryd, fel pren neu faen dan law y celfyddydwr, nis gallai y bai hwn gymmyrd lle; sef, "tristau yr Ysbryd," "diffodd yr Ysbryd," a'i "ofidio." Nid ydyw Duw yn gwahardd drygau amhossibl. Nid ydyw yn gwahardd i ddyn attal y cymmylau i wlawio ar y ddaear. Byddai hyny yn wir yn ddrwg mawr—mor fawr, a mwy, na thori tŷ cymmydog. Ond nid ydyw yn cael ei wahardd yn y Gair, o herwydd fod y fath waharddiad yn afreidiol: y mae yn ddrwg allan o gyrhaedd pawb. Nid ydyw yn gwahardd dynion i heintio yr awyr chwaith. Byddai hyny yn ddrwg mor fawr a lladd cymmydog—ie, byddai yn fwy, byddai yn angen i lawer. Ond nid ydyw hyn yn cael ei wahardd, o herwydd ei fod yn amhossibl i'w gyflawni.

Yn ol y golygiad ar ddyn fel goddefydd yn unig, nid ydyw yn gweithredu o blaid nac yn erbyn yr Ysbryd, ond yn farw fel careg. Pa ham, gan hyny, y sonir cymmaint yn y Beibl am "wrthwynebu yr Ysbryd Glân," a'i "dristau," a'i "ddiffodd?" Ai ymadroddion heb ystyr iddynt ydyw y rhai hyn? Dywedai Doctor Chalmers, fod cymmhelliadau yr Ysbryd dan lywodraeth y pechadur, i'w magu neu i'w diffodd yn ol fel y byddai ymddygiad y pechadur tuag atynt.

Ni a sylwn,

I. *Yn mha ystyr y mae i ni ddeall y geiriau, "tristau yr Ysbryd."*

Nid ydym i ddeall y gair "tristau" yn yr achos hwn yn ei ystyr priodol, ond yn gymmhariaethol. Nid yw Duw yn ddarostyngedig i boen a gofid; ac y mae uwch law teimlo tristwch yn briodol. Nid ydyw ei ddedwyddwch ef yn dibynu ar ymddygiadau ei greaduriaid. "Os pechi, pa niwed a wnai di iddo ef? Ac os cyfiawn fyddi, pa beth y mae efe yn ei gael oddi ar dy law di?" Priodolir i Dduw ranau corphorol a theimladau dynol, er mwyn dyfod yn agos at ein deall ni. Dywedir ei fod yn llawenhau, yn cyffroi, yn eiddigeddu, yn tristau. Tristau yr Ysbryd ydyw ymddwyn tuag ato yn y fath fodd fel, pe yr ymddygem yn gyffelyb tuag at gyfaill o ddyn, yr achosai dristwch a gofid; megys dibrisio ei roddion a'i ddoniau, dirmygu ei waith, anuffuddhau i'w gynghorion a'i gymhelliadau. Pe yr ymddygid felly tuag at gyfaill o ddyn, achosai hyny dristwch iddo: felly, trwy yr ymddygiadau a nodwyd tuag at yr Ysbryd, tristeir yntau hefyd.

Y mae cyfeiriad yn yr ymadrodd at y naill ddyn yn cael ei dristau gan y llall trwy ddibrisio a dirmygu ei garedigrwydd, neu fod yn anffyddlaw'n iddo fel cyfaill. Dirmygu caredigrwydd yr Ysbryd hefyd ydyw y ffordd i'w dristau yntau.

Y mae y geiriau yn golygu fod yr Ysbryd yn gweithredu caredigrwydd tuag at y pechadur. Y mae holl weithrediadau yr Ysbryd ar y meddwl yn gynnwysedig mewn cymmhellion caredig, ac annogaethau tirion ac ennillgar. Argyhoeddiad yr Ysbryd o drueni cyflwr euog sydd yn wir yn dwyn teimladau annedwydd, yn cyffroi y gydwybod, yn llenwi y meddwl â dychryn, ac yn dwysbigio y galon. Ond er hyny, y maent yn oruchwyliaeth garedig yn eu dyben mawr: fel un yn rhedeg yn y tywyllwch tuag ymyl craig ddofn, a rhyw un arall yn taraw golou disymmwth o'i flaen i weled ei berygl, efe a ddychrynai yn ddian: ond cyfrifem hyny yn garedigrwydd mawr âg ef, gan y byddai yn foddion i achub ei fywyd.

Trwy gymhelliadau ar y meddwl y mae yr Ysbryd yn ennill y galon. Trwy ddadguddio cariad Duw yn Nghrist, a'i barodrwydd i faddeu mewn iawn; a thrwy amlygiadau o ddaioni a chariad Duw tuag at ddyn, y mae efe yn gorchfygu gelyniaeth a chyndynrwydd y galon. Caredigrwydd ydyw y cyfaddasaf i orchfygu gelyniaeth. "Tafod esmwyth a dyr asgwrn." "Pentyru marwor tanllyd" caredigrwydd sydd yn toddi caledwch calon dyn. Caredigrwydd Dafydd tuag at Saul, yn arbed ei fywyd, a orchfygodd ei ddigofaint. Felly gydag ymrysoniadau yr Ysbryd ar y meddwl, y maent oll i ddybenion caredig. Iachawdwriaeth ydyw y dyben mawr y mae pob cymmelliad yn

tueddu ato. Nid ydyw fod cymmhelliadau yr Ysbryd heb effeishio y dyben yn profi nad hyny yw y dyben, mwy na bod yr efengyl heb ateb y dyben hwnw, neu fod dynion heb dderbyn y Mab yn profi nad i'r dyben hwnw y rhoddwyd ef. Nid ydyw fod dynion yn defnyddio eu breintiau i ddybenion drwg, yn profi mai i'r dybenion hyny y rhoddodd Duw y breintiau hyn iddynt. Nid ydyw fod dynion yn ail groeshoelio Crist, a'i ddirmygu, chwaith yn profi mai i'r dyben hwn y rhoddodd Duw ef. Ond y mae yr Ysbryd, trwy ei ymrysoniadau caredig ar y meddwl, yn gweithredu fel cyfaill caredig. Ffurio cyfeillach rhwng dyn a Duw ydyw ei amcan. Dangos Duw yn deilwng o ymddried, cariad, a pharch ydyw tuedd ei holl argyhoeddiadau a'i oleuni; a chydymffurfio â'r amlygiadau hyn ydyw swm y gyfeillach o du y pechadur. Calon Duw sydd yma yn myned allan i geisio ac ymfyn calon y pechadur. Y mae yr Ysbryd yn cymmhell meddyliau dynion trwy y Gair yn dirion at bob dyledswydd, ac at Grist fel Gwardwr am iachawdwriaeth: ond y mae llawer o bechaduriaid yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân yn hyn, yn glynu yn gyndyn yn eu pechodau, er cael eu hargyhoeddi i raddau o'r perygl, a'u cymmhell i'w rhoddi ymaith, ac yn oedi dyfod at Grist, er cael eu cymmhell i hyny. Y maent hefyd yn esgeuluso ymaflyd yn eu dyledswyddau: nid ydynt nac yn gweddio nac yn profesu Crist, er teimlo cymmhelliadau cryfion i hyny; ac y maent o'r diwedd yn treulio ymaith y cymmhellion hyn, ac yn eu llwyr orchfygu. Y fath gyndynrwydd ac anufudd-dod a hyn sydd yn anfoddloni yr Ysbryd. Er nad ydyw tristwch yn briodol i Dduw, y mae yr hyn sydd yn ateb mewn rhan i hyn mewn dyn, sef anfoddlonrwydd, yn briodol i Dduw. Ac y mae hyn yn ei anfoddloni yn fawr. Y mae yn bechod sydd yn ei gyffroi ac yn ei gythryblu o herwydd ei fod yn ddirmyg ar y fath garedigrwydd mawr, ac yn cael ei gyflawni yn nhywyniadau y fath belydrau o oleuni.

Y mae ymlyniad cyndyn y pechadur mewn pechod yn y fath oleuni a than y fath gymmhelliadau yn cynnyrchu y fath galedwch, ac o'r diwedd y fath ddiystyrwch ar Grist a'r efengyl, fel ag i yru yr adyn hwnw allan o gyrhaedd moddion iachawdwriaeth. Y mae ymrysoniadau yr Ysbryd ar y meddwl, fel y dywedwyd, i ddyben caredig—yn tueddu at leshâd y pechadur. Nis gellir priodoli i Dduw ddyben gwahanol heb fod yn euog o gabledd. I ba raddau bynag y maent yn llwyddo, y maent o duedd dda: ac y maent mor gyfaddas er iachawdwriaeth fel y mae dinystr y pechadur yn cael ei dadogi arno ef ei hun, o herwydd eu dirmygu a'u diffodd. Y mae y gweithrediadau hyn yn dda ac yn gyfaddas yn eu natur. Y mae yn wir nad ydynt wedi cyrhaedd y graddau sydd yn sefydlu egwyddor sanctaidd. Cymmhelliadau heb gael buddugoliaeth ydynt: fel dyn yn cael

ei rybuddio o'i berygl, ond yn gwrthod y rhybudd. Cyfrifir y rhybudd yn dda, a chyfaddas i'w ddiogelu pan y byddai iddo gyfarfod âg ufudd-dod: felly gellir tadogi ei ddinysr ar wrthodiad y dyn o'r rhybudd.

Golygiad arall ar "dristau Ysbryd Duw" ydyw ei dristau fel y mae yn trigo yn ei saint. Dywedir fod Duw yn trigo yn y saint, a bod Crist yn cael ei ffurfio ynddynt, ac yn trigo trwy ffydd yn eu calonau. Dywedir hefyd fod yr Ysbryd yn trigo ynddynt, bod eu cyrph yn demlau i'r Ysbryd Glân, a'u bod o ran eu cyrph a'u heneidiau yn "breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd." Y mae y fath ymadroddion yn arwyddo nid yn unig arosiad gwastadol yr Ysbryd yn ei oruchwyliaethau, ond hefyd cyfranogiad y saint o'r Ysbryd yn ei natur a'i sancteiddrwydd. Arwydda eu bod, ar ryw olygiadau, yn cael eu cyfnewid i'r un peth a'r Ysbryd: "Yr hyn a aned o'r Ysbryd sydd Ysbryd." Y maent yn gyfranogion o'r un sancteiddrwydd, yr un syniadau, yr un tueddiadau, a'r un dybenion, ac yn cyfranogi, ond mewn graddau llai, o'r un dedwyddwch. Fel y mae yr haul, trwy gyfranu ei oleuni a'i wres ar rai cyrph tywyll, yn eu troi yn oleuadau i gyfranu goleuni fel yr haul ei hun, ond mewn graddau llai, felly "yr hwn a aned o'r Ysbryd sydd Ysbryd." Y mae y fath undeb rhwng y credadyn a Duw, fel y dywedir ei fod yn un ysbryd â Duw. "Yr hwn a gyssylltir â'r Arglwydd un ysbryd yw." Golygir fod yr undeb mor agos fel y mae teimladau y saint wedi eu cyssegru a'u meddiannu gan yr Ysbryd megys teimladau iddo ei hun. Gosodir allan fod y fath undeb rhwng Crist a'i bobl ag i beri fod ymddygiadau dynion at y naill mewn rhan yn gyfryw tuag at y llall. Y mae dirmygu y saint yn ddirmygu Crist; y mae rhoddi cwpanaid o ddwfr oer i ddysgybl yn enw dysgybl yn gymmwynas i Grist; y mae ymweled â'r saint mewn carcharau, eu dilladu yn eu noethni, a'u porthi yn eu newyn, yn garedigrwydd i Grist. Felly hefyd y golygir fod y fath undeb agos rhwng y saint a Duw trwy ei Ysbryd, fel ag i beri fod ymddygiadau tuag at y saint yn eu teimladau sanctaidd yn cael eu disgrifio fel ymddygiadau tuag at yr Ysbryd ei hun, yr hwn sydd yn awdwr o honynt—trwy fod yr Ysbryd wedi cyssegru a meddiannu eu teimladau iddo ei hun, fel ag i allu, drwy y teimladau hyn o eiddo y saint, gyfranogi o'r tristwch sydd yn cyrhaedd y teimlad y mae efe wedi ei gyssegru iddo ei hunan.

Y mae yr Ysbryd yn trigo yn y saint yn ysbryd cariad ac undeb rhwng y saint a'u gilydd. Ei dristau, gan hyny, ydyw rhwygo yr undeb yma. Tristau yr Ysbryd ydyw gofidio y saint yn eu teimladau sanctaidd: nid yn eu nwydau naturiol, a'u gofidio yn eu teimladau dynol, ond eu gofidio yn eu teimladau sanctaidd; archolli y teimladau hyny y mae Ysbryd Duw yn

awdwr o honynt; niweidio yr ysbryd Cristionogol yr hwn sydd ynddynt, rhwygo eu teimladau puraidd a sanctaidd tuag at Dduw a thuag at eu gilydd, eu sel dros ogoniant Duw, eu hawyddfryd am ledaeniad teyrnas y Cyfryngwr, a'u cariad tuag at eu gilydd a thuag at bawb: eu dirmygu yn y pethau y dygant fwyaf o sel drostynt, neu yr ymdrechant fwyaf o'u plaid, sef y pethau sydd yn ymfrost ac yn orfoledd iddynt; eu brathu yn y man mwyaf tyner, trwy ddirmygu y pethau sydd uwch law eu bywyd yn eu golwg.

II. *Pwy sydd yn tristau yr Ysbryd, a pha fodd?*

Nid ydyw y bai hwn byth yn cael ei osod yn erbyn paganaisid. Rhai yn meddu breintiau crefyddol sydd yn euog o'r bai hwn; y rhai a anufuddhant i Air yr Arglwydd, ac a ofidiant ei Ysbryd. Gosodir y bai hwn yn erbyn yr hen fyd:—"Dywedodd yr Arglwydd, Nid ymrysona fy Ysbryd i â dyn yn dragywydd, o blegid mai cnawd yw efe;" *Gen.* vi. 3. Yr oedd gan yr hen fyd foddion gwybodaeth. Yr oedd Crist, trwy ei Ysbryd, yn mherson yr hen batriarch Noah, wedi pregethu iddynt am amser maith. Eu gwaith, gan hyny, yn anufuddhau i gymmhelliadau yr Ysbryd ar eu meddyliau trwy weinidogaeth Noah, oedd yn tristau yr Ysbryd. Rhoddir y bai hwn yn erbyn cenedl Israel hefyd yn yr anialwch:—"Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd, na chaledwch eich calonau, megys yn yr ymrysonfa, fel yn nydd profedigaeth yn yr anialwch: pan demtiodd eich tadau fi, y profasant fi, ac y gwelsant fy ngweithredoedd. Deugain mlynedd yr ymrysonais â'r genhedlaeth hon, a dywedais, Pobl gyfeiliornus yn eu calon ydynt hwy, ac nid adnabuant fy ffydd: Wrth y rhai y tyngais yn fy llid, na ddelent i'm gorphwysfa;" *Salm* xcvi. 7—11. Gwel hefyd *Salm* cvi. 14—33; *Num.* xiv. 11; *Esa.* lxxv. 10; vii. 13; *Heb.* iii. 15—17.

Y mae cymmhelliadau yr Ysbryd pa le bynag y mae ei Air: *Neh.* ix. 20. Pan y mae y Gair yn cael ei ddyngu i ddynion, dywedir mai yr Ysbryd sydd yn eu dysgu. Yn ol y golygiad hwn, y mae pawb sydd yn ein gwlad yn euog o dristau yr Ysbryd. Nid oes neb yn ein mysg sydd yn arfer gwrandaw yr efengyl nad ydyw yn teimlo cymmhelliadau yr Ysbryd ar ei feddwl ar amserau. Nid ydyw pechaduriaid hyfion a rhyfygus heb deimlo y Gair yn ymaflyd gyda grym yn eu cydwybodau ar brydiau, fel Ffelix pan yn gwrandaw ar Paul yn pregethu. Y Gair, trwy nerth yr Ysbryd, a gyffrodd ei gydwybod fel y dychrynodd, er na ddychwelwyd ef byth—ond diffoddodd y cwbl ymaith. Pan y bydd y pregethwr yn egluro drwg rhyw bechod neillduol—y drwg yr wyt ti yn euog o hono—y mae Ysbryd Duw ar y pryd yn cyfarwyddo y pregethwr ac yn ei nerthu i ddynoethi drwg a pherygl dy fai neillduol

di, ac yn cario yr eglurhâd hwnw gyda grym mawr at dy gydwybod, nes dy ddal yn euog ger bron Duw, ac agor yn gynnil o' th flaen dy berygl tragwyddol. Gwasgwyd dy enaid ar y pryd i'r fath gyfyngder a dychryn, nes y gorfodwyd di i addunedu rhoddi y pechod neillduol hwnw ymaith byth. Adduned-aist yn benderfynol, ac addunedaist felly wrth yr Arglwydd. Yr oedd ei lygaid ef yn gweled hyn, a bydd yn dyst tragwyddol o hono. Ond wedi addunedu dan y cymmhelliad ar y pryd, ti a ddychwelaist at dy drafferthion bydol; dychwelaist i swm dy hen gyfeillion, neu dy deulu, a dychwelaist hefyd i'r un dull o fyw ag o'r blaen—dychwelaist at dy chwant, anghofiaist dy adduned i'r Arglwydd, a bwriaist ymaith o' th ystyriaeth yr achos mawr oedd yn dy frawychu ychydig oriau yn ol; anghofiaist y bai damniol a deimlaist yn gorwedd ar dy gydwybod y dydd o'r blaen, ac anghofiaist ei ddrygedd a ddynoethwyd o flaen dy wyneb mor ddiweddar. Anghofiaist hefyd ei niwed a'i felldith mor lwyr fel y mae wedi troi yn bleser i ti erbyn hyn. Y sarph oedd yn dy frawychu ddoe yw dy degan i chwareu â hi yn awr. Y mae ymddygiad fel hyn yn tristau yr Ysbryd. Yr wyt yn ymddwyn yn anffyddlaw'n tuag ato, ac yn tori dy addunedau iddo, gan ddirmygu ei garedigrwydd mawr. Ar adeg arall, yr oedd y pregethwr yn cymmhell rhyw ddyledswydd bwysig arnat. Annogai di i weddio, gan ddwyn yn mlaen gymmhelliadau cryfion o blaid ei annogaeth. Dadleuai barodrwydd Duw i wrandaw gweddi—dadleuai fod pethau mawr i'w cael trwyddi—eglurai y perygl o fywyd di-weddi—gosodai ger bron y calondid mwyaf i'r pechadur penaf weddio—a nodai esampiau o wrandawiad gweddi, gan dy annog i ddadleu holl rinwedd gwaed y groes o' th blaid, ac ymafyd yn yr addewid fel dy hawl dy hun. Yr oedd yr Ysbryd ar y pryd yn dwyn y gwirioneddau hyn at dy feddwl gyda'r fath oleuni a nerth fel nad oedd yn ddichonadwy i ti droi dy feddwl at ddim arall. Yr oedd yn rhaid i ti sylwi, deall, ac ystyried; ac nid oedd y galon yn ddim ond nôd i'r saethau. Ar y pryd, cymmerwyd dy enaid i fyny yn llwyr â'r mater: ac wedi dwys ystyriaeth, ti a ffurfiaist benderfyniad newydd—penderfyniad o fawr bwys—penderfyniad cryf i fyw bywyd arall rhag llaw. Bwriedaist ac addunedaist y caffai y cablwr fod o hyny allan yn weddiwr. 'Yn sicr,' meddit, 'yr wyf yn gweled fod gweddi yn gweddu i mi; ie, i mi bechadur mawr; a gwelaf fod i mi le i obeithio am wrandawiad. Y mae derbynaiad i rai tra anfedrus: a pheth sydd yn fwy rhyfedd, y mae derbynaiad i bechaduriaid mawr o'r fath ag ydwyf fi. A gwelaf hefyd fod eiriolaeth y Cyfryngwr o'm plaid, a'i waed yn ffordd i mi at y Tad. Yr ydwyf, gan hyny, yn penderfynu, O Dduw! mai gweddiwr a fyddaf o hyn allan; ac yr wyf yn dy alw di, O Arglwydd! yn

dyst o'm haddewid hon.' Ai ni ddygwyd dy feddwl lawer pryd, bechadur, trwy ystyriaethau a theimladau o fath y rhai a nodwyd, i addunedu gadael dy hen lwybrau a dychwelyd at yr Arglwydd? Ond wedi addunedu, dychwelyd at dy hen ffordd a wnaethost, anghofio dy addunedau i'r Arglwydd, a myned yn mlaen yn ddiweddi drachefn. Anwyl ddynion! y mae hyn yn tristan yr Ysbryd, ac yn damnio yr enaid!

PREGETH XXII.

BUDDUGOLIAETH CRIST AR EI ELYNION.

Esaiah xlii. 4.

“Ni phalla efe, ac ni ddigalona, hyd oni osodo farn ar y ddaear; yr ynyscedd hefyd a ddiagwyliant am ei gyfraith ef.”

Y MAE pob credadyn yn gweddio llawer am lwyddiant teyrnas Crist, ac yn arfer y moddion tebycaf i ddwyn hon yn mlaen. Y mae pob un sydd wedi cael iachawdwriaeth iddo ei hun yn dymuno i ereill hefyd gael gafael ar yr un iachawdwriaeth. Y mae yn troi ei gwrthddrychau yn offerynau i weithio drwyddynt ar ereill. “Dyro drachefn i mi,” meddai un, “o orfoledd dy iachawdwriaeth, ac â’th hael Ysbryd cynnal fi; yna y dysgaf dy ffordd i rai anwir,” &c. Y mae yn gysur mawr i bawb sydd mewn pryder ynghylch teyrnas y Cyfryngwr gael sicrwydd o’i llwyddiant, ac y mae hyn yn gymmheliad cryf i weithio o’i phlaid. Y mae pob ymdrech yn mysg dynion, da neu ddrwg, bydol neu grefyddol, yn tarddu oddi ar obaith rhyw wobwr. Pa le bynag y cyfarfyddwn âg ymdrech bwysig, y mae gobaith rhyw wobwr o’r tu cefn iddo. Y mae yr ymdrechwr yn disgwyl rhywbeth a ystyria efe yn werthfawr—yr hyn y tybia fod yn bossibl iddo trwy ymdrech ei gyrhaedd. Felly hefyd rhaid i’n holl ymdrechion o blaid teyrnas Crist gyfodi oddi ar obaith, a rhyw raddau o sicrwydd y bydd iddi ymledu dros wyneb yr holl ddaear.

Yr ydym yn derbyn sicrwydd am rai pethau dyfodol trwy ddeddfau natur. Nid oes dim petrusder yn meddwl neb sydd yma am ddydd a nos, haf a gauaf, yn mhen pum can mlynedd etto. Yr ydym yn gallu bod yn sicr o’r pethau hyn trwy eu bod yn effaith deddfau sefydlog natur.

Yr ydym yn cyrhaedd sicrwydd am bethau ereill sydd o’n blaen yn y dyfodol trwy graffu ar arwyddion yr amserau; ond nis gallwn gael sicrwydd trwy un o’r ddwy ffordd yna pa beth

fydd sefyllfa crefydd yn y byd o fewn y canrifoedd nesaf. Nid ydyw deddfau natur nac arwyddion yr amserau yn dyweyd dim am hyn. Y mae annuwioldeb yn gryf iawn eleni, er fod teyrnas Mab Duw wedi ei chyfodi yn ei ffurf bresennol er's deunaw can mlynedd. Er ei bod wedi bod yn ymryson â gallu y tywyllwch yr holl amser hwnw, y mae teyrnas y gelyn etto' yn gryf iawn. Y mae holl nerth y byd o blaid annuwioldeb. Wrth edrych ar arwyddion yr amserau, nis gallai un dyn benderfynu gyda sicrwydd y bydd i Fab Duw feddiannu yr holl genhedloedd.

Ond yn y prophwydoliaethau, yr ydym yn cael golwg ar agwedd crefydd yn y byd yn yr oesoedd a ddaw. Y mae prophwydoliaeth yn egluro i ni bethau nas gallai deddfau natur egluro dim arnynt—pethau nas gallasem eu gwybod unrhyw ffordd arall ond trwy brophwydoliaeth—pethau fuasant yn gorwedd yn hollol guddiedig oddi wrthym oni buasai y prophwydoliaethau.

Yn y brophwydoliaeth yr ydym yn cael benthg llygaid mwy treiddgar na'r eiddom ein hunain, i edrych yn mlaen i bethau tywyll, a fuasant yn aros yn hollol o gyrhaedd ein gwybodaeth oni buasai i ni gael y brophwydoliaeth. Os fynem wybod pa beth fydd helynt crefydd yn mhen cannoedd o flynyddoedd wedi i ni orphwys yn ein beddau, y mae y testyn yn ein hysbysu—"Ni phalla efe, ac ni ddigalona," &c. Fel hyn y rhaid iddi fod. Yr ydym yn arfer pryderu llawer am gwblhâd rhyw bethau felly. Pan y gwelwn ddyw wedi ymaflyd mewn rhyw amcan mawr iawn, amcan a gaiff effaith mawr ar y byd os dygir ef yn mlaen, yr ydym yn arfer hyderu llawer y cwblheir ef. Pan oedd Mr. Cobden yn ymdrechu o blaid masnach rydd, yr oedd pryder anghyffredin yn meddyliau dynion yn ei gylch: a phe argraphesid pob gair a ddywedwyd, nid wyf yn tybied y "cynnwysai y byd y llyfrau a ysgrifenasid." Edrychem arno yn amcan o bwys, ac yn debyg o gario effeithiau pwysig ar amgylchiadau pob dosbarth yn Mhrydain, a pharai hynny i ni bryderu llawer yn ei gylch. Ond nid ymgymmerodd neb erioed âg amcan mor bwysig yn achos trigolion y ddaear a Mab Duw. Y mae yn amcan anfeidrol fawr: y mae wedi bwriadu rhoddi gwyneb newydd i'r ddaear, dileu pob gorthrwm a thrais, a sancteiddio yr holl genhedloedd i Dduw—creu nefoedd newydd a daear newydd. Rhydd wyneb newydd i'r hen ddaear yma: a phe y caem ddyfod i'w gweled yn mhen oesoedd, nid adwaenem mo honi. Y mae wedi gafuelyd yn yr amcan yma bellach er's llawer blwyddyn, wedi dadleu llawer o'i blaid, a chyfarfod â rhwystrau mawrin anghyffredin. Ai nid yw efe bellach wedi cyfarfod â rhwystrau digonol i beri iddo droi yn ol? Na: y mae fy nhestyn yn egluro y cwbl:—"Ni phalla efe, ac ni ddigalona, hyd oni osodo farn ar y ddaear."

Yr ydym yn arfer pryderu llawer ynghylch achosion felly, pan y gwelwn ddyn wedi ymalyd mewn amcan pwysig, ac yn cyfarfod âg anhawserau lawer, ac yn hir iawn heb gyrhaedd ei amcan; fel y bu y gŵr boneddig duwiol hwnw, Mr. Wilberforce, yn ymdrechu o blaid rhyddid y caethion am dros ugain mlynedd. Yr oedd pryder mawr yn y wlad yr amser hwnw, a lliaws yn ymholi, A oes tebyg y cyrhaedda efe ei amcan? Y mae wedi parhau i ymdrechu am ugain mlynedd, a'r anhawserau yn parhau—pa fodd y mae yn teimlo? A ydyw yn coleddu rhyw oraith, ar ol yr holl ymdrech, y cyrhaedda efe yr amcan?

Y mae Mab Duw wedi bod yn ymdrechu gydag amcan pwysig—gyda golwg ar achubiaeth dynion—am lawer iawn rhagor nag ugain mlynedd! Y mae wedi gosod y moddion sydd mewn ymarferiad yn yr eglwys ar droed er's dros ddeunaw can mlynedd. Y mae y rhyfel wedi parhau yr holl amser yna.

Dyna'r hyn y mae Mab Duw wedi gosod ei fryd arno—gwneyd barn ar y ddaear—dwyn ei holl drigolion o dan ddeddf, o dan gyfraith Duw, o dan ei lywodraeth ei hun; dwyn y byd i drefn; gosod cyfiawnder ac uniondeb mewn ymarferiad yn mhob congyl o'r byd, yn mysg pob cenedl; rhyddhau holl blant Adda oddi wrth bob gorthrwm, a bwrw ymaith bob trais, a dwyn yr holl genhedloedd i gydymffurfio yn fanwl â chyfraith cariad at Dduw a dynion.

Sylwn,

I. Fod pob gau grefydd yn gorthrymu y natur ddynol, ac yn gwneyd cam â'r ddynoliaeth.

Gwna anghrefydd hyny hefyd. Y mae anghrefydd yn gwadu Duw. Nid oes dim cyfaddasrwydd yn y syniadau yna i ddiogelu iawnderau dyn. Y maent yn tynu ymaith bob amddiffyn oddi ar iawnderau dynolryw. "Dywedodd yr ynfyd yn ei galon, Nid oes un Duw." Pa beth sydd yn canlyn, wedi i blant dynion fwrw Duw o'u meddyliau? "Buan yw eu traed i dywallt gwaed, distryw ac aflywydd sydd yn eu ffyrdd," &c. Dyna'r gwir: ac y mae y dadguddiad dwyfol yn rhoddi golygiad felly arno yn mhob amgylchiad. Os cywir y golygiad nad oes un Duw, nac un byd i fyned iddo wedi ymadael â'r byd hwn, ond fod y creadur yn myned i ddiddymdra yn angeu, nid oes dim pwys yn achos dyn. Nis gall efe ddioddef trueni mawr, na mwynhau dedwyddwch mawr, os ä y cwbl drosodd yn y byd hwn. I'r graddau y mae dyn yn alluog i ddiodeff trueni, neu fwynhau dedwyddwch, i'r graddau hyny y mae yn greadur i gydymdeimlo âg ef. Felly y mae gyda chreaduriaid ereill. Nid ydym yn teimlo llawer o dosturi tuag at y gwybedyn wrth ei weled wedi tori ei goes; ond wrth weled y ceffyl wedi cyfarfod â'r anffawd, ni deimlwn fwy, ac y mae yn iawn i ni wneyd. Ar y golygiad fod dyn i

ddiweddu y cwbl yn angen, nid ydyw yn wrthddrych i dosturio llawer wrth ei drueni; nid oes dim pwysig iawn yn perthyn i'w achos; nid oes lawer o bwys ynddo os a y cwbl drosodd mewn ysbaidd byr. Ond ar y golygiad fod dyn yn greadur i barhau byth, mae ei achos yn dyfod yn achos o annhraethol bwys. Y mae yma drueni neu ddedwyddwch diddiweddd o'i flaen: y mae ei achos o bwys annhraethol. Y mae dyn yn ddeiliad byd tragwyddol—byd diddarfod, lle y mae dedwyddwch a thrueni wedi eu perffeithio, a lle y mae pob peth yn fawr a phwysig. Y mae hyn yn gosod pwys annhraethol ar achos dyn. Nid oes dim yn y syniadau a goleddir gan anghrefydd sydd “yn ofn i weithredoedd drwg.” Os gellir gochel cyfraith y wlad, dyn a ydyn yn ddiogel; ond y mae y Beibl yn agor o'n blaen fyd tragwyddol. Y mae yn bygwth cosp ar y troseddwr er iddo allu ysgoi y gyfraith wladol—yn dywedyd, “y dwg Duw bob gweithred i farn;” a bod yn “rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist.” Y mae yma rywbeth yn cael ei godi i fyny yn “ofn i weithredoedd drwg,” hyd yn oed yn yr amgylchiadau hyny nad oes neb yn gweled ond y Duwdod ei hunan. Nid oes unrhyw egwyddorion yn amddiffyn iawnderau plant dynion ond egwyddorion y Beibl. Os edrychwn ni ar gau grefyddau y byd, ni a welwn eu bod wedi eu lliwio â gwaed. Gosodir hwy allan yn y Beibl fel “bwystfildod:”—y pedwar bwystfil a welodd Daniel yn cyfodi o'r môr, â dannedd o haiarn ganddynt, hen lywodraethau mawr paganaidd y byd oeddynt; a gallem feddwl i holl greulonderau y llywodraethau hyny gael eu himpio i gau-grefyddau y byd. Pa fath ffrwyth sydd yn tyfu ar ganghenau prenau crefyddau y byd paganaidd? Ffrwyth chwerw iawn. Nid yw Mahometaniaeth nemawr gwell na Phaganiaeth: trwy dywallt gwaed y cyfodwyd hi; ac y mae egwyddorion gwaedlyd yn rhedeg drwy y “*Coran*.” Aeth Pabyddiaeth heibio iddynt oll. Y darn puraf o ddrygioni a ddaeth o uffern i'r ddaear yw Pabyddiaeth. Nid oedd dim yn rhy atgas gan y bwystfil melldigedig hwn ei wneuthur. Fel hyn y mae pob gau grefydd yn gorthrymu ac yn darostwng dyn. Ni chafwyd dim egwyddorion yn y byd, cyfaddas i “osod barn ar y ddaear,” ond egwyddorion teyrnas Crist. Y mae y rhai hyny yn gyfaddas i gyd. Y mae pob gau grefydd yn iau hynod o haiarnaidd ar ysgwyddau dynion; ond y mae Mab Duw wedi bwriadu ac yn penderfynu y mŷn efe “osod barn ar y ddaear,” a dwyn plant dynion i benderfynu eu holl gwerylon trwy farn. Ni chânt fyned i ryfela, yn mhen ychydig o flynyddoedd etto; o blegid fe fydd yr efengyl wedi rhoddi attalfa ar hyny. Yr wyf yn hollol gredu mai moddion wedi disgyn o'r nefoedd yw y Gymdeithas Heddwch, a bod holl allu Duw wrth ei chefn. Rhaid i benau coronog y byd ddyfod cyn hir i settlo eu cwerlyon trwy farn:—“ni ddygant ryfel mwyach.” Os digwydd i

ymrafael godi rhyngddynt a'u gilydd, rhywbeth tebyg fel pe y gwelem ddwy ddafad yn ymladd a fydd hyny; byddant wedi anghofio pa fodd i ymladd. Ceir eu gweled yn cario yr hen *gannons* mawr yna yn llwythau gyda'r *railways* i'w toddi yn y *foundries*, i wneyd *steam engines* i argraphu Beiblau â hwy: fe ddyfethir yr arfau dinystr yna o'r byd. Dyna'r drefn y mae yr efengyl am ddwyn ar y byd. Bydd barn ar y gorseddfeingciau y pryd hyny: "y brenhinoedd yn dadmaethod, a'r brenhinesau yn fam-maethod." Byddant yn teimlo tuag at eu plant fel y teimla tad a mam tuag at eu plant: bydd hapusrwydd eu deiliaid yn werthfawr yn eu golwg, a bydd hynus yn ddigon ar unwaith i roddi terfyn tragwyddol ar ryfel. Bydd barn yn mhob congl:—bydd y "barnwyr yn heddychol, a'r trethwyr yn gyfiawn," a ffurfwyr y cyfreithiau yn gyfiawn. Rhaid i chwi, os byddwch byw yn y mil blynnydoedd, settlo eich cwerylon cymdeithasol trwy farn. Bydd y fam hefyd yn ceryddu y plentyn bach wrth farn; hi a ofala am fod y cerydd yn ol y Beibl.

II. *Y mae hyn i gael ei ddwyn yn mlaen trwy roddi egwyddorion gwell i'r byd.*

Nid oes dim yn bossibl gwellhau y byd ond trwy roddi egwyddorion gwell iddo:—"Yr ynysioedd a ddisgwyliant am dy gyfraith." Y mae egwyddorion yr efengyl i gael eu lleadaenu dros y byd i gyd. Dyma yr unig feddyginiaeth a all wellhau y trigolion, ac y mae yn amhossibl i hon fethu. Y mae cyfaddasrwydd yn yr efengyl i wellhau y byd, i gasglu yr holl genhedloedd i addoli yr un Duw, a hwnw yn Dduw cariad—Duw'r cariad pur ei hunan. Nid oes yn bossibl i ni ei addoli ef yn iawn heb i ni garu pob peth y mae efe yn ei garu, a chasau pob peth y mae efe yn ei gasau. Y mae hyn yn sicr o effeithio i beri i ni lunio y cwbl mewn cariad—i gasglu yr holl genhedloedd at yr un Duw, a'u huno yn un—uno y cwbl yn un yn yr un Cyfryngwr: cyssylltu y cwbl ynghyd, a'u huno trwy ffydd â'r Cyfryngwr fel pen mawr y corph mawr fydd yn y byd; a thrwy uno y cwbl yn yr un pen, dwyn y cwbl i'r fath undeb a chydymdeimlad fel y bydd dedwyddwch un yn ddedwyddwch i'r llall. Dyna ydyw amcan mawr yr efengyl—rhoddi yr un Ysbryd i drigo yn y cwbl, ac i ysgogi y cyfan. Y mae rhyw afiechyd yn bod, a elwir "dirgrynfeydd." Y mae yn taflu yr aelodau o fod tan lywodraeth y meddwl; y mae y meddwl yn colli ei awdurdod ar yr aelodau; a'r canlyniad yw, y mae yr aelodau yn troi i ddyfetha eu gilydd: y mae yn myned yn wrthryfel mawr trwy yr holl gyfansoddiad. Pan oeddynt yn cyd-dynu o dan lywodraeth y meddwl, yr oedd yr un ysbryd yn eu llywodraethu, ac yr oedd hyny yn peri eu bod yn gweithredu gyda chyssondeb. Rhywbeth tebyg ydyw pechod. Y mae wedi taflu

holl aelodau yr holl gorph mawr o ddynolryw o fod dan lywodraeth yr un Ysbryd:—"pawb yn ceisio ei hunan;" pawb yn gweithredu yn ol ei ewyllys ei hun, ac yn ei geisio ei hun. Y mae hyny, o angenrheidrwydd, yn arwain dynion i niweidio eu gilydd. Ond pan y caiff yr efengyl ei phwrpas, yr un Ysbryd fydd yn trigo yn mhob aelod, ac yn arwain y cyfan, ac yn cynhyrfu pob ysgogiad ar bob aelod; ac fe bair hyny fod yr oll yn cydweithredu mewn oydgordiad.

III. *Y mae y testyn yn tybied fod anhawsderau ar ei ffordd.*
 "Ni ddigalona efe." Y mae hyn yn tybied fod yma ddiagon o resymau i ddigaloni pawb arall. Y mae llawer iawn o ffurlywodraethau y byd yn sefyll yn rhwystr i grefydd. Y mae lliaws o frenhinoedd y ddaear â'u hwynebau yn erbyn teyrnas Crist. Y maent etto, yn gystal ag yn nyddiau y Salmydd, "yn ymgynghori ynghyd yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist ef;" ond ni saif y cwbl ddim o ffaen Mab Duw. Ni welsoch chwi erioed mor didrafferth y mae efe yn gallu trin y frenhinoedd. Weithian, rhydd blw ac hen frenin erledigaethus i blith y meirw; bryd arall, y mae yn goruwchlywodraethu y mesurau y maent yn eu bwriadu er drygioni, i wneyd cymmwynas i'w achos. Ac fe fydd efe yn trin y ddaear yma wedi i'r brenhinoedd sydd arni yn awr farw. Y mae wedi ei ordeinio i fod yn "frenin yn dragywydd." Y mae llwch pen Alexander Fawr—gŵr a fu yn ddychryn i'r byd unwaith—yn rhyw ddyrnaid bach mewn beddrod yn y dwyrain yna: nid oes yn o ddim llonaid cwpan o hono heddyw, ac nid oes ol coron arno; ond y mae y pen fu o dan y goron ddrain o dan goron gogoniant heddyw, a hono yn llawn perlau. Y mae yno ryw ddyrnaid bach o lwch mewn rhyw fedd-gell yn y dwyrain, fu yn gwneyd i fyny ddwylaw Cyrus, y rhai fu yn dal teyrnwialen oedd yn ddychryn i holl genhedloedd y ddaear; ond nid oes dim ol teyrnwialen ar y llwch heddyw. Ond bendigedig! y mae y llaw hono fu o dan hoel ar y pren yn dal teyrnwialen heddyw: a theyrnwialen ac y mae pob cythraul yn uffern yn ei hofni, a phob angel yn plygu mewn ufudd-dod iddi. Y mae yma rwystrau yn yr egwyddorion drwg sydd yn y byd; ac y mae llawer o honynt yn ymddangos i ni yn gryfion iawn, wedi gwreiddio am ganrifoedd yn nghalonau cenedloedd cyfain, ac yn meddu dylanwad grymus arnynt. Ond er eu bod yn ymddangos mor gryfion i ni, nid ydynt ond megys mŵg i Fab Duw. Cryfder y gau grefyddau ar feddyliau dynion yw eu bod yn gallu dallu eu meddyliau, a pheri na feddyliaent pa beth sydd wirionedd. Pe y ceid rhyw ffordd i'w dwyn i edrych i mewn i'r Beibl, ni byddai hwnw ddim yn hir cyn dywedyd wrthynt fod Duw o'r tu cefn iddo. Nid oes yma ddim rhwystrau yn

ymddangos i Fab Duw. Y mae anghrediniaeth y galon ddrwg yn rhwystr yr ydym ni yn teimlo oddi wrtho; ond ni raid i Fab Duw ddim ond ei egluro ei hun—ni raid iddo ond dywedyd, “Moes yma dy fys, a gwel fy nwyllaw,” &c.—ni raid iddo ond dadguddio ei ogoniant, ac fe â dy galon ar ei ol. Dim ond i ti gael arogl arogl ei enw—dim ond cael llygadu arno fel Ceidwad pechaduriaid—cael golwg ar ei iawn mawr yn sail cymmod, fe ladd dy ragfarn, a thi a ddeui i redeg ar ei ol mewn moment. Y mae ynddo y fath ogoniant nad oes modd peidio ei garu, ond cael golwg arno.

“Ni phalla efe,” beth bynag yw y rhwystrau; o blegid y mae wedi gweled y rhwystrau i gyd cyn cychwyn. Y mae wedi gweled yr anhawsderau i gyd cyn gosod y rhyfel ar droed. Ni ddaw yna un saeth oddi ar un bŵa o uffern, nad oedd hi ar ei lyfr er tragwyddoldeb. Y mae wedi rhagweled yr holl anhawsderau cyn cychwyn. “Ni ddigalona efe;” o blegid nid oes dim yn anhawdd iddo. Buaswn innau yn mentro pethau pur fawr pe buaswn yn sicr y gallaswn eu gwneuthur; ond y mae Mab Duw yn meddu y fath stôr o allu fel nad oes dim yn anhawdd iddo. Nid yn unig nid oes dim yn ammhossibl iddo, ond nid oes dim yn anhawdd iddo. Ni theimlodd Crist erioed ddim yn anhawdd. Nid oedd creu'r byd ddim yn anhawdd iddo ef—dim ond dyweyd gair. Heb law hyny, y mae wedi dyfod trwy yr anhawsderau mwyaf eisoes. Yr oedd y gyfraith yn ei erbyn i feddiannu y Cenhedloedd gynt; ond y mae wedi ei mawrhau a'i hanrhydeddu, a pheri nad yw yn rhwystr mwyach, o blegid y mae wedi cael iawn. Nid oes ganddo ddim rhyw galedwaith i'w ofni mwyach. Y mae wedi dyfod trwy y gwaith caled; y mae wedi darfod chwysu'r gwaed, a hyny o ddiodef ag oedd yn angenrheidiol. Nid oes ganddo ddim yn ol heb ei gyflawni, ond yr hyn a all gyflawni gyda phleser ar ddeheulaw y mawredd yn y nefoedd. Gan ei fod wedi myned trwy'r caledwaith, gan iddo ein heddychu â Duw trwy ei farwolaeth, mwy o lawer y'n hachubir trwy ei fywyd. Ni ddigalona efe ddim, o blegid y mae yn sicr o bwysu fwy-fwy ar wynt y gelyn, nes ymlid ei deyrnas allan o'r byd.

Ni bydd dim o ôl ei deyrnas ar y byd yn fuan. A oes yma rai yn y dyrfa hon yn parhau i ddal arfau gwrthryfel yn erbyn Mab Duw? A oes yma rywrai yn parhau i wrthryfela yn erbyn ei amcanion mawrion ef? A oes yma feddwon yn y dyrfa? A oes yma dyngwyr? Anwyl enaid! yr wyt yn mentro dy drech. Os mynit achub dy enaid, dyro'th arfau i lawr. Nid oes dim troi yn ol ar ein brenin ni: na, nid oes dim yn haws iddo na dinystrio ei elynion. Os mynwch wared eich enaid, yr unig ffordd i hyny yw cusanu'r Mab—gwneyd a allom i ledaenu ei deyrnas. Y mae Meros i gael ei dinystrio, am na ddaeth allan

yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn. Nid oes neb yn ddiogel ond y rhai sydd yn milwrio o blaid ei deyrnas.

Byddwch chwithau yn galonog, y rhai sydd yn ymdrechu o blaid ei achos ef. Y mae mwy o'ch plaid nag a all fod i'ch erbyn. Y mae digon o'ch plaid. Y mae yn rhaid i deyrnas Crist lwyddo:—y mae gallu Duw o'i phlaid—y mae addewidion Duw o'i phlaid. Ni ogoneddir Crist ond yn ei saint. Myrdd o golledigion wedi eu cadw trwy ei waed, yn ei foli mewn purdeb i dragwyddoldeb—nid oes dim a all ei ogoneddu fel Ceidwad ond hyn. Dyma ei wobwr bennodol ef, ac y mae yn addawedig iddo. Cyfrifwn ninnau yn fraint gael gwneuthur y cynnorthwy lleiaf tuag at ddwyn ei achos mawr yn mlaen. Y mae gwaith annhraethadwy mewn tipyn o anwyldeb at enw ac achos Mab Duw. AMEN.

PREGETH XXIII.

CWYN RHWNG YR ARGWLWYDD A PHEYDAIN.

Hosea iv. 1.

“Canyw y mae cŵyn rhwng yr Arglwydd a thrig-lion y wlad, am nad oes na gwirionedd, na thrugaredd, na gwybodaeth o Dduw, yn y wlad.”

PRIDOL iawn ydyw cyffelybu y byd hwn a'i genhedloedd terfysglyd i'r môr, sydd yn wastad yn aflonydd; ac y mae yn hollol briodol cyffelybu cyfnewidiadau gwladol pwysig i gyfodiad bwystfil o'r môr; o blegid y mae ymdaflad bwystfil mawr i fyny o'r môr yn peri cynnhyrriad dirfawr yn y dwfn, ac yn gwasgaru tonau i gryn bellder. Felly hefyd y mae cyfnewidiadau pwysig yn anfon tonau dros yr holl genedl, ac yn cynnhyrfu holl gonglau y wlad, yn tynu sylw cyffreainol, ac yn creu trafferthion a gofalon mawr yn mhob calon. Y mae ychydig o gyfnewidiad wedi digwydd yn ddiweddar yn llywodraeth Prydain, ac fe allai fod chwaneg yn cael ei fwriadu: ond i ba raddau y cyflawnir y bwriadau ni wyddom, ac fe allai na byddai yn fuddiol i ni gael gwybod. Pa un bynag ai trugaredd, ynte barn, ydyw y peth ynddo ei hun, fe allai ei bod yn rhy gynnar i benderfynu etto—pa un ai bendith, ynte melldith i'r genedl fydd y canlyniadau, y mae gormod o gymmylau a thywyllwch o amgylch gorseddfainge Duw i ni allu gweled yn awr. Ond y mae yn hollol amlwg mai effaith drwg y mae y cyfnewidiad bychan hwn wedi ei adael ar y rhan fwyaf o'r genedl hyd yma. Y mae wedi tynu sylw pob gradd, o'r cartodyn hyd y pendefig; y mae wedi llyngcu meddyliau yr holl genedl bron oddi wrth y pethau mwyaf eu pwys. Y mae wedi peri iddynt, i raddau helaeth, anghofio pethau mwy perthynasol iddynt; ac y mae wedi peri iddynt anghofio Duw a byd arall. Y mae pawb dan bwys gofalon y senedd; ac y mae pob calon yn senedd-dy—unwaith y bydd yn llunio cyfreithiau newydd y dyddiau hyn. Y mae pob tafod yn areithio yn y senedd. Y mae y werin yn gyffredin yn ddigon abl i ddysgu y llywodr-

aethwyr. Y mae yr holl genedl yn ymffrostio ei bod wedi cyrhaedd uwch gwybodaeth na'r oes o'r blaen; ac yn ngrym y wybodaeth uchel hon, ei bod wedi cael allan hawl dynolryw i ragorfraint uchel, na wybu yr oesoedd o'r blaen am dani; ac na chawsant, gan hyny, ei mwynhau. Y rhagorfraint oruchel, meddant, ydyw hawl dyn, fel deiliad, i rodde ei lais o blaid neu yn erbyn ymgeisydd gwladol: ac y mae holl dai y wlad, o'r bwthyn hyd y palas, yn cael eu llenwi âg ymddiddanion seneddol hwyr a boreu. Y mae yr holl ddinasoedd, yn y tai a'r heolydd, yn llawn o'r un peth. Buasai y fath ymddygiad yn briodol i'r byd hwn pe na buasai fod byd arall i fyned iddo ar ol hwn. Gallen feddwl oddi wrth ymddiddanion y genedl, mai yn y byd hwn y byddant byth, ac mai cael hwn yn gysurus fydd yn fywyd tragwyddol iddynt. Y mae ymddiddanion y genedl am y pethau hyn yn atheistaidd. Priodolant y cwbl i ddynion; canmolant y rhai sydd yn gweithredu yn ol eu tueddiadau hwy, a beiant y rhai sydd i'r gwrthwyneb. Ond nid ydynt yn gweled llaw yr Arglwydd ynddynt, nac yn ystyried pa beth ydyw llais Duw drwyddynt. Y mae llawer yn holi yn fanwl pa fodd y mae rhwng trigolion y wlad a'u gilydd, a pha fodd y mae rhwng y wlad hon a gwledydd ereill; ond nid ydynt byth yn gofalu pa fodd y mae rhwng y wlad a Duw. Pe y clywai y genedl fod gan un o wledydd galluog y byd gŵyn pwysig yn erbyn y wlad hon, gadawai hyny argraph ddofn ar eu meddyliau; ond nid ydyw yn werth ganddynt edrych a oes cŵyn gan Dduw y nefoedd yn erbyn y wlad hon. Oid y mae dedwyddwch a thrueni y wlad, ei llwyddiant a'i hafwyddiant, ei chynnydd a'i hadfeiliad, yn troi yn gwbl ar y modd y mae pethau yn sefyll rhyngddi a Duw. Y mae llawer gwlad yn ymddiried am ei heddwch â gwledydd ereill i'w chyfoeth, ei byddinoedd, ei chyfeillion, ei doethineb, ei henw, a'i hanrhydedd; ond anwadal ydyw y pethau hyn oll—siomedig a thwyllodrus. Diogelwch gwlad yn gwbl ydyw heddwch â Duw. Heb Dduw, ofer fydd y pethau a enwyd i gyd: ond gyda Duw, diogel fyddwn heb y pethau a enwyd. Yr wyf am gynnyg galw eich sylw oddi wrth dywysogion y byd hwn, oddi wrth frenhinoedd, oddi wrth y pen capteniaid, oddi wrth yr areithwyr hyawdl, ac oddi wrth derfysg y bobloedd, at Dduw; ac os gallwn ddeall pa fodd y mae pethau yn sefyll rhwng y wlad a Duw, gallwn wybod yn sicr pa ganlyniadau sydd i'w disgwyl.

Y mae llawer yn siarad, ond yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; y mae llawer yn cyhoeddi yn uchel o ba du i'r ddad y maent yn sefyll, ond Duw biau penderfynu y mater; y mae llawer yn mentro dyweyd pa fodd y bydd yr amseroedd a ddaw, ond Duw sydd yn gwybod; y mae llawer yn codi hwyliau, ond Duw sydd wrth y llyw; y mae llawer wrth glustiau brenhinoedd, ond

Duw sydd wrth eu calonau. Yr wyf yn bwriadu cynnyg profi mai fel y dywed y testyn yn hollol y mae rhwng y wlad hon a Duw. Y mae cŵyn rhwng yr Arglwydd a'r wlad hon. Ni a sylwn gan hyny—

I. *Pa beth ydyw ystyr y gair "cŵyn" yn y Beibl.*

Y mae iddo amryw ystyron. Weithiau y mae yn arwyddo *cydymdeimlad*. Dywedir fod holl geraint a chydabod Job wedi cwyno iddo (*pen. xlii. 11*); *h.y.*, wedi cydymdeimlo âg ef. Bryd arall, defnyddir y gair i ddynodi *gofid*: "Gollyngaf fy nghŵyn dros gof;" *h. y.*, ei ofid (*Iob ix. 20.*): ac weithiau i arwyddo achos, pa un bynag ai da ynte drwg fyddo, "Y cŵyn ni wyddwn a chwiliwn allan" (*Iob xxix. 16*). Ond yn y testyn hwn y mae yn arwyddo achwyniad neu anghyttundeb cyfreithiol. Y mae gan Dduw amryw o'r fath gŵynion yn erbyn dynion:—1. Y cŵyn gwreiddiol yn erbyn holl ddynolryw, yr hwn sydd yn gollfarn ar bob dyn. 2. Cŵyn barnedigaeol yn erbyn yr annuwolion, a chŵyn ceryddol yn erbyn ei saint. 3. Cŵyn a ddadguddir mewn rhagluniaeth. Y mae goruchwyliaeth rhagluniaeth yn cario llais Duw yn wastadol at ddynolryw; y maent fel cenhadon oddi wrtho ef at ddynion. Ein dyledswydd ydyw sylwi yn fanwl pa beth ydyw cenadwri pob tro mewn rhagluniaeth tuag atom; gan fod rhagluniaeth yn gyffredin yn hysbysu pa fodd y mae pethau yn sefyll rhyngom a Duw. Y mae heddwch, daioni, a chysur, yn hysbysu i raddau fod pethau yn dda rhwng gwlad a Duw; ac y mae drygyfod a barnau yn sicrhau i ni fod gŵg Duw arni.

1af, Y mae Duw yn ei ragluniaeth yn dadguddio fod cŵyn rhyngddo ef a phersonau neillduol. Weithiau y mae ganddo gŵyn ysbrydol, anweledig i bawb. Y mae yn ceryddu un yn aml trwy guddio ei wyneb oddi wrtho. Ond cŵyn mwy cyhoeddus a gospir yn gyhoeddus mewn rhagluniaeth.

2il, Y mae yn dadguddio hefyd fod cŵyn rhyngddo a thenuoedd.

3ydd, Y mae cŵyn rhyngddo a gwlad. Y mae Duw yn gweithredu yn ei ragluniaeth yn gyffredinol tuag at wlad heb wneyd rhagor i fanylrydd rhwng y cyfiawn a'r drygionus: ac ni a ymdrechwn yn gyntaf i brofi hyn; yn ail, i'w gyfiawnhau.

(1.) Mi a ymdrechaf i brofi hyn. Y mae pechodau yn y dyddiau hyn yn ymladaenu dros y wlad, yn enwedig y pechodau sydd yn tynu barn ar wlad. Felly yr oedd yn yr hen fyd o flaen y diluw; ac felly hefyd yr oedd yn Sodom a Gomorah cyn eu llosgi â than o'r nefoedd. Yr oedd trythyllwch yn gyffredin iawn ynddynt. Ond y mae Duw yn gwneyd ychydig o wahan-iaeth. Cyfeirid barnau Duw yn gyffredin yn erbyn pechodau amlwg, ac ar y prif bechaduriaid; ond gwnaeth Duw wahan-

iseth rhwng y cyfiawn a'r drygionus yn y diluw, yn llosgiad Sodom a Gomorrah, yn yr Aipht, ac yn y Môr Coch. Pan y byddo dinas gyfan, neu wlad, yn cydymffurfio yn y bai, y mae Duw yn dwyn barn gyffredinol arnynt. Gall fod cydymffurfiad yn y bai yn y wlad heb i'r wlad fod oll yn gorwedd mor ddwfn ac amlwg yn y pechod a'u gilydd. Un yn meddwi, a'r llall yn gweled, ond heb ofidio o herwydd hyny, na dyweyd dim yn erbyn ei bechod, na gweddïo drosto, na gwneyd un ymdrech i'w waredu oddi wrtho. Y mae hyn mewn effaith yn gydymffurfiad â'i bechod.

(2.) Ni a geisiwn chwilio pa fodd y cyfiawnheir gwaith y Duw mawr yn tywallt barnau ar wlad am bechodau rhai yn y wlad, a thywallt y barnau hyny ar bersonau dieuog o brif bechodau y wlad? Gellir ateb fel hyn:—

(1af.) Y mae cydymffurfiad y wlad yn y pechod yn cyfiawnhau hyn. Un sydd yn meddwi, ond y mae cant yn ei weled, ac yn chwertthin am ei ben—heb alaru am ei bechod, ac heb wneuthur un ymdrech yn ei erbyn; gan hyny, y maent yn cydymffurfio âg ef. Pa ham y mae y gosp am feddwod yn disgyn ar y sobr? Am gydymffurfio âg ef. Pa ham y mae yr eglwys yn dioddef gyda'r byd? Am gydymffurfio gormod â'r byd hwn—am fod mor gysglyd, mor anwadal, mor ddi-sêl, ac mor ddi-alar am bechod. Un sydd yn cyfiawni y pechod, ond y mae llawer wedi bod yn ei anwesu; yn y plentyn y torodd y cornwyd allan, ond y rhieni, fe allai, a fagodd y chwant yn ei natur ef. Y mae diffrwythder y naill yn annog ac yn cefnogi llygredigaeth y llall. Y mae diota y crefyddwr yn cefnogi meddwod y byd; geirian gwag y crefyddwyr a annogant eirian cableddus, rhegfeydd, a llŵon yr annuwiol. Y mae gwisgiadau ac agweddan coegfalch crefyddwyr yn annog y byd i odineb. Y mae diofalwch ac aflywodraeth penau teuluoedd yn eu tai yn swcwr i gydorwedd ac anlladrwydd. Dan nodded cannoedd o benau teuluoedd moesol eu hunain y cenhedlir miloedd o blant godineb. Os ydyw y godinebwyr yn ammharchu eu cyrph eu hunain, ac yn eu hoffrymu i Satan yn offerynau godineb, y mae y penteulu yn gwneyd yr un peth â'i dŷ. Rhydd yr ieuengtyd eu cyrph i Satan, yn offerynau godineb; a rhydd y penteulu ei dŷ i Satan, yn lle iddynt bechu. Pa ragoriaeth sydd rhyngddynt?

(2il.) Y mae diffrwythder crefyddwyr yn eu haddfedu i farn, cystal a phechodau cyhoeddus y byd. Y mae Duw wedi neillduo y duwiol i fod yn dyst drosto ef yn erbyn annuwioldeb y byd. Dyna ddyben dy alwad allan o'r byd; sef, i ti dystio yn erbyn ei bechodau. Dyna ddyben dy argyhoeddi, sef dangos drwg pechod i ti, i'r dyben o'th gyfaddasu i ddywedyd am ei ddrwg wrth ereill. Dyben dy oleuo am Grist, dy gynnal gydag achos Crist, ydyw er mwyn i ti wneyd daioni dros Grist, trwy

fod yn "halen y ddaear," ac yn "oleuni y byd," ac yn filwr i Grist. Os halen diflas ydwyf, y mae yn iawn dy dasu ymaith; os canwyll heb olen, y mae yn iawn dy dynu oddi ar y bwrdd; os milwr ffals, y mae yn iawn dy golli; os gwas diog, y mae yn iawn dy "dasu i'r tywyllwch eithaf!" Os nad wyt yn gwneyd rhyw ddaioni yn y byd, nid wyt yn ateb dyben dy alwedigaeth; gan hyny, y mae yn iawn dy daraw gyda'r rhai ni alwyd. Os bod fel y byd a fyny, y mae yn iawn i Dduw dy gymmeryd felly; ac os fel y byd yr ymddygi at Dduw, fel y byd y dylai Duw ymddwyn tuag atat tithau. Y mae diffwrthder crefyddwyr yn gydymffurfiad âg annuwioldeb y byd, ac yn gefnogaeth iddo, fel y mae yn esgusodi annuwioldeb y byd. Fel hyn yr ymresymir gan bechaduriaid:—'Gan fod y crefyddwr fel hyn, gallaf finnau fod fel efe; ie, y mae yn oddefol, os nad yn iawn, i mi fod yn waeth nag ef.' Caniatâ yr annuwiol iddo ei hun yr hyn a gabla mewn crefyddwyr; cyfiawnhâ bechod ynddo ei hun yr hwn a gondemnia mewn crefyddwr. Os bydd crefyddwr yn byw yn yr un pechod ag yntau, ystyria hyny yn ddadl ddynol dros y pechod hwnw. Ond nid ydyw fod crefyddwr yn byw ynddo yn gwneyd y pechod yn ddim gwell, ond yn hytrach yn waeth. Meddylia yr annuwiol ei fod yn gyfiawn, os gall gadw ar yr un tir a'r crefyddwr, pryd y mae y ddau yn myned law yn llaw i ddistryw.

(3ydd.) Y mae yn gwadu drwg y peth, gan fod y crefyddwr yn profesu ei fod yn rhyngu bodd Duw: ac y mae yr annuwiol yn barnu fod ymarferiad crefyddwr â rhyw bechod yn brawf digonol ei fod yn hollol ddiniwed. Dywedant yn fynych, 'Ni chredaf byth fod y peth a'r peth yn bechod; o blegid yr oedd hwn a hwn, yn grefyddwr mawr, gyda mi ar y pryd, ac yn cyflawni yr un peth.' Ac fe allai y dywedant yr un peth wrth y Barnwr yn y "dydd mawr." 'Pa fodd y cyfyd y gŵr ei wyneb?' meddai. 'Ni buaswn i byth yn mentro gwneyd y peth, oni buasai i mi weled hwn a hwn yn ei wneyd; ac yr wyf yn barnu y gŵr efe fwy na myfi.' Y mae pechodau crefyddwyr yn gapteiniaid ar fyddinoedd o bechodau. Dichon un crefyddwr arwain lliaws i'r un camwedd.

(4ydd.) Y mae pechod crefyddwr yn gefnogaeth ar yr annuwiol i gynnyddu mewn drygioni. Rhaid i'r annuwiol gael rhagori ar grefyddwr mewn pechod. Dywed, 'Y mae y crefyddwr yn diotta, gan hyny y mae yn hollol briodol i mi feddwi; y mae y crefyddwr yn cellwair, gan hyny priodol i mi regu a chablu Duw; y mae y crefyddwr yn hepian ac yn diogi ar Ddydd yr Arglwydd, gan hyny y mae yn addas i mi wâg rodianna ar y Sabbath; y mae y crefyddwr yn wâg, yn goegfalch, ac yn gwisgo yn drythyll a gwammal, gan hyny gallaf finnau odinebu. Ewch chwi yn mlaen mewn pechod faint a fynoch—rhaid i'r

annuwiolion gael cadw y blaen arnoch. Os cyfflymchwch chwi, cyflymant hwythau; os coffeidiwch chwi y drwg lleiaf, coffeidiant hwythau y drygau mwyaf; ond os rhoddwch chwi heibio y drygau lleiaf, rhoddant hwythau heibio y drygau mwyaf. Medd y cyfoethog:—‘Y mae yn iawn i mi ragori. Gan fod y tlawd yn gwisgo ac yn bwyta fel hyn, y mae yn iawn i mi gadw graddau uwch; a chan fod y tlodion wedi dringo i fyny i fy hen ddull i, rhaid i mi ddringo i fyny i ddull uwch; o blegid y mae yn iawn fod llawer o ragor rhyngom.’ Y mae balchder y werin fel hyn yn erlid balchder y mawrion drwy yr oesoedd; ac y mae y blaenaf o’r diwedd yn methu cael lle i gilio rhag yr olaf, a bron na ddymunai fyned allan o’r byd. Felly y dymunai yr anghrefyddwyr gadw rhagoriaeth rhyngddynt hwy a’r crefyddwyr, er fod y crefyddwyr yn gynnwl yn dyfod i fyny i’w dull hwy o’r blaen. Etto, cewch weled y byd annuwiol yn fuan yn cilio i ddull uwch mewn llygredigaeth ac annuwioldeb. Mor gynted ag y dysga yr eglwys arferion y byd llygredig fe ddysga neu fe ffurfia y byd arferion newydd.

(5ed.) Y mae diffrythder crefyddwyr yn gymmaint drwg yn erbyn Duw ag ydyw pechodau mwyaf cyhoeddus yr annuwiolion; ac am hyny yn eu codi yn gyfattedbol yn wrthddrychau barn oddi wrth Dduw. Y mae camddefnyddio breintiau mor fawr (*Esa.* v. 2—5), a segura yn y winllan, yn ddiystyrwch ar olud ei ddaioni ef, ac yn fwy annioddefol ganddo na phechodau yr annuwiolion cyhoeddus; o blegid y mae dirmygu caredigrwydd yn adgasach na dirmygu cyfiawnder. Y mae peidio rhybuddio y drygionus yn llofruddiaeth yn y crefyddwr. Y mae diffrythder yn y winllan mor annioddefol ag eilunaddoliaeth yn y paganiaid. Yr oedd rhifo y bobl yn gymmaint pechod yn Dafydd ag a fuasai llofruddiaeth miloedd o bobl mewn pagan. Yr oedd cyffwrdd a’r arch yn Uzzah yn bechod angeuol. Y mae ymddiddanion ysgeifu am grefydd yn y crefyddwr yn cyfatted i erlid crefydd yn yr annuwiol.

(6ed.) Y mae pechodau crefyddwyr yn gwadu holl rinwedd crefydd yn meddwl yr annuwiol, ac yn tafu crefydd i hollol ddiystyrwch yn ei feddwl ef. Y mae meddylian diystyr o grefydd yn wreiddyn ffrythlawn i bechodau. Y mae tori y cyfiawn ymaith yn farn ar ereill. Y mae yn cario llais uchel oddi wrth Dduw at y teulu, yr eglwys, a’r gymmydogaeth. Gall fod yn argyhoeddiad ac yn rhybudd i’r byd (*Esec.* v. 15); a gall fod yn floedd uchel ar yr eglwys.

II. *Natur y cŵyn.*

Achwyniad cyfreithiol ydyw. Troseddau o’r gyfraith ydyw swm y cŵyn. Ni a sylwn—

1. Fod profion fod cŵyn rhwng yr Arglwydd a’r wlad.

1af, Y mae yn cuddio ei wyneb oddi wrth lawer o enwadau crefyddol i raddau helaeth, os nad yn hollol, ac i raddau oddi wrth bawb. Nid ydyw Duw byth yn cuddio ei wyneb heb fod achosion yn galw am hyny. Llygriad y genedl Iuddewig fu yr achos o ymadawiad y gogoniant; a dangosir yn y bennod hon fod cuddiad wyneb Duw yn farn am bechod: *Esa.* vi. 9, 11.

2il, Y mae gwasgfa a chyfyngder yn mhlith dosbarth mawr o'r werin. Y mae tlodi a chyni yn arwydd o anfoddlonrwydd yr Arglwydd. Y mae Duw yn cuddio gogoniant crefydd oddi wrth y mawrion mewn ffordd o farn. Barn ar y genedl Iuddewig oedd eu dallineb. Bygythiodd Duw hyny arnynt fel cospedigaeth am eu pechodau.

Sydd, Y mae yn rhoddi miloedd i fyny i wŷnau gwarthus, i buteindra ffaidd, holl ddyddiau eu bywyd mewn modd barnol: *Rhuf.* i. 24, 26, 28.

4ydd, Y mae annhrugarogrwydd a chreulondeb arswydus yn mhlith y mawrion tuag at y tlodion: *Esa.* iii. 4, 5.

5ed, Y mae miloedd yn cael eu rhoddi i fyny i yfed eu hunain i farwolaeth.

6ed, Y mae miloedd yn cael eu gollwng i amryfusedd cadarn, i gredu celwydd, mewn modd barnol. Anffyddiaeth a dynodd farn ar yr Aipht, ac ar yr hen fyd. Y mae yn cynnyddu yn gyflym yn y dyddiau hyn; a bydd yn gryf ar ddyfodiad Crist i lwyrr ddyfetha Pabyddiaeth, yr hon a ddisgrifir fel ysbryd arian tebyg i lyffaint.

7fed, Y mae ysbryd gwrthryfel yn ffynu yn y tir.

8fed, Y mae plâu, y *cholera*, a chlefydau dinystriol ereill yn y wlad.

2. Ni a sylwn yn nesaf ar achosion y cŵyn. Pa rai ydyw y pechodau y mae Duw yn eu rhoddi yn ei ragluniaeth yn erbyn y wlad? Rhaid fod ganddo ryw gŵynion pennodol:—nid heb achos y cospa Duw. Yn awr ni a brofwn fod y pethau a enwyd yn gŵynion yr Arglwydd â'r wlad hon. Profir hyn gan ddau beth arbenig:—1af, Gan briodoliaethau Duw: 2il, Gan esamplau:—(1.) Y mae cyfiawnder yn dangos hyny: "Mell-dith ddiachos ni ddaw." "Ni wna efe gam â gŵr yn ei fater." (2.) Daioni Duw: "Nid o'i fodd y blina nac y cystuddia efe feibion dynion." (3.) Ei dosturi: "Nid yw yn hoffi marwolaeth yr annuwiol." 2il, Profir hyny gan esamplau. Nid heb achos y tywalltodd Duw farnau ar yr hen fyd, ar Sodom, ar yr Aipht, ar Wlad Canaan, ac ar y genedl Iuddewig.

3. Pa beth ydyw y cŵynion? Ni a ddangoswn i ddechreu pa beth nad ydynt. Nid ydyw Duw yn codi pechodau o wendid yn gŵyn; ac nid ydyw yn gwnenthur pob graddau o bechodau chwaith yn gŵyn: onid é, cŵynion fuasai ganddo yn erbyn y genedl drwy holl oesoedd y byd; o blegid y mae bob amser yn

llawn o bechod. Ni a sylwn yn nesaf pa beth ydynt. Gellir eu dosbarthu dan dri phen:—

(1.) *Cyfeiliornadau.* Iaf, Y mae didduwiaeth ac anffyddiaeth yn cynnyddu yn gyflym yn y wlad: “Dywedodd yr ynfyd yn ei galon, Nid oes un Duw.” Ond y mae y rhai hyn wedi cyrhaedd yn rhellach na hyny; dywedant ar eu tafodau, “Nid oes Duw.” Megys nad oes un pechod yn rhy aflan gan lawer yn ein gwlad i fyw yn ddo, felly nid oes un cyfeiliornad yn rhy ynfyd gan drigolion Prydain i’w gredu. Y mae y pechod hwn yn uchel yn y wlad, ac yn wreiddyn yr holl bechodau; y mae yn tynu ymaith bob iau oddi ar y meddwl. “Yr ynfyd a ddywed yn ei galon, Nid oes un Duw.” Os gwędir bodolaeth Duw, rhaid gwadu bodolaeth y farn, gwobr a chosp, nefeodd ac uffern; a thrwy hyny collir rhai o’r cymmhelliadau cryfaf i ochelyd pechod. Anghofio y farn ydyw un achos pa ham y mae ein pobl ieuangc yn gallu byw mor ysgafn, anystyriol, ac annuwiol. Un o ddybenion barnau Duw ydyw darostwng didduwiaeth dynion, a gosod argraph o’i fodolaeth ef ei hun ar eu meddyliau:—“Adwaenir yr Arglwydd wrth y farn a wna.” Y mae didduwiaeth yn afwydd o farn: “Mab y dyn pan ddél, a graiff efe ffydd ar y ddaear?” 2il, Ariaeth a Sosiniaeth. Gwadu Duwdod Crist a dynodd farn ar y genedl Iuddewig; a hyn ydyw ei gwyn etto yn erbyn llawer yn y wlad hon. 3ydd, Pabyddiaeth. Y mae rhan fawr o drigolion y Deyrnas Gyfunol yn Babyddion. Y mae Pabyddiaeth yn drwyadl bechadurus. O’r pydew diwaelod y cododd, a’i hamcan ydyw gwrthwynebu y gwirionedd. Y mae yn euog o waed y saint, yn lladrata gogoniant Duw, yn hōni hawl i faddeu pechodau, yn gwneyd masnach o air Duw, ac yn gyflawn o dwyll i eneidiau dynion. Y mae dan gollfarn amlwg yn y Beibl. Gwaed a roddir iddi; bydd yn drigfa i aderyn y bwn, a’i marsiandwyr a alarant o herwydd ei thrychineb.

(2.) *Chwarëyddiaethau.* Rhedegfeydd (*races*): gwerir trugareddau Duw yn ofer, a chyflawnir pob annuwioldeb ynddynt. Dywed rhai am y drwg amlwg hwn, “mai da ydyw.” Ai da ydyw meddwdod? Ai da ydyw ymladdau, gwagedd, gloddest, a gwario trugareddau Duw yn ofer? Ai da ydyw llofruddiaeth? Y mae llawer wedi cael eu lladd, a llawer yn lladd eu hunain ynddynt. Clywais fod dwy neu dair yn olynol yn cael eu hattal gan daranau a mell, a gwlaw anarferol yn disgyn. Fe ddywedir fod boneddigion, a rhai dysgedig, os nad rhyw enw o “bregethwyr,” yn myned iddynt i ymddifyru, a dywedant mai difyrwch diniwed ydyw. Nid ydyw fod boneddigion ynddynt yn cyfiawnhau dim arnynt, ond yn hytrach yn profi eu bod yn ddrygionus. Anaml y mae boneddigion Cymru yn blaenori mewn daioni; ond yn aml iawn y ceir hwy yn blaenori mewn

drygioni, mewn aflendid, mewn anghyfiawnder, ac mewn annuwioldeb. Ceir mwy at gynnal achos yr Arglwydd o law llawer gweithiwr tlawd nag o law llawer *lord*. Gwell ganddynt wario mil o bunnau i gynnal chwaryddiaeth i Satan na rhoddi mil o geiniogau i anfon efengyl Mab Duw dros y byd. Ac am y rhith bregethwyr a ymddangosant yn y cyfarfodydd llygredig hyn, "bleiddiaid yn ngwisgoedd defaid ydynt;" "cwn mudion, heb fedru cyfarth;" esiamplau o lygredigaeth i'r genedl, ac arweinwyr y byd i ddistryw.

(3.) *Meddwdod*. Y mae hwn hefyd yn gŵyn amlwg. Iaf. Y mae meddwdod yn bechod cyffredin iawn. Nid ydyw y pechod gwrthun hwn wedi ei gyfyngu i blith y sefyllfa isaf o ddynion yn unig, ond y mae y boneddig a'r gwreng yn cyttuno i orwedd yn y camwedd. Y mae y tlawd a'r cyfoethog ynghyd yn euog o yfed i ormodedd. Bu raid i'r Arglwydd ostwng cyflogau gweithwyr yn y blynyddoedd diweddaf i'w sobri, ac i achub eu bywydau rhag iddynt ladd eu hunain trwy yfed i ormodedd. Yr oedd eu harian yn wenwyn i'w cyrph a'u heneidiau. Da fyddai i'r ynfydion gael peidio treulio ceiniog byth i'w mwrddro eu hunain. Y mae y tafarnau yn y trefydd bron bob yn ail â'r tai annedd. Ceir gweled ystrydoedd ein pentrefydd a'n trefydd bach, tlodion, yn fynych yn hanner llawnion o feddwon. Nid oes dim ond tlodi yn attal degau o fechgyn ynfyd sir Gaernarfon i ladd eu hunain. Y cwblsydd ganddynt dros ben yr hyn sydd angenrheidiol i gael tamaid isel o luniaeth, y maent yn ei ddefnyddio i'w gwenwyno eu hunain. Ac yn wir, byddaf yn gorfod rhyfeddu wrth weled gwŷr call, gwŷr parchus, i.e. rhyw fath o grefyddwyr hefyd, yn dewis ffordd mor isel ac ynfyd, ac mor bechadurus a llygredig i anrhegu eu gilydd & charedigrwydd. Gwahoddant, i.e. temtiant eu gilydd, i ddiotta. Mewn gwirionedd, hyn yw eu caredigrwydd!—arwain eu gilydd i berygl damniol; arwain eu gilydd at ymyl craig meddwdod, yr hon yw distryw; arwain eu gilydd i demtio Duw trwy feddwdod amlwg; ac arwain eu gilydd i demtio Satan i ddyfod i'w temtio hwy radd yn mhellach i ormodedd. Y mae diotta yn arferiad gyffredin, fel y mae yn gywilydd i ni orfod ei addef. Y mae crefyddwyr ac anghrefyddwyr yn cyfiawnhau diotta, yn dadleu o blaid diotta, ac yn byw mewn diotta. Cyfrifir y diotwyr hefyd yn dduwiol iawn, yn sanctaidd iawn, yn gymmedrol iawn, ac "yn gadwedig" yn y blynyddoedd hyn! Dynion wedi dysgu ymddwyn yn foneddigaidd ac yn weddaidd yn mhob math o le y cyfrifir y dosbarth hwn o ddeiliaid Satan. Ond pwy hefyd sydd yn deall pethau oreu?—ai y tylwyth hyn, ynte yr Ysbryd Glân? Geilw yr Ysbryd ddiotta yn "fiaidd eilunaddoliaeth." Y mae llawer yn diotta yn gyhoeddus yn y tafarnau; a mwy na hyn yn ddirgel yn eu tai. Gellir gwleud

cannoedd mewn sefyllfa arswydus o dan effeithiau dinystriol diodydd meddwol—rhai wedi diotta eu hunain i gystudd mawr; ereill wedi yfed eu hunain i dymmer anynad, na byddai waeth ceisio byw mewn heddwch â'r cythraul nag â hwy yn eu tai. Byddai yn gysur i'r teulu gael eu claddu o'r byd. Pechod y pechodau yw meddwod! drwg y drygau ydyw! Gellir gweled ereill drachefn wedi yfed eu hunain i'r *dropsy*: y mae eu cnawd wedi troi yn ddwfr am eu hesgyrn. Gwelir rhai wedi yfed eu llygaid bron allan o'u penau. Y mae yr olwg arnynt yn ddychrynlyd; y mae y llygaid cochion yn eu cyhuddo oormodedd. Y maent yn yfed eu hunain allan o'u synwrau, o dan farn amlwg; a rhai yn yfed eu hunain, eu gwragedd, a'u plant, i dlodi ac angen, hyd yn oed o fara beunyddiol. Y mae meddwod yn llymhau cefnau bychain diniwed eu plant, ac yn gwario gwisg y wraig ddiwyd, dduwiol, a diniwed. Y mae yr oes hon yn ystyried fod y diodydd poethion yn bob peth i natur. Y mae llawer yn meddwl eu bod yn fwyd i'r corph, yn wisg rhag anwyd, yn nerth mewn caledwaith, yn adfywiad i'r meddwl, yn agoriad i'r synwyr, yn ysbryd cymdeithas, yn ddawn i areithio, yn gallineb i'r marchnatwr, yn rhwymyn pob bargaen, yn ddangoseb neu *receipt* digonol am arian wedi eu talu, yn heddwch i gydwybod enog, ac yn ddyddanwch i feddwl tralodedig. A chan fod y tybiau hyn gan filoedd am danynt, priodol y gelwir hwynt yn "dduw:" y maent yn cael lle Duw gan ddyinion, a pharch ac addoliad Duw. Ond yn hollol groes i'r tybiau ynfyd a enwyd y maent yn effeithio ar bawb sydd yn ymarfer â hwynt.

2il, Y mae meddwod yn bechod ysgeler iawn o ran ei natur. Y mae rhai yn methu gwybod trosedd o ba orchymyn yn y ddeddf ydyw, ac yn methu ei weled yn drosedd o un o honynt. Ond gellir ateb ei fod yn drosedd amlwg o bob gorchymyn. Nid oes un pechod yn mentro Duw yn ei wyneb yn fwy hyf na meddwod. Y mae yn drosedd o'r gorchymyn cyntaf. Y mae y meddwyn yn caru melus-chwant yn fwy nag yn caru Duw.

3ydd, Y mae meddwod yn bechod hyf a digywilydd iawn—digon hyf i ymwthio i dŷ Dduw, i'r pulpud, ac i aberthu. Nid oes neb a wâd ei bechod yn fwy na'r meddwyn; neb yn ei esgusodi yn amlach, ac yn beio ereill yn fwy o'i herwydd. "Hwn a hwn," meddai, "a'm temtiodd i." Wel, iê; ond y cwestiwn ydyw, Pwy a feddwodd? Dyna a ddaw i'r farn. Pa faint llai fydd dy boen yn uffern wrth weled dy demtiwr ynô gyda thi? Pe buasai yn dy demtio i ladd gŵr, a fuasit yn ufuddhau? Wel, pa ham yr ufuddhei i'th ladd dy hun? Pechod anhawdd iawn i argyhoeddi o hono ydyw meddwod. Fe wâd y meddwyn ei drosedd yn fwy na neb: ac nid rhyfedd ei fod yn gwadu. Os ydyw yn rhydd i feddwi, y mae yn sicr y

gall ddywedyd celwydd. Gall wadu a llunio esgusion fyrdd; ac oni fedr gael esgus, fe ddadleua fod llawer fel yntau. Ond a ydyw fod llawer yn myned i uffern yn abl i'w hoeri?

4ydd, Pechod a dynodd farnau ar y byd ydyw meddwod hefyd. Tynodd y diluw ar yr hen fyd; tân ar feibion Anwn yn Sodom a Gomorrah, a dinystr disymmwrth ar Belsassar a'i dywysogion, ac aflwydd a thrueni ar y genedl Iuddewig: *Esa.* v. 11, 14, 22.

5ed, Pechod ydyw nad oes nemawr neb yn cael eu gwaredu ar ol syrthio iddo yn ddwfn.

(4.) Hefyd, y mae cŵyn rhwng yr Arglwydd a'r wlad o herwydd *puteindra*. Y mae hwn etto yn bechod cyffredin dros yr holl wlad. Y mae wedi dyfod yn arferiad anrhydeddus; ac nid oes gywilydd o'i blegid. Os edrychwn i'r dinasoedd poblogaidd, cawn weled eu heolydd wedi eu britho â phuteiniaid. Nid y rhai mwyaf dirmygus ydynt chwaith, fel yr haeddai eu pechodau; ond y maent yn derbyn anrhydedd pendefigesau. Pwy bynag sydd yn gwisgo y carpiau tlotaf, y maent hwy yn cael eu hanrhydeddu â'r sidanau. Edrycha y puteiniwr ar ei wraig a'i dillad yn *rags*, ond rhaid iddo gael gweled ei butain yn ei sidanau; edrycha ar ei blant yn noethion, ond rhaid iddo gael cynnal ei butain yn ei harddwch. Y mae llawer yn gwneuthur marsiandiaeth o'r pechod hwn yn y blynyddoedd hyn. Y mae y ffieidd-dra drewedig hwn wedi ymlodaennu dros yr holl wlad; ie, i Gymru fawr ei breintiau. Gellesid disgwyl amgen moesau gan y Cymry. Y Cymry gafodd fwyaf o ddaioni yr Arglwydd nag un genedl dan y nef; y Cymry a gafodd eu gwaredu o fyrdd o gyfyngderau; y Cymry a gafodd heddwch a llonyddwch pan oedd gwledydd ereill yn llifo o waed eu trigolion; y Cymry "a ddyrchafwyd hyd y nef mewn breintiau" crefyddol, ac a blanydd mewn bryn tra ffrwythlawn; y Cymry a gafodd efengyl mor gynted ag y daeth dros y canolfur, pryd yr oedd y cenhedloedd cymmydogaethol yn baganiaid am oesoedd lawer; y Cymry a gadwyd rhag y pla pan oedd gwledydd ereill yn cael eu medi ganddo at y meirw; y Cymry a arbedwyd hyd yr eithaf i ddisgwyl iddynt edifarhau. Gallesid meddwl y cawsai Duw amgen ffrwyth ar y Cymry na godineb. Gallesid disgwyl gwell ffrwyth oddi ar ieuengetyd Cymru na chydorwedd. Buasai yn iawn iddo gael gwell ffrwyth oddi ar y penau teuluoedd hefyd na gadael eu tai yn llochesau aflendid. Rhoddodd Duw bethau mawrion ei gyfraith i'r Cymry. Cynnygiodd gymmod iddynt; estynodd ei law ar eu hol; galwodd hwy i'r wledd; cynnygiodd ei Fab yn Waredwr iddynt; cloddiodd, a bwriodd dail o'u hamgylch; ond och! mor warthus yw y ffrwyth! Godineb y mae yn ei gael ar floedd yn ffrwyth! Y mae trefydd bychain llwydion tlodion Cymru wedi dyfod yn

alluog i gymmeryd bob un liaws o buteiniaid at eu gwasanaeth yn y dyddiau hyn. Nid oes ond ychydig oriau yn ngolwg Duw er's pan oedd y pentrefydd bychain hyn yn crynu ger ei fron rhag ofn rhyfel a newyn, a phob drygfyd, ac yn addaw ei wasanaethu, os gwaredai hwynt o'u cyfyngder; ond yn awr, y maent wedi teimlo eu bod yn ddigon galluog a diogel i gadw lliaws o ddyhirod! Dyma y tâl y mae Duw yn ei gael ganddynt am ei ddaioni tuag atynt. Y mae yn debyg nad hir iawn y byddant heb ddyfod ar ei ofyn etto. Buasai yn hyfrydwch mawr genyf allu dywedyd fod yr aflendid hwn wedi ei gyfyngu i blith y graddau isaf o'r bobl; neu i blith yr ieuengctyd yn unig, neu i blith rhai mewn cyflwr sengl yn unig, neu i blith y rhai isaf, tlotaf o'r werin yn unig, neu i blith yr annysgedig, a'r dwl yn unig. Ond os rhoddaf gyfiawnder i'm Gwneuthurwr, rhaid i mi addef anallu i hyny, amhossiblwydd i neb wneyd hyny. Y mae y cyfoethogion wedi gwingo, a myned yn fras, a "gwrthod yr Arglwydd eu craig," ac yn blaenori yn y camwedd gwaeddfawr. Y mae y dysgedig hefyd yn gorwedd yn y drygioni hwn; y mae gwrandawyr yr efengyl yn anghofio mai "ffordd i uffern yw ei thŷ hi," a bod y rhai sydd yno yn diagyn i ystafelloedd angen.

Y mae dull cyffredin ieuengctyd Cymru o gymdeithasu yn flaenorol i'w sefyllfa briodasol yn rhy aflan i'w adrodd. Y mae yn arwain i aflendid; a diau ei fod yn annioddefol i gydwybod ddiwair. Nid yn unig y mae yn arwain i aflendid, ond y mae ynddo ei hun yn aflendid. Nid oes neb yn caru diweirdeb a ddichon gyflawni y fath arferiad gwrthun ac anifeilaidd. Meddylwch am liosogrwydd bastardiaid ein cenedl. Gallech yn hawdd gyfrif ugeiniau mewn cylch bychan, yn orthrymder ar blwyfydd. Rhaid i rai diwair—ie, rhai cyfiawn—ie, y rhai duwiol—ie, y rhai tlodion, o'u prinder gyfranu at gynnal plant eu godineb hwy. Rhaid i'r cyfiawn a'r glân weithio a chwysu yn galed, a nethu cysgu lawer awr i fyfyrto pa fodd i gael arian at dalu trethi, o ba rai y cynnelir plant y puteiniaid hyn. Rhaid i weinidogion yr efengyl, rhaid i flaenoriaid eglwysig, rhaid i aelodau o Grist, rhaid i Saint Duw roddi o'u prinder at fagu plant eu godineb hwy; ac oni buasai hyny, rhoddent fwy at offrymau y Duw y maent yn ei garu; rhoddent fwy at anfon cenhadon at baganiaid; rhoddent fwy at gynnal y tlawd yn ei galedi. Ond y mae y twyllwyr melldigedig hyn yn rhwystr iddynt anfon Beibl i'r pagan; yn rhwystr iddynt anfon cenhadon Mab Duw i wledydd pellenig y byd; yn rhwystr iddynt ddiwallu cyllau gweigion y tlawd; yn rhwystr iddynt ddilladu eu plant, ac yn rhwystr iddynt gysgu yn eu gwelyau y nos. Rhaid iddynt wrando gruddfan y tlodion, ac edrych ar ddaagrau heilltion llawer gweddw dlawd, & i hamddifaid wrth ei thraed, a

methu ei chynnorthwyo, o herwydd fod yn rhaid iddynt ddwyn traul y godinebwr. Rhaid iddynt wrando cwynion am achos Mab Duw, eu hanwlyd, mewn dyled, tlodi, ac eisieu, ac heb fodd i'w gynnorthwyo o herwydd fod anniweirdeb yr annuwiolion hyn yn eu llwytho & dyledion. Rhaid iddynt wrando ocheneidiau y paganiaid o wledydd pellenig y byd am air y bywyd—clywed am dagrau yn rhedeg dros eu gruddiau duon o syched am glywed am Grist croeshoeliedig—ond er fod hyny yn hollti eu calonau, rhaid iddynt hwy roddi at gynnal bastardiaid yr anwriaid, a gadael y rhai hyny i lewygu byth am air y bywyd! Y mae y rhywogaeth sarphaidd ac aflan hyn yn Nghymru yn lluosog iawn, yn hyfion iawn, yn ddigywilydd iawn. Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol tynu y gwarth tragwyddol hwn arnynt eu hunain, ceir eu gweled yn dyfod i'r addoliad. Gellid disgwyl gweled gwrid ar eu gwynebau. Gellid disgwyl gweled eu penau yn methu ymunioni—gellid disgwyl gweled ofn arnynt i'r Arglwydd eu ceryddu & barn ddisymmwrth, a'u llyngcu yn fyw i uffern—gellid disgwyl gweled ofn arnynt fentro rhoddi troed gobineb o fewn y trothwy y mae sancteiddrwydd ofnadwy yn gweddu iddo; yn sicr, disgwylid iddynt gofio eu tomen aflan dros ychydig, a disgwylid gweled pob modfedd o'u cyrph yn crynu yn ngŵydd Duw—ond y mae eu hymddygiad yn hollol i'r gwrthwyneb. Nid oes neb yn fwy pen-uchel, na neb yn fwy dideimlad—ni fedrant gywilyddio. Y mae yr olwg arnynt tu hwnt i'w adrodd. Y mae eu gwisgiadau yn annioddefol i lygaid syml: elusen y tlawd ydyw eu rubanau hwy, ac offrwm yr Arglwydd wedi ei ladrata yw eu sidanau hefyd. “Aelodau Satan,” medd Paul yw y cyrph y maent yn eu haddurno. Y mae y sarph yn harddach na chorph aflan; y mae y wiber yn llai ei gwenwyn, ac y mae y neidr yn llawer glanach a diniweitiach.

Nid ydyw llawer o'n ieuengctyd yn dewis priodi diweirdeb. Rhaid i'r bachgen droi y lodes yn butain cyn ei phriodi; a rhaid i'r lodes gael ei lithro yntau i aflendid hefyd. Rhaid iddynt gael gwneuthur eu gilydd yn aelodau Satan yn mlaenaf; rhaid iddynt gael digio Duw cyn cychwyn byw ar ei ddaioni a'i ragluniaeth. Y maent yn ymrwmo yn enw yr Arglwydd & u gilydd mewn priodas; ond byddai yn fwy addas iddynt hwy ymrwmo yn enw Satan, o blegid ei eiddo ef ydynt. Y maent wedi gwneuthur eu hunain yn aelodau iddo trwy odineb. Y maent yn addaw bod yn ffyddlawn i'w gilydd, ond yn rhy ddiweddar: y maent wedi amharchu eu gilydd yn barod. Pwy a grêd y butain a'r godinebwr yn addaw bod yn ddiwair? Wedi tynu gwarth annileadwy ar eu henwau (*Diar.* vi. 38), dywedant eu bod yn ymrwmo mewn glân ystâd briodasol, pryd nad yw eu priodas ddim amgen na chyttundeb putain a phuteiniwr aflan i gyd-fyw. O! y canlyniadau gwarthus sydd i'r pechod

hwn! Y maent wedi gosod un o'u plant diniwed dan y gwarth o fod yn fastard holl ddyddiau ei fywyd! ac y mae eu holl blant dan y gwarth o fod yn hiliogaeth godinebwyr! Y mae eu cyntafanedig yn goffadwriaeth iddynt hwy, ac i ereill, dros eu holl fywyd am eu godineb. Dylai ei ymddangosiad iddynt bob dydd godi gwridd cywilydd ar eu hwynebau, a thynu dagrau heilltion dros eu gruddiau. Ni ddylent beidio wylo tra y bydd affendid eu godineb o flaen eu llygaid. Tystiolaeth o'u godineb ydyw eu cyntafanedig; ac y mae ei bresennoldeb yn edliwiad newydd iddynt bob dydd. Ni ryfeddwn glywed fod y plentyn hwn yn dial ar ei rieni am ei ddarostyngiad i warth; ni ryfeddwn glywed ei fod yn greulawn wrthynt am ei anrhydedd. Pa warth mwy a allasant hwy dafu ar ei berson diniwed?

Y mae godineb yn esgor ar farwolaeth. Y mae Duw mewn ffordd o farn yn dilyn y pechod hwn weithiau âg afiechyd ffiائد, a marwolaeth. Y mae miloedd yn y wlad wedi trengu yn annuwiol yn y modd hwn. Pa faint o buteiniaid sydd yn disgyn o ofidiau en gwewyr i ofidiau uffern? Gallen osod ein llygaid ar ambell i fachgen yn ein gwlad wedi twyllo ei gyd-greadur diwair a diniwed i odineb, a'r canlyniad yn angu iddi hi. Hudodd hi i odineb i ddechreu, a llithiodd ei henaid euog i uffern hefyd yn y canlyniad. Ni ryfeddem, pan y bydd y twyllwr melldigedig farw—ie, llofrudd creulawn corph ac enaid diniwed—pan y bydd farw, meddyliaf mai y butain a'i cyferfydd gyntaf yn uffern, gan ddywedyd fel swn taran, 'O! fy mwr-dwr! O! llofrudd fy enaid a'm corph! O! y dwylaw a droch-wyd yn fy ngwaed! Gwnaethid llai o niwed i mi pe buasit yn lladd fy nghorph, ie, yn ei dori yn ddarnau, na thrwy fy hudo i odineb; o blegid y mae hyny wedi lladd fy nghorph, ac wedi dwyn euogrwydd damniol ar fy enaid!'

Y mae miloedd o fastardiaid diniweid yn cael eu llofruddio yn dirgel hefyd yn eu babandod; rhai yn cael eu claddu yn fyw, rhai yn cael eu mygu, ac ereill yn cael eu llosgi yn lludw! Ni all tafod adrodd y creulonderau a wneir yn y dirgel. Y mae llawer yn dyfod i'r amlwg, ond y mae mwy yn y dirgel. Nid yn unig y mae y godinebwyr yn y tir; ond hefyd y mae y genedl yn gyffredin yn llawer rhy agos atynt. Nid ydynt yn cael eu ffeiddio fel yr haeddant; nid ydyw eu cymmydogion yn cilio oddi wrthynt fel y dylent; nid ydyw crefyddwyr yn edrych arnynt fel gelymion Crist a'i achos. Nid ydyw y genedl yn eu hystyried yn rhai "melldigedig gan yr Arglwydd." Y maent yn derbyn y puteiniaid i'w tai, ac yn rhoddi llawer gormod o garedigrwydd iddynt, fel pe byddent yn hoffi bod yn eu cymdeithas. Y mae eu caredigrwydd iddynt yn tarddu oddi ar ddiffyg gweled drwg godineb; ond y mae er hyny yn gefnogaeth i odineb, yn gymmeradwyaeth o odineb, ac yn annog

ereill i odineb. Ond caredigrwydd i achos Satan ydyw, yn erbyn Crist. Os cynghorir chwi i gilio oddi wrthynt, yr ydych yn beio. Ond os ydych am feio, beiwch ar y Beibl, yr hwn sydd yn cynnwys gorchymyn felly: beiwch Dduw, yr hwn a roddes y gorchymyn hwnw. Dyma eiriau y Beibl: "Casewch hyd yn oed y wisg a halogwyd gan y cnawd;" "Ymddidolwch: deuwch allan o'u canol." "Casau y wisg a halogwyd gan y cnawd," ydyw cilio o gymdeithas y rhai halogedig, fel y byddai y genedl Iuddewig yn cilio oddi wrth wisg y gwahanglwyfus. Y mae pechod yn heintus iawn: y mae yn wahanglwyf hollol ar y godinebwyr sydd heb faddenant; gan hyny, dylem gilio oddi wrthynt. Y mae eu pob peth yn felldigidig—y mae eu hanneddau yn felldigidig, ac y mae eu hymborth dan felldith Duw! Yn 1 *Cor.* v. 9, gwaherddir yn bendant i ni "gydymgymmysgu â godinebwyr;" ac nis gallwn ddiystyru y gwa-harddiad heb bechu yn erbyn Duw. Gorehymynir i ni hefyd "ymgadw yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd;" 2 *Cor.* vi. 14, 15; *Ephes.* v. 11. Y mae yn dda i'r oes hon fod tymmor cyfraith Moses wedi darfod. Pe cai y gyfraith hono ei rhoddi mewn grym, llabyddid y godinebwyr â meini i farwolaeth, a byddai eu nifer yn llu mawr; llabyddid yn rhywle bob wythnos, os nad bob dydd, yn Nghymru: *Deut.* xxii. 20, 21; *Lef.* xx. 10. Nid ydyw hyn yn llai pechod yn awr nag oedd y pryd hwnw; ond yn hytrach y mae yn fwy, am ei fod yn cael ei gyflawni yn ngwyneb mwy o oleuni. Gan fod y pechod hwn mor gyffredin, mor aml, ac mor ddigywilydd yn ein gwlad, a chan ei fod mor adgas yn ngolwg yr Arglwydd, diammheu ei fod yn gwyn drom rhwng yr Arglwydd a thrigolion y wlad.

Y mae genym esamplau o farnau Duw ar odineb. Godineb a foddodd y byd: am odineb y llosgodd Duw y dinasoedd â thân gwyrthiol yn lludw, a bu farw pob un—y gwŷr, y gwragedd, y plant, a'r babanod bach. Pedair mil ar hugain o Israel a laddodd Duw â phla mewn un dydd am odineb Zimri a Chozbi; a hwythau eu hunain a wanwyd â gwaewffon trwy eu ceudod am eu godineb, fel y buont feirw yn y fan. Lladdodd Duw bedair mil ar hugain am odineb dau—o herwydd ei ddigofaint at y pechod. Dengain mil o wŷr Judah, a phum mil o wŷr Benjamin, a laddwyd â'r cleddyf am odineb un noswaith. Dau gau brophwyd a rostiodd Nebuchodonozor wrth dân am odineb. Y mae y pechod hwn dan gondemniad eglur yn Ngair yr Arglwydd: *Esa.* iii. 9.

(5.) Y mae *cybydd-dod* hefyd yn un o bechodau mwyaf cyffredin a gwaeddfawr yr oes hon. Y mae llawer o hono yn yr amlwg, ond mwy yn y dirgel. Y mae wedi derbyn enw anrhydeddus, a charictor da gan yr oes hon. Fe'i gelwir weithiau yn "gallineb;" ac weithiau yn "ofal am dalu ein ffordd." Y mae

pawb yn gwadu y pechod hwn, ac yn ei guddio yn ddirgel yn y galon. Cybydd-dod ydyw cariad anghymmedrol at bethau darfodedig. Rhaid addef fod cybydd-dod yn llygriad gwreiddiol yn y natur ddynol; ond y mae y llygriad hwn yn gweithredu yn ei lawn rwysg, ac yn hollol gyhoeddus, yn Nghymru yn y blynyddoedd hyn. Nid oes un attaliad arno, nac un llen drosto gan lawer. Y mae trachwant am gyfoeth, a'r arferiad o addoli cyfoeth wedi llenwi y wlad. Holl fyfyrddod y rhan fwyaf o'r genedl ydyw llunio rhyw fesurau i chwaneu eu cyfoeth, dyfeisio ffyrdd i dwyll-farchnata, a darparu llwybrau i dreisio a gorthrymu. Y mae llawer â'u meddwl yn hollol ar ymgyfoethogi, ac yn llwyr anghofio Duw, ac yn anghofio anghenau a'r farn.

Y mae cybydd-dod yn gwneuthur slaflaiaid ynfyd o lawer dros eu holl fywyd. Y maent dan awdurdod gaeth, yn casglu mewn llafur caled; ond ni oddef eu meist'r iddynt ddefnyddio dim o honynt. Fe allai y bydd ereill yn damnio eu heneidiau wrth eu gwario a'u meddwi, wedi iddo ef ddamnio ei enaid wrth eu casglu. Pan y bydd ei gorph wedi pydru yn y bedd, a'i enaid yn dioddef yn uffern am eu camgasglu, bydd arall yn damnio ei enaid ar y ddaear yn eu gwario. Ysgubell ydyw cybydd yn llaw Satan i hel tom at eu gilydd, i fagu haint marwol; a bydd y domen a gasglwyd yn gwasgaru mellidith a haint marwol ar yr oes a ddelo ar ol. Yr holl fwyniant a gaiff dyn oddi wrth yr hyn sydd ganddo dros ben ymborth a dillad, ni bydd ond helbul a gofalon ynfyd yn eu cylch, a chwaneu o demtasiynau i anghofio "y golud gwell." Wrth gyfranu at achos yr Arglewydd y mae y cybydd yn ystyried fod cynnildeb yn fwyaf angenrheidiol. Rhaid talu y dreth, ond gellir tynu llawer o hyny i mewn wrth gyfranu yn brin at offrymau Duw. Yma y mae penu y swm yn llaw cybydd-dod yn hollol; gan hyny, y mae yn rhwym o fod yn brin. Y mae ganddo fyrdd o resymau dros ei gynnilddeb. Gellid meddwl wrth edrych ar ymdriniaeth llawer â'r byd hwn mai eu meddwl penderfynol ydyw "y pery eu tai yn dragywydd." Nid oes anghen byth i'w cyfarfod hwy, ac nid oes byd i fyned iddo ar ol hwn. Buasai y graddau o ofal a ddangosasant am y byd hwn yn fwy cymmhwys i'r byd a ddaw; ond byddai eu gofal am y byd a ddaw yn rhy fach am y byd hwn, o blegid nid ydyw hyny yn ddim. O ynfydrwydd! Nid oes neb yn adeiladu tŷ drudfawr os na bydd ond lletty noswaith; nid oes neb yn gwneuthur gwisg ddrudfawr er mwyn ei gwisgo ond am ddiwrnod. Ni wnaeth Israel deml yn yr anialwch; ac nid adeiladasant ddinas yno. Ni wnaeth Jacob dŷ o feini costfawr yn Peniel, er mwyn lletty noswaith—dim ond gobenydd caredig. Nid oes neb yn myned i'r drafferth i ddiwygio a gwellhau pob peth y mae yn ei

basio ar ei daith—pethau nad oes dim a wnelo ef â hwy, ond eu pasio unwaith am byth.

Dull cyffredin o fyw trwy y deyrnas hon ydyw gosod yr holl feddwl ar bethau darfodedig, ac arfer pob moddion i chwaneu cyfoeth yn y byd hwn, a chyssegru rhyw ychydig o funyduau segur mewn oes i grefydd. Edrychwch pa faint o wybodaeth ysgrythyrol sydd yn y wlad. Cymmherwch hyny â'r manteision crefyddol lliosog sydd yn ein plith, a chwi a gewch weled pa faint y mae y wlad yn ei feddwl am grefydd. Cymmherwch eu gwybodaeth ysgrythyrol â'u gwybodaeth o bethau darfodedig, a chwi a welwch mor graffus ydynt am eu pethau bydol, mor gall ydynt, ac mor anhawdd ydyw eu twyllo. Ond nid felly y maent gyda chrefydd. Y mae llawer yn ddigon o ffyliaid yn y Beibl i gymmeryd eu hudo i wadu ei ddwyfoldeb. Anwybodaeth o'r Beibl a wâd ei ddwyfoldeb. Y mae meddyliau yr oes hon yn gyffredin yn cael eu cymmeryd i fyny yn hollol gan bethau darfodedig. Synied pethau daearol y maent; a chan hyny, y maent o angenrheidrwydd yn ddeythr i bethau nefol.

Gosodir y gwrthddrychau hyn yn wrthwynebol i'w gilydd yn y Beibl. "Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod, nid ar bethau sydd ar y ddaear." "Canys y rhai sydd yn ol y cnawd, am bethau y cnawd y maent yn syniaw: eithr y rhai sydd yn ol yr Ysbryd, am bethau yr Ysbryd." Y mae llawer o ymarferiad y meddwl â'r byd hwn yn rhwym o ddeythro y meddwl i bethau nefol, a llyngcu y meddwl iddo ei hun yn llwyr. Ac felly llawer o ymarferiad â phethau nefol a ollwng y meddwl i ddibrisodod o bethau daearol. Ond y mae yr oes hon yn llawn o bethau daearol: nid oes ganddynt le i bethau ysbrydol yn eu meddyliau. Pa faint o amser a rydd y marsiandwr i feddwl am ei fasnach, a dim i feddwl am ei gyflwr. Rhydd y ffermwr fwyddyn i'r byd am bob awr a rydd yn hollol i grefydd. Ni chaiff crefydd yn y meddwl y filfed ran o'r amser a gaiff y byd. Nid ydyw mater y byd yn drymach o gymmaint a hyny na chrefydd; ond yn hytrach mater crefydd a bwysai filiynau aneirif o'r llall. Y mae y pechod hwn hefyd dan gondemniad yn Ngair yr Arglwydd.

Y mae *anghyfiawnder* yn bechod gwaeddfawr yn y wlad, fel y pechodau ereill a enwyd. Diau ei fod yn cael ei godi yn erbyn y wlad mewn dadl gan Dduw. Y rhan fwyaf melliagedig o anghyfiawnder ydyw gorthrymder; a'r anghyfiawnder mwyaf cyffredin ydyw yn y wlad. Nid da traethu bai yn nghefn y troseddwr; ond gan fod genym droseddwr o flaen y cyhuddiad hwn na chawn ni byth yr anrhydedd o roddi llais yn eu clustiau, y mae yn rhaid i ni gymmeryd eu cefnau am y tro. Tywysogion y byd hwn, cyfoethogion y ddaear, y duwiau pridd a chlai sydd yn ein mysg, y rhai o honom sydd yn gorthrymu

ein cig a'n gwaed, sydd yn dal ein cydgenedl mewn gefynau heiyrn—dynion ydynt, ond gorthrymwyr ar eu gwell. Y maent yn codi gormod o rent ar y tenant diwyd a ffyddlawn, ac yn ei ddarostwng i dlodi, i gyfyngder, i newyn, i noethni, ac i wylofain uwch ben noethni a newyn ei rai bach. Ond pa ddefnydd pwysig a wneir â'r arian a drachwantwyd ac a feddiannwyd mor greulawn? Gellid meddwl eu bod yn cael eu tynu at ryw ddybenion pwysig. Wrth weled eu prysurdeb yn eu cylch, gellid meddwl mai prynu bywyd tragwyddol ydyw y dyben, neu anfon cenhadon at baganiaid, neu o leiaf gwneyd rhywbeth fyddo o gyfrif da yn mrawdle Crist. Gallasai y dioddefydd, druan, oddef ei driniaeth yn llawer esmwythach pe gallasai gredu fod y dybenion uchel a enwyd yn cael eu prwcasu â chwys ei wyneb ef, ac â gwisgoedd ei rai bach. Boddlonai ar lai na digon o ymborth, ond cael lle i feddwl fod hyny yn anfon Gair y Bywyd i'r pagan; boddlonai ar garpiau yn lle gwisg, ond cael lle i feddwl fod hyny yn gwisgo pagan â mantell cyfiawnder. Barnai ddedwyddwch y pagan yn werth mwy iddo ef ei hun na'i wisg. Ond er ein gofid ni, a'u cywilydd hwythau, i ddybenion rhy isel i'w henwi y defnyddir yr holl orthrymder hwn. Nid i anfon yr efengyl i'r pagan, ond i chwareu lotri; nid prwcasu dyben pwysig erbyn y farn, ond cynnal chwaryddiaeth pechadurus ydyw eu dyben. Rhaid iddynt gael gwisg y tenant i gynnal puteiniaid; rhaid iddynt gael ymborth y rhai bach i dalu i'r *player* am ei ynfydrwydd; rhaid iddynt gael dodrefn tŷ y tlawd i gynnal y rhedegfeydd a'r dawnsiau, ac i wag-rodiana. Y mae y boneddig, druan, dan y fath bwys, ac y mae y fath rwymau arno i Satan fel nas gall efe drugarhau wrth gyfyngder y tlawd; a chymhwys yw iddo wrandaw ar ei dduw yn hytrach na dyn. Os gorchymyn ei frenin iddo, rhaid iddo ufuddhau. Nid ydwyf yn cyhuddo yr holl foneddigion o'r drygau hyn—gwn fod rhai o honynt yn gyfiawn, yn drugarog, ac yn dduwiol. Beia rhai fy mod i, greadur tlawd, anwybodus, yn meiddio bwrw gair yn erbyn y fath uchelder; ond nis gallaf weled fy mod i yn lân oddi wrth eu camwedd fy hun oddi eithr i mi ddwyn tystiolaeth yn ei erbyn, gan fod ein distawrwydd am bechodau yr oes yn gydymffurfiaid â'r pechodau hyny.

Y mao anghyfiawnder mawr yn mhlith y werin hefyd. Pa faint o hoked? pa faint o dwyll mewn masnachu? Pa faint sydd yn euog o'r cyhuddiad hwnw wrth werthu, yn dywedyd, "Da, da;" ac wrth brynu yr un peth, yn dywedyd drachefn, "Drwg, drwg?" Y mae celwyddau yn cael eu hystyried yn angenrheidiol gan lawer i wneyd masnach. Pa faint sydd yn colli yr enaid? Pa sawl un a roddodd ei enaid i'r byd trwy dwyll a chelwydd, er fod pob celwydd yn haeddu damnedigaeth. Pa

saw! un a roddodd ei enaid yn mhen ceiniog trwy gelwydd? .Y geiniog a ennillir trwy gelwydd a ofyn yr enaid i dad y celwydd yn angen. Y geiniog a ennillir drwy gelwydd, cofiwch pa faint y mae yn ei gostio! Pa faint, trwy gelwydd, a werthasant Dduw am geiniog? Y mae y rhai hyn yn waeth na Judas. Cafodd Judas ddeg darn ar hugain o arian, yn lle y Gwaredwr; ond y mae yma rai a'i gwerthodd am lai na hyny!

Y mae anghyfiawnder hefyd dan gollfarn yn Ngair Daw: *Esa.* xiv. 15; *Esa.* v. 8, 9, 23—25, &c. Pa faint o anghyfiawnder sydd yn y llysoedd? Tynodd y pechod hwn farn ar y byd lawer gwaith; ond y mae ei amser bron ar ben! Y mae amser yn agos y bydd y cyfoethogion yn rhy gyfiawn a duwiol i allu derbyn deng mil, neu hyd yn oed gan mil o bunnau yn y flwyddyn, ac edrych ar eu tenantiaid gonest, cywir, a llafurus, yn hanner noethion. Ië, bydd cydwybodau y cyfoethogion yn rhy dyner i allu gwerthu holl feddiannau, ac ymborth, a gwely y gŵr a'r wraig, gyda deg o blant bychain newynllyd wrth eu traed; ië, a gwerthu dillad eu gwely, druain, a'u troi i'r ffordd, allan dan yr awyr, i fferu o'u rhan hwy! A'r holl awydd a'r angen sydd am yr arian ydyw angen cynnal puteiniaid, angen hela, angen rhedegfeydd, angen gwasanaethu Satan—gweithredoedd amhrïodol i ddynion eu cyflawni. Na alwer hwy yn "ddynion," i roddi gwarth annileadwy ar y natur ddynol; ond galwer hwy wrth ryw enw mwy cyfaddas iddynt.

5. Y mae *balchder* yn gŵyn hefyd yn erbyn trigolion y wlad hon. Y mae holl nodau balchder a ddangosir yn y drydedd bennod o *Esaiah* yn rhy isel i'n beilchion ni, oddi eithr ychydig o honynt. Y mae y boneddigion wedi cyrhaedd perffeithrwydd er's talm. Y maent yn methu myned rhagddynt; ac y mae y werin wedi eu dal. Y mae y cyflogedig cystal ei wisg a'i feistr, os nad gwell; a'r lodesi gweini yn sidan drudfawr o'u sawdl i'w coryn. Gellid meddwl fod llawer o wragedd dyledog, sydd yn gweithio â'u dwylaw, yn meddu etifeddiaeth o ddeng mil o bunnau yn y flwyddyn; ac oddi eithr eu bod wedi eu magu ar y plwyf, hōnent fod eu dygiad i fyny yn galw am y fath wisg ag sydd ganddynt. Y mae traul cu gwisgoedd yn ddigon i synu yr ystyriol; ac wrth gymmharu y rhai hyny â'u rhoddion at anfon yr efengyl i baganiaid, y mae y syndod yn fwy. Edrycher arnynt yn cerdded yr heolydd—a ddywedant hwy air wrth eu hisradd? Na: teimlant y byddai mor briodol i'r haul gymdeithasu â thywyllwch. Ond nid rhyfedd! nid ydynt hwy o'r un defnydd a'r tlodion! Y mae eu cyrph hwy wedi eu tori o'r ifori, neu o'r aur dilyn, a'r cyffredin o'r pridd; gan hyny, y mae yn iawn fod pellder mawr rhyngddynt! Y mae yn ddrwg genyf dros eu hanrhydedd, pan y dywedir fod pob un—y naill fel y llall—wedi ei gymmeryd o'r pridd!

Y mae balchder dan gollfarn yn Ngair Duw. Am ei falchder y darostyngwyd Nebucodonosor i bori glaswellt fel anifail: *Dan. iv. 29; Esa. iii. 24.*

6. Halogi Sabbathau sydd hefyd yn gŵyn drom rhwng yr Arglwydd a'r wlad hon. Pa faint sydd yn trin eu meusydd ac yn agor eu siopau ar y Sabbathau fel ar amser arall! Pa faint sydd yn ei halogi trwy wag-rodiana, trwy fasnachu, trwy edrych eu llyfrau masnachol, trwy siarad am y byd, a thrwy feddyliau bydol, meddwod, a phuteindra! Daeth barn Duw ar wragedd Israel am y pechod hwn: *Esa. iii. 16, 26.*

7. *Camddefnydd o freintiau yr efengyl* sydd hefyd yn gŵyn pwysig rhwng yr Arglwydd a Phrydain.

Gellid enwi amryw ereill hefyd, megys anniolchgarwch am ddaicni mawr; diffrwythder crefyddwyr (*Esa. v. 1—6*); cyn-dynrwydd cloffwyr; ffurfioldeb aelodau eglwysig (*Esa. xxix. 13, 14*); rhagrithwyr gyda chrefydd; gwrthgilwyr oddi wrth grefydd; ac anghrediniaeth o'r efengyl.

III. *Pechadurusrwydd y pechodau hyn.*

Y mae y drwg mwyaf dychrynlyd yn natur pechod, ar wahân oddi wrth yr amgylchiadau cyssylltiedig â'r cyflawniad o hono. Y mae yn ddirmyg ar Dduw, ac yn amcanu at fywyd Duw ei hun, yn wadiad o natur Duw, ac yn ysbeilio y Creawdwr o'i gyflawn ogoniant. Nid yn unig y mae yn ei ysbeilio, ond hefyd yn elyniaeth tuag ato, yn ymosodiad yn erbyn ei lywodraeth a'i gyfraith, ac yn orthrymder ar yr holl greadigaeth. Y mae hefyd yn hunan-ddinystriol i'r pechadur ei hun, a hynny oddi ar y cymmelliadau mwyaf afresymol a disylwedd. Pe buasai y cymmelliadau yn fwy sylweddol, ni buasai y dirmyg mor fawr ar Dduw a'i gyfraith; ac ni buasai y dewisiad mor ynfyd, pe buasai y peth dewisedig yn fwy gwerthfawr a sylweddol. Rhoddi nefoedd am fwyniant cnawdol—rhoddi bywyd tragwyddol am funydyn o bleser disylwedd—rhoddi heddwch â Duw am heddwch â Satan—rhoddi pob daioni am ddrwg digymmysg—rhoddi nefoedd am uffern; a dewis melus-chwant yn fwy na Duw, a'r hwn a anfonodd efe, Iesu Grist:—dyma y newid gwael y mae pechadur yn ei dderbyn! Hunan-ddinystriad gwirfoddol hefyd ydyw pechod. Pe buasai yn an-ewyllysgar, buasai y pechadur yn ymddangos yn well. Hyn yw y gwahaniaeth rhwng credadyn ac anghredadyn yn pechu:—y mae un yn wirfoddol, a'r llall yn anwirfoddol. Dyn yn ei niweidio ei hun o'i anfodd, ni chyfrifir ef yn hunanleiddiad; ond un yn ei niweidio ei hun yn wirfoddol a bwriadol a gyfrifir y rhyw adgasaf o bechadur. Pe cymmerai gŵr wenwyn mewn anhwylddeb, nis bernid ef yn hunanleiddiad: o blegid nid oedd yn fwriadol. Ond yn y mater hwn, y mae pawb yn yfed gwen-

wyn mewn llawn bwriad. Y mae pechodau trigolion Cymru y rhai mwyaf hyfion a gwarthus o ran eu natur y gellir eu cael o fewn llywodraeth y Duw mawr. Nid ydyw y fath hyn yn briodol i'r paganiaid, y Mahometiaid, ac ereill y gallesid eu henwi. Pechu y maent wedi cael trugareddau mawrion, a gwar-edigaethau rhyfeddol ac aml. Cadwodd Duw ni fel canwyll ei lygad; fel y caria yr eryr ei gywion: "bu yn breswylfod i ni yn mhob cenhedaeth." Cadwodd ni rhag rhyfel, plaâu, a newyn, a rhag terfysgoedd; a llanwodd ein gwlad â chnwd: *Salm* cvi. 43.

Yr ydym yn pechu hefyd wedi cael breintiau crefyddol mawrion. Y mae yn rhaid mesur drwg ein pechodau wrth ein breintiau. Nid yn ol ein proffes, ond ein breintiau, yr ydym yn gyfrifol: "plant y deyrnas a fwrir i'r tywyllwch eithaf." "Yr hwn a wybu ewyllys ei arglwydd, ac ni wnaeth yn ol ei ewyllys ef, a gurir â llawer ffonod." Y mae Duw yn dadleu hyn yn erbyn pechodau ei bobl:—"Ac efe a'i cloddiodd hi, ac a'i digaregodd, ac a'i planodd o'r winwydden oreu, ac a adeiladodd dŵr yn ei chanol, ac a drychodd winwryf ynddi: ac efe a ddis-gwylidodd iddi ddwyn grawnwin, hithau a ddug rawn gwylltion. Beth oedd i'w wneuthur yn chwaneg i'm gwinllan, nag a wneuthum ynddi? pa ham, a mi yn disgwyl iddi ddwyn grawnwin, y dug hi rawn gwylltion? Ac yr awrhon mi a hysbysaf i chwi yr hyn a wnaf i'm gwinllan: tynaf ymaith ei chae, fel y porer hi; toraf ei magwyr, fel y byddo hi yn sathrfa;" *Esa.* v. 2, 4, 5. "Megais a meithrinais feibion, a hwy a wrthryfelasant i'm herbyn;" *Esa.* i. 2. "Yn dy anwiredd y mae ysgelder, o herwydd glanhau o honwyf di, ac nid wyt lân."

Yr ydym yn pechu hyd yn oed dan broffes o enw Duw. Y mae hyn yn mwyhau ei ddrwg yn fawr: "Ai yn lladrata, yn lladd, ac yn godinebu, a thyngu anudon, ac arogl-darthu i Baal, a rhodio ar ol duwiau dyeithr, y rhai nid adwaenoch; y deuwch ac y sefwch ger fy mron i yn y tŷ hwn, yr hwn y gelwir fy enw i arno?.....Ai yn lloches lladron yr aeth y tŷ yma, ar yr hwn y gelwir fy enw i?" *Ier.* vii. 9—11. "Meibion Judah a wnaethant ddrwg yn fy ngolwg, medd yr Arglwydd; gosodasant eu ffeidd-dra yn y tŷ yr hwn y gelwir fy enw arno i'w halogi ef;" *Ier.* vii. 30. Cyfrifir yr ymddygiadau hyn gan Dduw yn doriad o'i gyfammod, ac yn "halogiad ar ddefodau ei wasanaeth" (*Ezec.* xxiii. 38, 39).

Yn awr ni a roddwn ychydig o gynghorion ar y fath amser a hwn:—

1. Seliwch y gyfraith: *Esa.* viii. 16.
2. Ymdreched gweinidogion yr efengyl i ddadguddio yr anwiredd i'r eglwys: *Galar.* ii. 14.
3. Ceisiwn, a chwiliwn ein ffyrdd, a dychwelwn at yr

Arglwydd. Dyrchafwn ein calonau a'n dwylaw at Dduw yn y nefoedd: *Galar*. iii. 40. 41.

4. Cyffeswn bawb ein pechodau wrth yr Arglwydd: *Galar*. iii. 42.

5. Gweddiwn am edifeirwch a maddeuant o'n pechodau.

6. Dygwn dystiolaeth yn erbyn llygredigaeth y byd.

7. Ymdrechwn i ddiwygio ein teuluoedd a'r wlad oddi wrth eu pechodau.

8. Ymostyngwn dan law Duw. Y ffordd i barhau y farn ydyw grwgnach o dani, yn lle plygu.

Ymddengys fod y bregeth flaenorol wedi ei thraddodi o ddeutu y flwyddyn 1832, pan oedd y wlad hon yn llawn cyffro ynghylch rhyw gwestiynau gwladol.

P R E G E T H X X I V .

COLLI YR ENAID.

Matthew xvi. 26.

“Canys pa lesâd i ddyn, os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?”

Y MAE dynion weithiau yn colli pethau o werth mawr, a thrwy hyny yn ennill pethau mwy eu gwerth, ac felly yn gwneuthur “llesâd” iddynt eu hunain. Ond os bydd i ddyn golli peth o fawr werth er mwyn ennill peth diwerth a gwael, gwna golled iddo ei hun. Y mae dynion yn y byd hwn mewn cyfleusdra i ennill y naill beth trwy golli peth arall. Yr ydym mewn cyfleusdra felly o ran ein pethau bydol; ac yn arfer yn fynych geisio ein llesâd bydol trwy roddi ymaith un peth er mwyn meddiannu peth arall a gyfrifwn yn fwy ei werth i ni ar y pryd. Ar yr egwyddor hwn y gwneir holl fasnach y byd; ac y mae pawb wrth gyfnewid y pethau hyn yn ofalus am eu llesâd. Nid oes neb yn colli peth o werth er mwyn ennill peth llai ei werth yn ei olwg ef. Eich budd, eich “llesâd,” sydd yn cael ei olygu wrth gyfnewid pethau y byd hwn; ac nid ydych byth yn fodd-lawn i golli mwy nag a ennillwch.

Yr ydym mewn cyfleusdra yn y byd hwn i golli neu i gadw yr enaid. Yn y byd hwn yn unig yr ydym yn y cyfleusdra i hyny. Ni fydd yn y byd tragwyddol gadw y colledig, na cholli y cadwedig. Ond yn y byd hwn y mae eneidiau colledig yn cael eu cadw, a miloedd o eneidiau yn cael eu colli oedd mewn cyfleusdra i gael eu cadw.

Colli a chadw eneidiau ydyw y pethau mwyaf pwysig sydd yn cymmeryd lle yn ein byd ni. Gwneir mwy o swm ynghylch pethau ereill—ynghylch masnach, celfyddydau, helyntion teyrnasoedd, a phethau cyffelyb; ond nid ydyw yr holl ennill a wnaeth dynolryw oddi wrth y pethau hyn am oes y byd yn ddim wrth y golled o golli un enaid!

Collir eneidiau dynion trwy geisio ennill y byd. Nid oes neb yn colli ei enaid er mwyn ei gollu; ond collir yr enaid er mwyn ennill rhyw fanteision bydol—parch, elw, neu gyfoeth y byd. Fel y mae dyn wedi ei gynnysgaeddu â chorph ac enaid, y mae yn ddyledswydd arno ofalu am y ddwy ran, a darparu ar gyfer y ddwy. Y mae yn perthyn i bob rhan ei hanghenion priodol, neillduol. Y mae yn perthyn i'r corph ei nwydau, ei flysiau, a'i angenion ei hun; y mae yn perthyn i'r enaid ei allucedd a'i ddymuniadau yntau. Nid yr un ddarpariaeth sydd yn gyfaddas i ddiwallu y naill a'r llall. Y mae Duw wedi cyfleu angenrheidiau y corph yn y greadigaeth; ond y mae wedi dadguddio fod angenrheidiau yr ysbryd yn hanfodi ynddo ef ei hunan. Y mae wedi trefnu i'w ddaioni ffrydio atom trwy greadigaeth yn gyfaddas i gyfarfod holl anghenion y corph; ond y mae wedi trefnu i gyfoeth ei ddaioni ein cyfarfod mewn Cyfryngwr yn gyfaddas i ddiwallu angenion mawrion yr enaid.

Fel y mae yn perthyn i'r corph angenion priodol, y mae Duw, o'i ddaioni, wedi planu ynddo nwydau a blysiau yn tynu yn gryfion at angenrheidiau y corph. Nid yw y nwydau hyn ynddynt eu hunain yn bechadurus, ac y maent i'w porthi yn gymmedrol o fewn y terfynau a osododd Duw yn ei gyfraith. Ond pan y bydd y nwydau a'r blysiau hyn yn tori dros y terfynau a osododd Duw iddynt, pan y bydd y chwant yn dyfod yn drachwant, y maent yn dyfod yn bechadurus. Y mae y nwydau a'r blysiau hyn i'w cadw bob amser dan lywodraeth rheswm a chydwybod, dan gyfarwyddyd Gair Duw a'i Ysbryd; ac oddi eithr eu bod felly, y maent yn sicr o dori dros y terfynau a osodwyd iddynt.

Tuag at i'r enaid gael ei alluogi i hyny, rhaid iddo gynnal cymmundeb sefydlog â Duw—rhaid iddo edrych yn fynych ar orsedd Duw. Tuag at iddo fod yn alluog i gadw ei nwydau ar lwybr cyfreithlawn, rhaid iddo edrych yn fynych i'r byd anwel-edig—rhaid iddo gyrchu grym i'w darostwng o'r byd hwnw. Rhaid iddo edrych yn mlaen i'r farn ofnadwy, tremio draw i uffern danllyd, a bygwth ei holl waeau ar y chwantau afreolaidd. Nid oes unrhyw drueni ar y ddaear yn ddigon pwysig i'w gwywo, er ei fygwth arnynt: “gosod yr Arglwydd yn wastad ger ein bron” a'n ceidw yn ddiysgog yn ngwyneb hudoliaethau mwyaf cynddeiriog ein chwantau afreolaidd.

Trwy gollu cymmundeb â Duw, ac ymddyethro i bethau tragwyddol, y mae yr enaid yn colli ei nerth i wrthsefyll ei nwydau a'i flysiau anifeilaidd. Y mae y deall a'r ewylllys, y serchiadau a'r dychymmyg, wedi dyfod i gasglu briw-wydd ar hyd y ddaear i ffaglu i fyny dân peryglus y chwantau anifeilaidd; a chan fod y nwydau hyn mewn dyn wedi cael galluoedd cryfach i gasglu defnyddiau tân nag mewn anifail, y maent o hyny yn

rhedeg i fwy o eithafion gwarthus, ac yn ffaglu yn fwy angerddol. Ac fel y mae cynnal cymmundeb â Duw yn angenrheidiol i gadw y blysiâu a'r nwydau hyn dan lywodraeth, felly y mae gollwng y nwydau a'r blysiâu hyny dros eu terfynau cyfreithlawn yn attal cymmundeb â Duw, nid yn unig fel y mae yn peri i Dduw sori ac ymguddio oddi wrthym, ond hefyd fel y mae yn cymmyrd holl nerth yr enaid i fyny i wasanaethu y cnawd. Oddi ar y golygiad hwn y mae Satan yn chwareu ei demtasiynau ger bron ein blysiâu anifeilaidd; canys gŵyr yn dda, os gall lwyddo gyda'r blysiâu i'w tynu dros eu terfynau cyfreithlawn, y bydd iddo drwy hyny dori cymmundeb â Duw. Cyfleodd Satan ei demtasiwn gyntaf ger bron ein rhieni cyntaf wedi ei chyfaddasu a'i chyfeirio at y blysiâu anifeilaidd. Gwyddai fod yn naturiol iddynt flysio peth da yn fwyd, a pheth teg mewn golwg: yr oedd yn naturiol iddynt hoffi harddwch. Cyfaddasodd Satan ei demtasiwn at y ddau flys yma o eiddo ein rhieni cyntaf; a gwnaeth gyfeiriad at un teimlad cryf oedd yn perthyn i'r meddwl, sef awydd am wybodaeth; a thrwy weithio ar y blysiâu a nodwyd, ynghyd âg awydd y meddwl am wybodaeth, llwyddodd i ennill eu calonau ar ol gwrthddrychau eu blysiâu, ac i dori eu cymmundeb â Duw.

Pan y byddo blysiâu cnawdol wedi rhedeg dros y terfyn cyfreithlawn, y maent yn dwyn y galon yn gaeth ar y gwrthddrychau hyny. Y mae dyn yn rhoddi y cariad a'r ymddiried a ddylai roddi i Dduw i wrthddrychau ei flys: gwna dduw o'i fol, o'i aur, a'i gyfoeth; rhed ei galon ar ei olud, a gesyd ei serch ar bethau sydd isod. Y mae yn dyfod yn "ddyn y byd;" yn "y bywyd yma" y mae ei "ran:" "dyn anianol" ydyw; nid ydyw uwch law yr anifail yn ei ddybenion a'i bleserau.

Y mae dyn yn y byd hwn dan gynnygion gwrthwynebol i'w gilydd; y mae dwy blaid yn dadleu eu hawl iddo yn erbyn eu gilydd: y mae y naill a'r llall yn hòni hawl i'w galon; sef, y byd a chrefydd, y pethau a welir a'r pethau ni welir, y pethau sydd dros amser a'r pethau sydd dragwyddol. Y mae y byd ac angenrheidiau y corph yn hòni hawl i'r galon, ac yn dadleu eu hachos yn fedrus—fod llawer o bethau o bwys mawr i'w colli neu i'w hennill trwy ofal neu ddiolfalwch am achosion y corph. Y mae ganddo ei fygythion a'i addewidion, a gall wneuthur i'r naill a'r llall ymddangos yn fawr ac yn deilwng o'r gofal penaf. Y mae Crist, o'r tu arall, yn hòni hawl uchel i'r galon; y mae ganddo lawer i'w ddyweyd drosti: y mae yn dadleu rhagoriaeth ei berson, mawredd ei gariad, ei gymmwynasgarwch difesur, ei angeu poenus drosom, a'r cyfoeth o fendithion sydd ganddo i'w cyfranu. Y mae yn bygwth tragwyddol ddamnedigaeth ar ei wrthodwyr, ac yn addaw bywyd tragwyddol i'r rhai a'i derbyniant. Nid oes gan y byd ddim i'w addaw ond sydd ddarfodedig

a diflanedig, na dim i'w fygwth nad ydyw amser yn ei gario ymaith. Ond y mae y dadleuon o'r tu arall yn cael eu tynu yn benaf o'r byd tragwyddol: y golled a'r trueni a fygythir ar wrthodwyr y Mab yw cospedigaeth dragwyddol, a'r budd o'i dderbyn ydyw bywyd tragwyddol—"etifeddiaeth anlygredig." Nid ydyw yn addaw llawer o fanteision bydol; ond i'r gwrthwyneb, addefa mai gorthrymder o'i du ef sydd i'w gael yn y byd, erlid, "pob drygair," ysbeilio, a lladd: ond er hyny y mae yn dadleu fod "trysor yn y nef," ac "nad ydyw dioddefiadau yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir;" os "dattodir y daearol dy" trwy ferthyrdod, fod "tŷ nid o waith llaw;" ac os collir yr einioes naturiol, y cedwir yr einioes dragwyddol; ac os rhaid dioddef pob drygair a chamwri, mai "mawr yw eu gwobr yn y nefoedd."

Yr ydym yn wrthddrychau ymryson mawr rhwng galluoedd anweledig. Y mae Ysbryd y gwirionedd ac ysbryd y cyfeiliorni trwy eu cyfryngau priodol yn rhyfela am danom; nid trwy ymosodiad uniongyrchol ar eu gilydd, ond trwy ymosodiad ar ein calonau ni i'w hennill i'w meddiant. Y mae Satan yn ymdrechu i ennill y galon, ac Ysbryd Duw yn ymryson am y galon: ein calonau ni ydyw sefyllfan y rhyfel rhwng y galluoedd mawrion hyn—y galon ydyw y castell y mae y naill yn ceisio ei gadw a'r llall yn ymdrechu ei feddiannu. Y mae y naill yn gweithio trwy gyfrwng y byd, a'r llall trwy gyfrwng y Gair; y mae y naill yn argymhell manteision bydol, y mae y llall yn dadleu rhyw fanteision o natur ysbrydol a thragwyddol y rhai a ddadguddir yn y Gair. Nid oes dim yn ddymunol ac yn foddhaol i gig a gwaed yn y byd nad ydyw y naill blaid yn ei ddadleu; na dim yn bwysig a gwerthfawr at fyd arall nad ydyw y llall yn ei gymhell yn daer.

Y mae dynolryw gan hyny yn wyneb y cynnygion hyn dan angenrheidrwydd o dderbyn y naill a gwrthod y llall; nis gellir cael y ddau; ni ddichon neb "wasanaethu Duw a mammon." Rhaid colli'r byd i gadw'r enaid, neu golli'r enaid i ennill y byd. Y mae rhyw amgylchiadau yn y rhai y mae yn rhaid aberthu cyfoeth i gadw cydwybod; bydd raid colli meddiannau cyfiawn neu wadu Crist. Cymmerodd rhai eu hysbeilio o'r hyn oll oedd ganddynt yn llawen, oddi ar ystyriaeth "fod iddynt olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus." Yr ydym yn wastadol mewn cyfleusdra i golli yr enaid trwy geisio ennill y byd mewn llawer dull; ac o'r tu arall mewn cyfle i gadw'r enaid trwy golli rhyw fanteision bydol.

Nid oes gan neb ond odid wrthwynebiad i fod yn gadwedig, ond y mae llawer yn anfoddlawn i ddioddef y golled sydd ynglyn â hyny. Nid oes genych un wrthddadl yn erbyn arddel Crist yndo ei hun, ond ni ellwch adael y rhwystrau er ei fwyn.

Careu oîl gael bendithion “gwybodaeth Crist Iesu yr Arglwydd,” ond nid yw pawb yn foddolawn i gyfrif pob peth yn dom er mwyn ardderchawgrwydd y wybodaeth hono. Nid oes yma neb na charai gael trysor yn y nef, ond rhaid i lawer gael trysori ar y ddaear, serch i hynny fod yn rhwystr iddynt i drysori yno. Nid oes genych wrtadodi yn erbyn derbyn maddenant pechodau: ond nid ydych mor ewyllysagar i edifarhau ac i ddiodes y golled am y pleser o fyw yn y pechodau hynny rhagllaw. Nid ydych yn anfoddiawn i Grist eich gwareda rhag digofaint Duw; ond nid ydych mor foddolawn iddo eich llywodraethu rhag llaw: cyfrifwch hynny yn golled fawr iawn. Yr ydych yn dymuno cael ei waed yn ei rinweid at eich cydwytodau, i'ch rhyddhau oddi wrth enogrwydd y pechodau a aethant heibio; ond nid ydych yn caru i'r gwaed, na dim arall, eich glanhau oddi wrth yr halgrwydd a'r ymarferiad â phechod: byddai hynny yn ormod o golled! Yr ydych oll am gael bywyd tragwyddol, ond nid oll mor awyddus am gerdded y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd: y mae hono yn rhy gul i gymmeryd i mewn lawer o bethau sydd o werth mawr yn eich golwg. Y mae pawb am gael dedwyddwch crefydd, ond ni fŷn llawer drafferth a llafur crefydd; y maent am y wobr, ond ni fynant wasanaethu: ond “y pethau a gyssylltodd Duw,” nis gellir eu gwahannu. Ni ellir meddiannu dedwyddwch crefydd heb ymaflŷd hefyd yn ei dyledswydd; ni dderbyni'r “yr hyn sydd dda” ynddi, heb “yr hyn sydd ddrwg” hefyd i'r teimlad. Ond nid ydyw dedwyddwch mor rad nac mor sicr yn un lle ag yn nghrefydd Crist. Yn y byd y mae y boen o'i geisio yn gwrthbwysu yn llawn y budd o'i gael; ond yn nghrefydd Crist, pa faint bynag fydd y boen a'r golled a esyd arnom yn ein hymgais am fywyd tragwyddol, y mae y budd o'i feddiannu yn anfeidrol fwy na gwrthbwysu y boen o'i geisio. “Nid ydyw dioddefiadau yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir i ni.” Y daioni rhataf a geisiodd y merthyr erioed oedd bywyd tragwyddol, er iddo gostio iddo ei fywyd! Y mae rhyw gyfartalech rhwng y draul a'r budd, yn mhob anturiaeth fyddol, ond yma nid oes dim cystadledd; y mae y gwahaniaeth y tu hwnt i ddim a welodd llygad, a glywodd clust, neu a ddaeth i galon dyn: nid ydyw dioddefiadau crefydd yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant sydd yn ol llaw. Am fod rhyw fanteision bydol i'w haberthu mewn crefydd y dynodir bywyd sanctaidd “yn fyw yn ol yr Ysbryd,” a bywyd halogedig “yn fyw yn ol y cnawd.” Byw yn ol y cnawd yw byw i foddhau blysiu y corph—byw i'r byd—byw i geisio golud, pleser, neu anrhydedd y byd hwn. Byw yn ol yr Ysbryd ydyw byw uwch law y byd hwn—byw wrth real ysbrydol—byw dan ddylanwad pethau anweledig—byw dan lywodraeth cymmhelliadau wedi eu tynu o'r byd tra-

gwyddol. Am fod colli rhyw fanteision bydol yn ofynol mewn crefydd y dynodir bywyd sanctaidd yn effaith ffydd a gobaith: “y cyflawn a fydd byw trwy ei ffydd;” “heb ffydd amhossibl yw rhyngu ei fodd ef;” “wrth ffydd yr ydym yn rhodio, ac nid wrth olwg.” Rhaid i fywyd sanctaidd darddu oddi ar olwg ar fyd arall, rhaid iddo dderbyn ei gymmhellion a’i annogaethau o’r byd anweledig, rhaid iddo dynu ei anadl o’r tu hwnt i’r llen; o blegid os edrychwn i’r byd yma yn unig, y “truanaf o’r holl ddynion” ydyw y credadyn. Rhaid iddo ef aberthu ei enw, a’i gyfoeth, a’i fywyd; nid yw crefydd yn gwneyd dim iddo ond ei golledu o bob peth gwerthfawr, a’i osod yn sathrfa i bob trueni, ac yn aberth i bob creulondeb. Ond os edrychwn yn mlaen i’r byd mawr y mae ffydd yn ei agor o’n blaen; ac ymddengys nad oes neb wedi gochel trueni ond efe, neb wedi prynu dedwyddwch yn rhad, am ddim, ond efe. Nid oedd y colledion a ddi-oddefodd yn y byd ond camrau yn ei daith i dderbyn anniflan-edig goron y gogoniant; nid oeddynt ond moddion i’w gymmhwysu o fwynhau yr holl ddaioni, i fwynhau Duw ei hunan. Y mae taith credadyn yn y byd hwn y fath ag sydd yn sicr o beri i grefydd ymddangos iddo yn ei golledu, oddi eithr iddo edrych i fyd arall; rhaid iddo trwy ffydd “edrych ar daledigaeth y gwobrwy.”

Rhaid i obaith orwedd wrth wraidd bywyd sanctaidd yn ein byd ni, i wrteithio ymdrechion y Cristion. Y mae y credadyn yn cael ei “adgenhedlu i obaith bywiol trwy adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw.” Pe gofynech pa ham yr oedd Paul yn tynnu arno ei hun *ŵg* awdurdodau y byd hwn, ac yn anturio i’r fath beryglon—pa beth oedd yn cymmhell ei feddwl? Y mae yr ateb yn barod o’i enau ef ei hun:—“Am obaith ac adgyfodiad y meirw,” yr oedd efe yn myned trwy yr holl orithrymderau hyn: *Act. xxiii. 6.* Nid dim a allasai ddisgwyl oddi wrth ei grefydd yn y byd hwn oedd yn ei dynu yn mlaen; nid oedd addewid am ddim gwell iddo yma na’i erlid, a gras i’w gynnal dan erledigaeth: ond edrychai draw at “obaith ac adgyfodiad y meirw” am wobwr ei ymdrechion celyd. Gorfoledda y Cristion mewn gorthrymderau, nid am nad ydyw yn teimlo gorthrymderau fel ereill, ond oddi ar “obaith gogoniant Duw.”

Sylwn, yn

I. Pa fodd y mae dynion yn colli eu heneidiau wrth geisio ennill y byd.

1. Y mae rhai yn colli yr enaid trwy geisio ennill y byd yn ei bleserau. Nid oes ganddynt un wrthddadl yn erbyn crefydd, ond yn unig ei bod yn erbyn y peth y maent hwy wedi ei ddewis yn bleser. Y maent yn ei chymmeradwyo mewn llawer o bethau; ond y mae ganddynt un peth yn ei herbyn. Fel y

dywedodd Crist wrth eglwys Laodicea y dywed cannoedd o'r Cymry wrth Grist:—"Mi a adwaen dy weithredoedd di, mi a adwaen dy ragoriaethau fel Ceidwad; yr ydwyf yn cymmeradwyo dy iachawdwriaeth, dy nefoedd, dy aberth yn iawn dros bechod: ond y mae genyf un peth yn dy erbyn—dy fod yn gwahardd y dafarn a'r cwmni llygreddig, ac yn gommedd chwaryddiaethau sydd er difyrwch a phleser: y mae hyn yn rhwystr i ni dy dderbyn." Naaman y Syriad ydoedd wr cadarn, nerthol, "ond yr oedd efe yn wahanglwyfus." Felly y mae Crist yn ngolwg llawer: y mae ynddo lawer o bethau canmoladwy yn eu golwg, ond y mae y cwbl er hyny yn gyssylltiedig â'r fath gyfreithiau sanctaidd, fel nas gallant feddwl ymostwng iddynt. Fel yr hoffai Crist y gŵr ieuangc yn yr efengyl ar gyfrif ei rinweddau, ac etto y dywedai fod un peth yn ddiffygiol iddo, felly y mae miloedd yn Nghymru yn hoffi crefydd ar gyfrif ei bendithion a'i dedwyddwch; ond er hyny y mae "un peth" yn ddiffygiol ynddi i ateb i'w dymuniadau hwy, hyny yw, caniatâu iddynt y ddawns, y cellwair, y coeg-ddigrifwch, a'r gyfeddach. Ond cymmerwch oddi wrthi ei rheolau sanctaidd, chwi a ddinystriwch ar unwaith holl ddefnyddiau ei dedwyddwch a'i gogoniant; ei sancteiddrwydd fydd ei harddwch yn y byd a ddaw, a hyn yw y mawredd sydd ynddi i fod yn ofn i weithredoedd drwg yn y byd hwn.

Nid ydyw crefydd yn ysbeilio ei deiliaid o'u cysuron, ond yn eu newid am rai gwell; fel y mae y tymmor gauaf—nid ei ddyben yw llygru a mallu hyny o weddillion o'r hen gnwd oedd ar y ddaear, ond parotoi y ddaear i dafu i fyny gnwd newydd, mwy toreithiog a gwerthfawr, felly y mae dylanwadau Ysbryd Duw ar y galon yn gwywo ac yn mallu yr hen bleserau llygreddig o'r blaen, ond y maent trwy hyny yn rhagbarotoi yr enaid i dafu i fyny gnwd o bleserau mwy toreithiog ac anniflanedig yn haf hirfaith tragwyddoldeb. Nid dwyn ymaith bleserau bywyd y mae crefydd, ond eu rheoleiddio. Y mae pleserau llygreddig, fel y gwaed dan afiechyd, yn rhedeg yn rhy uchel (ac weithiau yn sefyll yn hollol); ond y mae pleserau crefydd yn rhedeg yn rheolaidd a gwastadol oddi ar gydwybod iach. Y mae crefydd mor bell oddi wrth ddinystrio pleserau cyfreithlawn, a'i bod yn ea puro a'u cryfhau. Y mae pleser pechod yn gymmysgedig âg euogrwydd; canys cyn i'r mwynhâd lwyd ddiiflanu y mae gydwybod yn terfysgu ac yn chwerwi y cwbl: cyn i'r wledd fyned drosodd, pan y mae cwpanau aur ac arian yn llawn o'r gwin melus ar y bwrdd, a'r mil tywysogion yn bresennol, dacw ddarn llaw yn ysgrifenu y ddedfryd farwol ar y pared, a chydwybod euog yn deffro! Ond y mae pleser crefydd yn bur a digymmysg—nid oes Och! yn ei ddilyn. Y mae gwir grefydd yn troi pob peth yn bleser; gall ei pherchenog "orfoleddu mewn

gorthrynderau," ac y mae "marw yn elw" iddo. Nid oes neb a all fwynhau pethau y bywyd hwn yn well na'r Cristion—neb a all fwynhau ymborth a dillad fel yr hwn sydd yn gweled llaw ei dad yn eu rhoddi—neb a all fwynhau cymdeithas ei deulu yn fwy na'r hwn sydd yn gobeithio cael mwynhau eu cymdeithas mewn ystyr uwch a pherffeithiach yn y byd tragwyddol.

Nid yw crefydd yn distrywio pleserau ei chanlynwyr, ond y mae yn darostwng pleserau naturiol i'w lle priodol, i roddi lle i bleserau uwch a mwy sylweddol—yr hyfrydwch hwnw yn Nuw sydd yn dedwyddoli angylion y nef; yr hwn sydd yn oruchel yn ei wrthddrych, yn nerthol yn ei natur, ac yn ardderchog yn ei effeithiau. Fel y mae rhai cyfferiau yn rhoddi gradd o esmwythder, ond yn gwreiddio yr afiechyd yn ddyfnach yr un pryd, felly y mae pleserau pechadurus yn dyfnhau ac yn gwreiddio yr euogrwydd yn y gydwybod pan yn lloni y serchiadau halogedig. Ond y mae pleser crefydd yn iachau y gydwybod ac yn symmud ymaith ofn angeu a'r bedd. Gwelais hanes am Mr. Jonathan Scott yn teithio mewn cerbyd gyda boneddiges ddeythr iddo, yr hon oedd yn dychwelyd adref o'r chwareudy; a dywedai wrtho ei bod wedi cael pleser mawr ar ei thaith i'r chwareudy wrth feddwl a dychymygu am y pethau a gâi eu gweled, a'i bod wedi cael pleser mawr i mewn wrth weled y chwareu, a'i bod yn cael pleser mawr wrth ddychwelyd adref wrth gofio yr hyn a welodd. 'Dylech chwanegu un etto atynt,' meddai y pregethwr. 'Pa un yw hwnw?' meddai hithau yn awyddus iawn; 'Y pleser a gewch etto yn angeu wrth gofio hyn.' Ymaflodd y gair yn ei chydwybod, a bu yn foddion i'w hargyhoeddi. Cofia dithau yn y dafarn, yn y ddawns, y pleser a gei yn angeu wrth gofio y pethau hyn; y mae yn sicr y byddi yn cofio yno am y cwbl! Ai pleser fydd hyn? *Mynwn rywbeth mewn bywyd a fydd yn bleser yn angeu!* Y mae y Beibl, ac ordinhadau crefydd, wedi eu cyfaddasu i roddi pleser i ddynion, cystal ag i adeiladu mewn gwybodaeth ac i sancteiddio y galon. Pa hanes erioed a welwyd mewn papur newydd yn fwy difyrus na hanes Joseph, neu hanes Dafydd—ac y mae pethau yn y rhai hyn i dynu y galon at Dduw. Cofiwch, ienengctyd, wrth ddewis eich pleserau pa beth fydd y gôst! Nid ydyw y *bill* yn cael ei roddi yn eich dwylaw gyda'r pleser:—cedwir y costau oddi wrthych hyd yr adeg y bydd maddeuant allan o'ch cyrhaedd. Nid oes yr un dyn call yn rhedeg i anturiaeth heb ystyried y costau: rhyfyg mawr ynot tithau ydyw drachtio pleserau heb ystyried fod y costau yn sicr o'th ddwyn i'r carchar byth!

2. Y mae rhai yn ceisio ennill y byd yn ei barch, a thrwy hyny yn colli yr enaid. Fe ddichon fod hwn yn aberthu llawer o bleser er mwyn parch, fel y dichon fod y llall yn aberthu

parch er mwyn pleser; a'r ddau yn cyttuno i gollu yr enaid, er nad am yr un peth.

Y rhai sydd yn gwneuthur eu parch eu hunain yn brif ddyben eu bywyd, er y gall fod yn gyssylltiedig â hwynt lawer o rinweddau, ond y cwbl yn cael eu troi at y dyben a nodwyd, ac yn foddion i'w gyrhaedd, ydynt, er hyny, yn colli yr enaid. Y mae yn hanfodol i gadwedigaeth yr enaid i fod y gofal penaf am hyny: lle y mae crefydd yn ail beth, nid ydyw yn gywir. Nid ydyw yn hawdd onnill parch heb rinweddau yn mysg cenedl oleuedig; gan hyny, gall yr hwn sydd yn gwneuthur drwg o'i anrhydedd ei hun ddwyn yn mlaen filoedd o rinweddau da i'w hoffrymu ar allor hunan, oddi ar wybod nad oes fodd ei foddhau a'i ogoneddu trwy ddim arall. Ond os tuedda ei feddwl at glod a mawredd o gymmeriad gwahanol, megys enw milwraidd—gyda'r un hyfrydwch y bydd iddo, oddi ar yr un egwyddor, foddloni ei eilun trwy dywallt gwaed miliynau o'i gyd-ddynion. Ond pe byddai raid aberthu enw er mwyn cadw yr enaid, fel y gwnaeth miloedd, nid oes dim cystadledd rhwng y golled a'r ennill. Nid ellir traethu y gwahaniaeth. Y mae enw yn y nefoedd yn tra ragori mewn bri, hawl, a pharhâd, ar bob enw ar y ddaear. Ond y gwir yw, nid rhaid aberthu parch er mwyn crefydd yn awr. Crefydd yn ein gwlad ni biau y parch; y mae yn ei chanmawl ei hun wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw. Gall ddyweyd:—'Clywais ogan llaweroedd—pob genau yn cablu; ond yn awr y mae pob genau wedi ei gau.'

Y mae y byd yn ei barch yn dyfod yn erbyn cadwedigaeth yr enaid mewn llawer o amgylchiadau, megys y gwelir yn hanes Noah, Lot, Joseph, Moses, Dafydd, Daniel, y llangciau yn y ffwrn, Ioan Fedyddiwr, Crist a'i apostolion, y merthyron, &c. Pan y gofynir i ni ddiodeff dirmyg er mwyn crefydd, yr ydym yn cael ein dwyn dan angenrheidrwydd i aberthu ein hanrhydedd, neu wadu ein proffes. Am oesoedd lawer a aeth heibio ar y byd, ie, ganrifoedd cyfain, nid oedd dim yn adgas a ffaidd yn ngolwg y cyffredin ond y Cristion disglâer. Yr oedd y drygau mwyaf ysgeler yn cael edrych arnynt yn ddiniwed mewn cymmhariaeth i ymarweddiad sanctaidd. Felly y rhagddywedodd ein Harglwydd: "Chwi a gasëir gan bawb er mwyn fy enw i, a gwyn eich byd pan y'ch erldiant ac y dywedant bob drygair am danoch er fy mwyn i, a hwy yn gelwyddog." Y fath ydyw gelyniaeth annuwioldeb yn erbyn sancteiddrwydd fel y rhaid llunio celwyddau noethion yn erbyn y saint, i'w gwarth-ruddo yn ddiachos: *Salm* iv. 2; a lxix. 19—21.

Ni bu neb o'r ffyddloniaid yn yr oesoedd boreuol, ac nid oes neb yn yr oes hon yn sefyll yn ddiysgog dros y gwirionedd yn ngwyneb gwrthwynebiadau, heb orfod diodeff gwaradwydd a dirmyg. Sêl dros draddodiadau athrawiaethol neu ymarferol a

fu yn mhob oes ar Gristionogaeth yn gwrthsefyll cynnydd goleuni a gwybodaeth, ac yn ffynnonell erledigaeth y tafod, y carchar, a'r ffagodau. Y dynion hyny a amddiffynasant y gwirionedd yn erbyn llygriadau amlwg ar yr athrawiaeth yn ngwyneb enciliadau oddi wrth y gwirionedd o'r fath bwys fel ag i lygru moesau y rhai a alwant eu hunain yn Gristionogion—gŵyrni ag oedd yn cymmeryd ymaith y cymmhelliadau i fywyd duwiol, a gŵyrni ag oedd yn cynnyrchu effeithiau llygredig er hyny—gweision ffyddlon i Grist, a galluog mewn dysg a thalentau, pan aethant i ymladd yn erbyn traddodiad, er eu bod "yn arfau cyfiawnder" yn amlwg i'w gwrthwynebwyr—er hyny, a erlidwyd ac a waradwyddwyd. Gallen rifo yn eu mysg holl lu y merthyron, a'r holl ddiwygwyr enwog oddi wrth Babyddiaeth, a'r diwygwyr oddi wrth Eglwys Loegr. Jonathan Edwards o'r America a erlidwyd gan ei frodyr; a gellid profi fod graddau o'r un ysbryd yn mysg y Methodistiaid Calvinaidd yn Nghymru. Y mae yn wir fod yn perthyn i'r cyfundeb gyfeusderau da i hunan-amddiffyniad, yr hyn sydd yn sicr wedi bod yn ofn i'r ysbryd hwn; ac oddi eithr hyny, buasai cyffwrdd â rhai o'r gwirioneddau mwyaf amlwg a phwysig yn creu y gwrthwynebiad mwyaf penderfynol.

Wrth gywilyddio arddel Crist y mae dynion yn colli yr enaid trwy ennill y byd yn ei barch. Y mae yr achosion fod dynion yn esgeuluso arddel Crist yn lliosog ac amrywiol. Rhai a esgeulusant ei arddel oddi ar fod y galon dan lywodraeth rhyw bechod;—y mae gan y pechod y fath asael ar eu calonau fel na feiddiant fwriadu ei roddi ymaith yn bresennol i ymaffyd mewn crefydd. Ereill, oddi ar ofn rhagrithio neu ofn gwrthgilio, a esgeulusant arddel Crist: y mae y rhai hyn yn fwy gobeithiol na'r lleill—y mae eu dyben yn fwy diniwed. Y mae ereill yn esgeuluso ei arddel oddi ar gywilydd: y maent wedi dewis erlidwyr a dirmygwyr crefydd yn gyfeillion, neu yn ofni eu dirmyg a'u gwawd: nis gallant oddef y gwaradwydd sydd yn eu bygwth. A ydyw esgeuluso arddel Crist neu ei gyffesu yn gyhoeddus yn drosedd o'r fath bwys fel y collir dynion byth am hyny? Edrychir ar hyn gan filoedd yn drosedd bychan ac ysgafn, a diau fod miloedd yn gorwedd yn y bai hwn, ac ar yr un pryd yn hyderu yr esgusodir hwynt yn hollol, neu o leiaf yn tybied nad ydyw yn fai o'r fath bwys fel ag i sicrhau eu coll-edigaeth; a dygant esgusion hynod o olygus drosto—dadleuant ofn rhagrithio neu ofn gwrthgilio. Mynant i ni gredu mai ofn syrthio i'r naill bechod sydd yn eu gyru i bechod arall; ond nid yw yn debygol fod ofn pechu yn achosi pechu. Ac y mae yr holl esgusion a gynnygir dros yr esgeulusdra hwn yn syrthio yn ddim yn ngwyneb geiriau Crist: "Yr hwn sydd gywilydd ganddo fi a'm geiriau yn yr odinebus a'r bechadurus genhedl-

aeth hon, bydd cywilydd gan Fab y dyn yntau pan ddél yn hngoniant ei Dad." Gadawaf rhyngot ti a geiriau Crist ei hun: os gweli ynddynt ryw ffordd i ddiange, nid oes genyf un gwrthwynebiad i ti ymgysuro. Os oes yna ryw obaith i ti allu codi dy ben yn y farn ddiweddaf, gorwedd i lawr yn esmwyth: ond os oes un gair o'r Beibl yn erbyn dy dderbyn i ogoniant, cofia, nis gellir ei syflyd byth! Y mae yn wir y gelli ddadleu llawer o rinweddau, ac nad ydwyt yn feddwyn, yn dyngwr, neu yn buteiniwr; etto, cofia fod y rhan a nodwyd o gyfraith y farn fawr yn meddu yr un grym a'r rhanau hyny sydd yn cau allan y meddwyn a'r tyngwr o deyrnas Dduw; gan hyny, na ryfyga geisio rhedeg i'r nefoedd yn erbyn craig ddiysgog cyfraith Duw!

A ddichon fod cariad diragrith at Grist yn y galon hono sydd yn cywilyddio ei arddel? A ddichon fod yr enaid sydd yn credu ei wir Dduwdod, ac wedi ymddiried iddo fel ei Waredwr rhag digofaint tragwyddol, yn cywilyddio ei arddel? A ddichon fod y cariad hwnw at Grist, oedd yn gyru y merthyr at y fflamau tân yn hytrach na'i wadu—a ddichon fod y cariad hwnw yn nghalon yr hwn sydd yn cywilyddio ei arddel? Os oedd esgeuluso ei arddel oddi ar gywilydd gynt yn bechod yn sicrhau diarddeliad yn y farn ddiweddaf, onid ydych chwi mewn amgylchiadau mwy manteisiol na'r oes hono? Esgeuluso ei arddel yr ydych chwi heb neb yn eich bygwth, heb ddim i'w ddi-oddef er ei fwyn, heb neb o'ch cydnabod i'ch gwaradwyddo. Os oedd ei wadu yn ngwyneb erledigaeth yn bechod mawr, pa faint mwy ei wadu yn ngwyneb pob calonid ac annogaeth i'w arddel? Nid erlidwyr crefydd sydd yn eich llywodraethu, ac yn llanw pob swydd o awdurdod; nid y rhai sydd yn sychedu am waed Cristionogion ydyw eich cymmydogion a'ch cenedl; nid cnawd a gwaed y saint yw bwyd a diod eich cenedl a'ch cydnabod chwi. Yn mysg rhai felly yr archollwyd Crist gan filoedd o'i garedigion; ac am esgeuluso ei arddel yn mysg rhai felly, y dywedodd Crist wrth ei ddysgyblion y gwadau efe ddynion yn y farn!

3. Y mae llawer yn colli yr enaid trwy geisio ennill y byd yn ei gyfoeth. Nid ydyw ceisio a chasglu cyfoeth ynddo ei hun yn wrthwynebol i grefydd. Er nad llawer o'r cyfoethogion a alwyd, etto dichon fod rhai, a diau fod—er nad ydynt ond ychydig mewn cymmharuaeth. Nid oes dim wedi dwyn bryd y rhan fwyaf o'r byd gwareiddiedig yn fwy na chyfoeth—gym-maint felly fel y gellir dyweyd yn hyf mai chwant i ymgyfoeth-ogi yw bywyd pob celfyddyd a masnach, a phob galwedigaeth dymmhorol. Ond lle y mae cyfoeth yn brif wrthddrych ymgais a gofal y galon, ni chydsaf hyny â chrefydd. Dichon fod llawer nad ydynt etto wedi cyrhaedd y graddau a elwir yn

gybydd-dod, etto yn rhai bydol, gan fod gofalon bydol yn tagu y Gair. Llauer nas gellir beio eu dull yn ceisio y byd hwn, sydd er hyny yn profi yn amlwg mai y byd ydyw y blaenaf yn eu serch trwy eu dull yn ei roddi allan, trwy eu diffyg haelioni i'r anghenus, ac yn enwedig eu cynnildeb at achos crefydd. Er eu bod yn synied fod rhoddi y cariad penaf i Grist yn beth hanfodol i wir grefydd, etto y maent yn meddwl y gall y cariad hwnw hanfodi a firwytho mewn rhyw ffyrdd ereill, heb gymmeryd ymaith eu meddiannau at achos y Gwardedwr—heb ddeall fod cyfoeth a chwbl dan awdurdod y serch a'r galon, ac mai y neb a fyddo fwyaf yn y serch sydd yn cael yr hawl flaenaf ar y cyfoeth.

Y byd ydyw y prif wrthymgeisydd i grefydd yn y dyddiau hyn. Nid ydyw yr hen chwaraeyddiaethau, a fu yn demtasiwn i'r oesoedd gynt, yn cael eu cynnyg i'r oes hon; nid oes dim bri arnynt, y mae barn y cyffredin yn eu hwtio a'u dirmygu: nid chwi sydd yn eu gwrthod, ond yr amseroedd sydd yn eu hattal rhagoch. Gan nas gall Satan ddadleu fod y pethau hyny yn gyfreithlawn nac yn fuddiol, y mae yn awr wedi *dropio* hyn, ac yn dyfod i mewn gyda chynnyg mwy cyfaddas i'r amseroedd. Rhaid yn awr gael pethau cyfreithlawn, a phethau ag y gellir cael rhywbeth i'w ddywedyd dros eu buddioldeb; ond gofaler am eu cael yn gyfaddas i ddwyn y galon oddi ar Grist a chrefydd—rhyw bethau i gymmeryd y serch. Dyna y cwestiwn: 'A oes dim yma isod i gymmeryd y serch oddi ar y pethau sydd uchod? Os ceir rhywbeth i attal y galon rhag croesawu y Gwardedwr, ettyb hwn unig ddyben mawr holl gynlluniau pyrth uffern. A gallwn, er i Grist ddyfod yn y cnawd, a chyhoeddi ei holl ogoniant, a gwneyd y cynnygion uchaf o ddaioni i holl drigolion y ddaear—gallwn er hyn oll gadw i fyny ein hen lywodraeth gadarn, ac attal ei holl amcanion, os gallwn ddangos rhywbeth i'r byd cyfaddas i ennill a chadw eu calonau; gan hyny, na adawer dim heb ei arganmawl iddynt—a dewiser y pethau hyny y mae mwyaf i'w ddywedyd dros eu budd. Ni ddichon goleuni yr efengyl a chynnydd gwybodaeth dueddu i beri ammheu gwerth cyfoeth bydol, am y bydd cyfoeth o wasanaeth i grefydd hefyd; a diau y bydd yn haws eu twyllo i roddi serch anghymmedrol ar bethau cyfreithlawn nag i dderbyn drygau amlwg gwaharddedig.'

Y mae llauer o'r drygau sydd yn dinystrio eneidiau mor amlwg yn eu drygedd a'u niwed fel nad oes obaith ennill derbynid iddynt gyda meddwl goleuedig; ond y mae cyfoeth a golud mor wasanaethgar i gyrhaedd lliaws o gysuron bywyd, ac yn dwyn i'w ganlyn barch ac anrhydedd; ac yn wir, yn anhebgorol i sicrhau angenrheidiau bywyd ei hun; gan hyny, gellir dwyn yn mlaen llauer o gymmhellion cryfion i'w geisio,

a'i gadw, a rhoddi y galon arno. Y mae arian " yn ateb i bob peth:" nid oes dim dymunol, oddi eithr heddwch Duw ac iechyd, nas gellir ei gyrhaedd trwy arian. Ac heb law fod llawer i'w ddyweyd dros gyfoeth ar gyfrif ei ddefnyddioldeb, gellir yn hawdd ddadleu y cyfreithlondeb o geisio, cadw, a charu cyfoeth, trwy fod cymmedroldeb o hyny yn angenrheidiol ac yn dda; ac nid hawdd ydyw tynu llinell y gwahaniaeth rhwng y cymmedrol a'r gormodol—nid hawdd penderfynu pa raddau sydd i'w caniatáu, a pha raddau sydd yn waharddedig: gellir, gan hyny, yn hawdd dwyllo dynion i gymmeryd y naill am y llall. Cymmer dysgyblaeth eglwysig afael ar rai drygau dinystriol, ond dichon i gybydd-dod lechu o'r golwg a gallu cael ei gyfrif yn gynnildeb. Barna Andrew Fuller fod mwy o broffeswyr crefydd yn cael eu dinystrio trwy gybydd-dod na thrwy un pechod arall. Collir yr enaid trwy y pechod yma mewn amrywiol ffyrdd:—(1.) Trwy arfer moddion anghyfreithlawn i geisio cyfoeth. Y mae hyn i'w weled mewn lladron, twyllwyr, rhai anghyfiawn, a'r rhai sydd yn dywedyd celwydd, ac yn gorthrymu er mwyn ennill: *Amos* v. 11, 12. (2.) Trwy attal elusen a haelioni: *Job* xxiv. 1—3; *Diar.* xxix. 7; *Esa.* lviii. 5—7; *1 Ioan* iii. 17—19. (3.) Trwy roddi y serch ar olud: " Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod, ac nid ar bethau sydd ar y ddaear." " Os cynnydda golud, na roddwch eich calon arno." (4.) Trwy ofalu yn ormodol am bethau y bywyd hwn.

Gellir codi hyn fel egwyddor yn y gair hwn—nad yw dynion yn dinystrio eu hunain yn fwriadol, ond trwy geisio ennill rhywbeth. Dichon fod rhai yn meddwl nad ydynt yn dinystrio eu hunain gan nad ydynt yn gwneyd hyny yn fwriadol. Ond beth bynag yr wyt yn ceisio ei gyrhaedd i ti dy hun ar y ffordd lydan, distryw fydd yn y pen draw. Fel y rhoddir abwyd i dynu y creadur i'r trap, felly y mae Satan yn codi rhywbeth dymunol i'r golwg; ond colli enaid ydyw y diwedd. Nis gellir cael gan ddyn redeg at ei ddamnedigaeth fel y cyfryw, ond rhed at y pethau a'u gyr yno. Y mae cyssylltiad rhwng yr abwyd a'r bach. Y mae llawer wedi *colli* trwy geisio *ennill*: felly y gwnaeth Adda, Cain, a Judas; felly y bu lawer gwaith gyda rhyfelwyr uchelgeisiol, megys Buonaparte, ac ereill; ac felly y bu yn anad un man gyda'r diafol ei hunan pan y dygodd oddi amgylch farwolaeth Tywysog y Bywyd.

Yn hyn y dengys Satan ei gyfrwysdra, yn dewis y pethau a ymddengys yn fwyaf dymunol, ac etto mewn cyssylltiad sicr â damnedigaeth—yn cynnwys ei defnyddiau; megys, ymddiddanion ysgeifn am yr efengyl, gwrandawiaid beirniadol a ffurfiol, ammheun fel defnydd anffyddiaeth: y mae yn y cwbl rywbeth i'w ennill, etto ynglŷn â niwed cuddiedig. Yr ennill sydd yn mhob pechod a ddengys y temtiwr: blas y gwin a'r pleser a

ddengys efe mewn meddwod, ond cuddia y niwed:—"yn y diwedd efe a frath fel sarph." Nid oedd y golled yn y golwg ar y cyntaf: cuddiwyd hyny hyd y diwedd. Felly tŷ'r butain: y mae ei thŷ hi yn "ffordd i uffern," ond nid oedd hyny yn cael ei ddangos—dim ond yr ennill. Felly bydolrwydd: y mae i gyfoeth ei "adenydd," ac "ni thycia cyfoeth yn nydd digofaint," ond nid oedd hyny yn cael edrych iddo. Felly gyda'r gŵr ieuangc sydd yn gwneyd yn llawen yn nyddiau ei ieuengctid, gan rodio yn ffordd ei galon, ac yn ngolwg ei lygad, y rhybudd a gyhoeddir uwch ei ben ydyw:—"Gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll:" ond nid oedd hyny yn y cyfrif.

Nid yw yr annuwiol yn gwneyd ei gyfrif yn deg i gael gwybod pa fodd y mae yn byw. Nid yw yn cyfrif y costau. Y mae yn cyfrif yr ennill, heb y golled. Symia di y cwbl i fyny yn deg, ti weli na thâl pechod i'w drin: y mae y golled yn fwy na'r ennill! Fel pe meddyliem am fordaith, a'r ennill yn ddim ond mil; ond yn costio dwy fil o bunnau—ie yn wir, colli y llong a'r cwbl! Y mae ereill yn ennill trwy golli rhywbeth. Felly y mae pob anturiaeth newydd ar fôr a thir. Felly y rhoddodd Crist ei fywyd i lawr, ond ennillodd yn annhraethol trwy hyny. Felly y merthyron, ac felly yr holl saint: "Y neb a gadwo ei einioes a'i cyll, ond y neb a'i collo o'm plegid i a'i caiff." Yr oeddynt yn "cymmeryd eu hysbeilio o'r pethau oedd ganddynt yn llawen, gan wybod fod iddynt olud gwell yn y nef, ac un parhaus." "Er Hygru ein dyn oddi allan, er hyny y dyn oddi mewn a adnewyddir o ddydd i ddydd; canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd odidog ragorol yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni." "Os ein daearol dŷ o'r babel hon a ddattodir, y mae i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd." Dyma ennill trwy golli. Y mae rhai wedi ennill iechyd trwy ei golli ar y pryd—clefyd yn cymmeryd hen ddrwg ymaith. Y mae natur yn ein colledu o'r tywydd teg hafaidd er mwyn ennill i ni gnwd yn y pen draw. Y mae rhai wedi ennill cyfiawnder mawr perffaith, trwy golli yr hen gyfiawnder diwerth oedd ganddynt hwy eu hunain. Ennill trwy golli wnaeth Moses, Abraham, Noah, Lot, Dafydd, Joseph, Job, Daniel, a'r llangciau. Y mae y môr yn llenwi un lle trwy dreio mewn lle arall; felly y gwynt, a'r goleuni. Ond i ereill, y mae y golled yn fwy na'r ennill. Felly y mae mewn rhyfeloedd; dyna ydyw colli plentyn wrth geisio ennill *freight* dda—colli iechyd i ennill ceiniog—colli bywyd i ennill clod, neu elw, neu bleser—colli cynhauaf i ennill cwsg—colli cymmeriad i ennill arian, parch, neu bleser: felly y gwnaeth Belsassar, colli ei deyrnas a'i fywyd i ennill pleserau y gyfeddach.

Pa ham y gwneir hyn, er gwybod?

(1.) Ymddengys yr ennill yn fwy sicr, a'r golled yn amheus.

(2.) Y mae yr ennill yn yr amser presennol, ond y golled yn y dyfodol: am hyny, rhaid wrth ffydd a gobaith.

(3.) Y mae yr ennill yn fater o brofiad, tra y mae y golled heb ei phrofi.

• (4.) Y mae dynion yn disgwyl cael yr ennill, a gochel y golled.

PREGETH XXV.

LLYWODRAETH DUW.

Salm xciii.

“Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, efe a wiagodd ardderchawgrwydd; gwiagodd yr Arglwydd nerth, ac ymwregysodd: y byd hefyd a sicrhawyd, fel na syflo. Darparwyd dy orseddfainge erioed: ti wyt er tragwyddoldeb.

Y llifeiriaint, O Arglwydd! a ddyrchafasant; y llifeiriaint a ddyrchafasant eu twrf; y llifeiriaint a ddyrchafasant eu tonau.

Yr Arglwydd yn yr uchelder sydd gadarnach na thwrf dyfroedd lawer, na chedyrn donau y môr.

Sicr iawn yw dy dystiolaethan: satcteiddrwydd a weddai i'th dy, O Arglwydd! byth.”

Y MAE llywodraeth Duw dros y byd i gyd. Nid yw credu bod Duw, heb gredu yn ei lywodraeth, o werth dim. Yr ydym i edrych ar holl waith Duw mewn cyssylltiad â llywodraeth Duw. Felly yr ydym i edrych ar arfaeth Duw; felly yr ydym i edrych ar ufudd-dod Crist. Gall y naill gymmydog faddeu i'r llall heb iawn; gall y gofynwr faddeu i'r dyledwr heb feichian: os daw y dyledwr â meichian yn mlaen, ni bydd arno eisieu maddeuant. Ond pe y meddyliech am y barnwr yn y llys gwladol yn condemnio yr euog i farw—y mae yn bossibl fod y barnwr yn meddu digon o dosturi at yr euog i'w ollwng yn rhydd pe bai yn bossibl; ond nid oedd ei ryddhau ddim ar ei law. Dyn y gyfraith yw y barnwr—nid all wneuthur dim ond a oddef y gyfraith; pe gollyngai yr euog yn rhydd, fe syrthiai y gyfraith i lawr. Mewn amgylchiad fel yna rhaid cael rhyw ddirprwywr i foddloni y gyfraith. Achos fel yna yw yr achos sydd rhyngom ni a Duw. Llywodraethwr mawr yw Duw, a ninnau yn wrthryfelwyr, wedi mathru ei gyfraith: y mae yn rhwym o sefyll dros anrhydedd ei gyfraith; mewn amgylchiadau fel hyn y mae yn ammhosibl gollwng yr euog yn rhydd heb iawn. Y mae iawn a maddeuant wedi cydgyfarfod yn nhrefn cadw pechadu. Beth bynag arall a allasai fod yn galw am iawn, yr oedd trefi. Llywodraeth Duw yn galw am hynny, neu ynte gospi yr euog. Dyna erbyn hyn yr awdurdod sydd wedi ei rhoddi i'r Icsu fel

Cyfyngwr: y mae llywodraeth yr holl greadigaeth i gyd wedi ei hymddiried i'w law, i'w defnyddio i fod yn wasanaethgar i ddwyn yn mlaen ei amcanion mawrion yn nghadwedigaeth pechaduriaid. Y mae pob peth yn ein byd ni wedi ei roddi o dan awdurdod y Cyfyngwr, i fod yn wasanaethgar i ddwyn yn mlaen ddybenion mawrion ei gyfyngdod. Bydd pob ffrwd wedi ei throï i redeg o blaid hyn yn y man. Nid yw ein byd ni ond newydd ddechreu deall dybenion angeu'r groes. Dyma, mi dybygwn, yw ein drwg—cyfodi gwrthryfel yn erbyn llywodraeth Duw. Ni wn i ddim ai casineb at Dduw fel bod yw gwreiddyn yr elyniaeth; ond modd bynag, y mae yn amcanu ei fwrw o'i lywodraeth. Dyna iaith y byd: "Drylliwn ei lywodraeth ef, bwriwn ei iau ymaith!" Ac am a wn i nad dyna y mae trefn yr iachawdwriaeth yn ei wneuthur—dyfod â dyn i lanw ei le yn llywodraeth foesol Duw.

Y mae yn debyg i'r Salm hon gael ei chyfansoddi yn rheswm dros ymddiried yn yr Arglwydd yn ngwyneb rhyw beryglon. Fe allai mai yn amser gwrthryfel Absalom, pan oedd y llifeiriaint yn dyrchafu eu twrf a'u tonau, y cyfansoddwyd hi. Beth sydd genyt ti i'w ddywedyd yn ngwyneb y peryglon yna, Dafydd? A oes genyt ti rywbeth i roddi dy bwys arno? Oes: mi a ymddiriedaf yn yr Arglwydd. Pa reswm sydd genyt dros ymddiried yn yr Arglwydd, pan y mae pob peth wedi dyrsu? "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu:" y mae pob peth at ei law; dim ond iddo ef ddangos ei anfoddlonrwydd i ryw ddrwg ddyfod i mewn, fe fydd hyny yn ddigon o attalfa arno. Ond sylwn yn

I. *Ei fod yn beth o werth mawr iawn i ni gael un addas i eistedd ar orseddfaingc yr holl greadigaeth.*

Y mae hon yn swydd o'r fath bwys ac ymddiried, a dylanwad mor fawr iddi, fel y mae pob dedwyddwch yn deilliaw o honi. Y mae yn foddlonrwydd i bob creadur a fedr iawn brisio dedwyddwch, mai yr Arglwydd sydd yn teyrnasu. Ni wn i ddim yn iawn etto pa beth sydd yn fy aros, ond byddaf yn gallu ymddiried fy mywyd yn llaw yr hwn sydd yn teyrnasu. Pe gollyngai y Duwdod ei afael o'r greadigaeth yma, ni allwn i yn fy myw feddwl am fywyd na hapusrwydd. Y mae rhai yn ceisio ei wthio oddi ar yr orseddfaingc. Nid wyf yn tybied y tueddai hyny er mantais i ni. Y mae lliaws yn Liverpool¹ yn gwaeddi yn lled groew, "Ymaith âg ef!" Ond cyn i ni benderfynu hyny, gadewch i ni benderfynu *pwyl a gawn ni i lywodraethu yn ei le*. Rhaid i ni gael rhywun. Nid yw yn debygol y gwasanaetha y greadigaeth ni, oddi eithrei bod o dan lywodraeth rhywun pur alluog!

1. Os ydych yn troi allan i chwilio am dano, cofiwch y rhaid

¹Traddodwyd y bregeth hon yn Liverpool, ac ysgrifenyd hi wrth ei gwrandaw.

ei fod yn *hollwybodol*:—ni chewch chwi yr un felly yn mhlith y cerubiaid. Ni wn i ddim pa faint yw gwybodaeth y creaduriaid ardderchog hyny; ond tra y byddo cerub yn cymmeryd sylw ar un, y mae yn sicr o anghofio y llall. Ni fedraf fi ddim cael neb yn gwybod pob peth ond yr Hollwybodol ei hun. Os mynwch fod yn hapus, rhaid i chwi lefain, “Byw fyddo'r brenin!” ‘Os gallwn lwyddo i'th wthio i lawr o'r orseddfainge, gwelaf ein bod yn myned i berygl.’ Yr Arglwydd a deyrnaso byth! Yr wyf yn meddwl ein bod yn dyfod yn fwy aeddfed i'w adael ar yr orsedd. O Arglwydd! eistedd yn frenin yn dragwydd! Mi wn fy helynt o dan dy frenhiniaeth di; ond os daw rhywun arall i'r orsedd, ni wn i ddim pa beth fydd ein tynged!

2. Rhaid i ni gael rhywun *hollalluog*; onid é, nid ydyw yn debyg yr ufuddhâ yr elfenau iddo. Pwy a gawn ni i ddal y gwynt yn ei ddwrn, ac i'w ddwyn allan o'i drysorau? Pwy a gawn ni i ddal y môr ar gleidr ei law? O Arglwydd! ni feddyliais i erioed ddarfod i ti fod mor gymmwynasgar i ni. Eistedd yn frenin yn dragwydd—nid yn unig oddi allan, ond oddi mewn hefyd! Rhaid i ni gael un abl i “beri i'r gwellt dyfu i'r anifeiliaid, a'r llysiau i wasanaethu dyn:” rhoddwch y cerub at hyn, ni thyfa blewyn byth. Rhaid ei gael i gadw ein holl ranau tumewnol yn eu lle. Rhaid i ni gael y Duwdod ei hunan ar yr orseddfainge, onid é, nid ydyw yn debyg y cawn lawer o ddedwyddwch!

3. Pwy a gawn ni yn meddu digon o *amynedd a gofal*? Am danat ti, nid ydyw yn werth genyt droi hanner modfedd o'th ffordd i arbed bywyd y chwilen bach; ond y mae hyn yna yn werth sylw y Llywodraethwr mawr. Nid oes neb yn meddu digon o amynedd i drin ein hachos ni (y troseddwr), ond efe. Pe y gosodech y cerub mwyaf amyneddgar i drin holl achosion y byd—un a allai weled holl lygredd y byd, ac yn meddu gallu i ddial—nis gallwn lai na disgwyl fy namnio cyn pen moment! Byddai raid iddo gael benthg amynedd Duw.

Y mae y Duw mawr yn gallu cynnal y greadigaeth mewn bod: nid oes un o'r brenhinoedd yn gallu gwneuthur hyny gyda'u teyrnasoedd; rhaid iddynt hwy adael iddynt syrthio i ddiddymdra os gwel Duw hyny yn oreu.

Y mae yn cynnal ei ddeddfau hefyd mewn grym. Y mae yma ddeddf i bob peth: deddf i'r môr, deddf i'r gwlaw, &c. Y mae wedi gosod deddfau i lywodraethu y byd. Llywodraetha trwy oruwch-lywodraethu deddfau natur er dwyn yn mlaen ei amcanion ei hunan mewn modd nas gwyddom ni. Y llygriad sydd wedi cymmeryd lle, y malldod sydd wedi digwydd i ran o'n cynnalïaeth: y maent yn ceisio priodoli hyny i ryw ddeddfau neillduol; ond pe y deallwn yr achos naturiol, nid elai hyny yn erbyn fy mhregeth i—“Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu.” Fe

gyffyrddodd â'i fys â rhyw ddarn o'r gadwen allan o'r golwg, a'r effaith a ddaeth i'n golwg ni oedd maldod rhan o'n cynnal-iaeth. Y mae yn goruwch-lywodraethu gweithrediadau dynol-ryw i ddwyn yn mlaen ei ddybenion ei hun. Y mae ei lywodraeth ar bob peth, yn ymestyn dros holl ysgogiadau cythreuliaid uffern, dros holl weithrediadau senedd-dai brenhinoedd a llywodraethwyr y ddaear, a thros bob peth ar wyneb y ddaear; ac yn mysg ereill, y mae ei lywodraeth drosot tithau—yr wyt yn ei ddwrn. Y mae ganddo lywodraeth foesol dros ei greaduriaid rhesymol: hon yw yr uchaf. Y mae hon yn ddyben i'r lleill: pethau gweledig—y maent at wasanaeth pethau anweledig; pethau amser—y maent at wasanaeth pethau tragwyddol.

Y mae llywodraeth Duw yn llywodraeth eang iawn. Dywedir fod llywodraeth Victoria mor eang ag un ar wyneb y ddaear—nad ydyw yr haul byth yn machlud ar ei theyrnas. Ond beth yw llywodraeth y mwyaf o frenhinoedd y ddaear wrth lywodraeth Duw? Y mae y ddaear wedi ei rhanu rhwng llawer o honynt; ac y maent yn methu yn lân a chael digon, ac etto yn methu hanner lywodraethu yr hyn sydd ganddynt. Ond am lywodraeth Duw, nid ydyw y ddaear ond un o filiynau o'i deyrnasoedd, a dim ond rhan fechan iawn o'i ymherodraeth. Y mae llawer o'r bydoedd ereill yn fwy o ddigon na'r byd hwn. Peth rhyfedd i'r Anwyl Fab adnabod y bwthyn gwael hwn! Nid ydym yn gallu dyweyd pa le y mae terfynau y greadigaeth. Y mae un seryddwr mawr yn dywedyd, pe gallai dyn weled yr holl greadigaeth, ac i'r haul a'i gyfundrefn syrthio i ddiddymdra, na wyddai mo'i golli mwy na cholli tywodyn ar lan y môr.

Ond nid yn unig y mae ganddo lywodraeth eang, ond y mae ganddo lywodraeth fanwl. Nid ydyw y frenhines Victoria yn gallu llywodraethu yn fanwl; ond y mae Duw yn gallu. Megys ga y mae ei eangder yn anfeidrol tu hwnt i'n dirnadaeth ni, felly y mae ei manylrwydd yr un mor bell o gyrhaedd ein dirnadaeth. Y mae llygad yr Arglwydd yn canfod pob un, ac nid all neb wneuthur dim heb ei genad. O Arglwydd mawr! pa beth yw dy feddwl di? Nid oes yma ddim yn hanfodi nad yw wrth dy ddymuniad! Nid oes un o'r cenawon llewod yn cael tammaid heb i Dduw ei ddarparu. Ei lywodraeth fanwl yw bywyd y greadigaeth i gyd. O! anwyl bobl, onid oes genym achos i addoli? Yr Arglwydd a deyrnaso byth!

Llywodraethwr da ydyw yr Arglwydd. Y Brenin Mawr yr wyf yn son am dano, llywodraethu yn dda y mae—daioni ei greaduriaid y mae yn ei geisio yn mhob ysgogiad. Y mae ei drugaredd ar ei holl weithredoedd. Beth yw y drafferth sydd ar yr holl elfenau yn gweithredu ac yn gwingo fel pe byddent mewn poen dirfawr? Ceisio esgor ar ryw gymmwynas i ddyn y maent. Y mae pob peth oll i gydweithio er daioni dyn.

Gwaeddw, "Gwneler dy ewyllys ar y ddaear," yna fe ddaw trefn. Ac y mae hyd yn oed dy groesau a'th brofedigaethau di, Gristion, i gydweithio er daioni:—"Yr holl ffrwyth fydd tynu ymaith y pechod." A ydych chiwi am iddo gael bod ar yr orsedd, ac yn bwriadu ymgrymu iddo? Beth bynag a wela yn nhragwyddoldeb, mi ddymunwn weled Duw yn frenin yno! Edrychwn yn

II. *Ar y disgrifiad a rydd y Salm o hono:—*

"Efe a wisgodd ardderchawgrwydd:"—cyfeiriad at waith brenhinoedd yn gwisgo rhywbeth ardderchog i ddangos mai brenhinoedd ydynt. "Y mae Duw wedi "gwisgo ardderchawgrwydd." Gwisgodd y perffeithiau hyny sydd yn ei gyfaddasu i lywodraethu y greadigaeth. "Gwisgodd yr Arglwydd nerth, ac ymwregysodd." Y mae brenhinoedd y ddaear yn gwisgo nerth; eu byddinoedd hwy yw eu nerth: ond y mae nerth Duw yn ei fraich ei hun. "Ac ymwregysodd." Y mae yn myned allan i ryfel—y mae trigolion y ddaear wedi gwrthryfela i'w erbyn. Y mae yn rhyfela trwy ei ragluniaeth yn y Cyfandir y dyddiau hyn, ond trwy ei Air y mae yn rhyfela yn ein mysg ni. "Y byd a sicrhawyd fel na syflo." Y mae wedi sicrhau y byd trwy ei ddoethineb. Rhoddwch frenin doeth ar yr orsedd, sicrhâ hyny y deyrnas; ond rhoddwch ffwl yno, y mae yn debyg o'i gwneyd yn chwilfriw. Y mae y byd yn cael ei sicrhau trwy ei lywodraeth ef byth—yr holl greadigaeth yn cael ei sicrhau trwyddo. Y mae pob elfen yn y bydoedd uwch ber, ac hyd yn oed gweithrediadau cythreuliaid, yn cael eu goruwchlywodraethu er daioni dynolryw. Buasai wedi myned yn wrthryfel yn nheyrnas Prydain, fel yn Ffraingc, oni buasai fod y Duw mawr wedi llywodraethu miloedd o bethau i gadw i ni heddwch. Y mae wedi bod yn gwylio ysgogiadau y swyddog gwladol yn ei ystafell wely y nos, rhag iddo feddwl am ddwyn mesurau a dueddai at dywallt gwaed. Pan y mae y llifeiriant yn dyrchafu eu twrf, y mae yr Arglwydd yn yr uchelder yn gryfach na hwynt oll. Llifeiriant profedigaethau—llifeiriant mawr angu, y mwyaf o'r cwbl—y mae yr Arglwydd yn gryfach na hwnw. Byddaf yn meddwl y bydd yn foddlonrwydd i mi yn angu gofio mai yr "Arglwydd sydd yn teyrnasu!" Y symmudiad i'r tragwyddolfyd mawr—byd dyeithr iawn, na fflm yn rhoddi tro ynddo erioed—byd tywyll iawn: ond rhaid i mi fyned yno. Gwn y rhaid i mi newid llawer o bethau wrth symmud yno i fyw. Rhaid newid cyfeillion, a newid miloedd o bethau, wrth symmud yno i drigo. Ond ni raid i mi ddim newid fy Mrenin! Diolch! fod genyf obaith cael syrthio i ddwyllaw anfeidrol ddaioni yn fy symmudiad i'r byd anweledig, a bod dan lywodraeth anfeidrol gariad byth! AMEN.

PREGETH XXVI.

CHWILIO YR YSGRYTHYBAU.

Ioan v. 39.

“Chwiliwch yr Ysgrythyrau; canys yddynt hwy yr ydych chi yn meddwl cael bywyd tragwyddol: a hwynt hwy yw y rhai sy'n tystiolaethu am danaf fi.”

YN nechreu y bennod hon yr ydym yn cael hanes yr Arglwydd Iesu yn cyflawni gwyrrth ryfeddol ar y dydd Sabbath, sef yn iachau dyn a fuasai yn gorwedd yn glaf wrth lan y llyn am ddeunaw mlynedd ar hugain. Daeth yr Arglwydd Iesu ato; ac ar ol ychydig ymddiddan âg ef, efe a orchymynodd iddo gyfodi ei wely a rhodio. Yna rhai o'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid a'i beiasant ef, gan haeru ei fod yn halogi y Sabbath, trwy gyfodi ei wely a rhodio. Pan wybu yr Iuddewon mai yr Iesu a iachasai y claf, hwy a geisiasant ei ladd ef, am iddo ei iachau ef ar y Sabbath. Yna gwnaeth yr Arglwydd Iesu hunan-amddiffyniad cadarn trwy lawer o resymau anwrthwynebol, ac a argyhoeddodd yr Iuddewon o'u camsyniad, trwy brofi yn eglur iddynt mai efe oedd y gwir Fessiah addawedig trwy y prophwydi; a chan hyny, fod ganddo ef awdurdod gyfiawn i wneuthur y wyrth hon ar y Sabbath. Yna y mae yn eu galw yn mlaen i farnu y profion a osodir ger eu bron yn ddiuedd: ac os byddai iddynt dderbyn ar ei achos ef y cyffelyb brofion ag a arferent dderbyn ar achos rhai ereill yn eu llysoedd cyfreithiol, y byddent yn rhwym o gredu ei dystiolaeth ef. O blegid nid ydyw yn eu hannog i gymmeryd haeriad noeth heb brawf; ond efe a ddwg yn mlaen dystion sicr ereill i'w brofi tu hwnt i amhenaeth: “Os ydwyf fi yn tystiolaethu am danaf fy hun nid yw fy nhystiolaeth i wir.” ‘Yr ydwyf yn caniatu i chi wrthod fy nhystiolaeth os nad allaf ddwyn yn mlaen dystion ffyddlawn i brofi ei gwirionedd.’ Ac efe a gyfeiria at Ioan Fedyddiwr fel tyst. Wedi hyny efe a ddwg yn mlaen y dystiolaeth fwyaf anwrthwynebol, sef tystiolaeth Duw Dad, i'w hargyhoeddi o'i

ddwyfol anfoniad:—"Ond myfi nid wyf yn derbyn tystiolaeth gan ddyn." 'Nid ydwyf fi yn rhwymedig i un dyn am sicrhâd digonol o'm dwyfol anfoniad. "Ond y pethau hyn a ddywedais fel y gwareder chwi:" ond nid rhaid i mi enwi tystiolaeth Ioan o ddiffyg profion ereill digonol, ac uwch yn eu natur; etto cyddygaf â chwi cyn belled a gosod ger eich bron y profion mwyaf adnabyddus i chwi er mwyn eich gwaredu o'ch anghrediniaeth damniol. Ond y mae genyf fi dystiolaeth fwy nag Ioan—tystiolaeth anfonedig ac anwadadwy; "Canys y gweithredoedd a roddes y Tad i mi i'w gorphen—y gweithredoedd hyny, y rhai yr ydwyf fi yn eu gwneuthur, sydd yn tystiolaethu am danaf fi, mai y Tad a'm hanfonodd i;" *adn.* 36. Prawf arall a osodaf ger eich bron, ydyw tystiolaeth anwadadwy y Tad:—"A'r Tad yr hwn am hanfonodd i, efe a dystiolaetha am danaf fi;" *adn.* 37. Dygodd y Tad dystiolaeth eglur mewn llais o'r nef, gan ddywedyd, "Hwn yw fy Anwyl Fab." Ond er i chwi glywed fy Nhad yn llefaru felly yn uniongyrchol am danaf, etto yr ydych yn aros yn anghrediniol.'

Y prawf olaf a ddygit yn mlaen ydyw ysgrifeniadau y prophwydi:—"Chwiliwch yr Ysgrythyrau, canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol: a hwyntwy yw y rhai sy'n tystiolaethu am danaf fi." 'Yr ydwyf yn dwyn ger eich bron yn awr brawf nas gellwch, yn gysson â'ch egwyddorion a'ch proffes, ei wrthod. O blegid yr ydych chwi eich hunain yn addef fod ysgrifeniadau y prophwydi yn wirionedd o ddwyfol ysbrydoliaeth; ac yr ydych yn addef eich rhwymau i greu yr ysgrifeniadau hyny yn ddilysiant: o blegid yr ydych yn eu cyfrif yr unig ddadguddiad o natur a ffordd bywyd tragwyddol. Yr ydych yn proffesu y parch mwyaf iddynt, ac yn ymfrostio llawer yn eich meddiant o honynt. Ond chwiliwch chwi i wir feddwl yr Ysgrythyrau yna, a chwi a welwch ynddynt hwy mai myfi ydyw y gwir Fessiah; o blegid "hwyntwy sydd yn tystiolaethu am danaf fi." Yn eu cysgodau a'u prophwydoliaethau—myfi ydyw eu gwrthddrych.' Cyfieitha rhai y geiriau—"Yr ydych chwi yn chwilio yr Ysgrythyrau, canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol: a hwyntwy yw y rhai sy'n tystiolaethu am danaf fi." Gan hyny, yr ymresymiad ydyw 'Pa fodd yr ydych heb fy adnabod i, gan eich bod yn chwilio yr Ysgrythyrau? o blegid am danaf fi y maent hwy yn tystiolaethu.' Ni a sylwn—

I. *Fod yr Arglwydd wedi rhoddi ei ewylllys ddadguddiedig i ddynion i'w chadw yn y byd o oes i oes, heb ei chyfnewid na'i cholli, mewn ysgrifen.*

Ystyr y gair "ysgrythyr" ydyw ysgrifen: "ysgrythyrau" ydyw ysgrifeniadau. Wrth "yr Ysgrythyrau" yn y testyn y

meddylir yr holl ysgrythrau oedd wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw y pryd hwnw, sef yr Hen Destament; o blegid nid oedd y Testament Newydd wedi ei gyfansoddi y pryd hwnw. Tybia rhai mai yr ysgrifen a wnaeth Duw ar y ddwy lech oedd y gyntaf oll yn mhlith dynion. Ond nid ydyw hyny yn debyg i wirionedd: o blegid nid ydyw Moses yn son am hyny fel peth newydd: ac heb law hyny, y mae yn debygol iawn fod Job yn byw cyn amser Moses; o blegid pe buasai Job yn byw ar ol amser Moses, buasai yn dra thebygol o grybwyll yn ei lyfr am y gwyrthiau rhyfeddol a gyflawnodd yr Arglwydd yn ngwaredigaeth Israel o'r Aipht, o herwydd yf oedd y gwyrthiau hyny wedi myned yn gyhoeddus yn ddioced trwy yr holl ddaear:—"I hyn yma y'th godwyd, fel y dadgenid fy enw trwy yr holl ddaear," medd Duw wrth Pharaoh. Ond y mae distawrwydd Llyfr Job am y gwyrthiau hyn yn sail gref i farnu fod Job yn byw o flaen amser Moses. Tybia rhai dysgedigion ei fod yn byw ar ol Joseph, cyn genedigaeth Moses; gan hyny, os caniateir fod Job yn byw o flaen Moses, yna rhaid addef fod ysgrifen yn arferol yn y byd cyn i Dduw ysgrifenu y ddwy lech â'i fys i Israel, o blegid y mae yn Llyfr Job grybwylliad am ysgrifen:—"O! nad ysgrifenid fy ngeiriau yn y graig dros byth â phin o haiarn ac â phlwm."

Ysgrifenydd llawer at ddynolryw ar y mater mawr o grefydd. Ysgrifennodd lliaws ar y penau hyn trwy ysbrydoliaeth Satan at ddynolryw, a da y gellir galw y dynion hyny yn "weinidogion Satan;" 2 Cron. xi. 14, 15. Dewisodd Duw roddi ei ewyllys ddadguddiedig i'w chadw yn mhlith dynion mewn ysgrifen. Cadwyd ewyllys ddadguddiedig Duw yn y byd am lawer oes cyn ei rhoddi mewn ysgrifen, trwy ymddiddanion teuluaidd crefyddol. Felly y cadwyd y gwirionedd dwyfol yn yr eglwys trwy yr holl oesoedd meithion o Adda hyd Moses—am ddwy fil a hanner o flynyddoedd—trwy i'r patricirch eu crybwyll wrth eu plant o oes i oes. Yr oedd amryw bethau yn ffafriol i'r dull hwnw o gadw y gwirionedd dwyfol yn y byd yn yr amseroedd hyny. Yr oedd y gwirionedd dwyfol y pryd hwnw mewn crynoded hynod o fyr, a chan hyny yn hawdd i'w gynnwys yn berffaith yn y cof. Yr addewid am Had y wraig i ysigo pen y sarph, ynghyd â'r ddefod grefyddol o aberthu ac offrymu a sefydlodd Duw yn amser Adda, oedd yr holl ddadguddiad o ewyllys Duw a roddwyd i'r oesoedd hyny. Yr addewid am Had y wraig a fyddai testyn ymddiddan crefyddol y patricirch cyn y diluw; ac ar ol hyny, yn eu teuluoedd, annogent eu plant a'u hiliogaeth yn fynych i gredu yn Had y wraig fel yr unig Waredwr iddynt rhag y llid dwyfol. Heb law hyny, yr oedd oesoedd y patricirch, cyn y diluw yn enwedig, mor faith fel y gallent sefyll yn dystion dros y gwirionedd am amser maith iawn. Bu rhai o honynt fyw

dros naw cant o flynyddoedd, i ddwyn eu tystiolaeth dros y gwirionedd: trwy ychydig o nifer y trosglwyddwyd y dystiolaeth o Adda hyd Moses. Heb law hyny, yr oedd y prif wrthwynebiad, i raddau, yn erbyn y gwirionedd heb ymddangos yn y byd yn yr amseroedd hyny.

Ond yn amser Moses, gwelodd Duw yn well ddiogelu ei ewyllys ddadguddiedig yn mysg dynion rhag colli na chael ei llychwino, trwy ei rhoddi mewn ysgrifen, i'w chadw yn y byd o oes i oes. Yr oedd amryw bethau yn galw am ei rhoddi mewn ysgrifen y pryd hwn yn fwy nag o'r blaen. Yr oedd y dadguddiad dwyfol erbyn hyn wedi helaethu llawer, o blegid yr oedd Duw wedi dadguddio chwaneg o'i ewyllys rasol i Noah, ac wedi hyny amlygodd chwaneg o'i feddwl i Isaac a Jacob. Fel yr oedd y gyfeillach yn parhau rhwng Duw a dynion, yr oedd chwaneg o feddwl grasol Duw yn cael ei ddadguddio. Ond amlygodd Duw lawer iawn o'i feddwl i Moses: ymddiddanai a Moses fel gŵr yn ymddiddan â'i gyfaill wyneb yn wyneb. Trwy gyfarwyddyd Moses y gwnaeth Duw gyfammod â'r genedl, ac y gwaredodd hwynt o dŷ y caethiwed, ac y sefydlodd drefn addoliad newydd yn eu plith; rhoddodd iddynt ddeddfau a barn-edigaethau newyddion. Erbyn diwedd oes Moses, yr oedd pum llyfr Moses yn gyflawn o'r dadguddiad dwyfol, wedi ei roddi gan ysbrydoliaeth Duw. Gan fod y dadguddiad dwyfol wedi cynyddu mor fawr, yr oedd yn anhawdd ei gynnwys bellach yn y cof bob iot o hono; gan hyny, yr oedd yn angenrheidiol rhoddi yr holl ddadguddiad hwn mewn ysgrifen, i'w gadw rhag colli na llygru yn y byd ddyddiau'r ddaear. Yr oedd yr oes erbyn dyddiau Moses wedi ei byrhau i ugain mlynedd a chant; a chan hyny buasai raid i'r gwirionedd dwyfol gael ei drosglwyddo yn fynych o dad i fab, a buasai aml drosglwyddiad arno yn per-yglu ei burdeb: am hyny, yr oedd hyn yn rhoddi chwaneg o angenrheidrwydd am ei roddi mewn ysgrifen. Heb law hyny, yr oedd gwrthwynebiadau cryfion yn erbyn y gwirionedd erbyn hyn yn dechreu ymddangos yn y byd: o blegid yr oedd eilun-addoliath wedi tyfu yn gadarn yn Babel yn amser Abraham, ac wedi ymledaenu yn mhlith y Cenhedloedd, ac ymsefydlu yn gadarn ac yn gyffredinol: gan hyny, yr oedd y gwirionedd dwyfol yn dyfod yn wrthddrych lliad a malais cyffredinol eilun-addolwyr. Yr oedd hyn yn chwanegu yr angenrheidrwydd am ei ddiogelu trwy ei roddi mewn ysgrifen.

Ond er cymmaint y gwrthwynebiadau oedd, ac sydd, yn ymddangos yn y byd yn erbyn y dadguddiad dwyfol, etto mynai Duw ei gadw yn y byd heb ei llychwino na'i gyfnewid holl ddyddiau amser; o blegid y mae wedi bwriadu y dadguddiad hwn yn foddion i gyflawni y dybenion mwyaf pwysig. Bwriadodd y dadguddiad hwn yn foddion i gasglu ynghyd gorph dirgeledig yr

Arglwydd Iesu, yn oleuni i oleuo y Cenhedloedd, yn arfau nerthol trwy ei allu ef i fwrw cestyll annuwioldeb i'r llawr: "Gan fwrw dychymygion i lawr, a phob uchder sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw, a chan gaethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist." Ond fe ddichon y tybia rhai y buasai dadguddiad newydd o'r nef i bob oes, a gwyrthiau newydd i bob oes, i gadarnhau y dadguddiad hwnw, yn fwy effeithiol a grymus i fwrw anghrediniaeth y byd i lawr na hen ysgrifen er's oesoedd yn ol; a bod angenrheidrwydd am wyrthiau parhaus fel yn yr oes apostolaidd i argyhoeddi y byd o ddwyfoldeb Cristionogaeth. Ond y maehyn yn gamolygiad. Er fod gwyrthiau yn angenrheidiol i sicrhau dwyfoldeb yr oruchwyliaeth efengylaidd wrth ei sefydlu yn y byd, megys yr oedd angenrheidrwydd cadarnhau yr oruchwyliaeth seremoniol trwy wyrthiau o'r blaen, etto nid oes un angenrheidrwydd am wyrthiau parhaus dan yr oruchwyliaeth efengylaidd; o herwydd y mae dwyfoldeb yr ysgrifen hon yn cael ei brofi a'i gadarnhau mewn amryw ffyrdd ereill i reswm diduedd:—

1. Y mae goruchwyliaethau rhagluniaeth Duw, trwy gyflawni prophwydoliaethau yr ysgrifen hon, yn dyfod yn brawf cryfach o'i dwyfoldeb ger bron llygaid yr holl oesoedd ar ol i'r gwyrthiau ddarfod nag y bu y gwyrthiau erioed i'r oesoedd a'u gwelodd. Ond pe cawsem ddadguddiad newydd o'r nef i bob oes, a gwyrthiau i'w gadarnhau, ni buasai hyn yn effeithiol i argyhoeddi un enaid heb oruchwyliaeth yr Ysbryd Glân. Y mae yr ysgrifen hon yn profi ei dwyfoldeb yn amlwg i reswm diduedd heb ei ddallu â gelyniaeth. Ni ddichon neb wrthymresymu yn erbyn dwyfoldeb yr ysgrifen hon; o blegid y mae ei dwyfoldeb mor amlwg fel nas gellir dywedyd dim yn ei erbyn, heb ar yr un pryd ymwrthod â holl sylfaeni a rheolau gwir ymresymu. Y mae pawb sydd yn llefaru ac yn ysgrifenu yn erbyn dwyfoldeb amlwg yr ysgrifen hon yn llefaru ac yn ysgrifenu yn anfeidrol islaw rheswm, ac yn troseddu rheolau ymresymu. Y mae rhai yn gwadu ei dwyfoldeb oddi ar anwybodaeth hollol o'r profion amlwg sydd i'w cael o'i dwyfoldeb, ac yn gwrthod edrych i'r profion hyn; pryd y mae ereill, trwy lawer o ymdrech, yn cau eu hunain i fyny yn hollol yn erbyn pob argyhoeddiad o'i dwyfoldeb: er clywed a gweled profion eglur ac anwadadwy, etto y mae eu trachwant mor gryf at y pechodau ffaidd y caniatâ eu hegwyddorion llygredig iddynt orwedd ynddynt fel na dderbyniant argyhoeddiad. Y mae yr anghredinwyr hyn yn amddiffyn eu hanghrediniaeth trwy ddyeithrwech meddwl i'r profion a wyddant o ddwyfoldeb yr Ysgrythrau, ynghyd â thrwy lanw eu meddyliau â rhyw debygoliaethau a ymddengys iddynt hwy i'r gwrthwyneb; ond nis gallant hōni un prawf i'r gwrthwyneb. Nid ydynt heb allu i newid eu barn o ddiffy

profion digonol ac amlwg: ond ni fynant newid eu barn, a chan hyny ni fynant edrych am y profion amlycaf, ac ni phlygant i'r profion cryfaf; o blegid fod yr egwyddorion a goleddant yn caniatáu iddynt hwy eu dymuniadau llygredig, sef cyflawni pob afeiddid yn un chwant. Nid oddi ar egwyddor y maent yn amddiffyn eu tybiau. Nid ffrwyth ymchwiliad a barn ydyw eu penderfyniadau, ond gwobr anghyflawnder sydd yn effeithio i'w hennill a'u cadw yn y tybiau hyn; o herwydd y maent yn derbyn y wobr a fawr ddymunant hwy, sef nofio yn eu llygredig; aethau heb gael eu bygwth gan eu cydwybodau.

Oddi ar ba ystyriaeth y dywedodd yr ymfyd, "Nid oes un Duw?" "Yn ei galon" y dywedodd hyny. Pa beth ydyw yr effaith o hyny? "Ffieiddwaith a wnaethant." Awydd cryf natur lygredig am wneuthur ffieiddwaith a barodd iddi edrych am lwybr rhydd i'w gyflawni: a chan na oddefa cydwybod i ffieiddwaith gael ei wneuthur tra y teimla fod Duw i alw i farn am hyn oll, am hyny, i barotoi y ffordd, rhaid ymdrechu i wneuthur i fyny benderfyniad "nad oes un Duw:" yna bydd pob drws yn agored. Nid ydynt yn barnu yn ddiuedd, ond yn derbyn gwobr gan eu tueddiadau llygredig am wro barn.

Prawf amlwg i lygaid pob oes o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau ydyw cyflawniad prophwydoliaethau yr Ysgrythyrau. Y mae yr Ysgrythyrau yn cynnwys prophwydoliaethau amlwg am ddigwyddiadau nas gallasai neb eu rhagfynegu yn flaenorol ond Duw yn unig. Dichon dynion ragfynegu rhai pethau oddi ar weled rhyw arwyddion blaenorol o'r pethau hyny; megys y rhagfynegir diffyg ar yr haul a'r lleuad, ynghyd âg amryw arwyddion y ffurfafen, oddi ar ddeall natur: am fod deddfau natur yn effeithio y digwyddiadau hyny o angenrheidrwydd, rhaid iddynt gymmeryd lle, neu i drefn natur ddyrysu. Ond nid digwyddiadau sydd yn effaith deddfau gosodedig natur a ragfynegir yn yr Ysgrythyrau sanctaidd; ond digwyddiadau nad oedd dim tebygolrwydd blaenorol o honynt yn ymddangos—digwyddiadau nad ydynt mewn un modd yn effaith deddfau gosodedig y greadigaeth; megys, codiad a darostyngiad brenhiniaethau mawrion, a rhyfeloedd gwaedlyd; darostyngiad brenhiniaeth y buasai rheswm yn barnu, yn yr olwg arni fwyddyn cyn ei dinystr, yr arosai yn dragfyndol; a dyrchafiad brenhiniaeth arall nad oedd un maen ar faen o'i hadeilad yn mhen can mlynedd ar ol ei rhagfynegu a'i rhagddarlunio. Digwyddiadau ydynt oll, os gellir profi iddynt gael eu rhagfynegu gannoedd o flynyddoedd yn blaen, sydd yn brawf digonol fod yr hwn a'u rhagfynegodd "yn gwybod y diwedd o'r dechreu."

Y mae yr ysgrifen hon yn rhagfynegu digwyddiadau cyhoeddus ac amlwg, fel na ddichon gelynyon y dadguddiad dwyfol

wadu y cyflawniad. Pe buasai ysbryd prophwydoliaeth wedi dewis rhagfynegu digwyddiadau neillduol a dirgel, megys rhyw ddigwyddiadau teuluaidd neu bersonol, y gallasai y cyflawniad fyned heibio mewn congl, yn ddirgel, heb ymddangos i liaws digonol o dystion i sicrhau y cyflawniad o'r digwyddiad rhagfynegol, buasai gelynion y gwirionedd yn derbyn mantais fawr i wadu y cyflawniad. Ond prophwydoliaethau am ddigwyddiadau cyhoeddus sydd yn yr Ysgrythyrau—prophwydoliaethau a allant ddwyn yn mlaen genhedloedd cryfion yn dystion o wirionedd y cyflawniad—digwyddiadau a allant ddangos yn mhlith eu tystion baganiaid ac anffyddiaid gelynol i'r Ysgrythyrau, fel nas gall y gelyn haeru fod y tystion yn gwro o blaid yr Ysgrythyrau oddi ar gariad atynt, na'u bod yn tystio gwirionedd y digwyddiad a ragfynegwyd oddi ar bleidgarwch. Ond gallir cael cenhedloedd cyfain o baganiaid yn addef i ddigwyddiadau gymmeryd lle yn eu plith hwy; y rhai, ond edrych i mewn i'r Ysgrythyrau, a welir yn amlwg wedi eu rhagfynegu er's cannoedd o flynyddau o'r blaen. Digwyddiadau ydynt na all neb eu gwadu; megys, helyntion teyrnasoedd a chenedloedd—ie, y pethau mwyaf cyhoeddus yn yr holl fyd (*Esa.*). Pe buasai awdwyr yr Ysgrythyrau yn dwyllwyr, buasent yn diogelu eu hamcanion yn well trwy ragfynegu digwyddiadau neillduol a dirgel, y rhai y gallasant haeru y cyflawniad pe na ddigwyddasai: ond y mae rhagfynegu digwyddiadau mor gyhoeddus ac anghyfnwidiol yn brawf amlwg o'u cywirdeb diddichell.

Nid yn unig rhagddywedwyd digwyddiadau cyhoeddus ac anwadadwy, ond cyflawnwyd y digwyddiadau hyny trwy elynion y gwirionedd yn gystal a thrwy ei gyfeillion. Pe buasai yr offerynau a ddefnyddiwyd i gyflawni y prophwydoliaethau oll yn gredinwyr, gallasid haeru fod y personau hyny yn dwyn yn mlaen y digwyddiadau i'r dyben o wirio y prophwydoliaeth. Gallasant haeru fod Bonaparte wedi dwyn yn mlaen yr holl ryfeloedd gwaedlyd i'r dyben o weithio ei hun i ateb i ddisgrifiad y prophwydoliaeth, a thrwy hyny yn ei wneuthur ei hun yn fwriadol yn wrthddrych priodol y prophwydoliaeth.

Ond ni all neb yn briodol haeru fod yr offerynau fu ar waith yn cyflawni ac yn gwirio y prophwydoliaethau yn bwriadu gweithio eu hunain yn wrthddrychau iddynt; o blegid bu llawer pagan yn offeryn i gyflawni prophwydoliaethau na wyddai ddim am danynt: *Esa.* xlv. 4, 5. A bu llawer o anffyddwyr yn offerynau i wirio ac i gyflawni y prophwydoliaethau yn anfwriadol. Buont, yn eu hanwybodaeth, yn offerynau i wirio ac i sicrhau yr Ysgrythyrau, pan ar yr un pryd yn eu cashau a'u hanghredn, ac yn eu gwadu yn haerllug. Y llywodraethwyr Iuddewig, a'r llywodraethwr paganaidd, ar ol hyny a erlidiasant y credinwyr oddi ar elyniaeth at eu hathrawiaeth, pan ar yr

un pryd yn gwirio ac yn cyflawni canghenau pwysig o'u hathrawiaeth, sef gelyniaeth anghymmodlawn y byd llygredig at sancteiddrwydd; ac yn enwedig gwirio prophwydoliaethau Crist am hyny. Pan dybient hwy eu bod yn gwanychu y gwirionedd, ac yn ei ddileu oddi ar y ddaear, yr oeddynt yn hytrach yn ei gadarnhau trwy wirio prophwydoliaethau Crist, y byddai i'w ganlynwyr ef gael eu dwyn ger bron llywodraethwyr, a'u herlid, a'u lladd. Y moddion a fwriadodd y gelynion i'w dileu o'r byd a effeithiodd i'w cadarnhau a'u gwirio. Rhoddwyd prophwydoliaethau am ddigwyddiadau mawrion a chyhoeddus Rhagluniaeth yn yr Ysgrythyrau, i gael eu cyflawni yn olynol fel cadwen gyssylltiedig drwy yr holl oesoedd, o'r pryd y collwyd ysbryd prophwydoliaeth hyd ddiwedd y byd: felly cafodd pob oes weled â'i llygaid gyflawniad rhyw brophwydoliaeth i'w hargyhoeddi o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau.

Y dyben penaf o roddi prophwydoliaethau am ddigwyddiadau gwladol a helyntion teyrnasoedd yn yr Ysgrythyrau, ydoedd sicrhau a phrofi dwyfoldeb yr Ysgrythyrau trwy gyflawniad y prophwydoliaethau hyny.

Pa ham y rhoddwyd mwy o brophwydoliaethau am helyntion gwladol y canrifoedd a aethant heibio er pan lefarwyd yr Ysgrythyrau nag am helyntion gwladol y canrifoedd sydd yn ol hyd ddiwedd y byd?—o blegid nid oes genym ddarluniad manwl o helyntion gwladol y byd oddi yma i ddydd y farn, ond yn unig golwg arno yn rhyw ysbaid mawr o heddwch a deddyddwch. Gellir ateb:—Yr oedd angenrheidrwydd am brofion o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau yn ngoruchwyliaeth Rhagluniaeth yn y canrifoedd a aethant heibio o'r oruchwyliaeth efenyglaid, o herwydd yr oedd anghrediniaeth yn gryf yn y byd yr amseroedd hyny: ond o hyn i ddiwedd y byd, ni bydd y fath angenrheidrwydd am brofion o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau yn ngoruchwyliaeth Rhagluniaeth: o herwydd bydd anghrediniaeth wedi ei fwrw i lawr yn mysg yr holl genhedloedd. Gan hyny, "curo awyr" fuasai rhoddi profion felly o'u dwyfoldeb yn yr oesoedd hyny. Gadawyd yr Ysgrythyrau yn agored hefyd i'r holl genhedloedd eu gweled a'u chwilio, fel na all neb o'u gelynion haeru eu bod yn cael eu newid at yr amseroedd. Pe cawsai yr Ysgrythyrau eu diogelu drwy yr holl oesoedd oddi wrth eu gelynion, gallasai y gelynion haeru eu bod yn cael eu newid at yr amseroedd, a bod prophwydoliaethau yn cael eu rhoddi i mewn yn faleisus, pan yr ymddangosai arwyddion blaen-rol fod y cyfryw ddigwyddiadau ar dori allan.

Yr unig ffordd a ddefnyddia anffyddwyr i wadu dwyfoldeb rhai prophwydoliaethau ydyw gwadu eu hynafiaeth, a haeru mai hanesyddiaeth ydynt, wedi eu hysgrifenu ar ol i'r digwyddiadau gael eu cyflawni. Ond ni chadwyd yr ysgrifen hon

mewn congl yn yr holl oesoedd a aeth heibio; ond gadawyd hi yn agored o flaen llygaid pob oes a chenedl, fel y mae ei hynafiaeth yn hollol brofedig, nid yn unig trwy dystiolaeth y rhai sydd yn ei chredu, ond hefyd trwy dystiolaethau ei gelynyon.

2. Y mae goruchwyliaeth yr Ysbryd yn cadarnhau ei dwyfoldeb o flaen llygaid pob un, ac mewn modd amlwg.

II. *Prif amcan mawr yr Ysgrythyrau ydyw tystiolaethu am Grist.*

1. Y mae yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu am Grist fel yr unig ddadguddiad o hono: nid oes genym dystiolaeth am Grist ond yn yr Ysgrythyrau. Y mae y nefoedd yn dadgan gogoniant Duw; ond nid ydyw y nefoedd yn dadgan gogoniant Cyfryngwr. Nid ydyw y ffurfafen yn mynegu gwaith y pryndegaeth. Nid ydyw dydd i ddydd yn traethu gair am ffynnon i olchi af-lendid moesol; nid ydyw nos i nos yn dangos "gwybodaeth gogoniant Duw yn ngwyneb Iesu Grist." Y mae llawer iaith ac ymadrodd lle ni chlybuwyd erioed am Gyfryngwr rhwng Duw a dynion: nid aeth ei llinyn disglacwr etto i lawer rhan eang o'r ddaear, ac nid ydyw ei geiriau hi megys etto wedi treiddio i eithafoedd y byd. Y mae Crist fel yr haul, yr hwn nis gellir ei weled ond yn ei oleuni ei hun. Gellir gweled rhai pethau yn ngoleuni y ganwyll, ond ni welir yr haul yn y goleu hwnw. Gellir gweled rhai pethau yn ngoleu y fwrn, a gellir gweled rhai pethau yn ngoleu y lleuad a'r ser; ond ni welir yr haul ond yn ei oleuni ei hunan. Felly y mae Haul y Cyfiawnder; nis gellir ei weled ond yn ei oleuni ei hun. Goleuni mawr Haul y Cyfiawnder a gyfododd ar ein byd ni ydyw yr Ysgrythyrau sanctaidd. Llewyrch swydd brophwydol y Cyfryngwr wedi tywynn yn danbaid ar fyd o dywyllwch ydyw yr Ysgrythyrau. Fel y mae yr Arglwydd Iesu yn awdwr y dadguddiad hwnw o bethau ysbrydol y gelwir ef yn briodol yn "oleuni y bywyd;" o blegid ei athrawiaeth anffaeledig ef fel prophwyd mawr yn unig a ddygodd fywyd ac anlygredigaeth i oleuni. Y mae gan lenyddwyr lawer gwydr-ddrych i ganfod y ser naturiol; ond nid oes ond un gwydr-ddrych yn yr holl fyd i ganfod y "seren foren eglur;" sef, yr Ysgrythyrau sanctaidd. Trwy y gwydr-ddrych hwn y gwelir y seren hono sydd yn llewyrch gobath iachawdwriaeth i fyd colledig. Gwnaed llawer gwydr-ddrych twyllodrus yn y byd i ddangos rhith iachawdwriaeth i ddynion, megys Mahometiaeth ac eilun-addoliaeth; ond twyllo y llygaid y mae y drychau hyny. Ond y mae y drych llawn yn sefydlu ein llygaid ar yr iawn wrthddrych: "I hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth, y derbyn pawb a gredo ynddo ef fywyd tragwyddol."

2. Y mae yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu am Grist fel y mae

yr *effaith* yn tystiolaethu am yr *achos*. Y mae y greadigaeth yn tystiolaethu yn amlwg am Dduw fel creawdwr—yn tystiolaethu am ei allu, a'i ddaioni (*Rhuf. i.*), ac am ei ogoniant (*Sal. xix.*); o blegid y mae hi yn *effaith* mawr ei allu, a'i ddaioni, a'i doethineb ef. Gan fod y greadigaeth yn *effaith* mawr gallu a doethineb Duw, y mae yn briodol ei derbyn yn dystiolaeth ddigonol o anfeidrol allu a daioni yr awdwr o honi. Olrheinir achosion cuddiedig trwy eu heffeithiau amlwg. Fel y mae gallu a daioni Duw yn ymddangos yn ngwaith y greadigaeth, am mai efe ydyw yr awdwr mawr o honi, felly y mae graslonrwydd mawr a doethineb anfeidrol y Gwardwr yn ymddangos yn nghyfansoddiad yr Ysgrythyrau, am mai efe ydyw eu hawdwr fel prophwyd mawr. Yr Ysgrythyrau ydyw ei athrawiaeth ef: Dyna holl egwyddor uniawn ei addysg ddoeth ef i ddynion. Efe, trwy ei Ysbryd, a gynhyrfodd y prophwydi i lefaru ac ysgrifenu yn anffaeledig, a'r apostolion ar ol hyny. Cenhadon dros Grist ydyw gweinidogion yr efengyl, yn cyhoeddi ei athrawiaeth ef i ddynion; a phwy bynag fyddo y genad yn cyhoeddi y gwirionedd, megys y mae yn yr Iesu, cyfrifir ei weinidogaeth ef yn lleferydd Crist wrth ddynion, cyn belled a bod anghredu ei weinidogaeth ef yn wrthodiad o Grist, yr hwn sydd yn lefaru trwyddo. Y mae y traethawd yn tystiolaethu yn amlwg am farn, a galluoedd, am ddysgeidiaeth a gwybodaeth yr awdwr. Yr ydych yn ystyried traethawd dynol yn rheol gymmhwys i fesur galluoedd a barn yr awdwr. Y mae yr awdwr i'w weled yn ei draethawd. Traethawd a gyfansoddwyd gan y prif ddoctor mewn duwinyddiaeth ydyw yr Ysgrythyrau sanctaidd. Dyma ffrwyth ei synwyr mawr ef. Dyma fyfyrddau Mab Duw ar bethau tragwyddol mewn ysgrifen—ei fyfyrddau er tragwyddoldeb—corph o dduwinyddiaeth cyflawn ac anffaeledig ar bob cangen o wybodaeth grefyddol, a gyfansoddwyd gan "dyst" mawr y bobl, ac "athraw" cyffredinol y cenhedloedd, yr hwn "a gyfiawnhâ lawer trwy ei wybodaeth." Yr hysbysiad goleu a chadarn a roddodd "yr uniganedig oddi wrth y Tad" o ddirgelion anweledig ydyw yr Ysgrythyrau. Megys y dywedir am Paul, yn *Eph. iii. 4*, y gellir dywedyd yn briodol am Grist: "Wrth yr hyn y gellwch, pan ddarllenoch, wybod fy neall i," &c. Fel y mae y ffrwyth yn tystiolaethu yn gywir am ansawdd y pren, felly y mae yr Ysgrythyrau pan yn tystiolaethu am Grist. Yr ydych yn adnabod y pren wrth ei ffrwyth; o blegid "ni ddichon pren drwg ddwyn ffrwyth da, na phren da ddwyn ffrwyth drwg." Adnabyddir "pren y bywyd" wrth ei ffrwyth; y mae ei ddail rhinweddol yn iachau y cenhedloedd. Dail rhinweddol pren y bywyd sydd yn iachau y cenhedloedd ydyw athrawiaeth iachus, addewidion rhinweddol, a rheolau meddyginiaethol yr Ysgrythyrau. Yr Ysgrythyrau

ydwy ffrwyth mawr y pren afalau sydd yn mysg prenau y coed, yr hwn y bu dda i'r holl gredinwyr gael eistedd dan ei gysgod, a'i athrawiaeth fuddiol sydd felus i'w genau. Crist fel Cyfryngwr sydd wedi dwyn i fyny y ffrwyth mawr o afalau gwerthfawr a rhinweddol—gwirioneddau dwyfol, addewidion melus, a rheol ddiogel mewn byd o berygl.

3. Y mae yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu am Grist fel eu dyben a'u hamcan pennodol. Y mae yn wir fod yr Ysgrythyrau yn lled grybwyll am lawer o bethau ereill; ond nid ydynt yn "tystiolaethu" am bethau ereill ond yn unig fel y maent yn dyfod i mewn yn achlysurol i'r dystiolaeth am Grist. Ni buasai yn werth gan Dduw ymostwng i lefaru gair wrth ddyn oni buasai fod ganddo Grist i'w ddadguddio iddo. Ni buasai ganddo ddim yn werth iddo ei fynegu wrth ddyn oni bai fod ganddo Gyfryngwr i'w hysbysu. Y mae y cerbyd sy'n rhedeg o Gaergybi i Lundain yn dyfod trwy lawer tref a phentref, ac yn aros ychydig yn y lleoedd hyny, etto Llundain ydyw y nôd—nid ydyw y cerbyd ond galw heibio i'r mân bentrefydd sydd ar ei ffordd yn achlysurol; yr amcan ydyw dybenu ei yrfa yn Llundain. Felly y mae yr Ysgrythyrau yn gyru drwy hanes y diluw, a thrwy hanes y tân o'r nef yn llosgi y dinasoedd, a thrwy hanes yr Aipht, a thrwy helyntion Israel o'r Aipht i Ganaan, a thrwy hanes eu rhyfeloedd, a'u haddoliad, a'u gwrthgiliadan, a thrwy achau y genedl yn fanwl: ond Crist oedd y nôd yn y cwbl—ato ef yr oedd yr holl redegfeydd hirion hyn yn cyrchu i gyd. Dyben yr Ysgrythyrau yn galw heibio i'r holl bethau hyn oedd dibenu yr hanes yn y Messiah wedi ymddangos yn y cnawd.

Y dyben o yru trwy achau y genedl Iuddewig yn y *Cronicl* ydyw olrhain llinach y Cyfryngwr. Y dyben o roddi yr holl wyrthiau mawrion dan yr hen oruchwyliaeth oedd argyhoeddi dynion o wirionedd y dwyfol ddadguddiad, a thrwy hyny eu hennill i ddisgwyl am a chredu yn y Cyfryngwr.

Y dyben o roddi gwaredigaethau mawrion a gwrthiau i'r eglwys Iuddewig oedd cadarnhau eu ffydd yn yr addewid am awdwr iachawdwriaeth dragwyddol. Y dyben o roddi defodau seremonïol yn eu mysg ydoedd rhagddangos iddynt mewn cysgodau amlwg y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, a thrwy hyny eu hannog i ymddiried ynddo.

Parhaodd ysbryd dadguddiad anffaeledig hyd ymddangosiad y Messiah yn y cnawd, oddi eithr ambell ysbaid byr o amser, er dechreuad y byd. Ond wedi i ysbryd prophwydoliaeth gael y Messiah yn y cnawd, ystyriai ei hun wedi cyrhaedd y nôd: yna ciliodd ymaith gyda dydd yr apostolion. Ni amcanwyd yr Ysgrythyrau yn draethawd ar y celfyddydau, nac i oleuo y byd mewn amaethyddiaeth; a gellir cyfrif hyn yn rheswm digonol

dros y rhanau o'r Ysgrythyr sydd yn ymadroddi am bethau yn ol fel yr ymddangosant i ni, ac nid yn ol eu dull priodol; megys y dywedir fod yr haul yn myned, ac yn sefyll: *Salm xix.* Pe buasai yr Ysgrythyrau wedi eu hamcanu yn eglurhâd ar ser-yddiaeth, buasai y fath iaith yn gwbl amhriodol i'w hamcan. Ond amcanwyd yr Ysgrythyrau yn ddadguddiad o'r pethau anweledig, a'r cwbl hyny yn dyfod i'r amlwg trwy gyfryngau; megys pan gollir darn o arian, y rhaid symmud llawer dodrefnyn o'i le, a throi i lawer congl i edrych am dano; ond nid gweled y conglau na symmud y dodrefn hyny ydyw yr amcan, ond chwilio am y darn arian a gollwyd; felly y mae yr Ysgrythyrau yn troi i mewn i lawer congl dywyll, megys helyntion yr hen fyd a'r Aipht, &c.: ond nid edrych i mewn yno ydoedd amcan yr Ysbryd, ond chwilio am Grist. Y mae yr hanes sanctaidd wedi symmud a *thumblo* llawer brenhiniaeth a chenhedlaeth; ond y dyben ydoedd dwyn y darn arian mawr i'r golwg sydd yn cyfoethogi dros byth. Wedi symmud brenhiniaeth Caldea, Media, a Groeg ymaith, dygodd y darn arian i'r amlwg yn Bethlehem Judah. Y mae hanes tywysogion y byd hwn yn cynnwys crybwylliad am lawer o bethau yn achlysurol, megys y tywysogion cyfeillgar iddynt, a'r rhai cylchynol iddynt, ynghyd â'u gallu, a'u dewrder, a'u doethineb; ond gwrthddrych yr hanes ydyw un person neillduol. Felly y mae yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu am Grist, gan grybwyll am lawer o wrthddrychau ac amgylchiadau; ond Crist ydyw gwrthddrych mawr yr holl dystiolaeth. Ni fynegir am wrthddrychau ac amgylchiadau ereill ddim yn mhellach nag y byddo eu hanes yn wasanaethgar i amlygu gogoniant Crist. Megys y mae yn angenrheidiol darlunio gallu, a lliosawgrwydd, a manteision y gelynion, i'r dyben o osod allan ogoniant concwerwr, felly rhaid darlunio gallu mawr a lliosawgrwydd aneirif gelynion yr eglwys yn yr holl oesoedd i'r dyben o ddangos gallu a mawredd buddugoliaeth y Cyfryngwr. Darlunir y pedwar, yn *Dan. vii.*, yn gedyrn, yn greulawn, ac yn ofnadwy: ond y dyben ydyw egluro gallu mawr y Cyfryngwr, a nerth rhyfeddol ei frenhiniaeth yn malurio y fath ymherodraethau cedyrn. Rhoddir hanes creulondeb Pharaoh, ei galedwch, a'i allu, i'r dyben o egluro mawr allu gwaredwr Israel o'i grafangau.

4. Y mae yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu yn amlwg am Grist. Y mae pob gau grefydd yn diogelu llawer o bethau, yn enwedig y prif bethau, oddi wrth y bobl gyffredin. Yn y grefydd Dderwyddol, cedwid y prif egwyddorion o honi oddi wrth y bobl gyffredin: yr un modd yn y grefydd Fahometaid, ac yn y grefydd Babaid. Nid oes un grefydd yn dal i'w chwilio, ond y grefydd ysgrythyrol.

Un o'r cyfeiliornadau cyntaf a ymlusgodd i mewn i'r Eglwys

Gristionogol yn yr ail ganrif ydoedd gwadu eglurdeb digonol yr Ysgrythyrau, a dal fod ystyr dirgeledig ac ysbrydol, heb law ystyr llythyrenol, i'r Ysgrythyrau. Y mae yr Ysgrythyrau yn llefaru yn lled dywyll am bethau dibwys; ond llefariant yn hollol eglur am Grist. Olrheiniwch y rhanau tywyll o'r Ysgrythyr: er eu bod yn ymddangos ar y cyntaf yn fawreddog, ac wedi eu gwisgo mewn iaith gref a bywiog, etto pan edrychir i mewn i'w gwir feddwl, a deall eu cynnwysiad, nid ydynt yn gyffredinol ond y materion lleiaf eu pwys yn yr Ysgrythyr. Y mae gweledigaethau Daniel, yn y seithfed bennod o'i lyfr, yn ymddangos ar y cyntaf yn iaith gref, ond yn gadael y mater yn lled dywyll: ond erbyn dyfod at ei gynnwysiad, nid ydyw ond tywysogion paganauidd yn codi ar ol eu gilydd. Gellid tybied, wrth edrych ar iaith gref gweledigaethau Daniel, Ezeziel, ac Ioan, mai yno y mae brasder yr Ysgrythyrau, ond yn unig eu bod yn aneglur; ond po bellaf yr elom i mewn i lawer o'r rhai hyny, lleiaf fydd ein rhyfeddod. Wedi agor y seliau, ni chawn ond rhyfeloedd gwaedlyd, heintiau, a newyn. Wedi clywed yr udgyrn, ni chawn ond tywysogion gwaedlyd yn terfysgu ac yn rhyfela. Wedi dyfod i mewn i ddirgelwch y phiolau, ni chewch ond terfysgoedd daearol. Ond y mae Crist yn amlwg yn yr Ysgrythyrau. Weithiau, rhaid i'r adeiladwyr gloddio yn ddwfn i'r ddaear, a chodi meini oedd yn guddiedig o'r blaen, i adeiladu: ond y mae maen Seion ar wyneb y tir, yn amlwg i bawb yn yr Ysgrythyrau. Yn ngwaith y greadigaeth, rhoddodd y Creawdwr y pethau mwyaf angenrheidiol yn fwyaf amlwg i ddynion. Rhoddwyd y dwfr, yr ymborth, a'r gwisgoedd yn fwyaf amlwg, fel pethau angenrheidiol i natur; ond, gadawyd yr aur, a'r arian, a'r mwngloddiau yn fwy cuddiedig, fel pethau llai angenrheidiol. Rhoddodd yr ymborth ar wyneb y maes, a'r dwfr yn yr afonydd, ac yn ffrydiau o flaen ein llygaid; pryd y mae yr aur, a'r arian, a'r amrywiol fwngloddiau, yn gorwedd yn guddiedig yn ngheudod y mynyddau a'r dyffrynoedd: a phriodol y gelwir y mwngloddiau yn "feini tywyllwch a chysgod angen:" "Haiarn a dynir allan o'r pridd, ac o'r gareg y toddir pres." Y mae Duw yn gosod terfyn ar dywyllwch pan y mae yn dadguddio y pethau hyn i ddynion, o blegid yn y tywyllwch yr oeddynt; ac efe sydd yn chwilio allan bob perfeithrwydd pan yn eu dwyn i'r amlwg; ie, hyd yn oed meini tywyllwch a chysgod angen. "Ei cheryg sydd le dirgel i Zaphir, a phriodellau aur tywyll sydd iddi." Rhaid i ddyn, wrth gyrchu mwngloddiau allan, droedio "llwybr nid adnabu aderyn, ac ni chanfu llygaid barcut;" ie, "llwybr ni sathrodd cenawon llew, ac nid aeth hen lew trwyddo:" rhaid iddo estyn ei law at y gallestr, a dychwelyd y mynyddoedd o'r gwraidd: rhaid iddo beri i'r afonydd dori trwy y creigiau, cyn y gall ei lygaid ef weled pob

peth gwerthfawr. Rhaid iddo rwymo afonydd rhag llifo, a dwyn pethau dirgel i oleuni. Ond nid rhaid i ddyn dreiddio trwy y creigiau i gael gafael ar Gyfryngwr yn yr Ysgrythyrau; nid rhaid iddo ei dynu allan o'r pridd, na'i doddi o'r gareg, fel y pres. Ni raid iddo osod terfyn ar dywyllwch i weled Cyfryngwr; ni raid iddo chwilio allan bob perffeithrwydd, na rhoddi ei law ar feini tywyllwch a chysgod anghyffwrdd, i gael gafael ar Gyfryngwr: ni raid sychu afonydd yma. Nid lle diogel ydyw ceryg i egwyddorion crefydd; nid priddellau tywyll ydyw eu cartref priodol. Nid rhaid iddo gerdded "llwybr nad adnabu aderyn ac na chanfu llygaid barcut;" na cherdded llwybr "yr hwn na sathrodd cenawon llew; ac nad aeth hen lew trwyddo:" (*Iob* xxviii. 8). Nid rhaid iddo estyn ei law at y gallestr, na dymchwelyd mynyddoedd. Nid rhaid iddo beri i afonydd dori trwy y creigiau, tuag at i'n llygaid weled. Nid rhaid iddo rwymo yr afonydd rhag llifo, na dwyn pethau dirgel i oleuni. Ond er na wya dyn beth a dâl hi; er fod y dyfnder yn dywedyd, "Nid ydyw hi ynof fi;" "er na cheir hi er aur pur, ac na ellir pwysu ei gwerth âg arian; etto, Duw sydd yn deall ei ffordd hi."

Fel, megys yn y greadigaeth, y rhoddwyd y pethau angenrheidiol yn amlycaf; felly yn y Gair, rhoddwyd y pethau angenrheidiol yn hollol amlwg, pryd y mae y pethau llai eu pwys yn anamlwg. Yn mhob celfyddyd, gwneir y pethau mwyaf eu pwys yn fwyaf amlwg, a gadewir y pethau lleiaf eu pwys yn fwy aneglur. Nid oes berygl iddo gael ei ddwyn yn rhy amlwg. Po amlycaf y byddo llawer o wrthddrychau, mwyaf y cânt eu ffeiddio a'u dirmygu.

5. Y mae yr Ysgrythyrau yn tystio am Grist yn fanwl a digonol; ond y mae yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu am greadigaeth y byd yn hynod o fras, a byr, a chynnwysfawr. Darn o ddalen sydd genym am hanes creadigaeth y byd; pryd y mae genym ddalennau lawer, ie, lyfr cyfan, ar hanes tabernacl Moses. Yn hanes y greadigaeth, nid ydym yn cael cymmaint a gwybod rhifedi nac enwau yr amrywiol fydoedd a grewyd. Ond yn hanes y tabernacl, cawn hanes pob cortyn a llen, pob trosol ac ystyllen, pob mortais a thyno, pob llestr a dodrefnyn perthynol iddo. Pa beth? y mae hyn yn chwith! Ai mwy teilwng o'i gadw mewn hanesyddiaeth, ai mwy buddiol i ddynion wybod am len fechan yn y tabernacl, nag am len fawr y ffurfafen? A oes mwy o fudd o wybod am bob ystyllen yn y tabernacl nag am y bydoedd mawrion? Oni buasai yn fwy teilwng a doeth rhoddi dalen o'r Ysgrythyrau dan hanes pob planed yn y ffurfafen, na'i rhoddi dan hanes arch fechan o goed Sittim? Y mae y deuddeg maen bychan oedd ar ddwyfron yr archoffeiriad wedi cael mwy o le yn yr Ysgrythyrau na'r holl blanedau sydd yn rhodio trwy y deuddeg arwydd yn y ffurfafen. Y mae yr adeilad

fechan hono yn llanw mwy o le yn yr Ysgrythyr, er nad oedd ond ychydig o latheni o hyd a lled, nag y mae adeilad y greadigaeth yn ei gael o le, er ei bod yn llawer o filoedd o filiynau o filldroedd o eangder! Ond y rheswm am hyny ydyw, fod Crist yn cael ei ddadguddio yn y tabernacl; ond nid oedd yn dyfod i'r golwg yn y greadigaeth. Y mae yn dybygol pe cyfansoddid traethawd hollol fanwl ar holl waith y greadigaeth y byddai y traethawd gymmaint o swm a'n byd ni; ond pa faint bynag o amser fyddai yn ofynol i'w ddarllen yn fanwl, a pha faint bynag o hyfydwch a allai meddwl dynol gael wrth ei ddarllen, etto ni chanfyddai ynddo ffydd i gymmodi dyn euog â Duw. Ond yn yr Ysgrythyrau, yr ydym yn dyfod yn union i olwg y ffordd o gymmod â Duw mewn Cyfryngwr.

Bu llawer cist lawn o aur yn y byd, ond ni bu yn werth gan Ysbryd Duw roddi gair am danynt yn yr Ysgrythyrau: ond ni chai y wraig ddyfod â blwch o enaint, a'i dori ar ben yr Arglwydd Iesu, heb i hyny fyned i mewn i'r hanes sanctaidd. Y mae llawer llyn mawr yn gannoedd o filldroedd o hyd ac o led, a llawer môr mawr yn y byd, na bu yn werth gan Ysbryd Duw roddi gair o'i hancs yn yr Ysgrythyr; ond ni chai y wraig hyd yn oed ollwng ei dagrau ar draed yr Arglwydd Iesu, na'i sychu â gwallt ei phen, heb i hyny ddyfod i mewn i'r ysgrifen hon.

Y mae yr Ysgrythyrau yn cynnwys hanes manwl am yr Arglwydd Iesu: mynegant amgylchiadau ei enedigaeth, olrheiniant ei achau i fyny i Adda, hysbysant ei fuchedd a'i weithredoedd yn ei fywyd, disgrifiant ddull ac amgylchiadau rhyfeddol ei farwolaeth, a dangosant ddull gogoneddus a thystion cywir ei esgyniad i'r nef. Tystiolaethant yn eglur am ei wir Dduwdod o ran ei berson, a'i osodiad gan Dduw Dad yn gyfryngwr.

6. Y mae yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu yn gyffredinol am Grist. Iddo ef y mae "yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth." Y mae Crist yn yr Ysgrythyrau fel y tân yn nghorph y ddaear. Y mae y tân yn nghorph y ddaear yn wasgaredig yn mhob man trwy bob modfedd o honi; ond y mae yn fwy amlwg yn y naill fan na'r llall. Mewn ambell fan, gwelir ef yn ffwrn amlwg; ond y mae yn fwy cuddiedig yn y creigiau, a'r dyffryn-oedd, a'r dyfroedd. Felly y mae Crist yn yr Ysgrythyrau: y mae Crist yn y cysgodau a'r prophwydoliaethau dan yr hen oruchwyliaeth; Crist oedd yn cael ei ddadguddio yn oen y Pasc, a'r dwfr o'r graig; Crist oedd yn cael ei amlygu yn y manna o'r nef, a'r golofn niwl a than. Yr oedd Crist tu ol i bared tywyll y seremonïau; ond gwelodd yr Eglwys Iuddewig ef trwy ffydd trwy y dellt. Gwelodd Abraham ei ddydd trwy ffydd, o hirbell, ac a lawenychoedd. Ond fel y mae y tân yn y greadigaeth yn gorwedd yn guddiedig mewn rhai manau, ond yn ffwrn amlwg

mewn manau ereill, felly y mae Crist yn lled guddiedig yn y cysgodau dan yr hen oruchwyliaeth, ond y mae yn ffwrn amlwg yn y Testament Newydd. Y mae Crist o ran ei achau yn l *Oron*. i, ond yn lled guddiedig; ond y mae yn amlwg yn yr *Efengylau*, ac yn epistolau y Testament Newydd. Y mae Crist o ran ei offeiriadaeth yn *Leiticus*, ond yn lled anamlwg; ond yn epistolau Paul, y mae mor amlwg a'r goleuni. Y mae Crist fel Gwardedwr, yn *Llyfr Exodus*, yn lled ymddangos yn ngwardedigaeth rhyfeddol Israel o'r *Aipht*, ond nid yn amlwg; ond yn y Testament Newydd, y mae fel Gwardedwr mor amlwg a'r haul. Y mae Crist fel brenin a deddfwr yn *llyfrau Exodus*, *Numeri*, a *Deuteronium*; ond yn y Testament Newydd, a'r bregeth ar y mynydd, y mae yn cyhoeddi cyfreithiau ei deyrnas yn eglur. Y mae Crist fel prophwyd yn *llyfrau'r prophwydi*, *Salmau*, *Essay*, a *Jeremiah*; ond yn yr *Efengylau*, y mae yn llefaru yn eglur am egwyddorion mawrion crefydd. Y mae yr hanesion lliosog am elynion crefydd yn mhob oes a chenedl, ynghyd â'u hymarwedd-iaid halogedig, a'r hanesion am eu diwedd truenus dan farnedig-aethau Duw, yn dystiolaethau cryfion am awdurdod oruchel a llid cyfiawn yr Oen. Felly y mae yr hanes am yr hen fyd, a *Sodom*, yr *Aipht*, breniniaethau *Canaan*, a'r pedair ymherodraeth baganaidd. Yr hanes am greadigaeth y byd, er nad yw yn sôn am Grist dan enw swyddol, etto tystiolaeth ydyw am ei allu dwyfol fel *Creawdwr*. Yr hanes am ddefodau crefyddol y patriarchiaid a'r Iuddewon a osodant o'n blaen gysgodau o Grist: a rhydd yr hanes am sefydliad crefydd yn nheulu *Abraham* olwg ar wreiddyn eglwys Crist yn ei ffurf weledig.

7. Y mae yr *Ysgrythyrau* yn tystiolaethu am Grist i'r dyben o'i osod allan yn *Waredwr digonol* i ni. Pe y darllenem hanes bywyd a marwolaeth *Bonaparte*, caem lawer o hyfrydwch; ond ni ddygai hyny elw i ni. Gallen ddarllen ei hanes ef yn ennill buddugoliaethau mawrion, ac ar yr un pryd fod yn sathrfa i'n gelynyon ein hunain. Ond nid fel y mae hanesion am ryfelwyr enwog a fu ar y ddaear yn tystiolaethu holl ddigwyddiadau a gorchestion eu bywydau, heb un berthynas rhwng y gorchestion hyny â ni, y mae yr *Ysgrythyrau* yn tystiolaethu am Grist. Nid ydyw eu buddugoliaethau hwy wedi ennill dim i ni. Ond yn yr *Ysgrythyrau*, cawn hanes bywyd, a marwolaeth, a gorchestion *Tywysog* y bywyd; a'r cwbl yn cael ei dystiolaethu i'r dyben o'n galw yn mlaen i gyfranogi o'i fuddugoliaeth, i sathru gyddfau ein gelynyon ein hunain, wedi eu rhwymo yn y cadwynau yn muddugoliaeth y *Cyfyngwr*. Cawn hanes *Tywysog* y bywyd wedi ennill ysbail dragwyddol; a gelwir ni yn mlaen i etifeddu yr holl ysbail. Ysbail rhyfel y *Cyfyngwr* ydyw bywyd tragwyddol ei hun. Ei ysbail rhyfel ef, yr hwn a ennillodd i ni trwy ei waed, ydyw heddwch â Dduw. Er fod hanesion yn

tystiolaethu am wleddoedd breision, megys gwledd Belsassar, a gwledd Ahasferus, etto gallem ni ddarllen yr hanes am y rhai hyny a'n cylla yn wâg, o blegid nid ydyw y dystiolaeth am danynt yn dwyn dim perthynas â ni. Ond yn yr Ysgrythyrau, tystiolaethir am wledd yn y mynydd hwn i'r bobloedd: yr ydym yn cael bwyta o'r danteithion wrth ddarllen ei hanes, ac i'r dyben o'n gwahodd ati i gyfranogi o honi y rhoddwyd y dystiolaeth am dani i ni. Y mae y dystiolaeth am dani yn cynnwys y gwahoddiad taeraf iddi, "Deuwch weithian." Ni byddai yn briodol nac yn gyfiawn i Dduw ein rhwymo dan boen marwolaeth dragwyddol i wrandaw ar na chredu tystiolaethau amherthynasol i'n cyflwr. Nis gall fod rhwymau arnom i greu yn Nghrist fel Gwardwr, a'i ddefnyddio yn Waredwr i ni, am ei fod yn Waredwr addas a digonol i ereill, ond nid felly i ni ein hunain. Y dadguddiad o'r Cyfryngwr yn waredwr addas, a digonol, ac ewyllysgar i'n derbyn ni ein hunain sydd yn ein rhwymo i hunan-ymroddi iddo trwy ffydd. Hysbysu i ddyn fod Crist yn waredwr addas a digonol i ereill cyffelyb iddo, ac heb sicrhau ei fod felly iddo ef, a fyddai yn genadwri annheilwng o'i gwrandaw gan y gwrthddrych hwnw; o blegid ni byddai ei gwrandaw yn astud, a'i chredu yn ddiysgog, ond cyflawniad o'r pechod o "ymyraeth â materion rhai ereill," ac anghofio a throï oddi wrth ei achos ei hun. Nid ydyw Duw wedi tystiolaethu am ei Fab wrth ddynion i'r dyben i'w wyrthiau eu taraw â syndod, a bod yn ddefnyddiau chwedleuon ysgafn; nac i'r dyben i'w fywyd uniawn fod yn esiampl yn unig; nac i'r dyben i'w athrawiaeth fod yn rheol moesoldeb yn unig; nac i'r dyben o wneuthur amgylchiadau a dull ei farwolaeth yn syndod yn unig i'r oesoedda ddelo ar ol. Ond tystiolaetha Duw am ei Fab wrth ddynion i'r dyben mawr o wneuthur yn hysbys iddynt yr unig ffordd i ddiangc rhag y llid a fydd. Y mae y dystiolaeth hon yn dwyn Gwardwr yn agos atom, ac yn hollol gyfneus i ni i'w ddefnyddio trwy ffydd; a drws tragwyddol ddedwyddwch wedi ei agor yn ddigon llydan i ni fyned i mewn ydyw y dystiolaeth am Grist.

III. *Ynddynt hwy y ceir bywyd tragwyddol.*

Dywed Crist fod yr Iuddewon yn disgwyl bywyd tragwyddol ynddynt, ac nid ydyw yn beio hyny; ond yn eu hannog i'w chwilio yn fanylach, a'u defnyddio yn well.

1. Yn yr Ysgrythyrau yn unig y dadguddir gwir natur bywyd tragwyddol. Y mae dynolryw wrth natur dan gamsyniad mawr am natur bywyd tragwyddol. Y mae pawb sydd yn ddeieithr i'r Ysgrythyrau yn hollol gamsyniol am wir natur bywyd tragwyddol; gan hyny, nid ydynt yn ceisio y parotoad angenrheidiol at etifeddu bywyd tragwyddol. Y mae dynolryw yn gyffredia

yn addef fod dyn yn greadur i barhau byth, ac yn rhwymedig i breswyllo byd tragwyddol ar ol ymadael â'r byd hwn, a thybio yn gyffredin fod yn y byd tragwyddol ddwy sefyllfa—y naill yn ddedwydd, a'r llall yn druenus: y naill yn wobwr bywyd sanctaidd, a'r llall yn gosb bywyd halogedig. Ond y mae pawb sydd yn amddifaid o'r Ysgrythyrau yn coleddu syniadau hollol wahanol am natur trueni a dedwyddwch y byd a ddaw. Y Mahometiaid a dybiant fod dedwyddwch y byd a ddaw yn gynnwysedig mewn mwynhâd o weithrediadau cymmhwys i borthi eu blysiâu anianol a'u tueddiadau llygredig. Y mae pob dyfais, ac ymchwiliad, a doethineb ddynol, yn gadael y byd tragwyddol yn hollol dywyll o ran ei ddedwyddwch a'i drueni; ond y mae yr Ysgrythyr yn egluro gwir natur dedwyddwch a thrueni y byd anweledig:—trwy yr efengyl, fe ddygwyd "bywyd ac anlygredigaeth i oleuni." Yn yr Ysgrythyrau gwelwn fod bywyd tragwyddol yn gynnwysedig mewn gweled Iesu fel y mae, a bod yn debyg iddo—mewn cymdeithas ddidor â Duw yn Nghrist. Y mae yr Ysgrythyrau yn annog ac yn cyfarwyddo dynion i geisio bywyd tragwyddol. Y mae pawb yn meddwl cael bywyd tragwyddol trwy ryw foddion neu gilydd. Iaith pawb ydyw, "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau." Trwy addewidion mynych am fywyd tragwyddol iddynt eu hunain y mae dynion yn cadw eu cydwybodau yn dawel mewn cyflwr drwg. Y mae llawer yn meddwl cael bywyd tragwyddol ar lwybr a thrwy foddion sydd yn sicr o'u siomi. Ond yr Ysgrythyr ydyw yr unig gyfarwyddyd i geisio bywyd tragwyddol.

2. Yr Ysgrythyr ydyw yr unig gyfarwyddyd am y ffordd i fywyd tragwyddol, sef Crist y Cyfryngwr. Ceisia rhai ddringo ffordd arall, ond yn hollol ofer: "Efe yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd." Nid oes ddyfodfa at y Tad ond trwyddo ef. Efe ydyw "y drws."

3. Yr Ysgrythyr yw yr unig gyfarwyddyd am y moddion i'w harfer i'w geisio. Ceisia rhai ymgyfoethogi yn y byd trwy gam foddion i gyfoethogi—trwy ladrad, &c. Dichon y gallant hwy lwyddo; ond ni lwydda neb i gyrhaedd bywyd tragwyddol trwy gam foddion. Felly y ceisia rhai fywyd tragwyddol trwy gam foddion; ond ni lwyddant. Yr Ysgrythyr ydyw yr unig gyfarwyddyd ynghylch y moddion sydd i'w harfer.

4. Y mae yr Ysgrythyr yn cyfarwyddo dynion am yr iawn amser i geisio bywyd tragwyddol.

5. Y mae yr Ysgrythyrau yn foddion i addasu dynion i fywyd tragwyddol. Y mae yn angenrheidiol gwneuthur dyn yn gymmhws yn y byd hwn er cael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni yn y byd a ddaw. "Heb sancteiddrwydd, ni chaiff neb weled yr Arglwydd." "Nid ä i mewn yno ddim aflan." Yr

Ysgrythyrau ydyw y moddion i godi dynion i'r cymmhwysder mawr hwn: *Salm xix*. "Yr ydych chi yn lân trwy y gair a leferais i wrthych."

6. Yr Ysgrythyrau ydyw yr unig gyfarwyddyd i'r ymarweddiad sydd yn arwain i fywyd tragwyddol. Yr Ysgrythyr sydd yn dangos y ffordd sydd yn arwain i fywyd tragwyddol.

P R E G E T H X X V I I .

Y SYMMUDIAD MAWR.

Job vii. 10.

“Ni ddychwel mwy i’w dŷ : a’i le nid edwyn ef mwy.”

YN nechreu y bennod hon, y mae Job yn cyfiawnhau ei waith yn deisyfu angeu, trwy gyferbynu ei ofidiau yn ei fywyd â’r waredigaeth a gai oddi wrthynt trwy farwolaeth: ac yn y testyn y mae yn dangos y byddai y waredigaeth hono yn hollol a thragwyddol. Wedi i ddyn unwaith “ ddisgyn i’r bedd,” ni “ ddychwel mwy ” i breswyllo y byd hwn fel o’r blaen: collir ef oddi yma am byth—“ ei le nid edwyn ef mwy.”

I. *Y mae gan ddyn ei le a’i dŷ yn y byd hwn.*

Y mae i’w gael yn ei le, ac yn dychwelyd yno o bob taith ddaearol. Ond hynodrwydd ymadawiad dyn yn angeu ar bob man arall yw, “na ddychwel mwy”—“nid edwyn ef mwy.”

II. *Ymadawiad dyn â’i le yn angeu.*

1af. Y mae yn ymadael o’i anfodd. Y mae ganddo afael cryf yn y pethau sydd ganddo yn ei le a’i dŷ—yn ei gyfoeth, ei bleserau, ei wraig, ei blant, ac yn ei wisgoedd, a’i gwmini.

2il. Y mae yn ymadael yn raddol. Ei le, yn ei lafur mwyaf cyhoeddus, a’i cyll yn mlaenaf. Cornelir ef o’r maes i’w dŷ; yna o’r rhanau cyffredin o’i dŷ i ryw le neillduol, distaw; yna collir ef o’r rai o’r ystafelloedd neillduol, a chyfyngir ef i un; yna collir ef o’r eisteddle wrth y tân, a chyfyngir ef i’w wely. Gadawa ei gadair y tro olaf am byth—collir ef oddi wrth y bwrdd; ac o’r ddyledswydd deuluaidd, ac ni chyflawna ei ran yn hyny mwy; ac o’r addoliad cyhoeddus. Y mae ganddo ei bethau neillduol dan glo; rhydd yr agoriad o’i law i arall am byth; gadawa ei ddillad y tro olaf. Y mae o’r diwedd yn gollwng ei afael o’i holl feddiannau, ac yn eu cyfranu rhwng ei gyfeillion, er, fe

allai, na bydd ganddo ond ei wisgoedd. Os plentyn yw, cyfrana hwy rhwng ei frodyr a'i chwiorydd bach: gwna ei hun yn noeth i ddychwelyd i'r bedd. Un o'r pethau mwyaf torcalonus i'w gyfeillion a'i berthynasau ydyw gweled ei le yn wâg, neu wedi ei feddiannu gan arall! O! mor awchlym i deimlad tad yw edrych ar le ei lodes anwyl, pedair ar ddeg oed, yn wâg! Ie, yn wir, ei gweled cyn marw wedi colli o'r eisteddle yn yr addoliad, gyda'r meddwl na ddychwel yno mwy. Yr oedd ganddynt naw neu ddeg yn addurno y gynulleidfa: safent yn rhes hardd, cydganent yn hyfryd. Mor rwygedig i'w calonau ydyw edrych ar y bwlch! Un oedd yn flodeuyn mor hardd yn eu mysg, a'i llais hyfryd yn canu mawl nes y byddai yn daddseinio drwy y lle—y mae hi yn awr yn ei gwely, a sicrwydd wedi ei gael na chyfyd mwy! O! mor dorcalonus ydyw edrych ar ei lle! Mor annhraethol chwerw ydyw cofio ei llais yn canu, cofio ei hymddygiad gweddaidd, cofio ei gwedd langedeg, a'i hedrychiad siriol a llewyrchus; ond y mae y lle oedd yn ddiweddar yn llawn o brydferthwch a dymunoldeb, yn awr yn wâg! Os oes arall ynddo, gwâg ydyw; nid oes ynddo neb i ateb i ddyuniadau torcalonus a hiraethus tad a mam. Ei lle yn yr Ysgol Sabbathol—y mae yn wâg. Y mae edrych arno yn annioddefol i dad a mam; er ei bod etto yn fyw, y mae wedi rhoddi sicrwydd na ddychwel iddo mwy. O! fel y daw ei holl agweddau i'r côf wrth edrych ar ei lle yn wâg o honi hi!—ei hymddiddanion wrth ei hathrawes, ei dull siriol a difrifol yn adrodd ei thasgau, a'i hadroddiadau manwl o ranau o'r pregethau a wrandawsai. Y mae yr olwg ar y lle, cyn iddi farw, yn annioddefol. Wedi dyfod i'r tŷ, fe'i ceir wedi ei chyfyngu i'w hystafell wely; ei lle ar yr aelwyd gyda'r teulu yn wâg. O! y fath loes ydyw edrych arno gyda'r meddwl penderfynol na ddychwel byth iddo! Er fod y naw ereill yn llenwi eu heisteddle oed o amgylch y bwrdd, y mae y bwlch sydd yn wâg rhwng rhyw ddau yn dwyn holl sylw y tad a'r fam; lle yr hon sydd yn yr ystafell ddistaw, gyda rhywun sydd yn ei gwyllo, yn nghwr eithaf y tŷ. Pan oedd y rhes yn gyflawn, yr oeddynt yn ymhyfrydu yn mhob un yn gyfartal; ond yn awr, nis gallant ond teimlo colled am yr hon sydd yn ddiffygiol, ac nid ydyw presennoldeb y lleill oll ond rhoddi goleuni cryfach ar fawredd y golled am yr un sydd ar ol. Yn yr ymddiddan crefyddol ar yr aelwyd, cymmer pawb sydd mewn oedran cyfaddas ei ran; ac y mae y rhai lleiaf yn gwrandaw yn syn, ac yn syllu yn ddiffrifol ar lygaid eu mam sydd yn traethu iddynt hanes Joseph, Dafydd, ac ereill: ond y mae un yn absennol, yn gorwedd yn yr ystafell ddistaw, gyda rhywun sydd yn eistedd ger llaw y gwely, yn ei gwylled, yr hon a fuasai yn cymmeryd rhan yn yr ymddiddan yn bur syml a medrus. Pan ddenai y cwestiwn o gwmpas at ei

lle hi, nid oes ond y distawrwydd yno. O! mor ddyfnddwyys y saetha hwnw i galon ddolurus y tad a'r fam! Yr ystyriaeth na ddaw byth i lanw y lle hwn mwy sydd yn gwneyd y distawrwydd yn annioddefol—y meddwl a gymmer gipolwg prysur ar ei phryd a'i hagwedd mor gyflym a'r fellten, ac a ddiwedda yr ystyriaeth mewn syllu yn sefydlog ar y distryw a'r gwastraff ofnadwy a wna anghen a'r bedd ar gynnifer o ragoriaethau a dymunoldeb! Ei cholli, a'i cholli byth!—colli un nas gellir ei hanghofio, sydd yn rhwygo y galon! ni bydd y bedd ei hun yn dir anghof o honi hyd oni lyngco i fyny bawb o'i chydnabyddion. Tra y caiff yr olaf o'i chydnabyddion aros ar dir y rhai byw, caiff ei dymunoldeb a'i phrydfertwch ymwithio mewn dychymyg ar y ddaear, wedi i'r corph sylweddol gael ei ddifagan y pryd, a'i holl brydfertwch gael ei ddiog ymaith. Bydd y rhai dychymygot yn aros yn berffaith, heb heneiddio na llychwino, hyd oni thorir llechau y dychymyg hwnw y bu ei phresenoldeb gynt yn argraphu arnynt. Mae ei lle yn yr addoliad teuluaid yn wâg. O! mor aethus ydyw edrych arno. Y gobaith y cânt ei chyfarfod mewn addoliad purach gyda Duw a'r Oen sydd yn cadw calonau y tad a'r fam rhag gorphen ymddyllio. Yn ol arfer y teulu, adroddai pob un ei ran o Air Duw, cyn neu wedi darllen y bennod; ond yr hon sydd yn absennol a ragorai arnynt oll. Adroddai ei gwers gyda dwysder a medrusrwydd mor fawr fel ag i dynu sylw neillduol y rhan ddeallus o'r teulu. Yn ei chystudd, cyn ei chaethiwo i'w gwely, dywedai adnodau oedd yn dangos sefyllfa ei meddwl-ar y pryd: "Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn;" "Am hyny byddwch chwithau barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn;" a'r olaf, "Yn dragywydd, O Arglwydd! y mae dy air wedi ei sicrhau yn y nefoedd." Wedi hyn, ei lle a gafwyd yn wâg. Erbyn dyfod oddi amgylch, o'r ieuangaf hyd y lle hwnw a lenwid yn fwyaf cyflawn, ceir ef yn wâg; nid oes ond y distawrwydd tywyll! Yr hon a'i llanwai sydd draw yn yr ystafell; nis gall oddef y sŵn oedd mor hyfryd ganddi o'r blaen. Y gwagle hwn sydd yn cipio meddwl y tad a'r fam i adolygu ei phryd a'i phrydfertwch, ac yn ei adael i grogi mewn ing uwch ben colled nas gellir ei phrisio byth, ac yn creu teimladau nas gellir eu traethu! O! na buasai gobaith ei gweled yma rywbyrd. O! na buasai rhyw radd o le i ni obeithio. Y meddwl ei bod wedi ymadael am byth sydd yn dwyn llwyth o flinder nas gellir ei ddwyn. Gan fod ei cholli oddi yma mor chwerw, mor felus fydd ei chyfarfod etto yn y nef! Os ydyw ei cholli am hir amser yn ofid mawr, oni bydd ei chyfarfod etto yn y nef heb ymadael mwy yn gysur mawr? Os ei phrydfertwch oedd yn achosi yr hiraeth, pa lawenydd fydd ei gweled mewn prydferthwch perffaith? Os am ei chwmini

yma i addoli yr hiraethwn, pa lawenydd fydd cael ei chwmi mewn gwlad lle y mae pawb o'i mewn yn addoli yn berffaith! Mor dorcalonus ydyw gan y tad edrych arni yn llawenhau am ei dilledyn newydd, ac yn gwybod mai arall fydd yn ei wisgo; ei gweled yn potelu firwythydd, yn lle tremio ar angeu, a gwybod mai ar ol ei marwolaeth hi y dygir hwy i'r bwrdd. Ffirwyth ei llaw dyner eiddil gystuddiedig hi ydynt meddwn, pa fodd yr edrychaf arnynt byth?—ei chlywed yn cwyno fy mod yn cymmeryd gormod o boen yn ei chylch, fod yn ddrwg ganddi roddi i mi y fath drafferth, tra y buasai mewn gwirionedd yn hapusrwyddi mi gael cyflawni y llafur caletaf er mwyn y gobaith lleiaf am ei gwellhâd—ei gweled yn wylo yn fy wyneb, heb ddywedyd am ba beth, ond yn fud; er hyny, yn dywedyd yn eglur yn ei hagwedd mai ofn angeu, ei fod mor frawychus fel na feiddiai e enwi. O! fel y llanwyd fy mynwes â dyfroedd nas gallwn y pryd hwnw eu gollwng allan—ei chlywed yn dywedyd, 'Y mae y gar hwnw ar fy meddwl yn fynych, 'Am hyny byddwch chwithan barod; canys yn yr awr ni thybioch fy daw Mab y dyn,' a'r dagrau yn treiglo i lawr dros ei gruddiau tlyision a gwridog; a'i llygaid siriol fel dwy ffynnon—ei gweled yn ymgysuro yn ngweniadau caredigrwydd tad a mam a ddywedent yn fynych, 'Yr ydwyf yn edrych yn well, Elin bach.' Cymmerai hyny yn siriol fel gwirionedd. O! fel y llosgai fy nghalon yn yr olwg ar ei diniweidrwydd a'i hanwybodaeth. Etto, teimlwn radd o foddhâd yn mhob peth a ddywedwn i'w boddhau hi: meddy-iwn fod hwn yr anwiredd mwyaf diniwed a dibechod o fewn y byd; o leiaf, nid wyf yn gwybod am un arall â chynnifer o resymau drosto. Ei gweled yn ceisio ymaflyd yn mhob peth am fywyd; a'r pleser a gaffai yn gweddio ei hun, ynghyd â'r hyder a roddai yn ngweddiau ei thad, a roddai gysur a chynnal-iaeth mawr i mi, trwy ein bod yn ei gymmeryd yn argoel o foddlonrwydd yr Arglwydd i ni ofyn am ei drugaredd i roddi i ni ein cais. Pan y gwelai arwyddion anffafriol ar ei hafiechyd, edrychai yn ddirifol i mewn i'w hachos tragwyddol, a dywedai fod yn well ganddi na'r byd ei bod wedi cael ei magu yn nhŷ yr Arglwydd—bod yn well ganddi fod yn afiach, a marw o'r afiechyd hwn, na bod fel lodes adnabyddus iddi yn y gymmydogaeth, yr hon, yn ddiweddar, a wrthgilioedd yn warthus trwy anniweirdeb. Y mae holl daith fy meddwl trwy filoedd o wahanol deimladau, a dychymygion, a bwriadau, yn ystod ei hafiechyd, yn amhossibl eu darlunio ar bapur! Pan ddeallais gyntaf ei bod wedi ei chymmeryd gan yr afiechyd, er's llawer o wythnosau, cyn i mi ddeall dim, nid oedais ymfyn am feddyg. Er iddi fod dan ei law am amryw fisoeedd, nid wyf yn tybied iddi gael dim llesâd. O'r diwedd, dywedodd wrthyf nad oedd ganddo ddim chwaneg i'w wneuthur, a chynghorai ni i fod yn

ofalus ynghylch ei hymborth. Saethodd yr ymadrodd hwn drwy fy nghalon: cymmerais ei awgrym ei bod yn y sefyllfa fwyaf peryglus. Ond y pryd hwn gwellhaodd ychydig, yr hyn a'm tueddodd i feddwl fod cyfferiau y meddyg wedi effeithio yn niweidiol, a bod y meddyg heb ddeall ei hafiechyd. Dechreuais yn awr ymgysuro mewn gobaith cryf am wellhâd: cip-iwyd fi i fynny gan y fath lawenydd ag a dardd oddi ar' gael plentyn o farw yn fyw: ond nid oedd yr adeg heulog hwn ond o fyr barhâd. Erbyn dychwelyd adref o'm cyhoeddiad, wedi bod bedwar diwrnod oddi cartref, y newydd athrist a'm cyfarfu ar fy nyfodiad i'r tŷ at fy ngwraig a'm plant oedd fod Elin bach yn bur afiach, ac wedi bod gyda'r doctor. Trywanodd y saeth drwy fy nghalon yn ddyfnach na'r gyntaf. Eisteddais yn syn a thorcalonus: er fy mod yn cael fy nerbyn i mewn i'r tŷ gyda banllefau o orfoledd yn mysg yr aelodau lleiaf o'r teulu, nid oedd y cwbl i mi ond finegr i'r dannedd; ofnau am fywyd fy anwyl Elin a ruthrent i mewn fel tonau'r môr; fy meddwl a redai drwy ei helynt o ddechreuad ei hafiechyd, ac a dynai y casgliad oddi wrth yr holl amgylchiadau fod angen wedi ymasyd ynddi. Ar ddyledswydd, nid oedd neb yn disgwyl iddi hi ddywedyd dim: ond yn ei lle priodol dywedai yn ddifrifol, 'Am hyny byddwch chwithau barod; canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn.' Y boreu canlynol, dywedodd, 'Yn dragywydd, O Arglwydd! y mae dy Air wedi ei sicrhau yn y nefoedd' (*Salm cxix.* 89). Y trydydd boreu, dywedodd, 'Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn.' Adroddai y rhanau difrifol hyn o'r Ysgrhythyr gyda'r fath ddifrif ddwylder treiddgar ag a brofai yn amlwg mai yr amgylchiad tywyll a digysur oedd gwrthddrych arosol ei myfyrdod. Y mae ei hagwedd ddifrifol yn profi yr un peth: nid oedd air i'w gael oddi wrthi, ond y fath a ddisgwylid oddi wrth un yn tremio ar angen. Yr edrychiad siriol, y gweniadau ysgeifn, a'r holl ymddiddanion perthynol i'r fath dymmer—y maent wedi cilio yn berffaith er's llawer wythnos. Pa mor ddychrynllyd y rhaid fod angen yn gwneyd ei ymddangosiad o flaen meddwl fy anwyl Elin, fel ag i'w chadw mor sefydlog mewn tymmer mor wahanol i'w thymmer arferol dros ei bywyd blaenorol!

'Ond er ei cholli o'r holl gylchoedd cyhoeddus yr arferai rodio gyda phrydferthwch ynddynt, y mae er hyny ganddi ryw gell ddistaw brudd etto i aros ychydig, i ddisgwyl cerbydau Duw i'w chyrcu i dragwyddoldeb—yr ystafell y mae pawb yn dyfod i mewn iddi gyda gwyllder dwys a distawrwydd pruddaidd. Nid oes neb yn meiddio rhedeg yma yn hyf a dibris; ond y mae eu ceradediad i mewn iddi yn dangos dychryn ac ofn, fel pe byddai angylion Duw yn bresennol yn y lle. Yr ystafell, o'r

hon y mae yn bwriadu ymadael o'n byd ni, hon yw ei chyntedd nesaf i mewn ar y ddaear; nid oes bellach ond un llen fechan rhyngddi a'r sancteiddiolaf. Gellid ei gweled yma wrthi ei hun yn ymdrwsio i gyfarfod ei phriod tragwyddol, yr hwn sydd yn frenin mawr yr holl nefoedd. Geilw weithiau am y drych i edrych ei gwedd a'i thrwsiad ysbrydol—a ydyw yn addas i gyfarfod ei hanwylyd nefol: ond er edrych ar y seithfed a'r wythfed bennod o'r *Rhufeiniaid*, caiff fod brychau etto yn aros, yr hyn a'i cythrudda yn fawr, hyd oni ddaw 'cenad o ladmerydd' yn mlaen i agor o'i blaen olygfa arall: sef, 'gwaed Iesu Grist ei Fab ef sydd yn ein glanhau ni oddi wrth bob pechod.' Ar hyn, ei breichiau eiddil a ymollyngant, y dagrau a dreiglant dros ei gruddiau gwelwaidd, a hi a lefa allan, 'Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu!' Y mae bellach yn prysur ymddatod oddi wrth bawb a phob peth ar y ddaear; y mae ei hagwedd a'i holl ymddygiad yn dangos difaterwch am bawb o'i hamgylch. Ei thad a'i mam, oedd o'r blaen fel canwyll ei llygaid, a fu yn sefyll yn nesaf ati, cyfrifir hwynt yn awr yn ddyethriaid perffaith: y mae yn teimlo ac yn ymddwyn fel un wedi tori perthynas â hwy am byth; ac nid oes ganddi amser yn awr at bethau ammhertynasol. Y mae perthynas anfeidrol uwch yn dyfod i'r golwg ac yn yfed ei hysbryd yn awr. Y mae ganddi hi bethau uwch yr dwyn ei meddwl a'i bryd. Gan hyny, y mae yn farw i'r golled am berthynasau naturiol. Ond y toriad a'r rhwygiad ofnadwy hwn ar y pryd ydyw y peth mwyaf yn ngolwg y rhieni sydd mewn trallod. Yr oedd wedi gwreiddio trwy eu holl serchiadau a teimladau mwyaf bywiog: ond yn awr, y mae yn codi ei holl wraidd i fyny, gan fwrriadu eu lledu—eu lledu a'u hestyn rhag llaw mewn tir mwy ffrwythlawn, ac mewn hinsawdd mwy haiaidd, lle na chaiff unrhyw afiechyd ysbrydol ddringo trwy y gwreiddiau hyny, nac unrhyw ystorm, na chynnhwrf, ddrygu a changau mwy. O hyn allan, bydd yn gangen ffrwythlawn, yn tyfu wrth ffynnon y dyfroedd byw; sef, y daioni dihybydd sydd yn y Duwdod ei hun. Ni wya byth mwy oddi wrth sychder; ei cheingciau a gerddant ar hyd mur cadarn, uchel, y deml ysbrydol gan roddi aragl hyfryd i'r holl breswylwyr, ac i'r Archoffeiriad mawr ei hun.

Pan fyddo tywyllwch dudew cysgod angydd wedi toi yr holl ddaear, a distawrwydd yn llanw'r ystafell, bydd yr ychydig lygaid-dystion o'i hesgyniad i'r nef yn syllu ar ei gwedd, heb neb yn meiddio dyweyd gair—bydd gwrandaw yn ormod o waith. Disgwyl pa beth a fydd, gwrandaw distawrwydd perffaith sydd yn ormod, yn ormod i'r cwmni! Mor ddisgwylgar ydyw agwedd pob wyneb! Y fath ymagnion ac ymchwiliad a wna pob meddwl i wahaniaethu byw a marw; i wneyd allan yn mlaen un o'r ddau ddsbarth y gosodir hi yn a wr; y mae pob anaf

wrth ymadael yn tafu y cwmni i ymbalfalu mewn tywyllwch; ni wyddant ar ba beth y maent yn edrych—ai ar y byw, ynte y marw. Yn ddisymmwrth, fel tywyniad melltlen, daw y Priodfab, a chydag ef gwmi o angylion; rhoddant dro drwy yr ystafell, yn anweledig, heb un argoel o'u presenoldeb yn weledig i'r cwmni, gan ei chymeryd ymaith yn eu mysg, a gadael yr hyn sydd lygredig i ofal ei pherthynasau. Ni wyddom trwy ba ymadrodd yr ennillodd y Prynwr ei chydsyniad i anturiaeth mor fawr, mor ddyeithrol; ond pa fodd bynag, yr oedd effaith anghymharol iddo. Pa fodd yr ennillodd hi mor lwyr, ac mewn amser mor fyr, i ymadael â chyfeillion mor agos ac anwyl!

Bellach, nid oes yma ddim wedi ei adael ond yr hyn a ettyb ond ychydig o ddyben—darlun o honi: dim ond rhywbeth i'w dwyn i'r meddwl—dim ond rhywbeth i beri cofio yr hon a fu. Y mae yn y darlun beth tebygolrwydd, a llawer o wahaniaeth; ond yr edrychydd pruddaidd a wna y diffygion i fyny yn ei ddychymmyg yn berffaith. Y mae yn dyfod bob awr yn fwy fwy annhebyg, fel o'r diwedd nad yw yn werth ei gadw yn hwy; nid ydyw ond tystio fod yr holl ragoriaethau wedi colli, holl wrthddrych y serch wedi cilio ymaith. Nid yw ond ceisio ein gosod i fyw ar gollod—ymborthi ar ddim: y mae yn llewygu ein dymuniadau. Gan hyny, rhaid cludo y gweddillion hyn i le cyfaddas i orphwys, a chael llonydd. Y mae newydd ymladd brwydr galed, ac erbyn hyn yn lluddedig iawn. Bellach, gorphwysder a llonyddwch sydd yn gweddu iddi. Y mae yr hyn yr oedd o'r blaen yn ei ddefnyddio yn offeryn i ddwyn ei hamcanion yn mlaen drwyddo, yn awr wedi ei roddi heibio; a chymmerodd ddull arall mwy digyfrwng i weithredu; gan hyny, nid oes dim mwyach yn ei aros ond gorphwysdra a llonyddwch. Pan oedd dan awdurdod y creadur bywiog diffino, yn cael ei ddefnyddio yn offeryn i gyrhaedd dybenion mor uchel a phwysig, a'r cwbl i'w wneyd mewn amser mor fyr, a thrwy lawer o anhawsderau, fe'i cadwyd mewn llafur caled a diorphwys: llawer gwaith y llethwyd ef mewn blinder a lludded. Ond bellach, y mae'r ysbryd wedi cyrhaedd ei ddybenion; y mae ei ddymuniaidau mawrion wedi eu cyflawnu; y mae ei lafur yntau wedi darfod; ond caiff pob un orphwys mewn sefyllfa addas iddo ei hun—"Y pridd a ddychwel i'r ddaear fel y bu; a'r ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef."

Bellach, rhaid iddi ymadael yn llwyr, ac mewn dull newydd. O'r blaen, cymmerai ei thaith allan o'r tŷ gyda bwriad o ddychwelyd; ond yn awr, y mae yn cymmeryd ei thaith allan heb fwrriadu dychwelyd mwy. O'r blaen, cymmerai ei hynt oddi cartref, gan adael gwybodaeth i'r teulu i ba le yr oedd ar fyned, fel y gallent ddirnad pellder ei thaith; ond yn awr, y mae yn myned ymaith heb allu mynegu i ba le, na gwybod pellder y daith.

O'r blaen, byddai yn ymadael, a chorph ac enaid mewn undeb â'u gilydd; ond yn awr, y mae yn ymadael mewn dull dyeithr iawn—dull sydd yn brawychu pawb; aeth yr enaid ymaith rai dyddiau o flaen y corph. O'r blaen, byddai y corph a'r enaid yn cydfyned i'r un lle; ond yn awr, aeth yr enaid i fyd trawgyddol, lle nis gall y corph fyned. Yn awr, aeth y corph i dŷ ei hir gartref mewn byd o amser; ciliodd yr ysbryd ymaith fel aderyn yn cilio o'i nyth. Tra y bu yn cyfanneddu yn y corph, cadwodd ef yn drefnus, yn hardd, a hawddgar, gan gadw o hono bob budreddi, ac adgyweirio pob ammhariaeth a wnaed arno yn ofalus, a'i amddiffyn rhag pob difrod hyd eithaf ei allu; ond wedi i'r ysbryd ymadael, gadewir ef i adfeilio ac ymddryllio, a malurir ef gan bob awel; daw y pryfaid gormesol i mewn fel haid o ddfrodwyr; dinystriant yr holl adeilad orwych yn fuan; nid adwaenir dim o'i ffurf na'i lle. Ni bu y Shecinah yn gymmaint gogoniant a harddwch ar y deml ag ydyw yr enaid ar y corph; ac nid oedd ymadawiad y gogoniant hwnw o'r deml yn sicrhau ei llwyr ddinystr yn fwy nag y mae ymadawiad yr enaid o'r corph yn sicrhau ei adfeiliad a'i ddadymchweliad perffaith. Ac fel y mae gogoniant yr Arglwydd a'i le yn fendigedig, felly y mae ysbryd y cyfiawn yn fendigedig, a'i le gynt yn y corph. Gorchymynodd y Duwdod fod ei le trigiannol yn mysg dynion, sef ei dŷ, i gael ei addurno â chywreinwaith goreu celfyddyd, ac â'r defnyddiau gwerthfawrocaf, ac ar fod i'r lle gael ei gadw yn lân, ac yn gyssegredig i'r Arglwydd. Amddiffynai y gogoniant yr adeilad orwych hon tra bu yn ei chyfanneddu; ond trwy i'r gogoniant ymadael, gwnaeth pob gorthrymydd yn hyf ar deml yr Arglwydd, a buan yr aeth yn garneddau. Felly adeilad orwych y corph, lle preswylidig yr ysbryd ofnadwy, oedd wedi ei addurno tu hwnt i deml Solomon tra y cyfanneddai yr enaid ynddo, ac amddiffynid ef gan ei breswlydd yn egniol; adgyweiriai bob ammhariaeth arno hyd y gallai, ac amddiffynai ef rhag pob cam a niwed, yn nesaf i'w fywyd ei hun. O! mor ddwys yr effeithiai adfeiliad afiechyd y corph ar y meddwl! Mor deimladwy yr edrychai ar ei gnawd yn curio, a'i holl aelodau yn gwanychu! Y fath ocheneidiau a dafiai yr ysbryd allan!

Ond wedi yr holl ofal ynghylch yr adeilad, a'r holl brydferthwch a osodwyd arno gan ei breswlydd, daeth dydd i'r gogoniant ymadael. Pa sarhâd bynag a achosodd hyny, gwelwn y tŷ harddwych wedi ei adael yn anghyfannedd a diamddiffyn: daw estroniaid i mewn i ysbeilio ei holl addurniadau; ymdroant yn ei holl ystafelloedd, ac nid oes un lle yn cael ei ddfirodi yn gynt na'r lle y safai y gogoniant o'r blaen, sef eisteddle bywyd. Dyna y rhan o'r corph sydd yn fwyaf danteithiol gan feibion llygredigaeth, ond y mae yr holl aelodau wedi eu parotoi i

lygredigaeth! O! gwelwyd hwn yn wrthddrych gofal mawr; ni oddefid i'r gwybedyn aros ar ei wyneb: ymhyfyrdai un sydd yn awr wedi ymadael yn ei degwch, yn ei ffurf, yn ei holl aelodau, gan eu cyfrif yn eiddo iddo. O gylch y wyneb hwn y bu yn gosod addurniadau; edrychai y gwyneb hwn yn y drych er mwyn gwneyd y trwsiad yn ddifai ac yn foddhaol: ei lawenydd a fyddai cael rhyw ddilledyn newydd i harddu hwn; edrychid arno yn y gynnulleidfa gyda difyrwch; a'i lais hyfryd a dreiddiai drwy bob teimlad o fewn y lle. Y dwylaw hyn, a'r bysedd meinion hyn, a fu yn gosod yr addurniadau yn geinwch yn eu lle. Y gwefusau hyn, sydd mor welw, a ddyferasant ymddiddanion serchiadol, bywiog, difyrus, a diniweid. Ond yn awr, y deml wych a anrheithiwyd, ei holl addurniadau a ladratawyd, ei haddurnwr a'i hamddiffynwr a'i gadawodd; nid oes neb yn teimlo drosto mwyach—neb yn cwyno o herwydd y difrod.

Nis gellir darlunio agwedd ei chorff angylaidd, hawddgarwch ei hysbryd, llarieidd-dra swynol ei lleferydd, difrifwch ei hedrychiad, ei hymddiddanion synwyrol a digoll yn ei mundyau diweddaf; yr ing a'r caledi, a'r ymagnion a wnai hyd eithaf ei gwybodaeth a'i gallu am ei bywyd yn angeu, ynghyd â'r arwyddion fod ei meddwl ar y pryd yn dwylledig, sef yn tybied nad angeu oedd yn bresennol; ei dull yn gwneyd ymfyniad am hynny â'i llaw ei hun, trwy osod ei bysedd meinion, ychydig weddillion cystudd, ar y *pulse* ddwywaith, a theimlo ei fod wedi sefyll; ei hagwedd, yn ganlynol, yn gorwedd yn llonydd, fel un wedi rhoddi i fyny bob gobaith am fyw—ei gruddfaniad distaw dan y boen—y dull y rhoddodd ei llaw am wddf ei thad, a'r llaw arall yn ei law, ac fel y dywedodd wrth ei mam, "Dyma fi yn myned! ffarwel, fy mam bach!" Nis gellir rhoddi darluniad chwaith o'r dull y gosodai ei llaw dan ei gên i gynnal ychydig ar ei phen—yr agwedd oedd arni yn marw—yr agwedd oedd ar ei rhan farwol wedi ei gurio mor isel:—y cwbl ynghyd, dybygid, sydd yn gasgliad cyflawn o bob peth a dueddai i rwygo teimladau tad a mam. Nis gellir dychynygu dim yn chwanege yn y fath amgylchiadau ag yr oedd hi ynddynt. Cyssyllter y cwbl âg addiwynder ac amynedd ei thymmer yn ei bywyd, glendid pryd, athrylith gref, gonestrwydd a gwirionedd, gofal cydwybodol a gonest am eiddo ei rhieni, ac ymroddiad sefydlog i ddarllen yr Ysgrythyrau, a llyfrau da ereill, a chof ac ystyriaeth i gymmeryd i fyny y peth a ddarllenai, a medrusrwydd mawr i adrodd yr hyn a ddarllenai, neu a wrandawai, yn gywir, a syml, a chyflawn, a pharch ac ufudd-dod digoll i'w rhieni, a gofal ac awydd am foddion gras—y mae y cwbl ynghyd yn gwneuthur ei marwolaeth yn chwerau tu hwnt i bob disgrifiad i dad a mam oedd yn ei hanwyo mor fawr!

Y mae angeu yn dyfod yn fynych mewn adeg pan y mae

amgylchiadau yn cymmeryd y meddwl i fyny yn llwyr i'r bwriad o fyw a mwynhau pleserau bywyd:—rhai yn dechreu mwynhau pleserau plentynrwydd, ac yn disgwyl yn hiraethlawn enwogrwydd dyn perffaith, wedi eu gorlenwi â llawenydd a digrifwch eu hoedran, a hyn yn cael ei ategu gan iechyd a bywiogrwydd natur, ond y meddwl etto yn analluog i fwynhau na dioddaf, ond yn unig helynt y corph. Y serchiadau a gymmerant y fath afael egniol mewn difyrwch o'r natur isaf, a'r galon a foddlonia mewn teganau a chwaryddiaethau diniweid plentyn. Fel y mae pob peth ynghyd yn ymddangos yn addaw hir oes; y mae ei rieni, ei berthynasau, a'i holl gymmydogion yn ei gyfrif yn un o ddeiliaid yr oes nesaf, ac yn edrych arno fel yn dechreu byw, pan y byddont hwy feirw. Nid ydyw ei rieni yn disgwyl ei weled, ond yn yr eginyn. I'r oes sydd yn dyfod y maent yn bwriadu gadael y pleser o'i weled wedi dyfod yn dywysen addfed. Ei rieni, wrth edrych arno yn chwarae, a geisiant ddeall ac adnabod ei dalent a'i dueddiad, gan fwriadu ei gymmhwyso yn foreu i ryw alwedigaeth. A'u dychymmyg a red yn mlaen yn awr a phryd arall i gymmeryd golwg arno yn ddyn, yn benteulu, ac mewn galwedigaeth; ac os dygwydd i ddychymyg ganfod trallod, a thrueni, neu dlodi, yn ei gyfarfod, y dagrau a dreiglant dros eu gruddiau. Y mae amgylchiadau mor sicr yn addaw iddo hir oes, fel nad ydynt yn cyfrif yn wastraff, nac yn anturiaeth afreidiol, ei barotoi, er y draul fawr, i alwedigaeth fydol. Nis gallent fod yn fwy ymroddgar pe byddai ganddynt sicrwydd am gan mlynedd o oes iddo. Y mae ei gynnydd mewn dysg yn destyn o'r fath lawenydd a hyfrydwch iddynt, fel pe byddai hyn wrtho ei hun yn sicrhau ei ddedwyddwch daearol, neu fel pe byddai ei ddyrchafiad bydol o'r fath bwys a gwerth fel ag i deilyngu gorfoledd mawr am weled un o'r mil amgylchiadau sydd raid gydgyfarfod i'w sicrhau.

Y mae yn amhossibl cael iaith i drosglwyddo i ni, farwion, syniad cywir a llawn am y pwys ofnadwy sydd mewn symmud dyn o'r byd hwn i fyd ysbrydol, i ymddangos ger bron Duw yn noeth a digyfrwng. Y mae gymmaint uwch law pob peth ofnadwy ag sydd adnabyddus i ni yn y byd hwn fel nad oes un gyffelybiaeth i'w chael digon grymus i'w ddarlunio. Yr hyn sydd yn rhoddi yr holl bwys ar fywyd dyn ydyw, ei fod i roddi cyfrif o'r cwbl a "wnaethpwyd yn y corph, pa un bynag ai da ai drwg." Yr hyn sydd yn gwahaniaethu bywyd dyn oddi wrth fywyd yr anifail ydyw y canlyniadau sydd i'w ddilyn mewn byd tragwyddol. Y mae fod ei weithredoedd yma i gael effaith mawr arno yn y byd nesaf yn ystyriaeth ddifrifol iawn.

III. *Y mae yn anhawdd cael sylw ac ystyriaeth dyn at ei achos tragwyddol.*

Er yr addefir mai yr achos hwn ydyw yr un teilyngaf o ystyriaeth fwyaf difrifol a sefydlog pob dyn, etto y mae holl drafferthion y bywyd hwn, a'r materion ysgafnaf perthynol i'r corph, yn cael mwy o sylw a gofal.

IV. *Amcan y cwbl a lefarodd Duw wrth dynion yn ei brophwydi, a'i Fab, a'i apostolion, oedd rhoddi goleuni cynnil ar sicrwydd a phwys ofnadwy y cyfrif y mae yn rhaid i ddynion ei roddi o'u gweithredoedd ger bron gorsedd Duw.*

Yr oedd yn rhaid egluro y byd ysbrydol yn gynnill i ni; o herwydd nis gallasem gynnal dadguddiad perffaith o hono.

V. *Yr ymddangosiad hwnw ger bron Duw yn y byd ysbrydol ydyw dadl fawr y Beibl dros fywyd sanctaidd ar y ddaear.*

Anghredu, neu ddiffyg ystyried sicrwydd barn, ydyw sail annuwioldeb holl wledydd cred. Nis gall neb redeg yn hyf i'r gwddf i'r Hollalluog, ac edrych arno ar ei orseddfainge yr un pryd yn barnu byw a meirw. Y mae absenoldeb y byd tragwyddol o'r meddwl yn llwyr angenrheidiol er cyfleusdra i chwantau llygredig hanfodi ynddo: y mae nor ammhossibl i'r ddau gyd-drigo ynddo ag ydyw i dywyllwch a goleuni gyd-drigo. O'r tu arall, y mae ystyriaeth ddiffrifol am y byd arall, a'n cyfrif i Dduw, yn ffrydiau angenrheidiol i ddyfrhau holl wreiddiau crefydd. Pan y bydd tragwyddoldeb o'r meddwl, y mae crefydd yn gwywo; ond pan y bydd y byd arall wrth ei gwraidd, y mae yn cynnyddu ac yn ffirwytho. Y mae pob crybwylliad a geir yn yr Ysgrythyrau am fyd tragwyddol wedi ei fwriadu yn rheswm i annog i dduwioldeb. Bydd ymddangos ger bron Duw mewn byd arall yn amgylchiad mor ofnadwy a phwysig fel nas gall iaith y ddau ei ddarlunio, nac un amgylchiad, o'r holl rai mwyaf pwysig ac ofnadwy yn ein byd ni, ei osod allan; nid oes un gyffelybiaeth o hono i'w chael, na delw o hono o fewn y ddaear. Gwelodd Duw yn addas, gan hyny, gyfodi adeilad yn bwmpasol i fod yn bortread bychan o hono yn mysg dynion. Yr oedd llawer o gyfaddasrwydd yn y deml, a'r defodau perthynol iddi, i argraphu ar feddyliau yr addolwyr mai peth mawr ac ofnadwy ydyw nesau at, ac ymddangos ger bron, Duwodod; a bod yr achos sydd rhwng dyn a Duw o bwys dirfawr, ac i'w drin gyda gwylder mawr. Ardderchogrwydd yr adeilad, y gwaharddiad i'r cyffredin ddyfod i mewn, dirgelwch a cheledigaeth oesol ei chelloedd sanctaidd, yr arwydd gwyrthiol o bresenoldeb Duw, y defodau gwaedlyd, costfawr, a beunyddiol; dull a threfn mynediad yr archoffeiriad i'r sancteiddiolaf, a'i wisgoedd wedi eu taenellu â gwaed, ei dywyllwch, ac anamledd ei fynediad i mewn yno—y cwbl ynghyd a dueddent i argraphu ar feddyliau yr addolwyr fod achos i'w

drafod rhyngddynt a Duw; ei fod yn ofnadwy o bwysig, ac yn hollol ddrwg, ynghyd â bod person wedi cymmeryd gafael ynddo ag oedd yn sicr o ddyfod trwyddo. Yr eiddigedd mawr a ddangosai Duw dros anrhydedd ei dŷ a'i ordinhadau, trwy amrywiol farnan trymion, oeddynt yn tueddu i ddangos yr un modd fod yr achos yn un pwysfawr. Yr oedd yr addoliad hwn wedi ei fwriadu gyda llawer o gymmhwysder, gyda'r defodau perthynol iddo, i fod yn foddion i gadw eu hachos tragwyddol yn wastadol o flaen meddwl y bobl. Yr oedd cyfaddasrwydd yn yr adeilad i hyny:—ei gwychder a'i mawredd, ei gwerthfawrogrwydd a'r sancteiddrwydd mawr a briodolid iddi, ynghyd â'r wyrth sefydlog oedd yn cael ei chadw ynddi, a'r atebion gwyrthiol a fyddai y genedl yn eu cael ar achosion pwysig, a'r cyfarwyddiadau diogel pa fodd i weithredu:—yr oedd pob peth yn tueddu i osod mawredd ar yr adeilad a'r deddfau yn ngolwg y bobl, yn tueddu hefyd i roddi pwys yn nylanwad llais y pethau hyny i alw ystyriaeth y bobl at eu hachos mawr rhyngddynt a Duw. Fel y dewiswyd y pren yn Ngardd Eden yn arwydd sacramentol o fywyd tragwyddol, felly dewiswyd un â hynod-rwydd yn perthyn iddo, ac yn sefyll yn dra chyfleus yn nghanol yr ardd, fel y byddai iddo gael mynych gyffe i alw ystyriaeth y dyn at bethau tragwyddol:—felly hefyd cyfodwyd y deml yn Jerusalem, prif ddinas y genedl, fel y byddai portreadau y pethau nefol yn wastad ger bron llygaid y genedl, yn enwedig y llywodraethwyr a'r dysgawdwyr—y defodau oedd i gael eu cyflawni beunydd, a'r offeiriad oedd i wasanaethu yn ddidor, i gadw y portread yn sefydlog yn eu mysg, am fod yr achos rhwng dyn a Duw y fath fel yr oedd yn teilyngu ystyriaeth barhaus.

Y mae yn amlwg fod achos pwysig rhwng dyn a Duw, a bod yr achos hwn yn ddrwg. Y mae rhai yn gwadu hyny yn y pwngc, a mwy na hyny yn ei wadu mewn ymarferiad.

Gwadu mewn pwngc, neu mewn ymarferiad, nad oes achos rhwng dyn a Duw sydd yn wadiad ar holl egwyddorion sylfaenol yr efengyl. Y mae yn wadiad ar briodoliaethau moesol Duw, cyfryngdod Crist, gwirionedd y Beibl, a chyfrifoldeb dyn. Y gwirionedd mawr fod achos rhwng dyn a Duw ydyw sail rhinwedd a rhwymau cymdeithas. Gwadu hyn ydyw agor y ffordd i bob drygioni, trais, ac ysgelerder i lifo dros y byd. y pwngc mawr hwn ydyw mater y Beibl, ac amddiffynydd mawr iawnderau dynoliaeth. Y mae fod Crist yn ymddangos ger bron Duw drosom ni yn profi fod achos rhyngom ni a Duw; ac oddi eithr hyny, ni buasai angenrheidrwydd iddo ymddangos drosom. Nid oes angenrheidrwydd am neb i ymddangos dros arall yn y llys gwladol oddi eithr fod ganddo achos i ddyfod dan sylw y llys. Y mae cydwybod pob dyn yn tystio fod achos

rhyngddo a Duw. Achos dyn rhyngddo a Duw ydyw mater cydwybod; nid ydyw yn ymyraeth â dim arall. Y mae yn wir ei bod yn edrych i holl ymddygiad y dyn, ond yn ei berthynas â'i achos rhyngddo a Duw. Y mae y gydwybod yn sefyll bob amser yn gyfreithiwr y llywodraeth, pryd y mae y serchiadau yn dadleu dros y lleidr a'r twyllwr. Y mae pob cenedl yn addef fod achos yn bod rhwng dyn a Duw: y mae hyny yn addefiad cyffredin. Y mae pawb yn ystyried ei ymadawiad â'r byd hwn yn bwysig, yn frawychus, yn ofnadwy. Y mae pob cenedl o'r bron yn credu y bydd canlyniadau i'w bywyd yma; a llawer cenedl baganaidd yn arfer moddion a farnant yn addas i ennill ffafr y Duwdod, a'i nawdd.

Y mae cyfaddasrwydd dyn i adnabod Duw, a'i wasanaethu fel creadur rhesymol, yn myned yn mhell i brofi fod achos rhyngddo a Duw. Y mae wedi ei gynnysgaeddu â deall cyfaddas i adnabod Duw: gan hyny, y mae ei ymddygiad yn tueddu i'w barchu neu i'w ddirmygu, yr hyn sydd yn galw am wobr neu gosp.

Y mae dyben y greadigaeth, a'r lle uchel y gosodwyd dyn ynddo, yn ffurfio prawf tebygol fod achos mawr rhyngddo a Duw. Y mae yr holl greadigaeth wedi ei gosod dan law dyn: efe sydd arglwydd arni; gan hyny, rhaid fod y Creawdwr wedi bwriadu iddi ateb ei dyben eithaf trwy law y dyn. Dyn sydd i gyssylltu yr holl greadigaeth â'i dyben eithaf. Ac oddi eithr fod byd ar ol hwn, ac achos mawr rhwng dyn a Duw, nid ydyw y cwbl yn dyfod i ddim yn y pen draw, ond yn unig corph llygredig yn ymborth i bryfed. Ymddengys dyn yn amlwg yma mewn sefyllfa goruchwyliwr. Y mae yn sicr fod ganddo lawer iawn dan ei law, i'w defnyddio yn ol ei ewyllys; ac onid ymddengys yn rhesymol disgwyl i hwn gael ei alw i gyfrif?

P R E G E T H X X V I I I .

CYNNOETHWYO YB ARGWLWYDD.

Barnwyr v. 23.

“Melldigwch Meros (eb angel yr Arglwydd) gan felldigo melldigwch ei thrigolion: am na ddaethant yn gynnorthwy i'r Arglwydd, yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn.”

YN y cyfammod cyntaf âg Adda, rhwymodd Duw ddynolryw mewn undeb â'u gilydd, ac mewn undeb âg yntau ei hun, sef i fod o'r un feddwl, barn, a buchedd; ond torwyd y cyfammod, drylliwyd rhwymau ein hundeb a'n cydffurfiad, trodd pawb i'w ffordd ei hun. Y mae ymddygiadau dynolryw wrth natur yn amrywio—yn llunio ymrafaelion, ac yn hulio terfysg. Y mae pawb wedi syrthio i weithredu, yn enwedig tuag at Dduw, yn hollol wrthwyneb i ymddygiad dechreuol dyn pan yn ei gyflwr perffaith. Gan na ddewisodd Duw adael holl ddynolryw yn wrthryfelwyr i'w cosbi byth, fel y gallasai yn gyfiawn; a chan iddo ddewis cyfnewid rhai drwy ras o'u cyflwr a'u hagwedd wrthryfelgar, i'w garu ef ac i ufuddhau iddo; a chan fod pawb wrth natur yn wrthryfelwyr yn ei erbyn, rhaid i ni edrych ar ddynolryw yn ddwy blaid wahanol, yn gweithredu yn hollol wrthwyneb i'w gilydd. Y mae pechod yn wrthryfel cyffredinol yn erbyn Duw. Wedi ennill rhan fawr o'r rhyw angylaid, ynghyd â holl ddynolryw, dan ei lywodraeth, fe'i sylfaenwyd mewn balchder yn y diafol, ac fe berffeithiwyd ei ymherodraeth trwy anghrediniaeth i fygythiad Duw gan ein rhieni cyntaf.

Y mae y cyhoeddiad o hâd y wraig yn Eden wedi sylfaenu brwydr barhaus yn y byd hwn, trwy yr holl oesoedd, hyd ddiwedd y byd. Y mae gelyniaeth anfarwol rhwng hâd y wraig a hâd y ddraig. Y wae holl ddynolryw trwy holl oesoedd y byd yn cael eu gwysio i faes y gwaed, ac yn ymladd eu bywyd allan dros un o'r ddau. Ac nid digon gan y ddwy-blaid hyn anfon ereill i ymladd drostynt; ond daeth y ddau dywysog un diwrnod i ymgyfarfod, gan faint eu heiddigedd

bob un dros ei achos. Un ryfedd oedd y frwydr hon—un blaid â'i holl filwyr yn y maes, dynion, ac ysbrydion; ond y llall heb neb gydag ef: un blaid yn rhydd, a'r llall ar y pren. Yr oedd y nefoedd a'r ddaear yn cael eu dadguddio ar y groes—cariad Duw a gelyniaeth dyn. Deuwch i faes y gwaed, a gwelwch y ddwyblaid yn ymladd. Dacw ben cyffredinol, yn gyllun o ddynoliaeth adferedig yn ei dioddefiadau oddi wrth ei gelynion, ac yn esiampl iddi yn ei brwydrau. Dacw'r blaid wrthryfelgar yn amlwg yn y llofruddion anghyfiawn. Nid ydyw dynion yn gwahaniaethu cymmaint mewn pethau naturiol ag mewn pethau ysbrydol. Dichon graddau o wahaniaeth mewn pethau tymorol gyd-ddwyn yn rhyfedd; ond y mae y fath wahaniaeth a'r fath bellder rhwng dynion mewn ystyr foesol ac ysbrydol fel nas gallant mewn un modd gyd-ddwyn heb wrthwynebu eu gilydd. Y mae eu hegwyddorion a'u dybenion yn hollol wrthwyneb, ac y maent yn rhwym o weithredu yn ol yr egwyddorion hyny. Y mae ymddygiad y naill yn hollol wrthwyneb i amcan y llall, ac ymddygiad y llall yn hollol wrthwyneb i'w amcan yntau. Nid oes y fath groesdynu yn bod rhwng dynion mewn un achos ag yn yr achos ysbrydol hwn; un am dynu tua'r domen, y llall am ei godi i'r orsedd. Mewn ystyr ysbrydol, dwy fyddin sydd yn y byd; y diafol yn dywysog y naill, a Duw yn dywysog y llall. Y mae rhai yn cyfrif eu hunain yn farw i'r achos hwn heb daraw o un tu. Y maent yn tybied eu hunain yn well na milwyr Satan, ac yn tybied eu hunain yn waeth o ryw ychydig na milwyr Crist. Maent yn ystyried nad ydynt yn cario baner gyhoeddus y diafol; ac ni fynant gario baner Crist. Y mae arnynt gywilydd arddel y diafol yn gyhoeddus; ac y mae arnynt gywilydd arddel Crist yn gyhoeddus. Gan hyny, y maent yn diogi—ni tharawant o blaid neb. Nid ant yn gynnorthwy i'r diafol, ac nid ant yn gynnorthwy i'r Arglwydd. Pa beth a ddaw o'r bobl hyn yn anghoedus a'r farn? A oes gyflwr canol yn bod? A oes lle canol mewn byd arall gwell nag uffern, a gwaethn a'r nefoedd? Pa beth a ddaw o honynt? Na: y maent yn un o ddau gyflwr. Beth yw eu cyflwr, ni pherthyn i chwi farnu, ac nid af finnau i farnu. Y mae Duw wedi barnu y rhai hyn yn y testyn: "Melldigwch Meroz." Nid ein dyledswydd ni yw barnu cyflyrau dynion; ond ein dyledswydd yw cyhoeddi melldith Duw uwch ben cyflwr drwg. Y mae y testyn yn rhan o gân Deborah a Barac. Gwraig dduwiol oedd Deborah, a chanddi ysbryd prophwydoliaeth, ac yr oedd Barac yn ŵr duwiol. Bu Deborah yn barnu Israel. Yn yr amser hwn yr oedd crefydd yn isel, a'r genedl yn llygredig iawn. Rhoddodd Duw hwy i law y gelyn; sef, Jabin, brenin Canaan. Tybia rhai ei fod yn orŵyr i'r hen Jabin a orchfygodd Josuah. Defnyddiodd yr Arglwydd Deborah a Barac yn offerynau. Y mae yma

CYNNORTHWYO YR ABGLWYDD.

gân ragorol am y fuddugoliaeth. Y mae yn debygol ei bod yn arferiad y pryd hwnw i gyfansoddi cân am fuddugoliaeth. Hon yn unig a gadwyd o holl ganiadau oes y Barnwyr. Y mae y gân yn dechreu gyda mawl i Dduw. Cynnwysa, 1. Goffâd am yr amlygiadau rhyfeddol a wnaeth efe o'i fawredd ar Sinai gynt. 2. Goffâd am iselder eu cyflwr cyn iddo ef eu gwaredu, mewn trefn i ennyn eu mawlodau; *adn.* 6, 7, 8. 3. Ei chariad at y ffyddloniaid; *adn.* 9—11. 4. Canmawl y ffyddlawn, a gwawdio yr anffyddlawn. Ond yn y testyn y mae yn "melldigo Meroz;" tref fechan a esgeulusodd gynnorthwyo yn y rhyfel. Y mae yn debygol fod y ddinas hon yn agos i'r frwydr, ac felly wedi cael cyfle teg i gynnorthwyo; ond am iddynt wrthod dyfod allan i gynnorthwyo, a hwythau yn meddu y fath fantais, cyfrifir hwy yn waeth nag ereill a esgeulusodd. Gall fod amryw achlysuron i Meroz gael ei melldithio. 1. Gan eu bod mor agos i'r rhyfel, cawsant fwy o fantais i gynnorthwyo. 2. Cawsant fwy o gymmhelliad i gynnorthwyo trwy weled eu hunain yn y fath berygl. 3. Dichon iddynt gael eu hannog i gynnorthwyo. 4. Ymddengys eu bod wedi bwriadu ymostwng i'w gelynyon, ac na fynent ennyn eu llid yn eu herbyn. Yr oeddynt wedi ymostwng i iau y gelyn. Cyttuno â phechod ydyw prif ddrwg y byd, a'r drwg y mae dynolryw yn fwyaf tueddol iddo. 5. Ymddengys eu bod yn hollol anghredu y gorchfygid eu gelynyon (nid oeddynt yn credu yn yr Arglwydd). 6. Yr oedd Meroz yn lle enwog iawn, y mae yn debygol; o blegid disgwylid peth mawr oddi wrthi. Cuddio talent fawr sydd fwy o bechod. Y mae yn debygol i'r ddinas enwog hon adfeilio, fel y ffigysbren wedi i Grist, sef yr Angel, ei melldithio. Gwywodd ymaith; ac ni ddarllenir am dani byth mwy! Melldith effeithiol yw melldith Crist—nid fel melldith y Pab. Oddi wrth y testyn, ni a sylwn fod gan yr Arglwydd elynyon cedyrn yn mhob oes.

I. *Pwy ydynt?*

1. Angylion syrthiedig oedd y rhai cyntaf. Hwy a bechasant gyntaf yn ei erbyn ef.
2. Y mae dynolryw yn gyffredinol wrth natur yn elynyon iddo.

II. *Pa fodd y mae dynion yn ymladd â Duw?*

1. Trwy ddewis gwrthdrysau ereill yn lle Duw, fel yr holl baganiaid.
2. Trwy addoli yn groes i drefn Duw:—yn groes i'r ail orchymyn, fel y Mahometiaid a'r Pabyddion, a'r holl gyfeil-iornwyr.
3. Trwy ddirmygu addoliad Duw, yn groes i'r trydydd gorchymyn; sef, dirmygu a chamddefnyddio breintiau crefyddol.

Gelynion Duw ydyw pechaduriaid rhyfygus yn ngolwg yr efengyl; gelynion Duw yw y llu o feddwon; gelynion Duw yw y tyngwyr; gelynion Duw yw y torwyr Sabbathau, y godinebwyr, y cybyddion, y beilchion, holl chwareuwyr ofer, cefnogwyr gwylmabsantau, priodasau llygredig, &c.

4. Trwy gamdreulio y Sabbath, a pheidio ei dreulio i addoli yr Arglwydd, y mae yr holl ragrithwyr, a'r crefyddwyr cnawdol, heb rym duwioldeb, yn rhagrithwyr gelynol i Dduw.

III. Arwydd fod gan Dduw elynion.

1. Fe'i cyffelybir i ryfelwr neu wrthwynebwr ofnadwy. Y mae y disgrifiadau arswydus o Dduw yn ei Air wedi eu bwr-iadu i osod ofn ar ddynion. Dywedir ei fod yn "cyffroi eidd-igedd fel rhyfelwr." Disgrifir ef fel "llew yn ymafyd yn ei ysglyfaeth," "fel arth," "llewpard," "mur o dân," "tân ysol," a "chawr." Ni buasai eisieu y disgrifiadau hyn o Dduw oni buasai fod iddo elynion.

2. Mae wedi paratoi moddion i'r frwydr, i wrthwynebu ei wrthwynebwr; sef, "milwyr," ac "arfogaeth" iddynt, sef "cleddyf" a "tharian," i.e., "arfau milwriaeth nid ydynt gnawdol."

3. Y mae ei holl gynghorion a'i amcanion yn cael eu gwrthwynebu yn ei efengyl a'i ragluniaeth hefyd. Pa beth bynag a gynnig Duw, caiff wrthwynebwr lawer. Cynnygiodd sicrhau dedwyddwch dyn yn Eden; ond codwyd yn ei erbyn yn fuan gan y diafol a'r dyn. Cynnygiodd ddwyn ei bobl o'r Aipht i'w addoli; ond buan y codwyd yn ei erbyn gan yr Aiphtiaid, a llawer o'r Iuddewon. Cynnygiodd ei ofn ar y bobl ar Sinai, fel yr addolent ef yn unig; ond gwnaed y llô yn ddiwed, i wrthsefyll yr amcan. Pan aeth Duw i roddi Canaan i Israel, gwrthsafodd y deg yspïwyr yr holl Ganaaneaid. Pan aeth i roddi brenin wrth fodd ei galon, sef Dafydd, cafodd wrthwynebwr. Pan aeth i ddarostwng y Philistiaid trwy Dafydd, gwawdiodd brodyr Dafydd. Pan aethpwyd i adeiladu yr ail deml, gwawdiodd rhai. Pan aeth i newid yr oruchwyliaeth, tramgwyddodd yr Iuddewon. Pan dywalltodd ei Ysbryd, gwawdiodd rhai. Pan sylfaenodd yr oruchwyliaeth efengylaidd, cododd cenedloedd ac Iuddewon yn ei erbyn. Pan yn anfon yr efengyl i wlad baganaidd, gwrthwynebir ef. Pan yr argyhoeddir pechadur, gwrthwynebir ef gan y dyn ei hun, a chan y diafol. Gwrthwynebir holl amcanion Duw, ac ymdrechir yn erbyn ei holl osodiadau a'i gynghorion.

4. Anufudd-dod i'w ddeddf.

5. Anniolchgarwch am ei ddaioni.

6. Beio ei ragluniaeth.

7. Gwrthod ei Fab.

Y mae ei elynion yn "gedyrn." "Y cedyrn" y galwyd y

rhai hyn. Ac os oedd byddin Jabin yn deilwng o'i galw yn gadarn, pa faint mwy y fyddin gyffredinol o "fyd, cnawd, a diafol," sydd yn erbyn Duw a'i achos!

(I.) *Yn mha fodd y maent yn gedyrn.*

1. Nid ydynt yn gedyrn mewn cyferbyniad i Dduw. Nid oes gadernid mewn gwirionedd yn eiddo neb ond yn eiddo Duw. Nid oes neb a saif yn gadarn yn ei erbyn pan ddél efe i ymladd. Mewn cyferbyniad i Dduw, nid ydyw ei holl elynion ond cyffelyb i'r pethau distadlaf yn ei greadigaeth; "Megys defnyn o gelwrn y cymmer efe yr ynysodd i fyny;" "Diau mai cwbl wagedd yw pob dyn, pan fo ar y goreu." Mewn golwg ar Dduw y cydnebydd dyn ei hun yn ddiiddim: "Yn awr, fy llygaid a'th welodd; ac yr wyf yn fy ffeiddio fy hun."

2. Cedyrn ydynt yn eu tyb eu hunain. Y maent yn tybied eu hunain yn gedyrn.

3. Cedyrn mewn cyferbyniad i ni.

(II.) *Disgrifiadau o'r cedyrn hyn.*

1. Cyffelybir hwy i bethau cedyrn; sef, cestyll, creigiau, mynyddoedd, &c.

2. Cyffelybir hwy i greaduriaid cryfion a ffyrnig; sef, llewod, gwrdd-deirw, &c.

3. Y mae ganddynt yr hyn a gyfansodda gadernid yn ngolwg dynion.

(III.) *Sylwn ar yr achosion o'u cadernid.*

1. Cyfrwysdra, "Gwell yw doethineb na nerth;" "Gwell yw bachgen tlawd, a doeth, na brenin hen ac ynfyd." Y mae y diafol yn gyfrwys iawn. Gelwir ef yn "sarp," o herwydd ei gyfrwysdra. Sonir am "ddynderau Satan," sef ei gyfrwysdra. Y mae ef yn hen iawn; gan hyny, gall fod yn gyfarwydd. Y mae yn arfer cyfrwysder i ddwyn ei holl amcanion yn mlaen. Trwy ddichell gyfrwys y cododd efe ei achos i fyny yn Eden; trwy dwyll cyfrwys yr hudodd efe y wraig i bechu. Y mae yn gyfrwys o ran amser ei ymosodiadau: yn Eden, rhuthrodd ar y dyn yn fuan iawn, cyn iddo sicrhau ei ddedwyddwch; i.e, cyn iddo brofi ond ychydig iawn o rinwedd ei sefyllfa. Gwyddai Satan y buasai profiad maith yn ei gadarnhau. Y mae yn rhuthro ar yr ailanedig yn ei wendid babanaidd, fel yr ymosodwyd ar Grist gan Herod, yr hwn oedd was i Satan, cyn iddo dyfu i gryfder. Dewisodd yr amser cyfrwysaf i ddechreu yr holl gyfeiliornadau sydd ganddo yn dallu dynion i'w wasanaethu ef.

Dechreuodd sylfaenu y cyfeiliornad Pabaidd yn amser yr apostolion, yr hwn oedd y mwyaf manteisiol iddo, o herwydd newydd-deb yr oruchwyliaeth efengylaidd. Yr oedd hwn yn

amser manteisiol i gynnal y cyfeiliornad hwn i fyny, gan ei fod ef a'r oruchwyliaeth efengylaidd yn gyfoedion. Y mae hyn yn fantais i dwylio dynion i dderbyn y naill yn lle y llall. Mawr yw y sêl a ddygir gan y twyllwyr hyn dros hynafiaeth eu crefydd; a rhaid addef ei bod yn ddigon hen. Y mae y gwir a'r twyll yn gyfoedion, ond nid yn efeilliaid. Ni ddaeth Pabyddiaeth a'r efengyl o'r un groth, er iddynt gael eu geni bron yr un amser.

Mor gyfrwys-ddrwg ydyw cyfansoddiad Pabyddiaeth! "Y corn a'r llygad" yw hwn. Nid corn dall, ac nid llygad anifail; ond llygad dyn. Mynai Pabyddiaeth i ddynion brynu eu bywydau trwy ymostwng i'r iau Babaidd. Cyfrwys iawn yr wir! "Yr hyn oll sydd gan ddyd a ddyry efe am ei einioes." Gwnaeth Satan ufudd-dod i Babyddiaeth yn bryniad bywyd: rhoddodd angen o'r tu ol, a bywyd o'r tu blaen. Dewisodd yr amser mwyaf manteisiol i seilio y cyfeiliornad Mahometanaidd; sef, mewn amser isel iawn ar wir grefydd. Llygredigaeth Cristionogion fu yn fraich gref i godi Mahometanaeth i fyny. Edrychodd y sarph gyfrwys am adeg o adfeiliad ar wir grefydd i sylfaenu y cyfeiliornad hwn. Yr oedd Cristionogaeth lygredig gwledydd y dwyrain y pryd hwn fel parotoad addas ar y bobl i dderbyn y twyll hwn. Ar adfeiliad gwir grefydd y sylfaenodd Satan y grefydd Fahometanaidd. A phan welodd efe fod Duw am osod y llywodraeth Dyrcaidd yn ffrewyll ar y byd o'r bron am ei lygredigaeth, fe gylmodd y cyfeiliornad hwn wrth orsedd Twrci; ac fe drochodd ei gleddyf ef yn ei gwenwyn hi hefyd, fel y byddai codiad y cyfeiliornad hwn yn ddyben ei llwyddiant ar faes y gwaed.

Amser a balla i mi olrhain cyfrwysdra ymosodiadau y diafol. Gweithiwr cyfrwys ydoedd o'r dechreu, ac felly y mae yn parhau hyd heddyw.

2. *Lliosogrwydd.*—Yr ydym yn ystyried fod lliosogrwydd yn gryfder. Yr ydych yn ceisio deall cryfder Pabyddiaeth trwy ei lliosogrwydd, ynghyd â'i doethineb. Y mae lliaws mawr o bethau gwael iawn yn nerthol iawn. Lliaws o bethau mor ddistadl a locustiaid a drechasant frenin yr Aipht. Edrychwch pa fath liaws sydd yn erbyn Duw! Pa faint yw rhif yr angylion syrthiedig? Pa faint yw rhif yr annuwiolion ar y ddaear—500,000,000 o Baganiaid; 160,000,000, o Fahometanaid; 9,000,000 o Iuddewon. Pa faint o Babyddion, ac o bob rhyw gyfeiliornadau ereill? Pa faint o annuwiolion sydd yn gwrando yr efengyl? Pa faint o ragrithwyr hefyd?

3. *Undeb sydd gryfder.*—"Tŷ wedi ymrannu, ni ddichon sefyll." Yn ei hundeb yr oedd cryfder y fyddin o locustiaid. Diffyg undeb y Cymry gynt a'i hatfwyddodd. Er fod amrywiol farnau yn mysg milwyr y tywyllwch, etto y mae rhyw fath o undeb yn eu plith. Y maent oll yn cyttuno i ladrata

gogoniant Duw—Paganiaeth, Mahometaniaeth, a Phabyddiaeth. Y maent oll yn cyttuno i wrthod Crist yn Gyfryngwr. Cymmer y pagan yr eilun; y Mahomet y gau brophwyd; a'r Pabydd yr offeiriad. Y maent oll yn cyttuno i dwyllo dynion am achos eu heneidiau. Y maent oll yn cyttuno i lygru moesau y byd. Y mae caniatâd i ymlygru yn natur pob cyfeiliornad. O! mor unol ydyw pob plaid gyfeiliornus! Mor unol ydyw y Pabyddion!

4. *Dewrder sydd gadarnid mewn byddin.*—O! mor ddewr yw cyfeiliornwyr dros eu golygiadau. Edrychwch mor ddewr, mor selog, yr ymladdasant! Y mae eu sêl hwy yn gywilydd i ni. Nid oes dim yn ormod ganddynt i'w wneyd dros eu meist'r. Rhydd y pagan ei fywyd i lawr dros ei grefydd! Y mae y cwbl yn selog dros eu golygiadau crefyddol.

5. *Penderfyniad meddwl cryf. Calondid sydd gryfder mawr.* O! mor wrol yw cyfeiliornawr yn ei feddwl. Nid oes un gradd o ysgogiad amheus yn meddwl y cyfeiliornwyr; profffesant anffaeledigrwydd fel y gwna y pab. Y mae eu "hamryfusedd" yn "gadarn;" y maent yn llwyr "gredu celwydd."

IV. Y mae Duw yn myned yn erbyn y cedyrn.

Yn mha ddull? 1. Yn farnedigaeathol, i ddial; "Drylli hwynt â gwialen haiarn," trwy ryfeloedd, heintiau, a newyn.

2. Yn rasol, i'w troi a'u hachub, a'u hennill yn ddeiliaid iddo ei hun. Sylwn yn gyntaf, pa fodd y mae Duw yn myned yn erbyn y cedyrn i'w hennill. (1.) Trwy ei efengyl: "Gwialen dy nerth;" "Arfau nid ydynt gnawdol;" "Cleddyf yr Ysbryd." Rhai a dynant mewn bwa yw ei filwyr ef. "Nid mewn trwt, ond trwy gynnud tân." Bwa yr efengyl sydd gan y gŵr â'r march gwyn. Trwy ei farwolaeth y gorchfygodd Crist y gelyn mawr, a thrwy gyhoeddi y farwolaeth hono y gorchfygodd ei filwyr ef eu gelynon. Milwyr da i Iesu Grist yw gweinidogion yr efengyl. Tarian ar faes y gwaed yw ffydd y saint. Yn helm i gadw'r pen yn y frwydr y rhoddwyd gobaith iddynt. Y mae y ddeddf yn taranu lliid Duw uwch ben pechadur i'w ddychrynu i ymostwng. Y mae yr efengyl yn ei groesawu i ymostwng, gan addaw bywyd iddo ar ei ymostyngiad.

(2.) Y mae Duw yn myned yn erbyn y cedyrn trwy ei Ysbryd. Edrychwch ar y frwydr ar ddydd y Pentecost: fe ymaflodd yr Ysbryd yn y cleddyf, sef y Gair, oddi ar dafodau yr apostolion, ac a'i gyrodd i galonau y dorf, a hwy a "ddwysbigwyd yn eu calon."

(3.) Trwy oruchwyliaethau ei ragluniaeth. Y mae yn ymladd yn erbyn y cedyrn weithiau, er nad bob amser, trwy oruchwyliaethau ei ragluniaeth. "Ni wyr dyn gariad, neu gas, wrth yr hyn oll sydd o'i flaen ef." Etto, y mae Duw yn ei ragluniaeth

fawr yn dwyn dynion i amgylchiadau y rhaid iddynt ymostwng; fel Manasseh, Nebuchodonosor, ac Israel yn eu cyfyngder yn llefain ar Dduw. Y mae "pob peth yn cydweithio er daioni." Y mae yn ohwipio plant dynion yn ei ragluniaeth nes y bydd raid iddynt ymostwng.

V. *Ein dyledswydd a'n braint ydyw dyfod yn gynnorthwy i'r Arglwydd.*

1. Cynnorthwy yn mha ystyr? Bod yn ei blaid ef; bod gydag ef ar y maes; neu ymroddi yn offerynau yn ei law ef i orchfygu y cedyrn. Trwy ffyddlondeb ei saint y caria Duw yn mlaen ei holl fuddugoliaethau. Gallasai Duw orchfygu heb y credadyn; ond nid dyna ei drefn. Dewisodd orchfygu trwy filwyr, sef ei saint. Rhaid i ddynion wrth filwriaid: nid felly Duw. Dewisodd Duw filwyr er mwyn ein cysur ni; a dewisodd lestri pridd, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o hono ef. Trwy offerynau y gorchfygodd efe yr hen Ganaaneaid, y Philistiaid. Trwy offerynau y gorchfygodd efe y diafol o ran ei achos. Gweinidogion yr efengyl ydyw y milwyr. Trwy offerynau y gorchfygodd efe lygredigaethau y saint—chwi sydd yn eu marweiddio. Trwy offerynau y gorchfygodd efe yr holl gyfeiliornadau sydd yn y byd: *Esa.* lxvi. 19. Trwy offerynau y gorchfygodd efe holl freniniaethau annuwiol y byd. Rhoddir y frenhiniaeth i saint y Goruchaf. "Mi a roddaf allu," medd Duw, "i'm dau dyst, a hwy a brophwydant fil a dau cant o ddyddiau, sef holl amser y bwystfil." Fel hyn yr ymladdodd Duw drwy yr amseroedd hyn, trwy offerynoliaeth ei ddau dyst. Fe fŷn Duw roddi coron buddugoliaeth ar ben ei eglwys, am iddi hi roddi coron gogoniant iddo ef.

Rhaid i ni fyned yn erbyn y cedyrn oddi fewn; sef, "corph y farwolaeth hon." Gelwir ef yn "gorph y farwolaeth" i arwyddo ei ffeidd-dra. Un cadarn yw y drwg mewnol. O! mor gryfion yw ei gynhyrifiadau! y mae fel y môr yn dygyfor! Y mae ei dwyll yn gryfder mawr iddo. Mor dwyllodrus ydyw y galon! Y mae ei sefyllfa yn fantais fawr iddo. Y mae oddi mewn yn y tŷ. Gelynion gwaethaf dyn yw tylwyth ei dŷ ei hun. Tŷ wedi ymranu, ni all sefyll. Y mae ychydig oddi mewn yn waeth na llawer oddi allan. Y mae yn cyttuno â'r demtasiwn oddi allan. Judas yw y drwg tumewnol: bradychwr i'r diafol ydyw. Rhaid myned yn ei erbyn. Y cam cyntaf i'r frwydr yw gwrthwynebu y drwg o fewn. Gwrthwynebu y drwg mewnol yw testyn y ffrae; hyny sydd yn tynu y diafol yn eu pen yn fawr. Cawn droi ymaith lawer pechod gweithredol heb i Satan deimlo rhyw lawer yn ein herbyn; ond os yn erbyn y drwg oddi mewn, rhaid cadw cyngor yn y pyrth pa beth i'w wneyd. Y mae y drwg tumewnol fel tywysog dros Satan yn

y galon. Trwy fyned yn erbyn hwn y mae Satan yn colli ei lywodraeth. Bwrw y tywysog i lawr o'th galon, ac yna daw holl gynghor uffern yn dy erbyn; o blegid yr ydwyd trwy hyn yn codi yn erbyn ei lywodraeth ef. Y mae y drwg tumewdol fel cyfraith wedi ei sefydlu gan Satan yn y galon. Tra y byddo pawb yn byw yn ol y cnawd, sef deddf uffern, y mae ymherawdwr y pwll yn cadw meddiant: ond mor gynted ag y gwrthwynebir y drwg oddi fewn, rhaid galw llys; y mae y ddeddf gyffredinol wedi ei sathru, ac y mae iau Satan yn cael ei hysgwyd ymaith oddi ar yr enaid. Nid ydyw Satan yn teimlo dim wrth weled un yn dyfod ar y maes yn ei erbyn ef, os bydd erioed heb ddysgu ymdrechu yn erbyn pechod ynddo ei hun: gŵyr na wna hwnw fawr o niwed iddo ef. Un yn dyfod i ymladd yn erbyn pechodau rhai ereill, heb ddysgu gwrthwynebu ei bechod ei hun, nid ydyw hwn yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn. O! fy enaid, fy enaid! y peth mwyaf sydd bossibl i ti ei wneyd dros Dduw, ac yn erbyn ei elynion, ydyw gwrthwynebu dy bechod dy hun oddi mewn—ysgwyd iau Satan oddi arnat dy hun yn mlaenaf. Pe bai genyt ddawn a gwybodaeth angel, a gwyrthiau apostol neu brophwyd, i gadarnhau dy ymosodiadau yn erbyn gelynion Duw—a phe bai genyt sêl yn dy ysu, ac yn dy dreulio ddydd a nos, heb farweiddio gweithredoedd y corph trwy yr Ysbryd, marw fyddai dy holl ymdrechadau dros Dduw yn erbyn y cadarn. Rhoddai hynny fwy o anair ac o ofid i Satan na dim a allasit ei siarad na'i wneuthur yn ei erbyn, sef marweiddio dy bechod dy hun. Rhoddai hynny fwy o ogoniant i Dduw; a rhoddai hynny fwy o friw i bechodau rhai ereill—dy weled di yn gwrthsefyll pechod ynot dy hun hyd at waed. Un dwl ydyw y milwr cnawdol: y mae trawst yn ei lygaid; ni all weled i dynu drwg o lygaid arall; y mae yn tynu y llygaid, yn lle tynu y brycheuyn, am ei fod heb feddu llygaid da ei hun. Gair yn unig sydd gan yr hwn sydd heb farweiddio ei bechod ei hun: nid oes grym mewn gair yn unig—llythyren farw ydyw heb yr Ysbryd. Y mae ganddo lythyren dda; ond marw ydyw heb yr Ysbryd. Ond gan yr hwn sydd yn marweiddio y gelyn cadarn oddi mewn y mae yr Ysbryd; o blegid trwy yr Ysbryd y mae yn gwneuthur hynny. Rhaid cael llestri glân i gario gwin yr efengyl—morynion diwair i alw at y bwrdd. Pwy a ddeuai ar alwad putain? Tebyg i butain aflan yw y rhai sydd yn ceisio myned yn erbyn gelynion Duw, heb ddyfod eu hunain erioed yn iawn yn ei blaid—heb ymdrechu yn erbyn pechod oddi mewn.

2. Pa fodd y byddwn yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn meibion y cedyrn?

1. Rhaid i ni fyned yn erbyn y cedyrn yn *arfogion*; rhaid i ni gymmeryd atom holl arfogaeth Duw i wrthsefyll yn y dydd

drwg. Y parotoad cyntaf yw gwisgo yr arfogaeth iawn. Nid pob arfogaeth a wna'r tro yn yr achos hwn, ond rhaid i ni gael arfogaeth Duw; sef yr hon a drefnodd Duw, ac a ddadgruddiodd Duw i ni. Gan mai rhyfel Duw ydyw y rhyfel, rhaid i ni wisgo ei arfogaeth ef. Nid ydyw milwyr yn dyfod ág arfau yn ol eu blys eu hunain i'r frwydr; ond y mae y tywysog yn penderfynu pa fath arfau a wisga ei filwyr, ac yn eu darparu iddynt ar ei gôst ei hun. Y mae milwyr Duw yn rhwym i gario yr arfau a ewyllysia efe. Y mae y rhyfel ar y ddaear; ond cynghor y rhyfel yn y nef. Y Cadfridog mawr ei hun sydd yn dyweyd pa beth i'w wisgo, a pha fodd i wneyd. Y mae cyfreithiau rhyfel yn llym iawn. Rhoddir personau yn fynych i farwolaeth am achos bychan iawn. Y mae Duw yn hynod fanwl yn yr achos hwn. Nid ydyw yn goddef i neb wneyd ei fympwy; ond rhaid i bawb ufuddhau i'w reolau ef ei hun. Y mae rhai yn gwisgo mewn arfogaeth gnawdol, sef arfogaeth o'u dyfais eu hunain. Y mae ereill yn ymwisgo â gosodiadau dynol, yn erbyn y cedyrn, meddant hwy; ond nid felly y maent mewn gwirionedd. Rhaid yw gwisgo arfogaeth Duw i ymladd drosto ef. Chwi a ellwch adnabod y milwr wrth ei arfogaeth. Os arfogaeth gnawdol sydd ganddo, dros y cnawd y mae yn ymladd: "Y rhai sydd yn ol y cnawd, am bethau y cnawd y maent yn synio." Y rhai sydd yn ymladd yn arfogaeth y cnawd, dros y cnawd y maent yn ymdrech. Os cnawdol y moddion a arferir, cnawdol yw y dyben hefyd. Y rhai sydd yn ffurfio moddion eu hunain i ymwisgo ynddynt yn erbyn y cedyrn, y maent yn gwneyd eu hewyllys eu hunain, yn lle ewyllys Duw; ac y maent yn dywedyd yn eu hymddygiad, "Gwell gwneyd yn ol fy marn i nag yn ol dy gynghor di." Ond pe chwilech hwy yn iawn, caech allan mai nid dros Dduw y maent yn ymladd, ond drostynt eu hunain; a bod eu holl ymdrechion yn codi, nid oddi ar gariad at Dduw, ond oddi ar gariad atynt eu hunain. Ni all ein hymdrech fod dros Dduw yn ein harfogaeth ein hunain; o blegid uwch yw ffyrdd Duw na'n ffyrdd ni. Rhaid defnyddio "cleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair Duw," "tarian y ffydd," a "helm yr iachawdwriaeth." Y mae y Pabyddion yn gwisgo arfogaeth gnawdol; gan hyny, nid yw eu hymdrech dros Dduw. Y mae Cristionogion cnawdol—ie, pawb sydd yn anghrediniol—yn gadael yr arfogaeth o'r neilldu; ni fynant wisgo crefydd i gyd. Y maent gyda rhai pethau, ond nid ydynt yn yr arfogaeth: y maent heb "darian y ffydd." Bûm yn rhyfeddu pa fodd y mae llawer mor hwyrfrydig a digalon i ymladd â'u gelyn mawr. Yr wyf yn ofni mai yr achos o hyn yw, eu bod heb arfogaeth iawn. Gan hyny, nid rhyfedd eu bod yn digaloni. Gwnaiff y cythraul wawd am ben dy holl ymdrechion, oni chai di arfogaeth ddwyfol. Rhaid cael "cleddyf yr Ysbryd, sef gair Daw." Hwn ydyw y "cleddyf

llym" sydd yn dyfod allan o enau'r Cristion. Dyma yr arfaen sydd yn nerthol trwy Dduw i ddyfod â chestyll annuwioldeb i lawr. Yn y Gair y mae "tarianau fil:" ie, yno y mae y saethau hefyd sydd yn glynu yn nghalonau y gelynyon. Ceisiodd Satan wisgo yr arfogaeth hon i ymosod ar Grist; ond nid allai efe gerdded yn y wisg hon; ac nid oedd y wisg ond lladradd iddo ef. Gan hyny, ofer oedd iddo ei gwisgo.

2. Rhaid myned yn eu herbyn *yn hollol*—mewn egwyddor a buchedd. Rhaid i'n holl ysgogiadau fod yn eu herbyn—oddi fewn ac oddi allan. (1.) Rhaid myned yn eu herbyn oddi mewn. Y mae rhai yn hannerog iawn yn y frwydr hon. Mor ffol y cyfrifech un hannerog ar faes y gwaed naturiol, yn gwneyd cymmwynas i'r ddwy ochr. Felly y mae llawer ar y maes hwn. Weithiau gwnant gymmwynas i achos Crist; bryd arall, gwnant gymmwynas i'r gelyn. Weithiau ymddangosant yn addolwyr Duw; bryd arall, ceir eu gweled yn ymdroi mewn pechodau cyhoeddus. Gwrandawant efengyl fel milwyr Crist; meddwant, a thyngant wedi hyny, fel gweision Satan. O! mor ynfyd yw y rhai hyn! Ond rhaid llwyr ymroddi i ymladd yn erbyn y cedyrn. Rhaid gwerthu pob peth i filwrio yn iawn; rhaid casau gwraig a phlant, &c., mewn trefn i ddilyn Crist yn iawn. Rhaid rhoddi y gwddf dan ei achos. Pan y rhoddir y gwddf, rhoddir y cwbl. Rhaid myned yn eu herbyn â'r galon. Ni thâl ymladd yn arwynebol; rhaid cael y galon. Ni all fod hunanymroddiad ac ymegniad hollol heb y galon. Ymroddiad dirym iawn yw yr un sydd yn groes i duedd y galon. Y mae ein serch yn llwyr lywodraethu ein cryfder. O! mor wanaidd yw ymroddiadau llawer yn erbyn y cedyrn! Y mae eu calonau heb syrthio allan â hwy erioed. Y maent fel mam gyda phlentyn—codant eu breichiau yn uchel i daraw, ond y mae eu cariad at y gwrthddrych yn lladd nerth y dyrnod: a lled debyg ydyw ymdrech calon ddrwg yn erbyn pechod. Ond os troir yr enaid yn ei erbyn, bydd yr holl ymosodiadau yn wirfoddol, ac yn llawn llid a dial. Pan wneir y cedyrn yn elynion i'n calonau, ni a sathrwn arnynt fel pe baent y seirph mwyaf gwenwynig; nid eu ceryddu yn dyner fel y fam gyda'r plentyn; ond fel Dafydd â'r cawr, ni a'u tarawn yn egniol, ac a dorwn eu penau. Rhaid cael calon i gyfrif y cedyrn yn elynion; ac onid é, pa fodd yr ymladdir â hwy? Bywyd yr holl ysgogiadau cywir a llwyddiannus yn erbyn y cedyrn yw calon uniawn tuag at Dduw. Y mae rhai cyfreithwyr yn derbyn cŵyn yn erbyn eu cyfeillion, er mwyn eu diogelu yn y llŷs, i gael ymdrechu yn eu plaid; a chyfaill iddynt hefyd yn cyfreithio yn eu herbyn, ac felly cariant y *treial* yn ddidrafferth! Y mae gan Satan rai yn proflesu ymladd yn erbyn rhai pechodau, pryd y maent hwy eu hunain yn gyfeillion calon iddynt ar yr un pryd. A'u dyben yn pro-

fesu ymladd yn eu herbyn ydyw, eu cadw yn fyw, rhag i ryw un heb gariad atynt annelu bwa atynt, a'u saethu heb arbed. Y mae rhai a anfonodd Satan i bregethu i ereill: fe wŷyr am y rhai hyn, na wnant fawr o niwed i'w deyrnas ef, er profesu hyny. Nid ydyw eu calon yn casâu y pechodau hyny; a chan hyny, gŵyr na wnant fawr o niwed iddynt. Ond y mae arno ofn gweled calonau yn llawn sêl dros Dduw yn dringo areithleoedd Cymru; o blegid gŵyr na arbed y rhai hyny fywyd un pechod. (2.) Rhaid myned yn erbyn y cedyrn oddi allan hefyd, fel oddi fewn. Rhaid gofalu am i holl ysgogiadau y fuchedd fod yn wrthwynebiad i elynion yr Arglwydd.

3. Rhaid myned yn erbyn y cedyrn *yn wastadol*. Ofer i ni ymladd weithiau o'u plaid, ac weithiau yn eu herbyn; ac ni ddichon hyny fod. Ni welir neb mewn brwydr yn ymladd gyda dwy blaid bob yn ail. Y mae rhai yn ceisio ymladd gyda phob un—weithiau chwant, ac weithiau Crist. Ond y mae hyny yn amhossibl; "Ni ellwch wasanaethu dau Arglwydd," &c. Profwch eich cywirdeb yn y rhyfel hwn wrth eich cyssondeb. A ydyw eich ymdrech yn gysson, ac yn wastadol? os ydyw, y mae yn brawf ei fod yn gywir a diragrith. Bu Orpah dros dymmor yn dilyn llu yr Arglwydd; ond gan ei bod yn rhagrithiol ni pharhaodd ei hymdrech—anwadal yw rhagrith. Ceir gweled yr hwch weithiau wedi ei golchi, ac weithiau yn y dom. Ond y mae cywirdeb yn safadwy. Y mae yn glynu wrth yr Arglwydd pa beth bynag fydd yr amgylchiadau: y mae hwn "fel mynydd Seion, yr hwn ni syff; ond a bery yn dragywydd."

Brwydr yn galw am y diwydrwydd mwyaf ydyw hon. Y mae pob brwydr yn galw am ddiwydrwydd a gwyliadwriaeth; ond hon tu hwnt i bob un arall. Nid oes un muniyd i'w gollu. Rhaid ymladd bob awr, nes ymladd y bywyd allan. Pa faint a allwn ei gollu wrth gysgu am funyd? Ni wnaeth Dafydd ond treulio ychydig o funydau yn ddiwyliadwriaeth ar nen ei dŷ—ond, och! och! pa faint a gollodd ar y tarawiad? Cafodd ei elynion fantais arno am y gweddill o'i oes. Pan y rhoddodd Samson ei arfau heibio, O! pa faint a gollodd yn y tro hwnw! Rhaid ymladd yn wastadol, ymladd yn mhob man, ymladd bob amser, ac ymladd hyd y diwedd, gan ymnerthu yn barhaus yn yr Arglwydd.

P R E G E T H X X I X .

GWEDDI DDIRGEL.

Matthew vi. 6.

“Ond tydi, pan weddieoh, dos i'th ystafell; ac wedi cau'dy ddrws, gweddias dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel; a'th Dad yr hwn a wél yn y dirgel, a ddi i ti yn yr amlwg.”

Y MAE crefydd i'w dosbarthu yn ddwy ran; sef, y rhan gyhoeddus, a'r rhan ddirgel. Y rhan gyhoeddus sydd i ymddangos yn ein hymddygiad tuag at ddynion—y rhan ddirgel sydd rhwng dyn a Duw. Y mae fel pren—rhan o'r golwg, a rhan arall yn amlwg i bawb; neu fel dyn—rhan yn weledig, a rhan arall o hono yn anweledig. Y mae y ddwy ran yn hanfodol iddi. Ni ddichon fod gwir grefydd heb y rhan gyhoeddus o honi: ni ddichon fod ffydd a chariad heb ymarweddiad da: er fod cariad yn ddirgel yn y galon, etto efe a fwrw ei effeithiau i'r amlwg mewn cadw y gorchymynion: felly ffydd, ofn, a go-baith. Y mae “yn amlwg blant Duw;” y maent yn “dangos yn eglur eu bod yn ceisio gwlad.” Ni bydd neb yn ol ond y rhai “tebyg i fod yn ol.” Y mae gwasanaethwyr Duw yn cael eu “selio.” Y mae y saint i fod yn “dystion,” yn “oleuni,” yn “ser,” yn “ddinas,” yn “filwyr,” yn “offeiriaid.” Trwy fod yn amlwg y gogoneddir Duw, ac y dilynir esiampl Crist. Ymddengys gwaith yr Ysbryd fel “llythyr a ddarllenir gan bob dyn.” O blegid hyn y darfu i liaws mawr ddiodef merthyr-dod yn hytrach na gwadu eu crefydd. Methodd y mynachod y ffordd yn fawr yn y mater hwn. Nid trwy ymneillduo oddi wrth y byd a chymdeithas i arwain bywyd meudwyaidd yr ydym i weithio crefydd allan; ond trwy fod yn y byd, ac ar yr un pryd heb fod “o'r byd,” a thrwy hyny yn halltu y byd & sancteiddrwydd.

Ar y llaw arall, ni ddichon fod crefydd yn gywir heb y rhan ddirgel. Crefydd yn yr amlwg yn unig ydyw rhagrith. Hyn ydyw bai y rhagrithiwr—nid ei fod yn ymddwyn yn grefyddol

tuag at ddynion, ond ei fod yn ymddwyn yn anghrefyddol tuag at Dduw. Nid bod yn meddu lamp, ond bod heb olew. Y mae yn bossibl fod rhyw fath o grefydd tuag at ddynion, ond heb yr un tuag at Dduw; ond ni ddichon fod crefydd ddirgel heb un gyhoeddus. Lle y byddo ofn Duw yn y galon, y mae cilio oddi wrth ddrygioni yn y fuchedd; ac felly gyda ffydd, gobaith, a chariad—nis gallant aros yn guddiedig. Dichon fod ysgogiadau o ryw fath heb fywyd; ond ni ddichon fod bywyd heb ysgogiad: ac felly y mae yn y mater hwn. Nid ydyw crefydd gyhoeddus yn gyflawn heb y ddirgel—y mae ynndi fylchau. Nid ydyw ond “rhith duwioldeb”—crefydd hannerog—ffurf neu ddrychiolaeth o grefydd. Un felly oedd crefydd y Phariseaid: er fod rhyw ddarnau da ynndi, yr oedd darnau ereill yn ddiffygiol: tra y telid sylw gormodol i bethau bychain a dibwys, elid heibio i'r pethau trymion—barn a chariad; esgeulusid barnu y gorthrymedig, a dadleu dros y weddw. Y mae rhith crefydd fel rhith galar rhyw genedl ar ol eu meirw: y mae yn hwnw rai pethau yn perthyn i alar, a rhai pethau yn amlwg ddiffygiol heb law diffyg teimlad: bydd yno lais galar, ond dim dagrau, er fod y llaw ar y llygaid.

Gwna Duw bob peth yn ddifai; ond os ceisia dyn ddynward ei waith, bydd rhyw goll ynndo. Gall wneyd llun dyn, neu anifail, neu fôr; ond llun neu rith ydyw, ac nid sylwedd. Felly crefydd: gwna Duw grefydd gyflawn—“*creu* yn Nghrist Iesu.” Nid yw yr hyn a wna dyn i ddynward hon ond peth mor annhebyg fel na chaiff ei gyfrif yn grefydd o gwbl.

Yn y *dirgel* y mae y diffyg mawr yn ngwaith dyn gyda phob peth pan yr ä i ddynward gwaith y Creawdwr. Gall wneyd delw o ddyn neu anifail, yn lled debyg oddi allan; ond oddi mewn y mae y diffyg mawr—diffyg bywyd. Ac wrth gymharu dau ddyn byw drachefn â'u gilydd, pan y mae un yn iach a'r llall yn afiach:—gallant ymddangos oddi allan yn lled debyg, ond y mae gwahaniaeth pwysig oddi mewn, yn y rhanau bywydol ac anweledig. Felly yn y dirgel y mae y gwahaniaeth mawr rhwng gwir a gau grefydd; y mae y gwahaniaeth hwn yn gyntaf yn egwyddorion a dybenion dirgel y galon, ac y mae hyn yn achosi gwahaniaeth yn yr ymddygiadau dirgelaidd. Y mae y gau grefyddwr yn dangos teimlad mawr a drylliad tymmer yn yr addoliad cyhoeddus, ond heb fod felly yn y dirgel wrtho ei hun: y mae yn weddiwr yn y cyhoedd, ond heb fod felly yn y dirgel—nid yw yn cynnal cymmundebyddlog â Duw. Y mae y credadyn yn hoffi cyfeillach y saint, ac yn cael adeiladaeth drwy hyny; ond nid yw y moddion hyny yn meddu y fath gyfaddasrwydd i'w ddwyn i gymmundebyddlog agos â Duw ag y mae myfyrio a gweddiö yn y dirgel. Yno caiff y meddwl well cyfie i ymarllwys yn llwyr ar bethau nefol. Myfyrdod a gweddi

ddirgel ydyw y moddion mwyaf cyfaddas i sefydlu y galon yn y gwirionedd ac ar Dduw.

Yn awr, ni a geisiwn gyflwyno rhai ystyriaethau i ddangos priodoldeb, angenrheidrwydd, a rhagoriaeth gweddi ddirgel fel dyledswydd grefyddol, ynghyd â'r calondid a roddir i ni yn y testyn i ymarfer â'r ddyledswydd hon:—"Ond tydi, pan wedd-ïech, dos i'th ystafell; ac wedi cau dy ddrws, gweddia ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel; a'th Dad yr hwn a wél yn y dirgel, a dâl i ti yn yr amlwg."

I. Y priodoldeb a'r angenrheidrwydd o weddi ddirgel oddi ar natur crefydd yn gyffredinol. Ymddengys hyn wrth ystyried, yn

1. Fod crefydd yn tueddu dynion i hoffi bod wrthynt eu hunain mewn lleoedd neillduedig ar adegau pennodol, er mwyn ymroddi i fyfyrdod a gweddi. Yr ydym yn cael hanes Isaac yn myned "allan i fyfyrto yn y maes, yn min yr hwyr;" *Gen.* xxiv. 63. Yn y bennod ganlynol, cawn hanes Rebeccah drachefn yn ymgynghori â'r Arglwydd yn ddirgel ar fater pwysig: "A'r plant a ymwithasant â'u gilydd yn ei chroth hi: yna y dywedodd hi, Os felly, beth a wnaif fi fel hyn? A hi a aeth i ymofyn â'r Arglwydd;" *Gen.* xxv. 22. Felly Abraham yn planu coed yn Beerseba, ac yn "galw yno ar enw yr Arglwydd Dduw tragwyddol;" *Gen.* xxi. 33. Felly Jacob, Moses wrth y berth, ac Elias, &c. Felly y cawn fod Crist ei hunan yn weddiwr mawr yn y dirgel: *Luc* xxi. 37; xxii. 39, &c. Ymneillduai i'r mynydd i weddio; brydiau ereill, i'r anialwch; ac yn yr ardd y mae yn cilio oddi wrth y dysgyblion i weddio. Byddai Dafydd yn gweddio yn ei wely y nos: *Salm* lxxvii. 1, 2, 4, 6. Arferai yr hen dduwiolion ymneillduo i alaru: "Fy enaid a wyla ac a alara mewn lleoedd dirgel;" *Jer.* xiii. 17. Dywedir yn mhrophwydoliaeth Zechariah y byddai i'r wlad alaru, "pob teulu wrtho ei hun;" *Zech.* xii. 12. Y mae gorfoledd y saint yr un modd yn ddirgel, "manna cuddiedig" ydyw: *Dad.* ii. 17. Geilw Crist ei eglwys o'r neilldu i roddi iddi amlygiadau o'i gariad: *Salm* lxiii. 5, 6; *Can.* vii. 11, 12. Gwelwn hyn hefyd yn esiamplau y diwygwyr: yr oeddynt hwy yn arfer treulio amser mawr i weddio yn y dirgel.

2. Y mae gweddi ddirgel yn gysson â'r purdeb a'r sefydlogrwydd sydd yn perthyn i natur gwir grefydd. Y mae cyssondeb yn holl waith Duw. Felly y mae mewn crefydd: y mae yn gyfan a chysson. Y mae gwaith Duw yn dangos y nodwedd hwn yn mhob man—mewn creu, llywodraethu, ac hefyd yn yr iachawdwriaeth. Y mae gwaith Duw trwy ei Ysbryd ar enaid pechadur yn dwyn y cymmeriad hwn yn wastad; y mae yn cynnyrchu purdeb cysson, yn gwneyd y dyn yn drwyadl, yn gyfan—yn ei wneyd yn "ddyn newydd;" yn peri iddo "ddiosg

corph pechod;” i.e., yn gwneuthur “pob peth yn newydd.” Gwna hyn i'r dyn fod yr un yn y dirgel ag yn y cyhoedd. Nid yw ymddangosiad anwadal yn gysson â'r darluniad sydd yn y Gair o ddiysgogrwydd gwir grefydd: darlunir hi yno yn dŷ ar y graig, yn bren ni ddiwreiddir. Meddyliwn am yr ymroddiad cyhoeddus a wnaeth y merthyron mewn crefydd yn wyneb y fath wrthwynebiadau ac aberthau mawrion. Ni byddai y fath beth yn gysson âg esgeulusdra yn y dirgel. Gan fod cydwybod yn cynnyrchu y naill, oni ddisgwyliid y llall? Os gwnai crefydd y dynion hyn y fath aberthau yn y cyhoedd, oni chymmerai afael ar bob cyfle dirgel i gymdeithasu â Duw, lle nad oes y fath aberthau yn cael eu gofyn? Y mae egwyddor yn sefydlog. Cyffelybir hi i fywyd, i anian neu reddf yn y plentyn; gan hyn, gweithreda yn y dirgel fel yn y cyhoedd; y mae hi yn sefydlog yn mhob amgylchiad, fel pren, neu fel adeilad. Nid amgylchiadau sydd yn ei hysgogi, ond y mae iddi fywyd ynddi ei hun; fel yr ager-long, heb ymddibynu ar y gwynt. Dirgel neu gyhoedd, yr un peth a wna egwyddor; fel pysgodyn yn nofio heb un rhediad yn y dwfr: ond am y pren, rhediad y llif ydyw ysgogydd hwnw. Aiff egwyddor yn mlaen, nid yn unig mewn rhyddid, ond gweithia ei ffordd yn erbyn pob rhwystrau, i.e., yn erbyn gobaith. Gwelwn esiamplau o hyn yn Abraham, yn Joseph, yn Moses, yn yr apostol Paul, ac yn fwy na phawb yn “yr Iesu, pen-tywysog a pherffeithydd ein ffydd ni.”

3. Y mae yr un rheswm dros gymdeithasu â Duw yn y dirgel ag sydd dros ochel drygau dirgel. Y mae gwybodaeth a phresennoldeb Duw yn peri fod yr un euogrywydd yn dilyn y pechod dirgel a'r un cyhoeddus. Oni fernwch y puteiniwr dirgel neu y meddwyn dirgel yn annuwiol? A fernir y di-weddi dirgel yn sant? Gwrthwynebodd Joseph y demtasiwn yn y cyfle dirgel. Ond y mae y tywyllwch yn wrtaith i lygredd yr annuwiol: *Job xv. 22.*

4. Y mae cydwybod yn dadleu dros weddi ddirgel. Pan y bydd y Cristion wedi ei hesgeuluso, cyhuddir ef gan ei gydwybod. Arwydd o galedwch ydyw cydwybod dawel yn yr esgeulusdra o'r ddyledswydd hon. Er nad ydyw cydwybod yn sefyll dros weddi ddirgel heb wybodaeth o honi trwy ddadguddiad, etto, wedi cael y fath wybodaeth, y mae cydwybod yn sefyll drosti yn ddiysgog, ac yn condemnio am ei hesgeuluso.

5. Crefydd yw penaf peth crefyddwr cywir. Crefydd bia y blaen ar bob peth arall. Lle y byddo crefydd yn ail beth, nid ydyw yn gywir. Nis gall hyny gydsefyll â phwys mater crefydd ac â gwir argyhoeddiad o'i bwys. Y mae ei gwrthddrychau mor aruchel, ei gobeithion mor fawr, ei rheolau mor ysbrydol, yr esiamplau o hunan-ymwadiad a dioddefgarwch ac ymdrech hyd at waed a osodwyd o'n blaen yn rhai mor nodedig, y cariad

at Dduw a Christ a ofynir oddi wrthym yn un mor wresog, yr ymgyssegrïad i'w wasanaethu a'i ogoneddu y gelwir ni iddo yn un mor lwyf, y gelynyon sydd i'w gorchfygu mor gryfion, y tymor mor fyr i sicrhau dedwyddwch mor faith—y mae y cwbl ynghyd yn gyfryw ag sydd yn hōni hawl i grefydd gael y blaen ar ein holl achosion ereill! Gelwir am “y galon;” a gorchymynir i ni “geisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef.”

Ac y mae neillduedd yn fantais i ddyn grynhoi ei nerth tuag at gyflawni pethau mawrion mewn unrhyw gyfeiriad, pa un bynag ai da ai drwg. Y mae yr hyn a fydd yn meddiannu y galon, pa beth bynag fyddo, yn cryfhau ei afael pan y mae y dyn wedi ei adael wrtho ei hunan. Dewisai Satan gael anialwch unigol i ymosod â'i holl egni ar Iachawdwr y byd. Y mae unigrwydd yn fantais i brofedigaethau: “gwae yr unig,” canys “pan syrthio nid oes ganddo ail i'w gyfodi.” Y peth a gymmer y dyn yn benaf—yn brif wrthddrych ei ymgais—efe a'i caleda yn ei feddwl yn ei adeg o ymneillduaeth: rhêd ei feddwl yn enwedigol at y peth hwnw ar yr amserau y bydd efe wrtho ei hunan. Dichon i gymdeithas ei gyd-ddynion dynu ei feddwl at rywbeth arall; ond yn y fan y caiff ei adael wrtho ei hun, cymmer afael yn ei hoff fater; a thry at destyn mwyaf pwysig ei sylw. Os hiraeth mawr am ryw un anwyl a gollwyd fydd yn uchaf yn y meddwl—os colled fawr fydd i'w hofni—os gobaith mawr am gyfoeth neu enw fydd yn cael ei goleddu—pa deimlad bynag fydd yn meddiannu yr enaid, ofn neu obaith, galar neu lawenydd, y mae yn cael cyfle i deyrnasu gyda mwy o rwysg mewn neillduedd. Pan yn unig, y mae y meddwl mewn mwy o ryddid i ddewis ei hoff wrthddrych heb fod dan ddirgymhelliad oddi allan, fel nydwydd y cwmpas wedi cael amser i ymlonyddu ar ol ysgydwad mawr yn cyfeirio at y tyniad cryfaf. Mewn cymdeithas, y mae sylw y dyn mewn rhan dan awdurdod ereill, i'w droi at unrhyw beth trwy ymddiddanion: nid ydyw yn cael llonyddwch a rhyddid i ddewis testyn ei fyfyrdod: ond wrtho ei hun, caiff droi at ei ddewis bwngc o'r holl wrthddrychau a'r amgylchiadau sydd o fewn cyrhaedd ei wybodaeth. Yn y naill, y mae y meddwl yn cael ei yru gan wynt oddi allan fel y llong hwyf; yn y llall, y mae yn hunanlywodraethol fel y llong dân.

II. *Y priodoldeb a'r angenrheidrwydd o weddi ddirgel, oddi ar ystyriaethau neillduol ereill.*

Heb law fod natur crefydd yn gyffredinol, fel y dangoswyd, yn cydweddu â gweddi ddirgel, hi a ymddengys yn briodol â eiddo angenrheidiol oddi ar amryw ystyriaethau ereill.

1. Y mae yn gweddu i wrthddrych gweddi.

(1.) Y mae Duw yn gweled ein hymddygiadau dirgel fel ein

rhai amlwg. Ceir y plentyn weithiau yn troseddu ewyllys ei dad yn ei absenoldeb, ac yn ufuddhau yn ei wýdd; ond os perchdi di dy Dad nefol yn ei wýdd, rhaid i ti weddio yn y dirgel; "a'th Dad, yr hwn a wél yn y dirgel." Pe buasai efe yn anwybodus o'n dirgelion, ofer fuasai gweddi ddirgel. Y mae fod Duw yn gwybod y weddi yn rheswm am weddio, ac yn sail i ddisgwyl llwyddiant arni. Ofer oedd galw ar Baal, yr hwn ni wyddai ddim; "oferedd" yw eilunod y Cenhedloedd, "y rhai ni wyddant." Ond Duw, gan ei fod yn gweled y weddi, y mae efe yn addas wrthddrych iddi: felly y golygai Dafydd—"O'th flaen di, Arglwydd, y mae fy holl ddymuniad, ac ni chuddiwyd fy ochenaid oddi wrthyt;" *Salm xxxviii.* 9.

(2.) Y mae Duw o'r fath raslonrwydd fel y gwrendy ar lef un pechadur unigol. Y mae Duw yn gweled ymddygiad personau unigol. Ni raid cael tyrfa i dynu ei sylw; ond efe a edrych ar un: "Y tlawd hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu." "Ar hwn yr edrychaf, sef ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd." Addewir y fendith lle na byddo ond dau neu dri wedi ymgynnull, i'w calonogi i ddisgwyl drwy yr addoliad cyhoeddus; ond y mae genym brofion lawer i Dduw wrando un: gwelir esiamplau nodedig o hyn yn hanes Jacob, Moses, ac ereill. Felly y dywedir am ddiwrnod y frwydr hynod hono yn amser Joshua: "Ni bu y fath ddiwrnod a hwnw o'i flaen nac ar ei ol ef, fel y gwrandawai yr Arglwydd ar lef dyn."—Tyrfa? nage, dyn! Y mae Duw wedi mawrhau gweddi unigol trwy roddi atebion mawrion iddi yn fynychach na'r weddi gyhoeddus; cawn engreiffitia hynod yn hanes Jacob, Moses, ac Elias, &c., o hyn.

Ymostyngiad mawr yn Nuw oedd gwrando ar lais tyrfa ar gyssegriad y deml; ond mwy gwrando ar lais un! Nid yw yn werth gwneyd cyfraith er lles un, ond er lles y cyffredin; ond Duw, fel gwrandawr gweddi, a edrych ar un. Fel gosodwr cyfraith, ceisio lles y cyffredin a wnaeth, ac aberthu pethau da personau neillduol; ond fel gwrandawr gweddi, daw â'i holl ddoethineb a'i awdurdod i achub un. Trueni llawer a dynodd Fab Duw i'r byd; ond fe dŷn trueni *un* atebiad i lawr i weddi. Arfera y meddygon bob dyfais er attal haint dinystriol; ond daw Duw i feddyginiaethu un gweddiwr. Gwrendy y frenhines ar lais lliaws mawr o'i deiliaid, ond nid ar *un* archiad; eithr gwrendy Duw ar *un*, a hwnw yn un tlawd. Nid oes nob yn rhy dlawd i roddi *vote*, nac i anfon deiseb mewn gweddi i'r nefoedd. Os un cardodyn a ä at ddrws boneddwr, ni ddaw efe allan ato; ond pe denai lliaws o ddynion ato i geisio rhyw beth ganddo, fe ddeuai atynt. Ond y mae Duw yn dyfod at *un*! Gwrandawodd Prydain ar lais y caethion, am eu bod yn llawer; a mynych y defnyddid y nifer mawr oedd o honynt fel dadl dros eu rhyddhâd: ond gwrendy Duw ar ochenaid un carcharor.

Y mae yn rhyfedd ei fod yn gwrando ar angylion glân yn moli ger bron ei orsedd; ond rhyfeddach iddo wneyd sylw o'r ddaear, nad yw ond un o gynnifer o fydoedd, a hono yn un mor fechan, ac mor ddrwg! Ond pa beth a ddywedwn pan feddylion ei fod yn gwrando ar lef un o'r pryfaid distadl sydd yn ymlusgo ar wyneb y belen ddistadl hon! ie, gwrando ar ei lef pa bryd bynag y myno weddio, pan y digwydd iddo gael cong'l o'r neilldu i alw arno! Y mae megys yn awyddus am gael clywed gweddi unigol. "Duw a edrychodd i lawr o'r nefoedd, i edrych a oedd neb deallgar, ac yn ymgeisio â Duw." Yr oedd yma awydd am weled *un*; "a oedd *neb*?"—nid tyrfa. "Y tlawd hwn a lefodd" wrtho ei hun. Arfer Duw yw chwilio am y mwyaf dirmygus a disylw i'w ddyrchafu: Bethlehem ddistadl a Galilea ddirmygus a ddewisodd Duw, y naill i fod yn lle genedigaeath, a'r llall yn drigfan Gwardedwr dynolryw. Dowiswyd Dafydd yn lle Saul, a Samuel yn lle Eli. Dyn a ddewisodd Duw i fod yn wrthddrych ei drugaredd, ac nid cythraul; ac y mae yn sylwi ar y dyn unigol o flaen tyrfa. Fel nas gellir diange rhag ei farnau ar gyfrif distadled, felly nis gellir ar y cyfrif hwnw chwaith ddiange rhag ei drugareddau. "Ffol-bethau y byd," "y pethau distadl a dirmygus," ie, a'r "pethau nid ydynt" a ddewisodd Duw.

2. Y mae yn briodol i natur gweddi. Y mae gweddi ddirgel yn briodol i bwys y mater. Y mae dy achos ysbrydol o'r fath bwys fel y mae yn teilyngu dy feddwl, nid yn unig yn dy oriau cyhoeddus, ond hefyd yn dy oriau unigol—wrthyt dy hun. Y pethau yr ydym yn eu teimlo yn bwysig iawn, y mae y meddwl yn llithro iddynt yn yr oriau unigol: megys pan fyddo genym gynghaws pwysig yn myned yn mlaen yn y llys gwladol, cytudd trwm yn y teulu, colled fawr wedi ein cyfarfod, gwaith mawr mewn llaw, cam mawr wedi ei wneyd â ni, neu unrhyw beth a fyddo yn bwysig yn ein golwg. Os gall cymdeithas ddwyn y meddwl oddi ar brif destyn pryder neu ymhyfrydiad, y mae yn sicr y rhed y meddwl ato yn ebrwydd pan y caiff ei adael wrtho ei hunan. Felly y Salmydd: "Dy gyfraith yw fy myfyrdod beunydd;" "gyda thi yr ydwyf yn wastad." Trallod lawer a geidw y meddwl gydag ef yn nghwsg ac yn effro. Fel pan fyddo achos pwysig gan y Senedd y cedwir hwy arno yn ddidor; felly y cyfreithiwr, a'r un modd y meddyg gonest. Felly y mae pawb: y peth a olygir o bwys mawr, fe ddiange y meddwl at hwnw yn ei adegau unigol. Felly y mae mewn crefydd, os ydyw hi y peth penaf. Y mae y mater yr unig un pwysig: y mae yn bwysig yn ngolwg pawb sydd yn ei adnabod. Y mae y dyn sydd wedi cael agor ei lygad i ryw fesur ar ei bwys yn troi gydag ef yn wastad, ac felly yn "gweddio yn ddibaid." Y mae hyn yn ein harwain at y sylw nesaf:—

3. Y mae yn briodol i fawredd trallod meddwl yr enaid argyhoeddedig ynghylch ei achos tragywyddol. Teimlad mawr o unrhyw beth a geidw y meddwl ar y peth hwnw: "Fy nagrau oedd fwyd i mi ddydd a nos." Gwelir esiamplau nodedig o hyn yn mhrofiadau yr hen dduwion: yr oedd trallod y Salmydd ar ryw adeg yn ddidor, ac yr oedd yn ceisio Duw yn nydd ei drallod; felly y prophwyd Jeremiah hefyd (*Salm lxxvii.* 2, 3; *Jer.* xiii. 17; xlv. 3; *Galar.* iii. 49, 50; *Zech.* xii. 12—14). Y mae yn naturiol i ddyn mewn trallod mawr ymneillduo i ymdeimlo â'i ofid. Y claf mewn gofid mawr a ddewisfa fod wrtho ei hun; felly y mae yr hiraethlawn yn dewis ymneillduo. Y mae cymdeithas yn ddiflas i'r trallodedig; y mae "canu caniadau i galon drist fel finegr i'r dannedd." Mynai Job fod wrtho ei hun yn ei ofid, ac nid oedd ei gyfeillion yn beiddio ei aflonyddu pan oedd ei drallod yn ei nerth mawr. "Cenad o ladmerydd," a hwnw yn "un o fil," sydd gysur i un mewn cystudd mawr: *Job* ii. 11—13; xxxiii. 19—23. Yr enaid trallodedig am fadd- euant, nis gall efe oedi gweddio; nis gellir ei rwymo ef wrth amgylchiadau.

4. Y mae yn briodol i'r myfyrdod sefydlog yn mhethau Duw sydd yn hanfodol i wir grefydd. Y mae gweddi yn addefiad o hyn: "Tywelltais fy myfyrdod o'i flaen ef." Fod myfyrdod dyfal am bethau ysbrydol yn ofynol mewn crefydd sydd amlwg yn yr Ysgrhythrau: *Salm* i., a xix., &c. Y mae myfyrdod ysbrydol yn paratoi y meddwl i weddio, fel cynhyrfaadau y mynydd tanlyd yn paratoi at dywallt: tywalltiad y myfyrdod, fel y dengys y Salmydd, ydyw gwir weddi. Pa beth bynag fyddo natur y myfyrdod, y mae yn naturiol iddo gynnrychu gweddi. Os myfyrio yn ddifrifol ar drueni ei gyflwr ac amledd a drwg ei bechodau, yr effaith fydd gweddio am eu maddeu, ac am gael gwaredigaeth o'i drueni. Mewn myfyrdod ysbrydol y mae defnyddiau gweddi yn ymgasglu yn y meddwl, fel y cesglir defnyddiau tŷ cyn ei adeiladu, neu gasgliad cwmmwl cyn iddo ymdywallt ar y ddaear.

5. Y mae gweddi ddirgel yn briodol i gyflwr ysbrydol dyn fel y mae yn achos personol. Felly y teimlir ef yn yr argyhoeddiad: "Tydi yw y gŵr!" Felly y caiff ei deimlo yn anghau. Daw y dyn ato ei hun; efe a ymeiſf o ddifrif yn ei achos ei hun: caiff ei feddwl ei gyfyngu at hyn yn unig y pryd hwnw. Y difaterwch mawr ynghylch pawb ereill a phob peth darfodedig, sydd yn tarddu oddi ar fod ei feddwl wedi ei gyfyngu at ei achos ei hun. Nid oes ganddo amser yn awr at ddim arall. Nid yw yn teimlo perthynas â neb ond â'i Brynwr. Fel achos personol ac unigol y caiff ei drin gan Dduw. Pan y mae y gynnulleidfa wedi ymgynnull i ymarfer â moddion gras, nid bendithio pawb yn ddiwahaniaeth a wneir, ond pob un wrtho ei hun, neu un o'r

mil. *Un* a gyffyrddodd â Christ o'r dyrfa oedd o'i gwmpas—*un* a gyffyrddodd trwy ffydd i dynu rhinwedd allan o hono Drosom ac wrthym ein hunain yr ydym yn addoli ac yn credu, er i ni fod yn y dyrfa gynnulleidig.

6. Y mae yn briodol i natur a dyben gweddi ac addoliad efengylaidd, fel y mae yn gofyn am yn enaid. Llwyrr ymroddiad y galon i Dduw trwy Gyfryngwr ydyw hanfod addoliad Duw; gan hyny, nid oes angenrheidrwydd am gynnulleidfa i'w gynnrychu. Ond lle y byddo ysbryd addoli, y mae ymneilldu-aeth yn llawn mor ddewisol ganddo. Nid yw dan angenrheidrwydd am gynnorthwyon oddi wrth gadernid lliaws mewn ffurfiau allanol. Y mae y gymmanfa yn well cyfleusdra i'r ysbryd hwn i effeithio ar ereill, ond nid yn well cyfle i gymdeithasu â Duw. Y mae neillduedd yn rhoddi gwell mantais i'r enaid i arllwys ei holl anghenion a'i ddymuniadau ger bron gwrandawr gweddi. Ysbryd edifeiriol am bechod ydyw y cwbl sydd yn gymmeradwy ger bron Duw yn yr addoliad cyhoedd. Nid yw y ffurf heb hyn ond corph heb enaid, peiriant heb ager. Hwn ydyw y perl yr ymfynir am dano: *Esa. lxxvi. 13.* Y mae neillduedd yn llawn mor gyfaddas i feithrin ysbryd edifeiriol a'r addoliad cyhoeddus; a diammheu fod unigrwydd yn fwy dewisol ganddo, ac yn cydweddu yn well â'i natur.

III. *Rhagoriaethau gweddi ddirgel.*

1. Y mae yn gyfleusdra i gyffesu pechodau. Y mae Duw yn gofyn i ni gyffesu ein pechodau ger ei fron, er ei fod yn eu gwybod. Y mae eu cyffesu yn tueddu i ddwyschau y teimlad o honynt. Rhaid cyffesu y neillduolion, ac nid eu cyffesu yn y cyfanswm yn unig. Y mae hyny yn angenrheidiol i gael yr effaith gofynol. Y mae rhai pechodau nad yw yn weddus eu cyffesu ar gyhoedd; ond ni raid ofni dywedyd y cwbl wrth "ein Tad yr hwn a wêl yn y dirgel."

2. Y mae ymneillduo yn rhoddi gwell hamdden i ymroddi yn llwyr i gymdeithas â Duw. Y mae dynion yn hoffi ymneillduo i wneuthur ymroddiad mawr o ran y meddwl, fel na byddo iddo gael ei aflonyddu trwy i ddim arall ddwyn ei sylw. Os bydd un yn ymroddi i dristwch a galar mawr, efe a ymneilldua er gwell hamdden i ollwng y teimlad hwnw yn rhydd, rhag iddo gael ei aflonyddu a'i attal. Felly un a fyddo yn ymroddi yn egniol i fyfyrddod ar ryw gangen o wybodaeth, efe a hoffa ymneillduoeth er mwyn gwell hamdden i'w feddwl: felly y gwna y cyfreithiwr, y meddyg, a'r athronydd—y maent yn dewis bod yn neillduedig, er cael gwell cyfleusdra a hamdden i feistroli y pethau celyd ac anhawdd sydd yn destynau eu hymchwiliad. Felly y gweddiwr ymroddgar: y mae gweddi yn gofyn yr ymroddiad mwyaf; y mae teimlad o'r pwys sydd yn yr achos, a

ffydd yn Nghrist yn cefnogi ac yn cymmhell yr ymroddiad mwyaf penderfynol: "Pe lladdai efe fi," ebai Job, "etto mi a ymddiriedaf ynddo." Mor fawr oedd ymroddiad y wraig o Ganaan! Yr un modd Jacob wrth ymdrechu â'r angel, pan y dywedai, "Ni'th ollyngaf, oni'm bendithi." Cawn engraifft gyffelyb yn Daniel (*pen. ix.*). Crea ffydd ymroddiad cadarn: y mae yr hwn sydd yn amheu yn sigledig, ac "yn gyffelyb i don y môr."

3. Y mae gweddi ddirgel yn angenrheidiol er mwyn profi cywirdeb a diragrithrwydd crefydd. Y Phariseaid a garent weddio yn yr heolydd, er mwyn cael eu gweled gan ddynion. "Cael eu gweled" oedd eu dyben, a lle na chaent hyny nid oedd y dyben yn cael ei ateb. Ni ddywedaf fod gweddi ddirgel yn nôd penderfynol o wirionedd; ond gellid yn fwy diogel sicrhau fod ei hesgeuluso yn hollol yn nôd sicr o ragrith. Lle nad oes neb yn gweled, nid oes dim cymmhelliad i'r rhagrithiwr. Crediniaeth a theimlad o hollwybodaeth Duw, a'i bresennoldeb, a wna bob lle yn gyssegr addoli, ac a bâr achub pob cyfle i'w foddioni, a cheisio ei ffafr.

Y mae cariad yn dewis ymneillduaeth i gymdeithasu â'i wrthddrych; felly y gŵr a'r wraig. Y mae y fam yn dewis bod ar amserau o'r neilldu i ymhyfrydu yn ei baban. Yr ydym yn cael tuedd i ymneillduo ynom ein hunain er mwyn ymhyfrydu yn ngwrthddrychau penaf ein serch. Duw ydyw gwrthddrych penaf serch y gwir weddiwr (*Salm cxix. 36*): gan hyny, onid ydyw yn naturiol i'r cariad hwn ymneillduo i gymdeithasu â'i wrthddrych. Gwelwyd llawer yn eu dyddiau diweddaf, mewn mwynhâd o wyneb eu Prynwr, yn gwrthod cyfeillach y perthynas agosaf er mwyn cael hamdden i gyfeillachu âg ef. Fel yr oedd eu cariad ato yn cynnyddu, yr oeddynt yn gollwng eu gafael o bawb ar y ddaear er ei fwyn.

Wrtho ei hun y mae dyn yn gollwng ei egwyddor yn rhydd, yn esgeuluso gwyliadwriaeth; oddi eithr ei fod yn teimlo presennoldeb Duw yn ei rwymo i ymddygiad sanctaidd, nid oes ganddo ddim i'w gymmhell—nid oes neb arall yn ei weled ar y pryd. Ond y mae ofn Duw yn cadw yr un gwyliadwriaeth yn y dirgel ag yn y cyhoedd; y mae presennoldeb Duw yn mhob man, ac yn mhob man yn ofn i weithredoedd drwg i'r ensaid hwnw. Presennoldeb dyn ydyw cymmhellydd mawr y rhagrithiwr: "er mwyn cael ei weled gan ddynion" y gwna bob ymddangosiad o grefydd: ceisio y mae y gogoniant sydd o ddynion: canmoliaeth dynion ydyw gwobr ei grefyddolder. Ond gall y credadyn wneuthur heb hyny—heb glod, heb elw; gall fyned yn mlaen heb neb yn gweled; ie, yn erbyn ei fanteision bydol, ac ar draul aberthu hyd yn oed ei fywyd os bydd raid—fel y gall y llong dân fyned heb wynt, neu y pysgodyn nofio yn erbyn y llif.

Y mae cyhoeddusrwydd yn gymmhellydd cryf i lawer o weithredoedd. Nid oedd Herod, y mae yn debyg, yn meddu teimlad cydwybod o bwys llw; er hynny, oddi ar yr ystyriaeth ei fod yn gyhoeddus, ac yn dwyn perthynas agos â'i enw, fe safodd ato yn erbyn tystiolaeth cydwybod, ac yn erbyn diniweidrwydd Ioan, a'r anghyfiawnder o dori ei ben. Y mae yr enw o "Gristion" yn gymmeriad uchel yn y byd, yn enwedig os bydd yn cael ei lanw: gweddio ydyw un o'r prif bethau hanfodol i'r teitl; a dichon y gobaith o gyrhaedd y teitl hwn, yn marn y cyffredin, fod yn gymmhellydd cryf i weddi gyhoedd. Ond nid ydyw hyn yn gymmhelliad i'r weddi ddirgel. Nid ydyw hon yn gyfaddas i ennill canmoliaeth dynion; o herwydd y mae hi â'i holl egni yn ymguddio rhagddynt, fel yn fwriadol i ochel eu clod. Nid ydyw yn chwennyh fod neb yn ei gweled ond Duw, yr hwn y mae yn ofer nesáu ato i geisio gwag ogoniant.

Y mae y meddwl mewn mwy o ryddid i ddangos beth yw ei brif wrthddrych pan yn unigol; a thrwy hynny amlyga natur ei egwyddor. Nid oes dim yn fwy amlwg i ni na dylanwad cryf cymdeithas ar y meddwl. Y mae ymddiddanion y cwmni yn galw ein sylw yn anocheladwy, er nad yn treisio ein hewyllysiau i gydffurfio â'u hamcanion: pe buasai iddynt y fath allu i ennill cydffurfiad ein hewyllys ag sydd ganddynt i ennill ein sylw, nis gallasem fod yn gyfrifol. Er nad oes i'r temtiwr allu i orfodi ein hufudd-dod, etto gall alw ein sylw at y demtasiwn. Y mae cyflwr unigol yn diogelu yr enaid oddi wrth filoedd o achlysuron i ddwyn ymaith ei feddwl oddi ar bethau anweledig: goeodir ef yma mewn perffaith ryddid. Nid ydym, pan yn unigol, heb wrthddrychau ac amgylchiadau i ddwyn ein sylw; ond nid oes yr un yn galw sylw mor orfodol a chymdeithas dynolryw. Er, mewn cymdeithas grefyddol, fod yr hwn sydd yn llefaru yn dwyn sylw pawb at rywbeth buddiol, ac y dichon iddo fod yn trosglwyddo iddynt oll feddyliau ardderchog, a rhagorach nag a allasai neb o honynt hwy gyrhaedd eu hunain, etto nid ydynt mor flasus a rhai llai ag a geir yn wreiddiol; ac nid oes amser i'w gael i sefyll ar y drychfeddwl a'i fwynhau yn llawn, am fod yn rhaid canlyn yr areithiwr at bethau ereill, yr hwn sydd â holl allu ei hyawdledd yn ein tynu yn mlaen at feddyliau newyddion. Ond pan yn unigol ceir meddyliau gwreiddiol, a cheir llonydd i sefyll arnynt, ac i yfed hefyd yn llawn o bob pydew a gloddir.

Mewn gweddi y mae llonyddwch i sefyll ar y peth neillduol sydd yn gwasgu yn fwyaf dwys ar y meddwl yn fwy angenrheidiol a dymunol, gan fod gweddi yn effaith teimlad dwys o ryw angen neillduol.

4. Y mae gweddi ddirgel yn effaith neillduol cariad. Y mae gweddi gyhoeddus yn ufudd-dod i orchymyn pendant neu

osodiad; ond y mae gweddi ddirgel yn hanfodol i ddwys deimlad o sefyllfa ysbrydol pechadur. Y mae hon i'w chyfrif yn anadl egwyddor sanctaidd. Nid yw yn ffrwyth dysg, gymmaint a'r llall; ond tardda yn naturiol oddi ar ddwys deimlad. Teimlad dwys o drueni a gynnyrcha yn naturiol deimlad am waredigaeth. Y dymuniad hwnw yn cael ei gyfeirio at Dduw trwy Grist ydyw gweddi ddirgel, naill ai mewn geiriau, neu yn y meddwl heb eiriau. Ochenaid yw gweddi—ochenaidd yn effaith uniongyrchol teimlad o drueni.

Galwai Crist ei ddysgyblion yn "gyfeillion." Cyfeillachai lawer a hwy o'r neilldu: ni chelai ddim oddi wrthynt; ond pob peth a glywai gan ei Dad, a fynegai iddynt. Felly y gweithreda cariad at Dduw a ffydd ynddo. Y mae yn naturiol i garriad gyfeillachu. Felly y mae cariad dyn at ddyn; cariad y fam at ei baban, a serch creaduriaid direswm tuag at eu gilydd. Yr aderyn a gilia oddi wrth yr holl gôr, ac a ymneilldua i'w nyth; a phob rhywogaeth arall yr un modd. Felly y gweithreda cariad Duw at ddyn, cariad Crist at ei eiddo, a chariad dyn at Dduw. Y mae cariad yn dewis lle neillduol, i gyfeillachu, o herwydd bod cyfrinach ynddo.

5. Y mae angen am weddi ddirgel tuag at agor drws trugaredd yn fwy llydan a chyfleus. Nis gall ond rhai detholedig weddio yn y cyhoedd, ac ni ddichon i un deimlo angen pawb. Meibion Aaron oeddynt etholedig i'r gwasanaeth cyhoedd, a'r rhai hyny i'w dewis trwy goelbren i wasanaeth y dydd, rhag anghydfod. Ond nid ydyw gweddi ddirgel, fel y gyhoeddus, yn cyfyngu y fraind o gyfarch gorsedd trugaredd i rai neillduol; ond yn y dirgel y mae pawb yn cael rhyddid i drefnu ei achosion ei hun, a dyfod at ei bethau dirgelaidd. Caiiff pob un yma ddyfod at ei bethau neillduol, y rhai sydd yn anweddus i'w dadganu yn gyhoeddus. Er y gellir ffurfio cyffesiadau a deisyfiadau cyffredinol a gymmer i mewn angen pawb, etto ni foddlonir calon deimladwy ar hyny; rhaid iddi hi gael cyffesu ac erfyn y neillduolion: ac y mae cyfaddasrwydd yn hyny i ateb dyben gweddi tuag at Dduw a dyn, sef i ddwyn y galon i deimlo, a thrwy hyny i gydymffurfio âg ewyllys Duw.

6. Rhoddodd yr Arglwydd ogoniant mawr ar y weddi ddirgel, trwy roddi y fath wrandawriad nodedig iddi. Ceir esiamplau hynod o hyn yn hanes duwionol y Beibl—Abraham, Isaac, a Jacob; Joseph, Moses, Dafydd, Elias, Josuah, Hezeciah, a'r apostol Paul. Dygwyd holl feibion Jesse at Samuel, ond Dafydd a eneiwyd; felly y mae gweddi ddirgel yn mhlith y dyledswyddau ereill. Wrtho ei hun y byddai Abraham yn derbyn cenadwriaethau oddi wrth Dduw. Cawn Moses wrtho ei hun yn y mynydd ddwywaith: *Gen.* xii. 1—5; xv. 15; xvi. 7; xvii. 1—15; xviii. 1, 2, &c. Yn neillduedig y profodd y saint

gysuron cryfion, ac y cawsant fwynhâd mawr o Dduw *Exod.* iii. 6; *Salm* lxxiii. 5, 6. Y mae Crist yn addaw cysuro ei eglwys yn ei sefyllfa unigol: *Can.* vii. 11, 12. Darfu i'r Arglwydd Iesu Grist, er mwyn rhoddi parch ar y dysgyblion, roddi y bwyd iddynt hwy i'w ranu i'r tyrfaoedd yn y wyrth, yn lle ei roddi â'i law ddigyfrwng; felly y mae y rhodd drwy weddi ddirgel yn rhoddi mawredd arni hithau: *Mat.* xiv. Felly y mawrhawyd Moses wrth Sinai. Y mae esiampl Crist hefyd wedi gosod bri mawr arni: *Marc* i. 35; *Luc* xxi. 37; a xxii. 39—44.

7. Y mae gweddi ddirgel yn cael ei chaniatau er mwyn rhoddi cyfle mynych yn ein cyrhaedd i ymwneyd â Duw. Pe buasai gweddi gyhoedd yr unig ddull cyfreithlawn i alw ar enw yr Arglwydd, buasem dan attaliad i weddio, pa faint bynag a fuasai y syched am Dduw, a'r angen am gymmhorth disymmwth, hyd oni ymgasglai y gynnulleidfa. Ond y mae ordeiniad y weddi ddirgel yn ein cadw yn y cyfle yn wastadol yn mhob man.

Y mae y rheol ddwyfol, yn gystal a'n hangen ninnau, yn galw am i'r weddi fod yn sefydlog: "Gweddiwch yn ddibaid." Dywedai y Rabbiniad Iuddewig, fod aroglarthu y boreu a'r prydawn dan y gyfraith wedi ei fwriadu i sancteiddio yr holl amser: yr oedd y bobl i anadlu eu gweddiau i fyny gyda'r aroglarth. Wedi rhwygiad llen y deml, y mae pawb i fod yn offeiriad drosto ei hun: y mae cyfle i nesáu at y drugareddfa, heb alw cymmanfa, yn y dirgel.

Anfynych yr anfonid angel ar neges, fel pan ddeuai y perchid ei genadwri yn fwy. Ond os byddai tuedd mewn ymddangosiad mynych yr ardderchocaf o greaduriaid i wneyd yr effaith yn llai, nid felly y Duwdod. Nis gellir byth gynnefino â'i bresenoldeb ef. Nis gellir dyfod ger ei fron ef yn rhy fynych. Po fwyaf sefydlog y bydd y gymdeithas, mwyaf rhyfedd ac ofnadwy y gwelir ef!

Y mae amledd temtasiynau Satan a'u hmosodiad disymmwth yn galw am i ddrws trugaredd fod yn agored wrth ein llaw yn wastadol. Daeth Iesu Grist o ddwfr y bedydd i dân profedig-aeth: wedi i'r Ysbryd Glân ddisgyn arno megys colomen, fe'i ddilynid yn y fan gan demtasiwn Satan: newydd gael ei arddel yn "anwyl Fab Duw," trwy lef wyrthiol, gofynwyd iddo "Os Mab Duw ydwyd ti, arch i'r ceryg hyn fod yn fara."

IV. Y calondid sydd yma i ymarfer gweddi ddirgel.

1. Dy Dad sydd yn galw arnat ato i ddyweyd dy gŵyn:—"Gweddia ar dy Dad."

2. Y mae dy Dad yn gweled yn y dirgel. Y mae yn gweled dy berson, yn gweled dy weddi, yn gweled dy galon, yn gweled dy angen:—"A'th Dad, yr hwn a wél yn y dirgel."

3. Efe a dâl i ti. Y mae y tâl yn sicr, fel y mae cyflog yn dilyn gwaith; er mai gwobr o ras ydyw, y mae iddo holl sicrwydd cyflog. Efe a dâl i ti: dros bwy bynag y byddi yn gweddio, cai di fendith, fel Dafydd yn achos Absalom. Efe a dâl i ti ei hun: nid ymddiried efe i neb arall, er y dichon y defnyddia offeryn.

4. Efe "a dâl yn yr amlwg."

(1.) Yn yr ordinâdau cyhoeddus. Os ydym yn cael Dafydd yn sychedu am Dduw mewn tir cras yn y dirgel, yr ydym yn ei gael drachefn yn y cyhoedd yn gorfoleddu o flaen yr arch. Ni roddai gwsg i'w lygaid ar ryw adegau gan bryder yn y dirgel am le i Dduw a'i arch; ond câi ei dalu am hyn yn yr amlwg, trwy gael gweled nerth a gogoniant Duw yn y cysegr. Efe "a dâl yn yr amlwg," yn

(2.) Yn dy ymarweddiad cyhoeddus. Cyssylltir rhodiad sanctaidd, bywyd ffrwythlon a llwyddiannus, â dirgel fyfyrddodau yn nghyfraith yr Arglwydd: *Salm* i. Trwy osod yr Arglwydd ger ein bron yn y dirgel, efe a fydd ar ein deheulaw yn y cyhoedd, "fel na'n hysgoger;" *Salm* xvi. 8. Efe "a dâl yn yr amlwg," yn

(3.) Mewn gwaredigaethau cyhoeddus yn ei Ragluniaeth: *Salm* vi. 6—10; x. 17, 18; xii. 5—7. Cawn esiamplau o hyn yn hanes Moses, Dafydd, Josuah, Daniel, a Phedr yn y carchar. Efe "a dâl yn yr amlwg," yn

(4.) Trwy symmud rhwystrau oddi ar ffordd yr efengyl. Goruwch-lywodraetha helyntion teyrnasoedd i'r dyben hwn. Y mae Duw yn ateb ei bobl "trwy bethau ofnadwy." Ceir esiamplau o hyn yn hanes Daniel a Moses. Tâl yn yr amlwg, yn

(5.) Trwy roddi nerth yn angen, a thrwy yr arddeliad mawr —y mwyaf cyhoeddus o'r cwbl—yn y farn ddiweddaf. Tâl yn yr amlwg, yn

(6.) Trwy dy wneyd yn ddefnyddiol. Felly yr oedd Abraham, Isaac, Jacob, Moses, Josuah, Dafydd, Samuel, Ioan, ac yn arbenig Iesu Grist. Y mae pob dyn defnyddiol, yn mha gyloch bynag y byddo yn troi, yn llafurio llawer yn y dirgel; felly y mae y meddyg llwyddiannus, y cyfreithiwr, a'r duwinydd yr un modd. Yn y dirgel y rhaid casglu defnyddiau; fel y cymylau yn sugno gwlybwr yn anweledig, yr hwn, ar ol hyny, a dywelltir yn wlaw ar y ddaear. Y mae y pren sydd yn dwyn ffrwyth yn tynu y bywyd a'r nerth i fyny yn ddirgel o'r gwreiddyn. Gwelir yr afon yn nofio llongau wedi iddi hir redeg ac ymgasglu yn y lleoedd anial ar y mynyddoedd. Ceir fod achos dirgel i bob ysgogiad cyhoeddus: felly y mae ysgogiadau y corph dynol; ac yn gyffelyb, ond mewn ystyr is, y mae symudiadau peiriannau.

(7.) Tâl yn yr amlwg yn helaeth, y tu hwnt i'n disgwyliad (*Mat. xiv.*)—"y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl."

Gallm gyflwyno rhai ystyriaethau yn mhellach i'n hannog i'r ddyledswydd hon.

1. Y mae genym esiamplan o weddïau dirgel yn dwyn ffrwyth cyhoeddus. Nid oes dim mor fychan yn dwyn effeithiau mor fawr a gwir weddi; ond y mae hyn yn cyfateb i'r egwyddor a welir yn rhedeg trwy holl weithredoedd Duw. Y mae llawer o bethau distadl a dirgel yn dwyn effeithiau mawrion a chyhoeddus:—yr hâd yn y ddaear, dichellion yn nghalon y gwron yn dyfod yn ymherodraeth. Felly yr oedd y "wialen o gyff Jesse," Joseph yn cael ei werthu, Moses yn y cawell. Yn "ddirgelwch anwiredd" y dechreuodd y dyn pechod.

2. Pethau dirgel sydd yn llywodraethu pethau amlwg. Y dirgel biau'r cyngor a'r nerth. Rhywbeth dirgel a gododd y fyddin allan i faes y gwaed. Effaith bwriad dirgel Duw yw ei holl waith cyhoeddus. Y mae ei weithredoedd yn rhyfeddodau amlwg: ond y mae efe ei hun yn ymguddio yn y tywyllwch a'r dirgelwch.

3. Trwy i'r pethau dirgel ddyfod yn amlwg y bydd i ni ogoneddu Duw: rhaid i'r goleuni sydd ynom "lewyrchu ger bron dynion," mewn trefn iddynt ogoneddu ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. Y mae pob gras a fedd y Cristion, o ran ei egwyddor yn dumewnol ac o'r golwg: ond trwy i'r grasau hyn weithio eu hunain allan yn eu heffeithiau priodol, y profwn wirionedd ein crefydd ac y gogoneddwn Dduw.

P R E G E T H X X X .

CLOFFI RHWNG DAU FEDDWL.

1 *Brenhinoedd* xviii. 21.

“Ac Elias a ddaeth at yr holl bobl, ac a ddywedodd, Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl? Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol ef; ond os Baal, ewch ar ei ol yntau. A'r bobl nid attebasant iddo air.”

Y MAE pob dyn yn cydnabod rhyw wrthddrych yn Dduw iddo. Oni chydnebydd efe y gwir Dduw, fe gydnebydd gau dduw. Nid oes ond un gwir Dduw yn bod. Y mae dynion wrth natur yn gwneuthur gau dduwiau iddynt eu hunain: hyn ydyw ffynonell yr holl bechodau, sef gadael y gwir Dduw, a chilio oddi wrtho. Gellir edrych ar holl ddynolryw o dan dri dosbarth: 1. Rhai yn myned ar ol yr Arglwydd trwy lwyrfryd calon. 2. Rhai yn myned ar ol eu heilunod yn rhwydd. O fewn y dosbarth hwn y mae yr holl baganiaid a'r cyfeiliornwyr dinystriol. Y mae yn debyg mai dyma sydd yn gwneyd i fyny y rhan fwyaf o drigolion y byd; sef, rhai yn rhedeg y ffordd lydan yn gyhoeddus i ddistryw, ac yn dangos yn eglur mai yno y maent yn myned. 3. Y mae ereill yn “cloffi rhwng dau feddwl;” sef, yn ymddangos fel rhai yn methu penderfynu ar ba law i droi—pa un ai ar ol yr Arglwydd, ai ar ol eu chwantau. Dyma agwedd llawer iawn o Gymry, yn enwedig yn y dyddiau hyn: a chymmhwys yw gofyn iddynt yn ngeirian y testyn, “Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl?”

Y mae y bennod hon yn rhoddi hanes rhyfedd am Elias y prophwyd yn gwatwar ac yn lladd prophwydi rhyw hen eilun mawr o'r enw Baal, ac yn gweddio nes cael tân gwyrthiol o'r nef ar ei aberth, yn ngwydd yr holl bobl, nes eu troi ar ol yr Arglwydd. Yn amser Elias yr oedd y genedl Iuddewig wedi ymlygru yn fawr, sef o gylch 65 mlynedd ar ol marw Solomon. Yr oedd crefydd yn flodeuog iawn yn amser Solomon; ond ar ol ei farwolaeth ef, y mae yn debyg i grefydd adfeilio llawer yn ysbaid y 65ain mlynedd canlynol, sef hyd ddyddiau Elias. Yn amser Elias yr oedd y genedl wedi ymlygru yn fawr gyda Baal.

Yr oedd y bobl wedi myned i addoli Baal. Yr oedd prophwydi lawer wedi cael eu codi i Baal. Yn yr amser llygredig hwn y cododd yr Arglwydd Elias yn ddiwygiwr yn eu plith; a rhyfedd mor lafurus a llwyddiannus y bu Elias i'w troi at yr Arglwydd. Yr oedd Elias, o ran ei enedigaeth, o Thesbe, y tu hwnt i'r Iorddonen, yn Gilead. Nid oes hanes ei achau. Yr oedd ei enw o ystyr rhagorol—"Duw yr Arglwydd." Ystyr *Thesbe* yw "dychwelwr." Yr oedd Elias yn brophwyd enwog iawn, ac yn ddiwygiwr nesaf at Moses; am hynny y gwelwyd Elias gyda Moses a Christ ar y mynydd. Gelwir Ioan Feddydiwr yn "Elias" yn y brophwydoliaeth am dano, o herwydd ei fod yn debyg iddo o ran ei dduwioldeb a'i weinidogaeth. Sylwn yn

I. *Ar y gwrthddrychau a ddisgrifir*:—rhai yn "cloffi rhwng dau feddwl." Dau feddwl sydd yn y byd—dau ddull o fyw, dwy farn, a dau gyflwr.

1. Pa fodd y maent yn ddau ?

(1.) Dau gyflwr sydd yn bod. Er fod amryw farnau, nid oes dim ond dau gyflwr, dwy sefyllfa rhyngom a Duw, cyfiawn neu anghyfiawn. Y mae llawer o sefyllfaoedd yn y byd, eithr nid oes dim ond dau gyflwr. Y mae y tlawd duwiol crystal ei gyflwr a'r cyfoethog—y mae Duw yn gwneyd tlodion y byd hwn yn gyfoethogion mewn gras.

(2.) Dwy egwyddor sydd yn bod: caru Duw, neu ei gasau—syniad y cnawd, neu syniad yr Ysbryd.

(3.) Nid oes ond dwy ffordd yn bod—y ffordd lydan, neu y ffordd gul. Y mae llawer dull ar y lydan, ond dim ond dwy ffordd.

2. Y mae pob dyn dan lywodraeth un o'r ddau feddwl hyn. Nid oes neb yn y canol.

(1.) Y mae rhai yn hollol o'r meddwl mai yr Arglwydd sydd Dduw; sef yr holl dduwiolion. Y mae pob gwir gredadyn wedi gwneyd y penderfyniad hwn yn hollol. Hyn yw y bywyd tragwyddol—adnabod Duw; dyma ei wreiddyn a'i berffeithrwydd—iawn adnabod Duw. Y mae dyn wrth natur wedi gadael y gwir Dduw, ac yn dewis gwrthddrychau ereill.

(2.) Y mae ereill yn hollol o'r meddwl mai yr eilunod sydd dduwiau. Y mae eu calonau wedi ymsefydlu yn hollol ar wrthddrychau ereill yn lle yr Arglwydd: addefant mewn geiriau mai efe sydd Dduw; ond y mae y galon yn hollol ansigledig gyda'r eilunod. Y mae rhai â'u calon ar eu cyfoeth, rhai ar barch, a rhai ar bechodau noeth: y mae gwin wedi dwyn calonau rhai, a phuteindra wedi dwyn ymaith galonau ereill.

(3.) Y mae rhai o'r rhai a ddilynant yr eilunod yn "cloffi rhwng dau feddwl." Nid oes yr un o ddilynwyr yr Arglwydd

yn cloffi; ond y mae rhai o ddilynwyr yr eilunod yn* "cloffi rhwng dau feddwl." Sylwaf ar hyn. Dyma ydyw y rhan fwyaf o'm gwrandawyr—rhai yn "cloffi rhwng dau feddwl."

Iaf, Pwy sydd yn cloffi rhwng dau feddwl? Yn nacaol:—

(1.) Nid ydyw y saint yn cloffi rhwng dau feddwl. Gwir eu bod yn cloffi yn eu profiadau yn fynych, ac yn cloffi yn eu cyflawniadau yn fynych, ac weithiau yn cloffi yn eu hegwyddorion; ond nid ydynt yn cloffi gan feddwl nad yr Arglwydd sydd Dduw; y maent yn benderfynol yn hyny bob amser, yn sicr pwy sydd Dduw.

(2.) Nid annuwiolion cyhoeddus yw y cloffwyr; o blegid y maent hwy yn myned yn rhwydd ar ol eu heilunod. Paganïaid—nid ydynt hwy yn cloffi; y maent yn benderfynol mai yr eilun sydd dduw, yn ymddiried ynddo, ac yn disgwyl wrtho. Rhedant yn rhwydd ar ol eu heilunod; rhoddant eu meddiannau, eu plant, a'u bywydau iddo. Nid yw y Mahometaniaid yn cloffi; y maent yn hollol benderfynol fod Mahomét yn brophwyd Duw. Nid yw yr Iuddewon yn cloffi: "y mae ganddynt sel Duw, eithr nid yn ol gwybodaeth." Y mae y gorchudd yn aros ar eu calon. Nid yw y Pabyddion—y cyfeiliornwyr dinystriol—nid ydynt hwythau yn cloffi. Y mae eu "hamryfusedd" yn "gadarn," nes y maent yn "credu celwydd" yn ddibetrus, yn rhedeg yn rhwydd, yn cyflawni eu defodau gyda mawr sêl, yn ymddiried yn ddiysgog yn eu crefydd. Nid yw rhai hollol anfoesol sydd yn gwrandao yr efengyl yn cloffi—meddwon, tyngwyr, godinebwyr, &c. Da fyddai cael rhywbeth i gloffi y rhai hyn. Y maent yn rhedeg yn rhwydd i'r tân. Sylwn yn gadarnhaol, yn

2il, Fod rhai yn gwybod ac yn profi llawer, ac er hyny yn annuwiol; yn addunedu llawer, ac er hyny byth yn cwblhau; gwrandawyr cyffredin yr efengyl, ac er hyny heb ei chredu.

(1.) Rhai yn deall egwyddorion crefydd ydynt, fel y genedl Iuddewig gyda Baal. Y mae y pagan yn myned yn hollol ar ol Baal: nis gŵyr am Dduw arall. Rhai moesol yn eu hymddygiadau allanol ydynt yn gyffredin; neu y mae eu bucheddau yn anwadal, yn ol fel y byddo y pleidiau yn gorchfygu yn y meddwl. Pan y bydd yr Arglwydd yn trechu, y mae y fuchedd yn foesol—pan y bydd Baal, y mae y fuchedd yn llygru.

(2.) Rhai wedi profi gradd o effeithiau yr efengyl ar amserau yw y cloffwyr. Oni buasai hyny, aent yn rhwydd ar ol Baal. Y mae ambell oedfa yn eu cloffi. Maent yn methu meddwi ar ol ambell oedfa. Beth yw yr achos? wedi cloffi y maent. Nid ydynt yn gallu cydorwedd na thyngu fel cynt; y maent fel Ffelig, wedi dychrynu. Y maent fel Agrippa, "o fewn ychydig" i fod yn Gristion—yn cloffi dan yr efengyl.

(3.) Rhai yn cydsynio âg athrawiaeth ac â dysgyblaeth yr efengyl.

(4.) Rhai yn addef ac yn gorfod barnu fod crefydd yn angrheidiol.

(5.) Rhai yn addunedu ei cheisio amser a ddaw, fel y dengys tybiaeth y testyn—"Pa hyd?"

(6.) Rhai â'u barn a'u buchedd yn anghysson. Barnant mair yr Arglwydd sydd Dduw; ond yn eu buchedd y maent yn myned ar ol Baal. Nid ydyw eu hysgeiriau yn ogyh yd; y maent yn "cloffi." Y mae y farn yn uniawn, ond yr ymarferiad yn rhy fyr i ateb iddo.

(7.) Rhai yn addunedu ceisio, ac heb gyflawni. Y maent yn gwneuthur addewid i fyned ar ol yr Arglwydd, ond wedi hyn yn myned ar ol Baal.

(8.) Rhai yn cyflawni rhai dyledswyddau crefyddol, ond yn esgeuluso y lleill sydd o gymmaint pwys. Proffesu, heb gredu; y mae y glun yma yn burion, ond y llall yn fer. Gwranddo, heb wneuthur; addoli yn gyhoedd, heb wneyd yn y dirgel; ceisio crefydd, heb ymadael â phechod; cilio rhag rhai pechodau, ond caru y lleill; cyflawni un gorchymyn, a sathru y llall; byw yn grefyddol weithiau, ond yn anghrefyddol bryd arall. Credu fod y pechod yn fawr, heb gredu fod gan Dduw faddensant mawr; proffesu crefydd, heb geisio y gwirionedd; addoli â'r corph, heb y galon; ymddwyn yn dda at ddyinion, ond yn ddrwg at Dduw; beio ar Satan a phechod, ond byw i Satan a phechod; ofni poen uffern, ond myned i uffern; addef bod Duw, ond bod heb ei addoli; addef ei allu a'i awdurdod, ond rhyfela yn ei erbyn; addef ei fod yn ein cynnal, ond ei gasâu yr un pryd; ceisio y nefoedd, ond gwrthod y ffordd iddi, sef y Cyfryngwr:—"Cloffi rhwng dau feddwl."

II. Pa beth ydyw cloffi?

Yn nacaol.—(1.) Nid sefyll yn amhleidgar yn y mater: ni ellir gwneyd hyny; y mae pawb o ryw du. (2.) Nid pleidio y ddau bob yn ail. Os gwneir hyny, rhaid pleidio un yn dwyllodrus. Pe buasai y ddwy ochr yn gyfattebol yn eu profion, gallasai hyny fod; ond os gwelir cadernid y profion o du yr Arglwydd, gwelir twyll y tu arall; ac yna sefydlir y meddwl. (3.) Nid symmudiad hollol o'r naill i'r llall ydyw: nid heddyw yn hollol o'r meddwl hwn, ac yfory yn hollol o'r meddwl arall.

Yn gadarnhaol.—1. *Meddwl ammhenderfynol* ydyw—fel clorian yn methu troi y naill ffordd na'r llall. Rhydd Satan bwys ei holl egwail ar y meddwl; rhydd Crist bwys, yn erbyn hyny: rhwng y ddau bwys, y mae y clorian yn methu troi yn hollol, yn methu bod yn ddiysgog yn y naill na'r llall. Fel gŵr bron cymmeryd ei berswadio i unrhyw beth, ond etto heb hollol ymollwng i hyny; y mae y ddwy ochr yn perswadio yn erbyn eu gilydd, ond yn methu trechu—y mae tuedd y dyn yn

pleidïo yr ochr wanaf yn y ddadl. Y maent fel gŵr yn ceisïo amddiffyn mater drwg yn y llys—yn dadleu, er gweled fod yr ochr arall yn drech. Dwg yr efengyl y dyn at lys Duw, lle y cyhuddir ac y condemnir ef yn eglur ddiddadl: ond y mae y troseddwr yn nacau rhoddi y ddadl i fyny iddo; llunia esgusion, gwâd ei drosedd, er fod y gŵyn yn ei drechu. Fel claf yn cael ei gynghori gan ddau feddyg yn groes i'w gilydd: weithiau bwriada wneyd cynghor y naill, bryd arall meddylia am wneyd cynghor y llall, ac felly yn marw. Y mae dynolryw dan afiechyd marwol wrth natur; y mae gradd o deimlad o hono yn y gydwybod, a hwnw yn cael ei adnewyddu trwy yr efengyl. Cyng-hora Satan y claf i gyflawni y pechod eilwaith—mai dyna a'i hesmwytha: cynghora Crist ef i fyned at waed y groes, a gochel y pechod mwy. Y mae y dyn fel hyn, rhwng y ddau, yn methu gwybod ar ba law i droi: fel gŵr yn sefyll rhwng dwy fyddin, ac yn sefyll mewn perygl bywyd rhwng y ddwy—a'r ddwy yn addaw bywyd iddo ond iddo droi atynt; ond y gŵr mewn cyfyng-gynghor, yn methu a phenderfynu at ba un i droi, na pha un i'w gochel. Y mae rhyfel mawr anghymodlawn rhwng Crist a Satan yn y byd hwn o'r dechrenad, a dynolryw yw yr offerynau i'w ddwyn yn mlaen: y mae pawb yn un o'r ddwy ochr hyn—y mae y ddwy yn perswadio dynolryw. Ceir rhai yn amlwg a selog dros y naill a'r llall, tra y mae ereill yn sefyll rhwng y ddwy. Neu fel gŵr yn cael cynnyg ar ddau wasanaeth gan ddau feistr; ond gan mor uchel y gosodir allan y ddwy wobr, y mae yntau yn methu penderfynu ar ba law i droi. Y mae dau wrthddrych yn ymgynnyg am y meddwl: y mae yr Arglwydd yn ymgynnyg am y deall, a'r ewyllys, a'r serch, trwy ei ragluniaeth a'i Âir, a chymmhelliadau ei Ysbryd—yn ymgynnyg yn dirion yn barhaus, trwy resymau taer a chryfion, trwy fgythion ac addewidion, trwy ddangos gwagedd y byd, a sylwedd crefydd. Ar y tu arall, y mae Baal yn ymgynnyg yn daer ar y meddwl: nid ar y deall, ond ar y serch, heb y farn. Y mae yn ymosod yn ddirgel, dichellgar, a bradwrus, trwy ddefnyddio ffug-resymau, ac addaw rhyddid a melusder. Hen arfer Baal ydyw duo crefydd, a'i gosod allan fel peth heb ddim ynddi ond galar; ac os â barn y dyn i ddadleu ei gwerth, dadleua yntau ei bod yn hawdd ei chael, ac y gall y dyn ymofyn am dani ryw bryd etto pan y myno. Y mae gan yr ochr yma fantais fawr ar y meddwl: y mae y meddwl anianol yn gynnegin â phleser pechod, ond yn ddyeithr i bleserau crefydd. Ceir fod y rhif amlaf o'r ochr hon. Y mae y meddwl dan y deniadau hyn yn amhenderfynol, yn methu derbyn un yn hollol, ac yn methu gwrthod un yn hollol; ond y mae yn aros i wrando arnynt yn ymryson cynnyg, ac yn methu penderfynu pa un i'w ddewis. Y mae y cynnygion hyn yn nerthol iawn, ac yn effeithio ar y

meddwl i'w siglo—y mae ymrysonfa yn y meddwl. Y mae rhai yn hollol dawel ar ol pob moddion; ond y mae ymrysonfa gref yn meddyliau y rhai sydd yn cloffi. Y mae dwy fyddin yn brwydro yn y meddwl, y naill yn erbyn y llall. Y mae yr ymryson yn araf iawn ar amserau; rhaid i'r farn gael ei sefydlu cyn i'r dewisiad ogwyddo yn hollol. Gweled pwys y ddadl a gryfha yr ymryson yn y meddwl.

Y mae dadl yr Arglwydd yn annhraethol drech: y mae digon yn ei achos ef i droi y glorian, pe y gwelem yn iawn. Ond y mae gelyniaeth dyn yn ei anaddasu i farnu, yn tywyllu ei lygaid ac yn gŵyro ei farn. Mae ei elyniaeth yn cynnorthwo y ochr wanaf yn y ddadl, nes ei gwneyd yn ddigonol i ateb i'r llall, ac i'w threchu ar amserau: "syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw." Ni pharhâai y ddadl funyd ond i bob ochr gael chwareu teg yn y meddwl; ond y mae gelyniaeth dyn yn gŵyro ei farn. Y mae digon o bwysau yn ochr Crist i droi y glorian am byth yn y meddwl, ond i'r pechadur weled yn iawn. Y mae yr ymryson sydd yn y meddwl yn siglo y fuchedd, ac yn ei gwneyd yn anwadal iawn: gallech feddwl ei fod yn awr yn rhedeg ar ol Baal, ond yr awr nesaf yn rhedeg ar ol yr Arglwydd.

2. Cymmeraf olwg ar y cloffi fel y mae yn *anghyssondeb yn yr ysgogtadau* at y gwrthddrychau, a'u holl berthynasau. Y mae yr holl ysgogtadau yn cloffi yn y mater hwn. Y maent yn anghysson,

(1.) *Tuag at Dduw*.—Hoffi rhai priodoliaethau, casau y lleill; profesu cariad mawr at ei drugaredd, ond casau ei gyfiawnder; caru ei ras, ond casau ei sancteiddrwydd; caru ei ddaioni, ond casau ei hollwybodaeth; yn dda ganddynt ei fod yn gwybod eu da, ond ni fynant iddo wybod eu drwg. (2.) *At Grist*.—Carant rai o'i swyddau, ond casânt y lleill. Gweithredu yn gloff y maent at y Cyfryngwr. Er ei fod oll yn hawddgar, etto y maent yn casau ei frenhiniaeth; ni fynant gymmeryd ei iau. Y maent yn caru ei swydd offeiriadol; ond er ei fod oll yn angenrheidiol, gwrthodant ei lywodraeth a'i gyfraith. Mynant ei ranu. Er fod y Duw unig ddoeth wedi ei "wneuthur i ni;" etto gallant hwy ganfod pethau afreidiol ynddo, a gweled bai ar y trefniad. (3.) *At y ddeddf a'r efengyl*.—Profesant barch i rai gorchymynion, a sathrant y lleill. Ufuddhant i'r gorchymyn "Na ladd," ond ni charant Dduw. Y mae llawer yf ceisio cadw y llech olaf, ond heb feddwl dim am y gyntaf; y mae hyn yn gloffni yn eu dyledswyddau crefyddol: "Yr hwn a balla mewn un pwngce sydd yn euog o'r cwbl." Pyrth y ddinas yw y gorchymynion. Y mae lliaws yn gwrando, heb weddio—yn darllen, heb fyfyrto—yn addef, heb broffesu. Naill ai ni ddylid gwrando, neu dylid profesu: os gwir yw y Beibl, dylid gwneyd

y ddau, ond os nad gwir ni ddylid gwneyd yr un. Y mae hyny yn gloffni—cilio oddi wrth rai pechodau, a byw yn y lleill. Ceir llawer cybydd yn cilio rhag meddwdod, er mwyn ei boced; cilia rhai oddi wrth ladrata, ond etto meddwant; ciliant rhag godinebu a thyngu, ond etto gwrthodant Grist. Anghredu yr efengyl ydyw pechod y pechodau. Ceir lliaws yn gyfiawn at ddynion, ond yn gwrthod Crist. Ni chewch fawr ddiolch gan Dduw am iawn ymddwyn yn eich amgylchiadau tymmorol, ond croeshoelio ei Fab yn nglŷn â hyny. Ni chaiff y gwas ddiolch gan ei feistr pan ddaw adref am ofalu am ddodrefn y tŷ, a'u cadw yn drefnus a glân, a gadael i'w blentyn losgi! Nid yw yr ymddygiad at y plentyn yn gyfartal i'r ymddygiad at y dodrefn. Yr wyt ti yn ymddwyn yn burion, fe allai, at y dodrefn; ond yn dy ymddygiad at y Mab, yr wyt yn digio Duw i'r eithaf! Y mae yr ysgogiadau yn anghysson iawn: nid yw yr esgeiriau yn ogyhyd. (4.) *Y mae yr egwyddorion a'r fuchedd yn groes i'w gilydd.*—Gall Duw dy gondemnio o'th enau dy hun: addef â'th dafod fod Duw yn bod, ond pechu fel pe na buasai—"ar weithredoedd yn ei wadu;" addef ar dafod mai Duw a'th waeth, a'r un pryd yn gwasanaethu y diafol; addef mai Duw sydd yn dy gynnal, "a rhedeg yn y gwddf" iddo ar unwaith; addef fod byd arall, ond byw fel pe na bai yr un. Y mae dy dafod yn condemnio dy fuchedd: naill ai gwâd nad oes Duw, neu gwasanaetha ef! (5.) *Y mae y fuchedd yn anghydfeyll â hi ei hun.*—Myned i'r oedfa—dyna daffiad o blaid yr Arglwydd; meddwi wed'yn—dyna daffiad yn ei erbyn. Naill ai ni ddylet fyned i'r oedfa, a meddwi fel y mynot; neu, dylet fyned i'r oedfa a pheidio meddwi. Y mae lliaws yn byw yn foisol heb broffesu crefydd. Rhaid fod moesoldeb yn hollol afreidiol, neu fod proffes o Grist yn llwyr angenrheidiol.

Cyfraith Crist ydyw rheol moesoldeb. Yr un awdurdod ag sydd yn gorchymyn moesoldeb sydd hefyd yn gorchymyn i ni arddel Crist; ac os dylech ufuddhau iddo yn y naill, dylech ufuddhau hefyd yn y llall. Os ydyw cosp anfoesoldeb a phechodau cyhoeddus yn rheswm digonol i'ch perswadio i foesoldeb, pa ham nad ydyw yr un gosp—neu yn hytrach trymach cosp—yn eich perswadio i broffesu Crist? O blegid yr un Duw a gospa anfoesoldeb ac a gospa wadu Crist "yn y bechadurus genhedlaeth hon." A ydyw yr addewidion sydd yn nglŷn â moesoldeb yn effeithio arnoch? Pa ham nad ydyw yr addewidion mwy sydd yn nglŷn âg arddel Crist yn effeithio arnoch? Os ystyriaeth o'ch rhwymau sydd yn eich ennill i foesoldeb, pa ham nad ydyw ystyriaeth o'ch rhwymau uwch i arddel Crist yn effeithio i'ch ennill i'w arddel ef? A oes ofn llied Duw arnoch am fyw yn annuwiol? A oes arnoch ddim ofn ei lid am wrthod ei anwyl Fab? A oes arnoch ddim ofn ei lid am groeshoelio ei

brif Anwyl yd ? A oes arnoch ddim ofn iddo eich bwrw i uffern am fathru ei anwyl Fab, a barnu ei waed yn aflan ? Ai is yn ei olwg ydyw ei Fab na'i drugaredd ?

3. *Amryw fathau o gloffi.* (1.) Y mae rhai yn cloffi mewn barn: weithiau yn meddwl mai crefydd sydd oreu, ac weithiau rywbeth arall. (2.) Y mae rhai yn cloffi yn eu bwriadau: addunedu, ond heb gyflawni; addunedu, ond gyda eu chwantau newidiant eu meddyliau. (3.) Cloffni profiad.^a (4.) Cloffni buchedd. Bucheddu yn ol eu temtasiynau—cydffuriant â phob cymdeithas. Hwn ydyw y prif gloffni—cloffni annybendod a musgrellni. Aiff gyda'r cwmni, ond nid mor hyf—y mae wedi cloffi; cyflawna ei bechod, ond nid mor siriol a difyr—y mae wedi cloffi. Tynu yn ol yn raddol y mae o feddiant Satan. Y mae y dyn yn pechu yn fwy cyndyn o lawer, rhaid cymmhell mwy arno—wedi cloffi y mae. Teimla yn fwy cywilyddus a phoenus ar ol darfod—y mae wedi cloffi. Daw i'r addoliad yn amlach—dyna gloffi; y mae yn colli o'r cwmni drwg, yn methu canlyn y *trup*—y mae yn rhy gloff. Cynnydda y cloffni: cyll o'r blaen i'r canol, fe allai; cyll o'r canol i gw'r y gwrsyll; o'r diwedd, cyll o'r gwrsyll yn llwyr; etto, cais llynu â'i glun gloff; ond y mae yn rhy gloff, er ei fod ar ei holl egni. Wyla wrth eu gweled yn myned a'i adael ar ol; o'r diwedd rhydd i fyny bob meddwl am eu canlyn. Bywyd cyffredin a gwreiddiol y cyfryw ydyw ar ol Baal. Y mae Duw yn ymosod arno gyda'r fath rym trwy amryw foddion—argyhoeddi ei gydwybod, ennill ei farn; yntau yn newid ei fuchedd, fe allai. Er hyn oll y mae y cwbl yn methu cyrhaedd llwyr fuddugoliaeth, ac yn dibenu yn anfoddfaol. Y mae yma rai wedi ei chael hi yn ofnadwy yn ddiweddar! Yr oeddynt yn rhedeg mor gyflym a neb tua distryw; ac yn llwyr feddwl rhedeg am y cyntaf i'r tân tragwyddol, yn curo pawb ar y ffordd: ond fe dafodd angel glân y bachgen o'i lle—dacw fe yn dechreu cloffi o'r gwrsyll. Ha! nid oedd fater i ti ei chael hi! Mi darawodd ryw stengcyn ofnadwy yn nghlân y llango—dacw fe ar lawr yn methu symud; rhaid cael rhyw Samariad trugarog ato i'w godi ar ei anifail. Pa ham hyny ? Nid oes dim *trust* na syrth o druan i law y gw'r fu ar y groes, ac ni ryfeddwn i ddim nad ar ei ddwy ysgwydd ef y bydd efe cyn bo hir! Haleluwia!

Un *clufar* am *dripió* un ar ei yrfa ydyw yr angel! Mi gododd sawdl ambell fachgen glew ar y gair hwnw—"Eithr os rhodiwn yn y goleuni, megys y mae efe yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd, a gwaed Iesu Grist ei Fab ef sydd yn ein glanhau ni oddi wrth bob pechod." Aeth y gair yma dan wadnau rhai—"Gwir yw y Gair, ac yn haeddu pob derbyn-iad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid; o ba rai penaf ydwyf fi."

4. *Achosion cloffni.* Yn nacaol:—(1.) Nid diffyg manteision. Y mae ein manteision mor liosog a'r glaswellt. Y mae pob peth yn y greadigaeth a rhagluniaeth yn dwyn tystiolaeth â llef uchel, mai yr Arglwydd sydd Dduw, ac mai ar ei ol ef y dylem fyned. Y mae glaswellt y maes yn llefaru wrth ein llygaid, mai yr Arglwydd sydd Dduw; y mae tonau y môr yn ymddyrfachu i floeddio wrthym; a'r gwynt yn sisial hyn yn ein clustiau. (2.) Nid anallu esgusodol. Pa beth bynag yw eich anallu, nid yw yn esgusodol; o blegid nid yw ond eich cyndynrwydd. "Gwas drwg a diog;" cuddio y dalent yn y ddaear yw y peth —diogi yw yr anallu. (3.) Nid Satan. Nis gall y diafol roddi gorfod arnat i aros yn ei wasanaeth, onid ês byddet yn esgusodol; ac nid rhaid iddo orfodi un dyn i bechu.

Yn gadarnhaol:—(1.) Diffyg gweled pwys y mater. Y mae yn rhy ysgafn, yn ol eu tyb hwy, i haeddu ystyriaeth ac ymchwiliad. Yr ydym yn ceisio penderfyniad ar bob mater pwysig yn y byd hwn. Pe y tybiech fod digwyddiad o werth mawr yn eich hawl, cyfrifech y peth o bwys teilwng o'i chwilio genych i hollol benderfyniad; ac ni orphwysech nes cael penderfyniad. O enaid! enaid! a elli di gysgu yn dawel mewn ansicrwydd o'th hawl i'r nefoedd? Ai mwy gwerthfawr yw darn o'r ddaear na nef y gogoniant—yr etifeddiaeth dragwyddol? A all yr euog fod yn esmwyth cyn ei dreial? O enaid! y mae dy dreial yn ymyl—ond yr wyt yn esmwyth heb wybod pa fodd y try. (2.) Nid yw y rhai hyn yn ei gyfrif yn fater iddynt eu hunain. Y maent yn ei gyfrif yn perthyn i'r corph o ddynolryw, ond yn gadael eu personau eu hunain allan o hyny. Y mae cyffredinolrwydd y condemniad a'r trueni yn ei esmwythau yn ddigonol yn ngolwg llawer. Ond nid yw dy achos personol di ddim yn well ar gyfrif cyffredinolrwydd y trueni. Pan ddywed yr Ysbryd, "Tydi yw y gŵr!" y mae y mater yn effeithio. Ond esmwythdra twyllodrus ydyw yr un sydd yn codi oddi ar yr ystyriaeth o'r cyffredinolrwydd sydd yn y drwg. Nid yw hyn yn amgen na dyweyd—'Gan fod pawb yn myned i ddinystyr, yr wyf finnan yn foddllawn i fyned yno.' Ond a fydd llawer o rifedi yn abl i oeri uffern? A ydyw y dyn yn dawel pan y mae y llong yn suddo, am fod llawer yn suddo; neu dan y pla, am fod llawer dano? (3.) Dau dyniad yn erbyn eu gilydd; a'r ddau ar amserau yn effeithio croeshudoliad, fel dau wynt cryf ar y glaswelltyn. (4.) Dyeithrwech y meddwl i'r mater, neu anystyriaeth o hono. Y mae pwys digonol ynddo i weithio yr un ymddygiad i'w le, ond yn unig iddo gael ei ystyried yn briodol. "Gollwng Duw dros gof" y mae dynion. Effaith absenoldeb y mater o'r meddwl ydyw yr holl bechu gweithredol:—"pellhau y dydd drwg." "Gwna yn llawen, ŵr ieuange, yn dy ieuengetid, a llawenyched dy galon yn nyddiau dy

ieuengctid, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid: ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll." "Cofia yn awr dy Greawdwr." Y mae ystyriaeth o hyn yn dwyn i mewn i'r meddwl wrthddrychau ereill gwrthwyneb; y rhai, trwy hir ymarferiad, a ennilliant fwy o lywodraeth, ac a yrant eu heffeithiau yn ddyfnach. Y mae cydwybodau rhai wedi eu "serio." Y mae anystyriaeth o'r mater yn attal pob ymarferiad o'r moddion i argraphu y mater ar y meddwl. Y mae anystyriaeth o hono yn cenhedlu golygiadau ysgeifn ar y mater. Y mae ystyriaeth ddifrifol a dyfal yn arwain y meddwl i fanylrwydd y mater—i edrych i'w holl ganghenau a'i ganlyniadau pwysig; ond cipolwg fyrbyll ni all olrhain y mater i fanylrwydd, ac i'w ganlyniadau mawrion, ac ni all ei gymmharu â'r effeithiau ereill. (5.) Y maent yn disgwyl wrth yr Arglwydd i'w dwyn i benderfyniad—disgwyl iddo gyflawni rhyw weithred orchfygol arnynt, disgwyl iddo ef wneuthur eu penderfyniad hwy i fyny yn hollol—gosod rhyw angenrhaid arnynt i ddyfod ar ei ol. Adeiladant y disgwyliad hwn ar athrawiaeth gras anorchfygol, a galwad effeithiol. Y maent yn disgwyl am beth na addawodd Duw mo hono. Disgwyl iddo gyflawni eu dyledswyddau yn eu lle; neu ddisgwyl iddo roddi gorfod arnynt hwy i'w cyflawni. Nid eu gweithred hwy fyddai mwyach. Y maent yn disgwyl, mewn ystyr, y peth sydd eisoes wedi ei roddi—gras digonol oddi wrth Dduw i'w penderfynu, neu alwad effeithiol. Y mae gras digonol i'ch penderfynu wedi ei roddi eisoes; sef, yr athrawiaeth a'r cymmelliadau tu mewnol. Bu hyn yn ddigonol i benderfynu ereill, a dylai dy benderfynu dithau. Disgwyl y peth y maent yn ei wrthod! Gwrthod cymmeryd eu perswadio y maent—gwrthodiad ewyllysgar yw, os eoledir rhyw bechod, os esgeulusir rhyw ddyledswydd. Disgwyl y peth y maent yn gwrthryfela yn ei erbyn. Disgwyl cymmelliadau tu mewnol, a diffodd cymmelliadau tu mewnol. Disgwyl argyhoeddiad, a mygu argyhoeddiad. Disgwyl cymmorth i adael eu pechodau, ac ymroddi i'w pechodau. Disgwyl calon i weddio, a chilio oddi wrth weddio! Y mae y disgwyliad hwn yn eu cadw yn gloff mewn crefydd. Y mae y disgwyliad hwn yn rhoddi eu dyledswydd hwy yn erbyn Duw—yn dyweyd mewn effaith mai efe biau gwneuthur y cwbl. Y maent yn barnu fod eu gofal a'u gwaith hwy yn afreidiol ac ofer. (6.) Y mae y rhai hyn yn addaw cadwedigaeth er byw mewn pechod, ac yn cynnal i fyny ryw fath o obaith, yr hwn ydyw yr unig foddion effeithiol i dawelu y meddwl a boddioni cydwybod y cloffwr. Collai ei obaith twyllodrus, pe gellid sicrhau ei farn yn hollol fod ei gyflwr yn anobeithiol am waredigaeth, a bod y nefoedd yn anghyrhaeddadwy iddo; syrthiai ei feddwl yn hollol i'r golygiadau anobeithiol hyn. Codai ei gydwybod i fyny i'w flangellu yn

arswydus: addawai ei reswm lonyddwch iddo, ond llenwid ef âg ofnau ac ymfyniadau difrifol, ynghyd âg ymroddiad hollol i adael heibio bob achos arall yn llwyr, ac i ymasyd yn egniol a diorphwys yn y mater mawr hwn. Hollol iachaid ef o'r syrthni ac o'r ymroddiad gormodol i wrthdychau a materion ereill llai eu pwys oedd yn ei gloffi o'r blaen; gwellheid ef o'r oediad a'r hwyrfrydigrwydd i gyflawni ei fwriadau crefyddol oedd yn ei gloffi o'r blaen—y mae yr achos yn awr o'r fath bwys yn ei olwg. Y mae ei gydwybod mor anesmwyth, a'i wellhad mor ansicr.

III. Pa ham y maent yn cloffi?

Yn iaf, Ni allant fyned ar ol eilunod yn rhwydd o herwydd amryw bethau. (1.) *Tystiolaeth eu cydwybodau.*—Y mae calon y dyn yn ei gondemnio, onid é ai ar ol ei bechod yn rhwyddiach; y mae ei gydwybod yn llosgi—yn bygwth cosp arno yn y byd a ddaw: y mae hyny yn ei gloffi. Y mae cydwybod euog fel aelod archolledig yn y rhedfa bechadurus; gan hyny, y mae y dyn yn gloffi. Y mae yn ei flino yn fawr—yn edliw iddo, yn bygwth cosp, yn dyweyd fod barn yn dyfod; weithiau, fe'i hattal yn llwyr; dro arall, fe'i hanafa yn fawr. Y mae cydwybod fel anifail anhwylyus yn y cerbyd: os bydd yr anifail yn ddrwg, fe arafa y cwbl. (2.) *Ymrysoniadau yr Ysbryd.*—Gallai y dyn redeg yn llawer cyflymach oni buasai ymrysoniadau yr Ysbryd; tawai y gydwybod oni buasai am hyn. Y mae yr Ysbryd yn rhwystr mawr yn y rhedfa:—fel teithiwr dyeithr yn cael ei hun ar ffordd ddrwg; ond pan ddél gŵr cyfarwydd â'r lle i ddyweyd wrtho y perygl a'i gyfeiliornad, ac i arfer pob rheswm, a'i droi yn ol, y mae hyny yn arafu ei gamrau. (3.) *Tystiolaeth o'r canlyniad neu y goep.*—Rhedaï llawer un yn gyflymach oni buasai fod uffern o'u blaen. Lladrataï mwy, pe na byddai carchar am hyny; felly, pechai llawer mwy pe na byddai carchar tragwyddol yn ol. Y mae hyny yn arafu peth arnynt; a gallant fod yn arafach etto, a myned i uffern yn ddigon buan! Byddaf yn rhyfeddu eu bod yn gallu brysio cymmaint i'r fath le! (4.) *Y mae profedigaethau y byd yn eu cloffi.*—Y mae rhai profedigaethau yn eu dwyn uwch ben y byd tragwyddol. Yr oedd plâu Duw yn cloffi Pharaoh: rhedaï Pharaoh yn gyflym iawn yn ei wrthryfel yn erbyn Duw, ac yn y pechod o orthrymu Israel, nes deuai y pla; ond pan y deuai y pla, safai Pharaoh yn ei yrfa ddrwg. Felly llawer etto: yr oedd y dyn yn pechu yn gyflym yn ei iechyd, ond yn ei gystudd y mae wedi arafu. (5.) *Gweinidogaeth y Gair.*—Dichon bygythion, addewidion, a rhesymau y weinidogaeth, ynghyd â'i heffeithiau ar ereill, gario rhyw ddylanwad ar y dyn i'w arafu; dichon y pregethu ei gloffi—dawn, tymmher, a llais y pregethwr. (6.) *Marwolaethau*

cymdeithion a pherthynasau.—Rhybuddion effeithiol y mae anghen yn eu rhoddi i bob dyn. “Brenin y dychryniadau” ydyw—dychryna bob dyn—enfyn wŷs i bob cydwybod—teifi saeth i bob calon: “Marw a wnelwyf,” medd pawb, “o farwolaeth yr uniawn.” Y mae anghen fel gwynnt nerthol yn siglo yr holl garcharorion; er mor anffyddaid, gwelant yr ynfyrwydd o geisio crefydd yn anghen, gwagedd pechod a’r byd, ac ansicrwydd bywyd. Gwelwyd llawer un yn arafu ei gamrau am ychydig mewn amgylchiad fel hyn, wedi colli perthynas neu gyfaill. Ac y mae gwaith Duw yn “troi dyn i ddinestr” anghen, a’r bedd, yn alwad ar y byw i “ddychwelyd.” (7.) *Effeithiau y Gair yn troi ereill sydd yn cloffi llawer.*—Y mae rhai gweinidogion y Gair fel tramgwydd yn ffordd pechaduriaid, yn rhwystro iddynt fyned yn mlaen. Y mae eu buchedd, a’r athrawiaethau a ddysgant yn tramgwyddo llawer yn Nghymru y dyddiau hyn; ac o blegid hyn y mae llaweroedd o annuwiolion yn gwaeddi yn eu hymddygiadau, “Ciliwch o’r ffordd—ciliwch o’r llwybr, perwch i Sanct Israel beidio â ni!”

Yn 2il, Ni allant fyned ar ol yr Arglwydd yn rhwydd (1.) *Nid ydynt yn ei garu yn fwy na’u chwantau.*—Y serch a lywodraetha y fuchedd—a’r gwrthddrych sydd yn cario gyda’r serch a gaiff y fuchedd hefyd. Rhaid i’n holl ysgogiadau ar ol yr Arglwydd fod yn firwyth cariad ato: “cyflawnder y gyfraith yw cariad.” Y mae yn naturiol i gariad ufuddhau i’r gyfraith, ac ni ellir ufuddhau i Dduw heb ei garu: y briodasferch sydd yn ei gymmeryd yn Iôr, i ymostwng iddo ef. (2.) *Nid ydynt yn adnabod eu cyflwr.*—Adnabod y cyflwr sydd yn ysgogi y dyn yn gywir ar ol yr Arglwydd. Efe yw “ffynnon y dyfroedd byw;” iddo ef “y perthyn diangfaau rhag marwolaeth.” Newyn a ddaeth â’r afradlon adref. Pan y gwir adnebydd ei drueni, ni chaiff wrthddrych a’i digona ond Duw; o blegid “iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd.” (3.) *Nid ydynt yn adnabod ei hawddgarwch.*—Golwg fel Cain sydd ganddynt arno—un i ffoi oddi wrtho. Adnabyddiaeth o’i gariad ef sydd yn tynu pechadur yn mlaen. Ennill y mae trwy y Gair. Dyns yr olwg ennillgar: “Gadawed y drygionus ei ffordd, a’r gŵr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth.” (4.) *Nid ydynt yn adnabod y Cyfryngwr.*—Ni welir Duw yn hawddgar i bechadur ond mewn Cyfryngwr. “Tân ysol” yr ymddengys, a Duw anghymmodlawn; ac ni “rodia dau ynghyd heb fod yn gyttân.” Ond yn Nghrist, cymmodir y “tân ysol” â’r soffyn sych. (5.) *Cariad at bechod.*—Blys y pren gwaharddedig, fel Adda; dychwelant at eu chwantau fel y ci a’r hwch. Fel gwraig Lot yn myned o Sodom, y mae y galon ar ol. Os caru yr Arglwydd, rhaid casau dryg-

ioni; nid oes dim modd gwasanaethu Crist a Belial. Rhoddi heibio bob "pwys," a phob pechod; ie, yr anwylaf, sef yr un "parod i'n hamgylchu," ydyw y cychwyniad cyntaf ar ol yr Arglwydd. (6.) *Gelyniaeth at Dduw*.—Gelyniaeth at ei natur, ei ddeddf, ei iachawdwriaeth, a'i ragluniaeth. Ni addefant Dduw mewn dim: "O blegid syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw: canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw; o blegid nis gall chwaith." (7.) *Balchder—cywilydd o Grist a'i eiriau*.—Yr annuwiol, gan uchder ei ffroen, "ni chais Dduw." "Os mŷn neb ddyfod ar fy ol i"—dyma ddeddf y broffes Gristionogol—"ymwaded âg ef ei hun, a chyfoded ei groes, a chanlyned fi." Dywedai y Phariseaid am y werin:—"Y bobl hyn, melldigedig ydynt." "A gredodd neb o'r penaethiaid iddo?" "Yr ymadrodd am y groes, i'r rhai colledig, ynfydrwydd yw." Rhaid "derbyn teyrnas Dduw fel dyn bach." (8.) *Anghredu Gair Duw*.—Pe y credem, cychwynai hyn ni. Y mae y gwirionedd yn fuddiol, pan gyd-dymmerir ef â ffydd. Y mae grym digonol yn ei resymau, a phwys digonol yn ei fater i effeithio, ond ei gredu; y mae min digonol ar y cleddyf, ond iddo gael dyfodiad i'r enaid. (9.) *Hen ymarferiad â phechod*.

IV. *Afresymoldeb cloffi*.—Y mae y mater o'r pwys mwyaf—tragwyddol ddedwyddwch! Yr ydych yn mŷnu penderfyniad ar bob mater o bwys mawr—pa ham y gadewch hwn, y mwyaf ei bwys, yn ammheus? A fyddech yn dawel heb wybod i fan-ylrwydd pa fodd y mae yr etifeddiaeth yn sefyll, os byddai genych dyb y gallech ei hetifeddu? Ai difater genych am eich bywyd tragwyddol? Y mae penderfyniad hollol yn angenrheidiol er eich dedwyddwch: a'ch dedwyddwch a ymddibyna ar eich penderfyniad. "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi." Penderfyniad diysgog yw ffydd—sicrwydd hollol am y pethau anweledig. Y mae yr amser i benderfynu yn fyr ac yn ansicr. Os bydd eich amser yn fyr i gadarnhau eich mater i gyfarfod eich gwrthwynebwr yn y llys gwladol, O! mor ymofyngar yr ydych! Os bydd eich amser yn fyr i brofi eich hawl i etifeddiaeth ddaearol, O! mor ddiorphwys ydych! Ond yma, y mae tragwyddoldeb yn dibynu ar funyd. Y mae genych fanteision digonol i benderfynu yn awr mai "yr Arglwydd sydd Dduw." Cydwybod yn tystiolaethu, rhagluniaeth, a'r Gair. Wrth "gloffï rhwng dau feddwl," yr ydych yn ymladd dros ddau gwrthwyneb i'w gilydd. Y mae un blaidd heb un hawl yn om; ond y mae gan y llall yr hawl gryfaf; ie, yr uchaf sydd yn bod. Y mae un yn bwriadu cwblhau ein ~~ca~~ystyr, a'r llall yn amcanu perffeithio ein dedwyddwch. Y mae un yn ddarfodedig, a'r llall yn dragwyddol yn ei phleser.

Y mae un yn sicr, yn y pen draw, o lwyddo a gorchfygu, a'r llall yn sicr o aflwyddo a cholli y maes; ie, y mae un yn rhagori digon ar y llall yn ei phleser a'i chynnygion, fel y mae yn rhyfeddod gan angylion fod neb yn cloffi, ac heb benderfynu yr achos ar unwaith am byth.

Nid ydyw y cloffwyr yn meddwl bod felly byth:—"Pa hyd?" Dyledswydd gweinidogion y Gair yw cymmhell y cloffwyr i benderfyniad dioed:—"Pa hyd?"

V. *Y cynghor a roddir iddynt.*—"Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol ef; ond os Baal, ewch ar ei ol yntau. A'r bobl nid atebasant iddo air."

1. *Rhesymoldeb y cynghor:*—"Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol ef." Am fod yr Arglwydd yn Dduw, dylem fyned ar ei ol ef; yr Arglwydd Dduw yn unig sydd deilwng o'n hymlyniad penaf. Rhesymol yw, yn (1.), ymddiried yn yr Hollalluog: (2.) ofni y mwyaf: (3.) caru y goreu: (4.) ufuddhau i'r Goruchaf mewn awdurdod: (5.) ymhyfydu yn yr Anfeidrol a'r hunan-ymddibynol: (6.) disgwyl yn ddiysgog wrth y ffyddlonaf.

2. *Cynnwys y ddyledswydd:*—"Ewch ar ei ol ef;" sef ei arddel yn Dduw i ni, ymddwyn ato fel ein Duw. Myned ar ei ol fel ein Duw yw hyn: credu ei athrawiaeth, ufuddhau i'w holl reolau—reolau addoliad yn neillduol, a rheolau moesa yn gyffredinol tuag at Dduw, a thuag at ddynion; ymwrthod â phob eilunod. Ymroddi i fyned ar ei ol ef â'n holl galon, ac ar ei ol ef yn unig; myned ar ei ol bob amser, yn ostyngedig, trwy gymmhorth yr Ysbryd, gydag ymroddiad hyd farw, ac er marw—hyd y diwedd.

3. *Annoqaethau i benderfyniad.*—Yr Arglwydd a'th greodd; gan hyny, dos ar ei ol ef. Efe sydd yn dy gynnal; gan hyny, dos ar ei ol. "Trugareddau yr Arglwydd" yw na ddarfu am danat; y mae dy fywyd yn ei law; gan hyny, dos ar ei ol. Y mae efe yn awdwr iachawdwriaeth; gan hyny, dos ar ei ol ef. Ni all Satan dy waredu rhag y llid a fydd: "Iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd." dos ar ol yr Arglwydd, fe'th wared rhag y llid—fe faddeu dy bechod, teifi ef i ddyfnder y môr; fe gyfiawna dy berson, fe feddyginiaetha dy archolliion—rhydd olew Calfaria yn dy friw; fe'th gynnal ar dy daith. Rhydd nerth yn ol y dydd; fe'th adfer o'th wrthgiliaid; fe'th wared o enau angeu; glŷn wrthyt pan fyddo pawb yn cefnu; adgyfyd dy gorph; fe'th arddel yn y farn: dos ar ei ol—ti gai y "can cymmaint yn y byd hwn." Dos ar ei ol! fe'th garodd cyn dy fod—anfonodd ei Fab—cospodd ef, ac arbedodd di—galwodd ar dy ol. Dos ar ei ol! Daeth Mab Duw ar dy ol di, i dy natur, i dy ddeddfie; daeth dan dy gosp; rhoddodd ei gefn i'r

curwyr drosot; daeth trwy ddwfr a gwaed—daeth drwy chwys
gwaedlyd—daeth drwy warth a dirmyg—daeth i'r croesbren:
a daeth o'i fodd—o'i gariad, i'th waredu!

Holl ranau'r greadigaeth faith
Sy'n uchel floeddio yr un iaith,
Mai yr Arglwydd efe sydd Dduw—
Gan hyny iddo dylem fyw.

Uwch ben bloeddiadau bydoedd mawr,
Yn unllais llefa llwch y llawr—
"Yr Arglwydd sydd anfeidrol Dduw,
O'i flaen addoled dynolryw!"

Gwnawn heddyw benderfyniad llawn,
"Ar ol yr Arglwydd byth yr awn!"
Na chloffwn rhwng dau feddwl mwy,
'Does bywyd in' ond marwol glwy'.

PREGETH XXXI.

DYFOD AT GRIST.

Ioan vi. 44.

“Ni ddichon neb ddyfod staf fi, oddi eithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfodd, ei dynu ef: a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf.”

Y MAE ein cydwybodau yn ein rhybuddio yn fynych ein bod mewn perygl mawr o ran ein sefyllfa ysbrydol rhyngom a Duw. Tystiant ein bod yn euog o wrthryfela yn erbyn Duw, ac yn rhwym o herwydd hyny i gosbedigaeth dragwyddol. Dan radd o deimlad o'r perygl mawr hwn, y mae pob dyn yn ymdrech i ddychymygu ac i arfer y moddion a dybia efe yn gymmhws i'w ddiogelu ei hunan rhag y llied a fydd. Y ffordd y mae dynion yn gyffredin yn ei dychymygu ac yn ei harfer geisio gwaredigaeth o'r perygl mawr hwn ydyw—myned allan o honynt eu hunain, ac ymddiried eu hachos i'r gwrthddrych y maent yn dybied yn addas a digonol waredu iddynt. Er fod dyn, yn malchder ei galon, yn llunio meddyliau mawr am dano ei hun, etto y mae tystiolaeth ei gydwybod euog yn sicrhau iddo ei fod yn analluog i waredu ei hun rhag digofaint yr Anfeidrol. Dan radd o deimlad cydwybod o'i anallu i waredu ei hun, y mae pob dyn yn ymddiried ei achos tragwyddol i'r gwrthddrych ag y mae efe yn tybied ei fod yn addas a galluog i'w waredu.

Y mae y gwrthddrychau y mae dynolryw yn dyfod atynt am eu bywyd tragwyddol yn lliosog, ac yn amrywiol iawn. Y mae rhai yn myned at eilunod mudion—y rhai sydd â llygaid ganddynt, ond heb weled; a'r rhai y mae clustiau iddynt, ond heb glywed—i lechu dan eu nawdd, gan dybied fod heddwch a ffaf yr eilun yn iachawdwriaeth iddynt. Gwelir rhai yn brysio at Mahomet, rhai at y pab, Mair, a Phedr—a rhai at ordinhadau crefyddol tŷ Dduw. Y mae yr holl wrthddrychau hyn yn siomedig, a chywilyddir pawb a ymddiriedant ynddynt. Pob cynghrair o eiddo dyn âg angen, ni saif; yr holl hyder a'r

gobaith a adeiledir ar y gwrthddrychau hyn sydd fel tŷ ar y tywod, heb sail.

Yr unig wrthddrych i bechadur i ddyfod ato am ei fywyd ydyw yr Arglwydd Iesu Grist. "Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall: canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi yn mhlith dynion, drwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig;" *Act.* iv. 12. "Yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddenant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddioddefgarwch Duw;" *Bhuf.* iii. 25. Hwn yw y "maen" a sylfaenodd Duw "yn Seion:" "yr hwn a ddél ato ef, nis bwrir ef allan ddim;" "y neb a gredo ynddo ef a fydd cadwedig," a'r "hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eisoes." Ond er fod yr Arglwydd Iesu yn cael ei ddadguddio yn yr efengyl yn hollol addas a digonol Waredwr i'r penaf o bechaduriaid; ac er fod y penaf yn cael ei alw ato, a'i orchymyn i gredo ynddo; ac er fod bywyd tragwyddol yn cael ei addaw yn sier i'r hwn a gredo—etto y fath ydyw gelyniaeth dyn wrth natur at Dduw, ac at ei drefn ddoeth i achub pechadur trwy Gyfryngwr, fel na ddichon dyn ddyfod at Grist er cael ei alw. Y mae y fath dywyllwch yn ei ddeall am bethau ysbrydol—y mae y fath gyfeilhornad yn ei farn—y mae y fath gyndynrwydd yn ei ewyllys at bob peth da, a'r fath elyniaeth yn ei serch at bob peth sanctaidd, fel na ddichon efe ddyfod at Grist fel y caffo fywyd.

Ond er maint ei dywyllwch, ei gam farn, ei gyndynrwydd, a'i elyniaeth, fe ddichon y Tad "ei dynu ef." Fe "ddichon Duw o'r meini hyn" wneuthur gwir gredinwyr.

I. *Y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn wrthddrych addas a digonol i bechadur ddyfod ato am ei iachawdwriaeth.*

Efe yw yr unig wrthddrych cymmhwys i ni ddyfod ato ar y mater mawr hwn. Byddai yn briodol ymddiried materion llai eu pwys i wrthddrychau ereill; gellir ymddiried pethau ysgeifn y bywyd hwn i ofal dynion: ond rhaid i chwi ymddiried gofal pethau mwy pwysig y byd tragwyddol i'r Arglwydd Iesu, neu gyfarfod â thragwyddol siomedigaeth. Ymddiried y gŵr boneddig ofal ei stât i'w *steward*; ymddiried y masnachwr ofal llwyth gwerthfawr i'r cadben; ymddiried y brenin ofal y rhyfel i'w swyddwyr milwrol; ymddiried y gŵr a'r wraigeu cyfrinach i'w gilydd; ac ymddiried un mewn ymrafael ei fater i'w gyfreithiwr. Ond, gadewch i ddynion ymddiried pethau ysgeifn y byd hwn i ofal eu gilydd!—eithr yr ydwyf yn eich hysbysu yn enw yr Arglwydd, ac yn Ngair yr Arglwydd, mai rhyfyg dinystriol fyddai ymddiried eich mater tragwyddol i ofal neb dynion: gwae a ymddiriedo y mater mawr hwn i fraich o gnawd! Nid oes neb addas i chwi ymddiried eich mater mawr iddo ond yr Arglwydd

Iesu. Y mae yn briodol i chwi ymddiried gofal pethau ysgeifn a darfodedig y bywyd hwn i greadur o ddyn; o blegid, ond ei gael yn ffyddlawn, gall gyflawni eich gofynion heb eich twyllo. Ond am eich mater mawr rhyngoch a Duw, ni ddichon llaw dyn wella dim arno, ac ni ddichon synwyr dyn gael allan ffordd o waredigaeth. Gan hyny, yr unig wrthddrych addas i chw ddyfod ato trwy ffydd, i ymddiried eich achos tragwyddol i'w ddwyllaw, ydyw yr Arglwydd Iesu. Y mae efe yn addas a digonol i bechadur ddyfod ato am iachawdwriaeth. Y mae tystiolaeth y testyn am dano fel anfonedig y Tad yn brawf digonol o hyny:—"y Tad, yr hwn a'm hanfonodd." Ymofynwn, yn,

1. Pa beth yw yr anfoniad hwn. Yn nacaol:—

(1.) Nid ydym i feddwl fod uwchafiaeth yn perthyn i'r anfonwr; o blegid, "ni thybiodd efe yn drais fod yn ogyfuwch a Duw:" ac oni buasai fod yr anfonedig yn "ogyfuwch," sef yn Dduw, buasai yn ofer i ni ddyfod ato, nac ymddiried ynddo; a chabledd fuasai ei addoli.

(2.) Nid yw yr anfoniad yn dal allan anfoddlonrwydd yn y naill i ddyfod, na mwy o ewyllys yn y llall iddo ddyfod.

(3.) Nid yw yr anfoniad yn symmudiad lle.

Ond, yn gadarnhaol:—

(1.) Ei ddewisiad i'r swydd gan y Tad.

(2.) Ei awdurdodiad i'w chyflawni, neu ei enëniad.

(3.) Ei gymmhwysiad, trwy ddarparu natur ddynol iddo.

(4.) Rhoddiad ei gynghor a'i ewyllys i'w ofal i'w cyflawni.

2. Y mae yr anfoniad hwn yn brawf digonol o addasrwydd yr Arglwydd Iesu, o ran ei berson, i gyflawni gwaith Gwaredwr: o blegid fe'i hanfonwyd gan yr hwn sydd yn deall ein hachos yn dda, ac yn ein caru yn fawr, ac yn bwriadu i'r anfoniad ateb y dyben yn sicr; sef y Tad. Nid adeiladu y mae efe heb fwrw y draul, ac nid myned i ryfel heb edrych pa faint sydd yn eisieu.

3. Y mae yr anfoniad yn cyfiawnhau ei waith. Nid yw yn gyfiawn i neb gyflawni gwaith swyddog yn y llywodraeth heb ei awdurdodi. Y mae gan Fab y dyn "awdurdod i fadden." Nid rhyfedd i'r Iuddewon farnu ei fod yn cablu wrth gyhoeddi maddenant pechodau, gan eu bod yn anghredu ei anfoniad. Gosodwyd ef yn "ben uwch law pob peth i'r eglwys." Y mae ganddo hawl gyfiawn i weithredu yn y swydd hon am iddo gael ei anfon gan Dduw.

4. Y mae yr anfoniad yn cadarnhau ei holl amcanion ef fel Gwaredwr. Rhaid i bob gwrthwynebiad roddi i lawr yn hollol i swyddog awdurdodedig Duw, o blegid y mae awdurdod yr orsedd wedi ei chrynhoi ynddo ef. Dyma afon "yn dyfod allan o orseddfainge Duw." Gair y brenin mewn gallu sydd ganddo; y mae yn cyflawni ei holl waith yn ngrym awdurdod

anwrthwynebol. Y mae awdurdod Duw yn cyrhaedd pob peth, ac yn drech na phob rhwystr. Ond y mae yr awdurdod fawr hon, drwy yr anfoniad hwn, wedi ei rhoddi yn llaw Cyfryngwr. Gosodiad Duw ar y saph bres oedd yn effeithio iachâd.

5. Y mae yr anfoniad yn hawlio i ni ddyfod ato am ein bywyd. Oni buasai ei fod wedi ei anfon, ni buasai i ni hawl i'w ddefnyddio yn Waredwr: "Ni ddichon dyn dderbyn dim oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef."

II. *Dyledswydd fawr dyn ydyw "dyfod at Grist."*

Er fod Crist yn anfonedig y Tad, ac er ei fod yn addas a digonol Waredwr, etto, oddi eithr i'r pechadur ddyfod ato, ni leshâ Crist ddim iddo.

1. Mawr bwys y ddyledswydd hon. Dichon dyn ddyfod i wrando am Grist heb ddyfod at Grist. Y mae yn bossibl iddo ddeall am dano, ymddiddan llawer yn ei gylch, dyfod at orsedd gras, ac at fwrdd yr Arglwydd, byw yn foesol, bod yn ddefnyddiol dros Grist, gwneyd llawer o wasanaeth i'w achos, teimlo math o gariad ato, a bod ynddo ryw fath o gred ynddo: ond er dyfod at y pethau uchod oll, colledig ydym heb ddyfod at Grist. Colledig, er dyfod i wrando am Grist, ac er ymddiddan am dano, heb ddyfod ato. Dyfod at Grist ydyw "myned trwodd o farwolaeth i fywyd;" dyfod o fod dan y ddeddf i fod dan ras; dyfod i'r arch rhag y diluw; dyfod i'r mynydd, i'r noddfa rhag y tân. Pan ddêl pechadur at Grist y cyfiawnheir ei berson, y maddeuir ei bechod, y diorseddir ei lygredd, y dileir y gollfarn, y mabwysiedir ef yn blentyn, y dattodir gweithredoedd y diafol tuag ato, y toddir ei galon, ac y lleddir ei elyniaeth.

2. Pa beth yw dyfod at Grist? Nid symmudiad o fan i fan; nid dyfod ato o ran ei bresenoldeb corphorol. Nid oes modd dyfod ato fellŷ, ac nid oes eisieu chwaith; o blegid, nid rhaid i ni ddywedyd, "Pwy a esgyn i'r nef, neu pwy a ddiagyn i'r dyfnder?" Dyfod at Grist ydyw credu ynddo; defnyddio Crist, ymddiried ynddo, ydyw "dyfod ato." Dyfodiad trwy ffydd ydyw; a dyfodiad cyflawn ydyw—rhaid i'r oll o'r dyn ddyfod at yr oll o Grist.

Y mae y ddyledswydd fawr hon yn wreiddyn pob dyledswydd sanctaidd; y mae yn barotoad mawr angenrheidiol i bob dyledswydd sanctaidd. Y mae yn barotoad ar y dyn, yn

(1.) Fel y mae yn ei osod yn heddwch Duw, yn gwneyd ei berson yn gymmeradwy. Undeb â Christ yw gwreiddyn pob firwyth da. Nis gallwn ni na'n gwaith fod yn gymmeradwy ond "yn yr Anwlyd." Nis gall ein personau fod yn gymmeradwy ond yn Nghrist; efe yw "ein cyfiawnder" ni; ynddo ef y cymmodir ni â Duw. Nis gall ein gwasanaeth fod yn gymmeradwy

oni bydd y person. Yn unol â hyn y dywedir fod yr Arglwydd wedi edrych gyda chymmeradwyaeth, yn gyntaf ar Abel, ac yna ar ei offrwm ef. Cymmer tad waith gwael gan ei blentyn.

(2.) Fel y mae yn cynnyrchu egwyddor sanctaidd. "Arogl ei enw" ef a bâr i'r "llangcessau ei garu." Fel y mae impio canghen mewn gwreiddyn â nodd ynddo yn barotoad i ffrwytho, felly y mae uno y pechadur â Mab Duw yn ddechreuad dwyn ffrwyth. O'r gwreiddyn hwn yn unig y ceir ein ffrwyth ni. Dyfod at Grist trwy ffydd a effeithia "dywallt cariad Duw yn y galon," yr hyn sydd yn wreiddyn gwir ufudd-dod. "Yr ydym ni yn ei garu ef am iddo ef yn gyntaf ein caru ni:" y mae "agoryd y llygaid" yn "troi" golwg y pechadur at Grist, ac yn troi ei serch at Dduw a'i bethau. Y mae arogl ei swydd yn ennyn cariad.

(3.) Fel y mae yn ei ryddhau oddi wrth bechod i wasanaethu Duw. "Felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich hunain yn feirw i bechod, eithr yn fyw i Dduw, yn Nghrist Iesu ein Harglwydd;" *Rhuf.* vi. 11. Y mae rhyddhâd oddi wrth bechod yn angenrheidiol hollol i wasanaethu Duw; ac nid oes neb yn rhyddion oddi wrth bechod ond yn Nghrist Iesu.

Edrychwn yn awr ychydig yn fanylach i gynnwys y ddyledswydd fawr hon. Y mae dyfod at Grist yn cynnwys, yn

[1.] Edifeirwch am bechod: ymadawiad â phob peth arall er ei fwyn ef. Dyma yr ysgogiad cyntaf mewn trefn i ddyfod at Grist—edifarhau. "Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion." Fel y mae physigwriaeth gref wrth orchfygu grym y clefyd yn dyfod â'r claf dan boenau mawr, ac yn is nag o'r blaen, felly y mae meddyginiaeth fawr yr iachawdwriaeth yn effeithio yn gyntaf ar y claf i'w ddarostwng, ei wneyd yn waelach, dybygid, nag o'r blaen, a'i ddwyn i boenau mawr; ond ennill buddugoliaeth ar y clefyd y mae efe y pryd hwnw. Y mae y claf mewn poenau dirfawr—yn griddfan, yn ochain, yn wylo, yn gofyn "Beth a wna?" ac yn ymdreiglo yn y llwch. Wel, wel, y mae efe yn marw? O! na: arwydd dda ydyw hyn—y cyfferiau sydd yn troi yn edifeirwch arno! Y gwahanglwyf sydd wedi tori allan a gorchuddio yr holl groen; fe'i cyfrifir ef yn lân yn y man!

[2.] Credu yn Nghrist—ymorphwysiad arno yn y dystiolaeth. Rhaid cymmeryd Duw ar ei air yn hollol am bethau ysbrydol. Gair Duw sydd genym am Waredwr. Rhaid gwneuthur ymorphwysiad hollol ar Grist fel Gwardwr; hyny yw, rhaid defnyddio Crist yn ol fel y mae yn cael ei osod o'n blaen yn ei Air, dan ba enw bynag, yn mha swydd bynag—ymorphwys arno yn hollol am yr holl iachawdwriaeth. Rhoddi gofal ein hachos tragwyddol yn ei law ef—cymmeryd ei waed a'i gyfiawnder yn gwbl i'w osod i fyny yn ngwynneb deddf gyfiawn—ymddibynu

ar ei aberth yn gwbl am dderbyniad gyda Duw—yn ysbryd geiriau yr apostol Paul: “Ac y'm cair ynddo ef, heb fy nghyfiawnder fy hun!” (*Phil.* iii. 9, a *Salm* lxxii. 5—10).

[3.] Cynnwysa y dyfodiad hwn at Grist ufudd-dod i'w gyfreithiau. O blegid dyfodiad ato fel Brenin ydyw, ymarferiad cydwybodol â'i holl ordinhadau, a chyddfurfiad ymarweddiad â'i holl gyfreithiau sanctaidd. Y mae Crist fel Achubwr yn myned allan mewn rhwysg brenhinol i ennill milwyr dan ei faner. Y mae yn “gwisgo ei gleddyf ar ei glân,” ac yn “marchog yn llwyddiannus;” *Salm* xlv. Y mae Crist yn myned allan yn yr efengyl: *Dad.* xix. 11—16. Y mae Crist yn yr efengyl, nid yn unig yn cynnyg bywyd, ond y mae yn cario teyrnwialen, ac y mae ei bobl yn cael eu gwneyd yn ufudd ac ewyllysgar iddo yn nydd ei nerth: *Salm* cx. Gan hyny, rhaid i'r hwn a ddél ato ymstwng i'w lywodraeth. Wrth addaw esmwythâd i'w heneidiau, dywed, “Cymmerwch fy iau arnoch.” Ffydd yn ei offeiriadaeth a weithia ufudd-dod iddo fel brenin. Y mae “gras” ei offeiriadaeth yn “ein dysgu i wadu annuwioldeb.”

[4.] Cynnwysa y dyfodiad hwn at Grist gariad ato; o blegid dyfodiad y serch ato ydyw. Gyda serch mawr y credir ynddo ac yr ufuddheir yn gywir i'w gyfreithiau. Nid oes neb yn dyfod ato am ei fywyd heb ei garu. Y mae “arogl ei enw,” sef profiad ei swyddau, yn peri i'r llangcesau ei garu. Clywais am bendefiges unwaith wedi syrthio i'r môr trwy i'r llong ddryllio: ni fedrai nofio, ond cymmerodd un o'r morwyr hi ar ei gefn. Peryglodd ei fywyd i'w hachub, ond daeth i'r lan. Ei garedigrwydd ef yn rhoddi ei fywyd yn y fath berygl i'w gwaredu hi mor ddiachos a ennynodd ei serch ato; ac er ei bod lawer uwch nag ef mewn cyfoeth, hi a'i priododd ef. Yr oedd dyn wrth natur wedi syrthio i ddyfnach môr trwy hen long-ddrylliad; ond achubodd Crist rai rhag bodd: ac nid peryglu ei fywyd a wnaeth, ond ei roddi i lawr. Oni ddylai hyny ennill dy serch ato i'w briodi, ac i roddi dy hunan iddo byth?

III. *Y mae galwad yr efengyl ar bechadur i ddyfod at Grist yn hollol gysson â mynegiad y testyn:*—“Ni ddichon neb ddyfod ataf fi, oddi eithr i'r Tad yr hwn a'm hanfonodd ei dynu ef.” Er mwyn ceisio cael y mater hwn i oleuni boddhaol, edrychwn arno dan ddau neu dri o sylwadau:—

1. Ni ddichon i bechadur ddyfod at Grist heb ddylanwad dwyfol, i'w gymmhell a'i nerthu. Y mae amryw bethau yn galw arnom i brofi yr anallu hwn. (1.) Y mae rhai yn dal yn athrawiaethol y dichon dyn wneuthur hyn yn ei nerth ei hunan. (2.) Y mae mwy na hyny heb gredu a theimlo eu hanallu. (3.) Y mae meddwl wedi profi ei anallu yn addfed i dderbyn, ac yn llefain am gymmhorth. Tra y bydd dyn yn tybied y gall efe

yn ei nerth ei hun weddio, credu, ac edifarhau, y mae yn rhwym o sefyll allan yn wrthodwr hollol o gymmhorth yr Ysbryd i weddio; ni wŷr pa beth i weddio megys y dylai. Ond yr hwn a gredodd ac a adnabu ei anallu ei hun a weddia am gymmhorth yr Ysbryd; efe a nesâ at orseddfaingo y gras fel y derbynio drugaredd, ac y caffo ras yn gymmhorth cyfamserol. "Y tlawd hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu:" lle y byddo dyn yn wan ynddo ei hun, yna y mae yn gadarn mewn gwirionedd; pan y byddo yn wan yn ei deimlad ei hun, y mae yn rhaid iddo ymddiried yn ngallu Duw, a hyny a'i gwna yn wirioneddol gryf. Tra byddo yn ei dybied ei hun yn allnog, nid oes ganddo ond ei nerth egwan ei hun; ond pan y bydd yn ei deimlo ei hun yn wan y mae ganddo nerth Duw o'i blaid. "Fy nerth i a berffeithir mewn gwendid;" nid, 'fy nerth i a berffeithir mewn cryfder.' Meddwl yn cydnabod ac yn teimlo ei wendid, yna yn perffeithio nerth Duw. Y mae gwendid moesol yn mhob dyn, ond nid i hwnw y mae yr addewid; eithr i wendid teimladwy, gwendid profiadol; yno y perffeithir nerth Duw: *Rhuf.* viii. 26; *Heb.* xi. 24. "Yr hwn a rydd nerth i'r diffygiol"—nid i'r cryf. Symmudwn yn mlaen yn awr i brofi yr anallu hwn. Y mae yn cael ei brofi yn wyneb,

(1.) Tystiolaethau eglur a phendant y Beibl. "A newidia yr Ethiopiad ei groen, neu y llewpard ei frychni? felly chwithau a ellwch wneuthur da, y rhai a gynnesfinwyd â gwneuthur drwg;" *Jer.* xiii. 23. Y mae dŵch yr Ethiop trwy ei holl gnawd a'i esgyrn; ond megys nas gall efe newid lliw ei groen, felly nis gellwch chwithau wneuthur da—gwir dda: gellwch wneuthur rhith da. "Wele, eu clust hwy sydd ddiennwadedig, ac ni allant wrandaw; wele, dirmygus ganddynt Air yr Arglwydd; nid oes ganddynt ewyllys iddo;" *Jer.* vi. 10. Enaid heb ei gyfnewid nis gall wrando i ufuddhau: gall wrando heb ufuddhau. "Syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw;" *Rhuf.* viii. 7. "A chwithau a fywhaodd efe, pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau;" *Eph.* ii. 1. "Pa ham nad ydych yn deall fy lleferydd i? am na ellwch wrandaw fy ymadrodd i;" *Ioan* viii. 43. "Heb fod fedru peidio â phechod;" *2 Pedr* ii. 14. "Ysbryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn;" *Ioan* xiv. 17. "Eithr dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw: canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, o blegid yn ysbrydol y bernir hwynt;" *1 Cor.* ii. 14. "Ni ddichon pren drwg ddwyn ffrwythau da;" *Mat.* vii. 18.

(2.) Profir yr un gwirionedd hefyd trwy amryw resymau. [1.] Gwaith yr Ysbryd. [2.] Adenedigaeth. [3.] Yr addewidion am ras yn gymmhorth i gyflawni y gwaith. [4.] Yr angen am weddio. Os gallu dyn sydd yn troi yr enaid, nid oes

dim a wnelo Duw â dynion mwyach ond eu barnu. [5.] Cyffelybir trôedigaeth i weithredoedd dwyfol, megys creu, bywhau, &c. [6.] Priodolir y gwaith i'r tri pherson dwyfol, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd. [7.] Addawodd Duw ei gyflawni. [8.] Efe biau yr enw am dano. [9.] Pe buasai y gwaith yn ymddibyn ar y dyn, buasai arfaeth Duw a gwobr y Cyfryngwr yn ansicr. [10.] Pe gallu dyn fuasai yn effeithio trôedigaeth, nid Duw fuasai awdwr iachawdwriaeth; o blegid trôedigaeth ydyw effeithiol waredigaeth dyn.

2. Ond yr wrthddadl sydd yn ymgynnyg yn naturiol yma ydyw:—*Pa ham, ynte, y gelwir dyn at Grist yn yr efengyl, gan na ddichon ddyfod?* I hyn, atebwn:—

(1.) Nid yw yr alwad yn hoced twyllodrus, diddyben; nid yw Duw yn dywedyd wrth ddynion am ei geisio yn ofer: ond y mae yr alwad yn ddifrifol, yn syml, ac yn gywir. Y mae Duw yn wir daer ynddi; y mae yn “deisyf” ar ddynion i gymmodi âg ef. Nid at y saint y mae y genadwri yna, ond at y gelynion sydd eisieu eu cymmodi.

(2.) Nid ydyw yn alwad arnoch i ddyfod yn eich nerth eich hunain, ond trwy gymmhorth yr Ysbryd Glân. Gorchymynir “marweiddio gweithredoedd y corph.” Pa fodd? “trwy yr Ysbryd.” Gorchymynir i ni weddio; ond gweddio â'r ysbryd ac â'r galon hefyd. Gorchymynir i'r holl genhedloedd foli yr Arglwydd, a'r holl bobloedd ei glodfori; ond nid yn eich nerth eich hunain, eithr “canu â'r ysbryd ac â'r deall”—“canu trwy ras.” Gorchymynir rhodio yn sanctaidd; ond “rhodio yn yr Ysbryd” ydyw hwnw.

(3.) Ond, yn gadarnhaol, y mae yr alwad at Grist yn eich galw i roddi heibio eich pechodau. Dyma bwngc cyntaf yr alwad wrth eich gwahodd at Grist—eich galw oddi wrth eich pechodau: “Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth.” Nis gellir dyfod at Grist heb ymadael â phechod. Nis gellir gwasanaethu dau arglwydd. Nid oes dim cydfod rhwng Crist a Belial.

(4.) Y mae yr alwad at Grist yn eich galw i ymarfer â moddion gras. Nid galwad arnoch at Grist heibio i'r moddion ydyw. Pan y mae y brenin yn gorchymyn i'r cadben ddyfod â'r llong adref o'r gwledydd tramor, nid yw yn meddwl iddo ei chario ar ei gefn; ond arfer y moddion i'r gwynt a'r môr gyrchu y llong—codi yr hwyliau, a gofalu am y llyw, &c. Y mae “ffydd yn dyfod trwy glywed.” Pa fodd y mynai Duw i bechadur geisio dyfod at Grist? Ai ceisio credu trwy ei waith ei hun, ynte ymarfer â'r moddion a osododd Duw i gyfranau ffydd? Ai ceisio gwneyd ffydd, ai ynte ceisio ffydd gan Dduw? Os

ceisio ffydd fel gras, rhaid iddo ei cheisio trwy y moddion a ordeiniodd Duw i'w rhoddi; o blegid ni rydd Duw mo honi yn groes i'w drefn.

Ond edrychwn i fewn ychydig yn fanylach i'r wrthddad a nodwyd. "Ni ddichon neb ddyfod ataf fi, oddi eithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynu ef." Y mae y testyn hwn yn sicrhau anallu dyn, ac yn egluro anallu i ba beth ydyw; sef, i ddyfod at Grist. Y mae anallu dyn i gyflawni dyledswyddau sanctaidd, ac yn enwedig i ddyfod at Grist, yn wirionedd a dystiolaethir yn amlwg yn Ngair Duw, ac a brofir yn sicrhau bob credadyn ynddo ei hunan. Y mae rhai, i'r dyben o amddiffyn gorchymynion Duw, yn dal y gall dyn eu cyflawni; ac yn tybied y byddai gorchymyn i ddyn gyflawni dyledswyddau nas gall efe eu cyflawni yn hollol ofer, afresymol, ac anghyfiawn. Cyfrifent hwy yn hollol afresymol gorchymyn dyn at waith uwch law ei allu.

Yr ydym yn addef y byddai gorchymyn dyn at waith uwch law ei allu naturiol yn anghyfiawn. Ond y mae gan ddyn *allu naturiol* digonol i gyflawni pob dyledswydd; eithr nid oes ganddo *allu moesol* wrth natur i gyflawni un ddyledswydd sanctaidd: ac am hyny ni ddichon efe ddyfod at Grist heb i'r Tad ei dynu ef. Y mae rhai yn tybied na byddai yn gyflawn gorchymyn dyledswydd i ddyn nas gall efe ei chyflawni; ac am hyny na ddylid cymmhell dyledswydd sanctaidd ar yr annw- iolion, am nad ydynt yn addas a galluog i'w chyflawni. Ai ynyfdrwydd yw, nis gwn; ond y mae Gair Duw yn enog o hono: o blegid y mae yn galw pechadur at Grist, ac ar yr un pryd yn sicrhau na ddichon efe ddyfod heb i'r Tad ei dynu.

Y mae yr Arminiaid yn annog dynion at eu dyledswydd, gan amddiffyn hyny fel hyn:—Y mae Crist, trwy ei angen, wedi dileu collfarn yr hen gyfammod, wedi llarieiddio y ddeddf yn ei gofynion, ac wedi ennill "talent o ras" i bob dyn; gan hyny, y mae dyn, yn nghymmhorth y "dalent o ras" a dderbyniodd, yn abl i ufuddhau yn berffaith i'r ddeddf newydd a osodwyd. Ond yr ydym yn ymwrthod â'r golygiad hwn; o blegid nis gallwn ddeall fod y ddeddf wedi ei llarieiddio na'i chyfnewid gan Grist. Pa orchymynion yn y ddeddf a alwyd yn ol, neu a gyfnewidiwyd yn eu gofynion? A ydyw yr Arglwydd Iesu wedi caniatáu addoli duwiau ereill? A ganiataodd efe wneyd delw gerfiedig, cymmeryd enw Duw yn ofer, halogi y Sabbath, dianrhydeddu tad a mam, lladd, lladrata, godinebu? Ai nid deddf natur Duw ydyw y ddeddf foesol, nas gellir ei chyfnewid byth? Pa fodd y cydsaif "talent o ras," a hono yn gyffredinol i alluogi dyn, â'r disgrifiad fod dyn yn "farw," ac nad oes dim da yn trigo ynddo? Na: yn hytrach, yr ydym yn penderfynu fod dyn wrth natur yn hollol analluog foesol i

gyflawni y dyledswyddau sanctaidd y gelwir ef atynt; fel y dengys yr adnodau cyfochrog a ganlyn:—

- | | |
|---|--|
| “Deuwch ataf fi, bawb.” | “Ni ddichon neb ddyfod ataf fi.” |
| “Sydd—yn gorchymyn i bob dyn edifarhau.” | “Ni fedrant gywilyddio.” |
| “Ha! ynfydion, deallwch gyfrwydra.” | “Y dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw—ac nis gall eu gwybod.” |
| “O! ddaear, gwrando Air yr Arglwydd!” | “Nid ydych yn deall fy ymadrodd i, am na ellwch wrando fy lleferydd i.” |
| “Eagyrn sychion, gwrandewch Air yr Arglwydd.” | “O! fyddariaid a deillion.” |
| “Gwrandewch; edrychwch i weled.” | “Nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw, ac nis gall chwaith.” |
| “Ti a orchymynaist gadw dy orchymynion yn ddyfal.” | “A newidia yr Ethiop ei groen, neu y lleopard ei frychni? felly chwithau a ellwch wneuthur da, y rhai a gynnefinwyd & gwneuthur drwg.” |
| “Peidiwch a gwneuthur drwg—dygwch wneuthur daioni.” | “Hebof fi ni allwch chwi wneuthur dim.” |
| “Gwnewch i ohwi galon newydd.” | “Ni wyddom ni beth a weddiom megys y dylem.” |
| “Gweddia Dduw a faddesur i ti feddyfryd dy galon.” | “Gan ganu trwy ras. Canaf â'r Ysbryd.” |
| “Molwch yr Arglwydd yr holl genhedloedd.” | “Heb fedru peidio & phechod.” |
| “Bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi wrthych.” | “Ni ddichon pren drwg ddwyn ffwrwthau da.” |
| “Gadawed y drygionus ei ffordd.” | |
| “Dygwch ffwrwthau addas i edifeirwch.” | |

Yr ydym yn hyderu y gallwn ddangos, cyn y diwedd, nad oes dim anghyssondeb gwirioneddol rhwng yr adnodau a osodwyd yma ar gyfer eu gilydd. Ond byddai yn fuddiol i ni ymofyn yn mlaen llaw, pa bethau mewn cyssylltiad & chrefydd a ddichon dyn wrth natur eu cyflawni, a pha bethau na ddichon. Fe ddichon dyn lawer o bethau. Fe ddichon fyw yn foesol allanol, heb ddyfod at Grist. Dichon gadw llythyren yr ail lech—dichon beidio meddwi, tyngu, godinebu, &c.; dichon ymrithio fel sant, ymddangos yn ngwisg dafad, gwyngalchu ei fuchedd, a glanhau y tu allan i'r ddysgl. Dichon fod ganddo rith duwioldeb, ond ni ddichon fod ganddo ei grym hi. Dichon gadw llythyren y gyfraith; ond ni ddichon gydymffurfio dim â'i hysbrydolrwydd. Dichon arwain buchedd hardd; ond ni ddichon wneyd dim oddi ar egwyddor dda. Y mae llawer wedi byw yn foesol allanol heb ddyfod at Grist. Felly yr oedd y Phariseaid, ac felly y mae rhagrithwyr etto; y mae llawer yn byw yn foesol iawn oddi allan, oddi ar falchder, neu yn ngrym dygiad i fyny, ac hyd yn oed weithiau oddi ar gybydd-dod, a gelyniaeth at Grist yn llechu o dan y cwbl.

(2.) Fe ddichon ymarfer & ffurfiau allanol moddion gras, ond ni ddichon addoli. Gall ddyfod dan y Gair, gweddio, gwrando, ac ymarfer âg addoliad teuluaid; ond y cwbl yn amddifad o

wir wasanaeth i Dduw. Gwahaniaethir y pethau a all dyn a'r pethau nis gall yn Ngair yr Arglwydd; megys, "rhodio yn ol y cnawd," a "rhodio yn ol yr Ysbryd." Pa beth bynag sydd mewn "rhodio yn ol y cnawd," fe all y dyn anianol hyny. A oes cyflawni gweithredoedd da i ddyben drwg mewn rhodio yn ol y cnawd? Gall y dyn anianol hyny. A ydyw gwneyd yr hyn sydd uniawn heb galon berffaith mewn rhodio yn ol y cnawd? Gall y dyn anianol wneyd hyny. A ydyw "ceisio y gogoniant sydd o ddyinion, heb geisio y gogoniant sydd o Ddaw yn unig," mewn rhodio yn ol y cnawd? Gall y dyn anianol wneyd hyny. Gall broffesu, gweddio yn ddoniol fel y Pharisaid, bod yn gyfiawn yn ei fasnach, yn elusengar; a pha beth bynag sydd mewn ceisio y gogoniant sydd o ddyinion, dichon i ddyw oddi ar yr egwyddor waethaf, sef balchder, gyflawni hyny: ond pa beth bynag sydd mewn ceisio y gogoniant sydd o Dduw, ni ddichon efe wneyd hyny heb ei gyfnewid.

IV. Ymdrechwn ddangos nad yw yr anallu hun yn anghyson â galwadau yr efengyl ar bechadur i ddyfod at Grist.

Nis gall dyn ei achub ei hun, ac etto y mae y Beibl yn galw arno i geisio iachawdwriaeth ei enaid. Ond pan y mae y Beibl yn galw ar ddyw i wneyd yr hyn nas gall ei wneyd, fel y mae yn bechadur, y mae yr alwad hono yn cynnwys ac yn golygu fod i'r dyn ymarfer yn gysson a difrifol â'r moddion trwy ba rai y mae y nerth angenrheidiol i'w gael. Ac onid yw hyn yn hollol gyfattedol i'r trefniadau ereill y mae dyn danynt? Pa ham na weithredai dyn gyda'i achos ysbrydol fel y mae yn gwneyd gyda'i achosion tymmorol? Pa fodd y cais dyn gnwd oddi ar ei faes? Ai ceisio gwneyd i'r cnwd dyfu â'i law ei hun, ynte arfer y moddion i geisio cnwd gan Dduw? Onid aredig a hau a wna y dyn, a disgwyl am gnwd gan yr Arglwydd? Nid efe, yr hwn sydd yn llafurio ei dir, a wna i'r cnwd dyfu. Na: ni all efe ond arfer y moddion—Duw yn unig a all beri i'r ddaear dyfu. Ac nid dy le di, fy nghyfaill, ydyw ymresyma, 'Gan mai Duw a wna i'r cnwd dyfu, nid oes eisien i mi wneyd dim.' Na: rhaid i tithau lafurio ac arfer y moddion, onid é ni wna Duw i'r cnwd dyfu. "Os yr Arglwydd nid adeilada y tŷ, ofer y llafuria yr adeiladwyr wrtho." 'Os llafuria yr adeiladwyr, fe adeiledir y tŷ, heb Dduw.' Na: ofer fydd eu llafur oni adeilada Duw y tŷ. 'Wel, ynte, os ydyw Duw yn adeiladu y tŷ, nid oes eisien i'r adeiladwyr lafurio. Y mae Duw yn adeiladu y tŷ, gan hyny nid oes eisien neb arall.' Na: rhaid i'r adeiladwyr lafurio, onid é nid adeilada yr Arglwydd y tŷ. 'Y mae Duw yn achub pechadur; gan hyny, nid oes eisien i'r pechadur wneuthur dim.' Na: rhaid i'r pechadur lafurio; y mae'n rhaid iddo arfer y moddion. 'Wel, wel, os ydyw y pechadur yn

llafurio gyda moddion gras, fe'i hachub ei hun—nid oes eisieu Duw i wneyd dim.' Na, na: os nad achub yr Arglwydd y pechadur, ofer y llafuria y pechadur gyda'r moddion goreu sydd mewn bod.

Y mae Moses yn myned i agor y môr. Pa fodd? Wel, trwy godi gwialen arno. 'Wel, dyna ddigon i agor y môr! y mae Moses yn dyrchafu ei wialen arno.' O na: ofer dyrchafu y wialen ar y môr oni rodia Duw â'i feirch ofnadwy trwy ganol y môr. Rhaid i'r llaw gadarn ddyfod i'r golwg; rhaid i'r fraich estynedig ymddiosg cyn y ceir ffordd trwy y môr. Duw a'i hagogodd! 'Wel, wel, y mae Duw yn agor y môr: nid oes eisieu neb arall; gall pawb gysgu yn dawel, fe egyr Duw y môr.' Y mae'n wir y gall: ond ni wna heb i Moses ddyrchafu ei wialen arno. Rhaid cael Moses i arfer y moddion, a Duw i'w llwyddo. 'Y mae Duw wedi sicrhau y caiff y brenin Hezeciah fyw bymtheng mlynedd: gan hyny, gall Hezeciah beidio na bwyta nac yfed; efe a fydd byw, o blegid y mae Duw wedi addaw ei gadw yn fyw. Gall neidio dros y creigiau i'r llynoedd, efe a fydd byw; a gall dafu ei hun i'r tân. Y mae Duw yn cadw bywyd Hezeciah; gan hyny, nid rhaid iddo ef ofalu am ei fywyd, nac arfer moddion i gynnal bywyd.' Na, na: rhaid iddo yntau arfer moddion i gadw ei fywyd!

'Y mae gan y credadyn addewid sicr y bydd i Dduw ei gynnal hyd y diwedd, a'i ogoneddu yn y diwedd, a'i arwain ar hyd y ffordd uniawn: gan hyny, gall y credadyn gysgu yn ddiotal, a gadael y cwbl ar Dduw. Nid rhaid iddo wylo, y mae Duw yn ei amddiffyn; nid rhaid iddo weddio, y mae Duw yn rhoddi iddo nerth yn ol y dydd; nid rhaid iddo ofalu pa fodd i rodio, y mae Duw yn ei arwain; nid rhaid iddo ochel un demtasiwn, y mae Duw yn ei gadw rhag holl allu y tywyllwch.' Na, na: rhaid i'r dyn wylio a gweddio, ac ymdrechu. 'Wel, nid oes eisieu Duw ynte? Nid oes ei eisieu i amddiffyn y credadyn, o blegid y mae yn gwylio ei hun; nid oes eisieu iddo ymweled âg ef drachefn, y mae y credadyn yn gweddio; nid oes eisieu iddo ei arwain, y mae y credadyn yn gwylio ar ei droed.' O na: byddai y gwylio i gyd yn ofer, a'r gweddio yr un modd, heb Dduw. Ni cheidw Duw y credadyn chwaith rhag ei elynion, oddi eithr iddo wylio a gweddio.

'Y mae Duw wedi eneinio Dafydd yn frenin drwy y prophwyd Samuel: gan hyny, y mae yn sicr o ddyfod i'r frenhiniaeth. Gall Dafydd fyned adref at ei dad a'i frodyr, a byw yn heddychol ac yn dawel, daw Duw âg ef i'r frenhiniaeth yn ei amser.' Na, na: rhaid i Dafydd ymladd rhyfeloedd mawrion, ac enwogi ei hun yn ngolwg y bobl; rhaid iddo roddi prawf o'i wroldeb a'i ddoethineb i holl Israel, fel trwy hyny yr addfedir meddyliau y genedl i'w ddewis ef ar ol amser Saul. 'Wel, daw

Dafydd i'r frenhiniaeth yn nerth ei gleddyf, trwy ei wroldeb a'i enwogrwydd mewn rhyfel; dewisir ef ar y cyfrif hwnw gan y bobl yn frenin—nid oes eisieu Duw i godi Dafydd i'r orsedd. Y mae yn ymladd ei ffordd ei hun, ac yn gweithio ei hun i'r orsedd trwy ei ddoethineb, a'i ddewrder, a'i fuddugoliaethau; yna nid oes eisieu Duw i'w ddyrchafu i'r frenhiniaeth.' Na, na: Duw a'i dewisodd ac a'i hordeiniodd, ac a lwyddodd ei ymdrechïadau, ac a roddodd fuddugoliaethau iddo—Duw a'i dyrchafodd i fod yn frenin ar Israel: ond bu raid i Dafydd arfer moddion yn egnïol, ac am amser maith.

(2.) Y mae yr alwad i ddyfod at Grist yn alwad i ddisgwyl wrth yr Arglwydd trwy y moddion, wrth ac ar ol eu harfer. Y mae llawer yn rhyw fath o arfer moddion, ond heb ddisgwyl wrth yr Arglwydd trwyddynt—arfer y moddion yn ffurfiol, ac ymarfer â'r moddion a byw yn eu pechodau yr un pryd.

(3.) Y mae yr wrthddadl o anghyssondeb yn cael ei symmud trwy wahaniaethu gallu naturiol a gallu moesol.

Nid anallu naturiol ydyw anallu dyn i ddyfod at Grist.

[1.] Nid gwendid corphorol ydyw. Y mae yn wir fod y natur ddynol wedi ei darostwng trwy bechod i lawer o wendidau corphorol; ond y mae y gwendidau hyny yn wendidau i dosturio wrthynt, yn fwy na drygau i'w cosbi. "Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef." "Efe a edwyn ein defnydd ni, cofia mai llwch ydym." Y mae nwydau a blysiâu corphorol yn perthyn i ddyn; ond nid yw anallu dyn yn gynnwysedig yn y pethau hyny, o blegid y mae y nwydau a'r blysiâu anianol yn dda yn eu lle, ac y maent i'w porthi a'u boddhau yn gymmedrol ar lwybr cyfreithlawn: ond boddhau y nwydau hyn yn anghymmedrol sydd bechadurus.

Nid ydyw yn bechod esgeuluso yr hyn nad oes genym aelodau i'w gyflawni. Ni feia neb y byddar am beidio gwrando, na'r dall am beidio darllen, na'r mud am beidio mqli; nid oes neb yn meddwl am feio y methodig am beidio dyfod i'r addoliad cyhoeddus, na'r disynwyr am beidio deall duwinyddiaeth. Nis gellir gweithio heb ddwylaw. Nid oes neb yn beio y baban am beidio dyfod i'r addoliad. Ni ofynir gan ddyn ond o'r hyn a dderbyniodd; gwelir yr egwyddor hon yn ymesgusodiad Mephioseth wrth Dafydd. Ymfrostiai Paul yn ei wendid.

[2.] Nid gwendid eneidiol ydyw. Nid gwendid cynneddfau sydd yn attal neb rhag dyfod at Grist am iachawdwriaeth. Buasai gwendid yn synwyrâu yr enaid yn esgusodol. Gwaith Duw ydyw y cynneddfau; gan hyny y mae yn rhaid eu bod yn dda a chymhwys: o blegid efe ydyw "Tad yr ysbrydoedd;" efe sydd yn rhoddi ysbryd mewn dyn; ac y mae efe yn rhoddi gwaith da a difai ar bob peth. Efe a wnaeth yr enaid, ond nid efe a wnaeth y llygredd sydd ynddo.

Pe gwendid cynneddfau fyddai anallu pechadurus dyn, yna byddai y dynion cryfaf eu cynneddfau i gyd yn sanctaidd, a'r rhai gwanaf y rhai halogedicaaf. Ond i'r gwrthwyneb y mae yn gyffredin. Y talentau mwyaf sydd yn pechu fwyaf. Etholodd Duw "ffol-bethau y byd hwn, fel y gwaradwyddai y doethion;" "nid adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw;" *h. y.*, trwy ddoethineb anianol, trwy rym cyrhaeddiadau naturiol. Ond nid yw dyn gorphwyllog yn gyfrifol am ei weithredoedd i gyfraith y wlad, na chwaith i gyfraith Duw. Pe gwendid cynneddfau fyddai yr anallu pechadurus, byddai y diafol yn sant rhagorol, am fod ganddo gynneddfau cryfion. Nid yw yr Ysbryd yn yr adenedigaeth yn cryfhau y cynneddfau; ond troi yr enaid y mae. Y mae yn wir fod yr enaid yn gweithredu yn gryfach ar wrthddrychau sanctaidd nag yr oedd o'r blaen ar wrthddrychau halogedig; y mae yn eu dewis yn fwy hollol, eu caru yn fwy tanlyd, yn barnu yn fwy cadarn; o blegid y mae ganddo yn awr wrthddrychau rhagorach. Rhaid i'r enaid weithredu yn ol fel y byddo y gwrthddrychau yn ymddangos iddo; gan hyny, y mae golwg ar "ogoniant yr uniganedig oddi wrth y Tad yn llawn gras a gwirionedd" yn tynu yr holl alluoedd i weithredu yn fwy nerthol, yn fwy effro, yn fwy egniol, yn fwy tanlyd, nag y buont yn gweithredu ar wrthddrychau ereill. Rhaid fod ei gariad at Grist yn gryfach nag y bu ei gariad at bechod, o blegid nid oes dim yn myned rhyngddo a'i bechod ond Crist; ymadawai â'i bechod er mwyn Crist—newidiodd bechod am Grist—trodd bechod allan, er mwyn cael Crist i mewn.

Y mae yr enaid yn cael gweithredu gyda mwy o gyssondeb ar wrthddrychau sanctaidd nag y gallai ar wrthddrychau halogedig. Er fod y serch yn danlyd yn caru pechod, etto yr oedd y gydwybod yn tynu yn ol ac yn dwyn tystiolaeth yn ei erbyn; a byddai y fath anghydfurfiad a hwn yn rhwym o wanychu gweithrediad yr enaid arno. O blegid dinas wedi ymrannu, nid ydyw yn gadarn; felly yr enaid yn ymrannu yn ei alluoedd wrth weithredu ar bechod, nid ydyw yn gweithredu mor gadarn. Y mae gan y gydwybod effaith mawr ar y serch. Ni ddichon y serch garu mor danlyd os bydd y gydwybod yn dwyn tystiolaeth yn erbyn y gwrthddrych. Ond wrth garu gwrthddrychau sanctaidd, y mae yr holl enaid yn ymuno yn gwbl i wneyd y cariad i fyny i'r graddau uchaf a pherffeithiaf. Y mae yr holl ddinas mewn heddwch, a chan hyny yn gweithredu yn fwy nerthol. Y mae amrywiol ffrydiau cynneddfau yr enaid yn ymgyfarfod i wneuthur i fyny un genllif gref o gariad at y Cyfryngwr. Y mae y gydwybod yn cefnogi y serch, a'r ewyllys yn ei chefnogi, yr hyn sydd yn cryfhau ei gweithrediad. Ond nid yw y gwahaniaeth hwn yn ngraddau cariad y credadyn tuag at y naill mwy na'r llall yn tarddu oddi ar ddim chwanegiad at

nerth y galluoedd sydd yn caru fel hyn, ond oddi ar ragoriaeth mawr yn y naill wrthddrych a geir ar y llall.

Y mae cyssondeb a bywiogrwydd gweithrediadau yr enaid yn ymddibynu ar ragoriaethau y gwrthdrysych y byddo yn gweithredu arno, ac ar raddau ei adnabyddiaeth o'r gwrthdrysych. Y mae gogoniant y Cyfryngwr yn tynu yr holl alluoedd i weithredu arno gyda'r cyssondeb mwyaf, ac yn ennyn yr holl alluoedd hyny i'w gweithrediad cryfaf, ac yn abl i'w cadw arno ei hun yn wastadol heb encilio, a dadguddio graddau uwch o degwch i'r enaid nes adnewyddu a chynnyddu yn barhaus ei gariad ato. Os bydd y gydwybod yn wrthwynebol i'r gwrthdrysych sydd yn cael ei garu, ei gwaith fydd tafnu dyfroedd oerion ar y cariad sydd yn y serch at y gwrthdrysych hwnw, trwy ddwyn tystiolaethau yn ei erbyn, ei gyhuddo a'i gondemnio. Ond pan fyddo y gydwybod yn pleidio y gwrthdrysych, ei gwaith fydd ennyn tân trwy ddwyn tystiolaethau yn ei blaid. Pan y byddo yr enaid yn caru Crist, y mae y gydwybod yn ennyn y tân trwy gario tanwydd newydd arno beunydd—trwy ddwyn tystiolaethau newyddion beunydd o blaid y gwrthdrysych. Ond nid nerth y cynneddfau sydd wedi cynnyddu i beri fod y cariad yn gryfach at Grist nag at bechod, ond gogoniant y gwrthdrysych sydd yn effeithio yn gryfach ar yr enaid i drefnu y galluoedd yn well i weithredu yn fwy cysson a chydunol, a thrwy hyny i'w hennyn i weithredu yn gryfach, yn ol fel y mae teilyngdod y gwrthdrysych yn ymddangos. Ni ddichon Satan ei hun ddangos pechod ond mewn rhith hawddgarwch, ac ni ddichon ddangos ond rhith hawddgarwch prin a gwael iawn. "Teyrnasoedd y byd," a'u holl ogoniant, ydyw ei ddadl yn yr eithaf, ac iddo gael ei oddef i draethu y celwydd. Ond y mae hawddgarwch Crist nid yn unig yn sylweddol a didwyll, ond hefyd y mae yn anfeidrol a thragwyddol ei barhâd: "y can cymaint yn y byd hwn, ac yn y byd a ddaw fywyd tragwyddol."

Nid cryfhâd ar y cynneddfau ydyw yr adenedigaeth; o blegid pe felly, cryfder y cynneddfau fyddai y prawf goreu o adenedigaeth, a byddai l *Cor.* xiii. 1—8, yn anghywir. Nid oes eisieu galluoedd cryfach i garu Duw nag i gasáu Duw. Yr ydych yn cyfrif y cariad hwnw sydd yn dal ei ffordd, er cael llawer o anhawddgarwch yn y gwrthdrysych, yn gariad cryf; yr ydych yn mesur cariad Duw wrth anhawddgarwch y gwrthdrysych. Os ydyw y serch yn amlygu mwy o nerth yn caru anhawddgarwch nag yn caru hawddgarwch, yna gyda mwy o hawsder y gall yr un galluoedd garu Duw na charu pechod, ond cael ei adnabod.

Y mae Duw yn gofyn dyn yn y ddeddf yn ol graddau ei alluoedd naturiol: "Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth." Nid nerth moesol a

fedlylir, ond nerth naturiol, o blegid y mae y gorchymyn hwn yn cyfeirio at rai heb ddim nerth moesol. Sylwch! yn ol graddau ei nerth naturiol y gofyn Duw i ddyn ei garu, ac nid yn ol ei nerth moesol; o blegid felly ni ofynai ddim gan filoedd. Nid yw yn gofyn ganddo uwch law nac islaw ei allu naturiol; ond rhaid iddo ofyn uwch law ei allu moesol, neu beidio gofyn dim.

[3.] Nid gorfodaeth oddi wrth Satan yw anallu dyn i ddyfod at Grist. Y mae dyn wrth natur yn meddiant Satan, yn cael ei ddal ganddo wrth ei ewyllys. Y "cryf arfog yn cadw ei neu-add" ydyw: y mae gweithredoedd y diafol wedi rhwymo dynion yn sicr iawn. Y mae yn "dduw y byd hwn," yn "dywysog llywodraeth yr awyr." Ond nid ydyw awdurdod Satan yn gorfodi dyn i bechu; nid o'u hanfodd y mae dynion yn pechu. Temtio ydyw "gweithrediad Satan," ac nid 'gorfodi; denu y serch—hudo yr ewyllys. Gan hyny, y mae dyn yn pechu o'i ewyllys ei hun—oddi ar ei egwyddor ei hun. Priodolir pechod dyn bob amser i'w galon ef ei hun, ac nid i Satan: "Syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw." Y mae dyn wrth natur yn "caru melus-chwant yn fwy nag yn caru Duw." Effaith y pren drwg ydyw y ffrwyth drwg, ac nid effaith Satan arno.

Pa raid gorfodogi gelyniaeth at Dduw i bechu? Os addefir gelyniaeth, rhaid gwadu gorfodaeth i bechu: lle byddo gorfodogaeth, rhaid fod yno wrthwynebiad; a lle y mae gwrthwynebiad, rhaid fod yno sancteiddrwydd—yr hyn nid oes mewn dyn wrth natur. Nid oes yn ein cnawd ni "ddim da yn trigo:" y mae "holl fwriad meddylfryd calon dyn yn unig yn ddyrgionus bob amser;" y mae yn farw i bob daioni, ond yn yfed anwir-edd fel dwfr.

Buasai gorfodi yn anallu naturiol, a buasai y bai o hono ar yr hwn sydd yn rhoddi y gorfod arnoch. Anallu y dyn fyddai diffyg naturiol i orchfygu Satan, a'r diffyg hwn yn wendid yn ei gyfansoddiad fel creadur, ac nid yn adfeiliad neu lygriad arno fel pechadur. Pe gorfod fyddai arno, byddai Duw i'w feio am oddef un creadur yn ei lywodraeth ef i orfodogi y llall i bechu, a'i gospi am hyny drachefn.

[4.] Nid diffyg dadguddiad o ddyledswydd. *Yn gadarnhaol:* nid yw yr anallu pechadurus hwn yn ddim ond *gelyniaeth yn erbyn Duw.*

V. Ar gyfer yr anallu hwn, dengys y testyn *fod y Tad yn tynu.*

Y mae "tynu" yn angenrheidiol er iachawdwriaeth; anfon yr Ysbryd Glân, yn gystal ag anfon y Mab. Nid ydyw iawn Crist yn effeithio ar dy achos di nes i ti greu ynddo.

1. Trwy ei Ysbryd y mae yn tynu: "nid trwy lu, ac nid trwy nerth." Nid trwy nerth rhagluniaeth y tynir pechadur

at Grist: nid trwy nerth barnau, ceryddon, gwaredigaethau, doniau, cenhadau, dagrau, bygythion, na gwyrthiau.

2. Trwy foddion gras. Gwir fod yr Arglwydd weithiau yn tynu mewn ffordd anghyffredin, a thrwy foddion anghyffredin. Ond yn gyffredinol, trwy foddion gras y mae yr Ysbryd yn arfer gweithio: "ennill trwy air y gwirionedd"—ail eni trwy y Gair—"sancteiddio trwy y gwirionedd." "Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi yr enaid." "Ffydd sydd yn dyfod trwy glywed, a chlywed trwy Air Duw." Y mae y pechadur yn cael ei argyhoeddi yn ngwyneb y ddeddf (*Rhuf.* vii. 7); ac wrth "edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych" y newidir ef i'r "unrhyw ddelw." Y mae yr efengyl yn "allu Duw er iachawdwriaeth." Tybia rhai fod yr Ysbryd yn dwyn dynion at y moddion. Gwir iawn: ond trwy foddion y mae efe yn dwyn dynion at y moddion. Dwyn at y moddion yw tuëdd pob goruchwyliaeth sanctaidd. Tybia rhai nad oes gwir brofiad ond trwy i ysgrythyr bennodol ddyfod i'r meddwl. Egwyddori y meddwl am bethau ysbrydol ydyw dyben mawr goruchwyliaeth yr Ysgrythyrau; ond wedi planu yr egwyddorion yn y deall, dichon yr Ysbryd roddi profiad o'r gwirionedd heb ysgrythyr bennodol. Geilir myfyrio yn gywir am Grist, a'i fwynhau, heb feddwl am ysgrythyr neillduol ar y pryd.

3. Y mae y Tad yn tynu yr holl ddyn at yr oll o Grist.

4. Y mae yn tynu yn ffyddlawn i ben yr yrfa. Tynodd Israel o'r Aipht trwy anialwch i Ganaan. Er iddynt hwy rwnach, tynu yr oedd Duw; er iddynt wrthryfela llawer yn ei erbyn trwy anufuddhau, ac hyd yn oed eilun-addoli trwy wneyd llo aur, yr oedd efe yn eu tynu yn barhaus â thru-garedd.

Gallwn, wrth ddiweddu, grynhoi yr atebion i'r wrthdadd:—'Gan na ddichon neb ddyfod at Grist heb i'r Tad ei dynn, pa ham y gelwir pechaduriaid at Grist yn yr efengyl?' (1.) Am eu bod yn greaduriaid rhesymol. (2.) Am eu bod yn greaduriaid cyfrifol. (3.) Eu gelyniaeth yn unig ydyw eu hanallu. (4.) Y mae yr Arglwydd yn bendithio ei Air, ac yn arddel ac yn effeithioli galwad yr efengyl i ddadguddio ei gariad nes gorchfygu gelyniaeth y galon. (5.) Y mae gan y gwrthdychau y moddion hyn i ymarfer â hwynt, trwy ba rai y gallant ddisgwyl i'r Arglwydd eu tynu.

P R E G E T H X X X I I .

NID TRWY LU.

Zechariah iv. 6.

‘Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthyl, gan ddywedyd, Hyn yw gair yr Arglwydd at Zorobabel, gan ddywedyd, Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd.’

GALLWN sylwi, mewn ffordd o arweiniad, yn

1. Ni adeiledir yr eglwys efengylaidd trwy lu byddinog, na thrwy nerth awdurdod: ni wna moddion, na dysg, nac offerynau y tro wrthynt eu hunain i gyflawni yr amcan mawr hwn, ac ni chwblheir ef trwy Ragluniaeth na barnau Duw. Pa beth ni wneir trwy lu a nerth? (1.) Anfon yr efengyl i'r holl fyd. (2.) Troi pechadur. (3.) Cynnal ac adferu y saint. (4.) Bwrw cestyll annuwieldeb i'r llawr. (5.) Anfon gweithwyr i'r cynhanaf. Pa ham na wneir trwy lu a nerth? Er mwyn (1.) Gogoneddu Duw. (2.) Profi gras. (3.) Cywilyddio Satan. (4.) Cai y llu a'r nerth bydol effaith ddrwg ar yr eglwys; gwnai i Gristionogion ymfalchio, ymddiried ynddynt eu hunain, myned yn fras a gwingo, ac anghofo yr Arglwydd. (5.) Caiff eithaf y llu fod yn ei herbryn, yn foddion i'w phuro. Profion na wneir trwy lu a nerth:—[1.] Esamplau a brawf eu bod wedi methu. [2.] Nid ordeiniodd Duw hwynt i hyn. [3.] Dull gosodiad teyrnas Crist i fyny pan yn y enawd. [4.] Erledigaethau yr eglwys—y llu a'r nerth yn ei herbryn.

2. Ond adeiledir hi trwy Ysbryd Duw. Pa beth a wna yr Ysbryd yn yr adeiladu hwn? (1.) Anfon gweithwyr. (2.) Cyfansoddi arfau iddynt. (3.) Eu gwisgo a hwynt. (4.) Llwyddo eu hymdrechiadau. (5.) Naddu y meini trwy farweiddiad pechod, cynnydd mewn gras, cymmhorth cyfamserol, a diddanwch. (6.) Agor ffordd i'r efengyl fyned i'r holl fyd, fel y darfu i Dduw ddylanwadu ar feddwl Cyrus a Darius. Pa fodd yr adeilada yr Ysbryd? [1.] Yn raddol. [2.] Trwy foddion. [3.] Wrth bortread dwyfol. [4.] Mewn sancteiddrwydd. [5.] Ar

sail yr apostolion a'r prophwydi—Crist yn y dystiolaeth a'i berffeithrwydd, y sylfaen a'r maen penaf. Prawf yr adeiledir hi trwy yr Ysbryd:—1af, Bwriad Duw. 2il, Yr addewid am yr Ysbryd. 3ydd, Gwobr Crist. 4ydd, Trwyddo ef yr adeiladwyd hi hyd yma. Dengys hyn y mawr berygl o dristau yr Ysbryd: hebdo ef nis gallwn wneuthur dim.

I. *Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, yr adeiledir crefydd.*

Ymofynwn pa lu a pha nerth ydyw y rhai nad yw crefydd a theyrnas Dduw i gael eu dwyn yn mlawn drwyddynt.

1. Nid trwy lu *miluraid*, na thrwy nerth *awdurdod wladol*. Y mae yn wir fod y pethau hyn yn wasanaethgar, a bod yr Arglwydd yn goruwch-lywodraethu holl weithrediadau nerthoedd gwladol i fod yn wasanaethgar i grefydd, hyd yn oed erledigaethau eu hunain. Y mae yr eglwys fel y balmwydden, ac fel y gedrwydden; y mae y gwyntoedd cryfaf yn cadarnhau ei gwreiddiau. Bu erledigaethau lawer gwaith yn foddion i'w phuro, yn wyntyll i'w nithio; ac yn foddion i brofi gwirionedd crefydd—"fel y caffer profiad eich ffydd chwî;" a bu yn foddion i brofi ei haddoliad—"A mi a ddygaf y drydedd ran trwy dân."

Bu terfysgoedd gwladol a chynnhyrfiadau mawr a gwaedlyd awdurdodau y byd hwn yn foddion i agor rhyddid a chyfieusdra i grefydd yn hollol anfwriadol. Dacw Darius yn gorchfygu Babilon, a'r gaethglud trwy hyn yn myned yn rhydd: y mae Duw yn ei alw yn "was," am ei fod trwy hyn yn gwneyd gwasanaeth mawr i grefydd, er yn hollol anfwriadol, ac nid oddi ar wir egwyddor. Felly y bu yn ninestr Rhufain baganaidd: bwrw i lawr y gorseddfeydd trwy alluoedd gwladol, ond gosod i fyny frenhiniaeth Crist oedd y dyben. Y mae y ddaear yn cynnorthwyo y wraig, ac yn llyngau yr afon. Felly y bu yn yr ymrfael gwladol rhwng Harri yr VIII. a'r pab; ac felly yn rhyfeloedd Buonaparte: gwanychwyd y Babaeth mewn llawer dull. Felly y bu y cyfnewidiadau gwladol diweddar: yr oedd-ynt o dan oruwch-lywodraeth Duw yn foddion i ennill rhyw fanteision newydd i deyrnas Crist. Bu felly yn Ffraince, yn yr Ysypaen, yn Holland, yn Mhrydain, yn yr Aipht, yn Judea: felly y bu rhyddhad y caethion: gwelwyd hyn yn cael ei brofi yn Siam, yn China, yn Twrci, ac yn ngwlad Groeg. Y mae awdurdodau daearol wedi bod yn amddiffyn yr eglwys; "brenhinoedd yn dadmaethod," a diau y dylent fod felly yn mhob man. Brenhiniaeth Israel a fu felly. Cafodd yr eglwys ymwarded mawr trwy awdurdod wladol oddi ar law Cystenyn Fawr; ac y mae brenhiniaeth Prydain felly er's llawer oes. Bu awdurdodau daearol yn gorfodi dynion i dderbyn crefydd: bu Pabyddiaeth yn gorfodi, ac amryw gyfundebau ereill yn dwyn ei delw. Ond ni bu hyn yu adeiladaeth i'r eglwys. Bu awdurdodau

gwladol yn foddion i fwrw i lawr wrthwynebiadau cryfion i grefydd; gwelir hyn yn hanes y pedair ymherodraeth, yn narostyngiad Rhufain Baganaidd, ac yn narostyngiad gallu Pab-yddiaeth a Mahometaniaeth.

Ond nid trwy y moddion hyn y llwydda crefydd. Neu, nid yw ei llwydd mewn un modd i'w ddisgwyl oddi wrth y pethau hyn, nac i ymddibynu arnynt; o blegid llwyddodd crefydd am oesoedd heb y pethau hyn. Nid dan nawdd y gallu hwn y gosododd Crist ei achos; ni chyssylltodd efe ei achos âg awdurdodau y byd hwn. Ond fe'i gosododd i fyny ar wahân hollol oddi wrth y gallu hwn. Gallasai efe osod y llywodraethwyr gwladol yn swyddwyr yn ei deyrnas, a gorchymyn iddynt arfer eu hawdurdod wladol i weini eu swyddau, a gorfodi dynion i ymostwng iddynt. Ond nid oedd ei frenhiniaeth ef o'r byd hwn: dewisodd y pysgodwyr, a'r tollwyr—"ysgubion y byd." Nid yw y brenin hwn yn dyfod i'w lywodraeth "mewn trwt" rhyfel, a "dillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed," ond "trwy losgiad a chynnud tân." Ei arfau ef "nid ydynt guawdol." Yr efengyl sydd yn "allu Duw er iachawdwriaeth." Y mae efe yn "ennill trwy Air y gwirionedd;" 1 Cor. i. 26. Bu yr eglwys am oesoedd yn cael ei chynnal i fyny pryd yr oedd yr holl alluoedd gwladol yn wrthwynebol iddi, ac yn arfer eu holl nerth i'w dinystrio. Nis gallasai fod eglwys Crist yn ymddibynu ar awdurdodau bydol, oni bai fod llywodraeth wladol yn profesu Cristionogaeth; ond ni bu hyny am 300 mlynedd. Crefyddau yn cael eu sefydlu a'u gosod i fyny trwy awdurdod wladol—y maent oll yn cydnabod pen daearol a dynol, naill ai eglwysig neu wladol.

Y mae yr holl osodiadau rhith^g grefyddol hyn yn osodiadau dynol, ac nid dwyfol. Bu eglwys Crist am gannoedd o flynyddoedd yn gynnwysedig mewn lliaws o ffoaduriaid tlodion, yn ymguddio rhwng mynyddoedd mawrion rhag awdurdodau y byd hwn: y pryd hwnw yr oedd holl awdurdod wladol y byd yn llaw Eglwys Rhufain, yr hon a'i defnyddiodd gyda phob dichell anwiredd i ddistrywio crefydd oddi ar y ddaear. Nid oedd i wir grefydd na rhyddid na goddefiad gan nemawr o lywodraethau y byd hyd yn ddiweddar iawn! Pan gymmerodd y galluoedd hyn mewn llaw adeiladu yr eglwys, trwy osod swyddogion, a'u gwobrwyo â chyflogau uchel, a gorfodi dynion i gynnal crefydd, cafodd hyn yr effaith waethaf ar achos crefydd. Nid ydyw cyfreithiau crefydd o osodiad awdurdodau y byd hwn, ac ni allasent osod y fath gyfreithiau. Nid trwy nerth awdurdodau gwladol y gosodwyd defodau crefyddol.

2. Nid trwy nerth *rhwysg ymddangosiad* y llwydda crefydd. Dychymygu fod teyrnas Crist o natur fydol, a disgwyl iddo arfer nerth gwladol i adeiladu ei deyrnas, oedd ffynonell fawr

anghrediniaeth a dinystr y genedl Iuddewig. Ac ymddengys fod yr apostolion eu hunain yn hir heb ddeall natur teyrnas ysbrydol Crist, pan y gofynent "pwy fyddai fwyaf," sef mewn bri daearol. Daeth un at Grist i ofyn a gai ei mheibion leoedd uchel yn ei frenhiniaeth. Addysgu Nicodemus am y mater hwn y mae ein Hiachawdwr yn *Ioan* iii. Ymddengys barn yr Iuddewon am deyrnas y Messiah yn ddaearol yn nammeg y swper, neu briodas mab y brenin. Disgwyliad mawr am dano felly a'u dallodd i fethu adnabod teyrnas y Messiah, ac i'w wrthod yn frenin; a hyn a'u harweiniodd, yn y diwedd, i groeshoelio Arglwydd y gogoniant. Ceisio gosod crefydd i ymddibynu ar nerth gwladol a wnaeth y Pabyddion yn ffurfiad eu cyfundrefn, ac felly yr arweiniwyd Pabyddiaeth yn mlaen; ac i'r dyben i osod crefydd i ymddibyn ar awdurdod wladol, bu raid profesu anffaeledigrwydd y pab, ac erlid yr Anghydfurfwyr, &c.

3. Nid trwy nerth *cyfoeth*. Brenhinoedd daearol a adeiladant eu teyrnasoedd, ac a ddygant eu hamcanion yn mlaen trwy nerth cyfoeth; ond nid felly y llwydda crefydd. Cynrychiolai yr apostol Pedr yr eglwys yn yr ystyr yma, pan y dywedai "Arian ac aur nid oes genyf." Arian sydd ar y *drum i enlistio* yn y byd, ond nid felly yr eglwys. Nid addewid o gyfoeth bydol sydd gan grefydd Crist i'w chanlynwyr, ond addewid o rywbeth llawer mwy—cael y person wedi ei gyfiawnhau yn llys y nefoedd, Duw fel barnwr cyfiawn yn maddau yr holl bechodau, ac yn gollwng yr euog yn rhydd mewn lawn! Nid yw cyfoeth yn chwaneu dim ar anrhydedd crefyddwr yn ngolwg enaid yn oaru sancteiddrwydd. Nid gyda rhwysg cyfoeth yr ymddangosodd Crist yn y cnawd; "nid llawer o rai cyfoethogion a alwyd" ganddo: ac nid yw cyfoeth a llwyddiant bydol yn cael effaith dda ar grefydd yn aml. Gwelir esamplau o hyn yn hanes rhai o saint yr Hen Destament, megys Noah, Lot, Dafydd, ac yn hanes Israel: "Yr uniawn a seth yn fras, ac a wingodd." Cyfoeth sydd yn enwogi dynion fel deiliaid gwladol, ond sancteiddrwydd sydd yn enwogi mewn ystyr foisol: "a'r hwn a ewyllysio fod yn fawr yn eich plith, bydded was i bawb;" *Marc* x. 42. Gall y tlawd yn y byd fod yn enwog mewn crefydd. Ni thycia cyfoeth i adeiladu crefydd, ond effeithia i'w halogi; fel y gwelir yn hanes Cystenyn, ac yn hanes Pabyddiaeth, a hefyd yn hanes Eglwys Loegr. Trwy hyn y gwneir "masnach o Air Duw." Nid oes addewidion am gyfoeth bydol i grefydd; ond ettyl yr Arglwydd gyfoeth oddi wrth y saint yn aml i lawer dyben. Pe buasai llwyddiant crefydd i gael ei ddwyn yn mlaen trwy nerth awdurdod bydol, symmudai hyn ymaith dramgwydd y groes. Gosododd Crist ei deyrnas i fyny yn y byd hwn mewn dull isel, tlawd, agored i erledigaethau, i'r dyben o gadw ei ddeiliaid yn ostyngedig. Pe buasai nerth awdurdod gwladol yn meddiant

crefydd, yna ni buasai angen am ostyngaidrwydd i ddilyn Crist; ond rhaid i'r neb a fyno ddyfod ar ol Crist ymwadu âg ef ei hun. Y porth cyfyng o hunan-ymwadiad ydyw y mynediad i mewn i deyrnas y Cyfryngwr. Nis gellir disgwyl ond y gorthrymder a'r gwaradwydd. Dyma y paham y rhaid geni dyn drachefn i fyned i mewn i deyrnas. Dduw. Gallasai dyn gymmeradwyo teyrnas a rhwysg daearol yn y cnawd, ond ni ddichon gymmeradwyo teyrnas o natur ysbrydol heb ei eni drachefn. Pe buasai y deyrnas hon o'r byd, buasai y byd yn caru yr eiddo. Dyna y paham y rhaid rhodio wrth ffydd, ac nid wrth olwg anianol ar bethau. I gymmeradwyo crefydd, rhaid edrych fel Moses at "daledigaeth y gobrwy."

Y disgrifiad a roddir o'r Eglwys Babaid gan yr Ysbryd Glân, fel prawf sicr ei bod yn butain Anghristaidd ydyw—ei bod, wedi ymlenwi, ac ymddyrchafu i eithaf rhwysg cyfoeth bydol; a'r disgrifiad o'i dinystr a ddengys ei hollol ysbeiliad o'i chyfoeth: *Dad. xvii. a xviii.* Fel wedi dryllio y sylfaen y syrth yr adeilad, felly yr oedd Pabyddiaeth yn rhwym o syrthio wedi ei hysbeilio o'i chyfoeth, o blegid yr oedd yn ymddibynu ar elw bydol i'r fath raddau fel nas gallai sefyll hebddo. Yr oedd yn rhaid iddi bwysu ar hyn am swyddwyr i'w chynnal, am ei pharch a'i hawdurdod, ei gallu i amddiffyn ei hunan a'r cleddyf a'r milwyr, a'i gallu i ddifa saint y Goruchaf: yr oedd yn ymddibynu am y cwbl o'r pethau hyn ar y cyfoeth a ennillai wrth roddi esmwythâd twyllodrus i gydwybodau trwy gyhoeddi maddeuant iddynt, a'r parch a ennillai trwy wisgoedd gwychion. Nis gall Pabyddiaeth sefyll heb ei chyfoeth mwy nag y gall adeilad sefyll heb sylfaen; ac nis gall sefydliad crefyddol sydd yn sylfaenedig ar gyfoeth neu awdurdod bydol fod yn sylfaenedig ar Grist.

Yr oedd cyfoeth a chrefydd yn cynnyg ar Moses yn hollol yn erbyn eu gilydd; ac felly y tri llanc, a Daniel yr un modd. Nis gellir gwasanaethu Duw a mammon. Y mae cyfoeth yn gyffredin yn effeithio fel gelyn i grefydd; y mae cariad ato yn elyniaeth at Dduw: ni ellir rhoddi y serch ar y ddau. Y mae llawer, trwy geisio ennill cyfoeth, yn rhodio mor wrthwynebol i grefydd gadwedigol a'u bod yn colli yr enaid am byth. Nid yw etifeddiaeth fawr, na theitl uchel, na swydd ennillfawr, yn rhoi dim heddwch i'r gydwybod, dim anrhydedd yn y farn, dim i'r enaid. Wedi meddu y pethau hyn, gall y dyn fod yn adyn damniol; gall fod yn elyn i Dduw, dan feldith yn mhob man, gyda phob peth, ac heb ddim yn angen—yn dao yn y farn, yn griddfan mewn annhraethol boenau dros byth. Bu Belsassar yn uchel mewn awdurdod a rhwysg: ond pan brofwyd ef yn nghlorianau Duw, fe'i caed yn rhy brin; ac fe'i caed yn rhy brin yn y peth mwyaf ei bwys—yn brin o sylfaen dedwyddwch

gywyddol—yn brin yn ei gyfrif â Duw fel Barnwr; a'r canlyniad o hyn oedd, bod am byth heb ddim. Derbyniodd Haman deitl uchel, rhaglaw ar yr ymherodraeth fwyaf yn y byd; efe oedd yr uchaf mewn bri, yn nesaf i'r brenin; yr oedd ei enw yn ddychryn yr holl wlad; addawai iddo ei hun hir ddedwyddwch, parch, a phob mwyniant: galleid meddwl fod ei deitl mawr yn sylfaen digonol i'r fath ddysgwyliadau, gallasai rheswm anianol ddisgwyl llawer o fudd oddi wrth y fath deitl, mewn parch a hapusrwydd. Ond mor ddisymmwrth y disgynwyd y Lucifer hwn i ystlysau y ffos! Mor ebrwydd y trôwyd ei gymmeriad mawr gyda'r brenin yn llidiowgrwydd adgas! Trôwyd ei enw uchel i warth bradwr; disgynwyd ef o'r llys brenhinol i'r crogbren gwarthus; a gwasgwyd ei enaid o ganol digonedd o gyfoeth bydol i wlad y gruddfan am ddyferyn o ddwfr wrth ben bysi oeri y tafod!

Nid cyfoeth bydol ydyw addewidion crefydd, y rhai a ddadlenir i ennill yr ewyllys i'w derbyn. Nid addewidion am gyfoeth a bendithion tymmhorol sydd yn addas i feddwl wedi ei oleuo am y byd ar ol hwn. Y mae cyfoeth yn effeithio i ennill ymdrech mawr i'w geisio yn y byd hwn; ond bendithion ysbrydol sydd yn effeithio i ennill ymdrechwyr am danynt mewn gwir grefydd. Y mae yr ymdrechwyr hyn yn diystyru cyfoeth bydol er mwyn cyrchu at y llall; croeshoeliwyd y byd iddynt hwy, a hwythau i'r byd. Gwir fod yr Arglwydd wedi addaw bendithion tymmhorol yn gyssylltiol â chrefydd i Israel yn Nghanaan; ac addawa fendithion tymmhorol i grefydd etto. Ond nid cyfoeth a llwyddiant yw y bendithion hyn yn unig; ond y mae prinder, cerydd, a chystudd yn mhlith y pethau a'u gwnant i fyny. Dyoddefodd y rhai enwocaf mewn crefydd dlodi a gwarth mawr—ie, merthyrdod: *Heb.* xi. 36. Nid oedd eu sêl a'u llafur yn ddim diogelwch rhag tlodi. Nid yw Crist yn amcanu dyrchafu ei ganlynwyr i gyfoeth bydol; ond y mae ei holl allu, ei ddoethineb, ei ras, ei awdurdod, ei gariad, a'i ofal wedi ymrwymo mewn swydd ac addewid; nid i'w codi i gyfoeth bydol, ond i'w cryfhau mewn milwriaeth ysbrydol, i'w cadw rhag llwyr gwympto dan law eu gelynyon ysbrydol, i wneuthur i bob peth gydweithio er daioni iddynt, i'w gwneuthur yn diweddedd yn fwy na choncwerwyr ar eu gelynyon, ac i'w coronio bywyd tragwyddol.

Nid mewn rhwysg cyfoeth yr ymddangosodd Crist yn y cnawd: nid oedd dim o hyn, ond pob peth i'r gwrthwyneb yn nglŷn â lle ac amgylchiadau ei enedigaeith, ei deulu, lle ei breswylfod, ei alwedigaeth, a'i ganlynwyr. Nid mewn rhwysg cyfoeth y choeddwyd ef yn frenin. O na: "yn marchogaeth ar asyn." Nid trwy nerth cyfoeth y sefydlodd ei frenhiniaeth; nid trwy offer-nau cyfoethog, nid trwy ddefnyddio cyfoeth, nid trwy addaw

cyfoeth: ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Byddai raid i'w ganlynwyr ef, yn lle ennill cyfoeth, werthu eu holl feddiannau, ac ymrthod â phob esmwythder i ddilyn Crist. A hyny a addawodd efe iddynt. Dyma yr egwyddor sydd yn dyfod i'r golwg yn hanes Moses, yr apostolion a'r merthyron.

4. Nid trwy nerth *moddion awdurdodau* bydol y llwydda crefydd. Y moddion y mae teyrnasoedd y byd hwn yn eu defnyddio yn gyffredin i ddwyn yn mlaen eu cynnydd a'u llwyddiant ydyw twyll, cyfrwysder, trais, creulondeb, anghyfiawnder, a rhyfeloedd gwaedlyd. Trwy y moddion hyn y maent yn sylfaenu, yn cynnal, ac yn eangu teyrnasoedd y byd hwn. Brenhiniaeth Israel yn Nghanaan a sefydlwyd trwy ddyfetha y Canaanaid, yn farn arnynt am eu hanwiredd. Yr offerynau a ddefnyddir i adeiladu teyrnasoedd y byd, i'w codi, eu helaethu, a'u hamddiffyn, ydynt yn gyffredin y dynion mwyaf creulawn, aflan, dichellgar, o ysbryd dibris a milwraidd, ac o duedd uchelgeisiol. Ond yr offerynau a ddefnyddir i adeiladu crefydd ydynt i'r gwrthwyneb—tlodion, rhai diddichell, diniwed, tyner, addfwyn, tosturiol, heb gael eu dwyn i fyny mewn llysoedd daearol, mewn ysgolion dysgeidiaeth, nac ar faes rhyfel. Rhai fel hyn, gan mwyaf, oedd sylfaenwyr Cristionogaeth—dynion annysgedig, diaddurn, ag y buasai yn gywilydd gan lawer o Gristionogion yr oes hon wrandaw ar eu bath. Eu harfau i fwrw i lawr deyrnas Satan oedd pregethu yn eglur, gweddian taerion, ymarweddiad sanctaidd, amynedd mawr, gwroldeb cadarn. Ni arferent foddion teyrnasoedd y byd: ni arferent y cleddyf i dori eu gwrthwynebwyr i lawr, ond cleddyf yr Ysbryd yr hwn yw Gair Duw; nid oedd ganddynt fŵa i saethu y gelyn ond bŵa yr efengyl, na saeth ond saethau y bygythion a'r addewidion i'w cyfeirio i'r gydwybod. Ni arferent helm am y corph, ond helm yr Ysbryd i'w cadw rhag drygau ysbrydol; na tharian, ond tarian y ffydd rhag picellau tanlyd y fall. Gadawent eu cyrph yn agored i saethau yr erlidwyr, ond amddiffynent eu hunain rhag saethau Satan a phechod. Ni arferent ddysgu rhyfel ond gan yr hwn sydd yn dysgu y dwylaw i ymladd a'r bysedd i ryfela yn erbyn pechod. Gwir fod yr Eglwys Iuddewig wedi cynnal rhyfel a gorchfygu cenhedloedd; ond dan y caritor o frenhiniaeth fydol y gwnaeth hyny, ac nid fel eglwys: ond rhaid i'r Eglwys Gristionogol ymladd âg arfau nad ydynt gnawdol. Ni byddai cymmhwysder mewn arfau cnawdol i oleuo y deall tywyll, ac i wneyd gwaith achubol ar ysbrydoedd dynion.

Yr unig egwyddor oddi ar ba un y tardd gwir ufudd-dod yn y deyrnas hon ydyw—*cariad at berson y brenin*. Ond nis gellir ei garu heb ei adnabod; ac ond ei adnabod, nis gellir peidio ei garu. Yr unig foddion, gan hyny, a lwyddant i

adeiladu Seion ydyw y moddion i agor y deall, a pherswadio yr ewyllys, ac nid gorfodaeth awdurdod. "I agoryd eu llygaid, a'u troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw." "Symmud o deyrnas y tywyllwch i deyrnas anwyl Fab Duw."

Gan hyny, nid yw y moddion a ddefnyddir gan awdurdodau bydol i ddarostwng y deiliaid i ufudd-dod iddynt yn gymmhws i ddwyn yn mlaen amcan mawr yr efengyl ar galon pechadur; sef, ei ennill yn wirfoddol at Grist, a chyfnewid ei egwyddor oddi mewn, a thywallt cariad Duw ar led yn ei galon. Yr ydym yn addef y gall addewidion a bygythion gwladol effeithio yn mhell iawn ar y deiliaid; ac y mae llawer o honynt wedi ymyraeth gormod â chrefydd—weithiau yn ei herlid, ac weithiau yn ceisio ei hadeiladu. Ond pa faint bynag a allan lwyddo yn yr amcan cyntaf, nis gallant byth lwyddo yn yr olaf: nid trwy orfod ac o'u hanfodd y daw pechaduriaid at Grist, ond yn wirfoddol ac ewyllysgar. Ond y mae nerth awdurdodau y byd hwn yn annhraethol rhy fyr ac analluog i droi yr enaid; ac er awdurdod bydol arfer ei holl nerth i erlid crefydd, etto ni allant, trwy y moddion creulonaf a mwyaf maleisus, newid dim ar wr egwyddor credadyn, nac effeithio dim ar ei ymarweddiad sanctaidd.

5. Nid trwy nerth *dysgeidiaeth*. Addefir fod *dysgeidiaeth* wedi bod yn hynod wasanaethgar i grefydd. Yr ydoedd i ryw fesur yn angenrheidiol i addasu y dynion sanctaidd i fod yn offerynau i ysgrifenu yr Ysgrythyrau. Dygwyd Moses i fyny yn holl *ddysgeidiaeth* yr Aipht; addysgid y prophwydi mewn "ysgolion," a derbyniodd Paul yr addysg uchaf wrth draed yr athraw Gamaliel. Y mae *dysgeidiaeth* hefyd yn angenrheidiol i addasu gweinidogion yr efengyl i lanw lleoedd anghyffredinol, megys Paul i areithio wrth y *dysgedigion*, a'r Diwygwyr i ymresymu ac ysgrifenu yn erbyn eu gwrthwynebwyr; yn enwedig duwinyddion iachus, i ysgrifenu o blaid y gwirionedd, ac i ddangos cyfeiliornadau i'r byd. Felly y gwnaeth Wickliff, Luther, Calvin, ac ereill o'r diwygwyr enwog. Y mae *dysgeidiaeth*, heb law hyny, yn addurn hardd ar holl weinidogion y Gair, ac yn fantais fawr iddynt hwy; er nad ydyw yn arbhegorol, ac nad ydyw yn effeithio dim ar gyflwr pechadur. Ond er hyny, nid ydym i ddisgwyl llwyddiant oddi wrth *ddysgeidiaeth*:—

(1.) Y mae Gair Duw yn eglur, a rhaid ei gyhoeddi yn ei eglurder, neu ei addasu at ddeall yr annysgedig, fel y gall yr hwn sydd yn rhedeg ei ddarllen a'i ddeall. Gwir fod y pethau lleiaf eu pwys yn anhawdd eu deall; ond y mae pethau hanfodol bywyd tragwyddol pechadur yn agos at y lleiaf ei angyffred a'i wybodaeth.

(2.) Nid trwy ddoethineb a *dysgeidiaeth* y byd y gall dynion

adnabod Duw: "nid adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw."

(3.) Y mae amcanu effeithioli y gwirionedd ar y galon, neu ennill derbynriad i'r genadwri trwy rywbeth heb law sylmrydd yr efengyl a nerth yr Ysbryd Glân yn amcanu arfer nerth gwaharddedig i'r dyben mawr o lwyddo crefydd. Pan y mae y pregethwr yn ymwisgo yn ngwisgoedd coegaidd a rhwysg-fawr dysgeidiaeth ddynol, er mwyn ennill parch a derbynriad yn meddyliau y gwrandawyr, nid yw ond yn amcanu addurno gweinidogaeth y cymmod âg ychydig o nerth i ennill derbynriad. Ymfrostio mewn dysg mawr a gwybodaeth eang, a'i hamlygu i'r gynnulleidfa gyda bwriad i roddi ar ddeall iddynt fod y pregethwr yn eu meddu i raddau helaeth, sydd yn cael ei amcanu i ennill parch mawr iddynt hwy yn meddyliau y gwrandawyr, gan ddisgwyl i'w mawredd a'u hardderchogrwydd hwy fel pregethwyr ruthro gyda nerth anwrthwynebol ar galonau y gwrandawyr, ac effeithio llwyddiant ar eu hamcan heb yr Ysbryd Glân.

Arfer ystumiau gwâg y chwaredy, ac iaith ynfyd y *mountebank*, er mwyn i'r ymddygiad effeithio ar y gwrandawyr, ac nid traddodi y gwirionedd yn ei symledd, a disgwyl llwyddiant oddi wrth a thrwy y gwirionedd ei hunan, yn ei eglurdeb a'i gadernid, ydyw arfer nerth afreidiol hollol yn y mater hwn, ac aflwyddiannus hefyd. Adrodd ystorïau gweigion, neu draethu unrhyw beth gyda bwriad i yru y gynnulleidfa i chwerthin, sydd yn tarddu oddi ar ymddiried yn nerth digrifwch a nerth ysmaldod ynghyd i effeithio chwerthin ac anystyriaeth annuwiol, yn lle ymddiried yn Ysbryd yr Arglwydd. Arlwy difyrwch pechadurus i dynu y meddwl yn mhell oddi wrth angeu a'r farn ydyw amcan digrifwch yn y pulpud. A all y cellweiriwr hwn fod â'i lygaid yn agored ar uffern ei wrandawyr? A wybu efe ofn yr Arglwydd? A ydyw y cellwair hwn yn effaith myfyrdod crynedig am y cyfrif sydd raid ei roddi i Dduw? Ai cariad Crist a'i cymmhellodd i arwain y dorf i chwerthin, ger bron yr hwn y cryna cythreuliaid? Gosod cyffelybiaethau a firaeth-eiriau yn fiodau disylwedd ger bron y dorf, i amcanu ennill drwy hyny dderbynriad i'r gwirionedd, ydyw dwyn yn mlaen "nerth a llu" na fwriadodd Duw iddynt lwyddo yr efengyl. Arfer cyffelybiaethau i'r dyben o gynnyrchu effeithiau anianol ar y nwydau anianol, i'r dyben o gryfhau y cynnygiad o'r gwirionedd, a gwneuthur y cymmelliad o hono ar y galon yn fwy galluog, ydyw arfer nerth o blaid y weinidogaeth ddwyfol ag y mae Duw wedi sicrhau na adeiledir crefydd trwyddo. Dwyn meddyliau y gynnulleidfa dan ddylanwad gwrthddrychau rhy isel, pa mor rymus bynag a fyddont, ydyw eu dwyn o dan ddylanwad unrhyw wrthddrychau is law Duw—is law Crist y fwaredwyr—is law y pechadur damniol, a chyfrifol i Dduw. Y

mae y dylanwadau hyny yn aneffeithiol i lwyddo crefydd, pa mor nerthol bynag y byddont. Gall y pregethwyr ymddiried llawer iddynt; ond dydd y farn a ddengys na dderbyniodd pechadur erioed y gradd lleiaf o leshad ysbrydol trwy y nerth hwn. Yr ydwyf yn addef y gall y nerth hwn gario effeithiau grymus ar deimladau y gwrandawyr; ond nid effeithiau sanctaidd fyddant. Y rheswm dros y fath wisgiadau, y fath goegni, y fath ddigrifwch, a'r fath ymfrost mewn dysgeidiaeth, a'r fath agweddau celfydd—y rheswm dros yr holl ymwisgiad yn agweddau gwag-areithyddiaeth ydyw, ei fod yn ennill poblogrwydd.

Ni arferodd Paul y nerth hwn, er ei fod ganddo, wrth bregethu yr efengyl: 1 *Cor.* ii. 4, 13. Nid oes eisieu arfer cyfrwysdra, ond i dwyllo. Nid oes ar *wir* eisieu addurn, mwy na'r aur; nid ydyw yn waeth er ei chwilio. Cymmer rhai y pulpud i ddangos nerth eu dyfais; ceir ereill yn ei wneyd yn chwarenth ffol i bobl chwerthin. Arferir cyfrwysdra i godi teyrnasoedd daearol, ac i sefydlu ac eangu gau grefyddau; ond nid oes eu heisieu yma—dim ond y gwir noeth. Y mae y gwrthddrychau a ddadguddir yma mor deilwng—dim ond eu hadnabod, ffurfia hyny iawn ymagweddiad tuag atynt. Ond lle byddo angen am gyfrwysdra, y mae diffyg hyny. Bu yr eglwys am oesoedd yn meddu digon o'r nerth hwn, ac er hyny yn aflwyddiannus, megys yn amser Cystenyn. Bu yr eglwys heb y nerth hwn am amser maith, ac etto dan lwyddiant, megys yn amser y Waldensiaid. Y mae corph crefyddol yn y byd yn awr yn lled gyfoethog o ddysgeidiaeth, ac etto yn aflwyddiannus i adeiladu gwir grefydd.

Nid offerynau dysgedig a ddewisodd Crist. Hawdd y gallasai Crist alw Cæsar at ei draed, i'w addoli; un gair iddo ef fuasai yn darostwng Herod i gymmeryd ei iau arno; a chyda'r un hawsder y gallasai Crist argyhoeddi y doctoriaid a'r Rabbiniaid Iuddewig ag yr argyhoeddodd bysgotwyr môr Galilea. Gallasai yn hawdd ennill doethion Athen ar ei ol trwy Air y gwirionedd. Mor hawdd iddo fuasai defnyddio Cæsar a'i holl swyddogion yn dystion o'i wyrthiau, yn wrandawyr o'i weinidogaeth, yn ddsygyblion i dderbyn ei athrawiaeth, yn apostolion i'w chyhoeddi i'r byd, yn deithwyr o wlad i wlad i'w phregethu, ac yn esiampl o ymarweddiad sanctaidd i ereill! Ond yn lle hyny, darfu iddo ddefnyddio pysgotwyr môr Galilea. Gallasai alw mawrion Rhufain mor hawdd a galw Matthew o'r dollfa; ond efe a "ddewisodd ffol-bethau y byd"—rhai bychain yn nghyfrif dynion—"llestri pridd"—pethau gweiniaid, "fel y dirmygai y pethau cedyrn."

6. Nid trwy lu na thrwy nerth yr offerynau. Y mae yr offerynau yn wasanaethgar iawn. Y mae cael nerth mawr yn

yr offeryn yn werthfawr; cael dysg ynddynt, eu cael yn gadarn yn yr athrawiaeth, yn hyfion, yn selog, yn nerthol, yn ddoniol. Pan y mae Duw yn codi offerynau cryfion, y mae yn arwyddo ei fod yn meddwl llwyddo ei waith. Gall dawn mawr fod yn nerthol i effeithio yn rymus ar farn a chydwybodau, ac ar serchiadau a buchedd dynion, ac etto i gyd yn aneffeithiol i adeiladu crefydd. Dichon nerth dawn effeithio dychryn mawr, heb adeiladu crefydd, fel y gwelir yn hanes Ffelix a Phaul. Gall effeithio llawenydd yr un modd o'r tu arall. Y mae nerth mawr i effeithio ar y teimladau naturiol mewn hyawdledd ymadrodd, ond nid ydyw yn effeithio i adeiladu sancteiddrwydd. Ni arferai Paul ddoethineb ymadrodd; ac nid yw yr efengyl mewn "geiriau denu." Dan effeithiau nerth hyawdledd a llais y mae llawer yn tybied eu bod yn teimlo nerth yr Ysbryd Glân. Pereidd-dra llais, a phriodoldeb, a grymusder iaith, a effeithiant yn fawr ar rai. Y mae araeth hyawdl yn meddu nerth i effeithio yn ol teimladau a barn y gwahanol wrandawyr. Gwna rhai gyfrif mawr o rymusder iaith mewn araethyddiaeth; gan hyny, y mae nerth digonol mewn araeth, mewn iaith rymus a geiriau cedyrn, i effeithio ar deimladau naturiol rhai gwrandawyr; etto, nid yw y nerth hwn yn adeiladu sancteiddrwydd yn yr enaid. Ond effaith dylanwad grymus hyawdledd ymadrodd ar y meddwl ydyw clodfori dawn yr areithiwr, ac nid clodfori y Gwaredwr a fu ar y groes. Dichon y gwrandawr sychedig am ardderchawgrwydd ymadrodd ddyfod yn mhell dan ddylanwad hyn, a chael boddhâd mawr yn hyn; ond ni ddichon y nerth hwn, pa faint bynag fyddo ei ddylanwad ar y teimladau naturiol, ddyfod a phechadur at Grist. Nid oedd Paul yn arfer "godidawgrwydd ymadrodd," er y gallasai wneyd hyny, gyd â'r efengyl. Dylid chwilio am "eiriau cymmeradwy," a gochel pob geiriau gwael; ac y mae mater yr efengyl yn llenwi geiriau mawrion ac ardderchog yn well nag un mater arall: er hyny, nid yw ei llwyddiant yn ymddibynu ar rymusder iaith na godidawgrwydd ymadrodd; a gall dynion ymhyfrydu llawer yn iaith ardderchog y pregethwr, a theimlo effeithiau nerthol oddi wrth ei hardderchawgrwydd, ac er hyny heb gael dim boddhâd yn yr athrawiaeth y mae y pregethwr yn ei chadarnhau trwy y fath iaith, na theimlo un effaith oddi wrth y gwrthddrychau y mae y pregethwr yn eu cyhoeddi trwy yr iaith hono. Gall ymhyfrydu yn iaith y pregethwr am Grist, ac er hyny heb ymhyfrydu yn Nghrist ei hun. Gall yr enaid addoli dawn ac areithyddiaeth y pregethwr, ond heb addoli Crist, yr hwn y mae efe yn defnyddio ei ddawn i'w gyhoeddi.

Rhai a fawr hoffant *ddysgeidiaeth*—a deimlant nerth mawr i effeithio arnynt hwy mewn araeth ddysgedig iawn; gan hyny, araeth ddysgedig, yn llawn o ddysgeidiaeth uchel yr areithiwr

sydd â nerth digonol ynndi i effeithio yn rymus ar feddwl y cyfryw. Gall araeth felly lanw ei feddwl â phleser, boddlonrwydd, a syndod; a gall gyffroi ei holl alluoedd eneidol, a'u llanw â math o hyfrydwch disylwedd. Er nad yw dysgeidiaeth i'w diystyru, ac er ei bod yn hynod gynnorthwyol at waith y weinidogaeth—er ei bod yn ennill sylw astud y rhan ddysgedig o'r gwrandawyr, ac ar amserau yn rhoddi hyfrydwch mawr iddynt, ac yn nerthol i gario effeithiau grymus ar eu teimladau naturiol; etto, nid trwy y nerth hwn yr adeiledir crefydd. Gan hyny, dylai pregethwr fod yn ofalus rhag ymdrechu i ddatguddio ei ddysgeidiaeth i'r gynnulleidfa, o'blegid trwy hyny yr hudir meddyliu anianol i ryfeddu dysg y pregethwr, yn lle rhyfeddu gogoniant Crist. Tynir eu sylw yn hollol oddi ar y pethau pwysig y mae y pregethwr yn eu cyhoeddi, i ryfeddu a moli dysgeidiaeth y cyhoeddwr. Troant eu cefnau yn hollol ar fater y bregeth, i sylwi ar ddull a rhagoriaethau y pregethwr ei hun. Nid ydwyf yn eich cynghori i osod Crist, mater y weinidogaeth, na'r pregethwr sydd yn ei chyhoeddi, dan eich traed. Ond yr ydwyf yn eich cynghori, os mynwch roddi un o'r ddau dan draed, gosoder y pregethwr dan eich traed, a Christ yn eich calonau; bydded i'r pregethwr fod allan o sylw, a Christ yn llon'd eich meddyliu o syndod, cariad, ac addoliad; bydded i Crist gael ei addoli, serch i'r pregethwr gael ei ddirmygu; bydded i'w gariad ef ddwyn eich sylw, a'r pregethwr fyned allan o sylw.

Y mae ymddygiad y dosbarth hwnw o wrandawyr sydd yn cael eu cymmeryd i fyny gan ddysg a doniau y pregethwr, yn lle gan y gwirionedd a bregethir, yn debyg i eiddo hurtyn yn ymdroi i edrych ar y blodau heirdd o gwmpas y palas brenhinol, yn lle dyfod i mewn i wledda ac i dderbyn pardwn, pryd y mae iddo alwad a chroesaw i ddyfod. Y mae y bregeth fel palas gwyhych, wedi ei hamgylchu â blodau dysgeidiaeth, yn hardd: er fod y brenin, Arglwydd y lluoedd, fel maddeuwr, yn gwledda pechadur ynndi, etto y mae y blodau hardd y tu allan yn tyng sylw llawer, ac yn eu cadw yn ddifyr oddi allan, heb brof tammaid o'r wledd, ac heb dderbyn y pardwn oedd i'w gael oddi mewn, ac heb weled gogoniant y brenin. Dychwelant adref heb gael diwallu eu heneidiau, a'u personau dan y condemniad; wedi bod yn rhyfeddu y blodau a dawn y bregeth y tu allan, yn lle dyfod i mewn at y Crist oedd ynndi, yr hwn y mae ei gnawd yn fwyd yn wir, a'i waed yn ddiod yn wir, yn cynnyg pardwn rhad i'r penaf o bechaduriaid! Gan hyny, ond ddylai y pregethwr ochel rhoddi gormod o flodau y tu allan i'w balas, i demtio yr ymwelwyr i ryfeddu harddwch ei flodau ef ac anghofio Crist—i aros gyda rhagoriaethau y bregeth, yn lle dyfod at y Gwarddwr? Pa mor fawr bynag fyddo dawn a

dysg yr areithiwr, rhodded y cwbl ar waith i'w guddio ei hun, ac i ddadguddio Crist! Caffed y cwbl ei ddefnyddio i wneuthur dyn yn ddim, a Christ yn bob peth!

Y mae gan *lais peraidd* nerth digonol i gario effaith mawr ar y rhai a fawr hoffant bereidd-dra llais. Gall llais peraidd roddi hyfrydwch mawr i'r dosbarth yma o wrandawyr; gall gynnyrfu eu holl dymmerau, weithiau eu cyffroi i ddychryn, weithiau i lawenydd, ac weithiau i dosturi. Pe y traddodid iddynt yr un gwirioneddau mewn llais gwahanol, er eu traddodi yn fwy goleu, cadarn, ac ysbrydol, etto ni chai hyn effaith arnynt; yr hyn sydd yn profi mai dylanwad llais y pregethwr ydyw yr holl gynnyrffadau sydd ar eu tymmerau naturiol, ac nid effaith "y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu." Y mae y weinidogaeth yn effeithio yn hollol ar y rhai hyn yn yr un modd, ac oddi ar yr un nerth ag y mae y gelfyddyd o gerddoriaeth yn effeithio. Y mae gan gerddoriaeth allu mawr i effeithio ar y teimladau naturiol, heb fod ganddi allu i drosglwyddo un drychfeddwl, nac i osod un mater dan ystyriaeth y gwrthdrys; etto, y mae ganddi nerth digonol i effeithio ar y tymmerau naturiol. Gall gyffroi llawenydd, heb roddi un achos llawenydd dan ystyriaeth; gall gyffroi galar, heb roddi un achos galar dan sylw; gall gynnyrfu gwroldeb meddwl, heb roddi golwg ar un sail i fod yn wrol. Gyrai y delyn y drwg ysbryd oddi wrth Saul, heb osod o'i flaen un rheswm yn erbyn y peth drygionus. Yn y modd celfyddgar hwn y dichon i wrandawyr ddyfod dan effeithiau peroriaeth llais y pregethwr, i gyffroi amrywiol deimladau eu natur. Tybid fod gwrandawyr Ezeiel wedi dyfod yn mhell o dan yr effeithiau hyn. Ond nid ydyw pereidd-dra llais, pa faint bynag o nerth a all fod ynddo i effeithio ar y tymmerau naturiol, yn adeiladu yr enaid mewn duwioldeb; o blegid rhaid i'r deall a'r farn weithredu mewn profiad sanctaidd o bethau ysbrydol. Yr hyn sydd yn goleuo y deall ac yn cadarnhau y farn am bethau ysbrydol, ac yn ennill yr ewylllys a'r serch yn fwy ar y pethau hyny, sydd yn adeiladu crefydd yn yr enaid. Y cynnyrffiad ar y tymmerau naturiol sydd yn effaith ystyriaeth o ogoniant a phwysfawrawgrwydd pethau tragwyddol yw yr hyn sydd o natur sanctaidd.

Dichon i gyd-darawiad *barn* effeithio yn nerthol ar y tymmerau naturiol. Pan fyddo y pregethwr yn cyhoeddi yr egwyddorion, ac yn eu cadarnhau, a fyddo yn gydunol hollol â barn y gwrandawyr, yn enwedig y pyngciau y mae y gwrandawyr yn dwyn sêl fawr drostynt, mewn gwrthwynebiad i ereill sydd o farn wahanol yn eu gwrandaw—y mae cyhoeddi ac ymresymu o blaid y pyngciau hyny, yn enwedig i fuddugoliaeth ar y gwrandawyr a fydd yno yn wrthwynebol i dybiau a barn pleidwyr y pyngciau hyny, yn gyffredin yn peri effeithiau

nerthol iawn ar dymmer naturiol y cyfryw rai. Y mae yn llanw eu meddyliau â hyfrydwch, ac yn ennyn eu sêl dros y cyfryw ddaliadau.

Pan ddigwydd y pregethwr ddyfod at ryw gangen o wirionedd ag y bu y gwrandawr yn myfyrio arno yn ddiweddar gyda gradd o bleser, ac os digwydd i'r pregethwr ei draethu yn hollol gyttunol â myfyrdod blaenorol y gwrandawr, ac yn enwedig ei gadarnhau yn ei farn, a'i arwain yn mhellach i mewn i wybodaeth o'r gwirionedd hwnw—pâr hyny i'r gwrandawr hwnw deimlo effeithiau nerthol ar ei feddwl, ac, fe ddichon, gynnhyrfiad mawr ar ei dymmer naturiol.

Ond nid ydyw y nerth a deimlir yn y weinidogaeth ag sydd yn gynnyrch cyd-darawiad barn, a chyd-darawiad sêl ac eiddigedd yn erbyn barn wrthwyneb, pa mor nerthol bynag y gall effeithio ar y tymmerau naturiol, yn adeiladu dim ar yr enaid mewn profiad ysbrydol. Yn hytrach, gall yr holl gynnhyrfiad a'r holl fywiogrwydd meddwl sydd yn cael ei rym trwy y moddion hyn fod yn weithrediad hunan a chenfigen at y gwrthwynebwyr; a'r cwbl, mewn gair, yn ddim ond gorfoledd gelyniaeth yn ei buddugoliaeth ar ei gwrthwynebwyr. Y mae profion fyrdd i'w cael fod llawer yn profi effeithiau grymus ar eu tymmerau naturiol oddi ar gydgordiad barn â'r peth y maent yn ei wrandaw, ac yn ymbleseru yn fawr wrth glywed cyhoeddi eu barn eu hunain, pryd y mae y gwirioneddau y rhoddant iddynt eu cydsyniad arwynebol felly, ac y dygant sêl fawr drostynt, heb gael eu credu ganddynt erioed, ac heb fod yn foddion i sancteiddio dim ar eu hymarweddiad. Gwrandawant y gwirioneddau hyny gyda hyfrydwch a phleser, amddiffynant yr egwyddorion hyny ar eu tafodau; ond gwadant yr holl wirioneddau hyny trwy eu hymarweddiad gwrthwyneb iddynt, ac anghredant yr egwyddorion hyny yn eu calonau. Os digwydd i'r pregethwr ddwyn rhesymau cryfion ac eglur o blaid eu barn hwy, i'w cadarnhau yn eu barn, ac i'w galluogi i orchfygu eu gwrthwynebwyr, dichon hyn ennill y sylw mwyaf bywiog; ac yn ol y graddau o sylw a delir i wirioneddau dwyfol y maent yn effeithio ar y teimladau. Dichon y pregethwr, trwy ennill sylw mor uchel, gario effeithiau grymus ar y teimladau naturiol, ond er hyny heb fod un effaith sanctaidd yn cael ei adael ar y meddwl nac ar y fuchedd. Y mae yr holl ddylanwad hwn ar y meddwl a'r teimladau naturiol yn effaith eiddigedd y dyn dros ei farn ei hun, a'i elyniaeth at y farn wrthwynebol iddo; ac nid yn effaith ystyriaeth o berthynas y mater â'i achos ef ei hun, na golwg ar na theimlad o'i bwysfawrawgrwydd.

Nen, os digwydd i'r pregethwr agor deall y gwrandawr ar ryw wirionedd oedd yn dywyll iddo o'r blaen—os digwydd iddo ei arwain yn mhellach i wybodaeth o'r athrawiaeth yr oedd efe yn

ei mawr gymmeradwyo o ran y cyfanswm o honi—os digwydd iddo arwain meddwl y gwrandawr i olwg eglur ar ganlyniadau a chyssylltiadau yr athrawiaeth hono er hollol foddlonrwydd iddo—dichon y gymmeradwyaeth uchel y mae y fath genadwri yn ei ennill gyda'r gwrandawr, a'r boddlonrwydd mawr y mae yn ei roddi iddo—dichon, meddaf, beri effeithiau grymus ar y tymmerau naturiol, a chynnhyrfu y serchiadau yn uchel; ac etto, yr holl effaith yn gadael yr enaid heb gymmhwyssiad profiadol a sancteiddiol o rinwedd ysbrydol y gwirioneddau hyny: y cwbl yn ddim ond effaith golwg ar gyssondeb y canghenau â'u gilydd, heb un olwg ar eu perthynas âg ef ei hun wedi y cwbl.

Dichon i *dymmer* hefyd effeithio yn nerthol. Fe ddichon tymmer naturiol y naill effeithio ar y llall i'w hennill i'w delw ei hun. Y mae gan dymmer naturiol allu mawr i effeithio ar dymmer naturiol dyn arall. Profir hyn mewn ymddiddanion cyffredin. Tymmer ysgafn, gellweirus a gwâg, y naill a effeithia ar yr holl gwmni i'w dwyn i gyffelyb dymmer; tymmer ddigllawn nwydwyllt y naill a effeithia i ennyn nwydau a digllonedd ereill yn y cwmni; tymmer addfwyn a charedig y naill a effeithia i ennill ereill yn y cwmni i'r unrhyw dymmer. "Gair garw," yn tarddu oddi ar dymmer ddigofus yn y naill, "a gyffry gynnen" yn nhymmer y llall. Tymmer garedig, yn pentyru ymadroddion ac ymddygiadau caredig yn y naill, a effeithia i ddofi digofaint y llall. Cyffelybir y tafod i "dân," am ei fod yn brif foddion i ddwyn tymmer y naill ddyn i effeithio ar dymmer dyn arall. Felly y dichon i dymmer y pregethwr effeithio ar dymmer y gwrandawr, i'w hennill i'r un dymmer ag ef. Os ymddengys y pregethwr yn ddifrifol iawn, gweithia hyny yr un dymmer yn y gwrandawyr—difrifol a fyddant hwythatu. Gall y gwrandawyr deimlo cynnhyrfiad mawr dan ddylanwad tymmer y pregethwr, ond heb brofi un effaith sanctaidd. Gall ei dymmer gyffrous ef eu tymmeru hwythau, ac etto heb brofi dim cadwedigol.

Gall syniadau anianol am wrthddrychau anianol gario effaith grymus, os cânt eu hamlygu gydag eglurdeb, ac etto heb ddyrchafu y meddwl at wrthddrychau ysbrydol. Dichon i adroddiad o hanes Joseph effeithio yn nerthol ar y teimladau naturiol, a chyffroi tosturi i fflagu allan mewn wylfain, ac etto heb un ystyriaeth o bethau dwyfol. Gall darluniad bywiog a thoddedig o ddiodefiadau Crist gynnrychu effeithiau grymus ar deimladau natur, heb fod y gwrandawr yn rhoddi yr un ystyriaeth i'w berson a'i swyddau, nac i achosion a dybenion ei farwolaeth. Dichon hanes Dafydd yn ymladd â'r cawr effeithio i gyffroi llawenydd; gall hanes y waredigaeth drwy y Môr Coch gynnrychu syndod; ond heb fod un olwg ar y peth mewn cymmhwyssiad nac addysg ysbrydol yn cael ei dynu oddi wrth hyny.

Y mae cael llu mawr o weinidogion cymmhwys i bregethu y gair yn werthfawr; os bydd "llawer yn cynniweirio, gwybod-aeth a amlheir;" ond nid ydyw llwyddiant yn ymddibynu ar hyny. Nid yw llwyddiant yn ymddibynu ar nerth a doniau yr offerynau, na chwaith ar eu lliosowgrwydd: 1 Cor. iii. 4—7.

7. Nid trwy nerth *goruchwyliaethau rhagluniaethol*. Gwir fod barnau Duw wedi bod yn wasanaethgar i grefydd mewn llawer modd, ond nid ydyw llwyddiant crefydd yn ymddibynu arnynt. Y maent o wasanaeth i ddarostwng ei gelynyon: yr ydym yn gweled hyny yn hanes plâu yr Aipht, dinystr Pharaoh a'i fyddin, yn hanes y pedair ymherodraeth, ac yn hanes teyrnasiad Cystenyn Fawr. Y maent yn wasanaethgar i ddarostwng annuwioldeb. Trwy y pethau hyn y mae yr Arglwydd yn fynych yn "carthu gwaed Jerusalem allan o'i chanol, mewn ysbryd barn, ac mewn ysbryd llogfa." Y maent o wasanaeth hefyd i buro yr eglwys, ac i adnewyddu addoliad Duw. Ond nid ydyw llwyddiant crefydd yn ymddibynu ar y pethau hyn mewn un modd.

II. Pa bethau ni wneir trwy lu a nerth.

1. Agor y ffordd i'r efengyl. Y mae'n wir fod awdurdodau byd hwn yn offerynau yn hyn, ond Ysbryd yr Arglwydd yw y gweithiwr. Duw a "sych yr afon;" Duw a'i "tery yn y saith firwd;" Duw a gyfyd y pantiau ac a ddarostwng y bryniau; ger bron Duw y bydd pob mynydd mawr yn wastadedd.

2. Anfon yr efengyl, neu Air yr Arglwydd i'r holl fyd. Y mae yn wir fod trigolion amryw o deyrnasoedd yn cyduno ac yn cydymdrechu i anfon Gair Duw a gwybodaeth o'r efengyl i'r holl fyd. Ond nid trwy awdurdodau gwladol y dygwyd hyny yn mlaen, ond trwy gyd-rodion ewyllysgar ac ewyllys da. Ysbryd Duw sydd yn gweithio haelioni a sêl yn meddyliau miloedd i gynnorthwyo y gwaith hwn. Duw, trwy ei Ysbryd, a gynhyrfodd ysbrydoedd ei weision, ac a ddadguddiodd iddynt y moddion hyn; ac efe, trwy ei Ysbryd, a enynnodd sêl y byd o'r bron i bleidio a chynnorthwyo y gwaith da hwn.

3. Anfon gweithwyr i'r cynhauaf. Nid trwy nerth awdurdod wladol y dewisir nac yr ordeinir gwir weinidogion yr efengyl. Yr holl bleidiau crefyddol a'u gweinidogion, sydd yn y byd o ddewisiad yr awdurdod wladol, nid ydynt yn eglwys i Grist. Trwy i'r awdurdod wladol drawsfeddianu hawl yr Eglwys Gristionogol i ddewis gweinidogion y daeth y llygriad mawr a dinystriol i mewn i eglwys Crist. Dyna y modd y dygwyd i mewn swyddwyr halogedig eu hymarweddiad a drwg eu dybenion, y rhai a wnant fasnach fydol o swyddau sanctaidd. Y cwbl oedd yn eu golwg oedd elw y swydd, ac nid lleshâd eu cydgreadduriaid. Y rhai hyn yw y "cŵn gwangous, na chydabyddant

eu digon; y "beddau wedi eu gwyn-galchu," y "dysglau aflan," a'r "cymmylau di-ddwfr."

Felly y daeth llygredigaeth i mewn i'r eglwys yn y drydedd ganrif. Felly y llygrodd Pabyddiaeth: a'r ffordd yma y daeth Mahometaniaeth i mewn. Y swyddwyr, gan hyny, o ddewisiad yr awdurdod wladol, ac nid o ddewisiad Duw, o'r diwedd a ddaethant yn erlidwyr yr eglwys. Felly yr ymlygrodd yr Eglwys Sefydledig. Ysbryd Duw biau "anfon gweithwyr i'r cynhauf."

4. Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, yr argyhoeddir pechadur. Y mae pob peth wedi methu argyhoeddi pechadur heb yr Ysbryd. Methodd barnedigaethau trymion argyhoeddi pechaduriaid—dwfr y diluw, tân Sodom, a phlâau yr Aipht; methodd gwyrthiau yr anialwch; methodd doniau enwocaf y prophwydi a'r apostolion, i.e. gwyrthiau Crist, a phregethau Crist. Creu ydyw ail-eni—bywhau—troi y graig yn llyn dwfr. Ni chredai pechadur yn Nghrist pe gwelai wyrthiau yn cael eu cyflawni, pe yr adgyfodid y meirw, pe gwelai Crist ei hun yn iachau â gair, neu pe y clywai ef yn pregethu. Duw, trwy ei Ysbryd yn unig, a all argyhoeddi a chyfnewid calon pechadur; ac y mae efe wedi addaw gwneuthur hyn. Y mae llawer yn disgwyl wrth allu diffygiol creadur am y cyfnewidiad mawr hwn. Y mae rhai yn disgwyl wrth yr offerynau ar amrywiol gyfrifon—ar gyfrif eu dysg, eu gwybodaeth, eu doniau, a'u lleisiau. Y mae rhai yn disgwyl wrth eu gallu eu hunain i arfer moddion, wrth eu gwrandao a'u gweddio. Y mae yn wir nas gellir disgwyl heb y moddion; ond nid wrth y moddion, chwaith, y mae disgwyl, ond wrth Dduw trwy y moddion. Fe roddwyd "y trysor hwn mewn llestri pridd fel y byddai godidawgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni." "Arfaun ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr." Priodolir y gwaith hwn i Dduw bob amser yn y Gair Dwyfol.

5. Sancteiddio yr eglwys. Iaf, Marweiddio llygredd y saint. Ni ddichon awdurdod ddaearol farweiddio llygredd y galon. Nis gall penydiau osodiad awdurdod Rhufain wneyd hyn. Ni ellir gwneyd hyn trwy farnau Duw a'i geryddon, trwy y doniau hyawdlaf yn y byd, na'r rheswm cryfaf. 2il, Nid trwy un nerth creadigol y cynnyddir sancteiddrwydd. 3ydd, Nid trwy lu na nerth o'r natur yma y dyddenir y credadyn na'r eglwys, nac yr adferir y saint o wrthgiliad.

III. *Pa ham nad trwy lu a nerth y dygir crefydd yn mlaen yn y galon ac yn y byd.*

Yn nacool: nid am nad allasai Duw eu cael. Rhoddodd Duw brawf y gallasai eu cael. Ond, dewisodd y ffordd hon i ddwyn ei achos yn mlaen i amryw ddybenion.

1. Dybenion tuag at Dduw. 1af, Fel y byddai dwyfoldeb ac ysbrydolrwydd y deyrnas hon yn amlwg. 2il, Fel y byddai godidawgrwydd y gallu o Dduw trwy wendid yr offerynau. Y mae yn cael mwy o enw iddo ei hun trwy offerynau gwael. Amcan Duw yn codi y deyrnas hon yn y byd ydyw rhoddi amlygiadau mawr o'i briodoliaethau, a dwyn yn mlaen ddedwyddwch dyn. Trwy hyn y gwneir amlygiadau mawr o'i ddoethineb, yn "dal y cyfrwys yn ei gyfrwysdra," ac yn goruwchreoli awdurdod gelynl i'r eglwys, ac yn ei hamddiffyn rhag y fath allu bydol, a hyny heb foddion o natur ddaearol.

2. Amryw ddybenion at y saint. 1af, Eu cadw yn ostyngedig. 2il, Profi eu ffydd ynddo ef, pan y byddai pob gallu daearol yn eu herbyn. 3ydd, Rhoddi cyffe iddynt i ogonedda Duw, trwy roddi gwasanaeth iddynt i'w gyflawni, a'u defnyddio yn offerynau i ddwyn ei deyrnas yn mlaen, ac nid gallu daearol. 4ydd, Eu cadw â'u bryd ar ddybenion ysbrydol. Pe fel arall y buasai crefydd yn cael ei hadeiladu, gallasai dynion ymroddi yn grefyddwyr oddi ar ddybenion drwg, er mwyn ennill parch a dyrchafiad daearol.

3. Cywilyddio y diafol, a dattod ei weithredoedd yn fwy amlwg ac effeithiol.

IV. *Yr adeiledir crefydd trwy Ysbryd Duw*:—"Ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd."

1. Pa beth a wna yr Ysbryd yn yr adeilad hwn? Cyfansoddi arfau—dadguddio y sylfaen; a'i haddasu—anfon gweithwyr a'u donio—cyfodi y meirw—naddu y meini, trwy farweiddio llygredd, a chynnyddu gras; a hyny yn cael ei gwblhau trwy amryw foddion.

2. Pa fodd yr adeilada efe? 1af, Yn raddol. 2il, Trwy foddion:—y Gair a Rhagluniaeth. 3ydd, Ar y wir sylfaen. 4ydd, Yn ol y portread dwyfol. 5ed, Yn berffaith. Dygir allan y maen penaf. 6ed, Gwneir y cwbl trwy ddylanwad moesol ac ysbrydol:—trwy oleuo y deall, argyhoeddi y gydwybod, ac ennill yr ewyllys; ac nid trwy nerth a thrais.

3. Y sicrwydd yr adeiledir crefydd trwy yr Ysbryd. 1af, Bwrriad Duw. 2il, Lawn ac eiriolaeth a gwobr addawedig Crist.

Yr addysg:—Y perygl o dristan yr Ysbryd—yr angen am ei gael—a'n dyledswydd i weddio am dano.

PREGETH XXXIII.

Y DIGOFAINT SYDD AR DDYFOD.

Luc iii. 7.

"Am hyny efe a ddywedodd wrth y bobl oedd yn dyfod i'w bedyddio ganddo, O! genhedlaeth gwiberod, pwy a'ch rhag-rybuddiodd chwi i ffoi oddi wrth y digofaint sydd ar ddyfod!"

Y MAE y geiriau hyn yn rhan o bregeth Ioan Fedyddiwr—y diwygiwr mawr, a'r hwn a elwid o blegid hyny yn *Elias*. Yr oedd Ioan Fedyddiwr yn un o'r dynion rhyfeddaf a fu yn y byd erioed. Yr oedd yn byw mewn adeg hynod—ar doriad dydd y diwygiad efengylaidd, ar ol nos faith o bedwar can mlynedd rhwng y ddau Destament—yn cael ei eni ychydig, sef chwe mis, o flaen ein Hiachawdwr. Seren ydoedd, ar doriad y dydd, yn rhag-arwydd o godiad yr Haul. Yr oedd yn fab i offeiriad—Zacharias; wedi ei gael bron yn wyrthiol—ei fam yn amhhlantadwy; yr oedd yn gyfyrder i Iesu Grist—eu dwy fam yn ddwy gyfnither (nis gallasai y berthynas hon fod rhyng-ddynt o du eu tad, gan fod un o lwyth Lefi, a'r llall o lwyth Judah): "Elizabeth dy gares—yr hon a elwid yn amhhlantadwy."

Yr oedd ei weinidogaeth yn addas i'r amser—yn danlyd a ffyddlawn. Pregethai oddi ar ragolwg ar ddyfodiad teyrnas Dduw, a'r farn ar ei hol. Dyma ydoedd y cynnygiad olaf o deyrnas Dduw i'r Iuddewon. Nid oedd ei dymmor ond byr: bernir iddo gael ei ferthyru am Air Duw, yn y flwyddyn 27 neu 28 o oed Crist. Y lle oedd "diffaethwch Judea:" cynnwysai hyny bob man allan o'r dinasoedd. "Gan bregethu:" dywedir fod y gair yn arwyddo cyhoeddi peth o bwys mawr i ddynion; a chyfeiria at y rhai a ddyrchafent eu llef yn yr heolydd a'r meusydd, fel y clywid hwy gan lawer yn cyhoeddi yr hyn a ymddiriedwyd iddynt gan yr awdurdod frenhinol, fel yr oedd yr arfer yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. "Edifarhewch:" arwydda y gair, *wedi deall*, neu *gwedi gwallgofrwydd*.

Oddi wrth yr ystyr hwn y galwodd y Lladinwyr y gair, *dyfod* yn *ddoeth drachefn*. Dywed Tertullian fod y gair yn golygu, *adferiad y meddwl ato ei hun*. Y rheswm dros yr alwad i edifarhau oedd, "Nesaodd teyrnas nefoedd." Arferir y gair gan y Rabbiniad Iuddewig yn fynych; ac arwydda bob amser burdeb yr addoliad dwyfol, a'r gwynfyd a deimla y cyfiawn yn ei waith. Cynnwysai ei genadwri, "Parotowch ffordd yr Arglwydd:" cyfeiriad at frenhinoedd yn teithio lle drwg, yn gwneyd ffordd o'u blaen. Gwneid ei wrandawyr i fyny o Phariseaid a Saduceaid. Sect o ymneillduwyr oddi wrth y grefydd wladol oedd y Phariseaid, fel yr arwydda y gair—wedi bod yn bur, ond wedi adfeilio. Y Saduceaid ydoedd blaid yn gwadu bodau a byd ysbrydol—deistiaid Iuddewaidd: eu tad oedd Sadoc—dysgybl Antigones, yr hwn oedd yn blodeno tu thri chan mlynedd cyn Crist. Dechreuodd sect y Phariseaid yn fuan ar ol caethiwd Babilon.

"Pwy a'ch rhag-rybuddiodd i ffoi?" Neu, 'a ddangosodd yn ddirgel i chwi,' yn ol y darlenniad Ethiopaog. Daethai y Phariseaid ato yn ddirgel, ond y Saduceaid yn gyhoedd. Yr oedd y Phariseaid yn cywilyddio dyfod, ac etto yn arswedo rhag barn Duw. 'Rhaid i chwi gyffesu yn gyhoedd fel y lliaws'—"dygwch gan hyny cyfrwythan addas i edifeirwch." Addef yn gyhoedd, ac nid arfer cyfrwysdra sarphaidd. 'Ac na feddyliwch eich hunain yn well nag ereill.' "dichon Duw o'r meini hyn gyfodi plant i Abraham." "O! genhedlaeth," na hiliogaeth, "gwiberod." Creadur gwenwynig yw y wiber-math o sarph hedegog. Y mae pechod yn gyffelyb i wenyw—yn cynnyddu, yn cerdded yn fuan dros yr holl gorph. Felly llwgr moesol: y mae o duedd gynnyddol, yn myned "yn waeth-waeth." Y mae gwenwyn yn drosglwyddadwy; gall y sarph drosglwyddo ei gwenwyn i gyrph dynion. Felly drwg moesol: y mae yn cael ei drosglwyddo gan y naill i'r llall fel surdoes; y mae "gwreiddyn chwerwedd" yn "llygru llawer." Sylwnys

I. *Ar y digofaint a gyhoeddir yma:—"y digofaint sydd ar ddyfod."*

Priodolir digofaint i ddyw; ac nid ydyw yn mhob amgylchiad yn bechadurus. Nwyd ydyw, a blanodd y Creawdwr yn ei cyfansoddiad er hunan-amddiffyniad. Digofaint ydyw gradd uchel o anfoddlonrwydd: anfoddlonrwydd wedi dyfod i'r pwynt uchaf ydyw digofaint mewn dyn. Yr un peth ydyw yn Nuw ond ei fod ynddo ef yn anfeidrol, ac yn rhydd oddi wrth bol amherffeithrwydd. Pan y byddo digofaint dyn yn gweithredu yn anghyfiawn, y mae yn bechadurus—pan yn cael ei gyfeirio yn erbyn gwrthddrych diniwed ac annheilwng o'i gasau neu, pan fyddo yn cyfodi i raddau uwch nag y mae drwg:

gwrthddrych yn ei haeddu; neu, pan yn dychymmygu neu yn arfer moddion anghyfreithlawn i ddial. Digofaint ydyw gradd uchel o anffoddlonrwydd, yn cael ei gynnhyrfu yn y meddwl trwy dderbyn cam gwirioneddol, neu ddychymygol, i ni ein hunain, neu i ereill, ac yn gyffredin yn cynnrchu penderfyniad neu awydd cryf i ddial. Nid ydyw yn cyfodi bob amser oddi ar hunan, o herwydd yr ydym yn digio am gamwri a wneir tuag at ereill.

Y mae digofaint yn Nuw yn gyssylltiedig â doethineb, a gwybodaeth, a chyfiawnder anfeidrol; gan hyny, yn rhydd oddi wrth holl feiau digofaint creadur. Digofaint Duw ydyw gwrthdarawiad ei natur ef yn erbyn drwg, ynghyd â phenderfyniad ei ewyllys i'w gospi. Nwyd anwadal ydyw digofaint dyn; ond y mae digofaint Duw yn sefydlog: y mae efe yn "ddigllawn beunydd" wrth yr annuwiol. Nid ydyw weithiau yn cynnhyrfu, ac weithiau yn tawelu; nid ydyw weithiau yn poethi ac weithiau yn oeri, fel digofaint nwydawl dyn. Ond gweithrediad sefydlog anfeidrol sancteiddrwydd yn erbyn pechod ydyw—penderfyniad anghyfnewidiol yn ewyllys Duw i ddial ar anghyfiawnder—anfeidrol sancteiddrwydd sydd yn anghymmodlawn sefydlog â phechod. Y mae yn ei gasâu mor fawr pan yn ei fadden a phan yn ei gospi, ac yn amlygu casineb mor fawr yn ei waith yn maddeu ag yn ei waith yn ei gospi.

Y mae digofaint dyn yn gweithredu yn aml yn anghyfiawn, oddi ar ddrwg dyb, heb wir achos; neu yn ormodol, yn fwy na haeddiant y bai. Ond y mae digofaint Duw yn rhydd oddi wrth yr amherffeithrwydd hwn, gan ei fod yn gyssylltiedig â hollwybodaeth: nis gall gyfodi yn erbyn neb oddi ar ddrwg dyb ddiachos; a chan ei fod yn gyssylltiedig â chyfiawnder perffaith, nid ydyw yn agored i gyfodi yn uwch na haeddiant y bai, nac i achosi dial gormodol. "Digofaint Duw a ddadguddiwyd o'r nef;" nid ar antur ac oddi ar ddrwg dyb, ond "yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion."

Y mae digofaint dyn yn sychedu am gyfle i ddial; nid oddi ar unrhyw ddyben daionus, ond er mwyn porthi cynddaredd. Ond y mae digofaint Duw yn annhraethol bell oddi wrth y gwaeledd gwrthun hwn. Y mae efe mewn cyfle bob amser i ddial arnat, ac onid oes ganddo achosion cyfreithlawn i hyny? Nid o ddifyg cyfle i ddial arnat y gadawodd Duw di yn fyw. Onid yw pob munyd yn gyfle iddo arnat i'th ddamnio? Onid yw yr holl greadigaeth dan ei awdurdod, i'w throï yn dy erbyn i'th ddyfetha? Onid yw holl ranau bywydol dy gorph yn ysgogi bob moment trwy weithrediad ei allu ef? Onid ei drugareddau di-dor yw yr achos na ddarfau am danat? Y mae pob munyd yn dy gyflwyno i gleddyf yr Hollalluog, ond yn unig fel y mae trugaredd yn rhedeg yn mlaen i gyfryngu ac i sefyll

rhyngot a'r ergyd marwol. Mor bell ydyw Daw oddi wrth sychedu am gyfle i'th ddyfetha fel y mae yn ei wrthod bob munyd, ac yn myned trwy gylch mawr cwmpasog o weithred-oedd mawrion o drugaredd er mwyn dy basio heb dy ladd! Ac os rhaid cosbi, "nid o'i fodd y cosba efe, nac y cerydda blant dynion." Efe a wna hyny gydag anfoddlonrwydd mawr, a chyda chwynfan dwys: "Pa fodd y'th roddaf i fyny, Ephraim! Pa fodd y'th osodaf megys Adma a Seboim?" Mor anewyll-ysgar ydoedd i gosbi! Ond efe a achub "dan ganu:" y mae yn "rhedeg" i gyfarfod yr afradlawn.

Dywedai pagan enwog y dylai llywodraethwyr fod yn gynlluniau o'r cyfreithiau—yn annialgar, ac etto yn amhlygedig; gwgu lle byddo y gyfraith yn gwgu, a gwenu lle y byddo y gyfraith yn gwenu; cosbi lle byddo y gyfraith yn beio, a gwobr-wyo lle y byddo y gyfraith yn rhoddi canmoliaeth uchel. Felly y mae yn briodol i Dduw fod fel ei gyfraith, trwy gosbi pob trosedd o honi yn ddi-dderbyn-wyneb. Meddylwch fod ysgrifenydd hanes bywyd Napoleon Buonaparte yn rhoddi canmoliaeth iddo trwy ddyweyd fod Napoleon o dymmer mor hynaws fel yr ymddygai bob amser tuag at ei filwyr a'i ddeiliaid gyda'r un addfwynder a thiriondeb, pa un bynag a wnelemai ufuddhau ai trosedd; y caniatâi i bawb wneyd yr hyn fyddai da yn ei olwg ei hun; y dangosai ffafr i bawb yn ddiwahar-iaeth—na chosbai unrhyw drosedd yn neb; y byddai yr hwn a ddiystyrai ei sawdurdod, ac a wrthwynebai ei lywodraeth, a luniai fradwriaeth yn erbyn ei fywyd, ac a annogai y deiliaid i wrthryfela yn ei erbyn—y byddai hwnw mewn cystal gobraith am ffafr a dyrchafiad ganddo, a'r hwn fyddai wedi profi ei hun yn fwyaf ffyddlawn iddo; a bod mor ddiogel i ddyn fod yn elyn professedig iddo a bod yn gyfaill! Pwy a gyfrifai y fath ffaith yn ganmoliaeth i lywodraethwr? Neu pwy a ystyriai y fath un ag a ddarluniwyd yn addas i lywodraethu teyrnas? Os ydyw y fath gymmeriad yn anaddas i eistedd ar deyrngadau ddaearol, pa mor anaddas fyddai i eistedd ar orsedd y nefoedd! Os ydyw y fath ddarlun yn gosod allan ddyn gwael, annoeth, anghyfiawn, pa mor anghydwedol ydyw â nodweddiad Duw anfeidrol, yr hwn sydd yn Farnydd yr holl ddaear? Os byddai i'r fath ymddygiad achosi annhrefn, a chefnogi anufudd-dod a phob drygioni mewn teyrnas ddaearol, oni byddai i'r fath ymddygiad yn Nuw tragwyddoldeb achosi pob annhrefn yn mysg ei ddeiliaid ef, ac annog pob drygioni ac anufudd-dod—dattod rhwymau ufudd-dod oddi ar bob cydwybod, a gollwng pob trachwant yn rhydd i redeg allan yn ddiogf? Y mae digofaint o'r natur a ddisgrifiwyd, nid yn unig yn cydweddu â holl natur a pherffeithiau Duw, ond ymddengys yn angenrheidiol i gyfar-soddi nodwedd llywodraethwr da.

Y mae casineb at bechod yn hanfodol i anfeidrol sancteiddrwydd, ac y mae ei amlygu mewn cosbedigaethau cyfartal i'r drwg yn hanfodol i gyfiawnder. Sancteiddrwydd, fel y mae yn sefyll yn wrthwynebydd i bechod, sydd yn dyfod dan yr enw *digofaint*; ond fel y mae yn pleidio purdeb ac yn gwrthsefyll drwg, gelwir ef yn *sancteiddrwydd*.

Arferir y gair *digofaint* yn y Beibl yn fynych am y *gosh*, yr hon sydd yn tarddu oddi wrth ddigofaint natur Duw yn erbyn pechod. Hyny yw ystyr y gair yn y testyn—"y llid a fydd;" sef, y *gosh* a fydd, y dial a fydd, y *gosh* ag oedd bron disgyn ar genedl yr Iuddewon, yr hon oedd wedi cael ei bygwth o'r blaen, a'i rhagfynegi yn eglur gan y prophwydi; ac am hyny y dywedid fod y "digofaint ar ddyfod;" yr ydoedd ar ddisgyn, ac yn nesau yn ddidor yn ol y bygythion o hono. Fel y mae y gair *trugaredd* yn cael ei arfer i olygu y briodoledd o drugaredd yn Nuw, felly arferir ef yn aml am y cymmwynasau sydd yn tarddu oddi wrth y briodoledd hono i ni. Gweithrediad neu ffrwyth y briodoledd o drugaredd a elwir yn *drugareddau*. Yr un modd gelwir casineb natur Duw at bechod yn "ddigofaint;" ac am hyny, gelwir yr amlygiad o hono yn "ddigofaint," neu ei weithrediad, sef y *gosh*.

1. Y mae digofaint Duw o *bwys mawr*. Nid oes dim yn fwy angenrheidiol ei ddangos i ni na phwys a sicrwydd digofaint Duw. Tueddai ystyriaeth o hyn i argyhoeddi yr annuwiol o'r angenrheidrwydd am Waredwr, ac i ennyn diolchgarwch y saint am y waredigaeth.

Y mae digofaint Duw yn bwysig annhraethadwy i ni. Add-efwn cyn dechreu ei egluro ei fod yn ddirgelwch mawr. Fel megys y dywedir am ogoniant y nef "nad amlygwyd etto beth a fyddwn," felly gellir dyweyd am drueni uffern, "nid amlygwyd etto" beth a fydd yr annuwiol.

(1.) Y mae y cymmhariaethau a ddefnyddir i'w osod allan yn y Gair yn gryfion: a phe na byddai y digofaint ddim yn chwaneag a osodir allan yn y gymmhariaeth, byddai yn bwysig. "Tân anniffoddadwy," "tywyllwch eithaf," "pryf nad yw yn marw," "carchar," "pydew diwaelod," "llyn yn llosgi o dân a brwmstan," "poethwynt ystormus." Dyma gymmhariaethau cryfion! Ond y mae pob cymmhariaeth yn rhy fer. Meddyliwch am fod mewn tân naturiol o ran y corph—parai hyny ofid annhraethadwy; dim ond rhan fechan o'r corph yn y tân—y bys yn y ganwyll, byddai y gofid yn annyoddefol. Beth pe byddai yr holl gorph mewn tân, ac yn cael ei gadw yn barhaus ynddo, a'i gynnal yn fyw—pa faint fyddai y gofid! Ond nid yw hyn ond cymmhariaeth i osod allan boen uffern: nid tân elfenol fydd yno, ond tân llid Duw, yr hwn sydd yn fwy treiddgar a phoenyddiol na'r tân naturiol. Nis gall y tân naturiol gael gafael ar yr enaid

—nis gall gyrhaedd ond y corph: ond y mae tân lliid Duw yn cymmyrd gafael yn yr enaid, yn bwrw ei fflaglau drwy y gydwybod, ac yn sefydlu ei losgfeydd ofnadwy yn nheimpladau y meddwl! Achosa hwn fwy o boen i'r enaid nag y dichon i'r tân naturiol achosi i'r corph; a thra y byddo tân yn disgyn oddi wrth Dduw, bydd y gydwybod o'th du dithau fel pryf yn caei, ac yn poenydio yr enaid â phob edliwiad atgas. Y pryf yr wyt ti yn ei fagu ydyw! Y mae pob pechod a gyflawnir genyt yn fagwriaeth i'r pryf ofnadwy sydd o dy fewn di. Ac er y gelli ddyweyd yn awr—'Nid wyf fi yn cael dim felly ynof fy hun—y mae fy nghydwybod i yn dawel,'—etto fe ddaw y ddau beth hyn arnat yr un dydd—y tân yn disgyn oddi uchod, a'r pryf yn deffro oddi fewn, ac yn dechreu cnoi!

(2.) Ymddengys y digofaint yn un pwysig os ystyriwn *digofaint pwy ydyw*: digofaint *Duw*! Y mae pobpeth Duw yn fawr: y mae trugaredd Duw fel y môr; cariad Duw yn annhraethadwy, ni wyddom ni ei uchder na'i ddyfnder, ei hyd na'i led; y mae cyflawnder Duw fel mynyddoedd cedyrn; y mae iachawdwriaeth Duw yn fawr; y mae ei gyfraith yn dra eang. Felly, "ei ddigofaint a dywelltir fel tân, a'r creigiau a fwrir i lawr ganddo." "Pwy a saif o flaen ei lid ef?"

[1.] Dyma ddigofaint cyssylltiedig â hollwybodaeth. Yr ydych yn ofni digofaint creadur yn ol y wybodaeth sydd ganddo. Y mae teyrnasoedd y byd yn ofni digofaint Prydain, am ei bod yn mlaen arnynt oll mewn gwybodaeth a doethineb. Gwell mewn rhyfel ydyw doethineb na nerth; doethineb a ddinystria y gelyn weithiau heb ond ychydig o nerth. Dychymygydd peiriant yn ddiweddar i ddinystrio y llong rhyfel fwyaf allan, heb gyfryngiad nerth, ond pawb yn sefyll yn llonydd. Y mae Duw yn "ddoeth o galon." "O! ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw!" Y mae ei "farnau" gan hyny, "yn anol-rheinadwy."

Y mae yn gwybod am filiwn o ffyrdd i'th ddyfetha! Pwyall ddattod a chwalu yr *engine* dân yn well na'i hawdwr? Dew yw awdwr dy natur, a gŵyr pa le i gyffwrdd â'th ranau tu-mewnol i'w *stopio*! Mewn ymryson cyfreithiol, y mae gwybodaeth a doethineb i'w ofni yn fawr. Y mae Duw yn gwybod dy holl ddyrgioni: "dy anwiredd a seliwyd mewn ood;" y mae dy holl ffyrdd yn ei olwg; ac y mae mor ddoeth a hyny dracheta yn newisiad y ffordd a'r moddion i'th brofi ya euog: *Iob* ix. 3, 4; xiv. 19; a xii. 13, 16, 25.

[2.] Y mae digofaint Duw yn anfeidrol alluog. Nid yn unig y mae yn "ddoeth o galon;" y mae hefyd yn "alluog o nerth." Yr ydych yn arswydo rhag lliid creadur yn ol y mesur o allu a farnech fod ganddo. Arswydai Israel y cawr am ei fod yn alluog a chryf. Y mae gallu Duw yn ddiderfyn. Y mae cosp

pechod yn dyfod oddi wrth "ogoniant ei gadernid ef." Crybwyllir ei allu i ddangos pwys ei lid: *Iob* ix. 3; x. 13—19. Gyda'r fath hawsdra y gall ddinystrio ei elyn! "Eldrychodd" nes "gwasgaru y cenhedloedd;" "edrych" a wnaeth efe ar Pharaoh a'i fyddin i'w hyrddio i ddyfnder y môr; "âg anadl ei wefusau y lladd efe yr anwir;" ei "fys" oedd yn gweithredu gwyrthiau yn yr Aipht.

Gallai droi yr holl greadigaeth yn dy erbyn ar darawiad amrant!—yr holl heintiau, rhyfeloedd, newyn; yr holl elfenau—y dwfr, y tân, y gwynt, y ddaear; neu yr holl creaduriaid—y seirph, y llewod, a'r cwbl. Neu gallai alw miliwn o angylion yn dy erbyn—creaduriaid mor nerthol, fel yr ydym yn cael hanes am *un* o honynt yn alluog i ladd cant a phedwar ugain o filoedd mewn ysbaid munyd! Neu, gallai dy adael i filiynau o ysbrydion aflan gael eu hewyllys arnat am funyd—ni byddai eisieu dim ond cenad ganddo ef: byddai hwnw y diwedd trwyaf dychrynlyd! Neu gallai effeithio dy angeu mwyaf tuenus drwy y pethau distadlaf; megys gwybedyn, *pin* bach, dracht o ddwfr, neu ddracht o awyr, awel oer, gwres cryf, cyffro, dychryn, chwerrhiniad, neu flewyn pen!

Pe y gwelwn fyddin o gan mil o wŷr arfog yn dyfod yn fy erbyn oddi wrth frenhines Prydain—a *gwybedyn* o anfoniad Duw, byddai arnaf fwy o arswyd gwybedyn Duw, am fod Holl-alluawgrwydd o'i blaid!

II. *Y mae yr efengyl yn rhybudd grasol i bechadur i ffoi rhag "y digofaint sydd ar ddyfod."*

Y mae yn bryd "ffoi," os oes rhywle diogel i'w gael! Ffoi i'r iawn le, ac mewn iawn adeg. Pan y deui di i ffoi, y mae o bwys mawr i ti wybod i ba le. Y mae rhai yn y cloddfeydd llechi wrth glywed gwaeddi, yn hurtio, ac yn rhedeg i gyfarfod y perygl, yn lle oddi wrtho—wedi aros yn rhy hir nes i'r ergyd fyned allan. Y mae rhai gwrandawyr efengyl yn oedi felly ffoi rhag y digofaint, nes bod swm yr ergyd yn eu clustiau, a hwythau yn disgyn o dani. Y mae rhai yn aros gyda phechod nes iddo eu *mesmereisio* fel na allant ffoi. Y mae o'r pwys mwyaf ffoi yn yr iawn adeg.

Y mae o bwys mawr ffoi i'r iawn fan. Nid oes ond un man i ffoi iddo am fywyd. CRIST yw ein bywyd ni! Os disgyn cawod arnat yn yr heol, cai dy ddewis o lawer o ddrysau i ffoi: ond os dechreu y "maglau" a'r "tân" syrthio i'th gydwybod, pe bai holl angylion y nef o dy amgylch, ni thâl i ti ffoi at neb ond un person—yr unig Gyfryngwr—yr "hwn a osododd Duw yn iawn."

"Hwn a osododd Duw." Y mae cyfraith y wlad hon, a'r eiddo llywodraeth yr America, yn gofyn am i'r llongau mawr

sydd yn cludo môr-deithwyr rhwng y ddwy wlad, ar draws y cefnfor, i fod yn gyfaddas, ac wedi eu gwarantu yn ddiogel. Y mae cyfammod yn llywodraeth Duw, er tragwyddoldeb, i sicrhau fod y llong hon yn ddifai ac abl, yr hon y gelwir di i mewn iddi i nofio tragwyddoldeb! Y mae efe yn "abl i gadw." Y mae y llong wrth y lan, yn dy ymyl, a'i hwyliau yn y gwynt yn barod i gychwyn. Hwyl fyddant yn Liverpool yn gwaeddi enwau y gwahanol longau, ac yn arganmawl eu rhagoriaethau; ac felly yn ymgystadlu â'u gilydd, pawb dros ei long, i geisio ennill y rhai sydd yn bwriadu ymfudo. Daethum innau yma i waeddi o du fy llong, yr hon y mentrais fy mywyd iddi am byth. "Crist ein bywyd ni!" "Cyfryngwr!" "Cyfryngwr!" Dywedant hwyl fod ganddynt agerbeiriant hyn a hyn o allu; dywedaf finau am hon, fod "holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo" ynddi "yn gorphorol." Nid awn ni byth i lawr yn hon! Os gwel neb y lan, y rhai sydd yn Nghrist ydyw y tebycaf: "fel na choller pwy bynag a greddo ynddo ef."

PREGETH XXXIV.

DISGWYL WETH YR ARGWLWYDD.

Habacuc ii. 1—3.

“Safaf ar fy nisgwylfa, ac ymsefydlaf ar y tŵr, a gwyliaf, i edrych beth a ddywed efe wrthyf, a pha beth a attebaf pan y'm cerydder.

“A'r Argwlwydd a attebodd ac a ddywedodd, Ysgrifena y weledigaeth, a gwna hi yn eglur ar lechau, fel y rhedo yr hwn a'i darlleno.

“Canya y weledigaeth sydd etto dros amser gosodedig, ond hi a ddywed o'r diwedd, ac ni thwylla: os erys, diagwyl am dani; canys gan ddyfod y daw, nid oeda.”

DYWED rhai mai Habacuc oedd mab y Sunamees, yr hwn a adferwyd i fywyd gan Elias. Tybia rhai (a dywed yr *Apocrypha*), mai efe oedd yn porthi Daniel yn ffau y llewod. Ond dybygid fod yn amlwg ei fod yn prophwydo cyn y caethgludiad i Babilon, tua theyrnasiad Josiah, a'i fod yn gydoeswr â Jeremiah y prophwyd. Rhestrir ei ysgrifeniadan yn uchel yn mhlith y prydyddion Hebraidd. Nid oes gwybodaeth am le ei enedig-aeth, na'i achau. Cyfeirir ato yn fynych fel un ysbrydoledig yn y Testament Newydd: *Act.* xiii. 40, 41; *Rhuf.* i. 17; *Gal.* iii. 11; *Heb.* i. 5; ii. 3, 4; x. 37, 38.

Pwngc ei brophwydoliaeth, fel yr eiddo Jeremiah, oedd din-ystr Judah a Jerusalem gan y Caldeaid. Y mae ei lyfr yn ddwy ran: y rhan gyntaf mewn ffordd o ymddiddan rhwng Duw a'r prophwydi; y rhan arall yn emyn nefol, i'w harfer, y mae yn debyg, yn y gwasanaeth cyhoeddus. Yn y bennod o'r blaen, cawn y prophwyd yn dadgan ei ofid o herwydd y llygredigaeth, yn addef y drygioni, ac yn prophwydo dyfodiad y Caldeaid i'w cosbi: *adn.* 6, 12—17. Yn yr ail bennod, penderfyna *ddisgwyl* —edrych pa beth fydd tynged y genedl. Yr oedd y prophwyd wedi cwyno ac ymofyn ger bron Duw yn y bennod o'r blaen, ac yma penderfyna *ddisgwyl* am attebiad. Gwyliwr oedd efe wrth ei swydd; yn edrych allan dros fur y ddinas beth fyddai yn dyfod, ac i roddi rhybudd o nesâd barn neu waredigaeth. Cawn fod Dafydd yn gwylio felly: “Gwrandawaf beth a ddywed

yr Arglwydd Dduw; canys efe a draetha heddwch i'w bobl;" *Salm lxxxv.* 8. "Gosod wyliedydd, myneged yr hyn a welo;" "Y gwyliedydd, beth am y nos?" *Esa.* xxi. 6; *Esec.* iii. 17. "Ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch: o blegid y maent hwy yn gwyltio dros eich yneidiau chwi;" *Heb.* xiii. 17. Yr oedd hyn yn perthyn i'w swydd fel prophwyd. Safai a disgwyliai wrth Dduw, mewn gweddian a myfyrdodau am dda-guddiad pellach pa beth a ddywedai yr Arglwydd wrtho, neu drwyddo, neu ynddo, trwy ysbryd prophwydoliaeth, fel y gwyllyddai pa ateb i'w rodai i'r bobl, y rhai oedd yn ymlwied â ef am ei brophwydoliaethau bygythiol, ac yn ei geryddu am y weledigaeth o'r blaen. Gorchymynodd Duw iddo ysgrifenu y weledigaeth ganlynol yn fras iawn ar lechau, neu fyrddan o goed wedi eu gorchuddio â chŵyr, fel yr oedd yr arferiad yn yr oes hono, a'i hongian mewn lle cyhoeddus, fel y gallai pawb ei darllen, ac er mwyn i bawb gael y rhybudd. Y mae cyfeiriadau at hyn i'w gweld yn *Esa.* viii. 1; *Jer.* xxxvi. 4, 27, 32. Yr oedd y weledigaeth yn cynnwys digwyddiadau pwysig, a'r rhai hynny i'w cyflawni yn mhen amser maith: dywedir fod ei hamser wedi ei benderfynu gyda Duw; a phan ddelai yr amser, y dywedai y brophwydoliaeth drosti ei hun—y profai ei dwyfoldeb.

I. Y mae y saint yn y byd hwn mewn amgylchiadau y mae yn rhaid iddynt ddisgwyl wrth Dduw.

Ni byddant gymmaint felly yn y nef. Byddant yno wedi cyrhaedd y cwbl:—"y gobaith a welir nid yw obaith." Rhaid gobeithio am bob peth da nad ydym yn ei weled: *Rhuf.* viii. 24. Pethau mewn disgwyliaid ydyw maddeuant, ymwared, nerth, sancteiddiad, buddugoliaeth ar Satan a phob gelyn, a chael myned i mewn i dragwyddol lawenydd y nef: nid yw y pethau hyn genym ond mewn disgwyliaid neu obaith gwynfydedig.

Peth mawr ydyw lle i greu fod gobaith; y mae gobaith ymwared i rai mor ddrwg yn beth mawr: *Esa.* x. 2, 3. "Y mae gobaith i'r tlawd;" *Job.* v. 16. Go dda hefyd!—fod i'r tlawd le i ddisgwyl. Yn anghyngyl yn ddychrynllyd ar y drwg; pan dymr ymaith ei obaith, uffern fydd wedi hynny: *Job.* viii. 14. Yr oedd Job yn ei gystudd mawr yn clywed gan un o'i gyfeillion, "Hyderus fyddi hefyd o herwydd fod gobaith;" nid rhaid iddo orphen marw: *Job.* xi. 18. Hynny sydd yn gwneyd marw yn druenus—dim gobaith, ei obaith yn colli: *Job.* xiv. 19. Yr oedd Job yn tori ei galon pan fethodd obeithio: "A pha le yn awr y mae fy ngobaith; pwy hefyd a genfydd fy ngobaith?" *Job.* xvii. 15. Nid oes genyf le i ddisgwyl. "Y mae efe yn fy ninystrio oddi amgylch; yr ydwyf yn myned ymaith; efe a symmudodd fy ngobaith fel pren;" *Job.* xix. 10. Cyfrifai Dafydd hi yn dda ar y trueniaid, er yn isel, gan fod ganddynt le da i

ddisgwyl: "gobaith y trueiniaid ni chollir byth;" *Salm* ix. 18. Elai Dafydd i'r bedd yn ddiogfn, am fod ei gnawd yno yn gor-phwys mewn gobaith. Hyn sydd yn rhoddi gwerth ar fywyd: "i'r rhai byw oll y mae gobaith." Gwerth yr efengyl ydyw ei bod yn gosod gobaith o'n blaen.

Y mae gan Dduw ei amser priodol a phennodol i drugarhau, i waredu ei bobl, ac i wrandaw neu ateb gweddi: 2 *Bren.* iv. 32—34. "Ti a gyfodi ac a drugarhei wrth Seion; canys yr amser i drugarhau wrthi; ie, yr amser nodedig a ddaeth;" *Salm* cii. 13—22; *Dan.* ix. 2, 3; a xi. 36. Yn nammeg y barnwr anghyfiawn, gofynir, "Oni ddial Duw ei etholedigion sydd yn llefain arno ddydd a nos, er ei fod yn hir oedi drostynt?" *Luc* xviii. 7. "Byddwch ymarhous hyd ddyfodiad yr Arglwydd:" *Iago* v. 7. Gallasai Duw fynegi amser pob addewid yn amlwg, ond ei guddio a wnaeth yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Y mae hyn yn rhoddi cyfle i ni ddangos ein ffydd fel Abraham, yr hwn "a aeth allan heb wybod i ba le yr oedd yn myned;" *Heb.* xi. 8. Y mae ffydd yn ymddiried yn Nuw heb wybod llawer o bethau; ond y mae yn gwybod pwy sydd ganddi i ymddiried ynddo. Y mae addewid Duw yn rhedeg yn aml fel afon o dan y ddaear: y mae hi yn rhedeg o hyd er ei bod o'r golwg. Bu o'r golwg yn hir gyda Joseph, Abraham, Moses, Dafydd, a Christ ei hunan: ond gwelid yn y diwedd fod cys-tuddiau y saint yn cael eu hanfon mewn trugaredd, a bod y ceryddon er eu lleshâd. "Pan nesaodd amser yr addewid, yr hwn a dyngasai Duw wrth Abraham, y bobl a gynnyddodd ac a amlhaodd yn yr Aipt" (*Act.* vii. 17): fel blodau a llysian wedi bod o'r golwg, pan nêsao y gwanwyn. Yr ydym yn rhy dueddol i benu yr amser wrth ein blysian, heb wybod pa bryd ydyw y goreu er ein lles; fel dyn a fuasai yn gosod ei *watch* wrth ei gylla ei hun, yn lle wrth yr haul, a dwrddio am na bâi y ciniauw yn barod wrth ei amser ef. Annogai Paul y Thessalon-iaid i beidio cymmeryd "eu siglo yn eu meddwl na'u cynnhyrfu fel pe bâi dydd Crist yn gyfagos." Nid fod eu hymwared yn nesau a fuasai yn tueddu i'w siglo, ond fod hyn yn anghyd-unol âg amser Duw, yr hwn a ddywedodd "y deuai ymadawiad yn gyntaf, a dadguddio y dyn pechod—mab y golledigaeth."

Daw yr addewid pan gyflawnir y pethau sydd i fod o'i blaen yn rhagbarotoawl iddi; felly yr addewid y cyfeiriwyd ati yn awr; ac felly yr oedd yr addewid fawr am ddyfodiad Crist yn y nawd; fel hyn hefyd yr oedd yr addewid am y dychweliad o Babilon. Yr un modd yr addewidion am fendithion ysbrydol; addawa Duw adfywio y credadyn, ac y mae yn gofalu am ddyod cyn iddo lethu: "Fel hyn y dywed y Goruchel a'r dyrch-fedig, yr hwn a breswylia dragwyddoldeb, ac y mae ei enw n sanctaidd, Y goruchelder a'r cyssegr a breswyliaf, a chyda'r

cystuddiedig a'r isel o ysbryd, i fywchau y rhai isel o ysbryd, ac i fywchau calon y rhai cystuddiedig." 'Iê, pa bryd?' 'Cyn iddo farw!' "Nid byth yr ymrysonaf, ac nid yn dragywydd y digiaf: o herwydd yr ysbryd a ballai o'm blaen i, a'r eneidiau a wnaethum i;" *Esa. lvii. 15, 16, &c.* 'Mi a ddeuaf,' medda Duw, 'cyn iddo ballu.' Fel y dywedwyd o'r blaen, y mae yr addewid ddywyfol fel afon dan y ddaear—y mae hi yn rhedeg pan y bydd o'r golwg.

II. *Eim dyledswydd ydyw disgwyl wrth yr Arglwydd.*

1. Y mae llawer yn gofyn heb ddisgwyl. Ond yr oedd y prophwyd hwn, ar ol gofyn, yn disgwyl. Byddai Dafydd yn disgwyl ar ol gweddio: "Cyfeiriaf fy ngweddï ger dy fron, ac edrychaf i fyny;" *Salm v. 3.* Dyn yn curo wrth ddrws gŵr mawr, ac yn myned ymaith yn y fan, heb ddisgwyl ateb, a fyddai yn ei watwar. Gofyn i Dduw lwyddo pregethiad a efengyl, ond cysgu pan y bydd yn cael ei phregethu; gofyn am iddo achub y plant, ond dim awydd am hynny, na son am grefydd yn eu clyw—dyna ofyn, heb ddisgwyl nac ymdrech. Rhoddir mwy o hyder ar ddeddfau natur nag ar addewid Duw. Nid ydynt yn hau heb ddisgwyl ffrwyth; edrychant yn amlyfydd egin. Rhoddir mwy o hyder yn y môr anwadal: nid anfonant long allan heb holi a disgwyl yn bryderus am e dychweliad gydag ereill. Os anfonir llythyr, disgwylir ateb. Pa fodd na ddisgwylit ateb i'r llythyr a anfonaist i'r nef? Yn enwedig pan anfonir llythyr at ŵr mawr, ac ar beth o bwys, disgwylir yn fwy am ateb. Ai Dafydd at Dduw ar ol gweddio, ddyweyd wrtho ei fod wedi gweddio, ac i grefu arno wrandaw: "Gelwais arnat; canys gwrandewi fi;" *Salm xvii. 6.* "Fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd, ac ni wrandewi; y nos hefyd, a nid oes osteg i mi;" *Salm xxii. 2.* "Disgwyliais yn ddyfal am yr Arglwydd, ac efe a glybu fy llefain;" *Salm xl. 1.*

2. *Achosion* disgwyl wrth yr Arglwydd. (1.) Arg-hoeddiad o wagedd a thwyll y creadur. (2.) O allu Duw i waredu. (3.) O'i barodrwydd i faddeu: *Salm cxxx.* (4.) Profiad o'i gymdeithas (*Rhuf. viii. 23*), a'i ddaioni: *Salm lxxvii. 7.* (5.) Credu yr addewid (*Act. xxvi. 6, 7*). "Ffydd yn wir y sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio;" *Heb. xi. 1.*

3. *Beth yw* disgwyl wrth yr Arglwydd. Nid ymaros yn ddifater ydyw. (1.) Cynnwysa awydd a syched parhaus am y peth oddi ar deimlad o'i werth: "Fel y brefa yr hydd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw!" *Salm xlii. 2.* "I weled dy nerth a'th ogoniant, fel y'th welais yn y cyssegr;" *Salm lxxiii. 2.* "Mor hawddgar y dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd! Fy enaid a hiraetha, iê, ac a flysia am gynteddau yr Arglwydd: fy nghalon a'm cnsawd

a waeddant am y Duw byw;" *Salm* lxxxiv. 12. "Diffygiodd fy enaid am dy iachawdwriaeth: wrth dy air yr ydwyf yn disgwyl. Y mae fy llygaid yn pallu am dy air, gan ddywedyd, Pa bryd y'm dyddeni? Canys ydwyf fel costrel mewn mŵg; ond nid anghofiais dy ddeddfau;" *Salm* cxix. 81—83. "Hiraethais, O Arglwydd! am dy iachawdwriaeth; a'th gyfraith yw fy hyfrydwch;" cxix. 174. "Fy enaid sydd yn disgwyl am yr Arglwydd yn fwy nag y mae y gwylwyr am y boreu; yn fwy nag y mae y gwylwyr am y boreu;" cxxx. 6. "A'm henaid y'th ddymunais liw nos; a'm hysbryd hefyd o'm mewn y'th foreu geisïaf: canys preswylwyr y byd a ddygant gyfiawnder, pan fyddo dy farnedigaethau ar y ddaear;" *Esa.* xxvi. 9. "A'r un ffurnd y mae yr Ysbryd hefyd yn cynnorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddiom, megys y dylem: eithr y mae yr Ysbryd ei hun yn erfyn trosom ni âg ocheneidiau anhraethadwy;" *Rkuf.* viii. 26. Nis gall fod teimlad o angen mawr am y peth na welwyd gwerth mawr ynddo; y mae nerth y disgwyliad yn ateb i'r gwerth a roddir ar y peth: fel un yn disgwyl pardwn ar gael ei gollu, neu ddisgwyl meddyg. Teimlir awydd cryf fel syched, neu fel hiraeth y gwylwr am y boreu: darlunir ef fel "ocheneidiau anhraethadwy;" "A'm henaid y'th ddymunais liw nos, a'm hysbryd o'm mewn y'th foreu geisïaf;" awydd mwy nag am arian ac aur: "Hiraethais am dy iachawdwriaeth"—teimlad cryf yw hiraeth: "Diffygiodd fy enaid am Dduw." (2.) Gradd o hyder yn addewid a fyddlondeb Duw ydyw: "Yna yr atebaf i'm cablydd: o herwydd yn dy air y gobeithiais. Na ddwg dithau air y gwirtonedd o'm genau yn llwyr: o herwydd yn dy farnedigaethau di y gobeithiais. Cofia y gair wrth dy was, yn yr hwn y peraisst i mi obeithio. Y rhai a'th ofaant a'm gwelant, ac a lawenychant; o blegid gobeithio o honof yn dy air di. Diffygiodd fy enaid am dy iachawdwriaeth: wrth dy air yr ydwyf yn disgwyl;" *Salm* cxix. 42, 43, 49, 74, 81. "Am hyny mi a edrychaf ar yr Arglwydd, disgwyliaf wrth Dduw fy iachawdwriaeth: fy Nuw a'm gwrendy. Na lawenycha i'm herbyn, fy ngelynes: pan syrthiwyf, cyfodaf; pan eisteddwyf mewn tywyllwch, yr Arglwydd a lewyrcha i mi. Dioddefaf ddiig yr Arglwydd, canys pechais i'w erbyn (hyd oni ddadleuo fy nghŵyn, a gwneuthur i mi farn: efe a'm dwg allan i'r goleuad, a mi a welaf ei gyfiawnder ef;" *Micah* vii. 7—9. "A'r Arglwydd a atebodd ac a ddywedodd, ysgrifena y weledigaeth, a gwna hi yn eglur ar lechau, fel y rhedo yr hwn a'i darllo. Wele, yr hwn a ymchwydda, nid yw uniawn ei enaid ynddo: ond y cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd;" *Hab.* ii. 2, 4. "Am hyny na fwriwch ymaith eich hyder, yr hwn sydd iddo fawr wobr. A'r cyfiawn a fydd byw trwy ffydd: eithr o thyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo;" *Heb.* x. 35, 38.

Y mae rhai yn llawn o hyder pan y llewyrcho Duw, ond ni fedrant deimlo awdurdod yr addewid yn aros, a'i defnyddio i ostegu eu hofnau a'u gwrthddadleuon; fel yr oedd Jacob (*Gen.* xlv. 26); felly y mae llawer gyda golwg ar Grist, yr hwn sydd yn llywydd y nef.

(3.) Arosiad amyneddgar am yr amser i'w derbyn. "Da yw gobeithio a disgwyl yn ddistaw am iachawdwriaeth yr Arglwydd;" *Galar.* iii. 26. "Distawa yn yr Arglwydd a disgwyl wrtho;" *Salm xxxvii.* 7. "Ymddarostyngwch dan alluog law Duw—gan fwrw eich holl ofal arno ef;" 1 *Pedr.* v. 6, 7. "Mi a edrychaf ar yr Arglwydd; disgwyliaf wrth Dduw fy iachawdwriaeth." "Dioddefaf ddig yr Arglwydd, canys pechais i'w erbyn, hyd oni ddadleuo fy nghŵyn:" yn nghyflawnder yr amser y gwna efe y cwbl.

(4.) Ymddiried yr achos i Dduw, gan hyderu ar ei ofal. "A meibion Judah a orfuant o herwydd iddynt bwyso ar Arglwydd Dduw eu tadau," mewn amser hynod o beryglus—yn y rhyfel, a'r gelynyon yn ol ac yn mlaen. "Ymddarostyngwch, gan hyny, dan alluog law Duw—gan fwrw eich holl ofal arno ef;" "Na ofelwch am ddim, eithr yn mhob peth mewn gweddi ac ymbil, gyda diolchgarwch, gwneler eich deisfyiadau yn hysbys ger bron Duw." "Bwrw dy faich ar yr Arglwydd, ac efe a'th gynnal; ni ad i'r cyfiawn ysgogi byth."

3. *Pa fodd* i ddisgwyl. (1.) Y mae disgwyl yn ol ei ewyllys ef am bethau addawedig, oddi ar ffydd yn ei addewid, yn sicr o lwyddo. "Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio;" *Heb.* xi. 1. Oddi ar gred i eirwiredd dyn y disgwylir wrth ei addewid; oni buasai iddo addaw ni buasai genym un sail i obeithio: "Gobaith yr addewid" ydyw (*Eph.* iii. 16): fel y claf wedi anobeithio, os dywed y meddyg y caiff wellhau—os cred yn ei eirian, efe a obeithia. Y mae rhai yn disgwyl pethau heb addewid—llwyddiant bydol, esmwythder, &c. Addewid yw sail gwir ddisgwyliad. Disgwylir am bethau addawedig ar sail addewid: "Wrth dy air yr ydwyf yn disgwyl." "Y mae fy llygaid yn pallu am dy air." "Myfi a wn y meddyliau yr ydwyf fi yn eu meddwl am danoch chwi, medd yr Arglwydd, meddyliau heddwch, ac nid niwed, i roddi i chwi y diwedd yr ydych chwi yn ei ddisgwyl;" *Jer.* xxix. 11. Disgwyl yn unol â meddwl Duw ydyw disgwyl yn ol ei addewid:—"Disgwyliaf am yr Arglwydd: disgwyl fy enaid, ac yn ei air ef y gobeithiaf;" *Salm cxxx.* 5. "Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio;" *Heb.* xi. 1. Ffydd yn ei Air ydyw sail gobaith. Y gau brophwydi a barasant i'r bobl ddisgwyl yn ofer; dywedasant, "Dywedodd yr Arglwydd; a'r Arglwydd heb eu hanfon;" *Ezec.* xiii. 6. Siomwyd hwy am fod yr Arglwydd heb ddywedyd. "Ar roddi o hono ef i chwi, yn ol cyfoeth ei ogon-

iant, fod wedi ymgadarnhau mewn nerth, trwy ei Ysbryd ef, yn y dyn oddi mewn; ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau chwi;" *Eph.* iii. 16, 17. Rhyfyg yw cymmeryd peth heb genad; ond nid ydyw yn rhyfyg ei gymmeryd gyda chenad. Rhyfyg fyddai i ti ddyfod at ddrws Duw i ofyn am drugaredd heb addewid. Dyben Duw yn rhoddi yr addewid oedd i fod yn sail i ni ofyn a disgwyl—nid yn unig i greu disgwyliaid ynom, ond hefyd i osod terfynau priodol i'n disgwyliaid; pan fyddo ein disgwyliaid yn myned dros gylch yr addewid. Y mae, nid yn unig yn ddisail, ond hefyd yn cynnyg sarhâd ar Dduw, ac yn ceisio niwed i ninnau, o herwydd ni attal efe ddim daioni oddi wrthym. Y mae yr addewid fel *bill* ar y *bank* yn hawl i'w chynnwysiad; y mae yr addewid fel *bold* i ni redeg ein dymuniadau iddi fel y *fettel* i'w holl gonglau, a dim drosodd. Fel y mae y gyfraith yn rheol i ni roddi allan ein cariad at Dduw, felly y mae yr addewid yn rheol i ni ddisgwyl ein holl angenrheidiau ar delerau yr addewid, fel y plygir y *plangciau* at *ffram* y llong. Pa mor eang bynag ydyw ein disgwyliaid, nid ydynt mor eang a'r addewid: "I'r hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno neu yn eu meddwl." Nid oedd Crist i gymmeryd swydd offeiriad heb ei alw gan Dduw; pa faint mwy rhyfyg ydyw i ti gymmeryd dim i'w ddisgwyliaid heb addewid Duw? Ni arddel Duw ddim ond a ordeiniodd efe. Hyd yn ddiweddar, nis gellid gyru llong ar y môr heb wynt; ni allasem ninnan hwylio ein llongau ar tôr daioni Duw oni bái gwynt yr addewid. Y mae rhai yn disgwyl heb sicrwydd: fel y claf am iechyd, neu y morwr am y porthladd—fel Esther am ffafr y brenin, fel Buonaparte am arbediad pan yn rhoddi ei hun i fyny i Prydain, a'r amaethwr am gynhauf da. Yr Iuddewon, wedi disgwyl am y Messia, a'i gwrthodasant pan ddaeth, am nad oeddynt yn disgwyl yn ol yr addewid:—daeth ef yn ol yr Ysgrythyrau. Gwylia dithau fethu trwy ddisgwyl yr Ysbryd felly yn ol dy fympwy, a methu ei adnabod. Nid ydyw Crist yn sicrhau dim i ni ond yr addewid: "Ysbryd y gwirionedd" sydd yn llefaru yn yr Ysgrythyrau.

(2.) Rhaid disgwyl wrth yr Arglwydd ar lwybr sanctaidd: "Na waradwydder neb sydd yn disgwyl wrthyt ti: gwaradwydder y rhai a droseddant heb achos;" *Salm* xxv. 3. Dyma y rheol sefydlog. Yn yr ail adnod, efe a weddia, "O fy Nuw! ynot ti yr ymddiriedais, na'm gwaradwydder;" (*adn.* 4) "Par i mi wybod dy ffyrdd;" (*adn.* 21) "Cadwed perffeithrwydd ac uniondeb fi, canys yr wyf yn disgwyl wrthyt." "Gwyn ei fyd y gŵr a osodo yr Arglwydd yn ymddiried iddo, ac ni thry at feilchion, nac at y rhai a wŷrant at gelwydd;" *Salm* xl. 4.

Disgwyl wrth Dduw, a rhodio yn arian, sydd fel un yn dis-

gwyl ffafwr gŵr mawr, ac yn ei ddirfrio a'i gablu o flaen ei wyneb; neu fel un yn disgwyl maddeuant gan ei gymmydog, ac yn parhau i droseddu waeth waeth; neu fel un yn disgwyl nwyddau, ac yn ymddiried mewn masnach, ac yn gweithredu pob twyll i'w diogelu. Nid yw Duw yn ymddiried ei fendithion i ni ond i'w defnyddio er ei ogoniant. Cymdeithasu â'r halogedig sydd groes i natur yr addewid, ac i'w dyben hefyd, sef gogoniant Duw.

Er nad ydyw ymarweddiad da yn teilyngu, etto y mae yn angenrheidiol, ac yn hanfodol i ddisgwyliad cywir: rhaid ymddiried i'r addewid i ddyben da. "Ac os ydych yn galw ar y Tad, yr hwn sydd heb dderbyn wyneb, yn barnu yn ol gweithred pob un, ymddygwch mewn ofn dros amser eich ymdeithiad;" 1 *Pedr* i. 17. Fel pe dywedai, "Os ydych yn meddwl gweddio, edrychwch ar holl ystâd eich rhodiad, o herwydd y mae efe yn barnu nid wrth y wedd yn unig, ond wrth y gweithredoedd. Y mae tuedd mewn disgwyl wrth Dduw, a chael lle i ddisgwyl, i annog y meddwl i ufuddhau iddo—fel y mae tuedd mewn anobaith i effeithio i'r gwrthwyneb.

Ceir rhai yn disgwyl wrth eu blys, ac nid wrth yr addewid; ond er cael felly, nid ydyw dan fendith. "Israel a fysisodd yn ddirfawr yn yr anialwch; ac ni ddisgwyliant wrth ei gynghor ef—ac efe a roddodd eu dymuniad iddynt." Felly llawer gyda chyfoeth: Ahab a'i winllan, Judas yn blyso yr arian, Samsón gyda'i wraig:—"Efe a anfonodd gulni i'w henaid."

(3.) Rhaid disgwyl yn ddyfal a pharhaus. "Disgwyliaf holl ddyddiau fy milwriaeth." "Wrthyt ti y disgwyliaf beunydd." "Disgwyliais yn ddyfal am yr Arglwydd, ac efe a ymostyngodd ataf:" "Fy enaid sydd yn disgwyl am yr Arglwydd, y fwy nag y mae y gwylwyr am y boreu." "Gwyn ei fydd yr hwn a wrandawo arnaf ac a wyllo yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau." "A'm henaid y'th ddymunais liw nos, a'm hysbryd o'm mewn a'th foreu geisias." Yr annuwiol a ddisgwyl mewn cyfyngder, ond "ni eilw efe ar Dduw bob amser." Y mae masnachwr yn barotach at alwad y *dealer* gwastadol na'r un achlysurol. Hen *ddealer*, wedi gwneyd ei *fortune*, oedd Dafydd: "Yr Arglwydd yw fy nghraig;" "ni byddaf fi yn ymofyn â neb arall; ato ef y byddaf fi yn myned bob amser," fel rhai gyda'r *doctor*. Rhaid gweddio beunydd, moli beunydd. Beunydd y mae Duw yn cyfranu i ni: bara o ddydd i ddydd; *Manna*, dogan dydd yn ei ddydd; "Gras yn gymmhorth cyfamserol," nerth yn ol y dydd. Yr ydym yn ymddibynu ar Dduw am bob peth bob munyd, heb ddim yn ol at y dyfodol; i.e. ein bywyd ei hun. Os na ddylem adael i'r haul fachludo ar ein digofaint, a adewir i'r haul fachludo mewn anghydfod â Duw? Barna y fam y plentyn sugno yn glaf os gad y fron am un diwrnod;

felly dy enaid dithau. Nid yw ein holl fywyd ond trosglwyddiad o un drugaredd i'r llall; gwaith Rhagluniaeth yw newid y llieiniau a hulo i bwrdd yn ddidor. Yr oedd aberth boreuol a phrydnawnol gynt, i ddangos addoliad a disgwyliad beunydd. Dafydd a weddiat seithwaith yn y dydd:—dyma ddisgwyl beunydd. Y mae llawer yn disgwyl yn ansefydlog, ar rai amserau yn fwy na'u gilydd, a thrwy ryw offerynau yn fwy na'u gilydd; y mae eu crefydd fel gwisg, yn daclus ar y Sabbath, ond yn arian ar hyd yr wythnos. Collodd Thomas, o ddiffyg bod beunydd gyda'r moddion: collodd llawer o blegid hyn, fel y milwr yn cysgu yn lle gwyllo; y morwynion ffol; y gelyn yn hau efran; muniad o anwyliadwriaeth a gwymppodd Lot, Dafydd, Samson, Pedr; y ddinas, y fyddin, y claf, y llong, y fasnach, y nodweddiad. Onid ydyw pob peth a weli, a glywi, ac a fwyteu, yn tueddu i alw dy feddwl at Dduw? Mor ynyfod yw yr enaid sydd â'i holl ddisgwyliad sefydlog wrth bethau anaddas i'r enaid; gallem wneyd adenydd o bob peth i ehedeg at Dduw. Nis gall dim dori ein cymmundeib â Duw yn y nefoedd; ar y ddaear hon y mae pob peth yn ei dori. Y pethau lleiaf a wna gwmmwl rhyngom a Duw—yn yr addoliad, swm plentyn yn dyfod i mewn, un yn pesychu; yn y teulu drachefn, gall swa y baban ddwyn y meddwl. Disgwyl yn ddyfal, fel dyn ar foddi yn y môr am y *life-boat*; fel un claf iawn yn disgwyl am y meddyg. Sefydogrwydd ydyw y prawf goreu o wirionedd crefydd, fel y gwelir yn eglur oddi wrth ddammeg y tŷ ar y graig. Nid oes neb yn disgwyl ffrwyth ar y ddaear ond ar adeg neillduol. Ofer yw disgwyl wrth law y boneddig, ond ar ddiwrnod pennodol i gyfranu: ond gelli ddyfod at ddrws Duw bob amser—gweddio yn ddibaid, yn wastad, ac heb ddiffygio. Nid oes treulio ar ei gyfoeth ef, ac nid oes diffygio ar ei dosturi a'i amynedd; y mae ei ddrws yn agored beunydd, ddydd a nos, i bawb. Nid oes byth anghyfleusdra arno, fel yr awgrymai Elias mewn gwawd am Baal, ei fod "naill ai yn ymddiddan, neu yn erlid, neu yn ymdeithio" (1 *Bren.* xviii. 27); ond pa waith bynag sydd ganddo mewn llaw, nid ydyw hyn yn rhwystr iddo wrandaw dy gŵyn di. Gall mor hawdd feddwl am fil ag am un, a gweithredu tuag at filiwn mor hawdd a thuag at un. Dyfal, didor, ydyw Duw yn cyfranu; gan hyny, yn ddyfal y dylet tithau ddisgwyl wrtho. Y mae ei drugaredd yn dyfod bob boreu o newydd: "dy fara a roddir i ti" o ddydd i ddydd yn ddidor; trugaredd sydd yn rhedeg atat yn ffrwd ddidor. Dichon ei bod weithiau yn uwch, ac weithiau yn is; ond er hyny, nid oes ball arni byth: byddai hyny yn uffern a damnedigaeth ar y byd. Nid ydyw cael un drugaredd yn esgusodi i ti roddi heibio disgwyl wrtho rhag llaw; o herwydd y mae dy angen mor fawr am y dyfodol ag ydoedd am yr hyn a gafwyd

o'r blaen. Nid oes un drugaredd bresennol yn dy ddiwalla at y dyfodol; canys ymddibynol ydwyt beunydd—ymddibynol ar Dduw, nid ar ei gyfraniadau—ymddibynol ar ei ofal parhaus, nid ar unrhyw ddarpariaethau o'i eiddo. Rhaid cael Duw ei hun—nid y ffrwd yn unig, ond y ffynnon, i roddi dwfr parhaus. Nid ydyw iachawdwriaeth mewn amser yn darparu dyn erbyn tragwyddoldeb, yn mhellach na'i gyfaddasu i ymddibynol ar Dduw byth am ei ddedwyddwch. Iarll Casilis, swyddog yn y tŵr, a gollodd fodrwy werthfawr. Un o'r milwyr a'i cafodd, ac a'i dygodd iddo; derbyniodd bum swllt, a gorchymyn iddyfod ato bob dydd i geisio pum swllt, hyd oni pharai efe iddo beiddio; ac felly y bu, nis gwn pa hyd. Felly y mae Duw yn dewis cyfranu beunydd. Dafydd a gychwynodd yr arch, ond trodd hi i dŷ Obed-edom pan welodd farw Uzza. Ei fai ef oedd hyn; yn lle cyflawni ei ddyledswydd, gan ymddiried yn yr Arglwydd, efe a lwfrhaodd yn ngwyneb rhwystr: 1 *Cron.* xiii. Gwelsid Isaac yn cloddio am ddwfr nes cael ffynnon o ddwfr rhedegog: *Gen.* xxvi. 19. Ni wyddom pa sawl gwrhyd y cloddiodd—ond hyd nes y cafodd ddwfr rhedegog. Y mae olwynion rhagluniaeth yn ymddangos i ni weithiau fel pe baent yn sefyll; ond y mae hi yn gweithio yn ddistaw ac yn ddirgel-aid bob amser.

(4.) Disgwyl yn llafurus gyda'r moddion. Y mae rhai yn disgwyl yn ddioglyd. "Liw nos yn fy ngwely y ceisiais yr hwa a hoffa fy enaid." "Y diog a ddeisyf, ond ni chaiff." "Liw y diwyd a gyfoethoga" mewn natur a gras. "Os gwaeddi ar ol gwybodaeth, os codi dy'lef am ddeall; os ceisi hi fel arian, os chwili am dani fel am drysorau cuddiedig." Nid oes neb yn ceisio arian a thrysorau heb arfer rhyw foddion i'w cael. Gwyr pawb na cheir arian wrth eistedd: "Gwyn ei fyd yr hwa a wrandawo arnaf, ac a wyllo yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau, gan warchod wrth byst fy mhyrth i;" *Diar.* viii. 34. "Ac erioed ni chlywsant, ni dderbyniasant â chlustiau, ac ni welodd llygad, O Dduw! ond tydi, yr hyn a ddarparodd efe i'r nebs ddisgwyl wrtho. Cyfarfyddi â'r hwn sydd lawen, ac a wna gyfiawnder; y rhai yn dy ffridd a'th gofiant di;" *Esa.* lxiv. 4, 5. Nid oes dim i'w ddisgwyl heb arfer moddion. Wedi i Jehoshaphat weddio, a rhoddi ei hyder ar yr addewid, i ddisgwyl wrth Dduw, yna efe a aeth allan i ymladd: 2 *Cron.* xx. 12. Efe a hōna ymddiried yn Nuw: "Ni wyddom ni beth a wnawn; ond arnat ti y mae ein llygaid ni." Nid oedd raid iddynt ymladd ond myned a sefyll yn llongydd i weled ymwardd yr Arglwydd iddynt.

(5.) Disgwyl yn galonog a gwrol. Y mae rhai yn disgwyl yn wanaidd a llesg: nid ydyw eu disgwyliad yn dwyn dim nerth iddynt. Un yn disgwyl am gynnorthwy cryf, er nad yw

ond gwan ei hun, sydd er hyny yn galonog a gwrol. Onid yw yn briodol i'r hwn sydd yn hyderu ar yr Hollalluog fod yn hyf i gwrol? "Disgwyl wrth yr Arglwydd; ymwrola, ac efe a nerthaly galon:" i'th annog i ymwroli, dywed, "Disgwyl meddaf wrth yr Arglwydd." Efe a ddywed, "Digon i ti fy ngras i, canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid. Yn llawen iawn, gan hyny, yr ymfrostitaf yn fy ngwendid, fel y preswyllo nerth Crist ynof i." Dyma ddyng gwrol:—"am hyny yr wyf yn foddolawn mewn gwendid, mewn ammharch, mewn anghenion, mewn erlidiau, newn cyfyngderau, er mwyn Crist; canys pan wyf wan, yna yr wyf gadarn." Pa ham yr wyt ti mor wrol, Paul? 'Wel, lle da i gefais i ymddiried, Digon i ti fy ngras i.' Gan mai mewn gwendid y berffeithir nerth Duw, gwendid a'i pian hi; y gwan i'w y cadarnaf. Po mwyaf y gwendid, mwyaf y cymmorth; po mwyaf y perygl, cryfaf yr amddiffyn: y gwanaf yw y cadarnaf, gan mai o blaid gwendid y mae nerth Duw! Yr oedd Israel yn yr Aiph yn dawel mewn digalondid hyd nes i Moses ddwyn ddynt obaith ymwared; ond wedi iddynt ddeall a chredu fod Duw o'u plaid, gwrolwyd hwy nes codi allan er gwaethaf Pharaoh. Yr enaid sydd â'i obaith yn Nuw, nid hawdd ei ldigaloni; nid ofna niwed, o blegid y mae yn credu fod Duw yn noddfa ac yn nerth iddo: "Yr Arglwydd yw fy ngoleuni, hag pwy yr ofnaf."

(6.) Rhaid disgwyl yn amyneddgar a pharhaus.

(7.) Disgwyl yn hiraethlawn. Y mae rhai yn disgwyl mor arwaidd, fel prin y gallant hōni y dewisant gael y peth, yn ytrach na bod hebddo. Nid ydyw eu hawydd wedi cyfodi i yfattedb i werth y peth a ddisgwyliant, ac nid yw eu meddyliau wedi ei brisio yn ddigon uchel yn ngolwg Duw i'w roddi iddynt. In o ddybenion Duw, fe allai, yn trefnu fod i ni ofyn a disgwyl, ac yn ein cadw i ddisgwyl yn faith ydyw, ein cael i weled theimlo gwerth y peth a addawodd. Y mae llawer o obl yn teimlo rhyw gymmaint o awydd am grefydd; ond nid digon i'w cynnhyrfu i'w cheisio â'u holl galon. Gwir ddisgwyliad wrth Dduw—y mae yn cynnwys syched angerddol, wydd penaf yr enaid, y dymuniad mwyaf cryf ac awyddus. Sosodir ef allan yn y Beibl drwy "syched," "newyn," "hiraeth"—geiriau sydd yn gosod allan deimlad mwyaf bywiog ein atur. Y gair *disgwyl* a arwydda rhoddi bryd ar y peth, gyda ymuniad mawr am dano: "disgwyl fel y gwyliwr am y boreu," "f gyda hiraeth cryf. Y disgrifiad a roddir o deimlad mawr i'w, "cystudd ysbryd," "calon ddrylliog," "gweddio yn aer," "llefain," "gwaeddi," "heb adael distawrwydd iddo dydd na nos," yn ddibaid. "Ceisio â'r holl galon," a arwydda ceisio oddi ar y teimlad cryfaf—"ceisio fel ceisio arian." Disgwyliad wrth Dduw am iachawdwriaeth—y mae yn rhwym

o fod yn angerddol o hiraethus, gan ei fod yn tarddu oddi ar argyhoeddiad o bwys a gwerth y peth a ddisgwylir. Gwrthddrych y disgwiliad hwn sydd yn rhagori yn annhraethol yn ei bwys a'i werth ar bob peth arall a ddichon ymgymhell i'r meddwl a'r serch. Ni ddaw ymgeisydd arall i ymgystadla âg ef: ond y gwrthddrych hwn a gymmer i fyny holl nerth yr enaid; caiff yr holl ysbryd ei yfed yn llwyr iddo; ymddengys y byd yn wagedd yn ei ymyl. Disgwyl am bethau mawr y nef a wna y byd fel yr ymddangosai yr asynod yn ngolwg Saut wedi iddo gael addowid am y deyrnas, neu fel tegantau plentynaidd yn ngolwg un wedi dyfod i oedran i dderbyn yr etifeddiaeth. Mor farw i'r byd oedd y disgwylwyr cywir, Abraham, Isaac, Jacob, Moses, Daniel, yr apostolion, &c.! Arferai y Mahometaniaid, wedi bod ar bererindod yn ngwlad bedd Mahomet, dynu eu llygaid rhag eu halogi mwy. Y Cristion a ddymunna gan ei lygaid ar bethau daearol, wedi cael golwg ar ei bethau nefol. Wedi i'r hen Simeon "weled iachawdwrisedd yr Arglwydd," yr oedd yn teimlo ei hun yn barod i ymadael o'r byd. Wedi i'r byd fyned yn fach yn ngolwg Abraham, ei holl fryd a'i ddisgwiliad oedd am "wlad well;" pererin oedd efe ar y ddaear. "Trwy fydd yr ymdeithiodd efe yn nhir yr addewid megys mewn tir dyeithr, gan drigo mewn lluesttai." Nid oedd yn werth ganddo fyned i'r drafferth i godi palas, "canyis disgwyl yr oedd efe am y ddinas" nefol. Nid ydyw yn hawdd crysylltu parhâd sefydlog â bywiogrwydd. Yr ydym yn dueddol i wneyd y peth sydd arferol iawn i ni yn gyffredin ac ysgafn: pethau anghyffredin sydd yn ein cyffroi i fywiogrwydd. Yr oedd prophwydi Baal yn selog ar Carmel, nes tori eu hunain â chylllyll ac ellynod, nes oedd eu gwaed yn ffrydio, am fod yr amgylchiad yn anghyffredin. Nid yn fynych y cyflawnir arfer sefydlog yn fywiog. Beth dâl aur mewn gwaith sanctaidd! Gadewch i ni offrymu yr hyn sydd yn fwy gwerthfawr, sef ceir oedd sanctaidd y meddwl. Indiaid America, wrth addoli, a arferant yru pren i lawr eu gyddfau nes cyfogi, i ddangos i'r eilun nad ydynt yn llochesu drwg dirgel yn y galon. Y mae rhai yn disgwyl mor ddifater, nid ydyw eu disgwiliad yn codi i nerth digonol i gynnyrchu gweddïau am y peth—nid ydyw rhai hyn yn disgwyl yn gywir. Cyssylltir disgwiliad gwriceddol bob amser â gweddïau. Dywed Eusebius fod allor yr Athen nad oedd un aberth i fod arni ond dagrau. "Jacob a wylodd, ac a orchfygodd;" *Hos.* ii. 4. Oni bai fod dagrau yn werthfawr, ni buasai gan yr Arglwydd gostrel iddynt: *Salm* lvi. 8.

(8.) Disgwyl gyda dyben da. Gellir disgwyl am ledæniad yr efengyl oddi ar deimlad sectaidd, ac i'r dyben o ddyrchafu plaid grefyddol; a gellir sychedu am dröedigaeth ein plaid oddi

ar ddyben hunanol, sef, er mwyn elw neu barch i ni ein hunain, trwy attal eu gwastraff a'u cywilydd; neu gellir dymuno madd-euant pechodau er mwyn y budd o hyny i ni ein hunain, ac nid gogoniant Duw. Gall tymmhestl cystudd beri iddo weddio i ddyben hunanol, heb olygu dim ond ei esmwythder ei hun. Y mae yn wir fod rhyddid i ni weddio am y lles mwyaf i ni ein hunain; etto, os llifa hwn dros y terfyn fel y diluw, a gorchuddio gogoniant Duw, y mae yn dimystrio pob gras. Yr hyn sydd fwyd iach mewn mesur bychan, a all fod yn niwed mewn mesur mwy. Gofynodd Adoniah am Abisag yn wraig: nid o gariad ati, ond i'r dyben o gael yr orsedd.

(9.) Disgwyl yn ostyngedig, gyda meddwl darostyngedig i ewyllys Duw am fendith ar y moddion. Y mae rhai yn disgwyl wrth yr Arglwydd i gyflawni rhyw gynlluniau y maent hwy eu hunain wedi eu tynu allan; ac nid oes i Dduw ganiatâd i gyfnewid dim ar y cynlluniau hyny, ond rhaid iddynt gael eu cario allan yn ol eu dyfais hwy, o ran y gwaith, yr amser, a'r moddion. Ond y mae y gwir weddiwr yn gyffelyb i'r cardotyn yn gofyn cardod: nid yw efe un amser yn nodi pa beth, na pha faint; y mae yn gadael ar ewyllys y cyfranwr i benderfynu hyny. Felly y gweddiai Dafydd yn fynych, "Trugarha wrthyf, Arglwydd, ac achub fi;" ond dewis di y moddion a'r amser. Fel y claf yn rhoddi ei achos i'r meddyg: efe a ddyry ei hun yn ei law, gyda hyder yn ei allu, ei wybodaeth, a'i ffyddlondeb, i'w iachau ef. Y mae llawer yn gofyn, ac yn disgwyl, i Dduw sefydlu eu serch ar "bethau sydd uchod," ail ennyn eu cariad at Dduw a Christ; ond pan welant y moddion a gymmer i wneyd hyny, y maent yn barod i weddio yn daerach am waredigaeth oddi wrthynt nag am gynnydd mewn cariad. Dichon mai cymmeryd oddi arnynt rywbeth oedd yn dwyn eu calopau yn ormodol—cyfoeth, neu gyfeillion, neu berthynasau—fydd y moddion i'w hadnewyddu mewn cariad at Dduw. "Ni welir un cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd;" er hyny, trwy geryddon y mae Duw yn fynych yn cyflawni disgwyliadau mwyaf hiraethlawn eneidiau grasol: yn "tynu ymaith y pechod," yn eu "gwneuthur yn gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef," yn "cau eu ffyrdd â drain a mieri," fel na chaffont fyned i rodio llwybrau pechadurus, ac yn eu "puro fel puro arian," i'w cymmhwysu i ogoniant. Yr oedd Abraham yn disgwyl cae Isaac yn fyw, ond nid yn ffordd Duw: disgwyl iddo fywhau oddi mewn yr oedd efe. Nid trwy y môr y buasem yn disgwyl iddo ddwyn y bobl—ni fuasem yn disgwyl dwfr o'r graig—ond felly y dewisodd efe. Buasem yn debycach o foddio pawb wrth gynllunio, na boddio Duw, o blegid y mae efe yn un mor dda ei hun. Y mae yn hawddach i ni ei wasanaethu wrth ei fodd na chynllunio iddo. Disgwyliai yr Iuddewon am waredigaeth o

Babilon trwy i'r ymherodraeth gael ei dryllio yn chwilfrw, neu trwy orfodaeth; ond ni ddychymygodd neb mai trwy Cyrus, y pagan, y gollyngid hwy yn rhydd, heb na gwerth na gwobrwy. Hwn a wregysodd Duw yn waredwr iddynt, er nad adwaenai Dduw. Ac ni feddyliodd neb y cawsent fyned i'w gwlad heb i ryw farn orfodi y brenin i'w gollwng yn rhydd, fel y gollyngwyd hwy o'r Aipt: ond "cyn ei chlafychu yr esgorodd, a chyn dyfod gwewyr arni y rhyddhawyd hi ar fab." Gwraig grefyddol, pan ofynwyd iddi ar ei chlaf wely, pa un a ddewisai, ai marw ynte byw, a atebodd—"Yr un a welo Duw yn dda." Gofynwyd iddi drachefn, "Pe y rhoddai Duw eich dewis i chwi, pa un a fyddai oreu genych?" dywedai hithau eilwaith, "Trown y dewis iddo ef yn ol." Dyma yr iawn ysbryd i ddisgwyl wrth Dduw—meddwl hollol blygedig i'w ewyllys Ef. Disgwyliwn ninnau wrth Dduw, yn yr agweddau a grybwyllwyd, am y pethau mwyaf a gwerthfawrocaf a fedd, ac ni'n gwaradwyddir byth!

P R E G E T H X X X V .

BYWYD TRAGWYDDOL.

1 *Timotheus* vi. 12.

“Cymmer afael ar y bywyd tragwyddol.”

BYWYD tragwyddol ydyw daioni neu ddedwyddwch penaf dyn—dedwyddwch perffaith, tragwyddol ei barhâd, a dedwyddwch ias gellir chwanegu ato byth. Pa fodd y mae dynion sydd yn gwybod eu bod i breswyllo tragwyddoldeb yn ddiotal am fywyd tragwyddol, sydd yn beth anhawdd rhoddi cyfrif am dano, ac ieb un rheswm drosto. Y mae y diotalwch mawr hwn, pa fodd bynag, y rhyfyg mwyaf yn yr holl greadigaeth. Y mae yn cynnwys yr ysgelerder a'r creulondeb mwyaf a gyflawnwyd o'ioed; y mae yn fwy na chreulondeb yr erlidiwr tuag at y nerthyr. Yr oedd creulondeb yr erlidiwr yn cael ei dywallt ar arall, ond y mae hwn yn greulawn wrtho ei hun: yr oedd creulondeb yr erlidiwr yn cael ei dywallt yn unig ar y corph, ond y mae hwn yn greulawn wrth ei gorph a'i enaid: yr oedd creulondeb yr erlidiwr yn myned drosodd mewn amser byr, ond bydd hwn yn dioddef o herwydd y creulondeb a wnaeth â'i enaid i dragwyddoldeb! Yr ydym yn arfer gofalu a phryderu ynghylch ein materion yn gyfattedbol i'r pwys a briodolwn ddynt. Yr ydym yn cyfrif y materion hyn yn bwysig iawn, a rhai sydd yn ymddangos i ni fel yn debyg o gael effaith mawr ar ein dedwyddwch yn y byd yma: nis gallwn fod yn dawel i'w gwneud y byddwn wedi cael y materion hyn i sefyllfa foddhaol. Pe naem yn teimlo ac yn pryderu ynghylch ein holl faterion yn gyfattedbol i'r pwys sydd ynddynt, bywyd tragwyddol a fyddai wrthddrych mwyaf ymddiddan dynolryw yn mhob cyleh; ac ymddiddanion ynghylch bod yn gadwedig a lanwent yr holl yd. Pan y cyfaryddai dau gymmydog ar y ffordd, nid gofyn 'pa fodd y bydd yr iechyd,' a gwneuthur sylwadau ar y tywydd, a fyddai yr ymddiddan, ond rhywbeth ynghylch bywyd tragwyddol: 'Anwyl gyfaill, a gefaist ti brofiud o heddwch Duw

yn dy enaid? A oes genyt sicrwydd dy fod yn Nghrist? A gefaist ti arwyddion ynot dy hun dy fod yn cael dy wneuthur yn gymmhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni." Ymddiddanion ynghylch bywyd tragwyddol a'i berthynasau pwysig fyddent ar bob aelwyd, rhwng yr holl deulu bob boreu: y rhieni a grybwyllent wrth y plant y "pethau mawrion" a berthynent i'w tragwyddol heddwch; am y pethau hyn y crybwyllent pan yr eisteddent i lawr, pan gyfodent i fyny, a phan y cerddent ar hyd y ffordd, &c. Fe allai nas gellid cau allan bwnge mawr bywyd tragwyddol o'r ymddiddan mewn ffair a marchnad. Y mae y dyn sydd yn edrych i'r byd tragwyddol yn edrych ar y byd hwn yn ddibwys, mewn cymmhariaeth i'r byd mawr hwnw. Pe cai mater mawr bywyd tragwyddol y lle yn meddyliau dynion y mae ei bwysfawrawgrwydd yn ei haeddu, fe delid llai o sylw i faterion dibwys y byd hwn, helyntia teyrnasoedd, cwrs masnach, celfyddydau, a gweithrediadau y seneddau—materion sydd yn cael braidd holl sylw cenedloedd y ddaear; ymddangosai y pethau hyn yn ymyl pwnge mawr bywyd tragwyddol yn wir wagedd. Dyben Duw yn rhoddi y Beibl i'r byd ydoedd dadguddio fod bywyd tragwyddol i'w gael, gyda chyfarwyddiadau pa fodd i'w gyrhaedd.

Priodolir tri bywyd i'r Cristion: bywyd naturiol, bywyd ysbrydol, a bywyd tragwyddol. Y mae wedi derbyn y bywyd naturiol drwy genhedliad, a'r bywyd ysbrydol drwy adgenhedliad, ac y mae y bywyd tragwyddol yn ei aros tu draw i angau. Y mae y bywyd naturiol yn gwneyd dyn, y bywyd ysbrydol yn gwneuthur sant, a'r bywyd tragwyddol yn gwneuthur saith perffaith. Y mae y bywyd naturiol yn gymmhwysder i'r bywyd ysbrydol: nis gellir rhoddi delw Duw ar anifail; ond y mae dyn yn gyfaddas o ran ei alluoedd i adnabod Duw, i dderbyn ei ddelw, ac i gynnal cymmundeb âg ef: felly hefyd y mae y bywyd ysbrydol yn gyfaddasrwydd i'r bywyd tragwyddol. "Heb sancteiddrwydd, ni chaiff neb weled yr Anglwydd." "Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw." "Syniad yr Ysbryd, bywyd a thangnefedd ydyw." Y mae hyn yn gyfraith gyda Duw, "Nad ä i mewn yno ddim aflan." "Ffordd gul sydd yn arwain i'r bywyd." Y rhai sydd yn hau i'r cnawd, o'r cnawd a fedant lygredigaeth. Y rhai sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fedant fywyd tragwyddol. Pe na buasai cyfraith wedi ei gosod am hyn, buasai y peth yn amhossibl ynddo ei hun. Y mae sancteiddrwydd yn gymmhwysder anhebgorol angenrheidiol i fwynhau bywyd tragwyddol. Trwy sancteiddio y saint y mae Ysbryd Duw yn eu gwneuthur yn "gymmhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni." Cymdeithasu â Duw mewn Cyt-ryngwr ydyw bywyd tragwyddol. Dedwyddwch y gwaredigion

fydd edrych ar ogoniant yr Arglwydd, ei garu, ac ymddiried ynddo. Nis gellir cymdeithasu â Duw heb sancteiddrwydd; nis gellir ymhyfrydu yn ei ddaioni a'i burdeb heb fod ar ei ddellw. Y mae yr un elfen yn effeithio yn wahanol ar ddedwyddwch creaduriaid o wahanol dueddiadau. Yr un elfen sydd yn boddi rhai creaduriaid ag sydd yn elfen ac yn egwyddor bywyd mewn creaduriaid ereill.

Yr ydym wedi dewis mater i alw eich sylw ato nad ydym yn gwybod ond ychydig am dano. Y mae wedi ei ddadguddio mewn rhan, ac wedi ei adael hefyd mewn rhan fawr yn ddirgelwch. Nid ydym erioed wedi gweld bywyd tragwyddol, er i ni weled llawer yn myned iddo. Nid oes neb yn dychwelyd i roddi ei hanes i ni. Nid allaf fi roddi fawr o hanes i chwi am y byd tragwyddol wedi cymmeryd testyn fel hyn: ni fuom i erioed yn rhoi tro yno, nid ydwyf fi ddim wedi ymgydnabyddu fawr â'r lle, ac ni ddygwyddodd i mi gyfarfod â neb oddi yno. Yr wyf wedi fy ngadael yn lled dywyll ac anwybodus am y byd sydd tu draw i'r llen. "Nid amlygwyd" yn y Beibl "etto beth a fyddwn." Ychydig a wyddom pa beth a fuom; ychydig a wyddom pa beth ydym yn awr; allai na hyny a wyddom beth a fyddwn. Y mae y byd mawr tragwyddol i fesur mawr yn dywyll i ni. Y mae amryw o anhawsderau mawrion i wneuthur bywyd tragwyddol, a gogoniant a dedwyddwch y nef, yn berffaith adnabyddus i ni yn y byd hwn. Fe allai fod ein hiaith yn rhy egwan. Nid yw ein hiaith ni yn y byd hwn wedi ei bwriadu na'i chyfaddasu i osod allan holl ogoniant a dedwyddwch y pethau nefol. Iaith fach ydyw iaith y ddaear, wedi ei bwriadu a'i chymmhwysu i ni i drosglwyddo ein meddyliau i'n gilydd yn nghylch pethau bach y ddaear; nid ydyw wedi ei chymmhwysu i gymmeryd i mewn holl fawredd, a gogoniant, a dedwyddwch y saint yn y byd a ddaw. Y mae ei ffrydiau yn rhy fâs i lestri trymion y byd tragwyddol nofio ynddynt; a'i hystafelloedd yn rhy gyfyng i wrthddrychau anfeidrol gael eu cynnwys ynddynt. Dywedir fod yr hen ieithoedd gwreiddiol yn gryfion iawn—fod yn perthyn iddynt ddrychfeddyliau nerthol. Yr oedd yr apostol Paul yn eithaf medrus yn y Groeg a'r Hebraeg; ac yr oedd yn ŵr galluog i ddefnyddio iaith, yn alluog i'w thynu ar ei hegri; ond wedi iddo fod yn y drydedd nef, dywedai iddo gilydd a gweld pethau annhraethadwy, pethau mor fawrion fel na chymmerai yr ieithoedd hyny mo honynt i mewn. Y mae hwystr arall i roddi dadguddiad llawn o ogoniant a mawredd y bywyd tragwyddol yn ein cyfansoddiad ni ein hunain. Y mae llyn yn ddwy ran; sef, corph ac enaid. Y mae deddfau yr un-leb rhwng y corph a'r enaid y fath, fel y maent yn peri fod ynnhyrfaadau uchel ar feddwl dynion wedi achosi i'w gwaed gael i yru gyda'r fath gyflymder yn ei gylchrediad nes iddo dori y

Ilestri, ac felly achosi marwolaeth y corph. Y mae yn debyg mai gyda golwg ar hyn y dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, "Ni'm gwél dyn, a byw." Pe buasai yr Arglwydd yn rhoddi i Moses y graddau hyny o amlygiad o'i ogoniant oedd Moses wedi eu gofyn, buasai hyny yn codi ei feddwl mor uchel fel ag i achosi marwolaeth y corph; ac am hyny, y mae yn caniatáu iddo amlygiad llai: "A'm tu cefn a gai di ei weled." 'Pe cait ti olwg lawn ar fy ngogoniant, Moses, fe godai hyny dy feddwl di i weithredu gyda'r fath nerth a bywiogrwydd, nes dryllio dy gorph di mewn munyd!' Y mae yn rhaid i ni gael cyrph ysbrydol, fy mhobl i, i ddal "tragwyddol bwys gogoniant," a hwy a fyddant i'w cael pan fydd achos am danynt. Diolch i ti, O Arglwydd! nid-oeddwn i yn cofio bob amser dy fod yn diogelu fy mywyd yn hyn! Yr ydym wedi derbyn gwaredigaethau gan Dduw mewn miloedd o ffyrdd na wyddem ni am danynt ericed!

Pe buasai Duw yn agor wyneb y byd tragwyddol yn gyflawn o flaen llygaid dynion yn y byd hwn, fel ag i'w gallnogi i weled yn eglur i mewn i nefoedd y gogoniant, a gweled yn eglur waeau ofnadwy y damnedigion, dyrysai hyny drefn ein byd ni. Nis gallai dynion feddwl am ddim arall; cai holl faterion y ddaear eu hesgeuluso yn hollol; cymmerid i fyny sylw yr holl genhedloedd gan bethau mawrion byd arall. Gallasai Duw roddi llygaid i ddim i weled yn eglur y bydoedd uwch ben; gallasai roddi llygaid i rai weled eu preswylwyr, i weled dinasoedd, ac i adnabod ynddynt ffrwyth celfyddyd; ond buasai hyny yn gosod dynion ar y ddaear dan demtasiwn gref i edrych i fyny yn ddi-dor. Buasai rhyw ryfeddodau newyddion yn tynu eu sylw yn wastadol; cawsai eu galwedigaethau bydol eu hesgeuluso, trwy fod eu meddyliau yn cael eu sugn-dynu i edrych ar ryfeddodau y ffurfafen. Ond beth pe buasai nefoedd ac uffern yn hollol agored ac eglur o flaen y llygaid bob dydd! nis gallasem feddwl am ddim arall. Pe buasai Duw yn rhoi golwg lawn ar y byd tragwyddol, buasai hyny yn dyrysu pethau y byd hwn. Pe cait ti olwg lawn, eglur, ar ogoniant y nef, y mae yn debyg iawn mai pethau y nefoedd a ddygent dy feddwl, ac na fyddet o ddim gwerth i dy osod wrth *gounter*, nac mewn *office*, na dim. Pethau y byd tragwyddol a aent á'th feddwl i gyd. Mi dybygwn i mai da y gwnaeth Duw, i gadw llen ar bethau y byd tragwyddol, onidê ni buasai yma drefn ar ddim, ni allasai neb gael eu meddwl at ddim; buasai ein meddyliau wedi eu llyngcu i fyny, a'u gwfreiddio yn dragwyddol y tu hwnt i'r llen, fel nad allasem ni ysgogi byth oddi yno. Da y gwnaeth Duw adael llen rhyngom a'r byd anweledig, a'n cau i fyny mewn cylch hychan, i gadw trefn y byd hwn i fyny.

Bywyd tragwyddol "tyrfa fawr na ddichon neb eu rhifo"—y

mae yn ymddangos yn ddyben teilwng o greadigaeth y byd, a'r cwblsydd ynddo. Nis gallwn weled dim arall yn cynnwys daioni digon mawr fel dyben i fod yn werth i Dduw greu y byd hwn er ei fwyn. Nis gellir gweled doethineb Duw yn nghreadigaeth y byd, a'r cwblsydd ynddo, ond trwy edrych ar bob poth a grewyd fel darpariaeth neu ragbarotoad i gyfodi miliynau dirif i'r bywyd tragwyddol. Y mae doethineb yr awdwr yn ymddangos nid yn unig yn nghyfaddasrwydd y moddion a ddewisir ganddo, ond hefyd yn nheilyngdod a gwerth y dyben a ddygir oddiamgylch ganddo. Gallwn wneuthur peiriant mawr, a gall fod ei holl ranau yn gyfaddas i ateb dybenion penodol; ond os bydd y peiriant ar ol y cwbl, wedi ei orphen, heb fod yn gyfaddas i ateb rhyw ddyben eithaf o bwys a gwerth; os bydd y draul o'i wneuthur i fyny yn fwy na'r budd a geir oddi wrtho, ni chyfrifir y dyn hwnw yn ddoeth. Ni chyfrifid un dyn yn gall pe rhoddai mwy o swm o arian am long na'r ennill a ellid ei ddisgwyl oddi wrthi; ni chyfrifid y dyn hwnw yn ddoeth a dreuliai fwy o swm o arian i ddiwyllio darn o dir nag y gall y ffrwyth byth ei dalu yn ol. Y mae y doeth â'i olwg ar ddyben sydd yn fwy ei werth na'r moddion a ddefnyddir ganddo i'w gyrhaedd. Y mae doethineb Duw i'w weled yn nghyfaddasrwydd pob peth yn y greadigaeth i ateb is ddybenion; cyfaddasrwydd yr awyr yn anadl i ni, cyfaddasrwydd y dyfroedd i feithrin llysiau, ac i fod yn wasanaethgar i gynnal bywyd, cyfaddasrwydd pob elfen, a phob peth sydd yn tyfu o bridd y ddaear, i ateb rhyw is ddybenion. Ond er fod holl ranau aneirif y peiriant mawr wedi eu cyfaddasu i ateb eu dybenion priodol, ni buasai hyn oll yn amlygiad o ddoethineb y Creawdwr, pe buasai yr holl beiriant mawr heb ateb yr un dyben mawr a chyffredinol—y lyben eithaf; sef, dyben yn werth rhoddi yr holl gywreinaeth yr y peiriant er mwyn ei gyrhaedd; a dyben fydd yn aros mewn bod yn ei werth wedi i'r peiriant orphen ei waith. Nid ydyw yn bossibl i'r greadigaeth dalu am ei chren, ond trwy fod yn wasanaethgar i sefydlu miliynau dirif mewn dedwyddwch perffaith, i gynnal cymmundeib didor â'r Duw anfeidrol, ac i'w addoli mewn purdeb yn oes oesoedd. Os caiff fod yn wasanaethgar mewn rhan fechan i gyrhaedd hyn, gallwn edrych uni wedi talu am ei chren—yr oedd yn werth rhoi bod iddi er nwyn cael hyn o wasanaeth. Crëwyd pob peth i fod at wasanaeth yr amcan mawr sydd wedi ei ymddiried i'r Cyfryngwr; sef, gwaredu pechaduriaid o feddiant Satan, a'u gwneuthur yn ddedwydd am dragwyddoldeb:—"Gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'n gwanaeth ni yn gymmhws i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn goleuni. Yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddiant y tywllwch, ac a'n symmudodd i deyrnas ei anwyl Fab. Yn yr hwn mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau.

Yr hwn yw delw y Duw anweledig, cyntafanedig pob creadur: canys trwyddo ef y crewyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig; pa un bynag ai thrônau, ai arglwyddiaethau, ai tywysogaethau, ai meddiannau; pob dim a grewyd trwyddo ef, ac erddo ef. Efe yw pen corph yr eglwys: efe yr hwn yw y dechreuad, y cyntafanedig oddi wrth y meirw; fel y byddai efe yn blaenori yn mhob peth. O blegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef [mrag at ddwyn miliynau i'r bywyd tragwyddol]. Ac wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef, trwyddo ef gymmodi pob peth âg ef ei hun—trwyddo ef, meddaf, pa un bynag ai pethau ar y ddaear, ai pethau yn y nefoedd. A chwithau, y rhai oeddych ddyeithriaid a gelynonion mewn meddwl trwy weithredoedd drwg, yr awr hon hefyd a gymmododd efe, yn nghorff ei gnawd ef trwy farwolaeth, i'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd, ac yn ddifeïus, ac yn ddiargyhoedd ger ei fron ef." Ni a welna oddi wrth y geiriau hynod hyn mai yr amcan mawr oedd gan yr Arglwydd mewn golwg pan yn creu y byd, yn gosod y byd dan awdurdod ac at wasanaeth y Cyfryngwr, yn rhoddi awdurdod i'r Cyfryngwr dros bob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, yn ei osod yn ben corph yr eglwys, yn ei wneuthur yn gynafanedig oddi wrth y meirw, yn gwneuthur heddwch trwy waed ei groes ef, ac yn cymmodi pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear âg ef ei hun, ydoedd—"i'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd, ac yn ddifeïus ger ei fron ef." Nid ydym yn gallu gweled fod holl waith mawr creadigaeth a rhagluniaeth Duw yn ateb un dyben pwysig a gwerthfawr—yn ateb un dyben digonol ei werth i fod yn dâl am yr holl waith mawr ac annhraethadwy—na bod yn bossibl i ddim ateb un dyben arall teilwng o'r holl fawredd, ond yn unig trwy fod yn wasanaethgar i ddwyn yn mlaen fywyd tragwyddol.

Y mae yn amlwg fod pob peth sydd yn y byd yma wedi ei greu at wasanaeth dyn—pob peth wedi ei ddarostwng dan ei draed ef—pysg y môr ac ehediaid y nefoedd, a phob creadur, wedi eu rhoddi o dan ei arglwyddiaeth ef. Fe roddodd Duw y ddaear i feibion dynion: y mae holl elfenau natur yn cyflawn eu gwasanaeth i ddyn; y mae pob peth sydd yn tyfu o bridd y ddaear wedi eu bwriadu i fod at ei wasanaeth; y mae yr holl greaduriaid direswm dan ei awdurdod. Y mae yn amlwg mai at wasanaeth dyn y crewyd pob peth sydd yn y byd hwn. Gan hyny, y mae yn rhaid mai yn, a thrwy, y dyn y mae y cwbl i ateb dyben eu creadigaeth. Y dyben mawr y mae dyn i'w ateb—y mae yr holl bethau hyn i'w hatteb trwy y dyn. Meddylwch am y peiriant, a'r adeilad sydd o'i amgylch—yr un dyben sydd i'r ddau. Dyben yr adeilad ydyw gwasanaethu y peiriant, trwy roddi cyfleusdra iddo i weithio. Gan hyny, !

dyben y mae y peiriant yn ei ateb ydyw dyben yr adeilad hefyd. Nid ydyw gwaith y greadigaeth yn gyffredin ond adeilad er cyfeusdra i ddyn i ateb ei ddyben; gan hynny, y dyben y mae dyn yn ei ateb y mae pob peth arall sydd dan ei awdurdod yn ei ateb. Golygwn fod y dyn yn syrthio i ddiddymdra yn angen! byddai holl waith y greadigaeth yn ddiddym! Ai er mwyn gweled dyn yn meddiannu ychydig fisoedd o oferedd yn y byd truenus hwn y rhoddodd Duw iddo fod, ac y gwnaeth efe yr holl ddarpariaeth fawr tuag at ei gynnal? Ai er mwyn ei glywed yn ocheneidio mewn gofid dros dymmor byr yn y byd hwn y crewyd ef? Ai er mwyn darpar dysglaid o fwyd i'r pryfaid yn y bedd yr aeth y Duw mawr drwy yr holl fawr-waith o'i greu a'i amddiffyn? Pa beth sydd i'w gael oddi wrth holl waith y greadigaeth i sefyll yn y diwedd yn ddyben teilwng i'w ddangos o'r holl waith mawr? Nid oes un dyben teilwng o'r cwbl ond bywyd tragwyddol yn unig. Ond os bydd i holl waith y greadigaeth, a holl oruchwyliaethau rhagluniaeth, gydweithio â threfn iachawdwriaeth i sefydlu miliynau dirif mewn bywyd tragwyddol, y mae yr holl waith mawr yn eglur yn ateb dyben llawn a theilwng—dyben nas gellir traethu ef werth—dyben a saif yn dragwyddol. Y mae y byd, trwy fod yn wasanaethgar i hyn, yn talu am ei greu, ac yn ateb y dyben mwyaf goruchel a gogoneddus yn holl ymherodraeth yr Anfeidrol—dyben nad oedd yn bossibl gwneuthur gormod i'w gyrhaedd—dyben sydd yn fwy ei werth na'r holl foddion a ddefnyddiwyd i'w gyrhaedd—dyben nad oedd yn bossibl i Dduw ddefnyddio moddion rhy ddrud i'w gwblhau, ond yn unig iddo gadw ei gymmeriad—ac y mae wedi gwneuthur hynny yn berffaith; ac nid yn unig wedi cadw ei gymmeriad heb ei ychwyno, ond y mae hefyd wedi amlygu ei ogoniant gyda disgleirdeb annhraethadwy. Dengys yr apostol Paul fod pob beth wedi ei greu trwy Iesu Grist, ac mai trwy hyn y gwneir yn "hysbys i'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau yn y nefolion eoedd, trwy yr eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw." Nis gallasai y tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd reled doethineb Duw yn creu ond trwy yr eglwys—ac nid yn unig yn noethineb ei oruchwyliaethau tuag at ei eglwys, ond n hytrach yn ei waith yn codi eglwys yn y byd hwn, yn ei sefdlu mewn bywyd tragwyddol, ac felly i sefyll byth yn ddyben eilwng i'r cwbl. Yr eglwys ydyw y firwyth a gesglir ganddo ddi ar y cwbl, ac a gedwir yn ddiogel byth; bydd yn fodd-awn i'r ddaear fyned ar dân, a'r cwbl sydd ynddi, wedi cael ei oll eglwys allan o honi.

Bywyd tragwyddol ydyw yr amlygiad mwyaf a phryd-rthaf o ddaioni Duw. Daioni yn Nuw ydyw cariad at dded-yddwch ei greaduriaid. Amlygiad mawr o ddaioni Duw yn

ngwaith y greadigaeth ydyw hapusrwydd ei greaduriaid. Y mae graddau o hapusrwydd i'w weled ar bob rhywogaeth o'i greaduriaid. Nid gruddfan y mae yr aderyn bach ar y gangen; ond canu y mae, i ddangos ei fod yn hapus. Nid ydyw y fuwch a'r ceffyl mewn poen gwastadol; ond y maent yn ymddangos yn eithaf hapus. Gallen ni feddwl fod y creaduriaid sydd yn preswyllo y dyfnfor mewn uffern oer ac anghysurus; ond y môr-feirch mawrion—gwnaed a chymmhwyswyd hwy gan Dduw i *chwareu* ynddo. Ond os ydyw y dedwyddwch amherffaith sydd i'w weled yn y byd hwn yn amlygiad o ddaioni Duw, fel y mae yn rhaid ei fod—o blegid âg yn ysgogiad â'i fys y gallai y Duw mawr lenwi pob teimlad â gofid, a rhoddi pob creadur i ruddfan mewn poen, o'r angel hyd y gwibedyn—pa faint mwy amlygiad o ddaioni Duw ydyw bywyd tragwyddol? yr hwn sydd yn ddedwyddwch perffaith, yn ddedwyddwch tragwyddol ei barhâd, ac yn ddedwyddwch heb ddim chwerwedd yn gymmysgedig âg ef! Y mae Duw wedi gweithredu i fyny i "foddlonrwydd ei ddaioni ef" tuag at y rhai sydd yn y bywyd tragwyddol; y mae daioni a chariad anfeidrol wedi boddloni eu hunain yn berffaith yn y dedwyddwch mawr hwnw. Ië, y mae ei wrthddrychau mor ddedwydd fel na ddymunai cariad anfeidrol ei hunan weled eu dedwyddwch yn uwch a chyflawnach. Nid oedd yn bossibl i fywyd tragwyddol tyrfa ddirif gostio mwy, o blegid y mae o werth anfeidrol.

Mae llawer o bethau nas gallwn roddi rheswm am danynt wrth edrych ar y byd yma yn unig; ond os edrychwn draw i'r byd tragwyddol, yr ydym yn cael rheswm llawn dros iddynt gymmeryd lle. Nis gwyddom a ydyw creu y fath filiynau afrifed o fydoedd yn ateb dyben ynddynt eu hunain, ai peidio. Ond os oes cymmhwysder mewn creadigaeth fawr, yn hytrach nag un fechan, i argraphu ar feddwl dyn fawredd Duw, a pharch iddo, yr oedd yn werth rhoddi bod iddynt er mwyn iddynt gynnyrchu yr effaith hwn ar feddwl dyn; o blegid y mae adnabod Duw yn ei fawredd, a meddu gwir barch i'w enw, yn bethau a barhant yn dragwyddol. Nis gellir byth dirnad gwerth un meddwl parchus a charedig am Dduw: y mae yn un o'r pethau sydd yn gwneuthur pechadur yn "gymmhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni." Yr ydym ni yn edrych ar y cywreinwaith mawr a roddodd Duw ar lysiau y maes, a'r prydferthwch a osododd efe arnynt, yn beth ofer, yn wastraff ar ddoethineb—y rhai sydd yn cael eu dryllio rhwng dannedd yr anifail. Ond os oes cymmhwysder yn mhrydferthwch y llysiâu, a'r manylwaith annhraethol a roddodd Duw arnynt, i ddysgu i feddwl dyn fanylwydd sylw Duw ar bob peth, a'i ofal manwl dros y creaduriaid mwyaf distadl, yr oedd yn werth i'r holl gywreinwaith gael ei wneuthur er mwyn cael yr effaith

hwn ar feddwl dyn, er mwyn iddo ddysgu bwrw ei ofal ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo am "bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb;" o blegid y mae yr argraph hwn ar feddwl dyn yn beth tragwyddol—y mae yn un o'r cymmhwysderau angenrheidiol i fwynhau bywyd tragwyddol.

Y mae bywyd tragwyddol miliynau dirif o bechaduriaid euog a damniol o'r fath bwys a gwerth, fel yr edrychodd y Duw mawr arno yn amcan digon pwysig iddo i anfon ei Fab i'r byd i wisgo ein natur, ac i ddioddef a marw yn ein lle. Nis gallwn feddwl am un amcan arall a allasai fod yn ddigon pwysig fel ag i fod yn deilwng i Fab Duw ymddangos yn y cnawd, a dioddef melldith yn ein lle. Hwn oedd yr amcan mawr oedd ganddo mewn golwg yn ei holl lafur caled a'i angeu poenus: "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." Am hyn y mae "llawenydd yn ngwydd angylion Duw," pan y gwelant "un pechadur yn edifarhau:"—y maent yn cyfrif fod yno beth mawr yn myned yn mlaen, pechadur yn dechreu gogwydd i "gymmeryd gafael yn y bywyd tragwyddol." Y mae hyn yn rheswm dros fod y saint yn dal gafael mor ddiysgog mewn crefydd yn y byd hwn—yn gwneuthur y fath aberthau mawrion er ei mwyn—yn ei dilyn drwy y fath anhawsderau—yn casau gwraig a phlant, tai a thiroedd, er ei mwyn—yn gorfoleddu mewn gorthrymderau! Oddi ar argyhoeddiad o anfeidrol werth, ac oddi ar obaith cadarn am fywyd tragwyddol y mae hyn oll yn tarddu.

"Bywyd tragwyddol." Pa fodd y deawn ni at beth fel hyn? Y mae y Beibl yma, fel y dywedwyd yn barod ar y dechreu, yn priodoli i ddyn dri bywyd:—bywyd naturiol, bywyd ysbrydol, a bywyd tragwyddol. Y bywyd naturiol ydyw yr ysbryd sydd yn y corph; y bywyd ysbrydol ydyw Ysbryd Duw yn yr enaid, yr hwn sydd yn gweithredu fel Sancteiddydd; a'r bywyd tragwyddol ydyw dedwyddwch y saint yn angeu. Yr ydym yn cael y bywyd naturiol trwy genhedliad naturiol, y bywyd ysbrydol trwy adgenhedliad ysbrydol, ac yr ydym yn disgwyl bywyd tragwyddol—yn rhyw obeithio profi ei flas yn angeu. Nid ydyw angeu ei hunan yn beth cysurus iawn i'n teimladau i feddwl am dano; ond gan fod y bywyd tragwyddol yma wrth ei ysgil, yr ydym yn barod i obeithio am dano. Cenedliad naturiol sydd yn gwneyd dyn, adgenhedliad ysbrydol sydd yn gwneyd sant, a bywyd tragwyddol sydd yn gwneyd sant wedi ei berffeithio: y pryd hwnw bydd pob peth wedi myned yn rhy dda i neb weled faeledd ynot. Ond y mae y bywyd naturiol yn dyfod i ateb ei ddybenion trwy y bywyd ysbrydol: y mae y bywyd naturiol yn llygredig ac yn ddrwg, y mae "syniad y cnawd" yn "elyniaeth yn erbyn Duw," ond trwy y bywyd

ysbrydol yma, y mae yn cael ei gyssegru i ddybenion ei greadigaeth, y mae yn cael ei droi i redeg mewn sianel sanctaidd; y mae y galluoedd a grewyd i ogoneddu Duw, yn cael eu rhoddi ar waith i ogoneddu Duw. Felly y mae y bywyd tragwyddol hefyd yn dyfod i'r bywyd ysbrydol, ac yn dyfod â hwnw i ateb ei ddyben mawr. Dyben Duw yn planu anian ddnwiol yn enaid y Cristion ydyw ei gwneyd ryw ddiwrnod yn fywyd tragwyddol. "Y dwfr a roddwyf fi iddo, a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr, yn tarddu i fywyd tragwyddol." Nid ydyw yn cyrhaedd y dyben yna yn ddioed. Fel y garddwr yn planu pren yn yr ardd—y mae hwnw dros ryw hyd heb ddyfod i oedran cyfaddas, a rhaid iddo gael tymmor haf hefyd i ffrwytho; ond er nad ydyw yn dwyn ffrwyth yn ddioed, dyben ei berchenog yn ei blannu ydoedd iddo ddwyn ffrwyth ryw bryd. Felly, er nad ydyw y dduwiol anian yn taflu ei ffrwyth o berffaith ddedwyddwch yn ddioed wedi ei phlanu, y mae wedi ei bwriadu i wneuthur hyn y ryw bryd; ond y mae yn rhaid iddi ddyfod i oedran cyflawn, ac y mae yn rhaid iddi ddyfod i haf mawr y byd arall, ac o dan ddylanwad Haul Mawr y Cyflawnder, i ffrwytho: ond yr amcan o'i rhoddi yn y fan yna ydyw iddi ateb y dyben hwn. O! dyro i ni, O Arglwydd! yr egwyddor hono a fydd yn ddedwyddwch ryw bryd, dros i ni ruddfan dani hi drigain mlynedd!

Y mae y bywyd naturiol yma hefyd yn gyfaddasrwydd i'r bywyd ysbrydol. Creadur ydyw dyn wedi ei gyfaddasu â galluoedd addas i sancteiddrwydd—galluoedd addas i garu Duw, ac i adnabod dybenion uchel a gogoneddus. Felly hefyd y mae yn rhaid dyweyd, fod y bywyd ysbrydol yn gyfaddasrwydd i'r bywyd tragwyddol. Byddai yr un mor resymol disgwyl sancteiddrwydd yn yr anifail, a disgwyl perffaith ddedwyddwch heb sancteiddrwydd. Y mae hyn yn ddeddf gyda Duw:—"Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd." "Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw." "Nid ä i mewn yno ddim asian." Y mae y peth yn amhossibl ynddo ei hun. Y mae yn amhossibl gwneyd creadur yn berffaith ddedwydd heb iddo fod yn berffaith sanctaidd. Y mae rhyw dymmer, chwi wyddoch, yn drueni ynddi ei hun; ac y mae tymmer arall yn ddedwyddwch ynddi ei hunan. Tymmer lidiog, genfigenllyd, ddigasog—y mae hono yn drueni ynddi ei hunan. Y mae cenfigen yn "pydru yr esgyrn," ac yn "lladd ei pherchenog." O'r tu arall, y mae tymmer garedeg, tymmer hynaws, tymmer ddaionus, tymmer meddwl yn cara daioni pawb—y mae tymmer felly yn hapusrwydd ynddi ei hun. Felly y mae yn rhaid i mi ddyweyd am y llall—cariad at Dduw, ac at Iesu Grist, wedi myned trwodd i dragwyddoldeb a wnaiff ddedwyddwch; hi fydd ynddi ei hunan yn ddedwyddwch. Os bydd genyt ryw archwaeth meddwl i allu ynhyfydu yn Naw

yn nhragwyddoldeb—y mae yno ddigon o Dduw! Ond os nad eelli di ymhyfrydu yn yr Hollalluog, ni bydd yno ddim twysen i ti i'w chael—ni bydd yno ddim byd arall. Os gelli di ymhyfrydu yn yr Hallalluog, fe fydd yno amlygiadau o Dduw ddigon i dy ddifyru i dragwyddoldeb; ond oddi eithar dy gyfaddasu at hyny, ni bydd yno ddim i ti i'w gael—ti a fyddi yn dlawd i dragwyddoldeb.

“Bywyd tragwyddol.” Nid *tragwyddol barhâd* ydyw. Tragwyddol barhâd—y mae hyny yn hanfodol iddo, y mae yn wir; ond y mae bywyd tragwyddol yn cael ei osod allan yn y Beibl yn beth sydd yn rhaid dyfod i hawl iddo trwy ffydd yn Nghrist. Y mae rhyw fath o dragwyddoldeb o flaen yr anghredadyn, ond buasai yn well iddo hebddo. Y mae bywyd tragwyddol yn “ddawn Duw,” yn “rhodd Duw,” ac yn “ras Duw;” ond am a wn i, nad oes i ti a minnau ryw fath o *hawl* i'r tragwyddol barhâd. Nid oes dim perygl y colli di dy dragwyddoldeb. Ni wn i a gai di ddiwrnod o amser; ond y mae yn sicr nad ysbeilia neb mo honot o dy dragwyddoldeb. Anwyl enaid! pa un ai colled ai ennill i ti fydd hyny? “Bywyd tragwyddol!” y mae yn beth i ti “gymmeryd gafael” ynddo. Y mae rhai yn ei wrthod, ac ereill yn cymmeryd gafael ynddo yn ngwyneb cynnygiad yr efengyl o hono: ond am dragwyddol barhâd, nid oes eisieu i ti gymmeryd gafael ar hwnw; fe ddaw tragwyddoldeb heibio i ti ryw ddiwrnod, ac fe gymmer afael arnat ti. Rhywbeth sydd yn perthyn i ni eisoes ydyw tragwyddol barhâd, ac fe fydd hyny yn fy nychrynu i weithiau. Yr ydwyf fi ar ryw olwg yn anfeidrol mewn parhâd—yn ateb i'r Duw Anfeidrol ei hun mewn parhâd! Nid ydwyf yn cyf-ateb iddo mewn unrhyw ystyr arall—mewn gallu, doethineb, na gwybodaeth; ond mewn parhâd, yr ydwyf yn ogyhyd ag ef—mewn parhâd, yr ydwyf yn ateb i'r Anfeidrol-Dduw! Mi fyddaf, ar ryw ystyr, yn syrthio i'r dim wrth gymmharu fy hunan â'r haul mawr yna; ond y mae yntau yn syrthio gymmaint a hyny wrth ei gymmharu â minnau mewn parhâd. Pan y bydd efe wedi cadw noswyl, y byddaf fi yn dechreu fy myd. Pan y bydd efe wedi dybenu ei holl lafur, y byddaf fi yn dechreu gwybod fy mod yn ddyn. Caniatewch, bobl, i'r aderyn bach i byngcio ar y gangen—nid oes dim tragwyddoldeb yn nglŷn â'i weithredoedd ef: caniatewch i'r oen bach yna i brangcio ar y ddôl—nid ydyw ei oes ef ond ber: caniatewch hefyd i'r môr-feirch mawrion yna i ymwrio yn y dyfnfor—byddant hwy wedi darfod am danynt yn fuan: ond, O Dduw! trugarha wrthyf fi a'm gwrandawyr; yr ydym ni yn greaduriaid ag y mae o'n blaen ni dragwyddoldeb! Caniata, O Arglwydd! ein tueddu ni i ateb dyben ein bywyd—i ddefnyddio ein hadeg fer i ddarparu ar gyfer tragwyddol barhâd! Peth ofnadwy yw bod yn

ddyn! Nid ydym yn gweled ei bethau mawr; y maent yn llechu draw, allan o'n golwg ni—y maent y tu hwnt i'r llen: ond bendigedig fyddo Duw! y mae yn fy ngafael heno fodd i ddarparu ar gyfer tragwyddol barhâd, beth bynag ydyw. Cymmer afael, fy enaid, ar y bywyd tragwyddol! O! na buassi hyn wedi disgyn i ddwyllaw rhai o'r doctoriaid mawr sydd genych chwi yn Liverpool yma! O Arglwydd! dyro i ni gael golwg ar bwys y pwng—cael bywyd tragwyddol!

Fe allai y gallwn ni ei gynnwys ef mewn tri pheth:—

- I. *Gwrthddrych cyfaddas i'r meddwl ymhyfrydu ynddo.*
- II. *Egwyddor gyfaddas i ymhyfrydu yn y gwrthddrych.*
- III. *Cyfleuserau cyfaddas i wneyd hyny.*

I. *Gwrthddrych cyfaddas i'r meddwl ymhyfrydu ynddo.*

Y mae rhai o'r bobl ddysgedig yna yn sôn am ymhyfrydu yn ngweithredoedd Duw. Ni wn i beth am hyny. Ond ni chwam ni byth ddigon i lenwi enaid wrth chwilio gwaith y greadigaeth. Ni wn i ddim, fy mhobl i, a fydd eisieu pethau fel yna i ddifyru creaduriaid a bery byth; ond mi feddylw'n i y gallai gweled wyneb y Gŵr fu ar y groes wneyd yn well yn eu lle hwynt. Beth bynag fydd yno, y mae efe yn sicr o fod yno. A ydych chwi, bobl anwyl, am gael gafael arno heno? Rhaid i ni gael gwrthddrych cyfaddas i ddiwallu dymuniadau y meddwl. Dedwyddwch i'r meddwl fydd yno—y meddwl wedi cael ei lonaid—wedi cael boddlonrwydd—wedi cael cadernid, nad ydyw byth yn meddwl amheu ei gymmhwyser i ymddiried ynddo am ei berffaith dedwyddwch i dragwyddoldeb: y meddwl wedi cael ei foddhau yn y fath fodd fel na bydd dim yn bossibl iddo dderbyn chwaneg. Yr ydym wedi treio y greadigaeth, wyddoch, ond y mae yma ryw gonglau gweigion ynddo o hyd; ond os cawn ni Dduw, fy mhobl i, fe'i cyflawna Duw ef. Bendigedig fyddo ei enw! Dyma efe wedi ei egluro ei hun yn y Beibl yma y goreu a all fod i'n bath ni. Y mae wedi dadguddio ei hun mai "cariad" ydyw i gyd; a pha beth sydd yn fwy cymmhwys na hyny i ddiwallu creadur sydd yn serch i gyd, wedi y tyner ef o'r pridd yma?

II. *Y mae yn angenrheidiol hefyd fod egwyddor gyfaddas i ymhyfrydu yn y gwrthddrych.*

Môr, môr!—yr un peth ydyw y môr i bob creadur. Y mae rhai creaduriaid yn byw ynddo, ond y mae ereill yn boddi yn yr un elfen ag sydd yn fywyd i'r lleill. Felly am yr amlygiadau fydd yn nhragwyddoldeb o Dduw—bydd yn elfen dedwyddwch i rai o'i greaduriaid, pryd y bydd ereill o duediadau gwahanol yn boddi ynddi. Bydd pawb—y duwiolion a'r annuwiolion—

wedi eu llyngou i fyny i'r môr mawr o Dduwdod yn y byd tragwyddol; bydd y pethau oedd yn llanw meddyliau dynion yn y byd hwn wedi colli, a chilio ymaith o hono! Y Duwdod fydd yn llanw oll yn oll; y Duwdod mawr fydd yn llanw ystyriaeth pawb yn y nefoedd ac yn uffern. I'r rhai hyny fydd yn ei garu, bydd ei bresennoldeb yn ddedwyddwch; bydd pob ystyriaeth o Dduw yn dwyn i mewn i'w heneidiau gysuron annhraethadwy; ond i'r rhai fydd dan lywodraeth gelyniaeth ato, bydd ei bresennoldeb yn ofnadwy—yn boen ac yn ofid. Rhaid iddynt edrych arno byth yn Dduw anghymmodlawn. Ond heb law hyny,

III. *Bydd yn rhaid i ni gael gwell cyfleusderau o lawer nag a gawsom yn y byd yma.*

Am a wn i, na fyddwch chwi yn gosod yr hen Adda mewn cyfleusdra gwell nag ydoedd ynddo. Nid oedd efe yn berffaith ddedwydd. Yr oedd yn perthyn iddo drin y ddaear, ac felly yn y blaen; ac nid oedd yn bosibl iddo drin y ddaear, a meddwl am Dduw yr un pryd. Rhaid cael gwell cyfleusdra, fy mhobl i: ni chawn ni ddim ond un dydd o'r saith i geisio bywyd tragwyddol; rhaid i chwech o'r saith fyned i geisio cadw y corph yma wrth ei gilydd. Trwy drugaredd, yr ydym yn myned fel hyn "o nerth i nerth." Ond tuag at berffeithio dy ddedwyddwch di, y mae yn rhaid tori pob cyssylltiad rhyngot ti a'r ddaear, a dy gipio di i fyny i'r awyr, i dreulio dy ddyddiau mewn canu a molianu—ac heb fod genyf ddim arall i'w wneuthur yn dragwydd. O Arglwydd! gâd i ni oll gael ein cymmhwyso i'r dedwyddwch mawr yma!

Pa ham y mae yn cael ei alw yn "fywyd tragwyddol?" Nis gwn i pa beth ydyw y rheswm am ei alw yn "*fywyd*;" ond yn wir, nid ydyw bywyd yn werth dim hebdo. Bywyd wedi ei berffeithio ydyw. Nid ydyw holl ogoniant a dedwyddwch y nef yn ddim chwaneg nag enaid dyn wedi ei lenwi â dedwyddwch. "*Bywyd tragwyddol*;" fe allai mewn cyferbyniad i'r bywyd bach, byr, yr ydym ni yn ei fyw yn y byd yma. Y mae gwahaniaeth mawr yn ei hyd, y mae yn wir; ac fe allai fod gwahaniaeth mor fawr a hyny yn ei ddedwyddwch. Am y bywyd byr yr ydym ni yn ei fyw yma, y mae yn gymmysglyd iawn o ddedwyddwch a thrueni, chwi a wyddoch—y mae yma lawer o bethau i'w mwynhau, a llawer o bethau i'w dioddef: ond am ddedwyddwch y nef, y mae yno bob peth i ymfhrydu ynddo, ac nid oes yno ddim i ymboeni o'i blegid byth.

Y mae yn debyg iawn, fy mhobl i, fod yn rhaid cael deiliaid y bywyd tragwyddol o'r hen ddaear yma. Y mae yn dda iawn genyf fi feddwl am hyny. Beth bynag ydyw y gwahaniaeth sydd rhyngddynt, rhaid i nefoedd y gogoniant ddyfod i'r ddaear i gael ei phreswylwyr. Yr wyf fi yn bur falch o hyny. Ac yn

wir, fy mhobl i, y mae nefoedd y gogoniant yn ysbeilio yr hen ddaear yma o'i phethau goreu o hyd! Os byth y daw rhyw flodeuyn prydfertlach na'i gilydd i'r golwg, y mae y bywyd tragwyddol yn ei gymmeryd ymaith. Fel yr ydych chi yn gwneyd â'r *class* yn yr Ysgol Sabbothol: os bydd rhyw fachgen yn rhagori yn y *class* hwnnw, chwi fyddwch yn ei godi i *glaw* uwch yn union: felly os bydd rhyw fachgen rhagorach na'i gilydd ar y ddaear, y mae yn cael ei symmud i'r nefoedd yn union. O! y mae y nefoedd wedi gwneuthur yn angharedig iawn â'n byd ni lawer tro! Fe ragorodd aml un o'r *câd-filwyr* cyn hyn; ond gyda eu bod wedi enwogi tipyn arnynt eu hunan yn y rhyfel, fe alwyd am danynt i'r llys. "Nid oedd y byd yn deilwng o honynt." O! na chawswn i fod wrth ochr yr hen frenin Dafydd pan yr oedd efe yn trin ei arfau, a llawer o'r hen *generals* ereill a fu yma; pa faint a fuaswn yn ei ddsygu wrth eu gweled hwy! Ond gyda eu bod hwy yn gelfydd iawn ar y ddaear yma, y mae hi yn eu colli. Fe allai y myn Duw gario y frwydr drwy filwyr go drwstan, iddo ef gael y gogoniant. We, "iddo ef y byddo y gogoniant!" Y mae ganddynt ryw lestri aur, wyddoch, yn disgleirio ar fyrddau y *dukes* a'r *lords* yma; ond fe gafwyd y defnyddiau o ryw wlad dlawd, dlawd, dlawd ryfeddol—Peru, ac o *lwch* y wlad hono hefyd. Y mae brein mawr yr holl ddaear, yntau, wedi casglu ynghyd rhyw liaws o lestri aur, i'r tu hwnt i'r llen, ac nid yw angylion y nef yn rhagori arnynt mewn disgleirdeb; ond y mae wedi cael y defnyddiau o le pur wael—o *lwch* y llawr; ac y mae ei lygaid ef ar yr hen chwarel fyth a hefyd, am gael rhagor. O Dduw! cymmer ninnau hefyd—ninnau hefyd! (*Amen, Amen.*) Iê, mhobl i, nid ydyw o niwed yn y byd i chwi roi ambell i Amen mewn *trô* foneddigaidd fel Liverpool yma: nid yw hyny ddim yn drosodd ar *good manners*, am a wn i. O Arglwydd! cymmer ninnau i fyny i'w nifer! Gwna ninnau yn ddeiliaid y bywyd tragwyddol!

Y mae yn debyg y byddi di yn y bywyd tragwyddol yn sngl dedwyddwch o lawer o bethau o'r hen ddaear yma. Ni anghofsi byth mo'r hen ddaear. Mi welais bethau ar yr hen ddaear yma fydd yn werth eu cofio byth. Y mae rhyw bethau a gawsom ni eu gweled wrth fyned trwy y byd yma na anghofiwch ni byth mo honynt. Mi fum i yn ymddiddan â gŵr, ychydig o amser yn ol, oedd wedi dyfod i amgylchiadau da, o amgylchiadau isel; ac am hyny yr oedd o yn son o hyd—'doedd dim arall i'w gael ganddo. Y mae yn bur siwr genyf y cofi dithau am ryw bethau a fu yn mlynnyddoedd yr hen oesoedd. 'Abraham, Isaac, a Jacob! na soniwch i chwi fod erioed yn brwyrlwyr y ddaear; nid yw hyny yn anrhydedd yn y byd i chwi.' O na! y mae tewi a son am yr hen ddaear yma yn amhosibl. Yma y gwelais i Iesu Grist gyntaf erioed; yma y priodwyd ni—

Yr hen ddaear oedd eglwys y plwyf lle yr unwyd ni mewn glân nirodas—yr undeb a roes hawl i ni i'r etifeddiaeth fawr. Benlignedig fyddo Duw! y mae pethau wedi pasio ar yr hen ddaear ma, sydd yn ei gwneyd yn werth ei chofio yn mhen miliynau o flynyddoedd wedi iddi fyned ar dân. Nis gwn i pa drefn fydd rni ar ol dydd y farn, ond bydd yn werth ei chofio er hyny.

Etto:—"Bywyd tragwyddol," i osod allan ei ddedwyddwch. I mae angeu yn dyfod ar ol y bywyd hwn. Yr ydwyf fi yn ael fy nghadw dan ofn marwolaeth dros fy holl fywyd, y mae Duw yn gwybod; ni chaf fi ddim llonydd i aros iddo ddyfod. I mae hwn, beunydd, yn dwyn ger fy mron yr arfau ofnadwy pha rai y bydd o yn fy nryllio i. Ond beth meddwch hwi, frodyr bach anwyl, am fywyd *tragwyddol*?—am fywyd na ldaw angeu byth ar ei ol—bywyd y gelli di fentro rhoi hwyl r dy delyn, ac ni chyfrif neb mo hyny yn rhyfyg arnat? Yn wirionedd i, fy mhobl i, y mae yn braf i ni i daro wrth ryw beth ydd yn werth *sasiwn!* Dyma'r peth mawr! waeth beth fyddo wn y byd; 'does yma ddim o bwys yn myned yn mlaen ond hyny ydd o gymmeryd gafael ar y bywyd tragwyddol. 'Does dim—dim sydd gall a doeth, ond hyn—hyny sydd o ymgais i gymneryd gafael ar y bywyd tragwyddol. Nid ydyw y cwbl y tu llan i hyn ond fel niwl a fydd yn myned gyda'r awel yn bur nan.

Dyma beth mawr Duw ei hun! Yr amlygiad mawr o'i *ddoeth-
neb* ef yn y greadigaeth, ac mewn rhagluniaeth, ydyw hyn—
ad y cwbl yn cydweithio yn y fath fodd ag i adael ar eu hol
id o ffrwyth, sef bywyd tragwyddol; onid é, fe futasai yr holl
ob wedi peidio ateb y dyben a fwriadwyd iddi. Yn y fan
ma y mae doethineb Duw yn ei holl weithredoedd yn ymddis-
leirio yn rhyfeddol. Pe baech chwi yn edrych ar ryw beiriant
ywrain, y mae doethineb y peiriannydd i'w weled yn mhob
arn o'r peiriant: ond os mynech chwi yr olwg oreu ar ddoeth-
neb yr awdwr, gadewch iddo weithio i ddwyn allan rhyw ddy-
enion pennodol—dyma yr olwg oreu ar ddoethineb yr awdwr
'elly y mae doethineb Duw i'w weled yn amlwg yn mhob rhan
'r greadigaeth, yn cyfaddasu yr holl elfenau i fod yn wasan-
ethgar i ni, ac i greaduriaid ereill: ond os mynech weled yr
hwg oreu ar ddoethineb Duw o'r cwbl, edrychwch ar y gwaith
n ei gynnyrch—ffrwyth dirfawr anfeidrol ddaioni, sef bywyd
ragwyddol tyrfa ddirifedi, a hwnnw yn ddedwyddwch na fedrwn
i mo'i ddarlunio. Y mae holl waith Duw i adael hyn o ffrwyth
: ei ol—miliynau dirif mewn mwynhad o Dduw, a hyny i dra-
wyddoldeb maith. Beth bynag fydd tynged yr hen ddaear
ma wedi i hyn gael ei orphen, hi dalodd am ei chreu, pe byddai
diwrnod wed'yn yn syrthio i ddiddymdra.

Hefyd, dyma yr amlygiad mwyaf o ddaioni Duw—dedwydd-

wch ydyw. Yn y greadigaeth—amlygiad o ddaioni Duw sydd i'w weled yno; ond a wyddoch chwi, fy mhobl i, os ydyw hapusrwydd creaduriaid direswm yn amlygiad o ddaioni Duw, pa faint mwy dedwyddwch enaid a bery byth—dedwyddwch creadur sydd yn gan' mwy na'r greadigaeth? Nis gall y greadigaeth i gyd wneyd dedwyddwch hwn i fyny am awr—dedwyddwch creadur a bery byth! Y mae dedwyddwch tragwyddol un enaid yn werth creaduriaid direswm y byd yma am oesau y ddaear, a mwy o lawer iawn; fe fuasai yn werth eu haberthu i gyd a mwyn un enaid: ond beth am ddedwyddwch “tyrfa fawr na ddichon neb ei rhifo?” Nid rhyfedd i'r apostol alw hyn yn “foddlonrwydd ei ddaioni ef.” Y mae daioni Duw yn nhrefn yr efengyl wedi gweithio i'w foddio ef ei hun; y mae yn methu dymuno gweled dedwyddwch uwch. Y mae hwn yn “foddlonrwydd ei ddaioni ef;” ac wedi iddo ddyfod i fyny i'r gradd yma, rhaid ei fod yn werth cymmeryd gafael arno.

Pa faint yw gwerth bywyd tragwyddol! Beth bynag fydd y trueni o fod hebdo, y mae genyf i'w hysbysu i chwi, eich bod mewn cyfleusdra heddyw i gymmeryd gafael yn y bywyd tragwyddol: yr ydych mewn cyfle i ddyfod i hawl iddo y dydd hwn; yr ydych mewn cyfle i sicrhau meddiant arno i chwi eich hunan dros byth; y mae wedi ei osod megys yn eich ymyl, yn ddiagon agos i chwi gymmeryd gafael arno. Y mae y bywyd hwn yn Mab Duw. Ac yn wir, fy mhobl i, mi feddylw'n i fod yr holl fawredd y mae y Beibl yma yn ei roddi ar berson Crist, ac ar waed Crist, a'r cwbl y mae yn ei dystio sydd yn drysoredig yn Nghrist, yn dyfod i hyn. Beth a wnaiff y cwbl? Wel, “Yr hwn y mae i Mab ganddo y mae y bywyd ganddo.” Ond i ti wneyd y goron o'r cwbl, i hyny yr aiff y cyfan yn y pen draw—bywyd tragwyddol. Rhaid, gan hyny, ei fod yn rhywbeth gwir werth ei geisio o flaen pob peth arall. Yr oedd yn werth anfon Mab Duw ei hun i'r byd er mwyn hyn. Y mae efe wedi bod mewn ing, ac yn chwysu'r gwaed, i gyrhaedd hyn i ni. “Cymmer afael” arno—cymmer afael yn Nghrist fel Cyfryngwr, a thi a gymmeri afael ar y bywyd tragwyddol. Y mae efe yn sefyll gwellaw, ac yn cynnyg ei hun! Cymmer afael! Yn awr—yn awr! Y mae yn haws i ni heddyw, fy mhobl i, o lawer nag yfory. Gadewch i ni oll gyduno i gymmeryd gafael. Yr wyf fi yn teimlo fy meddwl yn y fan yma yn rhyw barod yn wir. O Arglwydd! gweithia ni o un galon i gyd heno! Hi fyddai yn werth dyfod o sir Gaernarfon i Liverpool yn un swydd, pe cawn i fy neges yma heno—eich cael chwi i gymmeryd gafael ar y bywyd tragwyddol. O Iesu anwyl! mi feddylw'n i fy mod yn gweled yma ryw ysgogiad yn mraich ambell i un. O Arglwydd! dyro ei law o mewn gafael â'r Gŵr sydd yn Geidwadi bechaduriaid! Cymmer afael ynddo, enaid anwyl! Cymmer

afael yn yr addewid a'r cyfammod. Y mae yr addewid yn ein hymyl, ac y mae yr addewid yn *siwr* o gymmeryd gafael ar y tragwyddol hapusrwydd. Cymmer afael ar yr addewid. Yr oedd rhyw ddyn tlawd yn myned i lys gwladol i gyfreithio am stât; a phan yr oedd yn myned i mewn, dyma un o'r gwrthwynebwyd yn ei gyfarfod wrth y drws, ac yn gofyn, "A ydych chiwi yn beiddio meddwl y cariwch chiwi y stât? Cario y stât! 'does dim yn bossibl: onid ydyw hwn a hwn yn eich erbyn? y mae yn amhossibl!" "'Does dim yn bossibl i mi ei cholli hi," meddai yntau, "y mae y gweithredoedd yn fy ngafael." Yr oedd rhyw hen Gristion yn ein gwlad ni yn debyg iddo: fe ddaeth y gelyn ato ryw ddiwrnod, ac a ofynodd iddo—"A wyt ti yn beiddio meddwl am fywyd tragwyddol?" "Ydwyf yn wir yn meddwl," oedd yr ateb. "'Does dim possibl," meddai Satan. "Dim possibl? 'does dim possibl i mi gollu," meddai yr hen frawd, "y mae yr addewid yn fy ngafael. 'Yn yr hyn Duw yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lŵ; fel trwy ddan beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn amhossibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen:' ac os gwir yr addewid, yr ydwyf finnau yn ddiogel." Diolch iddo, am estyn yr addewid i'n cyrhaedd ni! Cymmer afael ynddi. Cymmer afael hefyd yn y moddion, a'r Ysgrythyrau. Y mae yr Arglwydd wedi gorchymyn ei fendith yn mynydd Seion. Dring i fyny yno! Ymarfer â holl ddefodau gwasanaeth Duw. Cymmer afael yn llwybr y bywyd. Ffordd gul ydyw hi hefyd; ond y mae yn werth ei cherdded, er fod hyny yn anhawdd—y mae hi yn arwain i'r bywyd. Serch gorfod ymdrech go galed i ennill modfedd arni—pe bai hyny yn costio i ti chwysu'r gwaed—pe byddai yn rhaid i ti fyned drwy'r fflamau tân, y mae hi yn werth ei cherdded—y mae yn arwain i'r bywyd! Y mae Hwnw a welodd "ardderchog lu y merthyron" yn rhoi modd i ganu haleliwia yn nghanol y tân: o ran hyny, nid oedd o ddim yn dân iddynt hwy. Anwyl bobl! ninnau fyddom yn etifeddion bywyd tragwyddol! Cerddwch yn llwybrau y bywyd; a bendith yr Arglwydd a fyddo arnoch, yn Nghrist. Amen.

Traddodwyd y bregeth hon yn Liverpool, ac ysgrifenydd hi wrth ei gwrandaw.

P R E G E T H . X X X V I .

Y PECHOD O ODINEB.

Exodus xx. 14.

"Na wna odineb."

CERYDDODD Crist yr Iuddewon yn llym am nad oeddynt yn adnabod "arwyddion yr amserau," ac agwedd pethau mewn ystyr grefyddol, fel yr oeddynt yn adnabod arwyddion newidid yr hin, a'r tymmorau, a'r gwynt, a'r wybr. Diau fod yr un oerydd yn deilwng i'n gwlad a'n cenedl ninnau y dyddiau hyn. Ychydig sydd â'u llygaid yn agored yn craffu yn ddyladwy ar agwedd y wlad, ac ymddygiad yr Arglwydd yn ei ragluniaseth tuag ati. Dyledswydd gweinidogion yr efengyl yn neillduol yw craffu ar agwedd gyffredinol ein gwlad, sylwi ar foessa y cyffredin, a dal sylw manwl pa bechodau sydd yn ffynnu fwyaf, ac at ba ddrygau y mae gogwydd gyffredinol y wlad; ac wedi eu hadnabod, llefain yn ddiifoesgni yn eu herbyn, fel y gwnaseth y prophwydi, a Christ a'i apostolion.

Y mae gan y diafol yn mhob oes, ac yn mhob gwlad, ryw bechodau yn blaenori ar ereill, sydd yn fwy o nerth i'w deyrnas na'r pechodau ereill. Y mae yn eu gwneuthur yn fwy cyffredinol ac aml na phechodau ereill; y maent weithiau yn bechodau adgas iawn. Bryd arall, y mae yn defnyddio pechod o ymddangosiad mwy diniwed er mwyn temtio yn fwy cyfrwys. Y mae codi rhyw bechod fel hyn yn gyhoeddus yn fanteisiol iawn i deyrnas y tywyllwch; y mae yn tynu dynion i weithredau yn fwy unffurf a chysson, ac felly y maent yn gryfach ac yn fwy llwyddiannus o blaid achos eu meistr.

Dylai pob Cristion, ac yn enwedig gweinidogion yr efengyl, fod â'u llygaid yn agored i ganfod pa rai ydyw y prif bechodau hyny, sef, y pechodau sydd yn rhwymo byddin Satan yn fwyaf unffurf, ac felly yn ei llwyddo yn fawr: dyledswydd holl fyddin Crist yw myned yn erbyn y cyfryw bechodau â'u holl egni, trwy

roddi esiamplau gwrthwyneb iddynt, trwy lefain yn eu herbyn, trwy ddangos eu niwed, a thrwy godi y rhinwedd gwrthwyneb iddynt. Y mae gan y diafol lawer o brif bechodau yn rhwymo ei fyddin yn ein hoes—meddwdod, balchder, cybydd-dod, halogi y Sabbath, ac yn enwedig godineb, yr hwn yn ddiammheu sydd yn un o'r castelli cryfaf a fedd efe yn ein gwlad. Y mae godineb yn un o brif bechodau pob gwlad, yn mhob oes, ac wedi bod mor wasanaethgar i achos y diafol yn mysg pob cenedl ag un pechod yn y byd. Diau fod godineb yn un o brif arferion ein gwlad ni, Cymru a Lloegr. Y mae yn gywilydd meddwl mor ddwfn y mae ein teyrnas wedi suddo i'r pechod hwn; y mae yn cael ei llenwi o hono, ac yn cael ei llenwi fwy fwy yn barhaus. Diau fod drawdod godineb Prydain, a Chymru yn neillduol, wedi dyrchafu i ffroenau Duw, ac wedi galw yn uchel am farn oddi wrtho. Dylai ein pregethwyr ddywedyd mwy yn erbyn y drwg hwn. Y mae rhy fach o rybuddio gonest a didderbyn-wyneb yn erbyn godineb. Dangos ein dallineb a'n difaterwch y mae hyn. Da fyddai genyf glywed fod pob enw o Gristionogion yn dyweyd mwy, yn llym ac yn danllyd, yn erbyn arferion annuwiol yr oes. Byddai y prophwydi yn sylwi ar y prif bechodau, ac yn eu condemnio yn ddi-dderbyn-wyneb; felly hefyd y byddai Crist a'i apostolion yn gwneyd; a diau y dylem ninnau hefyd ddilyn eu hesiampl yn hyn. Dylai yr eglwysi ddeffroi yn erbyn godineb Cymru—i rybuddio, argyhoeddi, a gweddio am i'r Arglwydd dywallt ei Ysbryd ar ein gwlad. Dylai pob pen teulu ddeffro yn ei erbyn, i gadw eu tai rhag cydorwedd, ac i ochelyd yr holl achlysuron o hono. Dylai pawb godi yn ei erbyn, onidê fe dŷn farn Duw ar y wlad. Nid oes un pechod yn cynnyddu mwy na godineb, er pan y mae yr oes hon yn cofio. Y mae yr Ysbryd Glân wedi ein harfogi yn yr Ysgrythrau yn erbyn pob pechod a fu, neu a ddichon ddyfod i'r byd rhag llaw. Y mae y ddeddf foesol yn gwahardd yn uniongyrchol bob pechod y dichon y natur ddynol ei gyflawni, ac yn gorchymyn pob ymddygiad gweddus tuag at Dduw a dynion.

Y mae y testyn yn cynnwys gwaharddiad i un o'r pechodau penaf yn ein gwlad ni. Y mae yn rhan, fel y gwyddys, o'r ddeddf foesol, ac ni buasai yn gyflawn hebdo. Pe buasai heb y gorchymyn hwn, buasai ynddi fwch i bob drwg ddyfod i mewn. Y mae y testyn yn un o'r deng air y sonia Crist am danynt, ac mor bwysig ac ysbrydol ag un o'r deg: rhan o'r ail lech ydyw, sef, ein dyledswydd at ein cymmydog. Ar y llech gyntaf yr oedd ein dyledswydd at Dduw, a'n dyledswydd at ein cymmydog ar lech arall. Nid oes orchymyn yn cael ei fathru yn fwy na'r gorchymyn hwn. Y mae llawer sydd yn hōni parch i'r gorchymynion ereill yn ddirmygwyr hollol ar y gorchymyn hwn. Cyfrifant drosedd o'r gorchymyn, "Na ladd,"

a'r gorchymyn, "Na ladrata," yn bechod mawr iawn; ond nid ydynt yn cyfrif godineb yn bechod yn y byd. Beiant yn fawr ar lofruddion a lladron, ond godinebant eu hunain heb fawr o ostwng pen. Ond ynfydrwydd perffaith ydyw i neb hōni parch i un gorchymyn, a sathru gorchymyn arall o dan eu traed; o blegid y mae yr hwn sydd yn pallu mewn un pwngc, mewn gwirionedd yn troseddu yr holl ddeddf, ac yn gwrthryfela yn erbyn y deddfroddwr. Nid oes gan y godinebwr le i feio y llofrudd; o blegid y mae yntau yn euog o ddrwg cymmaint. Gosodwyd y gorchymyn hwn yn y ddeddf, i wahardd a gwrthwynebu pob math a phob gradd o aflendid, trythyllwch, a halogiad ffaidd.

Yn awr, rhoddaf air pa ham y gorfu arnaf ddewis y testyn hwn i sylwi arno.

Nid am ei fod yn orchwyl pleserus genyf drafod y fath fater adgas. Nid pleserus yw sôn am y fath halogrwydd ffaidd. Da fuasai genyf allu dyweyd nad oes eisieu son am y pechod hwn yn ein gwlad; ond i'r gwrthwyneb y mae yn bod. Y mae ein gwlad yn llawn o'r ffaidd-dra hwn, er maint ei breintiau, ac er amled ei thrugareddau. Dyma foesau llawer o'n gwlad ydyw ymdroi mewn aflendid yn ddirgel, heb neb yn gweled ond Duw, yr hwn a wél y dirgelion oll. Y pethau a'm cymmhellasant at y testyn hwn ydynt:—

1. Cael lle i feddwl fod y pechod hwn yn aml iawn yn ein gwlad. Os edrychir i'r dinasoedd, y maent yn gywilydd i wlad Gristionogol—yn ymdroi wrth y degau yn y domen ffaidd hon. Y mae meddwl am eu aflendid yn ddigon i lenwi pob calon ystyriol â dychryn, a gofid, a galar. O! yr olwg druenus sydd ar ieuengetyd a chanol oed, o dan effeithiau difaol yr aflendid hwn! Os edrychwn i'r wlad, ie, i'r gymmydogaeth hon, ceir fod y pechod hwn yn bleser calon rhan fawr o honynt. Onid oes llawer yn cyfeillachu â'u gilydd mewn dull y gellir ei alw yn odineb? Beth yw y cyd-orwedd sydd i'w gael yn eu plith? onid math o odineb? Ac onid oes llawer yn ein hardaloedd yn goddef puteindra yn eu tai?—ac y mae yn eithaf priodol gair y cyfryw dai yn buteindai. Gobeithio y gwared yr Arglwydd ein gwlad oddi wrth yr aflendid hwn. Y mae dull ieuengetyd ein gwlad ni o gyfeillachu â'u gilydd yn warthus dros ben. O Arglwydd! argyhoedda di hwy o ddrwg eu pechod!

2. Y mae arwyddion fod godineb yn cynnyddu yn fawr yn ein gwlad rhagor y bu amser yn ol.

3. Y mae godinebwyr ein hoes ni yn hynod o ddigywilydd. Y mae ieuengetyd yn cydorwedd, ac yn dyfod i'r addoliad mor ben uchel a phe bacnt yn wŷr a gwragedd.

4. Y mae godineb yn caledu yr oes yn fawr o dan weinidogaeth y Gair.

5. Y mae godineb yn debyg iawn o dynu barn Duw ar y wlad.

6. Rhyychydig sydd o ddyweyd yn ei erbyn gan weinidogion yr efengyl. Dichon mai yr achos o hyn, mewn rhan, ydyw yr anhawsder o ddywedyd yn ei erbyn mewn dull gweddus; y mae yn anhawdd cael geiriau priodol am dano—digon gwedd-aidd, o un tu, a digon eglur, llym, a thanllyd, o'r tu arall. Gweddïwch am gymmhorth i ddyweyd yn ei erbyn yn iawn ac yn effeithiol! Sylwn ar:—

I. *Lle, natur, a dull y gorchymyn hwn.*

1. *Ei le.* Gosodwyd ef yn nesaf at y gorchymyn "Na ladd," i ddangos y dylai ein diweirdeb fod mor anwyl genym a'n bywyd. Rhoddodd Crist ef yn gyntaf, sef, "Na odineba, Na ladd," i ddangos fod gofalu am ein diweirdeb yn gyfystyr a gofalu am ein bywyd. Dylem ofni yr hyn sydd yn halogi y corph yn gymmaint a'r hyn sydd yn lladd y corph. Y mae "chwantau cnawdol yn rhyfela yn erbyn yr enaid."

2. *Ei natur.* Iaf, Y mae yn orchymyn eang iawn. Y mae yn gwahardd pob math o aflendid sydd yn arweiniol i odineb, yn gystal a godineb ei hun. Y mae yn gwahardd cam-agwedd ar y meddwl: "Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, fod pob un a'r sydd yn edrych ar wraig i'w chwennyachu hi wedi gwneuthur eisioes odineb & hi yn ei galon;" *Mat.* v. 28. 2il, Y mae awdurdod ddwyfol yn perthyn iddo. Y mae y gorchymyn hwn o'r un awdurdod a'r gorchymynion ereill, ac y mae ei dori yn anuffudd-dod i Dduw, ac yn ei ddigio gymmaint a llofruddiaeth neu ladrad. Y mae awdurdod pob gorchymyn yn gyfartal, o blegid y maent oll yn tarddu oddi ar yr un seiliau cedyrn; ac yr ydym ninnau oll dan yr un rhwymau i ufuddhau iddynt. "Duw a lefarodd yr holl eiriau hyn;" ac o ganlyniad, y maent oll yn meddu yr un awdurdod ddwyfol.

3. *Ei ddull.* Iaf, Y mae yn orchymyn cyffredinol—yn cyrhaedd pawb o bob oedran a sefyllfa, y priod a'r sengl. 2il, Y mae yn orchymyn personol, i ddangos fod pawb i ufuddhau iddo drosto ei hun. Ni chaiff y naill ufuddhau dros y llall. Cyfeirir y gorchymyn hwn atat ti, fel pe na bae gan Dduw ond tydi yn y byd: "Pob un drosto ei hun a rydd gyfrif i Dduw." 3ydd, Y mae yn orchymyn penderfynol. Ni osodir yma unrhyw ammod: nid "Na wna odineb," os bydd y demtasiwn heb fod yn gref; ond "Na wna odineb" mewn un modd nac ar un cyfrif, pa beth bynag fydd nerth y demtasiwn. Pe buasai temtasiwn yn esgusodi y peth, gallasai Joseph gael ei esgusodi; ond penderfynol yw deddf Duw, beth bynag fydd ein hamgylchiadau ni. 4ydd, Gwaharddiadol yw y gorchymyn hwn, i arwyddo fod dyn wedi gogwyddo ar ol yr aflendid hwn wrth natur, fel ar ol pob

pechod arall. Y mae y gwaharddiad hwn yn golygu fod y natur ddynol ar ei gogwydd at y drwg gwaharddedig hwn: "Y mae holl fwriad meddylfryd calon dyn yn unig yn ddrwgionus bob amser." Dichon fod llawer o odineb yn mysg y Cenhedloedd oedd yn Ngwlad Canaan; a gall fod yma olwg ar y demtasiwn i'r pechod hwn a gai y genedl oddi wrth y cenhedloedd hyny, a bod yr Arglwydd yma yn eu gwahardd mewn pryd, rhag iddynt ymollwng i'r ffeidd-dra hwn.

II. *Sylwch ar gynnwys y gorchymyn hwn:* "Na wna odineb."

Wrth wahardd godineb, y mae yn gorchymyn pob ymddygiad gwrthwynebol iddo; i.e. yn gorchymyn i ni arfer pob moddion angenrheidiol er cadw diweirdeb.

Yn bresennol ni a chwiliwn pa beth yw godineb, sef y pechod a waherddir yma, neu yn mha ddull y mae dynion yn euog o hono. Cyflawnir ef mewn amryw ffyrdd; neu yn hytrach, gellir dywedyd fod amryw fathau o odineb.

1. Godineb gweithredol. Y mae amryw fathau o odineb gweithredol yn bod. Iaf, Godineb annaturiol a llygredig y galon, yn tynu y natur i weithredu yn groes i'w helpen ei hun. 2il, Gwryw-gydiaeth sydd odineb annaturiol a ffaidd iawn. "Y gwragedd," medd Paul, "a newidiasant yr arfer anianol i'r hon sydd yn erbyn anian: ac yn gyffelyb y gwŷr hefyd, gan adael yr arfer naturiol o'r wraig, a ymlogant yn eu hawydd i'w gilydd: y gwŷr ynghyd â gwŷr yn gwneuthur bryntni, ac yn derbyn ynddynt eu hunain y cyfryw dâl am eu cyfeiliorni a gydoedd raid;" *Rhuf.* i. 16, 27. Dan gyfraith Moses, gorchymynodd yr Arglwydd ladd yn farw bob un a gyflawnai y pechod gwarthus hwn: "A'r gwŷr a orweddo gyda gwŷr, fel gorweddo gyda gwraig, ffeidd-dra a wnaethant ill dau: lladder hwynt yn feirw ill dau; eu gwaed fydd arnynt eu hunain;" *Lef.* xx. 10. Y math hwn o odineb a fu yn achos o losgi Sodom a Gomorrha: "Dwg allan y gwŷr," meddai y Sodomiaid wrth Lot, "fel yr adnabyddom hwynt." "Na orweddo gyda gwryw, fel gorweddo gyda benyw; ffeidd-dra yw hyny, medd Duw." Sydd, Cyhoeddiad ag anifail sydd odineb ffaidd ac annaturiol iawn. Gellid meddwl nad oes eisieu sôn am y fath ffeidd-dra a hwn; ond diamhheu na buasai yr Ysbryd Glân yn sôn am dano yn y Gair sanctaidd oni bae fod hyny yn angenrheidiol. Medd yr Arglwydd wrth Moses, "Lladder yn farw y gwŷr a ymgysgodd ag anifail; a lladdant hefyd yr anifail;" *Lef.* xx. 15. "Ac mae chydorweddo gydag un anifail, i fod yn arian gydag ef; ac mae safed gwraig o flaen un anifail i orweddo dano: cymmysgedd yw hyny." Ac nid afreidiol yw y gorchymyn, medd Duw, "canys yn y rhai hyn oll yr halogwyd y cenhedloedd yr ydwyf yn eu gyru allan o'ch blaen chwi; hefyd, mældigedig ydyw yr hwn"

orweddo gydag anifail: a dywedded yr holl bobl Amen." 4ydd, Hunan-halogiad sydd aflendid annaturiol a gwaharddedig yn Ngair Duw; ie, wedi tynu barn Duw ar ddyinion: "Ac os gŵr," medd yr Arglwydd, "a ddaw oddi wrtho ddisgyniad hâd; yna golched ei holl gnawd mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr;" *Lef.* xv. 26. Onan a wybu nad iddo ef y byddai yr hâd; a phan elai efe at wraig ei frawd, yna y colodd efe ei hâd ar y llawr, rhag rhoddi hâd i'w frawd; a drygionus oedd yr hyn a wnaeth efe yn ngolwg yr Arglwydd, am hyny y lladdodd efe ef." 5ed, Cydorwedd, neu gyfeillach llygredig ieuengctyd â'u gilydd sydd yn odineb gwarthus. Y mae ieuengctyd ein gwlad ni yn cyfeillachu â'u gilydd mewn dull sydd yn odineb ynddo ei hun; sef, cydorwedd. Y mae cydorwedd yn ennyn tueddiadau llygredig y natur, ac yn tanio nwydau y cnawd i'r fath raddau fel nas gallant ymgadw rhag ymdroi yn mhob aflendid; ac os attaliwyd rhai rhag godineb yn weithredol, nid rhaid iddynt ddiolch iddynt eu hunain, o blegid Duw a'u hattaliodd. O'th ran di, buaset wedi ymdroi mewn godineb gweithredol, ond fel yr attaliodd yr Arglwydd di. Chwant wedi ennyn sydd yn sicr o esgor ar bechod, os nad attelir ef gan yr Arglwydd. O ieuengctyd! yr ydych yn temtio y demtasiwn i hyn. Y mae y rhai sydd yn cydorwedd yn amcanu godinebu, onid ê hwy a ddewisent ddull arall o gyfeillachu. Chwilio am y cyfie y maent i gyflawni eu aflendid, yr hyn sydd yr un peth yn ngolwg Duw bron a godineb: "Yr hwn a edrycho ar wraig ei gymmydog gan ei chwennyh, sydd eisoes wedi gwneuthur godineb â hi yn ei galon." Y mae cydorweddwyd yn euog o weithredoedd aflan: "Brwnt yw adrodd y pethau a wneir ganddynt hwy yn ddirgel." Y mae llawer yn dyfod i'r amlwg, a llawer mwy yn guddiedig. Llawer morwyn ddiwair a aeth i gydorwedd yn y nos, ac a gododd yn y boreu yn butain; hi a gollodd ei diweirdeb; ac ni wél hi byth y cyfie i'w gael yn ol: "putain" fydd ei henw gan Ddaw byth bellach. Buasai yn well iddi golli ei holl feddiannau na cholli ei diweirdeb; ie, gwell fuasai iddi golli ei hiechyd am ei hoes na cholli coron ei diweirdeb. Dedwydd fuasai ar ei gwely cystudd ei holl ddyddiau gyda ei diweirdeb, yn lle bod yn iach, ac yn heinif, wedi colli ei diweirdeb. Pa faint o fastardiaid y cydorwedd sydd yn ein gwlad, yn byw ar blwyfydd, ac yn cael rhan y tlawd?

Y mae amryw fathau o odineb anghyfreithlawn.

1af, Tor-priodas trwy anniweirdeb sydd odineb aflan. Godineb y rhai priodasol ydyw y godineb atgasaf: "Na chydorwedd gyda gwraig dy gymmydog, i fod yn aflan o'i phlegid;" *Lef.* xviii. 20. "Y gŵr a odinebo gyda gwraig gŵr arall, sef yr hwn a odinebo gyda gwraig ei gymmydog, lladder yn farw y godinebwr a'r odinebwraig;" *Lef.* xx. 10. Godineb gwŵr a

gwragedd ydyw y math ffeiddiaf o odineb, a'r godineb mwyaf pechadurus. Y mae yn alarus meddwl fod eisiau sôn am y fath ffeidd-dra mewn gwlad Gristionogol. Ond er cywilydd i'n gwlad, y mae lle i ofni fod llawer gwraig yn butain oddi wrth ei gŵr, a llawer gŵr yn buteinwr oddi wrth ei wraig. Pe buasai llawer gŵr a gwraig yn Nghymru yn gwrandaw yr efengyl dan ddeddf Moses, buasai raid eu llabyddio â meini, nes malurio eu cnawd a'u hesgyrn, am eu godineb. O! y fath ganlyniadau erchyll sydd i'r pechod ysgeler hwn! Y mae y godineb hwn yn tarddu oddi ar anghariad at briod, ac yn dor-priodas: yr oedd cyfraith Moses, ac y mae cyfraith y Beibl etto, yn caniatáu i ŵr ollwng ymaith ei wraig os godineba, o blegid y mae godineb yn tori priodas, fel y dywed Solomon am y wraig a odinebo, "Y mae yn ymadael â llywodraethwr ei hieuengctid, ac yn gollwng dros gof gyfammod ei Duw;" *Diar.* xxi. 7. Y mae y godineb hwn yn arwain i ganlyniadau blinion; yn magu anghariad a therfysg mewn teuluoedd: "Cariad sydd gryf iel angeu; eiddgedd sydd greulawn fel y bedd: ei farwor sydd farwor tanlyd." O! mor angerddol y cynneu eiddgedd, pan gaffo dwyll ac anghariad yn y carenydd agosaf. Y mae y godineb hwn wedi creu gofidiau mewn teuluoedd a fuont yn angeu i'r gonest a'r diniwed, o blegid cael eu priod yn anffyddlawn iddynt: trwy hyn y magodd rhai afiechyd angenol. Gall y pechod ffaidd hwn ddwyn estroniaid, i.e. bastardiaid i mewn i deuluoedd.

2il, Trwy anffyddlondeb i'r sefyllfa briodasol. Ymadawiad sydd drosedd o'r gorchymyn hwn; er fod caniatâd, dan gyfraith Moses, i roddi llythyr ysgar o herwydd rhyw achosion neillduol. Nid oes un peth yn ysgar dan oruchwyliaeth yr efengyl ond godineb, medd Crist. "Moses, o herwydd caledrwydd eich calonau, a oddefodd i chwi ysgaru â'ch gwragedd: eithr o'r dechreu nid felly yr oedd. Ac meddaf i chwi, pwy bynag a ysgaro â'i wraig, ond am odineb, ac a briodo un arall, y mae efe yn tori priodas: ac y mae yr hwn a briodo yr hon a ysgarwyd yn tori priodas;" *Mat.* xix. 8, 9. "Pwy bynag a ollyngo ymaith ei wraig, ond o achos godineb, sydd yn peri iddi wneuthur godineb;" *Mat.* v. 32.

Sydd, Godineb rhai fyddont yn senl sydd yn bechod gwarhaddedig yn Ngair Duw. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, "Na fydded putain o ferched Israel, ac na fydded puteiniwr o feibion Israel." Galarus meddwl am ieuengctyd Cymry, yn gwerthu diweirdeb, ac yn halogi eu cyrph a'u heneidiau mewn gwlad mor oleu, ac yn sŵn efengyl mor aml. Y mae llawer o wrandawyr mynych yr efengyl wedi colli eu hanrhydedd a'u diweirdeb, ac nis gallant byth fod yn ddiwair mwy; y maent wedi aflanhau eu hunain ger bron Duw, fel na byddant byth,

os na chânt dröedigaeth, ond puteinwyr. Gallech feddwl, wrth edrych arnynt yn dyfod i gynnulleidfa yr Arglwydd i addoli, eu bod yn hollol bell oddi wrth feddwl am y fath aflendid. Edrychwch arnynt: y mae eu cyrph yn heinif, eu hymddiddan yn ddisglær, a harddwch eu gwisgoedd yn brydferth a gweddus, eu cynneddfau yn gyflym, eu serchiadau yn gryfion, a gallech feddwl hefyd fod eu diweirdeb yn ddifwlch. O! mor weddus yw eu hagwedd! O! mor lawn yw eu trugareddau! O! mor brydferth ydyw yr olwg arnynt! Ond och! beth pe gwelech chwi yr hyn y mae Duw yn ei weled ynddynt? chwi a wylech yn hidl wrth eu gweled; ië, os ydych yn teimlo dim, chwi a floeddiech gan dristwch a gofid calon. Gwisg hardd sydd yna yn cuddio corph wedi ei aflanhau gan odineb—ei aflanhau gan y budreddi ffeiddiaf sydd yn bod! O! na bae cyrph llawer fel eu gwisgoedd! Fel y dywedodd Crist ar achos arall, dywedaf finnau ar yr achos hwn, “Beddau wedi eu gwyn-galchu” ydyw llawer: corph ieuangc mewn gwisgoedd hardd, ond corph wedi ei halogi â godineb ydyw; aelodau heinif sydd gan lawer, ond wedi eu gwneuthur yn aelodau putain. Eiddo y butain yw pob aelod a fedd llawer bachgen ffol yn Nghymru. Gruddiau hardd, ond wedi eu halogi gan y pechod hwn; y mae gwyneb a chydwybod euog dan y cwbl. Yr ydym yn gweled pawb yn wynfydedig wrth eu cymmharu â llawer o ieuengctyd prydferth, ond godinebus Cymru. Harddach yw yr hen wr penllwyd, a’r methedig, na’r bachgen a gollodd ei ddiweirdeb: gwyn fyd y cystuddiedig a’r afiach, rhagor y godinebwr—y mae eu cyflwr yn llawer gwell. Gwyn fyd y tlawd diwair, pe na byddai ganddo ddigon i’w wisgo a’i borthi, rhagor y cyfoethog anniwair yn nghanol ei holl bleserau!

4ydd, Aml-wreicaeth sydd odineb a waherddir yn y testyn. Trwy drugaredd Duw, y mae cyfraith ein gwlad yn attal llawer ar yr arferiad hwn. Da fyddai gweled cyfraith ein tir yn adnabod holl ranau godineb, ac yn ei lwyr wrthsefyll. Da fyddai gweled cosp drymach ar bob math o odineb: byddai hyny yn debyg o attal llawer arno. Dan gyfraith Moses, yr un gosp oedd am odineb ag oedd am ladd; sef, llabyddio â meini: ac nid ydyw godineb yn llai pechod yn erbyn Duw na llofruddiaeth. Pa ham y mae cyfraith Lloegr yn gwahardd godineb aml-wreicaeth, ond yn peidio cospi godineb llawn mor ddrwg? Ni oddefir i’r Cymry gymmeryd amryw wragedd, fel y Mahometaniaid, ac onid é, diau y gwnaent; o blegid y maent yn dangos hyny yn eglur yn eu hymarferiad â’r pechod o odineb. Y mae yn wir fod amryw o wragedd gan rai o’r duwion dan yr Hen Destament; ond nid oedd hyny yn rhinwedd ynddynt, o blegid y mae y prophwyd Malachi yn dangos mai un wraig sydd gyfreithlawn: “Onid un a wnaeth efe?” Pe y buasai

amryw i fod, buasai Duw wedi creu amryw i Adda:—ond “m a wnaeth efe.”

2. Godineb y meddwl. Y mae cyfraith Duw yn cyrhaedd y meddwl. Y mae pob meddwl arweiniol i odineb yn cael ei gyfrif gan Dduw yn odineb: “Yr hwn a edrycho ar wraig i’w chwennychu hi, sydd wedi gwneuthur eisoes odineb â hi yn ei galon.” Y mae ysbrydolrwydd pob gorchymyn yn y ddeddf hon yn ein gwneuthur yn euog yn ei hwyneb; felly hefyd y gorchymyn hwn. Os edrychwn arno yn ngwaith y meddwl yn chwennychu, rhaid i ni oll ddywedyd yn ei wyneb, “Nid oes fan glân na chyfan arnom.” Y mae Solomon, wrth ein cyfarwyddo i ochelyd godineb, yn dywedyd, “Na chwennych ei ffyrdd hi yn dy galon, ac na ad iddi dy ddal â’i hamrantau.” Chwant tafewnol ydyw y cychwyniad i weithred aflan; gan hyny, “Cadw dy galon yn dra dieageulus, canys allan o honi y mae bywyd yn dyfod.”

III. *Sylwaf pa bethau sydd yn arwain i’r pechod hwn, neu yn achlysuron o hono.*

Gwaherddir yr holl achlysuron o hono gan yr apostol yn y geiriau, “Na wnewch ragddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef.” Y mae pob peth sydd yn tueddu i fagu tueddiadau i’r pechod hwn, yn gystal a’r pechod ei hun, yn cael ei wahardd; i.e, pob meddwl, gair, ac ymddygiad, fydd yn achlysur i gynhyrfu nwydau llygredig, neu yn arwain mewn unrhyw ddull i’r pechod hwn—y mae y gorchymyn hwn yn ei wahardd. Wrth ddywedyd, “Na wna odineb,” y mae yn dywedyd, “Na wna achlysur i odineb.” ‘Na chellwair â’r demtasiwn; cadw yn mhell oddi wrth bob peth fydd yn debyg o ogwydd dy feddwl a’th ysbryd at y pechod hwn.’ “Cadw dy ffyrdd yn mhell oddi wrthi hi, ac na nesâ at ddrws ei thŷ hi;” *h. y.*, ‘Na ddos yn agos i’r demtasiwn: gochel bob cyfle i’r diafol osod temtasiwn o’th flaen. Gwell i ti, os ydwyf yn gwybod am berygl mawr i ti syrthio i odineb—gwell, meddaf, i ti gwmpasu can milldir, na dyfod yn agos i’r demtasiwn! Cofa mai ffordd i uffern yw ei thŷ hi, sef, tŷ y butain; gan hyny, diange rhag dyfod yn agos iddo!’ “Chwantau ieuengctid, ffo oddi wrthynt!” ‘Cadw yn mhell oddi wrth bob peth fydd yn tueddu i ennyn dy chwant. Os gwyddost am rywbeth tebyg i danio dy chwant, ffo oddi wrtho fel pe byddit yn ffoi oddi wrth sarph; o blegid y mae yn waeth na sarph. Ti elli wrthwynebu y sarph, sef y diafol; ond “Chwantau ieuengctid, ffo oddi wrthynt!”—ffo ar frys, ffo am dy fywyd, ffo â’th holl egni, ffo at Dduw!

1. Y mae meddyliau arweiniol i odineb yn cael eu gwahardd. Y mae godineb yn dechreu yn wastad yn y meddwl. Rhaid

'r meddwl odinebu o flaen y corph: "Chwant, wedi ymddwyn, a esgor ar bechod." "Allan o'r galon y daw godineb, tór riodas," &c. Yn y galon y meithrinir ef gyntaf, ac yna daw llan i'r fuchedd. "O helaethrwydd y galon y llefara'r genau." Ffrwyth y peth sydd yn y galon, neu'r meddwl, yw y weithred: "Pren drwg sydd yn dwyn ffrwyth drwg."

Iaf, Y mae meddyliau chwennychus yn arwain i odineb, ac yn cael eu gwahardd yn y gorchymyn hwn. Chwennych y cyfle, ieu gymmeryd yr arferiad i mewn i'r serch, fel peth anwyl a ioff—edrych ar wraig i'w chwennychu hi. Chwennych y llafn iur a wnaeth Achan yn gyntaf, cyn ei gymmeryd. Wedi i'r neddwl ogwyddo i chwennych y gwenwyn hwn, odid fawr y ruid a drachtio o hono: "chwant wedi ymddwyn, a esgor ar bechod." Yr oedd Job yn gwylio rhag y cychwyniad cyntaf, ef, chwennychiad y galon: "Gwnaethum ammod â'm llygaid; na ham y meddyliwn am forwyn?" O! na bai llawer yn debyg i'w ddo. Cau y chwennychiad allan, fel cau sarph, neu deigr, llan o'th dŷ. Gochel feddwl yn chwennychus. Gwaherddir y chwennychiad hwn fel peth yn arwain i fagl, neu yn rhwyd i odineb: "Na chwennych ei ffyrdd hi yn dy galon; ac na âd i'di dy ddal â'i hamrantaau." Y mae y chwennychiad yn dal i'w echaduriaid fel magl, fel na allant ddiangc: "Na thuedded ich calon at ei ffyrdd hi." Os yno y gogwydda'r galon, bydd r holl ddyn, enaid a chorph, yn debyg o ddilyn. O! ieuengc- yd hawddgar! dechreuwch ymladd yn erbyn godineb yn ich calonau—chwiliwch am dano yn ei gychwyniad. Pan y mae yn eginyn o duddiad yn eich calon, ymdrechwch ei ddi- reiddio yn ei wendid, cyn iddo dyfu i nerth mawr; onid é, fe yf yn bren cryf, ac a fwrw allan ffrwythau drewedig a gwen- ynig. Peidiwch rhoddi croesaw iddo yn eich meddwl; ed- ychwch arno fel gelyn eich eneidiau. Cofiwch fod chwantau nawdol yn rhyfela yn erbyn yr enaid.

2il, Y mae meddyliau bwriadol, sef llunio cyfle yn y meddwl w gyflawni, yn radd pellach o odineb. "Llygaid y godinebwr rdd yn gwylied am y cyfnos," *h. y.*, y mae ei feddwl yn parotoi cyfle, ac yn tori llwybr iddo ei hun i ddwyn oddi amgylch ei ncanion aflan. Yn y tywyllwch y maent yn "cloddio trwy ai," y rhai a nodasant iddynt eu hunain "liw dydd:" y maent liw dydd" yn nodi cyfleusderau i wneuthur eu pechodau aidd, ac yn llunio eu llwybr melfdigidig—yn dychymmygu i wiredd ar eu gwely, ié, ac yn nodi allan "liw dydd" eu wybr i wneuthur eu pechodau. Y mae calon godinebwr fel nedd i Beelzebub, penaeth y cythreuliaid; a chwi ryfedd- h pe gwyddech y fath ymgynghori, a llunio, a dyfeisio pa dd i fyned yn mlaen, sydd yn nghalon llawer bachgen, a'r afol yn sibrd wrth ei feddwl yn y cynghor, 'Fel hyn ac fel

hyn y gwnei," nes o'r diwedd ei hel i'r rhwyd, nes iddo ochain yn y fagl. O Arglwydd! gwared ieuengctyd Cymru rhag syrthio yn ysglyfaeth i'r gelyn hwn; dangos iddynt ei erchyll-dra, nes peri iddynt ei ffeiddio! Y maent yn "rhagddarbod dros y cnawd;" sef, yn darparu iddo, yn gofalu pa fodd i'w borthi a'i ddiodi. O! y fath drafferth sydd ar feddwl llawer yn rhagddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef! Fel tad yn darbod dros ei blant, yn fawr ei drafferth a'i helbul yn dyfeisio, yn llunio, ac yn bwriadu, rhag bod eisieu ar y rhai bach, felly y mae llawer yn darbod dros y chwant hwn, sef godineb: y maent yn myfyrio yn aml pa fodd y cânt ym-borth i'w nwydau llygredig. O ynydion! yn trafferthu i borthi eich llygredigaethau, ac yn llewygu eich eneidiau, lle y dylech llewygu eich llygredd, a phorthi eich eneidiau gwerth-fawr! *O enaid ynyd!* yn porthi y sarph fydd yn fuan yn dy frathu, a'r neidr fydd yn dy frathu byth, sef dy chwant, ac yn llewygu dy enaid tlawd! Cofia! bydd dy odineb yn sarph digon galluog i'w frathu, heb chwaneg o gryfhâd ar dy law di; gan hyny, na wna "ragddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef."

2. Gwaherddir geiriau arweiniol i odineb yn y gorchymyn hwn; o blegid y mae pob peth sydd yn arwain i odineb i'w ystyried yn odineb o ran ei ddyben. Y mae amryw fathau o eiriau aflan sydd yn tueddu i ennyn llygredigaethau y galon, ac yn arwain i'r pechod dan sylw. Gŵyr pob dyn trwy brofiad fod gan y geiriau effaith mawr ar y nwydau; gan hyny, y mae geiriau aflan yn odineb yn nghyfrif Duw, o blegid eu bod yn ennyn llygredd y galon: "Od oes neb heb lithro ar air, gŵr perffaith yw hwnnw, yn gallu ffrwyno yr holl gorph." Ffrwyno y tafod yw ffrwyno y corph; os rhêd y tafod i ddrygioni, bydd yr holl gorph yn debyg o'i ddilyn, o blegid ffrwyn yr holl gorph ydyw; ac os gollyngir y ffrwyn hon i odineb, pa beth a attal y corph iddo? Llyw y corph yw y tafod; ac os hwyliar llyw i ddrygioni, pa beth a attal y corph? Tân ydyw y tafod; ac os tân aflan fydd, y mae yn rhwym o halogi yr holl gorph. Edrychwch pa dân ydyw eich tafodau; o blegid y mae yn effeithio yn fawr ar yr holl gorph. Gellir galw tafodau rhai yn fflam wedi ei hennyn gan uffern, ac anniweirdeb yn cynnen arno, yn llygru ereill.

1af, Y mae sôn am yr aflendid hwn yn odineb, trwy ei fod yn arwain iddo: "Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'ch genau chwi," o blegid y mae yn sicr o'ch llygru. "Eithr godineb, a phob aflendid, neu gybydd-dra, na enwer chwaith yn eich plith, megys y gweddai i saint; na serthedd." "Serthedd" yw brynti; sef, geiriau ac ymddygiadau rhy frwt i'w hadrodd, ac o duedd uniongyrchol i gryfhau llygredd y

galon. "Ymadrodd ffol, a choeg-ddigrifwch," sydd waharddedig, am yr un rheswm. Gwelir yn amlwg oddi wrth gysylltiad y ddwy adnod yn *Ephes.* v. 4, 5, fod y geiriau hyn yn tywys i odineb, o blegid y rheswm pa ham y gwaherddir hwynt ydyw, "Canys yr ydych chiwi yn gwybod hyn, am bob puteiniwr, neu aflan, neu gybydd, yr hwn sydd ddelfw-addolwr, nad oes iddynt stifeddiaeth yn nheyrnas Crist a Duw."

2il, Y mae geiriau hudoliaethus i'r pechod hwn oll yn waharddedig, am eu bod yn arwain iddo, fel geiriau y butain a geir yn *Diar.* vii. 21; "Hi a'i troes ef â'i haml eiriau tég, ac â gweniaith ei gwefusau hi a'i cymmhellodd ef." Pa beth bynag sydd yn gogwyddo meddwl pechadur i bechod, pechod ydyw. Felly geiriau y godinebwyr, y rhai sydd yn troi eu gilydd i ffordd uffern, y maent hwy yn dywedyd wrth fodd y cnawd, "Nid chwerwder fydd y canlyniad," â geirian "llyfnach nag olew;" ond y mae "rhyfel yn ei chalon" yr un pryd. Y mae Solomon yn cynghori i ochel y geiriau hyn fel godineb ei hun; "ffordd i fywyd yw ceryddon addysg, i'th gadw rhag y fenyw ldrwg, a rhag gweniaith tafod y ddyeithr." Fel pe dywedasai, 'Os myni ochel y fenyw ddrwg, gochel yn gyntaf weniaith ei hafod, sef ei geiriau hudoliaethus.' Gelwir godinebwyr yn "hudolion," o blegid mai trwy hudoliaeth y maent yn dwyn eu hamcanion annuwiol i ben: "Byddaf dyst cyflym," medd yr Arglwydd, "yn erbyn yr hudolion;" sef, y godinebwyr. Iwrandaw ar eu geiriau hudoliaethus ydyw pen y ffordd i'w iarfod aflan. "Na fydded hudoles o ferched Israel," medd Duw, ac "na chaffed hudoles," sef putain, "fyw." Yr oedd gynt i gael ei llabyddio â meini. Trwy ddywedyd "chwyddedig eirian gorgwagedd y maent, trwy chwantau y cnawd, a hrythyllwch," yn lithio ereill i'w haflendid: 2 *Pedr* ii. 18.

3. Y mae pob ymddygiad sydd o duedd i arwain i odineb, yn gystal a'r weithred ei hun, yn cael ei wahardd yma. Y mae rhai yn gwisgo ymddygiadau sydd yn arwain i'r pechod mellelgedig hwn. Diau fod y cyfryw ymddygiadau i'w gochel yn igniol, yn ol y gorchymyn hwn. Wrth ddywedyd "Na wna odineb," dywedir i'r perwyl hwn, 'Nac arfer unrhyw ymddygiad fyddo yn tueddu i ennyn dy lygredigaeth: gochel bob gwedd ar dy gorph fydd yn amlygu meddyliau trythyll: ochel bob ymddygiad fydd yn tueddu i demtio ereill i feddyliau aflan: bydded dy holl agwedd yn dangos meddwl duwiol, a nyfyrdod difrifol ar bethau ysbrydol.' Y mae Solomon wedi ylwi fod gan y butain ymddygiad: "Wele fenyw yn cyfarfod g ef, a chanddi ymddygiad putain." Ymddygiad aflan sydd yn dangos mai putain ydyw; a diau fod pob cyfryw ymddygiad yn waharddedig yn y gorchymyn hwn.

1af, Y mae edrychiad aflan yn arwain i'r pechod hwn, ac am

hyny yn bechod. Y mae "llygaid rhai yn llawn godineb, ac heb fedru peidio â phechod." Y mae gan yr edrychiad effaith grymus ar y nwydau; gan hyny, dylem oghel pob edrychiad fydd yn tueddu i'r aflendid hwn. Trwy y llygaid y mae y diafol yn fynych yn taflu ei demtasiwn, fel bâch, i'r galon, yn galw ei haflendid i ddyfod allan, ac yn hudo ereill i'r unrhyw ffeidd-dra. Y mae Crist wedi sylwi fod edrychiad yn cydfyned â'r chwennychiad pechadurus: "Yr hwn a edrycho ar wraig i'w chwennychu hi, sydd wedi gwneuthur eisoes odineb â hi yn ei galon." Gwnaeth Job "ammod â'i llygaid," rhag "edrychu forwyn." Gosod y llygaid ar y gwrthddrych sydd yn foddion i feithrin y chwantau aflan; gan hyny, bydded i'r llygaid gael ei lywodraethu gan burdeb a symledd calon.

2il, Y mae gwisgiadau balch ac anweddus, o duedd i ennyn anlladrwydd, yn cael eu gwahardd yn y gorchymyn hwn. Y mae gwisgiadau beilchion yn cael eu cyfrif yn anlladrwydd, e blegid eu bod yn arwain iddo, ac yn tueddu i ennyn tueddiadau aflan. "Hyn," medd Duw, "oedd anwiredd Sodoma... balchder, digonedd bara" (*Ezec. xvi. 4—9*); *h.y.*, hyn a'i harweiniodd i'r pechod o odineb. Balchio a wnaeth merched Seion, ac yn "rhodio â gwddf estynedig, a llygaid gwammal," heb wybod, â allai, mai ymddygiad putain yw y cyfryw ymddygiad. Bydd fy meddwl yn tosturio wrth eu hynfydrwydd, yn profesu a g'oedd yr heol eu bod yn gaethion i'r aflendid hwn! Dedwydd yw y cefn llwm diwair, rhagor y *lady* yn ei sidanau, sydd wedi ei haflanhau gan y pla o odineb!

3ydd, Y mae glythineb yn arwain iddo, ac am hyny yn waharddedig yn y gorchymyn hwn. Gall yr Arglwydd ddywedyd am lawer yn Nghymru, fel am Israel gynt, "Pan ddiwelw hwynt, gwnaethant odineb, ac a heidiasant i dŷ y butain. Oeddynt fel meirch porthiannus y boreu; gweryrent bob un a wraig ei gymmydog. Onid ymwelaf am y pethau hyn? medd yr Arglwydd: oni ddial fy enaid ar gyfryw genedl a hon?" Hyn, meddai, oedd "anwiredd Sodoma," neu, fel hyn yr aethant iddo, "balchder, digonedd bara." Nid un o'r pechodau lleid yn ein gwlad ydyw glythineb. Anghymmedroldeb mewn bwyta, a gormodedd mewn yfed, sydd yn tywys llawer i'r aflendid hwn; ie, hyn a dalant i'r Arglwydd am ei holl ddonia iddynt—"gwneuthur ffeidd-dra o flaen ei lygaid." Fel hyn, y mae llawer yn cael eu treiglo o bechod i bechod, nes dyfod o'r diwedd dan farn Duw. Y mae gormodedd mewn bwyta a yfed yn tueddu yn hollol i ennyn nwydau llygreddig, ac i gynyrrchu pob tuedd bechadurus. Gochelwch yr achlysur hwn i odineb; sef, anghymmedroldeb!

4ydd, Y mae diogi a seguryd corph a meddwl yn arwain i'r pechod hwn; gan hyny, y mae yn waharddedig. "Hyn," medd

yr Arglwydd, "oedd anwiredd Sodom: amllder o seguryd oedd ynddi, ac yn ei merched, ac ni chryfhaodd hi law yr anghenog a'r-tlawd." Ei seguryd fu yn gynneud i'w nwydau llygredig, ac a'u cryfhaodd i'r fath raddau, nes o'r diwedd iddynt dreiglo o bechod i bechod, yn addfed i farn Duw. Disgrifir putain yn hollol ddiog: "Ei thraed nid arhoant yn ei thŷ"—weithiau yn y drws, weithiau yn yr heolydd, yn cynllwyn yn mhob congl—"siaradus ac anufudd yw hi." Y mae y darluniad a roddir o'r butain yma yn ddarluniad cywir o bob putain a phuteiniwr. Segura yr oedd Dinah, merch Jacob, pan y syrthiodd i'r pechod hwn—"edrych merched y wlad" yr oedd. Dywed Pedr fod godinebwyr yn "cyfrif moethau beunydd yn hyfrydwch;" gan hyny, os mynwch ddiange rhag y pechod damniol hwn, gochelwch y seguryd sydd yn arwain iddo!

5ed, Y mae pob cyfeillach lygredig yn arwain i'r pechod hwn, ac am hyny i'w gochel yn fanwl. Y mae yn drwm meddwl fod gan y diafol filwyr digon cyhoeddus i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus iddo yn ein gwlad, y rhai sydd yn gywilydd i wlad Gristionogol! Enwaf y cyfarfodydd sydd wedi eu hordeinio gan Beelzebub, penaeth y cythreuliaid, i gynnal godineb a phob anniweirdeb i fyny. Y rhedegfeydd (*races*)—maent yn gyfarfodydd cyhoeddus a ordeiniodd Beelzebub i gynnal godineb i fyny. Ffeiriau, heb achos—cyfarfodydd ydynt i'r godinebwyr i ddyfod ynghyd. Dawnsiau a nosweithiau llawen—nid ydynt ond cyfarfodydd cyhoeddus Beelzebub i gynnal godineb. Cofiwch, pan glywoch gyhoeddi y cyfarfodydd hyn, mai un o weision Beelzebub sydd yn eu cyhoeddi! Rhai yn profesu achos y diafol ydyw pawb sydd yn myned i'r cyfryw gyfarfodydd!

P R E G E T H X X X V I I .

T Y S T I O L A E T H C Y D W Y B O D .

2 *Corinthiaid* i. 12.

“Canys ein gorfoledd ni yw hyn; sef tystiolaeth ein cydwybod, mai mae sylwrydd, a phurdeb duwiol, nid mewn doethineb cnawdol, ond trwy Duw, yr ymddygasom yn y byd, ond yn hytrach tuag atoch chwi.”

Y MAE pob dyn yn cario o'i fewn yn wastadol dyst pwysig, yr hwn a elwir genym yn *gydwybod*. Dyn yn unig, o'r holl greaduriaid adnabyddus i ni, sydd yn meddu cydwybod. Y mae yma amrywiaeth mawr o greaduriaid adnabyddus i ni, yr meddu rhyw gymmaint o ddeall, a chof, a serchiadan, ond heb fod yn meddu dim yn ateb i gydwybod mewn dyn. Nid os yn perthyn iddynt hwy fater cydwybod.

Mater cydwybod ydyw mater dyn rhyngddo a Duw. Y mae yn fater ag y mae meddwl braidd pob dyn, ar amserau, mewn pryder yn ei gylich—mater y mae braidd pob dyn ystyriol yn angau yn edrych i mewn iddo yn ddirifol, ac yn ceisio cael allan pa fodd y bydd y mater yn sefyll—mater fydd yn cael a egluro a'i benderfynu yn y farn fawr ddiweddf. Y mae cydwybod dyn i fyned gydag ef trwodd i'r byd tragwyddol; y mae y bydd ei thystiolaeth yn berffaith. Y mae yn fynych yn y byd hwn yn cael ei distewi a'i llethu gan chwantau a thueddiadau llygredig y galon; ond bydd yno yn dwyn tystiolaeth mewn goleuni cryfach, a chyda mwy o nerth ac awdurdod; bydd yn teimlo presennoldeb Duw yn nerth iddi i dystiolaeth yn gywir. Yn ol tystiolaeth cydwybodau dynion y bennir hwynt y dydd hwnw. Os bydd tystiolaeth dy gydwybod yn dy blaid y dydd hwnw, gwyn dy fyd; bydd dedfryd y Barnwr yn sicr o fod yr un ffordd: ond os bydd tystiolaeth dy gydwybod dy hun yn dy erbyn, bydd dedfryd y Barnwr yn sicr o fod felly. Bydd dynion yn ddedwydd neu yn druenus yn y byd a ddaw, yn ol fel y bydd tystiolaeth eu cydwybod. Os bydd dy gydwybod yn dwyn tystiolaeth yn dy erbyn, gwna hynny bob peth y byd tragwyddol yn chwera i ti; ond os bydd dy gydwy-

bod dy hun yn dwyn tystiolaeth o dy blaid, fe bâr i bob peth y byd tragwyddol fod yn hyfrydwch i ti. Cydwybod dyn ydyw y llestr sydd yn dal ac yn cario holl enogrwydd pechod oes dyn yn y byd yma trwodd i'r byd tragwyddol. Yn y gydwybod y bydd ymwybodolrwydd wedi aros trwy anghen o holl enogrwydd bywyd annuwiol; fe geidw bob dyferyn yn ddiogel byth. Cydwybod, o'r tu arall, ydyw y llestr sydd yn dal ac yn cadw yr heddwch tuag at Dduw trwy Iesu Grist ein Harglwydd; fe'i deil, ac fe'i ceidw yn ddiogel trwy anghen ac i dragwyddoldeb.

Y mae cydwybod yn cael effaith mawr yn ffurfiad cymmeriad dyn yn y byd hwn. Os bydd y gydwybod yn cyflawni ei swydd yn ffyddlawn, y mae yn ffurfio cymmeriad pur, cymmeradwy ger bron Duw; y mae yn arwain yn llwybrau y bywyd; "Diwedd y gorchymyn yw cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd ddiragrith." Ond os bydd cydwybod yn esgeuluso cyflawni ei swydd, yna y mae yn rhodio yn ol y cnawd, a chwantau llygredig y galon yn cael llywodraeth arno. Y mae cydwybod yn hyn yn llanw lle cyffelyb i'r ysbryd yn y corph. Tra byddo yr ysbryd yn preswyllo yn y corph, y mae yn fywyd pob ysgogiad, ac yn cadw y corph yn *sweet* ac anllygredig; ond wedi i'r ysbryd ymadael o'r corph, y mae bywyd ac ysgogiad wedi colli; y mae y corph yn farw, ac yn dyfod yn fuan yn llygredig ac annioddefol. Felly cydwybod mewn dyn; os bydd cydwybod yn cyflawni ei swydd yn ffyddlawn, y mae megys yn fywyd pob ysgogiad sanctaidd a rhinweddol, ac yn ffurfio cymmeriad sanctaidd a phur, cymmeradwy ger bron Duw a dynion—cymmeriad sydd yn rhoddi arogledd hyfryd—cymmeriad sydd yn ei ganmawl ei hunan wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw. Ond os bydd cydwybod heb gyflawni ei swydd yn ffyddlawn, yna ffurfiad cymmeriad llygredig. "Dywedodd yr ynyd yn ei galon, nid oes un Duw;" y mae y gydwybod wedi ei dystewi yn hollol. Sail holl athrawiaeth cydwybod ydyw, fod Duw yn Farnwr pawb oll. Y gydwybod hono sydd heb ddal i fyny y gwirionedd mawr fod Duw, nid ydyw yn dywedyd dim; ni ddywed fod yn rhaid i ddynion roddi cyfrif o'u gweithredoedd; ni ddywed fod gwobr na chosb yn y byd a idaw. Y mae wedi distewi yn hollol; nis gall wahardd dim fel bai a chamwedd; nis gall gymhell dim ar ddyn fel rhinwedd a daioni. Edrychwn pa fath gymmeriad a gawn yn y dyn hwn, sydd yn dyweyd yn ei galon nad oes un Duw. Pa le y mae yn myned, a pha beth y mae yn ei wneuthur ar ol bwrw Duw allan yn llwyr o'i feddwl; edrychwn pa fath gymmeriad y mae yn ei ffurfio. Dyma ei hanes: "Ymlygrasant, fieiddwaith a wnaethant; nid oes a wnel ddaioni. Yr Arglwydd a edrychodd i lawr o'r nefoedd ar feibion dynion, i weled a oedd neb deallgar, yn ymgeisio â Duw. Cilioedd pawb;

cydymddifwynasant oll, nid oes a wnel ddaioni, nac oes un." "Megys y mae yn ysgrifenedig, Nid oes neb cyflawn, nac oes un: nid oes neb yn deall; nid oes neb yn ceisio Duw." Y fath gymmeriad sydd yn cael ei ffurfio lle y mae pethau yn bod fel yna! "Gŵyrasant oll, aethant i gyd yn anfuddiol; nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un. Bedd agored yw eu cŵg; ffafodau y gwnaethant ddichell; gwenwyn aspiaid sydd dan eu gwefusau: y rhai y mae eu genau yn llawn melldith a chwewedd. Buan yw eu traed i dywallt gwaed. Distryw ac aflwydd sydd yn eu ffyrdd: a ffordd tangnefedd nid adnabuant." Y rheswm mawr am yr holl llygredigaeth arswydus hwn—y fath ymroddiad rhyfygus i bob drygioni—ydyw, "Nid oes o'n Duw ger bron eu llygaid." Cydwybod wedi distewi yn hollol sydd yma; gan hyny, y mae y cymmeriad, fel y corph marw, yn dyfod yn ffaithd, yn adgas, a llygredig. Y mae cydwybod wedi ei gosod yn ein natur i fod yn attaliad ar ein tueddiadau llygredig. Y mae ein natur yn gynnwysedig o ddwy ran, corph ac enaid. Y mae yn perthyn i ni, fel yr ydym yn perthyn i corph, nwydau a blysiâu cryfion: y mae y rhai hyn yn fyw ac yn gweithredu yn wastadol, yn tynu yn gryfion at eu gwrth-ddrychau; ac os bydd iddynt gael eu gollwng i weithredu duw y terfynau a osododd Duw iddynt, y maent yn dyfod i weithredu yn bechadurus; y maent yn wastadol megys yn amcyswrt am y llywodraeth; a'r dyn hwnw sydd yn caniatâu llywodraeth i'w nwydau a'i flysiâu corphorol, y mae yn rhodio yn ol i'w cnawd, ac nid yn ol yr ysbryd—rhodio yn ol chwantau dynol, ac nid yn ol ewyllys Duw; y mae yn ceisio y pethau sydd ar y ddaear, ac nid y pethau sydd uchod. Ymroddi i lywodraeth tueddiadau a nwydau llygredig ydyw annuwioldeb yn mhob ffurf. Y mae cydwybod wedi cael ei gosod yn ein natur i fod yn attaliad ar y nwydau a'r blysiâu hyn—i'w gwylid yn wastadol, ac i'w cadw o fewn y terfynau a osododd Duw iddynt.

Cydwybod sydd i wahaniaethu rhwng y cyfreithlawn a'r anghyfreithlawn. Hi sydd i ddywedyd, "Hyd yma y dewi, ac nid yn mhellach!" Y mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr ysbryd, a'r ysbryd yn chwennychu yn erbyn y cnawd yn mhob Cristion: "Y ddau hyn a wrthwynebant eu gilydd." Y mae deddf yr aelodau a deddf y meddwl yn wastad mewn rhyddid â'u gilydd. Yn y gwir gredadyn, deddf y meddwl ydyw i gydwybod, yn cyflawni ei swydd yn ffyddlawn. Y mae cydwybod wedi ei defiro a'i hywhau gan Ysbryd Duw, a'i chadarnhau mewn awdurdod, fel deddf gadarn, yn gwrthweithio yn wastadol yn erbyn pob llygredigaeth; ond nid oes ganddi allu i ddarparu twng a gorchfygu tueddiadau llygredig, ond yn unig trwy gynnal cymdeithas â Duw yn wastadol: "Am hyny, os cyfgyfodasoch gyda Christ, ceisiwch y pethau sydd uchod, lle"

mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod, nid ar bethau sydd ar y ddaear. Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw. Pan ymddangoso Crist, ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydag ef mewn gogoniant. Marw-hewch, gan hyny, eich aelodau, y rhai sydd ar y ddaear: godi-
neb, afendid, gwŷn, drygchwant, a chybydd-dod, yr hon sydd ailunaddoliaeth: o achos yr hyn bethau y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod." Ceisiwch chwi y pethau sydd uchod, a rhoddwch eich serch penaf arnynt. Disgwyl-
iwch am ymddangosiad Crist ein bywyd. Cofiwch y cewch ymddangos gydag ef mewn gogoniant. Marwhewch eich aelodau, y rhai sydd ar y ddaear. Chwi a dderbyniwch gym-
mhelliadau a nerth i farwau eich aelodau, y rhai sydd ar y ddaear, o'r pethau hyn. Y mae cymdeithas y meddwl a'r pethau sydd uchod yn wenwyn marwol i dueddiadau llygredig y galon. Y mae cydwybod yn derbyn nerth i farweiddio llygr-
adigaethau y galon, a'u gorchfygu, drwy alw y pethau sydd uchod i ystyriaeth; y mae yn dadleu y bod o Dduw a'i briodol-
aethau; yn dwyn Person a swyddau y Cyfryngwr i'r golwg—
yn dadleu bywyd tragwyddol y pechadur yn erbyn tueddiadau llygredig y galon. Y mae Iesu Grist, i'r dyben o ddangos lle pwysig y gydwybod, yn ei chyffelybu i'r llygad: "Os bydd dy
ygdad yn ddrwg, dy holl gorph fydd yn dywyll; os bydd dy
lygad yn syml, dy holl gorph fydd yn oleu." "Os bydd y
goleuni" fydd mewn dynion "yn dywyllwch, pa faint fydd y
dywyllwch?" Y llygaid yn unig sydd yn rhoddi goleuni i'r
roed, a'r llaw, a'r holl aelodau; ac os bydd y llygad heb gyf-
awni ei swydd, bydd y dyn hwnw yn rhwym o dramgwyddo.
Felly, cydwybod yn unig sydd yn rhoddi goleu ar lwybrau y
bywyd. Cydwybod ydyw y gynneddf foesol, y gynneddf sydd
yn cymmhwysu dyn i adnabod Duw, ac i wybod ei gyfrifoldeb
a'i ddyledswydd tuag at Dduw a dyn. Gan hyny, os bydd
cydwybod dyn yn dywyll, nid oes yno ddim arall i roddi goleu
ddo am y pethau hyn; ond os bydd cydwybod dyn yn syml,
os bydd yn oleu, ac yn gadarn yn y gwirionedd, bydd ei holl
gorph megys yn oleu; bydd yr holl ddyn, yn mhob peth a
wnele, yn ddiogel ar lwybrau y bywyd. Rhaid i mi addef, os
gallwn ddeall yn fanwl pa fodd i wahaniaethu rhwng y gydwy-
bod, a'r deall, a'r serch, mai perthyn i'r meddwl—y galluoedd
leallol, a'r galluoedd teimladol—y mae y gydwybod, a'i bod
yn cymmeryd i mewn y naill a'r llall. Y mae yn perthyn i
cydwybod allu i ddirnad, a deall; rhaid iddi ddirnad prawf-
eol i wahaniaethu drwg, neu cyfraith; a rhaid iddi ddirnad
hefyd ymddygiad dyn tuag at y rheol hono. Ac y mae yn
perthyn iddi hefyd allu i deimlo, yn ol fel y bydd yr ymddygiad

yn ymddangos iddi yn ngwyneb y ddeddf. Os ymddengys iddi fod yr ymddygiad yn feius, y mae yn teimlo euogrywdd a phoen; ond os ymddengys iddi ei fod yn iawn a da, y mae yn teimlo boddlonrwydd a hyfrydwch.

Gallu y meddwl i ddirnad a theimlo pethau moesol ydyw y gydwytod; neu, gynnodd sydd yn galluogi dyn i ddeall a theimlo ei gyfrifoldeb i Dduw, a'i berthynas bwysig â'r byd tragwyddol. Y mae rhyw awgrym o hyn yn mynwes pob dyn. Y mae yn wir fod yn anhawdd canfod cydwytod yn y graddau isaf o anwybodaeth. Ynmysg y cenhedloedd barbaraid, nid ydyw yn gallu gwahaniaethu rhwng da a drwg, ddim pellach nag y mae y traddodiad sydd yn eu plith yn eu cyfarwyddo. Ynmysg llawer o genhedloedd, y mae cydwytod yn meddu graddau helaethach o oleuni; ac er hyn, yn mhell o fod yn gywir yn ei barn. Gallen alw hon yn gydwytod gyfeiliornus. Y mae Mahometaniaeth a Phabyddiaeth—yr egwyddorion llygredig hyn—yn rhoddi rhyw radd o oleuni ar ryw wirioneddau i'r gydwytod ag sydd yn ei galluogi i gondemnio rhai drygau, a chymmeradwyo llawer o rinweddau; ond er hyn, y maent yn mhell o fod yn bur. Y maent yn camarwain cydwytodau cenhedloedd liosog i farnu am y da mai drwg ydyw, ac am y drwg mai da yw. Yr oedd y Mahometan a'r Pabydd yn erlid y Cristionogion yn ol barn eu cydwytod. Ond nid oes gan gydwytod allu i farnu rhwng da a drwg, yn annibynol ar brawf-reol, neu ddeddf. Nis gellir adnabod pechod ond wrth y ddeddf. Y mae y gydwytod yn rhwym o benderfynu pa beth sydd dda, a pha beth sydd ddrwg, yn ngwyneb yr egwyddorion y maent wedi eu cymmeradwyo. Felly, os bydd yr egwyddorion yn anghywir, y mae hyn yn arwain y gydwytod i farnu yn anghywir. Y mae cydwytod galed-cydwytod, er meddu gwybodaeth o'r gwirionedd, yn gwrthod plygu iddo, neu yn hytrach yn esgeuluso sefyll drosto yn ffyddlaw, ac yn fynych yn cymmeryd ei gorchfygu yn llwyr i ddistawrwydd gan chwantau a thueddiadau y galon. Yn y sefyllfa hon, y mae lle i ofni, y mae cydwytodau y rhan fwyaf o genedl y Cymry. Os ai di i ddistryw, rhaid i ti fyned yno â'r ganwyll megys yn dy law, yr hon sydd yn dangos yn eglur mai yno yr wyt yn myned; rhaid i ti fyned yno yn wybyddus ac yn fwiadol: "Canys os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach, eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddiifa y gwrthwynebwyr." Cydwytod bur sydd yn barnu wrth reol bur, ac yn seilio ei thystiolaeth ar egwyddorion pur a chedyrn, ac yn gwrthod heddwch yn mhob man, ond yn unig yn anghygroes. Nis gall ymddiried dim na neb am ei heddwch a Duw,

ond trefn Duw ei hunan mewn iawn. Dwyn tystiolaeth ydyw gwaith cydwybod; y mae yn dwyn tystiolaeth yn fwyaf neill-duol ar achos dyn ei hun: "Canwyll yr Arglwydd yw ysbryd dyn, yn chwilio holl gelloedd y bol." Y mae yr haul mawr wedi ei osod yn y ffurfafen i roddi goleu a gwres ar lawer o fydoedd; ond y mae cydwybod yn llewyrchu ei goleuni yn benaf ar un gwrthddrych, sef achos dyn ei hun. "Y galon sydd yn gwybod chwerwder ei henaid ei hun, a'r dyeithr ni bydd gyfranog o'i llawenydd hi." Tad annuwiol yn marw, â'r wraig a'r plant o amgylch y gwely, pan y mae ei enaid yn cael ei lethu gan euogrywydd—nis gall neb o'r teulu ddwyn dim o'i faich; rhaid iddo ddwyn euogrywydd annioddefol ei bechodau yn hollol yn ei enaid ei hun; nis gall neb arall fod yn gyfranog o honynt. Edrychwch ar y fam dduwiol yn angeu, â'i phriod a'i phlant o'i hamgylch—pan y mae ei henaid yn gyflawn o dangnefedd Duw, iddi hi ei hun y mae felly yn hollol: nis gall y teulu fod yn gyfranog o'i llawenydd hi.

Dwyn tystiolaeth y mae cydwybod ar achos dyn rhyngddo a Duw. Y mae yn arferiad yn ein mysg o ddyweyd, "Y mae y peth a'r peth yn fater cydwybod genyf;" y meddwl ydyw, Yr ydyw yn edrych arno yn fater rhyngof i a Duw. "Yr ydyw yn cadw cydwybod bur," medd Paul, "tuag at Dduw." Pan y byddai Paul yn annog Cristionogion at y dyledswyddau mwyaf cyffredin, megys dyledswydd rhieni tuag at eu plant, gweision a morwynion tuag at eu meistriaid, byddai yn gofalu am eu hannog i gyflawni y dyledswyddau hyn oddi ar gydwybod i Dduw: "Y plant, ufuddhewch i'ch rhieni yn mhob peth; canys hyn sydd yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda." Gallasai ddadleu eu rhwymedigaeth i'w rhieni; gallasai ddadleu y priodoldeb iddynt ufuddhau iddynt, ar gyfrif eu dibyniad arnynt, a gofal eu rhieni drostynt. Ond dyma ydyw y rheswm mawr a ddefnyddir gan yr apostol—"canys hyn sydd yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda." Y mae yn annog gweision a morwynion i wasanaethu eu meistriaid yn ffyddlawn, "nid â llygad-wasanaeth, fel boddlonwyr dynion, eithr fel rhai yn gwneuthur ewyllys Duw o'r galon, gan wybod mai gan yr Arglwydd y derbyniwch daledigaeth yr etifeddiaeth."—"Chwi a gewch wobwr oddi wrth Dduw, am fod yn ffyddlawn yn ngwasanaeth eich meistriaid yn ol y cnawd." Y mae cydwybod yn dwyn tystiolaeth yn erbyn yr euog; y mae yn ei erlyn ac yn ei chwilio allan, ac yn ei brofi yn euog, weithiau, pryd nad oes neb arall yn ymfyn am dano. Nid oedd i Cain, wedi lladd Abel, ei frawd, ddim achos ofni oddi wrth neb ar y ddaear. Yr oedd y llofruddiaeth wedi ei gyflawni yn ddirgelaidd: pan y deuai i'r golwg, nid oedd neb i'w gael i gyfansoddi llys barn ar ei achos ond ei dad a'i fam, ei frodyr a'i chworydd. Ond er hyny, yr

oedd ei gydwybod ei hun yn gofyn iddo gwestiwn oedd yn ei ddwyn yn euog: "Mae Abel, dy frawd? mae Abel, dy frawd?" A phan y byddai yn eistedd wrth y bwrdd gyda'i dad a'i fam, yr oedd yno ryw beth oddi fewn yn gofyn yn ddirgelaidd, "Mae Abel, dy frawd?" heb i neb arall ddyweyd dim. "Os gweli dreisio y tlawd, trawsŵyro barn a chyfiawnder mewn gwlad, y mae yr hwn sydd uwch na'r uwchaf yn gwylied:" y mae cydwybod y gorthrymedig yn ei gysuro yn yr ystyriaeth o hyn. Cydwybod Judas yn unig a gododd yn ei erbyn: nid oedd iddo ddim i'w ofni oddi wrth neb ar y ddaear—dim i'w ofni oddi wrth y Sanhedrim yn Jerusalem, o blegid yr oedd wedi ei boddhau yn fawr—nid oedd ganddo ddim achos i ofni dim oddi wrth lywodraeth Rhufain, o blegid yr oedd Pilat ei hun wedi cyhoeddi y ddedfryd ar y diniwed yr oedd efe wedi ei fradychu—nid oedd iddo ddim i'w ofni oddi wrth garedegion Iesu Grist, o blegid yr oedd yn waharddedig iddynt ladd neb: ei gydwybod ei hun yn unig a gyfododd yn ei erbyn, ac a'i rhoddodd i farwolaeth, am ei gamwedd ysgeler. Nid oes neb a ŵyr pa faint ydyw nerth a gallu cydwybod dyn i boenydio ac i ardeithio enaid euog wedi iddi ddeffro yn iawn.

Y mae cydwybod, o'r tu arall, yn dwyn tystiolaeth o blaid y cyfiawn a'r cywir. Y mae ei thystiolaeth yn northol. Cydwybod Job oedd yn ei amddiffyn a'i gynnal yn ei holl dywydd mawr: yr oedd ei gydwybod yn dwyn tystiolaeth o'i blaid yn ddiysgog a di-ildio yn ngwyneb pa beth bynag a ddywedai ei gyfeillion crefyddol yn ei erbyn. Er fod ei gyfeillion crefyddol, y mae yn debyg, yn ddynion mawr a deallus, fel yr ymddengys oddi wrth eu hareithiau, a'u bod yn ddynion, fe allai, o dduw-ioldeb amlwg, ac yn wir gyfeillion iddo: er fod y cwbl yn un llais yn credu naill ai ei fod wedi cyfiawni rhyw gamwedd mawr ac ysgeler, neu yn rhagrithiwr; er eu bod yn parhau i haeru hyn lawer o ddyddiau, etto nid oedd y cwbl yn siglo dim ar obaith Job—yr oedd ei gydwybod yn tystio o'i blaid. Wedi iddynt wneuthur eu goreu i'w guro i lawr, cyfodai ei wyneb gyda gwên, gan ddywedyd, "O! nad ysgrifenid fy ngeiriau yn awr! O! nad argrephid hwynt mewn llyfr! O! nad ysgrifenid hwynt yn y graig dros byth, & phin o haiarn ac & phlwm! Canys mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear. Ac er ar ol fy nghroen i bryfed ddyfetha y corph hwn, etto, caf weled Duw yn fy nghnawd; yr hwn a gaf i mi fy hun ei weled, & m llygaid a'i gwelant, ac nid arall; er i'm harenau ddarfod ynof." Y mae tystiolaeth cydwybod dda o blaid cywirdeb y Cristion—tystiolaeth ei fod mewn heddych & Duw trwy farwolaeth ei Fab—yn dwyn cysur cryf annhraethadwy. Y dystiolaeth hon sydd yn rhoddi y saint i "orfoleddu mewn gorthrymderau dan obaith gogoniant Duw." Y mae yn eu llenwi &

llawenydd annhraethadwy a gogoneddus. Mae yn eu gwneyd yn hyf yn ngwyneb anghu, gan ddewis bod "oddi cartref o'r corph a chartrefu gyda'r Arglwydd." Y mae yn creu ynddynt chwant cael eu "dattod, a bod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw." Y mae yn eu codi i ddibrisio y byd; i "gyfrif pob peth yn dom ac yn golled er mwyn ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ein Harglwydd." Y mae yn peri iddynt edrych ar eu cystuddiau yn "fyr ac yn ysgafn"—yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant iddynt, yn peri iddynt gredu fod pob peth yn cydweithio er daioni iddynt, pa un bynag ai tywyllwch ai goleuni, ai cystudd ai iechyd—ie, a pha un bynag ai bywyd ai anghu. Y maent, oddi ar y dystiolaeth hon, yn edrych ar bob peth yn eiddo iddynt hwy, a hwythau yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw. Amen.

P R E G E T H X X X V I I I .

RHYBUDDIO Y DRYGIONUS.

Ezeciel iii. 18.

“Pan ddywedwyf wrth y drygionus, Gan farw y byddi farw; oni rybuddi ef, ac oni leferi i rybuddio y drygionus oddi wrth ei ddrygffordd, fel y bydd byw; y drygionus hwn a fydd marw yn ei anwiredd: ond ei waed ef a ofynaf fi ar dy law di.”

Yr oedd Ezeziel, fel Jeremiah, yn offeiriad yn gystal a phrophwyd. Prophwydai y naill yn Jerusalem, a'r llall yn Caldea, “wrth afon Chebar.” Yr oedd y lle hwn o fewn tua dau can milldir i Babilon, lle y sefydlwyd rhan o'r gaethglud; fe allai i lafurio tir diffaith, neu i ryw waith o elw i'r Babiloniaid. Yr oeddynt hyd yma heb brophwyd na theml. Caethgludwyd Ezeziel gyda Jehoiacim; ond yn mhen pum mlynedd y galwyd ef yn brophwyd, yn ddeg ar hugain oed, medd rhai. Amcan ei brophwydoliaeth oedd calonogi y gaethglud. Dengys iddynt ei bod yn well arnynt na'r rhai a adawsid yn Jerusalem. Cafodd ei addasu a'i alw i'w swydd trwy weledigaeth ryfedd, yn amlygu dinystr y gelynyon: *Ezec.* i. 4. Ceir ynddi ddarlun o weision Duw (*adn.* 5—14); a'i lywodraeth (*adn.* 15—25); ac o burdeb ei lywodraeth (*adn.* 26, 27), a'i gyfammod (*adn.* 28). Yr oedd y weledigaeth hon yn sail ei genadwri, ac yn grynodeb o honi.

Yn yr ail bennod, gwneir cymmhwysiad o'r weledigaeth. Anfonir ef i'w swydd, a mynegir iddo galedwch y bobl (*adn.* 3—5). Annogir ef er hyny i lefaru geiriau Duw (*adn.* 7, 8); a rhoddir cynnwysiad ei genadwri (*adn.* 8—10).

Yn y drydedd bennod (*adn.* 1), er mwyn ei addasu i'w swydd, gwneir iddo deimlo ei genadwri—“bwyta y llyfr.” *Adn.* 4—11: annogir ef at ei waith; fe allai ei fod yn gyndyn: neu annogir ef yn ddwbl, am fod y gwrthddrychau mor wrthnysig. Darlunir y bobl yn gynnefin â'r Gair, ac yn gyndyn dano (*adn.* 5, 6); yn gelyd hollol (*adn.* 7, 8). Y mae yntau yn

cael ei gymmhwyso i'w gwynebu (*adn.* 8, 9). Ei waith oedd derbyn geiriau Duw, a'u llefaru wrth y bobl, "pa un bynag a wnelont ai gwrandaw ai peidio;" *adn.* 10, 11. Yr oedd y prophwyd yn anewyllysgar, medd rhai; yna "yr ysbryd a'i cymmerodd," a chlywyd "sŵn cynnhwrf mawr o'i ol;" yr hyn, fe allai, a arwyddai chwyldroadau, *adn.* 12. Clywai "sŵn y cynnhwrf" yn dywedyd, "Bendigedig fyddo gogoniant yr Arglwydd o'i le;" *adn.* 12. Gwna presenoldeb Duw bob lle yn deml, wedi colli y deml yn Jerusalem: dangosir fod llu nefol, a mawrhydi ofnadwy, yn perthyn iddo yn mhob lle. "Ac yn mhen y saith niwrnod y daeth gair yr Arglwydd ataf" (*adn.* 16); sef, yn mhen y saith mlynedd (yn ol y cyfrif prophwydol o ddiwrnod am flwyddyn) ar ol y weledigaeth o'r blaen. Darlunir natur ei swydd: "Mab dyn, mi a'th wneuthum di yn wyliedydd i dŷ Israel;" *adn.* 17, ac *Esa.* xxi. 6—12. Gosodid y gwyliedydd i edrych allan yn wastadol i weled perygl o bell, ac i rybuddio y bobl i ryfela. Os esgeulusai ei waith, cyfrifid ef yn llofrudd y rhai oedd o dan ei ofal. Byddai raid i'r "gwyliedydd," mewn rhyfel, fyned i beryglon mawrion; ond os esgeulusai, dygai hyny ef i berygl mwy oddi wrth ei lywydd (rhaid digio Duw, neu y bobl!); ond os byddai i'r gwyliedydd rybuddio y bobl o'u perygl, ac iddynt hwythau esgeuluso ymdrechu, byddai efe yn ddiogel, a chosbid hwythau.

Yr oedd hon yn gyffelybiaeth eglur, tra yr ydoedd y rhai blaenorol yn dywyll. Eisteddai y prophwyd yn syn ar ol y rhai o'r blaen; ond yma annogir ef i ymalfyd yn ei waith. Ei waith oedd "rybuddio y drygionus:" y mae rhesymoldeb y ddyledswydd hon yn sylfaenedig ar ddeddf ein natur—"Câr dy gymmydlog fel ti dy hun;" ac ar y gwirionedd fod dyn yn gyfrifol, yn ol ei freintiau a'i fanteision, ac nid yn ol ei duedd a'i gyflwr, nac yn ol ei broffes.

"Oni rybuddi y drygionus," &c. Edrychwn ar:—

I. Y cymmeriad hwn—"y drygionus."

Darlunir dynion yn yr Ysgrythyrau wrth eu perthynas fwyaf pwysig, sef eu caritor moesol, neu eu perthynas â Duw fel Llywodraethwr.

1. Hwn ydyw caritor mwyaf pwysig pob dyn. Y mae pob dyn yn dal un o ddau nodweddiad rhyngddo a Duw—naill ai da ai drwg, cyfiawn neu anghyfiawn. Nid oes canolradd yn bod.

2. "Drygionus" yn mha ystyr? Y mae yr enw hwn wedi tarddu o'r gair "drwg." Arferir y gair hwn mewn dwy ystyr, sef naturiol a moesol. Gwna Duw ddrwg naturiol, ond ni wna ddrwg moesol. Nid yw dyn yn ddrygionus o ran ei gyfansoddiad, ond o ran ei agwedd foesol. Ei ddrygioni ydyw

gwrthnaws ei feddwl at bob da; gogwydd ei galon at ddybenion a gwrthddrychau gwael; egwyddor, dyben, buchedd, a syniadau gwrthwyneb i Dduw a sancteiddrwydd.

3. Pa fodd y daeth y byd yn "ddrygionus?" Trwy ymlygriad. Gwnaeth Duw bob peth yn dda. Torodd drygioni allan yn y greadigaeth i ddechreu yn mhlith yr angylion. Ac y mae gogwydd gwreiddiol yn mhob dyn at adfeiliad ac ymlygriad, at ymadawriad â Duw, at syrthiad i lygredigaeth. Y mae drygioni wedi llifo yn mlaen o oes i oes dros wyneb y byd hwn, weithiau yn fwy, weithiau yn llai, yn ol y cyfleusdra a gafodd i hyny, ac yn enwedig yn ol y graddau y byddai Ysbryd Duw yn gweithio yn y byd i'w ddarostwng trwy yr efengyl. Er fod egwyddor drygioni yr un yn mhob oes a chenedl, etto y mae dynion yn amrywio llawer yn eu dull o amlygu yr egwyddor hono, ac yn gwahaniaethu llawer yn ngweithredoedd eu drygioni; mor bell, fel y tybiant hwy eu bod yn bleidiau hollol wrthwynebol, o ran egwyddorion gwreiddiol a dybenion hefyd. Tybia y naill a'r llall eu bod yn hollol o blaid daioni, a gwnant ymryson mawr gan wrthwynebu eu gilydd, fel y gelynyon mwyaf gwrthwynebol; pryd, mewn, gwirionedd, nad ydynt ond yn gwahaniaethu yn unig yn y dull o amlygu eu hegwyddorion, a'u bod yn hollol o'r un egwyddor a dyben. Tybiodd Eglwys Rhufain ei bod led y ffurfafen o bellder oddi wrth bob drygioni, a'i bod yn profi hyny, yn ol ei thyb ei hun, trwy erlid crefydd; felly hefyd yr oedd yr Iuddewon cyn hyny, pryd, mewn gwirionedd, yr oedd yr egwyddor o ddrygioni yn ymweithio yn y naill a'r llall, mewn gwahanol ffurfiau, yn ei hanfadrwydd eithaf.

II. Y ddyledswydd bwysig tuag at y drygionus ydyw, "ei rybuddio."

1. Pa beth ydyw "rhybuddio y drygionus?"

Iaf, Cyhoeddi ei berygl. Gan fod perygl dyn yn gynnwysedig yn ei euogrwydd ger bron Duw, rhaid i'r cyhoeddiad o'r perygl gynnwys cyhoeddiad o'r ddeddf—ei sail, ei natur, a'i dybenion, ynghyd âg ymddygiad dyn tuag ati. Y mae cyhoeddi y perygl yn angenrheidiol i'r dyben o addfedu yr enaid i dderbyn iachawdwriaeth. Rhaid cyhoeddi y perygl gyda theimlad dwys, fel y gwelwn mewn lliaws o esamplau ysgrhythrol; megys Lot, Dafydd, Jeremiah, yr apostol Paul, a'r Arglwydd Iesu ei hun: *Ezec.* iii. 14.

2il, Cyhoeddi ffordd o waredigaeth. Dan y pen hwn daw holl drefn iachawdwriaeth i mewn—person a swyddau y Cyfryngwr, a holl wirioneddau mawr yr efengyl. Felly, y mae Duw yn rhybuddio y pechadur yn ei Air trwy ddadguddio iddo ffordd o waredigaeth. Y mae genym esamplau ysgrhythrol o gymmhwyso addewidion at yr annuwiol i'r dyben o'i annog i

edifeirwch: *Esa.* lv. Cyhoeddiad o'r iachawdwriaeth ydyw y moddion i doddi y pechadur mewn edifeirwch. "Atteb arafaidd a ddettry lid;" wrth dalu da am ddrwg—gwneyd cymmwynas â'r gelyn—yr ydys yn "pentyru marwor tanlyd ar ei ben ef." Dyma y "llef ddistaw fain" sydd yn effeithiol i godi yr enaid allan. Wedi iddynt gael amlygiad rhyfeddol o ddaioni Duw, dywed y prophwyd wrth y genedl Iuddewig, "Yna y cofiwch eich ffyrdd, y rhai nid oeddynt dda, ac y galerwch," &c. "Edrychant arnaf fi yr hwn a wânasant, galarant hefyd," &c. Y "gwaed" sydd yn "glanhau." Crist a ddyrchafwyd i rod-di edifeirwch: *Act.* ii. 14—39. Y mae cymmhwysder mawr yn athrawiaeth yr efengyl i ddryllio y galon, gan fod ynddi uwch amlygiad o ddaioni Duw a drwg pechod. Rhaid i wir edifeirwch darddu oddi ar gariad at Dduw; felly, y moddion cymmhwysaf i ennill y serch ar Dduw yw y cymmhwysaf i weithio edifeirwch am bechu yn ei erbyn. Nis gall cyhoeddi y perygl yn unig dueddu neb i ddychwelyd, ond yn unig eu gyru i anobaith: cyhoeddi diluw ac arch, dialydd a noddfa, sydd yn annogaeth gyflawn i ffoi.

3ydd, Ei gyfarwyddo ynghylch y moddion i'w harfer i ochel y perygl, a dyfod i mewn i'r diogelwch: dangos yr angen am y moddion—lle y moddion—yr angenrheidrwydd am ymarferiad dyfal â'r holl foddion—eu dwyfol osodiad, a'r grym sydd yn hyny—ac addasrwydd y moddion i gyrhaedd y dyben. Trwy foddion y mae Duw yn arfer achub (*Salm.* xix. 8); gan hyny, rhaid arfer y moddion. Defnyddir y cyhoeddiad o'r perygl a'r iachawdwriaeth yn y Gair yn annogaethau i ddyledsdyddau. Y mae cyhoeddiad pob cangen o athrawiaeth ynddi ei hun yn annogaeth i ddyledsdydd.

4ydd, Gwnenthur y cymmhwysiad mwyaf egniol o'r cwbl. Ymryson âg ef—gwasgu at ei ystyriaeth—cyfeirio at ei gydwybod—bwrw i lawr ei wrthddadleuon—dwyn yn mlaen bob peth yn rhesymau i'w annog a'i gyffroi. Y mae rhai yn traethu y pethau blaenorol, ond heb un amcan i'w cymmhwysio yn ddifrifol—heb un cais i'w gwasgu at y gydwybod. Y mae eu dull o'u trin yn tueddu i wadu eu gwirionedd a'u pwysfawrog-rwydd. Y maent yn debycach i rai yn amcanu serio y gydwybod, na'i deffroi. Gwnai y patriarchiaid a'r prophwydi, Crist a'i apostolion, bob ymdrech i gyffroi cydwybodau dynion, trwy fygythion, addewidion, a rhesymau, &c.

2. Pa fodd y dylid "rhybuddio y drygionus?"

1af, Yn llawn, a didderbyn-wyneb. Dynoethi ei fdrwg yn hollol, traethu ei berygl a'i ddrwg yn ddigêl, fel y'n dysgir gan esamplau y prophwydi a'r apostolion. Rhoddi ei liw ei hun ar bob bai—gochel ei ddangos yn fwy nac yn llai na'r gwirionedd. Y mae rhai a ddangosant fynyddoedd yn llwch, ac a wnant y

llwchyn yn fynydd. Bydded dy rybudd yn wydr cywir i ddangos y bai yn ei wir faintioli, fel y gwnelai y Gwaredwr ei hun. Rhai a rybuddiant y cyfoethog yn esmwythach na'r tlawd: nid fel Elias gydag Ahab. Nid caredigrwydd â'r drygionus yw hyny; nid ydyw hyny ond rhoddi cyfferiau rhy wan iddo i orchfygu ei glefyd. Yr oedd Eli yn rhy lwfr gyda'i rybuddion hyd yn oed i'w blant; ond llefarai Daniel yn eofn hyd yn oed wrth y brenin. "Nac arbed ef, i'w ddyfetha:" bydded dy wefusau fel yr eiddo Crist, yn dyferu gwirionedd. Peth peryglus ydyw rhoddi meddyginiaeth rhy wan i weithio, a'r claf yn myned yn salach. Llefarai Nathan wrth Dafydd yn gryf, difloesgni, a phersonol, gan ddywedyd, "Tydi yw y gŵr." Yr un modd y cawn hanes am Nehemiah yn "dwrديو" y tywysogion; a Phedr a argyhoeddai yr Iuddewon yn llym yn ei bregeth ar ddydd y Pentecost, a bu yn foddion i ddwyn miloedd i edifeirwch ar yr un oedfa.

Rhaid hysbysu y perygl yn ddigél, ac yn ngeiriau Duw ei hun. Mewn afiechyd naturiol, da yw cuddio y perygl weithiau oddi wrth y claf, rhag i ddigalondid fod yn rhwystr i'r cyfferiau ei wellhau. Ond yma y mae yr achos yn wahanol; nid oes berygl suddo meddwl y claf fel nad effeithiai y physigwriaeth wellhâd. Nid oes berygl i'r moddion fod yn afiesol ond cael gan y claf eu cymmeryd. Y mae pwys yr achos yn galw am fod yn llym a chyffrous. Pa fodd y dywedech wrth eich cymmydog pe y gwelech ei dŷ yn myned ar dân?

2il, Rhybuddio yn garedig ac yn addfwyn. Y mae rhai yn gwneyd hyn yn chwervw, yn daiogaidd, yn dra-arglwyddaidd. Dyma ysbryd Eglwys Rhufain. "Bwystfil" ydyw yr ysbryd hwn. Yr oedd un o'r Indiaid yn cael ei gymhell ryw dro i geisio gwir grefydd, ac i sicrhau y nefoedd. Gofynai yntau "Pa un ai yn y nef ai yn uffern y bydd yr Yspañiaid?" Attebai y llall, "Yn y nef, gobeithio." Dywedai yntau, "Gwell genyf fi fod yn uffern, ynte!" "Atteb arafaidd a ddettry lid;" cariad a thosturi sydd yn "pentyr marwor tanllyd" ar ben ei wrthddrych anhaeddiannol. Y "llef ddistaw fain" a ddaeth âg Elias allan o'r ogof. Gwres yr haul (yn y chwedl) a wnaeth i'r teithiwr ddiosg ei fantell: "Mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus."

Rhaid cyfeirio pethau crefydd at y serch. Caredigrwydd Jacob a doddodd Esay; caredigrwydd Dafydd yn achub bywyd Saul a'i toddodd ef. Trwy garedigrwydd y dofir y creaduriaid creulonaf, ffyrnicaf. Y mae yr ysbryd hwn braidd yn anorchfygol; y mae fel agoriad yn ffitio holl wardiau clo y galon. Y diffyg o hyn yw yr achos fod llawer yn methu ei hagar: dyro di dy agoriad i'w fwrw i fold cariad Crist! "Cured y cyfiawn fi yn garedig." Mae ysbryd caredig fel tân yn toddi y mettel:

rn ngwres hwn cymmer ei lunio i'r ffurf a fyner, a'i redeg i fold rich cynghorion. Y mae rhai yn ceisio gweithio heb dân. Y mae y tiriondeb hwn fel sebon; ofer rhwbio a cheisio golchi heb sebon. Fe ddylid trin y drygionus yn dirion; y mae efe wedi anafu digon arno ei hun. Gwrthddrych tosturi ydyw, nid gwrthddrych cynddaredd; y claf yn ngafael angen ydyw. Y mae calon pechadur fel castell clöedig; ond un porth sydd iddi i ddyfod i mewn, sef y serch. Tafod esmwyth a dyr asgrwn. Y mae llawer yn afwyddo yn eu rhybuddion, o ddiffyg cariad ac anwylddeb.

Sydd, Rhaid i'r rhybuddiwr fod yn cerdded llwybr glân ei hun. Y mae yn anghymmhwys i dynu y brycheuyn o lygad ei frawd os bydd trawst yn ei lygad ei hun. Yr oedd cloch a phomgranad gyda'u gilydd wrth odre mantell yr archoffeiriad; ac y mae sain y rhybudd i fod yn gyssylltiedig etto â ffrwyth buchedd sanctaidd. Y mae "traed" y rhai sydd yn efengylu i fod n "weddaiid ar y mynyddoedd." "Chwychwi, y rhai ysrydol," meddai yr apostol, "adgyweiriwch y cyfryw un." "A ni yn gwybod ofn yr Arglwydd, ydym yn perswadio dynon." "Y mae cariad Crist yn ein cymmhell ni."

4ydd, Rhaid rhybuddio yn ddoeth. Yn ddoeth o ran cyfleus- lra, amser, dull, iaith, tymmer, a geiriau. Yn bersonol wrtho ni hun, ei argyhoeddi ef o'r drwg yn erbyn Duw, a'r niwed ddo ei hun. Gosod i lawr iawn sail i'th argyhoeddiad. Arfer awn foddion i'w brofi yn euog, sef Gair Duw: cerydda ef â rwialen ei Dad; trywana ef â chleddyf yr Ysbryd; dal iddo ldrych yr Ysgrhythyr i'w weled ei hun; prawf ef yn euog yn igwyneb y gyfraith.

Dylid rhybuddio y drygionus yn ddoeth hefyd o ran graddau r argyhoeddiad. Na rwyga ei ddolur ef yn ddyfnach nag y os angen; gwylia fod yn gigydd, yn lle yn feddyg; os llwyddi agor y cornwyd, paid a'i brocio wed'yn—dyro olew'ynddo yn r fan. Felly y gwna Duw. Os caiff efe y galon unwaith yn ldrylliog, nid ydyw efe mwy yn gwanu hono â'i gleddyf, ond ysurra bob galarus: *Esa.* lxxvi. Y mae yr apostol yn annog y Corinthiaid i faddeu i'r troseddwr a esgymmunasid, a'i gysuro, "rhag llyngu y cyfryw gan ormod tristwch." "Dyddenwch y gwan eu meddwl." Y mae anobaith mor ddrwg a rhyfyg.

Rhaid i'r dull o rybuddio, hefyd, fod yn ol tymmherau y reins. Rhaid trin y naill yn esmwythach na'r llall: *Esa.* xviii. 27.

5ed, Rhaid rhybuddio yn brydlawn—yn amserol. Y mae llawer yn rhybuddio yn anamserol o ran tymmer y gwrthddrych ieu ei amgylchiad.

[1.] Y mae llawer yn rhybuddio yn rhy ddiweddar—fel neddyg yn gadael i aelod lygru cyn gweini meddyginiaeth.

Ceir rhai rhieni yn dechreu rhoddi eu *physic* wedi i'r plan fyned yn mhell i lygredigaeth marwolaeth: y mae rhai swyddwyr eglwysig yr un modd yn aros yn rhy hwyr cyn rhybuddio. Gorchymynir i swyddogion ac aelodau eglwysig i "edrych p ddyfal rhag bod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fyny," a y mae eisieu edrych am y "gwreiddyn" cyn iddo dori allan y bren mawr. "Yr hwn a'i câr," meddai Solomon, "a'i cerydd mewn amser." Y mae "amser i dewi, ac amser i lefar." Gwelir rhai penau teuluoedd yn dechreu rhybuddio wedi angeu ymafyd yn y plentyn; neu wedi iddo gryfhau fel pen mewn annuwioldeb. Yr oedd y wiber yn yr ŵy. Y mae rhai wedi chwerthin am ben celwyddau y plentyn, ac wedi hysgu y methu llwyddo i'w attal i ladratta. Chwerthin am ben ganu trythyll y bachgen, a hyn yn arwain i odineb cyhoedd.

[2.] Mae'n rhaid gochel, hefyd, bod yn rhy fuan. Ni ddarfneidid arno cyn i'w dymmherau gwaedlyd oeri a llonyddu rhaid aros am amser cyfaddas. Y mae dyn fel yr asen wrth y mae rhyw "fis" pennodol i'w "gael." Aros i'w fôr a'i wneud ostegu, yna bwrw dy gwch arno. Nid ydyw y meddyg i'w agor y cornwyd coch lliidiog cyn iddo addfedu. Tawol Abigail tra yr oedd Nabal yn feddw. Rhaid aredig wedi i'r rhew doddi. Achubwch y cyfle i siarad wrtho pan y byddi'w gydwybod wedi deffro dan y bregeth neu y cystudd.

6ed, Rhaid rhybuddio yn brydlawn, heb oedi. Chwi feni arnynt hwy am oedi dychwelyd; onid ydych chiwi i'ch beio a'ch oedi rhybuddio? Tra y byddoch yn bwriadu ac yn oedi, maent yn suddo yn ddyfnach i drueni dan ŵg Duw a'i fellid. Y maent yn caledu yn y drwg. Cryfhâ pob tuedd trwy'r harfer; y mae y gydwybod o'r diwedd yn cael ei serio. Yn y temtasiynau yn cryfhau ac yn amlhau; y mae Crist yn cael i'w ddirmygu fwy-fwy, po hwyaf yr erys yr annuwiol yn ei dderynioni; ac y mae angeu a barn yn nesau. "Cynghorwch eich gilydd bob dydd tra y gelwir hi heddyw." Y meddyg sydd i'w oedi dyfod, neu yn oedi gweinyddu y feddyginiaeth briodol, byddo y claf wedi marw, nid ydyw yn well na llofrudd. Gosodwyd di yn feddyg i wellhau archollion marwol dy gydnyddion, yn ol dy allu a'th gyfleusderau.

7fed, Mae'n rhaid rhybuddio mewn lle cymmhwys. Ar hocoedda am rai pechodau rhyngot ti ag ef ei hun; os dirgel fyddi'w bai, dirgel y dylai y rhybudd fod. Y mae rhai nas gallant gael cyfrinach, fel gwraig feichiog mewn gwewyr, ond hyd nes os ont gyffe i esgor holl waeleddau ereill wrth eu cymmydogaeth. Gwna fel Joseph—tro yr Aiptiaid allan. Fel y byddi'w myned i'r dirgel dy hun i fynegu dy ddrygau wrth Dduw, fel dos i'r dirgel i fynegu drygau dy gyfeillion, y rhai ydynt i'w guddiedig. Wrtho ei hun y ceryddodd Duw hyd yn oed Os

7 llofrudd. Galwodd Miriam ac Aaron i'r dirgel, i babell y syfarfod i'w ceryddu. Cyhoeddi y bai nid yw fuddiol i neb, ond ei fynegu cyn belled ag y byddo yn angenrheidiol i weinreddu meddyginiaeth. Y rhai sydd wedi ymgaledu fel na wrandawant unrhyw rybudd, ac y byddai yn garedigrwydd ag arall i ti ddywedyd wrthynt, fel y gallant eu gochel, sydd i'w rin yn wahanol i hyn. Nid ydyw cyhoeddi bai dirgelaidd yn ueddu i ogoneddu Duw, nac i leshau y neb a fyddo yn euog o ono.

Sfed, Rhaid rhybuddio yn ddyfal a ffyddlawn. Y mae rhai n llwfrhau os methant a llwyddo y cynnyg cyntaf. Fel y mae Duw yn parhau i'th rybuddio di, felly gwna dithau: "gorchymn ar orchymyn, llin ar lin." "Sefyll" y mae Crist wrth y rws, a churo; nid cnoc, ac ymaith ag ef. Nid yw y milwr yn wfrhau os metha un ergyd—cynnygia eilwaith. Nid yw y iorwr yn llwfrhau os metha un fordaith—cychwyna i fordaith all drachefn, mewn gobaith y bydd yn fwy llwyddiannus. Nid yw y pysgotwr yn llwfrhau ar un cynnyg—teifi ei fach lwaith i'r dwfr, gan ddisgwyl y bydd yn fwy llwyddiannus. Fel y dylid gwneyd gyda rhybuddio y drygionus. Os na ryddir y tro cyntaf, dylid cynnyg drachefn a thrachefn, gan seithio y llwyddir yn y diwedd. Fe fethodd yr Israeliaid a ymmeryd Ai y cynnyg cyntaf: ond ni ddarfu eu haflyddiant i'r iddynt ddigaloni, a rhoddi yr anturiaeth i fyny; ond ym-odasant arni drachefn, gyda mwy o ffyrnigrwydd nag o'r aen, a llwyddasant i'w hennill hi. Nid ar y dydd cyntaf, 'r tro cyntaf y seithfed dydd, y daeth caerai Jericho i lawr; d ar y seithfed dydd a'r seithfed tro. Felly y dylem ninnau idi rhybudd ar ol rhybudd, a chynghor ar ol cynghor, hyd s yr ennillir y drygionus i adael ei ffordd ddrygionus; ie, lem ddefnyddio pob cyfneusdra a gawn i gyflawni y ddyledydd hon: "Cynghorwch eich gilydd bob dydd, tra y gelwir heddyw."

Sfed, Dylid rhybuddio yn addas i ddeall y gwrthddrych y ceisir idiwygio. Rhaid ymresymu â'r dysgedig, ond cynghori yr eallus. Dylid rhoddi pob cynghor mewn iaith weddus. ai a ffieiddiant y cynghor, yn enwedig dynion cnawdol, os ld geiriau gwael ynddo. Gofaler am arfer geiriau doethion geiriau nas gellir beio arnynt.

. Dyledswydd pwy ydyw rhybuddio y drygionus. af, Dyledswydd gweinidogion y Gair yn bennodol. Ymngys hyn, wrth ystyried, yn gyntaf, mai i rybuddio ereill alwyd hwy yn hollol; a dylent wneyd hyny yn onest, yn dlawn, a didderbyn-wyneb, gan ddisgwyl bendith yr Arydd ar eu llafur. Yn ail, wrth ystyried yr enwau a roddir nt yn y Beibl, megys gwylwyr, bugeiliaid, athrawon, &c.

2il, Dylai holl swyddogion yr eglwys, mewn modd arbenig, ei chyflawni. 3ydd, Dylai holl aelodau yr eglwys—y merched yn gystal a'r meibion—ei chyflawni. Nid ydyw wedi ei chyfyngu i'r swyddogion yn unig, ond y mae yn rhwymedig ar bob aelod. 4ydd, Dyledswydd arbenig rhieni plant a phenau teuluoedd ydyw. Y mae angen mawr am rybuddio yn y teulu, ac y mae y penteulu yno yn cael cyfeusderau beunyddiol i wneyd hyn. 5ed, Cristionogion yn gyffredinol a ddylent, hyd y gallant, rybuddio y byd paganaidd, trwy anfon yr efengyl iddo. Y mae Cristionogion wedi eu gosod yn wyliedyddion yn eu teuluoedd, yn eu cymmydogaeth, yn eu heglwysi, ac yn y byd. Y maent wedi eu gosod i wylie dros holl genhedloedd y ddaear. Gellir edrych ar y byd fel dinas fawr, a myrdd o elynion iddi, a thyrau wedi eu codi arni, a gwylwyr wedi eu sefydlu arnynt, i rybuddio pob rhan o honi o'i pheryglon. Nid perygl bychan ydyw yr un y mae ynddo; ond y mae yn rhy fawr i iaith ddynol ei osod allan. Y mae mewn perygl oddi mewn, perygl oddi allan, perygl oddi wrth ddiabol, a pherygl oddi wrth Dduw. Nid ydyw y byd paganaidd yn gwybod ei sefyllfa. Cristionogion sydd wedi cael agoryd eu llygaid i weled perygl y ddinas, ac wedi eu dyrchafu a'u gosod mewn lle cyfeus i'r rhybuddio o hono. Y maent yn gweled bradwriaethau a chyfeiliornadau oddi mewn, a dichellion pyrth uffern oddi allan. Gosodwyd hwy yn y sefyllfa hon yn hollol i'r dyben o'r rhybuddio o'i pherygl. Yn yr hen oesoedd, arferid udgyrn i hysbysu perygl, ac i alw cynnulleidfa i barotol i ryfel. Udgorn yw Cymdeithas y Beiblan a'r Gymdeithas Genhadol; trwy barai y gall pob dyn rybuddio yr holl genhedloedd o'u perygl ysbrydol, a'u galw ynghyd i ryfel yn erbyn y diabol. Yr ydyw yn rhybuddio miloedd o bobl yn mhen arall y byd trwy roddi ychydig o arian at y cymdeithasau hyn. Och! mor fawr ydyw enogrwydd y dynion hyny sydd yn meddu gallu i wneyd hyn, ac etto yn esgeuluso! Mor arswydus fydd eu cyfrifoldeb yn y dydd mawr! Cyfrifir hwynt gan y Barnwr yn euog o waed y paganaid! Y mae Cristionogion, ac yn enwedig athrawus crefydd, fel Joseph yn yr Aipht, a "holl yd y wlad" o dan eu gofal; ac nid oedd yd i'w gael i'r holl genedl ond a ddenai oddi wrth Joseph. Felly, gosododd Duw Cristionogion yn y byd, a holl gynnaluaeth ysbrydol y byd dan eu gofal; ac a roddo Cristionogion allan o Air Duw a gasgl pob cenedl. Yn sicr, y mae y dyn hwnw a edrycha ar ei deulu yn marw o newyn, a chanddo yntau ddigon o ymborth yn ei feddiant, yn euog o'u gwaed! O Cristionogion! a lewygwch chwi yr holl genhedloedd trwy gadw oddi wrthynt fara y bywyd? Ni ofynir i chwi lewygu eich hunain, i'w porthi hwy; ond gadewch iddynt gael eich briwsion; goddefwch iddynt ddyfod dan eich bwrdd fel can.

Y mae creulondeb at y corph yn bechod mawr—pa faint mwy creulondeb at yr enaid? Y mae llofruddio un enaid yn beth drychynllyd—pa faint mwy llofruddio miloedd trwy eu gadael heb Air Duw? Y mae gwneyd niwed amserol i ddynion yn bechod mawr—pa faint mwy niwed tragwyddol? Y mae bron bawb yn teimlo yn ddwys dros ddyn a fyddo yn dioddef yn dost oddi wrth ryw afiechyd dinystriol; ond nid oes ond ychydig, mewn cymmharïaeth, yn teimlo fel y dylent dros afiechyd eneidiau y paganiaid. Cristionogion yn unig sydd yn feall natur afiechyd moesol y byd, a hwy yn unig sydd yn meddu meddyginiaeth anffaeledig i'w wellhau; ac y mae attal y feddyginiaeth hono rhagddo yn bechod mawr iawn. A drychwn ni ar filiynau o dan deimlad o enogrwydd cydwybod n taflu eu hunain dan olwynion Juggernaut, ac i'r afonydd, i beri eu llosgfeydd, ac attal oddi wrthynt y gwaed sydd yn nuro y gydwybod? Y mae yr holl genhedloedd wedi codi gwrthryfel yn erbyn Duw, ac o herwydd hyn dan gondemniad. Fe anfonodd Duw bardwn ac ammodau heddwch i'r holl genhedloedd; bwriadai iddo fod yn bardwn cyffredinol i'r holl genhedloedd. Hyn yw swm yr efengyl, "Cymmoder chwi & Duw." Y mae'r pardwn wedi ei ymddiried i ofal Cristionogion i'w anfon yn mlaen i'r holl genhedloedd; ac yr ydym wedi ein hwymo trwy gyfraith i'w anfon i ereill. Y mae y byd yn wrthryfela yn barhaus, o herwydd ei amddifadrwydd o'r pardwn; ac y mae Cristionogion yn cynnal y gwrthryfel i fyny, rwy attal oddi wrtho y moddion effeithiol i roddi terfyn arno. Maent yn cefnogi yr holl wrthryfel, cyn belled ag y maent n attal moddion heddwch. Cristionogion yw "goleuni y byd." 'el y llenad yn derbyn ei goleuni o'r haul, ac yn ei dafu ar yneb tywyll y ddaear, y mae Cristionogion yn derbyn goleuni, c yn cael cyfleusdra i'w dafu i wledydd tywyll.

III. *Annogaethau i rybuddio y drygionus.*

1. Cofiw'n mai amcan mawr holl oruchwyliaethau Duw tuag i ddyn ydyw rhybuddio y drygionus mewn trefn i'w ennill i lael ei bechodau. Er mwyn hyn y mae yn tywallt ei farnau y ddaear, yn cystuddio plant dynion, yn anfon ei weision i'w ysgu, ac yn rhoddi moddion gras iddynt; ac os na bydd ei uchwyliaethau yn peri i ddynion gilio oddi wrth bechod, y maent yn sicr o'u caledu yn eu pechod.

2. Ystyriwn mai rhybuddio y drygionus oedd arferiad y sint yn mhob oes. Ceir digon o esamplau o hyn yn hanes y triarchiaid, y prophwydi, a'r apostolion.

3. Cefnogir ni i gyflawni y ddyledswydd hon gan y ffaith rurus fod Duw yn anfeidrol barod i dderbyn y drygionus ar edifeirwch. Oni bae hyn, ni buasai ond ofer ei rybuddio; ac

ni buasai genym ddim i'w wneyd ond gadael llonydd iddo, i fyned yn mlaen yn ei bechod. Ond gan fod Duw yn barod i faddau, dylem ninnau wneyd eiu goreu i rybuddio.

4. Meddylw'n am drueni a lliosogrwydd nifer y rhai drygionus. Hyd yma, y mae y rhan fwyaf o lawer o'r byd yn annuwiol, l'n gorwedd mewn tywyllwch, yn byw mewn pob math o ddrygioni a llygredigaeth; ac o ganlyniad y mae angen mawr am rybuddwyr doeth a ffyddlawn.

5. Cofiw'n fod Duw yn arfer bendithio rhybuddion ffyddlawn, i ddychwelyd y drygionus at yr Arglwydd. Rheol Duw ydyw bendithio yr ymarferiad cysson a diragrith o'r moddion a ordeiniodd efe, mewn natur a gras, i ateb dyben eu gosodiad. Yr amaethwr a ddiwyllia ei dir yn dda, yr ydym yn gweled ei fod, fel rheol, yn cael ffrwyth da; a'r dyn sydd yn ymarfer yn ddiwyd â moddion gras, ceir digon o brofion ei fod yn cael gras. Y mae Duw yn cyfranu daioni i'w greaduriaid ar ammodau neillduol; ac os cyflawna dyn yr hyn a orchymynwyd iddo, fe gyflawna Duw yr hyn a addawyd ganddo. Y mae miloedd o rai drygionus wedi eu dychwelyd trwy rybuddion ffyddlawn; ac y mae genym bob lle i greu y dychwelir miloedd etto, a dylai y ffaith gysurus hon fod yn gymmhelliad cryf i gyflawni y ddyledswydd yr ydym yn traethu arni.

IV. Y canlyniadau o esgeuluso y ddyledswydd hon: "Oni rybuddi ef, ac oni leferi i rybuddio y drygionus oddi wrth ei ddrygffordd, fel y byddo byw; y drygionus hwn a fydd marw yn ei anwiredd: ond ei waed ef a ofynaf fi ar dy law di."

Y mae dau drychineb arswydus yn canlyn yr esgeulusdra hwn—un yn perthyn i'r drygionus, a'r llall i'r esgeuluswr ei hun. Y canlyniad o'r cyntaf ydyw, "y drygionus hwn a fydd marw yn ei anwiredd;" a'r canlyniad o'r ail ydyw, "ei waed ef a ofynaf fi ar dy law di." Felly, dyma y drygionus yn marw yn annuwiol, a'r ffaith ei fod yn marw felly yn cael ei phriodoli i'r neb a esgeulusodd ei rybuddio ef o'i berygl.

1. Beth yw gofyn gwaed ar law un? Arferir y gair *gwaed* i ddynodi bywyd; a *gofyn gwaed* ar law un yw ei gyfrif yn euog o lofruddiaeth. Yn gyffredin, defnyddir yr ymadrodd yn y Beibl i ddynodi llofruddiaeth naturiol, neu un euog o ddinystrio bywyd naturiol: *Gen.* ix. 5, 6. Ond gofynir gwaed mewn ystyr mwy pwysig oddi ar law llawer. Cyfrifir hwy yn euog o dragwyddol ddinystrio dynion, a'u haberthu hwy i'r ail farwol-aeth. Hwn yw y llcfruddiaeth pwysicaf, creulonaf, a hwn yw y mwyaf cyffredin ac aml. Y mae braidd pawb yn euog o hwn. Cyflawnir hwn heb nag arf na chleddyf, heb na bwriad na malais, heb na chynddaredd na llid, mewn gwaed oer. Pe bai genym lygaid i weled yn berffaith y llofruddiaeth hwn, gwelwn

braidd holl ddynolryw yn trochi eu dwylaw yn ngwaed eu gilydd.

2. Sylwn ar amryw ffyrdd trwy ba rai y gall dynion fod yn euog o waed eu gilydd yn yr ystyr hwn.

Iaf, Trwy ledaenu cyfeiliornadau, neu lygru barn dynion, a'u hudo i goleddu syniadau anffyddol a dinystriol. Y mae llawer iawn yn euog o hyn, ac yn gwneyd mwy o niwed nag y gall un bod dynol ei ddychymygu. Gellir cyfrif Mahomet yn llofrudd miliynau o eneidiau. Llofruddion damniol, hefyd, ydyw y pab a'r offeiriaid. Y mae eu hymadrodd "fel cancr yn ysu" eneidiau, ac yn eu harwain mewn tywyllwch i ddinystyr a cholledigaeth. Nis gall y rhai hyn lai na gwybod eu bod yn twyllo dynion, ac o herwydd hyny y maent yn euog o waed y rhai a gamarweinir ganddynt. Y mae pawb hefyd yn euog a led-aenant unrhyw gyfeiliornad sydd o duedd i effeithio yn ddrwg ar achos ysbrydol dynion. Cyhuddir dynion yn y Beibl o fod yn euog o waed yn y llwybr hwn:—"Canys yn y bugeiliaid a ynyfdasant, ac ni cheisiasant yr Arglwydd: am hyny, ni lwyddant; a defaid eu porfa hwy oll a wasgerir;" *Jer.* x. 21. Gŵyr pawb fod gan y bugail effaith mawr ar y praidd. Os "tarewir y bugail, defaid y praidd a wasgerir;" *Math.* xxvi. 31. Bygythir bugail anffyddlawn yn "farn ar y genedl," am ei fod trwy ei hun, esgeulusdra yn eu harwain i ddinystyr. O'r tu arall, y mae fyddlondeb yn effeithio i'r gwrthwyneb:—"Yna y cedwi dy hun, a'r rhai a wrandawant arnat." Cyssylltir cadwedigaeth & chredu y gwirionedd. Gan hyny, cyn belled ag y byddo un yn offeryn i arwain ereill i wadu ac i anghredu y gwirionedd hwnw, y mae efe cyn belled a hyny yn offeryn i'w ddinystrio ef, ac yn euog o'i waed. Pe byddai i un annog dyn o dan afiechyd marwol i wrthod yr unig feddyginiaeth a all ei iachau o hono, byddai drwy hyny yn euog o'i lofruddio; ac felly y mae yma, ond mewn ystyr mwy pwysig. Dylai yr ystyriaeth hon gynnrychu gofal a manylrwydd mawr yn mhawb sydd yn cyfranu addysg grefyddol i ereill, rhag bod yn euog o blannu camsyniadau dinystriol yn eu meddyliau. Yr wyf yn cyfrif fod pob camsyniad a fyddo yn tueddu i, ac yn effeithio i'w cadw yn ol oddi wrth Grist a'i achos yn ddinystriol. Y mae llawer iawn o gamsyniadau sydd yn cynnrychu yr effeithiau yma yn ffyn yn Nghymru yn y dyddiau hyn.

2il, Trwy osod esampl, neu hudoliaeth, mewn unrhyw fodd i unrhyw bechadur. Esampl ydyw yr annogaeth fwyaf grymus ac effeithiol. Y mae yn derbyn ei grym oddi wrth y parch a fyddo yn meddwl derbynwyr yr esampl i'r hwn sydd yn ei rhoddi. Amcan esampl ydyw gwneyd byd o ddynion yn hollol fel efe ei hun; ennill yr holl genhedloedd i fyw fel yntau. Yr oedd esampl brenhinoedd Israel yn effeithiol, i raddau mwy neu

lai, i wneyd y genedl yn gyffredinol yn debyg iddynt. Am fod grym mewn esampl y gosododd Duw esampl i ni o sancteiddio y Sabbath, i fod yn gymmhelliad i ninnau i gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath. Y mae esampl rhieni yn gadael argraph ar blant yn ddiarwybod iddynt; ie, hyd yn oed yn y pethau lleiaf. Y mae plentyn fel y mettel meddal toddedig, yn rhedeg i bob mold a osodir yn agos ato. Gochelwch osod mold y cythraul yn agos i'ch plant! Pe y gofynid, "Eiddo pwy yw y ddelw hon a'r argraph?" am esamplau teuluaid, byddai raid ateb mai eiddo Satan ydynt mewn llawer teulu. Y mae y rhai sydd yn cerdded y ffordd lydan eu hunain yn galw ereill hefyd i'w dilyn. Y mae esamplau drwg profleswyr yn peri i'r gelynicu gablu crefydd, a beio yr athrawiaeth, yn troi y cloff allan o'r ffordd, ac yn rhwystro brodyr gweiniaid: *Rhuf.* xiv. 22. O'r tu arall, y mae esamplau da yn harddu'r athrawiaeth, yn camawl crefydd wrth bob cydwybod, ac yn iachau y cliffion.

Sydd, Trwy esgeuluso arfer moddion i achub ereill. Ti eiddo fod yn euog o waed dynion heb eu dallu â chyfeiliornadau, ac heb osod o'u blaen esamplau halogedig. Ni raid i ti wneyd dim ond esgeuluso arfer moddion i'w hachub, cysgu, a bod yn ddiotal ynghylch eu heneidiau, a thi a fyddi yn euog o'u gwaed yn nghyfrif Duw. Os rhybuddi di hwy mewn dull ysgafn, anystyriol, a diwasgfa; neu os esgeulusi arfer pob moddion sydd o fewn dy gyrrhaedd i'w hachub, ni byddi yn ddienuog o'u gwaed. Pe yr esgeulusai rhieni arfer moddion i gynnal bywyd eu plant, i'w portbi, ac i'w dilladu, cyfrifid hyny yn llofruddiaeth. Neu, pe'r esgeulusai meddyg arfer pob moddion o fewn ei gyrrhaedd er ceisio achub bywyd y claf a rodde ei hun o dan ei ofal, onid ystyrid ei esgeulusdra yn gyfystyr â llofruddiaeth! Felly, oddi eithr i ninnau arfer pob moddion o fewn ein gallu i ddwyn ein cyd-ddynion i afael âg iachawdriaeth, byddwn yn euog o'u gwaed yn nghyfrif Duw.

3. Gwaed pwy a ofynir ar ein llaw? 1af, Gwaed ein teuluoedd; 2il, ein cymmydogion; 3ydd, y byd paganaid.

4. Pwy sydd mewn perygl o fod yn euog o'r pechod hwn? 1af, Gweinidogion y Gair:—trwy ddiogi, derbyn wyneb, buchelw, balchder, arbed pechodau, cyfeiliornadau, ysbryd cnawdol, diffyg cariad Crist, buchedd halogedig, pregethu gydag amau hunangeisiol, &c. 2il, Henuriaid eglwysig:—trwy esgeuluso llafur, anwybodaeth, cnawdolrwydd, buchedd anaddas, a diffyg profiad. Sydd, Aelodau eglwysig:—trwy ddiogi, diffwrthydder, cybydd-dod, a rhodiad anaddas. 4ydd, Penau teuluoedd:—trwy esgeuluso crefydd deulnaidd, a rhoddi esamplau drwg i'w teulu. Mewn trefn i gymhell y pedwar dosbarth hyn i gyflawni eu gwaith yn ffyddlawn, dymunwn ystyried, (1.) Fod y byd yn farw, yn ddideimlad o'i berygl, ac yn cyflymu mewn anystyr-

iaeth i ddinistr tragwyddol. (2.) Mai hyny oedd eu cyflwr hwythau gynt. Os ydynt yn dduwiol yn awr, dylent gofio eu bod wedi bod yn annuwiol, ac yn rhodio y ffordd lydan i ddis-tryw; a dylent feddwl yn barhaus ei bod yn ddyledswydd arnynt deimlo dros, ac arfer moddion i waredu, eu cyd-ddynion sydd etto yn gorwedd yn dawel yn y sefyllfa beryglus y gwaredwyd hwy allan o honi. (3.) Dylent ystyried y canlyniadau dychryn-lyd a allant ddeilliau oddi wrth eu hesgeulusdra. Y mae ein testyn yn dyweyd yn bendant, os na rybuddiant hwy y dryg-ionus, mai y canlyniad o hyny fydd i'r drygionus farw yn ei anwiredd, ac mai y neb a esgeulusodd ei ddyledswydd tuag ato fydd yn enog o'i waed. O! pa sawl un sydd heddyw yn uffern a allasai fod yn y nefoedd, pe buasai Cristionogion yn ddigon ffyddlawn i'w rhybuddio hwy mewn pryd? O! pa fodd yr edrychant arnynt yn uffern, a hwythau heb ymdrechu i'w rhwystro i fyned yno? O'r tu arall, y fath gysur iddynt fydd gweled personau yn y nefoedd y buont hwy yn offerynau eu hachubiaeth! (4.) Bydded iddynt ystyried pa sawl un y buont yn offerynau i'w llygru cyn eu truedigaeth. Yr oeddynt o'r blaen yn gwneyd eu goreu i ddamnio eu cyd-ddynion, ac oni ddylent yn awr wneyd eu goreu i'w hachub? Yn sicr, dylai yr ystyriaeth hon eu cyffroi i lafur a ffyddlondeb gydag achos Iesu Grist. (5.) Bydded iddynt gofio y bydd eu cydwybodau yn deffro yn angen, ac yn holi yn awdurdodol ynghylch hyn. Cofiant y pryd hwnw am eu cymmydogion annuwiol, y rhai a aethant yn mlaen i ddinistr heb iddynt hwy eu rhybuddio o'u perygl, na dyweyd un gair wrthynt ynghylch mater eu heneid-iau. (6.) Meddyliant am y cyfleusderau lliosog y maent yn eu cael i rybuddio a chynghori ereill. Y maent yn cael cyfleusdra i wneyd hyn bob dydd o'u bywyd; ac arswydus fydd myned i'r farn heb wneuthur un defnydd o honynt. Bu amser yn y wlad hon pan y peryglai dynion eu bywydau wrth rybuddio ereill; ond yn bresennol, caniateir perffaith ryddid i bawb i wneyd hyn yn y modd mwyaf cyhoeddus. Pa fodd yr edrych-ant yn ngwyneb y merthyron a roddasant eu gwaed i rybuddio ereill, a hwythau wedi esgeuluso gwneyd hyny, er cael cyflawn ryddid. Nid oes neb yn rhy dlawd i gyflawni hyn o garedig-ryddid âg ereill. A ydyw yn ormod genych rod-di arian i rybuddio ereill? Rhoddod y merthyron eu gwaed i wneyd hyny. Gwaed a ofynid y pryd hwnw oddi ar law y neb a fynai rybuddio y drygionus; ac os rhoddasant hwy eu gwaed yn hytrach na bod yn ddistaw, pa beth ydyw i chwi rod-di eich arian? Y mae yn awr gymmaint o angenrheidrwydd rhybuddio trwy arian ag oedd y pryd hwnw trwy rod-di gwaed. Y mae mihynau o eneidiau mewn perygl, ac y mae eu hachubiaeth o werth annhraethadwy. (7.) Dylent ystyried mai cyn belled

ag y maent hwy yn ymdrechu i wneyd lleshâd ysbrydol i ereill, mai cyn belled a hyny y maent yn dwyn delw Duw, ac yn rhoddi prawf i ereill, ac yn cael prawf iddynt eu hunain, o'u bod wedi eu geni o Dduw. Cofier mai y brif ffordd i gynyddu a ddelw Duw ydyw ymdrechu gwneuthr daioni gydag achos yr Arglwydd. Nid teimlad yn unig ydyw, ond egwyddor weithgar—egwyddor sydd nid yn unig yn gwneyd dyn yn ddyn da, ond yn llenwi ei enaid âg awydd diragrith am wneyd daioni i ereill. (8.) Dylent gofio caredigrwydd Crist iddynt hwy fel annogaeth i fod yn garedig at ereill. Rhoddodd Crist ei fywyd i lawr er mwyn eu hachub hwy, a dylent hwythan arfer pob moddion i achub eu cyd-ddynion. Dywedir am Antiochus Epiphanes, iddo, wrth ymladd â Judas, tywysog yr Iuddewon, ddangos gwaed y grawnwin i'w elephantiaid, i'w cynnyfrin i ymladd. Felly y mae yr Ysbryd Glân yn dangos gwaed Crist i lenwi ein heneidiau âg eiddigedd. Nid arian a roddodd Crist, ond ei werthfawr waed. Benau teuluoedd, athrawon yr Ysgol Sabbothol! yr ydych yn gwario llawer o arian at gynnal a harddu y corph, ai ni roddwch chwi ychydig er achub eneidiau sydd yn y sefyllfa fwyaf peryglus? Os rhoddodd Crist ei hun drosom, ai gormod yw genych roddi rhybudd, neu air o gynghor, i bechuriaid i ffoi rhag y llied a fydd? Yr arian y dylid eu rhoddi at achos yr Arglwydd, ni cheir bendith arnynt os y camattellir hwy. Cadwodd Achan y llafn aur a'r fantel Fabilonig deg; ond ni bu y naill ond dagra, a'r llall ond aml iddo. Prynodd Ahab winllan â gwaed y perchenog; a hi ddyfrhawyd yn fuan â'i waed ef ei hun. Cafodd Gehazi daleu o arian, a dau bâr o ddillad ar lwybr drwg; ond cafodd wahanglwyf i'w canlyn, i lynu wrth ei hâd yn dragywydd. Myns Judas gael y deg darn ar hugain o arian; ond cafodd y crogwel ac uffern i'w canlyn. Y goludog a wastraffai drugareddau i tlawd; cawn ef yn fuan yn uffern. Boneddwr, a ladratasai lawer o aur; tywalltwyd yr aur hwnw yn fuan yn doddedig i'w eidd. Cofiwch y gwobrwyd Duw eich holl roddion diragrith at ei achos ef. Rywbryd, annogai Cristion athronydd i droi yn Gristion. Attebai yr athronydd, "Os deuf yn Gristion, rhaid i mi gollfy holl feddiannau bydol." Dywedai y llall, "Beth bynag a gollwch er mwyn Crist, bydd Crist yn sicr o'i dalu yn ol i chi ar ei ganfed." "A ewch chwi yn atebol dros Grist i mi," meddai y llall, "y telwch chwi oni thâl efe?" Attebai y llall, "Af." Felly, aeth yn gyttundeb rhyngddynt, ac ysgrifenydded ar bapur. Yn mhen hir amser, aeth yr athronydd yn glaf iawn: ac ar ei wely anghu, daliai ysgrif y cyttundeb yn ei law, a galwai am y llall, a dywedodd wrtho, "Nid oes arnoch chi ddim i'w dalu—talodd Crist y cwbl ei hun. Cymmerwch eich ysgrif, a llosgwch hi." Ni chaiff neb byth fod yn golledwr i

Grist. Os rhoddir hyd yn oed gwpanaid o ddwfr i un o'i ddysgyblion ef, y mae yn sicr o gael ei wobrwyo. Caredigrwydd yw ein cyfraith ni. Sylwir am y defaid yn y gwledydd poethion, os bydd un yn llesg, y saif y lleill rhyngddi a'r haul hyd nes ei hadfywio; a'r gwenyn, os bydd un yn glaf, galara'r cwbl. Aelodau'r corph a gynnorthwyant eu gilydd. Trigolion rhai o'r gwledydd sydd am fisoedd heb weled yr haul a ddringant i'r mynyddoedd, i ymryson cael y golwg cyntaf arno; a'r cyntaf a'i gwelo a ddywed wrth y lleill. Yr oedd ein byd ni fel y fagddu, cyn i oleuni yr efengyl dywynn arno. Pan gafodd Prydain olwg ar yr haul, yr oedd ar yr un pryd yn cael ei rhwymo i alw rhanau ereill o'r byd hefyd i'w weled. Rhaid i ni amlygu ein caredigrwydd at ein cydgredduriaid trwy ofalu am, a cheisio eu lleshâd ysbrydol. Nid ydym yn dangos un wreichionen o gariad atynt tra yn esgeuluso eu lleshâd, trwy foddion mor hawdd a rhad. Bydded i ni benderfynu arfer pob moddion—rhybuddio, cynghori, gweddio, a chyfranu ein harian i geisio dwyn ein cyd-ddynion o afael y perygl mawr y maent ynddo i ddiogelwch tragwyddol. AMEN.

P R E G E T H X X X I X .

YMOSTYNGIAD DUW I YMWELED A DYN.

Hebreaid ii. 6.

“Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Pa both yr dy i ti i feddwl am dano? neu fab dyn, i ti ymweled ag ef?”

Y MAE y bennod o'r blaen yn amlygiad o berson Crist; ond y mae y bennod hon yn annogaeth i wrandaw ac iawn ddefnyddio gweinidogaeth Crist. Y mae yr annogaeth i wrandaw ar weinidogaeth yn y bennod hon wedi ei sylfaenu ar yr athrawiaeth am ei berson yn y bennod o'r blaen:—“Am hyny, y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom.” “Am hyny,” sef, am fod “Duw wedi llefaru wrthym yn y dyddiau diweddol hyn yn ei Fab.” Am fod y person sydd yn llefaru yn “etifedd pob peth,” ac mai “trwyddo ef y gwnaethpwyd y bydoedd,” am ei fod yn “wir lun person” y Tad, ac yn “ddisgleirdeh gogoniant” y Tad, ac yn “cynnal pob peth trwy Air ei nerth,” am ei fod “wedi ei wneuthur yn well na'r angylion, yn gymaint ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na hwynt hwy;”—“Am hyny, y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom.”

Yn nechreu y bennod hon, y mae yr apostol yn defnyddio yr esampl o farn Duw a ddisgynodd ar yr Israaeliaid yn yr amlygwrch, o herwydd anufuddhau i weinidogaeth yr angylion, i'r rheswm i'n hannog i iawn ddefnyddio gweinidogaeth Crist:—“Canys os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy angylion.” Wrth “y gair a lefarwyd trwy angylion,” yr ydym yn deall y ddeddf foesol, yr hon a gyhoeddwyd ar Sinai trwy angylion. Dywed yr apostol mewn lle arall, fod y gyfraith “wedi ei threfnu trwy angylion,” ar Sinai, “yn llaw cyfryngwr.” Bu y gair hwn yr “gadarn,” yn awdurdodol, ac yn effeithiol; dangosodd Duw eiddigedd mawr drosto, a “derbyniodd pob trosedd” o hono “gyhiawn daledigaeth.” Gan hyny, “Pa fodd y diangwn ni yn ddigosp os esgeuluswn iachawdwriaeth gymmaint?” Dengy

yr apostol fod gweinidogaeth Crist yn tra rhagori ar weinidogaeth yr angylion. Rhagora yn fawr yn ei chynnwys. Deddf danlyd a gyhoeddwyd ar Sinai; ond "iachawdwriaeth gymmaint," iachawdwriaeth ddigonol i fyd o bechaduriaid, ydyw cynnwys gweinidogaeth Crist. Y mae gweinidogaeth Crist yn rhagori ar y weinidogaeth hono ar Sinai, ar gyfrif y person sydd yn llefaru. Trwy angylion y llefarwyd y gair hwnw ar Sinai; ond y mae gweinidogaeth hwn "wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd." Gan hyny, os oedd "troi oddi wrth yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaear" yn dwyn cosb arnynt hwy, pa faint "mwy o lawer nis diangwn ni, y rhai ydym yn troi ymaith oddi wrth yr hwn sydd yn llefaru o'r nef?" Y mae yr oruchwyliaeth hon yn rhagori ar weinidogaeth yr angylion ar gyfrif y sicrhâd mawr a roddodd Duw arni. Cadarnhawyd gweinidogaeth yr angylion ar Sinai trwy arwyddion a rhyfeddodau ofnadwy; o blegid yr oedd y mynydd "yn llosgi gan dân, a chwmmwl, a thywyllwch, a thymmhestl, a sain udgorn, a llef geiriau; ac mor ofnadwy oedd y golwg fel y dywedodd Moses, "Yr wyf yn ofni ac yn crynu;" *Heb. xii. 18, 19, 20.* Rhoddodd Duw yr arwyddion nerthol hyn i gydfyned â chyhoeddiad y gyfraith ar Sinai, i'r dyben o gadarnhau y weinidogaeth hono, er tystiolaeth i'r holl bobl fod y weinidogaeth hono yn ddwyfol, a bod Duw yn dwyn sêl ac eiddigedd tanlyd dros anrhydedd y gyfraith hono, ynghyd â'i fod yn sicr o ddial ar bob trosedd o honi. Ond cadarnhawyd gweinidogaeth Crist trwy arwyddion a rhyfeddodau llawer mwy; sef, trwy wyrthiau mawrion yr Arglwydd Iesu, a thrwy wyrthiau yr apostolion ar ol hyny. "Doniau yr Ysbryd Glân" ydyw doniau gwyrthiol, trwy ba rai yr oedd yr apostolion yn gwneuthur rhyfeddodau ofnadwy a digyffelyb. "Amryw nerthoedd;" *h.y.*, nid yn unig doniau gwyrthiol, ond hefyd y nerthoedd ofnadwy o dywalltiadau grymus o'r Ysbryd o'r uchelder ar ddydd y Pentecost, ac ar amserau ereill. Rhoddwyd yr holl bethau hyn gyda gweinidogaeth yr apostolion i'r dyben o argyhoeddi y byd o ddwyfoldeb eu cenadwri.

Wedi dangos rhagoriaeth gweinidogaeth Crist ar weinidogaeth yr angylion, dengys yr apostol yr offerynau yr ymddirieda Duw y weinidogaeth hon iddynt:—"Nid i'r angylion y darostyngodd efe y byd a ddaw." Wrth "y byd a ddaw" y meddylir teyrnas y Cyfryngwr dan yr oruchwyliaeth efengylaidd. Yr oedd y genedl Iuddewig gynt yn disgwyl y Messiah yn frenin, er eu bod dan gamsyniad mawr am natur ei frenhiniaeth; o blegid yr oeddynt hwy yn disgwyl y byddai i'r Messiah, pan ldeuai, osod i fyny frenhiniaeth ddaearol; ac yn tybied mai arnynt hwy yn unig y byddai efe yn frenin. Arferent alw y frenhiniaeth ddychymmygol hono a ddiagwylient, "y byd a

ddaw." Dichon eu bod wedi rhoddi yr enw hwn arni oddi wrth brophwydoliaeth Esaiah am "nefoedd newydd, a daear newydd." Felly y disgwylent hwythau i'r brophwydoliaeth hon gael ei chyflawni trwy i'r Messiah osod yn eu mysg hwy ei frenhiniaeth, a hono o natur fydol a chnawdol. Ond, medd yr apostol, "nid i'r angylion y darostyngodd efe y byd a ddaw." I'r angylion y rhoddodd efe y fraint o gyhoeddi y gyfraith ar Sinai; ond nid iddynt hwy y rhoddodd efe y fraint o fod yn offerynau i gyhoeddi, nac o fod yn wrthddrychau gweinidogaeth fawr yr oruchwyliaeth efengylaidd. Felly yma: yr enw hwn, a arferodd yr Iuddewon am y deyrnas ddychymyngol y disgwylent i'r Messiah ei gosod i fyny yn eu mysg, a gymmer yr apostol yma i ddynodi teyrnas ysbrydol y Messiah dan yr oruchwyliaeth efengylaidd. Ond rhoddwyd y fraint fawr o fod yn offerynau i gyhoeddi, yn gystal a bod yn wrthddrychau bendithion yr oruchwyliaeth efengylaidd i feibion dydon: "Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Pa beth yw dyn, i ti feddwl am dano? neu fab dyn, i ti ymweled âg ef?" Cymmer yr apostol enwau y gwrthddrychau a ddewisodd Duw i etifeddu rhagorfreintiau yr oruchwyliaeth efengylaidd i mewn gyda syndod mawr, yn ngeiriau y Salmydd, "Eithr un mewn rhyw fan;" *Salm* viii. 4. Yna sylwa i Dduw roddi anrhydedd mawr ar ddyn yn ei greadigaeth, yn mhell uwch law ei haoddiant—"Ti a'i gwnaethost ef ychydig is na'r angylion; â gogoniant ac anrhydedd y coronaist ti ef;" ond i ddyn gollu ei anrhydedd a'i awdurdod wreiddiol trwy bochod. Etto, dygir hyny, a mwy o lawer iawn, yn ol trwy Gyfryngwr, a thrwy weinidogaeth yr efengyl, fel moddion. Yna addefa yr apostol nad oedd hyny wedi ei gyflawni yn yr oes apostolaidd, o blegid "nid ydym ni etto yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo." Yr oedd llawer o wrthwynebiadau cryfion yn sefyll i fyny yn y byd yn erbyn yr efengyl yn yr oes apostolaidd, yn enwedig galluoedd gwladol y byd i gyd; ond rhaid bwrw y rhai hyny i lawr yn raddol o flaen yr efengyl, o blegid, er nad oedd hyny wedi ei gyflawni yn yr oes apostolaidd, etto, sicrhâ yr apostol y rhaid i hyny gymmeryd lle, drwy y rheswm cryf fod Iesu wedi myned trwy waith mawr y prynedigaeth, ac wedi "eistedd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd." Gan hyny, gellir ymddibynu ar ei ddyrchafiad ef fel digonol brawf y dyrchefir ei deyrnas ef trwy weinidogaeth yr efengyl fel moddion i lwyr fuddugoliaethu ar holl elynion crefydd yn y byd: "Eithr yr ydym ni yn gweled Iesu, yr hwn a wnaed ychydig yn is na'r angylion, o herwydd dioddef marwolaeth wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd; fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth dros bob dyn." Un o'r natur ddynol ydyw yntau, ac fel y cyfryw, wedi cyflawni gwaith Cyfryngwr; a chan

iddo ef ddyfod yn fuddugoliaethus trwy wneyd *iawn* yn ei farwolaeth, a chan iddo esgyn i'r nef a derbyn pob awdurdod, ymddengys mai y canlyniad sicr o hyny fydd buddugoliaeth a dychafiaid ei deyrnas ef ar y ddaear.

Yr athrawiaeth sydd yn gorwedd yn yr adnod a ddarllenwyd fel testyn ydyw, Mai rhyfeddod fawr ydyw i'r Arglwydd erioedd feddwl am, ac ymweled â dyn. Fe welir hyn wrth ystyried, o un tu, yr hyn ydyw Duw, ac o'r tu arall, yr hyn ydyw dyn, gan ddal y naill yn ngwyneb y llall.

I. *Yr hyn ydyw Duw.*

1. Ymddengys ei fod yn rhyfedd wrth ystyried priodoliaethau Duw.

1af, Ei fawredd, neu ei anfeidroldeb. Chwi a ryfeddech yn fawr weled brenin yn ymostwng i ymweled â chardotyn tlawd yn ei fwthyn isel ac aflan; o blegid y mae brenhinoedd yn arfer ymgadw yn mhell oddi wrth y dosbarth tlawd o'u deiliaid, a chyfrifent ollwng un o'r tlodion i mewn i'r palas i ymddangos ger eu bron yn ddinystyr ar eu hanrhydedd a'u mawrhydi. Ond dyfod i ymweled â'r tlawd yn ei fwthyn ei hun a fyddai yn fwy o ymostyngiad; i.e., y fath ymostyngiad na feiddiai ei ddisgwyl ar law brenhinoedd y ddaear. Ond dichon fod yn briodol iddynt hwy fod yn gynnil ar eu hanrhydedd, a gochel gwario y gwahaniaeth sydd rhyngddynt a'r tlodion; o blegid nid ydyw y gwahaniaeth yn helaeth. Nid yw yn amhossibl i'w dreulio ymaith, o herwydd y mae yn gynnwysedig yn unig mewn sefyllfa, ac nid yn eu cyfansoddiad personol. Os ydyw y brenin mewn un peth yn rhagori ar y tlawd, y mae mewn llawer o bethau yn gydwestad âg ef. Er ei fod yn rhagori mewn sefyllfa ddarfodedig, nid yw yn rhagori yn ei ddefnydd, yn ei waedoliaeth, yn ei gyflwr, yn ei hir gartref, sef y bedd, nac yn anfarwoldeb ei enaid. Gan hyny, rhaid iddo beidio ymweled â'r cardotyn, rhag iddo wario yr ychydig wahaniaeth sydd ganddo, o blegid ei holl ragoriaeth ydyw ei sefyllfa. Ond pa beth ydyw mawrhydi tywysogion y byd at fawrhydi Duw? Pa beth ydyw eu hawdurdod wrth ei awdurdod ef? Nid ydynt hwy ond ei weision ef; ei weision ef ydyw y pethau lleiaf. Pa beth ydyw eu teyrnasoedd wrth ei deyrnas ef? Nid ydyw holl deyrnasoedd y byd ond un pentref yn llywodraeth y Duw mawr. Pa beth ydyw eu gogoniant wrth ei ogoniant ef? Nid ydynt hwy yn rhagori ar ereill o ran eu personau, ond yn unig o ran eu sefyllfa. Ond y mae Duw â mawrhydi yn ei hanfod, a'i holl ogoniant yn ei natur, ac nid yn ei deyrnas. "Fel brycheuyn y cymmer efe yr ynusoedd i fyny." Pa beth ydyw eu presennoldeb hwy wrth bresennoldeb ofnadwy y Duwdod? Gosodwch hwynt ger bron Duw. Edrychwch yn y farn, a fydd i

bresennoldeb miliynau o honynt gymmylu gogoniant Duw! Os yn eu gogoniant eu hunain y byddant yn ymddangos ger ei fron, godidawgrwydd ofnadwy y Duwdod a'u tery i lawr i warth tragwyddol. Pa beth ydyw iselder, a thlodi, a gwarth y tlotaf o ddyinion, mewn ystyr naturiol, yn gyferbyniol â thlodi pechadur mewn ystyr foesol? Tlodi perffaith ydyw hwn; ond nid ydyw y llall yn berffaith. Tlodi gwaradwyddus ydyw hwn; tlodi a ddygasom arnom ein hunain; tlodi a ddygasom trwy ladrad, a llofruddiaeth; tlodi yn ein darostwng islaw anifail, o blegid gwynfydedig yw cyflwr yr anifail mewn cyferbyniad i hwn; tlodi na allasai Duw ei ddiwallu heb roddi ei Fab ei hun, yn ol lliaws ei dosturiaethau. Ond wele y Duw, sydd uwch law yr holl frenhinoedd, yn ymweled â dyn sydd islaw cyflwr cardodyn. Wele Frenin y brenhinoedd yn ymweled â dyn sydd garcharor llofruddiog. Chwi ryfeddech weled cerub yn ymweled â gwybedyn. Y mae y cerubiaid yn byw mewn gogoniant, ac wedi ymarfer â phethau gogoneddus, ac nid ydynt byth yn cymdeithasu â gwrthdrysau distadl a gwael, ac annheiwng o'u galluoedd cryfion. Rhyfeddech weled un o'r creaduriaid hyn, sydd o gyfansoddiad mor uchel, ac wedi arfer yfed eu hyfrydwch yn barhaus o Dduw ei hun—rhyfeddech eu gwled yn ymostwng i ymweled â gwybedyn yn y domen, ac yn disgyn o'r gogoniant ar y fath greadur. Cerub yn gadael ei drigfa ddedwydd! cerub oedd yn edrych ar ogoniant y Duwdod!—y cerub hwn yn ymweled â gwybedyn, ac yn disgyn ato i'r domen, ac yn ymweled âg ef yn ei fudreddi! y cerub sanctaidd yn ymweled â gwybedyn bob dydd, yn gofalu am symmudiad ei draed, a'i gamrau, ac yn dwyn iddo ymborth wrth ei angen! Byddai hyn i'w ryfeddu: ond ni byddai ond yn llai na dim mewn cymmhariaeth i fawredd yr ymostyngiad a ddangosir yn ngwaith Duw yn ymweled â dyn.

2il, Hunan-ymddibyniad Duw. Nid rhyfedd fod dyn yn ymweled â'r anifeiliaid, er eu bod islaw iddo; o blegid ymddibyns arnynt. Nid rhyfedd fod y brenin yn ymweled â'r fyddin, er ei bod yn cael ei hystyried islaw iddo o ran ei sefyllfa; o blegid y mae yn ymddibynu arni. Y fyddin sydd yn ei gadw ar ei orsedd, ac yn cadw ei goron ar ei ben. Nid rhyfedd fod yr angylion yn ymweled â dyn, er eu bod yn uwch o ran cyrhaeddiadau a chyflwr; etto, y maent yn ymddibynu llawer am eu dedwyddwch ar yr amlygiadau o Dduw yn iachawdwr-iaeth dyn, "ar yr hyn bethau y mae yr angylion yn chwennychna edrych;" ac y mae yn ddiammheu fod yr edrychiad hwn yn chwangediad nid bychan at eu dedwyddwch. Nid rhyfedd fod Sisera yn ymostwng i fyned i babell Jael, er ei fod yn dywysog—yr oedd ei natur dan angenheidrwydd am hyny. Ond nid oedd un gofod felly ar Dduw i ymweled â dyn; nid oedd ei

hapusrwydd yn ymddibynu ar hyny. Nid oedd raid iddo ef ymostwng i ymweled â dyn rhag ei ofn, fel yr Aiphthiaid gyda Joseph.

3ydd, Ei benarglwyddiaeth, neu ryddid ei ewyllys. Y mae yr Argliwydd yn gwneuthur pob peth yn ol cynghor ei ewyllys ei hun. Rhaid i Haman anrhydeddu Mordecai yn erbyn ei ewyllys; nid oedd ganddo ryddid ewyllys yn y mater: ond nid felly Duw, pan yn anrhydeddu pechadur. Y mae ganddo eithaf rhyddid ewyllys yn hyny. Gras hollol ynddo ydyw ymweled â dyn, ac nid rhwymau i neb: "Felly y carodd Duw y byd" yw y cwbl am yr achos. "Ewyllys da preswylydd y berth" yw yr holl annogaeth ar Dduw i ymweled â dyn. Nid rhyfedd fod Nebuchodonosor yn ymostwng at anifeiliaid y maes; nid oedd ei ewyllys yn gweithredu hyny—gorfod oedd arno. Nid rhyfedd oedd i Haman falch wisgo Mordecai dlawd â gwisg y brenin, gwneyd iddo farchogaeth ar farch y brenin, a rhoddi y goron frenhinol am ei ben ef, a chyhoeddi o'i flaen ef, "Fel hyn y gwneir i'r gŵr y mae y brenin yn mynu ei anrhydeddu;" o blegid o raid, ac nid o'i fodd, y gwnaeth efe hyn, ac felly nid oedd dim diolch iddo am y weithred. Ond o'i "wir ewyllys," heb ddim o'r tu allan iddo ei hun yn ei gymhell, y mae yr Argliwydd yn ymostwng i ymweled â dyn.

4ydd, Ei hollalluawgrwydd. Nid rhyfedd fod dyn yn ymostwng i'w wrthwynebwr rhag ofn cael ei daraw ganddo; ond nid felly yr ymostwng Duw at ddyn. Ni chafodd ei drechu etto, er ei fod wedi bod mewn llawer brwydr fawr. Nid rhaid iddo ofni ei drechu. Y mae ganddo gyflawnder o arfau angenol; pob peth at ei alwad mewn muniyd; pob peth a ewyllysia i ymladd â hwy yn anwrthwynebol: gall ddefnyddio holl elfenau natur, a phob creadur sydd mewn bod, fel offerynau i drechu ei elynion; a phe buasant oll yn rhy fychan, y mae ganddo hollalluawgrwydd i greu myrddiynau o offerynau newyddion. Nid rhyfedd fod Satan yn ymostwng i'w drech, sef Crist; ond nid ymostwng felly y mae Duw, ond ymostwng yn wirfoddol; ymweled â chreadur eiddil, distadl, a phechadurus—creadur nad oes ganddo un gallu i'w drechu.

5ed, Ei dragwyddoldeb. Nid rhyfedd fod creaduriaid distadl bob amser yn ymweled â'u gilydd; ond y mae fod y Bod tragwyddol, yr hwn sydd yn preswyllo ac yn llenwi tragwyddoldeb, yn ymweled â chreaduriaid bychain a thlodion amser, yn eu hanrhydeddu hwynt â'i bresennoldeb grasol, ac yn eu cyfoethogi hwynt â'i ras, yn ymostyngiad mor hynod, fel y mae yn destyn syndod i angylion.

6ed, Ei hollwybodaeth. Nid rhyfedd gweled Joseph yn ymweled â'i frodyr bradwras heb wybod eu bradwriaeth; ond y mae bradwriaeth dynion yn wybyddus i Dduw, er hyny y

mae yn ymweled â hwy; y mae yn gwybod ffyrdd dyn, er hyny yn ymweled âg ef. Nid mor ryfedd fuasai i Grist ddyfod i'r byd, pe buasai heb wybod y driniaeth a gai yn y byd; ond gwyddai efe y cwbl yn berffaith cyn dyfod i'r byd. Nid rhyfedd fod Joseph yn ymweled â'i frodyr heb wybod eu bradwriaeth; fod Samson yn ymweled â Dalilah heb wybod dichell ei chalou yn ei erbyn, heb wybod ei bod yn anffyddlaw'n iddo. "Gwyddwn," medd Duw, "y byddit lwy'r anffyddlaw'n." Aeth Jonah i'r llong heb wybod y bwrid ef i'r môr; ond daeth Crist i'r byd, gan wybod y bwrid ef i'r môr. Nid rhyfedd i Dafydd ddewis dyfod yn fab i Saul, heb wybod y codai Saul yn erbyn ei fywyd ef; ond gwyddai Mab Duw wrth ddyfod i'n teulu ni, y byddai raid iddo farw. Er i Satan annog dynion i ladd Crist, ni wyddai efe pa beth fyddai y canlyniad; ond gwyddai Duw pa faint a gostiai iddo ef.

7fed, Ei ddoethineb. Nid rhyfedd fyddai gweled dyn ffol yn ymweled â rhyw greadur yn mhell islaw iddo ef ei hun. Y mae dynion ffol mewn ystyr grefyddol yn rhoddi eu serch ar y pethau gwaelaf yn y greadigaeth, ymwelant â'r ychain yn lle dyfod i'r swper mawr; ond eu ffolineb hwy yw hyny. Y mae y dyn ieuangc heb ddeall yn ymweled â'r butain; ond y mae Duw yn anfeidrol ddoeth, ac etto yn ymweled âg abwydyn o ddyn. Cyfrifir y dyn hwnw yn ffol a gymdeithasa â, neu a wnelo gyfeillion o rai sydd yn llawer islaw iddo ef ei hun; ond gwna Duw felly, ac y mae hyny mor bell oddi wrth lychwino ei ddoethineb ef fel y mae yn brif amlygiad o'i ddoethineb. Rhyfedd fod yn ddoethineb i Dduw arbed bradwr gwrthryfelgar! Oni rydd hyny annogaeth i ereill i wrthryfela? Na rydd mewn un modd; y mae gan Dduw drefn i'w arbed heb fod hyny yn dyfod yn annogaeth i ereill i bechu. Ai doethineb yw i Dduw erfyn am gymmod â'i elyn, pryd y mae yn drech nag ef? Ai doethineb ydyw iddo achub hwn i'w addoli, pryd y gallai greu rhai ereill i'w addoli, a chosbi hwn? Gan mai felly y mae Duw yn gwneyd, rhaid ei bod yn weithred ddoeth.

8fed, Ymddengys yr ymostyngiad hwn yn rhyfedd wrth ystyried ei gyfiawnder. Pan yr ystyriwn fod dyn yn gollfarnedig ganddo ef ei hun, yn ngwyneb deddf anghyfnawidiol, a bod rhaid ar Dduw ei hamddiffyn, a dim modd ei hamddiffyn heb gosbi y troseddau o honi yn llawn, ymddengys yn rhyfedd iawn i Dduw ymweled yn rasol â'r fath yma. Ystyriwch fod y dyn yn droseddwr mawr yn erbyn Duw, ystyriwch Dduw cyfiawn yn myned uwch ben ei achos—pa fodd y gall ymweled âg ef ond yn ei lid? Y mae dan yr angenrheidrwydd o gosbi pob trosedd i amddiffyn ei enw—amddiffyn ei ddeddf a chyflawni ei air. Y mae y trosedd yn wybyddus iddo. Pe buasai heb ei wybod, nid mor ryfedd ei weled yn ymweled â'r pech-

adur. Ac y mae yr ymweliad mor bell oddi wrth lychwino ei gyfiawnder fel y mae yn dangos ei gyfiawnder ef. Onid yw hyn yn rhyfeddod? Ni welodd Duw lwybr addas i ymweled â'r pechadur, ac amddiffyn ei gyfiawnder ei hun, ond trwy iawn. Gosododd Duw ddeddf i ddyn—deddf ar y seiliau cryfaf—o'r natur oreu—i amddiffyn y dybenion mwyaf. Y mae y dyn yn droseddwr o honi—troseddwr oddi ar falais a dichell—yn droseddwr gwastadol—yn droseddwr o bob gorchymyn, mewn meddwl, gair, a gweithred. Y mae Duw dan angenrheidrwydd i'w hamddiffyn, a dangosodd yr eiddigedd mwyaf drosti. Arglwydd, ai meddwl ymweled â dyn yr ydwyf? Mi fynaf ymweled âg ef, pe byddai raid i mi symmud mynyddoedd o rwystrau, a thori drwy fyrdd o anhawsderau. Caiff fy noethineb lunio llwybr—ac nis gall lunio llwybr rhy ddrud genyf i ymweled â dyn. Mynaf ymweled âg ef pe byddai raid i mi ddarparu iawn fy hunan—anfon fy Mab, a'i daraw.

2. Ei weithredoedd—helaethrwydd ei greadigaeth. Y mae ganddo ymherodraeth fawr i'w llywodraethu, yn cynnwys byd-oedd mawrion, heb rif, llawn o greaduriaid amrywiol i ofalu am danynt. Rhaid iddo lywodraethu pob un, yn mhob man, a phob amser. Rhaid iddo ddarparu ymborth i bob rhyw, i bob un yn mhob rhyw, a'i ddwyn i bob un yn ei amser, cadw y bydoedd yn eu cylchoedd—bydoedd mawrion ar wasgar mawr, yn rhedeg mewn cyflymdra anhraethol, at amser nodedig, heb ddyrysu y lliaws aneirif—sylwa Duw ar bob un—meddwl am bob creadur bob munyd—cofia y cwbl—llywia y cwbl—ceidw y cwbl—ond er mor fawr yw ei lywodraeth, nid aeth rhyngddo â dyn; ni wnaeth y gofal iddo anghofio dyn. Tywysog ar gan' mil o wŷr ar faes y gwaed, a'i elynion lliosog yn dyfod yn ei erbyn—a all efe feddwl am rywbeth arall? Nid ydyw yn gallu meddwl am ei achosion teuluaid, personol, na'i fywyd; ond llywyddu y fyddin sydd yn dwyn ei holl feddwl—yn llyngcu ei holl fyfyrdod. Byddin fawr Duw ydyw yr holl greadigaeth, a'i filwyr ef ydyw pob creadur, o'r ymlusgiad yn y domen hyd y cerub yn y nefoedd; ac y mae y cwbl dan ei oruwchlywodraeth fanwl ef—yn ymladd o blaid ei amcanion, ac yn taraw y nŵd i drwch y blewyn bob ergyd. Fe welir y sylw hwn o ddyn yn rhyfedd wrth ystyried ei fod yn un o gymmait lliaws; ond pe na buasai ganddo neb ond efe ni buasai mor ryfedd. Nid rhyfedd gweled dyn heb un mab ei hun yn mabwysiadu rhai ereill i'w deulu. Ond yr oedd gan Dduw filoedd o feibion i fod yn etifeddion gogoniant byth; nid oedd arno eisieu meibion; y mae ganddo filoedd o angylion. Y mae ganddo luoedd aneirif o greaduriaid, ond dyn yn unig sydd yn wrthryfelwr. Nid rhyfedd fyddai gweled gŵr yn mabwysiadu un da, hardd, a rhinweddol iawn i'w deulu, er fod ganddo feibion ei hun, yn

enwedig os byddent oll yn rhai drygionus; ond yr oedd gan Dduw liaws o feibion heb droseddu erioed; ac etto y mae efe yn mabwysiadu rhai drygionus i'w deulu heb un rhinwedd na hawddgarwch ynddynt. Y mae ganddo gymmaint o greaduriaid sanctaidd ac uwch o ran eu cyfansoddiad na dyn. Y mae cymdeithas gwrthddrychau gwell yn ein diddyfnu oddi wrth rai gwaelach. Wedi i'r pen-trulliad gael ei gymmeryd o'r carchar, a'i osod eilwaith yn llys Pharoah, efe a anghofiodd Joseph. Wedi i ddyn gael ei ennill i garu Crist, y mae yn cael y fath bleser yn nghymdeithas Crist fel y mae pob peth yn myned yn ddim yn ei olwg, mewn cymmharfaeth iddo ef. Y mae gan Dduw gymdeithas gwrthddrychau gwell na phlant y ddaear hon. Ond er mai y goruchelder a'r cyssegr a breswylia Duw, etto efe a edrych ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd. Er fod ganddo angylion i'w caru, etto ni wrthyd ochenaid y carcharorion. Y rhai sydd yn gofalu am lawer o weithwyr, ni allant feddwl llawer am eu hachosion teuluaid; ond y mae Duw yn gofalu am weithwyr heb rifedi: ei weision ef ydyw pob peth. Y brenin sydd yn gofalu yn fanwl am lywodraethu ei ddeiliaid, ni all feddwl llawer am achos ei deulu. Pa faint llai y meddwl efe am achos y carcharorion sydd dan ei lywodraeth: nid edrych efe i achos y rhai hyny. Ond nid felly Duw!

II. Yr hyn ydyw dyn.

1. Yr hyn yw dyn o ran ei gyfansoddiad fel *creadur*. Er fod dyn o ran ei enaid yn gydstad â'r angylion, yn meddu cymmhwysder i ddal cymmundeib â'r Creawdwr, a lle uchel wedi ei roddi iddo yn y greadigaeth, etto y mae o ran ei gorph yn gydstad â'r anifail. O'r pridd y gwnaed ef, cynnyrch pridd sydd yn ei gynnal, ac i'r pridd y dychwel eilwaith. Gailw Solomon feibion dynion yn "anifeiliaid:" "Mi a ddywedais yn fy nghalon am gyflwr meibion dynion; fel y byddai i Dduw eu hamlygu hwynt, ac y gwelent hwythau mai anifeiliaid ydynt. Canys digwydd meibion dynion a ddigwydd i'r anifeiliaid; yr un digwydd sydd iddynt: fel y mae y naill yn marw, felly y bydd marw y llall; i.e. yr un chwythad sydd iddynt oll; fel nad oes mwy rhagoriaeth i ddyn nag i anifail; y mae y cwbl yn myned i'r un lle: pob un sydd o'r pridd, a phob un a dry i'r pridd eilwaith:" *Preg.* iii. 18, 19, 20. A pho isaf a distadl ydyw dyn, rhyfeddaf yn y byd yw i Dduw ymweled ag ef.

2. Yr hyn yw dyn o ran ei gyflwr fel *pechadur*. Yn laf, Y mae yn euog o droseddu deddf Duw, ac fel y cyfryw o dan ddeddfryd marwolaeth; ac ni oddefai y gyfraith i'r Arglywydd ymweled yn rasol â dyn heb iddi gael iawn digonol am ei bechod. Yn 2il, Y mae yn halogedig. Nid yn unig y mae yn euog,

ond y mae ei holl natur yn aflan a halogedig, ac y mae yn rhyfeddod fawr i'r Duw sydd yn anfeidrol mewn sancteiddrwydd feddwl erioed am achub y fath creadur. Yn Sydd, Y mae ei ymddygiad at Dduw yn bechadurus. Nid yn unig y mae gelyniaeth yn ei galon at Dduw, ond y mae yr elyniaeth hono yn tori allan mewn gwrthryfel yn erbyn Duw. Y mae yn wirfoddol yn gwrthod Duw fel ffynnon dedwyddwch, ac yn "cloddio pydewau iddo ei hun," y rhai "ni ddaliant ddwfr." Beth ydyw hyn? onid gwrthod Duw er mwyn gwagedd—gwrthod pleser sylweddol er mwyn pleser twyllodrus—gwrthod nefoedd er mwyn y ddaear! Y mae yr annuwiol yn defnyddio y cymmhwysderau a roddodd Duw iddo i'w wasanaethu i wrthryfela yn ei erbyn. Y mae dyn yn meddu cymmhwysderau uchel. Duw a'u rhoddodd hwy iddo i'r dyben o'i wasanaethu ef. Y mae dyn yn eu troi oddi wrth eu dyben priodol, i'w wrthwyn-ebu—yn troi trugareddau Duw i wrthryfela yn ei erbyn. Y mae milwyr daearol yn byw ar eu tywysog; ond y mae gelynion Duw yn byw ar Dduw i ymladd yn ei erbyn, yn derbyn eu hymborth o law Duw, a'i ddefnyddio i ymladd yn ei erbyn; yn cael dillad, bywyd, iechyd, synwyr, anadl, a phob peth ganddo, ac etto yn defnyddio y cwbl i bechu yn ei erbyn: "Megais a meithrinais feibion; a hwy a wrthryfelasant i'm herbyn;" *Esa. i. 2.* Dyma yr ad-daliad a delir ganddynt am holl garedigrwydd Duw tuag atynt. Y mae dyn hefyd yn dirmygu Duw trwy anufuddhau i'w ddeddf. Mawr ydyw eiddigedd brenhinoedd y ddaear dros eu deddfau. Eu deddfau sydd yn amddiffyn eu gorseddfeingciau; hwy ydyw swm eu llywodraeth, eu gallu i gyflawni eu hamcanion, a'u muriau i attal y drygionus yn ei lwybrau. Gosododd Duw ddeddf dda a chyfiawn i ddyn. Y mae deddfau dynol nad oes un fantais yn deilliaw oddi wrth eu cadw; ond cydffurfiad â deddf Duw ydyw ein hapusrwydd. Y mae dyn wedi troseddu y ddeddf hon—wedi troseddu pob gorchymyn o honi, yn ei throseddu yn barhaus o wir ymroddiad calon, oddi ar egwyddor o elyniaeth yn erbyn Duw, ac yn ei throseddu heb un rhaid na gorfod, heb un gorthrech, yn wirfoddol, o ddewisiad. Ond ni bu brenin daearol erioed mor eiddigus dros ei ddeddf ag ydyw Duw. Gwnaeth Duw gyfammod âg Adda o eiddigedd dros ei ddeddf. Troes yr angylion o'r nefoedd, Adda o Eden, boddodd y byd â diluw, llosgodd Sodom a Gomorrah â than, tywalltodd farnau ar yr Aipht, anfonodd yr Israeliaid i gaethiwed Babilon, cosbodd ei anwyl Fab, a dinystriodd Jerusalem, oddi ar eiddigedd dros ei gyfraith! Er ei fod yn Dduw tosturiol, cosba byth yn uffern; a gosododd ddiwrnód i farnu y byd, a chyfyd bob llychyn o gorph yr annuwiol i'w gosbi, oddi ar eiddigedd dros ei gyfraith. Y mae dyn hefyd yn gwrthod iachawdwriaeth Duw,

ac yn dirmygu Mab Duw. Iachawdwriaeth ydyw prif fater ei arfaeth, y prif amlygiad o'i briodoliaethau, ei brif ogoniant mynegol, gwobr ei Fab, a dyben yr holl greadigaeth. Fel y mae dyn yn dwyn eiddigedd mawr dros ei brif ddyfais a'i bri amcan, felly Duw dros iachawdwriaeth. Aeth Duw i draul fawr i barotoi iachawdwriaeth, lladdodd ei basgedigion, huliodd ei fwrdd, cymmysgodd ei win, rhoddodd ei Fab ar y bwrdd. Ni wnaeth neb ond efe felly. Mesurwch eiddigedd Duw dros ei iachawdwriaeth wrth y draul yr aeth efe iddi i'w gwneyd. Os ewyllsiecch wybod pa faint yw ei eiddigedd, ystyriwch pa faint a roddodd efe i hulo y bwrdd. Y mae dyn yn gwrthod y cwbl, er fod y ddarpariaeth yn ddigonol, yn rhad, yn werthfawr, ac yn dragwyddol. Y mae Duw yn ei alw ati, a'r dyn yn ei gwrthod. Y mae Duw yn galw ar ddyn yn daer, yn dirion, yn garedig, ac yn defnyddio y rhesyman cryfaf i'w gymmhell i droi ato. Y mae dyn hefyd yn beio rhagluniaeth Duw. Y mae pawb yn eiddigus dros ei drefniadau, yn enwedig pan y mae yn ca cyfrif yn rhai doeth a da. Y mae rhagluniaeth Duw i gyd yn ddoeth, yn dda, a chyfiawn; ond y mae dyn yn ei beio oll. Y mae yn ei beio wrth Dduw yn ei weddiau, yn ei ymddiddanion, ac wrtho ei hun yn ei feddwl.

Ai meddwl am *ddyn* yr ydwyt ti, Arglwydd? Cofia ei ymddygiad! Dyn a dorodd dy gyfammod ág ef! Dyn a droes dy ogoniant ymaith, a fathrodd dy gyfraith lân, a redodd yn y gwddf i ti, a amcanodd at dy fywyd, ac a gamddefnyddiodd dy drugareddau gwerthfawr! Pan ddanfonaist dy Fab i'r byd, dyn a ddaeth i'w erlid, i'w waradwyddo, ac i boeri yn ei wyneb! Cofia hyny. Fflangellodd ei gefn, tynodd flew ei gernaau, a rhoddodd y groes ar ei gefn briw! Pan yr oedd yn sefyll ar Galfaria, yn ymyl ei groes, ni foiddiai y cythreuliaid ymafyd ynddo i rododi codwm iddo ar y groes, i'w hoelio, rhag ei ofn; ac ni oddefai efe i'r diafol ei godymu; ond dioddefodd i ddyn ei godymu, a hoelio ei ddwylaw a'i draed—o gariad ato. Os meddyli am ddyn, meddwl am ei ddamnio a ddylet, Arglwydd! meddwl am ei rwymo, draed a dwylaw, a'i daslu i'r tywyllwch eithaf! meddwl am ysgrifenu ei holl weithredoedd, i'w hédliw iddo byth yn uffern! a meddwl dy fod yn ymddwyn ato yn well na'i haeddiant, yn ei adael yn fyw ar y ddaear! 'Gwir! gwir!' medd llawer enaid yn y dorf. Ond er hyn oll, y mae Duw wedi meddwl am ddyn—wedi meddwl yn rasol am ddyn—wedi meddwl meddyliau o hedd am ddyn! 'I ba beth yr wyt yn rhodio yn mysg prenau yr ardd yna, Arglwydd?' 'Wedi meddwl am ddyn yr ydwyf. Meddwl galw ar ol dyn yr ydwyf.' O diolch! a dyma'r llais allan, "Adda!"—O! dyna ryfedded! Cofia dy gyfiawnder, Arglwydd, a dywed, 'Dos oddi wrthyf i ddistryw!' "Adda, pa le yr wyt ti? 'Rhaid i mi dy

gael di etto! Pa ham yr ordeiniaist yr aberthu a'r poeth-offrymu yna yn mysg dynion, Arglwydd? 'Meddwl cymmodi â dyn yr ydwyf.' Pa ham yr ydwyf yn gorchymyn gwneuthur y tabernacl yna yn yr anialwch? 'Meddwl trigo gyda dyn yr ydwyf.' Pa ham y gorchymynaist wneuthur y deml fawr yna yn Jerusalem? 'Meddwl preswyllo gyda dyn ar y ddaear yr ydwyf.' Pa ham yr anfonaist dy Fab i'r byd? 'Meddwl codi dyn yr ydwyf.' Pa ham yr anfonaist dy Fab i'r gwarth mawr yna? 'Meddwl gogoneddu dyn yr ydwyf.' Pa ham yr anfonaist dy Fab i'r tlodi yna? 'Meddwl cyfoethogi dyn yr ydwyf trwy ei dlodi ef.' Pa ham yr ydwyf yn galw y cleddyf i ddeffro, a tharaw dy anwyl Fab? 'Meddwl arbed dyn yr ydwyf.' Pa ham y gwnaethost dy fendigedig Fab yn felldith? 'Meddwl bendithio dyn yr ydwyf.' Pa ham y clwyfwyd ef mor ddwfn? 'Meddwl iachau dyn yr ydwyf.' Pa ham y goddefaist iddo gael ei roddi yn y bedd? 'Meddwl iddo lyngcu angu dyn yr ydwyf mewn buddugoliaeth.' Pa ham y gorchymynaist i'r cymmylau wlawio? 'Meddwl am ddyn yr ydwyf.' O Arglwydd! cofia pwy ydyw dyn! Dyn sydd wedi cefnu arnat, dy ddirmygu, a rhedeg yn y gwddf i ti! Cofia pwy ydyw dyn. O Arglwydd! pa ham yr ydwyf yn agor ffynnon fawr mor ddrud, mor rinweddol, goch o waed? 'Meddwl golchi dyn yr ydwyf.' Pa ham y darperi wisg, y gwaagi y wir winwydden, a'r gwin coch yn rhedeg o honi? 'Meddwl lloni calon dyn yr ydwyf.' Iesu mawr! pa ham y daethost i fru gwryf? 'Meddwl am ddyn a'm tynodd i yma, ac a'm dygodd i'r preseb, ac o dan fflangellau, ac i gario fy nghroes ar fy nghefn briw.' Pa ham y rhoddaist dy draed a'th ddwylaw i'w hoelio, ac y rhoddaist i fyny yr ysbryd? A allast ti ddim byw? 'O! na: meddwl am ddyn a barodd y cwbl!

III. Pa fath feddwl ydyw meddwl Duw am ddyn?

1. Meddwl tragwyddol ydyw. "Yr Arglwydd a'm meddianodd i yn nechreuaed ei ffordd, cyn ei weithredoedd erioed;" *Diar.* viii. 22. Y mae "ei fynediad allan er dyddiau tragwyddoldeb." Achub yn ol yr "arfaeth dragwyddol" y mae Duw.

2. Meddwl anghyfnewidiol. "Cyfammod fy hedd ni syfl." Y mae yn meddwl am danat yn y dwfr, ac yn y tân, yn y dyfnder, yn mol y morfil, yn Babilon, a'r Aipht, yn ffau y llewod, a'r ffwrn dân. Llauer a ymbilant o flaen pendefig; ond wedi iddo ddyfod yn dlawd, bydd pawb yn ei adael ef. Ond er mai tlawd ac anghenus ydwyf, "etto," yr Arglwydd a feddwl am danaf."

3. Meddwl doeth ac addas i'th achos. Y mae y meddyg yn meddwl llauer am y claf; ond weithiau, yn methu adnabod ei afiechyd; am hyny, y mae yn meddwl y cwbl yn annoeth ac

ofer. Y mae y cyfreithiwr yn meddwl llawer am achos yr achwynydd; ond heb ddoethineb i'w ddeall. Ond y mae Duw wedi meddwl yn ddoeth am dy afiechyd di, ac am dy gŵyn pwysig.

4. Meddwl effeithiol ydyw. Nid fel rhai, yn meddwl am y tlawd, heb roddi dim iddo. Dywed rhai, "Byddaf yn meddwl llawer am danoch," ond heb roddi dim iddo. Y mae y meddwl yna yn ei adael i drengu. Ond ni sydd yn dlawd, a Duw wedi meddwl am danom—ond nid yn ddiffirwyth. Nid meddwl am ein hangen, heb roddi dim i ni; nid meddwl am ein noethni, heb ein gwisgo; nid meddwl am ein newyn, heb roddi dim ymborth i ni; nid meddwl am ein dyled, heb ei thalu; nid meddwl am ein caethiwed, heb ein rhyddhau; ond meddwl am danom, ac ymweled â ni, a dyfod atom i'r carchar; meddwl am ein noethni, a'n gwisgo; meddwl am ein tlodi, ac anfon ei Fab i'n cyfoethogi; meddwl am Daniel yn y ffau, ac ymweled âg ef i'w waredu; meddwl am y tri llanc yn y ffwrn, Joseph yn y carchar, Jonah yn mol y morfil, Paul a Silas yn y carchar, ac anfon ymwared iddynt; a meddwl am danat tithau yn y pydew, ac ymweled â thi; dan dy faich, ymweled i'th nerthu, i gario dy faich; dyfod atat yn y frwydr boeth, i'th gynnorthwyo i orchfygu dy elynion; meddwl am dy anghenion tymmorol, ac ymweled â thi i ddiwallu dy anghenion, i hulo dy fwrdd, a gwisgo dy gefn.

5. Meddwl cyfoethog a haelionus. Rhaid i ddyn, wrth feddwl haelioni, feddwl yn gynnil ar ei allu ei hun; ond y mae Duw wedi meddwl yn haelionus, wedi meddwl yn gyfoethog o ras, wedi meddwl rhoddi i filoedd heb rifedi filoedd o fendithion i bob un, a phob un o honynt o werth annhraethol; ac wedi meddwl rhoddi yn wastadol, yn helaeth, yn ddiffino, ac heb ddannod. AMEN.

PREGETH XL.

GWEDDIO O'E GALON.

Jeremiah xxix. 13.

“Ceisiwch fi hefyd, a chwi a'm cewch, pan y'm ceisioch â'ch holl galon.”

Ffe allai na bu erioed fwy o weddio yn Nghymru nag sydd yn bresennol. Byddai yn anhawdd nodi dyn hollol ddiweddi yn ein mysg. Y rhai sydd yn esgeuluso rhanau pwysig ereill o grefydd, ydynt er hyny, ar amserau, yn gweddio. A diammheu fod llawer iawn o weddio ffurfiol a rhagrithiol, a bod rhai hefyd yn gwir weddio. Y mae y naill a'r llall yn ammheu ac yn petruso a ydyw eu gweddiau yn gywir.

Peth o bwys mawr ydyw, fod ein gweddiau yn gywir a chymmeradwy. Byddai yn ddymunol gan bawb sydd yn arfer gweddio gael gwybod yn sicr a ydyw eu gweddiau yn cael derbyniad. Y mae pawb yn disgwyl pethau mawrion trwy weddio. Y mae rhai gweddiwyr mewn mwy o bryder am lwyddo nag ereill; yr hyn sydd yn argoel dda iawn.

Cynnygiwn yn awr roddi rhai cyfarwyddiadau i'r gweddiwr allu gwybod pa un ai ffurfiol ai gwirioneddol ydyw ei weddiau. Yn y testyn, ymddengys mai yr hyn sydd yn gwahaniaethu gwir weddi oddi wrth y gau ydyw, fod y naill o'r galon a'r llall yn ffurfiol. Y mae rhanau ereill o'r Gair yn nodi rhagoriaethau gwahanol. Weithiau, fydd ydyw ei rhagoriaeth; weithiau, taerineb; a phryd arall, gostyngeddwydd, neu edifeirwch; ond y darluniad o honi yma ydyw, gweddi o'r galon. Lle y byddo hyn, y mae y lleill oll. Y mae manylrwydd mawr yn perthyn i reolau gweddi. Gofynant lawer o bethau ynghyd, ac yn benderfynol, tuag at gael gwrandawriad; ond gweddio â'r galon a gynnwys y cwbl. Y mae manylrwydd yn ofynol gyda phethau pwysig. Rhoddir hanes manwl am amgylchiadau bywyd, genedigaeth, a marwolaeth Crist. Crybwyllir llawer o amgylchiadau distadl, er mwyn sicrhau peth o'r fath bwys ag ydyw sail cred am iachawdwriaeth. Gweddi gywir sydd yn sicr o lwyddo. Nid ydyw Daw fel gwrandawr gweddi, mwy nag fel barnwr, yn

cymmeradwyo un ac yn condemnio y llall, heb fod gwahaniaeth rhyngddynt yn galw am hyny. Gweddi lwyddiannus, er nad yw yn haeddu, sydd yn mawr ragori—fel Mair (*Luc* i. 28—32): “Henffych well, yr hon a gefaist ras; yr Arglwydd sydd gyda thi; ti a gefaist ffafr gyda Duw; ti a gei feichiogi, ac a esgori.” Felly y mae rhyw ras ar y weddi sydd yn esgor—y weddi sydd yn cael ei hatteb.

I. *Pa beth ydyw gweddi o'r galon?*

Saif gweddi o'r galon yn wrthwyneb i weddi ffurfiol a rhag-rithiol. Nid rhoddi glin a gefus yn unig ydyw.

1. Y mae yn cynnwys gweddio oddi ar deimlad calon, argyhoeddiad o drueni, awyddfryd cryf am gael y peth, a thralloed mawr yn y meddwl.

2. Y mae yn cynnwys teimlad argyhoeddiadol o'n dibyniad hollol ar Dduw am y peth y byddwn yn ei ofyn, yr hyn sydd yn cael ei osod allan yn fynych yn holl weddiau y Beibl: “Ti a ganfyddi anwiredd a chamwedd, i roddi tâl a'th ddwylaw dy hun.” “Arnat ti y gedy y tlawd.” “Ti yw cynnorthwywr yr amddifad a'r weddw.” “Yr Arglwydd sydd frenin byth yn dragywydd: dyfethwyd y cenedloedd allan o'i dir ef.” Gweddi y Salmwydd yma am ymwared o law ei elynion, ac addeda mai Duw ydyw cynnorthwywr yr amddifad. “Cadw fi, canys yn yr ymddiriedaf;” sef, Yr wyf yn dy gydnabod fel fy unig amddiffyn.

3. Y mae yn cynnwys argyhoeddiad o werth y fendith: y mawr bwys o honi, neu ei bod yn angenrheidiol i ddyben mawr—ei bod i lanw lle mawr yn y ddarpariaeth tuag at ein dedwyddwch ein hunain, neu ereill. Yr oedd y Salmwydd yn gweled ac yn teimlo fod anghyngar neu wrandawriad gweddi yn sicr iddo. “O Arglwydd Dduw fy iachawdwriaeth, gwaeddais o'th flaen ddydd a nos. Deued fy ngweddi ger dy fron: gostwng dy glust at fy llefain. Canys fy enaid a lanwyd o flinderau; a'm heinioes a nesâ i'r beddrod. Cyfrifwyd fi gyda'r rhai a ddi-gynant i'r pwll: ydwyf fel gŵr heb nerth. Yn rhydd yn mysg y meirw, fel rhai wedi eu lladd, yn gorwedd mewn bedd, i rhai ni chofi mwy; a hwy a dorwyd oddi wrth dy law;” *Salm* lxxxviii. 1—5. Cael eu cyfrif gan ereill yn farw, sef yn llwyr ddinystriol.

II. *Pa fodd y gwybyddwn a ydyw ein gweddiau o'r galon?*

Nis gellir gosod rheolau i alluogi pawb i benderfynu hyn. Y mae rhai, fe allai, yn debyg i wir weddiwyr, ac heb fod felly. Y mae ereill mor ddifater fel nad edrychant i'r peth yn fanwl.

1. Sylwn ar hyn yn nacaol. 1af, Nis gellir ei gwahaniaethu wrth ei geiriau. 2il, Nis gellir ei hadnabod wrth y ffurfiol.

Dichon fod ffurf drefnus a difai, heb ddyfod o'r galon; a dichon fod ffurf llai trefnus yn dyfod o'r galon. Y mae genym rai ffurfiau o weddïau y galon yn y Gair, a'r rhai hyny yn bur wahanol, ac amrywiol o ran geiriau, trefn, a mater. Y ffurf sydd yn ymddibynu ar wybodaeth a doniau naturiol yn fwy nag yn ffrwyth y galon, yn debyg fel y mae ffurf wyneb y môr yn dibynu ar y gwynt yn fwy nag ar ddyfnder y môr. 3ydd, Nid yw yn hawdd penderfynu wrth *fater* gweddi. Gall gweddi ffurfiol fod ar fater da a phwysig iawn. Diau fod llawer yn gweddio yn ffurfiol am faddeuant. Y mae rhai yn gweddio o'r galon weithiau am betthau heb fod yn unol âg ewyllys Duw. Ceir enghreifftiau o hyn yn ngwaith y dysgyblion yn gweddio am dân o'r nef; Moses yn gweddio am weled Duw; Dafydd yn gweddio dros Absalom; Paul yn gweddio am ymwared oddi wrth y swmbwl yn y cnawd. 4ydd, Nis gellir penderfynu wrth ei hyd, amledd ei geiriau, na'r sêl a ddangosir yuddi. Yr oedd y Phariseaid yn gweddio yn hir, ac yn arfer llawer o eiriau, ac etto yn rhagrithiol. Gall fod meithder gyda rhith, a gall fod gyda chywirdeb. Y mae cywirdeb yn debyg o fod yn faith ar achosion neillduol; y mae troion anghyffredin yn sicr o gyffroi ysbryd gweddio. Bod yr un fath bob amser sydd yn argoel o ffurfioldeb; fel ysgogiad peiriant, yn ysgogi yn wastad yr un fath. Ond y mae bywyd yn amrywio. Y mae gau weddiwyr yn fynych yn faith yn eu gweddïau cyhoeddus ger bron dynion (*Luc* ii. 37; *Act.* ii. 46). Ond nis gellir penderfynu pa un ai cywir ai anghywir yw gweddi oddi wrth ei meithder: *Esa.* i. 11—15; *lviii.* 2—4. 5ed, Gall fod taerineb heb y galon. Yr oedd prophwydi Baal yn daer iawn, ac yn tori eu hunain. Y mae yr annuwiol yn galw ar Dduw mewn cyfyngder, gyda thaerineb mawr: "Pan laddai efe hwynt, hwy a'i ceisient ef, ac a ddychwelent, ac a geisient Dduw yn foreu;" *Salm* lxxviii. 34. Y mae pawb yn daer mewn cyfyngder. Yr oedd cenedl Israel ar lan y môr yn gweddio ar yr Arglwydd, ac yn daer iawn yn y fath gyfyngder mawr. Gall dyn fod yn daer o gau ddyben, dros ei chwantau. Y mae dynolryw yn gwneyd ymdrech mawr dros eu chwantau. Y mae yn wir fod taerineb yn y weddi o'r galon. Nid taerineb chwant ar ei wrthddrych; ond taerineb yn codi oddi ar achosion mwy cedyrn, ac er mwyn dybenion mwy pwysig, ac oddi ar argyhoeddiad o'r pwys o fod yn gadwedig. Y mae bron yr holl enwau sydd ar weddi yn y Beibl yn dangos taerineb neillduol yn gystal a theimlad dwys; dengys yr hanesion am y gweddïau a fuont yn hynod mewn llwyddiant fod y cyfryw weddïau bob amser yn cael eu nodweddu gan daerineb mawr. Yr oedd awydd Herodias am ben Ioan Fed-yddiwr wedi cyfodi i'r fath radd fel y dewisai ef o flaen hanner y deyrnas. Mor gryf y mae chwant am ei abwyd!

2. Gellir rhoddi disgrifiad cadarnhaol. Enwn rai pethau sydd yn arwyddion o weddi o'r galon—

1af, Y mae yn golygu gogoniant Duw fel dyben. Yr ydym i wneuthur pob peth er gogoniant i Dduw, ac yn enwedig gweddio. Yr ydym mewn perygl o geisio cyrhaedd amcan hunanol wrth ofyn bendith dumewnol ac ysbrydol i ni ein hunain, ac ereill hefyd: *Esa.* xxxvii. 17. "Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, am eich bod yn gofyn ar gam, fel y galloch eu treulio ar eich melus-chwantau;" *Iago* iv. 3. Un a fydd yn ceisio cymmwynas gan arall gydag ymroddiad mawr, efe a edrych a fyddai caniatâu hyny iddo yn gydunol â lles neu enw y llall. Jonah a geisiai ei enw a'i eirwiredd ei hun yn fwy na bywyd y ddinas a gogoniant Duw. Gall fod dymuniad am enw neu elw wrth y gwraidd wrth gyfarch Duw, yn fwy na charad ato, a gwir barch iddo. Daeth un at dywysog, gan gynnwys iddo swm mawr o arian am iddo gael dyfod o'i flaen bob dydd i'w gyfarch ef. Gofynai y tywysog iddo, pa les a fyddai hyn iddo? Dywedai, "Codai hyn fi i enw mawr yn y llys; a'r farf hono am danaf a ddygai i mi fwy o elw na'r swm addawedig." Os nad ydwyf yn teimlo fod digon yn Nuw ei hun i ennill dy wasanaeth, nid ydwyf yn gywir. Yr wyt yn cael dy lywodraethu gan gau-ddybenion; megys, tawelu cydwybod, gwneud iawn am ryw bechod, boddio cyfeillion, ennill cyfoeth, clod, ac esmwythder.

2il, Ymostyngiad i ewyllys Duw. Y mae yn amhosibl gweddio o'r galon heb hyn: "A hyn yw yr hyfder sydd genym tuag ato ef; ei fod ef yn ein gwrandaw ni, os gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef;" 1 *Ioan* v. 14. Mewn ymostyngiad i ewyllys Duw y gweddiâu Crist ei hun:—"O Dad! os ewyllysi droi y cwpan hwn oddi wrthyf: er hyny, nid fy ewyllys i, ond yr eiddo ti a wneler;" *Luc* xxii. 42. Dylai dyn, wrth weddio, wneyd fel y claf o dan law y meddyg, fel y priddlestr dan law y crocher-ydd—ymostwng yn ewyllysgar yn y pethau fyddo yn groes i'r teimladau a'n manteision bydol. Yr oedd Paul, er yn teimlo awydd i fyw, yn foddlaw'n i farw, os hyny oedd ewyllys Duw. Y mae y dyn sydd yn ceisio pethau o'r galon yn foddlaw'n i ewyllys ei gymmwynaswr ar beth mawr; fel y mae y claf gyda'r meddyg.

3ydd, Ymallyd yn gadarn yn nhrngaredd ac addewid Duw. Gall Crist apelio at gyfiawnder drosom ar sail iawn; ond rhaid i ni apelio at drugaredd. Jacob a ddadleuai deilyngdod wrth Laban am ei gyflog: ond nid felly gyda Duw; "Ni ryglyddais y lleiaf o'rh drugareddau." Cawn y Salmydd yn fynych yn ymallyd mewn trugaredd. Y mae y publican yn esampl nodedig o hyn. Dyn yn gofyn pethau o'r galon i'w gynnwys, neu rywun, a appelia at ei drugaredd; dyn yn ceisio unrhyw beth

gydag ymroddiad mawr, onid all ei gyrrhaedd trwy un ffordd arall, appelia at drugaredd. "Nid o herwydd ein cyfiawnderau ein hun yr ydym yn tywallt ein gweddiau ger dy fron, eithr o herwydd dy aml drugareddau di;" *Dan. ix. 18.* Ac nid ydyw appeliad cywir at drugaredd Duw byth yn aflwyddiannus.

4ydd, Edifeirwch tuag at Dduw am bechod. Cynnwysa yr edifeirwch hwn gyfaddefiad syml a llawn o bechod, a galar dwfn am dano, ac ymadawiad oddi wrtho. Rhagrith ydyw cyfaddef pechod, a byw ynddo: fel rhai cardotwyr yn dangos eu briwiau, ond heb ddymuno eu hiachau.

5ed, Ymafyd yn gadarn yn aberth y Cyfryngwr. Dylid gofyn yn ei enw ef, a dadleu ei iawn ef. Fel un yn eiriol gyda brenin am fywyd rhyw berthynas, efe a gais enw rhyw un a fyddo yn gymmeradwy gan y brenin. Dyn yn ymroddedig ac egniol i geisio rhywbeth, efe a edrych gyda gofal manwl am y moddion cymmhwysaf i sicrhau ei amcan. Felly y masnachwr, y celfyddydwr, yr amaethwr, a'r milwr; felly hefyd y mae y gwir weddiwr yn gwneyd. Ac os dyn mewn carchar, ac yn rhoddi ei lawn fryd ar ddyfod allan, efe a enfyn ei archiad at un mewn awdurdod. Rhoddodd William Pitt ei lawn fryd ar waredu Prydain rhag Buonaparte: anfonodd at alluocedd ereill i erfyn arnynt gydweithredu âg ef i'w wrthwynebu. Dyn â'i holl galon am fyned i ryw le, a ymfyn am yr iawn ffordd. Tra y credodd Pedr, yr oedd y môr yn bres; ond pan yr ofnodd, troes yn ddwfr.

6ed, Gweddio yn nghymmhorth yr Ysbryd Glân. Gweddio o'r galon, nis gall fod heb ei gymmhorth ef. Yr ydym ni yn weiniaid, ond y mae efe yn "cynnorthwyo ein gwendid ni." "Ni wyddom ni beth a weddiom," ond y mae yr Ysbryd yn ein dysgu. Gan hyny, cyn y gellir gweddio â'r galon, rhaid i ni weddio yn yr Ysbryd Glân. Fel brenin yn ceisio buddugoliaeth fawr, yn paratoi cymmhorth digonol o filwyr; felly y mae y gorchfygwr gyda Duw, yn ceisio cynnorthwy yr Ysbryd. Y weddi o'r galon sydd yn dwyn yr enaid mor agos at Dduw: i olwg ei fawredd, fel na feiddia efe nesau ato heb gyfarwyddyd i ymddwyn yn addas o flaen y fath fawrhydi anfeidrol. Dyn yn cellwair y cyfrifech un yn ymafyd yn y peiriant â'i ddwyllaw i geisio ei droi; ond un arall yn dyfod o fryd calon i'w roddi ar waith, a ä at y boiler i gynneu tân, i gael ager i'w weithio; felly un o galon yn rhoddi peiriant gweddi ar waith i godi pethau pwysig—am ager yr Ysbryd. Nid oes digon o nerth i'w gweithio hebddo; efe sydd yn "cynnorthwyo ein gwendid ni." "Trwyddo ef y mae i ni ein dau ddyfodfa mewn un Ysbryd at y Tad." Yr ydym mewn angen am yr Ysbryd, a'r Cyfryngwr. Yr oedd yn bechod mawr dwyn tân dyaithr i'r gwasanaeth dan yr hen oruchwyliaeth; felly, nid ydyw gweddio

heb yr Ysbryd ond rhagrith hollol; ac fel y cyfryw, nid ydyw yn ddim amgen na pechod.

3. Sylwn ar y gwahaniaeth rhwng gweddi o'r galon a gweddi ragrithiol.

1af, Y mae gwahaniaeth mawr rhwng y naill a'r llall ynddyn eu hunain. Blaenorir y weddi ddiragrith gan fyfyrddod dwys, ac awydd cryf am gael yr hyn y gweddiir am dano. Y mae y gweddiwr cywir o'r un deimlad a Job, pan y dywedai, "O! na wyddwn pa le y cawn ef!" (*Job* xxiii. 3); ac â Dafydd pan ddywedai, "Fel y brefa yr hŷdd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw! Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw." Nis gall fod teimlad mawr heb fyfyrddod blaenorol. Y mae myfyrddod blaenorol yn debyg iawn i lwytho magnel—yn casglu i mewn cyn bwrw allan. Po mwyaf y bydd y meddwl wedi ei drwytho â myfyrddod, mwyaf nerthol yn y byd fydd y weddi; fel y mynyddoedd tanlyd, po hwyaf y rhuant cyn tori allan, mwyaf nerthol yn y byd fydd eu ffrwydrad. Yr enw a rydd y Salmydd ar weddio ydyw "tyw-allt y myfyrddod" o flaen Duw:—"Tywelltais fy myfyrddod o'i flaen ef" (cxlii. 2). Y mae myfyrddod ysbrydol nid yn unig yn rhoddi testyn gweddi, ond hefyd yn cynnyrchu ysbryd gweddi: "Tra yr oeddwn yn myfyrio, ennynodd tân, a mi a leferais â'm tafod;" *Salm* xxxix. 3. Y mae myfyrddod yn creu teimlad, yr un fath ag y mae yr aradr yn gwneyd cwysau. Rhaid i aderyn trwm gymmeryd rhedfa cyn ehedeg; felly, rhaid i bechadur trwmlythog o bechodau fyfyrio ar ei drueni, ac ar drefn iachawdwriaeth, cyn y gall esgyn at Dduw mewn gweddi.

2il, Y mae gwahaniaeth yn y cyflawniad ei hun. Y mae y weddi gywir nid yn unig yn tarddu oddi ar deimlad dwfn o'r angen, ond hefyd yn cael ei hoffrymu mewn gostynggeiddrwydd dwfn; tra y mae y weddi ragrithiol yn amddifad o'r naill a'r llall. Ceir enghraifft nodedig o'r gyntaf yn y publican; yr hwn, wrth weddio, "ni fynai gymmaint a chodi ei olygon tua'r nef, eithr curai ei ddwyfron, gan ddywedyd, O Dduw! bydd drugarog wrthyf, bechadur;" ac o'r olaf yn y Pharisead hunanol, yr hwn, wrth weddio, a ddywedai, "O Dduw! yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae dynion ereill, yn drawsion, yn anghyfiawn, yn odinebwyr, neu, fel y publican hwn chwaith." Os bydd dyn yn gofyn rhywbeth i ddyn o galon, bydd yn oestyngedig: y mae y teimlad hwnw o'r angen sydd yn hanfodol i weddio o'r galon yn sicr o gynnyrchu gostynggeiddrwydd mawr. Teimlad dyn o'i dlodi naturiol a wna iddo ofyn yn ostyngedig: yr uchel ei ysbryd, nid oes yn ei weddi ddim ond siarad, fel y Pharisead. O'r dwfn y gwelir yn mhell trwy y *telescope*; felly, gweddi o'r galon yn unig a gyrhaedd y nefoedd. Gweddi o'r galon a bwr i ddyn ystyried mawredd a

sancteiddrwydd y gwrthddrych anfeidrol y mae yn galw arno, a'i annheilyngdod ei hun i dderbyn un drugaredd ganddo, nes gwneyd iddo ymostwng yn isel mewn hunan-ffieiddiad ger ei fron, a dywedyd, gyda Job, "Y mae yn ffaidd genyf fi fy hun, ac yr ydwyf yn edifarhau mewn llwch a lludw" (xlii. 6).

3ydd, Nodweddir y weddi gywir gan daerineb; ond y weddi ragrithiol gan oerfelgarwch a difaterwch. Y mae yn ammheus a ellir cael un prawf gwell o gywirdeb na thaerineb: anfynych, os byth, y mae taerineb yn aflwyddiannus. Trwy ei thaerineb y llwyddodd y wraig o Ganaan i gael Crist i ganiatau ei chais. Trwy ei daerineb y cafodd Jacob nerth i orchfygu yr angel. Gweddïo yn daer yr oedd Daniel pan anfonwyd yr angel Gabriel ato ef; a gweddïo yn daer, i.e. gweddïo nes oedd ei chwys yn disgyn i'r llawr fel defnydd o waed. Y mae genym ddigon o broffion mai "llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn." Dyn yn gofyn unrhyw beth i'w gyd-ddyn oddi ar deimlad mawr o angen, efe a fydd daer. Ni ofynir yn daer heb deimlo yr angen. Angen a wna daerineb: angen mawr a wna i anifail daer-erfyn yn y dull y gallo. Y mae Duw yn daer iawn yn yr efengyl, am ei fod o galon ddiwyll. Mor daer y gweddïa tad a mam am arbediad bywyd eu plentyn! am fod eu serch tuag ato yn gryf. Nis gall y dyn sydd yn gweled ei berygl fel pechadur lai na gweddïo yn daer am iachawdwriaeth.

4ydd, Y mae y weddi gywir yn un ddyfal-barhaol, ond y weddi ragrithiol yn un ansefydlog. Nid ar y *plwch* cyntaf yn gyffredin y daw dwfr o'r *pump*; ac os na ddaw i fyny y tro cyntaf ni ddylid digaloni, ond cynnyg yr ail waith; ac os na cheir peth yr ail waith, dylid cynnyg drachefn y drydedd waith. Yr ydym yn gweled bob amser fod ymroddiad mawr yn y galon yn cynnyrchu diwydrwydd difino; fel Jacob am ei wragedd, y masnachwr am werthu ei nwyddau, a'r celfyddydwr am ennill arian. Gweddïo ansefydlog, nid yw o'r galon. Gweddïo o'r galon, ni âd ddistawrwydd iddo; fel plentyn yn crefu am fwyd, ni cheir llonydd. Gweddïo o'r galon sydd yn ffrwyth egwyddor a wna bleser o ddisgwyl. Ysbryd mabaidd ni flina yn ymddiddan â'i dad. Diwydrwydd a chyssondeb yn y cyflawniad o ddyledswyddau crefyddol sydd arwydd o gywirdeb mewn crefydd.

5ed, Y mae gwahaniaeth mawr rhwng neges y naill a'r llall. Y mae y weddi gywir yn ceisio ymwared oddi wrth bechod ei hun yn benaf; ond y weddi ragrithiol yn ceisio ymwared oddi wrth ganlyniadau pechod yn benaf. Gogoniant Duw yw dyben penaf un, ond lles y dyn yw dyben penaf y llall: cynnyrchir un gan gariad at Dduw, a'r llall gan ofn uffern. Gweddïo rhag pechodau pobl ereill, heb ofn ymwared oddi wrth dy bechodau dy hun, sydd argoel o dwyll; neu weddïo rhag dy bechodau dy

hun, y rhai sydd yn gwaradwyddo dy gymmeriad, neu yn dy golledu yn dy amgylchiadau bydol, heb ofyn am ymwared oddi wrth bob pechod, sydd arwydd eglur o ragrith. Y mae calon bur a ffyddlawn i Dduw yn gweddïo yn erbyn pob pechod, yn casau pob gau lwybr, yn casau pob math o bechod, yn casau hyd yn oed y wisg a halogwyd gan y cnawd, ac yn cilio oddi wrth bob peth sydd yn debyg i bechod. Nid ydyw y galon gywir yn ewyllysio coleddu pechod dirgelaidd na chyhoeddus; ond y mae yn ymdrechu yn erbyn y naill yn gystal a'r llall. Nis gellir gweddïo yn iawn yn erbyn un pechod, ac ar yr un pryd byw mewn pechod arall; nid oes dim cyssondeb mewn gweddï felly. Y mae y dyn sydd yn ymddwyn fel hyn fel pe byddai yn tybied ei bod yn bossibl iddo ufuddhan i Dduw, a gwrthryfela yn ei erbyn ar unwaith. Dylid cofio fod gweddï gywir a phechod yn hollol groes i'w gilydd—mor groes fel nad all y naill hanfodi lle y byddo y llall. Fel y mae pechod yn rhwystr i weddïau, felly hefyd y mae gweddïau yn rhwystr i bechod. Os mynem weddïo yn iawn, rhaid i ni ochel pechod; ac os dymunem ochelyd pechod, rhaid i ni weddïo yn ei erbyn.

6ed, Y mae gweddï o'r galon yn newid y fuff fel y byddo yr achos yn gofyn; ond gweddï ragrithiol yn tueddu at fod bob amser yn unfurfiol mewn teimlad a geiriau. Gweddïo yr un fath bob amser, ac ar bob achlysur, ac yn mhob man, sydd yn argoel o unfurfiaeth ysbryd a diffyg teimlad. Calon deimladwy sydd yn teimlo anghenion gwahanol ar wahanol amserau; ac o ganlyniad yn gweddïo yn ol y teimlad hwnw. Un gwahaniaeth rhwng ysgogiad peiriant mawr, ac ysgogiad creadur byw ydyw, fod y naill yn ysgogi bob amser yn unfurf, tra y mae ysgogiadau y llall yn amrywio yn ol yr amgylchiadau y bydd ynddynt. Un yn dyâgu morwriaeth fel celfyddyd, a ddarlenna y llyfr drosodd; ond rhaid i un yn actio morwriaeth newid y plan yn fynych, fel y byddo yr achos yn gofyn. Gweddïai Dafydd weithiau am faddeuant pechod, weithiau am nerth i wrthsefyll pechod, a phryd arall am ddial ar ei elynion, &c. Arwydd o afiechyd ydyw methu bwyta ond un peth.

7fed, Y mae gweddï gywir yn fywiog; ond y weddï ragrithiol yn farwaidd a difywyd. Y mae syrthni yn profi nad ydyw y galon a'r serchiadau yn y weddï. O'r galon y daw pob gweithrediad bywiog. Serch at y dybenion sydd ganddynt mewn golwg sydd yn fywyd yr holl ymroddiadau bywiog gyda phob celfyddyd, masnach, a milwriaeth o dan haul. I'r graddau y byddo pob ymdrech a llafur yn tardu oddi ar deimlad y galon, i'r graddau hyny y byddant yn fywiog a gwresog. Gelwir am fywiogrwydd mawr yma: annogir ni i fod yn "wresog yn yr Ysbryd" yn ngwasanaeth yr Arglwydd; i "fendithio ei enw ef â chwbl sydd ynom." A'r un egwyddor a ddangosid yn yr

offrymau poeth. Y mae mawredd y gwrthddrych y gweddiwr arno, pwysigrwydd y neges, a nerth y ddaol, yn sicr o achosi bywiogrwydd mawr. Gelwir gweddi yn "waeddi ar Dduw;" yr hyn sydd yn arwyddo, nid cynnhwrf mawr yn y corph, ond egni a dwysder meddwl, yn debyg i agwedd meddwl llongwyr mewn llong mewn tymmestl; a pho mwyaf fydd y cyfyngder, mwyaf yn y byd fydd y bywiogrwydd.

8fed, Y mae y gweddiwr o'r galon yn gweddio yn y dirgel yn gystal ag yn gyhoeddus, tra nad yw y gweddiwr rhagrithiol yn gweddio ond yn unig yn y cyhoedd. Lle byddo gweddianu cyhoedd, heb y rhai dirgel, y mae llawer o reswm i amhheu y galon hono—mai cyhoeddusrwydd y gweddianu hyny yw eu dyben, ac nid gogoniant Duw, a chael y fendith. Pan lenwir y byd gan grefydd bur, bydd pob teulu, a phob person wrtho ei hun, yn galaru am eu pechodau. Lle y byddo ysbryd a chalon gweddi, y mae yn egwyddor sefydlog yn yr enaid; ac nis gall lai na thori allan bob cyfeusdra a gaiff. Fel y mae creaduriaid yn byw yn sefydlog yn yr elfen sydd gyfaddas i'w haniau, pa un bynag ai môr ynte awyr, y mae calon i weddio mor dueddol i hyny ag ydyw bywyd i anadlu. Y mae genym hanes rhai oedd yn weddiwyr o'r galon, yn rhai hoff iawn o'r dirgel i weddio; ac yno y cawsant y pethau hynotaf a brofasant yn eu bywyd. Ond ni ddylid arfer y naill weddi ar draul esgeuluso y llall; ond dylid arfer y ddwy. Yn gyhoeddus yn unig y mae y rhagrithiwr yn caru gweddio, ond y mae y dyn duwiol yn caru gweddio yn mhob man.

9fed, Y mae y gweddiwr cywir nid yn unig yn gofyn i'r Arglwydd am yr hyn sydd arno ei eisieu, ond hefyd yn ymarfer yn ddiwyd â'r moddion gosodedig i'w gael: ond nid ydyw y rhagrithiwr yn gwneyd dim ond gweddio. Y rheol ddwyfol ydyw gweddio, ac arfer moddion; ac ofer ydyw i ni ddisgwyl llwyddo drwy y naill heb y llall. Gweddio o'r gwely, nid ydyw o'r galon; ac am hyny nid ydyw yn cael ei hatteb; "Enaid y diog a ddeisyf, ac ni chaiff ddim;" *Diar*. xiii. 4. Deisyfiad o'r galon ydyw awyddfryd mor gryf am rywbeth, nes peri i ddyn nid yn unig ofyn am dano, ond hefyd arfer pob moddion o fewn ei gyrhaedd i'w gael. Yr oedd awydd Jacob mor gryf am gael ei wragedd fel y darfu iddo weithio yn galed mewn trefn i'w cael, yn gystal a gofyn am danynt. Er i'r Israeliad ddymunio cael Gwlad Canaan, ni buasant byth yn ei chael heb arfer moddion i gael meddiant o honi, o blegid trwy hyny yr oedd Duw wedi arfaethu iddynt ei chael. Yr oedd yr addewid o honi mor bell oddi wrth eu rhyddhau oddi wrth yr angenrheidrwydd o arfer moddion, fel mai hi oedd eu prif gymmhelliad i arfer moddion. Wedi i'r Arglwydd adnewyddu yr addewid i Josuah, y peth cyntaf ar ol hyny a ddywedodd efe wrtho ydoedd,

"Ymgryfhâ, ac ymwrola;" *Jos. i. 6.* Er fod yr Arglwydd wedi addaw na "byddai colled am einioes yr un" oedd ar fwrdd y llong gyda Phaul; etto, dywedir nas gallent fod yn gadwedig heb i'r morwyr aros ynddi i'w gweithio, o blegid trwy eu hoff-erynoliaeth hwy yr oedd yr Arglwydd wedi bwriadu eu hachub. Yr oedd y moddion, yn gystal a'r dybenion, yn rhan o'i gynllun arfaethol ef; ac nid oedd dim modd cyrhaedd yr olaf heb y cyntaf. Fe aeth Iesu Grist i'r nefoedd i eiriol dros llwyddiant ei deyrnas ar y ddacar, ac ar yr un pryd efe a ordeiniodd foddion i'w dwyn yn mlaen. Ni buasai yr eiriolaeth yn ddigon i'w llwyddo heb y moddion, na'r moddion heb yr eiriolaeth; ond rhaid cael y naill gyda'r llall. Moddion yw yr hwyl ar y llong, a gweddi yw y gwynt sydd yn ei gyru yn mlaen: ni buasai yr hwyl yn gyru y llong yn mlaen heb y gwynt, na'r gwynt chwaith heb yr hwyl. Pan ennillodd Dafydd fuddugoliaeth ar yr Amaleciaid, yr oedd efe yn gweddio ac yn ymladd ar unwaith. Felly, cyn y gallwn ninnau ennill buddugoliaeth ar bechod, rhaid i ni weddio yn ei erbyn, ac ar yr un pryd arfer moddion i'w farweiddio.

10fed, Y mae gweddi o'r galon yn cynnyrchu rhodiad sanctaidd; tra y mae gweddi ragrithiol yn gadael dyn yn ei bechod. Y mae calon y duwiol yn nesau at Dduw yn ei weddi; a thrwy hyn y mae yn cael ei sancteiddio oddi mewn, a'r sancteiddrwydd mewnol hwnw yn dangos ei hun mewn buchedd sanctaidd: ond nid ydyw calon y rhagrithiwr yn myned ddim yn mhellach na'r ffurf, ac am hyny nid ydyw yn cael ei sancteiddio yn dumewnol nac yn allanol. Ni ddichon calon ymroddgar i nesau at Dduw fod yn ffynnonell buchedd arian. Lle y bydd buchedd arian, y mae yu y galon ddifaterwch mawr. Yn eiddo sydd yn rhodio gyda Duw, nis gall rodio yn ol y cnawd. Gwaeddydd yn bwriadu gofyn ffafr fawr gan ei feistr, onid ymdrech ef e i ryngu ei fodd ef? Y galon sydd yn ffynnonell gweddi, y mae hefyd yn ffynnonell ymarweddiad sanctaidd. Yr ysbryd sydd yn llefain, "Abba, Dad," sydd hefyd yn ei ofni a'i bareid. Y ffydd sydd yn nesau at Dduw trwy Gyfryngwr, sydd hefyd yn ffrwytho i ufudd-dod. Ofn Duw, yr hwn a feithrinir trwy nesau at Dduw, sydd yn ei effeithiau yn cilio oddi wrth ddrwgioni. Yr hwn sydd yn gweddio yn llwyddiannus, gwaeddefnyddio gwaed Crist fel dadl ger bron Duw, sydd hefyd yn cael ei lanhau drwyddo. Bwriadwyd y gwaed i gyfaddasu yr enaid i gymdeithasu â Duw, ac i lanhau y fuchedd, yn gystal ag i symmud ymaith y condemniad oddi ar y person. Y mae pechodau yr ymarweddiad yn rhwystro gweddi o ran yr euogrwydd, yn debyg fel y mae euogrwydd plentyn wedi troseddau yn erbyn ei dad yn peri iddo gilio o'i wydd, neu fyned i'w weid yn ddiogel rhag iddo ei weled. Os bydd y ffynnon yn arian,

nid hawdfll fydd codi cwpanaid o honi i ŵr mawr; felly, y mae coleddu aflendid yn rhwystr i'r enaid i nesau at un mor fawr a sanctaidd ag ydyw Duw. Morwyn lân a lanhâ y llestri, ac a'u ceidw yn lân yn wastadol; yna y maent yn barod i'r bwrdd, pa bryd bynag y daw galw. "Pwy bynag a'i glanhao ei hun oddi wrth y pethau hyn, efe a fydd yn llestr i barch, wedi ei sancteiddio, ac yn gymmhws i'r Arglwydd, wedi ei ddarparu i bob gweithred dda;" 2 *Tim.* ii. 21.

lleg, Y mae y weddi o'r galon yn un ddiysgog a phenderfynol, tra y mae y weddi ragrithiol yn un ansefydlog ac amhenderfynol. Nis gall dim beri i'r gweddiwr cywir roddi y gorchwyl i fyny; ni chymmer ei rwystro gan wrthwynebiad, na'i ddigaloni gan anhawsderau; gwell ganddo hyd yn oed golli ei fywyd, os bydd raid, na pheidio gweddio. Dewisodd Daniel fyned i ffau y llewod yn hytrach na pheidio gweddio ar ei Dduw; ac y mae pob gwir weddiwr hyd heddyw o'r un ysbryd ag ef. Nid ambell waith, ac mewn cyfyngder yn unig, y mae y Cristion yn gweddio, ond y mae yn gweddio yn wastad, yn gweddio yn mhob sefyllfa, yn gweddio bob amser, yn gweddio mewn llwyddiant yn gystal ag mewn adfyd—yn gweddio â "phob rhyw weddi, trwy bob dyfal-bara." Nôd rhagrithiwr ydyw, "Ni eilw efe ar Dduw bob amser." Y mae gan y bobl hyny sydd yn *arfer* ei rhoddi heibio o herwydd rhyw amgylchiadau bychain, le cryf i ammheu eu cywirdeb. Cymmer rhai liosogrwydd eu trafferthion bydol yn esgus dros ei hesgeuluso; ond dengys hyn fod y byd yn agosach at galon y cyfryw na chrefydd. Beth ydyw hyn, mewn gwirionedd, ond cymmeryd pechod yn esgus dros bechod—cymmeryd bydolrwydd y galon yn esgus dros esgeuluso gweddi, fel gwas yn rhoddi ei feddwod yn esgus dros esgeuluso ei waith. Un yn ymroddi o'i galon at rywbeth, ni chymmer ei attal gan rwystrau bychain. Fe lwy'r roddodd Crist ei galon i nesau at Dduw drosom ni; nid oedd dim a'i troai yn ol; aeth drwy bob rhwystrau: ac y mae y Cristion yn hyn yn debyg iddo. Yr ydym yn gweled y morwr yn dilyn ei alwedigaeth, a'r marsiandwr ei fasnach, trwy bob anhawsderau a pheryglon, gan gadw eu golwg yn barhaus ar y nôd sydd o'u blaen. Felly hefyd y dyn sydd â'i holl galon yn gwasanaethu Duw—y dyn sydd wedi gwneyd ei feddwl i fyny i fyned i'r nefoedd, ac yn rhoddi ei serch ar bethau sydd uchod, nid oes un rhwystr a saif o'i flaen; y mae yn cyrchu o hyd at y nôd—"camp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu." Y mae Duw yn rhoddi i bawb ddigon o amser at y byd a chrefydd, fel na raid i'r naill mewn un modd fyned ar draws y llall. Nid ydyw Duw byth yn gorchymyn un ddyledswydd ag sydd yn tafu yr anfantais leiaf ar ein ffordd i gyflawni dyledswydd arall; ond yn hytrach y maent oll yn dal y fath berthynas â'u gilydd fel y mae

cyflawni un ddyledswydd yn iawn yn help i gyflawni pob dyledswydd arall. Rhaid addef mai nid gorchwyl hawdd bob amser ydyw rhoddi eu lle eu hunain i grefydd a'r byd; a chyn y gellir gwneyd y naill na'r llall, rhaid i grefydd gael lle priodol yn y galon. Y galon sydd yn gweddio, nid ydyw, fel rhai, yn cyfrif yr amser a dreulir mewn gweddi wedi ei golli i'r byd. Nid ydyw y gweithiwr yn lladd llai o wair am ei fod yn hogi ei bladur. Rhoddi y blaen ar y cwbl i weddi a wna y gweddiwr o'r galon; ac nid ydyw hyny yn un rhwystr i drin y byd hwn yn iawn. Da ydyw dechreu pob peth yn yr iawn fan, at ei gario yn mlaen; dechreu dirwyn y gengl sidan yn y pen, rhag iddi ddyrysu, yw y ffordd gyntaf. Dechreu pob peth bydol yn y pen iawn yw ei ddechreu gyda Duw: "Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef, ac efe a hyfforddia dy lwybran;" *Diar.* iii. 6. Po mwyaf o rwystrau y torir drwyddynt at Dduw, mwyaf yn y byd o groesaw a geir ganddo—po mwyaf o rwystrau y daw cyfaill drwyddynt i ymweld â ni, mwyaf caredig yn y byd fydd y derbynriad a roddwn iddo. Mawredd y rhwystrau y daeth Crist drwyddynt yn ei ymweliad â'n byd oedd yn dangos mawredd ei gariad. Gadawodd gwŷr Bethsemes eu cynhauf gwenith, i boeth-offrymu i'r Arglwydd; 1 *Sam.* vi. 18, 14. Mor annedwydd y teimlai Dafydd pan oedd wedi ei amddifadu o gyffeusdra i addoli yn y cyssegr!—yr oedd ei enaid yn "hiraethu, i.e., yn blysiu am gynteddau yr Arglwydd;" ac yr oedd fel pe buasai yn cefnigenu wrth aderyn y tô a'r wenol, o herwydd eu bod yn cael y fraint o nythu yn allorau yr Arglwydd.

12fed, Y mae y gweddiwr cywir yn gweddio yn erbyn ei holl bechodau, ac yn benaf yn erbyn ei brif chwant; tra nad ydyw y rhagrithiwr yn gweddio o'r galon yn erbyn un pechod. Y mae rhai yn arbed eu prif chwant yn eu gweddi; ereill yn gofyn am ei ladd, ac ar yr un pryd yn ei lochesu, fel Saul yn arbed y brasaf o anifeiliaid yr Amaleciaid, brefiadau y rhai a gyrhaeddasant i glustiau Duw. Y mae rhai, fel Ananias, yn darguddio eu pechodau; cyfaddefant lawer o honynt, ond nid y cwbl—cuddiant rhyw un, yn enwedig eu prif chwant. Nid yw Duw yn attal dim oddi wrthyt ti: rhoddodd y cwbl er dy fwyn. Nid oedd y Mab yn rhy anwyl i'w roddi; ond a oes ryw chwant yn rhy anwyl genyt ti i'w roddi i fyny er ei fwyn ef? Nid arbedai Abraham Isaac: a arbedi di dy chwant? Tra yn dal gafael mewn un pechod, nis gelli weddio o'r galon yn erbyn pechodau ereill; nid ydyw dy galon yn ffyddlawn i Dduw. Os ydyw calon gywir yn aberthu cyfoeth, parch, gwraig, plant, i.e., bywyd, pa fodd y gall y galon hono fod yn gywir, sydd yn ei gweled yn ormod i aberthu chwant? Yr oedd gan Herod ddigon o grefydd, neu hunan, i beri iddo sefyll at ei lŵ; ond nid digon i beri iddo gasau godin a llofruddiaeth. Buasai

bwrw ymaith pob rhinwedd yn darostwng ei gymmeriad fel dyn, ac yn peryglu ei swydd fel rhaglaw. Gall dyn ymattal rhag cyflawni rhai pechodau heb egwyddor dda; ond nis gall weddio o'i galon yn erbyn un pechod heb egwyddor dda.

13eg, Hyfrydwch y cywir yw gweddïo; ond caswaith y rhagrithiwr ydyw: a'r achos o'r gwahaniaeth hwn yw, fod un yn meddu anian gweddi, tra nad ydyw y llall. Y mae pob dyledswydd ysbrydol a gyflawnir oddi ar anian bob amser yn hyfryd, ond yr un a gyflawnir heb anian yn faich. Amgylchiadau sydd yn peri i'r rhagrithiwr weddio, ond tueddfryd y galon sydd yn peri i'r duwiol weddio. Y mae un yn gweddio oddi ar gariad at Dduw, y llall oddi ar gariad ato ei hun; y mae y gwaith ei hun yn bleser i un, ond pleser y llall ydyw yr amcan hunanol sydd ganddo ef ei hun mewn golwg wrth weddio. Y mae un yn ymhyfrydu cymmaint mewn gweddio fel y mae yn "gweddio yn ddibaid;" y mae y llall yn ei deimlo yn waith mor ddiflas fel nad ydyw yn ei gyflawni ond ambell waith.

14eg, Y mae y gweddiwr cywir yn disgwyl yn ddyfal ar ol gweddio am atebiad i'w weddi; ond nid ydyw y rhagrithiwr byth yn gofalu am hyny. Byddai Dafydd bob amser yn disgwyl ar ol galw: "Disgwyliais yn ddyfal am yr Arglwydd;" *Salm xl. 1.* Byddai y duwiolion yn cwyno o hyd eu bod heb gael ateb, hyd nes cael: "Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gwrthodaist? pa ham yr ydwyf mor bell oddi wrth fy iachawdwriaeth, a geiriau fy llefain? Fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd, ac ni wrandewi; y nos hefyd, ac nid oes ostep i mi;" *Salm xxii. 1, 2.* Yr agwedd ar ol y weddi sydd yn dangos cywirdeb y galon, yn enwedig y weddi y cafwyd mwyaf o fwynhâd ynddi. Arfer Satan ydyw ymosod yn ffyrnig ar yr enaid ar ol y fath weddi, i'w ddyrchafu ef i falchder ac ymchwydd. Wedi i'r Arglwydd Iesu gael ei arddel yn Fab Duw yn y llef nerthol ar ei fedydd, ac i'r Ysbryd syrthio arno yn rhith colomen, Satan yn y fan a ymosododd arno i'w dentio. Felly hefyd, wedi i Paul gael y weledigaeth, ceisiai Satan ennyn balchder ei galon. Nid ydyw yr agwedd sancteiddiaf a gyrhaeddir trwy weddi yn diogelu yr enaid rhag ymosodiadau y temtiwr. Ni wnaeth diniweidrwydd Adda na pherffeithrwydd y Prynwr mo hyny.

III. Y mawr bwys o weddio o'r galon.

1. Gorchymynir gweddio â'r holl galon yn bendant: "Rhoddwch eich calon a'ch enaid i geisio yr Arglwydd eich Duw;" 1 *Cron. xxii. 19.* "Tywelltwch eich calon ger ei fron ef;" *Salm lxii. 8.* Gelwir am yr holl galon fel pe byddai hyny yn cynnwys holl hanfodolion gweddi. Lle y byddo yr holl galon, ceir pob peth arall o bwys. Fel y cynnwysir yr holl ufudd-dod i Dduw mewn cariad, felly y mae holl bethau pwysig gweddi mewn

rhoddi y galon. Galw am y galon ydyw galw am holl bethau tufewnol gweddi gyda'u gilydd. Ni waeth heb ffurf dda ar ddelw o goed, neu beiriant pren yn lle haiarn. Y mae cael defnydd da yn mhob peth o'r pwys mwyaf. Ni byddai *cannon* o bren yn werth dim. Gellir gwneyd *llun* sovren gyda phrés, ond rhaid cael *aur* i wneuthur sovren iawn. Cofiw'n mai y galon, na deimladau penaf yr enaid, ydyw yr *aur* yn nghyfrif Duw.

2. Heb y galon, y mae y weddi yn hollol wrthodedig. Pa faint bynag o ragoriaethau ereill a ddichon fod yn perthyn iddi, os heb y galon, nid ydyw yn dderbiniol gyda Duw. Ar y galon y mae llygaid yr Arglwydd; y mae megys yn edrych heibio i bob peth arall am y galon; fel Joseph am Benjamin—"Nac edrychwch yn fy wyneb, oni bydd eich brawd gyda chwi;" Gen. xliii. 3. "Ar hwn yr edrychaf, sef, ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, ac sydd yn crynu wrth fy ngair;" Esa. lxvi. 2. Y mae yn edrych ar *hwn* heibio i bawb; *hwn* yw ei ddewisedig ef; *hwn* sydd yn tynu ei sylw penaf ef; *hwn* yn unig sydd yn ei wir addoli ef. Nid ydyw pob coll sydd ynddo yn ei wneyd yn wrthodedig, ond bod heb hyn a'i dyfetha ef. Y mae pob peth yn wrthodedig heb y galon. Gellir dyweyd fod gweddi heb y galon fel *bond* heb ei llawnodi—ni bydd grym ynddi os na bydd y galon a'i llaw arni. Gweddi heb y galon, beth ydyw? Corph, heb enaid; peiriant, heb ager; ffurf, heb fywyd; ymddangosiad, heb sylwedd. Gall y corph fyw heb law neu droed; ond heb y galon nid yw yn werth dim; felly gweddi heb y galon. Dengys yr enwau a roddir yn y Beibl ar weddi gywir ei bod yn codi oddi ar deimladau dyfnaf yr enaid; megys, "tywallt y galon," "gwaeddi," "llefain," "tuchan," "gruddfen," "galw mewn ing," &c.

3. Dirmyg mawr ar Dduw ydyw rhoddi y genau heb y galon. Aberthau y dall a'r cloff ydyw; gwadiad ymarferol o hollwybod-aeth Duw ydyw; i.e. cadw y goreu i arall o flaen ei lygaid ef yw hyny. Mor ynfyd ydyw cynnyg ffurf heb y galon i Un hollwybodol! I'r gwrthddrych a dybiwn yn oreu y rhodddwn y galon; y galon yw y brasaf. Dyweyd celwydd wrth ddyn sydd yn ddrwg mawr; ond celwydd wrth Dduw yw rhagrith mewn gweddi, yr hyn sydd mewn gwirionedd yn gabledd: "Ephraim a'm hamgylchynodd â chelwydd, a thŷ Israel â thwyll;" Hos. xi. 12. Gwadu ei ddaioni a'i deilyngdod, ac arddel arall yn ngwydd ei lygaid ydyw hyn.

4. Gwelir y pwys o weddio o'r galon wrth ystyried mawredd y pethau a ofynir. Y mae testynau gweddi yn bwysig o ran eu nifer, ac yn amrywiol o ran eu dybenion; ac y mae cysur dyn yn y byd hwn, a'i ddedwyddwch yn y byd a ddaw, yn dibynnu ar gael meddiant a mwynhad o honynt; ac y maent yn gyfryw o ran eu cynnwysiad fel na cheir gafael arnynt heb eu

gofyn â'r holl galon. Cyfyd y galon i ymaffyd yn mhob peth yn ol y graddau o werth a phwys a roddir arnynt, a theimla yn ol y pwys a wél ynddynt. Pethau yn disgyn ar wyneb y ddaear a dorant argraph yn ol eu pwys. Troed anifail, neu ddarn o graig, a'i harcholla yn ddwfn. Felly y galon; caiff pob mater argraph arni yn gyfattebol i'w bwys. Nid gyda'r un mesur o deimlad ac ymroddiad y gofynir pethau mawr a phethau bychain; benthg torth, a benthg swm mawr o arian; lletty noswaith, a fferm a phalas i fyw am oes; gofyn lle i blentyn, a gofyn ei fywyd pan y mae yn ngafael y gyfraith; gofyn bywyd un, a gofyn bywyd llawer. Yr ydym yn gweddio dros y byd—yn gweddio am ei fywyd tragwyddol. Mor egniol y gwnai Crist hyn—mor fywiog y gwnai yr angylion gymmwynasan llai, megys hysbysu genedigaeth Crist, &c. Mor effro y gofynai y dall am ei olwg, a'r canwriad am iechyd ei was; ac mor daer y gofynai Dafydd am gongcwest ar ei elynion! Y mae genyt ti bethau mwy i'w ceisio; sef, dy fywyd. Mor grynedig y gofynai Esther ei heinioes ei hun a'i phobl! Cynnhyrfwyd Crist yn yr ysbryd, ac wylai yn ddwys, cyn gweddio am adgyfodiad Lazarus.

5. Y mae pob peth hanfodol i wir weddi yn gofyn i'r holl galon gael ei rhoddi ar waith; megys, ffydd, cariad, edifeirwch, ofn, &c. Y pethau hyn sydd yn gofyn y galon, fel y mae holl ranau peiriant yn gofyn ager i'w gweithio; neu fel y mae holl aelodau y corph yn gofyn y galon naturiol i'w cadw mewn nerth a bywyd. Ffydd, yn y galon y trig: "â'r galon y credir i gyfiawnder" (*Rhuf.* x. 10); "a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw;" *Rhuf.* x. 9. Y mae ffydd, os bydd yn *actio*, yn rhoddi yr holl enaid ar ei egni—yn dwyn digon o ager i weithio yn fywiog o'r byd arall. Y mae yn dwyn gwrthddrychau mawreddog i'r meddwl—yn gwneyd pethau tragwyddoldeb diddechreu a thragwyddoldeb diddiwedd yn bethau presennol—yn sugno rhinwedd allan o honynt; ac y mae yr olwg y mae yn ei gael arnynt yn cynnyrchu cariad yn yr enaid atynt; a'r cariad hwnw drachefn yn cynnyrchu gweithgarwch ffyddiog. Y mae edifeirwch yn hanfodol angenrheidiol mewn gweddi. Pan y bydd pechadur yn gweddio mewn ffydd am faddeuant, y mae yn gwneyd hyny yn yr olwg ar ddrwg ei bechodau, ac mewn galar o'u herwydd, a chyda meddyliau mawr am barod-rwydd Duw i'w maddeu. Y mae edifeirwch mor angenrheidiol i lwyddiant gweddi ag ydyw ffydd. Ar y "cystuddiedig o ysbryd" yr edrych Duw; "calon ddrylliog" yw yr aberth mwyaf cymmeradwy ganddo ef. Y fath edifeirwch dwfn a ddangosir gan Dafydd yn *Salm* li., a elwir "Salm Edifeirwch Dafydd!" Nis gellir gweddio yn iawn heb "barchedig ofn" yn yr enaid at Dduw, yr hwn sydd yn gwneyd yr enaid yn wylaid, yn ostyngedig, ac yn barchus wrth nesau ato. Yr ofn hwn sydd yn

peri i'r enaid "grynu wrth ei Air," a theimlo yn rhy wylaid, fel y publican, i godi ei olygon tua'r nef. Rhaid i ni feddu cariad at ein cymmydog cyn y gallwn weddio yn iawn drosto. Mor amlwg yr oedd y teimlad hwn yn gweithredu yn Nghrist! Gwelir ef mewn modd neillduol yn ei weddi nodedig dros ei gyfaill Lazarus.

6. Y mae mawredd y gwrthddrych yr ydym yn gweddio arno yn haeddu y galon. Ni raid i ni ddim ond meddwl ychydig am ei briodoliaethau gogoneddus, na welwn ar unwaith ei fod yn haeddu y gwasanaeth goreu a phuraf y gallwn ei roddi iddo. Onid ydyw gwrthddrych anfeidrol mewn daioni a hawddgarwch yn haeddu ei garu? Onid ydyw y gwrthddrych a'n carodd nes rhoddi ei Fab i farw drosom yn haeddu cael ei garu genym? Yr ydych yn caru y sawl a'ch caro—yn rhoddi cariad mawr lle y caffoch gariad. Wel, gyda pha fath gariad gwresog y dylem gyfarfod daioni anfeidrol! Gyda'r fath nerth y mae yr afon La Plata yn ymarllwys i'r môr, lle y caiff ddigon o le i ymledu, wedi cael ei chyfyngu cyhyd! Mor fywiog fyddai ein meddyliau pe byddem yn ymddiddan â brenin! Presennoldeb Duw sydd yn gwneyd angylion yn fflam dân yn ei wasanaeth. Y fath gydweiddiad sydd rhwng y disgrifiad a roddir o fawredd y gwrthddrych a addolir a'r agwedd a gymmeradwya efe wrth ei addoli yn *Esa. lxvi. 1, 2*:—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd; Y nef yw fy ngorseddffainge, a'r ddaear yw lleithig fy nhraed: mae'r tŷ a adeiledwch i mi? ac mae'r fan y gorphwysaf? Canys y pethau hyn oll a wnaeth fy llaw, a thrwof fi y mae hyn oll, medd yr Arglwydd: ond ar hwn yr edrychaf, sef ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, ac sydd yn crynu wrth fy ngair."

7. Dyben Duw yn ordeinio gweddi, a phob moddion arall o ras, oedd codi y serch i afael â phethau nefol. Y mae dyn wrth natur yn rhoddi ei holl serch ar y pethau sydd ar y ddaear—ei holl feddwl yn cartrefu gyda phethau y byd hwn, ac yn hollol ddyeir i fyfyrdod difrifol am bethau tragwyddol; ond y mae gweddi yn arbenig wedi ei bwriadu i ddwyn y meddwl at bethau ysbrydol—i'w ddwyn i ystyried y pethau sydd yn perthyn i'w heddwch—i deimlo ei sefyllfa fel pechadur—ac i ymorphwys ar y Gwardwr am ei fywyd.

8. Y mae sail derbynriad gweddi yn galw am, ac yn haeddu y galon. Y mae sicrwydd mawr am lwyddiant ar bob anturiaeth bwysig yn ennyn ymroddiad calon cryf. Pan gafodd Israel argoelion gobeithiol am Wlad Cansan trwy Moses, cododd hysp eu calonau i ymdrechu am dani. Pan gafodd Jacob sicrwydd y cawsai weled Joseph, efe a ymroddodd â'i holl galon i fyned i'r Aipht. Y sicrwydd oedd ganddo am lwyddiant oedd yn calonogi meddwl Crist ei hun i fyned yn mlaen yn wrol gyda'i waith mawr. Gobaith am lwyddiant sydd yn cynnhyrfu y masnachwr

i anturio, y milwr i ymladd, a'r morwr i forio. Ond nid oes un amhheuaeth i fod am lwyddiant gweddi gywir: y mae addewid Duw o'i thu, a Christ yn y nef yn eiriol am wrandawriad iddi. Nid yn unig gall y gweddiwr cywir hyderu ar drugaredd Duw, fel y rhai hyny gynt, ar ol clywed am drugaredd brenhinoedd Israel, yn myned at Ahab & sachlian am eu lwynau, a rhaffau am eu gyddfau, gan ddadleu ei drugaredd; ond gall efe hefyd ddadleu addewid Duw. Aeth llawer at ddrws dyn heb addewid, gan hyderu ar ei drugaredd. Felly yr aeth Esther at y brenin, gan appello at ei drugaredd; felly hefyd yr aeth y wraig o Ganaan at Grist—ac fe lwyddodd y naill a'r llall. Ond y mae dadl addewid yn gryfach na dadl trugaredd, yn gymmaint a bod cyflawnder yn galw am gyflawniad o honi. Mor galonog yr ä dyn i'r bank gyda bill! Bill yw yr addewid. Nid oes gan y masnachwr un sicrwydd am lwyddiant cyn cychwyn; ond y mae gan y gweddiwr cywir bob sicrwydd a all Duw ei roddi iddo y gwrandewir ei weddi am bob peth a addawyd ganddo.

9. Y mae cymmhorth yr Ysbryd mewn gweddi yn gynnwysedig mewn triniaethau ar y galon. Eu hamcan arbenig ydyw puro y galon—ei symmud oddi wrth yr hyn sydd yn ei rhwystro i weddio, ac i ddal cymmundeb & Duw. Po mwyaf a deimla pechadur o'r triniaethau hyn ar ei galon, cryfaf yn y byd fydd ei awydd i weddio.

10. Y mae byrder ac ansicrwydd y tymmor i'w geisio yn galw am yr holl galon. Os na weddiur o ddirif yn fuan, collir y cyfleusdra am byth. Nid oes gan neb ddim amser i'w gollu; goreu po gyntaf i bawb ymafiyd â'i holl galon yn y gwaith hwn: "Beth hynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni: canys nid oes na gwaith, na dychymmyg, na gwybod-aeth, na doethineb, yn y bedd, lle'r wyt ti yn myned;" *Preg.* ix. 10. Bydd rhai, wedi cysgu adeg gweddi drosodd, yn effro yn ymofyn olew yn rhy ddiweddar. Mor fywiog ac egniol ydyw dynion yn ceisio pethau o bwys, yn enwedig pan na bydd ganddynt ond adeg fer i'w ceisio!

11. Ceisir pethau llai eu gwerth gan lawer â'u holl galon. Mor awyddus y ceisir cyfoeth, parch, a phleserau gan luocedd o bobl! Edrychwch ar fywiogrwydd mawr pob galwedigaeth trwy y byd, a'r cwbl am bethau bychain a darfodedig—pethau na wnant un lles i ni yn anghu, pethau na ddeuant gyda ni trwy anghu i'r byd arall. Pe bae plant dynion yn ddoeth, hwy a geisient y pethau penaf gyda'r egni mwyaf; ond o herwydd dallineb eu calon, y maent yn ceisio y pethau lleiaf gyda'r egni mwyaf, ac yn esgeuluso y pethau penaf.

12. Y mae mawredd y perygl oddi wrth Satan yn galw am ymdrech calon. Nid oes un amser y mae Satan yn fwy ymdrechgar yn erbyn y Cristion na phan y bydd yn dyfod i sefyll

ger bron yr Arglwydd mewn gweddi; ac am hyny, dylai arfar y wylidwriaeth fwyaf. Ni buasai Saul yn cysgu, pe gwybuasai fod Dafydd mor agos; ni buasai Sisera yn cysgu pe gwybuasai fod yr hoel a'r morthwyl yn ymyl i'w ladd ef. Yr adroddiad fod Hannibal wrth y pyrth a gyffroes holl ddinas Rhufain. Ac oni ddylai y ffaith fod y diafol wrth dy ddrws dithau gyffroi dy galon i wyllo rhagddo? Gweddiwn am fodd i adnabod ei ddichellion ef, ac am nerth i wrthsefyll ei holl demtasiynau.

AMEN.

P R E G E T H X L I .

UNDEB A CHRIST.

Ephesiaid ii. 10.

“Canys ei waith ef ydym, wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a rag-ddarparodd Duw, fel y rhodiem ni ynddynt.”

Y MAE cyfnewidiad pechadur trwy ras yn bwngc o'r fath bwys mawr, ac yn cynnwys y fath ddirgelwch, fel y gwelodd Ysbryd Duw yn dda ddefnyddio lliaws ac amrywiaeth mawr o ymadroddion i'w osod allan; ac y mae yr holl ymadroddion hyny yn egluro ei natur trwy ddangos rhyw ochr neillduol i'r pwngc, neu ryw berthynas neillduol â rhyw fater arall. Y mae i bob pwngc o athrawiaeth yn y Beibl berthynasau yn ei gyssylltiadau â materion ereill. Nid oes un yn sefyll wrtho ei hun; ond y mae pob un fel *link* mewn cadwen hirfaith o byngciau, ac y mae amryw ddolenau yn gyssylltiol â phob dolen. Y mae pob pwngc—fel *dyn*—yn sefyll mewn perthynasau lawer: yn ol ac yn mlaen: y mae iddo hynafiaid a hiliogaeth. Neu fel pren, y mae iddo wreiddiau a changhenau. Ohwi gewch un gyffelybiaeth neu ymadrodd yn darlunio ailenedigaeth yn ei berthynas â Duw; y llall â'r Ysbryd—“geni o'r Ysbryd;” y llall â'r Gair; y llall â Christ—megys y testyn. Dyma yw ailenedigaeth etto, mewn geiriau ereill, “*creu*.”

Profir yma fod iachawdwriaeth o ras:—“Canys ei waith ef ydym.” Pa beth bynag ydym fel saint defnyddiol—ei waith ef yw hyny, nid ein gwaith ni. Neu, “ei waith ef ydym, wedi ein creu.” Priodol i Dduw ydyw *creu*: felly, math o greu oedd y gwaith hwn. Nid rhoddi cynneddfau newydd oedd hys, ond rhoddi egwyddor newydd.

“Ei waith ef ydym,” fel Creawdwr, wedi ein creu yn naturiol i waith da. Ond nid oedd hyny yn ddigon i'n gosod ar waith, ac i'n tueddu at waith da, yn y cyflwr yr ydym ynddo fel pechaduriaid. Ond “ei waith ef ydym,” fel Duw iachawdwriaeth—wedi ein creu yn ysbrydol, ein tueddu at, a'n harwain i, waith da.

Neu "wedi ein creu," i arwyddo nad oedd ynddynt hwy o'r blaen ddim tuedd nac anian, dim gogwydd at weithredoedd da. Yr oeddynt yn hollol lygredig, heb ddim egwyddorion sanctaidd. Nid adnewyddu hen egwyddorion oedd ynddynt hwy, ond eu creu o newydd yn hollol i weithredoedd da.

Neu, rhag iddynt hwy gamgasglu oddi wrth athrawiseth gras nad oes eisieu gweithredoedd da, neu "drigo mewn pechod fel yr amlhao gras." "Ei waith ef ydym." Amcan ac effaith sicr ein cadwedigaeth o ras yw ein darparu i waith da; neu ein creu yn y fath fodd ag y byddo i ni eu cyflawni yn effeithiol.

Neu "creu yn Nghrist Iesu," mewn cyferbyniad i fod ynom ein hunain, "i weithredoedd da." Trwyddo ef y crewyd ni y waith gyntaf mewn ystyr arall, ond yn awr yn ysbrydol a sanctaidd. Efe yw pen ac awdwr ein hadferiad hwn. Y mae "creu" yma yn arwyddo manwl osodiad, cynnydd, neu gyfanwaith—un darn cyflawn o furfiad Duw.

"Darparodd" Duw y gwaith yn ei gynghor; amlygodd ef yn ei Air. Neu, yn ol cyfieithiad arall, darparodd ni i'r gweithredoedd: "i'r rhai y rhagddarparodd Duw ni," trwy rod-di i ni wybod ei ewyllys, trwy rod-di cynnorthwy ei Ysbryd, a gwaithio y fath gyfnewidiad ynom.

Y mae y saint yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth ereill trwy y nodweddiad hwn—rhai "yn Nghrist." Yn Nghrist, mewn cyferbyniad i fod yn y cnawd, yn Adda, neu ynddynt eu hunain. Defnyddir cyffelybiaethau lawer i ddarlunio yn mha ystyr y mae y saint yn Nghrist. Darlunir Crist fel gwinwydden, a'r saint fel canghenau ynddo. Golygir holl ddynolryw, ar wahan oddi wrtho ef, yn ddiiffrwyth, ac yn analluog i ffrwytho mewn ufuddod sanctaidd i Dduw. Ond y mae Crist yn ei sefyllfa gyfryngol fel corph llawn o nodd; a phwy bynag a impir ynddo ef a ffrwytha. Hon ydyw ffordd Duw yn cyfnewid, aileni, ac adnewyddu pechadur; sef, ei uno â Christ. Darlunir yr undeb hwn trwy gyffelybiaeth o sylfaen ac adeilad. Golygir dynolryw yn eu cyflwr natur, fe allai, yn hen adeilad wedi ei chwalu, a'i dryllio, a'i gwasgaru yn garnedd ddiidrefn, trwy bechod; neu yn feini gwasgaredig, yn eu cyflwr gŵyrol a diymgeledd, ac yn hollol afluniaidd: a Christ yn ei sefyllfa gyfryngol yn sylfaen ar ba un yr adeiledir teml ardderchog â'r meini bywiol harddaf, ond a godwyd o'r cyflwr mwyaf annhrefnus ac afluniaidd gan Dduw trwy ei Ysbryd. Darlunir Crist yn briodfab, a'r saint yn briodferch; Crist yn ben, a'r saint yn aelodau, &c.

Yn awr, amcanwn brofi mai yr un peth ydyw adenedigaeth ac undeb â Christ. Y cyfnewidiad grasol a wneir ar bechadur gan yr Ysbryd Glân, er ei iachawdwriaeth, sydd yn gynnwysedig yn hyn—uno yr enaid â Christ: trwy ei uno â Christ y gwneir ef "yn gyfranog o'r dduwiol anian." Trwy uno y pechadur â

Christ y gall efe gyfranogi o bob bendith achubol sydd yn nghyflawnder Crist.

I. Y darluniad ysgrythyrol o'r undeb hwn, a'i effeithiau, a brawf mai ailenedigaeth ydyw.

Cyffelybir yr undeb hwn i undeb cangen â'r pren: *Ioan xv.* Pa beth ydyw ailenedigaeth? Onid gwneuthur y gangen grinllyd a diffwrwyth yn llawn nodd ac yn ffrwythlawn? Pa fodd y gwneir hyny? Trwy ei himpio yn y winwydden. Pa fodd y ceir y gangen ddiffwrwyth yn llawn nodd sanctaidd? Trwy ei huno â Christ. Nid rhoddi nodd yn y gangen ar wahân oddi wrth y pren, a'r nodd yn gweithredu i'w huno â'r pren; ond ei huno â'r pren yn grinllyd, fel y byddo i'w hundeb â'r pren gario nodd iddi hi. Nis gellir cyfranogi dim o fendithion achubol y Cyfryngwr heb undeb âg ef.

Dywed rhai fod pob gras yn cael ei blanu yn yr enaid, sef "duwiol anian"—yr hon sydd yn egwyddor pob gras, ar wahân oddi wrth Grist, ac heb un golygiad gan yr enaid ar Grist; a bod yr egwyddor hon, fel y delo i weithrediad, yn ffurfio undeb â Christ, neu yn gwneyd priodas â Mab Duw. Felly, yn ol y golygiad hwn, nid ydyw yr undeb â Christ ond effaith yr egwyddor o ras: felly, yn ol trefn, derbyniodd yr enaid bob gras cyn ei uno â Christ, a'r grasusau hyny sydd yn ffurfio yr undeb. Os cyfrifir y naill yn achos o'r llall, rhaid fod yr achos o flaen yr effaith ryw gymmaint. Ond y mae y golygiad hwn yn dywyll ac yn hollol anghysson. Nid effaith canlynol i blaniad yr egwyddor yw yr undeb. Nid egwyddor yn cael ei phlanu yn yr enaid heb un golygiad ganddo ar Grist fel Cyfryngwr ydyw, na dim a wnelo â Christ. Ond y modd y mae Ysbryd Duw yn planu yr egwyddor hon yn yr enaid ydyw argyhoeddi pechadur o'i drueni, ac o ogoniant y Cyfryngwr; ei nerthu i ymddiried ynddo, neu i ymuno âg ef trwy ffydd. Felly y mae y ffydd sydd yn uno yr enaid â Christ yn effaith dadguddiad yr Ysbryd o ogoniant Crist, a'i nerthu a wna gwaith yr Ysbryd ar yr enaid i ymddiried ynddo.

Yn y dadguddiad o ogoniant Crist i'r enaid y mae yr egwyddor sanctaidd yn cael ei chenhedlu. Golygwn yr egwyddor yn gariad at Dduw:—yn y dadguddiad o hono yn Nghrist yn Dduw heddychol y tywelltir y cariad hwnw yn yr enaid. Golygwn yr egwyddor yn ffydd:—yn y dadguddiad o ogoniant y Cyfryngwr y cenhedlir hi: "Y rhai a adwaenant dy enw a ymddiriedant ynot;" "Efe a roddes i ni feddwl fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir, ac yr ydym ni yn y Cywir hwnw, sef yn ei Fab ef, Iesu Grist." Golygwn yr egwyddor yn wreiddyn ymarweddiad sanctaidd:—yn yr amlygiad o ogoniant Crist y ffurfir hi: "Gwyn eu byd y bobl a adwaenant yr hyfryd-lais; yn

llewyrch dy wyneb, O Arglwydd, y rhodiant hwy." Golygwn yr egwyddor yn ddelw Duw:—yn yr amlygiad o ogoniant Crist y cenhedlir y ddelw: "Eithr nyini oll âg wyneb agored yn drych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megys gan Ysbryd yr Arglwydd." Golygwn yr egwyddor yn iachâd:—Crist yn cael ei ddyrchafu yn y dadguddiad, fel y sarph bres gynt, sydd yn a ddwyn i'r enaid. Golygwn yr egwyddor yn duedd i ddyfod at Grist:—yr amlygiad o'i ogoniant sydd yn tynu yr enaid ar ei ol: "Wele cenedl nid adwaeni a elwi, a chenedl ni'th adwaeni di a red atat," &c. Darlunir yr undeb hwn drwy y gyffelybiaeth o sylfaen ac adeilad. Adenedigaeth sydd yn gynnwysedig mewn dwyn pechadur at Grist, a'i gymmhwysu yn faen bywiol yn y deml ysbrydol. Gwelir fod undeb â Christ ac adenedigaeth yr un peth yn hollol, fel y mae yr undeb yn cael ei osod allan drwy y gyffelybiaeth o briodas gŵr a gwraig: *Ephes.* v. 23. Y mae cariad ac ymddiried yn cyfaddasu y pleidiau i'r undeb priodasol. Nid oedd y cariad a'r ymddiried hwn yn cael ei weithio yn y pleidiau ar wahân oddi wrth, neu heb un golygiad ar, eu gilydd; ond oddi ar eu hadnabyddiaeth o'u gilydd a'u cyfeillach â'u gilydd. Felly y cenhedlir ffydd yn Nghrist, a chariad ato. Nid eu planu yn egwyddor hunan-ymddibynol, ond eu gweithio trwy ddadguddio gogoniant Crist i'r enaid: "Wele, cenedl nid adweini a elwi, a chenedlloedd ni'th adwaeni di a red atat, er mwyn yr Arglwydd dy Dduw, ac o herwydd Sanct Israel: canys efe a'th ogoneddodd;" *Esa.* lv. 5.

Gosodir ef allan drwy y gyffelybiaeth o undeb yr aelodau â'r pen. Nid ydyw y gyffelybiaeth hon mor gyfaddas i ddarlunio y modd y ffurif neu y cyfansoddir yr undeb; ond cyfaddas ydyw yn hytrach i ddarlunio ei natur a'i effeithiau. Y mae yr aelod yn byw trwy rinwedd ei undeb â'r pen: nis gellir meddwl am aelod â bywyd ynddo ar wahân oddi wrth y pen: bywyd yr aelod a ymddibyna ar ei undeb â'r pen. Nid ydyw Ysbryd Duw yn rhoddi bywyd pob ysgogiad sanctaidd yn yr enaid ar wahân oddi wrth Grist, heb un golygiad ar Grist, ac heb un ymddibyniad ar Grist: ni ddichon hynny fod. Pe felly, bywyd fyddai yr achos o'r undeb, ac nid yr undeb yn achos o'r bywyd; neu, byddai yr undeb yn tarddu oddi ar y bywyd, ac nid y bywyd yn tarddu oddi ar yr undeb: fel pe mai bywyd y gangen a fyddai yr achos o'i hundeb â'r pren, neu fywyd yr aelod yn achos o'i undeb â'r pen, yn lle bod undeb yr aelod â'r pen yn achos o'r bywyd. Yr aelod sydd yn derbyn ei fywyd ysbrydol o'r pen, a thrwy rinwedd ei undeb â'r pen; neu, ei undeb â'r Pen Nefol yw ei fywyd. Y bywyd hwn yn ei amrywiol weithrediadau a elwir yn amrywiol rasusau. Deillia pob gras a dderbyniair o'r pen, a thrwy rinwedd undeb â'r pen. Nis gellir

derbyn dim o hono ond trwy yr undeb hwn: *Ephes.* iv. 15, 16. Gelwir Crist ei hun yn fywyd y saint yn fynych, am mai o hono ef a thrwy undeb âg ef y derbyniasant y bywyd. Nis gellir derbyn o'r pen heb undeb âg ef.

Y mae argyhoeddiad o drueni y cyflwr yn flaenorol i undeb â Christ, ac hefyd yn flaenorol i fywyd sanctaidd, neu y dduwiol anian. Nid ydyw argyhoeddiad o'r trueni ynddo ei hun yn cenhedlu bywyd; nid yw ond gwaith rhagbarotoawl ac arweiniol i'r llall. Ond rhaid cario yr argyhoeddiad yn mlaen yn drwyadl; sef, argyhoeddi o gyfiawnder ac o farn—o ogoniant Crist, a'i nerthu i ymddiried ynddo: yn hyn y mae y bywyd yn cael ei genhedlu; hyn yw y bywhâd. Fel y mae gwres yr haul yn yr haf yn rhoddi bywyd mewn llawer o greaduriaid a phethau tyfol, felly y mae tywyniad gogoniant Crist yn yr argyhoeddiad yn dwyn bywyd i'r enaid—bywyd gweithgar a firwythlawn.

Gwneir yr undeb hwn i fyny trwy ffydd o du y pechadur. Pa fodd y cenhedlir y ffydd hon yn yr enaid? Trwy ddatguddiad o ogoniant Crist: "Y rhai a adwaenant dy enw a ymddiriedant ynot." "Ac efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir; ac yr ydym ni yn y Cywir hwnw, sef yn ei Fab ef Iesu Grist; hwn yw y gwir Dduw, a'r bywyd tragwyddol." Profir hyn oddi wrth natur gwir ffydd:—"Sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Cenhedlir ffydd trwy ddwyn pethau dwyfol i hollol sicrwydd yn y meddwl. Gwir ffydd a gynnwys nid yn unig gydsyniad â'r gwirionedd, ond hefyd deimlad o hono; neu gyddfurfiad â'r gwirionedd—"ufuddhau o honoch o'r galon." Impio y Gair yn y meddwl, i firwytho. Derbyn y Gair "fel Gair Duw." Y mae yn gwreiddio a greddfau dan arddeliad yr Ysbryd yn y galon a'r serch. Y mae fel lefain yn troi yr enaid i'w duedd ei hun; yn "gyfraith" yn y meddwl. Gair Duw wedi greddfau yn y galon ydyw "y dduwiol anian:" "Wedi eich ail eni, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig, trwy Air Duw, yr hwn sydd yn byw ac yn parhau yn dra-gwydd;" 1 *Pedr* i. 23.

II. *Y mae yr holl ddarluniadau ysgrythyrol o ailenedigaeth yn ei ddangos yn gynnwysedig mewn uno yr enaid â Christ.*

"Enwaedu y galon i garu o honom yr Arglwydd ein Duw"—ni wneir hyn ar wahân oddi wrth Grist; ond trwy argyhoeddi yr enaid o ogoniant Duw a Christ. Drwy hyn y tywelltir cariad Duw yn y galon. Y cariad hwn nis gellir cyfranogi o hono ond trwy rinwedd undeb â'r Cyfryngwr. Cariad sydd un o blygion yr undeb o du y pechadur; felly y darlunir yr undeb drwy y gyffelybiaeth o briodas. Oddi ar olwg ar ei ogoniant yn cynhyrfu cariad ato yr ennillir yr enaid i ymgysylltu âg ef. Y mae y pechadur yn priodi Mab Duw oddi ar hoifder tuag ato; ac

yn ei hoffi oddi ar weled ei degwch. "Edrych" ar ei ogoniant sydd yn effeithio i "newid" i ddelw ei gariad ef.

"Troi yr enaid" sydd ymadrodd a ddefnyddir i ddarlunio y cyfnewidiad hwn: *Salm xix. 7.* Swm y troad hwn yw ymadawiad yr enaid â gwrthddrychau gwaharddedig, a'i ymlyniad rhag llaw wrth Dduw yn Nghrist, sef ailenedigaeth. Gwneir hyn drwy "gyfraith yr Arglwydd" fel moddion; a thrwy fod gorchymyn yr Arglwydd yn "goleno y llygaid."

Gwneyd pobl yn "ewyllysgar yn nydd nerth Duw" sydd hefyd yn ymadrodd a ddefnyddir i osod allan y cyfnewidiad mawr hwn. Y geiriau hyn a ddarluniant y gwaith hwnw o eiddo Ysbryd Duw yn gwneyd pechadur yn ewyllysgar. Nid yw yr ewyllysgarwch hwn yn cael ei weithio heb wrthddrych yn y byd, heb un golygiad ar Grist; ond dengys yr adnodau o'r blaen mai ewyllysgarwch i ymostwng i lywodraeth y Cyfryngwr ydyw, i ymuno âg ef fel Brenin, a hyny oddi ar adnabyddiaeth o'i ogoniant. Y moddion i'w dwyn yn ewyllysgar yw, "gwialen ei nerth," sef y cyhoeddiad a'r amlygiad o ogoniant y Messiah.

"Wele cenedl nid adwaeni a elwi, a chenhedloedd ni'th adwaenai di a red atat;" *Esa. lv. 5.* Yr ymadrodd hwn sydd yn darlunio ailenedigaeth trwy gyseylltu pechadur â Christ, eu galw at, a'u huno â Christ ydyw, yn y darlun hwn, tuag at amlygu gogoniant y Cyfryngwr: "Er mwyn yr Arglwydd dy Dduw, ac o herwydd Sanct Israel: canys efe a'th ogoneddodd."

"Ysgrifenu y gyfraith yn y meddwl" ydyw ailenedigaeth. Gwneir hyn drwy gydffurfio yr enaid â'r gyfraith. Y brif gangen o ufudd-dod i gyfraith Duw ydyw credu yn Nghrist: "Hyn yw gwaith Duw, gredu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe." Ysgrifenu y gyfraith trwy weithio argyhoeddiad yn y meddwl o bethau mawrion y gwirionedd, uniondeb a daioni y gyfraith, priodoliaethau Duw, a swyddau y Cyfryngwr.

"Gosod ofn Duw yn y galon" sydd air arall am hyn; sef, yr egwyddor o barch i Dduw. Nid ydyw y parch hwn yn cael ei weithio yn y meddwl heb olygiad ar Grist; o herwydd yn ngwyneb Iesu Grist y gwelir gogoniant Duw, a'r olwg hono sydd yn effeithio i greu y parch hwn. Y mae y parchedig ofn hwn yn effaith argyhoeddiadol o ogoniant Duw yn ngwyneb y Cyfryngwr. Yr oedd yr arddangosiad mawr a gymmerodd le ar Sinai hefyd trwy gyfryngwr cysgodol, sef Moses.

Y mae "rhoddi calon newydd," "a thynfu y galon gareg," yn darlunio ailenedigaeth. Ond ni wneir hyn ar wahân oddi wrth Grist, ac heb olygiad arno. Trwytho yr enaid mewn edifeirwch a gwir deimlad o'i drueni yw yr ystyr; ond ni wneir hyn heb olygiad ar Grist: "Edrychant arnaf fi yr hwn a wânasant, galarrant hefyd am dano fel un yn galaru am ei uniganedig, ac

ymofidiant am dano ef megys un yn gofidio am ei gyntaf-
anedig." Arddangosiad o ddrwg pechod fel yr arddangoswyd
ef yn marwolaeth Crist sydd yn effeithio gwir edifeirwch—ar-
gyhoeddiad o ddaioni a chariad Duw.

"Aileni" sydd ymadrodd arall am dano: *Ioan* iii. 3. Ond
nid yw ailenedigaeth i'w gyfyngu i'r syniad o anian newydd,
neu dueddiadau newydd yn unig; ond arwydda hefyd berthynas
newydd yn cael ei chyfansoddi rhwng yr enaid a Duw ac â
Christ. Fel y mae geni naturiol megys yn cyfansoddi perth-
ynas, felly yma; y mae yr enedigaeth hon yn cyfansoddi mab-
olaeth i Dduw.

"Ennill trwy Air y gwirionedd" sydd ymadrodd arall am
ailenedigaeth. Ennill i undeb â Christ yw y swm: ennill i'w
gymeradwyo yn ei holl berson a'i swyddau. Uno â Christ yw
yr ennill hwn. Gwneir hyn drwy argyhoeddi o ogoniant Crist:
"Y rhai a adwaenant dy enw a ymddiriedant ynot."

"Bywhau" (*Ephes* ii. 1) sydd air am ailenedigaeth. Nis gellir
bywhau yr aelod ond trwy ei gyssylltu â'r pen. Nis gellir rhoddi
bywyd yn y gangen ond trwy ei himpio yn y pren. Y ffordd i
fywhau yr enaid i bob dyledswydd sanctaidd yw ei uno â Christ:
"Od oes neb yn Nghrist y mae efe yn greadur newydd; yr hen
bethan a aethant heibio, wele, gwnaethpwyd pob peth yn new-
ydd." "Megys yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yn
Nghrist y bywheir pawb;" *Rhuf.* vi. 11; *Rhuf.* vii. 4; *Esa.* lii. 15;
Esa. xi. 10. "Saif yn arwydd, âg ef yr ymgais y Cenhedloedd;"
Jer. xxiv. 7. Y mae yr holl ymadroddion ysgrythyrol hyn yn
dangos mai dyma yw aileni pechadur—ei uno â Christ. Dyma
y modd y mae Duw yn creu i weithredoedd da; sef, "creu yn
Nghrist Iesu." Nid oes unrhyw ymadroddion ysgrythyrol ar y
pen hwn yn boddloni rhai dynion hunanol. Pe dywedid wrth-
ynt yr ymadroddion a lefarodd yr Ysbryd Glân ar y pen hwn,
nid ydynt yn eu boddloni hwy. Rhaid iddynt hwy gael eu
geiriau eu hunain o'u dyfais eu hunain yn hollol—nad oes dim
o'r fath eiriau yn yr Ysgrythyr; a mynant gael ereill i'r un
geiriau, neu drwgdybiant hwy yn gyfeiliornwyr. Ac etto dis-
gwyliant i ni fod mor ffol a meddwl mai oddi ar ofal am burdeb
yr athrawiaeth y gwrthodant eiriau yr Ysgrythyr am y pwngc,
ac y gosodant eu geiriau dynol, cnawdol, eu hunain yn eu lle!
Y dynion hyn sydd yn tybied eu geiriau eu hunain yn fwy
goleu a phenderfynol ar bwngc o wirionedd dwyfol na geiriau
yr Ysgrythyr, ydynt yn sicr yn tybied eu hunain yn gymmhwys-
ach i ddadguddio meddwl Duw i ddynion na'r Ysbryd Glân!
Y maent wedi trafaelio mwy na hanner y ffordd tua chadair y
Pab o Rufain, yr hwn sydd yn hōni anffaelidigrwydd. O Dduw!
pa bryd y gweli di fod yn dda ddyfetha yr anwir hwn o'r byd?
Ymddangosed dy ogoniant, tywallter dy Ysbryd, fel na feiddio

neb feddwl y balchder annioddefol hwn! Bydded dy Air di i ni yn unig sail i bwysu arno! Tywod twyllodrus yw pob peth arall!

Y mae rhai yn darlunio ailenedigaeth yn gynnwysedig mewn tywallt, neu blannu, neu gren egwyddor newydd yn yr enaid—neu anian neu duedd newydd—ac heb ddim chwaneg na hyny. Ond y mae y darluniad yna yn rhy fyr, er ei fod yn gywir cyn belled ag y mae yn cyrhaedd. Gwir fod anian newydd yn cael ei phlanu yn yr enaid. Y mae mor wir a hyny mai peth hanfodol i ailenedigaeth ydyw uno yr enaid â Christ, fel y dengys y testyn. Y mae rhai yn ymfrostio fod ganddynt allu i ddyweyd pob peth yn gyflawn mewn ychydig eiriau: dim ond gwaeddi rhyw un gair, ac y gwél pawb y pwngc yn gyflawn. Y mae yn amhossibl i hyny fod; ac oddi ar eu hanwybodaeth o eangder y pwngc y mae y rhai hyny yn meddwl felly. Nis gallant ddangos un wyneb i'r mater yn gyflawn mewn gair. Ac y mae iddo lawer wyneb arall, nad ydynt hwy yn sôn am danynt. Y mae yn wir fod yn yr ailenedigaeth blannu egwyddor o sancteiddrwydd yn y galon, yr hon a ddygir ar gynnydd yn y sancteiddhâd, ac a berffeithir yn y nefoedd. Ond y mae y darluniad yna yn gadael Crist allan o'r pwngc. A ydyw *Crist* ddim i fod yn lle yn y byd yn y pwngc o ailenedigaeth? A wneir y deul hon i fyny heb i Grist fod yn sail, nac yn ben congl-faen, nac yn offeiriad? Na: rhaid i ni gael lle i Grist yn y pwngc hwn. Crist fel prophwyd, yw awdwr moddion ailenedigaeth. Crist fel prophwyd trwy ei Ysbryd sydd yn gwneuthur y moddion hyn yn effeithiol. Crist fel offeiriad, yn ei offrymu ei hun, a agorodd y ffordd i'r Ysbryd ddyfod. A Christ fel brenin, yn dyfod ac yn gosod ei frenhiniaeth yn y galon, ydyw ei swm a'i natur. Crist yw cynllun y ffurf newydd a roddir ar yr enaid yn yr ailenedigaeth: ei weithio i'r "un ffurf a delw ei Fab ef" ydyw y gwaith. Rhoddir y cwbl ynghyd mewn gair: "Creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da" ydyw y cwbl. Dywed un mai ailenedigaeth ydyw ennill bryd y pechadur ar ol yr Arglwydd Iesu.

Dywed Mr. Charles yn y *Geiriadur* nad rhoddi bod i ddyn fel creadur yw ei ail eni, ond gweithredu ynddo wahanol ddul newydd o fod o ran ei sancteiddrwydd; a'i ddwyn i berthynas newydd â Duw, a'i ddwyn i undeb â Christ. Egwyddor neu duedd yw y dduwiol anian sydd yn ymddibynu ar ragorisethau ei gwrthddrychau. Nid egwyddor hunanyyddibynol ydyw. Nid egwyddor yn uno yr enaid â Christ, heb un golygiad ar ogoniant Crist; ond egwyddor ydyw sydd yn uno yr enaid â Christ trwy ffydd, oddi ar olwg ac adnabyddiaeth o ogoniant Crist: "Efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir." "Y rhai a adwaenant dy enw a ymddiriedant ynot." "Fel yr adnabyddwyf ef." "O herwydd arogl dy ensaint ddaoca-

us, am hyny y llangcesau a'th garant." "I agoryd eu llygaid a'u troi." "Eithr dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw: canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, o blegid yn ysbrydol y bernir hwynt." "Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw." Trwy ffydd yr unir yr enaid â Christ; o herwydd y mae holl ragorfreintiau undeb â Christ yn cael eu cyssylltu â ffydd neu gredu; megys "dim damnedigaeth," &c.; *Rhuf.* viii. 1; *Ioan* iii. 15, 16. Darlunir ffydd fel adnabyddiaeth ysbrydol o bethau ysbrydol; yn sail a sicrwydd "y pethau nid ydys yn eu gweled." Ond nid yw yr enaid yn dyfod i afael yr adnabyddiaeth hon ond yn rhinwedd ei undeb â Mab Duw. Yn yr undeb hwn y mae ein holl iachawdwriaeth. AMEN.

PREGETH XLII.

CYNDYNEWYDD DYNION TUAG AT DDUW.

Jeremiah vi. 28.

“Cyndyn o'r fath gyndynaf ydynt oll, yn rhodio âg eallib: efydd a hain fnt; llygru y maent hwy oll.”

Yn y testyn hwn yr ydym yn cael darluniad byr a chynnwys-fawr o ymddygiad y genedl Iuddewig tuag at Dduw, yn ngwyaeb ei holl ddaioni mawr iddynt. Dyrchafodd yr Arglwydd y genedl hon yn uchel mewn breintiau crefyddol. Efe a'i planodd o'r winwydden oren. Disgwyliodd am ufudd-dod parod ac ewyllysgar i'w holl ddeddfau; ond yn lle hyny, “cyndyn oeddynt o'r fath gyndynaf.” Gwnaeth yr Arglwydd gyfammod âg Abraham, tad y genedl hon, ac addawodd fod yn Dduw iddynt hyd byth; a rhwymodd hwythau i fod yn bobl ufudd a sanctaidd iddo ef. Addawodd y bobl hefyd gyflawni ammodau y cyfammod yn ffyddlawn; ond yn fuan cafodd Duw achos i'w cyhuddo yn ngeiriau y testyn:—“Cyndyn o'r fath gyndynaf ydynt oll.” Cyhoeddodd Duw ei gyfraith, ac a'i hysgrifennodd i'r genedl hon ar ddwy lech faen, yn rheol iddynt drefnu eu hymarweddiad wrthi, er gogoniant Duw a'u dedwyddwch hwy eu hunain; ac anrhydeddodd hwy yn ngolwg yr holl genhedloedd trwy arwyddion a rhyfeddodau ofnadwy, i'r dyben o'u hannog a'u rhwymo yn y modd mwyaf effeithiol a grymus i ufuddhau iddi rhag llaw; ond nid hir y bu y genedl heb ymddangos yn “gyndyn o'r fath gyndynaf.” Sefydlodd drefn o addoliad newydd yn eu mysg; rhoddodd yn eu dwylaw holl ddefodau ei wasanaeth; a gosododd ei dabernacl yn eu plith; ond er hyn oll “cyndyn o'r fath gyndynaf oeddynt oll.” Bygythiodd goshu eu hanufudd-dod a mellithion trymion yn y byd hwn, ac i chosbedigaeth dragwyddol yn y byd a ddaw; ac addawodd wobrwyo eu hufudd-dod a bendithion lluosog a gwerthfawr yn y byd hwn, a bywyd tragwyddol yn y byd a ddaw. Er y gall- esid disgwyl i'r fath annogaethau cryfion effeithio ufudd-dod

ffyddlaw, etto "cyndyn o'r fath gyndynaf oeddynt." Anfonodd Duw atynt ei weision, y prophwydi, gan foreu godi, a llefaru wrthynt; gwaredodd hwynt o wlad yr Aipht mewn modd rhyfeddol, "â llaw gref ac â braich estynedig;" cadwodd hwynt yn fyw yn yr anialwch ddengain mlynedd trwy wyrthiau mawrion; rhoddodd iddynt waredigaethau hynod yn amser y barnwyr; ond er hyn oll, "cyndyn o'r fath gyndynaf oeddynt." Goddefodd i ddeg llwyth Israel syrthio i ddwylaw Salmaneser, i'w dwyn i gaethiwed, o flaen eu llygaid; ond arbedodd freinhiaeth Judah, i'w hannog i edifarhau a dychwelyd ato; ond er hynny "cyndyn o'r fath gyndynaf oeddynt."

Y mae yn briodol i Dduw gyhuddo ein cenedl ni yn awr yn yr un geiriau ag y cyhuddodd efe y genedl Iuddewig y pryd hwnw. Gall gyda phriodoldeb neillduol ddyweyd mai cenedl y Cymry sydd yn awr yn gwisgo *caritor* ac ymddygiad gwrthryfelgar yr Iuddewon gynt:—"Cyndyn o'r fath gyndynaf ydynt."

Y cwestiwn y sylwn ni arno oddi wrth y testyn hwn ydyw,

O ba bethau y gwneir i fyny cyndynrwydd dynion tuag at Dduw?

1. Y mae cyndynrwydd y byd tuag at Dduw yn cael ei ffurfio a'i wneuthur i fyny o ryw ddrwgfeddyliau camsyniol a thywyll ynghylch eu dyledswyddau fel creaduriaid cyfrifol i Dduw. Dyledswydd dyn fel creadur rhesymol ydyw gweithredu yn ol y farn sydd wedi ei sefydlu ganddo yn ei feddwl. Y mae holl ddigwyddiadau ei fywyd, ynghyd â phob peth sydd yn effeithio ar ei ymarweddiad, yn effeithio yn gyntaf ar ei syniadau, a thrwy hyn yn effeithio ar ei ymarweddiad. Ffrwyth syniadau y meddwl ydyw holl ysgogiadau yr ymarweddiad. Nid ydyw dyn fel peiriant mawr yn cael ei ysgogi gan gymmhelliadau allanol, ac heb ymroddiad ynddo ef i'r ysgogiadau hynny; ond y mae dyn yn fath o hunan-ysgogydd—yn gweithredu o dan lywodraeth syniadau ei feddwl ei hun. Gan hynny, syniadau anghywir a chnawdol sydd yn ffurfio cyndynrwydd dynion tuag at Dduw:—"Syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw." Y mae y syniadau gŵyrgam hynny sydd yn rhwymo dynion i fyny mewn cyndynrwydd tuag at Dduw yn amrywiol a lliosog iawn. Er fod gan bob dyn ryw radd o deimlad tufewnol o'i rwymedigaeth foisol fel creadur cyfrifol i'w Greawdwr, etto y mae dynolryw yn llochesu camsyniadau sydd yn eu camarwain i anufudd-dod i Dduw o dan y teimladau mwyaf bywiog o eiddo eu cydwybodau.

Rhwymir y cenhedloedd paganaidd i fyny mewn cyndynrwydd hollol, trwy yr egwyddorion halogedig a dderbyniasant yn draddodiadol gan eu tadau. Er fod eu dyledswyddau tuag at Dduw a dyn wedi eu hamlygu iddynt i'r fath raddau "hyd

onid ydynt yn ddiesgus," y mae paganiaeth yn ffurfio y cyndynrwydd cryfaf yn y cenhedloedd hyny oll trwy ddallu eu meddyliau yn hollol ynghylch natur eu dyledswyddau; o blegid moddion anffaeledig i'w hattal i geisio Duw ydyw tywyllu eu deall. Y sawl nid ydynt yn deall ni ellir disgwyl iddynt geisio Duw. Tra y byddont wedi tywyllu eu deall y maent yn rhwym o "ymddeithrio oddi wrth fuchedd Dduw." Y mae paganiaeth yn rhwymo y rhai sydd yn ei derbyn, dan boen cosbedigaeth dragwyddol, i gyflawni gosodiadau dynol a llygredig hollol wrthwynebol i ddeddf Duw. Dyfais ddynol ydyw ei herthyglau crefyddol, a'i rheolau i ymarweddu wrthynt. Saif pob dyfais ddynol yn Ngair Duw yn hollol wrthwynebol i ewyllys Duw: "O blegid syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw: canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw; o blegid nis gall chwaith;" *Rhuf.* viii. 7. Sêl dros grefydd eu hynafiaid, heb un rhith o brawf o'i gwirionedd, ydyw y fagl fawr sydd yn eu rhwymo mewn cyndynrwydd. Er fod ganddynt amlygiadau o'u rhwymedigaethau moesol yn ngwaith y greadigaeth a Rhagluniaeth, ac mewn rhai cangenau o'r traddodiadau a dderbyniasant gan eu rhieui; etto, y maent wedi suddo i'r fath anwybodaeth am Dduw a chrefydd fel nad oes yn eu holl erthyglau crefyddol un gangen o wirionedd yn sail ddigonol i adeiladu gwir foesoldeb arni. Y mae yr egwyddorion a goledant yn cynnyrchu y cyndynrwydd cryfaf ynddynt, trwy ddallu eu meddyliau yn nghylch sylfeini eu dyledswydd, a'u hamddifadu o bob cymmhellad priodol i'w chyflawni. Y mae Mahometaniaeth, drwy sefydlu camsyniadau mawr ynghylch eu dyledswyddau yn meddyliau y cenhedloedd Mahometanaidd, yn eu rhwymo i fyny yn y cyndynrwydd mwyaf diysgog; ac y mae yn meithrin y cyndynrwydd hwn trwy dywyllu eu deall yn hollol yn nghylch natur gwir sancteiddrwydd. Y mae ei mwg wedi tywyllu'r haul a'r awyrgylch yn hollol oddi wrth ei chofleidwyr, ac o ganlyniad y maent yn ymbalfalu yn nghanol niwl a thywyllwch. Gwir pawb sydd yn gydnabyddus â'i hanes fod cyfeiliornadau llygredig Mahometaniaeth wedi codi i fyny fel mwg caddugawl, ac wedi cuddio yr athrawiaeth iachus a phur sydd yn cyfarwyddo, yn annog, yn cynnyrchu ymarweddiad sanctaidd. Trwy gymmysgu gwirioneddau â chyfeiliornadau, y mae y gwirionedd yn colli ei rym i rwymo i sancteiddrwydd. Y mae Mahometaniaeth yn rhwymo y cenhedloedd mewn cyndynrwydd trwy osod iau gref ar eu cydwybodau, i'w rhwymo yn ddiysgog i gasau y gwirionedd, ac i'w wrthsefyll yn mhob modd. Rhwyma hwynt, trwy addewid o ddedwyddwch tragwyddol, i lynu wrth yr egwyddorion hyny sydd yn eu natur yn groes i Air yr Arglwydd, ac yn wrthwynebol i sancteiddrwydd a gwir rinwedd, ac yn feithriniaeth cryf i bechod a llygredigaeth eu calonau—

egwyddorion ag y mae eu credu ac ymarweddu wrthynt yn wrthryfel yn erbyn Duw.

2. Y mae yr athrawiaeth Iuddewig yn sefydlu syniadau sicr a chymmhwys i gynnyrchu cyndynrwydd diysgog tuag at Dduw. Er fod cyfraith yr Arglwydd, yr hon sydd yn rheol anffaeledig i ymarweddiad sanctaidd gan yr Iuddewon, ac er eu bod yn addef ei dwyfol darddiad, ac yn derbyn yr Hen Testament fel dadguddiad anffaeledig o'r nef, etto, y maent yn credu syniadau cyfeiliornus, y rhai sydd o angenrheidrwydd yn ffurfio cyndynrwydd diysgog. Trwy gamesbonio cyfraith yr Arglwydd, y maent yn cael eu harwain i goleddu camsyniadau pwysig yn nghylch eu dyledswyddau. Esboniant y gyfraith yn llythyrenol ac arwynebol, a gwadant ei manylrydd a'i hysbrydolrwydd, yr hyn sydd yn eu rhwymo mewn camsyniadau ynghylch eu dyledswyddau, ac o angenrheidrwydd yn cynnyrchu cyndynrwydd; o blegid drwy hyny y maent yn gwadu ac yn anghredu y canghenau mwyaf pwysig o'u dyledswyddau tuag at Dduw, y rhai sydd yn wreiddyn i'r holl ddyledswyddau ereill. Heb law hyny, y mae y genedl Iuddewig yn bwrw ymaith yn hollol yr unig wreiddyn sydd yn ffrwytho mewn ymarweddiad sauctaidd yn mysg dynion; sef, yr Arglwydd Iesu. Efe ydyw y ffynnidwydden i'r, "ac o hono ef y ceir ffrwyth" dynolryw.

3. Didduwiaeth sydd yn rhwymo ereill yn gadarn mewn cyndynrwydd. Y mae yr anffyddwyr wedi suddo i'r fath ynfydrwydd nes y maent yn haeru i'r greadigaeth ymfurfio yn ddamweiniol o honi ei hun, o ddefnyddiau gwasgaredig annechrenol, ac nad oes Greawdwr iddi, na llywodraethwr goruchaf arni. Y mae y syniadau hyn yn meddu y cyfaddasrwydd mwyaf i sefydlu cyndynrwydd diysgog yn y rhai a'u coledant; o blegid y maent yn gwadu holl sylfaen dyledswyddau moesol, ac yn llwyr wadu yr holl wahaniaeth rhwng da a drwg, ac yn llwyr ddiosg pob rhinwedd o'i holl arfogaeth. Y maent yn cymmeryd ymaith yn hollol bob annogaeth i ddaioni, ac yn llwyr arfogi pob anwiredd yn un chwant â chyflawn ryddid i lifo dros y byd. Y mae y syniadau hyn yn digaregu ffordd pob chwant melldigedig, yn gostwng pob bryn, ac yn cyfodi pob pant o'u blaen, ac yn llwyr balmantu y ffordd i bob creulondeb, a thrais, ac anghyfiawnder. Pe cai yr egwyddorion hyn eu hymarfer yn llawn, a'u hymarweddu yn hollol, ni byddai yn y byd ond trais, gorthrymder, lladradau, anudonau, lladdiadau, a chreulondeb o bob math; i.e. byddai wyneb y byd yn fuan yn fôr o waed. Pan ddywedo dyn yn ei galon, "Nid oes un Duw," yr effaith o hyny ydyw gwneuthur ffieiddwaith—ac y mae *ffodiart* ei galon yn ymagor i'w holl dueddiadau drwg redeg allan yn ddirwystr.

4. Y mae syniadau anffyddol yn ffurfio cyndynrwydd llawer.

Y mae rhai yn gwadu dwyfol darddiad yr Ysgrythyrau, yn hollol oddi ar anwybodaeth o'r profion o'u dwyfoldeb. Nid ydynt erioed wedi chwilio i mewn iddynt, nac yn deall y rhesymau a ddefnyddir o'u plaid; ond gwnant honiadau hollol ddibrawf. Coleddir y syniadau hyn gan ereill yn hollol oddi ar ddyethr-wch meddwl i'r profion amlwg o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau. Y mae rhesymau Cristionogaeth yn gwbl alluog i argyhoeddi barn dyn, ond yn unig iddynt gael eu hiawn-ystyried, a'u troi a'u trafod yn wastadol yn y meddwl; ond nis gall y rhesymau cryfaf effeithio ar y galon tra y canir hwynt allan o'r meddwl. Felly y mae llawer o anffyddwyr yn cadarnhau eu hunain mewn cyndynrwydd, ac yn amddiffyn syniadau sydd yn ffurfio eu cyndynrwydd, trwy gan allan o'u meddyliau yr holl ystyriaethau sydd o duedd bleidiol i sancteiddrwydd, yn enwedig y profion o ddwyfol darddiad yr Ysgrythyrau. Pellhant y dydd drwg oddi wrthynt, i'r dyben o "nesau eisteddle trais;" *Amos vi. 3.* Rhaid iddynt droi y dydd drwg allan o'u meddyliau yn gyntaf, cyn y gallant fyned yn mlaen yn dawel yn eu pechodau. Yr annuwiol a ddywed yn ei galon, "Nid oes un Daw:" yna, efe a gyflawna "ffiaidd anwiredd." Rhaid iddo droi Duw allan o'i feddwl cyn y caiff lonyddwch i bechu. Rhaid i'r gŵr ieuangc anghofio y farn yn mlaenaf, yna "rhodia yn ffyrdd ei galon ac yn ngolwg ei lygaid." Nid oes ganddo un ffordd i amddiffyn ei chwant ond drwy anghofio y farn. Os try efe yn ei fyfyrdod at y farn, y mae y profion o honi mor amlwg a lliosog, a'i mater mor bwysig ac ofnadwy, fel na ddichon ochel ei hargraph dwfn a difrifol ar ei galon a'i ymarweddiad. Gan hyny, nid oes ganddo ddim i'w wneyd i ddiogelu ei galon rhag teimlo dychrynfeydd y farn ond ei hanghofio, a'i bwrw ymaith yn llwyr o'i feddwl. Felly yn hollol y mae llawer o anffyddwyr yn gochel argyhoeddiad—trwy fwrw ymaith o'u meddyliau yn hollol y profion o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau. Pe myfyrient yn ddi-duedd ar y profion hyny, gan eu troi a'u trafod yn wastadol yn eu meddyliau, nis gallent lai na theimlo effeithiau grymus y gwirionedd ar eu calonau. Gan hyny, nid oes ganddynt ddim i'w wneyd ond amddiffyn eu tybiant trwy wrthod edrych i mewn iddynt, gan eu hesgeuluso, a chau eu clustiau yn erbyn argyhoeddiad. Ceisiant brofi eu bod yn bwysau trwy ochelyd eu rhoddi yn y clorian. Yr unig ffordd i ddiogelu lleidr ydyw ei gadw yn guddiedig—gwrthod ei ddangos. Felly yr anffyddwyr: ymgadwant o'r goleuni, fel nad argyhoedder eu hegwyddoriau ynfyd.

Coledda dosbarth arall syniadau anffyddol, er gwybod y rhesymau amlwg a chedyrn sydd dros y gwirionedd, ac er troi y rhesymau hyny yn eu myfyrdodau yn fynych, trwy gau eu hunain i fyny yn hollol yn erbyn pob argyhoeddiad, a gweithio

eu hunain trwy ymdrech i wrthsefyll eu dylanwad ar eu calonau. Er fod rhesymau y gwirionedd dwyfol yn hollol ddigonol i argyhoeddi pob meddwl diduedd, ac er fod y rhesymau hyn yn adnabyddus iddynt, etto, y fath ydyw eu cariad at yr ymarweddiad a ganiateir iddynt gan eu hegwyddorion drwg, fel y mae yn cuddio holl wendidau y syniadau hyn oddi wrth eu llygaid, ac yn llwyr feddyginiaethu yr archhollion dyfnion a dorir arnynt gan resymau eu gwrthwynebwy; tra y mae eu casineb, o'r tu arall, yn cuddio holl resymau cedyrn a rhinweddan hawddgar y syniadau gwrthwynebol iddynt oddi wrth eu llygaid. Gwelant bob peth yn fach yn y naill, a phob peth yn fawr yn y llall. Ond yr achos yw, fod y gwydrau yn cael eu newid ar eu llygaid hwy. Casineb sydd yn cael ei droi at y naill, a chariad at y llall. Y mae y syniadau hyn yn cynnyrchu y cyndynrwydd cryfaf—yn hollol wadu cyfrifoldeb dyn i Dduw, a gwobr a chosb dragwyddol. Pe byddai y syniadau hyn yn gywir, ni byddai angenrheidrwydd am i ddyw ofalu yn mha agwedd i fyw, nac yn mha gyflwr i farw. "Bwyfawn ac yfwn, canys yfory marw yr ydym," a allasai fod yn iaith briodol pob dyn, oni bae fod byd i fyned iddo ar ol hwn. Oferedd fwasai gwasanaethu Duw, ac ni buasai llesiant o gadw ei orchymynion ef, a'r beilchion a fuasent yn wynfydedig, a'r rhai a demtiant Dduw a fuasent yn cael eu hadeiladu, oni bae fod diwrnod yn dyfod eto i weled "rhagor rhwng y cyfiawn a'r drygionus." Y mae yr athrawiaeth ysgrythyrol yn derbyn ei grym i annog dynion i sancteiddrwydd a rhinwedd yn y byd hwn o'r athrawiaeth o wobr a chosb dragwyddol yn y byd a ddaw: "Gan fod yn rhaid i hyn i gyd ymollwng, pa ryw fath ddyinion a ddylech ohwi fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb?" 2 *Petr* iii. 11. "Bydd ffyddlawn hyd anghen, ac mi a roddaf i ti goron y bywyd;" *Dad.* ii. 10. Y mae gwadu gwobr a chosbedigaeth dragwyddol ar unwaith yn llwyr ddiog rhinwedd o bob arfog-aeth, ac yn ei osod yn noeth heb un rheswm o'i blaid.

5. Y mae camgasgliadau oddi wrth athrawiaeth ysgrythyrol wedi eu sefydlu yn gyndynrwydd cadarn yn meddyliau llawer tuag at Dduw. Gwreiddyn anufudd-dod cenedl y Cymry ydyw syniadau drwg, neu ddrychfeddyliau cyfeiliornus, y rhai sydd yn dylanwadu ar eu hymarweddiad; ac y mae y syniadau hyn wedi eu camgasglu oddi wrth athrawiaeth iachus, ac wedi eu sefydlu yn gadarn yn y farn.

1af, Tynir amryw gamgasgliadau niweidiol oddi wrth waith Duw yn yr iachawdwriaeth, y rhai sydd yn rhwymo pawb sydd yn eu coleddu mewn cyndynrwydd.

(1.) Tynir camgasgliadau oddi wrth arfaeth Duw. Gan fod yr Arglywydd wedi arfaethu rhai i fywyd tragwyddol yn rhad, yn gadarn, ac yn ddiysgog, yna tybiant fod arfaeth Duw yn sicrhau

iachawdwriaeth y rhai hyny, a'r rhai hyny yn unig a gedwir, ac y oedwir y rhai hyny, gwnant a fynont. Gan hyny, y casglad a wnant ydyw, 'Nid oes dim ar fy llaw i i'w wneuthur tuag at fy iachawdwriaeth. Nid oes i mi ddim i'w wneuthur nac i'w achub ynghylch fy mater tragwyddol; ond gallaf orwedd yn dawel yn fy mbechodau, a gadael fy iachawdwriaeth yn gwbl ar Dduw.' Yr wyf yn addef fod gan Dduw ei arfaeth gadarn a thragwyddol ynghylch achubiaeth dynion; ond y mae y casglad a nodwyd yn hollol ammhriodol a dinystriol. Nid yw arfaeth Duw yn dy ryddhau di oddi wrth dy rwymedigaeth i gyflawni dy ddyledswydd. Nid ydyw yr arfaeth yn cadw neb yn ei bechodau, nac yn dwyn neb i'r nefoedd mewn esgeulusdra o ddyledswyddau. O'r tu arall, nid ydyw ar ffordd cadwedigaeth neb, nac yn damnio neb. Nid oes gan Dduw arfaeth wedi ei llunio i ddistrywio. Y mae arfaeth Duw yn cael ei chyflawni trwy foddion gosodedig, a gwaith priodol i ti ydyw arfer y moddion hyny; arfer di y moddion, a disgwyl yn ostyngedig wrtho i lwyddo y moddion, a chyflawnir ei fwriadau gras arnat ti. A ydyw fod Duw wedi arfaethu unrhyw beth yn rheswm dros esgeuluso y moddion i gyflawni y peth hwnnw? O felly, nid ydyw yn briodol anfon cenhadau a Beiblau i'r paganiaid; o blegid y mae Duw wedi arfaethu llenwi y ddaear o wybodaeth ei ogoniant fel y tŷa y dyfroedd y môr. Nid oedd eisieu i Moses tyned i'r holl drafferth i waredu Israel o'r Aipht, o blegid yr oedd Duw wedi arfaethu eu gwaredu. Nid oedd yn briodol i Daniel weddio am waredigaeth i'r genedl o Babilon, o blegid yr oedd Duw wedi arfaethu eu gwaredu. Nid ydyw yn briodol gweddio am i Dduw faddeu i neb, nac achub neb; o blegid y mae Duw wedi arfaethu achub pawb a achubir. Nid ydyw yn briodol i'r amaethwr lafurio ei faes, nac i ddyr borthi a dilladu ei gorph, o blegid y mae Duw wedi arfaethu bywyd a marwolaeth pob dyn. Ond dylid cofio fod y moddion yn gystal a'r dybenion yn rhan o arfaeth Duw. Yr oedd Duw wedi arfaethu achub Noah, a'i deulu, rhag boddi yn y dwf diluw; ond yr oedd hefyd wedi arfaethu i Noah wneyd arch i'w gadw ei hun. Yr oedd wedi bwriadu dinystrio Jericho; ond yr oedd yn rhaid i'r Israeliaid arfer y moddion gosodedig yn dgorchymyn Duw. Yr oedd Duw wedi arfaethu achub pawb oedd gyda Paul yn y llong; am hyny dywedodd Paul wrth ei gyd-deithwyr, "Ni bydd colled am einices un o honoch." Ond gan mai trwy offerynoliaeth y morwyr yr oedd efe yn meddwl eu cadw, am hyny, pan welodd efe y morwyr yn ceisio dianc ymaith, a gadael i'r llong a'r teithwyr gymmeryd eu siawns, efe a ddywedodd wrth y canwriad a'r milwyr, "Onid erys y rhai hyn yn y llong, ni ellwch chwi fod yn gadwedig." Dylem gofio yn wastadol mai gorchymynion Duw, ac nid arfaeth Duw, ydyw

rheol ein hymddygiad ni tuag at Dduw. Y mae llawer yn ufuddhau i Dduw heb gael dim gwybodaeth o'r arfaeth, mwy na'r rhai sydd heb ufuddhau. Pa fodd y mae dirgelwch i'r arfaeth yn rhwystr i ti, mwy nag iddynt hwy? Arfaeth Duw mewn gwirionedd ydyw ei Air. Pa beth bynag a ddywedodd Duw, hyny y mae yn ei feddwl. Y mae wedi arfaethu rhoddi i'r hwn sydd yn gofyn, ac agor i'r hwn sydd yn curo. Y mae arfaeth Duw wedi ei dadguddio mewn rhan yn ei Air. Nid oes dim yn y rhan guddiedig o'i arfaeth ef yn anghyttunol â'i Air. Nid oes dim yn nghynghor Duw sydd yn groes i'w Air. Nid ydyw Duw yn dywedyd fel hyn, ac yn meddwl fel arall. Nid oes ffalsder felly gyda Duw. Nid oes dim yn holl gynghor Duw yn groes i'r ymadrodd, "Ceisiwch, a chwi a gewch." Y mae holl feddwl a natur Duw yn gwbl gyttunol â hyny. Gadewch iddo ef ddeall cyssondeb ei Air a'i gynghor dirgel; a chymmerwch chwi ei Air yn wirionedd safadwy, ac na thybiwch iddo arfaethu dim sydd yn groes iddo.

(2.) Tynir camgasgliadau oddi wrth farwolaeth Crist. 'Y mae marwolaeth Crist wedi sicrhau iachawdwriaeth rhai, ac wedi gadael ereill mewn hollol amhossiblwydd i fod yn gadwedig. Y mae Crist trwy ei farwolaeth wedi selio a sicrhau yr addewid am yr Ysbryd Glân i alw a sancteiddio y rhai y bu efe farw drostynt. Gan hyny, pan ddél yr amser appwyntiedig i'w galw trwy ras, fe anfonir yr Ysbryd o'r uchelder. Gan hyny, y casgliad yr wyf fi yn ei dynu oddi wrth y syniadau hyn, mewn perthynas i mi fy hun, ydyw, nad oes dim ar fy llaw i i'w wneuthur tuag at ddwyn yn mlaen fy iachawdwriaeth. Ac os bu Crist farw drosyw, cadwedig fyddaf; ac os na bu, colledig fyddaf. Gan hyny, ni ddichon i fy ymddygiad effeithio dim ar fy sefyllfa dragwyddol; o blegid pa beth bynag fyddo fy ymddygiad i, y mae fy nghadwedigaeth wedi ei sicrhau yn marwolaeth Crist; neu, y mae fy ngholledigaeth wedi ei sicrhau cyn fy mod yn y camwedd gwreiddiol. Gan hyny, pa beth bynag fydd fy ymddygiad i, y mae fy sefyllfa dragwyddol wedi ei sefydlu yn anghyfnewidiol byth. O herwydd hyn, yr wyf yn gwneuthur penderfyniad meddwl hollol ddiysgog, na ddichon ymarweddiad halogedig fod yn un gradd o niwed i mi, nac attal mewn un modd fy iachawdwriaeth. Gan hyny, yr ydwyf yn penderfynu glynu yn fy ffyrdd pechadurus, oddi ar wybod y dygir fy iachawdwriaeth yn mlaen fel canlyniad angenrheidiol angen Crist; neu, oddi eithr hyny, fod fy nghosbedigaeth dragwyddol yn hollol anocheladwy.'

Y mae y syniadau cymmysglyd a dinystriol hyn ynghylch marwolaeth Crist wedi eu sefydlu yn egwyddor o gyndynrwydd diysgog i anufuddhau i Dduw, ac yn wreiddyn naturiol ymarweddiad halogedig y rhan fwyaf o genedl y Cymry. Y mae y

pregethau sydd yn tueddu i feithrin y fath syniadau dinystriol yn meddyliau y genedl yn wenwyn hollol i eneidiau dynion; a dylai gweinidogion yr oes hon yn Nghymru ddychrynu a brawychu yn eu swydd bwysig, rhag eu bod yn euog o arwain y genedl i'r syniadau hyn; o blegid y mae eu harwain i'r syniadau hyn yn llawn mor niweidiol a phechadurus ag a fyddai eu harwain i wadu Duwdod y Cyfryngwr. Y mae yr athrawiaeth sydd yn tueddu i feithrin y meddyliau hyn, ac yn anallnog i'w gwrthsefyll trwy ddwyn rhesymau priodol yn eu herbyn, o angenrheidrwydd yn anysgrhythol; a dylai gael ei hail brofi yn ddiduedd yn ngwyneb gair Duw, a'i gwrthod a'i ffeiddio gyda brys. Ni ddichon tafod draethu syniadau cymmhwysach i esmwythan y byd yn ei berygl, ac i'w gadarnhau yn ei wrthryfel yn erbyn Duw, na'r syniadau hyn, wedi eu ffurfio drwy wrandaw pregethau rhy dueddol i'w harwain iddynt. Er na chyhoeddodd neb y casgliadau niweidiol uchod yn eu clywedigaeth, etto cyhoeddwyd a haerwyd y gosodiadau sydd yn sylfeini priodol i adeiladu y syniadau niweidiol hyn arnynt; a rhoddwyd gormod o le i'r gwrandawyr gasglu y tybiau niweidiol a nodwyd. Sefyll yn gwbl ar gyssylltiad iachawdwriaeth pechadur a marwolaeth Crist, a gras Duw, a gogoniant Duw, ac a gwaith yr Ysbryd Glân, a gadael heibio yn hollol gyssylltiad iachawdwriaeth a moddion appwyntiedig Duw, ynghyd a dyledswydd dyn i ddefnyddio y moddion hyny, sydd yn arwain y gwrandawyr yn naturiol i'r syniadau dinystriol a nodwyd, drwy eu temtio i dybied nad oes moddion iddynt hwy i'w harfer; ac am hyny, disgwylant i Dduw weithio arnynt yn ddigyfrwng. Y mae y casgliad hwn, wedi ei sefydlu yn y meddwl, yn ffurfio cyndyrwydd hollol tuag at Dduw. Ond y mae y casgliad hwn yn hollol amhriodol i farwolaeth Crist, o blegid nid ydyw iawn Crist yn dy ryddhau oddi wrth dy rwymau i ufuddhau i Dduw. Gan hyny, pa briodoldeb i ti edrych arno yn rheswm dros i ti orwedd mewn drygioni? Nid ydyw marwolaeth Crist yn cau neb i fyny yn ei garchar, nac yn selio condemniad neb. Heb law hyny, nid ydyw yn cadw neb yn ei bechodau, nac yn diogelu neb hyd oni chred ynddo. Y mae iawn Crist yn arch agored a digonol i ti, ac y mae yn taer gynnyg ei chysgod i ti: gas hyny, ni cholli'r di, oddi eithr i ti ei gwrthod. Y mae cyfaddasrwydd a digonolrwydd cyffredinol yn yr lawn, ac ni cholli'r neb o ddiffyg iawn digonol. Pa fath bynag yw eich syniadau am yr lawn, y mae eich colledigaeth yn ymddibynu ar eich anghrediniaeth. Gwirionedd safadwy wrth bob un sydd yn clywed yr efengyl ydyw, "Cred, a chadwedig fyddi:" "a'r hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd eisoes; o herwydd na chredodd yn enw uniganedig Fab Duw." Y mae anchwiliadwy olud yn Nghrist; ac nid ydyw byth yn treulio, nac yn llethau,

trwy holl oesoedd y byd. Gan hyny, nid oes angenrheidrwydd i ti edrych pa faint ydyw hyd na lled yr iawp, a'i oludodd o fendithion; o blegid ti elli fod yn sicr ei fod yn ddigon i'th achub di, gan fod y Duw mawr ei hun wedi tystiolaethu fod ynddo anchwiliadwy olud o fendithion, a'r rhai hyny yn addas a llawn ddigonol i ddiwallu dy holl anghenion. Nid wrth rif, na than bwysau, y rhoddwyd y cyflawnder yn y Cyfryngwr; ond rhoddwyd i ni yn Waredwr Dduw graslawn ac anfeidrol. Nid ydyw yr haul yn treulio mwy ar ei gyflawnder a'i oleuni wrth oleuo i fil, mwy nag i un; ond yr un peth iddo ef ydyw goleuo llawer ac ychydig.

(3.) Camgasgliadau a dynir oddi wrth waith yr Ysbryd Glân sydd yn ffurfio cyndynrwydd cadarn yn meddyliau llawer. 'Y mae yr Ysbryd (meddir) yn cymmhwysu yr iachawdwriaeth yn benarglwyddiaethol ac anorchfygol, heb un rhagoriaeth yn y gwrthdrych, nac un duedd nac ysgogiad blaenorol ynddo at iachawdwriaeth. Y mae fel y gwynt yn chwythu lle y myno, ac yn fynych yn chwythu ei awelon grasol ac achubol ar yr halogedig ei fuchedd, pan y mae yn gadael y rhai sydd o ymarweddiad manwl a Phariseaidd; ac y mae dyn wrth natur yn hollol farw i bob da, a gwaith yr Ysbryd yn gyntaf ydyw ei fywhau, i'w addasu a'i alluogi i bob ysgogiad sanctaidd; o blegid cyn hyny y mae ei holl ysgogiadau yn bechadurus. Gan hyny, yr ydwyf yn casglu oddi wrth hyny, ac yn penderfynu mewn perthynas i mi fy hun, nad oes dim ar fy llaw i yn awr i'w wneuthur tuag at fy iachawdwriaeth, canys ni allaf wneyd dim ond pechu. Gan hyny, gorwedd sydd raid i mi yn fy ngwaed hyd oni thywallter yr Ysbryd o'r uchelder. Os tywalltir ef arnaf, achubir fi; oddi eithr hyny, colledig byth a fyddaf.' Y mae y camgasgliad dinystriol hwn wedi ei sefydlu yn farn ddiysgog yn meddyliau llawer, ac yn cynnyrchu y cyndynrwydd mwyaf ystyfnig tuag at orchymynion Duw. Pregethu gwaith yr Ysbryd yn ei gyssylltiad â'r ewyllys, a phenarglwyddiaeth Duw, ynghyd â'i gyssylltiad â gallu Duw, a'i gyssylltiad â marwolaeth Crist, a gadael heibio gyssylltiad gwaith yr Ysbryd â moddion gras, sydd o angenrheidrwydd yn arwain y gwrandawyr i'r syniadau a nodwyd; o blegid y mae yn eu harwain yn naturiol i ddisgwyl gwaith yr Ysbryd yn ddigyfrwng; ac am hyny, edrychant ar yr arferiad o foddion gras yn afreidiol. Pa mor gryfion bynag fyddo rhesymau y pregethwr dros rwmedigaeth dyn i gyflawni ei ddyledswyddau, ni allant byth fod yn foddion i sefydlu syniadau yn ei feddwl a gynnyrchant ufuddod ewyllysgar—a hwy yn unig, tra y byddo barn a syniad y dyn yn gwadu yn hollol y berthynas sydd rhwng ei ufudd-dod a'i ddedyddwch ei hun. Yr achos pa ham y mae yr efengyl yn fwy effeithiol i doddi caledwch calon pechadur, ac i'w ennill

i ufudd-dod gwir ewyllysgar ydyw, fod yr efengyl yn cysylltu iachawdwriaeth y pechadur â'i ufudd-dod efengylaidd; ac yn cysylltu bendithion â dyledswyddau, a llwyddiant ar yr amcan mawr o achub dynion â'r moddion y rhwymir ni i'w harfer mewn ffordd o ddyledswydd. Nis gall argyhoeddiad o'i rwymedigaeth byth ennill dyn i ufuddhau yn ewyllysgar, o blegid nis gall dyn ewyllysio ond yr hyn a ymddengys iddo yn wir hapusrwydd; a thra yr edrych ar ei ufudd-dod ond yn unig fel cyflawniad o'i rwymedigaeth, heb un cyssylltiad rhyngddo â'i ddedwyddwch ei hun, ni ddichon ufuddhau yn ewyllysgar. Hyn ydyw y rheswm pa ham y defnyddir addewidion o lesbâd a dedwyddwch tymmorol a thragwyddol mor fynych yn yr Ysgrythyrau fel cymmhelliad i ufudd-dod; sef, i'r dyben o'u hennill i ufudd-dod ewyllysgar drwy gyssylltu eu dedwyddwch hwy â'u hufudd-dod. A'r dyben o roddi y fath ddarluniad manwl o ogoniant person a swyddau y Cyfryngwr, ac o briodoliaethau Duw, yw mae yr argyhoeddi mai ein dedwyddwch ni ydyw credu yn y Cyfryngwr, a charu Duw—mewn trefn i'n hennill drwy hyny i ufudd-dod ewyllysgar.

Disgrifio gweddïo a gwrandaw, edifarhau a chredu, fel firwyth goruchwyliaeth yr Ysbryd yn unig, ac esgeuluso eu disgrifio fel moddion gras, a arweinia y gwrandawyr i edrych ar y dyledswyddau hyny yn hollol amherthynasol i'w dedwyddwch. O un tu, y mae yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn tystiolaethu fod y dyledswyddau hyny yn firwyth yr Ysbryd; ac o'r tu arall, y maent yn tystiolaethu mor fynych eu bod yn foddion gras; ac y mae y naill a'r llall yn berffaith gysson â'u gilydd; ac y mae o'r pwys mwyaf i weinidogion yr efengyl eu cyhoeddi yn eu cyssondeb, fel y gosodir hwynt allan yn y Beibl. Disgrifio gweddïo hyny firwyth yr ailenedigaeth yn unig ydyw arwain y gwrandawyr i edrych arni yn waith priodol i gredinwyr yn unig; ac y mae hyn o angenrheidrwydd yn tueddu i beri i bob un sydd yn cyfrif ei hun yn anghredadyn i esgeuluso gweddïo. Ond y mae disgrifio gweddïo yn foddion gras—sef, yn foddion gosodedig Duw i ddynion i'w harfer i geisio yr Ysbryd Gŵa yn ei oruchwyliaethau grasol; i.e, i'r rhai sydd heb y goruchwyliaethau hyny i'w ceisio iddynt eu hunain—yn argyhoeddi y meddwl o'r cyssylltiad pwysig sydd rhwng y ddyledswydd o weddïo a lesbâd a dedwyddwch y dyn ei hun. Y rheswm a ddefnyddir yn yr Ysgrythyrau yn gyffredin i annog dynion i weddïo ydyw y budd a'r lesbâd a ddeillia o hyny iddynt hwy eu hunain. "Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch." Cymmhellir dyledswyddau crefyddol yn yr Ysgrythyrau ar yr annuwiol gyda'r rheswm mawr fod ei ddedwyddwch ef ei hun yn gyssylltiedig â hyny. Addefir yn gyffredin fod yn briodol annog yr annuwiol i weddïo, er ei fod yn annuwiol; ond

haerir nad ydyw gweddi yr annuwiol yn ddim tuag at gael yr Ysbryd; i.e. haerir yn bendant nad ydyw ei ymostyngiad mewn gweddi byth yn foddion i gael goruchwyliaeth yr Ysbryd. Yn awr, pa reswm ydyw annog yr annuwiol i weddio, oddi eithr y gall ei weddi ateb rhyw ddyben? Pa ddyben y dichon ei weddi ei ateb, oddi eithr iddi lwyddo i gael yr Ysbryd y pryd hwnw yn ei gynnorthwyon i weddio, a rhag llaw yn ei fendithion? Dywedir wrthym fod yr annuwiol yn cael ei annog i weddio, ac i ddisgwyl i'r Arglwydd arddel y Gair i'w aileni ef. Os felly, oddi eithr i Dduw ei aileni y pryd hwnw, nid oes reswm i'w roddi dros yr annogaeth, ac nid oes eisieu i'w gwrth-ddrych feddwl am dani mwy; nid oes eisieu iddo wneuthur un defnydd o honi, oddi eithr iddo ei theimlo yn ei aileni. Os bydd yn teimlo ei hun yn parhau yn annuwiol ar ol ei gwrandaw, nid oes dim a fyno yr annogaeth âg ef, o blegid fod y cynnyg hwnw i'w aileni wedi methu. Ond os mynech i'r annuwiol, er ei fod etto heb ei aileni—os mynech iddo felly ufuddhau i'r annogaeth, yn rhaid i chwi addef y gall ei weddi ateb rhyw ddyben; ac os addefir hyny, rhaid addef ei bod yn foddion gras; ac os ydyw yn foddion gras, rhaid ei bod yn foddion iddo i gael yr Ysbryd. Os gall y gwrandawriad o'r annogaethau i weddio fod yn foddion i'w aileni, oni allai ymroddiad i ufuddhau i'r annogaethau hyny fod yn foddion i aileni; gan nad trwy weinidogaeth yr efengyl yn unig yr ailenir dynion. Oni ailanwyd rhai trwy ddarllen y Gair, heb glywed pregeth erioed? Oni ailanwyd rhai trwy ymddiddan crefyddol, trwy weddio, neu trwy ganu mawl? Fel y mae argyhoeddiad o'r cyssylltiad sydd rhwng goruchwyliaeth yr Ysbryd o du Dduw, ac arferiad o'r moddion o'n tu ni, bob amser yn effeithiol i ennill pechadur i ufudd-dod ewyllysgar, felly y mae anwybodaeth ac anghrediniaeth o'r cyssylltiad hwn yn cynnyrchu cyndynrwydd hollol. Ni ddichon neb wir weddio ond yn unig dan ddylanwad ystyriaeth ddifrifol o'i angen ei hun; a neges gwir weddi ydyw, nid cyflawni rhwymedigaeth, ond ceisio bendith. Y mae y weddi yn wrth-odedig, oddi eithr ei bod yn ffrwyth ystyriaeth o drueni y gweddiwr, ynghyd â chyfoeth gras Duw, yr hwn sydd i'w feddiannu trwy weddi. Edifeirwch ydyw yr iawn deimlad hwnw yn enaid dyn o'i bechadurusrwydd, yn codi oddi ar argyhoeddiad o ddrwg ei bechod, a pherygl ei gyflwr. Ffydd ydyw syniad cywir am gyfoeth gras, ynghyd â chyssylltiad gweddi â'r cyfranogiad o hono. Ffydd, yn ei gweithrediad ar y Cyfryngwr mewn gweddi, ydyw syniad cywir yn y meddwl am y Cyfryngwr fel y mae yn llawn o gyfoeth cyfaddas i ddi-wallu holl anghenion pechadur; a ffydd yn ei gweithrediad ar yr addewid, ydyw syniad cywir am wir weddi, fel moddion sicr ac addas i feddiannu y bendithion hyny. Rhaid i ni gredu y

derbyniwn pa bethan bynag a ofynwn mewn gweddi, sydd yn unol âg ewyllys Duw. Os dywedir fod goruchwyliaethau yr Ysbryd yn disgyn ar eu gwrthddrychau yn yr agweddau gwaethaf, heb gael un rhagoriaeth ynddynt hwy ar ereill, yna rhaid iddi ddisgyn ar ddynion yn y dafarn mor aml ag yn yr addoldy. Os ydyw yn disgyn ar y rhai nad ydynt yn ymarfer â'r moddion, yna nid ydyw y moddion yn werth eu harfer, ac nid ydyw yn briodol eu galw yn foddion, o blegid y mae yr Ysbryd yn eu hesgeuluso. Gan hyny, nid oes eisieu i ni ymarfer â hwy, oddi eithr yn unig fel cangen o ufudd-dod, ac nid fel moddion i ddisgwyl wrth Dduw drwyddynt. Ond gwyddom trwy brofiad amlwg mai trwy y moddion y mae Duw yn arfer gweithio; ac am hyny, fod ymarferiad â gosodiadau dwyfol yn foddion i ddwyn dyn dan oruchwyliaeth Ysbryd Duw. Y mae cyssylltiad rhwng goruchwyliaeth yr Ysbryd o du Dduw ac ymarferiad â'r moddion o'n tu ni; fel mewn pethau naturiol, y mae cyssylltiad rhwng gwaith Duw ac ymarferiad â'r moddion o'n tu ni. Ond haera rhai, fod yn rhaid i oruchwyliaeth yr Ysbryd flaen ymarferiad â'r moddion; ac oddi eithr hyny, fod dyn yn dyfod yn awdwr y cyfnewidiad; neu, o leiaf, ei fod yn ysgogydd cyntaf y cyfnewidiad hwn. Yr un peth fyddai haeru fod dyn, trwy aredig ei faes a'i hau, yn dyfod yn awdwr y cnwd, am mai ef oedd yr ysgogydd blaenaf tuag at gael y cnwd. Ond er na all y ffermwr wneuthur i'r cnwd dyfu, etto, gall safurio ei dir, ac yna gwna Duw i'r cnwd dyfu. Gwaith yr Ysbryd, medd rhai, ydyw dwyn y dyn i arfer y moddion. Ond trwy ba foddion y mae efe yn dwyn dyn i arfer y moddion? A ydyw yr Ysbryd yn gweithio heb foddion? Y mae yn wir fod gwaith yr Ysbryd ar y galon yn tueddu dyn i arfer y moddion; pe amgen, byddai yn waith hunan-ddinystriol: ond yn yr ailenedigaeth, pa mae bynag ai arddel y moddion er truedigaeth pechadur y mae yr Ysbryd, ynte dwyn dyn at y moddion trwy weithrediad digfwrwg, penderfynir hyn yn amlwg yn y dystiolaeth ddwyfol: "Wedi eich aileni, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig, trwy Air Duw, yr hwn sydd yn byw ac yn parhau yn dragywydd" (1 *Pedr* i. 23); "O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyny, trwy air y gwirionedd, fel y byddem ryw flaenffrwyth o'i greaduriaid ef;" *Iago* i. 18. Os nad ydyw gwaith yr Ysbryd yn cynnwys dim ond taeddu meddwl dyn i gyflawni ffurf allanol o ddefodau crefyddol, yna, pa fodd y mae miloedd yn arfer y moddion yn ffurfiol, ac heb waith yr Ysbryd? Ond os gwaith yr Ysbryd ydyw arwain a thueddu yr enaid i iawn arfer moddion trwy ffydd, yna yr holl waith ydyw rhoddi ffydd a chariad at Dduw yn yr enaid. Yn awr, y cwestiwn i'w benderfynu ydyw, pa mae ai trwy foddion, ai heb foddion, y cyfrana Ysbryd Duw ffydd i'r pechadur? Sicrheir yn y modd mwyaf pendant fod "ffydd yn

dyfod trwy glywed, a chlywed trwy air Duw;" *Rhuf.* x. 17. Y mae yn amhossibl fod yr enaid yn credu yn Nghrist, heb fod ei feddwl wedi ei sefydlu ar ei addasrwydd ef fel gwrthddrych ffydd; ac nis gall y meddwl ymsefydlu ar y Cyfryngwr ond trwy ymarfer â'r moddion—naill ai gwrandawriad neu ddarlleniad y Gair, neu adfyfyrdod ar yr egwyddorion a sefydlwyd yn y cof am berson y Cyfryngwr; yr hyn sydd yn ymarferiad â'r moddion o du y dyn. Os gochelyd arfer y moddion yr ydwyf, rhag bod yn awdwr dy dröedigaeth, nid rhaid i ti byth ofni rhoddi pwyth yn dy iachawdwriaeth: o blegid yr ydwyf mor bell oddi wrth allu gwneuthur hyn ag wyt oddi wrth allu creu byd. Ti elli anturio gwneuthur dy oreu; ond nid oes un perygl y cyflawni byth un rhan o'th iachawdwriaeth. Er i ti wneuthur dy oreu, bechadur, os achubir di, yr ydwyf yn sicr o ddyfod rhyw bryd i deimlo mai gwas anfuddiol ydwyf; a byddi yn ddigon boddllawn i adael dy iachawdwriaeth yn hollol i rad ras i'w chwblhau. Yr ydwyf yn addef fod angenheidrwydd hollol ar waith yr Ysbryd ar bechadur, er ei wir dröedigaeth; ond y cwestiwn ydyw, Pa fodd y mae i ni ddiagwyl am yr Ysbryd, a'i geisio? A ydyw yn briodol ac yn alluadwy i bechadur colledig geisio yr Ysbryd, a disgwyl am dano? Annogir ni i ofyn am yr Ysbryd: "Os chwychwi, gan hyny, y rhai ydyoh ddrwg, a fedrweh roi rhoddion da i'ch plant chwi, pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofyno ganddo;" *Luc* xi. 13. Pa fodd y ceisir ef, ond trwy arfer y moddion y mae yr Ysbryd yn gweithio drwyddynt? Onid y ffordd i'w geisio ydyw trwy weddi? Ac y mae y ffaith fod y Beibl yn ein hannog i'w geisio yn profi fod yn bossibl i ni ei gael trwy ei geisio.

(4.) Y mae y camgasgliad a dynir oddi wrth waith Duw yn madden yn cadarnhau llawer mewn cyndynrwydd diysgog i an-ufuddhau i Dduw. 'Y mae Duw yn madden pechodau,' medd y dyn, 'gyda'r parodrwydd a'r ewyllysgarwch mwyaf; y mae yn maddeu y pum cant mor ewyllysgar a'r deg a deugain; y mae yn ymhyfrydu mewn madden, ac yn cael enw iddo ei hun oddi wrth faddeuant; a pho mwyaf fyddo y pechodau a faddeuir ganddo, mwyaf yn y byd fydd yr enw i'w ras ef. Y mae yn madden oes o bechodau mewn munydyn, ac ni chofia un o honynt mwyach; ond edrycha ar y pechadur gyda'r fath fodd-lonrwydd a phe buasai heb bechu dim erioed. Y mae yn maddeu felly ar yr ammod leiaf—dim ond gofyn iddo, efe a faddeua yn y fan; a phan y maddeua efe, bydd y pechadur hwnw yn ddiogel yn dragwyddol rhag y llid a fydd. Gan fod maddeuant gyda Duw mor anesuroel; a chan ei fod yn hoffi maddeu, ac yn gwneuthur y fath enw iddo ei hun drwy faddeu, a chan fod maddeuant i'w gael mor rwydd a hawdd trwy ei ofyn, yna yr wyf yn penderfynu mewn perthynas i mi fy hun,

nad oes un perygl nac achos amhau na chaf faddeuant a gofyniad o hono; ac o ganlyniad, gallaf, heb ryfygu dim pheryglu dim ar fy nedwyddwch tragwyddol, ymollwng i ddi fy nhueddiadau llygredig dros amser etto, ac yfed pleer anianol; ac wedi hyn gallaf ymbarotol i gyfarfod â Duw yn dymmwth, pan y mynaf, trwy ddim ond gofyn maddeuant. Yn wir, fod maddeuant pechodau y peth mwyaf ei bwys i mi, fod yr unig feddyginiaeth sicr ac anffaeledig i'm cyflwr dinstriol rhyngof a Duw; etto, pa mor bwysig bynag ydyw, a mor angenrheidiol bynag ydyw er sicrhau fy nhragwydd hapusrwydd, nid oes un angenrheidrwydd i mi ei geisio bresennol; o blegid y mae cystal a bod yn fy meddiant eisaf, trwy ei fod mor gyfleus wrth fy llaw, i ymaflyd ynddo pan mynwyf; a bydd yn hyfrydwch gan Dduw faddeu i mi yr holl feddwod hwn, a'r holl buteindra hwn, a'r holl gelwyddau hwn &c., yn mhen deugain mlynedd etto. Nid wyf, wrth gyflwr y pechodau hyn, ond gwneuthur cyfle da i Dduw wleda ar y maddeu, a gwneyd enw tragwyddol iddo ei hun trwy eu dinstriol.

Y mae y fath gasgliadau halogedig, gwrthun, ac amhriodol a hyn oddi wrth waith Duw yn maddeu wedi ymsefydlu yn enghyd i adau cedyrn yn meddyliau llawer, ac yn cynnyrchu y cyndyrwydd a'r caledwch mwyaf dinstriol; ac nid oes un amhriodol aeth nad ydyw y cyfryw syniadau yn wreiddyn anufudd-ia miloedd i Dduw. Pan annogir hwy at eu dyledswyddau, a pha y bydd yr annogaethau hyn yn y weinidogaeth yn fodol i'w cyffroi, ac i ddihuno eu cydwybodau cysglyd, ac i'w pwsawdio i addunedu ufuddhau, y syniadau annaturiol a nodwyd a ddefnyddir ganddynt i feddyginiaethu archollion eu cydwybodau euog. Ac i ostegu y dymnestl annioddefol a godir i eu meddyliau, gwenieithiant wrth eu cydwybodau fod maddeuant yn rhad, ac yn llawn, ac yn hawdd i'w gael gyda Duw; a rhoddant adduned newydd i'r gydwybod y caiff ryw bryd yn a brofi maddeuant, a rhoddant iddi amlygiad newydd o'u bwriad diysgog i ymostwng ger bron Duw, a gofyn maddeuant iddo yna cymmer y gydwybod dywyll hyn yn lle meddyginiaeth. Fel hyn, y mae y syniadau hyn yn cynnyrchu cyndyrwydd diysgog yn meddyliau llawer. Y mae y casgliadau a nodwyd yn gwbl amhriodol; o blegid pa mor barod bynag ydyw Duw i faddeu pechodau, a pha faint bynag ydyw helaethrwydd ei maddeuol, etto yr ydwyf ti yn wrthodwr hollol o'r maddeuol hwnw tra yn coleddu y fath syniadau afresymol, ac yn eu rhoi mewn gweithrediad yn dy ymddygiad tuag at Dduw a'th ymadweddiad tuag at ddynion. Lle y dylit ddywedyd, 'Gan faddeuant i'w gael gyda Duw mor helaeth, mor rad, ac mor ewyllysagar, cyfodaf yn awr, ac af ato i'w ofyn. Gan fod gwbl a gweddill yn nhŷ fy Nghad, a minnau yn marw o newyn, cyfodaf

n awr, ac af at fy nhad.' Dyna'r effaith a ddylai yr athraw-
 eth ei gael arnat; ond y mae y casgliad a dynir genyt ti oddi
 rthi yn un hollol afresymol a dinystriol. Ei iaith mewn gwir-
 nedd ydyw, 'Gan fod Duw wedi amlygu y fath gariad tuag
 taf, fel yr anfonodd ei Fab i'r byd i ddioddef fy nghosbed-
 gaeth, ac i agor y ffordd i fadden fy mhechodau trwy ei waed;
 an ei fod yn galw arnaf yn daer i dderbyn maddeuant yn rhad,
 r wyf yn ystyried fod y fath garedigrwydd anfesuroi, y fath
 aslonrwydd anfeidrol, a'r fath ddoethineb a daioni digyffelyb,
 n deilwng o'u dirmygu i'r eithaf, yn deilwng o'u gwrthod
 yda'r diystyrwch mwyaf, yn deilwng o adnewyddu gwrthryfel
 n erbyn y Duw graslawn a'u darparodd, ac yn deilwng o
 oeri yn ngwyneb y Person mawr a'u pwrkasodd trwy ei waed!
 r wyf yn cyfrif fod loesion enaid y Cyfryngwr, a ffrydiad
 waed ei galon ar y groes, yn galw arnaf, & mil o leisiau cryfach
 a tharanau, i garu pechod ac i fyw ynddo hefyd. Gan fod y
 maddeuant hwn yn angenrheidiol er sicrhau fy nhragwyddol
 apusrwydd, yr ydwyf yn ei ystyried yn deilwng o'i ddir-
 ygu, a'i fathru, a'i wrthod! Gan fod arch wedi ei pharotoi
 gadw rhag y diluw tragwyddol, yr ydwyf yn barnu mai yr
 mddygiad mwyaf priodol i mi ei dalu iddi ydyw ffoi cyn belled
 g y gallwyf oddi wrthi, o herwydd fod arnaf yr angen mwyaf
 m dani!' Nid ydyw fod maddeuant gyda Duw yn dy ryddhau
 ddi wrth dy rwymedigaeth; ond yn hytrach y mae yr amlygiad
 rasol o drefn Duw i fadden yn chwaneu at dy rwymau i fyw
 n sanctaidd er gogoniant i Dduw. Po mwyaf o ogoniant a
 ras a amlygodd Duw i ti, mwyaf yn y byd ydyw dy ddyled i
 aru Duw, a'i ogoneddu. Pa faint bynag ydyw parodrwydd
 Duw i fadden i bechadur edifeiriol, etto, y mae yn hollol an-
 addengar i'r anedifeiriol: "Oni ddychwel yr annuwiol, efe a
 toga ei gleddyf." Felly y mae dy ymlyniad wrth dy bechodau
 n rhoddi angenrheidrwydd ar Dduw i edrych arnat yn ddig-
 lawn beunydd, a'th gollfarnu i gosbedigaeth dragwyddol, pan
 r mae yn ymddyrchafu i dosturio ac yn ymhyfrydu mewn
 naddeu i'r edifeiriol: "Edifarhewch, gan hyny, a dychwelwch,
 el y dilëer eich pechodau." "Os cyfaddefwn ein pechodau" yn
 edifeiriol, "ffyddlawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein
 pechodau." A ydyw Duw yn gyfoethog o faddeuant, ac yn
 swyllysgar i fadden i'r penaf o bechaduriaid? Yna ti ddylit
 ldefnyddio yr amlygiadau cryfion o barodrwydd Duw i fadden
 m galonddid, ac yn seiliau i geisio maddeuant yn ddiwed. Yr
 ystyriaeth fod "gwala a gweddill" o fara yn nhŷ ei dad, a
 effeithiodd i godi yr afradlawn, ac i'w galonogi i fyned tuag
 adref. Os ydwyf tithau yn barnu fod "gwala a gweddill" o
 faddenant gyda Duw, cyfod yn awr, a dos ato i ddeisyf cael
 dy ddiwallu. A ydyw Duw yn ymhyfrydu mewn maddeu i

bechadur edifeiriol? Cofia mai ymhyfrydu y mae yn ei lanhddsi gadwedigaeth; ac o ganlyniad, y mae yn ffeiddio dy ymlaen di wrth dy aflendid, ac yn casau dy waith yn dinystrio dy hwn. Ai cariad at ogoniant Duw sydd yn dy gymhell i bechu, fel y caffo Duw ogoniant yn maddeuant y pechodau hyny? Ond ti ddylet ddeall fod dy bechodau di yn gwaradwyddo Duw, ac yn wrthryfel yn erbyn Duw. Ai cariad at ogoniant Duw sydd yn dy annog i'w waradwyddo eff? Nag é: ond cariad at bechod, a gelyniaeth yn erbyn Duw. Hyn mewn gwirionedd ydyw gwreiddyn y camgasgliadan a dynir gan bechaduriaid oddi wrth athrawiaethau yr efengyl.

2il, Y mae dynolryw yn tynu amryw o gasgliadan o'r m duedd oddi wrth eu cyflwr a'u hamgylchiadan eu hunain.

(1.) Tynir camgasgliad sydd yn cynnyrchu y cyndynrwydd cryfaf oddi wrth anallu moesol dyn. 'Y mae dyn,' medd y pechadur, 'wrth natur yn farw mewn camwedd a phechod, yn hollol analluog i wneuthur dim sydd dda a chymmeradwy ger bron Duw. Y mae mor analluog i wneuthur dim sydd dda ag ydyw yr Ethiop i newid ei groen, neu y lleopard i newid a frychni. Gan hyny, er ei bod yn ddyledswydd arno ufuddha i Dduw yn berffaith, etto, gan ei fod yn hollol analluog, y mae yn hollol ofer iddo geisio gwneuthur dim gyda golwg ar ryng bodd Duw tra y byddo heb ffydd; o blegid heb ffydd y mae yn amhossibl rhyngu ei fodd ef.' Nid oes gan y fath yma ond sefyllfa ac agwedd goddefydd hollol yn yr ailenedigaeth, ac nid oes un cymmhwysder ynddo i fod yn wrthddrych gweinidogaeth yr efengyl, ond yn unig ei fod yn ddarostyngedig i gyfnewidol drwy weithrediad Creawdwr hollalluog, a bod gallu dwyfol yn arfer gweithredu drwy yr efengyl. Gan hyny, yr ydwyf yn casglu ac yn penderfynu oddi wrth y syniadau hyn mewn perthynas i mi fy hun, fel creadur halogedig, a marw mewn camwedd a phechod, gan nad allaf wneuthur dim sydd dda, na dim sydd yn tueddu at ddwyn yn mlaen fy iachawdwriaeth, nad ydyw yn bossibl i mi wneuthur dim yn amgen na gorwedd yn dawel yn fy mhechodau, ac esgeuluso fy nyledswyddau hyd oni fywchaf fi trwy ras. Gan fy mod yn analluog i gyflawni dyledswyddau crefyddol, yr wyf dan hollol angenrheidrwydd o'u gadael heb eu cyflawni; a phe byddai i mi gyflawni y ffurf allanol o ddyledswyddau crefyddol, yr hyn yn wir sydd ddichonadwy i mi fel pechadur, etto, ni byddai hyny ond rhagrith a thwyll. Gan hyny, cyfiawnach ydwyf yn eu hollol esgeuluso nag yn eu cyflawni yn rhagrithiol felly. Gan hyny, y bwriad y mae y syniadau hyn yn ei sefydlu yn fy meddwl ydyw, aros yn fy ufudd-dod i Dduw, hyd oni bydd iddo ef fy mywchau trwy ras. Y mae y casgliad annuwiol hwn yn hollol amhriodol a dinystriol; o blegid nid ydyw dy anallu yn dy ryddhau oddi wrth dy

ddyledswydd. Nid ydyw dy anallu mewn gwirionedd ond anewyllysgarwch. Y mae dy anallu yn gynawysedig yn y cam-gasgliad annaturiol sydd wedi ei sefydlu yn dy feddwl, yn codi oddi ar dy gam ffar am natur anallu moesol. Nid oes anallu yn perthyn i ddyn, ond ya unig ei elyniaeth yn erbyn Duw: *Rhuf.* viii. 7. ‘Dymunwn yn fawr,’ meddi, ‘fyw yn sanctaidd, pe gallwn; ond nid oes genyf allu i hyny. Ewyllysiwn fyw yn grefyddol, ond nid allaf; o blegid yr ydwyf yn farw mewn camweidd a phechod.’ Ni ddichon hyny fod. Ni all fod genyt ewyllys a dymuniad i fyw yn sanctaidd, ac etto yn hollol analluog i fyw felly; o blegid dy anewyllysgarwch ydyw dy holl anallu; annhueddgarwch at hyny yw dy anallu. Ond dyna’r gwirionedd, “carasom ddyeithriaid, ac ar eu hol hwynt yr awn ni.” Nid ydyw dy anallu yn dy esgusodi mewn un modd, gan fod cymmorth i’w gael. Gŵyr Duw dy fod yn analluog i gyflawni pob dyledswydd sanctaidd, ac fel y cyfryw y mae yn cymmhell y dyledswyddau hyny arnat; o blegid y mae y dyledswyddau a gymhellir arnat yn briodol yn unig i greadur llygredig, megys, edifarhau am bechod, credu yn Nghrist, gweddio, &c. A’r agwedd a ofynir arnat yn y cyflawniad o’th ddyledswyddau ydyw, addef a chydnabod dy anallu gyda galar a gostyngeddwydd. Nid ydyw dy anallu yn dy esgusodi, gan fod cymmorth i’w gael yn y gwaith. Pe gorchymynai Duw i ti godi’r Wyddfa o’r gwraidd, a’i chario ymaith ar dy ysgwyddau—os rhoddi efe gymmhorth i ti, i’th alluogi i wneyd hyny, pa wahaniaeth i ti wneuthur hyny, mwy na chario yr ounce? Nid ydyw Duw yn gorchymyn i ti weddio, edifarhau, a chredu heb gymmhorth ei Ysbryd. Nid yw yn gorchymyn i ti ymddiried yn dy allu dy hun, a gwrthod cymmorth ei Ysbryd ef yn y cyflawniad o unrhyw ddyledswydd; ond y mae yn dy rwymo trwy ddeddf gadarn i dderbyn cymmorth ei Ysbryd, ac ymddiried i’w arweiniad ef yn dy holl gyflawniadau. Meddyliwch fod un o lyngeswyr Lloegr yn anfon llythyr at gadben llong rhyfel yn Môr y Canoldir, yn gorchymyn iddo ddyfod â’r llong adref i Loegr. Oni ddeallai y cadben mai meddwl y llyngesydd ydyw iddo ef, nid cario y llong ar ei gefn, ond yn unig arfer y moddion i’w dwyn adref—codi’r hwyliau, ac iawn droi y llyw, a gadael i’r môr ei chario, ac i’r gwynt ei gyru adref. Felly, llong yn mhell oddi cartref ydwyf tithau. Y mae Duw yn galw am yr hen long yna adref yn ol, ond nid ydyw yn disgwyl i ti ei dwyn adref yn dy nerth dy hun; ond y mae yn caniatu i ti ei rhoddi ar fôr rhâd ras i’w chario, ac o flaen gwynt nerthol yr Ysbryd o’r uchelder i’w gyru adref. Disgwylir i tithau godi ambell Ysgrythyr i fyny yn dy fyfyrdod, fel hwyl ar ei mast, i’r gwynt gael dal arni, ac anfon ambell weddi i fyny fel llyw i’w chyferio i’r iawn borthladd!

(2.) Tynir camgasgliadau oddi wrth ofn rhagrithio. ‘Yn arnaf ofn rhagrithio,’ medd y dyn, ‘onid é, ymaflwn yn ddiu yn fy nyledswyddau crefyddol. Yr wyf yn gwybod cyn dech mai rhagrith fydd fy holl gyflawniadau crefyddol; o’ blegid fydd ammhossibl yw rhyngu ei fodd ef; ac yr ydwyf yn gwybod fy mod yn hollol amddifad o wir fydd. Gan hyny, yr wyf yn benderfynol mai rhagrith fyddai fy ngweddi, pe yr wyturiwn weddio; ac yr ydwyf yn cyfrif rhagrith y gwaethaf ffeiddiaf o’r holl bechodau. Er fod profesu Crist yn ddyledswydd arnaf, etto, yn gymmaint a fy mod yn amddifad o ddylediol anian, pe cymmerwn arnaf yr enw o broffes, rhagrith fydd raid i hyny fod. Gan y byddai pob cyflawniad o’r ffurf allan o ddyledswyddau yn rhagrith yn fy math i, sydd yn amddifad o’r galon newydd, yr ydwyf, gan hyny, yn penderfynu mae perthynas i mi fy hun fod fy mbechodau yn llai trwy geuluso profes, a phob rhith o gyflawniad crefyddol. Yr wyf yn ymddangos yn onest a didwyll yr hyn ydwyf, ac nid wyf twyllo llygaid neb. Oddi ar y golygiadau hyn, yr ydwyf penderfynu yn ddiysgog lwyr-ymwrthod â phob cyflawn allanol o ddyledswydd, o herwydd fy mod yn gwybod fy mod yn ddifffgiol o egwyddor i’w cyflawni yn gywir a chymmerad ger bron Duw.’ Y mae y camgasgliad hwn yn sefydlu cyndynrwydd diysgog yn meddyliau llawer. Ai profesu dy fod ofni rhagrithio yr ydwyf? Y drwg sydd mewn rhagrithio y dy ti ei ofni. Y drwg sydd ynddo ydyw—bod heb y gwir. Nid bai y morwynion ffol oedd cymmyrd eu lampau, ac aros ymysg y rhai call; ond eu bai oedd bod heb olew yn eu lles gyda’u lampau. Nid profesu enw yr Arglwydd Iesu, a byw ddichlynaidd oddi allan, ydyw drwg y rhagrithiwr; ond y drwg ydyw byw heb y gwir. Yn awr, a oes arnat ti ofn rhagrithio? A oes arnat ti fawr ofn y drwg sydd mewn rhagrithio? O bod heb y gwir ydyw hyny. A oes arnat ti ofn bod heb y gwir? Pa fodd na byddai arnat ti ofn bod fel yr ydwyf? Yn awr, yr wyt yn awr yn byw ac yn gorwedd yn ngwaelod holl ddrwg y rhagrithiwr; sef, byw heb y gwir. Pa fodd na byddai arnat ti ofn bod fel yr wyt yn awr? Onid heb y gwir yr ydwyf yn awr? Pa fodd yr ydwyf mor dawel pan yr wyt mewn gwirionedd yn yr un perygl a’r rhagrithiwr? Heb law hyny, nid dy annog di i ragrithio yr ydwyf, ond dy annog i geisio gwirionedd—dy annog i lefain ar Dduw, “Crea galon lân yng O Dduw!”—dy annog i “geisio yr Arglwydd tra y galler i gael ef.”

(3.) Tynir camgasgliad oddi wrth ofn gwrthgilio. “Of gwrthgilio,” medd y dyn, “sydd arnaf fi; ac onid é, mi a gysnygiwn fy hun yn aelod eglwysig, ac a ymroddwn at ddyledswyddau crefyddol o hyn allan. Ond yr ydwyf fi yn barnu p

byddai i mi ymafyd mewn enw o grefydd, mai gwrthgilio fyddai y canlyniad. Gan hyny, yr wyf yn barnu yn hollol mai mwy fy mhechod fyddwn drwy hyny, na thrwy aros yn llonydd fel yr ydwyf; ac felly, oddi ar ofn gwrthgilio yr wyf yn methu cymeryd arnaf enw o grefydd." Yr ydwyf yn dy gynghori i ystyried yn mlaenaf, pa beth ydyw y drwg sydd mewn gwrthgilio; o blegid hyny yn unig sydd i'w ofni a chilio rhagddo; sef, hyny o ddrwg sydd ynddo. Y drwg sydd mewn gwrthgilio ydyw, "mathru Mab Duw, difenwi Ysbryd y gras, ail groeshoelio Mab Duw, barnu yn aflan waed y cyfammod, a thynu yn ol i goll-edigaeth." Yr wyf yn dy annog i ofni y drygau hyn; o blegid y drygau mwyaf ydynt sydd mewn bod. Ond a ydwyf yn ofni y drygau hyn sydd mewn gwrthgiliad? Onid ydwyf yn byw ynddynt yn awr? Onid ydwyf yn mathru Mab Duw bob cam o'th fywyd tra y byddi heb gredu ynddo? Yr wyt yn awr yn cyflawni holl ddrwg y gwrthgiliwr tra yr ydwyf yn gwrthod Crist. Pa fodd na byddai arnat ofn bod fel yr ydwyf yn awr? Nid dy annog i wrthgilio yr ydwyf; ond dy annog i lynu wrth yr Arglwydd. Nid dy annog i dynu yn ol yr ydwyf; ond dy annog yn hytrach i dynu yn mlaen goren gelli. Ai ofn gwrthgilio sydd arnat? O! na chaem weled miloedd yn ymofyn y ffordd tua Seion, ac ofn gwrthgilio bron a'u llethu! Nid oes neb yn gwrthgilio dan ofni gwrthgilio. Ai ofn gwrthgilio sydd yn dy gadw mewn gwrthgiliad? Ai ofn tynu yn ol sydd yn dy annog i dynu yn ol? Ai ofn ail groeshoelio Crist sydd yn dy gymmhell i ail groeshoelio Crist? Y mae ar y saint ofn gwrthgilio; ond nid ydyw yr ofn hwnw yn eu tueddu i beidio arddel Crist, ac i fwrw ymaith eu proffes—yr hon y mae iddi fawr wobr. Rhag gwrthgilio, trefnodd Duw i roddi nerth yn ol y dydd, a gras yn gymmhorth cyfamserol. Bydded i'r ofn gwrthgilio dy berswadio i gymmeryd atat holl arfogaeth Duw, fel y gallot "wrthsefyll yn y dydd drwg, ac wedi gorphen pob peth sefyll." Ond i gau allan dy holl wrthddadleuon ar unwaith, dywedaf, "Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid." Gan hyny, rho dy hun iddo, fel yr ydwyf, yn bechadur enog a damniol, i gael dy gadw ganddo. AMEN.

PREGETH XLIII.

ESGUSODION DYNION AM EU PECHODAU.

Ioan xv. 22.

"Ond yr awr hon nid oes ganddynt esgus am eu pechod."

Y MAE dynolryw nid yn unig yn cyflawni pechodau rhyfys yn erbyn Duw, ond y maent ar ol eu cyflawni yn ymsegusodi trwy ymdrechu dwyn yn mlaen haeriadau haerllug ac afresymau tuag at wadu y drwg o honynt; a cheisiant lunio yr haeriadau hyny yn drefnus, a'u cyssylltu yn gadwen o resymau, a profi uniondeb eu hegwyddorion a'u hymddygiadau; a phe byddai eu haeriadau yn gywir, a'u rhesymau yn wirionedd, ni byddai neb yn agored i'r liid a fydd. Ond y mae pob esgus a ddygir yn mlaen dros bechod yn ynfydrwydd hollol, ac yn profi yn amlwg fod yr hwn sydd yn ei ddefnyddio heb ei argyhoeddi o ddrwg ei bechod. Cydnabod ac addef yn grediniol fod pechod yn ddrwg hollol ger bron Duw, heb un esgus i'w roddi drosto, nac un ddadl i'w dwyn yn mlaen i leihau ei ddrwg, nac i gyflawnhau egwyddor yr hwn a'i cyflawnodd, ydyw yn agwedd a ofynir i dderbyn maddenant o hono. Pe buasai rhesymau i'w cael a allasent esgusodi pechod, buasai y rhesymau hyny yn gymmhwys a digonol i'w gosod i lawr yn erbyn holl farnau Duw ar y byd, ac yn erbyn cospi y Messiah, ac yn erbyn dial ar y damnedigion dros byth; i.e., buasai y fath resymau yn profi yn hollol fod creulondeb ac anghyfiawnder gyda Duw, a bod Crist wedi marw yn ofer.

Y mae dynion yn ymdrechu esgusodi eu pechodau trwy roddi y bai o honynt yn erbyn arall. Addefant y weithred, ac addasant hefyd ei bod yn ddrwg; ond esgusodant eu hunain trwy geisio profi fod yr holl fai o honi i'w roddi yn erbyn arall. Y mae ganddynt ffordd ddichellgar a chysson i gyrhaedd eu hancan; sef, ceisio profi eu bod yn cyflawni eu holl bechodau dan orfodaeth hollol oddi wrth ryw allu anwrthwynebol; ac am hyny, nad oes ganddynt ond ychydig iawn o law yn y weithred. Rhoddant ar ddeall eu bod mor ddiniweid a'r offeryn yn law y

weithiwr. Haerant nad ydynt hwy yn awdwyr y trosedd, ond n unig yn offerynau yn llaw arall i'w gyflawni: gallu arall sydd n cyflawni y camwedd, ond trwyddynt hwy fel offerynau. Y iaent yn gwadu gweithrediad eu galluoedd rhesymol yn y weithred yn hollol—nid gweithred eu hewyllys hwy ydyw; o legid po byddai yn weithrediad eu hewyllys hwy eu hunain, ni aid ei thadogi ar ewyllys neb arall; ac ni ddichon bod gorfodeth lle y byddo y gweithredydd yn ewyllysio: ond lle y byddo newyllysgarwch, y mae lle i allu gorfodol ymddangos.

Pe buasai yr haeriad yn wir, fod dyn yn pechu dan orfodaeth hollol angenrheidrwydd, buasai hyny yn sylfaen gref i adeiladu esgusodion teg arni dros bob pechod; o blegid disgynai yr oll fai o angenrheidrwydd ar yr hwn sydd yn gorfodogi dyn i reithredu yn feius. Ond ceisiaf brofi anghyfiawnder yr esguson hyn.

I. Ceisia rhai roddi bai eu pechodau yn gwbl yn erbyn Satan.

Pan gyflawnir pechod ysgeler, llais y gymmydogaeth ydyw, Gwall yr ysbryd ar ddyn ydyw y fath ysgelerder; ac y mae sawb drwy yr holl gymmydogaeth yn rhyfeddu drwg Satan. A dywed y troseddwr ei hun mai Satan a gafodd rhyw "wall" arno ar y pryd. Rhoddai Adda y bai yn erbyn y wraig, a rhoddai y wraig y bai yn erbyn Satan, gan ddywedyd, "Y sarph a'm twyllodd, a bwyta a wnaethum." 'Nid oedd genyf i ddrwg-ewyllys yn hyny; ac nid i mi y mae y bai i'w gyfrif, ond i'r sarph, yr hon a'm twyllodd, neu i ti am adael iddi fy ihwyllo.'

1. Ceisiant sylfaenu yr esgus hwn ar Air Duw, yr hwn sydd yn tystio fod dyn wrth natur yn meddiant Satan, a'i fod yn ei lidal wrth ei ewyllys. Yr ydym yn addef gwirionedd y dystiolaeth hon. Ond y mae casglu oddi wrthi fod dyn yn pechu o dan orfodaeth gallu Satan, neu fod Satan yn gosod angenrheidrwydd ar dilyn i bechu, yn gamgymmeriad sydd yn codi oddi ar gamddeall meddwl y dystiolaeth. Rhaid deall y meddiant sydd gan Satan ar ddynion mewn ystyr cyfyng; o blegid pe buasai ganddo wir feddiant ynddynt, a meddiant yn yr ystyr helaethaf, buasai yn gyflawn iddynt ei wasanaethu. Ond y mae Satan yn cadw meddiant o ddynion, ac yn eu dal wrth ei ewyllys, drwy gyfeiliornadau a thrwy demtasiynau. Nid arfer gallu i'w gorfodi i'w wasanaethu y mae; ond eu hennill yn wirfoddol, trwy arfer dichell, a thwyll, a hudoliaeth. Pa beth bynag ydyw natur ddirgeledig a gwenwynig gweithredoedd Satan ar feddyliau dynion yn ei demtasiynau, a pha mor nerthol bynag y gallant ennill y meddwl llygredig, etto, nid ydynt yn treisio ewyllys dyn, nac yn gwasgu cynnygiad pechadurus arno trwy allu gorthrechol, nac yn dwyn dyn dan wir angenrheidrwydd

anocheladwy i gyflawni trosedd. Cymmerai hyn ymaith yn hollol weithrediad ewyllys a serch y dyn, a dinystriai gyfrifoldeb dyn i Dduw; ie, byddai raid fod hwnw yn weithrediad egwyddor o gasineb at bechod o du y dyn. Pe byddai pechodau dynion yn effeithiau gallu gorfodol Satan ar ddynion, byddai pechodau y byd i gyd yn esgusodol; o blegid trwy weithrediad Satan fel temtiwr y darostyngwyd yr holl natur ddynol i bechod. Os effaith gallu gorfodol Satan ar y dyn cyntaf oedd y camwedd cyntaf, yna nid oedd Adda yn y cwmp yn meddu rhyddid ewyllys; ac nid heb wir angenrheidrwydd y syrthiodd dyn, ond oddi ar amhossiblwydd hollol i sefyll. Pe buasai holl ddynolryw wedi eu darostwng drwy y camwedd cyntaf dan awdurdod gallu Satan i'w gorfodi yn ol ei ewyllys, yna byddai holl bechodau y byd yn gadwen gyssylltiedig, yn tarddu o angenrheidrwydd o'r camwedd hwnw. Ac os ydyw temtasiwn i'r pechod yn ei esgusodi, yna y mae y demtasiwn gyntaf, yr hon a arweiniodd yr holl natur ddynol i mewn i'r holl aneirif bechodau sydd yn y byd, yn esgus digonol dros y cwbl ar unwaith.

2. Pe byddai pechodau dynion yn effeithiau gallu gorfodol Satan, byddai y byd yn waeth nag ydyw; o herwydd pe bae gan Satan allu i orfodi dynion i bechu, gwnai iddynt bechu yn fwy ysgeler. Y mae yn amlygu eithaf gelyniaeth yn erbyn gogoniant Duw; a gŵyr yn dda mai yr offerynau cymmhwysaf i'w wrthwynebu ydyw dynion—yn enwedig ei brif ogoniant mynegol yn nhrefn iachawdwriaeth.

3. Pe gallai Satan orfodi dynion i bechu, a phe byddai holl bechodau dynion yn effaith gorfodaeth Satan, ni byddai neb yn wir euog ond Satan, a byddai yn rhaid rhoddi yr holl fai yn ei erbyn ef; ac os felly, pa fodd y cyhuddid dyn? Ond rhaid i ni roddi y bai o demtio yn erbyn Satan; etto, rhaid rhoddi y bai o ufuddhau i'r demtasiwn arnat ti. Nis gall hwnw fod yn eiddo Satan: tydi a gyflawnodd y trosedd, ac nid Satan. Ond pe byddai Satan yn euog o orfodi y dyn yn erbyn ei ewyllys, yna ni byddai y dyn yn euog o ufuddhau. Satan fyddai awdwyr y weithred trwy y dyn fel offeryn. Lle y bydd gallu ac ewyllys Duw yn cyflawni y weithred trwy offerynoliaeth dyn, ni phriodolir y weithred, ac ni roddir y clod am dani i'r offeryn, ond i Dduw, er iddo ddefnyddio dyn yn offeryn. Felly yma: ni ddylai pob gweithred ddrwg gael ei rhoddi yn erbyn yr offeryn. Yn wir, teilyngach fyddai rhoddi clod y weithred dda i'r naill na rhoddi bai y weithred ddrwg i'r llall; o blegid y mae y naill weithred a'r llall yn tarddu o'r ewyllys: ond lle y byddo gorfodaeth, y mae anewyllysgarwch.

4. Y mae y golygiad hwn yn cyhuddo Duw o anghyfiawnder hollol. Beth all fod yn fwy o anghyfiawnder na gorchymyn i ddyn gyflawni dyledswyddau sanctaidd, ac ar yr un pryd

moddef yn ei lywodraeth i Satan allu ei orfodi i anufuddhan?
 Meth sydd yn fwy afresymol na chospi dyn am weithred ag y
 mae efe o dan angenrheidrwydd i'w chyflawni? Cyn y gall
 ydych chi gan Dduw hawl gyfiawn i ofyn dyn, y mae yn angenrheidiol
 i'w gadael gadw amddiffyn ar ryddid ewyllys dyn, mewn trefn i'w
 lluoigi ef i weithredu yn gwbl oddi ar ei egwyddor ei hun, ac
 nid o'i ddewisiad ei hun: ni byddai yn gyfiawn gofyn ganddo
 dim arall. Rhaid i lywodraethau daearol gadw amddiffyn ar
 deiliaid cyn y byddant yn gwir haeddu ufudd-dod ganddynt;
 ac nid ydyw yn gyfiawn i lywodraeth ofyn ufudd-dod yn mhell-
 uch nag y mae yn rhoddi amddiffyn a diogelwch. Meddyliwch
 eiddo'n frenin yn gorchymyn i'w ddeiliaid, dan boen marwolaeth, i
 ymestwng i'w lywodraeth yn ei holl ganghenau; ac ar yr un
 pryd yn goddef yn ei lywodraeth i wrthryfelwr cryf a bydding,
 ac anwrthwynebol i'r deiliaid oll, i gymhell pawb dan boen
 marwolaeth i'w ganlyn ef, i ddwyn gwrthryfel yn mlaen yn
 erbyn y brenin; ac nid yn unig yn eu bygwth â marwolaeth i'r
 dyben o ennill eu hufudd-dod, ond wedi methu eu hennill trwy
 addewidion a bygythion—yn ymafelyd ynddynt, ac yn eu llusgo
 i'w fyddin yn erbyn eu hewyllys yn hollol, gan osod arfau yn
 eu dwylaw, a'u gorfodi i ymladd o'i blaidd yn hollol groes i'w
 hewyllys—a'r brenin yn gwybod am hyn, ac yn ei oddef yn ei
 lywodraeth, heb wneyd un ymgais i'w ddal a'i gospi, pryd y
 gallai yn hawdd ei attal y munyd a ddewisai; ac etto yn rhoddi
 i farwolaeth bob un a ddygir yn gaeth felly ganddo. Oni byddai
 y cyfryw yn frenin creulawn? Felly y mae Satan yn ddeiliad o
 lywodraeth Duw, a'r Llywodraethwr yn unig sydd dan rwyman
 i weinyddu cyfiawnder rhwng ei ddeiliaid; ac iddo ef y perthyn
 attal gormes a thrais. Pe goddefai Duw orfodaeth yn ei lyw-
 odraeth ar ddyn i bechu, byddai ei ymddygiad yn wrthwyneb
 i'w gyfraith; a gosodai hyn gyhmelliad cryf ger bron y deil-
 iaid i ammharchu y gyfraith. Dywedir fod Duw, wrth wneuth-
 ur cyfrif â dynion, yn arfer manylrwydd mawr. Rhaid i rifedi
 a graddau eu talentau ddyfod i'r golwg; a chymmerir hwy yn
 esgusodol am y pethau y gorfodwyd hwy i'w hesgeuluso, trwy
 gystuddiau ac amryw o amgylchiadau. Ond pe y gadewid y
 gorfodaeth hwn allan o'r cyfrif, nid iawn farn fyddai hyn:
 ond "nid yw Duw yn gweled yn dda wneuthur cam â gŵr yn
 ei fater."

5. Y mae y golygiad neu yr esgus hwn yn gwadu yn hollol
 gyfrifoldeb dyn, ac yn ei ddarostwng i fod yn offeryn yn unig,
 ac nid yn weithredydd. Nid ydyw yn dewis ei ddybenion ei
 hun, nac yn amlygu unrhyw egwyddor o'i eiddo ei hun. Ac
 felly, nid ffirwyth gelyniaeth yn y dyn at Dduw ydyw ei bech-
 odau, ond ffirwyth gelyniaeth Satan.

6. Y mae y syniad a gondemniwn yn gwadu llwgr dyn; o

blegid nid rhaid gorfodi gelyniaeth at Dduw i wrthryfelu yn erbyn. Nis gall fod gorfodaeth heb wrthwynebiad; ac mae dim fod yn wrthwynebiad i bechu ond sancteiddrwydd. Nid oes eisieu gorfodi neb i dderbyn y peth y teimlir hoffder m tuag ato.

7. Y mae Gair Duw yn ystyried fod pechodau dynion yn eidd hollol eu hegwyddorion drwg hwy eu hunain. "O helaethrwy y galon y llefara y genau." "Pren drwg" sydd yn de "firwythau drwg." Pa orfod sydd ar y pren i ddwyn y rh yma o firwyth? Dim ond ei ansawdd naturiol ef ei hun: "Syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw." Yn ol y golygiad arall, dylasai fod, "Syniad Satan sydd elyniaeth yn erbyn Duw." Gan hyny, nid ydyw dynion yn ddarostyngedig i orfodaeth ond y maent yn pechu o'u bodd, "yn caru melus-chwant fwy nag yn caru Duw;" 2 *Tim.* iii. 4. Olrheinir pechod wreiddyn eithaf yma—"caru." Nid gorfodaeth Satan yn ffynnon, ond "calon ddrwg" y dyn ei hun: "Canys oddi m allan o galon dynion," y mae pob drwg yn dyfod. Y dynion yn pechu, nid am nad allant beidio, ond am na fynt beidio—nid o raid, ond o'u bodd. Y mae eu holl bechu yn gwreiddio yn eu hewylllys hwy eu hunain.

8. Y mae yr esgus hwn yn gwadu yn hollol y priodoldeb bregethu yr efengyl i ddynion. I ba beth y cyhoeddi berygl iddo, nac y gwahoddir ef at Waredwr, nac yr annogi at ddyledswyddau, os ydyw dan orfodaeth oddi wrth Satan. Iwyr esgeuluso ei ddyledswydd, ac i wrthod iachawdwriaeth. Yn ol y golygiad hwn, nid â dyn y mae ymdriniaeth yn briaf at ei waredu, ond â Satan. Yr oll sydd yn angenrheidiol gollwng y dyn yn rhydd ydyw symmud ymaith iau Satan; yna, wedi dileu yr orfodaeth sydd arno i bechu, gweithred dyn yn sanctaidd. Nid cyfnewidiad yn y dyn sydd yn eidd ond cyfnewidiad oddi allan iddo—gorfodi Satan i'w ollwng yn rhydd. Gwahoddir ef at Grist. Gallai yntau ateb, 'ddeuwn, pe gallwn. O orfod hollol yr wyf heb ddyfod i euylllys fy nghalon yw dyfod, ond y mae Satan yn fy nal yn trwy drais hollol. Pe gwelai Duw yn dda gyfnewid medd Satan, a'm gollwng yn rhydd, ni byddai eisieu iddo fy ngh newid i, gan y rhedwn at y Cyfryngwr. Nid wyf yn nacau i fod ato, ond o orfod.'

9. Y mae y damnedigion yn eu cyfaddefiad yn hollol wr brofi yr esgus hwn. Nid achwyn y maent fod Satan wedi gorfodi i'w dinystrio eu hunain. Nid dwyn cyhuddiadau yn erbyn Satan ydyw gwaith annedwydd y damnedigion, ond de cyhuddiadau yn eu herbryn eu hunain. Hyn sydd yn gwrth ur i fyny ran fawr o'u poenau—gweled eu pechodau yn eiddo iddynt eu hunain heb fod un esgus ganddynt i'w rdd

drostynt eu hunain. Barna Duw rhwng y temtiwr a'r temtiedig; a chaiff Satan y gosb a gyflawn haedda am demtio, a'r annuwiol hefyd gosb gyflawn am gydffurfio â'r demtasiwn. Pe gosodid yr esgus hwn i lawr ger bron y cythreuliaid, gan ddywedyd, 'O! ysbrydion melldigedig! chwi a'm temtiodd i i'r pechodau sydd yn awr yn fy mhoeni; chwychw i a'm hannogodd i'w cyflawni—a wadodd wrthyf eu drwg, a ddallodd fy llygaid, a swynodd fy serch, ac a ddistawodd fy nghydwylbod. Dangosasoch i mi y pleser oedd ynddo, ond cuddiasoch y niwed oddi wrthyf; dangosasoch y boddhâd, ond cuddiasoch y gosb; dangosasoch y bluen, ond cuddiasoch y bach.' Ond pe meiddit ti eu beio felly, gallent hwythau dy ateb yn ol, gan ddywedyd, 'Yr oedditi ti mor lawn o elyniaeth at Dduw a ninnau. Yr oedd dy egwyddor yn ddrwg, yr oedditi yn ewyllysgar i bechu, ac yn barod i redeg ar ol drygioni. Ni ddarfu i ni ond dy demtio: tydi a gyflawnodd y pechodau. Os rhoddasom ni demtasiwn i ti, rhoddaist tithau gymmaint temtasiwn i ninnau i'th demtio. Yr oedditi yn ein cymmhell i'th demtio drwy lawer ffordd—trwy amlygu dy lygredd, a thrwy fywyd segur.'

10. Y mae cyfaddefiad y saint yn gwbl wrthwynebol i'r esgus hwn. Gwaith arbenig yr Ysbryd yn yr argyhoeddiad ydyw bwrw i lawr yn hollol holl esgusion dynion dros eu pechodau, a'u gwaagu i'w cyfaddef, fel Dafydd gynt, yn eu herbyn eu hunain, gan ddywedyd, "Yn dy erbyn di, tydi dy hunan, y pechais, ac y gwnaethum y drwg hwn yn dy olwg; fel y'th gyflawnhäer pan lefarych, ac y bydditi bur pan farnech;" *Salm* li. 4. Un o'r pethau cyntaf y mae y pechadur, ar ol cael ei argyhoeddi o ddrwg ei bechod, yn ei wneyd, ydyw cyflawnhau cymmeriad Duw oddi wrth feddu rhan na chyfran yn ei bechod, a chymmeryd yr holl fai o hono arno ei hun.

II. *Y mae y disgrifiad a roddir o bechod ac o weithrediad Satan yn y Beibl yn dangos yn eglur mai yn wirfoddol, ac nid o orfod, y mae dyn yn pechu.*

1. Gelwir pechod yn "ddeddf" gan yr apostol: nid am ei fod yn egwyddor angenrheidiol yn nghyfansoddiad dyn, ond am ei fod yn ymgymmhell ar ddynion gydag addewidion o wobrwyon a bygythion o gosbedigaethau, i'r dyben o ennill uffuddod. Fod dynion, weithiau, yn nacau cydsynio â'r demtasiwn, ac yn ei gwrthsefyll yn hollol, oddi ar ryw ystyriaeth ysbrydol neu gnawdol, sydd sicr. Ond nis gallai hyny fod, pe byddai gorfodaeth yn ngweithrediad Satan. Y mae Duw yn attal dynion rhag cydsynio â'r demtasiwn mewn amryw ffordd—weithiau yn wyrthiol, a phryd arall trwy foddion cyffredinol Rhagluniaeth.

2. Disgrifir pechod fel peth sydd yn cynnwys twyll mawr. Nis gallai hyny gydsefyll â gorfodaeth. Nis byddai angenrheid-

rwydd fod ynddo dwyll i ennill derbynïad, ond yn unig i wneuthur i fyny hudoliaeth. Y mae holl weithredïad Satan ar ddynion yn gynnwysedig mewn hudoliaeth, yn ol iaith yr Ysgrhythrau. Profir hyn oddi wrth fod ei holl amcanion yn cael eu dwyn yn mlaen trwy gyfrwysdra, ac nid trwy allu. Y mae yn wir iddo arfer gallu mawr trwy offerynnau, sef galluocedd gwladol, i ddial yn drwm ar bob anuffadd-dod i'w demtasiynau; ond nid oedd y gallu hwnw yn gorfodi dynion i bechu: yr oedd-ynt yn cael eu dewis, un ai addef neu wadu Crist. Er fod ymdrech egniol wedi cael ei wneyd i'w hudo i'w wadu, trwy gysylltu bywyd â hyny, a marwolaeth â'i broffesu, yr oedd y peth yn cael ei roddi at eu dewisiad hwy i benderfynu eu hymddygiad—pa un ai ei addef neu ei wadu ef a wnaent.

3. Cyffelybir Satan i gynlluniwr; ac nid i dywysog, yn sefyll yn gyhoeddus dros ei amcanion. Pe gallasai ddwyn ei amcanion yn mlaen yn orthrechol, ni buasai raid iddo ymddirgelu fel cynlluniwr. Bwriadu llwyddo trwy gyfrwysdra y bydd cynlluniwr, pan y bydd yn gweled nas gall efe lwyddo trwy allu.

4. Ei arfer ydyw dallu y deall am ganlyniad ac amcan ei hudoliaeth. Pe buasai yn meddu gallu i ofodi dyn, ni buasai raid iddo ddallu y deall: gallasai arfer gorfodaeth yn y goleuni cryfaf. Ond y mae ei waith yn dallu y deall yn profi ei anallu i ddwyn ei amcan yn mlaen ond mewn ffordd hudoliaethus. Priodolir dichellion i Satan fel moddion cymmhwys i gynnal ei deyrnas yn y byd. Ar anwiredd y mae wedi ei sylfaenu, a thrwy dwyll y cerir hi yn mlaen. Nis gall oddef y goleuni. Y mae cymmhwysder neillduol yn ei hudoliaethau i ddenu pechaduriaid: ond ni buasai gallu gorfodol yn sefyll mewn un angen am danynt. Er esamp!, ni ddichon fod gallu gorfodol yn gwasgu dynion i addoli eilunod pan y maent hwy eu hunain o'r farn mai hyny yw eu dyledswydd, eu braint, a'u dedwyddwch. Ond y mae egwyddorion paganiaeth wedi eu bwriadu i hudo dynion i eilunaddoliaeth, trwy osod hyny ger bron fel dyledswydd reymol. Y mae Satan yn gwneyd ei oreu i'w hennill i gydsynio â hyny, ac i ddenu eu hewyllysïau; ac felly y mae yr holl eilunaddolwyr wedi eu llwyr berswadio i'r farn hono, ac o ganlyniad yn hollol ymroddol i eilunaddoliaeth. Trwy hudoliaeth y temtiodd efe Israel yn yr anialwch. Nid gallai Balaam eu niweidio dros Satan mewn un ffordd arall; ond wedi iddo fethu eu melli-dithio, llwyddodd drwy hudoliaeth, trwy anfon puteiniaid i'w temtio. Mewn dull hudoliaethus yr ymosododd efe ar Efa, ac nid ei gorfodi trwy ei allu. Felly hefyd yr ymosododd efe ar Grist. Ei ffordd gyffredin ydyw cuddio y niwed, neu wadu y drwg a'r perygl yn hollol wrth ddynion, i'r dyben o ennill eu meddylïau yn wirfoddol i gyflawni pechod. Gan mai yn y dull hwn y mae yn rhaid iddo ymdrin â dyn, yr hwn sydd yn greadur

hesymol, ac fel y cyfryw yn ymofyn am ddedwyddwch—yn neddu egwyddor o hunan-amddiffyniad—yn cilio oddi wrth bob niwed a dinystr adnabyddus iddo—ac yn ceisio meddiant o bob peth a dybia yn hapusrwydd iddo, y mae Satan yn ymdrechu i gyfarfod dyn yn addas i'r agweddau hyn. Ymdrecha i wadu niwed y demtasiwn, i'r dyben o symmud ymaith bob gwrthwynbiad a allai efe ei ofni oddi wrth yr egwyddor o hunan-amddiffyniad sydd mewn dyn; ac y mae yn gwneyd ei oreu i osod y peth ger bron y dyn, fel cynnygiad o bleser a hyfrydwch mawr, i'r dyben o gyffroi yr egwyddor sydd mewn dyn yn parhau ymofyn a sychedu am hapusrwydd; a thrwy berswadio dyn i edrych ar y cynnygiad fel un hollol ddiberygl, ac yn cynnwys llawer o hapusrwydd, y mae Satan bob amser yn llwyddo i ennill derbyniad i'r demtasiwn. Felly y gwnaeth gydag Efa: gwadodd y niwed oedd yn gynnwysedig yn y bygythiad, gan ddywedyd, "Ni byddwch feirw ddim." Gosododd y peth o'i blaen yn gynnygiad o bleser mawr—fel pren "teg mewn golwg," a "phren dymunol i beri deall," ac y deuent trwy fwyta o hono "megys duwiau;" *Gen.* iii. 5, 6. Y mae y ffaith fod yr holl ymdrech hwn yn cael ei arfer i ennill cydsyniad ewyllys y dyn, trwy wadu y niwed, a thwyll-ddangos pleser mawr ynddo—y mae hyn yn addefiad eglur nad oedd un gallu gorfodol yn cael ei arfer; o blegid nid rhaid i'r meistr sydd ganddo allu i orchymyn y gwas byth ymresymu âg ef fod y gorchwyl yn hollol hyfryd a diboen iddo wrth ei orchymyn; ond y mae yn arfer ei allu llywodraethol arno, pa un bynag ai caled ai ysgafn fydd y gorchwyl. Ond lle na byddo gallu llywodraethol, rhaid, wrth ofyn y cyfryw, ddadleu hyfrydwch a diniweidrwydd y gorchwyl: ac felly, arfer wastadol y temtiwr ydyw dadleu y budd a chuddio y boen.

III. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng hudoliaeth a gorfodaeth, neu angenrheidrwydd.

1. Dadleu'r fod hudoliaeth mor gyfrwys a dichellgar yn sicr o lwyddo gyda dyn llygredig; ac am hyni, fod gallu hudoliaethus Satan yn gosod angenrheidrwydd hollol ar ddyn i bechu. Ond nid oes un grym yn yr wrthddadl hon. Yr wyf yn addef fod yma sicrwydd mawr am lwyddiant; ond nid ydyw hyni yn gwneuthur i fyni yr hyn a elwir yn orfodaeth. Y mae y sicrwydd hwn yn codi oddi ar ddull cyfrwys Satan o drin ei demtasiynau, ac amrywiaeth a chyfaddasder y temtasiynau i effeithio ar, ac i ddenu natur lygredig dyn i gydymffurfio â hwynt.

Iaf, Y mae y sicrwydd mawr hwn yn codi oddi ar egwyddor y dyn, yr hon sydd yn ei ddarparu i dderbyn y demtasiwn, ac yn tueddu ei feddwl at ei hamcan. Er fod ambell leidr yn meddu gwybodaeth helaethach na'r llall, y mae y lleiaf ei wybodaeth

yn gweithredu oddi ar ei egwyddor ei hun, ac yn arfer ei fan ei hun, ac yn gweithredu oddi ar ei ewylllys ddrwg ei hun, mor wirioneddol a'r llall. Ond y llall sydd yn llunio y dull a'r modd o fyned yn mlaen; ac o herwydd ei ragoriaeth mewn synwyr, a'i fedrusrwydd yn cynllunio yr holl weithrediadau lladradaidd, fe'i gelwir yn llywodraethwr y gymdeithas felldigedig; ac y mae yr holl gymdeithas yn ymostwng yn ewyllysgar i gario allan y cynlluniau a dynir ganddo. Ond nid trwy allu gorfodol y mae efe yn gosod y gymdeithas ar waith, ond trwy osod ger bron gynlluniau boddhaol ganddynt. Os bydd iddo osod cynlluniau iddynt fyddant yn anfoddhaol—cynlluniau yn cynnwys perygl amlwg iddynt, neu gynllun di-elw iddynt, dangosant yn y fan eu gallu i anghydfurfio â'r cynlluniau, ond cydffurfiant i hwynt mor bell ag y byddont yn rhyngu eu bodd hwy. Felly rhwyng dyn a Satan, y mae y demtasiwn yn sicr o lwyddo; ond nid trwy orfodaeth, ond trwy fod cyfrwysdra Satan yn hollol abl i lunio cynlluniau pechadurus, hollol gymmeradwy gan ddynion, i'w gosod ger eu bron. Y mae y cynllun yn addaw elw digonol, ac yn addaw diogelwch rhag cosp y gyfraith, hyny ar y llwybr ag y mae egwyddor ladradaidd yn ei hoffi. Ond os digwydd i Satan osod cynlluniau ger bron dynion yn cynnwys perygl amlwg iddynt, neu yn eu colledu yn fwy, yn eu tyb hwy, nag a fyddai yr ennill o'r anturiaeth, gwrthodant gario allan y cyfryw gynlluniau. Nid ydyw cynlluniau Satan yn llwyddo gyda dynion ddim pellach nag y maent yn ennill eu cymmeradwyaeth; ond os methant a llwyddo i ennill a cymmeradwyaeth, dangosant eu gallu i wrthod y demtasiwn. Lluniodd Satan gynlluniau o ladrad ger bron llawer; ond y ddangosodd i'r dyn y byddai y cywilydd a'r golled o'i enw yn drymach na'r ennill; gan hyny, ni ennillodd y cynllun gymmeradwyaeth, ac o ganlyniad ni roddwyd ef mewn gweithrediad. Nid oddi ar ofn Duw y gwrthodwyd y cynnygiad, ond oddi ar ystyriaethau cnawdol. Y mae drygioni egwyddor y dyn yn sicrhau llwyddiant y demtasiwn. Y mae ei llwyddiant yn dibynu yn hollol ar egwyddor y dyn, o blegid y mae gogwydd foesol y meddwl yn gryf iawn at ei wrthddrychau.

2il, Y mae llwyddiant y demtasiwn yn cael ei sicrhau i raddau mawr trwy fod amrywiaeth a lliosawgrwydd mawr o demtasiwnau yn cael eu defnyddio, a'r cyfleusderau mor fynych i'w cael i'w rhoddi mewn gweithrediad. Y mae pob dyledswydd sanctaidd yn agor cyfle i ryw demtasiwn newydd: y mae pob amgylchiad mewn Rhagluniaeth yn rhoddi cyfle newydd i amlygelyniad at Dduw. O herwydd hyn, priodolir twyll mawr i galon dyn; ac ystyrir y twyll yn dra pheryglus, am fod lliosawgrwydd ac amrywiaeth ei ffyrdd pechadurus, a'r achlysurau iddi fwrw allan amlygiadau newyddion o'i drygioni yn aml.

, yn anchwiliadwy i neb ond Duw. Er i un demtasiwn fethu wyddo, ac i'r cyfle hwnw gael ei ddefnyddio yn aflwyddiannus, ito y mae sefyllfa dyn yn y byd hwn y fath fel y gall Satan ael llawer o gyfleusderau yn barhaus i'w demtio drachefn.

Sydd, Y mae amrywiaeth mawr yr amgylchiadau temtiol yn ynnorthwy nid bychan i sicrhau llwyddiant y demtasiwn. Pe uasai y demtasiwn bob amser yn chwythu yr un ffordd, buasai yny yn fantais fawr i'w gwrthwynebu; ond y mae yn troi o'r ogledd i'r de, ac o'r de i'r gogledd; ac o'r dwyrain i'r gorllewin, ac o'r gorllewin i'r dwyrain—yn ol ac yn mlaen yn ddi-diwedd. Troad y demtasiwn, gan hyny, yw y perygl mwyaf. Dichon i demtasiwn i falchder ac afradlonrwydd chwythu mor ryf nes cynhyrfu yr holl enaid i ymwroli yn erbyn y naill a'r all; ac ar hyny dichon y try y gwynt yn ddisymmwrth yn fwy blaidd y duedd sydd yn y galon at gybydd-dod.

2. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng gorfodaeth a hudoliaeth. af, Y mae y naill yn weithrediad cyfrwysdra, a'r llall yn weithrediad gallu. Rhaid cael gallu i orfodi, ond cyfrwysdra i hudo. Nid ydyw Satan yn meddu y blaenaf, ond y mae yn meddu yr laf, ac yn gwneyd defnydd helaeth o hono. Cyfrwysdra mewn gwirionedd ydyw y prif foddion sydd ganddo i ddwyn ei achos n mlaen yn y byd. 2il, Y mae y naill yn ennill yr ewyllys, ond llall yn ei threisio. Y mae yn ddiammheu y buasai yn dda gan diafol pe buasai yn meddu gallu i orfodi dynion i bechu; ond gan nad oes ganddo allu i wneyd hyny, nid oes ganddo ddim 'w wneyd ond ymdrechu ei oreu i'w hudo i bechu; ac o her-rydd y duedd bechadurus sydd yn nghalonau plant dynion, y nae ei ymdrechion yn dra llwyddiannus. Sydd, Yn y naill, y yn ei hun yw unig awdwr y weithred; yn y llall, nid yw dyn ond offeryn yn llaw awdwr arall. Er mai ei demtio i bechu a safodd dyn, etto yr oedd ganddo ddigon o allu i wrthsefyll y demtasiwn, ac am hyny yr oedd ei bechod yn hollol wirfoddol; ac oni bae ei fod yn wirfoddol, ni buasai yn bechod o gwbl. 3ydd, Yn y naill y mae pechodau dyn yn effaith ei elyniaeth ei hun yn erbyn Duw; yn y llall, effaith gelyniaeth Satan yn erbyn Duw yn unig a fyddent. 4ed, Trwy foddion allanol y dygir hudoliaeth yn mlaen; ond byddai raid i orfodaeth fod yn weithrediad tumewnol ac uniongyrchol ar y meddwl, mewn modd hollol ddigyfrwng. Trwy foddion allanol y gweithreda Duw gyfnewidiad ysbrydol: gan hyny, rhaid ei fod yn gynnwysedig mewn ennill "trwy Air y gwirionedd."

IV. *Addysgiadau oddi wrth yr athrawiaeth o fod holl weithrediad Satan ar ddynion yn gynnwysedig mewn hudoliaeth.*

1. Ceir yn yr athrawiaeth hon gefnogaeth gref i wrthwynebu Satan. Y cwestiwn pwysig y dylem ei ystyried mewn cyssylltiad

â hyn ydyw, pa fodd y gellir ei wrthwynebu yn llwyddiannus—ei wrthwynebu yn y fath fodd fel ag i ennill buddugoliaeth arno. Iaf, Dylem ei wrthwynebu trwy ystyried yr hyn ydyw pechod ynddo ei hun, a'r hyn a fydd y canlyniadau o hono. Y mae ynddo ei hun yn ddrwg mawr—yn drosedd o ddeddf gyfiawn, sanctaidd, a da, ac fel y cyfryw yn wrthryfel yn erbyn Duw, ac yn ddirmyg ar ei enw a'i ogoniant; ac y mae o ran y canlyniadau yn gwneyd dyn yn druenus yn y byd hwn, ac yn a osod yn agored i drueni yn y byd a ddaw. Pe bae dynion yn ystyried hyn yn ddifrifol, ni byddent mor barod i wrandaw a hudoliaeth Satan. Nid oes dim yn fwy manteisiol i lwyddian gweithrediad Satan nag anystyriaeth. 2il, Dylid ei wrthwynebu trwy ymgadarnhan o ran y farn yn y wir athrawiaeth. Nid oes dim yn fwy gwasanaethgar i deyrnas Satan na'r holl gyfeiriadau dinystriol am byngciau mawrion a hanfodol Cristionogaeth; o blegid y mae yn attal y gwirionedd rhag cael dylanwad priodol ar galonau a buchedd dynion. Y mae yn wir nad ydyw athrawiaeth bur yn ddigon ynddi ei hun i attal dyn rhag pechu; etto, y mae yn help fawr iddo i ymgadw rhagddo, yn gymmaint a'i bod yn ei alluogi i adnabod ei ddyledswydd, a'r modd i'w chyflawni. Dynion anwybodus o Air Duw yw y rhai hawddaf o bawb i Satan eu hudo: nid am nad ydynt yn deall a ddichellion yn unig, ond am eu bod hefyd heb arfau priodol i ymladd. Plant y tywyllwch ydyw plant y diafol, ac yn eu tywyllwch y maent yn ei wasanaethu. Sydd, Dylid ystyried y gwagedd a'r twyll sydd mewn pechod. Gan fod llwyddiant y demtasiwn yn dibynu llawer ar ennill y meddwl i edrych ar bechod fel peth pleserus i'r cnawd, y mae o'r pwys mwyaf i bob dyn edrych a bob ochr iddo—edrych ar yr ochr dywyll yn gystal a'r ochr oleu, a meddwl am y chwerwder dyfodol yn gystal a'r pleser presennol, a phwyso y naill a'r llall yn deg yn nghloriaeth rheswm a Gair Duw; a bydd hyn yn gymmhorth mawr: ddewis y da, ac i wrthod y drwg—i ddewis y sylwedd, ac i wrthod y gwagedd. 5ed, Dylid dwyn pob cynnygiad i bechu yn ofalus i wyneb y rheol ddwyfol, i brofi ei gyfreithlondeb cyn ei dderbyn, gan fod llwyddiant y demtasiwn yn dibynu ar esgeuluso hyny. Esgeuluso hyn a roddodd fantais i'r diafol i demtio ein rhieni cyntaf. Pe buasai Efa yn talu sylw priodol i anghyfreithlondeb ei gynnygiad, ac yn dyweyd hyn yn wrthod, buasai yn colli ei rym i'w hudo. 6ed, Dylid meddwl yn ddifrifol am Dduw yn ei holl briodoliaethau, gan fod y tent-iwr yn defnyddio rhai, sef gras a thrugaredd, yn annogaeth bechu. Os ydyw Duw yn drugarog, dylid cofio ei fod hefyd yn gyfiawn; ac nad ydyw efe byth yn dyrchafu un briodoledd a draul darostwng y llall; ond y mae ei holl briodoliaethau yn ogyfwrch â'u gilydd yn ngolwg Duw. Os wyt ti, bechadur,

n bechu heddyw am fod Duw yn drugarog, cofia y cospir di-
to am dy bechod, am fod Duw yn gyfiawn. Yn lle bod yn
efnogol i bechod, dylai trugaredd a gras Duw fod yn gefn-
gol i sancteiddrwydd. Pe buasai yr Arglwydd yn orthrymwr
:eulawn, buasai rhyw reswm mewn gwrthryfela yn ei erbyn;
nd y mae gwrthryfela yn erbyn Bod cyfiawn, sanctaidd, tru-
arog, a graslawn, y peth mwyaf afresymol a phechadurus y
allwn feddwl am dano. 7fed, Pan y bydd y diafol yn defn-
ddio pethau chwerwon Rhagluniaeth i'n temtio i rwgnach,
ylem feddwl am bob peth sydd o duedd i gynnyrchu a meithrin
oddlonrwydd ynom. Ystyriwn nad ydym yn haeddu y dru-
aredd leiaf—nad ydyw agos cyn waethed arnom ag y gallai
d—ei bod yn well arnom nag ar filoedd o'n cydgreaduraid—
d pob peth sydd yn dyfod i'n cyfarfod o dan lywodraeth Duw,
c mai ein dyledswydd ydyw ymostwng o dan ei alluog law ef
—fod pob peth, hyd yn oed y pethau chwerwaf, wedi eu bwr-
du i gydweithio er daioni i'r saint—ac y daw terfyn yn fuan
n holl ofidiau yn y byd hwn. 8fed, Pan y bydd y diafol yn
efnyddio colliadau crefyddwyr yn annogaeth i bechu, dylem
styried eu hedifeirwch chwerw. Yn lle cymmeryd eu colliadau
n achlysur i bechu, dylem eu cymmeryd fel rhybuddion rhag
echod. Er fod y duwiol yn syrthio i bechod, nid ydyw yn
yw mewn pechod; er fod pechod ynddo, “yr hyn sydd gâs”
anddo ydyw. Nid ydyw fod un dyn yn pechu yn un rheswm
ros i neb arall bechu. Nid ymddygiadau pobl ereill ydyw ein
heol ni; ond gorchymyn Duw ac esampl Crist. 9fed, Pan y
ydd y diafol yn defnyddio rhesymau i'n hannog i oedi, dylem
styried byrdra amser, ansicrwydd bywyd, ac amcan mawr ein
odolaeth, a pharhâd y byd arall. O! faint sydd yn dinystrio
u hunain trwy oedi! Ar dir yr oedi y mae angau yn dal mil-
edd o eneidiau yn amharod! Nid oes neb yn meddwl marw
n annuwiol, ond y maent yn disgwyl cael crefydd iawn ryw-
ryd cyn marw; a chyda'r disgwyliad hwn y maent yn oedi y
aill flwyddyn ar ol y llall, ac yn myned yn mlaen yn eu
pechodau, ac yn y diwedd yn cyfarfod â siomedigaeth ddy-
hrynllyd!

2. Rhaid i ni roddi holl fai y pechod yn ein herbyn ein hun-
in. Gan mai ni â'i cyflawnodd, heb un rhaid nac achos, nid
es dim yn fwy rhesymol nag i ni gymmeryd yr holl fai o hono
rnom ein hunain; ac y mae pob pechadur gwir edifeiriol yn
gwyneid hyn yn wirfoddol yn y byd, ond y pechadur anedifeiriol
n gorfod gwneid hyny byth yn uffern.

PREGETH XLIV.

NATUR A SWYDD Y GYDWYBOD.

Rhufeiniaid ii. 15.

"Y rhai sydd yn dangos gweithred y ddeddf yn ygrifenedig yn eu calau a'u cydwybod yn cyd-dystiolaethu, a'u meddyliau yn cyhaddo eu gyswadu neu yn egsusodi."

AMCAN yr apostol yn y bennod hon ydyw profi nad all y Iuddew gael ei gyfiawnhan trwy weithredoedd, ond trwy fyddu. I'r dyben hyny, profa fod yr Iuddew yn bechadur mawr. Profir hyny oddi wrth ei addefiad ef ei hun. Pan yn barnu yr Iuddew yn beio y Cenhedloedd, y mae yntau yn byw yn yr un drygion ond y mae Duw yn barnu yn ddi-dderbyn-wyneb—yn ond demnio drwg yn yr Iuddew fel y Cenedl-ddyn. 2il, Profa yr Iuddew yn fwy pechadurus yn yr un camweddau na'r Cenhedloedd, am fod ei freintiau yn fwy. 3ydd, Fod Duw yn gwobrwyo y da, ac yn barnu pawb yn ol eu breintiau. 4ydd, ydyw meddu breintiau yn cyfiawnhanu neb; ond ufudd-deddf gymmeradwyir: ac mor belled ag y mae y Cenhedloedd yn gwnenthur y ddeddf, cânt eu hesgusodi. Oddi wrth y testamant ni a sylwn,

I. *Pa beth ydyw cydwybod?*

Yn nacaol:—

1. Nid cyd-wybod â Duw. Cyn belled ag y byddo y gydwybod yn sanctaidd, y mae yn cyd-wybod â Duw; a chyn belled ag y byddo yn halogedig, y mae i'r gwrthwyneb. 1af, Y mae y golygiad hwn yn gwadu yn hollol lygredigaeth y gydwybod. Y mae llawer yn meddu cydwybod heb ddim gwybodaeth o ewyllys Duw; ond yn unig graddau o deimlad o'u cyfrifoldeb wedi ei gael trwy draddodiad. 2il, Y mae y rhai sydd wedi puru eu cydwybodau yn dra amherffaith eu cyd-wybodau o ewyllys Duw. 3ydd, Gwaith Ysbryd Duw yn yr argyhoeddiad ydyw ennill y meddwl i gydsynio âg ewyllys Duw. Gelwir hyn

“syniad yr ysbryd.” 4ydd, Y mae cydwybod weithiau yn demnio y da a'r diniwed, ac yn cymmhell y drwg. Ond y cymmaint a hyny o gydsyniad â Duw yn perthyn i'r gydbod, ag sydd yn gwahaniaethu, i ryw raddau amherffaith, a oddi wrth y drwg. Y mae yn cynnwys teimlad dyn o'i rifoldeb.

1. Nid gweddillion o'r ddeddf ydyw, wedi aros yn y galon, li eithr i ni olygu fod y gweddillion hyn yn gynnwysedig wn gradd o ymdeimlad mewn dyn o'i gyfrifoldeb; ond nid vyddor gydffurf â'r gyfraith o gariad at Dduw, ond cariad ei hun sydd yn aros. Darlunir cydwybodau y Rhufeiniaid deddf. Ond rhaid gwahaniaethu rhwng y ddeddf oddi allan rheol ddadguddiedig Duw i ddynion, a'r egwyddor o gariad Dduw a dyn sydd yn tueddu dynion i gydymffurfio â'r gyfrif hono. Y mae cariad dan angenrheidrwydd am reol i'w arwyddo i weithredu. Nid oes dim o weddillion y cariad hwn Dduw yn y galon wrth natur; ond yn unig gradd o deimlad an o gyfrifoldeb dyn i Dduw, a gradd o adnabyddiaeth amherffaith o'r gwahaniaeth sydd rhwng da a drwg, a gradd o mlad o awdurdod y gyfraith, ac etto heb un duedd i nudd i iddi.

2. Nid cynneddf wahaniaethol oddi wrth y deall a'r serch yw; o herwydd y mae pob gweithrediad a briodolir i'r gydbod yn gynnwysedig mewn rhyw fath o syniad yn y deall, zhyd â gradd o deimlad yn y serch. Dosberthir gweithredau y meddwl i ddau ddsbarth, sef y deall a'r serch. Y ll ydyw y gynneddf drwy yr hon yr ydym yn deall pethau—synied ac yn edrych i bethau, ac yn amgyffred eu natur a'u thynasau. Y serch yw y gynneddf drwy yr hon yr ydym yn mlo ac yn profi y peth yr ydym yn edrych iddo—y gynneddf wy yr hon yr ydym yn cymmeradwyo neu yn anghymmerwyo pob peth yr edrychwn iddo. Y gair *cydwybod* a ardda ymwybod, neu wybodaeth dyn am dano ei hun. Cydbod ydyw tystiolaeth meddwl dyn am dano ei hun; yr ymbyddaeth o'i fod yn euog, neu yn ddieuog. Cydwybod yw lu dyn i farnu moesoldeb ei weithredoedd ei hun ac ereill.

Yn gadarnhaol:—

Cydwybod ydyw gradd o syniad yn y deall am gyfrifoldeb a i Dduw, ynghyd â gradd o deimlad yn y serch o bwysfawrgrydd hyny. Pan fyddo y syniad yn deall fod Duw yn idemnio y pechadur, y teimlad sydd yn cydfyned â hyny yw dychryn ac anesmwythder; ond pan ymddengys iddo fod w mewn heddwch âg ef, teimlir hyfrydwch a thangnefedd.

1. Y mae y gweithrediad hwn o eiddo y meddwl, a elwir cydbod, yn cynnwys gradd o wybodaeth a syniad o gyfrifoldeb a. Nid ydwyf yn meddwl fod y wybodaeth hon yn perthyn

i ddyd yn wreiddiol; ond wrth natur y mae yn hollol amddifid o honi, "fel llwddn asen wyllt." Ond rhaid iddo ei derbyn trwy ryw foddion. Er hyny, y mae yn perchen cynneddf o ddeall yn wreiddiol, yr hon sydd yn ei gyfaddasu i dderbyn y wybodaeth hon, ac i deimlo ei gyfrifoldeb i Dduw yn ngwynneb amlygiad o hono. Y mae moddion y wybodaeth hon yn amrywiol ac yn lliosog. Rhai a farnant fod yr holl amlygiadau o Dduw yn ngwaith y greadigaeth a rhagluniaeth yn foddion digonol i drosglwyddo y wybodaeth hon i bob dyn; ereill a'i cyfyngant i draddodiad yn unig. Fodd bynag, y mae yn amlwg fod traddodiad o hyn yn mhlith yr holl genhedloedd o oes i oes; a diau fod hyn yn draddodiad sydd yn cael ei gynnal yn fyw a'i gadarnhau trwy brofion eglur o'i wirionedd yn ngwaith creadigaeth a rhagluniaeth. Pa mor gyfaddas bynag y gallasai llyfr y greadigaeth fod i ddyd perffaith, y mae yn hollol annigonol i wneuthur pechadur yn ddoeth i iachawdwr iaeth: nid yn unig o herwydd ei fod heb gynnwys un amlygiad o drefn iachawdwr iaeth drwy Gyfryngwr; ond hefyd, o herwydd fod y goleuni y mae yn ei roddi ar bob peth ysbrydol yn rhy dywyll i lygaid wedi eu tywyllu trwy bechod. Er fod y greadigaeth yn ddrych mawr ag y mae Duw yn ymddangos ynddo; etto, y mae yn llygredig wedi cefnu arno, ac wedi ymddyeithro iddo. Pethau ereill sydd yn dwyn ei sylw, ac yn dennu ei galon: gan hyn, yr oedd angenrheidrwydd am foddion i'w ennill i edrych yn y drych, ac i'w gyffroi i chwilio am Dduw. Rhaid cael moddion mwy bywiog i gyffroi ei sylw, ac i ennill ei feddwl, at wrth-ddrychau oedd yn hollol ddyeithr iddo. Yr efengyl yn unig sydd yn meddu cyfaddasrwydd perffaith i ennill sylw y byd i edrych i mewn i'r peth, ac i chwilio i'r mater yn briodol. Trosglwyddwyd cyfrifoldeb dyn yn mlaen o oes i oes, ac o genhedlaeth i genhedlaeth, trwy draddodiad; ond tarddodd y traddodiad hwn yn wreiddiol oddi wrth ddadguddiad dwyfal a chadarnheir ef yn wastadol trwy brofion amlwg, gweledig i bob oes a chenedl dan y nef. Y mae y traddodiad hwn yn mhlith y naill genedl yn fwy llygredig, ond yn mhlith ereill yn fwy goleu, pur, a chadarn. Y rhai sydd yn professu eu bod yn hollol amddifad o'r teimlad hwn o'u cyfrifoldeb, er cael y moddion goreu i wybod, y maent wedi ymweithio i hyn yn fwrriadol, a gwrthod profion eglur, a chau eu hunain i fyny yn erbyn argyhoeddiad; ac y mae y rhan fwyaf o honynt, os nad y cwbl, yn cadw eu barn dan lywodraeth eu blys a'u tueddianau anifeilaidd. Y mae llawer hefyd o honynt yn professu bod yr hyn nad ydynt mewn gwirionedd. Profesant eu hunain yn asffyddiaid; etto, mewn amgylchiadau neillduol a chyfyng, neu y byddant yn fwyaf difrifol a didwyll yn eu hymddiddanau, addefant eu bod yn meddu teimlad cryf o'u cyfrifoldeb i Dduw.

2. Y mae cydwybod yn cynnwys gradd o ddirnadaeth o gyf-foldeb dyn i Dduw. Nid yn unig y mae yn dirnad gradd o ahaniaeth rhwng da a drwg ynddynt eu hunain, gyda golwg eu heffeithiau ar iawnderau dynolryw yn y byd hwn, ond y mae yn edrych i fyny at Dduw, ac yn dirnad tueddfryd pechadur a erbyn Duw. Y mae yn tystio fod Duw; a'i fod yn llywydd, a farnwr, ac yn osodwr deddf, ac y bydd iddo wobrwyo a chospi iawn byd ar ol hwn. Y mae yr holl baganiaid yn addef hyn rwy ymdrechu i'w foddloni, ac i ennill ei gymmod âg aberthau; a y mae hyn yn codi oddi ar ryw ddirnadaeth am fyd a ddaw. Y mae cydwybod yn sefyll fel barnwr dros y Barnwr mawr—yn ratio ei fod, a pha beth fydd ei farn, ac yn bygwth ei âg, ac yn addaw ei ffafwr. Hyn ydyw ei holl waith; a dyma y rheswm ros roddi i ddyn gydwybod.

3. Y mae cydwybod yn cynnwys gradd o deimlad yn y meddwl o gyfrifoldeb i Dduw. Nid yn unig gwybodaeth, neu yw syniadau am hyn yn y deall, ond hefyd gradd o deimlad o hyn yn y serch. Priodolir y teimlad hwn i'r serch, am mai ddi ar gariad neu gasineb y mae pob teimlad cysurus ac angysurus yn tarddu. Y mae yn naturiol i'r serch deimlo rhyw rgraph oddi wrth bob peth a osodir dan sylw y deall, yn ol fel byddo yn ymddangos. Y mae dirnadaeth am ei sefyllfa ysbrydol yn rhwym o beri teimlad cyfatebol. Y mae yn amhosibl i ddyn edrych arno ei hun yn elyn y Duw anfeidrol, heb radd o deimlad o hyn. Nis gall gyfrif ei hun yn enog geron Duw, heb radd o ddechryn. Nis gall edrych ar yr Hollalltlog yn dyfod i'w erbyn, heb lewygu gan ofn. Nis gall ddirnadod yr Hollwybodol yn gwnio ei anwreidd mewn cod, i'w roddi a ei erbyn mewn barn, heb gyfrif ei hun yn ddyn marwol. Nis gall edrych ar yr Anfeidrol â'i holl ddaioni yn ymgloi i'w erbyn, heb deimlo trueni ei sefyllfa. Nis gall edrych ar gyfiawnder cyfraith danlyd, tragwyddoldeb, a gwobr a chosb, heb uswydo. O'r tu arall, nis gall edrych ar Dduw yn dyfod i'w amddiffyn. Na: y mae y fath fawredd mewn pethau ysbrydol fel y maent yn sicr o effeithio ar y meddwl, ond iddynt gael eu hadnabod yn iawn. Yr achos fod athrawiaeth yr efengyl yn anffeihiol yw, ei bod heb ei "chyd-dymmheru â ffydd yn y rhai a'i clywsant."

II. *Gwaith priodol cydwybod ydyw tystiolaethu dros Dduw.*

Y mae cydwybod bob amser yn sefyll dros Dduw, yn dadlew hawliau awdurdod Duw. Nid ydyw fel y *counsellor*, yn cymeryd achos un blaid i'w dadlew, ac yn esgeuluso achos y llall; ond y mae hi yn amddiffyn iawnderau y ddwy blaid, cyn belled ag y byddo yn meddu gwybodaeth i drin y cwestyl. Y mae y gydwybod weithiau yn cael ei thwylo, trwy fod camsyniad am

y deall yn ei harwain i gamfarnu. Y mae camsyniadau yn y deall fel camdystiolaeth mewn llys gwladol—yn dallu y barnwr, ac yn eu harwain i gamfarnu y cweryl. Saif cydwybod yn y meddwl fel y barnwr yn y llys gwladol. Ni ddichon meddwl dyn, er ei fod yn halogedig, gymmeradwyo y drwg fel y cyryw: ond y mae dewisiad y drwg bob amser yn tarddu oddi ar dybied mai da ydyw; a gwrthodiad y da yn tarddu oddi ar dybied mai drwg ydyw. Gwnaeth llawer y drygau mwyaf ysgeler yn ol cydwybod. Yn ol cydwybod yr oedd Israel yn lladd y prophwydi; ond oddi ar dybied mai cablwyr oeddynt. Yr oedd Saul yn erlid yr eglwys: ond nid oddi ar y meddwl mai drwg oedd hyny, ond oddi ar y meddwl ei fod yn "gwneuthur gwasanaeth i Dduw." Y mae dynion yn byw yn y pechodau mwyaf ysgeler oddi ar ryw gamsyniadau yn y deall. Er en bod yn gwybod ac yn addef drwg y pechodau hyny yn erbyn Duw, a bod eu cydwybodau yn dwyn tystiolaeth eu bod felly, ac yn eu cyhuddo o hyny; etto, y mae pleser a hyfrydwch y pechodau hyny yn eu tueddu i fyw ynddynt. Nid ydyw y meddwl wedi ei oleuo am ddrwg pechod o ran ei natur yn erbyn Duw, nac am yr hapusrwydd o fyw yn sanctaidd; neu y mae camsyniad yn y meddwl am y possiblwrwydd i fod yn gadwedig.

Daioni ydyw gwrthddrych priodol y serch; ac am ddaioni y mae y serch yn ymofyn. Ymhyfrydu ydyw ei hoff waith a'i hapusrwydd; ac nis gall ymhyfrydu mewn dim ond oddi ar y dybiaeth ei fod yn ddaioni. Am hawddgarwch a dymunoldeb y mae y serch yn ymofyn mewn gwrthddrychau naturiol, megis tegwch, ac anrhydedd; ffrwyth y pren a osodwyd i ennill serch er rhieni cyntaf. Dyna pa ham y dadleuir cymmaint ar werth, tegwch, a gogoniant crefydd, a Pherson y Cyfryngwr, tŷ Dduw, trefn iachawdwriaeth, ac eglwys Dduw, yn yr Ysgrythyrau—i'r dyben o ennill y serch at y pethau hyn. Amcan Duw yn rhodd y fath amlygiad mawr o anfeidrol ddaioni ei natur yn nhrefn iachawdwriaeth oedd ennill y serch. Am hyny y darlunir pechod, ac annuwiolion yn uffern, trwy gyffelybiaethau mawr wrthun, ffaidd, ac atgas—i'r dyben o droi ymaith y serch oddi ar y pethau hyny. Am hyny, y mae Satan yn cuddio drwg a niwed pechod pan yn ei gymmhell ar y serch, ac yn ei arllwio i wneuthur ymddangosiad o ddaioni i'r meddwl—i'r dyben o ennill derbyniad iddo gyda'r serch.

Cynnwysa cydwybod radd o ymwybyddiaeth dyn am ei sefyllfa ei hun, neu hunan-adnabyddiaeth. Arferir y gair felly yn fynych yn yr Ysgrythyrau: "Yr ydym yn ein canmawl ein hunain wrth bob cydwybod;" sef, Yr ydym yn gwneuthur ein gwir nodweddu yn adnabyddus i bob dyn a'n clywo. "Canys ein gorfoledd ni yw hyn, sef tystiolaeth ein cydwybod;" hyny yw, ein gwybodaeth sicr am ein sefyllfa ysbrydol ein hunain, ac am

niondeb ein hegwyddor, ein dyben, a'n hathrawiaeth; o herwydd fod llawer yn ein camfarnu. Ond nid ydyw hyn yn arddu o ddiffyg cynneddf addas i iawn farnu; ond oddi ar nwybodaeth neu ddiolalwch ysbrydol.

III. *Sail cydwybod.*

Y mae cydwybod yn dwyn ei thystiolaeth bob amser oddi ar yw fath o sail. Nid ydyw yn bossibl fod cydwybod yn cyhuddo ieu yn esgusodi ond oddi ar ryw radd o wybodaeth o gyfrifoldeb dyn—yr hon a dderbynir trwy draddodiad dynol, ac a gadarnheir trwy yr amlygiadau o Dduw yn ngwaith y greadigaeth; ieu trwy ddadguddiad dwyfol.

1. Oddi ar y wybodaeth a dderbynir trwy draddodiad dynol mae cydwybod yn gweithredu yn hynod o hannerog ac amnherffaith; ac o'r braidd y gellir ei chanfod mewn modd yn y byd yn y cenhedloedd tywyllaf. Er hynny, gadawyd rhyw olion o honi ynddynt hwy, fel olion hen ddinasoedd adfeiliedig; ond o'r braidd y gellir adnabod y fan y safent: *Rhuf.* i. 19—32. Cydwybod yn gweithredu oddi ar y sail hon, er mor amnherffaith, a ddyrchafodd rai o'r cenhedloedd paganaidd yn uchel mewn noesoldeb. Ac i'r graddau y byddai y cenhedloedd wedi cyrraedd gwybodaeth o Dduw yn mhob oes a chenedl, i'r graddau hynny y gwelhawyd eu moesau, ac y galluogwyd hwynt i ffurfio yfreithiau uniawn a da. Yr oedd y personau a enwogasant eu hunain fel moesolwyr yn mysg y paganiaid wedi cyrraedd graddau helaeth o wybodaeth am Dduw trwy chwilio traddodiadau a hanesion, a chymmharu y rhai hynny â'r amlygiad mawr o Dduw yn ngwaith y greadigaeth; a'r cenhedloedd sydd wedi suddo ddyfnaf mewn anwybodaeth o Dduw sydd wedi suddo ldyfnaf hefyd mewn anfoesoldeb. Y mae y llwythau barbaridd sydd yn crwydro yn y coedwigoedd mor isel eu moesau ag anifeiliaid, ac wedi colli pob gwybodaeth o'u cyfrifoldeb i Dduw; ond er hynny, y maent yn meddu rhyw gydwybod o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg, fel y maent yn dwyn perthynas i dynolryw. Teimlant hwy foddlonrwydd yn y gweithredoedd o gyfiawnder neu drugaredd a wnelont; a theimlant anfoddlonrwydd a chywilydd hefyd o herwydd y camwri, y twyll, a'r creuonderau a gyflawnt.

2. Oddi ar sail dadguddiad dwyfol. Oddi ar y sail hon y mae cydwybod yn gweithredu gyda mwy o fanlyrwydd ac awdurdod. Yn y goleu mawr hwn y mae gweithredoedd dynion yn ael eu hargyhoeddi yn fanwl. Gellid cyffelybu cydwybod i ygad corphorol, a'r moddion i oleuni. Ac megys nas gall y lygaid weled heb oleuni, felly nis gall cydwybod adnabod y gwahaniaeth rhwng da a drwg heb foddion; a pho perffeithiaf yddo yr amlygiadau o Dduw a phethau ysbrydol, goreu y barna

y gydwbybod. Ond nid ydyw yr amlygiad o Dduw yn y grad-
 igaeth ond tywyll, mewn cyferbyniad i'r efengyl; am hyn, y
 gelwir yr oruchwyliaeth efengylaidd yn "ddydd," yn "godid
 haul," a dyfodiad Crist yn y cnawd yn "wawriad y dydd."
 Nid ydyw rhai yn "dyfod i'r goleuni fel nad argyhoedde
 hwynt." Nid all cydwbybod argyhoeddi ond yn y goleuni. Am
 fod y gydwbybod dan yr amgylchiadau hyn, ac yn ngwyneb y
 dadguddiad goleu hwn, wedi ennill mantais fawr i weithredau
 yn ei swydd, fel llygaid yn derbyn mantais trwy gynydd
 goleuni naturiol, y mae cydwbybodau gwrandawyr yr efengyl yn
 condemnio y drygau nad ydyw cydwbybod pagan ond yn eu cyf-
 rif yn rhinweddau. Am fod dadguddiad dwyfol yn fantais fawr
 i'r gydwbybod i gondemnio y drwg, a chymmeradwyo y da,
 darlunir pechodau a gyflawnir yn ngwyneb breintiau mawr yn
 fwy eu drwg, ac yn haeddu trymach cosbedigaeth. "Plant y
 deyrnas a defir i'r tywyllwch eithaf;" *Math.* viii. 12. "Yr hwn
 a wybu ewyllys ei Arglwydd, ac nid ymbarotôdd, ac ni wnaeth
 yn ol ei ewyllys ef, a gurir â llawer ffonnod;" *Luc* xii. 4.
 "Esmwythach fydd i Sodom a Gomorrah yn nydd y farn na
 i'r ddinas hono;" *Marc* vi. 11. Bydd gan gydwbybod y da
 hwn fwy i'w edliw iddo yn uffern: o blegid y mae yn dystyn
 Duw yn ngwyneb yr amlygiadau cryfaf o hono. Y mae yn
 amlwg mai yn ol y graddau o wybodaeth y bydd dynion wedi
 eu cyrhaedd y dichon cydwbybod wahaniaethu rhwng da a drwg;
 canys ni a gawn fod cydwbybodau tyner credinwyr, o herwydd
 anwybodaeth, yn condemnio pethau di-ddrwg (*Rhuf.* xiv); a
 chydwybodau annuwolion, o herwydd anwybodaeth, yn pleid
 pethau drwg, megys eilun-addoliaeth, Pabyddiaeth, erlid cre-
 ydd, &c. Rhan o waith cydwbybod ydyw profi gwirionedd cre-
 ydd, neu ei thwyll: ond ni ddichon wneyd hyn ond trwy ddwr-
 prawf-reol ddwyfol yn mlaen, a chymmharu dyn o ran ei ef-
 wyddorion, ei brofiad, a'i ymarweddiad, â phrawf-reol y gwirion-
 edd. Sail y gweithrediad hwn o eiddo cydwbybod ydyw gradd
 o wybodaeth o ewyllys Duw: *Gal.* iv. 6. Rhaid iddi brofi
 cyflwr yn ngwyneb rhyw brawf-reol; o herwydd trwy brofi
 gwaith dyn y mae cydwbybod yn profi y cyflwr; *Salm* iv. 6.
 Yn ol y graddau o wybodaeth ysbrydol y bydd cydwbybod yn ei
 feddu, i'r graddau hyn y mae yn alluog i farnu gweithrededd
 a chyflwr dynion. "Os ein calon a'n condemnia, mwy i'r
 Duw na'n calon, ac efe a wŷr bob peth;" *1 Ioan* iii. 20. Dang-
 osir yma mai amherffeithrwydd eu gwybodaeth ydyw yr achos
 o amherffeithrwydd eu barn ar achos dyn. Y rheswm i brofi
 y bydd barn Duw yn berffeithiach ydyw, ei fod ef yn "gwybod
 pob peth." Nid ellir "adnabod pechod ond wrth y ddeddf;"
Rhuf. vii. 7. I'r dyben o alluogi a chynnhyrfu cydwbybod i
 chwilio allan a chondemnio pechod dyn mewn argyhoeddiad

r mae Ysbryd Duw yn dwyn y ddeddf i mewn yn ei manylwydd a'i hysbrydolrwydd; o herwydd yn ol y radd o wybodaeth a natur y ddeddf a fyddo gan un, y dichon ei gydwbybod ddwyn i thystiolaeth yn erbyn ei bechodau: *Rhuf.* xiv. Dangosir fod ydwybod yn gref neu yn wan yn ol y graddau o wybodaeth ydd ganddi. Y mae yn amlwg mai yn ol y graddau o wybodaeth y bydd dynion yn ei fedda y gall cydwybod weithredu, gan od cyhoeddiad o'r gwirionedd yn foddion i gyffroi cydwybod: *Actau* xxiv. 25.

Cyd-dystiolaethu â'r ddeddf, yn ol graddau ei gwybodaeth oioni, y mae cydwybod: *Rhuf.* ii. 15. Y mae yn tystio i'r gwirionedd mor belled ag y bydd yn ei wybod: *Rhuf.* ix. 1. Dwyn dystiolaeth i'r gwirionedd y mae cydwybod: *2 Cor.* i. 2. Y mae ydwybod yn gweithredu oddi ar grediniaeth o'r gwirionedd: *Rhuf.* xiv. 2. Er i weithred fod yn ddiniwed ynddi ei hun, os yddis yn ammheu ei chyfreithlondeb, y mae ei chyflawni yn bechod: *Rhuf.* xiv. 32. Am ei bod yn gweithredu yn ol y graddau o wybodaeth fydd ganddi (*1 Cor.* viii. 10), y mae yn gref neu yn wan yn ol graddau ei gwybodaeth: *1 Cor.* viii. 10.

IV. Pa berthau y mae y gydwbybod yn eu tystiolaethu?

Y mae yn rhaid gwahaniaethu cydwybodau tywyll a hollol anwybodus o'r efengyl oddi wrth y rhai hynny sydd yn gweithredu yn ngoleuni yr efengyl. Y mae y gydwbybod yn gweithredu yn ol ei manteision, sef yn ol graddau y wybodaeth fydd ganddi. A gadael heibio gydwbybodau paganiaid, y mae cydwybodau y rhai a dderbyniant wybodaeth y gwirionedd yn dystiolaethu o blaid pob gwirionedd dwyfol, gyda chymmhwysiad o hono.

1. Y mae yn tystiolaethu am Dduw, ei fod, a'i briodoliaethau. Iaf, Oddi wrth y gwirionedd hwn y mae yn cyrchu holl rym ei rhyhuddiadau a'i hesgusion: *Dan.* v. 5, 6. 2il, Ar y gwirionedd o fod Duw y mae hi yn sylfaenu ei holl athrawiaeth: *Act.* xxiv. 16. 3ydd, Gwnenthur cymmhwysiad o'r gwirionedd hwn i dddyn ydyw holl waith cydwybod. Pan dderbynir i'r meddwl i dybiaeth nad oes Duw, fe effeithia hynny i hollol ostegu cydwybod; a symudir pob rhwystr o'r ffordd i'r dyn wnenthur ei feiddwaith. Pan fyddo Satan yn temtio, a natur lygredig yn cynhyrfu, ac yn dechreu ymgodi i ymafelyd yn y cynnygiad, law cydwybod yn mlaen i wrthsefyll, gan ddywedyd, 'Y mae Duw yn bod!' Y mae cydwybod yn dadleu priodoliaethau Duw, ac yn eu gwisgo fel lluryg, i ymddiogelu rhag gwenwyn i saethau uffernol: *2 Cor.* iv. 2.

2. Y mae dadleuon mawrion weithiau rhwng y gydwbybod a Satan. 'Dyma i ti gyfle dirgel,' medd Satan. 'Y mae ffyrdd llyn,' medd y gydwbybod, 'yn ngolwg Duw.' 'Dyma i ti dyw-

yllwch i guddio y cwbl,' medd y gelyn. 'Ni chuddia tywyllwch rhagddo ef,' medd cydwybod: 'un ffunud yw goleuni a thywyllwch iddo ef.' 'Dyma i ti bechod bychan,' medd Satan. 'Pa fodd y gwnaf y mawr-ddrwg hwn?' medd cydwybod. 'Y mae Duw yn barod i faddau,' medd Satan. 'Yr Arglwydd sydd eiddigus, ac yn berchen llied,' medd y gydwybod. 'Dyma etto bleser mawr,' medd Satan. 'Yn y diwedd efe a frâth fel y sârph,' medd y gydwybod. 'Y mae Duw yn drugarog,' medd Satan. 'Cyfiawn yw efe yn ei holl ffyrdd, ac ni ddieuogir anwir,' medd y gydwybod. 'Ni bydd byth sôn am dano,' medd Satan. 'Duw a ddwg bob gweithred i farn,' medd y gydwybod. 'Nid yw yr Arglwydd yn agos,' medd Satan. 'Yndd yr ydym yn byw,' medd y gydwybod. 'Pa Dduw yw e a'th ddwg allan o'm llaw i,' medd Satan. 'Ag anadl ei wefus y lladd efe yr anwir,' medd y gydwybod. Pan y mae cydwybod yn tystio hyn, y mae fel *ballast* yn y llestr yn y dymmedd fel castell o'i amgylch yn y rhyfel; fel pwysau yn y glorïau; i gwregys am y lwynau; ac fel tarian ar y galon. Tyst yn sefyll dros Dduw ydyw cydwybod: "Canwyll yr Arglwydd yw ysbyrdyn, yn chwilio celloedd y bol;" "canwyll" yn rhoddi goleu ymddygiad dyn at yr Arglwydd ydyw. Efe a'i danfonodd i ei swyddog awdurdodol, i roddi tro trwy ddirgelion dynia. Am fod cydwybod yn sefyll dros Dduw, y dywedir fod cael heb gondemnio yn meddu hyder ar Dduw—am ei bod hi yn condemnio lle y bydd Duw yn condemnio. Os bydd hi yn condemnio, gellir bod yn sicr fod Duw yn ddig: 1 *Ioan* iii. 20. Ac ei bod hi yn sefyll dros Dduw y rhaid gwasanaethu Duw i'r chadw yn dawel; "Mi a wasanaethais Dduw mewn pob cydwybod dda;" *Act.* xxiii. 1. Cydwybod dda ydyw cydwybod dda rwystr tuag at Dduw: y mae yn derbyn ei gallu oddi wrth Dduw i gyffroi a dychrynu yr enaid: *Act.* xxiv. 21. Am hyn y gelwir hi "cydwybod i Dduw;" 1 *Pedr* ii. 19. Am fod cydwybod yn sefyll dros, ac am sylfaenu ei holl athrawiaeth ar Dduw, a'i briodoliaethau, am hyn y mae delw Duw ar erbyn yn frawychus iddi, ac yn ennill meistrolaeth arni: 2 *Cor.* v. 11. I Dduw yn unig y mae cydwybod yn rhwymedig. Nid oes gan neb awdurdod ar y gydwybod ond Duw: *Rhuf.* xiv. 3-5. Achos dyn rhyngddo a Duw ydyw mater cydwybod: *Blas* xiv. 6.

3. Y mae y gydwybod yn tystiolaethu o blaid cyfraith Duw. Nid yn unig y mae yn dadleu bod a phriodoliaethau Duw i'r unig sylfaen ei holl gyfundraeth; ond hefyd, y mae yn sefyll dros, ac yn dadleu o blaid iawnderau y Duw anfeidrol. Y mae cydwybod fel barnwr yn y llys, yn sefyll dros anrhydedd y gyfraith yn erbyn y troseddwr. I'r pwrpas hwn yr ordeiniwyd cydwybod i ddyn: 1 *Tim.* iv. 2. Y mae cydwybod fel gwylwr

vedi ei osod i amddiffyn castell; yr hwn, os bydd yn ffyddlaw, mae yn anhawdd ei berswadio i agor y castell, er fod heddwch vedi ei gwblhau. Felly, cydwybod a osodwyd i gadw a gwylio lros anrhydedd y gyfraith; a'r fath yw ei thuedd eiddigus i amddiffyn anrhydedd deddf Duw fel mai trwy hir berswadio y ceir ganddi roddi ei hun i fyny i Gyfryngwr; i.e., trwy weithredad "rhagorol fawredd nerth Duw." Yr oedd cydwybod yn gweini y swydd hon yn rymus yn y Pharisaid. Rhwymai hwy yn gadarn i dalu parch dyladwy i gyfraith Duw, yn ol eu tyb trwy am natur y gyfraith; ac nid hawdd oedd eu perswadio i roddi y gwaith o berffaith anrhydeddu y gyfraith i fyny i Gyfryngwr, ac i gydnabod nad allent fod yn gadwedig yn y llwybr hwnw. Fel y mae yr Eiriolwr yn llys y nef yn dadleu dros yr euog, felly y mae cydwybod yn llys y meddwl yn dadleu dros Dduw. Y mae cydwybod pob dyn, cyn belled ag y bydd yn meddu goleuni a manteision, yn cydsynio â'r ddeddf, ac yn ei hamddiffyn (*Rhuf.* ii. 14—16): i.e., y mae hi hefyd yn cymmeradwyo yr ymarweddiad y mae y ddeddf yn ei orchymyn, ac yn annog dynion i'r ymarweddiad hwnw hyd yn oed yn un amddifadrwydd hollol o un wybodaeth o gyfraith yr Arglwydd yn ddadguddiedig. Tyst dros Dduw ydyw cydwybod. Cydwybod "ddirwystr tuag at Dduw a dynion" yw cydwybod yn amddiffyn iawnderau Duw a dynion. Golyga yr apostol fod llais y gydwybod yr un peth a llais Duw: "Os ein calon ni'n condemnia, y mae genym hyder ar Dduw." Os bydd y gydwybod yn barnu y gweddiwr yn deilwng, bydd Duw yn sicr o wrandaw:—"Y mae genym hyder."

4. Ymddengys ei bod yn sefyll dros Dduw, o herwydd fod ffyddlondeb i Dduw a'i wasanaeth yn anheggorol er ei chadw hi yn dawel. Rhaid ymwroli i amddiffyn gwirioneddau Duw.

5. Ei cherydd llym am droseddau a ddengys ei bod yn sefyll dros Dduw. Cydwybod dda yw yr un sydd yn gwneyd hyn, am na bydd yn heddychol ond ar dir purdeb yn unig, sef cydffurfiad â'r ddeddf. Cyd-dystio â'r ddeddf y mae: *Rhuf.* ii. 18.

6. Y mae cydwybod yn tystiolaethu am ddyn—laf, Ei fod yn greadur cyfrifol i Dduw, rhwymedig i breswyllo y byd tragwyddol, i dderbyn canlyniadau ei fywyd yn y byd hwnw. Y mae cydwybod yn dilyn egwyddor y gyfraith cyn belled yn mlaen ag i sicrhau canlyniadau ufudd-dod ac anufudd-dod iddi. Megys nas gall cyfraith fod, na sefyll, heb wobn yn gyssylltiedig âg ufudd-dod, a chosp yn gyssylltiedig âg anufudd-dod; felly, nid all cydwybod honi bod cyfraith heb amddiffyn yr angenrheidrwydd hanfodol am y naill a'r llall o'r pethau hyn. Y gwirionedd mawr hwn ydyw dadl cydwybod, drwy yr hon y mae yn aflonyddu ar heddwch yr enaid, ac yn ei flino yn ddirfawr. Am fod cydwybod yn sefyll dros y gwirionedd mawr hwn, y mae

cydwybod dda yn dyfod yn achos gorfoledd, trwy ei bod yn sicrhau tragwyddol ddedwyddwch iddo: *Gal.* vi. 4. Am hyn y mae y fath ddychryn neu orfoledd yn dilyn ei thystiolaeth am achos dyn; sef, am fod y trueni a fygythir ganddi, a'r dedwyddwch a addewir ganddi, yn annhraethadwy a diddiwedd: *Act.* xxiv. 25. Oddi wrth hyn y tardd y fath ymdrechiau yn mysg dynion i ochel uffern; ac y tardd cynnhwrf cydwybod y Duw-wadwr yn angen. 2il, Ei fod yn euog ger bron Duw. "Caloa yn condemnio" ydyw cydwybod yn cyhuddo dyn ei fod yn droseddwr. Y mae yr holl genhedloedd yn cydnabod mewn rhyw ddull eu bod yn droseddwyr, trwy geisio heddwch eu duwiau trwy ryw fath o aberthau ac iawn; a chyfrifant hwy yn gyffredinol fod amlygiadau a phroffion o euogrwydd dyn yn ymddangos yn ngoruchwyliaeth rhagluniaeth. Gelwir cydwybod yn "ddeddf" yn y galon (*Rhuf.* ii. 14, 15); am ei bod yn profi fod dyn yn droseddwr, trwy ddadleu y gyfraith yn erbyn ei ymddygiad. 3ydd, Y mae cydwybod yn tystiolaethu fod dyn fel troseddwr yn rhwymedig i ddioddef cosb. Y mae yn sicrhau mai "pa beth bynag a hao dyn, hyn y hefyd a fedd efa." Y mae hyn yn gynuwysedig yn nghyhuddiad cydwybod. Nid yn unig y mae yn addef dyn yn droseddwr, ond hefyd y mae yn sicrhau y canlyniad o hyn; a hyn yw yr achos fod y fath ddychryn, a braw, a gofid, yn canlyn deffroad cydwybod. Dywedir fod y galon, nid yn unig yn cyhuddo dyn o fod yn droseddwr; ond hefyd ei bod yn condemnio, sef yn rhwymo dyn i fyny yn ngwyneb y gyfraith i ddioddef y gosb ddyledus am hyn: *Act.* xxiv. 25. Y mae y cenhedloedd paganaidd, oddi ar weithrediad cydwybod, yn credu fod dwy sefyllfa yn i byd a ddaw—y naill yn wobwr a'r llall yn gosb. Iaith cydwybod yw, "Rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist." Y mae yn sicrhau y farn yn y meddwl. Oddi wrth y prawf a was cydwybod o euogrwydd, y mae yn derbyn ei gallu i ddychrynu yr enaid. Yr oedd Paul yn pregethu, nid yn unig gyfiawnder Duw, ond hefyd canlyniadau "y farn a fydd;" ac yn cyhoeddi bygythion Duw yn erbyn pechod. Pan y bydd cydwybod yn taraw, y mae Duw wedi digio. Gelwir cydwybod yn "ddeddf" yn y galon, am fod yn perthyn iddi, trwy ddadleu uniondeb y ddeddf, ddal ymddygiad dyn yn ngwyneb y ddeddf, a chyhoeddi, neu deimlo, a chydnabod collfarn cyfraith Duw. Y mae cydwybod yn tystiolaethu fod dyn yn euog. Y mae pob gair o eiddo cydwybod yn terfysgu ac yn dychrynu yr enaid. Ni byddai achos iddo ddychrynu yn ngwyneb fod cydwybod yn llefaru y gyfraith danllyd, oni bae ei fod yn euog. Hyn sydd yn cario dychryn i'r enaid. Dan yr ystyriaeth o gyfraith Duw, y mae cydwybod yn tystiolaethu ei fod ef yn euog yn ei hwyneb. Tystiolaeth o euogrwydd unrhyw berson yn y llys gwladol

sydd yn peri ei fod ef yn dychrynu, pryd y mae y llall yn gallu ghwertlin. Y mae pawb yn y llys dan awdurdod y gyfraith; ond y prawf o fod yn euog yn ei hwyneb sydd yn effeithio lychryn. Y mae y cyfiawn yn hyf megys llew; ond "yr euog i ffy heb neb yn ei erlid." Am fod *smuggle* yn y llong, neu yn y tŷ, y mae llais y swyddog dros y llys yn dychrynu y gŵr; elly y mae dyfodiad gorchymyn yn llaw cydwybod yn yr argyhoeddiad yn "adfywio pechod" nes marw o'r pechadur, am ei fod yn euog yn ei wyneb. Y mae "y truan a'r cystuddiedig o Ysbryd yn crynu wrth y gair," pan nerthir cydwybod gan Ysbryd Duw i ddyfod allan o "Teman ac o fynydd Paran, & thanlyd gyfraith yn ei deheulaw." Am fod cydwybod yn olrhain y trosedd yn mlaen i'w ganlyniadau tragwyddol, ac yn sicrhau ganlyniadau tragwyddol i weithredoedd dynion, am hyny y mae cydwybod dda yn achos gorfoledd: "Canys ein gorfoledd ni yw hyn, sef tystiolaeth ein cydwybod;" 2 *Cor.* i. 12. O herwydd hyn, y mae cyfyngder yn foddion effeithiol i ddefroir y gydwybod.

V. Pa fodd y mae cydwybod yn tystiolaethu?

1. Y mae yn tystio trwy ddau weithrediad; sef, trwy gyauddo y drwg, a chyfiawnhau y da.

2. Y mae yn tystiolaethu y pethau a aethant heibio, a phethau dyfodol. Y mae yn edrych "yn ol ac yn mlaen," fel olwynon Ezeiel, "yn llawn llygaid" bob ffordd; fel gwyliwr yn edrych ar bob llaw. Y mae yn tystiolaethu y pethau a aethant heibio, yn adolygu bywyd dyn; fel barnwr yn y llys yn adolygu ymarweddiad y troseddwr, ac yn ei ddal yn ngwyneb y gyfraith. Y mae y gweithrediad hwn o eiddo cydwybod yn hanfodol i ddisfeirwch: "Yna y cofiwch eich ffyrdd;" sef, eu cofio gyda barn cydwybod arnynt, yn eu cyssylltiad â Duw. Cafodd brodyr Joseph, Judas, Dafydd, a Chain, eu taraw gan eu cydwybod. Dwyn y meddwl i adolygu ei ymarweddiad a aeth heibio yn ngwyneb y ddeddf y mae Ysbryd Duw yn yr argyhoeddiad— fel dyn yn *settle* hen gyfrif mawr; ac erbyn iddo adolygu pa pethau a dderbyniodd, ac a dalodd, yn cael ei hun mewn dyled i'w awr, na wyddai o'r blaen ddim am dani: neu, fel teithiwr trwy dyffryn maith, yn esgyn i ben mynydd i gael golwg ar ei holl laith, ac yn gweled troadau ei ffordd, a chamwri ei rodiad; neu, fel athraw yn adolygu gwaith ei ddysgybl, ac yn dangos y nethiant, ac yn ceryddu am dano. Bydd cydwybod yn cyfiawni y ddau weithrediad hwn byth yn uffern. Rhaid iddi adolygu yn fanwl holl ymarweddiad y bywyd hwn. Coffa yr yn a dderbyniodd ac a wnaethpwyd yn y byd hwn fydd ei gwaith; ynghyd âg edrych yn mlaen i'r canlyniadau o hyny, a ierhau tragwyddol barhâd poenau yr ail farwolaeth. Trwy

hyn y gwneir i fyny, ac y perffeithir poenau yr enaid. Bydd yr ystyriaeth o'r hyn a fu yn casglu tanwydd, a'r ystyriaeth o'r hyn a fydd yn eu rhoddi ar dân. Poen fydd meddwl am bob peth a ddygir dan sylw cydwybod euog. Poen fydd adolygu holl briodoliaethau Duw, swyddau Crist, gwaith yr Ysbryd Glân, yr holl drugareddau tymmorol, breintiau crefyddol amser, pechodau y geiriau a'r gweithredoedd. Y mae rhai yn adddef troseddau o'r gyfraith wladol heb un gorfod ond cydwybod. Cydwybod yw un o'r llyfrau a agorir yn nydd y farn. Bydd eu hadgof yn angu fel bloedd yr archangel, yn adgyfodi miliynau o bechodau oedd yn gladdedig mewn anghof, ac yn dy orfodi i'w harddel fel dy gorph dy hun. Bydd y "ddaear yn dadguddio ei gwaed, ac ni chuddir mwyach ei lladdedigion;" ond pethau mewn cydwybod fydd y cwbl. Yn angu, cymmer dy gydwybod ei thro drwy dy holl yrfa yn dy fywyd, dilyna d dy droed yn fanwl yn dy annedd gyda'th deulu, yn dy ystafell wely, i edrych pa faint a weddiaist ac a fyfyriaist yno. Dilyna di at y tân i blith dy blant, i edrych pa un ai bendith ai melli-dith a fuost yno. Caiff hyd i lawer gair segur, llawer cyfie i ymddiddan am grefydd wedi ei wario yn ofer, llawer cyfie i sôn am dragwyddoldeb wedi ei ddefnyddio i gellwair, llawer adeg i argyhoeddi o ryw bechod wedi ei gwario i ddim. Edrycha dros y cyflawniadau crefyddol yn dy deulu, a chaiff y lawer o ffurfioldeb, ysgafnder, a firwst anystyriol.

3. Y mae cydwybod yn tystiolaethu pethau yn mlaen. Yn y modd hwn y mae cydwybod yn gweithredu pan y bydd yn gwrthsefyll temtasiynau a hudoliaethau i bechod. Ceir esamp o hyn yn Joseph, Daniel, a'r tri llange. Y mae cydwybod yn dwyn yn mlaen resymau nerthol i wrthsefyll temtasiwn, yn tyn i mewn holl briodoliaethau Duw, yn fyddin gadarn i wrthsefyll y demtasiwn.

4. Y mae cydwybod yn tystiolaethu pethau personol y dyn ei hun, ac yn tystiolaethu pethau ereill hefyd. 1af, Pethau personol. Yn llysoedd y byd hwn, arall fydd yn dwyn tystiolaeth ar fater pawb; ond yma, y mae tyst Duw o dy fewn. Dygodd cydwybod Judas dystiolaeth yn ei erbyn ef ei hun; a'r un modd y gwnaeth cydwybodau Cain, Belsassar, Dafydd, &c. O'r tu arall, dwg cydwybod dda dystiolaeth o blaid y dyn ei hun yn bersonol. Dwg cydwybod dystiolaeth yn erbyn drygau dyn ei hun. 2il, Rhaid iddi weithredu tuag at ereill—tuag at Dduw a dynion; *Act. xxiv. 16.* Rhaid cadw "cydwybod ddirwyst tuag at Dduw a dynion."

VI. Pa fath dyst ydyw cydwybod?

1. Tyst personol ydyw yn mhob man. "Ein calon a'n condemnna." Nid all tystion llysoedd y byd hwn hōni eu bod yn

resennol gyda'r euog yn mhob man; ond gofynir eu bod yn resennol pan y cyflawnodd yr euog y trosedd. Gall Duw syfeirio at dy gydwylbod di dy hun am brwaf o wirionedd iob cyhuddiad a throsedd y dydd hwnw; o herwydd yr oedd y tyst yn bresennol yn y cwbl. Yn llysoedd y byd hwn, rhaid iawid y tyst—rhaid galw ar y naill yn mlaen i dystio y naill trosedd, a'r llall i dystio trosedd arall. Agorir y llyfrau yn y barn; bydd llyfr cydwylbod yn ateb yn hollol i lyfr cyflawnder lwyfol. Caur pob genau, trwy fod cydwylbod yn addef gwirionedd pob cyhuddiad.

2. Tyst manwl ydyw. "Canwyll yr Arglwydd yw ysbryd lyn, yn chwilio holl gelloedd y bol." Gall Duw ddyweyd fel Eliseus wrth Gehazi gynt, "Onid aeth fy llygaid gyda thi," pan vnasthost y peth yma, a'r peth arall. Y mae dy gydwylbod gyda thi yn mhob man, er nad ydyw yn lefaru yn mhob man. Mewn llawer adeg ni chaiff ddyweyd gair; ond y mae yn cadw yfrif y pryd hwnw, i barotoi at lefaru pan y caiff adeg—fel y oren yn gwreiddio yn ddistaw i ymbarotoi at ffrwytho.

3. Tyst ffyddlawn ydyw, yn ol yr egwyddorion fyddont yn y deall. Y mae yn amlygu ei ffyddlondeb drwy wrthod gwobrwyon, yn sefyll dros iawnderau Duw a dynion, yn tystio yn erbyn y dyn ei hun, ac yn ei gyhuddo yn hollol ddiarbed. "Ein calon a'n condemnia." Y mae cydwylbod yn cyhuddo: "A hwy wedi eu hargyhoeddi gan eu cydwylbod." Amlyga ei ffyddlondeb yn tystio yn ei erbyn ef ei hun, ar ei achos ei hun: *Niar. xx. 27.* Clywais am un wedi lladd ei feistr, a lladrata ei riddo, a diangc i'r America. Yno, daeth i fyny yn raddol yn rif farnwr. Dygwyd ger ei fron un euog o'r un fath drosedd 'w gondemnio. Ar hyn deffrodd ei gydwylbod, cyfaddefodd ei ai, a dioddefodd ei gosb. Tystio y gwirionedd a wna cydwylbod. Dwg dystiolaeth i'r gwirionedd yn yr annuwiolion: *Cor. iv. 2.* Er hynny, tyst sydd yn cael llawer o gam ydyw.

4. Tyst awdurdodol ydyw. Ceir esamplau o hyn yn Belsassar, Saul frenin, Judas, a Ffelix. O ba le y mae yn derbyn ei awdurdod? Oddi wrth y warant ddwyfol sydd ganddi, neu ni dwyfol darddiad yn ei swydd; ac oddi wrth awdurdod y gyfaith y mae yn sefyll drosti. Y mae gan gydwylbod dda hyder i'r Dduw. Awdurdod cydwylbod a wna i ddyinion aberthu y pethau anwylaf: 1 *Pedr ii. 19.* "Calon yn taraw" yn drwm ydyw: 2 *Sam. xxiv. 10.* Profir mawredd awdurdod cydwylbod yn neistrolï teimladau dynion drwy eu gwaith yn eu gyru i aberthu parch, golud, esmwythder, bywyd, a pherthynasau, er mwyn creidd a chyflawnder. Am fod awdurdod fawr yn perthyn iddi, yr ymdrechai yr apostolion gymmaint i'w chadw yn ddidram-gwydd (*Act. xxiv. 16*), ac yr ymorfoleddent gymmaint yn ei dhymeradwyaeth: *Gal. vi. 4.*

5. Tyst dan amddiffyniad dwyfol ydyw. Y mae llawer yn cau ei safn yn y byd hwn, ac yn mygu ei thystiolaeth, ac yn gwrthsefyll ei gwirionedd mewn anghyfiawnder. Dywedant wrth eu cydwybod, "Na phrophwydwch i ni bethau uniawn; traethwch i ni weniaith, prophwydwch i ni siomedigaeth;" *Esa. xxx. 10.* Ond fe fyn Duw adeg iddi ddwyn ei thystiolaeth. Rhoddi un cyfleusdra teg iddi i wneyd hyny ydyw dybenion y farn a'r byd tragwyddol. Gellwch feddwl y myn Duw ei hamddiffyn. Swyddog Duw ydyw; a thros awdurdod Duw y mae yn sefyll.

6. Tyst amherffaith ydyw. "Mwy yw Duw na'n calon, ac efe a w'yr bob peth;" 1 *Ioan. iii. 20.* Yn y byd hwn y mae yn amherffaith; ond y mae wedi ei bwriadu i ddwyn tystiolaeth berffaith yn y farn. Nid ydyw yn gwybod am eangder y gorchymyn, amledd ein pechodau, drwg un trosedd, y daioni a ddirmygasom. Bydd cydwybod yn dwyn i'r amlwg lawer o ddrygau dirgel yn anghyfydd, y rhai nad adnabu o'r blaen, ac yn rhoddi lliw tra gwahanol ar lawer o ddrygau, y rhai yr edrychid arnynt yn fychain o'r blaen. Clywais am un crefyddwr yn anghyfydd brawychu, ac yn poeni yn ddirfawr am ryw bechod dirgel a neillduol oedd wedi ei goleddu ganddo dros ei fywyd; a chredai yn rhy ddiweddar ei fod wedi byw dan ei lywodraeth, ac yn marw dan ei felldith. Bydd dy gydwybod dithau yn sicrhoddi tro manwl eilwaith ac eilwaith yn anghyfydd, os cai amser i edrych dros dy egwyddorion, a dy ddybenion tufewinol, ynghyd âg ymddygiadau allanol dy fywyd, i edrych yn ofalus a oes erwyddion cedyrn i'w cael dy fod yn heddwch Duw; ac oddi eitha iddi gael lle i hyderu hyny, cyfyd tymmestl arswydus yn y marw, ac ni thawelir ef er dy daflu iddo byth.

7. Tyst tragwyddol ydyw: "Pryf nad yw yn marw," "ni ni ddiffydd," fydd cydwybod yn uffern. Dwg yn mlaen bob peth i gynnyddu y boen yn uffern. Yn y byd tragwyddol y bydd cydwybod yn dyfod i'w pherffeithrwydd; yno y dwg a thystiolaeth gyda nerth perffaith. Gall cydwybod ddywys, "Tewais er ys talm, distewais, ac ymattelliais; llefaf fel gwraig yn esgor, &c.;" *Esa. xlii. 14.* Nid yw mewn amser ond fel y tystia yn gorwedd yn farw, ac yn "gwisgo eu sachlian," heb feiddio dwyn eu tystiolaeth yn ffyddlawn. Ond yn uffern, bydd y tyst hwn wedi derbyn ysbryd bywyd, yn sefyll ar ei draed, ac yn dwyn ei dystiolaeth yn ffyddlawn. Nid ydyw y cyffro sydd yn y byd tragwyddol yn anghyfydd ond dechreu dihuo at y byd arall—yr arth yn dechreu rhuo cyn llarpio. Iaith cydwybod yn anghyfydd ydyw, "Tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun;" *Salm. l. 21.* Dichon fod ganddi lawer yn cael ei gadw at y byd a ddaw, nad ydyw yn sôn am danynt yn hwn. Yno bydd fel y ddaer yn ymrwygo, wedi hir Groni am amser maith, gan fwrw allan

ldiluw o edliwiadau, a drygan gwarthus, yr hwn a fodda yr maid byth.

8. Tyst amhossibl ei ostegu ydyw gan ddim ond gwaed y groes: "Pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Ysbryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, iuro eich cydwybod chwi oddi wrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw?" *Heb.* ix. 14. Y mae cydwybod dda yn gyssylltiol â ffydd: "Diwedd y gorchymyn yw cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd ddiragrith;" 1 *Tim.* i. 5. Am hynny y golygir gwrthgiliwr oddi wrth Crist yn wrthodwr cydwybod dda; "Gan fod genyt ffydd, a chydwybod dda, yr hon i wrthododd rhai;" 1 *Tim.* i. 19. Llauer math o foddion a ldychymygwyd gan ddyinion i dawelu cydwybod. Mewn trefn geisio gwneyd hyn y mae rhai yn aberthu eu plant, yn dwyn pob math o benyd, ac yn ymhyfhau mewn pechod; ond y cwbl yn ofer. Yr unig foddion a all ei gwir dawelu am byth ydyw gwaed Crist. Gall y pethau a nodwyd ei thawelu dros dymnor, yn dwyllodrus; ond nid ei meddyginiaethu—fel *laudatum* at lawer afiechyd, yn ei esmwythau, ond heb ei feddyginiaethu. Yn amser esmwythder y mae yn lladd. Ar ol rhoddi cydwybod mewn trwmgwsg trwy y moddion a nodwyd, bydd yn sicr o ddihuno amser a ddaw gyda mwy o ffyrnigrwydd—fel lwfr wedi cael ei groni yn rhwygo gyda mwy o ffyrnigrwydd a ierth. Gan fod cydwybod yn sefyll ar achos dyn rhyngddo a Duw, ac yn cynnwys gradd o deimlad o bwys a natur yr achos nawr hwnw, ymddengys fod yn briodol iddi wrthod cymmeryd ni dyddanu gan ddim llai na phrawf o heddwech â Duw. Gan hynny, ni ddichon gael ei thawelu ond yn yr aberth a'r iawn; yr hwn y dywed yr Arglwydd am dano, "Myfi a gyfarfyddaf â ihi yno." Yn y sicrwydd o gymmod â Duw y gall cydwybod orfoleddu: *Rhuf.* v. 12. Nid ydyw yn meiddio dyweyd wrth yr enaid, "Cymmer gysur," ond gyda'r rheswm mawr, "Madduwyd i ti dy bechodau;" nac yn meiddio addaw gwynfyd i'r maid ond ar y sail fod ei bechodau wedi eu maddeu, a'i ysbryd yn ddiddichell. Y mae y gydwybod yn holi yn orfoleddus, "Pwy yw yr hwn sydd yn damnio?" oddi ar y sail fod Crist wedi marw: *Rhuf.* viii. 34. AMEN.

PREGETH XLV.

Y PECHOD O FEDDWDOD.

Diarhebbion xxiii. 31, 32.

“Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwpan, a ymgynhyrfo yn iawn.
 “Yn y diwedd efe a frâth fel sarph, ac a biga fel neidr.”

Y mae Gair yr Arglwydd, nid yn unig yn gwahardd pob drwg ond y mae hefyd yn ein cyfarwyddo i ochel y drygau hyn. Amlyga Duw ei gyfiawnder yn ei waith yn gwahardd pob pechod a'i drugaredd yn ei waith yn ein cyfarwyddo i'w gochel. Un o'r prif gyfarwyddiadau i ochel drygau o bob math ydyw, ymgadw yn mhell oddi wrth y temtasiynau i'r drygau hyn; gochel cellwair â'r achlysuron a arweiniant iddynt; gochel, hyd y gallom, redeg i wyneb hudoliaethau cryfion i'r cyfryw ddrygau. Felly y cyfarwyddir ni i ochel godineb: “Na ddos yn agos i'r thŷ hi.” Yma dangosir fod gwin yn hudoliaethus. Oddi wrth y testyn, ni a sylwn yn

I. *Ar y profion o'i hudoliaeth.*

1. Tystiolaethau pendant Gair yr Arglwydd: “Gwin a ddrwg y galon ymaith;” *Hos.* iv. 11. “Na fydd yn mysg y rhai sydd yn meddwi ar win;” *Diar.* xxxiii. 20. “Nac edrych,” medd ein testyn, “ar y gwin pan fyddo coch.” Am ei fod yn hysbys yr ordeiniodd Duw i'r Nazareaid lwyf ymrithod âg ef, medd trefn i'w haddasu i swydd sanctaidd: *Num.* vi. 3. “Pe ddeffröwyf, mi a âf rhagof, mi a'i ceisiaf drachefn;” *Diar.* xiii. 35. “Deuwch,” meddant, “cyrchwn win, ac ymlanwn o ddiad gref; a bydd yfory megys heddyw, a mwy o lawer iawn;” *Esa.* lvi. 12.

Y mae genym esamplau o ddygnion parchus a chydwyboda trwy hir ymarferiad â diodydd meddwol, wedi dyfod yn feddwon gwarthus. Ar y cyntaf, edrychent ar feddwod yn ffridd, a phenderfynent ymgadw rhagddo, ac argyhoeddent eraill o'r

rg o hono; a meddyliant am danynt eu hunain fod yn amossibl byth eu cymmodi â'r fath arferiad gwaradwyddus; ac yrient eu hunain allan o bob perygl o syrthio i'r drwg hwn. d trwy hir arferiad cynnil a gwastadol o'r diodydd meddwol, odd y ddiod gyfle i arllwys ei hudoliaeth arnynt; daethant diwedd i'w hoffi—hoffi ei blâs; hoffi y cwmni; hoffi'r teiml-
au. Fel yr oedd eu hoffder yn cynnyddu o un tu, yr oedd eu wilydd yn lleihau, y gofid cydwybod yn lleihau, yr ystyriaeth drwg yn lleihau, y meddwl am y cyfrif yn lleihau, eu cyddeimlad â'u perthynasau yn lleihau, eu cariad at eu parch hunain yn lleihau, a'u gofal am eu sefyllfa a'u cymmeriad yn ihaeu. Yn nghychwyniad yr yrfa hon ar ffordd hudoliaeth y rin, yr oedd eu cydwybod yn dyner, eu serch yn gryf at eu lloedd, ofnent eu tristâu, a'u parch a'u cymmeriad yn werthwr yn eu golwg; ni fyent am unrhyw bris eu darostwng. ieddient y meddwl am ymollwng i feddwdod, edrychent yn irmygus ar hyny mewn ereill; gwnaent fil o addunedau mewn munyd, y mynent feirw cyn gorwedd yn y drygau hyn. Nid dd neb i'w cael yn fwy penderfynol eu meddyliau i fyw yn br—neb yn fwy di-ogwydd at feddwdod—neb yn barotach i dunedu dan y rhwymau mwyaf pwysig. Nid rhagrithio yr ddynt; ond felly yr oeddynt yn meddwl o galon. Yr oedd meddyliau y pryd hwnw mor ddiysgog a'r graig—fel myndoedd o bres. Yr oedd ganddynt fanteision lawer i gyflawni penderfyniad hwn; yr oeddynt yn cael annogaethau aneirif a ryfion i fyw yn sobr. Gwyddent fod meddwdod yn dinystrio nnaliaeth gwraig a phlant, iechyd y teulu, heddwch y teulu, chysur y teulu. Gwyddent ei fod yn dinystrio y meddwyn ei n—yn dinystrio ei iechyd, ei gysur, ei heddwch, ei barch, ei agylchiadau bydol, ei enw da; ie, yn rhwystro ei gorph a'i aid. Yr oedd ganddynt sicrwydd diddadl o'r canlyniadau n. Gwelent esamplau lawer o hyny; gwyddent, yn ol natur thau, mai hyn fyddai y canlyniad. Gwnaent eu meddyliau or gadarn a'r graig yn erbyn gorwedd yn y budreddi hwn; id gwres hudoliaeth, trwy hir gellwair â'r demtasiwn, a doddld y graig yn llyn dwfr. Gwnaent eu meddyliau mor ddiysgog a'r mynydd mawr yn erbyn y drwg hwn; ond y mynydd awr a ddaeth yn wastadedd ger bron temtasiwn, trwy hir narfer â'r diodydd meddwol. Yr oeddynt wedi ymarfogi â yrdd o resymau yn erbyn y drwg hwn; ond hudoliaeth y rin a'u diosgodd yn raddol o'u holl arfogaeth, ac a'u gadawld yn ddiamddiffyn, heb un rheswm nac annogaeth yn eu sael i wrthsefyll y gelyn. Yr oeddynt, fel Samson, yn gadarn yn benderfynol yn erbyn y Philistiaid melldigedig hyn, a aradwyddent gymmaint ar wersyll yr Arglwydd, sydd yn ynion sefydlog i bob daioni a hapusrwydd, a hollol beryglus

i ddydolryw. Ond trwy ymarfer ychydig yn fynych â'r diodydd meddwol, cysgasant ar lin temtasiwn a hudoliaeth, collasant eu "mawr gryfder," a syrthiasant yn waradwyddus i ddywylaw anghymmedroldeb a'i ganlyniadau. Buont feirw yn waradwyddus, dan y nodweddiad o fod yn feddwon annuwiol. Bu cymmydogion a ddywedent ar ol eu marwolaeth, 'Hwy a laddasant eu humain, ac a ddamniasant eu heneidian trwy feddwod.' O'r diwedd daeth y dynion call hyn y dan lywodraeth hudoliaeth cyn belled nes ymfoddloni i aberthu eu bywydau a allor chwant pechadurus. Er gwybod y canlyniadau, aberthent fywyd, iechyd, corph ac enaid. Daethant i dyniad hudoliaeth mor gryf nes ymroddi i redeg yn mlaen, serch sathru y pethau mwyaf eu gwerth. Y mae pob ymarferiad parhaus yn cenhedlu ac yn meithrin teimlad cryf at y peth hwnw:—cefyddydau, arferion cyffredin, pechodau, masnach, pob mwy, pob chwant, pob dull o fyw. Y mae yr holl farbariaid yn hof o'u dull o fyw, er ei fod y gwaelaf a'r mwyaf anhapus, oddi i eu bod wedi arfer âg ef. Y mae hir ymarferiad yn cryfhau teimlad. Fel y mae hir dyfiad y pren yn ei wreiddio, ei gynyddu, a'i gadarnhau; fel y mae hir rediad yr afon yn ei dyfahau; fel y mae hir arosiad y gareg yn ei suddo yn sicrach i'r ddaear; hir arferiad â gwenwyn yn dyfod â natur at hysbys, felly y mae hir ymarferiad â diodydd meddwol yn cryfhau chwant atynt. Cyfynger yr afon i le cul, hi a red gyda mwy i'r nerth; felly, os cyfyngir serchiadau yr enaid at ryw un chwant neillduol, hwythau a redant gyda mwy o nerth.

II. Yn mha bethau y mae ei allu hudol yn gynnwysedig?

1. Trwy lygru yr archwaeth daw y dyn yn yfwr gwastadol, a i hoffi blas y ddioid. Llygriad ydyw hwn ar yr archwaeth: mae ydyw natur yn ei hoffi, ond cael ei gweithio y mae i hysbys. Gwyddom fod natur y baban, pan y cynnygir hi iddo, yn ei gwrthod; ac y mae yn ffaith hysbys fod rhai dynion iach ar hysbys eu hoes yn casau y blâs. Mewn trefn i addasu dynion i amryf fath o fywyd, gosododd Duw ddeddf neu allu i ymgynnesfio i dygymmod â phethau trwy ymarfer yn nghyfansoddiad dyn. Y mae yr archwaeth wedi ei dygymmod âg unrhyw beth yn tynu yn gryf at y peth hwnw. Y mae dyn yn meddu blysiad corphorol ac anifeilaidd, a chynneddfau eneidol—y naill yn ei addasu i fwynhau pethau daearol, y llall yn ei addasu i fwynhau Duw. Y mae y blysiad hyn yn tynu yn gryfion at eu gwrth-ddrychau priodol eu hunain. Ond dedwyddwch gwirioneddol dyn ydyw mwynhau Duw. Nid ydyw y blysiad yn bechadurus ond pan y byddant yn tynu yr enaid oddi wrth Dduw. Y mae y blysiad hyn yn amrywiol, ac yn cryfhau wrth eu porthi; yn enwedig ymroddi i borthi rhyw un, yr hwn sydd yn dyfod yn

r yn fwystfil cryf, fel afon yn cael ei chyfyngu i le cul, yn edeg yn gryfach; felly y serch i un blys a chwant. Y mae nroddi i borthi y blysiâu hyn yn cael ei alw "byw yn ol y lawd," a'i ddarlunio yn wrthwynebol i "fyw yn ol yr ysbryd." id creadur i borthi ei flysiâu anianol ydyw dyn; ond creadur ddylai fyw uwch law yr anianol a'r anifeiliaidd, trwy ymborthi y sylweddau ysbrydol a thragwyddol a ddadguddir yn yr enghyl.

2. Y mae ei effeithiau ar y teimladau yn hudoliaethus. Y mae y sylwedd gwenwynig sydd yn y diodydd hyn yn tafu union i ryw deimladau dyeithr ac annaturiol; y rhai y maent n eu mawr hoffi, ac yn dyfod i'w hoffi fwy fwy trwy hir ymarriad. Oddi ar hoffder o'r teimladau hyn y gwna y rhan fwyaf rferiad o honynt. Addefant nad ydynt yn hoffi eu blas; a fŵyr pawb, a gwyddant hwythau hefyd, nad ydynt yn gyfddas i ddisychedu: ac nid i'r dyben hwnw yn gyffredin yr yfir wynt, o herwydd yfir y rhan fwyaf yn hollol ddisyched. Ond teimladau hollol ddrudion, anfuddiol, a diles ydynt. Y maent n niweidiol i'r iechyd, yn hynod o ddarfodedig, yn peryglu obrwydd, ac yn hudol iawn. Nid creadur i ymofyn teimladau smwyth wyt ti. Dylit ddibrisio esmwythdra cnawdol, ac ym-oddi yn llwyr i lafur gyda phethau ysbrydol.

3. Y mae hudoliaeth yn y cwmni. Drwg cymdeithasol yw wn. "Deuwch, cyrchwn win:" "eisteddfa y gwatwarwyr." Yn eu gwleddoedd hwy y mae y bibell," a'r "gwin," i ddfyru cwmni; cyfeddach—cydyfed! Y mae rhai drygau a gyflawnir n bersonol yn fwy o gywilydd i neb i'w gweled, megys lladd, adratta, &c.; ond nid felly hwn. Addefa llawer eu bod yn yfed r mwyn cwmni, a boddio eu cyfeillion. Ai boddio dy gyfeillion yr ydwyf? Boddio drud iawn ydyw. Boddhâit lawer o gyfeillion trwy beidio. Pa un ai cyfeillion, ai Duw, a ddylit foddio? Boddhâit dy deulu trwy beidio. Y mae addasrwydd yn y ddiod sadarn i wneyd y gymdeithas yn fywiog a grymus, trwy ei bod n cynnhyrfu y nwydau. Cymdeithas unol a'u harchwaeth ydd yn bleser grymus i ddynolryw. Y mae tuedd gymdeithsgar gref yn ddeddf wreiddiol berthynol i ddyn. Amcan y luedd hon ydyw ei gyfaddasu i'w sefyllfa berthynasol yn y byd hwn. Ymddengys y duedd hon yn gref yn mhob creadur lireswm, ac yn mhlith pob cenedl o ddynion; ac nid ydyw crefydd yn dinystrio y duedd hon, ond yn ei sancteiddio a'i hiawn-gyfarwyddo. Arweinir ni gan grefydd i gymdeithas uwch a nwy buddiol.

4. Y mae hudoliaeth yn y dyben. Y dyben ydyw dangos aredigrwydd, ennill parch trwy ymddwyn yn foneddigaidd, a chyflawni traddodiad gwladol a gyfrifir mor bwysig. Y fath lrosedd ar gyfreithiau gweddeidd-dra y cyfrifid ei hesgeuluso,

yn enwedig mewn rhai amgylchiadau pwysig a chyhoeddus! Gan fod parch a chariad wedi eu cyssylltu â'r arferiad hon, y mae yr holl egwyddorion a'r annogaethau sydd yn cynhyrfu dynion i geisio parch a chariad eu cymmydigion wedi dyfod yn blaidd i'r arferiad o yfed diodydd meddwol. Yr arferiad o honynt a gyfrifa ieuengctyd yr unig lwybr iddynt brofi eu hamsin yn ddyinion call, gweddaidd, caredig, a medrus ar brif achosion yr oes. Dyn sydd yn meddu tuedd gref at ei barch—nid oes dim yn ormod ganddo i'w aberthu neu i'w ddioddef er mwyn ei barch, na dim yn ei archolli yn fwy na dirmyg. Rhaid dioddef gradd o ddirmyg rhyw fath o bobl wrth ymadael â'r diodydd meddwol. Ond y mae y rhod wedi troi. Ymwrthodwyr i diodydd biai barch, serch, ac ymddiried y dosbarth lliosocaf, a'r dosbarth mwyaf cyfrifol yn Nghymru. Pe byddai raid dioddef ychydig o ddirmyg i fod yn ddirwestwr, cofied y cyfryw ni "dirmyg Crist" ydyw.

5. Ond yr hyn sydd yn rhoddi grym i'r holl ystyriaethau o'r blaen i hudo, ydyw fod y galon yn cael ei chadw, trwy ddiol pechod ac anystyriaeth, rhag gweled y niwed a'r perygl o yrrarfer â'r diodydd meddwol. Dywed Satan, "Bwyta, ac ff; a galon heb fod gyda thi;" *Diar.* xxiii. 7. "Efe a'i canlyniad hi ar frys fel fŷch yn myned i'r lladdfa;" "troes ef â'i haml a'iau tŷg;" *Diar.* vii. 21, 22. Trwy guddio y niwed y mae Satan yn diosg arfogaeth i wrthsefyll yr hudoliaeth. Felly y gwnaed efe âg Efa; ac felly y mae yn gwneyd â'i holl hiliogaeth hyn heddyw. Fel tywysog yn cymmeryd dinas:—yn mlaenaf, oes symmud ymaith y gwylwyr, neu eu taflu i ryw anghyfleusd yna symmudir y rhwystr. Felly y cymmerwyd Babilon—trwy fod y porthorion, fe allai, yn feddwon. Y gwylwyr sydd yn cael dinas yr enaid rhag rhyw chwant, trwy ystyriaethau o ddrwy chanlyniadau pechod: y maent fel byddin gref, yn troi cynnyfion pechod yn ol, ac yn sicr o orchfygu. "Gwna yn llawen, a ieuangc, yn dy ieuengctid, a llawenyched dy galon yn nyddio dy ieuengctid, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid; ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll;" *Preg.* xi. 9. Tra y byddo ystyriaethau difrifol am y farn yn y meddwl, fel gwylwyr yn ei gadw, nis gall y gelyn ddyfod i mewn. Pan gyll efe yr ystyriaethau hyn, caiff y gelyn ddyfodiad rhwydd i mewn. Pan bellheir y dydd drwg, anghofir y farn. Y mae hir arfer yn caledu y galon. Cuddio y drwg sydd yn digaregu ffordd pob chwant; "Bara cudd sydd beraidd; ond ni w'yr efe mai meirw yw y rhai sydd yno, a bod ei gwahoddyr hi yn nyfnder uffern;" *Diar.* ix. 17, 18. Wedi colli ystyriaethau o'r drwg o'r meddwl, cyfodir pantiau dyfiaion o anhawsd a ymddangosant yn y bygythion dwyfol; a thrwy hyn, gwnaed y galon yn ffordd rydd a dirwystyr i'r pechod hwn i ddyfod.

eewn, a rhodio ynddi. Felly y mae twyll pechod yn caledu y llon. Caledwch ydyw dideimladrwydd y meddwl a'r gydwydd; a thrwy hyn y mae y dyn yn myned yn ddifraw, yn ddi-n, yn hyf, yn ddigywilydd, ac yn ymroddi yn ddiysgog ac yn liddychryn i gyflawni pechodau. Ond cynnyrchir y caledwch wrn "trwy dwyll pechod;" sef, trwy guddio oddi wrth y meddwl, neu adael allan o'r meddwl, y drwg a'r niwed o hono; yr yn sydd yn amddifadu y meddwl o bob ystyriaeth alluog i reu casineb at, a gwrthwynebiad i'r pechod hwnw. Yr ystyriaeth a ogwyddodd Joseph i wrthwynebu y demtasiwn oedd drwg sydd mewn pechod yn erbyn Duw. Cuddio y niwed dyw ffordd Satan bob amser i demtio. "Pa ham y dirmygar annuwiol Dduw? dywedodd yn ei galon, Nid ymofyni." Mae pechod yn debyg i lynau dyfnion, sydd â'u glanau serth n raian, yn sugno i lawr, ac yn tynu atynt eu hunain.

III. *Y mae hir ymarferiad â'r pechod hwn yn ennyn y blysr awydd am dano, ac yn ei gryfhau.*

Fel y mae hir arosiad careg yn yr un lle yn ei suddo, ac yn i gwneyd yn anhawdd ei chodi; neu ei hir dreigliad i lawr yn ei gwneyd yn anhawdd i'w gwrthsefyll; neu, fel y mae afon sydd yn hir redeg, yn dyfnhau ei gwely ac yn anhaws ei throci; a phren redi hir dyfu yn anhaws ei blygu; a hir arfer yn dyfod yn gyfaith: felly y mae hir ymarferiad â'r pechod hwn yn effeithio i ennill y serch yn gryfach arno, nid yn unig trwy draws hudo y aeddwl i anghofio drwg y pechod a'i ganlyniadau, ond hefyd rwy dwyll ddarlunio yn y dychymyg a cher bron y serch yr yferiad hwn yn hawddgar, pleserus, ac ennillfawr iawn; yr hyn ydd yn ennill mwy o le iddo yn y serch, a thrwy hyn yn ryfhau gogwydd y dyn ato yn fawr. Ymddengys fod y pechod hwn wedi ei ddarlunio yn nychymyg y meddwyn yn wrthddrych hawddgar a dymunol, ac yn ffynnon lawn o hapusrwydd. Ac oddi ar y dybiaeth hon am dano, y mae yn cael ei ogwyddo ato. "Deuwch," meddai, "cyrchwn win; a bydd yfory megys heddyw;" sef, yn wyl o hyfrydwch. Y mae yn addaw pleserau mawr iddo ei hun. Y mae y serch yn cryfhau ato: —

1. Trwy gadw y pechod hwn yn y dychymyg yn fwy gwas-tadol a didor. Y mae y serch, os bydd yn gref, yn cynnyrfu meddyliau a dychymygion mynych am y gwrthddrych; ac y mae hyn yn foddion i gryfhau y serch, a'i hennyn yn fwy tanlyd at y gwrthddrych. Dyn wedi ei ennill yn llwyr o ran ei galon at ryw bechod, y mae yn "dychymygu anwiredd ar ei wely." Y mae y pechod yn cael ei ddarlunio yn ei dychymyg. Darlunio y pleser, a llunio cyfleustru, yw gwaith gwas-tadol y meddwl; a thrwy fod y peth yn aros yn wastadol yn y

serch y mae yn gwreiddio yn ddyfnach ddyfnach, fel pre, mae gael ei adael yn hir, yn cryfhau.

2. Y mae mynych bortreadu y pechod hwn yn y dychwyl trwy ennyn y serch, yn effeithio o'r diwedd i ennyn y serch a distewi y gydwybod; a thrwy hyn yn esgor ar y dychwyl mewn llunio moddion, amser, a dull, i gyflawni y chwant hyn sydd etto yn cryfhau y serch. Efaith hoffder y mae yn y pechod, neu chwant y meddwl am y pechod, ydyw y serch lawniad o hono: "Chwant wedi ymddwyn a esgor ar bechod. Efa a hoffodd y ffrwyth; ac Achan a hoffodd y llafn aur. Cael galed ydyw y serch wedi sefydlu ar y pechod yn hollol. Dan osir calon galed yn ffynnonell y cyflawniad gweithredol o pechod.

3. Trwy fod pob ystyriaeth o ddrwg a chanlyniadau pechod wedi eu cau allan o'r meddwl, a'r serch wedi ennyn yn ddech ato, y mae y meddwl yn cael ei ogwyddo at y pechod yn holl ac y mae y gogwyddiad hwn yn cael ei sefydlu a'i gadarnhau yn egwyddor gadarn yn y meddwl. Ymddengys cryfder gogwyddiad dynion at y pechod hwn yn ngwyneb cryfder annogaethau a osodir ger eu bron i gilio oddi wrtho. Y mae synwyr yn sicrhau iddynt fod eu meddwdod yn arwain yn ddech ocheladwy i dlodi, afiechyd, a chystudd corphorol, cyfrwydd teuluaidd, anghysur, gwarth, anghyfiawnder, i.e., a marwolaeth hyn. Sicrheir y canlyniadau hyn trwy esamplau amlwg o holl eu llygaid, trwy rybuddion y weinidogaeth, a thrwy dystiolaeth cydwybod. Ond er hyn oll, chwant wedi ei gryfhau trwy y serch arferiad a chwardd am ben yr holl bethau hyn. Y mae "chwant iad yn gryf fel anghy;" ac ni wna pob beiad a chyhuddiad wrthddrych y serch ond cryfhau y serch ato; fel pe cyhuddiad plentyn wrth y fam, ei chalon a gynhessi ato. Fe effeithio yr holl ddirmyg a roddai gelynyon crefydd ar Grist a'i achos wresogi cariad y saint ato; a boddllawn iawn ydyw cariad cryf i ddioddef o herwydd ei wrthddrych. Felly, y mae cariad cryf y rhai hyn at y pechod hwn yn foddllawn i ddioddef pob beid arno, a phob dirmyg o'i herwydd. Eu cariad ato a gudda i lliaws gwaradwyddiadau, a'r colledion a ddrwg y pechod hwn y rhan, oddi wrth eu llygaid. Wedi i'r serch gael ei sefydlu yn arferiad ffaith hwn, efaith naturiol hyn ydyw ymroddedrych am y cyfle a'r moddion i'w gyflawni. Efaith cariad chasneb ydyw holl weithredoedd y byd yn naturiol a moddion. O'rheiniwch bob gweithred i'w gwreiddyn, ceuwch ei bod yn tarddu oddi ar gariad neu gasneb at ryw beth. Serch y meibion dynion ydyw bywyd pob ysgogiad egniol, mewn ymrodd fasnachol, grefyddol, neu fydol—i.e., mewn unrhyw ystyr. Fel gyda'r drwg hwn:—chwant at y diodydd meddwol ydyw achos o ymlyniad dynion wrthynt; ac y mae eu gwaith hwy

mau i lynu wrthynt yn rhwym o'u harwain yn anocheladwy inystr.

V. *Nerth yr hudoliaeth.*

1. Mae ei nerth yn codi oddi ar y ffaith fod ymarferiad yn u y meddwl am y drwg, ac yn caledu y galon.

2. Gorchfygodd wŷr grymus, synwryol, dysgedig, a duwiol, thiodd Noah o flaen y dentasiwn, er ei fod yn batriarch, ac bregethwr cyfiawnder. Cwmpodd Lot, Abraham, Moses, ydd, Solomon, prophwydi, ac apostolion, o flaen hudoliaeth.

3. Trechodd hudoliaeth resymau a chymhelliadau cryfion, fod gan Adda ac Efa resymau cryfion, a chymhelliadau thol i ufuddhau i'r gorchymyn a roddasid iddynt, etto, trwy th y dentasiwn hwy a gwymasant. Felly hefyd yr oedd Noah, Lot, ac Israel yn yr anialwch; ond ymollyngasant yn ryneb tentasiwn: ac y mae gan wrandawyr yr efengyl hefyd amhelliadau lliosog a chryfion i gredu yn Nghrist; ond y hudoliaeth yn trechu y cwbl gyda'r rhan fwyaf o honynt. Chfyga yr hudoliaeth hwn serch tanlyd at wraig, plant, ani, perthynasau, ie, plentyn sugno, &c. Trecha hyd yn y gydwybod—y tyst cryfaf sydd mewn bod.

4. Y mae yn cyfeirio at y gwir borth, sef y serch—ffynnonell yfroedd, llywydd y deyrnas; yn planu afiechyd yn y rhanau rydol, yn rhoddi dyrnod ar y rhan fwyaf tyner. Gorchfygl y rhai cryfaf trwy i hudoliaeth gael ei harfer at y serch, li i bob peth arall fethu. Esau greulawn a orchfygwyd trwy acob wneyd ei ffordd at ei serch; fe'i plygodd fel y mynai li iddo gael ei serch—trwy hudoliaeth. Syrthiodd Saul fre, a Samson, o flaen hudoliaeth, wedi i bob moddion gorfodol iu. Rhoddir darlun da o dentasiwn gan Solomon: "Canys efusau y ddyeithr a ddyferant fel y dil mêl, a'i genau sydd iach nag olew: ond ei diwedd hi a fydd chwerv fel y werv, yn llym fel cleddyf daufiniog. Ei thraed hi a ddisgynant ngeu; a'i cherddediad a sang uffern. Rhag i ti ystyrio dd bywyd, a symmud ei chamrau hi, heb wybod i ti;" *w. v. 3—6.*

5. Y mae hudoliaeth yn gorchfygu gwrthwynebwyr lliosog. Uryson â hudoliaeth y mae rhieni, cymmydogion, pregethwr, athrawon ysgol, crefyddwyr. Y mae hudoliaeth yn trechu graw, gweddian, rhybuddion, ceryddon, rhieni, &c.

6. Y mae ei nerth yn codi i raddau helaeth oddi wrth nerth trwysdra Satan yn ei chynllunio. Y mae yn weithrediad o ffer mawr, dichell mawr, diwydrwydd diflino, ac awydd cryf.

7. Ymddengys hudoliaeth yn gryf wrth ystyried pa fath oerthan mawrion a wnaed iddo—iechyd, tangnefedd teuluol, cynnalieith gwraig a phlant, ie, a bywyd ei hun.

7. Mor anaml y diangodd neb o'i afael wedi cael ei orddiwa yn llwyr gan hudoliaeth!

V. *Pa fath arferiad sydd yn hudol.*

Y mae unrhyw arferiad gwastadol o'r natur yma—arfer gwlybyron moddwol yn lle diod—yn hudol a pheryglus.

O'r arferwyr gwastadol, a chynnil ar y cyntaf, y gwneir meddwon. Oddi yma y ceir meibion yn lle y tadau meddwon. Fel byddin mewn brwydr—pan fylcha anghyngol y rhes flaenaf, sef y meddwon, yr ail res, sef yr yfwyr cymmedrol, sydd yn neidio yn mlaen i gau y bwch. Fel tynu cerbyd—wedi i Satan yrru meddwyn i lawr, yr yfwyr cymmedrol sydd yn dyfod allan i dynu y cerbyd yn mlaen. Y mae cyfeddach a meddwdod yn gyssylltiedig â'u gilydd. Y mae y cyntaf yn arwain i'r ail; ac anfynech y mae ei arweiniad yn methu. Diotwyr yr oes hon fydd meddwon yr oes nesaf. Na: y mae yn gyflymach na hyn; diotwyr y flwyddyn hon fydd meddwon y blynyddoedd nesaf. "Meibion yn llygru" yw y diotwyr—heb orphen a gwaith, ond yn aeddfedu yn brysur i'r cryman!

VI. *Canlyniadau'r hudoliaeth hon.*

"Yn y diwedd efe a frath fel sarph, ac a biga fel neidr." Y mae y dechreuad bychan yn arwain i ganlyniadau mawrion. Y mae "edrych ar y gwin" yn arwain i'r canlyniad o frathu fel y neidr.

1. Yn mha ystyr y mae yn "brathu?" Y mae yn brathu dyn yn ei enw, ei amgylchiadau, ei berthynasau, ei iechyd, ei gysur, ei wraig, a'i blant, &c. Y mae yn brathu enaid y dechreuad Duw, a bygythion y Gair, ac a nerth dwyfol. Yn uffern y mae yn brathu yn ddiorphwys, yn boenus, yn anfeddygiaethol, ac yn dragwyddol!

2. Pa bryd y bratha? "Yn y diwedd." Y mae yn cadw i gwenwyn hyd y diwedd. Cei chwareu am flynyddoedd; ond yn y diwedd fe "frath!" "Yn y diwedd," sef yn yr amgylchiad cyfyngaf, caletaf, pan y bydd yr enaid yn ymadael â'r corff ac yn myned i fyd dyeithr i fyw! "Yn y diwedd," ar ol yr holl bleser, daw i'th "frathu!"—fel abwyd i'r pysgodyn; fel lladrad i'r lleidr crogedig; fel godineb i Dafydd, "cleddyf yn ei dŵ;" fel dyrchafiad i Haman; arian i Judas; gwên i Belshazzar; erlid i Pharoah; gwrthod Crist i'r Iuddewon; yr Amaleciaid i'r hanifeiliaid i Saul; Dalilah i Samson; godineb i feibion Egipt; felly troir y gwpanaid yn win digofaint Duw. "Yn y diwedd!" i ddyfod gyda thi i dragwyddoldeb. "Pryf" ydyw, "na bydd marw." Caiff dy lwyth ei wneyd i fyny yn anghyngol, a rhaid i ti fyw arno ar ol hyny am byth.

3. Bychander y dechreuad. "Edrych ar y gwin"—edrych

gyda hoffder. Os ydyw hyd yn oed edrych arno mor beryglus, pa faint mwy yfed yn fynych? Daeth canlyniadau mawrion yn fynych o ddechreuad bychan. Y mae llawer o ddinasoedd mawrion ac enwog, a llawer o deyrnasoedd cryfion, o ddechreuad bychan iawn. Gall un wreichionen losgi y dref i gyd; gan hyny, dylid gochel dechreu ymarfer â'r diodydd meddwol. Ychydig o oerfel oedd yn ddechreuad afiechyd a ddiweddodd mewn angen; gan hyny, gochelwch y dechreuad, er lleied yw, oddi ar yr ystyriaeth fod iddo ganlyniad mor fawr! AMEN.

PREGETH XLVI.

CYFFESU CRIST.

Matthew x. 32.

"Fwy bynag gan hyny a'm cyffeso i y'ngwydd dynion, minnau a'i cyffesu yntau y'ngwydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd."

Y MAE pawb yn addef fod pwys mawr mewn credu yn Nghrist; ond y mae llawer yn cyfrif nad ydyw cyffesu Crist ond o ychydig neu ddim pwys. Addefir yn gyffredin nas gellir bod yn gadwedig heb gredu; ond etto y mae llawer yn disgwyl bod yn gadwedig heb gyffesu. Y mae llawer o'r Ysgrythyrau yn rhoddi pwys mawr ar gyffesu Crist; ac ymddengys hyny yn angenrheidiol mewn adeg mwy esgusodol na'r oes hon. Nid dychon fod gwir gredu heb gyffesu hefyd. Y mae bywyd a sancteiddrwydd fel bywyd naturiol, yn sicr o'i amlygu ei hamtrwy weithrediad ac ysgogiad. Y mae gras wedi ei roddi yn y galon fel ffynnon, i darddu allan yn ffrydiau amlwg. Y mae'r fath gyssylltiad rhwng y galon a'r fuchedd fel nas gellir rhoddi y galon i Grist, a'r fuchedd yn ei erbyn. Megys y mae y sain yn gwahaniaethu graddau yn eu crediniaeth am dano, y mae hyny yn meddu gwybodaeth helaethach am dano na'r llall, gan hyny yn credu yn eangach o hyny—y naill yn credu y gwirionedd achubol am Grist yn fwy cadarn na'r llall, er, fe allai heb chwaneu ei wybodaeth am dano; etto, y mae yr holl sain yn cyttuno mewn credu y gwirionedd achubol, megys Duwdd ei berson, ei swydd gyfryngol, ei iawn, a'i aberth. Felly hefyd y gallant wahaniaethu yn eu cyffes o Grist, mewn pethau ysgaeifn; ond y mae pethau hanfodol a phwysig cyffes ffyddlawn o Grist gan bob credadyn. Pa fodd bynag, y mae holl elfennau proffes syml o Grist yn hanfodol i wir grefydd. "Cyffesu" sydd air a arferir am amryw bethau.

1. Cyfaddef bai yn ddirgel ger bron barnwr:—"A Josuah a ddywedodd wrth Achan, Fy mab, attolwg, dyro ogoniant i Arglwydd Dduw Israel, a chyffesa iddo, a mynega yn awr i mi beth a wnaethost: na chela oddi wrthyf;" *Jos. vii. 19.*

2. Moliann Duw:—"Trwyddo ef, gan hyny, offrymwn aberth noliant yn wastadol i Dduw, yr hyn yw ffrwyth ein gwefusau m cyffesu i'w enw ef;" *Heb.* xii. 15.

3. Addef ein pechodau mewn gweddi: "Addefais fy mhechod a dywedais, Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd;" *Salm* xxxii. 5. "A hwy a fedyddiwyd ganddo ef yn yr Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau;" *Mat.* iii. 3. "Cyffeswch eich camweddau bawb i'ch gilydd;" *Iago* v. 16.

4. Addef neu arddelwi rhywbeth yn gyhoeddus yn eiddo i ai: *Mat.* x. 32; *Heb.* iii. 1. Arferir y gair *profes* yn yr ystyr olaf yn fynych. Y mae gwahaniaeth rhwng ystyr *cyffesu* a *phroffesu*. Cyffes a ragdybia annhueddgarwch blaenorol neu presennol yn y cyffeswr i wneyd cyffes, ond yn cael ei orfodi a'i ddirgymhell trwy ryw annogaethau oddi allan. Ond y mae profesu yn weithred hollol wirfoddol. Un gŵr dysgedig, sef Dr. Dwight, a ddywed y dylasai y gair gael ei gyfieithu yn *profesu* yn mhob man; nad oes annhueddgarwch yn cael ei olygu yn y lleoedd canlynol:—"Pwy bynag gan hyny a'm cyffeso i yn ngŵydd dynion, minnau a'i cyffesaf yntau yn ngŵydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd;" *Math.* x. 32. "Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi." "Canys â'r galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffesir i iachawdwriaeth;" *Rhuf.* x. 9, 10. "Gan eu bod, trwy brofiad y weinidogaeth ion, yn gogoneddu Duw o herwydd darostyngiad eich cyffes i hwi i efengyl Crist, ac o herwydd haelioni eich cyfraniad idd-rnt hwy, ac i bawb;" *Cor.* x. 13. Yn y lleoedd canlynol y mae wedi ei gyfieithu yn briodol:—"Ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd; cymmer afael ar y bywyd tragwyddol; i'r hwn hefyd f'rh alwyd ac y professaist broffes dda ger bron llawer o dyst-ion;" 1 *Tim.* vi. 12. "Gan fod wrth hyny i ni Archoffeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn ein profes;" *Heb.* iv. 14. Y mae y gair a gyfieithir "profes" wedi ei gyfieithu "cyffes" yn *Heb.* iii. 1: "Ystyriwch Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu." Ond y gair "cyffesu" ydd yn gyfaddas i arwyddo ymlyniad cyhoeddus wrth grefydd yn ngwyneb gwrthwynebiadau mawrion. Swm ein profes Cristionogol ydyw addef yn ein hymddygiad fod Crist yr hyn ydyw. Nid yw ymarweddiad Cristionogol ond gweithredu yn briodol oddi ar grediniaeth o'r gwirionedd am Grist; fel baban yn rhoi ei hun i fyny i ewylllys ei fam, i'w ddwyn i'r man y myno hi. Yn awr, oddi wrth y testyn, ni a sylwn yn

I. Ar yr achosion fod dynion yn esgeuluso profesu Crist.

1. Casineb at Grist, ei achos, a'i hobl. Y mae un dosbarth o ddynion, er nad ydynt yn lliosog iawn yn Nghymru, yn casau

Crist a'i bobl. Y maent yn gwir gasau sancteiddrwydd h nad addefant hyny, ond yn hytrach honant gariad at Ddu a Christ, etto, y mae yn amlwg eu bod yn elynion i'w bobl e-i'r rhai sydd fwyaf ar ei ddelw. Y mae y dosbarth hwn na lywodraeth rhagfarn pleidgar, wedi llygru eu hunain, a thryth eu deall trwy ryw gau grefydd. Fel hyn yr oedd yr Iuddewau yn casau Crist a'i apostolion. Casäent hwy am eu bod yn gwahaniaethu mewn crefydd oddi wrthynt hwy: "Os yw y hwn yn eich casau chwi, chwi a wyddoch gasau o hono fyf i'ch blaen chwi;" *Ioan* xv. 18. "Yna y'ch traddodant chwi i'r gorthrymu, ac a'ch lladdant: a chwi a gaseir gan yr holl gathedloedd er mwyn fy enw i;" *Mat.* xxiv. 9. "Gwaradwydd y rhai a'th waradwyddent di a syrthiodd arnaf fi;" *Salw* lxxix. 9. Am eu bod yn dyweyd yn erbyn eu drygau: "Ni ddichon y byd eich casau chwi; ond myfi y mae yn ei gasau, o herwydd fy mod i yn tystiolaethu am dano, fod ei weithredoedd ef yn ddrwg;" *Ioan* vii. 7. "Gwyliedydd Ephraim a fu gyda Duw; aeth y prophwydi yn fagl adarwr yn ei holl lwybrau, ac yn gasineb yn nhf ei Dduw;" *Hos.* ix. 8. "Canys er pan i'ch erais, mi a waeddais, trais ac anrhaith a lefais; am fod Gair y Arglwydd yn waradwydd ac yn watwargerdd i mi bennydd;" *Jer.* xx. 8. Alltudiwyd Ioan, y difnydd, i ynys Patmos am bregethu "Gair Duw," ac am gyffesu "tystiolaeth Iesu Crist;" *Dad.* i. 9.

2. Cariad at bechod. Nid ydyw y dosbarth hwn yn casu pobl ac achos Duw fel y lleill a nodwyd; ond y maent yn syried eu bod yn saint, ac yn teimlo parch iddynt, yn addef y gau grefydd, ac nid ydynt dan lywodraeth rhagfarn gau grefydd fel y lleill, ond addefant eu hunain yn bechaduriaid annuwat er hyny y maent o dan lywodraeth eu chwantau pechadurus na fynant ollwng eu gafael o honynt. Fel hyn y mae llawer o bechaduriaid sydd wedi derbyn egwyddorion iachus, er hyny a fywyd llygredig—yn byw mewn puteindra, celwydd, meddwdod, twyll, anonestrwydd, cybydd-dod, &c. Dymunai y dosbarth hwn gael crefydd, a bod yn mysg y saint; ond ni allant feddwl gollwng eu gafael o'u hoff bechodau. Hoffai Simon y swyart gael dawn Duw; ond nid oedd yn hoffi gadael ei bechod. I mae rhai am Grist a Belial, Duw a Mammon, fel yr oedd yr Israeliaid am eu crefydd a'u pechodau. Nid yw hyn yn awydd am bethau hanfodol crefydd, ond am ei chanlyniadau. Nid serch at ei pherson ydyw, ond at ei heiddo—nid ei rheolau, ond gwobr eu hufudd-dod iddynt. Ac yn hytrach na gollwng eu gafael o'u pechodau, ymwrthodant â chrefydd; ond lle bydd dysgyblaeth fanwl, ni allant gael y ddau. Rhaid iddynt gwmeryd un o'r ddau. Fel priodi—ni cheir ond un ar y pwy. Amcan crefydd ydyw tori ymaith ein pechodau. Puro a gwa-

iau oddi wrth bechod ydyw dyben mawr ei holl athrawiaeth, ei heolau, ei gorchymynion, a'i hordinhadau.

3. Cywilydd: "Canys pwy bynag a fyddo cywilydd ganddo i a'm geiriau yn yr odinebus a'r bechadurus genhedlaeth hon, ydd cywilydd gan Fab y dyn yntau hefyd, pan ddél yn ngo-roniant ei Dad, gyda'r angylion sanctaidd;" *Marc* viii. 38. "Canys pwy bynag fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnw fydd cywilydd gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant si hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd;" *Luc* ix. 26. "Canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist: o blegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth, i bob un a'r sydd yn credu; i'r Iuddew yn gyntaf, a hefyd i'r Groegwr;" *Rhuf.* i. 16. Y mae y dosbarth hwn yn gwahaniaethu oddi wrth y llall. Nid ydyw hwn yn casau crefydd na'i chanlynwyr; nac, fe allai, yn dal gafael mewn unrhyw bechod neillduol; ond y mae yn methu aberthu si barch, a dioddef y cywilydd y tybia efe y rhaid iddo ei ddi-dddef trwy ganlyn crefydd. Y mae un dosbarth yn cywilyddio arddel Crist, pan y mae yn ymddangos yn amlwg fod gwarth a lirmyg yn eu bygwth. Y maent hyd yma wedi dewis cyfeillion relynol i grefydd—cyfeillion sydd yn arfer ei dirmygu; gan iyny, gwyddant yn dda os arddelant hwythau grefydd y syrth-ant dan draed dirmyg y rhai hyny yn fwy, yn gymmaint a'u ood wedi bod cyhyd yn eu cyfeillach. Y mae dosbarth arall yn cywilyddio arddel Crist, nad oes gwarth yn cael ei fygwth unrhynt gan neb; i.e., gwyddant yn dda na byddant yn fwy dirnygus gan neb; er hyny, y maent yn cywilyddio arddel Crist nor fawr fel na feiddiant ei ddilyn. Bu crefydd dan y fath radd a dirmyg yn yr oesoedd gynt fel ag i achosi cywilydd nawr. Yr oedd pregethu Crist "i'r Iuddewon yn dramgwydd, i.e. i'r Groegwyr yn ffolineb"—y naill yn dirmygu, a'r llall yn wrlid: a'r "ymadrodd am y groes i'r rhai colledig yn ynfyd-rydd;" "Gwaradwydd y rhai a'th waradwyddent di a syrth-odd arnaf fi;" *Salm* lxix. 9. "Gwaradwydd hefyd oeddwn ddynt: pan welent fi, siglent eu penau;" *Salm* cix. 25. "Awn ato ef o'r tu allan i'r gwerysll gan ddwyn ei waradwydd ef;" *Heb.* xiii. 13. Ni ddylai neb gywilyddio arddel Crist. Y mae cywilydd yn rhwystr cryf iawn i'w arddel. Y mae y dosbarth iawn, er y tybiem eu bod yn ymyl crefydd, mewn rhwymau rhyfion gan Satan. Y mae gwell gobaith am yr annuwiol rhy-ygus nag am hwn. Y mae llawer o'r dosbarth hwn o sefyllfa lla yn y byd; ac hwyrach ei bod yn digwydd fod y gangen aglwsy sydd yn eu cyfleusdra o amgylchiadau isel, ac fe allai yn anwybodus, ac yn anghymmhwys i gymdeithasu â hwy, oddi sithr yn unig mewn pethau crefyddol. Nid ydynt yn ammheu iad gwir saint ydynt; ond nis gallant fwrw eu coelbren yn eu nysg, o herwydd fod ychydig wahaniaeth yn eu sefyllfa fydol.

Rhai o'r dosbarth hwn sydd yn troi at yr Eglwys Sefydledig, er fod eu cydwybodau yn tystio pa le y mae crefydd bur; ond am fod yno y pethau y maent hwy yn eu priso yn uwch na phurdeb ac ysbrydolrwydd crefydd, yno y troant. Pe digwyddasai fod Dafydd frenin, a Joseph o Arimathea, yn cydosi i hwynt, y mae yn dra thebygol y buasent yn gallu bwrw eu hunain "mawrion" i mewn i'w mysg; ond gan fod crefydd bur mor dlawd o'r cyfoethogion, nis gallant ymostwng i'w harddai. Y maent yn bwriadu gwneyd aberth mawr yn angen o'r rhwyg a'r mawredd, ac ymostwng i breswyllo yn yr un nefoedd a'r seintiau hyn, y rhai sydd mewn ystyriaethau mor hŵysig gymaint islaw iddynt yn y byd hwn. Pe digwyddasai iddynt fod yn byw pan yr oedd Crist yn ei ystâd o ddarostyngiad, buasai gagendor mawr rhyngddynt ag ef; ac yn yr oes apostolaidd buasai y tramgwydd yn fawr iawn pe buasai raid gwrandawr, a chydymuno â physgotwyr môr Galilea. Buasai Matthew yn rhywstr iddynt, am ei fod wedi bod wrth y dollfa. Ond digwyddodd Eglwys Loegr fod wedi ei ffurfio a'i chymmhwyso at eu tuedd a'u harchwaeth. Gall hi ddangos cyfres o offeiriad dysgedig, a rhai o honynt o awdurdod uchel, a'r cyfan o'r bro yn feilchion chwyddedig. Trwy hyn cymmodwyd eu meddyliau â'r grefydd Gristionogol; ond nid oes dim ynddi ag y mae a fynont hwy ag ef, ond y parch sydd yn gyssylltiedig â hi.

4. Y mae ereill yn esgeuluso profesu oddi ar fydolrwydd. Ceir enghraifft o hyn yn y gŵr ieuange yn yr efengyl, yn nammeg y swper, ac yn Demas. Nid ydyw crefydd yn colledu neb. Y mae y byd yn elyn mawr i grefydd. Y mae mewn llawer o amgylchiadau yn dyfod yn ymgeisydd gwrthwynebol iddi; felly y bu gyda Moses, Dafydd, y Merthyron, &c. Felly gyda'r anuwiolion yn aml:—y cybydd a'r bydol-ddyn sydd yn derbyn y byd hwn yn ei gyfoeth a'i bleserau, ar ammodau drwg erbyn byd arall—ennill y byd trwy golli yr enaid. Y mae masnachwyr yn y diodydd meddwol, y caethfeistriaid, a'r cybyddion, yn caru y byd yn lle caru Duw. Y byd sydd yn yfed grym a hysbryd. Gyda'r byd yn unig y maent yn fedrus, yn ddiwyd, yn effro, yn llawen, ac yn siarad. Nis gallant siarad am ddim ond y byd a'i bethau. Y mae crefydd yn rhwymo eu tafodau, ac yn eu hamddifadu o feddwl. Teimlad careg sydd yn eu calonau at grefydd. Y byd yw "Diana" Prydain Fawr. Y byd yw duw llawer o'r dirwestwyr—ie, duw llawer o grefyddwyr. Addefa rhai nad oes ganddynt hwy amser i grefydd. Grewa mawr fod yn rhaid i un pechadur fyned i uffern o eisieu amser i ffoi at Grist!

5. Y mae ereill yn esgeuluso profesu Crist rhag ofn:—"Mi a ofnais, ac a guddiais;" *Math. xxv. 25*. Yn yr oesoedd gynt yr oedd ganddynt reswm i ofni erledigaethau trymion, ie, yr angen

wyaf poenus; o herwydd yr oedd hyny yn cael ei fygwth nynt, ac yr oeddynt yn gweled ereill yn gorfod dioddef yr i geu mwyaf poenus a gwaradwyddus (*Heb.* xi. 37); a'u hys-ailio o'r cwbl oedd ganddynt yn llawen. Yr oedd Crist wedi crhau y cai ei ganlynwyr ef eu herlid; ond er nad oes achos i eb ofni y pethau a nodwyd yn ein mysg ni, etto y maent yn allu dychymygu rhyw fwganod i'w hofni i arddel Crist. Ofni bagrithio—ofni gwrthgilio—ac ofni mil o bethau. Oni ddylit fni “bod yn ol?” Oni ddylit ofni *drwg* y rhagrithiwr; sef, bod eb y gwir? Ac oni ddylit ofni *drwg* y gwrthgiliwr; sef, bod n ol? Oni ddylit ofni “yr hwn a ddichon fwrw corph ac enaid uffern?” *Mat.* x. 28; *Luc* xii. 5. Pa faint y dylesit ofni lliid Duw! Llais Duw at Seion ydyw, “Y dydd hwnw y bydd yr llycht fel gwagedd; canys hi a ddychryna ac a ofna rhag ysydwad llaw Arglwydd y lluoedd;” *Esa.* xix. 16. “Pwy hefyd arswydaist ac a ofnaist fel y dywedaist gelwydd, ac na chofnist fi, ac nad ystyriaist yn dy galon?” medd yr Arglwydd; *Esa.* vii. 11. “Nac ofnwch chwaith eu hofn hwynt, ac nac arswydwch. Arglwydd y lluoedd ei hun a sancteiddiwch; a bydded fe yn ofn i chwi, a byddod efe yn arswyd i chwi: ac efe a fydd n noddfa;” *Esa.* viii. 12, 13. “Pwy wyt ti, fel yr ofnit ddyn r hwn fydd marw, a mab dyn yr hwn a wneir fel glaswelltyn? Ac a anghofi yr Arglwydd dy wneuthurwr, yr hwn a estynodd nefoedd, ac a seiliodd y ddaear?” *Esa.* li. 12, 13.

6. Y mae ereill sydd yn barnu nad oes bwys mewn profesu Crist. Er fod profes, yn ol eu tyb hwy, yn dda mewn rhai mngylchiadau, etto, tybiant nad ydyw yn angenrheidiol nac n hanfodol i wir grefydd—yn enwedig y rhan hono o'r broffes Kristionogol sydd yn ymuno â chymdeithas y saint, yn cynnal r athrawiaeth, ac yn ymarfer âg ordinhadau crefydd. Rhoddant bwys mawr ar gredu yn Nghrist fel yr unig beth hanfodol i achawdwriaeth, ynghyd âg ymarfer âg ordinhadau crefydd, a rhodiad diargyhoedd, heb ystyried fod ganddynt achos mawr i smmheu gwirionedd eu crediniaeth tra y byddo yn methu eu cyfodi i gyffesu Crist yn gyflawn. Os credir â'r galon i gyfawnder, cyffesir hefyd â'r genau i iachawdwriaeth: *Rhuf.* x. 10. Ac heb ystyried, o'r tu arall, fod ein rhodiad, pa mor fanwl cynag mewn rhai pethau, etto yn dra gwallus yn ngwyneb y Beibl, tra y byddwn yn esgeuluso dyledswyddau mor bwysig ag n nodwyd; sef, cymdeithas y saint, cynnal Gair y bywyd, cofio ngeu Crist wrth ei fwrdd. Y maent yn cymmeryd yr hyn a allant o bethau crefydd, heb godi y groes, heb aberthu eu carch, neu ryw bethau drwg y mae ganddynt asael ynddynt; ond yn esgeuluso y rhanau hyny sydd yn gofyn ychydig o hunanymwadiad ac ymostyngiad: gan hyny, y maent yn esgeuluso y pethau mwyaf hanfodol i brofi eu cariad at Grist.

Nid ydyw yr holl bethau ereill yn gofyn aberth o hunanymwiad; gan hyny, gall y cwbl darddu oddi ar hunan a gau ddybenion. Y mae y Gair yn gofyn ufudd-dod cyflawn a chyffredinol mewn crefydd; *Dat.* iii. 22; *Cor.* v. 17; *Gal.* vi. 15.

II. Pa beth ydyw cyffesu Crist?

1. Y mae cynnal athrawiaeth Crist yn gyhoeddus yn y byd yn rhan arbenig o'r broffes Gristionogol. Y mae hyn yn ddyledswydd bwysig ar Gristionogion, ac yn cael ei gorchymyn yn fynych gyda'r pwys mwyaf. Nid ydyw y gwaith pwysig hwn i'w adael i weinidogion yr efengyl yn unig; ond y mae rhwymau ar yr holl saint i gydymdrech yn mhlaidd ffydd yr efengyl, yn ol eu cyfleusderau a'u talentau. Yr eglwys, yn a swyddogion a'i haelodau, sydd yn un golofn a sylfaen i gynnal y gwirionedd yn y byd. Rhodiad sanctaidd pob aelod sydd yn harddu yr athrawiaeth, yn llewyrchu ger bron dynion, ac yn llythyr canmoliaeth. Cyfrifant yn fraint cael dioddef er mwyn yr efengyl (*Act.* v. 41), a gweddiant am ei lledaeniad. Nid oes dim wedi ymddangos yn fwy amlwg yn y Cristionogion cyntefig na sêl ac ymdrech mawr o blaid athrawiaeth yr efengyl a'i lledaeniad. Yr oeddynt wedi ymroddi yn gwbl i hyn. Nid oeddynt yn ceisio dim arall—dim bydol. Hyn a ystyriant yn ddyben eu bywyd. Yr oedd Elias, Eliseus, y prophwydi, Crist a'i apostolion, Ioan Fedyddiwr, a'r diwygwyr oll, megys y feirw i bob peth arall. Yr oeddynt—fel y môr yn Cape Horn, yn rhedeg yr un ffordd bob amser—"yn dal dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bur." Trwy eu sêl a'u hymdrech dros y gwirionedd y darfu iddynt dynu gŵg y byd arnynt eu hunain, a achosi yr erledigaethau mawrion a ddiodefasant; *Jer.* xx. 8. vi. 10. Dyma destyn yr ymrafael. Nid oedd dim i'w gael yn erbyn Daniel, ond yn "achos cyfraith ei Dduw." Addefai wrthwynebwy'r ei fod yn mhob peth arall yn ddifai. Er mwyn enw Crist y cafodd y Cristionogion boreuol eu herlid. A phan erlidid hwy ger bron brawdlysoedd, nid oedd dim i'w roddi yn eu herbyn ond eu hathrawiaeth. Trwy fod yn offerynol i gynnal athrawiaeth yr efengyl, a'i lledaenu yn y byd, y mae y eglwys yn "oleuni y byd," yn "halen y ddaear," yn "dystion Duw, ac yn "brenau firwythlawn." Er fod yn perthyn i bob aelod ymladd o blaid y ffydd yn ol ei dalentau a'i gymmhwysder, etto nid yw y rhai anwybodus yn cael eu rhwymo i feirw iadu gweinidogaeth yr efengyl, ac i feiddio condemnio yr ffydd allan o gyrhaedd eu gwybodaeth; ond dylent yn hytrach gymmeryd eu dysgu a'u harwain, ond gyda chydwybod a gwirionedd. Y mae fod Cristionogion anwybodus yn beirw iadu ac yn condemnio athrawiaethau nas gallant eu gwrtthredu ac yn beio pob peth croes i'r tybiau culion a disail y byddai.

hwy eu hunain yn eu mabwysiadu, yn arwydd o'r ysbryd gwaethaf, ac yn tueddu i gynnyrchu effaith niweidiol iawn. Y mae llawer, dan rith amddiffyn y gwirionedd, yn eu hanwybod-aeth, wedi heintio a llygru eglwysi cyfain âg ysbryd chwydd-edig, cynhenus, ac enllibaidd; a drwgliwio ar gam gymmeriad y dynion goreu gydag achos Duw. Y mae yr eglwys i gynnal y gwirionedd yn y byd, ac i ymdrechu o'i blaid, trwy arfer pob moddion cyfaddas fyddo yn ei chyrhaedd tuag at ledaenu yr efengyl dros y byd; a thrwy dystiolaethu y gwirionedd yn ddiysgog yn erbyn cyfeiliornadau a llygredigaethau y byd; ac yn benaf oll, trwy rodio yn ol y gwirionedd. Trwy rodiad sanctaidd yr "harddant athrawiaeth Duw." Dylai yr eglwys fod â'i bryd ar ledaenu yr efengyl dros y byd fel ei dyben penaf. Fel megys yr anfonodd y Tad yr Arglwydd Iesu i'r byd i weithio iachawdwriaeth, felly yr anfonodd y Mab yr eglwys allan i'r byd i'w chyhoeddi hyd eithaf y ddaear. Fel megys yr ymroddodd Crist i'w waith ef yn ddiysgog a hunanymwadol, trwy warth, poenau, ac angeu; felly y dylai yr eglwys ymroddi i'w gwaith hithau drosto ef. Trwy hyn y mae yr eglwys i gydfurfio â marwolaeth Crist, a dilyn ei esampl ef: a thrwy yr ymroddiad mwyaf egnïol i hyny gallant amlygu cariad at Dduw, a ffydd yn Nghrist, ynghyd â chariad at eneidiau dynion.

2. Rhodiad sanctaidd ydyw y rhan fwyaf pwysig o'r broffes Gristionogol. Nid oes dim yn cael ei orchymyn i'r saint yn fwy mynych, a chyda mwy o bwys na hyn. Y mae rhai yn hōni gofal mawr am yr athrawiaeth, ond yn afreolus o ran eu rhodiad; heb ystyried fod eu rhodiad hwy yn gwarthruddo mwy ar yr athrawiaeth, na'r tybiau y maent hwy yn eu beio, fe allai yn anghyfiawn. Wrth "rodiad sanctaidd" yr ydywif yn deall ymddygiad diargyhoedd tuag at Dduw a dynion. Y mae hyn yn firwyth pob gras, ffydd, gobaith, cariad, ofn, ac edifeirwcu—yn effeithio yn dda ar y byd, yn gogoneddu Duw, yn harddu yr athrawiaeth, yn argyhoeddi y byd, yn iachau y cloff, ac yn ennill heb y gair. Y mae y rhesymau a ddygir yn mlaen yn yr Ysgrhythyrau i'n hannog i ymarweddiad sanctaidd yn lliosog ac yn gryfion iawn. Dadleuir priodoliaethau Duw, person, swyddau, a gwaith y Prynwr, person a gwaith yr Ysbryd Glân, gwasanaeth angylion, gweithrediadau Satan, ein breintiau efengylaidd, ein grasau, ein cyfrifoldeb, ein gwobr, ein cyflwr, a thrueni y byd. Y mae ymarweddiad sanctaidd yn cael ei orchymyn i Gristionogion gyda'r pwys mwyaf: 2 *The*s. v. 8.

3. Ymarfer â holl ordinhadau Crist. Y mae rhai yn gwneuthur swm mawr ynghylch yr athrawiaeth, ond yn afreolus yn eu rhodiad. Y mae ereill yn fanwl yn yr athrawiaeth, ac yn ddiargyhoedd yn eu rhodiad; ond er hyny yn esgeuluso rhai ordinhadau, i.e, yr ordinhadau sydd yn brif foddion cymdeithas

âg ef, megys gweddio yn gyhoeddus, gweddio yn y teula, gweddio yn y dirgel, dyfod at fwrdd y cymmun, dyfod i gydeithas y saint, myfyrdod, ac ymddiddanion syml am brofiad o grefydd. Y mae yr esgeulusdra o hyn, nid yn unig yn anafudd-dod i Grist, ond hefyd yn anafudd-dod gwirfoddol a sefydlog, ac yn anafudd-dod mewn peth o bwys mawr. Y mae yn anafudd-dod sydd yn profi diffyg cariad at Grist, neu gwylydd ei arddel. Esgeulusdra ydyw o'r hyn sydd yn fwyd ac yn ddiod egwyddor sanctaidd. Y mae nid yn unig yn brif foddion i gynnal a chynnyddu egwyddorion sancteiddrwydd, ond y mae yn foddion ag y mae egwyddor sanctaidd yn fwyaf tueddol i'r harfer. Y mae yr ymarferiad â'r ordinhadau a nodwyd y peth mwyaf hanfodol i rym duwioldeb; a gellir sicrhau fod y diffyg o hyn yn brawf digonol o amddifadrwydd o wir grefydd. Y mae y pethau a nodwyd mor hanfodol i wir grefydd ag ydyw anadlu, neu ymborthi, i fywyd. Y mae mor hanfodol i fywyd crefydd ag ydyw y cyssylltiadau sydd yn y corph er trosglwyddo lluniaeth i gynnal bywyd naturiol. Y mae ymarferiad cyssylltiadau â'r ordinhadau a nodwyd, nid yn unig yn ofynol i brofi gwrionedd crefydd, ond y mae mor angenrheidiol tuag at fod yn ddefnyddiol dros Dduw. Y mae y rhan fwyaf o ordinhadau crefydd wedi eu bwriadu i fod yn foddion i'r saint i effeithio ar ereill. Trwy y rhai hyn y maent i gynnyddu eu hunain mewn gras, i adeiladu eu gilydd, ac i ennill y byd. Prif ddybenion crefydd ydyw gogoneddu Duw, lledaenu teyrnas y Cyfringwr, adeiladu a chysuro y saint, ac achub y byd. Yr unig foddion cyfaddas a sicr i ateb y dybenion hyn ydyw ordinhadau crefydd, ynghyd â rhodiad sanctaidd. A oes neb yn hōni ei fod yn gelfydd, ac yntau heb erioed arfer arfau y gelfyddyd hono? Trwy arfer y rhai hyn yn unig y gall brofi ei fod yn alluog weithio y gelfyddyd hono. Y mae i ddyn hōni ei fod yn Gristion, ac esgeuluso ordinhadau crefydd, fel un yn hōni ei fod yn rhifyddwr heb erioed wneyd rhifnodau; neu un yn hōni ei fod yn ysgolhaig, heb erioed arfer yr egwyddor; neu yn filwr, heb erioed arfer trin arfau; neu yn forwr, heb erioed arfer bod ar long. Y mae "ymaflyd yn ei gyfammod" yn cynnwys ymaflyd yn ei holl ordinhadau. Y mae awydd mawr iawn yn y gwr saint am ordinhadau crefydd: "Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny a geisiaf; sef, caffael trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymfyn yn ei deml;" *Salm xxvii. 4.* "Gwyn i fyfyr ydych chi hwn a ddewisoch, ac a nesaech atat; fel y trigo yn dy gynteddoedd. Nyni a ddigonir â daioni dy dŷ, sef dy deml sanctaidd;" *Salm lxxv. 4.* Cyfrifant ordinhadau crefydd yn fronau, yn bibellau i drosglwyddo—yn gyssylltiadau y corph "A bu Saul gyda'r dysgyblion oedd yn Damascus dala"

Hyddiau;" "A Saul, wedi ei ddyfod i Jerusalem, a geisiodd i'wasgu â'r dysgyblion: ac yr oeddynt oll yn ei ofni ef, heb tredu ei fod ef yn ddysgybl;" "A chan fod yn hyf yn enw yr Arglwydd Iesu, efe a lefarodd ac a ymddadleuodd yn erbyn yr Argeiaid; a hwy a geisiasant ei ladd ef;" *Act. ix. 19, 26, 29.* Cenhedloedd hefyd a rodiant at dy oleuni, a brenhinoedd at ddsogleirdeb dy gyfodiad. Cyfod dy lygaid oddi amgylch, ac i'ndrych; ymgasglasant oll, daethant atat: dy feibion a ddeuant i'bell, a'th ferched a fegir wrth dy ystlys;" *Esa. lx. 3, 4.*

4. Y mae ymgyssylltu â chynnulleidfa y saint, os bydd amgylchiadau yn gwneyd hyny yn bossibl, yn hanfodol i broffes o Crist:—"A phobloedd lawer a änt ac a ddywedant, Deuwch, ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd, i dŷ Duw Jacob; ac efe a'n llysg ni yn ei ffyrdd, a ni a rodiwn yn ei lwybrau ef: canys y gyfraith a ä allan o Seion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem;" *Esa. ii. 3.* Y mae llawer nad ydynt yn rhoddi ond ychydig o bwys ar hyn. Y maent hwy yn tybied y gallant feddu crefydd gywir, a gadael hyn allan. Rhoddant bwys mawr ar egwyddorion uniongred, a buchedd ddiargyhoedd, ynghyd äg ymarferiad ä rhyw gyfres o ddefodau crefyddol, megys gweddio, gwrandaw yr efengyl, a phethau cyffelyb; ond hwy a gyfrifant ymgyssylltu ä chynnulleidfa o Gristionogion yn afreidiol, neu o leiaf yn beth ag y mae ganddynt hwy lawer o esgusion dros ei esgeuluso ar y pryd; megys gwaeledd crefyddwyr, eu bod yn gynnifer o wahanol bleidiau, ynghyd äg y gallant ymarfer ä noll bethau pwysig crefydd heb ymyraeth ä'r peth hwn. Rhaid i'wdded fod pechodau crefyddwyr yn rhwystr mawr i lawer o gydwybodau tyner i ymuno ä chynnulleidfa y saint; a dichon i'wdded cynulleidfa yn hõni ei bod yn saint, ac yn cynnal defodau gwasanaeth Duw yn rheolaidd fel eglwys, ond wedi dyfod mor adfeiliedig yn ei dysgyblaeth a'i moesau, fel ag i ymddangos i enaid gwir argyhoeddedig yn annheilwng o gael ei chyfrif yn eglwys i Dduw; ac am hyny, na byddai eu gwaith yn ymuno ä hi yn tueddu dim i ogoneddu Duw, nac yn lleshäd nac yn adailadaeth iddynt hwythau eu hunain. Gan hyny, nis gallant deimlo rhwymau arnynt i ymuno ä'r fath gymdeithas. Mewn trefn i ddarbwyllo cydwybodau tyner i ymuno ä ni, rhaid i ni brofi iddynt, trwy ymarweddiad sanctaidd, ein bod yn wir eglwys i Dduw. Canys oddi ar weled fod Duw gyda ni y dywedant, "Awn gyda chwi." Felly yr oedd Crist, trwy ei weithredoedd, yn profi ei Dduwdod a'i anfoniad, a thrwy hyny yn gosod rhwymau ar y genedl i ymostwng iddo, a chredu ynddo. Felly ninnau: rhaid i'r saint, trwy rodïad sanctaidd, rodïi prawf i'r byd o'u cywirdeb, i rodïi rhwymau ar ereill i ymgyssylltu ä hwy fel eglwys i Dduw. Ond lle y byddo eglwys i Dduw yn rhodio yn sanctaidd, a thrwy hyny yn profi ei bod yn eglwys i

Dduw, y mae ymuno â hon, neu ei chyffelyb a fyddo mewn cyfleusdra, yn hanfodol i'r broffes Gristionogol.

5. Y mae sefyll drosto yn gyhoeddus, dadleu ei achos yn mhob cyfle, ymddiddan am dano, yn rhan bwysig o'r broffes Gristionogol; ac y mae yn hanfodol angenrheidiol er llwyddiant teyrnas Crist.

III. Pa fodd y dylid profesu Crist?

1. Wedi bwrw y draul, rhagolygu y rhwystrau. Er nad ellir gweled yr holl rwystrau, etto rhaid caru Crist uwch law pob peth arall a all ddyfod i'w erbyn. "Megys â chleddyf yn fy e-gyrn y mae fy ngwrthwynebwyr yn fy ngwaradwyddo, pan ddywedant wrthyf bob dydd, Pa le y mae dy Dduw?" *Salm* xiii. 10. Fel y gwna y morwr, y mae yn rhaid darparu ar gyfer rhwystrau, neu fel y milwr yn myned i ryfel, gan ddisgwyl cyfarfod â'r gelyn. Felly y daeth Crist i'r byd, er gweled y dioddefiadau a'r gwarth; daeth i ddioddef o bwrpas; a rhag-fynegodd y cyfarfyddem ninnau â rhwystrau, â gorthrymder, ac â gwarth.

2. Dylid profesu crefydd, oddi ar gredu yn Nghrist fel Cŷ ryngwr: "Am hyny yr Iesu a ddywedodd wrth y deuddeg, A fynwch chwithau hefyd fyned ymaith? Yna Simon Pedr: hattebodd ef, O Arglwydd! at bwy yr awn ni? genyt ti y mae geiriau bywyd tragwyddol. Ac yr ydym ni yn credu ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw;" *Ioan* vi. 67—68. "Canys â'r galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffesir: iachawdwriaeth;" *Rhuf.* x. 10. Y mae rhai yn cyffesu heb gredu, ond nid oes neb yn credu heb gyffesu; etto profes heb grediniaeth yn wreiddyn iddi nid yw yn gysson a chyflawn. I mae ynddi fylchau a gwallau mawrion ar y goreu. Nid ydyr ond hannerog a ffuantus, fel yr hâd ar fin y ffordd. Y mae crediniaeth o'r efengyl yn cynnyrchu ufudd-dod cyflawn, trwydd. Ni ddichon fod ffydd gywir heb gyffes hefyd. Y mae y mae a gredir o'r fath bwys, fel nas gall lai na chynnyrchu teiml a gweithrediad: os credir, y rhai a gredasant a ddangosant yn eglur eu bod yn "ceisio gwlad." Dyn yn credu fod ei dŷ yn llosgi, neu fod haid o ladron ar ei warthaf, neu fod ei bleisyn wedi ei ladd—a allai efe guddio hyny yn haws nag y gall enaid guddio teimlad o bethau tragwyddol? Pan gredodd Jacob fod Joseph yn fyw, cododd ac aeth i'r Aipht: *Gen.* xiv. 26—28. I mae difyg profesu yn ffyddlon yn effaith o anghrediniaeth. I mae credu yn cynnyrchu gweithrediad a rhodiad: "Credwed yn y goleuni, fel y byddoch blant y goleuni;" *Ioan* xii. 36. I mae credu yn cynnyrchu profes: "A chwanegwyd atynt ni yn credu yn yr Arglwydd;" *Act.* v. 14. Fel y mae gweled a theiml pethau bydol yn achosi gweithrediad bywiog, ac ymddiddan

a y pethau hyny, felly y mae ffydd gyda phethau ni welir. Nis illir cuddio ffydd: y mae yn haws cuddio yr haul na'i chuddio; y mae yn haws cuddio masnach, yn haws cuddio gwaedol-eth tywysog, neu i un o genedl arall ymguddio yn Nghymru eb air o Gymraeg, ac yn haws i arweinydd byddin ymguddio, a chuddio ffydd. Y mae trysorau ffydd yn sicr o luchio i'r olwg fel tân y mynyddoedd tanllyd: os bydd yn cynneu oddi awn, ni bydd yn hir heb dori allan. Y mae fel aderyn, yn cr o ehedeg os gollyngir ef yn rhydd.

3. Egwyddor gwir broffes ydyw rhydd ddewisiad. "Os myn eb ddyfod ar fy ol i;" *Mat. xxvi. 24.* "Fel y prioda gŵr ieu-ncg forwyn, y prioda dy feibion dydi; ac â llawenydd pri-ddfab am briod-ferch y llawenycha dy Dduw o'th blegid di;" *Isa. lxii. 5.* Oddi mewn y mae cymmhellydd mawr gwir broffes, fel y tân-beiriant—nid oddi allan; fel yr ysgoga y dwfr oddi r ddeddf ei natur, ac nid cael ei yru. Y dewisiad a'i gwna yn lesur, yn gyflawn, yn rhinweddol, ac yn ffrwyth cariad. Teg dyw gadael i ddyd ddewis ei dynged dragwyddol. Dewisiad ydd ar y pen hwn. Nid fel y mae dyn yn glaf neu yn iach: id fel dy sefyllfa fydol, yr hon a reolir gan amgylchiadau; ond mae pob dyn yn cael dewis ei dynged iddo ei hun.

4. Dylid profesu crefydd yn ddiysgog, yn hyf, ac yn wrwl: "Nid ysgogir yn dragywydd." Y cyfiawn a ddeil ei ffordd: "Yn ddiaw nid ysgogir ef byth;" *Salm cxii. 6.* Ni phlygir ef gan ob awel; ond y mae yn gadarn fel y dderwen. Y mae fel halen: hoddwech ef lle y mynoch, yr un fydd ei ansawdd naturiol yn rhob man. Y mae llawer yn llwfrhau, ac yn ymollwng; ond y mae dybenion pwysig profes grefyddol yn galw am ddiysgog-wydd. Dyn ffyddlon mewn ymddiried mawr sydd ddiysgog gyda phethau bydol, fel arglwydd Nelson; ond pa faint yw yr ymddiried a roddwyd i ti, Gristion? Mor ddiysgog oedd Crist, ddi ar deimlo pwys yr ymddiried a roddwyd iddo? Onid yw lynion yn ddiysgog iawn gyda phethau llai eu pwys; megys elw, mw, &c.? Y mae llawer o broffeswyr yn plygu gyda'r demtaswn, gyda phleseran y byd, ac yn cydymffurfio â'r byd hwn, fel y amelion yn newid ei liw, er mwyn heddwch. Nid ydynt fel Nelson, yn gwisgo eu coron yn y frwydr; ond yn ei diosg. Y naent fel coeden yn plygu gyda'r awel—nid fel craig yn sefyll m ddiysgog yn ngwyneb pob ymosodiad a wneir arni.

5. Dylid profesu crefydd yn gyflawn. Ni ddylai y broffes, nwy na'r grefydd ei hun, fod yn hannerog, ond yn gyflawn. I mae yr Ysbryd yn "tywys i bob gwirionedd," yn sancteiddio m "gwbl oll." O un tu, dylid diosg "corph pechod," a gwisgo 'y dyn newydd." O'r tu arall, dylid casau pob pechod, cilio ddi wrth bob "gau lwybr," ac hefyd gyflawni pob dyledswydd grefyddol.

6. Dylem lynu wrth ein profes hyd y diwedd. "Y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig." Ffol iawn ydyw troi yn ol at y diwedd, o blegid yn y diwedd y bydd yn talu yn dda—myned o'r gwasapaeth ydyw hyn ar dderbyn y gyflog! Rhaid i rai aros byth, o blegid y maent yn methu cael lle arall at eu pwrpas:—"At bwy yr awn ni? genyt ti y mae geiriau bywyd tragwyddol." Y mae rhai yn ymadael ar ganol y tymor, trwy gael lle gwael, neu feistr creulawn, neu ofni am y gyflog, &c.; ond nid ydyw hyny yma.

IV. *Y mawr bwys o broffesu Crist.*

1. Ymddengys fod cyffesu Crist yn hanfodol i wir crefydd. Y mae dynion yn cyffesu eu pethau penaf—y pethau y disgwyliant fwyaf oddi wrthynt gyda'r byd; y mae y celfyddydwr yn profesu ei gelfyddyd, a'r masnachwr ei fasnach. Eisteddwch gyda phlant y byd hwn ond am hanner awr, a chewch eu clywed yn troi at eu pethau eu hunain. A gaiff bydolwyr gyffesu eu pethau—ac a raid i Gristion fod yn fud am bethau mwy? Y sin mawr a wna yr annuwiolion am eu pethau—oni ddylai y Cristion gyffesu ei bethau ef? A ddichon crefydd ddwyn y galon yr holl fryd, a bod yn beth penaf, heb fod yn werth son am dan? Onid "o helaethrwydd y galon y llefara y genau?" Os caiff Crist y galon, caiff y tafod a'r fuchedd. Ai llai ydyw cariad Cristion at Grist na chariad y meddwyn at ei chwant? neu yna ai llai ydyw teilyngdod Crist na phethau y cnawd? A ydyw Mahometan a'r pagan yn myned trwy y byd heb ddangos eu hochr o ran crefydd? Pa ham y dylai y Cristion ynte fyned drwyddo heb ddangos ei ochr? A ydyw dyn a agorodd e lygaid ar bethau tragwyddol i dewi son am y farn, yr enaid, a gogoniant Crist? Pa beth sydd gan y celfyddydwr, neu y gloddestwr i'w gyffesu, ac i wneyd trwst o'i blegid, mewn cymhariaeth i'r pethau sydd gan y Cristion?—y pethau y creodid Duw y byd er eu mwyn, ac y mae yn ei gynnal a'i reoli er eu mwyn; y pethau y daeth Mab Duw i'r byd o'u plegid; y pethau y bu yn chwysu y gwaed o'u plegid; y pethau y mae yr Ysbryd yn eu dadguddio, angylion yn eu rhyfeddu, y farn yn eu dangos prophwydi yn eu rhagfynegu, a'r byd tragwyddol yn eu hegluro. Os oes dim yn y byd yn haeddu gwrandawriad, pethau tragwyddol sydd. Y mae dynion yn cyffesu y pethau sydd yn dda eu bryd a'u calonau. Crefydd sydd wedi dwyn bryd a chalon y Cristion, ac yn benaf peth yn ei olwg. Y mae ei "serch ar y pethau sydd uchod:" y mae yn trysori ei drysor yn y nef; yna y mae ei etifeddiaeth: y mae wedi marw i'r byd, ac yn byw i Dduw. Dyn ysbrydol ydyw, a phethau ysbrydol yw ei bethau penaf. O! y fath hyfrydwch mawr a gymmerai y duwiolion gwrol mewn crefydd, a'i hordinhadau!

2. Y mae Duw yn addaw dwyn dynion pechadurus i'w dŷ, i blith ei bobl, fel rhagorffaint fawr: *Esa.* lvi. 5, 6, 7.

Y mae Crist wedi rhoddi ei hun yn bridwerth, i'r dyben gael ei gyffesu felly i'r byd. Y mae y Tad wedi ei roddi ar yhoedd i'r byd.

4. Y mae yn addaw gwrandawriad gweddi i'r gymdeithas yn yssylltiol â hyn.

5. Y mae profesu yn ffurfio cyfammod.

Y mae dau gyffesu yn y testyn, yn gyferbyniol â'u gilydd; n yn cael ei wneyd mewn amser, a'r llall yn y farn. Yr wyt mewn cyfle i'w gyffesu ef yma; ond bydd Crist yn cael cyffusdra cyhoeddus i gyffesu yn y farn. Yr wyt ti at dy ryddid ma, pa un a wnei ai ei gyffesu ef, ai peidio; ond bydd yntau t ei ryddid yn y farn i beidio dy arddel di. Y mae genyt ti yw radd o ddylanwad yma, naill ai i wradwyddo Crist trwy ei radu, neu i'w ogoneddu trwy ei arddel; bydd ganddo yntau yn farn ddigon o ddylanwad ac awdurdod i'th anfon di i afael gwradwydd tragwyddol. Dy dymmor di i osod Crist lle y cynech ydyw hwn; ond ei adeg ef i'th osod di lle y myno fydd i'w wadu, a bydd dy ddedfryd dragwyddol yn troi yn gwbl ar iddo ef dy arddel neu dy wadu. Yr wyt ti yn rhoddi pob peth sydd genyt ti, ac a elli, yn ei erbyn neu o'i blaid ef yma; a bydd yntau yn talu yn ol i tithau yn y farn. Ond y mae gwahaniaeth nawr rhwng y ddau gyffesu. Yr wyt ti yn ei wadu ef yn unghyfiawn; ond bydd efe yn dy wadu di ar dir cyfiawnder perffaith. Nid wyt ti ond yn cyffesu mewn cylch bychan; ond bydd ef ar gyhoedd pawb. Nid yw dy wadu di yn effeithio dim wrno ef; ond os gwâd efe dydi, caiff effaith mawr a thragwyddol i'w wadu. Ar ol i ti wadu, byddi yn edifarhan etto; ond nid edifarha efe byth. Dyna fydd dy ddedfryd dragwyddol—dim ond ddo ef dy wadu neu dy gyffesu ger bron ei Dad: fe wobrwyr pawb a gymmeradwyir ganddo ef. Bydd gan Fab Duw y fath ddylanwad yn y farn fel y caria efe deimlad yr holl dyrfa ddiifedi fydd yno gydag ef am byth.

PREGETH XLVII.

SEL MEWN CREFYDD.

Dadguddiad iii. 19.

"Am hyny bydded genyt sêl, ac edifarha."

Y MAE eglwys Crist yn dueddol i adfeilio mewn gras tufewnaid, oeri yn ei sêl, a myned yn ffurfiol yn ei harferiadau crefyddol. Nid ydyw ei sancteiddrwydd yn hunan-ymddibynol, fel yr eiddo Duw; gan hyny, y mae yn agored i adfeilio drwy iddi esgeirio, uso derbyn a chyfranogi yn wastadol o'i sancteiddrwydd ei. Nid ydyw ei chariad yn hunan-gynnhyrfiol fel yr eiddo Duw, gan hyny, y mae yn agored i oeri trwy golli golwg ar deilyngdod ei gwrthddrych—y teilyngdod anfeidrol hwnnw sydd yn *ademandio* a'i hawlio. Adfeilia yn ei ffydd a'i hymddiried yn y Cyfryngwr, drwy golli golwg ar ogoniant Crist. Adfeilia yn fuan mewn sêl ac eiddigedd dros ogoniant Duw a lles pechuriaid, drwy ymddyethro o ran ei meddwl oddi wrth bethau ysbrydol—y pethau hyny sydd â thuedd ynddynt i ennyn sêl. Ei chyflawniadau crefyddol yn fuan a ddeuant yn ffurfiol ac yn arwynebol, ac yn amddifad o deimladau bywiog ysbrydol, drwy iddi gilio oddi wrth yr Arglwydd o ran ei hysbryd, a chodi ymaith o ran ei serchiadau oddi ar bethau sydd uchod. Y mae ordinhadau crefydd wedi eu bwriadu, nid yn unig fel moddion i blanu dawn Duw yn y rhai nad ydynt yn ei feddu, ond hefyd i'w adnewyddu, a gweinyddu cynnalïaeth barhaus iddo yn y rhai a'i derbyniodd.

Onid nid ydyw y moddion y fath na ellir eu camarfer, fel na byddant yn effeithiol i ateb y dybenion hyny. *Cymmeryd* y moddion yn lle y dyben sydd yn sicr o beri iddynt fod yn offer. Golygu fod cyflawniad o ryw gyfres o ddefodau crefyddol yn digon o grefydd, ac ymfoddloni ar hyny fel digon—camosod y moddion yn lle y dyben ydyw hyny: felly y moddion yn unig a gyrhaeddir, ac fe gollir y dyben mawr. Gellir myned trwy ffurfiau crefyddol gyda chyssondeb a manylrwydd, a bod yn hollol ddyeithr i ysbrydolrwydd crefydd, i gymdeithas sanct-

Id â Duw mewn Cyfryngwr, a sêl ac eiddigedd dros Dduw. id yw corph cyflawn o ddefodau ond celain marw heb fod sbryd Duw ynddo yn fywyd ysbrydol, cariad at Dduw yn cynhyrfu pob ysgogiad, a sêl dros ei ogoniant ef yn llosgi ac n difa nwydau drwg y galon. Y mae eglwys Duw yn y byd wn yn agored i adfeilio mewn sancteiddrwydd a defnyddioldeb oddi wrth lawer o achosion; megys oddi wrth yr amgylchdau y mae ynddynt yn ei pherthynas â'r byd annuwiol, ac thrafferthion bydol. Y mae hi fel gwyneb y ddaear—y rwydd yn effeithio llawer arni. Y mae y tywydd yn cyfnewid n fynych, ac y mae pob awel yn chwythu arni: pa un ynag ai oer ynte cynnhes fyddo, ni all lai nag effeithio rhyweth arni. Y mae fel pen mynydd hefyd, a'r tywydd cryfaf n taro arni hi. Nid ellir bod yn berffaith sanctaidd hyd oni yngcir yr enaid i fyny yn gwbl i bethau tragwyddol, ac iddo wyr ymadael â phob gwrthddrych a thrafferth, ond Duw ei un: — "Yno y byddwn yn wastadol gyda'r Arglwydd." Iefyd, oddi wrth ei llygredigaeth tufewnol, amherffeithrwydd i hadnabyddiaeth o Dduw, gwendid ei ffydd, diffygion ei charid, a bychander ei hegwyddor sanctaidd, fel un heb ei hollol achau, y mae yn agored i adfeiliad; ond wedi ei pherffeithio, hi a rys yn sefydlog. Y mae amherffeithrwydd yn agoriad i adfeiliad a drylliad:—palas wedi ei orphen a bery. Hefyd, oddi wrth nwydau ein natur a'n blysiâu cryfion. Corph ysbrydol fydd n y nef, heb fod y tueddiadau hyn yn perthyn iddo. Y mae ywydau hyn bob amser yn aflonydd, yn fywiog, a gweithgar, yn ynu yn gryfion at eu gwrthddrychau, a dygant y serch yn ræth iddynt, oddi eithr iddi ddal gafael diysgog yn y Duw ragwyddol, a chymdeithasu yn ddidor â rhagoriaethau, teilngdod, a phleser anfeidrol uwch law teganau a nwydau. Ymdeingys esamplau eglur o'r duedd hon i adfeilio mewn crefydd mewn credinwyr yn mhob oes o'r byd. Wedi i'r Arglwydd ymweled â'i bobl â thywalltiadau grymus o'r Ysbryd Glân, ac adnewyddu yn rhyfeddol ei ddoniau nefol yn yr eglwys, a rhoddi holl ganghenau crefydd ar gyhwyn newydd a grymus yn eu plith, a'i gosod i fyny yn ofnadwy fel llu banerog, ac fel aelwyd o dân yn nghanol y coed, buan y dechreuodd adfeilio drachefn, a gwywo, ac oeri yn ei sêl, a marweiddio yn ei chyflawniadau crefyddol, nes dyfod o'r diwedd heb ddim crefydd ond ffurf, ac ymroddi i'r pechodau ffeiddiaf yn mhlith y Cenhedloedd. Tywalltiadau adfywiol o'r Ysbryd a gadwodd crefydd yn fyw yn y byd o'r dechreu hyd yr awr hon. Y mae fel dyn claf yn adfeilio, hyd oni chaffo *physic* i beri gradd o welliant; yna adfeilia drachefn, hyd oni chaffo drallod: ac fel hyn y mae yn myned yn mlaen "o nerth i nerth." Y mae rhwystrau yn cyfodi yn raddol, hyd oni ddelo y llanw i'w hysgubo ymaith:

—“Pan ddelo y gelyn i mewn fel afon, Ysbryd yr Arglwydd a'i hymnid ef ymaith.” Gwelir hyn oddi wrth yr angenberdwydd sydd am arfer moddion newydd ac effeithiol i gyffroi yr eglwys, ac i adnewyddu ei sêl. Rhai a gynnygiant oesod moddion sefydlog a digyfnawid, heb fod moddion newydd byth i gael eu dwyn i mewn i beri cyffro a deffroad, ac i ennill yr annwylion yn raddol. Ond ffeithiau a brofant eu hanaddasrwydd. Y mae gwybodaeth, a sêl, a chariad yr eglwys eto yn rhy fach i'w chadw yn effro heb foddion i'w chyffroi yn aml, ac i'w hadnewyddu. Yn y mil blynnyddoedd, dichon y cyrhaedda yr eglwys y fath raddau uchel o wybodaeth a sancteiddrwydd a'i ceidw yn effro heb adfeilio mewn sêl. Nid deffro, a rhwio llygaid, a chysgu drachefn, fydd yn y mil blynnyddoedd; ond mae dydd fydd hwnw, a adwaenir gan yr Arglwydd; a bydd yr eglwys heb gyntun ar ei hyd. Ni bydd raid ymdrechu i ddi-diluw o fyddolrwydd yn ol. Ni bydd cynnhyrifiadau gwladol yn dwyn sylw y byd oddi wrth grefydd, fel yn awr. Dechreuad gwrthgiliad ydyw adfeiliad sêl; y cam cyntaf mewn gwrthgiliad ydyw oeri mewn sêl, a dyfod yn ffurfiol yn y cyflawniadau crefyddol; ac o hyny cewir yn mlaen i esgeulusdra o foddion gras; a'r trydydd cam fydd i bechodau gwarthus, a gwrthgiliad cyhoeddus. Nid oes neb yn rhoddi y cam olaf heb roddi y cam cyntaf.—Nid oes neb yn camu i bechodau gwarthus o ganol cymdeithas a Duw, o fynwes yr Iesu, yn llawn sêl dros Dduw. Rhaid fod sêl yn mlaenaf wedi oeri, cyn y gellir llamu i bechodau gwarthus. Gan hyny, gochel y cam cyntaf hwn. Wedi rhoddi hwn, yr wyt wedi ymbarotoi i roddi yr ail, a'r ail a'r tair barotoa i'r trydydd. Dechreu *powllo* i lawr ydyw! Ddisg dy arfogaeth i ymladd ydyw oeri mewn sêl. Y mae yn gychwyniad gyrrfa o wrthgiliad a ddibenodd yn uffern i filoedd. Y mae marweidd-dra ffurfiol, ac oerfelgarwch, wedi gorddiwes crefyddwyr yn Nghymru; y mae'r penwyni hwn wedi ymdaenu dros yr holl eglwysi—dros yr holl enwadau a'r sectau—dros ein holl gyflawniadau crefyddol. Y mae yn ymddangos yn ein pregethau, yn ein gweddian, yn ein hymddiddanion, yn ein canu, ac yn ein darllen. Yr ydym yn ei wisgo fel dilledyn yn mhob man: yn ein teuluoedd, yn yr eglwysi, ac yn y dirgel. Y mae llawer o bregethau hefyd yn addasach i siglo cryd pechaduriaid i gysgu i uffern nag i'w deffroi.

Yn awr, oddi wrth y testyn, ni a sylwn, yn

I. *Ar natur gwir sêl sanctaidd.*

1. Yn nacaol.

Iaf, Nid poethder prysur, byrbwyll, a difarn, ydyw gwir sêl sanctaidd. Rhai a gamgymerant bob rhyw brysurddeb ddisynwyr yn lle sêl sanctaidd, a bywiogrwydd ysbrydol. Rhai a

edant yn fyrbwyll ar ol pob siarad gwael am grefyddwyr drwy y ymmydogaeth, ac a ddisgwyliant i hyny ymddangos yn y farn awr yn sêl dros Dduw. Nid ydyw gwir sêl yn colli y cyfle i mddiffyn gogoniant Duw, a gwneyd lles i bechadur; ond y mae'n cymmeryd amser i edrych am y llwybr a'r moddion mwyaf loeth: y mae bob amser yn gyssylltiedig â doethineb a phwyll, le y byddo yn gweithredu yn iawn. Y sêl a dorodd allan yn pedr pan dorodd efe glust gwas yr archoffeiriad, nid oedd o'r awn ryw—nid oedd wedi ei chyssylltu â doethineb a phwyll. Mae pob chwedl gelwyddog iddynt fel y gyrwr i'r march ysrydol—yn eu rhedeg. Sêl fyrbwyll oedd sêl Moses, pan y torodd efe y llechi.

2il, Nid sêl anwadal ydyw. Nid bywiogrwydd ac eiddigedd nsefydlog ydyw gwir sêl. Y mae anwadalwch mawr yn arwydd ryf o ragrith. Fel "gorfoleddu dros amser," a "hâd ar y raig," a "thŷ ar y tywod," y mae y rhagrithiwr gyda phob rath. Y mae rhai yn selog fel y byddo eu teimladau, ac nid yn ll y rheol—yn dân weithiau, ac yn rhew bryd arall. Nid march ioglyd ydyw gwir sêl; ond ŷch ffyddlawn, â'i ysgwydd wrthi yn vastad. Gwna rhai y cwbl weithiau, ond dim brydiau ereill; ac y mae tymmher peidio gwneyd dim yn eu dal yn amlach na'r lall. Nid ffagl yn darfod fel tân *powdur* ydyw tân yr Ysryd; ond tân sefydlog, fel y Shecinah yn y deml. Cynnhyrfad disymmwrth a darfodedig sydd debyg i gareg yn cael ei thafu'r entrych gan ryw beiriant, ond yn disgyn yn fuan, pa mor uchel bynag y teflir hi; ond y mae gwir sêl fel aderyn byw, yn aros ar ei ehediad.

3ydd, Y mae sêl hunanol yn bod. Y mae rhai yn selog iawn dros eu tybiau crefyddol; nid oddi ar gariad at Dduw, ond oddi ar eiddigedd dros blaid, neu oddi ar deimlo perthynas rhwng llwydd y tybiau hyny a'u hanrhydedd hwy. Gwrthwynebant syniadau ereill yn frwd iawn: nid oddi ar eiddigedd dros ogoniant Duw, ond oddi ar deimlo eu bod yn erbyn y tybiau a gol-eddir ganddynt hwy.

4ydd, Y mae sêl heb wybodaeth. Sêl felly oedd gan yr Iuddewon o blaid Iuddewiaeth; sêl y paganiaid dros eilunaddoliaeth; sêl y Mahometaniaid dros eu crefydd; a sêl sectau Cymru dros eu sect a'u plaid. Y mae y sêl hon fel ceffyl dall. Y mae rhai pobl yn cymmeryd arnynt ofalu am yr athrawiaeth, fel pe byddent wedi derbyn gorchymyn o'r nefoedd i ofalu am dani, a chondemnant bawb a ddywedant ddim yn groes i'w meddyliau culion hwy.

5ed, Sêl greulawn. Tybia rhai mai oddi ar wir sêl sanctaidd y maent yn bwrw geiriau celyd a chwerwon at ereill, yn enwedig at annuwiolion, neu at bechaduriaid beus, wrth eu ceryddu neu ymddwyn atynt gyda dirmyg ac atgasrwydd diystyrlyd; ie,

a'u casâu. Y mae gwir sêl yn eiddigus dros leshâd y gwrth-ddrych; ynghyd â gogoniant Duw; ac y mae yn gyssylltiedig âg addfwynder a mwyneidd-dra. Amlygai Crist sêl danlyd pan yn bwrw allan y prynwyr a'r gwerthwyr o'r deml; ond defnyddiai er hyny foddion tirion—fflangell o fân reffynau. Sêl gwelawn sydd yn gweddio am dân o'r nef: ac y mae sêl y Pabyddion a'r Iuddewon o'r rhywogaeth hon.

2. Yn gadarnhaol.

Y mae gwir sêl yn cynnwys yr ymroddiad mwyaf llwyr i weithio yn fywiog ac egniol, oddi ar deimlad dwys o bwys pethau ysbrydol, o blaid gogoniant Duw ac iachawdwriaeth y byd, ac adeiladaeth yr eglwys. Neu, cariad tanlyd tuag at Dduw ydyw, yn tori allan yn ymdrechiadau bywiog dros ogoniant Duw ac iachawdwriaeth y byd. Gwir deimlad ydyw o bwys a rhagoriaeth pethau tragwyddol, mawredd gras a chariad Duw, gogoniant y Cyfryngwr, trueni y byd, a gwerth iachawdwriaeth pechadur; a'r teimlad hwn yn cynyrchu gweithrediad priodol iddo ei hun. Athrawiaeth y dadguddiad dwyfol mewn ymarferar y ddaear ydyw gwir sêl. Pethau tragwyddol yn cael eu dwyn i'r golwg yn eu lliw priodol a'u mawr bwys yn ymddygiad a rhodiad credinwyr ydyw sêl sanctaidd. Teimlad yn y galon, ac ymddygiad yn y fuchedd, teilwng o ddyn fel creadur cyfrifol i Dduw—teilwng o wagedd y byd, byrder amser, gwerth yn enaid, parhâd tragwyddol poenau uffern, a dedwyddwch yn nefoedd.

Er mwyn egluro natur y sêl hon, sylwn arni dan y ddau ddarluniad hwn,—cariad tanlyd at Dduw, yn dwyn allan ymdrechiadau bywiog dros ogoniant Duw.

Iaf, Y mae ei sefyllfa yn y serch. Gelwir sêl, "dwyn mawr serch mewn peth da." Gwahaniaethir sêl oddi wrth wybodaeth Y mae y naill yn y deall, a'r llall yn y serch. O un tu, dichon gwybodaeth fod heb sêl; o blegid gall un "wybod ewylllys a Arglwydd, ac heb ei gwneuthur;" ac o'r tu arall, dichon fod heb wybodaeth; sêl felly ydyw sêl gau grefyddwyr. Ond ni ddichon fod gwir sêl sanctaidd ond yn gyssylltiedig â gwybodaeth. Nis gellir caru Duw heb ei adnabod: "Cariad, o Dduw y mae; a'r hwn sydd yn caru, o Dduw y ganed ef, ac y mae ef yn adnabod Duw." Am fod sêl â'i sefyllfa yn y serch y priodolir iddi y fath weithrediadau bywiog a thanlyd. Cyfrifir hi yn ffynnonell o'r hon y tardd yr ymdrechiadau mwyaf bywiog, a'r gorchestion mwyaf nerthol ac egniol. Gweithrediad bywiog, egniol, ymroddgar, di-ildio, a gyfrifir yn weithrediad sêl. O'r serch, gan hyny, y rhaid i hyn darddu—y serch ydyw ffynnonell bywiogrwydd ac ymdrechiadau dynion.

2il, Gweithrediad grymus y serch tuag at Dduw a phethau sanctaidd ydyw gwir sêl. Ei nôd hi ydyw dedwyddwch dynion,

ogoniant Duw, a gwobr y Cyfryngwr. Y mae dynion yn dwyn Æl fawr dros bethau ysgeifn a darfodedig. Dichon dyn ddwyn hyw fath o sêl dros bethau da a theilwng; etto heb fod o natur anctaidd. Y dysgyblion a ofynasant am dân o'r nef i ddifa gelynion, oddi ar ryw fath o sêl—"Ond," meddai Crist, "ni ryddoch o ba ysbryd yr ydych." Gwir sêl—y mae iddi wrthdrychau sanctaidd bob amser. Gweithreda o blaid sancteiddwydd:—"Fy sêl a'm difaodd 'o herwydd i'm gelynion anghofio ly eiriau di." Y mae uchder a theilyngdod y gwrthdrysion yn gynnorthwyol iawn iddi ddwyn allan ymdrechiau mawrion bywiog. Yr oedd Crist yn dra eiddigus dros ogoniant ei Dad, lleshâd pechaduriaid, ac ymddygai yn wrol a diysgog o blaid pethau hyny; ond mor llwfr ac ystwyth yr ymddygai yn ei achos ei hun, ei enw, a'i bleserau, &c. Ni ddioddefai y naill, ond dioddefai y llall yn dawel. Galwai yr apostel yn Satan am geisio gwrthsefyll y dybenion hyn. Argyhoeddai ragrith, a thwyll, a shechodau yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn llym a didderlyn-wyneb. Galwai Herod yn gadnaw, a'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn rhagrithwyr, pan fyddai hyny yn ofynol er gogoniant Duw. Ond dioddefai y triniaethau creulonaf, y gwawd, y swaradwydd, a'r cabledd, yn dawel. Un dros ogoniant ei Dad oedd Crist yn mhob peth. Dyma oedd amcan mawr ei athrawaeth, ei wyrthiau, a'i holl fywyd. Nid oedd yn teimlo ei achos ei hun, os cai ogoniant ei Dad i fyny. "Ni ddaeth i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros awer."

Sydd, Y mae gwir sêl sanctaidd yn tori allan yn y fuchedd yn weithrediad llafurus, ac yn llwyr ymroddiad i ddefnyddio pob noddion cyfaddas a fyddo mewn cyrhaedd tuag at gyflawni y dybenion hyny y dygir sêl drostynt, a gwrthwynebu ac attal y bethau hyny y mae gwir sêl yn eiddgeddu yn eu herbyn. Rhai honant eu bod yn meddu teimladau tumewnol grymus o blaid gogoniant Duw ac iachawdwriaeth y byd—ond nid ydynt ond eimladau diffwrth. Nid oes dim gweithrediaidau egniol o blaid gogoniant Duw ac iachawdwriaeth y byd yn tarddu oddi wrthent. Nid ydyw hyny, mewn geiriau ereill, ond hōni eu bod yn aru Duw, ac heb gadw ei orchymynion ef. (1.) Y mae yr haeriad hwn, nid yn unig yn groes i holl egwyddorion dadguddiad llwyfol, ond hefyd yn groes i effeithiau amlwg deddf y meddwl ynol. (2.) Nid ydyw ein cariad tufewnol yn ateb dyben Duw yn ei dywallt yn y galon, nac yn rhoddi prawf o'i gywirdeb i'r llyn ei hun, nac i ereill, ddim yn mhellach nag y mae yn dwyn ffwrth mewn ymdrechiau llafurus dros ogoniant Duw a lles pechaduriaid yn ein bywyd: "Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad, r ddwyn o honoch ffwrth lawer." Nid ydyw profes ddi-fwrth yn gwneyd un lles i ddynion, nac yn dwyn un gogoniant

i Dduw. Cynnwysir gwir grefydd yn fynych yn yr Ysgrhythra sanctaidd yn yr ymadrodd "gwasanaethu yr Arglwydd;" yr hyn a gynnwys y drychfeddwl o ymarweddiad hollol drwyddi weithio a llafurio dros ac o blaid gogoniant Duw. Gwasanaethu Duw ydyw gwneuthur ei ewyllys ef, ac ymroddi yn hollol i wneuthur ei ewyllys ef; ei gwneuthur fel ein gorchwyl penaf; i.e., fel ein hunig orchwyl; bod heb ddim i'w wneyd ond lledaenu teyrnas y Cyfryngwr—dim i ni ein hunain ond eys belled ag y byddo yn tueddu i ogoneddu Duw.

4ydd, Cynnygiad ein Creawdwr i'n cymmeryd ni i'w wasanaeth sydd yn gosod gwerth a mawredd ar ein bywyd yn y byd hwn, a'r holl drugareddau a fwynheir genym. Ni chaiff yr enaid waith, a dybenion, a phleserau teilwng o ardderchogrwydd ei gyfansoddiad hyd oni chaiff ei osod ar waith i wasanaethu yr Arglwydd, a cheisio ei ogoniant ef. A gyfrifech chwi yn wastraff mawr roddi talentau y duwinydd dwfn a dysgedig i ysgubwr simddenau, a thalenta uchel y gwladwr dysgedig a doniol i garthwr yr heolydd? Nid mwy darostyngiad a gwastraff ydyw i ti ddarostwng dy enaid ardderchog i geisio dybenion a phleserau anifeilaidd. Heb wasanaethu yr Arglwydd, yr wyt e angenrheidrwydd yn dy ddarostwng dy hun yn gydwastad i'r anifeiliaid, y gwylltffilod, a'r ymlusgiaid. Nid yw pleserau a dybenion cnawdol ond o'r un natur ag eiddo yr anifail; ond y mae llawer yn ystyried eu galluoedd ardderchog yn rhy werthfawr i'w tywallt ar ben yr Iesu i'w eneinio; a galwant hynny yn "golled." Ond yr enaid a brofodd faddeuant, nid yw yn cyfrif yn wastraff iddo ef dywallt ei holl dalenta allan i'w anrhydeddu. Y mae llafur yn hanfodol i wir gariad tuag at Dduw a Christ. Cariad ydyw ffynnonell cymmwynasgarwch; felly cariad Duw, a chariad Crist:—"Llafur eich cariad;" "O cherwch fi, cedwch i'r ngorchymynion." Nid tân dan ludw ydyw gwir gariad; ond tân yn fflamio allan, yn ysu ac yn difa. "Y cyfiawn sydd dragarog, ac yn rhoddi benthg:" "Gŵr da sydd gymmwynasgar:" "Na charwn ar air yn unig." Nid yw gras yn llacau i rhwymau i weithio ac ufuddhau, nac yn gwneuthur ein llafur yn afreidiol, nac yn tueddu neb i esgeuluso llafurio; ond i'r gwrthwyneb. Fel y gadawodd Duw yn nhrefn natur angenrheidrwydd am waith, felly yn nhrefn iachawdwrriaeth; a rhoddi odd annogaethau cryfion i'n cymmhell a'n calonogi. Haeddiant yr Iawn ei hun, ac esampl Crist, a'i holl athrawiaeth—bwrddwyd y cwbl yn annogaethau i ufudd-dod sanctaidd. Y mae dyn wedi ei gyfaddasu i fod yn weithgar, llafurus, a defnyddiol; ac yr ydym yn gwybod trwy brofiad mai dedwyddwch ysbrydol a naturiol ydyw bod felly. Y mae llwyddiant a thawelwch meddwlyn gyssylltiedig â llafur bydol; y mae yn gymmhorth i lywodraethu y nwydau a'r blysiau, ac yn tueddu, os bydd yn

ysylltiedig â duwioľfrydedd, i felysu rhoddion Rhaglunineth, dangos mwy o'u gwerth; o blegid yr hyn a geir trwy lafur brisir yn uwch. Y mae yr fđ yn uwch ei bris na'r dwfr a'r wyr, am y rhaid i bawb wrth lafur i'w gyrhaedd. Felly y gellir ywedyd fod llafur, neu ffrwythlondeb, hefyd yn hanfodol i'r grefydd. Y mae Duw yn byw yn nghalon y credadyn; a'r heswm pa ham y mae gwir ras yn gweithredu mor effeithiol a alluog ydyw fod hollalluogrwydd o'i blaid. Os ydyw Duw n byw yn y galon, yn cyfanneddu ynddi, dengys drwy weithediadau bywiog ac effeithiau grymus ei fod ef yn teyrnasu nddi. Y mae Crist yn preswyllo yn y galon, ac yn gweithredu n ol gallu y bywyd annherfynol a dderbyniodd efe yn ei ddyodiad. Yn y modd hwn y gwneir dyn yn ddeiliad o fendithion i ddiodeffaint, ac yn adnabyddus a phrofiadol o allu ei adgyfdiad ef. Nid ydyw Crist yn y galon fel y marw mewn bedd, eb wneuthur dim; ond fel un yn ei deml—fel un yn byw, ac n teyrnasu. Y mae yr Ysbryd yn trigo yn y saint yn fywyd weithgar—nerth bywiogrwydd ysbrydol ydyw; “eglŭrhād yr Ysbryd a nerth.” Nid mewn gair y mae teyrnas Dduw, ond newn gallu: “Ni bu ein hefengyl ni tuag atoch mewn gair yn nig; eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glān.” Nid oes n perthyn i egwyddor crefydd gymmaint o swm, ond bywyd; r hwn sydd yn gweithredu yn nerthol. Gall un ymddangos n debyg i ddyn gwrol, cadarn, a hardd iawn, ond heb fywyd a ertn nid ydyw efe yn werth dim; nid ydyw yn gweithredu n gyfattebol i'w ymddangosiad. Yr hād ar y tir creigiog, nid eth ei wreiddyn yn ddigon dwfn i ddwyn ffrwyth. Ond y mae r wir egwyddor yn gwreiddio i lawr i waelod y galon, ac yn ymmeryd gafael yn nharddiad penaf y bywyd a'r gweithrediad. I'n hyn yr ymddengys gallu gwir dduwioľdeb; sef, ei fod yn ffeithiol mewn ymarferiad. At effeithiau duwioľdeb yn yr rstyr yma y cyfeiria yr apostol pan yn siarad am “rym duwioľdeb;” 2 *Tim.* iii. 5. Trwy ymarweddiad sanctaidd y gwelir grym duwioľdeb. Y mae tuedd gwir ras yn y galon i weithredu newn ymarferiad sanctaidd yn naturiol, cryf, uniongyrchol, ac ungenrheidiol anocheladwy; ac y mae marweidd-dra a segurddod n hollol groes i'w natur. Nid oes dim yn y nef na'r ddaear n fwy gweithgar na bywyd; a'r bywyd o'r fath fwyaf bywiog a gweithgar ydyw y bywyd ysbrydol—ie, bywyd dwyfol ydyw hwn. Y mae gweithio mor hanfodol i ras ag ydyw i'r ffynnon roddi ffrwd allan o'r un natur a hi ei hun, neu i'r pren ddwyn ffrwyth yn ol ei ryw, neu i fywyd anadlu:—hyn yn unig ydyw tuedd gras. Dyben Duw yn ei roddi ydyw cael ffrwyth; “ei waith ef ydym, wedi ein creu i weithredoedd da.” Hyn ydoedd dyben y waredigaeth gysgodol; “Gollwng fy mab, fel y'm gwasanaetho.” Dyben yr ethol, y sancteiddio, a'r holl

foddion ydyw, "fel y dygech firwyth." Y mae hyn yn nyben Duw fel y mae firwyth yn nyben llafurwr neu winllanydd. Yn y canwyllbren yr oedd "cnap a blodeuyn" yn gysylltu blodeuyn yn arwyddo egwyddorion y firwyth mewn addewid a'r pomgranad yn arwyddo firwyth. Nid oedd y naill byt naill y llall. Y mae mor hanfodol i wir ras firwytho mewn ym-weddiad sanctaidd, fel y cyfarwyddir ni i farnu y cyflwr wrth y fuchedd. Yr ydym i adnabod y pren "wrth ei firwyth," ni wrth ei ddail a'i flodan: ac felly yr ydym i farnu dyn, nid wrth ei broffes, ond wrth ei weithredoedd. "Goleuni yn llewys ger bron dynion" ydyw duwioldeb. Pa fodd y mae iddi wrth ei hun i ereill? Yr unig ffordd iddi i-wneyd hyn ydyw troi lewyrchu mewn gweithredoedd da. Nid fel y clywont eu geiriau da; ond "fel y gwelont eich gweithredoedd da." Rhai ymroddi i weithio gydag egni a sêl; neu mewn geiriau eraill byw crefydd, a hollol ymroddi i hyn; gwneuthur crefydd i orchwyl penaf ein bywyd; troi pob peth i fod yn wasanaethu iddi, gydag awyddfryd angerddol, llafur diffino, a phenderfyniad diysgog. Ymroddai Crist yn hollol i hyn; ei ddybenion sanctaidd a ymweithient allan drwy bob peth a wnai, a ddywedai y'r edrychai arno. Yr oedd ei fwynhâd o olygfeydd natur yn ei gyssegru i ddybenion sanctaidd—y lili, y brain, a'r adar, a'r gwenith. Cyssegrai bob sylw i sancteiddrwydd. Y mae y sylw i ymdrechu fel rhedegwyr, rhyfelwyr, gweithwyr cynhanaf; rhaid iddynt "dreisio teyrnas nefoedd;" "foi" rhag y perthyn "dringo mynydd Bsan." Y mae marweidd-dra gyda gwasanaeth Duw mor ddamniol a gwrthryfel amlwg. "Bwriwch allan y gwas anfuddiol i'r tywyllwch eithaf." "Deffro fy ngogoniant Bywhâd o farw ydyw adenedigaeth. Y mae mor bell oddi wrth fod yn droed i fywyd marwaidd, diog, cysglyd, a'i fod yn ffrwyth hâd o feirw—mor bell o fod yn ddiog, swrth, marwaidd, a'i fod yn ddyn ysbrydol. Y mae Ysbryd dwyfol yn trigo yn y marw nîd o ran hanfod, ond yn ei weithredoedd bywiog, a nerthol y mae hollalluawgrwydd yn gweithredu ac yn ysgogi ynddo o blaid gogoniant Duw.

II. *Mawr bwys sêl.*

Y mae gwresogrwydd yn ngwasanaeth yr Arglwydd mawr bwysig ag ydyw y gwasanaeth ei hun—ie, mor bwysig ag ydyw iddo fod yn wirioneddol a chywir.

1. Y mae Duw yn condemnio clauarined a ffurfioldeb gwreth chrefydd fel pethau hollol anghydwedol â natur ei wasanaeth.

2. Bob amser, braidd, pan yr annogir ni i wasanaethu yr Arglwydd, gelwir am i'r gwasanaeth fod yn un gwresog, bywiog, selog, ac yn firwyth egni yr holl enaid a'r holl nerth. "Beth bynag yr ymaflo dy law ynddo, gwna â'th holl egni." "Yr

echwch i fyned i mewn." "Rhedwn yr yrfa." "Byddwn lyfal i fyned i mewn." "Ceisiwch ddoethineb fel ceisio arian; l trysor cuddiedig." "Llafuriwch am y bwyd a bery i fywyd agwyddol." Egwyddor fawr y gyfraith ydyw hyn—"Ceri yr arglwydd dy Dduw â'th holl galon;" hyny yw, gwasanaetha : Arglwydd gyda holl wresogrwydd a bywiogrwydd dy enaid, dyro dy holl allnoedd ar waith i wneuthur hyny.

3. Y mae sêl yn hanfodol i wir grefydd. Egwyddor a dyben gyhoeddiad, ffydd, cariad, gweddi, mawl, pregethu, gwrandaw, chyfranu, ydyw galluogi a chynnhyrfu dyn i fod yn selog yn gwasanaeth yr Arglwydd.

4. Y mae sêl yn efelychiad o esampl Crist. Fe fu efe yn selog yda'n hachos ni ar hyd ei oes; felly y dylem ninnau fod gyda achos yntau.

5. Ffrwyth yr Ysbryd ydyw sêl. Cyfeiriad at sêl grefyddol 'dd yn yr ymadroddion, "bedyddio â'r Ysbryd Glân ac â thân:" Saith o lampau tân, y rhai ydyw saith Ysbryd Duw:" "Tafod- i o dân :;" pregethwyr "llawn o'r Ysbryd Glân:" ac "fel ael- yd o dân," &c.

6. Perthyna i sêl hefyd ddylanwad cryf ar y byd a'r eglwys.

III. *Arwyddion gwir sêl.*

1. Ymroddiad i geisio y dyben. Nid ymorphwys ar y ffurf llanol, ond newid y moddion os bydd angen yn galw. Dylid ychymygu moddion cymmhwys, ymholi a ydyw yr ymarferiad i'r moddion yn gyfaddas i ateb y dyben; galaru a theimlo yn iomedig os na lwyddant, ac arfer y moddion, nes cyrhaedd y dyben. Nid oes dim yn rhoddi boddlonrwydd i'r Cristion ond ael gafael ar y dyben. Y mae yn cyfrif ei holl ymarferiadau refyddol yn ofer, yn rhagrithiol, ac yn anghyfaddas nes ei gael. Mae mor bell o ymfoddioni mewn ffurfiau crefyddol, nes y mae a theimlo ei hun yn gyfrifol i Dduw am gyfleusderau, a moddion, thalentau a fyddant yn ei wneuthur ef yn rhwymedig i ym- oddi yn offeryn i achub y byd rhag y llid a fydd. Y mae furfioldeb yn llofruddiaeth ar eneidiau dynion.

2. Y mae sêl yn parhau yn ddiysgog yn ngwyneb rhwystrau a hwb achosion o ddigalondid, ac yn wrol didderbyn-wyneb. Ceir samplau nodedig o hyn yn Noah, Abraham, Elias, Moses, Paul, Christ; ac hefyd yn y diwygwyr a'r merthyron. Y mae sêl sanctaidd fel ager, yn gyru y llong yn erbyn y gwynt a'r llanw. Iweithrediad angenrheidiol egwyddor ydyw sêl. Nid peth yn ael ei wneyd yn unig fel pleser neu ddifyrwch ydyw: ac nid ydyw hi byth yn troi gwâr yn ngwyneb rhwystrau.

3. Y mae gwir sêl yn angerddol. Nis gall dyfroedd lawer ei diffodd. Y mae yn greulawn fel y bedd. Sêl Paul a'i cipiai i'r peryglon mwyaf ger bron brawdlysoedd. Y mae yn wrth-

wyneb i ysbryd llwfr a digalon; y mae hyfdra yn perthyn iddi. "Gosoda y wyneb fel callestr;"—ac fe wna y "talcen yn gryf." Heria y mynydd mawr yn enw y Cyfryngwr; ac er nad yw ond pryf, hi a ddyrna fynyddoedd. Sêl a weithia, nid oddi ar weled tebygolrwydd, ond oddi ar ymroddiad angerddol, cryf, a drysgog—fel ambell greadur bach yn mentro ei drech o lawer, oddi ar ffyrnigrwydd naturiol, ac nid oddi ar farnu y gorchfyga.

4. Hunan-ymroddiad. Y mae yn rhaid cael hyn i sicrhau parhâd. Y mae sêl yn ei phrofi ei hun trwy wneyd aberthau. Abertha rhai bob peth yn mron er mwyn crefydd, fel y gwneith y gŵr ieuangc. Gweddiant yn selog, gwrandawant yn doddedig, a theimplant ryw fath o anwyldeb at Grist, a rhyw ymorphwysiad arno. Soniant lawer am brofiad crefyddol, gweddiant lawer yn y dirgel a'r cyhoedd, a ffurfiant nodweddiad crefyddol yn meddyliau eu cydnabod. Gellid tybied eu bod yn caru Crist mor iawr fel na byddai dim yn ormod ganddynt ei ddioddef a'i wneyd tuag at fod yn ogoniant i Dduw. Ond rhoddwch grŵp iddynt gyfrannu at ei achos—nid allant ymadael â'u harian. O! mor brin ydynt! Siaradant lawer—ond rhad ydyw geiriau. Es haberth a brawf eu calonau. O! y fath aberthau a wna'i Cristionogion gynt! Yn eu plith hwy yr oedd pob peth yn gyffredin. Aberthodd Paul olud, parch, esmwythder, a phob peth er mwyn Crist.

5. Ni oddef y sêl hon y drygau lleiaf; i.e. y rhai anwyd. Un o'i phrif nodweddau ydyw purdeb, a gwrthwynebiad i bob pechod. Y mae gweled pechod bob amser yn ei chyffroi i'r wrthwynebu. Yr hyn sydd gâs ganddi ydyw pechod; ac na gall fyw yn dawel yn yr un man ag ef; i.e. ei gwaith gwastadedd ydyw rhyfela yn ei erbyn.

6. Nid ydyw gwir sêl yn hunanol. Nid gwaeth ganddi a aberth pwy y byddo y tân, os cyrhaeddir y dyben mawr; a chenfigena o herwydd llwyddiant ysbrydol ereill; ei hiaith yr. "O! na byddai holl bobl yr Arglwydd yn brophwydi." Y mae yn foddolawn i arall gael yr anrhydedd o fod yn offeryn i achub dynion. Gweddia dros ereill am eu llwyddiant. Nid sêl dros blaid o Gristionogion ydyw, na sêl dros ein llwyddiant a'n heuwogrwydd personol; ond sêl dros ogoniant Duw ac iachawdwriaeth y byd: a thrwy bwy bynag y cyrhaeddir y dybenion hyn y mae hi yn cael ei dymuniad. Nid ydyw fel yr oedd Corah, yneddigus o lwyddiant ac enwogrwydd Moses. Dyn iddo ei hun, a nid dyn i Dduw ydyw hwnw, na charai gael buddugoliaeth trwy ei gydfilwyr, oddi eithr iddi ddyfod yn benaf drwyddo ef ei hun. Nid dyn i'w frenin ydyw hwnw, ond dyn iddo ei hun. Ni gelynyion ei frenin yw ei elynion ef, ond llwyddiant a dyrchafiaeth ei gydfilwyr.

7. Y mae gwir sêl yn gweithredu yn gyffredinol tuag at bob

arthddrych—at Dduw, yn eiddigedd dros ei ogoniant—at ddeddf, yn gasineb a gwrthwynebiad angerddol at bob peth did yn groes iddi—at bob dyledswydd, yn ofal am gyflawni y di dirgel cystal a'r rhai cyhoeddus. Nid arbed rhai pechodau, Saul; nid esgeuluso rhai dyledswyddau, fel y gŵr ieuange; nid eiddigedd dros rai athrawiaethau achubol, a dibrisdod lleill.

8. Gweithreda tuag at bob achos yn ol ei bwys a'i deilyngd. Yr oedd yr Iuddewon yn selog iawn dros Jerusalem fel i addoli, ond yn ddiofal am ysbryd addoli. Yr oedd y Phariid yn selog iawn dros bethau ysgeifn, ond yn esgeuluso barn, chariad, a gogoniant Duw, ac iachawdwriaeth y byd; ac yn ynu yn gyndyn wrth yr enwaediad fel sêl neu arwydd y cyfmod âg Abraham. Ond yr apostolion a blygent yn hyny, mwyn pethau mwy pwysig. Plygai Crist i dalu y dreth; nid ni phlygai i gyd-ddwyn â rhagrith damniol yr Iuddewon. Nid sêl dros gywreinerwydd mewn athrawiaeth a phyngeiau nad es iachawdwriaeth yn gyssylltiol â'u credu; ond dros wiriondau achubol. Nid neillduolrwydd na chyffredinolrwydd: ond gonolrwydd a chroesaw i bob pechadur i ddyfod at Grist. Nid i fawr yn gweddio a chynghori, ond heb gyfrannu at ei achos. Nid sêl dros iachawdwriaeth dynion, heb ddim dros eu diangen o ran eu cyrph. Nid caru Crist yn fawr, heb ddim cariad at tlawd: nid cau dy dosturi oddi wrthynt. Nid yw cariad Duw i y cyfryw rai: â'r tafod y dywedant yn gynnes "Anwyl frawd! wn a hwn bach!" ond ni ddangosant dosturi ato yn ei angen. Nid ydyw crefydd fel hyn yn ddim angen na thwyll a rhagrith ollol. Nid yw cariad Duw ynddynt. Sêl dros byngeiau diwys ydyw sêl o'r fath yma, ac nid dros achubiaeth dynion—fel morwyr yn taeru ynghylch y ffordd i gadw y dyn a syrthiodd r môr; a thra y buont hwy yn taeru, fe foddodd y dyn.

9. Y mae gwir sêl yn llawenhau yn gywir yn llwyddiant yrnas y Cyfryngwr yn mhob man, ac yn mhlith pob enwad, c yn galaru yn ddwys o herwydd ei hafwyddiant.

IV. *Annogaethau i sêl.*

1. *Annogaethau yn cyfodi oddi wrth Dduw.*

1af, Y mae mawredd Duw yn teilyngu sêl a bywiogrwydd. Pan yn gwneyd gwledd i'r tywysog, fe laddodd Jacob y brasaf. Ti fyn Duw y dall a'r cloff, am mai Brenin mawr ar yr holl daear ydyw ef. Dirmyg arno ydyw i ti gynnyg iddo lai na'r holl enaid, yr holl galon, a'r holl serch.

2il, Y mae Duw yn ffyddlawn i wobrwyo, ac yn gyfoethog awn hefyd. Y mae ammheuaeth am y wobr yn llwfrhau ac yn narweiddio y gweithwyr: "Byddwch sicr, a diymmod, a helaethon yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol; a chwi yn gwybod

nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd." Rhoddodd ei addewid, ei lŵ, a'i sêl, a rhwymodd ei hun mewn ysgrifen. Y mae ystyriaeth y bydd pob anturiaeth yn llwyddiannus yn enny sêl: felly gyda hyn. Yr ystyriaeth o hyn a galonogodd y mab afradlawn, nes y dywedodd, "Mi a godaf, ac a af at fy nhad." Y mae meddwl caled am Dduw yn diffodd pob awydd gweithio drosto, ac yn peri i lawer guddio eu talentau yn y ddaear, fel y gŵr yn y ddammeg: "Mi a'th adwaenwn di, mai gŵr caled ydwyt, yn medi lle nis heuaist, yn casglu lle ni wasgeraist; ac mi a ofnais, ac a aethum, ac a guddiais dy dalent yn y ddaear," *Mat. xxv. 24, 25.* Yr hyder hwn a barodd i Grist osod ei "wyneb fel callestr"—"gŵn na'm cywilyddir."

3ydd, Y mae ei lywodraeth a'i allu yn annogaeth gref i sêl fel y maent yn sicrhau llwydd ein hymdrechiadau.

4ydd, Ei adnabyddiaeth o honom. Ar y galon yr edrychaf. Gwel nid yn unig oddi allan, ond agwedd yr ysbryd oddi fewn.

5ed, Y mae ei gariad yn annogaeth gref. Nis gellir ad-dal cariad ond trwy garu yn ol. Pe cynnygiai dyn holl gyfoeth a dŷ am gariad, "gan ddirmygu y dirmygid hyny." "Caru i sawl a'u caro" a wna natur. Pan feddylion fod un mor fawr mor gyfoethog, mor ddoeth a da, wedi dangos y fath gariad a greaduriaid oedd yn elynion iddo, ac yn cyfiawn haeddu a damnio am dragwyddoldeb, nis gallwn lai na theimlo gradd i sêl drosto yn cael ei hennyn yn ein calonau. Os nad ydyw hyn yn ein cynnyhyfu o'n marweidd-dra a'n diofalwch, nis gall dim arall wneuthur hyny.

6ed, Sêl danllyd Duw ei hun gyda phob peth a wna. Gyda fath sêl y creodd efe bob peth, ac y mae yn llywodraethu pob peth, ac yn enwedig gyda'r fath sêl y mae efe yn achub peccaduriaid! Mor annioddefol gan un bywiog, gweithgar, ydyr edrych ar un swrth, diofal, a diog! Nid oes dim syrthni gyda Duw; dim marweidd-dra a diofalwch; dim cnawd swrth ei gwmpas ef. Ysbryd bywiog, effro, gweithgar, yw Duw. Mae ddiiorphwys y gweithia efe! Mor fywiog! Mor ymroddgar a diffuant!

7fed, Y mae yn gynnefin iawn â chael ei wasanaethu a'i danllyd angylion. Gwnaeth ei weision yn ysbrydion bywiog a'i weinidogion yn "fflam dân" mewn sêl. Meistr cynnefin i gwasanaeth diog, na all gael un bywiog, a gyd-ddŵg yn wael â marweidd-dra; ond gwasanaethir Duw gyda sêl wresog, gan dorf aneirif o angylion sanctaidd; i.e, cafodd sêl danllyd y Duw ei wasanaeth.

8fed, Y mae ei arfaeth yn annogaeth i sêl a llafur bywiog. Gwna rhai hi yn obenydd i orwedd arni mewn diogi; ond y mae cynllun sydd yn sicrhau dybenion mor fawr, goruchel, ac a dderchog, yn annogaeth gref i sêl. Gŵr yn gweithio ar gynllun

en arfaeth wael, ac anghyfaddas o ran dybenion neu foddn—y mae yn ddigalon, oeraidd, swrth, a di-ysbryd gweithio. ynllun doeth Josuah i ennill Ai a ennynodd sêl, ymroad, a rwiogrwydd yn y milwyr. Caniatâd, annogaeth, ac addewid, n y draul gan y brenin Cyrus, a ennynodd sêl gref yn yr addewon i adeiladu yr ail deml. Felly y mae arfaeth Duw n llawn o galonddid a chefnogaeth i ninnau i weithio gyda hrefydd.

9fed, Y mae ystyried dyben crefydd yn annogaeth i sêl. Ymrecha dynion gyda phob peth yn ol y gwerth a'r pwys a welant n ei ddyben. Argyhoeddiad o bwys dybenion crefydd sydd yn icr o ennyn sêl a bywiogrwydd angerddol gyda hi. Y mae ei ybenion yn anfeidrol bwysig—mor bwysig fel nad yw yr holl ldybenion sydd yn cynhyrfu holl ymdrechiau masnachol a hrefyddol y byd mewn cyferbyniad iddynt ond gwagedd. Fe mddengys y dybenion yn bwysfawr a gog neddus yn y farn awr, pan y bydd dybenion fu yn cynhyrfu ymroad ac ymdrech y byd yn yr holl oesoedd yn domen ludw! A edrychwch chwi r y celfyddydwr yn chwysu er mwyn arian? ac a fydd yn ormod genych chwi chwysu i achub eneidiau? Y mae y milwr, wrth ymdrechu i sefydlu a diogelu teyrnas rhag trais a gorthymder, yn peryglu ei fywyd; ac a fydd yn ormod genych chwi ymdrechu, a dioddef, a llafurio i osod i fyny deyrnas gyfiawn—teyrnas a fydd yn iachawdwriaeth i'r byd oddi wrth drais a thrueni—teyrnas dragwyddol, sicr o lwyddo? Nid oedd ymdrechadau bywiog, diffino, ac aberthau mawrion yr apostolion, a'r r oll brophwydi, a'r merthyron, ond yn brin a chynnil yn addef a thystio pwys dybenion crefydd. Nid ydyw sêl danlyd angylion ond digon prin i ateb i bwys y dybenion hyn. Nid oedd chwys gwaedlyd, angen poenus, a gwaed gwerthfawr y Prynwr yn iaith rhy gref i osod allan yn llawn bwys y dybenion hyn; ac ni bydd tragwyddoldeb ddim yn rhy hir i'w rhyfeddu. Crewyd pob peth er eu mwyn, ac at eu gwasanaeth y trôir yr holl greadigaeth a'r planedau.

2. Annogaethau yn cyfodi oddi wrth Grist.

1af, Y mae ei esampl yn annogaeth gref. Mor selog yr oedd efe! Oddi ar sêl, dioddefai yn dawel; aberthai y cwbl oedd ganddo; gweithiai yn ddiffino; ac argyhoeddai yn llym a didderbyn-wyneb. Ei sêl a barodd iddo lanhau y deml oddi wrth y masnachwyr oedd yn ei halogi: yr oedd sêl y tŷ yn ei ysn. Fe lwyd roddodd ei galon i nesau at ei Dad drosom; a gwyddai na chywilyddid ef.

2il, Y mae rhinwedd ei aberth a'i waed i'n glanhau yn gymhellad i sêl. Buasai yr ystyriaeth fol ein gwaith yn anghymmeradwy yn ngolwg Duw yn ori ein sêl. Ond i ennyn ein hawyddfryd, dylem gofio fod gwaed yn puro y gydwylbod.

Arwydd o anghymeradwyaeth o'i waith a'i wasanaeth sydd yn diffodd sêl y plentyn; ond o'r tu arall, y mae arwydd o gymmeradwyaeth yn tanio ei sêl. Y mae Iawn Crist yn arwydd sicr o gymmeradwyaeth i ni.

3ydd, Ei addysg anffaeledig. Bydd y teithiwr yn teithio yn oer a diawyddfryd, os na bydd yn ymddiried yn ei arweinydd. Pob amhheuaeth am y ffordd a arafa ei gerddediad. Oni ddylai yr ystyriaeth fod genyt arweinydd anffaeledig gan hyny brysuro dy gamrau di mewn buchedd sanctaidd? Fe ymddiriedodd Israel i arweiniad y golofn, ac ennynai eu sêl i'w dilyn.

3. Annogaethau yn cyfodi oddi wrth yr Ysbryd Glân.

1af, Y mae yn cydweithio â ni. Cydweithia âg ymdrechriadau bywiog, tanlyd, ac egniol. Ceir esampl o hyn yn y diwygyr, Crist, Ioan Fedyddiwr, &c. Yr oedd y Phariseaid yn darllen y gyfraith, ond heb y tân hwn yn eu calonau. Pan y bydd tywysogion Judah fel tân o ran poethder, byddant fel tân yn ei effeithiau—yn ysu pob peth o'u hamgylch.

2il, Y mae sêl yn un o firwythau yr Ysbryd. Ni ddichon fod yr Ysbryd yn trigo ynot, os yn oer a di-sêl. Tân poeth yw tân yr Ysbryd. Tywelltir cariad Duw yn y galon trwy yr Ysbryd, ac y mae y cariad hwnw o ran ei natur yn wresog. Trig yr Ysbryd fel gewynau yn y corph—i ysgogi, cynnyrfu, a gweithredu. Lle y bydd "eglwyrhâd yr Ysbryd," yno y mae "nerth," ac nid gweithrediad llwfr. Y mae yr Ysbryd a gyfododd Grist o farw yn trigo yn y saint hefyd, i'w cyfodi o farweidd-dau diogi i fywiogrwydd ysbrydol.

3ydd, Ar lwybr llafur egniol y ceir diddanwch yr Ysbryd "Enaid y diwyd a wneir yn fras." Llafur sydd yn dwyn eidd. "A lafurio ei dir, a ddigonir o fara;" ac y mae digonolrwydd bob amser yn fforddio mwynhâd a hyfrydwch.

4. Annogaethau yn cyfodi oddi wrth y byd.

1af, Trueni y byd, a lliosogrwydd ei drigolion. Y saint sydd i fod yn offerynnau i ddwyn y byd at Grist. Ai mewn hanner cwsg y cynnygiwch ragflaennu tragwyddol drueni miliynau? Dylai eich bywiogrwydd, eich sêl, a'ch ymdrech, ateb i bwytragwyddol gollledigaeth y rhai sydd genych i'w rhybuddio. Gyda'r fath frys a chyffro y rhybuddiwrch yn mewn perygl ac ei fywyd naturiol! Dylai eich gwresowgrwydd gyfateb i farweidd trueni y byd, ynghyd â nifer y gwrthddrychau sydd yn y perygl. Os ydych yn "gwybod ofn yr Arglwydd," dylai hyn eich cyffroi i "berswadio dynion."

2il, Effeithiau grymus sêl ar y byd. Gall eich ymdrech iadau ffyddlawn fod yn foddion i gadw dynion. "Beth a wyddost ti, wr, a gedwi di dy wraig?" Y mae sêl sanctaidd yn gadw euo y byd—yn foddion i "gadw enaid rhag anghydwylled"—yn "mwneuthur yn bob peth i bawb, fel y gallai yn hollol gadw rhai."

Myfi a'ch cenhedlais chwi yn Nghrist Iesu:" nid heb sêl. "Y ai yr wyf yn eu hesgor drachefn;" sef, mewn aidd a sêl. Pan y rdd aidd yn ffamio yn yr eglwys, y mae yn effeithio ar y byd, a codi awydd yn y byd am grefydd: "Awn gyda chwi, canys rwsom fod Duw gyda chwi." "Clafychodd Seion, ac esgor- id ar ei meibion." Y mae un dyn tanllyd yn well na mil o lynion oerion; un gair tanllyd yn well na mil o bregethau ewedig; un weddi danllyd yn well na mil o weddiau oerion: y mae dylanwad y sêl hon yn fawr ar y plant a'r holl deulu. Mae diffyg sêl gyda phethau crefydd yn gwadu ei gwirionedd a fil cryfach nag y gall y tafod ei phroffesu â rhesymau—sêl amlyd Cristionogion a ledaenai yr efengyl yn fuan dros y byd. Mae pob cyflawniadau crefyddol yn amddifad o allu argy- oeddiadol os na bydd sêl ac ysbrydolrwydd ynddynt. Mor bell y byddant yn amlygu sêl, y mae tuedd ynddynt i effeithio y byd. Os bydd difrifwch y farn yn ein cyflawniadau cref- ddol, y mae yn sicr y cyrhaeddant gydwybodau dynion.

5. Annogaethau yn cyfodi oddi wrthym ein hunain.

Iaf, Y peth a fuoch gynt. Mor fywiog y buom yn pechu! for Annogaethol fuom i ereill bechu! Mor ddiffirwyth fuom i duw! Onid oedd dy dafod yn dân, ac yn fyd o anghyfiawn- ler, yn ennyn oddi ar dy wefusau, a'th ymadrodd yn "ysu fel ancr?" Oni ddylit fod felly, ac yn rhagorach, gyda chrefydd? Mae genyt fil o gymhelliadau am bob un oedd genyt o'r laen—y mae holl briodoliaethau Duw wrth dy law i ti ymarfogi nddynt oll. Pleser yn unig oedd o'r tu arall i'th danio. Y nae plaser myrdd cryfach, ynghyd â budd dedwyddwch tra- rwyddol, o'th blaid yn awr. Os oedd awel egwan plaser yn hwythu dy dân, yr oedd dyfroedd oerion ofnau ac euogrwydd n dygyfor fel y môr am ei ben i'w oeri; ond yma cewch hyf- ydwch i chwythu yn ddiorphwys, a chewch obaith gogoniant Duw yn afonydd o olew i gynnorthwyo y ffwrn, ac i gryfhau r eirias.

2il, Eich manteision yn awr. Cewch yn awr weithio heb rwydd drychin uwch ben, cewch fwynhau heddwch oddi mewn, a gellwch deimlo fod eich cyflwr yn ddiogel. Dylech ystyried eich sefyllfa uchel yn y greadigaeth. Nid ydych fel plentyn, k'i galon yn rhewi gan ofn soriant ei dad. Derbyniaisoch "ys- bryd mabwysiad." Cewch wasanaethu Duw yn ei heddwch. Fel y taniodd teimlad o heddwch sêl Dafydd!—"Fy enaid, ben- dithia yr Arglwydd, a chwbl sydd ynof ei enw sanctaidd ef." Yr ydych wedi eich rhyddhau o ddwyllaw eich gelynion, "i'w was- anaethu ef yn ddiofn." Mor selog y canai Israel wrth y môr, ar ol cael eu gwaredu o law Pharaoh!

3ydd, Eich budd a'ch elw chwi eich hunain. Y mae gweithio yn sicrhau gwobr fawr, sicr, a pharhaus; ac y mae plaser

uchel, teilwng o ddyd, i'w gael yn y gwaith. Cyrchu at y nôd, a rhodio y ffordd gul i fywyd, yw gwaith sêl sanctaidd. "Enaid y diwyd y wneir yn fras." "Y neb na fyn weithio, ni chaiff fwya chwaith." Y mae disgwyliad am fudd mawr yn ennyn sêl fawr:—"Ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd." "Cymmer afael yn y bywyd tragwyddol." "Mi a ymdrechais ymdrech deg; mi a orphenais fy ngyrfa; mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi."

4ydd, Eich tymmor yn y byd: "Beth bynag yr ymaflo dylaw ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni." Mor fyr y mae yr amser i weithio! ac mor ansicr ei barhâd! Mor fantesiol ydyw i wneyd daioni yn y byd! Cofiwch! yr unig dymmor a gewch byth ydyw! Ystyriwch mor bell y gall eich esamp! a'ch llafur effeithio ar ereill yn awr, ac ar yr oesoedd dyfodol. Yr ydych yn agor ffynnon newydd fydd yn rhedeg allan yn ffrydiau dros oesoedd. Bydd eich caritor yn berarogl iachus, neu yn pydra ac yn drewi fel burgyn, ac yn llenwi yr awyr â haint afiachus i'r oesoedd a ddelo ar ol. Cofiwch fod cyssylltiad rhwng eich amser a thragwyddoldeb. I chwi, ac ereill, nid oes nemawr o bwys yn eich diogi na'ch llafur, heb ei gyssylltu â thragwyddoldeb. Y pethau a ymddangosant yn llwch mewn amser, a ymddangosant yn fynyddoedd yn y farn.

5ed, Eich cyrif i Dduw. Mor fanwl, mor fuan, mor fawr, fydd y canlyniadau! Cofiwch eich bod wedi eich gosod yn y greadigaeth fel ymddiriedolwyr y Duw mawr, i ddefnyddio e holl drugareddau ef i'w ogoneddu ar y ddacar, fel y'ch cymhwyser i'w ogoneddu a'i fwynhau am byth yn y nefoedd. Y mae Duw wedi ymddiried moddion iachawdwriaeth y byd i'ch gofal, a byddwch yn gyfrifol iddo am y defnydd a wnewch o honynt. Gwelwch gyda'r fath fywiogrwydd ac ymdrech diorffus y dwg offerynau Satan ei achos yn mlaen. Y fath amrywiaeth o foddion sydd ganddynt! Y fath lafur a gymmerant! Y fath draul a ddiodefiant! Y fath galonid sydd yn eu plith! I mae i chwi elyn ysbrydol bywiog, diffino, a'i bicellau yn dallyd. Y mae lliid Satan yn wenwyn ar bob saeth. Ni wia i chwi feddwl cyfarfod â'r fath elyn yn hanner cysgu; rhaid cael yr holl egni, neu ddim. Y mae yn awr yn cyffroi ei fyddinoedd ac yn ennyn bywiogrwydd newydd yn eu plith; gwna ymosodiadau cryfach nag erioed mewn llawer dull—anffyddiaeth, anystyriaeth, a gyru crefyddwyr i ddiffrio eu gilydd. Ffarfioldeb a marweidd-dra Cristionogion a fuont yn mhob oes hyd yma; manteision mwyaf i Satan yn y byd. Tra yr oedd y dynion yn cysgu, hauodd y gelyn efrau—Mahometaniaeth, Pabyddiaeth, Sosiniaeth, &c. Y mae pob ystyriaeth, yn mha gyfeiriad bynag yr edrychwn, yn gwaeddi yn ein hwyneb, "Bydded genyt ac ac edifarha" am dy glaearineb blaenorol!

P R E G E T H X L V I I I .

DYFROEDD IACHAWDWRIAETH.¹*Esa. lv. 1.*

O! deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; ie, yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwytwch; ie, deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian, ac heb werth."

yn yr adnod hon, y mae yr Arglwydd, fel Duw iachawdwriaeth, a gwahodd ac yn galw pechaduriaid damniol, truenus, fel y cyfryw, i fwynhau iachawdwriaeth gyflawn a digonol trwy Iesu Crist. Er fod iachawdwriaeth gyflawn a digonol wedi ei threfnu an Dduw i bechadur, nid ydyw hi yn eiddo i neb ond a ddêl w derbyn drwy fydd i'r gwirionedd. Felly y mae eisieu galw gwahodd pechaduriaid i'w derbyn.

O holl bethau rhyfedd y Beibl, un o'r pethau rhyfeddaf ydyw alwadau a gwahoddiadau Duw ar ol pechadur. Y mae y estyn yn alwad gyflawn o efengyl.

I. Yr alwad.

1. Gwelir yma daerineb yr alwad: "O! deuwch." Iaf, Y nae Duw yn daer. Nid galw yn ddifater y mae—nid dangos y wledd ar y bwrdd yn unig; ond gwahodd yn daer. Nid am fod unrho dy eisieu, ond o herwydd ei ras: "Megys pe byddai Duw yn deisyf" 2il, Y mae y cenhadon yn daer. Y mae golwg ar drueni y byd, golwg ar drefn achub, a chariad Crist yn eu cymmhell, yn peri nas gallant lai na bod yn daer. Os bach ydyw ein dawn, rhaid ein goddef; ein dyledswydd ydyw bod yn daer: "Yr ydym yn erfyn dros Grist, Cymmoder chwi â Duw."

2. Galwad ydyw hon sydd yn gofyn am ufudd-dod: "Deuwch." Yma gwelwn, Iaf, Fod dyn fel pechadur yn mhell oddi wrth drefn Duw: yn mhell oddi wrth iawn syniad am dani, na gwneuthur gwir dderbyniad o honi—yn mhell oddi wrth ei

¹ Diau y darllenir y bregeth hon gyda dyddordeb neillduol, fel enghraifft o bregethau boreuaf y Parch. John Jones. Cyfansoddodd hi yn y flwyddyn 1823, pan ydoedd tua chwech ar hugain oed.

charu a'i derbyn. 2il, Fod eisieu dyfod i agosrwydd cyn y mwynheir ei hymgeledd. Rhaid dy gael i'w chymmeradwyo o ran dy feddwl cyn y bydd yn ymgeledd nac yn iachawdwriaeth i ti. 3ydd, Fod dyn i fod yn weithredydd, ac nid yn oddefydd yn unig, yn ei ddyfodiad at Grist. Gwaith y dyn ydyw edifarbau a chredu yr efengyl.

3. Galwad i ddyben teilwng: "I'r dyfroedd." Nid at y dyfroedd, ond iddynt—i'w mwynhau, i yfed o honynt; nid i'r oedfa yn unig, ond i'r dyfroedd—i fwynhau o'r iachawdwriaeth.

4. Galwad helaeth ydyw: "Pob un." Iaf, Pob cenedl. Dan yr hen oruchwyliaeth, nid oedd ond y genedl Iuddewig yn unig yn mwynhau; iddynt hwy yr ymddiriedwyd am ymadroddion Duw. Ond yn awr y mae y llen wedi ei rwygo, a phob cenedl yn ddiwahaniaeth yn cael ei galw i fwynhau yr iachawdwriaeth. 2il, Pob sefyllfa. Y mae yma gystal croesaw i'r tlawd ag i'r cyfoethog. 3ydd, Pob profiad. Gelwir y profiad uchaf a'r isaf i'r dyfroedd. Fe dâl i'r profiad isaf ddyfod i'r dyfroedd; y mae yma ddigon i'w adferu.

5. Galwad addas i'n hangen: "I'r dyfroedd." Teimlad o eisieu dwfr ydyw syched. Y mae arnom ninnau oll eisieu iachawdwriaeth, a rhaid ein dwyn i deimlo hyny. Beth sydd i'w ddyweyd wrth y bobl sydd heb syched? Ai y ddeddf? "Oni ddychwel yr annuwiol, efo a hoga ei gleddyf." Y mae yn rhaid dy ddychryn yn ngolwg melt Sinai cyn y deui i ffoi yn iawn i Galfaria.

6. Galwad rad: "Heb arian, ac heb werth;" sef, heb ddim genyt—yn dlawd.

7. Galwad i dderbyn lles ydyw: "Deuwch a bwytewch;" sef, 'deuwch, meddiennwch'—'deuwch, mwynhewch'—'deuwch, cyfranogwch.' Galwad at beth o werth ydyw: "gwin a llaeth." Pethau sydd yn weith galw atynt ydyw holl fendithion yr efengyl; y mae pob gras o werth annhraethol fawr.

II. *Am y dyfroedd y gwahoddir atynt yma:—*

Beth iddynt? Yr oll o iachawdwriaeth pechadur; cyfiawnhâd, sancteiddhâd, ie, yr oll a'th wna yn ddedwydd byth. Pa ham y gelwir hwynt yn "ddyfroedd?" Arfer yr Ysbryd Glân ydyw gosod allan bethau ysbrydol trwy gymmhariaethau naturiol; yr hyn sydd yn dangos fod dyn wrth natur yn fwy deallus am bethau natur nag am bethau Duw.

Edrychwn ar y cyffelybrwydd sydd rhwng yr iachawdwriaeth a dyfroedd.

1. Y maent yn gyffelyb yn eu helaethrwydd. Nid oes fesur ar y dyfroedd; felly cyffelyb ydyw yr iachawdwriaeth—"O ddyfnder golud!" Y mae iachawdwriaeth Duw yn fawr yn y golygiadau canlynol:—Iaf, Yn ei hachos; sef, cariad mawr

rw—dyma y gwreiddiol achos. Faint yw y cariad? “Felly parodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab.” 1. Yn ei thragwyddol arfaethiad. Wrth arfaeth y meddylir ffriniad iachawdwriaeth gan Dduw. 3ydd, Yn ei hawdwr: yr en sydd yn Fab Duw—yr hwn “sydd uwch law pawb, yn llaw bendigedig yn oes oesoedd”—“yr hwn a wnaethpwyd yn ddwr iachawdwriaeth dragwyddol.” 4ydd, Yn ei dadguddr. Y mae yn gystal i ni fod dadguddiwr mawr a bod awdwr mawr; y mae y fath len ddudew dros y galon a'r meddwl wrth i stor: “Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i don dyn y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef”—“eithr Duw a'u heglurodd i ni trwy ei Ysbryd.” Ysbryd Duw dd yn dadguddio pethau yr iachawdwriaeth. 5ed, Yn y waith y mae yn ei wneyd arnom. Fe gŵyd “dyrfa fawr.” Faint fydd y dorff? “Tyrfa fawr na ddichon neb ei rhifo.” Fe'u cŵyd o drueni mawr; “meddiant Satan”—“melldith y ledff”—yn “gorwedd yn eu gwaed.” Ië, dyna lle y caed hyd i oed Abraham. Fe'u cŵyd i ddedwyddwch—i “ogoniant.”

2. Y mae yn gyffelyb i ddyfroedd yn eu hanwrthwynebol-tydd. Y mae yn anwrthwynebol. Fel dyfroedd yr afon, os dd ei tharddiad o le uchel, nis gellir eu gwrthwynebu. Y môr yn dygyfor”—nis gellir sefyll o'i flaen. Ofer ydyw i un dfridog na brenin *ddemandio* i'r gwlaw beidio disgyn. Felly iachawdwriaeth—y mae yn sicr o'i gwrthddrychau. “Gwnaf, phwy a'm luiddia?” “Cynghor yr Arglwydd, hwnw a saif.”

3. Y mae yn gyffelyb yn ei pharodrwydd. 1af, Y mae y froedd yn barod bob amser—bob tymmhor. Nid bob amser cor yr ffd; ond y mae y dyfroedd bob amser fel eu gilydd: ly “denwch” yr awrhon! 2il, Y mae y dyfroedd yn barod fagos. Trefnodd Duw y dyfroedd yn ffrydiau dosbarthedig, gyfagos i annedd pawb. Felly hon: y mae yr “enw wedi ei dd yn mhlith dynion”—yn eithaf cyfleus. 3ydd, Y mae y froedd yn barod fel y maent—heb eu cyfnewid; y mae y dwfr y ddefnyddio fel y creodd Duw ef. Felly yr iachawdwriaeth: mae hi yn berffaith gyfaddas i ddiwallu dy holl angen; ac nid s eisieu i ti wneyd dim ond ei derbyn fel y cynnygir hi i ti.

4. Yn gyffelyb yn ei rhadlonrwydd. Caiff y tlotaf fyned â'i str yn mlaen at y dyfroedd; nid all neb ofyn iddo na tholl na reth. Felly hon: “heb arian ac heb werth.” Os deui â'th ll arian yn mlaen, fe rwystra hyn y fargen. 1af, Rhaid ei dd yn rhad gyda golwg ar sefyllfa y gwrthddrychau: “dim i du.” 2il, Gyda golwg ar ddyben Duw ynddi—efe a fŷn iawl gogoniant ei ras” oddi wrthi. 3ydd, Gyda golwg ar di fod yn sicr, “o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras.” Pe masai ammod o du y dyn, buasai am y cyflawniad hwnw; ond o ffydd,” fel y byddai “yn ol gras.”

5. Yn gyffelyb yn ei heffeithiolrwydd. 1af, Y mae y dyfroedd yn effeithiol i ddiffodd tân. Pan y byddo tŷ yn myned ar dân, ymofynir am ddyfroedd. Felly y mae defnydd tân yn dygydwylbod dithau: y mae dyfroedd y greadigaeth yn anallnog i'w ddiffodd; ond y dyfroedd hyn a'i diffydd. 2il, Y mae y dyfroedd yn effeithiol i lanhau. Glanha y dwfr y cerpyn aflanaf; ewch âg ef i'r dwfr, fe'i glanha. Felly carwyd llawer cerpyn i ddyfroedd iachawdwriaeth; ond nid aeth neb oddi yma heb ei lanhau. Y mae yma rai yn dechreu gwella peth yn y dyfroedd! ac yn mhen ychydig, hwy a fyddant heb frycheuyn! 3ydd, Y mae y dyfroedd yn effeithiol i ddisychedu. Y mae dyn fel pechadur ar drengu o syched: deuwch at y dyfroedd hyn ac yfwch. Tyr y dyfroedd hyn dy syched at y byd; ti a ddysgi fel Paul, yn mha gyflwr bynag y byddi, i fod yn foddllawn. 4ydd, Y mae dwfr yn adfywio peth wedi marweiddio: "Y mae gobaith o bren, er ei dori," y bydd iddo "flaguro wrth arogl dyfroedd." Felly y dyfroedd hyn—y maent wedi dwyn llawer hen bren crin i ffrwytho i Dduw: "Efe a fydd fel pren wedi ei blannu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd, a'i ddalen ni wywa." Nid ydyw ond bychan, ond "ni wywa."

III. *Am y gwahoddiad i'r dyfroedd:* "O! deuwch i'r dyfroedd!"

1. Yr angenrheidrwydd am ddyfod. Er fod y dyfroedd yn rhinweddol, crino i dân a wnei di, oddi eithr dy gael iddynt. Ond os ceir di iddynt, y maent yn sicr o'th lanhau a'th gwbl feddyginiaethu.

2. Beth ydyw dyfod i'r dyfroedd? 1af, Dyfod at Grist trwy ffydd—yr hwn ydyw ffynnonell y dyfroedd. Credu ynddo. 2il, Dyfod at Dduw yn barhaus o ran ei gymdeithas, er cael o barhaus ymgeledd y dyfroedd.

3. Y dull y mae dyfod i'r dyfroedd. 1af, Yn dlawd hollol. 2il, Yn sychedig, dan deimlad o'th eisieu. 3ydd, Yn barhaus: nid unwaith am byth, ond beunydd.

4. Yr arwyddion fod pechadur wedi dyfod i'r dyfroedd. 1af, Y mae tân y gydwylbod yn cael ei ddiffodd. 2il, Y mae y dyn yn ffrwytho er gogoniant i Dduw yn y byd. 3ydd, Y mae yn llawn awydd (fel y prophwyd) am gael ereill hefyd iddynt.

5. Annogaethau i wrandaw y gwahoddiad: "O deuwch!" o blegid, 1af, Y mae arnat eisieu y dyfroedd. Y mae ynot ddefnydd tân; y mae arnat syched; crino i dân a wnei fel pren sych, os na ddeui. "O deuwch!" 2il, Y mae ar y dyfroedd dy eisieu dithau. Dyfroedd yn ymofyn am waith ydyw y dyfroedd hyn:—"O deuwch!"

ADDYSGIADAU.

Gwelwn, yn 1af, Fawr ras Duw yn trefnu y dyfroedd, yn lle ein damnio, fel yr haeddasom. Yn 2il, Och! elyniaeth dyn! ni fyn ddyfod iddynt i'w iachau. Yn 3ydd, Rhaid cael Ysbryd Duw i argyhoeddi y dyn o'i angen. Yn 4ydd, Y mae yr achub i gyd o Dduw; trefn y Tad ydyw y cwbl. Yn 5ed, Na fedd-yliwch am nefoedd heb ddyfod i'r dyfroedd.

O ddyfroedd iachawdwriaeth Duw!
 Mawr hynod yw eu rhinwedd;
 Nesawn ar frys i'w gwir fwynhau,
 Trwy hyny y mae ymgeledd.

Deuwch hil syrthiedig Adda,
 Daeth y Jubil fawr o hedd;
 Galwad sydd ar bawb o'r enw
 I fwynhau tragwyddol wledd:
 Bwrdd yn llawn, yma gawn,
 O foreuddydd hyd brydnawn.

PREGETH XLIX.

AMYNEDD DUW.

Rhuf. xv. 5.

"Duw yr amynedd."

Pa beth ydyw?

I. Yn nacaol.

1. Nid llywodraethiad nwyd ydyw. Y mae amynedd dyn yn gynnwysedig, mewn rhan, yn hyny; llywodraethiad y nwyd o ddigofaint ydyw. Y mae yn wir y rhaid ei llywodraethu, onid é gwna ysgelerder arswydus. Ond nid hyn ydyw amynedd Duw. Nid oes nwyd ynddo ef. Nid ydyw llid yn nwyd yn Nuw; nid oes gynhyrifiadau yn briodol iddo ef; o blegid y mae yn anghyfnewidiol a hunan-y addeddibynol. Cyffroir nwyd gan rywbeth oddi allan; ond nid ydyw Duw yn agored i hyny. Nid ydyw llid a digofaint ynddo ef yn debyg i nwyd mewn creadur. Y mae nwyd yn gyfnewidiol—yn ddarostyngedig i gyffroad—yn cael effeithio arni gan bethau oddi allan i'r dyn ei hun; ond nid felly Duw. Y mae yn wir fod gweithrediad amynedd Duw yn attal ei lid dros ryw hyd i weithredu ar wrth-ddrychau pechadurus. Ei lid ef ydyw ei sancteiddrwydd—ei natur yn gweithredu tuag at bechod, neu y gosb ei hun. Y mae y nwyd o lid ynom ni fel y môr, yn aflonydd ac aflywodraethus, yn dygyfor yn ddibaid, ac yn bwrw allan dom a llaid; ac nid ydyw yn aros o fewn y terfynau a osodwyd iddo, ond rhêd yn ddiluw dros bob peth, a bodda bob creadur; ond y mae llid yn Nuw yn sefydlog a llonydd, fel y graig gadarn, yr hon yr ymgura dynion yn ei herbyn nes ymddryllio. Y mae yn "ddigllawu beunydd wrth yr annuwiol."

2. Nid anwybodaeth o'r bai ydyw amynedd Duw. Nid ydyw bod yn ymarhous oddi ar anwybodaeth o'r bai ddim yn weithrediad amynedd. "A oes gwybodaeth gan y Goruchaf?" *Salm lxxiii.* 11. "Nid oes un Duw" (*Salm xiv.* 1), medd yr

annuwiol; am hyny ni chydnebydd efe amynedd Duw. Dywed, "Ni wêl yr Arglwydd;" gan hyny, "nid ystyria Duw Jacob hyn;" *Salm* xciv. 7. Y mae "ein dirgel bechodau yn ngoleuni dy wyn-eb;" *Salm* xc. 8. "Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm cyfodiad, dealli fy meddwl o bell;" *Salm* cxxxix. 2. Arbed, er gwybod y bai, ac er meddu gallu i ddial:—y mae hyn yn amlygiad nodedig o amynedd. Er gwybod yr holl fai, bai mawr, lliaws mawr o feiau, a'u gwybod yn sicr—a bod dial yn hawdd, ac yn hawdd yn awr—pa beth ond amynedd ydyw arbed felly?

3. Nid difaterwch ynghylch y drwg ydyw, fel y dywed rhai. "Nid ymofyni." Tybiant "fod Duw yn gwbl fel hwy eu hunain." "Efe a edwyn ofer-ddynion, ac a wêl anwiredd; onid ystyria efe gan hyny?" *Job* xi. 11. "Dywedant hefyd, Ni wêl yr Arglwydd, ac nid ystyria Duw Jacob hyn;" *Salm* xlv. 7. Y mae efe yn "dal ar holl lwybrau dyn." Nis gall fod llywodraethwr mor fawr yn ddiolfal ynghylch ymddygiadau ei creaduriaid: "cans y mae yr hwn sydd uwch na'r uchaf yn gwylicd," ac yn cadw "llyfr cofiadwriaeth."

4. Nid diffyg casineb at bechod ydyw amynedd Duw. Nid rhoddi ymaith ei fwriad i gospi pechod ydyw: "Hyn a wnaethost, a mi a dewais; tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun; ond mi a'th argyhoeddaf, ac a'u trefnaf o flaen dy lygaid;" *Salm* l. 21. Iaith yr annuwiolion ydyw, "Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef?" Pa le y mae Duw y farn? "Nid ydyw yr Arglwydd yn oedi ei addewid, fel y mae rhai yn cyfrif oed, ond hirymarhous yw efe tuag atom ni;" 2 *Pedr* iii. 4, 9. Profir hyn oddi wrth ei natur, ei gyfraith, iawn Crist, cydwybod, natur yr iachawdwriaeth, a rhagluniaeth. Y mae efe fel tad, yn hwyrffrydig; ond y mae yn sicr o geryddu yn y diwedd. Wedi hir rybuddio yr hen fyd, yr Aiphtiaid, a'r Israeliaid, cyflawnodd yn mhob amgylchiad ei fygythion arnynt. Y mae efe fel gwinllanydd, yn arfer pob moddion i geisio cael ffrwyth; ond wedi i'r cwbl droi allan yn aflwyddiannus, y mae yn sicr o dori y pren diffwrth i lawr. Oedi cospi ydyw, ac nid rhoddi ymaith ei fwriad i gospi: *Mat.* xviii. 26, 35. Y mae amynedd yn trosglwyddo yr anedifeiriol yn y diwedd i law cyfiawnder dialeddol; am hyny gelwir amynedd yn "hirymaros:" *Rhuf.* ii. 4. Edrych dynion ar amynedd fel prawf nad ydyw Duw am gospi: 2 *Pedr* iii. 17; *Mal.* ii. 17; 2 *Pedr* iii. 4; *Mat.* xxiv. 48; *Salm* l. 21; *Luc* xii. 45; *Rhuf.* iii. 25; *Preg.* viii. 11; *Ecsod.* xxxiv. 18, 19. Er ei fod yn hwyrffrydig i lid, etto "ni chyfrif" byth "yr anwir yn gyfiawn;" *Salm* ciii. 8. Y mae dynion yn cyfrif amynedd fel prawf na bydd cosp: "Tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun." Pan welodd y gwas drwg ei arglwydd yn oedi dyfod, "efe a ddechreuodd guro ei gydweision, a bwyta ac yfed gyda'r meddwon;" *Mat.* xxiv. 48, 49. "O

herwydd na wneir barn yn erbyn gweithred ddrwg yn fuan, gan hyny calon plant dynion sydd yn llawn ynddynt i wneuthur drwg;" *Preg.* viii. 11. Ond nid ydyw Duw yn rhoddi ymaith ei fwriad i gopsi: *Salm* l. 21; *Mat.* xviii. 26.

II. *Yn gadarnhaol.*

Amlygiad o ddaioni Duw tuag at yr euog ydyw amynedd, yn oedi ei gosp dros amser pennodol, yn ngwyneb annogaethau a chyfleusderau i'w gopsi, i ddybenion grasol.

Daioni rhad a mawr iawn ydyw amynedd: yr attaliad o gosp ydyw. Y mae gan Dduw hawl i gopsi yn ddioed, ac y mae o dan angenrheidrwydd i gopsi ryw bryd; ond nid ydyw o dan angenrheidrwydd i gopsi yn ddioed, er y byddai yn gyfiawn iddo wneyd. Nid ydyw oediad cosp yn beth o angenrheidrwydd natur, ond o ewyllys da—oddi ar dosturi: *Mat.* xviii. 26, 28; *Ecsod.* xxxiv. 6, 7. Y mae yn hwyrfrydig i ddig oddi ar ei fod yn drugarog. Cyhoeddir hyn fel amlygiad mawr o ras Duw: "Yr Arglwydd sydd hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd, yn maddeu anwiredd;" *Num.* xiv. 18. "Graslawn a thrugarog yw yr Arglwydd; hwyrfrydig i ddig, a mawr ei drugaredd;" *Salm* cxlv. 8. Daioni Duw ydyw ymaros. Nid ydyw oediad cosp yn dyfod yn erbyn cyfraith. Er oedi cosp dros ychydig, y mae tragwyddoldeb yn ddiigon maith i'w gweinyddu. Daioni Duw tuag at yr euog ydyw oedi y gosp. Un wedi haeddu cosp ydyw gwrthddrych amynedd.

Y mae pechod yn cymmhell llied Duw yn nerthol. Y mae yr angenrheidrwydd cryfaf am iddo gopsi pechod, i'r dyben o amddiffyn ei gyfraith, a dedwyddwch ei greaduriaid, a'i gymmeriad ei hun. Oedi cospi sydd ddaioni mawr ynddo ei hun; ac y mae oedi yn ngwyneb y fath annogaeth i ddial yn ddaioni mwy. Daioni i'r annheilwng ydyw gras; daioni i'r truan ydyw trugaredd; daioni i'r euog ydyw amynedd.

Y gyfraith biau yr euog, yn ol egwyddorion cyfiawnder, yn ysglyfaeth i'w mellidith. Nid oes ganddo hawl i funyd o fywyd. Ei gydwybod a dystia ei fod wedi gwerthu oi hun i'w mellidithion marwol. Nid ydyw troseddwr y gyfraith wladol ond aros cyfleusdra y llywodraeth i'w gopsi, yr hon sydd yn agored i gael ei hattal, trwy ryw anghyfleusderau, dros amser. Ond nid ydyw Duw byth dan anghyfleusdra i ddial yn ddioed. Nid rhaid iddo aros am fis, na diwrnod pennodol a chylchynol, er mwyn derbyn cynnorthwy cynnulleidfa o greaduriaid marwol i'w brofi yn euog. Gall ef ei hun wneyd y cwbl. Ni raid iddo wneyd dim ond attal ei gymmwynasau a'i ofal oddi wrtho; a dygai hyny ef i gyflwr o anobaith a marwolaeth dragwyddol!

P R E G E T H L.

AMSER.

Ephesiaid v. 16.

"Gan brynu yr amser."

Y MAE y rhai sydd yn cymmeryd arnynt ddeall yr iaith y cyfansoddodd yr apostol ynndi yn dyweyd ei fod yma yn cyfeirio at amgylchiad marsiandwr—a bryna yr amser trwy wneyd llawer mewn amser byr. Bydd dynion weithiau yn dyfod i gyfleusdra i wneuthur felly; ac y mae yn debyg fod y dosbarth yma o ddynion yn cyfarfod â'r amgylchiad yn amlach nag un dosbarth arall—cyfleusdra i ennill miloedd o arian mewn pum munyd. Pan wél y marsiandwr gyfle felly, y mae yn prynu yr amser, heb golli dim. Yr ydym ninnau yn y byd hwn, gyda ein hachos tragwyddol, mewn cyfleusdra i wneyd ennill mawr mewn amser byr. Yr wyt yma, enaid, mewn cyfleusdra i gymmeryd gafael ar y bywyd tragwyddol, ac i sicrhau i ti dy hunan ran o "etifeddiaeth y saint yn y goleuni." Y mae rhai yn dyweyd fod y gair yn arwyddo ennill yn ol yr amser a gollwyd—adfeddiannu etto yr amser a dreuliwyd yn ofer. Mewn rhyw ystyr, y mae hyn yn amhossibl. Y mae y munyd diweddaf wedi myned mor bell o'n cyrhaedd a'r munyd sydd wedi diangc i dragwyddoldeb er's mil o flynyddoedd. Yr unig ffordd, am a wn i, i adfeddiannu yr amser a aeth heibio, ydyw gwneyd gwell defnydd o'r amser dyfodol—dyblu diwydrwydd. Y mae yn bossibl dileu holl bechodau yr holl flynyddoedd a aethant heibio trwy edifeirwch a chredu yn Iesu Grist. Yna nid y peth a fuost y rhan a aeth heibio o'th oes a fyddi yn nhragwyddoldeb; ond y fath ag y treuli dy oes o'r amser hwn i'r bedd a fyddi byth.

Y mae y gair yn arwyddo fod gwerth mawr ar amser. Nid ydyw y Beibl un amser yn ein cynghori i brynu pethau diwerth, Cynghorir ni i brynu "aur wedi ei buro trwy dân," i "brynu y gwir," ac yma i "brynu yr amser." Y mae cymmaint a hyny

o werth mewn amser ag sydd o werth yn y pethau y gellir eu cael mewn amser, pe baem yn ei iawn ddefnyddio. Pe bae rhyw un yn y dyrfa yma yn deall fod ystâd fawr o ddengain mil yn y flwyddyn i'w chael, a bod hono mewn rhyw funyd pennodol i'w derbyn neu ei cholli—beth fyddai gwerth y munyd hwnw i'r dyn? Byddai yn gymaint iddo ag ydyw gwerth yr ystâd. Fel hyn y dylem edrych ar ysbaid fer oes dyn ar y ddaear. Yr ydym yma mewn cyfleusdra i gymmeryd meddiant mewn pethau anfeidrol eu gwerth. Yn y byd yma y mae sicrhau tragwyddol hapusrwydd: ni bydd i'w gael wedi myned i'r byd dyeithrol sydd o'n blaen.

Y mae y gair "amser" yn cael ei arfer yn y Beibl mewn mwy nag un ystyr. Weithiau, y mae yn dynodi adeg i gyflawni rhyw beth pennodol. "Y mae amser i bob peth," medd y Pregethwr, "ac amser i bob amcan dan y nefoedd; amser i eni ac amser i farw, amser i blanu ac amser i dynu'r peth a blanyd, amser i ladd ac amser i iachau, amser i fwrw i lawr ac amser i adeiladu," ac felly yn y blaen. Y mae adeg briodol i bob peth fel hyn. Yr ydym weithiau hefyd yn ei gael yn golygu rhyw fesur o barhâd—ysbaid neu gyfnod. Amser dyn ydyw oes dyn yn y byd yma. Amser, fel yr arferir y gair yn y cyfanswm yn gyffredin, ydyw oes y byd. Un philosophydd pagan-aidd, wedi bod yn astudio am amser, a ddaeth i'r penderfyniad mai *dim* ydyw amser—nad oes dim yn y presennol—fod y cwbl yn y dyfodol, neu wedi myned heibio. Y mae peth o'n hamser wedi diangc, a pheth heb ddyfod. Nid ydym byth yn y presennol, canys nid ydyw ddim. Ond y mae dynion mwy deallus wedi bod wrth ben y pwngc; a daethant hwy i'r penderfyniad mai parhâd ydyw amser. *Parhâd* ydyw tragwyddoldeb hefyd, ond fod amser yn barhâd terfynol.

Y mae digon o wahaniaeth rhwng amser a thragwyddoldeb er hyny. Y mae amser yn cymmeryd ei ddsbarthu, a'i falu, a'i ranu. Y mae trefn natur wedi ei ddsbarthu yn flynyddoedd, yn fisoedd, ac yn ddyddiau; ac y mae dynion wedi ei falu yn fanach fyth—i'r oriau, i'r munydau, a'r eiliadau; ond nid ellir malu tragwyddoldeb fel hyn. Cymmerwch ddyferyn o ddwfr, a lliosogwch ef, ac fe wna i fyny yr *ocean*; ond pe baech yn lliosogi munydau am byth, ni wnaent ddim ar dragwyddoldeb. Ni wnai cymmeryd can mil o flynyddoedd o hono ddim bwch arno, na rhoi can mil ato yr un helaethder arno. Didddechreu ydyw tragwyddoldeb hefyd; ond y mae dechreuad wedi bod i amser. Nid oes fawr iawn er pan ddechreuodd amser droi ar ei droell, ac ni raid i chwi fyned yn rhyw bell iawn i chwilio am ei darddiad. Pe baech yn rhoi rhyw gam bach yn ol, byddech yn mysg yr hen ddiwygwyr—Luther, Calvin, Wycliff, ac ereill; pe baech yn camu dipyn pellach, byddech yn

mysg y tadau yn gwrandaw ar Awstin ac ar Chrysostom yn pregethu; a rhyw un cam wedi hyny, chwi fyddech gyda'r apostolion, a chyda Crist ei hunan. Ychydig yn mhellach yn ol gyda hyny, byddech gyda'r hen brophwydi; ac ychydig drachefn, byddech gyda'r patriarchiaid, Abraham, Isaac, a Jacob; a rhyw gam bach wedi hyn a'ch rhoddai i lawr gyda'n tad Adda, a'n mam Efa; ac nid allech fyned ddim mwy yn ol. Nid ydyw *telegraph* amser yn cyrhaedd ddim pellach. Yr ydych yna ar gyffiniau tragwyddoldeb, ac nid oes dim i'w gael yn mhellach ond y Duwdod ei hunan. Ond diddechreu ydyw tragwyddoldeb—ni bu cychwyn arno fo, ac ni bydd diwedd iddo chwaith. Pe baet yn taflu dy feddwl ar gân miliwn o flynyddoedd am bob tywodyn sydd ar lan y môr, ni fyddit yn ddim nes yn mlaen at ddechreu na diwedd tragwyddoldeb.

Y mae amser yn myned heibio yn gyflym iawn hefyd. Y mae mewn ysgogiad o hyd, fel afon; ond y mae tragwyddoldeb fel y cefnôr, wedi cael gwely i orwedd ynddo, ac y mae fel pe na byddai am symmud byth.

Nid ydyw amser chwaith yn sefydlu dim. Cyfnewidiol iawn ydyw o hyd. Y mae yn gadael pob peth a fedd yn hynod ansefydlog. Y mae ganddo gyfoeth, ond y mae i hwnwadenydd; eithr y mae gan dragwyddoldeb gyfoeth a bery yn dragwyddol fel efe ei hunan. Y mae yma lawenydd, ond hynod mor egwan a byr ydyw; ond y mae llawenydd y byd tragwyddol yn parhau fel yntau ei hun. Nid oes yma ddim byd mewn amser i hyderu arnynt ond pethau y Beibl. Maent yn dyweyd fod yr hin yn fwy sefydlog o lawer mewn cyfandiroedd mawrion nag ydyw yn ein hynys fechan ni. Os daw yn rhew yn y gwledydd hyny, bydd yn aros tipyn; ac os daw poethder, bydd yn parhau am gryn dro. Rhyw ynys fach ydyw amser; ac y mae yr hin yn gyfnewidiol iawn arni—weithiau ystorm, ac weithiau hindda, a hyny megys bob yn ail; ond y munyd y rhoddi dy droed ar gyfandir tragwyddoldeb, ti gei deimlo beth fydd yr hin yno yn oes oesoedd. Os bydd cariad Duw yn dy fynwes, ti a ddywedi y foment gyntaf yr ä yr enaid o'r corph, 'Dyma fywyd *tragwyddol!*' neu, os bydd euogrwydd yn y gydwybod, byddi yn barod i'w gyfarch, 'Wel, wel, ti a'm poeni *byth!*'

Nid ydyw amser yn perffeithio dim chwaith. Nid oes yma ddim mewn ystâd o berffeithrwydd. Nid ydyw celfyddyd felly; na chrefydd chwaith. Nid oes yma neb yn dioddef gofid nad oes ganddo ryw achos i lawenhau, ac nid oes neb mor lawen nad oes ganddo rywboth i ofidio o'i herwydd: y mae y dail surion ar yr un bwrdd ag oen y Pasc. Nid oes yma ddim dedwyddwch na thrueni wedi eu gorphen yn iawn:—yn y byd a ddaw y byddant wedi eu perffeithio. Bydd y naill a'r llall yn y byd hwnw yn edrych yn mlaen am filiynau o flynyddoedd;

ac ni bydd y naill yn gweled dim i leihau ei ddedwyddwch, na'r llall i leihau ei drueni. Byddaf yn dychymmygu weithiau gweled yr annuwiol yn taflu ei enaid allan o hono ei hun yn uffern, a hwnw yn ehedeg uwch ben y dyfroedd fel colomen y diluw, i edrych a oes yno arwydd yn rhywle eu bod yn dechreu treio, ond yn dychwelyd yn ol iddo ei hun heb un ddeilen olewydden werdd yn ei gilfin; a bydd hyny fel yn pentyru gofidiau miloedd o flynyddoedd ar ben yr enaid mewn un amrantiad!

Y mae amser yn rhyfedd a phwysig, os edrychwn arno yn ei gyssylltiad â Duw. Y mae Duw yn anfeidrol ddoeth, a chanddo arfaeth yn ei feddwl erioed; ond yr oedd yn rhaid iddo aros i amser ddechreu cyn gweithio allan y bwriadau. Ni phroffodd llaw Duw beth oedd gweithio cyn bod amser; gorphwys yn llonydd yr oedd Duw ar hyd y tragwyddoldeb diddechreu; ond pan ddaeth amser, yr adeg gweithio, fe weithiodd yn rhagorol—fel efe ei hun. Nid oedd neb i dderbyn ei ddaioni yn nhragwyddoldeb; yr oedd yn rhaid iddo ei gadw yn ei fynwes ei hun: ond amser a ddaeth, ac am a wn i mai i hyn yn benaf y gwnaeth efe ef—fel y caffai le i ddangos ei ddaioni. Yr oedd Crist wedi ei ordeinio yn brophwyd er tragwyddoldeb; ond yr oedd yn rhaid iddo aros heb gyfranu ei ddysgeidiaeth nes y gwawriodd amser; a phan ddaeth cyflawnder yr amser, dyma fe yn siarad wrthym ddigon am byth:—"Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." Cwmmwl ydyw amser wedi ei grogi yn ffurfafen tragwyddoldeb, yn gwlawio bwriadau tragwyddol Duw, ac wedi hyny yn diflanu—gan adael ffurfafen tragwyddoldeb yn lās lachar fel o'r blaen! Tragwyddoldeb oedd yn y dechreu, a thragwyddoldeb yn unig fydd yn bod yn fuan etto!

Y mae o bwys defnyddio amser i bwrpas. Y mae llawer peth o bwys yn hawdd iawn ei wneyd yn yr adeg; ond pum muniyd wedi i'r adeg basio, bydd yn rhy ddiweddar, a'r peth mwyach yn amhossibl! Y tân mawr yn y dref hon,* amser yn ol, pan y llosgwyd amryw *warehouses*, gyda'r holl ystôr oedd ynddynt,—nid oedd hwnw yn y dechreu ond gwreichionen fechan; ac ar yr adeg hono, gallasai plentyn dwy neu dair oed ei ddiffodd yn hawdd. Ond fe gafodd lonydd am rai oriau i fyned rhagddo yn ddirwysr, pan y cyfarfu â helaethrwydd o ddefnyddiau hylog; ac erbyn hyny yr oedd yn rhy ddiweddar ceisio ei attal: nis gallasai holl *engines* Liverpool ei ddiffodd. Y mae yna, bechadur, ryw wreichionen wedi dechreu ennyn yn dy gydwybod; ond gallai ychydig awel o ben Calfaria fryn ei diffodd yn awr. Ond os gadewi lonydd iddi hyd awr angen i fyned yn

* Ysgrifenyd y bregeth hon wrth ei gwrandaw yn Liverpool.

mlaen i losgi, pan y bydd oes gyfan o bechod heb ei faddeu yn ymborth iddi, fe chwyth awelon tragwyddoldeb arni yno, ac fe gyfyd yn fflam mor gref na bydd peiriant gras Duw yn abl i'w diffodd. Yn awr, ynte, am brynu yr amser! Nac oeda ddyfod at y Gwaredwr. Yr wyt yn dangos dirmyg mawr ar Iesu Grist ei hun wrth oedi dyfod ato. Nid oedi a wnaeth efe gyda gwaith iachawdwriaeth dyn; ond daeth yn nghyflawnder yr amser, ac y mae bob amser yn eiriol yn y nef. Nid pen wedi llwydo a roes efe dan y goron ddrain; nid corph wedi crymu, ac aelodau wedi sychu, a roes efe i'w hoelio ar y groes. Yn dair ar ddeg ar hugain oed y bu ein Gwaredwr ni farw! Rhoddwch chwithau eich hunain iddo yn awr, heb oedi. Penderfynwch i hyn o adeg gael ei ddefnyddio i'r dyben y mae Duw wedi ei fwriadu — i geisio heddwch cydwybod trwy ei Fab!

P R E G E T H L I .

GOSTYNGEIDDEWYDD.

1 *Pedr* v. 5.

“Yr un ffunud yr ieuainge, byddwch ostyngedig i'r henuriaid. A byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd, ac ymdrwaiwch oddi fewn â gostyng-eiddrwydd. O blegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig.”

Y MAE dyn dan y rhwymau mwyaf i fod yn ostyngedig, ond er hyny o'r duedd gryfaf i fod yn falch. Nid oes neb yn meddu y fath achos i gywilyddio, ac etto nid oes neb yn fwy tueddol i ymfrostio. Pan y mae dyn yn fwyaf amddifad o bob gwir harddwch a dymunoldeb ysbrydol, y mae ei serch fwyaf arno ei hun. Pan y mae yn llawn o'r pethau sydd yn haeddu eu dirmygu, y mae yn edrych arno ei hun yn fwyaf teilwng o barch ganddo ei hunan a chan ereill. Pan y byddo yn tybied uchaf am dano ei hun, y mae ganddo yr achosion mwyaf i'w ffeiddio ei hun mewn llwch a lludw. Pan y byddo yn tybied ei hun yn bur o rinwedd digymmysg, y mae yn domen o falchder dreedig: a phan y byddo yn tybied ei hun yn fwyaf diogel, y mae yn sefyll mewn mwyaf o berygl.

O'r tu arall, pan ddyrchefir dyn trwy ras i gyflwr uchel a gogoneddus, y mae hyny yn sier o effeithio i'w ddarostwng yn isel yn ei feddwl ei hun. Pan addurnir ef â gwir sancteiddrwydd a harddwch ysbrydol, yr effaith fydd, iddo ffeiddio ei hun mewn llwch a lludw. Pan y llenwir ef â'r Ysbryd Glân, efe a addef gyda galar nad oes ynddo o ran ei gnawd ddim da yn trigo. Pan y gwneler ef yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd bywyd tragwyddol, efe a ddywed, “Minnau ydywf dlawd ac anghenus.” Pan ddygir ef i gyflwr diogel rhag y llid a fydd, efe a weddia, “Cadw fi, canys darfu am danaf!” “Pa beth a wnaif fel y byddwyf cadwedig?” Lle y mae efe yn wan yn ei olwg ei hun ac ynddo ei hun, y mae yn gadarn yn ei Dduw. Pan argyhoedder dyn o fawredd a gogoniant Duw, efe a wêl ei hun yn llwch ac yn lludw; gan hyny, nis gall ymddiried mwy

ynddo ei hun; na rhoddi clod mwy iddo ei hun, ond efe a ymddiried yn Nuw, ac a ddyry y clod byth iddo ef.

Yr oedd dyn yn ei greadigaeth yn adnabod Duw, ac yn rhoddi gogoniant iddo. Ond trwy geisio ymddyrchafu yn dduw, efe a syrthiodd yn bechadur. Meddwl ei fod yn dduw a'i gwnaeth yn ddiabol. Trwy geisio ymwithio i'r orsedd, efe a syrthiodd i'r carchar. Pan ddywedodd yn ei galon, "Mi a ddringaf i'r nefoedd," y syrthiodd i ystlysau y ffos. Y mae pob dyn wrth natur yn falch—o feddwl uchel am dano ei hun. Nid ydyw yn adnabod Duw: gan hyny efe a wna dduw o hono ei hun. Nid ydyw yn adnabod gogoniant a mawredd Duw: gan hyny, efe a dybia ei hun yn ogoneddus ac yn fawr.

Y mae gostyngeiddrwydd yn rhinwedd yn nghyfrif y byd yn gyffredin: y mae pob dyn yn caru cael ei gyfrif yn ostyngedig, a gwna dynolryw lawer o ymdrechiau mawrion i'r dyben o'u gwneyd eu hunain yn rhai gostyngedig yn nghyfrif eu cymydogion. Ond y mae llawer o gamsyniadau mawr yn bod yn mysg dynion ynghylch natur ac effeithiau gostyngeiddrwydd efengylaidd. A chan fod y gras hwn wedi ei ddyrchafu mor uchel yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd fel peth o'r pwys mwyaf mewn gwir grefydd, y mae yn angenrheidiol gwneuthur ymofyniad manwl i'w natur a'i effeithiau. Nid yw yr holl ddefodau o foegarwch yr ymdrechir llawer i'w dysgu, ac y gwneir ymarferiad manwl o honynt, ond yn unig profes o ostyngeiddrwydd mawr: nid ydynt ond haeriadau rhagrithiol mewn gwahanol ddulliau, fod genym syniadau isel am danom ein hunain. Ond rhaid fod gwir ostyngeiddrwydd yn ardderchog, gan fod y cysgod o hono mor hardd.

Ni a ymofynwn i natur gostyngeiddrwydd efengylaidd:—yn mha beth y mae yn gynnwysedig?

I. Yn nacaol:—

1. Gall un addef ei waeleddau a'i lygredigaeth yn rhwydd, ond etto heb wir ostyngeiddrwydd. Gall dyn addef ei waeledd a'i drueni oddi ar yr ystyriaeth fod addefiad rhwydd felly yn cael ei gyfrif yn arwydd o enaid gwir ostyngedig: gan hyny, gwna addefiad o'i waeleddau, er mwyn ennill iddo ei hun enw uchel fel gwir gredadyn yn meddyliau ac ymddiddanion ei gymmydogion. Efe a ddisgwyllia i hyny beri i ereill ei ganmawl yn fawr am ei ostyngeiddrwydd—yr hyn y mae efe yn ei gyfrif yn anrhydedd mawr iddo.

Y mae rhagrithwyr yn hōni gostyngeiddrwydd mawr, ac yn ymdrechu ymddangos felly yn eu geriau a'u hymddygiadau. Gwnant y broffes uchaf o hyn, gan ei fod mor bwysig mewn crefydd. Ond nid ydyw eu rhith o'r gras hwn ond trwag!; ac annhebyg, yn gyffredin, i'r gwir beth. Nis gallant ymddwyn

yn y modd y byddo arogl gwir ostyng-eiddrwydd arnynt. Y mae gwir ostyng-eiddrwydd y tu hwnt i'w medr a'u gallu. Nid oes ganddynt un arwydd o wir ostyng-eiddrwydd: nis gallant ond dyweyd eu bod, a sôn am y modd y darostyngwyd hwy i'r llwch ar ryw amserau. Dywedant eiriau mawr am eu gostyng-eiddrwydd (megys 'Och! y fath galon sydd genyf! Y mae yn waeth na'r cythraul—yn llawn o bob drwg!) ond nid gyda theimlad enaid gostyngedig. Dywedant bethau mawr; ond y mae eu hagwedd yn dyweyd ac yn profi nad eu profiad a ddywedant. Nid ydynt yn achwyn ar eu pla gyda dagrau, fel hono a olchodd draed yr Iesu—heb ddyweyd dim, ond wylo. Dyweyd y maent hwy, heb wylo dim, fel yn *Ezec.* xvi. 63. Addefant eu gwaeleddau; ond pe y dywedai ereill wrthynt eu bod yr hyn a addefant, tramgyddent yn fawr. Er ymdrechu i ddangos gostyng-eiddrwydd mawr yn eu geirian isel am danynt eu hunain, etto nid ydyw eu hymddygiadau yn ateb i hyny. Os gwneir y trosedd lleiaf yn eu herbyn, profant eu hunain yn hollol amddifaid o ostyng-eiddrwydd, a'u bod o dan lywodraeth eithaf balchder creulawn, trwy eu digofaint anghymmodlawn at y troseddwr: ceir gweled pa mor fyw ydynt iddynt eu hunain ac i'w clod, a gweled eu hanfaddugarwch tuag at y rhai a droseddant i'w herbyn. Dangosant yn eglur y myniant i bawb eu gyfrif yn saint disglaer iawn; a byddai yn berygl rhoddi amnaid nad ydynt y Cristionogion penaf. Cyfaddefai Pharaoh ei fai, i'r dyben o gael ei gyfrif yn edifeiriol.

2. Gall un ddiodeff dirmyg mawr yn hollol amyneddgar a gwirfoddol er mwyn crefydd, a gall gyfrif hyny yn fraint fawr iddo, ac etto yn hollol amddifad o wir ostyng-eiddrwydd efengylaidd. Oddi ar yr ystyriaeth fod y fath ddiodeffgarwch ag a nodwyd yn tueddu yn gryf i ennill iddo yr anrhydedd o fod yn Gristion gostyngedig yn meddyliau ei gymmydogion, y mae yn bossibl iddo ddiodeff y cwbl yn dawel. Yr hwn sydd yn edrych ar gael ei gyfrif yn Gristion gostyngedig yr anrhydedd penaf iddo yn mysg dynion—gall ei awydd am y dyrchafiad hwn ei berswadio i ddiodeff unrhyw boenau a gwawd, a cholled fydol, er mwyn ei gyrhaedd. Dichon i'r dyn y mae ei falchder yn gweithredu y ffordd hon ymdrechu mor egnïol i geisio hunan-ddyrchafiad a'r hwn sydd yn diodeff colli ei fywyd trwy ymladd dau fywyd er mwyn ennill anrhydedd iddo ei hun ar lwybr arall. Dioddefodd Judas; ond rhagrithiwr a bradwr oedd efe. "Pe rhoddwn fy nghorph i'm llosgi, ac heb gariad genyf, nid yw ddim lleshâd i mi!"

3. Gall un dalu parch i ereill, a gosod ei hunan wrth draed ereill, oddi ar ystyriaeth fod hyny yn foddion i ennill parch ac enw iddo ef ei hun—fel yr iâr yn ymostwng i esgyn i'r trawst. Yr oedd y ddewines hono gynt yn galw yr apostolion yn

“ weision y Duw Goruchaf,” er mwyn cael ei chyfrif yn wybodus. Gwelir y pab hefyd yn golchi traed y tlodion wrth gael ei eninio i'w swydd.

4. Nid gwadu y rhagoriaethau dynol y gall dyn fod yn eu meddu, megys gwybodaeth, dawn, &c., yw gostynggeiddrwydd. Nid bod heb wybod ei fod yn eu meddu ydyw. Nid ydyw yn hanfodol i wir ostynggeiddrwydd i ddyn ei ddiystyru ei hun fel creadur, na bod heb weled ei ragoriaethau ei hun, os bydd yn eu meddu. Ond gall un fod yn cydnabod ei fod yn meddu doniau, gwybodaeth, a moesoldeb, ac etto bod yn mhell oddi wrth ymfalchio yn y pethau hyny. Trwy gydnabod fod y cwbl yn rhad roddion Duw iddo, a'u bod yn ei ddwyn o gymmaint a hyny yn fwy rhwymedig i Dduw, ac felly yn rhoddi mwy o achos i ymostwng, gall eu perchen fod, ac yn yr agwedd hon y mae yn sicr o fod, yn mhell oddi wrth ymddiried ynddynt am ei gymmeradwyaeth ger bron Duw. Nid tyb ddall o'i fod yn wael ac yn bechadurus ydyw gwir ostynggeiddrwydd; ond hunan-adnabyddiaeth yn effaith gwir argyhoeddiad ydyw, yn ngwyneb profion eglur a chymmeradwy. Enaid gwir ostyngedig sydd yn cydnabod ei holl rinweddau yn gyflawn; nid ydyw yn eu cyfyngu nac yn eu celu. Er hyny, efe a edrych arnynt oll yn hollol anghymmhwys iddo ymddiried ynddynt; ac nid ydyw yn eu cyfrif ond cynnifer o ddyledion arno i ras Duw: a chan hyny efe a'u teimla yn annogaethau cryfion iddo ymdroi yn y llwch. Y mae yr apostol Paul yn hōni iddo lafurio yn helaethach na'i frodyr; ond efe a briodola hyn i ras Duw er hyny: 1 *Cor.* xv. 9, 10.

5. Nid bod yn blygedig i bawb, nac i neb, yn ei farn grefyddol ydyw gostynggeiddrwydd. Rhai a arferant alw pawb yn falch a wrthodant gymmeryd eu llywodraethu o ran eu barn grefyddol ganddynt hwy, heb ddeall mai balchder ysgeler ynddynt hwy ydyw ceisio tra-arglwyddiaethu ar farn ereill. Dyledswydd pob dyn ydyw sefyll yn ddiysgog dros y gwirionedd; oddi eithr hyny, yn ofer y dioddefodd y merthyron farwolaeth. Y mae y dyn hwnw sydd yn meiddio condemnio pawb sydd yn gwahaniaethu oddi wrtho ef yn eu barn, yn amlwg yn hōni anffaeledigrwydd—y mae “ yn tybied ei hun mai Duw ydyw.” Y rhai sydd yn hōni sicrwydd perffaith ar bethau nas gallant eu profi o air Duw, ac nas gallant eu dangos i ereill—sydd yn gwneyd ymfyniad cydwybodol, rhydd, a diduedd, yn ofn yr Arglwydd—y maent yn hollol falch: a'r rhai a arferant ddirfrio eu cyd-dduwiolion fel rhai anwybodus neu ofergoelus, neu gynyddyn, yn erbyn eu cydwybodau, y maent yn llawn o hunan-dyb balch a ffaidd.

Gostynggeiddrwydd Cristionogol, nid ydyw yn caniatáu iddynt ond yn unig i ddywedyd eu bod hwy yn gweled yn wahanol,

ond fod yn bossibl mai hwyntwy sydd yn camgymmeryd. Er hyny, fe amlygir gostyngyddrwydd Cristionogol yn fynych trwy sefyll yn ddiysgog dros wirioneddau uchel a phwysig, ac yn erbyn cyfeiliornadau damniol, trwy ymroddi i'w hamddiffyn, serch dioddef gwawd a cholledion. Er fod Crist a'i apostolion, a'r prophwydi o'u blaen, yn llawn gostyngyddrwydd efengylaidd, etto yr oeddynt yn hollol ddiysgog yn sefyll dros y gwirionedd achubol. A'r prif amlygiad o'u gostyngyddrwydd hwy oedd eu hymroddiad i ddioddef dros y gwirionedd a gyhoeddent ac a gredent: "Ymafael mewn addysg, ac na ollwng hi" er neb, nac chwaith er tân erledigaeth—"Cadw hi, canys dy fywyd di yw hi."

6. Nid ydyw goddef pob cam yn hanfodol i wir ostyngyddrwydd. Nid yw gostyngyddrwydd yn groes i hunan-amddiffyniad: "Na ddioddefed neb fel llofrudd neu leidr." Rhai a ddisgwylant i Cristionogion ddioddef pob cam, ac a dybiant y byddai hunan-amddiffyniad yn bechadurus mewn crefyddwyr. Tybiant fod gorchymyn Crist—"Yr hwn a'th darawo ar dy rudd ddeha, tro y llall iddo hefyd"—yn rhwymo Cristionogion i ddioddef pob cam ac anghyfiawnder: ac oddi ar y dyb hon y mae llawer wedi cymmeryd eu hyfdra i ddiffrio Cristionogion, a'u gorthrymu yn anghyfiawn. Y mae yn wir y gwaerddir i'r saint ymddial, ac y rhwymir hwy i fod yn addfwyn ac yn dirion wrth bawb. Rhaid i'w "harafwch fod yn hysbys i bob dyn;" rhaid iddynt fod yn ddiniweid fel colomenod, ac fel wyn: ond ar yr un pryd, nid oes rwyman arnynt i ddioddef pob cam; eithr y mae ganddynt hawl i wneyd hunan-amddiffyniad cyfreithlawn i'w meddiannau, eu henw da, a'u cysur, trwy gyfraith wladol a dysgyblaeth eglwysig.

7. Nid ydyw meddwl y gwaethaf am danom ein hunain yn hanfodol i wir ostyngyddrwydd. Gall y saint fod mewn rhwystyriaethau yn wrthwyneb i hyny. Gallant weled eu hunain yn well, a theimlo fod llwgr eu natur yn wanach, pan fyddo eu gras yn gweithredu fwyaf; a theimlo eu hunain yn waeth yn yr ystyr hwn pan fyddo eu gras yn adeflledig. Pan y byddent yn eu cymmharu eu hunain ar y naill amser â hwy eu hunain amser arall, gallant wybod fod eu gras mewn gwell agwedd ac yn gweithredu yn rymusach ar un addeg rhagor un arall; ac er eu bod yn gweled mwy o'u llygredd, ac yn teimlo mwy oddi wrtho y pryd hwnw, etto gwyddant ei fod yn wanach nag ar addeg ereill, pan y teimlent lai o'i blegid. Nid yw y saint byth dan gymmaint argyhoeddiad o'u drygioni a phan dan oruchwylieth fywiog gras; etto dyna y pryd y maent yn tybied waelaf am danynt eu hunain, ac yn gosod eu hunain isaf yn mysg y saint. Felly yr hwn sydd yn ei ostwng ei hun fel dyn bach ydyr yr hwn "sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd." *Mat. xviii. 4.*

Gall un wybod ei fod yn meddu gras, a pho fwyaf fyddo y gras, hawddaf ydyw ei adnabod. Ond nid oes duedd yn hyny i beri iddo dybied ei hun yn enwog wrth ei gymmharu âg ereill: er y gall wybod ei fod yn uwch nag ereill, etto nid ydyw yn ymfalchïo o blegid hyny. Ei fod yn well nag ereill—yn fwy ysbrydol, sydd beth nad ydyw yn meddwl am dano: nid ydyw yn hoffi y meddwl hwnw, ond y mae yn ei gyfrif yn mysg ei elynion. Rhaid fyddai iddo fyned i boen fawr i brofi hyny; ac os ymddengys iddo yn amlwg fod ganddo ef fwy o ras nag a ymddengys drwy ymddygiad ereill, y mae yn barod i anghofio hyny. Pan y mae meddwl fel hyn mewn un yn sefydlog y mae yn brawf sicr ei fod yn meddu calon falch; neu o leiaf y mae y dyb hon yn falchder noeth, yn enwedig os bydd yn arwain y dyn i ymddwyn at ei frodyr fel rhai islaw iddo mewn gras.

Po fwyaf fydd sancteiddrwydd duwiolion, mwyaf yn y byd fydd eu hadnabyddiaeth o ddyfnderoedd drygioni llygredigaeth eu calonau: gan hyny mwyaf fydd eu gostyngeddwrwydd. Ond ar yr un pryd, gallant wybod fod yr unrhyw lygredigaethau mewn ereill hefyd, a gweled eu ffrwyth yn amlwg; ac etto nid ydyw hyny yn peri iddynt hwy dybied yn uwch am danynt eu hunain. Nid ydyw i ddynion farnu eu hunain yn llai grasol nag ereill yn hanfodol i wir ostyngeddwrwydd.

Nid ydyw yn hanfodol i ostyngeddwrwydd yr efengyl i ddyn ei gymmharu ei hun âg ereill, na dyfod i benderfyniad pa un yw y mwyaf; ac nid ydyw yn briodol i ras i benderfynu mewn tywyllwch heb sail. Gosododd yr apostol ei hun yn mhlith ei frodyr yn llai na'r lleiaf; ond nid mewn gras, eithr ar gyfrif ei fywyd erlidgar cyn ei dröedigaeth. Er hyny y mae y profiadau sydd yn tueddu dynion i ymddyrchafu o'u plegid uwch law ereill yn hollol dwyllodrus; a'r dadguddiedigaethau dychymyngol sydd yn chwythu yr enaid i ymfawrygu, ac i'w dybied ei hun uwch law ereill o'r saint—y maent bob amser yn dwyllodrus.

Y mae gwybodaeth ysbrydol yn arwain dyn i adnabod ei anwybodaeth, yn ol ei gradd. Y mae yn wybodaeth o'r fath wrthddrychau anweledig, fel nad ydyw y cyrhaeddiadau uchaf ynddi ond sicrhau i'r meddwl fod pethau mawrion ac anchwil-iadwy etto heb eu chwilio allan ganddo. Cynnydd yn y wybodaeth hon sydd yn gynnydd mewn adnabyddiaeth o anwybodaeth. Felly y dywed yr apostol: "Yr hwn sydd yn tybied ei fod yn gwybod rhyw beth, ni w'yr efe etto ddim fel y dylai wybod;" 1 *Cor.* viii. 2.

Gall un ddyweyd llawer yn erbyn ysbryd hunanol a deddfol yn mhob ymddangosiad o hono, ac etto byw ynddo. Y mae yr ysbryd hwn yn un hynod o dwyllodrus. Y mae rhai yn siarad llawer yn erbyn athrawiaeth, a phregethau, ac ysbryd deddfol,

ond heb wybod pa beth y maent yn dadleu yn ei gylch. Y mae ysbryd deddfol yn eu cynnhyrfu hwynt i ddyweyd yn ei erbyn ei hun. Y mae yn llechu ac yn cynnyddu yn eu calonau pan y maent yn dyweyd yn ei erbyn. Y mae yn ymborthi ar bob gair a ddywedant yn ei erbyn, fel y mae pechadur rhyfygus yn byw ar drugaredd Duw. Y mae y rhai hyn yn beio ysbryd deddfol ar eu tafodau, ond ar yr un pryd yn ymddibynu arno am bob gair a ddywedant yn ei erbyn. Y mae mor ddwfn a threiddiol fel na ddarfu iddynt hwy ei adnabod erioed.

Ysbryd deddfol ydyw balchder dyn o herwydd ei rinweddau a'i sancteiddrwydd ei hun. Nid balchder yn Adda oedd disgwyl cymmeradwyaeth trwy ei weithredoedd, ond y mae hyn yn falchder mewn pechadur. Y dyn sydd yn ymddyrchafu yn ei brofiadau ar y dadguddiedigaethau a gafodd, ac sydd â thyb uchel am ei brofiadau a'i rinweddau, a'r pethau hyn yn llwyrchu yn ei olwg—y mae yn sicr yn ymddiried ynddynt fel cyfiawnder. Er ei fod yn arfer ymadroddion gwael am dano ei hun, ac yn proffesu mai Duw biau y gogoniant oddi wrth y cwbl, etto y mae yn ymfrostio yn ei brofiadau. I'r dyben i bawb feddwl yn fawr o honynt, y mae yn eu hadrodd, ac yn annog ereill i ddiolch drosto. Nid ydyw yn ammheu eu gwirionedd; y mae yn pwyso arnynt am wrandawriad gweddi. Gall un wneyd proffes fawr o oruchwyliaeth drwyadl y ddeddf ar ei galon—ei bod wedi ei ladd iddi ei hun, a'i fudo yn gyflawn o hono ei hun i Grist, a'i fod yn llwyr ffeiddio ei weithredoedd ei hun; etto ar yr un pryd, y mae ar ei gyffes, a'i broffes fawr o hunan-ffeiddiad, arogl cryf ei bod o dan lywodraeth ysbryd deddfol a hunanol. Y mae y rhai hyn yn ymddyrchafu mewn hunan-dyb am eu gostyngeddwrwydd. Y pab—cyntaf-anedig balchder!—a ymfrostia yn ei sancteiddrwydd a'i ostyngeddwrwydd. Geilw ei hun yn “was y gweision;” ac wrth gael ei eneinio, fe ylch draed lliaws o dlodion, yn unig fel y gall ymfrostio yn ei ostyngeddwrwydd.

Y mae yn sicr mai oddi ar falchder yr hōna dynion wasgō fawr a gofal mwy nag ereill am achos Duw. Addefant eu hunain yn llai eu dawn na'u brodyr; ond yn llawer mwy eu huniondeb, ac yn llawer uwch mewn profiad, ysbrydolrwydd, gofal, sêl, defnyddioldeb, a ffyddlondeb. Y rheswm pa ham y maent yn rhoddi blaenoriaeth i ereill o ran eu dawn, &c., ydyw, an eu bod yn cyfrif fod y pethau y maent hwy yn eu meddu yn tra rhagori yn eu teilyngdod o barch. A pho leiaf o olwg a roddant ar eu dawn, mwyaf ydyw eu teilyngdod o barch, trwy eu bod mor hynod o sanctaidd, defnyddiol, a ffyddlawn gyda thalent mor fechan—pryd, mewn gwirionedd, nad ydyw bychander eu dawn ond eu diogi a'u diffyg gwybodaeth a phrofiad. Ond hōnant hwy fwyafiaeth yn y prif bethau mewn crefydd;

sef, gras a duwiolfrydedd—mynant eu bod yn rhagori yn hyn. Profesant wasgfa fawr—gofal mawr am y gwaith, a chyfrifant ereill yn chwareuwyr ysgeifn wrthynt hwy; a mynant i bawb feddwl felly, a dichon y cânt rai mor ffol a hwythau i gymmeryd eu perswadio ganddynt i feddwl hyny. Y dyn hwnw sydd yn tybied ei hun yn rhagori ar ereill o'r saint mewn gras a gostyngeiddrwydd, ac mewn ysbrydolrwydd, profiad, sél, a ffyddlondeb, yn sicr, pa mor ostyngedig bynag y tybia efe ei hun, y mae yn llawn o falchder ysbrydol; ac nid ydyw ei ostyng-eiddrwydd ond cnawdol, chwyddedig, hunan-dybus, a ffugiol.

Dywed y dosbarth yma eu bod yn gweled eu hunain yn waelach na neb, pan y gwyr Duw a dynion eu bod yn dywedyd celwydd. Yn eu hymddygiadau, dangosant yn amlwg eu bod yn cyfrif eu hunain yn well na neb, yn ddoethach, ac yn sancteiddiach na neb; ac y dylai pawb wrandaw arnynt, ufuddhau ac ymostwng iddynt, eu parchu, eu hofni, a'u credu. Y maent yn rhy uchel i wrandaw cyngor gan neb, i dderbyn cerydd teilwng, neu i fod dan yr un ddysgyblaeth ag ereill. Ond crybwyller wrthynt am eu bai, y maent yn ffomi, yn waedwylt, ymrysongar, hunanol, a therfysgaid. Ni ddiodefant y gwa-harddiad lleiaf.

II. *Yn gadarnhaol.*—Gostyngeiddrwydd efengylaidd yw cydnabyddiaeth dyn o'i waeledd fel creadur, a'i ddrygioni fel pechadur, ynghyd âg ymroddiad hollol i ymwadu â'i achosion ei hun cyn belled ag y bydd hyny yn ofynol ac angenrheidiol, ac ymroddi yn gwbl i geisio gogoniant Duw fel prif ddyben, a lleshâd ysbrydol dynolryw fel y prif foddion i gyrhaedd y dyben hwnw.

1. Y mae trefn iachawdwriaeth wedi ei chyfaddasu i godi yr addurn hwn ar bechadur.

2. Gostyngeiddrwydd ydyw egwyddor pob gras — ffydd, gobaith, cariad, edifeirwch: *Diar.* xi. 2; *1 Cor.* xv. 4.

3. Y mae gostyngeiddrwydd yn hanfodol i bob dyledswydd a berthyn i grefydd. Yr unig agwedd gymmeradwy gyda Duw ydyw yn mhob cyflawniad crefyddol.

P R E G E T H L I I .

Y DARFODEDIG A'R TRAGWYDDOL.

Esaiah li. 6.*

"Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod : canys y nefoedd a ddarfyddant fel mŵg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant meirw ; ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyflawnder ni dderfydd."

Y MAE dyn wedi ei ordeinio a'i gyfaddasu i breswyllo dau fyd—i breswyllo dros dymmor yn y byd gweledig, ac wedi hyny i breswyllo mewn byd ysbrydol, anweledig. Dyn yn unig sydd fel hyny o'r holl greaduriaid adnabyddus. Y mae yma greaduriaid ereill yn adnabyddus i ni, a'u hoes yn y byd darfodedig, ond heb ddim perthynas rhyngddynt â byd ar ol hwn—creaduriaid fydd yn syrthio yn eu hangen, yn eu marwolaeth, i ddiddymdra—rhywogaethau o greaduriaid a ddyfethir yn niwedd y byd hwn; torir hwynt ymaith o'r greadigaeth. Ond y mae dyn wedi ei ordeinio i breswyllo dau fyd. Wedi iddo fyned drwy ei oes fer yn y byd gweledig, y mae efe i gael oes faith wedi hyny mewn byd sydd etto yn anweledig.

Y mae yn perthyn i'r ddaau fyd yma eu materion pennodol. Y mae ei faterion yn perthyn i'r byd darfodedig—materion y corph; ac y mae yn briodol gofalu am y materion hyny yn gyf-atebol i'r pwys fyddo ynddynt. Y mae yn perthyn i ddyn fater mawr arall, fel y mae yn ddeiliad byd tragwyddol—y mater hwnw sydd yn sefyll rhyngddo a Duw; y mater ag y mae cydwybod pob dyn, pan yn effro, yn dwyn tystiolaeth iddo; y mater ag y mae braidd pob dyn yn angeu yn edrych i mewn iddo, i gwisio cael allan pa fodd y bydd yn sefyll; y mater fydd

* Y mae yn llawenydd mawr genym allu anrhegu ein darllenwyr â'r bregeth ardderchog hon fel diweddglô i'r gyfrol. Y mae lliaws o wrandawyr y diwedd-ar Barch. JOHN JONES yn cofio am dani fel un o brif bregethau ei flynyddoedd diweddfaf, a mynych y dadganwyd dymuniad am ei chael yn argraphedig yn y casgliad hwn. Ofnid nas gellid ei chael, am nad oedd dim o honi wedi ei adael yn llaw-ysgrif yr awdwr. Ond anrhegwyd ni â'r copi cyflawn hwn o honi trwy garedigrwydd J. GRIFFITHS, Ysw., Egrement, Birkenhead, yr hwn oedd wedi ei hysgrifenu mewn llaw fer wrth ei gwrandaw.—GOL.

yn cael ei egluro a'i benderfynu yn mrawdle Crist! I benderfynu ac egluro y mater mawr hwn yr ordeiniwyd y dydd ofnadwy hwnw; a'r mater ag y mae sefyllfa dragwyddol pob dyn yn troi arno. Y mater mawr yma sydd i benderfynu sefyllfa dyn yn y byd ar ol hwn. Os bydd i'r mater sydd yn sefyll rhyngot ti a Duw brofi yn ddrwg yn niwedd yr oes fer yma, fe sicrhâ hyny i ti dragwyddoldeb o wae; ond os bydd i'r mater sydd rhyngot ti a Duw brofi yn dda yn angeu, fe fydd yn canlyn hyny dragwyddoldeb hapus: fe felusa hyny bob peth y byd tragwyddol i ti.

Peth o bwys mawr, gan hyny, gyfeillion, ydyw eich cael chwi a minnau i dalu sylw priodol i'r ddau fater; i ofalu am y naill a'r llall yn gyfattedbol i'r pwys sydd ynddynt. Y cyfeiliornad mawr sydd yn dinystrio cenhedloedd y ddaear yn gyffredin yw cyfyngu eu gofal yn hollol at bethau darfodedig, ac esgeuluso pethau tragwyddol. Am a wn i, nad allwn gymmeryd annuwioldeb yn mhob ffurf i mewn i hyn; sef, fod dynion yn gosod eu dedwyddwch yn y darfodedig; cyfyngu eu gofal yn hollol at bethau darfodedig, a disgwyl gormod wrth y darfodedig; ac felly esgeuluso y pethau hyny sydd yn dragwyddol. Y mae crefydd yn codi ei pherchen i ofalu am y ddau fater. Y mae gan dduwioldeb "addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd." Y mae yn gwneuthur dyn yn ddyd i'r byd hwn ac i'r byd a ddaw: y mae yn "gwneyd y goreu o'r ddau fydd." Y mae yn rhoddi i bob un o'r ddau fater ei le priodol. Y mae yn "ceisio yn gyntaf doyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef;" y mae yn "cymmeryd gafael yn y bywyd tragwyddol," beth bynag fydd ganddo; y mae yn "trysori sail dda erbyn yr amser sydd ar ddyfod," faint bynag a all gyrhaedd o ddaioni y bywyd hwn; y mae yn "ymdrechu am fyned i mewn trwy y porth cyfyng," ac i gerdded y "ffordd gul sydd yn arwain i'r bywyd," trwy ba faint bynag o anhawsderau y rhaid iddo fyned. Y mae yn prisio bywyd tragwyddol uwch law pob peth arall. Y mae yn barod, os rhaid, i wneyd aberth o bob peth darfodedig er mwyn cael gafael ar fywyd tragwyddol.

Ond, yr ydym yn cael fod Ysbryd yr Arglwydd yn fynych yn y Beibl, i'r dyben o argyhoeddi dynion o wagedd pethau darfodedig, a phwys pethau tragwyddol, yn dal y ddau yn ngwyneb eu gilydd—y darfodedig a'r tragwyddol; ac yn aml yn dadleu fod y naill yn ddibwys am ei fod yn ddarfodedig, a'r llall yn bwysig am ei fod yn dragwyddol. Yr ydym yn cael rhywbeth fel yma yn mhregeth Crist ar y mynydd: "Na thrysorwch iwch' drysorau ar y ddaear." Pa ham ar y ddaear? Wel, am nad oes yma barhâd mewn dim. Y mae yma "wyfyn a rhwd yn llygru:" nid oes yma ddim parhâd mewn dim. Y mae hyn ar unwaith yn gwneuthur pethau y ddaear yn annheil-

wng o'ch serch ac o'ch ymddiried chwi—nid oes dim parhâd ynddynt. Beth bynag a allant fod, a pha beth bynag a allant ei sddaw am yr amser presennol, y mae hyn ar unwaith yn eu gwneyd yn ddiwerth i chwi—nid oes dim parhâd ynddynt. Y mae arnoch chwi eisieu dedwyddwch wedi i'r pethau hyn fyned ar dân. Y mae yma "wyfyn a rhwd yn llygru," ac nid oes ddiogelwch chwaith ynddynt. Ni fedrwch chwi ddim cael hawl sier ynddynt, o blegid y mae yma "ladron yn cloddio trwodd ac yn lladrata." Er nad oes ynddynt ond parhâd byr, fo allai nad ellwch chwi ddim cael hawl iddynt, na chadw meddiant o honynt, tra y byddont yn parhau. Felly, "na thrysorwch iwch' drysorau ar y ddaear;" hyny ydyw, nac edrychwch ar bethau y ddaear fel y pethau mwyaf gwerthfawr; peidiwch a'u prisio yn rhy uchel; peidiwch a rhoddi y blaen iddynt yn eich gofal a'ch serchiadau: "Eithr trysorwch iwch' drysorau yn y nef." Pa ham yn y nef? Wel, y mae parhâd i'r pethau hyny. Nid oes yno ddim "gwyfyn na rhwd yn llygru." Y mae pob peth y wlad hono yn parhau byth; ac y mae hawl i'r pethau hyny yn ddiogel hefyd; nid oes yno ddim "lladron yn cloddio trwodd ac yn lladrata." Dyna y pethau, chwi welwch, y mae Iesu Grist yn eu dadlen sydd yn gosod gwerth ar bethau y nef, fel ag i deilyngu i ni eu ceisio o flaen pob peth darfodedig—am fod parhâd ynddynt. Nid oes yno ddim "gwyfyn na rhwd yn llygru:" ac, heb law hyny, nid oes berygl i'r hawl i bethau cudd y wlad hono gael ei cholli byth; nid oes yno "ladron i gloddio drwodd ac i ladrata." Felly, "trysorwch yn y nef." Edrychwch ar bethau y nef fel y pethau mwyaf eu gwerth; sicrhewch eich hawl ynddynt o flaen pob dim:—"trysorwch yn y nef."

Wel, rhywbeth tebyg a gawn ni yn y testyn a ddarllenwyd, fy mhobl i. Y mae y terfynedig a'r tragwyddol yn cael eu dal yn ngwyneb eu gilydd yn y testyn hwn:—"Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod: canys y nefoedd a ddarfyddant fel mŵg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant meirw." Dyna y cwbl a welsom ni o greadigaeth Duw: "y nefoedd, a'r ddaear a'i phreswylwyr," ac ni welwch chwi mo honynt hwy i gyd. Ond edrychwch dros y cwbl—nid oes yma ddim byd i chwi; darfodedig ydyw y cwbl. Nid oes yma ddim yn werth eich ymddiried; nid oes yma ddim y dylech chwi ei brisio: nid oes yma ddim yn haeddu y lle blaenaf yn eich serchiadau; nid oes yma ddim a wna fawr o ddaioni i chwi—darfodedig ydyw y cwbl! Chwi fyddwch wedi eich tori oddi wrthynt yn ebrwydd; chwi fyddwch wedi cael eich hunain mewn sefyllfa nad all y pethau hyn roi dim gwasanaeth i chwi. Y mae hyn arno ei hun yn eu gwneyd yn ddiwerth i chwi: y maent yn ddarfodedig,

fel nad oes eisieu dim chwaneg o brawf. "Ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd." Yr oeddwn yn meddwl uwch ben y testyn yma, fy mhobl i, nad ydyw y Duw hollwybodol yn gwybod am ddim yn werth ei gymmhell i chwi a minnau, i'n darparu erbyn tragwyddoldeb, ond ei "iachawdwriaeth." Ni welodd efe ddim yn werth ei gymmhell arnom ond hon. Chwi a wyddoch y gwelodd efe lawer, ac y gwybu am bob peth y gellwch chwi byth eu canfod: ond ni chanfu efe ddim erioed, ac ni wybu am ddim gwerth i'w gymmhell arnat ti a minnau, i'n darparu yn dda i symmud i'r byd ar ol hwn, ond ei "iachawdwriaeth." O Dduw! dod i ni dy iachawdwriaeth! Dyro i ni gael hon, beth bynag fydd ein rhan o'r pethau darfodedig yma!

Gallwn i feddwl fod llawer iawn o briodoldeb yn y sylw—gallwn feddwl mai rheol pur gywir i ni benderfynu gwerth pob dedwyddwch, a phwys pob trueni, ydyw edrych ar bob un o honynt yn bwysig yn gyfatebol i'w barhâd, pa faint bynag yw. Nid oes yn bossibl i drueni darfodedig fod yn bwysig iawn, pa mor chwerw bynag y gallai fod. Os oes yma rywbeth yn sicrhau y derfydd, nid ydyw ddim yn werth i ti i ymdrafferthu llawer yn ei gylch; os oes gobaith y derfydd ef, y mae hyny ynddo ei hun yn ei wneyd yn ddibwys. Ac nid ydyw dedwyddwch darfodedig ddim yn rhyw lawer iawn o werth. Gellwch brynu nwyddau dedwyddwch felly yn rhy ddrud:—dedwyddwch darfodedig ydyw! Ond am y trueni hwnw sydd i barhau yn dragywydd, nid ydyw yn bossibl dyweyd gwerth gwaredigaeth oddi wrtho, nac yn bossibl ei cheisio drwy foddion rhy ddrud. Ac am ddedwyddwch tragwyddol, nid yw yn bossibl traethu na dirnad ei lawn werth. Gallwn i feddwl fod rhywbeth fel hyn i'w weled yn ngeiriau Paul:—"Ein byr ysgafn gystudd ni.....tragwyddol bwys gogoniant." Y mae y cystudd yn ysgafn am ei fod yn fyr; ac y mae ei fod yn fyr yn ei wneyd yn ddibwys. Nid all fod dim rhyw lawer iawn o bwys mewn trueni darfodedig. Ac y mae y "gogoniant" yn dra-gwyddol—y mae hyny ynddo ei hunan yn gosod pwys arno:—"tragwyddol bwys gogoniant!"

Ond y mae yn debyg ein bod i ddeall wrth "y nefoedd," yn y testyn hwn, nid nefoedd y gogoniant; o blegid y mae y nefoedd hono i barhau byth. Nid ydyw yn bossibl i'r iachawdwriaeth gael tragwyddol barhâd heb i hono fod byth. Yn nhragyddoldeb nefoedd y gogoniant y mae yr iachawdwriaeth yn cael ei thragyddol barhâd. I hyny y bydd iachawdwriaeth wedi troi yn y man: bydd wedi troi yn "fywyd tragwyddol." Yr iachawdwriaeth wedi gorphen ei gwaith fydd bywyd tragwyddol. Y mae hi yn briodol iawn yn myned dan yr enw "iachawdwriaeth" tra y byddo ei gwrthddrychau mewn peryglon. Tra y

byddo hi yn actio fel gwardigaeth—tra y byddo ei gwrthddrychau yn agored o hyd i gael eu niweidio gan y bwystfilod rheibus—tra y byddo rhyw un o honynt i'w gael o afael ei beryglon—tra y byddo rhyw un i'w waredu o ddannedd y llew ac o balf yr arth, y mae hi, tra y byddo ei gwrthddrychau mewn sefyllfa fel yna, yn briodol iawn yn cael ei galw yn “iachawdwriaeth.” Felly y mae hi yn actio—fel gwardigaeth. Tra y byddo ei gwrthddrychau mewn perygl, ei gwaith hi ydyw eu gwaredu o'u peryglon. Ond wedi sicrhau ei gwrthddrychau o gyrhaedd pob perygl, ac uwch law pob ofn, yn nefoedd y gogoniant, y mae hi yn yr ystâd hono yn myned dan yr enw “bywyd tragwyddol;” a hyny yn briodol iawn, canys nid oes dim gwaith gwaredu arnynt mwy. “Bywyd tragwyddol!” bywyd yn yr ystâd uchaf; bywyd yn y cyflwr uchaf y gallasai Duw ei osod; bywyd wedi i Dduw wneyd ei oren arno: “bywyd tragwyddol!” Y mae yr Arglwydd wedi gweithredu tuag at ei bobl yn y sefyllfa hono, fy mhobl i, “i foddlonrwydd ei ddaioni ef.” O! y maent yn eiriau cryfion!—“i foddlonrwydd ei ddaioni ef.” Cariad anfeidrol wedi cael ei foddhau yn berffraith yn nedwyddwch ei wrthddrychau, fel na ddymunai efe ddim byth eu gweled yn fwy hapus:—“i foddlonrwydd ei ddaioni ef.” Cariad anfeidrol Duw tuag at bechaduriaid wedi ei *blesio* ei hun, a *phlesio* ei hun yn berffraith—wedi gweithredu tuag atynt “i foddlonrwydd ei ddaioni ef.” O! y mae hwn yn ddedwyddwch! Ni fedri di dderbyn dim chwanegiad ato byth: fe fydd dy lestr di yn llawn! Ac fe fydd iddo barhâd tragwyddol hefyd: nis gelli ddisgwyl dim ond dedwyddwch yn mlaen: parhaed tragwyddoldeb faint a fyno, fe bery y dedwyddwch cyhyd ag yntau! Nid oes dim byd yn werthfawr i ni, fy mhobl i, ond iachawdwriaeth Duw.

Ond wrth “nefoedd” ein testyn, ni a allwn feddwl, y mae i ni ddeall ffurfafen y sêr. Hen nefoedd fawr ydyw hono, eang iawn. Ac y mae yma hefyd, dybygid, olwg ar y cyfoeth mawr o fydoedd sydd gan y Crcawdwr yn y nefoedd. Y mae hi yn cael edrych arni, dybygwn i, naill ai fel y peth mwyaf sefydlog a pharhaus o bob peth adnabyddus i ni mewn natur—ond y mae yr iachawdwriaeth i gael ei chario y tu hwnt iddi, y tu draw iddi mewn parhâd—neu ynte, fod yma olwg, fel y dywedwyd, ar y cyfoeth mawr sydd ynddi. Y mae yn yr hen nefoedd serenog yna fydoedd afrifed, mawrion iawn; ac nid oes neb ond Duw yn gwybod maint y cyfoeth sydd ynddynt. Ond pe caet ti allu gan Dduw, a chaniatâd i fyned am adeg i'r bydoedd yma i gyd, y naill ar ol y llall, a chymmeryd meddiant i ti dy hun o bob peth gwerthfawr a welit yn mhob un, y mae yn debyg iawn, pe caet ti ymweled â'r cwbl, y cymmerai y daith filiynau o flynyddoedd o dy dymmor, ac fe allai y dychwelit yn

ol gyda rhyw gyfoeth anghyffredin—ond pe byddai i ni edrych drwy yr holl gasgliad i gyd, ni byddai ynddo ddim tuag at godi dy ben ger bron brawdle Crist. O! na: trefn iachawdwriaeth am gymmod â Duw!—iawn trwy aberth y groes, a sancteiddiad trwy waed Iesu Grist, yn unig a rydd hyder i ti sefyll yn nydd y farn. Na: nid elli di gael dim yn yr holl gasgliad a wnaiff y tro i ti—dim byd i woini cysur i ti yn anghy, na dim tuag at fyned i'r byd ar ol hwn. Ond ti gei y cwbl yn yr iachawdwriaeth. O! diolch am yr iachawdwriaeth. Yn wir, ni buasai y byd yma yn ddim i ni, fy mhobl i, oni bae fod hon ynddi; ac ni buasai yr iaith Gymraeg ddim yn werth ei siarad oni buasai fod y gair hwn ynddi. O! diolch am yr "iachawdwriaeth a fydd byth, a'r cyfiawnder ni dderfydd!"

Neu, fe allai y golygir fod yno greaduriaid rhesymol yn y bydoedd mawrion yna, a'u bod yn greaduriaid o alluoedd cryfach o lawer na nyini; ac fe allai fod eu hoes yn filoedd o flynyddoedd i gynnyddu mewn gwybodaeth. Hwyrach eu bod wedi cychwyn yn uwch mewn gwybodaeth nag ydoedd ein tad Adda pan y daeth o dan law ei Greawdwr, ac fe allai eu bod erbyn hyn wedi cynnyddu yn fawr iawn mewn miloedd o flynyddoedd. Ond a thybied eu bod felly, ac i ti gael caniatâd i ymweled â phreswylwyr pob planed, a myned â dy gwestiynau mawr dy hun i'w cyfarfod:—"Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw?" "A wyddoch chwi pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?" "A ydych chiwi, trigolion y blaned fawr hon, yn gwybod â pha beth y deuaif fi, bechadur, ger bron yr Arglwydd, neu â pha beth yr ymddangosaf ger bron yr uchel Dduw?" Wedi i ti eu holi o un i un, y mae yn debyg iawn na chaet ti yr un ateb. Yr hen Feibl yma, wedi'r cwbl, am ateb i ryw gwestiynau fel yna, fy mhobl i! hwn yn unig a rydd ateb i'n cwestiynau mawr ni: yn hwn y mae i ti gael yr holl ddarpariaeth sydd arnat ei heisien erbyn tragwyddoldeb yn gyflawn gyda'u gilydd, yn drysoredig mewn Cyfryngwr. Bendedigedig fyddo Duw am hyny! O Arglwydd! dod i ni dy iachawdwriaeth! onidê, fy mhobl i? Gadewch i ni weddio y weddi hon am dani, bob yn ail â'i chanmawl.

Neu, fe allai fod yma olwg ar sefydlogrwydd ordeiniadau y nefoedd. Y mae ordeiniadau y nefoedd yn ddiareb yn y Beibl am eu sefydlogrwydd a'u parhâd. Pan yr oedd Ysbryd Duw yn edrych am gymmhariaeth i osod allan sefydlogrwydd a pharhâd teyrnas y Messiah, y mae yn debyg iddo ddethol yr oreu. Fe wyddai efe lle yr oedd llawer o honynt, ac y mae yn debyg iawn iddo bigo allan y gryfaf oedd i'w chael; a hon a ddewisodd efe; sef, ei bod "fel yr haul," neu "fel y lleuad;" ac y mae hon, bellach, yn ddiareb yn y Beibl. Nid oes dim byd mor sefydlog ag ordeiniadau y nefoedd yn y byd gwledig. Y mae

cyfnewidiadau pwysig yn myned dros wyneb y ddaear; ond y mae wyneb y nefoedd yr un fath o hyd trwy yr oesoedd a'r cenedlaethau. Y mae yr haul a'r lleuad yn cadw eu hamserau gosodedig, a'r holl sêr sefydlog yn cadw eu lleoedd pennodol. Na, na: nid ellwch chwi byth weled un terfysg ar wyneb yr hen ffurfafen fawr, lās, lachar, yna: nid oes yna ddim cynnhwrf byth. Y mae hon yn ddiareb yn y Beibl am ei sefydlogrwydd. Y mae gorseddau y ddaear yn cael eu dymchwelyd yn y chwyl-droadau mawr sydd yma; y mae cyfnewidiadau pwysig yn cymmeryd lle ar wyneb y ddaear i gyd, weithiau mewn amser byr iawn, fel y gellir ei galw yn "nefoedd newydd a daear newydd," er nad oes etto ddim cyfiawnder wedi dyfod i gartrefu. Y mae hi yn newid ei hwyneb, chwi a welwch: nid all hi ddisgwyl dim byd gwell, druan. Ond am yr hen nefoedd yna, y mae hi yr un fath o hyd trwy yr oesoedd a'r cenedlaethau. Fel megys ag y mae yr haul yn taflu ei lewyrch ar lwybr dy draed di y dydd hwn, felly y mae yn cofio yn dda, y tafai, yn yr hen amser, ei lewyrch i'r hen Abraham yn nhir Mesopotamia, ac ar lwybr Jacob pan yn ffoi o dŷ Laban ei dad-yn-nghyfraith. Y mae efe yn cyflawni ei swydd yr un fath o hyd. Ond pa hyd bynag y pery ordeiniadau y nefoedd heb gyfnewid—pa hyd bynag y pery etto, fy mhobl i, y mae yr iachawdwriaeth i sefyll wedi i'r bydoedd yna syrthio; y mae yr iachawdwriaeth i fyw wedi iddynt hwy farw i gyd; y mae yr iachawdwriaeth i barhau wedi eu colli allan o fod. Y mae hi i sefyll ei hunan yn rhyfeddod tragwyddol i saint ac i angylion. Yr ydwyf fi yn ammheu yn fawr iawn a fydd eisieu dim arall i lenwi chwilfrydedd na sant na seraph i dragwyddoldeb. Yr ydwyf fi yn credu y gwelant yn yr iachawdwriaeth lawn ddigon i lenwi eu meddwl am byth. Y mae hon i fod byth; y mae wedi ei hordeinio i barhau byth; a thrwy barhau byth y mae hi yn ateb ei dybenion mawr. Ond "y nefoedd a ddarfyddant fel mwg." Fe allai mai y meddwl ydyw, mor ddisymmwrth a cholofn mwg. Chwi a welsoch weithiau, draw yn sir Gaer yna, golofn o fwg tew yn esgyn i fyny o dref Liverpool. Y mae ei phen uchaf yn cyrhaedd en-trych awyr, a'i phen isaf yn toi tref Liverpool. Gallech feddwl ei bod yn gadarn fel y mynyddau—ond awel o wynt a'i caria i ffordd. Fe allai mai mor ddisymmwrth a hyny y collwn ninnau y nefoedd yna ryw ddiwrnod. Pan y daw bloedd yr archangel i dy alw i fyny o'r meirw, ni ryfeddwn i ddim nad y peth cyntaf a wnei, wedi agor dy lygaid, fydd edrych i fyny i gael gweled o ba le y daeth y floedd a sfonyddodd ar dy lwch. Fe allai y cei di weled y pryd hyny haul a lloer, bob un yn ei le priodol. Ac ni ryfeddwn i ddim na bydd i'r cyfyngder ar y ddaear dynu dy sylw dipyn—y beddau yn agor, y creigiau yn hollti, y myn-yddoedd yn neidio fel hyrddod, a'r brynau fel wyn defaid.

Ni ryfeddwn i ddim nad allai y cynnhyrfiadau mawr yna beri i ti edrych i lawr am funydn; ond erbyn y codi di dy olygon i fyny i'r nefoedd, fe fydd yr hen nefoedd yna wedi myned heibio "fel mwg," ac ni bydd yna ddim i dynu dy sylw uwch ben ond gogoniant y Barnwr! "Y nefoedd a ddarfyddant" felly, mor ddisymmwrth a cholofn mwg.

Y mae rhai o honynt hwy, y bobl ddoethion yna, yr wyf yn deall, yn ceisio dadleu—ond nid oes ganddynt hwy ddim sicrwydd chwaith—na ddiddymir mo'r bydoedd uwch ben. Nid ydwyf fi ddim yn dyweyd dim am hyny. Nid oes genyf fi ond ceisio esbonio fel y mao geiriau yr Iesu yn fy nysgu, fod yn "haws i'r nefoedd fyned heibio, nag i un iot nac un tipyn o'r gyfraith ballu." Fe fydd yn haws i'r bydoedd yna syrthio i ddiddymdra nag i'r iachawdwriaeth syrthio i lawr. Y mae hyn yna yn ddigon i mi. Y mae yn ymddangos yn ddigon eglur yn y Beibl fod mwy wrth gefn trefn yr iachawdwriaeth nag sydd wrth gefn y greadigaeth.

Y mae mwy o sicrwydd wedi ei roddi am dragwyddol barhâd yr iachawdwriaeth nag sydd am dragwyddol barhâd y greadigaeth. Ni wn i ddim nad allai y Duw mawr ollwng y greadigaeth i dragwyddol ddiddymdra y funyd yma, am ddim a wyddom ni, heb dori ei air na llychwino dim ar ei *garitor*. Ond am yr iachawdwriaeth, nid oes dim possibl iddo ollwng hono i ddiddymdra heb dori ei air! Y mae wedi gwystlo ei *garitor* yn yr addewid:—"Tyngais unwaith i'm sancteiddrwydd, na ddywedwn gelwydd i Dafydd." 'Yr wyf yn caniatáu i bawb yn y nefoedd, ac yn mhob man trwy fy holl ymherodraeth, i edrych arnaf yn Dduw ansanctaidd, annheilwng o addoliad, oni chywllawnaf fy addewid!' Y mae hyny yn llawn ddigon. Ond dyna y meddwl sydd yn ymddangos fel yn gorwedd ar wyneb llawer o'r Ysgrythrau, heb eisieu gwaith neb o'r dysgedigion yna i'w hesbonio, mai diflanu fydd tynged y bydoedd yna ryw ddiwrnod. Byddant wedi gorphen eu gwaith. Ond ni waeth genyf fi pa fodd y try y pwngc—pa un ai diflanu a wnaiff yr hen ddaear yma, ai peidio. Pa un bynag, ni bydd dim a wnelwyf fi â hi; y mao yn debyg iawn ei bod wedi gwasanaethu hyny a wnaiff hi arnaf fi o'r bron. Ond os caf afael ar yr iachawdwriaeth, ni bydd arnaf eisieu dim byd at hon. Y mae yna lawn ddigon yn hon i mi—yr "iachawdwriaeth a fydd byth!" O Dduw! dod i mi dy iachawdwriaeth!

Y "ddaear" hefyd: y mae hithau yn "heneiddio fel dilledyn." Y mae hi yn newid, yn newid, ac yn myned trwy gyfnewidiadau o hyd. Chwi a ellwch weled rhychau henaint ar hyd ei hen wyneb hi. Beth pe bacch chwi—fe fu llawer o honoch, o ran hyny—yn gweled mynyddoedd mawr sir Gaernarfon acw: O! y mae hi yn edrych ya hen! Y mae ei hesgyrn hi yn sefyll allan

tua'r Wyddfa acw; y mae yn drueni edrych arnynt heb ddim croen. Y mae hi wedi colli tegwch ei hieuengetid er ys talm. Y mae hi yn "heneiddio"—y mae hyny yn arwydd ei bod hi yn tynu at ryw ddiweddnod—y mae hi yn "heneiddio fel dill-odyn!"

"A'i phreswylwyr" hefyd "yr un modd a fyddant meirw." Nid ydynt hwy ddim yn werth eich hymddiried—y maent yn meirw! Y maent yn myned i ffordd fel cenhedlaeth, ac y mae cenhedlaeth arall yn dyfod—cenhedlaeth gyfan yn dyfod i mewn i boblogi y byd i gyd, ac i gymmeryd gafael ar yr holl gyfoeth a grafasoch chwi ynghyd. Rhaid i ni roddi lle i'r genhedlaeth sydd wrth ein sodlau. O'r braidd nad allwn eu clywed hwynt yn siarad—rhaid i ni fyned i ffordd i wneyd tipyn o le iddynt hwy cyn iddynt ddyfod i mewn: y maent yn dyfod yn genhedlaeth gyfan i boblogi y byd i gyd—rhaid i ni glirio ymaith, i roi lle iddynt; rhaid i ni fyned ymaith fel cenhedlaeth. Gosodwch ddyn yn y man y mynoch, *marw* wnaiff efe. Rhoddwch ef yn ymherawdwr mawr, a phedwar ugain miliwn o ddynolryw o'i amgylch, a channoedd a miloedd o wfr arfog i'w amddiffyn, nes y mae y werin yn ei arswydo—marw wnaiff efe yn nghanol y cwbl, ac ni wyddoch chwi ar y ddaear pa bryd! Nid ydyw efe ddim i'w ofni pan y mae yn ymherawdwr mawr; nid ydyw yn werth i'w ofni—"mab dyn" ydyw—marw a wnaiff efe. Edrychwch ar ddynolryw yn mhob cylch, meirw y maent hwy. O! mi fyddaf fi, weithiau, yn cymmeryd math o bleser wrth wneyd i fyny, yn fy nychymyg, goreu byth y gallaf, hen gymmanfa y Bala—y gyntaf yr ydwyf yn ei chofio. Mi fyddaf yn paentio y *Green*, goreu gallaf, yr hen wagen fawr, a'r pulpud yn y canol, a'r *stages* oddi amgylch, a'r rhai oedd yn yr hen wagen hefyd—yr hen bregethwyr anwyl; ac, yn wir, mi fyddaf yn cael pleser yn gweled eu gwedd hwynt yn fy nychymyg, a chlywed eu llais. Mi a fyddaf yn cofio eu pregethau hefyd, ac yn cael bendith drwy hyny. Un o'r pethau mwyaf difyrus yn y byd genyf ydyw gwneyd i fyny, yn fy nychymyg, yr hen blant, ac edrych ar y dynion hyny oedd y pryd hwnw yn golofnau crefydd yn y Gogledd—y rhai hyny y tybid y buasai yn amhos-sibl iddi fyw hebddynt. Ond os edrychwch am dauynt heno, nid oes yma neb o honynt i'w cael—y maent wedi meirw! Yr oeddynt yn rhy dda i'w gadael ar y ddaear. Y mae y nefoedd yna wedi myned & hwynt. Yr ydym ni yn cael ein cadw i lawr fel hyn o hyd. Y mae y nefoedd yna o hyd yn ein *robbio* ni o'n pethau goreu. Os bydd rhyw un yn rhagori mewn sanct-eiddrwydd a duwioldeb, y mae y nefoedd yn myned & hwynt yn union! "Y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt" a gaf-odd fyned yno. Meirw y mae pawb yma! Nid oes yma neb yn werth ymddiried ynddo. Nid ydyw "mab dyn" ddim yn werth

i chwi ddisgwyl fawr iawn oddi wrtho. Rhoddwch ef yn yr amgylchiadau a fynoch, marw wnaiff efe. Dyna y pen teulu, y gosododd y wraig a'r plant ymddiried ynddo, O! yr oeddynt yn disgwyl llawer oddi wrtho! Ond cyn i'r plant gael hanner eu magu, marw a wnaeth efe; ac fo adawyd y plant yn amddifaid, a'r wraig yn weddw, a'u cysgod wedi ei symmud ymaith. Nid oes yma ddim ar y ddaear yn werth ein hymddiried, fy mhobl i—nid oes dim byd i'w gael yn mysg plant dynion—y mae hyn yn gwneyd y cwbl yn ofer i ni—meirw y mae pawb!

“Ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd.” Pa bryd bynag y diffydd yr haul yn y ffurfafen, ni a gawn “Haul Cyfiawnder” i roddi llewyrch ar ein llwybrau wedi hyny. Pa bryd bynag y bydd creigiau y ddaear yn myned yn chwilfriw mân, fe fydd “Craig yr oesoedd” yn aros yn ei lle, i'n diogelu wedi hyny. Wedi i holl gedrwydd uchelfrydig Libanus, a holl dderw cedyrn Basan, fyned yn ymborth i'r tân i gyd, fe fydd y “Pren afalau” a'i ddalen yn werdd y diwrnod hwnw. Fe fydd miloedd a myrdd yn “eistedd dan ei gysgod ef,” ac fe fydd ei ffrwyth i'w genau yn felus iawn. O Iesu bendigedig! yr wyt yn werth y cwbl filiynau o weithiau. Ydyw yn wir, fy mhobl i! “Cyfaill ydyw a lŷn yn well na brawd.” Wedi i bob câr a chyfaill gilio draw, fe fydd efe gyda ni wedi hyny. Efe a fydd gyda ni, i fyned trwy angu i'r byd anweledig. Efe a wnaiff i fyny am eu colli hwynt i gyd—a myrdd mwy. Ni theimli fod arnat eisieu cwmni neb a adewaist ti ar dy ol ar y ddaear, ond i ti gael myned ymaith yn ei gwmni ef.

“Fy iachawdwriaeth i a fydd byth.” Mi a'm helpiaf fy hun ag amser heno—hwyrach na chaf fi ddim cyfle y rhawg etto. “Iachawdwriaeth a fydd byth!” Y mae Duw wedi rhoddi gwaith ar yr iachawdwriaeth ag sydd yn werth ei chadw am dragwyddoldeb. Os dylem ni alw dim yn *faster-piece* gwaith y Duw mawr, gallwn i feddwl mai yr iachawdwriaeth ydyw hwnw, yn ol dim a amlygwyd i ni. Wyddoch chwi o'r goreu, yma, fod y celfyddydwy cywrain cywrain yna yn gwneuthur rhyw *bisin* o waith ag y maent yn ei fwriadu i fod yn *faster-piece* pob peth arall. Y maent yn gwneyd eu goreu ar hwnw; y maent am i hwnw gael aros yn y golwg, a'i gadw i'r oesoedd a ddêl; y maent yn foddllawn i gollu pob peth arall ond i hwnw gael ei gadw yn y golwg. Mi allwn i feddwl, os gwnaeth Duw ddim yn werth ei alw yn *faster-piece*—mi allwn i feddwl mai trefn yr iachawdwriaeth ydyw hwnw. Y mae y Beibl yn siarad yn uchel iawn am dani. Y mae yn sôn am dani fel “dirgelwch Duw,” a “gallu Duw,” a “doethineb Duw.” Yn nhrefn yr iachawdwriaeth y gwelir ei “fawr amryw ddoethineb” ef. Dwy natur mewn un person—a dwy natur mor annhebyg i'w gilydd, a'r fath wahaniaeth anfeidrol rhyngddynt; etto uno y ddwy yn

y fath fodd ag i fod yn un person; y mae yn beth nad allasai ond y meddwl anfeidrol ei hunan wybod fod yn bossibl iddo gymmeryd lle—i wybod fod modd ei wneyd. Ac nis gallasai ond y meddwl anfeidrol egluro y fath berson a hwn yn y fath fodd ag i gynnyrchu y dyben a'r amcan pwysig mewn golwg. Nid ydym ni etto yn gweled dim ond tipyn o'r tu allan; y mae ei fawredd o'n golwg ni. Dirgelwch ydyw ei fawredd i gyd! Y mae ei fawredd o'r golwg, yn ddirgelwch anamgyffredadwy i ni yn y fuchedd hon; ond yr ydym yn gobeithio y "cawn ei weled ef megys ag y mae" yn y man. Ni a gawn amlygiadau mwy o'i ogoniant wedi i ni ddyfod yn alluog i'w ddal yn well. Y mae yr iachawdwriaeth yn werth ei chynnal mewn bod, a'i chadw yn y golwg yn dragwydd, am mai dyma yr amlygiad uchaf o briodoliaethau Duw, yn ol dim a amlygwyd i ni, a wnaeth efe erioed.

Heb law hyny, y mae yr iachawdwriaeth yn sefydlu dedwyddwch mor uchel—y mae hi yn codi ei gwrthddrych i fyny i ddedwyddwch mor berffaith, wedi iddi gael gorphen ei gwaith—fe fydd hwn yn ddedwyddwch gwerth rhoi tragwyddol barhâd iddo. Nid oes yma ddim dedwyddwch yn y byd hwn yn werth rhoi tragwyddol barhâd iddo. Nid oes yma ddim mwyniant yn werth rhoi oes dragwyddol iddo. Nid oes neb yn mwynhau, nad ydyw yn dioddef llawer. Os oes genym bethau melusion yn ein cwpanau, y maent yn gymmysgedig â phethau chwerwon. Yn wir, yr ydwyf fi wedi cyfarfod â chymmaint o bethau chwerwon ag o bethau melusion; a phe byddai i mi gael cynnyg ar y danteithion drachefn, am a wn i na fyddai yn llawn cystal genyf fod hebddynt, heb y dail surion gyda hwynt, onid é, y mae yn bur debyg mai gwledda arnynt a wnawn i, heb ddymuno dim gwell na rhagorach na hwynt. Y mae yma lawer o bethau i'w mwynhau, ond y mae yma hefyd lawer o bethau i'w dioddef. Y mae yma gysuron i'w mwynhau trwy lawer o gyssylltiadau, ond y mae yma amryw bethau i'w dioddef hefyd trwy yr un cyssylltiadau: nid oes yma un bibell yn cario dwfr cysur, na red drwyddi ddyfroedd chwerwon iawn. Felly yr ydwyf fi wedi cael y byd, nes yr wyf fi bellach wedi myned i beidio disgwyl fawr iawn oddi wrtho; ond yr wyf yn dymuno troi fy ngolwg i'r byd arall, gan edrych am ddedwyddwch at wrthddrychau uwch law y byd hwn. O Arglwydd! gâd i ni gael ein diddyfnau oddi wrth y dedwyddwch darfodedig yma; sefydla ein bryd ar y gwrthddrychau sydd tu draw i'r llen! Ond am ddedwyddwch yr iachawdwriaeth, wedi iddi hi gael gwneyd ei gwaith ar ei gwrthddrychau, fe fydd hwn yn ddedwyddwch mor berffaith fel y bydd yn werth rhoi oes dragwyddol iddo. Byddai yn *bity* diffodd y dedwyddwch perffaith hwn; byddai yn resyn ei golli, wedi ei godi i fyny mor

uchel. Y mae dedwyddwch yr iachawdwriaeth yn gadael ei gwrthddrych *ymddo ei hun* yn ddedwydd. Dyma ddedwyddwch nad oes dim modd chwanegu ato; fe fydd dy lestr yn llawn—mwynhau Duw i dragwyddoldeb, ymhyfrydu yn yr Hollalluog ei hunan, cynnal cymmundeb âg ef yn ddidor, teimlo dy hun yn gyfoethog byth yn ei gyfoeth mawr ef, teimlo mai efe ydyw ffynnon ddihsbydd dy ddedwyddwch di, at ymddigoni felly yn ei ddaioni anfeidrol ef. O! y mae hwn yn ddedwyddwch na fedrwn ni mo'i ddarlunio. Wedi i hwn gael ei godi i fan sicr, y mae yn werth rhoddi oes dragwyddol iddo. Nid ydyw dedwyddwch uchaf y ddaear yma ddim yn werth ei gynnal i fyny yn hir, ac nid oes fawr o golled i neb ar e^ol, oddi eithr i'r rhai a gaiff fyned i'r trueni. Gwared ni, O Arglwydd! rhag myned i'r lle ofnadwy hwnw!

Heb law hyny, mi feddyliwn fod yr iachawdwriaeth, trwy ei bod yn dragwyddol, yn dyfod yn ddigon o reswm dros ymddarostyngiad mawr yr Arglwydd Iesu Grist, yn dyfod i'n natur, a dioddef a marw yn ein lle. Fe fuaswn i yn gweled tipyn o reswm yn ngwrthddadl yr *infidel* oni bae hyn; sef, fod yn afresymol i'r Duw mawr anfeidrol dalu cymmaint o sylw i'n byd bychan ni—un o'r rhai lleiaf ydyw yr hen ddaearen yma hefyd—fel ag i anfon ei Fab i wisgo natur dyn, a dioddef a marw yn ein lle. Yn wir, mi fuaswn innau hefyd yn ei weled braidd yn ormod o sylw i'w dalu i'r hen ddaear—yn wastraff ar drugaredd—yn beth ammhriodol yn y greadigaeth, oni bae fy mod yn deall fod Crist, trwy ymddangos yn y cnawd, a dioddef a marw, wedi gosod i lawr sail, ac wedi sicrhau “iachawdwriaeth a fydd byth”—iachawdwriaeth heb ddim diwedd byth i fod arni! Y mae bywyd tragwyddol un enaid, fy mhobl i, o werth anfeidrol! Y mae dedwyddwch tragwyddol un enaid yn fwy gwerth nag ydyw dedwyddwch yr holl greadigaeth i gyd! Dedwyddwch tragwyddol un enaid—nid oes dim possibl dyweyd ei werth! Beth am fywyd tragwyddol miliynau; ie, miliynau o filiynau! Y mae Iesu Grist wedi sicrhau hyny trwy ymddangos yn y cnawd, a thrwy ddioddef a marw: ac fe aeth drwy y cwbl mewn amser byr; ni bu efe ddim ond tair blynedd ar ddeg ar hugain yn sicrhau tynged dragwyddol ddedwydd i filiynau dirif; ac y mae yn dda genyf allu dyweyd wrthy, fy mhobl i, nad ydyw efe ddim gwaeth wedi darfod chwaith; ni cholodd efe ddim: y mae mor ddedwydd a gogoneddus ag erioed. Yn folianus y byddo ei enw byth! yn uchel y byddo ei enw yn dragwydd! Ni cholodd efe ddim ar y ddaear yn yr anturiaeth fawr: ond efe a ennillodd hyn gyda brys—bywyd tragwyddol “tyrfa fawr na ddichon neb eu rhifo.” Yr ydwyf yn edrych ar hyn yn ddaioni mor fawr, mor werthfawr, fel nad oedd dim yn bossibl i Dduw wario gormod arno, ond yn unig iddo gadw ei

garitor—ac fe wnaeth hyny. Dyma yr ateb y mae y Beibl yn ei roddi am ddyfodiad y Messiah:—“Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwyl bynag a greddo ynddo ef, ond caffael o hono *fywyd tragwyddol*.” Dyna hi wedi ateb yn *right noble!* Beth bynag oedd mawredd y darostyngiad, a dyfnder y tlodi—beth bynag oedd ing a chwys yr ardd—beth bynag ydoedd angu dirmygedig a phoenus y groes, y maent wedi ateb dyben teilwng o'r aberth mawr i gyd; sef, caffael bywyd tragwyddol i dyrfa aneirif. Y mae yma bob peth yn iawn. Y mae y dyben yn deilwng o'r holl ddarpariaeth; sef, gogoniant mynegol uchel i Dduw oddi wrth y cwbl.

Y mae yr iachawdwriaeth i fod byth:—dyna y rheswm dros fod y saint yn gosod y fath fri arni, ac yn rhoi y fath ganmoliaeth uchel iddi. Ol y maent yn siarad yn uchel am dani yn y Beibl. “Gorfoleddwn,” medd un, “yn dy iachawdwriaeth di.” “Fy nghalon a ymlawenycha yn dy iachawdwriaeth.” “Disgwyliais wrth dy iachawdwriaeth di, O Arglwydd!” “Yn dy iachawdwriaeth di mor ddirfawr yr ymhyfyda.” “Hiraethais O Arglwydd! am dy iachawdwriaeth.” Y maent yn ei chlodfori yn uchel anghyffredin. Y mae rheswm digonol dros hyny, fy mhobl i—y mae hi yn “iachawdwriaeth a fydd byth;” y mae hyny yn gosod arni y fath werth fel nad oes dim yn bossibl ei chanmawl yn ddigon uchel; y mae hi uwch law pob bendith a mawl; nid oes dim bossibl cael iaith digon cref i glodfori Daw am dani. Y mae hi i fod byth: dyna pa ham y maent yn rhoi y fath glodydd i'r Cyfryngwr, y mae yn debyg! Y maent yn benthyca pob peth mwyaf gwerthfawr, a phob peth mwyaf prydferth i'w ddarlunio:—“Rhosyn Saron,” a “lili y dyffryn oedd,” ac felly yn mlaen; ond y mae y cwbl yn rhy fyr. Y mae digon o reswm am hyn: “canyis nid oes *iachawdwriaeth* yn neb arall;” onid é, ni fuasai dim yn werth ynddo i'w ganmawl iddynt hwy. Y mae fod ynddo ef *iachawdwriaeth* wedi ei darparu, a hono yn gyfryw ag sydd yn dyfod â'r holl briodoliaethau dwyfol i'th ffaf, ac yn ffynnonau cysur i ti—y mae hyn yn ei wneyd yn deilwng o bob bendith, ac anrhydedd, a moliant yn oes oesoedd.

Wel, fy mhobl i, y mae yn dda genyf ddyweyd wrthyhych, wrth ddiweddu yn awr—y mae hon yn iachawdwriaeth, nid yn unig sydd yn ein *fitio* ni, gan ei bod hi i barhau byth, ac yn berffaith sicr o'i hamcan, ond y mae hi yn iachawdwriaeth ag y mae modd ei chael. Nid ydyw yn dda genyf fi glywed pregetha felly *at all*—dangos y pechadur ar y ddaear, a'r iachawdwriaeth yn *Jupiter* yn rhywle. Nid ydyw yn dda genyf bregetha fel yna. Y mae yr iachawdwriaeth yn beth y gellwch ei chael, fy mhobl i. Dyma sydd yn rhoddi gwerth ar oes yn y byd yma, fod iachawdwriaeth i'w chael. Nid oes dim gwerth yn y byd

mewn trigain mlynedd o oes ar y ddaear—pa beth a wnaech chwi â hwynt ond casglu defnyddiau damnedigaeth?—oni bae fod yr iachawdwriaeth i'w chael! Ond y mae yr iachawdwriaeth yn beth y gëllwch chwi ei chael. “Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi.” Y mae yr Iachawdwr “yn sefyll wrth dy ddrws di, ac yn curo” y munyd yma. Y pleser mwyaf ganddo fyddai dyfod i mewn, pe cai efe dderhyniad; ac ni ddaw efe ddim i mewn heb iachawdwriaeth gydag ef. Gwahodd ef i mewn, a thi a fyddi yn iach! A gawn ni ei wahodd ef, fy mhobl i, i gyd gyda'n gilydd yn awr? Yr hen Gymry anwyl! yn nghanol y Saeson oerion yma, y mae yn dda gan fy nghalon eich cyfarfod mor hapus hefyd—a gawn ni ei wahodd ef i mewn? Ac os unwaith i mewn, nid aiff efe ddim allan:—yr wyf finnau yn gymmaint o *Galvin* a hyny. O Ysbryd yr Arglwydd! dyro help; tyred i'n calonau i'w hagoryd! Dyro gymmhorth i ddimuno yn awr i'r Ceidwad mawr ddyfod i mewn i'r galon! O Iachawdwr pechaduriaid! yr hwn yn unig wrth dy swydd wyt Geidwad pechadur, yr ydym yn attolwg, Caniata, O Fab Duw! tyred i mewn; myn le yn ein calonau ni! O! na chaem ef i mewn! Ni a fyddem wedi cael ein hamcan heno pe y caem ef i mewn. Yr ydwyf yn meddwl, yn wir, fy mod yn gweled ambell i glicied yn codi, a fy mod yn gweled ambell i ddôr yn hanner agor. O! Ysbryd Duw! agor y drws, i'r Ceidwad bendigedig i ddyfod i mewn i'r galon! O Fab Duw! oni ddiodefaist ti boen, a gwaradwydd, a dirmyg ar y ddaear gynt—ac a raid i ni gael tafu dirmyg arnat eilwaith, drwy dy gadw y tu allan i'r porth? O Iesu mawr! attolwg, tyred i mewn! Yn wir, mi feddylw'n i fy mod yn y fan yma yn dymuno iddo ddyfod. Pa fodd yr ydych chi yn teimlo, fy mhobl i? Yr ydwyf fi yn credu, pe baem ni yn dymuno yn ddidwyll, mai i mewn y byddai; a phan ddél, ni ddaw efe ddim heb allu brenin, i fod yn Arglwydd ar dy gydwybod. O Arglwydd Iesu! tyred i mewn.

Heb law hyny—mi a wn fy mod yn eich cadw yn faith—ymarferwch â moddion iachawdwriaeth. Y mae y moddion yn ein cyrhaedd. Yn y fan yma yr ydym yn dyfod i gyfleusdra i esgeuluso neu i dderbyn yr iachawdwriaeth. Nid allwn ni ddim cael gafael arni heb y moddion. Ond y mae y moddion yn ein cyrhaedd ni; a thrwy esgeuluso y moddion y mae i ni ei hesgeuluso hi ei hunan. Os mynit ti gael gafael arni, cymmer afael ar yr holl foddion i gyd; nid yn unig ar y gwranda a darllen y Beibl wrthyt dy hun, ond gweddïa lawer ar i Ysbryd yr Arglwydd arddel y gwirionedd, a'i gymmhwysu at dy galon a'th ysbryd. Ymarfer felly â holl ordinhadau crefydd; arddel Iesu Grist, doed a ddelo. *Listia* dan ei faner—y mae yn ddyledswydd arnat wneyd hyny—y mae yn beth o'i le i ti beidio codi y groes a'i

ddilyn ef; cyffesu ei enw ar gyhoedd y ddinas fawr yma; gwneyd cof am ei angen bendigedig fel y mae efe wedi ordeinio. Dos ar ei ol fel yna, ac efe a fydd yn bur debyg o droi atat i siarad â thi; ac os dywed efe air wrthyt, fe fydd hyn yn fwy o werth i ti na'r byd, pe na bae y gair hwnaw yn ddim ond "Tangnefedd i ti!" Ni byddai yn waeth genyt weled angen nag oen yn dyfod i'th gyfarfod, os dywed efe ychydig o eiriau wrthyt—dim ond "Tangnefedd i ti!" Ti a elli edrych angen yn ei wyneb heb ddychrynu, ac ar dragwyddoldeb heb arswydo! —dim ond iddo sibrd, "Tangnefedd i ti!"

Gweddiwn lawer, anwyl wrandawyr, am gael etifeddu yr "iachawdwriaeth a fydd byth." Llefwn am gymhwysiad o'i bendithion yn wastadol. Hyn fyddo ein hymngais penaf ar y ddaear. Na fydded i ddim gael lle hon yn ein gofal a'n pryder—yr iachawdwriaeth fawr sydd yn Nghrist—o blegid yr ydym yn disgwyl mwy oddi wrthi hi nag oddi wrth bob peth arall. A bendith yr Arglwydd a fyddo ar hyn o sylwadau. Amen.¹

¹ Traddodwyd y bregeth uchod yn Liverpool yn mis Ionawr, 1856; a dyma y tro olaf, dybygid, i'r awdwr bregethu yn y dref hono.

PENNILLION.

Cyfansoddodd awdwr y PREGETHAU hyn ychydig o *bennillion*. Ni buont yn argraphedig o'r blaen. Barnasom y byddai detholiad o honynt yn dderbyniol gan y darllenwyr yn niwedd y gyfrol hon o'i bregethau, fel engraffit fechan o'i ddawn yn barddoni. Chwanegir at eu dyddordeb pan gofiom iddo eu cyfansoddi yn ystod y flwyddyn olaf y bu fyw; ac y mae yn ddiau eu bod yn fynegiad o'i fyfyrdod a'i brofiad yn yr olwg ar ddynesiaid angen a byd arall.—GOL.

H Y M N I.—8. 7.

DINAS DUW.

- “Amgylchwech Seion, ac ewch o'i hamgylch hi; rhifwch ei thyllau hi. Ystyr-
iwch ei rhagfuriau, edrychwch ar ei phalasa; fel y mynegoch i'r oes a ddelo ar ol.”—*Salm* xlviii. 12, 13.
- 1 JERUSALEM! dinas cyfarfod
Yr hād etholedig i gyd;
Ei seiliau ni syfi yn oes oesoedd
'Nol llosgi dinasoedd y byd:
Ei brenin yw ARGLWYDD IEROFAH,
Ei deddfau sydd uniawn a da;
Ei heddwch sydd lawn fel yr afon,
'Ddaw iddi byth elyn na phla.
- 2 O'i hamgylch hi ewch ac edrychwch,
Ei thyllau oll rhifwch yn awr;
Nis gwelir adfeiliad na drylliad
'Rol oesoedd o ryfel mor fawr:
Ei chaerydd ynt gedyrn, heb adfail;
Ni syfi iachawdwriseith ei Duw;
Y gelyn nis gall ei goreagyn,
Yr holl ddinasyddion gant fyw.
- 3 Llaweroedd a dd'wedant am Seion—
'Anrheithier, dymchweler hi i'r
llawr!
Gelynon ledasant eu safnau,
Mae rhyfel i'w herbyn bob awr:
Yr ARGLWYDD ei hun yw ei Cheid-
wad,
'Does elyn wna niwed i hon—
Pob cyllun i'w herbyn a siomir,
Gwaogerir ei bradwyr o'r bron.
- 4 Yr hen fryniau oeso! a giliant,
Mynyddoedd symmudant o'u lle—
Y ddacar a ysgwyd fel meddwyn,
Y sêr a ddiagynant o'r ne':
Ond dinas Jerusalem nefol
Fydd gadarn dragwyddol brydhyn,
Saif hon uwch law yr holl gynnwrf
Yn dawel, a'i muriau'n ddigryn.
- 5 Fe gaiff ei gelynon ei gweled
A'i thyllau yn gyfan bob un,
A gwelant ogoniant ei Brenin—
Dychrynant ger bron y Duw-ddyn:

- | | |
|---|--|
| <p>Ymddengys yr holl ddinasyddion
Yn saint ac angylion ynghyd,
Cydganant mewn llawn fuddugol-
iaeth
I Farnwr a Phrynwr y byd.</p> | <p>Hwy gofiant i faith dragwyddoldeb
Yr ymdrech mawr, gwaedlyd, o'r
blaen ;
Bydd cof am y frwydr yn hyfryd—
Melusa dangnefedd y nef ;
Moliennir Tywysog llu'r Arghwyd
Gan angel a sant yn un llaf.</p> |
|---|--|
- 6 Edrychant i hen faes y frwydr,
A gwelant y cyfan ar dân—

H Y M N II.—8. 7.

TRAGWYDDOLDEB.

- | | |
|--|--|
| <p>1 TRAGWYDDOLDEB maith diderfyn
Ydyw oes y Duwdod mawr,
Yno lluniwyd mewn cyfammod
Iachawdwriaeth llwch y llawr ;
Cyn bod amser, na chreadur,
Gwelodd Duw drueni dyn,
Trefnodd iachawdwriaeth gyflawn
O'i drugaredd fawr ei hun.</p> | <p>P'un ai mewn rhyw ddirfawr stac
Byddi ar y fordaith draw,
Ai yn nofio mewn tangnefedd
Heb un gofid byth na brow !</p> |
| <p>2 Yn nhragwyddoldeb maith diddiwedd
Beth, fy enaid, fydd dy ran ?
Ar y cefnfor annherfynol
Byddi byth heb weled glân :</p> | <p>3 Nid wyt etto yn adnabod
Pethau mawr anfeidrol dyn :
Hwnt i'r llen mae'r byd tragwyddol^d
Draw mae'r sylwedd mawr ei hun :
Nid yw gwae a gwynfyd ddear
Ond cysgodau gweigion iawn,
Tragwyddoldeb fydd dedwyddwch,
Neu drueni, perffaith llawn.</p> |

H Y M N III.—8. 7.

GOBAITH.

- | | |
|--|---|
| <p>1 GOBAITH mawr mae yr addewid
Wedi ei osod o fy mlaen,
Sydd yn cynnal f'enaid egwan
Rhag im' lwfrhau yn lân—
Gobaith wedi rhyfel caled
Y caf fuddugoliaeth lawn,
Gobaith boreu heb gymmlau
Ar ol noswaith dywell iawn.</p> | <p>3 Nid bob amser 'rwyf yn gweled
Rhan i mi yn Nghanaan draw,
Etto teithiaf tuag yno
Er fod rhwystran ar bob llaw ;
Gobaith y caf yno randir
Lawn, wrth goelbren mawr y nef
Gyda'r llwythau etholeddig
Yn ei bresennoldeb ef.</p> |
| <p>2 Gobaith ar ol maith gystuddiau
Gwelir fi heb boen na chlwy',
Gobaith yn y ffwrnes danllyd
Byddaf heb fy sorod mwy ;
Gobaith yn yr anial garw
Y cyrhaeddaf Ganaan wlad,
Wedi crwydro'n mhell o'm cartref
Gobaith dod i dŷ fy Nhad.</p> | <p>4 Pan caf olwg draw drwy'r cwmwl
Ar y nefol hyfryd wlad,
Cartref llawn dedwyddwch nefol—
Trigfan teulu mawr fy Nhad,
Gobaith yw mewn gorthrymderau
Ddwg orfoledd hyfryd, llawn—
Gobaith am ogoniant nefol
Wedi ei seilio ar ddwyfol Iawn !</p> |

HYMN IV.—8. 7.

GWEDD WYNEB YE ARLWYDD.

- | | |
|--|--|
| <p>1 Y MAE gwedd dy wyneb grasol
I mi'n fywyd ac yn heddi;
Gwedd dy wyneb sydd yn symmud
Ofnau uffern fawr a'r bedd;
Gwedd dy wyneb sy'n melysu
Dyfroedd Marah chwawon iawn;
Gwedd dy wyneb sy'n diwallu
Fy anghenion oll yn llawn.</p> <p>2 Gwedd dy wyneb di a'm gwared
O'm caethiwed mawr yn lân;
Gwedd dy wyneb di a'm harwain
Trwy'r anialwch maith yn mlaen;
Gwedd dy wyneb sydd yn agor
Môr o rwystrau ger fy mron;
Gwedd dy wyneb di a'm ceidw
Yn ddiangol uwch y don.</p> | <p>4 Gwedd dy wyneb ddaw a'r manna
Im' o'r nefoedd ar fy nhaith;
Gwedd dy wyneb egyr ffynnon
Loyw yn yr anial maith;
Er archollion y seirph taulllyd
Gwedd dy wyneb bywyd ddaw;
Gwedd dy wyneb dry'r Iorddonen
Yn ei hol er maint ei braw.</p> <p>5 Gwedd dy wyneb sy'n marweiddio
Pob rhyw lygredd yawyf sydd;
Gwedd dy wyneb a gynnhyrfa
Ynof gariad, gobaith, ffydd;
Gwedd dy wyneb mewn gorthrymder
A ddwg im' orfoledd pur;
Gwedd dy wyneb a'm dyddana
Dan bob gofid, poen, a chur.</p> |
|--|--|

HYMN V.—7. 6.

Parhâd o'r un testyn.

- | | |
|--|--|
| <p>1 Mwy gwerthfawr yw dy heddwch
O Dduw! na'r perlau drud;
Mwy hyfryd yw dy gwmni
Na mwyniant pena'r byd;
Mae mwyd o'th gymdeithas
Yn dwyn tangnefedd llawn,
Mae'n symmud fy holl ofnau
Trwy rinwedd dwyfol ddawn.</p> <p>2 Dy wyneb di sy'n gyru
'Ngelynon fawr a mân,
I ffoi mewn braw yn lluoedd—
Ni safant o fy mlaen:
Ond im' gael gwedd dy wyneb
Caf oruchafiaeth lawn,
Caf ganu buddugoliaeth
Ar sail anfeidrol iawn.</p> <p>3 Mae ofnau fyrrd yn curo
Ar f'enaid ar bob llaw;</p> | <p>'Rwy'n ofni'r drwg a welaf,
'Rwy'n ofni drygau ddaw;
Ond im' gael gwedd dy wyneb
Pwy all fy nrygu mwy?
Gorphwysaf byth yn ddiogel
Dan nawdd dy farwol glwy.</p> <p>4 Gelynon oddi allan
Yn barod beunydd sydd;
O fewn y mae gelynon
Yn cynllwyn im' bob dydd;
Dy wyneb di, O Arglwydd!
Fel colofn niwl a thân,
A geidw draw 'ngelynon—
Caf fuddugoliaeth lân.</p> <p>5 Y gelyn mawr diwoddaf,
Creulonaf angen cryf,
Sy'n disgwyl draw am danaf
Mewn agwedd hyllig, hyf;</p> |
|--|--|

Dan wedd dy wyneb, Arglwydd,
 Nid ofnaf rodio trwy
 Lyn tywyll cyagod anghu, *
 Ni chaf ddim niwed mwy.

6 Yn ngwedd dy wyneb grasol
 Edrychaf ar y bedd,
 Er maint ei lygredd ysol,
 Yn gartref llawn o hedd ;
 Caf am ryw fyrdd o oesoedd
 Lonyddwch tawel, clyd,
 Pan bydd pob rhyw derfysgoedd
 Fel diluw dros y byd .

7 Terfysged y cenhedloedd,
 Nid aflonyddir fi ;
 Er tywallt gwaed rhyw filoedd,
 Ni chlywaf ddim o'u cri :
 Er ochain o'm rhai anwyl
 Adewais yn y byd,
 Eu gwynfyd mwy na'u hadfyd
 'Rwy'n farw i'r rhai'n i gyd !"

* "Et feithon of a ddaw i anrhydedd, ac ni gwybydd efe : a hwy a ostyngir, ac ni wy: et oddi wrthynt ;" Job xiv. 21.

C Y N N W Y S I A D .

	TUDAL
RHAGDRAETH	iii
OFFEIRIADAETH DRAGWYDDOL MAB DUW... <i>Hebreaid</i> vii. 24 ...	17
HUNAN-AMDDIFFYNIAD DUW	26
MARW I'R DDEDDF	37
LLWON Y LLWYTHAU	46
Y FWYS O FOD YN BAROD	60
Y GOGONANT DWYFOL	68
SEFYLL YN SEGUR	79
YSGWYD Y NEFOEDD A'R DDAEAR	84
TEULU DUW	103
DUW YN PROFI ABRAHAM	115
ANGOR YR ENAID	119
CAREDIGRWYDD IEUENGCTID	128
GWNEYD EIN GOREU	140
DIRMYGU DUW	146
CYMMHWYSDERAU CRIST FEL OFFEIRIAD	159
MEDDYLLIAU OFER... ..	165
MODDION IACHAWDWRIAETH	192
PLESERAU IEUENGCTID	212
TREFN GRAS YN ERBYN PECHOD	228
MAWRION BETHAU CYFRAITH DUW	239
TRISTAU YR YSBRYD GLAN	254
BUDDUGOLIAETH CRIST AR EI ELYNION	266
CWYN RHWNG YR ARLWYDD A PHRYDAIN	274
COLLI YR ENAID	296
LLYWODRAETH DUW	311
CHWILIO YR YSGRYTHYRAU	316
Y SYMMUDIAD MAWR	335

TRWY ryw amryfusedd, gadawyd y nodiad canlynol allan, yr hwn a ddylasai fod wedi ei gyfiea yn nechreu y bregeth hon, yn t.d. 335:—

Cyfansoddodd yr awdwr y bregeth ganlynol fel corphoriad o'i fyfyrdd a'i drallod dwys ar yr achlysur o gystudd a marwolaeth ei ferch—Miss Ellen Jones; yr hon a fu farw Tachwedd y 18fed, 1848, tua 15eg mlwydd oed. Ymdengys ei bod yn eneth ieuange hynod o garuaid a chrefyddol; ac yr oedd galar ei thad, ynghyd â'r teulu oll, ar ei hol yn fawr dros ben. Y mae y bregeth hon yn nodweddiadol o'i hawdwr: gollynna ni i gael cip-olwg ar ei fywyd mewnol, a dengys nerth mawr ei serchiadau teuluaid.—GOL.

CYNNWYSIAD.

	TUDAL
CYNNORTHWYO YR AERGLWYDD <i>Barnwyf</i> v. 23 ... 348
GWEDDI DDIRGEL <i>Matthew</i> vi. 6 ... 360
CLOFFI RHWNG DAU FEDDWL 1 <i>Bren.</i> xviii. 21 ... 375
DYFOD AT GRIST <i>Ioan</i> vi. 44 ... 390
NID TRWY LU <i>Zechariah</i> iv. 6 ... 407
Y DIGOFAINT SYDD AB DDYFOD <i>Luc</i> iii. 7 ... 425
DISGWYL WRTH YR AERGLWYDD <i>Habacue</i> ii. 1—3 ... 433
BYWYD TRAGWYDDOL 1 <i>Timotheus</i> vi. 12... 447
Y PECHOD O ODINEB <i>Eccodus</i> xx. 14 ... 464
TYSTIOLAETH CYDWYBOD 2 <i>Corinthiaid</i> i. 12 . 478
RHYBUDDIO Y DRYGIONUS <i>Ezeziel</i> iii. 18 ... 496
YMOSTYNGIAD DUW I YMWELED A DYN	... <i>Hebreaid</i> ii. 6 ... 502
GWEDDI O'R GALON <i>Jeremiah</i> xxix. 13... 515
UNDEB A CHRIST <i>Ephesiaid</i> ii. 10 ... 533
CYDYNRWYDD DYNION TUAG AT DDUW	... <i>Jeremiah</i> vi. 28 ... 542
ESGUSODION DYNION AM EU PECHODAU	... <i>Ioan</i> xv. 22 ... 562
NATUR A SWYDD Y GYDWYBOD <i>Rhufeiniaid</i> ii. 15 ... 574
Y PECHOD O FEDDWOD <i>Diar.</i> xxiii. 31, 32... 590
CYFFESU CRIST <i>Matthew</i> x. 32 ... 600
SEL MEWN CREFYDD <i>Dadguddiad</i> iii. 19... 614
DYFROEDD IACHAWDWRIAETH <i>Esaiah</i> lv. 1 ... 631
AMYNEDD DUW <i>Rhufeiniaid</i> xv. 5 ... 636
AMSER <i>Ephesiaid</i> v. 16 ... 639
GOSTYNGEIDDRWYDD 1 <i>Pedr</i> v. 5. ... 644
Y DARFODEDIG A'R TRAGWYDDOL	... <i>Esaiah</i> li. 6. ... 652

HYMNAU.

DINAS DUW	8. 7. 667
TRAGWYDDOLDEB	8. 7. 668
GOBATHI	9. 7. 668
GWEDD WYNEB YR AERGLWYDD	8. 7. 669
(<i>Parhâd ar yr un testyn</i>)	7. 6. 669



